





22101699355

yi

YHRB. 45 (2)





808

CAMBRIAN BIBLIOGRAPHY:

CONTAINING

AN ACCOUNT OF THE BOOKS PRINTED IN THE WELSH
LANGUAGE, OR RELATING TO WALES, FROM THE YEAR 1546 TO THE END
OF THE EIGHTEENTH CENTURY; WITH BIOGRAPHICAL NOTICES.

BY THE LATE

Rev. William Rowlands

(*GWILYM LLEYN*).

EDITED AND ENLARGED

BY THE REV. D. SILVAN EVANS, B.D.

Rector of Llan ym Mawddwy, Merioneth.

LLANIDLOES:

PRINTED AND PUBLISHED BY JOHN PRYSE.

1869.

YHRB.45(2)



THE PUBLISHER TO THE READER.

UPWARDS of forty years ago the Rev. William Rowlands, a Wesleyan Minister stationed in Wales, began the compilation of a Register of Books published in the Principality, or having reference thereto. After many years labour and diligent research, a Prospectus was issued, proposing to publish the work in one volume at fifteen shillings. Although an energetic canvass was made throughout the Principality, the number of orders obtained were not sufficient to encourage Mr. Rowlands to place his MSS. in the hands of a printer. Some portions of the work were however published in the *Traethodydd*, and of their value a reviewer in the *Athenæum* wrote thus:—‘It yields the fruit of well-directed research, comprises a large amount of interesting matter, and furnishes the best possible aid to collectors of books, and to historians who may desire to treat either of the general or particular history of the period: with respect to Welsh affairs, as well as to Welsh literature, it is absolutely invaluable. We hope that the Author will continue his labours, and render his catalogue and commentaries complete to this third century.’ All that the Author lived to complete; but it was not until some time after his death that steps were taken to ensure its publication. The Publisher has to thank Mrs. Rowlands and her joint trustee, T. G. Jones, Esq., of Llansaintffraid, for more than one act of kindness on their part; he has also to thank the learned Editor for his valuable and willingly given assistance. It was once intended to prefix to this work a short biography of its Author; but his son-in-law, the Rev. R. Morgan, having done that in a very interesting series of papers published in *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, for 1868, there did not appear any necessity for carrying out that intention. The Subscribers who have helped to publish this work are most gratefully thanked for their assistance. Many who gave their names as Subscribers have been removed to another world,

and some have been lost sight of by the whirl of circumstances; that, however, has not been considered a sufficient reason for omitting their names from the List of Subscribers, which has been printed from the Author's own Subscription Book, with such additions as the Publisher has been able to make thereto. Much has been said respecting Welsh literature. Now and then an English penny-a-liner has declared that 'there is nothing in Welsh worth reading.' To assertions of that kind the pages which follow will form the most effective reply. It is worthy of note that the List of Subscribers to this work comprises the names of men who fill some of the highest stations in life; and equally worthy of note is the fact that a fair proportion of the Subscribers are men who 'earn their bread by the sweat of their brow.' A Monmouthshire Collier was the first person who gave his name as a subscriber to *Llyfryddiaeth y Cymry*. In no country will there be found a peasantry who are more addicted to reading than those that inhabit the mountains and valleys of Cambria. The Rev. John Blackwell, B.A., when addressing a bardic assembly, held at Denbigh in the year 1828, which numbered a distinguished member of the present Royal Family of Great Britain, gave utterance to these words:—'It is a fact not generally known beyond the confines of the Principality, that our monthly press issues out no fewer than fourteen periodicals, and what is an anomaly in the history of literature, to the pages of these the peasantry are almost the only contributors. And what has been the result? Look to our cottages; there is scarcely a shelf without its magazine and its Bible. Indeed were I requested to point out the most striking feature of the Principality, I would not speak of the wooded glen that echoes the sounding cataract, or the blue lake that chequers the mountain scenery. I would mention none of Nature's beauties—nor would I allude to the stupendous works of art that link our shores—I would fix my finger upon a bold, virtuous, and intelligent peasantry, who love their God and honour their king,—a peasantry with whom justice has sometimes to adjust her balance, but seldom to exert her sword.'

J. P.

LLANIDLOES,

July 12th, 1869.

LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

LLYFRYDDIAETH Y CYMRY:

YN CYNWYS

HANES Y LLYFRAU A GYHOEDDWDYD

YN YR IAITH GYMRAEG, AC MEWN PERTHYNAS I GYMRU

A'I THRIGOLLION, O'R FLWYDDYN 1546 HYD Y FLWYDDYN 1800; GYDA

CHOFNODAU BYWGRAFFIADOL AM EU HAWDURON, EU CYFLEITHWYR,

EU HARGRAFFYDDION, A'U CYHOEDDWYR.

GAN Y DIWEDDAR

Barch. William Rowlands

(*GWILYM LLEYN*);

GYDA CHWANEGION A CHYWEIRIADAU

GAN Y PARCH. D. SILVAN EVANS, B.D.

Periglor Llan ym Mawddwy, Meirion.

LLANIDLOES:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN JOHN PRYSE.

1869.

I

NAWDD LLENORION CYMRU

Y

CYFLWYNIR Y GWAITH HWN AR LYFRYDDIAETH GWLAD EU

GENEDIGAETH,

GAN

EU HUFUDDAF WASANAETHYDD,

Y CYHOEDDWR.

HYSBYSIAD.

YMGYMMERAIS â golygu y gwaith hwn trwy y wasg yn ol dymuniad neillduol yr Awdwr; ac ymaflais yn y gorchwyl gyda mwy o barodrwydd o herwydd fy mod yn awyddus am ei weled yn argraffedig.

Gan fod yr Awdwr yn ei Ragdraith wedi rhoddi hanes led gyflawn am Lyfryddiaeth Gymreig hyd ei amser ef, a phob hysbysrwydd angenrheidiol yng nghylch yr hyn a wnaeth yntau yn y gangen hon o lenoriaeth, nid oes achos i mi ddywedyd dim ar wedd rhagymadrodd cyffredinol i'r gwaith; ond y mae ychydig nodiadau yn ofynol gyda golwg ar fy mherthynas i ag ef.

Cyhoeddir y gwaith cyssefin yn ei gyflawnder didalfyr, megys y gadawodd yr Awdwr ef: ni wnaethpwyd ynddo ddim cyfnewidiadau, oddi eithr cyweirio enwau y llyfrau, ail ffurfio ambell frawddeg drwstan, aneglur, neu anorphenedig, ac arfer yn achlysurol air neu ymadrodd Cymreig yn lle rhai Seisionig. Gorfuwyd hefyd adael allan ambell synwrebb o ddiffyg medru darllen y llawysgrifen; ac mewn rhyw ddau neu dri o fanau dilewyd ychydig frawddegau am y tybid y buasai yr Awdwr ei hun, ar ol pwylllog ystyriaeth, yn gwneuthur yr un peth. Rhoddir y Chwanegion golygyddol, gan mwyaf, rhwng crymfachau,* ac, yn gyffredin, oddi gerth yn enwau y llyfrau, mewn llythyren fanach na'r rhelyw o gorff y gwaith: ond yn *enwau y llyfrau* nis gellid gwneuthur y gwahaniaeth hwn, pan y ceid hwynt mewn rhyw ddull wedi eu cofrestru yn y gynysgrifen. Cyfnewidiwyd a

* Gwnaed cryn chwanegion at y Ddangoseg heb un nod gwahan; ac yn y cyfeiriadau gosodwyd *d.f.* (= dan y flwyddyn) rhwng rhif yr erthygl a rhifnodau blwyddyn ymddangosiad y llyfr. Gwnaed y chwanegiad olaf hwn yn benaf er mwyn cadw y ffugrau yn fwy ar wahan oddi wrth eu gilydd. Chwanegwyd hefyd, mewn llawysgrif ffurfiol, blyg neu faint y llyfrau, yr hyn ni wna i yr Awdwr ond yn anfyfych.

chyweiriwyd y cyfryw pa bryd bynag y gwelid hwynt yn anghyflawn, neu yn anghywir, â chenyf finnau, o fewn fy nghyrhaedd, foddion i'w diwygio. Ac yn hyn mi a gymmerais lafur dirfawr, er nad oes ond ychydig o'i ol yn amlwg i'r darllenydd cyffredin; canys, cyn belled ag yr wyf wedi cael cyfleusdra i gymharu y llyfrau eu hunain â'u henwau megys y maent wedi eu cofrestru gan yr Awdwr, nid wyf wedi cyfarfod â chymmaint ag un cofnod yn hollol gywir. Y mae rhai yn amrywio llawer, ac ereill ychydig; ac y mae rhai yn gynnwysedig mewn llythraeth a gwahannodiaeth, yn hytrach nag mewn geiriau neu ymadroddion: ond ni ddygwyddodd i mi gyfarfod ag un heb ryw gymmaint o gyfnewidiad; er mai amcan ac ymgais yr Awdwr ydoedd adysgrifenu pob enwad, gydag eithaf manyldeb, megys y ceid ef yn argraffedig.*

Gellir gwneuthur cyffelyb sylw mewn perthynas i'r dyfyniadau neu enghreifftiau a roddir yn achlysurol allan o wahanol lyfrau; nid oes neb o honynt wedi eu dadysgrifenu yn hollol fel y maent i'w gweled yn y gweithiau cyssffin. Ym mhob amgylchiad o'r fath, yr un modd ag yn y teitlau, mi a adferais y cyfan yn ofalus, pa bryd bynag y byddai y llyfrau yn fy meddiant, neu ym meddiant fy nghyfeillion, yn fy ngalluogi i wneuthur hyn;† ond mewn cryn nifer o'r erthyglau nid oedd genyf ond eu gadael megys yr oeddynt yn y gynysgrifen, er ei bod yn hywel wrth eu gweddnod eu bod yn rhwym o fod i raddau mwy neu lai yn anghywir. Prin y mae eisieu crybwyll fod pob cyfnewidiad o'r fath wedi cael ei wneuthur yn anfwriadol gan yr Awdwr, ac weithiau, hwyrach, yn anocheladwy; ac nad ydynt yn effeithio nemawr ar wir werth y gwaith.

Pan ddygwyddo i'r Awdwr, yn amryfus, gofnodi llyfr nad argraffwyd erioed mo hono, yn hytrach na'i adael allan, ac felly taflu y rhifnodiadau a'r cyfeiriadau i annhrefn, gadawyd iddo yn ei le, a gosod-

* Y mae rhai cyfnewidiadau y byddai yr Awdwr bron bob amser yn eu gwneuthur; megys, er enghraifft, troi 'Llyfr Gweddi Gyffredin' yn 'Llyfr y Weddi Gyffredin'; 'argraphu' yn 'argraffu'; ac amryw fân bethau cyffelyb. Wrth adysgrifenu mae yn naturiol ddigon i ddyn syrthio yn ddiarwybod iddo i'w llythraeth arferol ei hun; ond gyda golwg ar un o'r enghreifftiau a grybwyllwyd, gellir nodi mai *argraphu* (nid *argraffu*) oedd orgraff gyffredin yr Awdwr yn y gair dan sylw, pan na byddai yn adysgrifenu argraffebion llyfrau; ac os ceid *argraphu* o gwbl yn y gynysgrifen, gellid bod braidd yn sicr mai *argraffu* ydoedd y dull yn y llyfr a ddyfynid. Nid wyf yn cofio yr arferid llythyru y gair hwn ag ff hyd o fewn yn agos i derfyn y lŷfed ganrif; ac nid yn fynych yn y cyfnod hwnw, oddi eithr ar y llyfrau a ddeuent allan o argraffdy Ross, yng Nghaerfyrddin.

† Heblaw y llyfrau ar fy estyll fy hun, a'r enwau a gofrestrwyd genyf o bryd i bryd yn ystod llawer blwyddyn, cefais gyfleusdra fwy nag unwaith i ymgynghori â llyfrau y diweddar Barchedig Gwallter Mechain, y rhai sydd yn awr ym Mhenmaen Dyfi, ger Machynlleth; a dyfynais enwau y rhan fwyaf o weithiau Gwilym Salsbri allan o'r cyfargraffau o honynt sydd ar gadw yn y Gywreinfaf Brydeinig yn Llundain.

wyd nodyn ar ei ol i gyweirio yr amryfusedd, pan y byddai genyf sicrwydd fod camgymeriad wedi dygwydd. Mewn gwaith o'r fath y mae gwallau lawer yn anocheladwy.

Nid wyf yn atebol am gywirdeb y gwaith ond cyn belled ag y mae fy nghyfran fechan i o hono yn myned, a chyn belled ag yr oedd genyf gyfle i brofi pa un ai cywir ai anghywir yw y cofnodiadau ereill; ac nid wyf mewn un modd yn gyfrifol am olygiadau yr Awdwr ar bynciau duwinyddol, eglwysig, neu lywodyddol, y rhai yr oedd ef mor hoff o'u dwyn i mewn i'r gwaith ar bob cyfle, a'r rhai y buasai yn ddymunol, os oedd rhaid eu cyhoeddi, pe cadwesid hwynt ar gyfer rhyw lyfr arall, gan eu bod gan mwyaf yn gwbl ammherthyn-asol mewn gwaith ar lyfryddiaeth gyffredinol Cymru, ac yn tueddu i wneuthur y llyfr yn llyfr plaid neu enwad, ac nid yn llyfr i'r holl genedl yn ddiwahaniaeth, ac i bawb a ymddyddorant yn hanes lenyddol ein gwlad. Hwyrach bod swydd a safle yr Awdwr, a'r cylch yr arferai droi ynddo, yn rhyw gymmaint o esgusawd dros y nodwedd hon a welir ar bob rhan o'r gwaith; ond beth bynag oedd yr achos, y mae yr effaith yn beth i gwynaw o'i herwydd. Mewn gwaith fel hwn, yn anad dim, dylasid ymgadw rhag ymdrin â neillduolion ymbleidiau, ac â chywirdeb neu anghywirdeb credoau; a buasai genyf yr un gwrthwynebiad i'r ammherthynolion hyn gael eu dwyn i mewn, pe buasai syniadau yr Awdwr yn hollol yr un â'm syniadau fyr hun ar y pethau a drinir. Nid hanes crefydd yng Nghymru yw y pwnc, ac nid hanes Ymneillduaeth nac Eglwysyddiaeth, ond hanes Llyfrau Cymreig. Nid oes i lenoriaeth na phlaid na chabidwl; a dylid gwrthladd pob ymgais i'w harwain iddi.

Amcan yr Awdwr ydoedd cynnwys yn y gwaith bob llyfr Cymraeg, pob llyfr yn dwyn perthynas â Chymru, a phob llyfr o waith Cymro, o'r amser y dechreuwyd argraffu Cymraeg yn y flwyddyn 1546, hyd y flwyddyn 1800. Y mae y priodoldeb o ddwyn i mewn y trydydd dosbarth, sef llyfrau heb un berthynas rhyngddynt a'r Dywysogaeth ond yn unig eu bod wedi eu cyfansoddi gan Gymry, yn ymddangos i mi yn bur ammhëus; buasai y llyfr yn well hebddynt, gan eu bod yn chwanegu ei faint, heb chwanegu ond ychydig at ei werth. Nid yw yr Awdwr wedi cofrestru ond ychydig mewn cymhariaeth o'r cyfryw weithiau, ac ni attodais innau yn fwriadol gymmaint ag un o honynt, er y buasai yn eithaf hawdd eu chwanegu wrth y cannoedd. Perthyn y cyfryw i lyfryddiaeth yr iaith yr ysgrifenydd hwynt ynddi; ac nid i lyfryddiaeth gwlad genedigaeth eu hawduron. O'm rhan fy hun, buaswn yn cyfyngu cynnwysiad y gwaith i lyfrau Cymraeg (yn gyfan neu mewn rhan), a llyfrau yn dal perthynas â Chymru yn benodol, ac

nid á hi fel rhan o'r deyrnas gyfunol; a buaswn yn llysu pob llyfr o waith Cymry, yr un fath á llyfrau o waith pobl ereill, oni byddent yn dwyn arnynt y nodweddau hyn. Os ymgeisir at ormod, y mae yr holl gynnyrch yn debyg i fod yn ammherffaith; a gwell gwneuthur ychydig yn dda na llawer yn ganolig.

Er i'r Awdwr lafurio am ystod hirfaith wrth y gwaith, ac arfer y diwydrwydd mwyaf canmoladwy wrth gynnwll ei ddefnyddiau, ac er i minnau wneuthur fy ngoreu, hyd yr oedd amgylchiadau yn caniatáu, i gyflenwi ei ddiffygion; eto, yr wyf yn gwbl ymwybodol nad yw y llyfr yn agos mor gyflawn a chywir ag y buasai yn ddymunol ei fod. Nid arbedais drafferth i ymchwilio ac ymohebu, pa bryd bynag y tybiwn y gallwn trwy hyny gael dilysrwydd yng nghylech un peth a fyddai mewn petrusdod; ond yr wyf, er hyny, yn canfod llawer o ammherffeithion mewn gwahanol ranau o hono. Y mae ynddo amryw ddiffygion, o ran y llyfrau i ddylasent gael eu cofnodi ynddo, y rhai y mae amryw o honynt wedi dyfod i'm gwybodaeth ar ol argraffu y blynyddoedd y dylasent gael eu cofrestru danynt; y mae ynddo gamsyniadau gyda golwg ar rai o'r llyfrau a gofnodir; ac y mae ynddo dwysged o wallau argraffyddol, trwy fod rhai geiriau wedi eu camlythyru ne'u camosod, a rhai erthyglau a sylwadau wedi eu trawsgyflëu;* ac o'r rhai hyn rhaid i'r argraffydd gymmeryd cyfran led helaeth ar ei ysgwyddau. Bwriedais unwaith ddiwygio, ar ddiwedd y gwaith, gynnifer ag a allwn o'r amryfuseddau hyn; ond ar ol pellach ystyriaeth, yr wyf wedi dyfod i'r penderfyniad mai gwell cyhoeddi y gyfrol hon yn awr fel y mae, a chyhoeddi, ym mhen ychydig amser, *Attodiad* iddi, yn yr hwn y gellir diwygio y gwallau o bob math, yn gystal a chyflenwi y diffygion. Yn y cyfamser caiff y wlad gyfleusdra i weled y gwaith a'i farnu; ac yr wyf yn atolwg ar i bwy bynag a ganfyddo ynddo wall, diffyg, neu gamgymeriad, o ba natur bynag y bo, fod mor hynaws a gwladgar a'u mynegu i mi, modd y galler eu cyweirio yn yr *Attodiad* amcanedig. Y mae yn ddiâu genyf fod twysged o hen lyfrau Cymreig yn aros eto yn yr encudd: yr wyf gan hyny yn gwahodd pawb y sy feddiannol ar neb llyfrau o'r fath, anfon i mi gyflawn ddarluniad o honynt, modd y gwneuler Llyfryddiaeth Gymreig, hyd ddechreu y ganrif bresennol, mor gywir a difwlch byth ag y byddo modd.

Derbyniais gan amryw o'm cydwladwyr ac ereill, gynnorthwy nid bychan i gyflawni y gorchwyl hwn, ac y mae teyrnged o ddiolch di-

* Megys, er enghraifft, gosod yr argraffiad cyntaf o 'Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr' o dan y flwyddyn 1594 yn lle 1595; a chyflëu y sylw perthynol i rif 9, d.f. 1716, o dan rif 10 y flwyddyn hono.

ffuant yn ddyledus arnaf iddynt am eu cydweithrediad. Ym mhlith ereill yr wyf dan rwymedigaethau iddynt, dylwn grybwyll yn neillduol, Meis. Davies, Penmaen Dyfi; William Rees, Yswain, Ton, Llanymddyfri; Richard Williams, Yswain, Trallwng; y Parch. Charles Williams, D.D., Penaeth Coleg Iesu, Rhydychain; W. W. E. Wynn, Yswain, A.C.H., Peniarth; J. Joseph, Yswain, A.C.H., Aberhonddu; Mr. Morris Davies, Bangor; y Parch. D. Williams, B.D., Llanelli; y Dr. Ernest Sattler, Cobwrg; Mr. Edward Hamer, Tal y Waen, Mynwy; ac nis dylwn anghofio fy mhlwyfog a'm cymmydog, Mr. John Jones, Cwm Uchaf, gan yr hwn y mae casgliad lled dda o lyfrau Cymraeg, argraffedig yn benaf yn y ddeunawfed ganrif.

Y mae yr Awdwr wedi cyfodi iddo ei hun, yn y gwaith llafurus hwn, gofadaill a bery tra y pery son am iaith a llenyddiaeth Cymru; a dylai ei enw gael ei gadw mewn parchusaf goffadwriaeth gan bawb o'i gydwladyr. Ac y mae y cyhoeddwr ac argraffydd wedi ennill iddo ei hun radd dda ym mhlith ei frodyr yn yr alwad. Nid anturiaeth ddibwys yw ymgymmeryd â chyhoeddi llyfr Cymreig o faintioli y gyfrol hon, mewn gwlad fechan fel Cymru, ac ar bwnc nas gellir, mewn un wlad, ddysgwyl i lawer o ddarllenwyr cyffredin gymmeryd dyddordeb neillduol ynddo. Hyderir na chaiff ef achos i edifarhau am ei wladgarweh, ac, o'r tu arall, na siomir neb o'r sawl a roddasant iddo eu cefnogaeth.

D. SILVAN EVANS.

LLAN YM MAWDDWY:

Mehefin 21, 1869.

RHAGDRAITH.

HAERIAD gwastadol rhyw fath o bobl yw, nad oes llyfrau yn yr iaith Gymraeg, na chan y Cymry—mai cenedl anwybodus farbaraidd oedd ein cenedl ni hyd yn ddiweddar. Ond yr ydys yn gallu yn rhwydd iawn roddi gwrtheb hollol i'r haeriad, trwy ddangos fod Cymru, o'i maint, yn llawnach o lyfrau argraffedig nag un wlad arall, a chymmaint o hynafiaeth lyfrol yn perthyn i ni ag i genedl-oedd ereill, a'r llyfrau hyny yn llawer iawn mwy defnyddiol a sylweddol. Rhyfeddwyd lawer gwaith mor anwybodus yw, nid estroniaid yn unig, eithr hefyd llawer o ddynion darllengar y Dywysogaeth hon, o lyfryddiaeth eu gwlad a'u cenedl; na fedrant roi dim hysbysiad i estron a deimlai ddyddordeb i ymholi beth yw ein sefyllfa o berthynas i gyhoeddiadau a llyfrau yn yr iaith Gymraeg.

Y mae yr ysgrifenydd, er ys blynyddau, wedi cymmeryd arno ei hun yr hyfrydwch o chwilio i hyn, a'r hyn a ganlyn yw ffrwyth y llafur hyfryd hwnw. Mynwyd, hyd yr oedd yn bosibl, weled pob llyfr yn bersonol, i'r hyn y mae galwad weinidogaethol yr ymchwilydd, mewn cyfundeb ag y mae yr unrhyw yn symmudol, yn rhoddi iddo fantais arbenigol. Y mae llyfrau y Cymry i gael chwilio am danynt, nid mewn ystorfaoedd neu gronfaoedd o hen lyfrau ar werth; i.e. anfynych y ceir yr un mewn unrhyw werthfa gyhoeddus o'r fath; nac ychwaith yn llyfrfaoedd pendefigion y wlad *yn awr*. Bu amser pan y ceid llyfrau Cymreig yn addurno llyfrfaoedd ein plasau, pan yr oedd eu meddiannwyr a'u trigiannyddion yn siarad iaith y wlad; ond y mae, erbyn hyn, genedl arall, hanner gwaed estroniaid, wedi cyfodi—canlyniad cyfathrach priodasol â boneddigesau Seisonig, Gwyddelig, Ysgotaid, neu Ffrengig; a glanhawyd y llyfrfaoedd yr ymfrostiai y cynberchenogion ynddynt, trwy dafu eu cynnwysiad i'r tomenau yn fynych! i roddi lle i ffug-chwedlau Ffrancaidd, a rhai o rwymiad mwy

priodol i'w taenu i addurno bwrdd y parlwr, yn ol tyb y foneddiges newydd, na hen gyfrolau cadarn-rwymiad y canrifoedd diweddaf a lanwent yr estyll yr oesoedd o'r blaen, ac a fuasent yn cael eu darllen gan yr hen Syr Thomas a'r Arglwyddes Wynn, ac a gyflwynasid i'r Yswain Jones, neu'r Bendefiges Margaret, 'Gwraig y Cymro clodwiw, a charwr ei wlad a'i hiaith, yr Anrhydeddus Farchog — o Blas —.' I gael y gofrestr ganlynol, yr oedd yn rhaid eu cael at eu gilydd, o lyfryn i lyfryn, ar hyd tai y werin, trwy dynu i lawr gynnwysiad estyll llychlyd yng nghonglau simddeiau myglyd mân amaethdai mynyddig y wlad, a chasglu, mewn llawer o achosion, ddarnau a dalenau o wahanol leoedd ar wahanol amserau, cyn y gallesid cael llyfryn perffaith.

Y mae, ef allai, yn briodol mynegu yma, yr hyn a wnaed yn y blynyddoedd a aethant heibio yn y gwaith hwn. Y cyntaf ydoedd y Parch. MOSES WILLIAMS, Ficer Defynog, yn Sir Frycheiniog, yr hwn a gyhoeddodd 'Gofrestr o'r holl Llyfrau Printiedig, gan mwyaf a Gyfansoddwyd yn yr Iaith Gymraeg, neu a Gyfieithwyd iddi hyd y Flwyddyn 1717. Printiedig yn Llundain, gan Brintwyr y Brenin, 1717.' Yn blaenori y 'Gofrestr' hon y mae y llythyrau canlynol:—

'Y CYFLWYNIAD.

'At yr Anrhydeddus RICHARD MOSTYN, o Benbedw, yn Sir Ddinbych, Ysgwier.

'SYR,—Ni ryfygaswn i gyflwyno erthyl mor afluniaidd ac amherffaith a hwn i'ch ffafr chwi a'ch nodded, oni bai fod yn ddiammau gennyf fod eich cariad chwi at y Cymry mor fawr, nad oes le i betruso na chaiff y meredig hwn hefyd, er dielwed yw, ac yntau yn Gymro, ei gynnwys, a'i gyflawn groesawu, ym mhlas Penbedw.

'Mi wn yn rhy dda fod gormod, ysywaeth, o'm Cydwladwyr wedi gorffwyllo cymhelled yn ddiweddar, nad yw 'n gywilydd yn y byd ganddynt gablu a dibrisio hynny y mae pawb eraill agos o holl drigolion Ewropa yn cynfigennu wrthym o'i achos; ac odid mawr nad edrych y cyfryw ddynionach ar y gorchwyl bychanigyn ymma megis Gwrthwaith ac Anoberi: eithr nid wyfi'n ammau na bydd eich esampl haelionus chwi a'ch tylwyth, ynghyd â'r eiddo eraill o Gymwynaswyr ac Amgeleddwyr yr amcanion Cymreig sy'n awr ar droed, yn fodd y'w denu hwynt, heb o hûr, nid yn unig i faddau i mi fy mhoen hwn, eithr hefyd i roddi ei dyledus barch i'r hynaf a'r odidocaf o'r ieithoedd yn y cwr ymma i'r ddaear, a'i chadw a'i choleddu hi yn dra gwrolwych, drwy annog gwyr da poenus a chy-

farwydd i grynhoi, a threfnu, a phrintio Gweddillion Ysgrifeniadau ein Hynafiaid sy a'r gyfeiliorn, cyn o'i myned yn llwyr gwbl ar gyfrgoll.

'Mae Sais cynhwynol, gwr dysgedig dros ben, ac Athraw Difyddiaeth, wedi myned yn gystal Cymreigydd, o fewn i'r ddwy flynedd ymma, a'i fod mor hyfedr a chymmeryd *coppi* o Gyfraith Hywel Dda yn llaw eisioes, yr hwn y mae yn addaw ei osod allan yn Gymraeg a Lladin ar fyr amser.* Mae cynnifer o'r Cymry hwythau mor brysur yr awron ar waith, rhai yn taclu hen lyfrau Brythoneg, eraill yn cyfieithu rhai Seisnig newydd; a'm bod i yn gobeithio 'ch anrhegu chwi etto ar fyrder âg Argraphiad arall o'r Traethawd ymma, a chymmaint o anchwanegiadau ynddo ag a wnelo iawn am wallau hwn a luniaethwyd ar ffrwst gan, Syr, eich rhwymedigaeth, a'ch gostyngeddias wasanaethwr,

'MOSES WILLIAMS.'

Ni fedrais gael allan ddarfod iddo fyth gwblhau ei fwriad.† Fe allai i'w symmudiad i wasanaethu yn yr efengyl i Loegr ei luddias, gan ei roddi mewn anghyfleusdra i gasglu y defnyddiau angenrheidiol. Adgyhoeddwyd y 'Gofrestr,' yn y *Gwilydydd*.‡ Ei ail lythyr arweiniol yw a ganlyn:—

'AT Y CYMRY.

'LLYMA i chwi, fy Nghydwladwyr addfwyn, Gofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig, gan mwyaf a Gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg,

* Y Dr. W. Wotton [gwel rhif 5, d.f. 1730.]

† [Diau na chyflawnwyd byth mo hono; a dengys y cofnod canlynol, a ddyfynir yn y *Taliesin* (ii. 80), allan o *Lyfr Ben Simon*, pa ham, ond odid, na chafwyd parhâd o'r Gofrestr hon, yng nghyd â llawer gorchwyl defnyddiol arall, o ysgrifell y gwr gwir ddysgedig, gwladgar, a daionus hwn:—

'Moses Williams oedd Hynafiaethydd a Chymreigydd tra chelfyddgar. Yr oedd ar fwriad argraffu Gramadeg a Geirlyfr Cymraeg, helaethach a pherffeithiach nag a welwyd eto yng Nghymru, ac yn bwriadu llawer peth arall yn argraffedig er cynnyddu gwybodaeth ym mhilith y Cymry, yn eu hiaith eu hunain; a phan ddeallwyd hyny gan rai o'r Esgobion Cymreig, rhybuddiasant a phregethasant yn ei erbyn, yn eu hymweliadau penodawl, ac ar eu hol hwy yr Archddiaconiaid yn eu hymweliadau, gan haeru nas dylid achlesu yr iaith Gymraeg, eithr ei danfon i dir anghof mor ebrwydd ag y gellid, a rhwystro pob gwybodaeth ynddi: ac o hyny allan attaliwyd rhag Moses Williams y parch a dderbyniasai efe hyd yn hyny gan rai o foneddigion Cymru; ac achos hyny, meddir, bu farw o dor calon; canys hyny yn ddechreuol oedd achos ei ddolur angen ef.'

Megys yr oedd yn nyddiau Moses Williams, felly y mae y dydd heddyw; ac y mae y dyfyniad blaenorol mor briodol i'r amser presennol a phe buasai wedi ei ysgrifenu ddoe. Dengys y cofnod hwn yn lled eglur pa ham y cefnodd ef ar wlad ei enedigaeth, ac yr ymsefydlodd yn Lloegr.]

‡ Gwel y *Gwilydydd* am Fawrth, Ebrill, a Gorphenaf, 1832 [t. 87, 119, 217].

neu a Gyfieithwyd iddi hyd y flwyddyn hon, a hysbysrwydd hefyd pa sawl gwaith y printiwyd hwynt. Mi a wn fod bagad yn ychwaneg ar gerdded yn y byd, ni ellais i ddyfod o hyd iddynt; ac mi a welais lawer o rai candryll, heb na dechreu na diwedd iddynt, yn ddiymgeledd ar draws tai yng Nghymru, a diammau fod rhai hefyd ni chlywais i etto son am danynt.* Eithr os byddwch chwi mor fwyn a rhoddi i mi hanes neb Llyfrau neu Argraphiadau ni chrybwyllir ymma, ond antur chwi gewch Gofrestr a fo perffeithiach a chyflawnach amser arall, gan eich Gwasanaethwr gostyngyddiaf yn y Iaith Gymraeg.

'Llundain, y 7fed o Fehefin, 1717.

MOSES WILLIAMS.'

Mab oedd MOSES WILLIAMS i Samuel Williams, periglor Llangynllo, yn sir Aberteifi, a'i fam ydoedd Margaret, merch Thomas John ab Ieuan Thomas, Nantremenyn;† ac efe a anwyd mewn lle a elwir y Glaslwyn,‡ ym mhlwyf Cellan,§ yn y sir hōno, ar yr ail ddydd o Fawrth, 1685. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin: oddi yno aeth i Gaergrawnt,|| lle y cymmerodd ei B.C. yn 1708; a'i A.C. yn 1718. Urddwyd ef yn ddiakon gan y Dr. Trimnel, esgob Norwich; ac yn offeiriad gan y Dr. Otteley, esgob Ty Ddewi, a chan yr hwn y cafodd fywoliaeth Llanwenog,** yn sir Aberteifi, yn 1715. Adnabyddir ef fel Ficer Defynog; ond y fywoliaeth gyntaf a gafodd oedd Llanwenog, yn sir Aberteifi, yr hon a ddaliodd gyda'r lleoedd ereill. Yr oedd

* Y mae yr un peth yn wirionedd eto, er bod y gwaith hwn yn berffeithrwydd ei hunan mewn cyferbyniad i 'erthyl afluniaidd ac amherffaith' y Parch. Moses Williams.

† *Llythyr y Parch. D. Silvan Evans.*

‡ [Nid oes lle o'r enw *Glaslwyn* ym mhlwyf Cellan, 'nac mewn un man yn y cwmpasoedd hyni; ond y mae *Glaslwyn* ym mhlwyf Llandyssul: a chan mai un o deulu Nantremenyn, yn y plwyf hwnw, ydoedd mam Moses Williams, tebygol ydyw mai yno y ganwyd ef. Yr oedd ei dad, pan yr oedd yn beriglor Llangynllo ac ebrwyad Llandyfriog, yn byw yn Abertrosol, yn y plwyf a enwyd olaf, ychydig uwch law Castell Newydd Emlyn.]

§ Meyrick, *History of Cardiganshire*; Dr. Thomas Rees, *Description of South Wales.*

|| [Ym Mhrifysgol *Rhydychain* y cafodd efe ei ddysg. Derbyniwyd ef yn aelod o Goleg y Brifysgol, yn y lle hwnw, ar y 31fed o Fai, 1705; cymmerodd radd Baglor Celfyddydau (B.C. neu B.A.) yno yn nherm Mihangel, 1708; a chorfforwyd ef yn yr unrhyw yng *Nghaergrawnt*, lle y cymmerodd radd Athraw Celfyddydau (A.C. neu M.A.) yn y fl. 1718.]

** [Gan yr Arglwydd Ganghellydd Cowper, nid gan Esgob Ty Ddewi, y cafodd ef fywoliaeth Llanwenog: ni wnaeth yr esgob ond ei gyflëu yn ei swydd. Ni chafodd efe mo'r dyrchafiad eglwysig lieiaf gan neb o esgobion ei wlad; Tywysog Cymru (y Brenin Sior II. wedi hyni) a roddes iddo Ddefynog; ac nid i bennaethiaid yr Eglwys yr oedd efe yn ddyledus am fywoliaeth Bridgewater.]

yn beriglor yno pan oedd yn Llundain yn golygu yr argraffiad o'r Beibl a olygodd yn 1718. Yn 1716, cafodd Ddefynog, ac yno, yn 1718, y priododd un Margaret Davies. Yna rhoes Ddefynog i fyny, pan yr aeth i Bridgewater, i wasanaethu plwyfau Chilton Trinity a St. Mary, yn y dref hōno. Yn 1732 gwnaed ef yn Gymmrawd o'r Gymdeithas Freninol (*F.R.S.*). Pan gyhoeddwyd y 'Gofrestr,' yr oedd yn Llundain yn golygu argraffiad o'r Beibl—argraffiad y fl. 1718, a'r cyntaf yn Gymraeg, i wasanaeth y cyffredin, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol—a adnabyddir wrth ei enw. Cyhoeddodd hefyd wedi iddo fyned i Loegr, yn 1726, *Glossary of Roman Antiquities*, o waith William Baxter, Cymro o Lanllugan, yn sir Drefaldwyn, o dan yr enw *Reliquiæ Baxterianæ, &c.** Ysgrifennodd hanes ei fywyd ei hun, yr hwn, meddir, sydd yn awr yn ei lawysgrif, yn y Llyfrgell Fodleiaidd, yn Rhydychain.

Y mae Syr Samuel Meyrick yn adrodd yr hanesyn canlynol am Moses Williams. Ymddengys fod Williams, druan, wedi bod mor anhapus a syrthio mewn cariad â boneddiges dlos yn Llundain; a chan ei fod efei hun yn hynod o wylaidd ar achos felly, efe a geisiodd gan gyfaill iddo, un Mr. Alban Thomas, yr hwn a briododd, yn ail wraig, etifeddes Tyglyn,† a'r hwn oedd y pryd hyny yn Llundain, yn astudio meddyginiaeth, dori yr ia drosto, gan y gwyddai Williams yr arferai ef ymweled â'r teulu. Ond wrth siarad â'r foneddiges ar y mater, efe a ddeallodd na fynai hi ddim i'w ddywedyd wrth Moses Williams; ac wrth gael cymhell arni yn lled drwm gan y cenad cariad hwn tros ei gyfaill, hi o'r diwedd a ollyngodd awgrym, pe buasai ef yn ceisio drosto ei hun, y buasai y canlyniad, fe allai, yn wahanol. Cymmerodd Mr. Thomas yr awgrym, ac aeth ymaith. Wrth fynegu ei helynt i'w gyfaill, ciliodd serch Williams oddi wrthi, a chymhellodd Thomas i ysgrifenu at y foneddiges drosto ei hun. Dadleuai y meddyg ieuanc ei ieuentyd, a'i annigonolrwydd mewn moddion, i feddwl am briodi, ac amryw esgusodion ereill; ond

* [Y mae un gwaith o'r eiddo nad oes, hyd yr wyf wedi gwelod, neb o'r cofnodau am y gwr rhagorol hwn, yn crybwyll un gair yn ei gylch; sef yw hwnw, 'An Armoric Grammar and Vocabulary, by Julian Manoir, Jesuit. English'd out of French by M. Williams, Sublibrarian at the Ashmolean Museum,' cyhoeddedig yn 'Archæologia Britannica' Edward Lhwyd, Dos. III. IV. t. 180—212. Cyfeithodd hwn, fel y gwelir, yn ystod ei arosiad fel tanraddog yn y brifysgol. Un arall o gydlafurwyr a chynorthwywyr Lhwyd yn y gwaith gorchestol hwn ydoedd 'David Parry A.B. of Jesus College, Underkeeper of the Ashmolean Museum,' yr hwn a gyfrododd yr wythfed dosbarth o'r un llyfr, t. 266—298, sef, 'A British Etymologicon or the Welsh collated with the Greek and Latin and some other European Languages.' Am y Parry hwn nid oes cymmaint a llinell yn un o'r bywgraffolion Cymreig. Cyfrifir yr 'Archæologia Britannica' yn gyffredin yn waith Lhwyd ei hun yn unig; ond canfyddir fod y ddau ysgolor hyn yn gynnorthwywyr iddo.]

† [Yn Nyffryn Aeron, Cereùigion.]

y cwbl yn ofer. Pwysodd Williams ar ei gyfaill i wneyd y cynnyg drosto ei hun, fel prawf nad oedd yntau yn gwneyd yn ffol pan y dymunasai ei chael. Ceisiodd, a llwyddodd Thomas. Nid oedd gan y foneddiges ond un gwrthwynebiad, sef ei bod yn 'priodi dyn heb ach boneddigion—heb fod yn wr boneddig o waed, ac yn meddu pais arfau! Yr oedd hyn yn beth nad oedd Mr. Thomas wedi meddwl am dano; ac yr oedd ar y cyntaf mewn peth dyrswch pa fodd i ateb pryder ei rian deg. Yr oedd wedi gadael ei wlad yn ieuanc, cyn iddo astudio dim ar athrawiaeth yr achau. Pa fodd bynag, efe a ysgrifennodd at ei dad, y Parch. Alban Thomas, o'r Rhos, ym mhlwyf Blaen Porth,* yr hwn oedd dduwinydd a bardd o gryn enwogrwydd; a'i dad a olrheiniodd y Tomasiad, mewn llinell gywir, o Arglwyddi y Tywyn, i lawr hyd iddo ei hunan.† Efe a anfonodd, gyda'r ateb i'w fab, y bais arfau, gyda choeden fawr o achau, wedi ei lliwio yn hardd. Bellach nid ydoedd dim rhwystr, a'r briodas a gymmerodd le, a buont fyw yn ddedwydd hyd farwolaeth y foneddiges a'i mab.‡

Er i Moses Williams fwriadu gwneyd ei Gofrestr yn berffeithiach, ni chwblhaodd y bwriad hwnw; ac aeth agos i ganrif a chwarter heibio heb i ddim gael ei wneyd ond ail argraffu ei Gofrestr ef fel yr ydoedd, yn y cyhoeddiad cyfnodol a enwyd,§ hyd y flwyddyn 1840, pan y darfu i olygydd cyhoeddiad Cymreig arall|| am y flwyddyn uchod, wahodd ei ohebwy'r i'w gynnorthwyo i gael 'Rhestr o holl Lyfrau Cymru; sef y rhai a gyhoeddwyd yn iaith y wlad hòno, neu a gyfieithwyd iddi, yn hollol neu mewn rhan, o ieithoedd ereill, ac a argraffwyd mewn gwahanol fanau o ddechreuad yr arferiad o'r gelyfddydd ardderchog hòno hyd y pryd hwn.' Llwyddodd y cais hwn i gael rhestr o chwe' chant ac ugain o argraffiadau, o'r flwyddyn 1546 hyd y flwyddyn 1799. Gan fod y cais yn gyfryw ag oedd yn dygymmod â'm chwaeth, ymohebais gryn lawer â golygydd hybarch y cyhoeddiad hwnw y pryd hyny, gan drosglwyddo iddo, o fis i fis, restr o'r cyfryw lyfrau ag y caffwn olwg a gafael arnynt yn fy nheithiau gweinidogaethol. Ar ddiwedd ei orchwyl hwnw, dywed y golygydd: 'Fe allai fod amryw lyfrau yn

* [Gweler rhif 5, dan y flwyddyn 1722; a *Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 305.]

† *Tywyn* sy ddarn o wlad ar fin y môr yn sir Aberteifi, o geg y Teifi, tua'r gogledd, lle yr oedd Llys gan Arglwyddi y Tywyn. Enw Arglwydd y Tywyn, yr hwn oedd Yswain Corff i Harri VII., oedd Rhydderch ab Rhys, i'r hwn y canodd Lewis Glyn Cothi awdl, yr hwn a adawodd ar ei ol ddau fab o'i wraig Margaret, sef Rhydderch a Thomas; ac o hyn allan daeth Thomas i mewn i'r achau.—*Gwaith Lewis Glyn Cothi*, nod, t. 283.

‡ Meyrick, *History of Cardiganshire*, t. 293-4.

§ *Y Gwyllyddydd*.

|| *Y Gwladgarwr*.

ychwaneg, na chawsom wybodaeth am danynt; eto, honwn ddarfod i ni wneuthur rhestr gyflawnach a rheoleiddiach nag y darfu i neb o'n blaenau; a gadäwn i'r neb a fyno, wneyd yn well, a dwyn yr unrhyw ym mlaen o bryd i bryd, hyd y llyfr Cymreig olaf a gyhoeddwyd, ac a gyhoeddir rhag llaw.'

Yn wybodus nad oedd y 'rhestr' hòno yn agos i fod yn berffaith, aethym ym mlaen, wedi i'r *Gwladgarwr* roddi ei orchwyl heibio, i gofrestru pob llyfr ychwanegol y deunw ar ei draws, yng nghyd â rhai sylwadau am Awdwyr, Cyfieithwyr, ac Argraffyddion llyfrau Cymreig, ac am Gymru a Chymraeg, a chan Gymry, nes bod y cwbl wedi chwyddo yn gyfrol ygrifenedig o gryn faint. Cyhoeddwyd y cwbl yn erthyglau chwarterol, yn yr unig gyhoeddiad chwarterol a gyhoeddir yn Gymraeg.* Gan y cafwyd tystiolaethau o ganmoliaeth uchel i'r erthyglau hyny; a chan fod amser yn dyfod â mwy o drysorau i'r amlwg, parhawyd i gofrestru a chasglu yn yr un modd hyd yn hyn, gan wneyd diwygiadau, cyfnewidiau, gwelliadau, ac ychwanegiadau.

Yr oeddid yn sylwi fod gan Lyfryddiaeth y Cymry ei chyfnodau. Y cyfnod cyntaf oedd o godiad y wawr yn 1546 hyd godiad yr haul yn 1588. Gwelir mai bechan a gwelw iawn oedd y wawr hòno†—dim ond 'Gwyddor Kymraeg,' 'Y Credo neu Bynkey yr ffydd Gatholig,' 'Y Pader neu Weddi yr Arglwyd,' 'Y Deng air Deddyf,' &c.; a'r wawr hòno, or bychaned ydoedd, yn cael ei chymylu gan 'Y Kampay arveradwy,' ‡ &c., yr hyn a dywyllai y goleuni gwanaidd hwnw, rhag llewyrchu i'r fantais oreu. Er hyny gwawrio yn oleuach a wnaeth, pan y gwthiodd allan y 'Kynnifer llith a ban o'r

* *Y Traethodydd*, am 1852 a 1853. [Bu yr *Adolygydd* am beth amser, ac y mae y *Beirniad* y pryd hwn, yn cydreddeg bob tri mis â'r *Traethodydd*.]

† [Cyhoeddwyd ond odid, hyd yn oed yn y cyfnod hwn, yn ol cyfartaledd y trigolion Cymru a thrigolion Lloegr a'r gwledydd dibynol arni, yn agos gynnifer o lyfrau Cymraeg ag o lyfrau Seisoneg. Ychydig iawn o lyfrau, mewn cymhariaeth, a argreffid yn y deyrnas hon o ddeutu canol yr unfed ganrif ar bymtheg.]

‡ [Nid yw ond tegwch a chyfiawnder â chhoffadwriaeth Gwilym Salsbri, hysbysu i'r darllenydd mai ymarferion crefyddol, neu y rhinweddau a'r cynneddfau i'w harferyd, a olygai y gwr hybarch hwnw wrth 'y Kampay Arveradwy,' ac nid chwareuon o un math. Diau nad oedd eisieu llyfr, nac adran o lyfr, ar chwaryddiaeth yng Nghymru yn yr oes hòno; a phe buasid yn cyhoeddi gwaith ar y cyfryw destyn, nid yn gymmysg â duwiolswyddau y buasid yn gwneuthur hyny; ac nid cyfieithydd duwiolfrydig y Testament Newydd a fuasai yn ymosod ar y fath orchwyl. Cynnwysiad y llyfr boreuol hwn, heb law yr Egwyddor Gymraeg a'r Calaniadur, ydoedd, pethau i'w credu, pethau i'w harfer, a phethau i'w gochelyd. Dysgai yr Egwyddor Gymraeg ddynion i ddarllen; dangosai y Calaniadur pa ranau o'r Ysgrhythyr Lân a drefnid i'w darllen yng nghorff y ffwyddyn; canlynai y pethau a ddylid eu credu yn ddilys a'u gwneuthur; a chynghlôid y cyfan â'r 'Gweddiau Gocheladwy,' sef gweddiau ar allu o honom ochelyd y drwg, a chael ein gwaredu rhagddo, yn ol rhediad ac ysbryd y rhan ddiweddaf o'r Arglwyddol Weddi. Hyn ydoedd cynnwysiad, ergyd, ac amcan y llyfr cyntaf a argraffwyd yn yr iaith Gymraeg.]

yscrythur ac a ddarlleir yr Eccleis pryd Commun, y Sulieu, a'r Gwiliau trwy'r Vlwyddyn,' megys oddi rhwng y cymylau. Yr oedd fel pe dywedasai, 'Mi a fynaf Air Duw, pa faint bynag a fydd o hono, heb y "Kampay"—pe na byddai ond "Kynnifer llith a ban o'r yscrythur ac a ddarlleir yr Eccleis pryd Commun," &c. Ar hyna o lewyrch y safodd am ddeuddeng mlynedd, pryd y ciliodd y tywyllwch, ac a goleuodd yn gryn ddydd, pan y caed yr holl '*Litanye in Welshe*,' yr hyn a arweiniodd i gael y 'Testament Newydd,' a'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin,' yr hwn a gynnwysai ran o'r Hen Destament—y Salmau o leiaf;* ac os nad gyda 'Y Llyfr Gweddi,' yr oeddynt gyda 'Y Lliver Gweddi,' ym mhen y pedair blynedd ar bymtheg. Ar hyn dyma yr haul mawr yn dangos ei belydrau yn ddigwmwl, wedi bod yn gwneyd ei ffordd ym mlaen er ys dwy flynedd a deugain. Pan y dechreuodd wawrio, yr oedd y gwammal Harri VIII. yn teyrnasu. Cyhoeddasiid y 'Gwyddor Kymraeg' y flwyddyn cyn ei farwolaeth ef; ac yr oedd amgylchiadau crefyddol yn ymddangos yn lled dywyll tua'r amser hwnw, fel yr oedd yn ammhëus iawn pa fodd y troai y dafol. Ychydig fisoedd yn unig cyn marwolaeth Harri, yr oedd Protestaniaid yn gystal a Phabyddion wedi eu llosgi yn Smithfield. Gyda'i farwolaeth ef, a dyfodiad ei fab ieuanc, Edward VI. i'r orsedd, goleuodd gryn lawer; ond aeth yn dywyll fel y fagddu ar farwolaeth hwnw, pan ddaeth ei chwaer un-dad, Mari, i'r orsedd. Da na pharaodd ei theyrnasiad hi yn faith—llai na chwe' blynedd—yn yr hwn dymmor ni chafodd y Cymry gymmaint a 'llith' na 'ban' o fath yn y byd trwy y wasg. Y mae yn hynod i'w sylwi, mai yn nheyrnasiad Harri ac Elisabeth y gwnaed mwyaf tuag at wasgaru tywyllwch Rhufain o'n gwlad, er nad oedd yr un o'r ddau yn debyg o fod yn gwybod dim am ddylanwad crefydd fewnol.† Uchelgais oedd yr egwyddor lywodraethol ym meddyliau y ddau: ond goruwch-reolodd Duw yr hyn oedd yn ddrwg ynddynt hwy, i ddwyn ei amcanion daionus ei hun i ben—i gael ei air oll i'n cenedl yn ei hiaith ei hunan. Blwyddyn i'w chofio oedd 1588. Yr oedd

* [Yr oedd yr Epistolau a'r Efyngylau am bob Sul a Gwyl trwy'r flwyddyn, yn ddiau ynddo hefyd. Gweler Epistol yr Esgob Dafis at Cymry, a'r dyfyniad o hono yn y gwaith hwn, t. 4, 5.]

† [Pa beth bynag a feddylir am y dynion hyn mewn golygiadau ereill, nis gellir am fynyd ammheu nad Harri VIII. a'i ferch Elisabeth a wnaethant fwyaf dros Gymru o holl benaduriaid Lloegr, o amser Iorwerth Hirgoes, yr hwn a ddifreiniodd y Cymry o'u hannibyniaeth, hyd y dydd heddyw. Y mae teyrnasiad yr Hanoferiaid wedi bod yn felltith drom i'r Eglwys ac i lenoriaeth y Dywysogaeth. Ni roddasant i ni gymmaint ag un esgob o Gymro cynhenid; ac y mae yr egobion a anfonwyd i'n plith, er amser Sior y Cyntaf, wedi gwneuthur eu goreu i Seisonigo yr Eglwys, i anghefnogi ein llenoriaeth, ac i ddilëu ein hiaith; a'r canlyniad naturiol yw, bod lluwaws mawr o'r bobl wedi cefnu ar Eglwys eu tadau, a myned i gorlanau ereill, i gael clywed yn eu hiaith eu hunain 'fawrion weithredoedd Duw.']

rhai pethau ereill yn gwneyd y flwyddyn hòno yn nodedig; megys sefydlu y felin bapyr gyntaf yn y deyrnas hon, sef yn Dartfford, yng Nghaint, trwy drwydded y frehines i John Spilman, o Germani, er bod rhai yn gwneyd papyr yn ddirgelaidd cyn hyny. Yn yr un flwyddyn hefyd y cyhoeddwyd y papyr newydd cyntaf yn y deyrnas hon, o dan yr enw *English Mercurie*.*

Hwyrach y byddai y cyfle hwn mor briodol a rhyw bryd arall, i sylwi, fod y llyfrau cyntaf a gyhoeddwyd yn Gymraeg yn wahanol iawn i'r rhai cyntaf yn Seisonaeg. Yr oedd y llyfrau cyntaf a argraffwyd yn Gymraeg yn llyfrau buddiol, crefyddol, ac angenrheidiol—nid llyfrau o ddifyrwrch, neu o dueddiadau ammhëus: ond nid felly yr oedd y llyfrau cyntaf a argraffwyd yn y Seisonaeg, sef y rhai a elwir, '*Recuyell of the Histories of Troy*;' '*Oration of John Russell, on Charles, duke of Burgundy, being created a Knight of the Garter*;' '*A boke had of my hostess at the George, of the death of Arthur, beginning at Cassibelan*;' '*Bartholomeus de Proprietatibus Rerum*;' '*A Boke of Chess*;' '*Legende of Sayntes*;' '*The Hystorye of Jason*,' &c.†—llyfrau nad oeddynt fuddiol, crefyddol, nac angenrheidiol, ac felly heb fod yn werth eu cymharu â'r '*Credo neu Bynkey yr Ffydd Gatholig, y Pater neu Weddi yr Arglwydd, Y Deng air Deddyf*,' &c.; '*A Dictionary in Englyshe and Welshe*;' '*Dymcheliad Allawr uchel y Pab*;' '*Kynnifer llith a ban o'r yscrythur ac a ddarlleir yr Eccleis*,' &c. Cafodd ein cenedl flas ar lyfrau crefyddol o'r dechreu, a'r blas hwnw, a grewyd y pryd hyny, sydd wedi ei gadw yn ein plith hyd yn hyn, fel nad oes nemawr lyfr o werth yn ein plith, heb fod arogl crefyddol arno. Yn hyn y mae rhagoriaeth y Cymry ar bob cenedl arall; a hir, meddaf, y cadwont y neillduolrwydd hwn, er cael eu dirmygu am hyny. Y mae dirmyg rhyw fath o bobl yn fwy o ogoniant nag o warth.

Wedi i'r haul gyfodi ar lenoriaeth ein cenedl, a chwalu ychydig ar y niwl boreuol, hyd i ganol yr hanner cyntaf o'r 17fed ganrif, daeth cyfnod arall i mewn, yr hwn a wahaniaethid yn amlwg oddi wrth yr un blaenorol, yn y gyfres o lyfrau perthynasol i'w gilydd, a'r hanesion cyssylltedig â hwy yn ei ddynodi fel cyfnod newydd ar fasnach, gwladyddiaeth, a chrefydd. Y mae llyfrau pob oes yn adlewyrchiad o'r oes a'r cyfnod y cyhoeddwyd hwynt ynddynt. Y mae ysbryd y naill oes yn wahanol i'r llall, i'w gweled ar ei llyfryddiaeth. Mewn masnach ac anturiaethau mwngloddiawl yr oedd yr oes hòno mor

* *Timperley's Dictionary of Printers and Printing*. [Un o ddygwyddion nodedicaf y fl. 1588 ydoedd cyflwyr ddinistr 'Llynges Anorchfygol' Yspaan, yr hon a anfonasai Philip II. yn erbyn y deyrnas hon.]

† *Dictionary of Printers*, o'r flwyddyn 1440 hyd 1450.

hynod a'r oes hon. Y pryd hyny, mw'nau sir Aberteifi oedd testyn yr ymddyddan a'r ysgrifenu ym mhob dull; ac yr oedd dynion o Holand a Germani yn ymfudo i Gymru, i wneyd eu hunain i fyny am eu hoes, fel y mae Cymry ac ereill yn awr yn ymfudo i California, Awstralia, a lleoedd ereill. Yr oedd y rhyfel cartrefol* hefyd, a dorodd allan yn yr anghydfod rhwng Siarl y Cyntaf a'r Senedd, yn creu lledaeniad papyrau ar wladyddiaeth, na bu y fath erioed o'r blaen. Yr oedd Puritaniaeth ac Anghydfurfiaeth, a gwahanol dybiau, yn cael eu coleddu yn frwdfrydig gan wahanol ddostranau neu sectau o'r rhai hyn, yn gwneyd fod cynnyrch y wasg yn ddadleuol ar bynciau eglwysig a duwinyddol. Yr oedd y pethau hyn oll yn cael eu teimlo yng Nghymru, yr hyn a welir yn amlwg yng nghynnyrch y wasg yn yr oes hono. Ychydig iawn, cyn y cyfnod hwn, oedd y llyfrau cyfaddas er addysg i'r cyffredin yn ein gwlad a'n hiaith. Yr oedd y llyfrau goreu, ac o gryn faint, yn fawrion ac uchel eu prisiau, yr hyn oedd yn eu caethiwo i'r mawrion a'r dysgedigion yn unig, ac o blegid yr un rheswm y cyhoeddid hwynt yn fynych yn Lladin, iaith y dysgedigion, fel y byddent yn wasanaethgar i ddysgedigion y Cyfandir, yn gystal a'r cyfryw yn y wlad hon. Dyma, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yw yr achos eu bod mor anhawdd cael gafael arnynt, oddi eithr yn yr hen lyfrfoedd a berthynent i'r hen blasau; ac y mae llawer o'r rhai hyny bellach wedi eu chwalu yn chwalfa y teuluoedd yn amser rhyfeloedd, a thrwy ymgyfathrach priodasol.

Wedi dyfod felly dros gyfnod terfysglyd Siarl I. a'r Weriniaeth, yr hwn, er hyny oedd, gallwn feddwl, y cyfnod mwyaf crefyddol a fu ar ein cenedl erioed, a'r hwn nid yw ein haneswyr crefyddol wedi gwneyd cyfiawnder ag ef, deuir i gyfnod arall pan y mae Siarl II. wedi dyfod i'r orsedd, o'r hon yr hyrddiasid ei dad. Am gryn amser yr oedd sawyr yr oes a aethai heibio yn taflu ei bereidd-dra ar lenoriaeth y cyfnod hwn, ond yn cael ei gymmysgu â gweithiau nad oedd-ynt yn hollol efengylaidd—llyfrau er arwain dynion i roi llawer o bwys ar ffurfiau, defodau, a'r Cymmun, heb son dim am yr angenrheidrwydd o gyfnewidiad calon trwy weithrediad yr Ysbryd Glân. Nid ydys yma yn condemnio y cyfryw yn eu lle, ac i bersonau priodol, personau wedi eu gwir ddychwelyd; ond eu cymhell a'u harferyd fel gwir grefyddolder, gan bobl ddioruchwyliaeth, anystyriol,

* [*Rhyfel gwladol* a arferir gan yr awdwr yn y lle hwn, ac yn gyffredin trwy yr holl waith. Y peth a olygir yw *civil war*, sef rhyfel rhwng deiliaid yr un wlad neu deyrnas â'u gilydd, ac nid ag estron genedl; a rhyfel cartrefol yw ei gyfystyr cyffredin yn yr iaith Gymraeg. Rhyfel gwladol yw pob rhyfel ond y cyfryw yr ymgymmerir â hwynt ar yr un egwyddor â Rhyfeloedd y Groes yn y canoloesoedd.]

a rhydd eu buchedd, ydoedd yn cyfansoddi Pabyddiaeth o dan y gochl Protestaniaeth. Parhaodd y cyfnod cymmysgedig hwn ar lenoriaeth a llyfryddiaeth ein gwlad a'n cenedl hyd wawriad a chodiad Methodistiaeth.

Yn y cyfnod o'r blaen, llyfrau Eglwyswyr a'r 'Tri Enwad o Ymneillduwyr' oedd y cyfan; ond o hyn allan ceir *pedwar* enwad. Y tri enwad a enwid ac a gydnabyddid ym mhob ymdriniaeth gyfreithiol oeddynt, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Henaduriaethwyr. Yn awr y mae yr Henaduriaethwyr wedi diflanu, heb ddim o'u henaduriaeth i'w hadnabod, wrth eu nodau henaduriaethol fel trefniant eglwysig; ac nid wrth eu cyfundrefn eglwysig y gwahaniaethir hwy mwy, eithr wrth eu hynodion athrawiaethol. Collasant yr hyn oedd yn gwahaniaethu ac yn hynodi ein hynafiaid fel cyfundeb, a chodasant wahaniaethau athrawiaethol nad oedd eu hynafiaid yn eu cydnabod, ac ar yr un pryd galwant eu hunain yn Henaduriaethwyr! Y pedwar enwad presennol yw yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calфинаidd, a'r Methodistiaid Wesleyaidd: neu, gellir eu gwneyd yn *dri* enwad eto, er cau allan yr hen Bresbyteriaid Sosinaidd, a gadael iddynt ymfoddi yn yr Annibynwyr, gan nad oes yn awr wahaniaeth eglwysig eglur rhyngddynt, a chymmeryd yn eu lle y ddau enwad Methodistiaidd yn un enwad Henaduriaethol neu Bresbyteriaidd, yr hyn ydynt yn ol rhesymau llawer cryfach na'r hen Bresbyteriaid Undodaidd. Felly gellir galw y cyfnod hwn, cyn belled ag y mae llenoriaeth yn ei weddnodi, yn gyfnod Methodistiaidd, fel y mae ei lyfrau yn ei hynodi yn amlwg. Fel y mae y cyfnod hwn yn dyfod ym mlaen, y mae llai o gyhoeddi ffurfiau o weddïau, gan fod mwy o weddïo o'r galon ac â'r ysbryd, a mwy o ddefnyddiau canu, mwy efengylaidd, nag a fuasai yn y cyfnodau a aethent heibio. Yr ydys yn anwesu y dyb fod y sylwadau hyn yn eithaf cywir, ac y gwelir hyn yn amlwg yng ngweddnod cynnyrchion y wasg, o tua'r flwyddyn 1730 hyd o ddeutu dechreuad y chwarter diweddaf o'r ganrif, lle y ceir y llyfrau cyntaf a gyhoeddwyd yn gyssylltedig â'r 'chwyldroad gogoneddus' hwnw—yr adfywiad crefyddol yn yr Eglwys Sefydledig, o dan yr enw Methodistiaeth, er eu bod yn wahanol eu golygiadau athrawiaethol, neu yn coleddu erthyglau yr Eglwys hòno yn ol y modd y deallent hwynt, gan wneyd casgliadau gwahanol i'w gilydd oddi wrthynt.

Y cyfnod diweddaf yw chwarter olaf y ddeunawfed ganrif; canys hyd ddiwedd y ganrif ddiweddaf y cyrhaedd fy ymchwiliad. Cryfhâd Methodistiaeth yn yr Eglwys Sefydledig, ac allan o honi, oedd yn gosod ei argraff ar lenoriaeth y cyfnod a aeth heibio. Yr oedd 'hi eto yn dywyll' yn nechreu y cyfnod hwnw, ac yn 'dydd-

hau' ar ei hyd; ac yn awr gellir dywedyd fod 'yr haul wedi codi,' a'r hwn sydd hyd yn hyn yn parhau i dywynu yn ei nerth, gan daflu allan ei belydrau tanbeidiol ar lenoriaeth ein gwlad a'n cenedl, fel na raid i neb dramgwyddo yn nhywyllwch anwybodaeth.

Wrth ddiweddu y Rhagdraith hwn, nis gellir llai nag awgrymu y byddai yn orchwyl canmoladwy parhau i ail gyhoeddi rhai o'n hen lyfrau, yr hyn a ellid ei wneyd yn esmwyth pe byddai mwy o chwaeth gwladgarol ym moneddigion ein gwlad. Pe byddent mor awyddus a pharod i gefnogi y cyfryw anturiaethau ag ydynt i gefnogi telynganu mewn eisteddfodau, deuai y gorchwyl i ben yn eithaf rhwydd, yr hyn, yn nhyb llawer, a fyddai yn anferth fuddiolach i'n cenedl, ac yn anrhydeddusach iddynt hwythau.

Wrth weled mor wasgaredig yw ein llyfrau, ac mor anhawdd, ond o ddamwain, yw cael gafael ar y rhan fwyaf o honynt, teimlir awydd ar fod i rywun gwladgarol gymmeryd arno gasglu a sefydlu llyfrfa Gymreig yn rhyw le yng Nghymru, i fod fel Amgueddfa Wladwriaethol Gymroaidd; lle y gellid rhoddi i gadw bob llyfr Cymraeg, a phob llyfr o berthynas i Gymro, Cymry, Cymru, a Chymraeg, a ellid ei gael, fel y byddont wrth law i gyfeirio atynt, er adgyflenwi hanesyddiaeth grefyddol ein gwlad; yr hyn na ellir ei wneyd yn deilwng heb y cyfryw gynnorthwyon. Y mae Marwnad, Llythyr Cymmanfa, Cerdd, neu Almanac, weithiau, yn rhoddi mwy o wybodaeth nag a feddylid ar y dybiaeth gyntaf; ac heb law hyny, gwelid yn angenrheidiol meddu holl gyfnodolion Gymreig pob oes yn llawn. I'r dyben hyny byddai yn briodol eu bod mewn rhyw amgueddfa, lle y gellid cyfeirio atynt ar unrhyw achlysur, fel y gwelai yr efrydydd yn angenrheidiol.

[W. R.]

LLYFRYDDIAETH Y CYMRY.

TEBYGOL mai y Chinaiaid a ddyfeisiasant gyntaf y gelfyddyd o argraffu. Priodolir dyfeisiad y gelfyddyd yn Ewrop i dri neu bedwar o Germaniaid tua'r flwyddyn 1423.* Yn nesaf atynt hwy y daw yr Holandiaid; ac o Holand y dygodd William Caxton y gelfyddyd trosodd i Loegr tua'r flwyddyn 1473. Ond er bod Caxton wedi dwyn y gelfyddyd trosodd, ac iddo sefydlu argraffwasg, nid yw yn debyg iddo ef ei hun ddysgu argraffu, canys masnachydd sidan ydoedd ef; ac iddo at hyny gymmeryd y gorehwyl o argraffu trwy wasanaeth yr estroniaid a ddygai drosodd o wledydd y cyfandir i'r perwyl hyny.† Wedi blynyddoedd o arferiad ar y gelfyddyd yn y deyrnas hon, dynion o wledydd ereill a ddefnyddid fel cyssodwyr y llythyrenau. Hyd yn nod yn nheyrnasiad Elisabeth ceir awdwr yn ymddiheuro mewn Cynnwysiad neu *Epitome*, o dan yr enw '*A Bref Abstract, or Short Sume of several books of the Bible,*' o blegid y cyfeiliornadau neu y gwallau a allasant fod yn y gwaith, fel hyn:—

'Such faltes as you herein may finde,
I pray you be content;
As do the same with will and mynde
That was then our intent.

'The prynters were outlandish men,
The faltes they be the more,
Which are escapyd now and then,—
But hereof are no store.'‡

* John Guttenberg, ieuaf, a John Guttenberg, henaf, John Ffaust [neu Ffust], ill tri o Ments, a Peter Schoeffer, o Gernsheim. Gwel *Geirlyfr Cymraeg* O. Williams, yr hwn a rydd hanes helaeth am danynt; y *Gwyddoniadur Cymreig*, o dan y gwahanol enwau; *Timperley's Dictionary of Printers and Printing, &c., &c.*; yng nghyd ag agos bob Geiriadur a Gwyddoniadur cyffredinol, y rhai sy'n traethu yn helaeth ar ddechreuad a chynnydd y gelfyddyd o argraffu. [Gwr genedigol o gymmydogaeth Ments, ond yn preswyllo y rhan fwyaf o'i oes yn Strasbwrg, ydoedd Guttenberg, yr hwn hefyd, yn ol cyfenw ei dad, a elwir *Gensfleisch*. Mewn llyfrau Lladin gelwir Schoeffer yn *Opilio*, yr hyn nid yw ond cyfieithiad o'r enw Almaenig, sef *bugail*. Yr oedd dau Schoeffer, ond nis gwyddom ond am un Guttenberg.]

† Y mae rhai yn rhoddi cred i ryw hanes am lyfr o'r enw '*Sancti Jeronimi Expositio in Simbolo Apostolorum,*' ac yn dwyn amseriad 1468, felly rai blynyddoedd o flaen Caxton, gan un Frederick Corsellis, tramorydd.—*Johnson's Typographia*, vol. i. p. 118. [Dywed y Dr. Adam Clarke (*Bibliographical Miscellany*, ii. 130), mai—'*The Game and Playe of the Chesse*, imprinted by William Caxton, ffynysshid the last day of Marche, the yer of our Lord God a thousand foure honderd and lxxiii,' tu hwnt i bob dadl, yw y llyfr cyntaf oll a argraffwyd yn Lloegr; ond yn ddiu nid y cyntaf o waith Caxton; canys dygai ef ei gelfyddyd ym mlaen yn Nghwlen ('*Colonia*'), yn yr Almaen, am ryw ysbaid cyn ymsefydlu yn Westminster. Bernir iddo argraffu y llyfr a elwir '*Le Recueil des Histoires de Troyes,*' rhwng 1464 ac 1470, yn y ddinas hono.]

‡ Brayley's *Londoniana; or Reminiscences of the British Metropolis*, vol. ii. p. 16.

Yn Llundain, Rhydychain, Mwythig, a Chaerlleon, y buwyd yn argraffu y llyfrau Cymraeg gyntaf; ond bu argraffwasg yn Nhrefaldwyn, yn amser y terfysgiadau gwladol,* canys ceir llyfryn Seisonaeg wedi ei argraffu yn 'Montgomery' yn 1648.† Y llyfr *Cymraeg* cyntaf a argraffwyd yng Nghymru ydoedd yn *Ngwrecsam*, ac nid yn Nhrefhedyn na Chaerfyrddin, fel y credid o'r blaen. Y llyfr ydoedd 'Holl Ddyledswydd Dyn,' a'r flwyddyn ydoedd 1718;‡ o leiaf dyma y llyfr Cymraeg cyntaf a gafwyd eto wedi ei argraffu yng Nghymru.

Er bod Caxton ac ereill wedi cyhoeddi rhai pethau yn fore, iawn y gellid tybio wrth eu henwau eu bod yn dwyn perthynas â Chymru a'r Cymry; megys, '*Morte Darthur, Byrth, Lyf, &c., of Kyng Arthur*,' gan y cyntaf yn 1485;§ a '*Galfridi Monemuthensis Britanniae utriusque Regum et Principum Origo et Gesta*,' gan argraffwyr Paris, yn 1517. Ymddengys er hyny mai ail argraffiad ydoedd yr uchod, a bod y cyntaf wedi ei argraffu yn Paris yn 1508; a daeth allan argraffiad arall, neu yn hytrach gyfieithiad, gan Aaron Thompson, yn 1718; ac un arall gan y Dr. Giles, yn 1842. Rhydd y Rhestrlyfrau waith Gildas fel wedi ei argraffu yn Llundain yn 1525.

[Y traethawd 'De Excidio Britanniae,' o waith Gildas, a gyhoeddwyd y tro cyntaf yn llyfr Splyg bychan, yn Llundain, yn y flwyddyn 1525, gan yr Italiad dysgedig, Polydor Vergil. Rhed tudalen yr enw yn yr argraffiad cyntefig hwn fel y canlyn:—'Opvs Novvm. Gildas Britannvs Monachvs cvi Sapientis cognometu est inditum, de calamitate excidio, & conquestu Britanniae, quam Angliam nunc uocant, author uetustus a multis diu desyderatus, & nuper in gratiam. D. Cutheberti Tonstalli, Londinen. Episcopi formulis excusus.' Ni fynegir ar y ddalen gyntaf pa bryd, pa le, na chan bwy yr argraffwyd ef; ond terfynir y cyflwyniad i'r Esgob Tonstal fel hyn:—'Vale. ad. VIII. Iduum April. M.D.XXV. Londini.' Cynnwys y gwaith 44 o ddail, a'r rhai hyny heb eu tudalenu; ac y mae oll yn argraffedig mewn llythyrenau Italg]

Yr oedd hefyd un Salisbury wedi cyhoeddi '*Primer*'|| yn y flwyddyn 1531, yr hwn oedd yn llyfr o un ddalen ar hugain, ac wedi ei

* [Ymddengys mai gwasg symmudol, ac nid sefydlog, ydoedd hon.]

† Gwel rhif 2, d.f. 1646.

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1718.

§ Llythyr B. Davies, ger Caerfyrddin; ond ymddengys fod llyfr o'r enw hwn wedi dyfod allan mor fore a 1521. 'Le Bregement de toutes les estatutes ausi bien des vielles come des nouvelles nouvellement abreges. By Guillaume Owein, a Welshman. Impressum Londini per Richardum Pynsonum, 1521.' Ni a a gawn hefyd 'Assertio inelytissimi Arturii regis Britanniae, Joanne Lelando autore. Londini, 1544.' Teitl llyfr 1485 yn llawn sy fel hyn:—'A booke of the noble Hystories of Kynge Arthur, and of certen of his Knyghtes, which booke was reduced in to Englysshe by Syr Thomas Malory Knyght, and by me William Caxton, deceyded into xxi Booke, chapytred and empynted and fynysned in abbey Westmestre 1485.' Y mae mewn llythyrenau duon. Cyhoeddwyd o ddeutu 51 argraffiad o hwn erbyn 1614. [Yn 1817, adgyhoeddwyd argraffiad Caxton, air yng ngair, a llythyren a llythyren, gan Robert Southey, y bardd llawryfog, gyda rhagarweiniad a nodiadau, mewn 2 gyfrol 4plyg.]

|| [Y mae yr awdwr wedi camddeall ystyr yr enw '*Prymer of Salysbery*' yn hollol. Nid llyfr o waith neu gyfieithiad neb o'r enw *Salysbery* neu *Salisbury* a olygir, ond y '*Primer*, neu Llyfr y Gwasanaeth Eglwysig, arferedig yn Eglwys Gadeiriol *Salisbury*, Sarum, neu Gaergaradog. Cyn amser y Diwygiad nid yr un ffurfwasanaeth yn gwbl a arferid ym mhob esgobaeth yn y deyrnas; ac yr

argraffu gan Robert Copeland, yr hwn a fuasai yn wasanaethydd gyda Caxton. Ceir hefyd argraffiad arall yn 1535, dan yr enw ‘*Prymer of Salysbery*,’* ond ni ddywedir mai Cymraeg oedd y rhai hyn.† Ymddengys fod gan y Salisburiad rywbeth i’w wneyd ag argraffu yn fore, fel y ceir gweled eto. Dyma yr amgylchiad cyntaf i gael yr enw *Salisbury*‡ yn gyssylltedig â llyfryddiaeth, ac yr oedd hyn cyn pen nemawr o flynyddau ar ol dwyn y gelfyddyd o argraffu i’r deyrnas hon. Yr oedd, ymddengys, un John Byddell, neu Bedel, yn galw ei hun yn Salisbury hefyd; canys argraffwyd llyfr yn y flwyddyn 1533, o’r enw ‘*Lyf of Hyldbbrand. Imprinted by Wynkyn de Worde, for John Byddell, otherwise Salisbury.*’§ Ond ni chafwyd fod dim wedi ei argraffu yn Gymraeg yn gynt na’r canlynol, yn yr hwn le ac amser y gellir, ac yr arferir amseru dechreuad Llyfryddiaeth y Cymry; sef,

1546.

‘BEIBL. Yn y Llyvyr hwn y Traethyr Gwyddor Kymraeg. Kalendyr. Y Gredo neu bynkey yr ffydd Gatholig. Y Pader neu Weddi yr Arglwydd. Y Deng air Deddyf. Saith rinwedd yr Eglwys. Y Kampay arveradwy, a’r Gweddiau Gocheladwy ac Keingeu.’|| [Llundain, 1546, 4plyg.]

oedd gan *Salisbury*, fel y gwyddys, ffurfwasanaeth, neu Lyfr Gweddi Gyffredin, neillduol iddi ei hun, ac yn amrywio mewn llawer o bethau oddi wrth y ffurfiau arferedig mewn lleoedd ereill. Cyfeirir at ffurf neu ‘arfer’ *Salisbury* yn y Rhagymadrodd i’r Llyfr Gweddi Gyffredin, yn y wedd ganlynol:—‘Alle bu cyn hyn amrywiaeth mawr wrth ddywedyd a chanu yn yr Eglwysi o fewn y Deyrnas hon, rhai yn canlyn Arfer *Salisbury*, rhai Arfer *Henffordd*, rhai Arfer *Bangor*, rhai Arfer *Efrawg*, a rhai ereill Arfer *Lincoln*: yn awr o hyn allan ni bydd i’r holl Deyrnas ond un Arfer.’]

* *Dictionary of Printing and Printers*, p. 301. Yr oedd un cyfargraff o’r llyfr hwn, tybygid, yn llyfrfa Rug, ger Corwen, yr hwn a elwir yn rhestr gwerthiant eiddo y diweddar Syr Robert Williames Vaughan, yn ‘*Salisbury Missall*,’ ac a brynwyd gan Mr. Hayes, llyfrwerthydd o Manchester, am 45p., er nad ydyw ond ychydig o ddalenau.

† Yr oedd un Cymro yn awdwr un o’r llyfrau a argraffwyd gan W. Caxton, sef John Gower, brodor o Gymru, ac y mae rhagddalen ei lyfr yn darllen fel hyn:—‘*Confessio Amantis, that is to saye in Englishshe, The Confessyon of the Louer, maad and compyled by me John Gower, Squyer. Enprynted at Westmestre by me Willyam Caxton, and ffynysed the ij. daye of Septembre the fyrst yere of the regne of Kyng Richard the thyrd the yere of our lord a thousand cccclxxxiiij.*’ Dywedir fod yn yr amseriad hwn wall o un x yn ormod, ac mai 1483 a feddylir. Cynnwysa 211 o ddalenau. [Yn 1483 y dechreuodd Rhisiart Wargam deyrnasu, ac yn 1485 y collodd ei fywyd ar Faes Bosworth. Y mae mcccclxxxiii, a’r flwyddyn gyntaf i Risiart, gan hyny, yn anghysson â’u gilydd.]

‡ [‘*Salesbury*,’ yn hytrach na ‘*Salisbury*,’ yr arferai yr hen Salsbriaid ysgrifenu eu henwau. Am hanes dyddorawl am deulu y Salsbriaid, ac am Wilym Salsbri yn neillduol, gweler *Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 187—202.]

§ *Dictionary of Printing and Printers*, p. 287.

|| Rhydd Johnson y llyfr hwn ym mhlith y llyfrau a argraffwyd gan Edward Whitchurch, a rhydd y geiriau cyntaf fel hyn: ‘Ym llyvyr;’ a dywed ma Splyg ydoedd.—*Typographia*, vol. i. p. 517.

Dywed yr Esgob Humphreys, gynt o Fangor, mai math o Almanac ydoedd, o ychydig o ddalenau. Dodwyd 'Beibl,' mewn llythyrenau breision ar ben uchaf y ddalen gyntaf, i dynu sylw, mae yn debyg, gan fod rhanau o'r Beibl ynddo, yr hwn oedd hollol ddyeithr yng Nghymru yn y dyddiau hyny. Tybia rhai mai Syr John Price, LL.D., a gyhoeddodd y llyfr hwn. Brodor o sir Frycheiniog oedd Syr John, ac yn fab i un Rhys ab Gwilym Gwyn, ac yr oedd yn byw yn y Priordy, Aberhonddu. Y mae yn dra thebyg ei fod mewn urddau, ac felly yn dwyn rhyw berthynas eglwysig â'r Priordy, yr hwn le oedd mewn bri yn yr oes hòno; ac y mae yn debyg mai o blegid hyny y gelwid ef 'Syr John,' am yr arferid yn yr oes hòno alw dysgedigion mewn urddau eglwysig felly;* ond dywed Wood iddo gael ei wneyd yn farchog, ac iddo lenwi amryw swyddau dinesig yn ei wlad. Yr oedd yn un o'r dirprwywyr a roddwyd ar waith gan Harri VIII. i chwilio y Mynachlogydd ag oedd i'w difrodi.† A chafodd ef y Fynachlog hòno, oedd yn werth y pryd hyny 134*p.* 11*s.* 4*e.* Prynwyd y lle wedi hyny oddi ar un o'r disgynyddion gan Syr John Jephrys, wyres yr hwn a'i trosglwyddodd trwy briodi i un John Pratt, a mab hwnw yn marw yn ddiblant, a'i gwnaeth yn ei ewyllys i Ardalydd Camden. Efe a gafodd neu a brynodd hefyd ddegymau Llanfair ym Muallt a Llanddewi'r Cwm. Y mae yn dra sicr ei fod yn Brotestant, neu wedi ymwrthod â i urddau eglwysig er ys cryn amser, canys ceir enwau ei blant i ddeg—5 o ferched a 5 o feibion;‡ er y dichon ei fod yn briod pan mewn urddau; canys ymddengys nad oedd gweddwdod offeiriadol yn cael ei gadw mor fanwl yng Nghymru, ag yr ydoedd mewn lleoedd ereill o'r gwledydd pabaidd, a bod Cymru yn addfedu er ys talm i fwrw ymaith iau Rhufain; canys yr oedd y Deon Salisbury yn Llanelwy, yn amser Harri VII. a Harri VIII., yn meddu teulu mawr, ac er hyny yn cael ei gydnabod yn gyfreithlawn ddeon.§ Yr oedd Syr John yn hynafiaethydd enwog,|| a hynododd ei hun trwy ei 'Amddiffyniad o'r Hanesiaeth Frytanaid,' yn erbyn Polydor Virgil.** Rhoddodd hefyd gynnorthwy i Leland, yn ei '*Assertio Arturii.*'†† Gall hefyd y bu gan y Dr. John Dafydd Rhys law yng nghyhoeddiad y llyfryn hwn, gan ei fod yn byw ger Aberhonddu, ac felly yn adnabyddus â Syr John Price.‡‡

* Rhoid y blaen-enwad *Syr* i offeiriad heb gael ei ddysgeidiaeth yn y prifysgolion.—*Gwaith Lewis Glyn Cothi*, nod, t. 253.

† Meyrick's *Dwnn's Heraldic Visitation*, vol. i. p. 97.

‡ Humphreys's *Additions to Wood's Athene Oxonienses*.

§ *M.N. in the Arch. Camb. N.S.* vol. ii.

|| Jones's *History of Breconshire*.

** Polydorus Virgilius [neu Vergilius], oedd frodor o Urbino, yn yr Ital. Daeth i Loegr yn 1503 fel negesydd dros y Pab Alecsander VI., i gasglu ceiniogau Pedr, lle y treuliodd tua hanner can mlynedd o'i oes yn ysgrienu ac yn cyhoeddi amrai weithiau. Yr oedd yn dal archddiaconiaeth Wells, &c. Bu farw yn Urbino, yn 1555.—*Penny Cyclopaedia*.

†† John Leland, hynafiaethydd enwog a anwyd yn Llundain yn nechreu y 16 ganrif, ac a fu farw yn 1552.

‡‡ [Nid oes un lle i greu nad gwr lleyg a marchog urddol ydoedd Syr John Prys. Crybwylla yr Esgob Rhisiart Davies am dano, yn ei *Epistol* at y Cymry, megys 'marchog urddol;' a chyfeiria at yr hyn a wnaeth ef mewn perthynas i lyfryddiaeth Cymru yn yr ymadrodd hwn :—'Eithr mor ddiystyr

1547.

1.

'A Dictionary

in Englyshe and Welshe moche necessary to all suche Welshemen as wil spedly learne the englyshe tōgue thought vnto the kynges maiestie very mete to be sette forthe to the vse of his graces subiectes in Wales: Whe revnto is p'fixed a litle treatyse of the englyshe pronũcia-cion of the letters, by

Wyllyam Salesbury'



Y mae yn blaenori y Geirlyfr hwn, 'Johan Waley y prenter yn danfon anerch ar pobol Kymry.' Yr oedd y Cymraeg ynddo o flaen y Seisonaeg, er y dywedir ar yr wyneb-ddalen mai '*Dictionary in Englyshe and Welshe*' ydoedd; yr hyn a wnaeth i bawb ei ystyried a'i ddarlunio felly, sef mai y Seisonaeg ydoedd gyntaf; ond fel arall y mae. Y mae y geiriau wedi eu trefnu yn *golofnau* ynddo, rywbeth yn debyg i silliadur ysgol, bedair colofn ar bob wyneb-ddalen fel hyn:—

<i>Kamberaec.</i>	<i>Saesonaec.</i>	<i>Welshe.</i>	<i>Englyshe.</i>
dyn	man	llaw	hand
pen	head	coes	leg
ysgrifenu	write	cofio	remember

Nid yw y llyfr yn un bychan, ond y mae yn lwmp lled drwchus, o blygiad rhyw 12plyg ysgwâr; ond o blegid ei gynllun uchod y mae llawer o'r dail yn ddiargraaff.

Yr oedd wedi ei gyflwyno i'r brenin Harri VIII., a'i argraffu dan ei nodded ef, fel y mynega yr wyneb-ddalen,—'*thought vnto the kynges maiestie very mete to be sette forthe to the vse of his graces subiectes in Wales.*' Y mae Strype, yn ei '*Annals,*' yn galw yr awdwr yn '*Wyllyam Salesbury of Llanrwst, gent.*;' ac yn dywedyd ei fod yn gyfranog â 'Johan Waley y prenter,' yn y breintlythyr

fydday iaith y Cymro, a chyn bellet ir esceulusit, ac na allodd y print ddwyn firwyth yn y byt yw gyfri ir Cymro yn i iaith i hun hyd yn hyn o ddydd neu ychydig cyn hyn i gosodes Wiliam Salsburi yr Efengylon a'r epystelay, a arferid yn yr Eglwys tros y flwyddyn, yn Gymraeg yn print, a' Syr Ihon Prys yntay y Pader, y Credo, a'r x Gorchymyn.' Diau y gwyddai yr Esgob Davies, ei gydoeswr a'i gydlafurwr, yn dda ddigon pa un ai gwr lleyg ai gwr eglwysig ydoedd Syr John Prys, a dylai ei dystiolaeth ef, yng nghyd â thystiolaeth Wood, fod yn benderfynol ar y pwnc.]

am saith mlynedd i argraffu y Beibl yn Gymraeg.* Y mae copi o'r argraffiad hwn yn y Gywreinfaf Brydeinig, yn Llundain. Dywed Johnson fod Edward Whitchurch wedi argraffu '*Englyshe and Welshe Dictionary*', heb amseriad; ond mae yn debyg mai yr un a enwir eto ydoedd hwnw. Bu Waley farw yn 1586.

[Cymmaint ag a welir uchod, ar ddull cyrnen wrthdröedig, yw y cwbl sydd ar wyneb cyntaf dalen enwol y llyfr hynafol hwn. Ar gefn y ddalen hòno y mae y cyflwyniad i'r Brenin Harri VIII:—'To the moost Victoriouse & Redowbted prince Henry theyght by the grace of God Kynge of Englande, Fraunce and Irelande defender of the faythe And of the Churche of Englande and also of Irelâde in erthe the supream Hedde be al prosperitye in continuall honour.' Yna y canlyn—'Wyllyam Salesburi wrth y darlleawdr,' yr hyn a gynnwys dair dalen. Wedi hyn y daw—'Natur a sain y llythyreu vchod yn Saesneec; neu, fel y gelwir y rhaglith hwn ar frig y dail,—'Athraw-aeth i ddyscy darllen Saesneec.'" Cymraeg ydyw, a llenwa 6 dalen. Yna y dechreu y Geiriadur ei hun. Cynnwys yr holl lyfr 83 o ddail, neu 166 o dudalenu 4plyg bychan. Y mae oll yn y llythyren ddu, ac, fel llawer o lyfrau yr oes hòno, heb ei dudalenu. Nid 'lwmp lled drwchus' mo hono mewn un modd, ond, fel y gellir yn hawdd ddirnaw wrth nifer ei ddalenu, llyfr pur deneu ydyw. Rhenir y tudalen yn bedair colofn, megys y canfyddir yn y cynllun a rydd yr awdwr: y golofn gyntaf sydd â'r gair *Kamberaec* (ac weithiau *Camraec*) uwch ei phen; uwch ben yr ail golofn saif *Saesnaec* (ac weithiau *Saesneec*); uwch ben y drydedd ceir *Welshe* (a phryd arall *Walshe*); ac uwch ben y bedwaredd saif *Englyshe*. Y mae yr awdwr wedi bod braidd yn anffodus yn ei enghraifft o'r gwaith; canys *dull* neu *gynllun* ydyw, aenid dyfyniad allan o hono; o herwydd yn y gwaith ei hun ni cheir, er enghraifft, ddim yn y golofn Seisoneg ar gyfer y gair 'dyn'; ac y mae llawer gair Cymraeg, mewn gwahanol fanau yn y gwaith, heb un gair cyfystyr ar ei gyfer yn y golofn Seisoneg.

Nid yn '*blaenori* y Geirlyfr hwn' y ceir—'Iohan Waley y prenter yn danfon anerch ar pobol Kymry,' ond ar y tudalen *olaf* oll o'r gwaith; ac ar waelod hòno y ceir yr argraffeb ganlynol:—

Imprynted at London in Foster lane, by me
John Waley.

(1547.)

Cum priuilegio ad imprimendum solum.'

Y mae dau gyfargraff o Eirlyfr Salsbri yn y Gywreinfaf Brydeinig, yn Llundain, un yn hollol gyflawn, a'r llall yn ddfygiol o'r ddwy ddalen gyntaf a'r pedair olaf. Y mae peth coll hefyd yng nghanol y gwaith. Y mae cyfargraff perffaith hefyd o hono yn Llyfrgell Peniarth, Meirion.

Hwyrach nad annifyr fyddai enghraifft arall o'r Geiriadur boreuol hwn. A ganlyn yw ei eglurhâd ar y gair *Wynwyn*:—'Wynwyn llyseun o ddyryr gwragedd wrth eu llygait er kymel wylo pan fo meirw eu gwyr.'

2. 'Calender of Months and Days, by W. Salesbury.' †

[Diau mai yr un yw hwn â'r rhif 1, dan y flwyddyn 1546.]

1548.

¶ 'A Dictionary in Englyshe and Welshe,' &c.

Ail argraffiad oedd hwn, tybygid, o'r '*Dictionary*' y flwyddyn arall. Ei argraffydd oedd Edward Whitchurch. Yr oedd heb amseriad, a gall y dylasai fod ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach. Yr oedd ef yn un o argraffwyr *Matthew's Bible*, ‡ sef yr ail ar-

* *Dictionary of Printing and Printers*, p. 297.

† Yn ol Mr. O. E. Hughes, *Trefriw*, yn y *Carnarvon Herald*, Jan. 1, 1859.

‡ Y mae yn cael ei alw yn '*Matthew's Bible*,' yn ol enw Thomas Matthew, yr hwn oedd enw ffygiol y golygwr, yr hwn mewn gwirionedd nid oedd neb llai na John Rogers, y merthyr.—*Penny Cyclopaedia*, d.g. *Bible*.

graffiad o 'Feibl Coverdale,' * gyda pheth gwelliadau. Yr oedd hyny yn y flwyddyn 1537.

[Nid ymddengys i Eirlyfr W. Salsbri gael erioed ei ail argraffu. Tebyg ddigon gan hyny mai camgymeriad yw ei gofnodi o dan y flwyddyn hon, yn gystal a'r trydydd argraffiad o hono dan y flwyddyn 1551.]

1550.

1. 'A Brief and plain Introduction, teaching how to pronounce the Letters in the Brytysh Tongue.'

Ail argraffiad ydoedd hwn o'r *Little treatyse of the Englyshe pronunciation of the Letters*, oedd yn blaenori '*Dictionary*' y flwyddyn 1547, gan Wyllyam Salesbury, ac a argraffwyd fel hyn wrtho ei hun, yn Llundain, gan Robert Crowley. †

[Nis gall dyfaliad yr awdwr fod yn gywir yma; canys *Cymraeg* yw y cyfarwyddyd i seinio y llythyrenau o flaen y Geiriadur, ond *Seisoneg* yw y gwaith hwn. Gweler d.f. 1567, lle y rhoddir enw y llyfr yn gyflawn.]

2. 'Dymchweliad allor uchel y Pab, gan W. Salesbury.' Llundain, 8plyg. ‡

[Ni chyhoeddodd Salsbri un gwaith o dan yr enw a gofrestrir yma. Y gwaith a olygir yw yr un Seisoneg canlynol:—

'The baterie
of the Popes Botereulx, common-
lye called the high Altare. Com-
piled by W. S. in the yere
of oure Lorde.
1550.'

Yna y canlyn dyfyniad o 2 *Cor.* x. 4—6. Ni chynnwys dalen yr enw un amseriad, nac enw argraffydd, nac enw argraffle; ond ar y diwedd dywedir:—
'Imprinted at London by Robert Crowley, dwellyng in Elye tentes in Holburne. The yere of our Lord. M.D.L.'

Cynnwys 54 o ddail (8plyg) heb rifnodi eu tudalenau. Cyflwynir y gwaith yn y wedd ganlynol:—'To hys singuler good Lord, Syr Richarde Ryche, Lorde Ryche, & Lord Chauncelloure of Englande: his mooste fayethfull and humble seruaunte Wyllyam Salesburye wysethl euerlastyng felicitie.' Cynnwys y llythyr cyflwyn ddwy ddalen; yna y daw—'William Salesburye to the Christen Reader,' yn cynnwys dwy ddalen arall; ac yna y canlyn y 'Baterie' ei hun. Y mae argraffwaith y llyfr hwn yn llawer gwell nag argraffwaith y Geirlyfr. Y mae cyfargraff o hono ar gadw yn y Gywreinfia Brydeinig.]

3. 'Arweiniad hawdd ac eglur i'r iaith Gymraeg, gan W. Salesbury.' Llundain, 1550, 4plyg.

Yr un ydoedd hwn â rhif 1, y flwyddyn hon; ond dichon y dylasai fod ychydig ym mlaen—ef allai bedair neu bum mlynedd.

[Ni gall hwn fod yr un â'r rhif 1, a gofnodir dan y flwyddyn hon; canys cyfarwyddyd i'r Seison iseinio y llythyrenau Cymraeg yw hwnw, ac yn yr iaith Seisoneg y mae yn ysgrifenedig; ond ymddengys, os yw ei enw yn gywir, mai llyfr *Cymraeg* ydyw hwn. Gweler d.f. 1567.]

* Miles Coverdale, cyhoeddydd y Beibl Seisonaeg cyntaf, a anwyd yn Ecseter, yn y flwyddyn 1487; bu farw, tybygir, yn 1568, canys claddwyd ef ar y 19ydd o Chwefror, yn y flwyddyn hono, yng nghanghell Eglwys St. Bartholomæus, yn yr oedran teg o 81 oed.—*Penny Cyclo.*, dan ei enw.

† *Dictionary of Printing and Printers*, p. 297.

‡ *Cofrestr* Moses Williams.

1551.

1.

'KYNNIVER

llith a ban or yscry-
thur ac a ddarlleir yr Ecleis pryd
Commun y Sulieu a'r Gwiliu
trwy 'r vlwyddyn ; o Cam-
bereiciat. W. S

Tit. ii

Llewychawdr iachwyawl rat Deo i pawp dyn can en
dyseu y ymwady ac annuwoldab a chwanteu bydol a
byw yn sobr ac yn gyfyawn ac yn dduwiol yn y byd yn
awr can ddisgwyl am y wynvydedic obaith a llewyc-
at gogoniant y Deo mawr a'n Iachawdyr Ieshu
Christ yr hwn ae dodes ehunan trosom er en pryny o
ywrth oll enwiredd a charthy iddo ehunan pobl priawt
y ymgar a gweithredoedd da.

Rom i.

Nyd cywilyddus *geny* vi Euangel Christ can ye gallu
Deo ydyw hi ar iechait i pop vn yn credy ynthei.'

Ar ei ddiwedd y mae a ganlyn :—

'¶ Imprinted at
London by Roberte Crow-
ley for William Sales-
bury dwellynge in Elye tentes in
Houlbourne
Anno Domini
M.D.L.i'

[Yn ol *Cofrestr* Moses Williams, llyfr 4plyg ydyw.]

2. 'A Dictionary in Englyshe and Welshe,' &c.*

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad o Eirlyfr '*Wyllyam Salesbury, of Llanrwst, gent.*'† Yr argraffydd presennol oedd Robert Crowley; yr hwn oedd frodor o sir Gaerwrangon. Y mae yn dra thebygol ei fod yn Gymro, gan fod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredin yn siroedd y terfynau y pryd hyny. Arferai bregethu hefyd, gan ei fod mewn urddau, ac yn Ficer St. Giles, Cripplegate, Llundain, lle y bu farw, Mehefin 18, 1588. Bu gorfod iddo ffoi, fel llawer ereill, i Ffranceffort, ar ddyfodiad Mari i'r orsedd.‡

* Gwel rhif 1, d.f. 1547. Os argraffodd Whitchurch hefyd '*Dictionary*,' yr oedd hwn yn drydydd argraffiad. [Gan mai ar awdurdod Seison y cofnodir yr argraffiad tybiedig hwn, prin y gellir credu fod mwy nag un argraffiad o Eiriadur W. Salsbri wedi ymddangos drwy'r wasg.]

† Gwel dan y flwyddyn 1547 a 1548.

‡ *Dictionary of Printing and Printers*, p. 398.

3. 'Exemplifier of Eloquence. By W. Salesbury.*'

[‘Egluryn Ffraethineb’ Salsbri a Pherri ydyw hwn, ac nid argraffwyd mo hono hyd y flwyddyn 1595 : ni ddylasai gan hyny gael ei gofnodi yma.]

Aeth deuddeng mlynedd heibio ar ol hyn cyn y cawn fod dim wedi ei wneyd gan y wasg er lles y Cymry, hyd y medrais wybod. Ond yr oedd yn Ipswich, yn amser Edward VI, argraffydd o'r enw John Oswen, yr hwn, yn y flwyddyn 1548, a symmudodd i Gaerloew; ac y mae yn y *Roll's Chapel* drwydded a roddwyd gan Edward VI. i John Oswen, o ddinas Caerloew, a'i gynnrychiolwyr, i argraffu, ac ail argraffu, pob math o lyfr neu lyfrau, a osodir allan gan ei fawrhydi, o berthynas i'r gwasanaeth a arferir yn yr eglwysi, a gweinyddiad y sacramentau, ac addysg i'w ddeiliaid yn Nhywysogaeth Cymru, a'r terfynau perthynol i'r unrhyw, &c., am saith mlynedd, gan wahardd pawb ereill, pwy bynag fyddont, i argraffu yr unrhyw. Efe a argraffodd hyd y flwyddyn 1553, yn yr hon flwyddyn, sef y 7fed o Edward VI, y cafodd ei benodi yn argraffydd i Dywysogaeth Cymru, a'r terfynau perthynol i'r unrhyw. Er y cyfan, nid ydys yn deall i Oswen argraffu dim yn Gymraeg; ac aeth ei drwydded allan heb wneyd dim gwerth ei chael, pan y rhoddwyd trwydded arall i John Waley.† Heb law hyny, bu farw y brenin Edward, a daeth Mari babaidd i'r orsedd, yr hyn a rydd reswm arall pa ham y mae cymmaint o wagle a deuddeng mlynedd heb i Gymru gael dim trwy y wasg.

1553.

‘Here beginnith a litel treatess conteyninge the ivgemêt of oryne most necessary for al such as be desirous to knowe the state of their owne bodys or be vvylling to helpe theyr frindes, wrythyn in the latyn tong by John Nass and englished by humefre Lloyd at the request of the Ryght honorable Lord Safford.

Imprinted at London by Richarde Nattyl dwellyng in Fletestrete,* &c. 1553.

Ar ei ddiwedd fel hyn :—

‘Here endith the Boke yf Seynge of VVdenis Imprinted at London in Fletestrete at the Sygne of the George next to saynt Dunstons church by VVylliam Povvel In the yere of our Lorde M.D.LX.ii The xiiii day of Januarye.’

[Yn ol awdwr y *Cambrian Plutarch*, yr hwn a ganlynir yn y *Biog. Dict. of Eminent Welshmen* (d.g. ‘Humphrey Llwyd’), yn y fl. 1551 yr ymddangosodd y gwaith hwn, sef y flwyddyn y cymmerth Llwyd ei radd o Athraw y Celfau yn Mhrifysgol Rhydychain. Anhawdd dyfalu pa fodd y mae cyssoni yr hyn a draethir yma yng nghylch y llyfr dan ystyriaeth, sef, y dywedir ar y ddalen gyntaf gael o hono ei argraffu yn Llundain gan Richarde Nattyl yn 1553, ac ar y diwedd, gan VVylliam Povvel yn 1562. Ymddengys fod yma ddau lyfr gwahanol yn cael eu crybwyll; ac hwyrach i'r amryfusedd ddygwydd trwy i'r awdwr gyfarfod â'r ddau wedi eu cyfrwymo; sef, y ‘Ivgemêt of Oryne,’ ar-

* Yn ol Mr. O. E. Hughes, *Carnarvon Herald*, January 1, 1859.

† *Dictionary of Printing and Printers*, dan y flwyddyn 1548, a d.g. ‘John Oswen.’

graffedig yn 1553, a'r 'Boke of Seynge of VVdenis,' yn 1562 : ac os oedd diwedd y naill a dechreu y llall wedi myned ar ddifancoll, gallasai y camgymeriad ddygwydd yn bur hawdd. Ni ddarfu i mi weled y gwaith neu y gweithiau a gofnodir.]

[1563.

'Gildæ de Excidio Britanniaë Epistola.'

Argraffedig yn Llundain, 1563, gan J. Daye, 8plyg.

Hwn, fel yr ymddengys, oedd y pedwerydd cyhoeddiad o argraffiad Polydor Vergil o Lythyr Gildas. Gweler tudalen 2, a chymharer rhif 6, d.f. 1587. Ymddangosodd yr ail argraffiad o hono yn Awgsbwrg yn 1534, a'r trydydd yn Basil yn 1541.]

1564—65.

'The Letanye in Welshe.'

Ni ellais wybod dim ychwaneg am yr uchod, na'i fod yn cael ei enwi ym mhlith y llyfrau a argraffwyd gan John Waley, yn y rhestr o honynt a roir gan Mr. C. H. Timperley.*

1567.

1. 'Testament newydd ein Arglwydd Iesu Christ. Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith 'air yn ei gylydd or Groec a'r Llatin, gan newidio ffurf llythyren gairiae-dodi. Eb law hynny y mae pob Gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran Llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y deunydd, wedi ei noti ai eglurhau ar 'ledemyl y tu dalen gydrychiol.'

Yn niwedd y llyfr y mae y geiriau hyn :—

'Imprinted at London, by Henry Denham, at the costes and charges of Humfrey Toy, † dwelling in Paules churchyarde, at the signe of Helmet. *Cum privilegio at imprimendum solum.* Anno. 1567. Octob. 7.'

Fe allai na byddai yn ammhriodol yma wneyd rhai sylwadau arweiniol, cyn sylwi ar gyfieithiad a chyhoeddiad y Testament hwn. Y cyntaf, am a wyddys, a gyfieithodd ranau o'r Beibl i'r iaith Gymraeg, oedd TALIESIN ‡—bardd enwog o ymyl Llanrwst, ag oedd

* *Dictionary of Printing and Printers.*

† Yr oedd Humfrey Toy, neu Toe, yn Gymro o du ei fam a'i nain; canys merch oedd ei nain, mam Robert Toy, i David ab David, o Gaerfyrddin, a gwraig Robert, mam Humfrey, oedd ferch Gruffydd ab John David Lloyd. Gan fod William Salesbury yn cyfeillachu llawer â'r Esgob Richard Davies, a hwnw yn byw yn Abergwili, ger Caerfyrddin, a Mrs. Toy yn argraffyddes, yn dwyn y gwaith ym mlaen ei hun ar ol marwolaeth ei gwr, hyd nes y cyfododd ei mab Humfrey, cafodd W. Salesbury ei gymhell i lettya yno, tra y byddai yn Llundain yn golygu y wasg, ac argraffu y Testament Newydd. Diau mai trwy ddylanwad ei fam y cymmerodd arno y gost o argraffu y Testament. Yr oedd un John Toye yn argraffu yn 'Poules church yard, at the signe of saynte Nycolas,' yn 1531.—Johnson's *Typographia*, vol. i. p. 510.

‡ [Nid oes un prawf ddarfod i Daliesin gyfieithu cymmaint a llinell o'r Ys-grythyrr Lân i'r Gymraeg, nac i un iaith arall. Am y cerddi a elwir 'Llath

yn blodeuo o ddeutu y flwyddyn 540. Math o alleiriad barddonol o ranau o'r Beibl yw ei waith, sef 'Deg pla poeni Pharo,' 'Llath Foesen,' neu Wialen Moses, ac ychydig am Dduw a Christ.

Yr ail oedd DAFYDD DDU o HIRADDUG,* yr hwn a flodeuodd o ddeutu y flwyddyn 1349. Y mae ei waith yn cynnwys rhan fawr† o'r Salmau, rhan o'r bennod gyntaf o Efengyl Luc, Cân Zacharias, Cyfarchiad yr Angel i Mair, Cân y Tri Llanc, a Chân Simeon. Alleiriad barddonol neu gynghaneddol yw yr eiddo yntau gan mwyaf. Ond rhoddwyd yn fy llaw adysgrif y dywedid ei bod yn esiampl mewn rhyddiaith o'i gyfieithiad o 'Gyfarchiad yr Angel Gabriel i Fair:' ac fel hynny mae:—

'Gabriel a anfoned yn gennad y gan Dduw i ddinas yn Galilea yr hwn a elwir Nasraeth i briodi morwyn a gwr a elwid Ioseph o lwyth Dafydd. Ac enw y forwyn oedd Mair. A phan ddaeth yr angel i mewn attai y dywawd ef hanpych gwel Fair gyflawn o rad Duw gyda thi bendigaid wyt ynghyfrwng y gwragedd. A phan gicleu Fair hynny cynhyrfu a wnaeth a meddyliaw pa ryw gyfarch oedd honno.

'A dywedyd a orug yr angel wrthi nac ofnhaa Fair canys ti a gefaist rad y gan Dduw ti a ymddygu feichiogi ith groth ac a esgory ar fab a elwy ei enw Iesu a hwnnw a fydd gwr mawr, a mab y gelwir i'r Goruchaf ac ef a rydd yr Arglwydd Dduw iddaw eisteddfa Dafydd ei dad ac ni bydd diwedd ar ei deyrnas ef.'

Nid oedd yr ysgrifau hyn i'w cael ond yn llyfrgelloedd y cywrair a'r dysgedig, hyd y flwyddyn 1801, pryd y casglwyd ac y cyhoeddwyd ystôr fawr o honynt yn yr *Archaeology of Wales*, trwy lafur yr enwogion Owain Myfyr, sef Owen Jones; y Dr. W. Owain Pughe, D.C.L., F.A.S.; ac Edward Williams, neu Iolo Morganwg, 'Bardd wrth Ffaint a Defawd Beirdd Ynys Prydain.' Nid oes amheuanad oedd rhanau ereill o'r Beibl yn Gymraeg trwy lafur rhai o'r mynachod, megys ag y cyfieithwyd yn aml gan fynachod gwledydd ereill. Tystia y Dr. Richard Davies, Esgob Ty Ddewi, iddo weled Pum Llyfr Moses yn nhy ewythr iddo, pan oedd yr esgob yn fachgen. Fel hyn y dywed y Doctor dysgedig, yn ei lythyr argraffedig gyda'r Testament cyntaf hwn:—

'Yn lle gwir, ni ffynnodd ceniferioet gael gwelet y *Bibl* yn Gymraeg: eithr pan oeddwn fachcen, cof yw cennyf welet pump llyfr Moysen yn Gymraeg o fewn tuy ewythy'r ym' oedd wr dysgedig; ond nid doedd Foesen,' 'Plâu yr Aiph,' 'Gwawd Gwŷr Israel,' a.r.c., cyfansoddiadau ydynt llawer diweddarach nag oes Taliesin. Ac nid yw y llinell—

'A minnau Daliesin o lan llyn Geirionydd,'

ond prawf pur egwan mai gwr 'o ymyl Llanrwst' oedd 'Pen Beirdd y Gorllewin.']

* Ei enw yn briodol oedd Dafydd ab Roderic ab Madog. Y mae yn eglwys Dymeirchion, ar derfyn Dyffryn Clwyd, feddfaen cerfluniol iddo.

† [Yn hytrach, rhan fechan. Cynnwys gwaith Dafydd Ddu Hiraddug gyfieithiad, peth mewn rhyddiaith, ond y rhan fwyaf ar fesur cerdd, o 'Wasanaeth Mair Fendigaid,' yr hwn sy gynnwysedig gan mwyaf o ddarnau o'r Ysgrhythr Lân. Ceir y gwaith hwn yn argraffedig yn agos i ddiwedd y gyfrol gyntaf o'r *Myvyrian Archaeology of Wales*: 3 cyf. 8plyg, Llundain, 1801-7.]

neb yn ystyr y llyfr, nac yn prisio arno. Peth amheus ydyw (ir a wnn i) a ellir gwelet yn oll Cymru un hen Fibl yn Gymraeg i'r penn gollodwyd ac y speiliwyd y Cymry oy oll lyfray. Eithr diamma yw cennyf fot cyn hynny y Bibl yn ddigon cyffredin yn Gymraeg. Perffeithrwydd ffydd y Merthyron, eglwyswyr a lleigion, sy brawf cadarn fod yr Ysgrythyr Lân cenddynt yn i iaith eu hunain.—Hefyd, y mae cenym ni yn Gymraeg amryw ymadroddion a diarhebion yn aros fyth mewn arfer a dynwyt o berfedd yr Ysgrythyr Lân, ac o ganol Efengyl Crist. Yr hyn sy brofedigaeth ddigonawl fot yr Ysgrythyr Lân ym hen pob bath ar ddyn, pan y dechreuwyd hwynt, a phan y dygwyt i arfer gyffredinawl: megis, A Duvv a digon, heb Dduvv heb ddim.—A gair Duvv yn uchaf.—Y Map rhad.—Ni lafur, ni weddia, nid teilwng iddo ei fara.—Eglwys pawb yn ei galon.—Cyn wired a'r efengyl.—Pan nad rhyfedd na thyf post aur trwy nen tŷ yr anwir.—Drwg y ceidw diawl ei was.—I Ddvw y diolchwn gael bwyt, a gallu ei fwyta.—Rhad Dvrv ar y gwaith; ac eraill o'r fath hyn. Y mae llawer o enwau arferedig gynt yn mhlith y Cymry yn brawf ychwanegol o hynny; megys, Abraham, Esgob Menyw; Adda Fras, un o'r Beirdd; Aaron, un o benaethiaid gwlad Forgan; Asaph, Esgob Llanelwy; Daniel, yr Esgob cyntaf yn Bangor; Iago ab Idwal; Ioseph, Esgob Menyw; Samuel Beulan, offeiriad dysgedig; Samson, y chweched Esgob ar hugain, a'r diweddaf yn Menyw; a'r cyfryw eraill a goffeir yn fynych yn yr hen achau. Y mae hyn yn dangos fot yr Ysgrythyr Lân yn wybod-edic iawn gan ein hynafiaet ni gynt. Y mae prydyddiaeth Taliesin ben-beirdd yn gwiriaw yr un peth, yr hwn oedd yn byw yn amser Maelgwn Gwynedd, yn y chweched ganrif.*

Dengys y rhesymau uchod yn eithaf boddhaol fod y Beibl, neu ranau helaeth o hono, ym meddiant ein hynafiaid ni y Cymry yn foreuol iawn; a thebyg yw iddynt eu colli trwy erlidigaethau a rhyfeloedd, o'r chweched hyd y bymthegfed ganrif,† pan yr ail lewyrchodd y goleuni dwyfol.

Gwelwyd mai y rhanau cyntaf a argraffwyd o'r Beibl yn Gymraeg oedd rhai darnau yn y llyfr bychan a nodwyd fel y *cyntaf* a argraffwyd o gwbl yn ein hiaith, sef llyfr y flwyddyn 1546, yn cynnwys y 'Pader neu Weddi yr Arglwydd, y Deng air Deddyf,' &c.; y 'Kynnifer llith a Ban,' &c., yn 1551; a'r '*Letanye in Welshe*,' yn 1564-65. Rhoddodd y Dr. Malkin, ar sail hysbysiaeth a gawsai gan Iolo Morganwg,‡ hanes ddarfod i un Thomas Llywelyn, o'r Glyn Eithinog, yn Rhegoes, yr hwn sy ddosran neu dref ddegwm o blwyf Ystrad Dyfodwg, yn sir Forganwg, a'r hwn oedd fardd Cymreig enwog, yn Brotestant o nodwedd uchel, duwioldeb mawr, a moesoldeb manwl, ac yn byw yn amser Edward vi. hyd Elisabeth—iddo gyfieithu y Beibl i Gymraeg dda, o gyfieithiad Seisonaeg William

* [Nid yw hwn ddyfyniad llythyrenol o Lythyr yr Esgob Davies; ac ymddengys i'r awdwr ei gymmeryd o *Eiriadur Ysgrythrol* Charles (d.g. *Bibl*), ac nid o Destament Salsbri, er nad yw yn cwbl gytuno â hwnw chwaith.]

† [Yn yr unfed ganrif ar bymtheg y cymmerth y Diwygiad le yn y deyrnas hon yn gystal ag ar y cyfandir.]

‡ Dr. Malkin's *Scenery, Antiquities, and Biography of South Wales*, vol. i. pp. 297—300.

Tyndal, tua'r flwyddyn 1540. Yr oedd ef yn meddu trwydded i bregethu o dan law yr Archesgob Grindal, fel y cafodd ereill yn y dyddiau hyny. Byddai yn aml yn darllen y gwasanaeth eglwysig mewn annedd-dai,—yn ysgrifenedig ganddo ei hun (canys hyd yn hyn nid oedd dim yn argraffedig) a phregethai yn boblogaidd, a ffurfiodd lawer o gymdeithasau bychain. Dywedir hefyd fod llythyr mewn ysgriflaw yn llyfrgell Syr Thomas Mostyn, yn sir Fflint, oddi wrth y dywededig Thomas Llywelyn, at Richard Davies, yr ail Esgob Protestanaidd yn Nhy Ddewi, yn ei annog i gyfieithu y Beibl i'r iaith Gymraeg, ac yn rhoi rhyw hanes am yr hyn oedd ef ei hun wedi ei wneyd. Nid ydys yn sicr a ddefnyddiwyd ysgrif Llywelyn gan y cyfieithwyr; ond y mae yn dra thebyg ei bod yn adnabyddus i Salisbury, yr hyn, yng nghyd â rhesymau ereill, a brofant pa ham y darfu i Salisbury, ac yntau yn Wyneddwr, gymmysgu cymmaint o briodwedd neu lediaith y Deheuwr* yn ei gyfieithiadau, fel y ceir dangos eto. Y mae ar gof hanesyn tra tharawiadol am Thomas Llywelyn. Dywedir iddo, wedi claddu ei wraig gyntaf, fyned i geisio caru merch ag y buasai iddi ddau blentyn gordderch, gan fwriadu gwneuthur ail wraig o honi. Aeth dau fab iddo, o'i wraig gyntaf, yn gymdeithion iddo i'w briodas, ac i gyrchu y ddarpar wraig dros afon Nedd. Yng nghanol yr afon fe dramgwyddodd y ceffyl dan y mab hynaf, yr hwn a ganodd y pennill triban canlynol ar yr achos:—

'Y ceffyl bal anhywaith
A hapiws dripio unwaith
Wrth 'mofyn gwraig i 'nhad dan glo,—
Fe dripiws hōno ddwywaith.'

Ffromodd yr hen wr wrth y mab, ac nid ai ef i briodi y diwrnod hwnw; ond gofynodd i'r ail fab ddyfod gydag ef ar ddiwrnod arall; ond hwnw eilwaith a ganodd fel hyn:—

'Hawddfyd i'm mam gywir-dro,
Un onest gorff a dwylo,
Mae'n awr yn gorwedd yn y llwch—
Un onest mynwech eto.'

Wrth weled y meibion fel hyn yn anfoddlawn, fe roes heibio feddwl am briodi mwy: ac ym mhen ychydig wedyn ymroddodd i fod yn grefyddol iawn, a bu fyw ddeugain mlynedd wedi hyny.†

[Gelwir ef weithiau *Tomas Llywelyn Deio Pwyl* (neu *ab Hywel*). Y mae ym meddiant y golygydd hen draethawdl o waith y gwr hwn, yr hon a elwir 'Prognosticasiwn Tomas Llywelyn Deio ab Hywel,' yr hon sydd yn dechreu fel hyn:—

'Dyma lyfr a draetha
Am bethau a ddygwydda
Yn y flwyddyn o oedran

* [Nid 'llediaith' mo honi; os amgen, y mae y rhan fwyaf o lawer iawn o ysgrifeniadau Cymru wedi eu hysgrifenu mewn 'llediaith.' Y rheswm pa ham y mae'r cyfieithiadau Cymreig o'r Ysgrhythrau yn dwyn arnynt gymmaint o nodwedd y Ddeheubartheg, er mai Gwyneddigion gan mwyaf oll oedd y cyfieithwyr, yw, o herwydd mai ynddi hi braidd yn hollol yr ysgrifenasid yr holl *ryddiaith* hyd yr amser dan sylw. Nid oes ond y peth nesaf i ddim o gyfansoddiadau rhyddieithol i'w cael yn nhafodiaith Gwynedd o flaen Testament Gwilym Salsbri; a hyn, tebygol, yw yr achos fod ieithwedd y cyfieithiad hwnw mor hynod o drwstan ac annheleidiw.]

Crist ein Prynwr ei hunan,
Un mil a chwechant a deg :
 Os mynwch, rhowch im' osteg.'

Ac yn flaenddodedig iddi y mae y nodyn canlynol yn llawysgrif rhyw un nas medraf wneyd allan ei enw, gan mor anamlwg yr ysgrifen :—'Licensed in 1588 by Archbishop Grindal, and preached blind, being 100 years old—consequently must be 122 when he wrote this.' Ond rhaid fod rhyw anghywirdeb yma ; canys bu Grindal farw yn y fl. 1583, ac yr oedd wedi peidio â bod yn Archesgob Caergaint am rai blynyddoedd cyn hyny.

Y mae yn yr un llyfr gerdd arall o'i waith, yr hon a elwir 'Breuddwyd Tomas Llywelyn Deio ab Hywel,' yr hon sy fath o gyfymgerdd rhwng 'Tafarnwr' a'r 'Eglwys.' Y mae ysbyrd a rhediad y canau dysyml hyn yn hollol gysson â'r hyn a ddywedir uchod am nodwedd grefyddol eu hawdwr.]

Dywedir fod gynt yn Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Llanelwy, 'hen gyfieithiad, yn un llyfr, o'r Efengyl yn ol St. Matthew, St. Marc, St. Luc, a St. Ioan ; a chyfrifid ef yn gyfieithiad hen yn y flwyddyn 1282, mal y gellir gwled oddi wrth lythyr nodded a braint Archesgob Caergaint, y flwyddyn hono, yn caniatâu i Offeiriad yn perthyn i Eglwys Llanelwy, y rhyddid i gariaw y darn hwn o'r Testament Newydd o amgylch y wlad, er mwyn ei ddangaws i bwy bynag a chwennychai gael golwg arno.* Y mae llythyr yr archesgob yn Lladin ar gael, † a rhoir yma gyfieithiad Cymraeg Tegid o hono.‡

'Cylch-lythyr Ioan, Archesgob Canterbury, yn caniatâu i Ganonwyr Llanelwy, yng Nghymru, i gariaw oddi amgylch yr Ysgrythyrau.

“Y Brawd Ioan, &c., i'r holl Offeiriad, yn gystal ag i'r gwâr llëyg, yn Esgobaethau Coventry, Lichfield, Henffordd, a'r holl Esgobaethau Cymreig, iechyd a thangnefedd tragywyddawlyn yr Arglwydd. *Y llyfr neu eiriau yr Efengylau yn perthyn i Eglwys Llanelwy, a elwir yn gyffredin wrth yr enw* EUEGGULTHEN, yr hwn sydd, fal y deallasom, mewn cyfrif mawr a pharch gan drigolion o bob gradd, ym mharthau Cymru a'r Cyffiniau ; ac, am fwy o resymau noc un, a gludir ar droion yn barchus o amgylch y wlad, fal yn beth sanctaidd, gan Offeiriad yn perthyn i'r Eglwys a enwyd uchod : Nyni gan hyny yn cael ein tueddu i gymmeradwyaw y cyfryw arferiad a ddymunem i chwi dalu pob anrhydedd i'r llyfr ac i'r personau, y rhai a ddarlunir yma, y sydd yn ei ddwyn ef oddi amgylch, gan ddeisyfu arnoch er mwyn y parch y sydd genych i Grist, yr hwn yw Awdur yr Efengylau, i ganiatâu i'r Offeiriad y soniwn am danynt, ymdaith yn eich plith gyda'r llyfr dywededig, ac iddynt allu llawenhau o blegid ddarfod iddynt hwy gael diogelwch a llonyddwch yn eu mynediad, eu harosiad, ac yn eu dychweliad yn ol.

“Rhoddwyd o dan ein llaw, yn Lambeth, Gorphenaf y 14, o flwyddyn ein Harglwydd 1282.”

Yr oedd y cyfieithiad uchod, chwanega yr un gwr dysgedig, o'r Efengylau yn Llanelwy hyd amser yr Esgob Goldwell, rhagflaenydd Richard Davies. Collodd yr esgobaeth ar ddyfodiad Elisabeth i'r orsedd, am na throai yn Brotestant ; ac aeth i Rufain, lle y bu farw. Meddylir iddo ef gymmeryd yr hen ysgrif gydag ef i Rufain, ac odid

* *Bedd Gwr Duw*, gan y Parch. J. Jones (*Tegid*). † Brown Willis' *Survey of St. Asaph*. Appendix xxii. pp. 54, 55.

‡ *Bedd Gwr Duw*, t. 20, 30.

ei bod yno eto. Pa fodd bynag, nid oedd yn Llanelwy yn amser yr Esgob Davies, y nesaf at Goldwell; canys nid yw ef yn crybwyll dim am dano, yr hyn a fuasai yn debygol, pe buasai yno, neu pe clywsai son am dano.*

Daeth y Testament Newydd hwn o eiddo Salesbury allan mewn canlyniad i weithred seneddol a wnaed y bummed flwyddyn o deyrnasiad Elisabeth,—‘Bod i’r Beibl, cynnwysedig o’r Hen Testament a’r Newydd, yng nghyd â Llyfr y Weddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, gael ei gyfieithu i’r iaith Frytan-aid neu Gymraeg.’ Yr oedd i gael ei gyhoeddi o dan olygiaeth Esgobion Llanelwy, Bangor, Ty Ddewi, Llandaf, a Henffordd, ac i gael ei argraffu a’i barotoi i’w ddefnyddio yn yr Eglwysi ar y dydd cyntaf o Fawrth, yn y flwyddyn 1566; ac yr oedd pob un o’r esgobion i gael ei ddirwyo i ddeugain punt—swm mawr yn y dyddiau hyny—os na ddeuai y gwaith allan yn yr amser gosodedig. Yr oedd y weithred seneddol hon yn gofyn fod i eilun, neu un llyfr o leiaf, o’r cyfieithiad hwn fod ‘ym mhob Eglwys Esgobawl, ym mhob Eglwys Blwyfawl, ac ym mhob Capel Eglwysig, trwy holl Gymru, i’w ddarllen gan yr offeiriaid pryd gwasanaeth dwyfol, ac amserau ereill, er lles pwy bynag a gai ar ei feddwl fyned i’r eglwys i’r dyben hyny.’ Ordeiniau y weithred hon hefyd fod i offeiriaid Cymru ddarllen yr Efengylau a’r Epistolau, Gweddi yr Arglwydd, Erthyglau y Ffydd Gristionogol, y Litani, a’r cyfryw ranau ereill o Lyfr y Weddi Gyffredin yn yr iaith Gymraeg, ag a gyfarwyddid ac a appwyntid gan yr yr esgobion a enwyd, hyd nes y deuai y Beibl allan.† ‡

Ond yn lle yr holl Feibl, ni chafwyd ond y Testament Newydd yn unig, yn gyfrol o 399 o dudalenau, mewn llythyrenau Brytanaid

* *Bedd Gwr Duw*, t. 30.

† Yr oedd y ddeddf yn traethu fod i Esgobion Henffordd, Ty Ddewi, Llan-elwy, Bangor, a Llandaf, a’u holynyddion, gymmeryd y fath drefn yn eu plith eu hunain er mwyn iechyd eneidiau y praidd a roddasid i’w gofal, o fewn Cymru: 1. Fod i’r holl Feibl, yn cynnwys y Testament Newydd a’r Hen, gyda’r Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, fel y mae yn cael ei arferyd yn awr o fewn i’r deyrnas yn Seisonaeg, gael ei gyfieithu yn wirioneddol a chywir, i’r dafodiaith Frytanaid neu Gymraeg. 2. Fod i’r unrhyw, wedi ei gyfieithu felly, gael bwrw golwg drosto, a’i ddarllen, a chaniatáu iddo gael ei argraffu hyd i’r cyfryw rifiedi o leiaf, fel y byddo i un o honynt fod ar gyfer pob eglwys gadeiriol, pob eglwys golegol, a phob eglwys plwyf, a chapel anwes, yn y cyfryw leoedd, a’r wlad, o bob un o’r dywededig esgobaethau, lle y mae’r iaith hōno yn cael ei siarad neu ei harfer yn gyffredin, cyn y dydd cyntaf o Fawrth, ym mlwyddyn ein Harglwydd 1566. 3. Y bydd, o’r dydd hwnw allan, i’r holl wasanaeth dwyfol gael ei arferyd a’i ddywedyd gan y curadiaid a’r gweinidogion trwy yr holl esgobaethau dywededig, lle y mae y dafodiaith Gymraeg yn cael ei harfer yn gyffredin, yn y dafodiaith Frytanaid neu Gymreig, yn y fath fodd a ffurf ag a arferir yn awr yn y dafodiaith Seisonaeg, ac heb wahaniaethu dim mewn un dull na ffurf oddi wrth y llyfr Seisonaeg. 4. Am y llyfr hwnw, wedi ei argraffu felly, bydd i blwyfolion pob un o’r plwyfau hyny dalu un hanner neu ran, a dywededig berson a ficar pob un o’r plwyfau dywededig (lle byddo dau), neu ynte un o honynt, lle nad oes ond un, dalu yr hanner neu y rhan arall. 5. Bydd i brisiau y llyfrau hyny gael eu penodi gan y dywededig esgobion, a’u holynyddion, neu gan dri o honynt o leiaf. 6. Yr hyn beth, os bydd i’r dywededig esgobion a’u holyn-

‡ Dr. Llewelyn’s *History of the British Versions*.

—y llythyren ddu neu y flewog, fel ei gelwir, weithiau—wedi ei ranu yn llyfrau a phennodau, fel y mae yn awr; ac hefyd gynnwysiad o flaen pob llyfr a phennod, ac egluriadau ar ymyl y ddalen ar rai geiriau, ond heb gyfeiriadau at leoedd ereill; ac yn wir ni allasai fod, gan nad oedd wedi ei ranu yn adnodau ond ychydig tua'r diwedd.* Yr oedd hwn yn gyfieithiad gan wahanol wŷr dysgedig. Cafodd llyfr y Dadguddiad ei gyfieithu gan T. H. C. M., fel y dengys y nod ar ymyl y ddalen; sef Thomas Huet, Cantor, Rhaggeiniad, neu *Precentor* Mynyw, h.y., Ty Ddewi.† Yr ail Epistol at Timothëus, yr Epistol at yr Hebreaid, a dau Epistol Pedr, a gyfieithwyd gan D. R. D. M., fel y dengys nod ar ymyl y ddalen yn nechreu yr Epistol at yr Hebreaid. Y llythyrenau uchod ydynt am *Dr. Richard Davies Menevensis*, neu Esgob Ty Ddewi. Y cwbl, heb law hyny, a gyfieithwyd gan William Salesbury, fel y mae y llythyrenau W.S. yn nechreu 1 *Ioan*, 2 *Tim.*, a diwedd 2 *Thess.*, yn arwyddo hyny.‡ Y mae yn hawdd gweled pa ham y mae y cyfieithiad hwnw mor gymmysgedig o dduill pob rhan o'r Dywysogaeth, hyd yn nod llygriaith Deheudir Cymru, hyd i Ben Dewi; a gadael na chymmerodd, ac na welodd y gwŷr hyn y cyfieithiad o eiddo Thomas Llywelyn y sonia y Dr. Malkin am dano, ar awdurdod Iolo Morganwg, fel y ceir gweled cyfaddefiad Salesbury ei hun am y 'Llyfr Gweddi Gyffredin' a gyfieithwyd ganddo. Argraffwyd y Testament hwn yn Llundain, yn y flwyddyn uchod, sef 1567, gan Henry Denham, ar draul a chost Humffrey Toy. Y mae Calendar yn gyssylltedig ag ef, a llythyr o gyflwyniad i'r Frenines Elisabeth, gan W. S., prif gyfieithydd a golygydd y cyfan; a llythyr maith yn yddion ei esgeuluso, yna bydd i bob un o honynt fforffetio i'r frenines, ei hetifeddion, a'i holynyddion, y swm o 40*p.*, i'w codi oddi ar eu heiddo a'u hanifeiliaid.

II. Fod i un llyfr, yn cynnwys y Beibl, ac un arall o'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn yr iaith Seisonaeg gael ei gyrchu, ac i fod ym mhob eglwys trwy Gymru, lle y ceir y Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin trwy awdurdod y weithred hon (os na bydd un yno eisoes) cyn y dydd cyntaf o Fawrth, un fil, pum cant, a thri ugain a chwech. 2. A bod i'r unrhyw lyfrau aros yn y cyfryw leoedd cyflëus, o fewn y cyfryw eglwysi, fel y gallo y neb a fyddo yn eu deall gyrchu bob amser cyflëus, i'w darllen a'u chwilio; ac hefyd, fel y gallo y rhai na allont ddeall yr iaith ddywededig, trwy gymharu y ddwy iaith â'u gilydd, gyrhaedd yn gynt wybodaeth o'r iaith Seisonaeg; oddi eithr er hyny, pa beth bynag sydd yn y weithred hon i'r gwrthwyneb.—*Journals of the House of Commons at that time.*

* [O ddechreu yr Ail Epistol at Timothëus hyd ddiwedd y Dadguddiad, yng nghyd â phennod a darn o bennod o'r Actau, yw'r cwbl sydd wedi ei ranu yn adnodau.]

† Y mae Cantref *Dewsland* (Tir Dewi, neu Pebydiog,) yn cael ei ranu yn dri chwmmwd,—Mynyw, Pencaer, a Phebydiog. Am hyny y gelwir Esgob Ty Ddewi yn Esgob Mynyw, neu yn Lladin, *Menevensis*.—Fenton's *Pembrokeshire*.

‡ Ar ymyl y ddalen yn niwedd 2 *Thess.* y mae y geiriau hyn—'O Lyver cenedleth. &c. yd y van hyn, W. S.; ar Epistol iso D. R. D. M. ei translatoedd.' Gyferbyn â dechreu 2 *Timothëus*, dywedir, 'W. S. yr vn hwn, a'r ddau iso.' Gyferbyn â dechreu yr *Hebreaid*, dywedir, 'D. R. D. M.' yr vn hwn at yr Ebraieit y ddau i Petr, a'r vn i Iaco.' Gyferbyn ag Epistol Iaf *Pedr* y mae 'D. R. D. M.' Gyferbyn â 1 *Ioan* y mae 'W. S. tri Ioan ac vn Iudas.' A chyferbyn â dechreu y Dadguddiad y mae 'T. H. C. M. a translatoedd oll text yr *Apocalypsis* yn ieith ei wlat.'

Gymraeg, gan Esgob Ty Ddewi, at ei gydwladwyr, o'r hwn y rhoddwyd dyfyniad yn barod, a'r hwn hefyd a gyhoeddwyd wrtho ei hun rai gweithiau wedi hyny. Dywedir yn y ddeu-ddarn hyny, fod y cyfieithiad hwn wedi ei wneyd o'r Groeg, a'i gymharu â'r Lladin, ac mai Salesbury oedd yn golygu yr holl waith, trwy benodiad yr esgobion. Felly nid ymddengys mai cymmeryd gwaith Llywelyn, o Regoes, a wnaethant, er y gallasant, os gwelsant hwnw, ddilyn peth ar ei orgraff. Ond os oedd Salesbury yn ymgynghori â Llywelyn wrth olygu, y mae yn berffaith sier fod Llywelyn a'i waith yn ddyeithr i'r Esgob, pan ysgrifonodd ei Lythyr, gan y dywed na welsai ef ddim o'r Beibl yn Gymraeg ond Pum Llyfr Moses yn 'tuy' ei ewythr, pan ydoedd ef yn 'fachcen.' Buasid yn rhoddi esiamplau o'r cyfieithiad hwn, oni bai fod ail argraffiad llawn o hono wedi ei roddi allan i'r cyffredin mor ddiweddar,* a bod y Parch. T. Charles yn gwneyd cymmaint defnydd o hono yn ei 'Eiriadur Ysgrythyrol,' am bob gair ag y mae ef yn ei roddi yn wahanol i'r cyfieithiad awdurdodedig presennol, o'r geiriau a ddeuant dan ei sylw yn y gwaith hwnw.

Dichon, cyn yr eir ym mhellach, na byddai yn amhriodol rhoddi ychydig o hanes y gwŷr hyn, a fuant mor gymmwynasgar i'n cenedl.

WILLIAM SALESBURY ydoedd yn deilliaw o un o hen deuluoedd cyfrifolaf y Dywysogaeth.† Pumbed mab ydoedd i Ffouk Salesbury, Ysw., o'r Plas Isaf, Llanrwst, yn sir Ddinbych. Ei daid oedd Robert Salesbury, yr hwn oedd yn bedwerydd mab i Thomas Salesbury Hen, o Leweni, ger Dinbych. Daethai i feddiant o etifeddi-iaeth y Plas Isaf, trwy ei briodas â Gwenhwyfar, unig ferch ac etifeddes Rhys ab Einion Fychan, o'r lle hwnw. Wedi bod am beth amser yn Rhydychain,‡ cafodd ei symmud i efrydu y gyfraith i *Thavies' Inn*,§ Llundain. Yr oedd yn medru naw iaith heb law Cymraeg a Seisonaeg. Pan ymgymmerodd â chyfieithu y Testament Newydd, yr oedd yn byw yn y Cae Du, ym mhlwyf Llansannan, yn sir Ddinbych, yr hwn oedd le gwledig a mynyddig, a phell oddi wrth bob cyfleusdra gwybodaeth a thrafnidaeth, ond hynod neill-

* [Caernarfon, 1850, Splyg. Dywedir mai y diweddar Barch. Isaac Jones, y pryd hyny curad Llanedwen, Mon, a olygodd yr argraffiad newydd trwy y wasg.]

† Yr oedd y Salesburiad yn deilliaw o Adam de Salbri, mab Dug Bavaria, yr hwn a ymsefydlodd yng Nghymru pan wnaed ef yn Gadben gwylwyr Castell Dinbych; a daeth yr hiliogaeth yn enwog yn y wlad, a'r brif gangen a ymsefydlodd yn Lleweni, yn Nyffryn Clwyd. Y mae yr achau yn dangos fod William Salesbury yn y ddegfed ach o'r Adam hwnw.—Gwel Dwnn's *Heraldic Visitation*, vol. ii. pp. 114, 115.—[*Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 190—202.]

‡ Wood's *Athene Oxonienses*, vol. i. p. 120.

§ *Thavies' neu Thavy's Inn*, y gelwid un o'r lleoedd y cyfarfyddai y rhai a fwriadent, gynt, efrydu, ac ymarfer eu hunain â chyfraith y canghell-lys, lle yr oedd llys neu neuadd i'r perwyl. Nid yw yn awr ond yr hyn a eilw cyfreithwyr yn Ystafell neu 'Siamber,' sef ystafelloedd colegaid i rai a efrydant y gyfraith fel proffes, i lettya ac efrydu tra yn Llundain, o dan freintiau corfforawl perthynol iddynt eu hunain.—*Penny Cyclo.* s.vv. '*Inns of Court*,' '*Inns of Chancery*.'

duedig oddi wrth bob achlysuron aflonyddwch, a lle y gallasai dyn fod ar hyd ei oes heb wybod nemawr am y byd, na'r byd am dano yntau. Dywedir bod yr ystafell lle yr arferai efrydu yn adnabyddus eto, ac un hynod o gyffredin a diaddurn ydyw. Cyhoeddasai lawer o fân lyfrau o'r blaen fel y gwelsom;* a chanfyddir ei fod er ys ugain mlynedd yn ymlafurio er lles ei genedl. Dywed Strype iddo uno â John Waley, yr argraffydd yn Llundain, i gymmeryd breintlythyr am saith mlynedd, i argraffu y Beibl yn Gymraeg.† Yr oedd Henry Denham, argraffydd y gwaith hwn, wedi argraffu rhai llyfrau i Salisbury o'r blaen.‡ Yr oedd Denham yn byw yn *White-Cross Street*, yn y flwyddyn 1580; yn 1586, yr oedd wedi symmud i *Aldersgate Street*; ac yn y flwyddyn 1587, yr oedd yn byw dan arwydd y 'Seren,' yn *Paternoster Row*, yr hyn a brawf hynafiaeth y 'Row' fel cyfnewidfa fawr masnach y llyfrau; ac y mae, hyd y dydd hwn, wedi cadw ei henw, ei gwaith, a'i henwogrwydd, fel y cyfryw, yn fwy nag un lle arall yn y byd. Yr oedd y llywodraeth erbyn hyn wedi rhoddi yr hawl-fraint o argraffu Beiblau Cymraeg iddo, cyn bod yr un i'w argraffu. Ymddengys mai cyhoeddwr oedd Humffrey Toy, yr hwn oedd yn byw yn arwydd yr '*Helmet*,' ym Mynwent St. Paul; ac er bod Toy yn argraffydd ei hun, nis gallai argraffu yr Ysgrythyrau, am fod y Senedd wedi rhoddi yr hawl-fraint i Denham. Yr oedd gan H. Toy y pryd hyny egwyddorwas, o'r enw William Jones, yr hwn oedd Gymro, mae yn debygol; canys yr oedd hwnw, yn y flwyddyn 1597, yn gyhoeddwr ac yn argraffydd ei hun, ac yn rhoddi gwaith i un Richard Jones, § yr hwn a arferai roddi y ddiareb Gymreig, 'Heb Dduw heb ddim,' yn arwyddair ar ragddalen y llyfrau a argreffid ganddo. || Y mae yn dra thebyg i Salisbury ddwyn Cymry i Lundain i'w dysgu, fel y gallai gael argraffu ei Gymraeg yn rhwyddach.** Yr oedd yr Humffrey Toy hwnw yn fab i Robert Toy. Yr oedd Waley a Toy yn gyfranogion; a chan fod Salisbury wedi cael hawl-fraint gyda Waley, a Waley yn gyfranog â Toy, a bod

* Gwel d.f. 1547, 1548; rhif 1, 2, a 3, d.f. 1550; rhif 1 a 2, d.f. 1551; a 1564-65.

† Strype's *Annals*.

‡ Rhif 1, 2, a 3, d.f. 1550, mae yn debyg.

§ Bu Richard Jones am beth amser yr argraffydd mwyaf ei waith yn Llundain yn ei amser; cafodd o fewn 17 o flynyddoedd drwydded i argraffu 108 o gerddi, o un i un, am yr hyn yr oedd yn talu o 4c i 8c.; ac un waith cafodd drwydded i argraffu 123 o gerddi ar unwaith, am y swm bychan o 5s.—Collier's *Extracts from the Register of the Stationers' Company*, vol. ii.

|| Timperley's *Dictionary of Printers and Printing*, dan yr enwau uchod, yn ol y ddangoseg.

** Y mae ar gael enwau llawer y gellir eu cyfrif yn Gymry, ym mhlith yr argraffwyr cyntefig yn Llundain; megys, William Middleton, yn 1541; W. Powell, rhwng 1547 a 1567; Thomas Powell, yn 1556; Owen Rogers, neu Ap Rogers, yn 1556; William Griffith, yn 1561; Richard Watkin a James Roberts, rhwng 1570 a 1594; Richard Jones, yn 1570; Hugh Middleton, yn 1569; Thomas Salisbury, yn 1593. Yn y siartr a roes Philip a Mari, yn 1556, i'r Cwmpeini o Safwerthwyr, y mae enwau amrai y gellir tybio mai Cymry oedd-ynt. Heb law rhai o'r hen argraffwyr uchod, y ceir hefyd John Rogers, Thomas Powell, Humphrey Powell, William Baldwyn, a Richard Baldwyn.

ganddynt Gymro yn eu gwasanaeth, yr oedd yn naturiol i Toy gael cyhoeddi y Testament, er ei fod yn gorfod rhoddi y gwaith o'i argraffu i Denham. Yr ydys yn cael fod y Senedd wedi rhoddi yr hawl-fraint i Salesbury a Waley am saith mlynedd, ac y mae yn dra thebyg fod yr amser hwnw wedi dyfod i ben, cyn i Denham gael yr hawl-fraint. Dywedir mai yn 1570 y bu W. Salesbury farw.*

[Nid oes un tebygolrwydd, chweithach prawf o hyn, ond haerriad Maunder yn unig; a lle y mae hynafiaethwyr Cymru yn anwybodus gyda golwg ar beth o'r fath, lle da fod Sais fel Maunder yn gwybod. Dywed Syr John Wynn, megys y coffeir isod, ddarfod i Salesbury fyw o ddeutu 24 mlynedd ar ol yr anghydfod llenyddol rhyngddo ef a'r Esgob Davies, a Davies yntau 5 neu 6 mlynedd ar ol yr amgylchiad hwnw. Os cywir hyn (a rhaid fod Syr John yn gwybod yn llawer gwell na Maunder), bu Salesbury fyw tua 17 mlynedd ar ol 1581, sef blwyddyn marwolaeth yr Esgob; ac felly bu fyw hyd o gylch y fl. 1598. Ond gan i Henri Perri, yn 1595, gyhoeddi 'Egluryn Ffraethineb,' a ddechreuasid gan Salesbury, gellir barnu fod cyfieithydd hybarch y Testament Newydd wedi marw ryw gymmaint o amser cyn y flwyddyn hono, a bod y Barwnig o Wydir wedi camsynied o leiaf dair neu bedair blynedd yng nghylch amser ei farwolaeth. Ond os bwriwn ni ddarfod i Salesbury dreulio, megys yr awgrymir iddo wneuthur, o gwmpas dwy flynedd gyda'r Esgob yn Abergwili wrth y gorchwyl o gyfieithu yr Hen Destament, ar ol gorphen y Newydd, deuir i'r fl. 1569; ac os chwanegir 24 at hyny, ni a gawn 1593; ac y mae yn ymddangos yn dra thebyg mai yn rhywle o gylch y flwyddyn hono yr ymadawodd Salesbury â'r fuchedd hon. Od yw y dyfaliad hwn yn agos i gywir, rhaid fod yr Esgob Davies wedi byw rai blwyddau yn hwy nag y mynegir gan Syr John Wynn. Y mae yn ffaith ddigon hysbys ddarfod i'r Esgob fyw 14 blynedd ar ol cyhoeddiad y Testament Newydd yn 1567; ond tueddai dywediad Syr John ni i dybied na fu efe byw ond tua hanner hyny o amser.]

Am RICHARD DAVIES, D.D., mab ydoedd i Dafydd ab Gronwy, yr hwn oedd yn gurad Cyffin, ger Conwy, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1501, mewn lle a elwir hyd heddyw, Plas y Person, a derbyniodd ei addysgiaeth yng Ngholeg New Inn, Rhydychain. Cafodd ficeriaeth Burnham, a phersoniaeth Maidsmorton, yn sir Bucks, gan Edward VI. Pan ddaeth Mari i'r orsedd, cymmerwyd ei fywoliaethau oddi arno; a rhag canlyniadau gwaeth, efe a ffodd, gyda'i wraig, trosodd i Geneva, lle y dyoddefod lawer o eisieu, gan ei fod yn dibynu ar elusen ei gyd-ffoedigion cyfoethocach; ond ym mhen tair blynedd, yr oedd wedi dysgu yr iaith Ffrengig cystal, fel y gallai weinidogaethu ynddi, a derbyniodd ofal gweinidogaethol, oddi wrth yr hyn y cafodd gynnalïaeth dra chysurus; ac yn Geneva y ganwyd tri o'i feibion. Ar farwolaeth Mari, a dyfodiad Elisabeth i'r orsedd, cafodd adfeddiannu ei fywoliaethau, a'i ddyrchafu hefyd i Esgobaeth Llanelwy, i'r hon y cysegrwyd ef Ionawr 21, 1559.† O ddeutu dwy flynedd a chwarter y bu yn Esgob Llanelwy, pan y trosglwyddwyd ef i Esgobaeth Ty Ddewi, Mai 21, 1561. Yr oedd yn un o ysgolheigion enwocaf ei oes. Bu ganddo y llaw benaf yng nghyhoeddiad y 'Llyfr Gweddi Gyffredin.'‡ Cyhoeddodd hefyd bregeth Seisonaeg ar farwolaeth

* Maunder's *Biographical Treasury*.

† [Felly y dywed Tegid (*Bedd Gwr Duw*, t. 6, 11); ond Ionawr 31, 1560, yn ol yr *Eminent Welshmen*.]

‡ Gwel rhif 4, y flwyddyn hon.

Iarll Essecs.* Bu farw Tachwedd 7, 1581, yn 80 mlwydd oed, yn y palas esgobawl, yn Abergwili, ger Caerfyrddin, a chladdwyd ef yn yr eglwys hono.† Wrth adgyweirio neu adeiladu eglwys newydd yn Abergwili, yn 1850, deuwyd ar draws bedd yr Esgob. Ar ei feddrod nid oedd dim ond llechfaen gyffredin y wlad, â'i enw ef arni, a dim ond ei enw, yng nghyd â'r flwyddyn y claddesid ef. Canfuwyd arch yn y beddrod, ac ysgrifen yn rhedeg ar hyd ei hymylau—darllenwyd enw yr Esgob ar yr arch. Rhoddodd Esgob presennol Ty Ddewi Wyddfaen mynor, ar ei draul ei hun, ar fur y ganghell uwch ben ei fedd; ac ar y gwyddfaen y mae yn ysgrifenedig, wedi ei dori â chyn, y beddargraff canlynol:—

‘ER COFFADWRIAETH AM

Y GWIR BARCHEDIG DAD YN NUW

YR ESGOB RICHARD DAVIES, D.D.

GANWYD EF YN MHLWYF GYFFIN, GER ABER CONWY, YN NGWYNEDD,

DYGWYD EF I FYNY YN NEW INN HALL, RHYDYCHAIN,

CODWYD EF I ESGOBAETH LLANELWY, IONAWR 21AIN, 1559 ;

AC I'R ESGOBAETH HON (TY DEWI), MAI 21AIN, 1561.

BU FARW TACHWEDD 7FED, YN Y FL. 1581,

ODDEUTU LXXX OED :

AC A GLADDWYD YN YR EGLWYS HON.

EFE A GYFIEITHODD IOSUA. BARNWYR. RUTH. I SAMUEL A'R II SAMUEL,

YN Y BIBL SAESONEG

PAN Y DIWYGIWYD YR HEN GYFIEITHIADAU O DAN AROLYGIAD

YR ARCHESGOB PARKER, YN Y FL. 1568 :

AC EFE HEFYD A GYFIEITHODD

I TIMOTHEUS, YR HEBREID, IAGO, I PETR A'R II PETR,

YN Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG

A GYHOEDDWDYD, A CHAN MWYAF A GYFIEITHWYD,

GAN WILLIAM SALESBURY, O'R PLAS ISAF, GER LLANRWST,

YN Y FL. 1567.

Esgob oedd *Ef* o ddysg bur, a Duwiol,

A diwyd mewn llafur ;

Gwelir byth, tra'r Ysgrhythur,

Ol gwiw o'i ofal a'i gur.

TEGID.†

Dechreuodd yr Esgob a Salesbury gyfieithu yr Hen Destament hefyd ; a buasant wedi myned trwyddo, medd Syr John Wynn, o Wydir, oni buasai i ymrafael gymmeryd lle rhwng yr Esgob a

* Gwel d.f. 1577.

† *Athenæ Oxonienses*, vol. i. p. 160. Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen*.

‡ ‘*Bedd Gwr Duw*. Darlith a dradddwyd yn Eglwys Abergwili, dydd Mercher, y 17 o Hydref, 1849, ar yr achlysur o godi Gwyddfaen Coffadwriaeth, am y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, Richard Davies, D.D. Esgob Ty Dewi ; gan J. Jones, A.M. (Tegid), Gweinidog Plwyf Nanhyfer, yn Mhenfro, Prebendur Ty Dewi, &c.’ [Llanymddyfri, 1850, 16plyg.] Darlith ragorol ar y testyn a'r achlysur, seiliedig ar destyn a dery bob un â syndod ar ei briodoldeb, a chyfatbrwydd yr amgylchiadau.

Salesbury—yr hwn a fuasai byw gydag ef agos i ddwy flynedd yn y gorchwyl hwn—am ystyr cyffredin a thadogaeth un gair, yr hwn a fynai yr esgob ei fod un ffordd, a W. Salesbury ffordd arall, er mawr golled i'r hen famiaith Frytanaeg; canys, gan eu bod gyda'u gilydd, hwy a dynasant homiliau, llyfrau, ac amryw draethodau ereill yn yr iaith Frytanaidd; buasent wedi gwneyd llawer mwy, oni buasai i'r anghydfod anffodus uchod ddygwydd; canys bu yr esgob fyw bum neu chwe' mlynedd wedyn, a William Salesbury o ddeutu pedair ar hugain: ond rhoes i fyny ysgrifenu, mwyaf y gresyn, o blegid yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, yn enwedig megys Hebrëwr, yr hyn nid oedd llawer yn y dyddiau hyny.*

Am THOMAS HUET, nid oes nemawr o hanes ar gael, ychwaneg na'i fod yn gantor, neu *Precentor*, yn Nhy Ddewi, o'r fl. 1562 i 1588, a'i fod yn dal bywiolaethau plwyfau Cefnlllys, yn sir Frycheinog, a Dyserth, yn sir Faesyfed. Yr oedd yn anneddu yn Aber Dihoeu, ger Llanfair ym Muallt, lle yr oedd, hyd ddechreu y ganrif hon, garfanau gwely ag arnynt yn gerfiedig 'T. H.' Bu farw Awst 19, 1591, a chladdwyd ef yn eglwys Llanafan, sir Frycheinog, yr hyn a arwain i'r dybiaeth, y gall mai brodor ydoedd oddi yno, ac mai yno yr oedd claddfa y teulu.†

2. 'Epistol at y Cymry. Gan Richard Davies, Esgob Mynyw.' Llundain, 4plyg.‡

Dichon mai rhoddi ychydig gopïau o hono wrtho ei hun a wnaed wrth ei argraffu yn gydiol â'r Testament Newydd; yr hyn a wneid yn fynych, pan y cyhoeddid neu yr argreffid dau beth gwahanol ar yr un pryd i'w cydrwymo.

3. 'Llyfr Gweddi Gyffredin.'§ 1567.

'Finis Tra Vo—Imprinted at London by Henry Denham at the costes and charges of Humfrey Toy, 1567, and are to be sold at his shop at the sygne of the Helmet in Paules Churchyard. Cum privilegio ad imprimendum solum.'|| [unplyg.]

Yr oedd hwn yn Llyfr Gweddi mawr i'r Eglwysi, mewn cydymffurfiaid â'r Weithred Seneddol a grybwyllwyd yn barod. Dywed Moses Williams mai cyfieithiad William Salesbury ydoedd; ond dywed y Parch. R. Williams,** mai cyfieithiad yr Esgob Davies ydoedd, ac iddynt dalu y draul o argraffu rhyngddynt.

* Williams's *Eminent Welshmen. Memoir of Sir John Wynn.*

† [Gweler *Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 206.]

‡ Moses Williams.

§ Moses Williams.

|| *Yr Haul*, 1863, t. 217.

** *Eminent Welshmen.* [Nid oes ond ychydig o anghyssondeb rhwng y ddau fynegiad. Cydwaith Davies a Salesbury ydoedd y cyfieithiad; a golyga y naill awdwr mai yr Esgob a gynnorthwyai Salesbury, ac ystyria y llall mai Salesbury a gynnorthwyai yr Esgob. Ond pa un o honynt oedd â'r llaw benaf yn y gwaith, annichonadwy bellach yw dywedyd. Priodola Tegid (*Bedd Gwr Duw*, t. 24) y gwaith i'r Esgob, gyda chynorthwy Salesbury.]

4. 'Dosparth byrr ar y rhan gyntaf i Ramadeg Cymraeg, lle cair llawer o Byngciau anhepcoir i un a chwennychau na Doedyd y Cymraeg yn ddilediaith, na'i Scrifenu'n iawn. Gan Gryffythus Rubertius, h.y. Gr. ab Rhotbert. 8°. Mediolani. 1567.*

Dyna fel y mae Moses Williams yn ysgrifenu yr enw. Buasem ni yn yr oes hon yn ei ysgrifenu, 'Griffith Roberts, Ysw., M.D.,' sef Meddyg. Wrth 'Mediolani,' y deallir Milan, yn yr Ital, am mai yno yr argraffwyd ef. Darlunia y Parch. J. Jones (Tegid) yr un amherffiaith oedd yn ei feddiant ef fel hyn :— 'D.S.—Arferir ynddo *u* yn lle *w*; *l* yn lle *ll*; *d* yn lle *dd*; *ph* yn lle *ff*.'† Ond yn yr adysgrifen dilynodd Mr. Jones y dull cyffredin, gan roddi y siamplau hyn, a dechreu fel uchod.

* [Yn gywirach fel hyn :—

'Dosparth Byrr ar y rhann gyntaf i ramadeg cymraeg lle cair llawer o bynciau anhepcoir i un a chwennychai na doedyd y gymraeg vn ddilediaith, na i scrifennu'n iawn.

A orchfygo yna a goronir fry.

1567. Primo Martij.'

Nid oes arno enw awdwr, nac un mynegiad pa le y cafodd ei argraffu.

Ail argraffwyd y Gramadeg hwn gan W. Spurrel, Caerfyrddin, yn 1857, 16plyg; ond nid yn hollol gyflawn, canys y mae ychydig o'r cyfieithion ary diwedd yn eisieu yn yr argraffiad newydd. Y mae y llyfr hwn yn brin iawn. Y mae cyfargraff o hono yn y Gywreinfia Brydeinig; un ym Mheniarth; ac yr oedd un arall yn Wynnstey; ond llosgodd hwnw pan aeth y llyfrgell odidog hono ar dân yn y fl. 1858. Gan nad oes ar gael ond ychydig iawn o hanes y Dr. Gruffydd Roberts, hwyrach nad amhriodol cyfleu yma y crybwylliad canlynol am dano, allan o'r *Harleian Miscellany*, cyf. vii. t. 132, col. 2 :— 'Oddi yno [sef, o Lyons] aethom i Milan, lle, ym mhalas y Cardinal Borromeo, y cawsom yn llettya Gymro â'i enw Dr. Robert Griffin [gwall am Gruffydd Roberts], gwr mawr ei gymmeradwyaeth yno, a chyffeswr i'r dywededig Gardinal; gan yr hwn y croesawyd ni yn dra chyweithas, ac yr anfonwyd ni i dŷ offeiriad Seisonig yn y ddinas, o'r enw Meistr Harries, yr hwn hefyd a roddes i ni dderbyniad o'r mwyaf hynaws; a'r un modd tri boneddig o Loegr, y rhai a arosent yn ei dy, ac oeddynt newydd ddychwelyd o Rufain; hwy hefyd, o ran traul a syberwyd, a ymddygasant fel boneddigion tuag atom, yn ystod yr amser yr arosom ym Milan.'

Ceir y dyfyniad uchod hefyd mewn llyfr tra phrin ac anghyffredin, o'r enw '*The English Roman Life, &c.....* Imprinted at London by John Chorlwoode for Nicholas Ling dwelling in Paul's Churchyard Anno 1590;' yr hwn sy lyfryn pedwarplyg, mewn llythyren ddu, yn cynnwys 72 o dudalenau.

Cynnwys y dyfyniad blaenorol un ffaith nas gwyddys yn gyffredin mewn perthynas i'r Gramadegwr boreuol hwn; sef, ei fod yn gyffeswr i'r Cardinal Borromeo, archesgob Milan, ac un o urddasogion goreu ac enwocaf Eglwys Rhufain yn yr 16fed ganrif, yr hwn, ar gyfrif ei rinweddau a'i dduwioldeb, a seintwyd gan y Pab Pawl v. yn 1610. Ganed Sant Carlo Borromeo yn Arona, yn yr Ital, y fl. 1538, a bu farw yn 1594; ac y mae ei gorff, â'i wisgoedd archesgobawl am dano, ar gadw hyd heddyw mewn cigysfaen o grisial naturiol, yng nghapel tanddaiarol Eglwys Gadeiriol Milan. Yr oedd Borromeo arall (Ffederico), cefndir i'r sant, yn Gardinal ac yn archesgob Milan yn agos i'r cyfnod hwn; ond gan mai yn 1564 y ganed ef, ac na wnaed mo hono yn Gardinal hyd 1587, ac yn archesgob dan 1595, rhaid mai i'r sant, ac nid iddo ef, yr oedd y Dr. Roberts yn gyffeswr.]

† [Yn yr argraffiad gwreiddiol rhoddir pyncyn (.) dan *d*, *l*, ac *u*, pan y safant am *dd*, *ll*, ac *w*; a rhoddir math o hirnod ar *n*, pan y saif yn lle *nn*, yn gyffelyb i'r modd y gwneir yn yr Yspaeneg, pan y saif y llythyren hono am *ni* (neu *gn* yn yr Italaeg). Peth cyffredin yw arfer pyncynau o dan y llythyrenau cyfnewidiol yn y dull uchod, yn y Wyddeleg.]

‘Dosparth Byrr ar y rhan gyntaf i ramadeg Cymraeg, lle ceir llawer o bynciau anhebcor i un a chwenychai na doedyd y Gymraeg yn ddilediaith, na'i scrifenu 'n iawn.

A orchfygo yma, a goronir fry.

1567. Primo Martij.’

‘Cynnwysa hwn o dudalenau 95.

‘Dosparth ar yr ail rann i ramadeg, a elwir cyfiachyddiaeth. (Ammherffaith.) Tudal. 112.

‘Y rhan ddiweddaf i ramadeg, a elwir Tonyddiaeth. T.d. 72.

‘Dosparth ar fessurau cerdd dafod, yn dangos beth yw mesur a phessawl rhywogaeth sydd o honynt. (Ammherffaith.) T.d. 56.’

Yna y canlyn enghreifftiau barddonol, yn dechreu fel hyn:—

‘Symlen yr abostolion, a eilw Cymru, y gredo, a deuddeg prifbwne ynddi, wedi eu cynnwys mewn deuddeng englyn. (Ammherffaith.) T.d. 54.’

‘Llyfr Marcws Twlliws Sisero, a elwir Caton hynaf, ne, o henaint, at Titws Pomponius Atticus. (Ammherffaith.) T.d. 8.*
Gwelir ei fod yn llyfr o tua 200 o dudalenau.

5. ‘A playne and familiar introduction, teaching how to pronounce the letters in the Britishe tounge. By William Salesbury, 1555, and now augmented: printed by H. Denham for Humphrey Toy, 1567.’ 4plyg.

Argraffiad newydd diwygiedig, o lyfr a argraffasid ddwy neu dair gwaith o'r blaen.†

[A ganlyn yw enw y llyfr yn gyflawn a chywir, yn ol y cyfargraff sydd o hono yn y Gywreinfia Brydeinig:—

‘A playne and a familiar Introductiō, teaching how to pronounce the letters in the Brytishe tongue, now commonly called Welshe, whereby an Englysh man shall not onely wyth ease reade the sayde tonge rightly: but marking the same wel, it shal be a meane for hym wyth one labour to attayne to the true pronounciation of other expedient and most excellent languages. Set forth by VV. Salesbury, 1550. And now 1567, persved and augmētēd by the same.

This Treatise is most requisite for any man, yea though he can indifferently well reade the tongue, who wyl be thorowly acquainted with anie piece of translation, wherein the sayd Salesbury hath dealed.

Imprinted at London by Henry Denham, for Humfrey Toy, dwellyng at the sygne of the Helmet in Paules churchē yarde. The xvii. of May. 1567.’

Llyfryn 4plyg bychan, o 27 dalen, mewn llythyrenau duon, ydyw. Cyflwynir ef—‘To my louing Friende Maister Humfrey Toy;’ a dyddir y cyflwyniad yn y wedd hon:—‘Soiurning at your house in Paules Churchyarde, the 6, of Maij. 1567.’ Cymharer dan y flwyddyn 1550. Y mae yr enw wedi ei argraffu yn fath o binygl, fel rhif 1, d.f. 1547.]

1568.

1. ¶ ‘Descriptio Britanniae, ex libro Pauli Jovii. 1568.’ Unplyg.

* *Y Gwladgarwr*, 1840, t.d. 205-6; hefyd yr *Haul*, 1857; lle y rhoddir enghreifftiau helaeth o hono. [Nid oes neb o'r dyfynion uchod yn gwbl gywir o barth llythraeth, a manylion ereill; ond gan mai dyfyniadau o ddyfyniadau ydynt, nid cymhwys y bernir eu cyfnewid.]

† Gwel rhif 1 a 3, d.f. 1555.

Gwaith Syr John Price ydoedd hwn, ymddengys, yr hwn a hel-
aethwyd gan Humphrey Llwyd, ac a roddwyd yn flaendraith i
Hanes Cymru gan Caradog. Gwel rhif 1, d.f. 1584; ond mewn gwir-
ionedd Epistol Gildas, neu ranau talfyredig o hono, ydoedd, yn
gystal a'r rhif 1, d.f. 1575.

[Paulus Jovius neu Paolo Giovio, ydoedd Italiad dysgedig, yr hwn a anwyd
yn Como yn y fl. 1483, ac a fu farw yn Fflorens yn 1552. Ysgrifennodd lawer o
weithiau hanesol, rhai yn yr Italaeg, ond y rhan fwyaf yn y Lladin: ond pa
gyssylltiad a ddichon fod rhyngddo ef a'r gwaith a gofnodir yma, a pha fodd y
gellir dywedyd fod 'Darluniad Prydain' gan Syr John Prys, wedi ei gymmeryd
allan o un o'i lyfrau ef, sy ddirgelwch nas geill yr ygrifenydd ei egluro.
Tebygol mai y '*Description of Wales*' y crybwyllir am dano yn y nod ar rif
2, d.f. 1573, ydyw y gwaith a olygir.]

2. ['Gildæ cui cognomentum est Sapiientis, de Excidio et
Conquestu Britanniaë, ac flebili castigatione in reges, principes et
sacerdotes epistola, vetustissimorum exemplariorum auxilio non
solum a mendis plurimis vindicata, sed etiam accessione eorum
quæ in prima editione a Polydoro Vergilio resecta erant, multi-
pliciter aucta.']

Londini, 1568, 8vo.

Y golygydd ydoedd John Josseline, ysgrifenydd i'r Archesgob Parker.]

[1570.

'De Monâ Druidum Insulâ Antiquitate... et de Armamentario
Romano.' Antverpiæ, 1570.*

Gwaith Humphrey Llwyd yw y ddau draethodyn hyn. Ysgrifennwyd
hwynt ganddo yn 1568, ychydig amser cyn ei farwolaeth; a chyflwynwyd
hwynt i'w gyfaill mynwesol Ortelius, y daiarydd clodfawr, yr hwn y daethai
yn gydnabyddus ag ef ychydig o'r blaen, trwy gyfrwng Syr Rhisiart Clweh,
gwr, fel Llwyd, genedigol o Ddinbych, yr hwn a gyfanneddai yr amser hyn
yn Antwerp. I'r gydnabyddiaeth hon, fel yr ymddengys, yr ydym yn ddyled-
us am rai o ysgrifeniadau Llwyd. Ganed Abraham Ortelius yn y fl. 1527,
yn Antwerp, yn yr Iseldiroedd, o deulu a ddaethai ar y cyntaf o Awgsbwrg,
yn Bavaria. Gwedi gorphen ei addysg, ymdeithiodd trwy Loegr, yr Almaen,
Ffrainc, a'r Ital; a chyhoeddodd amryw o weithiau dysgedig, yn dwyn cys-
sylltiad yn benaf â daiaryddiaeth. Yr oedd yn gydnabyddus â'r rhan fwyaf o
ddysgedigion ei oes, ac yn arfer ymohebu â hwynt. Bu farw yn ei dref
enedigol yn 1598.

Cyhoeddwyd y ddau weithyn a gofnodir uchod yr ail waith yn 1573, yn
attodiad i'r '*Historiæ Britannicæ Defensio*' o waith Syr John Prys Farchog.]

1572.

'Commentarioli Britannicæ Descriptonis Fragmentum.'

Coloniæ, 1572, 8vo.

[Gwaith Humphrey Llwyd, o Ddinbych. Cyfieithwyd ef i'r Seisoneg gan
Twyne, a chyhoeddwyd ef dan yr enw '*Breviary of Britayne*,' yn 1573.
Canfyddir mai yng Nghwlen, yn yr Almaen, yr argraffwyd ef.]

* Parry, *Cambrian Plutarch*, p. 307.

1573.

1. 'The Breviary of Britayne. As this Most Noble, and renowned Land, was of Auncient time devided into three Kingdomes, England, Scotland and Wales. Contaynyng a learned discourse of the variable state, & alteration therof, under divers, as wel natural: as forren Princes, & Conqueruors. Together with the Geographical description of the same, such as nether by elder, nor later Writers, the like hath been set fourth before. Written in Latin by Humfrey Lhuyd of Denbigh, a Cambre Britayne, and lately Englished by Thomas Twyne, Gentleman. 1573.'

Dywedir mai Sais o sir Hamp oedd John Twyne, ac iddo ysgrifenu llyfr o'r enw '*De rebus Albionieis, Britannicis, atque Anglicis Commentariorum libri duo.*' Argraffwyd y llyfr gan ei fab Thomas uchod, yr hwn hefyd a'i cyfieithodd i'r Seisonaeg, dan yr enw '*Breviary of Britain;*'* ond dywedir mewn lle arall† mai cyfieithiad ydoedd o '*Commentarioli Britannicæ Descriptionis Fragmentum.*'

[Cymharer d.f. 1572.]

2. 'Historiae Britannicae Defensio. Ioanne Priseo Equestris Ordinis Brytanno Authore. Londini, Impressum in ædibus H. Binneman typographi, impensis Humfredi Toy. Anno 1579.'

Yr wyf yn tueddu i feddwl mai yr un yw y ddau, os nad y tri uchod,‡ ac iddo gael ei ysgrifenu yn Gymraeg, ac yma ei droi i'r Lladin, ac o'r Lladin i'r Seisonaeg, gan T. Twyne. Dywedir mai llyfr 16plyg ydoedd, mewn llythyrenau duon, ac mai 116 o dudalenu oedd ei faint.§ Gwaith Syr John Price ydoedd yr uchod, yn erbyn P. Virgil, ac a gyhoeddwyd gan ei fab Syr Richard Price. Cyhoeddwyd gwaith Syr John Price fel arweiniad i mewn i waith Caradog o Lancarfan, gan y Dr. D. Powel. Ymddengys mai ail foldio y cwbl o waith Syr John Price ac Humphrey Lhwyd a

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas. † *Hanes Crefydd yng Nghymru*, gan D. Peter.

‡ [Gweithiau gwahanol ydynt. Ysgrifennodd Syr John Prys—'*A Description of Cambria,*' yr hwn a helaethwyd gan Humphrey Llwyd, ac a ragddodwyd i Hanes Cymru o waith Caradog (rhif 1, d.f. 1584), yr hwn a gyfieithwyd gan Llwyd i'r Seisonaeg, ac a helaethwyd ac a gyhoeddwyd gan y Dr. Dafydd Powel yn y flwyddyn a nodwyd, dan yr enw '*Historie of Cambria.*' Gwaith cwbl wahanol yw yr '*Historie Britannicæ Defensio,*' yr hwn a ysgrifennodd y marchog urddol o Frycheiniog yn erbyn yr Italiad Polydor Vergil, a'r hwn a gyhoeddwyd gan ei fab yng nghylch ugain mlynedd ar ol marwolaeth yr awdwr. Llyfr Splyg bychan yw y '*Breviary.*' Dengys enw y llyfr, yr hwn yr fhm wedi ei gofnodi yn gyflawn, beth yw ei ansawdd, a phwy yw ei awdwr.]

§ Rhydd Wood ei enw a'i sylw arno fel hyn :—'*The breviary of Britayne, &c., containing a learned discourse of the variable estate and alteration thereof, &c.* London, 1573, oct. written by Hump. Lhwyd. This translation being esteemed very good of its time, was usher'd into the world by the copies of Verses of Thom. Brown, Prebendary, and Edw. Grant, Schoolmaster of Westminster, Lodowick Lhwyd, Laurence and Joh. Twyne, brethren to the translator.'—*Athenæ Oxon.* vol. i. p. 329.

wnaeth Twyne, dan yr enw ' *Breviary of Britayne.*' Cafodd un John Twyn, gyda Thos. Bruster, llyfrwerthydd, Thos. Douer, argraffydd, a Nathan Simon, llyfrwerthydd, eu profi am gyhoeddi llyfr teyrnfradol, yn 1664, a chyhoeddwyd hanes y prawf.

3. 'The Whole Workes of W. Tyndall, John Frith, and Doct. Barnes, three worthy Martyrs, and principall teachers of this Church of England, collected and compiled in one Tome together, beynge before scattered, & now in Print here exhibited to the Church. To the prayse of God, and profite to all good Christian Readers. At London Printed by Iohn Day, and are to be sold at his Shop vnder Aldersgate. An. 1573.'

[Pa gyssylltiad a eill fod rhwng cynnwysiad y llyfr hwn a Chymru, nis medrwn ddyfalu ; oddi eithr mai *Cymro* y cyfrifir Tyndal, un o'r tri merthyr : ond a gadael i hyny fod, nis gellir canfod mo'r berthynas leiaf rhwng y gwaith a'r Dywysogaeth.]

[1574.

'Aelfredi Regis Gesta. Auctore Asserio Menevensi.'

Londini, 1574, fol.

Colwynydd yr argraffiad hwn o Hanes y Brenin Alffred gan Asser o Dŷ Ddewi, ydoedd yr Archesgob Parker. Argraffwyd y gwaith mewn llythyrenau Saesonig, o barch i'r adysgrif henafol y cymmerasid ef o honi. Ni chrybwyllir ar y rhagddalen mo enw yr argraffydd na'r fan y cafodd ei ddwyn trwy'r wasg : ond gwyddys yn dda ddigon mai yn Llundain y cafodd ei gyhoeddi. Ail argraffwyd ei yn Ffranceffort, yn unplyg, yn y fl. 1603, yn yr hyn a elwir 'Casgliad Camden' yr hanesydd ; a thrachefn cyhoeddwyd y gwaith gan Ffransis Wise, yn wythplyg, yn Rhydychain, yn 1722; ac adargraffwyd yr olaf hwn yn y ' *Monumenta Historica Britannica,*' yn 1848.]

1577.

'A funerall Sermon preached the xxvi day of November in the year of our Lord, M.D.LXXVI, in the Parishe Church of Caermarthyn, at the burial of Walter Earle of Essex and Ewe.' By Richard Davies, Lord Bishop of St. David's.

London, Henry Denham, 4to.

Y mae yn ei ragflaenu englynion yn Seisonaeg, Lladin, Hebraeg, Groeg, a Chymraeg, yng nghyd ag achau a chofiant bywyd yr Iarll. Y mae cofnod o'r drwydded a gafodd Denham i argraffu y bregeth uchod wedi ei eirio fel hyn yn *Register y Stationers' Company* :—'XXVJTO DIE APRILIS. Henry Denham. Lycensed unto him a funerall sermon preached the xxvjth of novembre, 1576, in the parishe Church of Carmarthyn, by Ric. Bishop of St. Davyes, at the buriall of the right honorable Walter Erle of Essex and Ewe, Erle marshall of Irland, viscount hereof, &c. Authorised by the Bishop of London... .iiij, and a copie.' Gwelir y talodd Denham 4c. am y drwydded i argraffu hon. Bu farw yr Iarll yn Dublin,

Medi 12, 1576; pregethwyd y bregeth Tachwedd 26, 1576; a thrwyddedwyd i'w hargraffu Ebrill 26, 1577.

[Gwelsom gyfargraff o'r Bregeth hon yn Llyfrgell Coleg Dewi Sant, Llanbedr.]

1578.

1. ¶ 'A Book of Glamorganshire Antiquities. By Rys Mireke.' 1578.

Ysgrifenydd yr Heddwch, neu Gofiadur yr Ynadon, dros sir Forganwg, oedd Rhys Meyrick. Yr oedd yn byw yn y Cottrel, ym mhlwyf St. Nicolas, yn y sir hòno. Syr Thomas Phillips, Barwnig, a fynodd adargraffu y llyfr hwn allan o'r Llawysgrif wreiddiol, yn llyfrfa Coleg y Frenines, Rhydychain. Yr oedd Rh. Meyrick hefyd yn awdwr llyfr bychan, a elwir '*Cottrell's Book*.' Yr oedd yr ysgrif hòno ym meddiant y diweddar Arglwydd John C. Iarll Clarendon.* Nid ydwyf yn sicr iddo gael ei argraffu y flwyddyn hon; ond gosodir ef yma, gyda'r ystyriaeth ammhëus hon, hyd nes y ceir gwybodaeth sicrach.

2. 'Dean Nowell's Catechisme in Welsh. 1578.'

Enwir y llyfr uchod, fel uchod, gan Johnson, ym mhlith y llyfrau a argraffwyd gan Richard Jones, yn y flwyddyn uchod.†

3. 'A Sonett or a Synners solace made by Hughe Gryffythe, prysonor, both in welche and englishe.'

4. 'An Epitaphe of the death of Sr Yevan Lloyde, of Yale, made by the said Hughe Gryffythe, 1579.'

Cafodd Hugh Griffith drwydded i argraffu y canau uchod (rhif 3 a 4) Mawrth 20, 1578, am yr hyn y talodd 4c. yr un. Trwy y cyfnod hwn cyfrifid H. Griffith ym mhlith y Beirdd yn Riston's *Bibl. Poet.* 229.‡

5. 'A General Map of Wales and Denbigh, by Caxton, 1579.'

1584.

1. 'The historie of Cambria, now called Wales: A part of the most famous Yland of Brytaine, written in the Brytish language aboue two hundreth years past: translated into English by H. Lhoyd Gentleman: Corrected, augmented, and continued out of Records and best approued Authors, by Dauid Powel Doctor in diuinitie. Cvm Privilegio.' 4to.

* Traherne's *Stradling Correspondence*.

† *Typographia*, vol. i. p. 585.

‡ Collier's *Extracts from the Registers of the Stationers' Company*, vol. ii. p. 232.

Nid oes amseriad ar yr wyneb-ddalen ; ond yn niwedd y Rhagymadrodd y mae—'From my lodging in London the 25. of March. 1584 ;' ac yn niwedd y llyfr y mae '1584.' 'Imprinted at London by Rafe Newberie and Henrie Denham. Cum Priuilegio Regiæ Maiestatis.'

Y prif argraffydd Rafe, neu yn hytrach Ralph Newbery, ydoedd yn byw yn *Fleet Street* ; yr oedd yn wardain i Gwmpeini y Safwerthwyr yn 1583, ac yn feistr y Cwmpeini hwnw yn 1591 a 1601. Dywed Timperley mai y llyfr cyntaf a argraffodd ydoedd yn 1560.

Yr oedd y Dr. POWEL yn wr dysgedig, a defnyddiol iawn i'r Cymry. Yr oedd yn cynnorthwyo i gyfieithu y Beibl i'r Cymraeg ; ac ysgrifennodd amryw o weithiau ereill, y rhai a gofnodir yn eu priod leodd. Casglodd ddefnyddiau lawer tuag Eirlyfr Cymraeg. Heb law ficeriaeth Rhiwabon, cafodd hefyd ficeriaeth Meifod yn 1574. Yr oedd gyda hyny yn dal personiaeth seguroi Llansantffraid ym Mechain, a phrebenduriaeth Llanfair Talhaiarn, yn eglwys esgobawl Llanelwy. Yr oedd yn byw fynychaf yn Rhiwabon. Bu iddo chwech o feibion a chwech o ferched. Yr oedd enwau pump o'i feibion hynaf yn diweddu ag *el*,—*Samuel*, *Daniel*, *Gabriel*, *Raphael*, a *Michael*.* Bu farw o gylch y fl. 1590. Y mae enw y Dr. Powel i'w weled fel diwygiwr gwaith Caradog ; ond yr hynafiaethydd Humphrey Llwyd ydoedd y cyfieithydd i'r Seisonaeg.† Rhydd ysgrifenydd diweddarach yr hanes ganlynol am y cwbl :—

'Yr oedd y Caradog hwn o Lancarfan, awdur o gywirdeb diammheuol, yn gydoeswr â Geoffrey, yr hwn, trwy ddechreu lle yr oedd yr hanes Frytanaidd yn diweddu, a wnaeth barhâd trwy deynasiad amryw o dywysogion Cymru, hyd y fl. 1157, o ddeutu yr hwn amser yr oedd yn ei flodau. Ar ei ol ef, cadwyd a chofnodwyd pob peth a ddygwyddodd yng Nghymru ym Mynachlogydd Conwy, yng Ngogledd Cymru, ac Ystrad Fflur, yn Neheudir Cymru, lle y cleddid tywysogion a phendefigion Cymru, fel yr ymddengys drwy dystiolaeth Gutyn Owain, yr hwn oedd yn byw yn amser Edward iv, ac a ysgrifennodd yr eilun cywiraf a pherffeithiaf o'r unrhyw. Dyma y modd y cafwyd yr holl ddygwyddiadau hynotaf a gofnodwyd yn y mynachlogydd hyny, pan oedd y 'Beirdh' neu y Prydyddion a berthynent i'r ddau dŷ hyny yn myned ar eu hymweliadau arferol, yr hyn a elwid 'Clera.' A pharhaodd hyn hyd y fl. 1270, ychydig cyn marwolaeth y Tywysog Llywelyn, yr hwn a laddwyd ym 'Mualht.' Darfu i Humphrey Llwyd, yr hwn oedd yn ei flodau yn amser Harri VIII, ac yn hyddysg iawn mewn hanesiaeth Frytanaidd, barhau yr hanes hyd farwolaeth y Tywysog Llywelyn ; ac ar ol hyny, wedi cyfieithu y cwbl i'r iaith Seisonaeg, efe a fwriadodd ei roddi yn y wasg ; ond darfu ei farwolaeth ei rwystro yn ei fwriad, ac attal cyhoeddiad yr hanes hon am hir amser wedyn, hyd oni fu i David Powel, D.D., yn amser y Frenines Elisabeth, gael gafael yng nghyfieithiad Humphrey Llwyd ; ac wedi casglu yr

* *Cambrian Quarterly*, vol. i. p. 325. [*Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 101.]

† Wood's *Athene Oxonienses* ; a Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen*.

hyn a allai allan o haneswyr Seisonig, yr hyn a chwanegodd i mewn dull o sylwadau, ac felly cyhoeddodd ef yn y fl. 1584.*

Dywedir gan Anthoni Wood mai yn *Lladin* yr ysgrifennodd Caradog ei hanes,† ond dywedir yng ngwyneb-ddalen yr argraffiadau o'r hanes, mai yn yr iaith Frytanaidd yr ysgrifennodd Caradog ef.‡

Am HUMPHREY LLWYD, neu LHWYD—yn ol fel yr ysgrifened y gair gynt,§ ac, tybiaf, y dylasai gael ei barhau—ydoedd fab i Robert Lhwyd, Ysw., o Ddinbych. Enw y teulu yn wreiddiol ydoedd *Rosindale*, ac yr oeddynt yn trigfanu yn *Foxhall*, neu yn hytrach *Foulks-hall*, ger Dinbych.¶ Cyfansoddodd amryw weithiau ereill. Yr oedd wedi cael ei ddwyn i fyny, ac yn arfer yr alwad feddygol. Bu hefyd yn aelod seneddol dros Ddinbych. Bu farw yn 1568, yn 41 oed, a chladdwyd ef yn yr Eglwys Wen, ger Dinbych.**

2. 'Y Drych Cristianogawl, yn yr hwn y dichon pob Cristiawn ganfod gwreiddin a dechreuad pob dajoni sprydawl, sef gwybod modd i wasanaethu Duw, drwy ei garu ai ofni yn fwy na dim,' &c.

Nid oes enw awdwr i'r llyfr hwn.

1585.

1. [Pontici Virunnii Britannicæ Historiæ libri vi.

Londini, 1585, 8vo.

Brodor ydoedd Ponticus Virunnus o Treviso, yng nghylch 40 milltir o Venis, yn yr Ital. Talfyriad yw ei waith, gan mwyaf oll, o Frut Gruffydd ab Arthur (Sieffrai o Fynwy); a dywedir iddo ei ysgrifenu er mwyn boddio teulu pendefigaidd yn Venis o'r enw *Baderi*, y rhai a hañent o fonedd Brythonig. Llefara yn uchel iawn am alluoedd ac ysgrifeniadau Sieffrai, ac ymddengys ei fod yn credu pob gair o'i ramantau. Hwn ydoedd yr ail argraffiad; canys ymddangosasai y gwaith y tro cyntaf, yn Venis, mor gynnar a'r flwyddyn 1490; a daeth allan argraffiad arall o hono yn Heidelberg, ym mhen dwy flynedd ar ol hyn, mewn casgliad o Hanesyddion Prydeinig.—Gweler rhif 6, d.f. 1587.]

2. ['Itinerarium Cambriæ: seu Laboriosæ Baldvini Cantuar. Archiepiscopi per Walliam legationis, accurata descriptio, Auctore Sil. Giraldo Cambrense. Cum Annotationibus Davidis Povelii Sacræ Theologiæ professoris.

* *Preface to the Edition of 1774.*

† *Athensæ Oxon.* vol. i. p. 129.

‡ [Nid oes rhith o ddadl i fod am hyn: mewn Cymraeg ddiledryw yr ysgrifennodd Caradog.]

§ [Hyn yw, cyn i'r llythyren *Ll* ddyfod i arferiad cyffredinol yn yr egwyddor Gymraeg, yr hyn nid ydoedd yn y cyfnod dan sylw.]

¶ Y cyntaf o'r teulu a ddaeth i Gymru—canys o sir Lancaster y daethent ar y cyntaf—ydoedd Foulk Rosindale, oddi wrth yr hwn y galwyd y ty yn *Foulk's Hall*, ac a lygrwyd mewn amser yn *Fox-Hall*. Trwy briodi i deulu y Llwydiaid o Aston y daeth yr enw Lloyd neu Lhwyd i mewn.

** *Parry's Cambrian Plutarch. Wood's Athen. Oxon. Pennant's Tour in Wales.*

Londini Apud Edmundum Bollifantum, impensis Henrici Denhami, & Radulphi Nuberij. 1585.' 8vo.

Ymddangosodd argraffiad mawrwyd o'r gwaith hwn yn y fl. 1806, dan olygiad Syr R. Colt Hoare, yr hwn hefyd a'i cyfieithodd i'r Seisoneg.]

3. ['Cambriæ Descriptio : Avctore Sil. Giraldo Cambrense. Cum Annotationibus Davidis Povelii Sacræ Theologiæ professoris.'

Londini, 1585, 8vo.]

GIRALDUS DE BARRI [neu, fel ei gelwir yn gyffredin, GIRALDUS CAMBRENSIS] oedd fab i William de Barri, o Angharad, wyres i Rhys ab Tewdwr, Tywysog Deheudir Cymru. Ganwyd ef yn Maenor Bŷr, neu *Manorbeer*, yng ngwaelod sir Benfro, yn 1146. Wedi teithio yn Ffrainc, efe a gymmerodd urddau eglwysig, cafodd Archddiaconiaeth Aberhonddu, yn Eglwys Esgobawl Ty Ddewi. Wedi bod yn Iwerddon ar neges tros y brenin, efe, fel un ag oedd yn gweithredu yn lle Esgob Ty Ddewi, a deithiodd gyda Baldwin,* i gyfieithu iddo pan yng Nghymru yn pregethu y Groes, neu yn hytrach yn cymhell y Cymry i ymfyddino yn Rhyfel y Groes, er gyru y Tyrciaid o wlad Canaan; a'r pryd hyny efe a ysgrifennodd y teithiau uchod sydd yn cael cyfeirio atynt gan yr holl hynafiaethwyr Cymreig. Methodd gael ei gyssegru yn Esgob Ty Ddewi pan fynai, a gwrthododd y swydd pan gynnygiwyd hi iddo. Bu farw yn 1220, yn 74 oed, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi.†

4. ['De Britannica Historia recte intelligenda Epistola.'

Londini, 1585, 8vo.]

[Y pedwar gwaith blaenorol (rhif 1, 2, 3, 4) a gyhoeddwyd gan y Dr. Dafydd Powel, Ebrwyad Rhiwabon, mewn un gyfrol 8plyg, yn y fl. 1585. Cyflwynir y gwaith i Syr Henri Sidney gan 'Dauid Pouelus;' a dyddir y llythyr cyflwyn—'Ruabonæ pridie Calend. Iunij. 1585.' Yr Henri Sidney hwn ydoedd dad Syr Philip Sidney, awdwr yr *Arcadia*. Yr oedd mewn mawr gymmeradwyaeth gydag Edward VI, yr hwn a'i gwnaeth ef yn farchog urddol, ac a'i hanfonodd yn llysgenad i Ffrainc. Yr oedd hefyd mewn parch gan y Frenines Mari, yr hwn hefyd a fwynhaodd hefyd o dan Elisabeth, yr hon a'i gwnaeth ef yn arglwydd raglaw Iwerddon, ac yn llywydd Tywysogaeth Cymru.

5. 'Act for Reformation of Errours in Fines and Recoveries, in the xii Shires of Wales, Towne and Countie of Haverford-West, with the Counties Palatine.

Imprinted by C. Barker, 1585.'

Y mae yn yr hen lythren ddu.

* Baldwin, Archesgob Caergaint, yr hwn gan Harri II, a anfonwyd i Gymru i bregethu yr angenrheidrwydd o ymuno yn Rhyfel y Groes. Yr oedd y penderfyniad hwn wedi dyfod i rym ym mhlith penaethiad Cristionogol Ewrop, sef codi rhyfel yn erbyn y Mahometaniaid, y rhai oeddynt elynion Cristionogaeth, ac yn meddiannu y Tir Santaidd; canys yr oeddynt yn ystyried mai gwarth ar enw Crist oedd bod y tir y cerddasai ef arno ym meddiant y fath bobl; am hyny penderfynwyd casglu milwyr trwy ran fawr o Ewrop i ennill Ierusalem, a'r bröydd oddi amgylch.—*Geirlyfr Cymraeg*, dan y gair '*Baldwin*.'

† Fenton's *History of Pembrokeshire*; Williams's *Eminent Welshmen*; ac Wood's *Athenæ Oxonienses*.

1586.

1. 'LLIVER GWEDDI GYFFREDIN, a Gweinidogaeth y Sacramentae, ac eraill gynneddfau a Ceremoniae yr Eccles Loegr: *Vewed, perused and allowed by the Bishops, according to the act stablished for the translation of the Bible and this Book into the British tongue.*

At London imprinted by John Windet at the costes and charges of Thomas Chard.* 1586.—Cum privilegio.' 4plyg.

Llyfr 4plyg bychan yw hwn, o ddeutu modfedd a hanner o drwch. Yn ei ddechreu y mae y calendar am y llithiau. Y mae y geiriau ar ben uchaf y dalenau mewn argraff goch, ac yn gwahaniaethu rhywfaint bob mis, megys, 'Mai ys ydd yddam. xxxj. die.' 'Mehevin ys ydd yddaw. xxx. die.' 'Gorphenaf ys ydd yddo. xxxj. die.' Ar gongl aswy pob dalen y mae arlun bychan yn cynnrychioli y tymmor; ac o dan bob arlun, pennill diarebol; megys, ar gyfer Gorphenaf, y mae dyn yn tori gwair, menyw yn eribinio, a dyn ym mhen uchaf y maes yn yfed diod, a hanner dwsin o fydylau; ac o danodd y llinellau hyn:—

'I may tempestl gorhena
Yn ddrwg arles cynhaia
Cyweiroth wair achludwch
Rhag ofyn gwlaw, nag oydwch.'

Hyny yw,—

Y mae tymmestl Gorphenaf
Yn ddrwg ar les cynauaf;
Cyweiriwch wair a chludwch,
Rhag ofn gwlaw, nac oedwch.

Ar ddalen Awst y mae llun medelwyr—y meist'r ger llaw yn eu cyfarwyddo, a morwynig draw yn y pellder yn dal gwydryn diod bychan ar ei llaw, ac o danodd y llinellau hyn:—

'Mis Awst o byddi hyndda
Niw na niwed yr cynhaia
Ac ar ol cynhaia yd
Medwn lafur wydyna ibrid.'

Hyny yw,—

Mis Awst, os bydd yn hindda
Ni wna niwed i'r cynaua',
Ac ar ol cynauaf yd,
Meda lafur wydna'i brid.

Ar y gongl uchaf ddeheuol i bob dalen y mae codiad a machludiad yr haul am y diwrnod hwnw, megys fel hyn am 'Racfy'r':—

Haul yn { cyuodi } awr { vii. min. 34.
 { ymachlyt } { iiij. min. 26.

* Yr oedd Thomas Chard, neu Charde, yn byw ym Mynwent Bishopsgate. Cyfrifid ef yn argraffydd da. Bu yn y gwaith o leiaf ugain mlynedd, er nad yw ei enw wrth lawer o lyfrau.—Timperley's *Dictionary of Printers*.

Yna yn blaenori 'Y drefn py wedd y gosodwyd darllen y Psaltwyr,' y mae yr ymadroddion hyn:—

'Y TABVL A'R KALENDAR IN dangos trefn y Psalmae a'r Llithia e, y arferir ar Voreu a Phrydnawn weddi, trwy yr vlwyddyn, dyeithr: ryw wiliae, megys y mae y Reoleu syn canlyn yn espesy yn eglurach.'

Yn nesaf y mae yr 'Act an vnfvrviat Gyffredin vveddi a gwasanaeth y Sacramentae.' Yna y cawn y 'Racymadrodd,' yr hwn, gan ei fod yn ddernyn o hynafiaeth mor ddyeithr,* a roddir oll ger bron:—

'NY BU erioed, dim wedi ei ddychymygu mor ddiball gan synhwyr dyn, nei wedy ei ddysyly morgadarn, yr hwn trwy yspeit amser ny lygrwyt: megys ymplith pethae ereill y mae yn gwbl eglauer wrth y gweddiu cyffredin yn yr Eccles, yr ei a elwir yn sathredic Gwasanaeth Dew. Bonedd a' dechreat cysevin pa rei as chwilid ymyse gwaith yr hen Dadae, e geffir gwelet nad ordeiniwyt y gwasaneth hwnw namyn er purpos daonus, ac er mawr dderchaviat dywoldap. Can ys wynt wy a drefnesont y mater velly, yd pan byddei ir Bibl oll ai i'r part imwyaf o hanaw bod wedy ei ddarllen trostaw vnwaith yn y vlwyddyn: can ameanu wrth hyny, vod ir gwyr llen ac yn enwedic i'r sawl a vyddei weinidogion y Gynnylleidfa, allu [trwy vynech ddarllen a' mefyriaw gair Dyw bod wed yrymddarpary ar dwyworldap, a's bot hefyt yn ablach y annoc yr eill trwy ddyseidiaeth iachus ir vn peth; ac y allu gorthrech dadyl yr ei a wrthwynepei y gwirionedd. Ac ym-pellach; allu o'r pobul trwy glywet beunydd ddarllen yr Scrythur lan yn yr Eccles.] ymgynnyddu yn oystad vwyvwy am wybodaeth am Ddyw, a' dyuot y gary yn gynnesach ei wir greddyf ef. Eithyr ystalm o vlyddynedd, y darvu newidio, tori, ac esgeulusaw y ddywyl a'r weddus drefn hon yma o waith yr hen Dadae, can planny y mewn yn ei lle, Historiae amheus, Legendae, Atebion, Gwersi, Adwersi gweigion, Coffaduriaethae, ac Seneddolion, megis yn gyffredin pan ddechreuit vy llyfer o'r Bibl cyn darvod darllen tri n'ei pedwar Penn o hanaw, cwbyl anyd hyny byddei wedi ei adyeb ddarllen. Ac yn y sort hyn y dechreuit llyver Esai yn yr Aduent, ac y llyver Genesis in Septuagesima; eithyr ei dechry a wneit yn vnic, eb' orphen ei ddarllen byth. A'r un ffynyt ydd arferet am lyfre 'r eill o'r Scrythur lan. Ac gyd a hyny lle mynei Sanct Paul bod yn dywedyt cyfryw iaith wrth y pobul yn yr Eccles, ac a allent wy ei ddyall, ac gaffael lleshat gan glywet. Y gwasanaeth yn yr eccles hon y Loecr es llawer o vlyddynedd a ddarllewyd yn Llatin ir pobul, yr hyn nid oeddent wy yn yr ddyall: megis ac ydd oeddwynt yn clywet vnic a ei clustiaie, acei calonae, ei hyspryt, a' ei meddwl oedd yn ddiadeil o ywrthaw. Ac eb law hyny, cyd byddei i'r hen Dadae barthu y Psalmae yn saith ran, a phob vn o hanaddynt a elwyt Nocturn: yr owrhon yn hwyr o amser, cyfran bach o hanynt a ddywedyt

* [Anghydnabyddiaeth yr awdwr â'r Llyfr Gweddi Gyffredin a barodd iddo feddwl fod yr hyn sy'n canlyn yn ddernyn o hynafiaeth dra dyeithr; canys nid yw ddim amgen na'r Rhagymadrodd a welir o flaen pob argraffiad o'r llyfr hwnw, heb ddim gwahaniaeth ond cymmaint ag y sydd yn yr ieithwedd a'r llythyaeth.]

beunydd, can ei mynych aldywedyt a' gady y ddarn arall heibiau eb yngan vngair. Gyd a hyny, nifeiri a' chaledrwydd y Reolon yr ei a elwyt y Pica, ac amrafaell gynewidiau y gwasanaeth oedd yr achos, pan yw troi at gyvnotae y llyvr yn vnig, ytoedd beth mor galet ac mor rwystrys, ac vn vynech o amser y byddei mwy o trallawt yn chwiliaw am y peth a ddarlleit, nac yn ei ddarllen wedy byddei ei gaffael.

'Velly can syniaw ar yr ancymmessurwydd hyny, ef a osodir ymy gyfryw drefn, ac y cyweirir yr vnryhw pethae. Ac er mwyn parot-rwydd yn y devnydd hyn y tynwyt Kalendar er yr vn purpos, yr hwn ys id eglauer, a hawdd ei ddeall, ympa vn (yd y galler) y darperir darllen yr scrythur' lan, yd pan yw gwneythur pob peth mewn trefn eb' ohanu vn dryll o hancio ywrth y glyydd. Ac o bleit hyn y toret y vaes, Anthemae, Respondae, Inuitatoriae, a' chyfryw wac pethae amperthynasawl ar oedd yn tori cwrs cyfan ddarlleniat yr Yscrethur. Eto can nad oes modd amgen amyn yn angenreidiawl bot embell reol erwydd paam y gosodit yma ryw Reolae, yr ei megis nad ynt anyt ychydigion o niuer, velly y maent yn rhwyddion ac yn hawd ei dyall. Wrth hyny y mae y chwi yma ffurf ar weddiaw (tu ag at am ddarllen yr Scrythur lan) yn gwbl gysson a meddwl a phurpos yr hen Dadae, ac o lawer mwy profitiol, a' chymwynasol, na'r vn yn hwyr o amser y arverit. Y mae yn fwy profitiol achos bot yma yn gady allan llawer o bethe, o pa sawl ymae 'r'ei eb vot yn wir, 'r'ei yn ameus, rhei yn wac ac yn wan-goel nid ys yn ordino darllen dim, anyd gwirbur 'air Dyw, yr yscrethur lan, aei cyfryw ac a sailir arnei yn eglur, a hyny yn-cyfrywiaith a' threfn, ac ys id esmwythaf a hawsaf, ei ddeall y gan y darlleodron ar gwrandaewieit. Y mae e hefyd yn vwy commwynasol, yn gystal am ei yvret, ac am eglurder ei drefn, ac am vot y reolae o ychydic niver ac yn hawdd. A' chyd a hyny, trwy waith y drefn hon, ny rait ir Curatieit vn llyvr arall yn ei gwasanaeth public anit y llyver hwn a'r Bibl. Erwydd paam, nit raid ir popul vynet mewn cymeint o' draul am lyfrae, ac y byddent amser a vu.

'Ac lle bu ym-blaenllaw amrafael mawr wrth ddywedyd a' chany yn yr Ecclesidd o vewn y teyrnas hon, yr ei yn canlyn arver Salesbury, 'r' ei arver Henffordd, 'rei aruer Bangor, 'rei yr yddo York, ac rei aruer Lincoln: yr owrhon o hyn allan ny bydd i'r oll deyrnas anyd vn aruer. Ac a barn nep y ffordd hon yn fwy poenus, achos bot yn ddir darllen pob peth ar y llyuer lle o'r blaen o erwydd ryw vnych atdywediat, y gwyddynt lawer peth ar davot leferydd; eythyr a' scyfyw 'r' ei a gytpwysant ei llafur, y gyd a'r budd a'r gwybodaeth a gaffant beunydd wrth ddarllen ar y llyver, ny wrthddodant wy y poen, wrth welet meint y budd a dyf o hyn yma.

'Ac yn gyment na ellir gosot dim mor eglur ei draethiat, ac na choto petrutser wrth ymarver o hanaw. I oystegu oll cyfryw amrafael (a vydd ir vn gyvody.) ac am ddosparth pop ryw bedruster, yncylch y devnydd, pa wedd y mae deall, gwneythy 'r' a' chwplau pop peth or sydd wedy' gynwys yn y llyuer hwn: y partiae a vo yn pedruso velly, ai a bo yn cymeryd dim mewn amrafael vodion, vydd dir yddynt vynet at Episcop yr Episcopaeth, yr hwn wrth ei ddoeth-

inap a rydd drefn er esmwytho ac heddychu y ddadyll, dieythyr na bo y drefn hono yn wrthwynef y ddim y sydd o fewn y' llyver hwn. Ac o bydd Episcop yr Episcopawd mewn dim pedrustr, yna y gall ef anfon am yspyserydd ar yr Archebiscop.

'Cyd bo wedy'r osot yn y racysgrifenedic Racymadrodd bot bob peth ar a ddarlleir yn yr eccles yn iaith camberaee, er mwyn adeilat yr Eccles : er hyny nid ys yn meddwl pan ddyweto nep blygain a' gosper', sef voreu a' phrydnawn weddi wrth o ehun na ddychon ef ei ddywedyt ym-pa iaith bynac ar a ddeallo.

'Ac pop Offeiriad a' Diacon vydd rwymedic y ddywedyt beunydd y Boreol ar Prydnawnol weddi, yn aill ai yn ailltuol ai ar oystec, dyeithr bod rrwystr amaddynt y gan precethy, studeo duiuniti, ai o ran achos arall tra angenreidiol.

'A'r Curat sef y periglor a vo yn gwasanaethy ym-pob Eccles plwyf ai capel ac efe gartref, eb luddias rhesymoll arnaw, raid iddo ddywedyt y gwasanaeth hwnw, yn yr Eccles plwyf ai'r capel lle bo ef yn gwasanaethu, a' bot cany cloch yddaw ar amser cymmesur cyn nac yddo ddechrey, modd y gallo y nep a vo ganto divossion ddyfot y wrando gair Dvw, ac y weddiaw gyd ac ef.'

Yn nesaf yw yr 'Or Ceremoniis, paam y dilewyt rei ac yn cynhalivvyt rei ereill.'

Yna ceir,

'AN EXPLANATION of certain wordes, being quarrelled withall, by some, for that in this translation they be othervvise written, then either the vnlettered people, or some parts of the countrie sounde or *speake them.*

A signifying if, or whether, for o.

A being relative, or a voyce expletiue, for y, not vused to them of Southwales.

Anival for enivel.

Anid for onid, or ond.

Antemtic, anhymhic.

-awd

-awdd

-awl

} in the end of a word for, -od, odd, or -oedd, and ol.

As for a ys or os.

Bwystfil (which radder would be written Bestvel) for coruptlye pronounced gwystvil.

C for K (because the printers haue not so many as the Welsh requireth) and in some words for g.

Cent in some place for cant.

Dew for Duw in Northwales speech, and for dyw as they of Southwales speake it.

Ef, for the Northern efo, or fo.

F, sometimes for ff.

F, for v.

Ei, for i, or y, to them of Southwales.

Eich, for yeh.

Gestwng, for gistwng, or gostwng.

Hanwynt, hanynt, hanaddynt, for the corrupt honynt.

Ioan for Ieuan, Iouan, Ievan, Ifan, or Iwon: euen for that it is so diuersly sounded in diuers partes of the country.

Iorddanen, for Irddonen.

Iuddew, for Iddew.

Megis, for the Southern meis.

Monyth for mynydd: so they pronounce it at Sanct Dauids.

Myvn for myhun or vyhun.

Nebun, for neb, or ryw vn.

O bleit, or o blait, for o blegit.

P sometime remaining not turned into b or ph.

Pemp for pypm or pump.

P'odd vsed *per syncopen* in Southwales, for pa vodd.

Pobul for pobyl, or the Southern pybyl or gwerin.

Pleit, for plait, or plaid.

Tragyvyth, for tragwydd, or tragowydd; to keepe his orthographie, for it is compounded of tra cy and vyth: for hereby is it also more effectuell in signification.

Tangneddif, for tangneuedd or heddwch.

Tuy, for the Northern ty, V, for F.

Vcain, vgain, ygain or igen.

Vi-car, for vincar or vinghar: wherein n is receiued without good cause.

Vi-dew, for vinuw, or viniw, wherein d is retained, euen for the more signifiatiue expressing of the grace of the word.

Vi-popul for vimhobl, to saue the word the les maimed.

Vy-troed, for vynhroed, that the signification may be more apparant to the strange reader.

Y being relatiue, or a kind of expletive, for a, vnto the Northwales readers.

Yd for hyd, yddy duy, for y ew, or w dy in Northwales.

Yddwynt for yddynt, or vdunt.

Yr ei for rrei, or y rrai.

Ysy or sy *per synaloeopham*, for ysy or sy: comming before a vowel beginning another word *propter euphonian* ys ydd, for y sydd.

Ys ef, or 'sef.

Ys, is verie often vsed in the translation to expresse the emphatical energie or notable vehemence, where the Latine hath *etiam*, and the English yea or euen.

And beside these is verie little alteration either of the commune writing, or of straungenes of words, which be not opened by referring to like mark in the margin, as the word is marked in the text: as thus Dew* cnych oll [*y gyd a chwi.] And as for some of the faultes that escaped in printing, the meanlie learned reader may espie them and correct: as where three d d d or three l l l come together, or else where a letter is mis set, or one letter for an other, or sillable both want, or is superfluous: euen as the Northern orthographie is to the Southern tongue, which onelie in pronounciation would be reformed. The rest of the faultes may the wellwilling learned find out himselfe and helpe to correct as occasion serueth.

But let euerie such one as shall reade the seruice to the people,

mark well the three peintes, or staies in reading, being these, : .
 Wherat namlie in reading the Psalmes except he staie and rest accordingly, he shal wonderfullie confound the matter and astonish the hearers. And for example hereof the first verse of the 30 Psalme maie serue ful wel. The verse that I meane is this.

Can na phery anyd enhyd bach yn ei lit : ac yn ei garenydd y mae bywyt : wylofain a all aros eros echwydd, anyd e ddaw gor-uoledd y borae.

Which verse being distinctlie read, is verie comfortable to the hearers soule otherwise it is a verie *Chaos*, or as it were, a com-mixtion of heauen and hell together.

As for these two half circles () who is it but knoweth that they be-token a *Parenthesin*, or a clause inserted, which might be left out, and the sentence perfect, yea and for the most part more plaine and sensible to vnderstand.'

Y mae y penau neu y cynnwysiad ar ben uchaf y dalenau olynol yn rhedeg fel hyn, trwy yr holl lyfr :—

'Y Letaniae—Y Collectae, yr Epistolae, ar Euangelon—Y Llundyn die Pasc—Die Mawrth kyn die Pasc—Die Iou cyn die Pasc—Pured gaeth y sanctes Vair vorwyn—Die natalic—Die gwyl y meib-ion gwirion—Die Kalan neu Enwaediat Christ—Sul y Trintot—Sanct Ioan varyddwr—Y Commun—Betydd public—Bedydd priuat—Confirmation—Y Catechism, sef yw hyny, athrawiaeth yw ddyscu gan bob plentyn, cyn ei ddwyn yw confirmo can yr Episcop—Y ffurf solempnization neu drefnit Priodas—Y drefn am visitation y claf, Neu ofwy y clwyfus—Commun y claf—Trefn claddedigaeth y marw—Diolwch y gwragedd, neu eglwysa—Commination neu vgwth yn erbyn pechaduriait.'

Ac ar ei ddiwedd y mae,—

'Finis Tra Vo at London, Printed by John VVindet, for Thomas Chard. 1586.'

Ond rhaid eto roddi ychydig o siamplau o hono, fel y gweler pa fath gyfieithiad ydoedd. Derllyn 'Y Collect' am ddydd 'Sanct Ioan vatyddwr,' fel hyn :—

'Oll-alluawe Duw, o racluniaeth pa vn y ganet dy was Ioan vatyddwr, ac ydd anfonwyt i arlwyaw ffordd dy vab Iesu eyn iachawdyr gâ bregethu edifeirwch : gwna y ny velly ddilyn ei ddysceidiaeth ai sanctaidd vywyd ef, yd pan yw i ni wir edifarhau wrth y bregeth ef, ac ar ol ei esempl yn wastadol draethu y gwirionedd, ynhyderus geryddu y camwedd, ac yn vfydd ddiodef er mwyn y gwirionedd, trwy Iesu Christ eyn Arglwydd.'

Gan fod yn debyg fod cyfieithiad y rhanau o'r Testament Newydd sydd yn dyfod i mewn yn y Weddi Gyffredin, yn debyg i'r unrhyw yn y Testament ag oedd eisoes yn Gymraeg er ys deunaw mlynedd, ac nad oedd dim o'r Hen Destament wedi dyfod hyd ym mhen dwy flynedd wedyn, rhoddir yma ddernyn sydd 'yn lle yr epistol' am 'Y xxv. Sul gwedi Trintot,' gan ei fod o'r Hen Destament, ac felly yn gyfieithiad cynnarach na'r eiddo y Dr. Morgan.

'Jer. xxiii.

- * vlaguryn, gan, gen. Arglwydd, y cyfodaf o Ddauid* vagluryn cyfiawn, ac a deyrnasa Brenin ac a lwydda, ac a wna varn a' chyfiawnder ar y ddaear.
- * y gwaredir. Yn y ddyddiae ef* ydd iacheir Judah, ac
- * yr. Israel a breswilia yn* ddioval, a hwnyw* ei enw y galwant Ef, yr Arglwydd eyn cyfiawnder.
- * gobraith. Am hyny* nycha, y mae'r dyddiae yn dyvot medd yr Arglwydd, pryd na ddywedant mwy [ys] byw yr Arglwydd, yr hwn a dduc blant yr Israel allan o tir yr* Aipht, eithyr [ys] byw'r Arglwydd yr hwn a dduc ac a ddeath a had tuy'r Israel allan o'r Gogledddir, ac o'r oll tiredd ar y goyscereiswn wy, ac wy a drigiant yn ei tir ehunain.'

Y mae y Salmau yn gyssylltiol â'r 'Llyfr Gweddi' hwn, â gwynebdalen iddynt wrthynt eu hunain, wedi ei hymylu ag amryw gerfluniau. Y geiriau sy fel hyn:—

'PSALLWYR* neu Psalmæ David, wedi ei Gamberei—*gaw in nesaf ac a' ellit a' chadw*, bwyll, i'r llythyr Ebrew: a'i ddosparth wrth y drefn y darlleir in yr Eccles. *Perused and allowed according to the queen's iniunctions.* Anno Domini 1586.'

Rhoir i'r darllenwyr yma yr 'ARGUMENT,' ac un o'r Salmau, fel esiampl o'r cyfieithiad a'r llythyreniad:—

'YR ARGUMENT NEU ystyriaethau y Lliver hwn.'

'Y Llywer Psalmæ hyn a estennir y ni gan yr yspryt glan yw gymeryd ai vawrhau mal treasawr or gwerthvawrocaf, yn yr hwn y cynysir pop ryw beth a perthyn y wir ddedwyddit: vn gystal yn y vuchedd gydrychiol hon, ac yn y vuchedd a ddaw. Can ys golud gwir wybodaeth, a nevawl ddoehinep y osodwyt yma yn agoret y ni, y gymryd o hanaw yn ddyandlawr. As mynem ad nabot ardderchawcvawr orucheldap Dyw, yma y cawn weled ei lewrych, yn tywynu yn gwpl ddysclaer. As ceisiem ei anveidrawl ddoethinep, yma y mae yscol yr athroeth hyny: Asmynem ddeall ei ancystal ddayoni ef, a dynesau ataw, a llanwy ein dwylaw ar tresawr hynny, yma y cawn y ddrychiolaf ar diddanusaf oreuchwaith o hanaw. As

* *Psallwyr* = *Psalter*—Llyfr y Salmau wedi ei ddosbarthu i'w ddarllen yn ddefosynol, yn ol ei raniad dyddiol, yn ol trefn y Foreul a Phrydnawnol Weddi yn Eglwys Loegr. Yr hen air a arfer Lewis Glyn Cothi yw '*Llaswyr*.'

'Arver mae Annes o Baderau,
Arver eiliw ser â *Llaswyr*.'

['O'r galon y rhy'r Gwyliau am *Sallwyr*,
O lawer synwyr, elusenau.'

Gwaith L. G. Cothi, i. xxxi. 15.

Nid yw *sallwyr* a *llaswyr* ond gwahanol lunweddiadau o'r Groeg *psaltérion*; Llad. *psalterium*: ac o'r un gair y ffurfiodd y Seis. *psalter*; y Ffr. *psautier*; a'r It. a'r Ysp. *salterio*.]

mynem ni gahel dyall hanvot ein iachawdwriaeth aph wedd y mae dyovt y fywyt tragvythawl, yma y mae Christ ein vníc brynawdr, an cyfryngwr wedyr yscrythru yn dra eglur. Yma y gally goludawc ddyscuiawn arver ei olud. Y gal tlawd gael ei vodloni. Hwn a vyn ymlawenhau a gaiff ad nabot y gwir lawenydd, a pha mae cadw mesur ynto. Yr ei ys y mewn poen a gorthrymder a gâtym—pa beth y saif y dyhuddiant wy, a pha delw y dlyant volianu Dyw, pan ddanvono wared yddwynt. Yr anewolion ac erlidwyr plant Dyw a gant welet val y bydd llaw Ddyw byth yn y erbyn hwy : ac er yddo ddyoeddef ynddynt lwyddo dros encydic, eto y mae ef yn ei ffrwyno wy mor gaeth na allan wy yhwrd a blewyn pen nebun, dyeithr ynddo ef eu goddef, ac val yn y dywedd y mae y destruwedigaeth wy yn ddigon truan, I vyrhau, yma y gallwn gael yr ym waredæ parotaf yn erbyn oll brouedigaethu, a chynnwrf meddwl a chydwybot, ac velly gwedy i ni ymarver yn-dda o hyn, byw yn gwir ofn a chariat Dyw, ac or dywedd vwynhau yr anllwgreddic goron gogoniant, yr hon ys ynghadw i'r sawl oll y garant dyuodiat ein Arglwydd Iesu Christ.'

'Boreu Weddi. Psal. i.

Gwyn ei vyd y gwr ny rodiawdd yn cyceor yr andewiolion, ac ny savodd yn ffordd pechaturiei, ac nyd eiste ddawdd yn eisteddfa yr ei gwatworus.

* ynghyfraith.
* gyfraith.

Eithyr bot ei ewyllys yn* Deddyf yr Arglwydd, ac yn *Ddeddyf ef bot yn mevyrio ddydd a' nos.

* Ac ys.
* avonydd.
* amser.
* ddail.
* mal.

Canys ef vydd mal pren wedy'r blanny yn glan dyfredd yr hwn a dowc ei ffrwyth yn ei* dempor : a' ei *dalen ny wywa, a pha beth bynac y wnel ef, a lwydda.

*mal.
*gwan, peiswyn, llwch. mal y *man vs, yr hwn a chwal y gwynt ymaith.

Am hyny ny saif yr amdewiolion* nyny varn, na'r pechaturiait yn cynnulledfa yr ei cyfion.

Can ys yr Arglwydd a edwyn ffordd yr ei cyfion, a ffordd yr andewiolion a gyfergollir.'

Dyna olwg agos cystal ar y llyfrau hynafol hyn, a phe'u gwelsid. Buasai yn foddhaol pe gallesid rhoddi esiampl foreuach o'r 'Kynnifer lliith a ban' y fl. 1551, ac ereill cyn hyny. Ni roddais esiampl o 'Destament Salesbury,' am fod hwn yn awr yn dra adnabyddus. Y mae yr yr esiamplau a roddwyd yn peri i un farnu yn iselach am chwaeth yr hen Salesbury nag yr arferid barnu. Nid oes ammheu fod ei ddysgeidiaeth yn alluog i'r gwaith—nid ei fedr oedd ddiffygiol, ond ei chwaeth. Nid oedd ef yn ymlynu yn gysson wrth unrhyw drefn. Weithiau defnyddiai air anghymefin yn y Gogledd, am fod pobl y Deheudir yn ei arfer ; a phryd arall ymwrthodai â'r un gair, gan ddefnyddio gair dyeithr i'r Deheuwr, am

fod y Gogleddwyr yn ei arfer. Pryd arall defnyddiai air nad arferid ond mewn rhyw gwr bychan o'r Deheu neu y Gogledd, er y byddai yn anarferedig ym mhob man arall, megys y gair 'monyth,' am 'fynydd,' yng nghymydogathau Pen Dewi, yn sir Benfro. Pryd arall y mae wedi silliadu neu lythyrenu geiriau i ateb i'r modd llawn, byr, neu gwta, yn ol arfer tafodiaith gwahanol leoedd o seinio y geiriau yn eu siarad cyffredin; a phryd arall gwnai y gair yn glogyrnaidd ac anystwyth, trwy gadw at ei wraidd a'i gyfansoddiad, er na byddai yn cael ei arfer felly yn unman, nac yn ddealladwy felly i neb ond dysgedigion. Pryd arall, y mae geiriau wedi eu hanner-gyfieithu—Cymraeg â therfyniad Lladinaeg neu Seisonaeg, fel nad oedd yn dilyn unrhyw gynllun rheolaidd, er y gallasai, fel y gwelwn wrth ei daflen o egluriadau. Dylid dywedyd fod y cyfieithiad hwn yn cael ei briodoli i William Salesbury, ac y mae yn debygol i'w waith ef hefyd, er nad yw ei enw wrtho yn unman, hyd y gallwyd gwled.

2. 'A History of the ancient Inhabitants of Britain, their Origin, Manners and Laws.'

Gwaith Lladinaidd gan yr enwog Camden yw hwn. Efe, WILLIAM CAMDEN, a anwyd yn Llundain yn 1551. Gwnaed ef yn ben-athraw Ysgol Ramadegol Westminster yn 1593. Yr oedd yn ysgolhaig a hynafiaethydd enwog. Bu farw yn 1623, yn 72 oed.*

1587.

1. 'A Treatise containing the Equity of an Humble Supplication which is to be exhibited to Her Gracious Majesty, and the High Court of Parliament, in the behalf of the country of Wales, that some order may be taken for the preaching of the Gosbel among those people; wherein is also set down as much of the estate of our people as without offence could be made known to the end (if it please God) may be pitied by them who are not of this assembly, and so they also may be drawn to labour in our behalf.'

Printed at Oxford by Joseph Barnes†—to be sold in Paul's Church-yard, at the sign of the Tiger's Head. 1587.'

Dywedir mai gwaith cyntaf John Penry ydoedd.‡

2. 'Dadseiniad Meibion y Daran, gan Morus Cyffin.'

[Y mae yn ammhëus iawn a argraffwyd llyfr o'r enw y flwyddyn hon. Gallwodd Charles Edwards, awdwr *Hanes y Ffydd*, ar yr enw hwn yr ail argraffiad o gyfieithiad Morus Cyffin o 'Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr,' gwaith yr Esgob Jewel, yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn Rhydychain yn 1671; ond nis gwyddys i Cyffin ei hun gyhoeddi un gwaith yn dwyn y cyfryw enw.]

* Jones's *Biographical Dictionary*.

† Ym mhen blynyddoedd ar ol hyn ceir hanes am un Thomas Barnes, wedi ei droi o weinidogaeth Maghor [Magwyr], yn sir Fynwy, ac yn cael ei anfon gan ryw eglwys o'r enw Alhall, yn Llundain, i bregethu yr efengyl yng Nghymru, yr hyn a wnaeth mewn amseroedd celyd. Bu farw tua 1703.—Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.*, vol. iii. p. 505-6.

‡ Waddington's *Pilgrim Martyr*, p. 10.

3. ¶ 'The Misfortunes of Arthur, Uther Pendragon's Son. By Thos. Hughes.

Imprinted by R. Robinson. 1587.'

4. 'The Worthyness of Wales, wherein are more than 1000 things rehearsed, set out in Prose and Verse, and enterlarded with many wonders, &c., by Thomas Churchyard. 1587.' 4plyg.

Er nad yw ond llyfryn bychan o ychydig o ddalenau, cyrhaeddodd i 9p. ar ail law unwaith.

Ganwyd Churchyard yn Amwythig, o deulu da, meddai ef ei hun; ac yr oedd yn ei fri yn nheyrnasiad Harri VIII, Edward VI, Mari, ac Elisabeth. Bu farw yn 1570.

[Ôs bu Churchyard farw yn 1570, megys y dywedir uchod, bu farw rai blynyddoedd cyn cyhoeddi ei waith, yr hyn nid yw debygol. Yn ol Maunder yn gynnar yn y 17fed ganrif y dygwyddodd ei dranc.]

5. ¶ 'An Ancient Survey of Pen Maen Mawr, North Wales.'

[Gweler rhif 5. d.f. 1603.]

6. ['Rerum Britannicarum, id est, Angliæ, Scotiæ, vicinarumque insularum ac regionum, scriptores vetustiores ac præcipui.'—Heidelberg,* 1587, fol.

Cynnwys y casgliad hwn y gweithiau canlynol :—

1. 'Galfredi Monumetensis, cognomento Arturi, de Origine et Gestis Regum Britannicæ libri XII.'

2. 'Pontici Virunnii Britannicæ Historiæ libri VI.'

3. 'Gildæ Sapiientis de Excidio et Conquestu Britannicæ Epistola.'

4. 'Bedæ Anglo-Saxonis Historiæ Ecclesiasticæ Gentis Anglorum libri V.'

5. 'Continuatio ejusdem Historiæ, incerto auctore, libris tribus comprehensa.'

6. 'Gulielmi Newbricensis de Rebus Anglicis libri VI.'

7. 'Joannis Frossardi Historiarum Epitome.'

Argraffasid y rhif 1, sef Brut Lladin Gruffydd ab Arthur, o'r blaen yn Paris, yn 1508 ac 1517. Yr oedd rhif 2, yr hwn nid yw fawr angen na thalfyriad o chwech llyfr cyntaf Gr. ab Arthur, wedi ei argraffu yn Venis, er y fl. 1490, a chan y Dr. Dafydd Powel yn Llundain yn 1585. Cyhoeddassid rhif 3, sef Llythyr cwynfanllyd Gildas, gan Polydor Vergil yn Llundain yn 1525; yn Awgsbwrg yn 1534; yn Basil yn 1541, yn y gwaith a elwir 'Opus Historiarum nostro Sæculo convenientissimum;' gan Daye yn Llundain yn 1563; gan Josseline, yn yr un lle, yn 1568; ac yn Basil yn yr un flwyddyn; ymddangosodd argraffiadau ereill yn 1569, 1576, 1587 (yr un a nodir uchod), 1610, ac 1677; yn 1691, daeth allan argraffiad Gale (yn ei 'Rerum Anglicarum Scriptores Veteres') yn Rhydychain; argraffodd Bertram ef yn Copenhagen yn 1775; a Jos. Stevenson, dros y Gymdeithas Hanesol Seisonig, yn Llundain, yn 1838; a chyhoeddodd y Dr. John A. Giles ei argraffiad yntau, yn yr un lle, yn 1841. Y mae Gildas hefyd yn un o'r awduron cynnwysedig yn y 'Monumenta Historica Britannica,' Llundain, unplyg, 1848. Yn 1638, ymddangosodd, yn Llundain, gyfieithiad Seisonig o hono gan Habington, dan yr enw canlynol :—'The Epistle of Gildas the most ancient British Author: who flourished in the yeere of our Lord, 546. And

* [Mewn rhai o'r llyfrau y mae *Lugduni* (sef, y mae yn debygol, *Lugdunum Gallicum*=Lyons, yn Ffrainc, nid *Lugdunum Batavorum*=Leiden, yn Holand) yn lle *Heidelbergæ* ar ddalen yr enw. Nid peth anghyffredin yn yr amser hwnw ydoedd argraffu dalenau enwol er mwyn cyfaddasu yr argraffiad ar gyfer gwahanol lyfrwerthwyr. Pa fodd bynag, yng ngwasg Ierom Commelin, yn Heidelberg, yr argraffwyd y gwaith.]

who by his great erudition, sanctitie, and wisdom, acquired the name of *Sapiens*. Faithfully translated out of the original Latine.' 12plyg. Ymddengys mai cyfieithiad diweddarach yw—'A Description of the State of Great Britain, written eleven hundred yeares since.' Llundain, 1652, 12plyg. Cyweiriad o gyfieithiad Habington yw yr un a ymddangosodd dan enw y Dr. Giles, yn y 'Six Old English Chronicles,' Llundain, 1848, 8plyg bychan. Y tri llyfr cyntaf o 'Gesta Regum Anglorum,' gan Gwilym Malmsburi, yw rhif 5, er nad ymddengys fod y ffaith hon yn hysbys i'r golygyddion cyntefig.]

1588.

1. 'Y Beibl Cyssegr-lan. Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Imprinted at London by the Deputies of Christopher Barker, Printer's to the Queen's most Excellent Majestie. 1588.' Unplyg.

Hwn yw cyfieithiad y Dr. William Morgan, Esgob Llanelwy. Y mae yr Apocrypha hefyd rhwng y ddau Destament. Ym mhen un mlynedd ar hugain ar ol cael y Testament Newydd y cafwyd yr holl Feibl i'r Cymry. Y mae yn hynod fod y gwaith wedi ei oedi dros yr amser a ofynid gan y weithred seneddol,* yr hon oedd yn rhwymo yr Esgobion i fynu gweled y gwaith wedi ei ddwyn i ben erbyn y dydd cyntaf o Fawrth, 1566, o dan boen o 40*p.* o ddirwy ar bob un o'r Esgobion, os methent; ac eto aeth dwy flynedd ar hugain heibio cyn i'r ammod gael ei chyflawnu. Ond pa gyfrif neu reswm a ellir ei roi am yr esgeulusdra hwn? Nid o eisieu ewyllys; canys yr oedd y cynnorthwy a gafodd Salesbury i gyhoeddi y Testament yn profi hyn; ac nid o eisieu gwŷr o ddysg ddigonol i'r gwaith. Tybygid fod rhesymau ereill am y gohiriad; ac un ydoedd, eisieu amser digonol i'r gwaith; canys buwyd bedair neu bum mlynedd yn cael y *Testament Newydd* allan, ac er arfer pob diwydrwydd, aeth yn flwyddyn dros yr amser y gofynai y Senedd i'r holl Feibl fod yn yr Eglwysi. Yr oedd gwall arall hefyd yn y weithred seneddol hōno;—nid oedd yr un ddarpariaeth gogyfer â'r draul; ni roddwyd *gorchymmyn* breninol—ni ofalwyd am wobrwyo y neb a wnai; ac ni ofalwyd am ddostranu y gwaith i wŷr cyfaddas ato. Mewn gair, ni roddwyd yr un cynllun i fyned ym mlaen wrtho—nid appwyntiwyd neb i gymmeryd y gwaith, na rhan o hono—dim ond deddfu ei fod i gael ei wneyd gan—*neb*!†

Pan aed i gyhoeddi y Beibl Seisonig, yn amser Iago, ni adawyd y peth mor esgeulus a hyny, ond rhoddwyd cynllun cysson i fyned ym mlaen wrtho—rhanwyd yr holl Feibl yn ddostrarthiadau—neillduwyd gwŷr penodol, y rhai o ran eu rhifedi oeddynt agos yn *Septuagint* [seithdeg], a'r rhai hyny y dynion mwyaf eu dysg a'u talentau a allesid eu cael trwy yr holl deyrnas—telid am eu bwrdd a'u lletty, a chostau angenrheidiol ereill (yr hyn a gyfrifid uwch law mil o *farciau*, neu agos saith gant o bunnau) gan y Wladwriaeth neu y Llywodraeth; a rhoddwyd *gorchymmyn* allan gan y brenin fod iddynt gael yn fuan eu gwobrwyo yn dda â'r personiaethau,

* [Nid mewn ufudd-dod i'r weithred seneddol y cyfeirir ati, yr ymgymmerodd y Dr. Morgan â'r gwaith; ac nid oedd un cyssylltiad rhwng y cyfieithiad hwn a'r weithred hōno, yr hon bellach nid oedd ddim amgen na llythyren farw.]

† Dr. Llewelyn's *British Versions*. [Gwaith Gwallter Mechain, ii. 222.]

bywoliaethau, ac urddasiadau eglwysig ereill, a ddeuent yn rhydd gyntaf. Ond pan aed i orchymmyn cael y Beibl yn *Gymraeg*, ni threfnwyd y fath bethau, dim ond bod i'r Esgobion fynu gwneyd y gwaith, a'u dirwyo i 40*p.* bob un, os *na* wnaent; ac eto buasai *gwneyd* yn eu taflu i fwy o draul na *chan* punt bob un, a hyny yn yr oes hono.* Ond pwy a gymmerodd y gwaith mewn llaw?—

WILLIAM MORGAN, D.D., genedigol o Ewybrnant, yr hwn le sydd ar derfyn plwyfau Dolyddelen a Phenmachno, yn sir Gaernarfon. Yr oedd ef, pan gymmerodd y gwaith mewn llaw, yn ficer Llanrhaidr ym Mochnant, ar derfyn siroedd Dinbych a Threfaldwyn. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt; a'r fywoliaeth gyntaf a gafodd oedd ficeriaeth y Trallwng Coch, yr hon a gafodd ef Awst 8, 1575. Tair blynedd y bu yno, pan y symmudodd i Lanrhaidr; a dechreuodd yn ebrwydd ar ei waith clodfawr, wrth yr hwn y bu yn llafurio yn ddyfal am ddeng mlynedd. Wedi ei orphen, gwobrwywyd ef â phersoniaeth Llanfyllin, gyda phersoniaeth anghuriog Pennant Melangell; ac yn 1594, â phersoniaeth anghuriog Dinbych, a dyrchafiaethau ereill. O'r diwedd, yn dra haeddiannol, dyrchafwyd ef i fod yn Esgob Llandaf yn 1595; a chafodd eisymmud oddi yno i esgobaeth Llanellwy, yn 1601, ar ddymuniad penodol y Frenines Elisabeth; ac yno y bu farw, Medi 10, 1604.† Yr oedd ei waith yn gyfieithiad o'r oll, neu y rhan fwyaf o'r Hen Destament a'r Apocrypha i'r Gymraeg, ac yn wellâd ar yr hen gyfieithiad o'r Testament Newydd; a mynodd ei argraffu yng nghyd yn un llyfr mawr unplyg, mewn llythyrenau duon, neu yr hen llythyrenau Brytanaid. Y mae ynddo gynnwysiad i bob pennod—wedi ei ranu oll yn adnodau—rhai cyfeiriadau ymylenol—llythyr Lladin at y frenines yn ei ddechreu—ac hefyd Galendar, a dwy o daflenau ereill; ac, fel Testament Salesbury, y *dalenu*, ac nid y tudalennau‡ sydd wedi eu rhifnodi, yn cyrhaedd i 555. Yn Llundain y cafodd ei argraffu, gan Christopher a Robert Barker; am y rhai, ef allai na byddai yn ammhriodol gwneyd peth sylw yn y lle hwn.

Yr oeddynt yn byw dan arwydd 'Pen y Teigr,' yn *Paternoster Row*, ac yn cadw maelfa ym Mynwent St. Paul, dan arwydd y 'Ceiliog Rhedyn.' Yr oeddynt yn deilliaw o deulu cyfrifol, ac wedi cael trwydded i argraffu yr Ysgrythyrau gan y Frenines Elisabeth. Adnewyddodd y Brenin Iago yr hawl-fraint i Christopher, mab Robert Barker. Dywedir gan Ames, fod Robert Barker, yr ieuangaf, wedi talu 3,000*p.* am ddiwygio Seisoneg Beibl y Brenin Iago, yr hyn oedd yn swm anferth yn yr oes hono, ac y mae yn rhaid ei fod yn talu yn llawn i'r holl gyfieithwyr;§ ond er

* Llewelyn's *British Versions*.

† Williams's *Eminent Welshmen*.

‡ [Hyny oedd dull cyffredin llyfrau yr amser hwnw, nid yn unig yn Gymraeg, ond mewn ieithoedd ereill hefyd.]

§ [Nid ymddengys mai yr argraffydd oedd yn talu cyfieithwyr Beibl y Brenin Iago (1611) am eu gwaith, ond yn hytrach y Llywodraeth, y rhai a'u gosodasant ar waith. Y mae Beibl y Brenin Iago yn dra chywir o ran ei argraffwaith; ond dichon fod gwallau lawer wedi ymlithro i argraffiad 1632 o'r unrhyw.]

hyny, hynod o wallus y gwnaed y gwaith; canys yn y Beibl Seisonig a argraffwyd gan Robert Barker a Martin Lucas, yn y flwyddyn 1632, argraffwyd mil o honynt â'r gwall pwysig hwn ynddynt, sef, '*Thou shalt commit adultery,*' yn y seithfed gorchymmyn, trwy adael allan y '*not;*' sef 'Gwna odineb,' yn lle '*Na wna odineb.*' Pan ganfuwyd hyn, galwyd yr holl lyfrau i fyny, a dirwywyd yr argraffwyr i 3,000*p.*, am yr hyn, yn ol gorchymmyn y Brenin Siarl i. y prynwyd tawddlestri i wneyd llythyrenau Groeg, i argraffu rhyw weithiau enwog a gawsid yn llyfrgelloedd y brenin, a'r ddwy brifysgol; a rhoddwyd y gwaith i Barker a Lucas, o dan yr ystyr-iaeth eu bod wedi eu mawr dlodi trwy y ddirwy fawr hõno. Ond er y ddirwy uchel hõno, gwallus yr oedd argraffwyr y brenin yn gwneyd eu gwaith ar y Beiblau (Seisonig); canys yn y fl. 1634, daeth Beibl allan â'r gwall hwn ynddo, yn *Salm* xiv. i;—'*The fool hath said in his heart there is a God!*'—'*Yr ynfyd a ddywed yn ei galon y mae un Duw!*' yn lle '*Nid oes un Duw;*' am yr hyn eto y dirwywyd yr argraffwyr yn drwm, ac yr attaliwyd lledaeniad y Beiblau. Bu Christopher farw Tach. 29fed, 1599; a Robert a fu farw yng ngharchar y *King's Bench*, Ion. 10fed, 1645, wedi cael ei ddwyn i iselder amgylchiadau, mewn rhan fawr trwy y dirwyon trymion hyny.*

Wedi cilio fel yna rywfaint oddi wrth y testyn, eto o fewn cadw golwg arno, deuir yn ol eto at brif gyfieithydd y Beibl Cymraeg hwn—yr Esgob Morgan. Pa fodd y daeth ef i gymmeryd y gwaith arno? Ymddengys nad oedd wedi ei roddi ar waith gan y frenines na'r esgobion; ond iddo gymmeryd y gwaith arno ei hun, oddi ar deimlad o'r angenrheidrwydd mawr am yr holl Ysgrythyrau i'r Prydeiniaid.† Yr oedd hefyd alw mawr yma a thraw ar hyd y wlad am y Beibl oll; er bod ysbryd Pabaidd yn gryf y pryd hyny yn erbyn i'r cyffredin gael y Beibl yn eu hiaith eu hunain; ac i'w attal, dyfeisiwyd celwyddau noethion yn erbyn y ficer, hyd yn nod gan ei blwyfolion ei hunan—trigolion Llanrhaidr ym Mochnant. Aethant mor bell ag achwyn ar ei anaddasrwydd i'r fath orchwyl, nid yn unig wrth esgob ei esgobaeth,‡ ond hefyd wrth Archesgob Caergaint,§ o flaen yr hwn y gorfu i'r ficer nesau yn grynedig. Eithr wedi i'r archesgob ei holi, gwelodd yn eglur ei fod yn un o'r rhai medrusaf yn yr Hebraeg a'r Groeg, ac mor eglur dealodd anwiredd ei gyhuddwyr. Gofynodd yr Archesgob (Whitgift) iddo, '*A fedrwech chwi Gymraeg yn gystal a Hebraeg?*' Y ficer a'i hatebodd yn ostyngedig, gan ddywedyd, '*Gobeithio, fy arglwydd, y goddefwech i mi eich sierhau y medraf iaith fy mam yn well nag un iaith arall.*' Gwedi hyn, cafodd bob annogaeth i fyned ym

* Timperley's *Dictionary of Printers and Printing.*

† [Yn hytrach i'r *Cymry*; canys er eu mwyn hwynt, ac nid er mwyn neb ereill o'r *Prydeiniaid*, y gwnaed y cyfieithiad dan sylw.]

‡ Y Dr. W. Hughes, yr hwn yn lle ei feio, a'i cynnorthwyodd.

§ [Nid ymddengys fod y berthynas leiaf rhwng y cwyn a ddug ei blwyfolion yn ei erbyn a chyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg. Odid fod neb o wŷr ei blwyf yn gwybod dim am ei addasrwydd ne'i anaddasrwydd at y cyfryw orchwyl.]

mlaen yn ei orchwyl llafurus.* Wedi y cyfan, ymddengys nad oedd amgylchiadau y ficer yn gyfryw ag a'i galluogent i ddwyn y gwaith ym mlaen, heb lawer o gynnorthwy, yn enwedig cynnorthwy tymorol, fel yr ymddengys oddi wrth ei gyfaddefiad ef ei hun, yn ei lythyr cyflwyn o'r Beibl i'r Frenines Elisabeth; canys ymadrodda yno fel hyn:—'Ac wedi ei ddechreu, diffygiaswn, o ran anhawsder y gwaith, a mawredd y gost, a dygaswr Bum Llyfr Moses yn unig at yr argraffwasg, oni buasai i'r Parchedig John Whitgift, Archesgob Caergaint, achleswr dysgeidiaeth, amddiffynwr y gwirionedd, a thirion wrth ein cenedl ni, fy nghymhorth â'i haelioni, â'i awdurdod, ac â'i gynghor, i fyned ym mlaen. Yn ol ei esiampl ef daeth gwŷr da ereill (sef Esgobion Llanelwy a Bangor; y Dr. Dafydd Powel; Mr. Gabriel Goodman; Mr. Edmund Prys; Mr. Richard Vaughan, o Liverworth), yn gynnorthwy i mi, hyd oni chyfieithais yr Hen Destament i gyd, a diwygio y Testament Newydd.'

Bu cryn ymrafael rhwng yr Esgob a Syr John Wynn, o Wydir, ger Llanrwst, pan oedd yn Esgob Llanelwy, o blegid na werthai yr Esgob ddegymau y plwyf hwnw i'r barwnig; ac y mae Syr John yn edliw iddo mai trwyddo ef yr oedd wedi ei ddyrchafu i'r esgobaeth, ac 'mai, pan gyfieithodd yr Hen Destament i'r iaith Gymraeg, ei fod wedi cael mantais a chynnorthwy gweithiau yr Esgob Davies a William Salesbury, y rhai oeddynt wedi gwneyd rhan fawr o hono; eto ei fod ef (y Dr. Morgan) yn cymmeryd yr enw am y cwbl.' Yr oedd hwn yn gyhuddiad heb nemawr o sail iddo, os dim; canys y mae yn amlwg, wrth y cyfieithiad ei hun, ei fod yn hollol newydd, neu o leiaf, yn gymmaint o ddiwygiad ar waith clogymnog yr Esgob Davies a William Salesbury, fel y cafodd fwy o waith i'w ddiwygio na'i gyfieithu yn wreiddiol. Ar ol y gwaith clodfawr hwnw, cafodd ei raddio yn D.D., a'i ddyrchafu yn esgob, a hyny drwy orchymmyn penodol y frenines, o dan ddylanwad Whitgift, yr archesgob. Bu y Dr. Morgan farw yn 1604, ym mhên deunaw mlynedd ar ol cyhoeddiad y Beibl cyntaf hwn.†

Bellach tefir golwg fanylach ar gefnogwyr a chynnorthwywyr yr esgob yn ei waith clodfawr o gael yr holl Feibl yn Gymraeg y waith gyntaf. Y cyntaf a enwir ganddo yw

JOHN WHITGIFT, Archesgob Caergaint, yr hwn a anwyd yn Great Grimsby, yn sir Lincoln, yn y fl. 1530, neu 1533. Yr oedd yn deiliaw o hen deulu cyfrifol—ei dad yn fasnachwr, a'i ewythr, Robert, yn abad i fynachdy o Offeiriaid Duon, yn Wellow, ger Grimsby. Yr abad oedd y cyntaf o'r teulu i newid ei egwyddorion crefyddol, sef o Bablyddiaeth i Brotestaniaeth. 'Nis gall y grefydd yr ydym yn ei phroffesu barhau yn hir,' meddai ef wrth ei nai John (yr archesgob); 'mi a ddarllenais yr holl Ysgrythyr trwodd, ac ni ellais erioed ei chael

* Gwnaeth Sion Tudur gywydd iddo, yn yr hwn y dywed:—

'Cei glod o fyfyrdod fawr,
A da dylych hyd elawr,
Tra gwneir tai, tra caner tant,
Tra fo Cymro'n cau amrant.'

† Dr. Llewelyn's *British Versions*; a Timperley's *Dictionary of Printers*.

yno.' Tr ewythr hwn y rhoddwyd gofal dysgeidiaeth y nai. Wedi cael dysgeidiaeth arweiniol mewn ysgol berthynol i grefydd-dy St. Anthoni, yn Llundain, efe a symmudodd, yn 1548, i Goleg y Frenines, Caergrawnt, ac wedi hyny i Neuadd Penfro, lle y mwynhaodd gyfarwyddiadau John Bradfford, y merthyr. Fel yr oedd yn myned ym mlaen, yr oedd dyrchafiaethau yn ei gyfarfod, nes o'r diwedd, yn y fl. 1583, ei gyfodi yn Archesgob Caergaint, ar farwolaeth y Dr. Grindal. Cafodd gynnyg ar y lle hwnw, hyd yn nod ym mywyd ei ragflaenor, gan fod Grindal wedi mawr anfoddhau Elisabeth, o blegid bod yn rhy dyner wrth y Puritaniaid*—bai na allesid condemnio Whitgiff o hono. Yr oedd yn fawr yn ffafir y frenines, yr hon oedd yn coleddu ysbryd mor erlidgar, a chreulonach yn erbyn y rhai a feiddient ymneillduo oddi wrth Eglwys Loegr, nag oedd ei chwaer Mari yn erbyn y rhai a ymneillduent oddi wrth Eglwys Rhufain.† Un chwerw iawn yn erbyn y Puritaniaid ydoedd Whitgiff, a bu mewn dadl ag un Thomas Cartwright. Efe, ar gais penodol y frenines, a wnaeth reolau er rheoleiddio yr argraffwasg. Yr oedd hyny yn y fl. 1585, dair blynedd cyn cyhoeddi y Beibl Cymraeg. Yn y flwyddyn yr argraffwyd y Beibl Cymraeg, daeth allan gan un a ffugenwai ei hun yn '*Martin Mar-Prelate*;' yr hwn a gynnwysai sylwadau llymion ar y Llywodraeth, y frenines, a'r esgobion, yn enwedig yr Archesgob Whitgiff. Bernid mai yr awdwr oedd Gymro o'r enw John Penry (neu ab Henry), yr hwn a gawsai ddechreuad ei ddysgeidiaeth yn yr un brifysgol â'r archesgob, ac wedi hyny yn Rhydychain.‡ Yr oedd yn amser y Frenines Elisabeth a Whitgiff, un Thackwell yn argraffu Cymraeg, yr hwn oedd yn cyhoeddi llyfrau Pabyddol; ac y mae *Martin Mar-Prelate*, Penry, fel y credid y pryd hyny, yn un o'i baprau yn erbyn Whitgiff, yn ei gyhuddo o fod Thackwell, y Pabydd, yn cael llonydd,

* [Nid am fod yn rhy dyner wrth y Coethynion, ond am esgeuluso ei swydd, neu yr hyn a ystyrir yn perthyn i'w swydd, megys archesgob, y syrthiodd Grindal dan wg y frenines. Pan fyddo dyn yn ymgymyrd â swydd, o ba natur bynag y byddo, dysgwylir arno gyflawnu dyledswyddau y swydd hòno, neu ymddiosg o honi. Yr oedd gan Grindal gyfiawn hawl i fod yn Goethyn, os oedd yn ewyllsio; ond nid i fod yn Goethyn ac yn Archesgob Caergaint ar yr un pryd. Ond pa un ai Elisabeth ai Grindal oedd nesaf i'w lle sy bwnc gwahanol.]

† [Nid cywir hyn; a phe bai gywir, nid yw yn cyffwrdd dim â 'Llyfryddiaeth y Cymry.' Nid oedd goddefiad neu ryddid crefyddol yn perthyn i ysbryd yr oes yr oedd Whitgiff yn byw ynddi. Gwnaeth yr archesgob gareidgrwydd mawr â chenedl y Cymry trwy ei waith yn noddi ac yn cefnogi yr Esgob Morgan. Gan fod yr awdwr (fel llawer gydag ef) â'i ergyd yn arw ar Whitgiff, am nad oedd mor bleidiol i wrthwynebwr yr Eglwys yn ei oes, ag y barna rhai yn yr oes hon y dylasai fod, hwyrach nad amhriodol gosod yma y dystiolaeth ganlynol am dano gan ysgrifenydd hanes ei fywyd yn y *Penny Cyclopaedia*, cyhoeddiad y gwyddys nad yw yn cynnrychioli golygiadau a ystyrir yn uchel-eglwysig:—'Yng nghanol ymrysonau chwerwon ei amser, nid yw ryfedd i'w frwdfrydedd a'i weithgarwch wrth gydgorffori a chadarnhau yr Eglwys Ddiwygiedig, ei wneuthur yn wrthddrych llawer o enllib; ond ennillodd ei uniondeb, ei dduwioledeb, a'i ddysgeidiaeth iddo glod a chymmeradwyath dynion goreu ei amser; ac ym mhen hir dalm ar ol ei farwolaeth, dywedwyd am dano gan [y Dr. Thomas] Ffuller, yn ei Hanes Eglwysig, ei fod yn un o'r dynion teilyngaf a lywodraethasant Eglwys Loegr erioed.']

‡ Wood's *Athenae Oxon.* vol. i. pp. 227, 228.

tra y ceisid am fywyd Waldegrave, y Puritan, yr hwn a dybid oedd yn argraffu papyrâu *Mar-Prelate* ag argraffwasg symmudol, yma a thraw ar hyd y wlad. Bydd mwy eto i'w ddywedyd am Penry mewn lle arall. Y mae yn briodol dywedyd fod yr archesgob yn fath o lywodraethwr dan y frenines ar Dywysogaeth Cymru, yr hyn a'i gwnaeth yn dra adnabyddus â'r esgobion Cymreig,* a gallasai fod hen adnabyddiaeth felly rhyngddo a'r Dr. Morgan. Bu farw yn y fl. 1603, yn 73 oed.

Y rhai nesaf a enwir gan y Dr. Morgan fel ei gynnorthwywyr, yw Esgobion Llanelwy a Bangor. Esgob Llanelwy oedd

Y Dr. WILLIAM HUGHES. Yr oedd yn frodor o sir Gaernarfon; yn fab i Hugh ab Cynric (neu Cynfrig) ab Tudur ab Gruffydd Gymro ab Ieuan ab Llewelyn ab Rhys ab Madog ab Meirig ab Dafydd ab Llywarch ab Ieuan ab Cynddelw ab Rhys ab Edryd ab Enehan ab Iasseh ab Carwed ab Marchudd, un o 15 Llwyth Gwynedd; o Gwenllian, merch John Fychan ab John ab Gruffydd ab Owen Pygott. Cafodd ei ddysgeidiaeth mewn rhan yn y ddwy brifysgol—Rhydychain a Chaergrawnt. Bu yn offeiriad teuluaidd neu gapelwr i Ddug Norffole. Gwnaed ef yn berson Llysfaen, neu Llys Ifan Rhos, yng nghwmmwd Creuddyn, yn sir Gaernarfon. Yn 1573, gwnaed ef yn esgob Llanelwy. Dywedir fod gan yr esgob hwn un ar bymtheg o blwyfau neu fywoliaethau yn ei feddiant ei hun. Yr oedd wedi cael breinteb oddi wrth archesgob Caergaint i ddal archddiaconiaeth Llanelwy, a rhagorfreintiau ereill, i'r gwerth o 150*p.* yn y flwyddyn. Y mae yr archddiaconiaeth oddi ar hynny wedi ei chyssylltu â'r esgobaeth. Daliai yr Esgob Hughes y bywoliaethau canlynol:—Llysfaen, yn 1573; Castell Caereinion, yn 1574; Cwm, yn 1574; Gresford, yn 1577; Llandrinio, 1577; Bettws yn Rhos, yn 1577; Meifod, yn 1578; Llandrillo yn Edeyrnion, yn 1582; Llanycil, yn 1582; Abergele, yn 1582; Llandrillo yn Rhos, yn 1583; Llangwm, yn 1585; Whitford, yn 1587; Mallwyd, yn 1587; Llanfawr, yn 1588; a Llanrwst, yn 1592. Darfu i Geidwad y Sel Fawr, Egerton, roddi dwy o honynt i ereill, a'r frenines ei ddifuddio o ddwy arall, ac angeu ei ddifuddio o'r cwbl yn 1600, wedi iddo gadw rhai o'r plwyfau hyn yn ei law am saith mlynedd ar hugain. Bu farw yn 1600.†

Ei wraig ef oedd Luws, merch un Robert Knowsle, ab John Knowsle, ac iddynt y bu dau o blant—William, yr hwn a fu farw yn ddiblant; ac Ann Huws—canys dyna fel y mae yr enw yn yr achau—yr hon a briododd Thomas Moisten, neu Mostyn, o'r Rhyd.‡

Esgob Bangor oedd

HUGH BELLOT, D.D. Cafodd ei ddwyn i fyny yng Nghaergrawnt. Gwnaed ef yn esgob Bangor yn y fl. 1585; a symmudwyd ef i Gaerlleon, lle y bu farw yn *Bers Hall*, yn y fl. 1595, neu 1596;

* [Gan ei fod yn archesgob Caergaint, yr oedd esgobion Cymru o angenrheidrwydd o fewn ei dalaeth.]

† Llewelyn's *British Versions*; *Cambrian Quarterly Magazine*, vol. i. p. 304. [*Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 101.]

‡ Dwnn's *Heraldic Visitation*.

a chladdwyd ef yng nghanghell Eglwys Gwrecsam. Tybir wrth ei enw mai Sais ydoedd; ond, fel T. Gouge wedi hyn, yr oedd yn gymmwynaswr i'r Cymry.

Am DAFYDD POWEL, D.D., gweler yr hyn a ddywedwyd mewn lle arall.* Am y nesaf,

GABRIEL GOODMAN, D.D., dywed y Dr. Morgan am dano ef, iddo ei lettya ef ar ei draul ei hun, tra yr oedd yn aros yn Llundain i arolygu argraffu y Beibl. Yr oedd yn enedigol o Ruthyn. Ei dad oedd Edward Goodman, masnachwr yn y dref hòno. Gwnaed ef yn gyntaf yn Brebendur, ac ym Medi, 1561, yn Ddeon Westminster, lle y bu am o ddeutu deugain mlynedd. Efe a gyfieithodd yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid ym Meibl Seisoneg yr Esgobion [1568]. Yr oedd ty y deon yn dra chyflêus i'r Dr. Morgan—yn fwy cyflêus na thy yr Archegob Whitgiff, yr hwn oedd yn Lambeth, onid e buasai Morgan wedi cymmeryd cynnygiad Whitgiff i lettya gydag ef. Ymddengys mai y deon oedd un o'r rhai cyntaf o'i deulu a gofleidiodd y grefydd Brotestanaidd. Yr oedd ei frawd, Edward Goodman, yn esgob Pabaidd Caerloew, yn amser y Frenines Mari; a'i nai, Godfrey Goodman, wedi cael amryw fywoliaethau eglwysig olynol, a ddyrchafwyd i esgobaeth Brotestanaidd Caerloew, yn 1624, o'r hon y diswyddwyd ef am ryw dybiau Pabaidd a osododd ef allan mewn pregeth o flaen y teulu breninol, ac am nacâu rhoddi ei law wrth ryw ganonau newyddion o eiddo yr Archegob Laud. Enciliodd i fywyd anghyhoedd, a bu farw mewn undeb ag Eglwys Rufain, yn y fl. 1655.† Y nesaf yw

EDMUND PRYS, archddiacon Meirionydd. Y mae ei enw ef yn eithaf adnabyddus fel cyfansoddydd y Salmau ar gân, i wasanaeth addoliad cyhoeddus. Dywedir iddo gael ei eni [o gylch y fl. 1541] mewn lle a elwir Gerddi Bluog, ym mhlwyf Llandecwyn, ger Maentwrog, i'r hwn blwyf, neu yn hytrach Ffestiniog, o'r hwn blwyf y mae Maentwrog yn gapeliaeth, y gwnaed ef yn berson yn y fl. 1572. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg St. Ioan, yng Nghaergrawnt; a'i bendodi i fywoliaeth Ffestiniog, yn 1572; ac i Landdwywe, yn 1550; ac i archddiaconiaeth Meirionydd, yn 1576; ac i ganoniaeth yn Llanelwyr yn 1602. Yr oedd yn byw yn y Tyddyn Du, ym mhlwyf Maentwrog, gan fod y gapeliaeth hòno yn gydiol â Ffestiniog. Yr oedd ganddo hefyd ryw gyssylltiad urddasol ag Eglwys Gadeiriol Llanelwy.‡ Yr oedd yn wr dysgedig mewn wyth o ieithoedd, ac ystyriai y Gymraeg yn rhagori arnynt oll. Yr oedd yn fardd enwog. Y mae yn eithaf adnabyddus mai efe droes y Salmau ar gân; ond heb law hyny, y mae pedwar ar ddeg a deugain o gywyddau o'i waith ar gael, y rhai sydd fath o ymryson lled isel a choegaidd rhyngddo a William Cynwal, o Ddolyddelen, yn sir Gaernarfon. Yr oedd y ddadl hòno yn ddyddorol iawn ym mhlith y beirdd y pryd hyny, am

* Gwel rhif 1, d.f. 1584.

† Y mae hanes helaeth am y Deon a'i berthynasau, gan yr Archiagon Newcome, wedi ei gyhoeddi. [*Memoir of the Goodmans*, 4plyg, 1825.]

‡ [Yr oedd, megys yr ydys newydd grybwyll, yn un o gynoniaid Llanelwy; a pharai hyn fod cyssylltiad rhyngddo a'r Eglwys Gadeiriol hòno.]

fod y ddau yn cael eu hystyried yn feirdd enwog; er mai rhyw fath o ganu cellweirus, goganllyd, ydoedd y ddadl, ac, o du yr archddiacon yn dra ammhriodol i un a gymmerai arno ymdrin â phethau ysbrydol.* Yr oedd Prys yn fardd Lladinaidd hefyd, ac y mae enghraifft o'i fedr yn nechreu Gramadeg Lladin a Chymraeg y Dr. Davies. Bu farw o ddeutu y flwyddyn 1621,† tua 80 oed,‡ a chladdwyd ef ym mynwent Maentwrog; ond ni wŷr neb pa le y mae ei fedd hyd y dydd hwn.

Yr olaf a enwir gan y Dr. Morgan, fel ei gynnorthwywr, yw

Y Dr. RICHARD VAUGHAN, neu FYCHAN. Yr oedd ef yn enedigol o Nyffryn, lle rhwng Tudweiliog ac Edeyrn, yn Lleyn, sir Gaernarfon. Yr oedd yn wŷr i Robert Vaughan ab Gruffydd, o Dalhenbont, yn Llanystumdwy. Ei dad a elwid Thomas ab Robert Vaughan, a'i fam oedd yn ferch i Gruffydd ab Sion ab Gruffydd o Leyn, o Gefn Amlwch, mae yn debyg. Cafodd ei addysg yng Nghaergrawnt; ond ei gorffori ne'i gadarnhau yn ei raddau gan Rydychain. Wedi bod yn dal prebendaeth Holborn, ac archddiaconiaeth Midlesecs, cyssegrwyd ef yn esgob Bangor yn 1595; a symmudwyd ef i Gaerlleon yn 1597; ac i Lundain yn 1604. Pan oedd yn cefnogi cyfieithiad y Beibl, yr oedd yn berson 'Liverworth' neu Leiverwerth (*Lutterworth*), meddai Dr. Morgan. Dywedir fod gan y Dr. John Davies, person Mallwyd,⁸ hefyd law yn y gwaith, a diammheu ereill nad yw eu henwau wedi eu trosglwyddo i'r oes hon. Ceir achos eto i grybwyll am dano ef. Bu yr Esgob Vaughan farw yn 1607. Yr oedd yn cael ei ystyried yn ddyn rhagorol mewn duwioldeb, ac yn bregethwr doniol.§

Y mae yn dra thebyg fod y gwŷr dysgedig hyn yn adnabyddus

* [Yr ydym wedi darllen y 'Cywyddau Ymryson' oll drostynt, ac hyd yma nid fŷm wedi canfod yr ammhriodoldeb y cwynir o'i herwydd, yn enwedig os ystyriw yr oedd yr Archiagon yn byw ynddi, onid ydys wedi penderfynu na ddylasai efe ysgrifenu dim ond Salmau, neu gyfansoddiadau cyffelyb. Y mae y sylw canlynol o eiddo Daniel Ddu o Geredigion, yn ei Ragymadrodd i *Wyllan y Bardd*, yn haeddiannol o ystyriaeth llawer un o feirniaid Cymru yn y dyddiau hyn:—'Rhai ond odid a'm beiant am ysgrifenu ar destynau digrif; ond gan i'r dwys-fyfyrgar a chrefyddol Brydydd Seisnig, Mr. Cowper, ysgrifenu y gerdd lawen hōno, "John Gilpin, &c.;" a chan fod yn arferol gan lawer o brydyddion Seisnig ereill, y rhai a arferant fynychaf ymdrin â thestynau dwysion, adael i'r Awen weithiau ymddifyru ar destynau digrif, pa fodd y gellir beio ar brydydd Cymreig wrth ddilyn eu hol, hyd ag yr ymgadwo rhag troseddu rheolau gweddeidd-dra? Mae rhai o'm cydgenedl a alwant ym mron bob cerdd, os na fydd ar destyn crefyddol, yn *faswaidd*; wrth yr hwn air y deallir anfoesol. Gwahanol i hyn yw syniadau cenedloedd gwareiddiedig ereill, y rhai a ymhyfydant mewn cerdd ar unrhyw destyn diammhur, hyd ag y byddo ynddi syniadau prydyddol ac iaith weddaidd. Y mae gwahaniaeth rhwng cân ddifyrus a chân faswaidd ac anllad.'

Ysgrifennodd yr Archiagon Prys amryw o ddarnau prydyddol ereill heb law y Salmau, a'r 'Cywyddau Ymryson' â Wiliam Cynwal ac â Sion Phylip.]

† [Yn 1624, yn ol yr *Eminent Welshmen*, ac o ddeutu 83 oed; ac yn ol yr un awdurdod, yn Eglwys Maentwrog y cafodd ei gladdu.]

‡ Dwnn's *Heraldic Visitation*, vol. ii. p. 227.

§ Wood's *Athenæ Oxonienses*, vol. i. pp. 752, 756; Williams's *Eminent Welshmen*.

â'u gilydd pan oeddynt yn y brifysgol, gan eu bod oll yn wŷr o Wynedd, ac felly yn cynnal cyfeillach â'u gilydd mewn bro estronol. Hwya a gefnogasant ac a gynnorthwasant y cyfieithydd, fel y dywed ef yn ei lythyr cyflwyniadol, '*opem tulerntu non contemnendam;*' rhoisant iddo rydd fynedfa i'w llyfrfaoedd; hwya a ddarllenasant ac a chwiliasant ei gyfieithiad, gan ei olygu a'i ddiwygio drosto. Diau fod y darllenydd yn dysgwyl gweled enw Wiliam Salesbury yn eu plith; ond mae yn debyg ei fod ef wedi marw erbyn hyn, er na ellir sierhau ym mha flwyddyn y cymmerodd hyny le. Y mae Brown Willis yn ychwanegu enw y Dr. John Salesbury, yr hwn oedd esgob Manaw.*

Yn awr gwelir, mai wedi hir oediad o agos i ddeng mlynedd ar hugain y cyfieithwyd yr holl Feibl i'r iaith Frytanaidd, ac y cwblhawyd gofyniad y gyfraith o'r diwedd. Eto rhaid addef mai prin oedd gair Duw yn y wlad er hyny, gan nad argraffwyd ond prin ddigon i gyflenwi lleoedd addoliad yr Eglwys Sefydledig; ac felly nid oedd un ddarpariaeth ar gyfer anghenrheidiau yr Anghyddfurfwyr, neu y *Puritaniaid*, y rhai oeddynt Ymneillduwyr yr oes hōno, o ba rai yr oedd cryn nifer yng Nghymru.† Darpariaeth brin iawn yn wir—dim ond i un ty yn y plwyf, a'r ty hwnw yn cael cyrchu iddo yn anfynych gan yr holl blwyfolion, a dim ond unwaith yn yr wythnos gan neb o honynt.‡ Yn wir, y mae yn ammhēus iawn, fel y sylwa y Dr. Llewelyn, a oedd yr argraffiad hwn yn gyfartal i bob eglwys blwyf. Rhif yr eglwysi, medd Walker,§ oedd o ddeutu

* *Timperley's Dictionary of Printers and Printing.* Y Dr. John Salesbury oedd yn aelod o deulu y Salesburiaid o Leweni, ger Dinbych. Ar ol amrai ddyrchafiaethau a symmudiadau neu gyfnewidiadau, gwnaed ef yn esgob Manaw yn 1571; a bu farw yn 1573; pryd y gwnaed Cymro arall yn esgob Manaw, o'r enw John Merick, neu Meirick, yr hwn oedd fab gordderch i Owen ab Hugh ab Owen Meyrick, o Fodeon, ym Mon, o Gwenllian, ferch Ifan Owen, o Benryn Deudraeth, yr hwn oedd hanner brawd i Syr Hugh Owen, o Orieltyn, yn sir Benfro. Ar ei ol yntau, rhoddwyd esgobaeth Ynys Manaw i Gymro arall, sef, y Dr. George Lloyd, yr hwn oedd fab i Meredith Lloyd, o sir Gaernarfon.—*Wood's Athenæ Oxon.* vol. i. p. 615; *Williams's Eminent Welshmen.*

† [Yr oedd yr eglwysi plwyfol yn agored i'r Anghyddfurfwyr yn gystal a'r Eglwyswyr, nid yn unig i wrandaw yr Ysgrythyrau yn cael eu darllen ynddynt yn y gwasanaeth cyhoeddus, ond hefyd i ymgynghori â hwynt pa bryd bynag yr ewyllsient. Gweler y nod † ar dudalen 15.]

‡ [Nid oes un prawf, na thebygolrwydd chwaith, na chedwid gwasanaeth mewn llawer o'r eglwysi yn amlach nag unwaith yn yr wythnos, yn unol â'r gorchymyn awdurdodawl a geir o flaen y Llyfr Gweddi Gyffredin:—'A phob Offeriad a Diacon sydd rwymedig i ddywedyd *beunydd* y *Foreol* a'r *Brydnaw-nol* Weddi, naill ai yn neillduol, ai ar osteg, oddi eithr bod rhwystr arnynt trwy glefyd, neu o ran achos arall tra angenrheidiol. A'r Curad, sef y Periglor, a fo yn gwasanaethu ym mhob Eglwys neu Capel, ac efe gartref, heb luddias rhesymol arno, a ddywed y gwasanaeth hwnw yn yr Eglwys blwyf, neu'r Capel lle y bo efe yn gwasanaethu; ac a bair ganu cloch iddo amser cymmesur, cyn y dechreuo, modd y gallo'r bobl ddyfod i wrando Gair Duw, ac i weddio gydag ef.' Pa le y mae'r prawf mai ychydig a arferent ymgyrchu i'r Eglwys yn yr oes hōno?]

§ Walker's *Sufferings of the Clergy.*

wyth gant; a chwanega at hyny yr eglwysi cadeiriol, a'r capeli anwes, gellir golygu yr holl rif rhwng naw cant a mil. Yr oedd yr un rhwystr ag oedd yn attal ei ddygiad allan o gwbl, yn attal hefyd gyhoeddi rhifedi helaeth o'r argraffiad. Nid oedd y rhifedi a argreffid o unrhyw lyfrau mor lluosog y pryd hyny ag yn awr. Ystyrid pymtheg cant o Feiblau Seisonig yn cael ei ystyried yn rhif mawr i Loegr, gallasai hanner hyny, ie, chwarter hyny, gael ei ystyried yn rhif mawr i Gymru; os felly, peth mawr yw os argraffwyd mwy na phum cant neu chwech o'r Beibl y pryd hyny yn Gymraeg. Ond ef allai y dywedir fod y weithred seneddol yn gofyn cael nifer cyfartal i'r lleoedd addoliad perthynol i'r Eglwys Sefydledig yn y Dywysogaeth. I hyn gellir ateb, fod yr un ddeddf yn gofyn fod y cyfieithiad a'r argraffiad wedi eu gorphen erbyn Mawrth 1af, 1566; ac os troseddwyd y ddeddf mewn un peth, pa ham na ellid gwneyd felly mewn peth arall?*

Y mae yn deilwng o sylw yma, mai esgobion Cymreig a fuont offerynol yn y gwaith gorchestol hwn. Ond beth pe buasai ein Tywysogaeth fel y mae yn awr, yn llawn o esgobion *Seisonig*? Pa beth a ddaethai o honom? Diau mai yn ein tywyllwch y buasem eto, o'u rhan hwy, gan na buasent yn alluog i gymmeryd y gwaith arnynt—heb fedru ein hiaith; ond tra yr oeddynt yn Gymry, yr oeddynt yn gallu cydymdeimlo ag angen y genedl, a'i llesäu.†

Yr oedd cyhoeddiad Llyfr Duw yn yr iaith Gymraeg—oll, y tro cyntaf, yn galw am fanyldra, a gynnyddodd i feithder dan y flwyddyn hon.

2. 'A viewe of some Part of such publick Wants and Disorders as are in the service of God within her Majestie's Countrie of Wales, together with an humble Petition to the High Court of Parliament for their speedy Redresse.' [8plyg.]

Argraffwyd 30 llyfr o hwn fel siampl o'r hen waith, yn 1861.

3. 'Exhortations unto the Governors and people of Wales to labor earnestly to have the preaching of the Gospel planted among them.' [8plyg.]

Y mae y ddau lyfr uchod yn cael eu priodoli i John Penry, gan

* [Gwaith dygn a dyrys oedd *cyfieithu*, yn gofyn am lawer o amser, ac yn galw am lawer o gymhwysderau yn y neb a ymaflai yn y gorchwyl: ond nid felly *argraffu*. Unwaith yr argreffid cymmaint ag un llyfr, nid oedd un rhwystr, ond y draul yn unig, i argraffu mil neu chwaneg o hono. Nid yw eu bod wedi gorfod anufuddhau i un ran o'r weithred seneddol yn rhoi un lle i goelio iddynt anufuddhau i'r rhan arall hefyd; ac y mae yn fwy na thebyg na buasai y gwŷr a ymroisant o'u bodd i gyfieithu yr Ysgrhythrau i iaith y Cymry, yn foddllawn i un plwyf fod yn amddifad o honynt. Nid oes, gan hyny, un sail i dybied fod nifer y Beiblau a argraffwyd yn *llai* na nifer yr Eglwysi y pryd hwnw yn y Dywysogaeth. Pa ham y ceisir rhoi y lliw gwaethaf ar bob peth?]

† Llewelyn's *British Versions*.

haneswyr crefyddol Cymreig. Anhawdd yw dywedyd pa effaith a gawsant ar y Llywodraeth, heb law cael yr Ysgrhythrau yn Gymraeg, ac, fe allai, yr 'Act o Unffurfiad' i ddiwygio y '*Disorders in the service of God.*' Bernir mai un yn ceisio diwygiad yn yr Eglwys ydoedd Penry, ac nid Anghydfurfiwr hollol oddi wrthi. Am

JOHN PENRY, neu JOHN AB HENRY, bernir iddo gael ei eni yn y Cefn Brith, ym mhlwyf Llangamarch, yn sir Frycheiniog, ac ei fod yn deilliaw o hen deulu boneddigaidd a fuasai yn byw mewn lle a elwir Llwyn Cyntefig, o deulu a honent eu disgyniad oddi wrth Elystan Glodrydd, un o ba rai a elwid Henri ab Owen, a'r hwn, tuag amser Harri (neu Henri) VII, a gymmerodd y cyfenw *Henry*, a'r hwn, gan dafodau y werin a aeth yn *Penri*.* Ganwyd ef yn 1559, y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Elisabeth. Anfonwyd ef i gael ei ddysgeidiaeth i Gaergrawnt—i Goleg Sant Pedr, pan yn bedair ar bymtheg oed. Yno y daeth yn adnabyddys ag egwyddorion y Puritaniaid. Efrydodd yno hyd agos i gyrhaedd ei radd o A.C., ac yna symmudodd i Rydychain. Yr oedd Puritaniaeth yn cael ei choleddu a'i noddedu yn fwy yno nag yng Nghaergrawnt yn y dyddiau hyny, gan fod Iarll Leicester, y Canghellwr, yn tueddu atynt; a'r Dr. Reynolds, yn Ddarllenwr Duwinyddiaeth yno, ac wedi hyny yn Llywydd Coleg *Corpus Christi*. Yr oedd Rhydychain hefyd yn gyrchfa gyffredinol efrydwr o Gymru. *St. Alban Hall* oedd y coleg y derbyniwyd ef iddo, a chafodd ganiatâd i gymmeryd ei radd o A.C. Cafodd hefyd ei ordeinio y pryd hyn, a phregethodd yn Rhydychain a Chaergrawnt, a chyfrifid ef yn ysgolhaig gwych, yn bregethwr adeiladol, ac yn ddyn da; ond gan ei fod yn Gymro, cyfrifid ef yn orselog, meddai Wood, yn ei *Athenæ Oxonienses*. Pan y byddai gartref rhwng termau y coleg, efe a deithiai gymoedd a mynyddoedd y Deheudir, gan bregethu—a'r cyntaf yn y parthau hyny. Wrth weled agweddiadau tywyll ac anfoesol y wlad, efe a ysgrifonodd draethawd o flaen y rhai uchod,† yn galw sylw y Llywodraeth at y diffyg oedd yn bod. Yr oedd efrydwr arall o'r enw John Whitgiff. Yr oedd ef yn hynach o flynyddoedd na Penry. Gan y canfu y frenines ynddo ysbryd o'r fath ag a fynai fod yn y rhai a gaffent ffafir yn ei golwg, i'w gwneyd yn wŷr ei llys, ac yn rhai y gallai roddi ymddiried ynddynt, efe a godwyd yn fuan i'r sefyllfa uchaf o awdurdod yn yr Eglwys—yn Archesgob Caergaint;‡ ac hefyd yn Rhaglywydd Cyffiniau Cymru. Yr oedd yn gweinyddu ei swydd â llaw uchel. Yr oedd bod efrydwyd ieuanc yn meiddio awgrymu ar gynllun i efengyleiddio y Dywysogaeth, ac yn enwedig y gellid gwneyd hyny trwy offerynloliaeth dynion heb dderbyn or-

* Jones's *History of Breconshire*. [*Ab Henri*, mae yn ddiâu, a droed yn *Penri*, yn gyffelyb i enwau ereill o'r fath.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1587.

‡ [Y mae yr awdwr yn y lle hwn, ac mewn llawer o fanau ereill, yn galw 'Caergrawnt' (= *Cambridge*) ar Gaergaint (= *Canterbury*). Nid oes nac esjob nac archesgob yn perthyn i dref *Caergrawnt*, na *phrifysgol* yn perthyn i ddinas *Caergaint*. Y mae amryw ysgrifenywyr ereill wedi gwneuthur y cyffelyb amryfusedd mewn perthynas i'r ddau le hyn.]

deiniad esgobawl, nac yr un arall, yn drosedd ag oedd yn peri i'r archesgob ryfeddu fod neb mor hyf a'i gyflawnu. Rhoddwyd gorchymyn allan i attafaelu ei lyfrau, ac i'w ddal yntau, a thafwyd ef i garchar, a gorchymynwyd yn gaeth i'r ceidwad ei gadw yn ddiogel. Ym mhen y mis, dygwyd ef i gael ei holi, neu yn hytrach i'w geryddu, pryd y cyhoeddwyd mai heresiaeth warthus oedd meddwl nad oedd offeiriad yn wir weinidog yr Efengyl. 'Yr wyf yn diolch i Dduw,' meddai Penry, 'i mi wybod erioed am y fath heresiaeth, a thrwy ras Duw, mi a ymadawaf yn gynt â'm bywyd, nag yr ymadawaf â hi.' Priododd ferch i un Mr. Godley, o Northampton, ac ymsefydlodd yn yr un gymmydogaeth. Yr oedd yn y gymmydogaeth hōno hen balas mawr mewn coed anferth, o'r enw Ffawsley, yn yr hwn y trigiannai gwr boneddig o'r enw Syr Richard Knightley, yr hwn oedd yn llochesu y Puritaniaid, ac yn eu cynnorthwyo â'i arian; ac yno yn fynych y cyfarfyddai duwinyddion 'o'r ffordd hōno.' Wedi i Penry sefydlu yn Northampton, daeth Syr Richard i fod y cyfaill goreu iddo. Yr oedd y dirprwywyr yr Uchel Lys wedi penderfynu rhoi y pregethu i lawr, trwy ddefnyddio arfaethau y *Star-Chamber*,* yn erbyn argraffu, yn gystal a phregethu.† Galwyd a chyfarfu cynghor dirgel yn Ffawsley i ystyried y pethau hyn; a phenderfynwyd sefydlu argraffwasg ddirgelaidd, fel y gallent argraffu traethodau a fyddent yn llefaru ar bwnc yr amseroedd—yn erbyn esgeulusdra yr eglwyswyr am les ysbrydol y werin. Cymmerodd Penry arno ymofyn am le i'r argraffwasg, a chafodd ran o dŷ gwraig weddw yn Mouldsey, yn Surrey, o'r enw Mrs. Grant. Y gwaith cyntaf a argraffwyd yno ydoedd y Rhif 2, uchod, am y flwyddyn hon, a'r nesaf yn ebrwydd ar ei ol. Enw yr argraffydd ydoedd Waldegrave. Er bod y wasg yn ddirgelaidd yr oedd Penry bob amser yn rhoddi ei enw yn llawn—'John Penry'—wrth ei waith. Yr oedd papyrau Penry yn lled wallus o ran eu hargraff, gan eu bod yn cael eu gwneyd ar frys, a 'gallasai yn hawdd,' meddai un, 'fod llawer o wallau ynddynt, gan mai gwasg

* [Y *Star-Chamber* (neu y *Ser-Ystafell*, fel, hwyrach, y gellid cyfieithu yr enw) ydoedd ystafell nodedig yn Westminster, yr hon a elwid felly, fel yr ydys yn tybied, oddi wrth fod ei nen yn frith o luniau ser goreurog. Rhoddes yr ystafell ei enw i'r llys a gynnelid ynddi, yr hwn a gyfansoddid o amryw arglyyddi tymmorol ac ysbrydol, y rhai oeddynt gyfrin-gynghorwyr, yng nghyd â dau farnwr o lysoedd y gyfraith gyffredin, y rhai a farnent ac a ddedfrydent heb gyfryngiaeth rheithwyr. Yr oedd gan y llys hwn feirniadaeth ac awdurdod ar derfysgoedd, anudon, camymdlygiad swyddogion cyhoeddus, ac amryw droseddwyr ereill, yng nghyd ag ar lawer o achosion gwladol. Daeth y llys hwn o'r diwedd yn dra llygreddig a gormesol, fel y diddymwyd ef yn ystod teyrnasiad Siarls I.]

† Yr oedd penderfyniad neu arfaeth y *Star-Chamber*, am Ion. 29, 1566, fel hyn:—'That no person shall print or publish any book against the Queen's injunctions, ordinances, or letters patent, set forth, or to be set forth, or against the meaning of them.

'That such offenders should forfeit all their books and copies, and suffer three months' imprisonment, and never practise the art of printing any more.

'That no person shall sell, bind, or stitch such books, upon pain of twenty shillings for each book.'

bererindodawl ydoedd.* Er anghyfleusdra mawr i Penry, ac er ei waethaf, argraffai Waldegrave ryw bethau ereill, dienw, yn enwedig traethodau, neu bapryrau bychain, yn cynnwys sylwadau isel, absenllyd ar y frenines, yr archesgob, a'r holl fainc eglwysig. Y ffugenw wrth y papyrau hyn ydoedd '*Mar-Prelate.*' Yn y flwyddyn hon yr argraffwyd y cyntaf o honynt, yn Kington, yn yr un gymmydogaeth.† Tueddwyd sylw yr archesgob at y papyrau hyn, a gosodwyd ysbwyr i wyllo symmudiadau y Puritaniaid; a phan ddaeth llwyth cert o daclau argraffu i dy Mrs. Grant‡ ryw ddydd Nadolig, hi a ofnodd, ac a gynghorodd ar iddynt gael eu dwyn yn ol i Northampton. Wrth eu dychwelyd yn ol, a'r ffyrdd yn arw, gogrynodd rhai llythyrenau allan rhwng dellt y fasged, a'r bachgen yn awyddus i wybod beth a allasent fod, a'u dangosodd i ryw rai. Pa fodd bynag, o'r diwedd dygwyd hwy i balas Ffawsley, ac oddi yno i ryw le yn y dref, ac wedi hyni i ffermdy yn Norton. Credai gelynyon Penry mai efe ydoedd awdwr y '*Mar-Prelates*, er ei bod yn amlwg i bob dyn o sylw fod gwahaniaeth mawr rhyngddynt a gweithiau addefedig Penry. Torwyd i mewn i'w dŷ yn Northampton, a chwiliwyd am dano, a chymmerwyd ymaith ei bapryrau a'i lyfrau. Rhoddwyd gorchymmyn i chwilio am lyfrau, papyrau, argraffweisg, argraffyddion, a llyfr-rwymwyr, a'u cymmeryd i fyny. Daeth hyn i glustiau Syr Richard Knightley, yr hwn a anfonodd ei was yn ebrwydd i hysbysu y pleidiau i ymlechu; ac yn brin iawn y diangasant. Yn Chwefror, 1589, cafodd Penry le i'r wasg yn nh

* Ames's *History of Printing.*

† Dengys teitlau y fflaglau hyn, y fath oeddynt, a'r cynhwrf a allasent ei wneyd yn y deyrnas yn yr oes hono :—'Certain demonstrative conclusions set down and collected by Martin Mar-Prelate the Great, serving as a manifest and sufficient confutation of all that ever the Colledge of Catercaps, with their whole Band of Clergy-Priest, have, or can bring for the defence of their ambitious and Antichristian Prelacy—Published by *Martin Junior*, 1589, in octavo, and dedicated to *John Kankerbury*,' sef John [Whitgiff], Archesgob Caergaint. 'The just censure and reproof of John. Mar-Prelate to Martin Junior.' 'Protestation of Martin Mar-Prelate : Wherein, notwithstanding the surprising of the Printer, he maketh it known unto the World, that he feareth neither proud Priest, Antichristian Pope, Tyrannous Prelate, or Godless Catercaps.' Wedi ei argraffu yn 1589, yn ddirgelaidd, ac yn llawn gwallau. 'Dialogue, wherein is plainly laid open the tyrannical dealings of the Lords Bishops against God's Children.' Printed in 1589. Cynnwysa hwn ryw chwedlau yn gwarthruddo y Dr. *Martin Culpeper*, Wardain y Coleg Newydd, yn Rhydychain, a'r Dr. R. Bond, a'i ddawns. Dywedir am un o honynt—'Printed where I was, and where I shall be ready by the help of God and my Muse, to send you a may-game of *Martinism.*' Yn 1590. 'Ha y any work for a Cooper,' yn erbyn Esgob Lincoln, enw yr hwn oedd *Thos. Cooper*. Am un arall dywedir, 'Printed over sea in *Europe*, within two furlongs of a bouncing Priest, at the cost and charges of *Mart. Mar-Prelate*, Gent. Yr oedd y blaid arall wrthi yn ysgrifenu yn yr un dull, megys y dengys eu henwau. 'Pappe with an hatchet : alias, A Fig for my God Son : or Crack me this Nut : Or, A Country Cuff ; that is, A sound Box of the ear for the Idiot Martin to hold his peace : Written by one that dares call a dog a dog—Imrinted by John Anoke.' 'Martin's month mind.' 'A Countercuff given to Martin Junior.' 'An Almond for a Parrot, or an Alms for Mart. Mar-Prelate.'—Wood's *Athen. Oxon.* dan yr enw '*Penry.*'

‡ [Mrs. *Crane* yn y gynysgrif; ond ymddengys mai yr un â Mrs. *Grant* y tudalen blaenorol a olygir.]

Mr. Hales, yn Coventry, yr hwn oedd nai i Syr Richard, yr hon a symmudwyd wedi hyny i balas Syr Roger Wigston, i Woolston, gwraig yr hwn a roes barlwr bychan i'w gwasanaeth. Yr oedd Waldegrave wedi ymryddhau oddi wrth y wasg hon yn awr, ac un Hodgskins wedi cymmeryd ei le. Er mwyn gwell diogelwch iddo ei hun a'i deulu, symmudodd Penry i Scotland, ac aeth Waldegrave gydag ef, fel y gellid argraffu cynnyrchion ysgrifell Penry yno, sef yn Edinburgh. Talwyd yr holl draul, yn gystal a chynnaliaeth Penry a'i deulu, trwy ymdrech un Job Throgmorton. Er hyny, yr oedd yn hiraethu am 'anwyl dir ei wlad.' Tra yr oedd yno, symmudwyd y wasg o Woolston i Warrington, lle y cafodd y cariwr 'wasg argraffu, dwy gist o lythyrenau, basged, a chrochan pres;' a hwy a gludwyd i Fanchester, a chanfuwyd hwy yn Newton-lane, gan Henry, Iarll Derby. Cymmerwyd i fyny yr holl argraffwyr, a'r wasg a'r llythyrenau. Anfonwyd yn ebrwydd at yr archesgob, ac yntau a anfonodd at yr Arglwydd Drysorydd, yn erfyn arno ddyfod ym mlaen i'w cospi. Cymmerwyd y cwbl i fyny, o Syr Richard Knightley hyd y dyn oedd yn gyru y cart. Er yr holl holi a'r croesholi fu arnynt, ni chafwyd dim o bwys yn eu herbyn, gan mor ochelgar yr atebent, na dim i gael craff ar Penry, at yr hyn yr ymgeisid. Pa fodd bynag, anfonodd y frenines lythyr â'i llaw ei hun at frenin Scotland, Iago, yn deisyf arno beidio â chynnwys y fath grwydriad yn ei deyrnas, ond eu halltudio o'i wlad. Ac i brysuru yr un amcan rhoddwyd allan warant, wedi ei harwyddo gan Whitgiff a phump ereill, yn hysbysu fod 'un John Penry yn elyn i'r llywodraeth, ac os yw heb ei gymmeryd fel y cyfryw hyd yn hyn, y dylent yn awr gymmeryd gwybodaeth a hysbysiad o hyny oddi wrthynt hwy, a'i gyfrif effelly o hyn allan, ac y gwnaent felly wasanaeth da i'w mawrhydi.* Mewn ufudd-dod i erfyniad Elisabeth, anfonodd Iago ei lythyrâu allan i alltudio Penry o deyrnas Scotland. Ond nid oedd gweinidogion Scotland mor barod i ufuddhau i hyn, eithr yn wir, attaliasant y cyhoeddiad ym mhob lle y gallent, gan gelu Penry, lle y cafodd gyfleusdra i roi allan lyfryn arall, er profi nad oedd y rhai ydoedd am ddiwygiad yn elynion i'w Mawrhydi a'r Llywodraeth. Tra yr oedd yn enciliedig yn Scotland, efe a gyfieithodd 'Egwyddorion Duwinyddiaeth' Theodor Beza ac Anth. Faius.

Gan nad oedd Penry yn gweled un gobaith am ddiwygiad yn na thrwy yr Eglwys Sefydledig—yr hyn yn ddiau yr oedd ef, ac agos yr holl ddiwygwyr yn ei geisio, efe a ymunodd â chymdeithas neillduedig a gyfarfyddent yn Southware, ac a elwid yn ammhriodol yn *Browniaid*.† Erbyn iddo ddyfod i Lundain, cafodd fod ei gyfieillion—un yn marw wrth y fodfedd yng ngharchar Marshalsea, ac un arall newydd ei ryddhau o garchar. Cymhellid Penry i gymmeryd y swydd weinidogaethol yn eu plith, ond gommeddai, am ei fod wedi bwriadu defnyddio ei dalent fechan yn ei wlad dlawd ei

* Baker's MSS. vol. xxi.

† [Pa beth oedd neu sydd ammhriodol yng ngalw canlynwyr Robert Brown yn *Frowniaid*, mwy na galw dilynwyr Luther yn *Lutheriaid*, dilynwyr Calvin yn *Galfiniaid*, neu ddilynwyr Wesley yn *Wesleyaid*?]

hun, Cymru, 'lle y gwn fod y bobl dlodion yn meirw o eisieu gwybodaeth.' Yn awr yr oedd Penry eto yn ei elfen, ym mhlith cyfeillion ag oedd wedi tyngu ffyddlondeb i'w gilydd, ac i gadw pob cyfrinach o weithrediadau eu cyfeillion; ac efe a ysgrifennodd y pryd hyn yr olaf o'i draethodau, sef '*History of Cora, Dathan, Abiram,*' mewn 16 o bennodau, a'r hwn a daenwyd mewn llawysgrifau ym mhlith y frawdoliaeth; a dechreuwyd ei argraffu, ond gadawyd ef yn anorphenol, pan gymmerwyd yr awdwr yn garcharor: ond cyhoeddwyd ef gan un o'i gyfeillion, yr hwn a ddywed yn y rhagddalen iddo gael ei ysgrifenu gan '*John Penry, Merthyr Iesu Grist;*' ac yn yr '*Epistol at y Darllenydd,*' ei fod yn ddynd duwiol, dysgedig, selog, ac o ymarweddiad a thymmer Gristionogol—iddo drwy ofal duwiol a llafur, ymdrechu cael yr Efengyl wedi ei phregethu a'i phlanu ym mhlith ei gydwladwyr tlodion, sefyllfa y rhai yr oedd yn mawr resynu wrthi, ac yn teimlo trostynt am fod arnynt eisieu moddion iachawdwriaeth yn eu plith. Wedi hyn, gan fod Duw yn ei ddefnyddio fel offeryn ym mhellach er mwyl eglurhâd o'r gwirionedd, efe a driniwyd yn galed, a garcharwyd, a gondenmiwyd, ac a ddiennyddiwyd; ac felly dyoddefodd ferthyrddod er mwyl enw Crist.* Cymmerwyd y rhan fwyaf o aelodau y gymdeithas yn Southwarc i garchar, a diennyddiwyd dau, sef Barrowe a Greenwood, ar y 6ed dydd o Fai, 1593.

Nid oedd bosibl cadw Penry rhag yr un farwolaeth. Yr oedd un John Edwards—Cymro ef allai—wedi dyfod gydag ef o Scotland, a rhoddodd hwnw hysbysiaeth i ustus o'r enw Young, ei fod wedi gadael Penry a'i wraig yn nhy un Nicolas Lee; a rhoddwyd enwau lleoedd ereill lle y galwodd ac y llettyodd Penry a'i wraig ar eu pererindodau; a thrwy gynnorthwy fier Stepney, efe a ddaliwyd yn Ratcliff, yr 22fed o Fawrth, 1592-3, a'r dydd nesaf dygwyd ef ger bron yr Ustus Young, ac anfonwyd ef i garchar ar y 26fed. Galwyd ato amrai o dduwinyddion i ymgynghori ag ef, i ymddadlau, ac i hela rhywbeth o'i ben a allesid ei wneyd yn uchel-fradwriaeth. Yr oedd ei ffyddlawn wraig wedi gwybod bwriad ei elynion o'i flaen ef, ac wedi anfon erfyniad at y Llywodraeth yn ei henw ei hun o'i blaidd. Ysgrifennodd yntau lythyr maith ati hithau yn llawn o deimladau Cristionogol, ac yn deisyf ei gofio yn garedigol at ei gyfeillion yn Scotland a Chymru, ac y mae yn enwi un Jenkin Jones (ac un Dafydd), yr hwn oedd yn gwybod yn dda am ei holl guddffydd. Ysgrifennodd hefyd lythyr at ei blant bychain. Holwyd ef yn faith ar ei brawf, gan un Ffenshaw; ac wedi ei holi, anfonwyd ef yn ol i'w gell yn dra blinedig, heb gael penderfyniad ar ei achos, o'r lle yr anfonodd lythyr caredigol at ei gyfeillion yn Llundain, wedi ei amseru Awst 24ydd, 1593. Yr oedd y bobl erbyn hyn yn dechreu cynhyrfu, fel na wyddai yr eglwyswyr pa fodd i wneyd, gan yr ofnent y terfysglu; ac felly, er eu bod wedi claddu y merthyron ereill mor ddirgelaid ag ydoedd bosibl, ac yn penderfynu y mynent ddiennyddio Penry, ni chyhoeddasant eu penderfyniad, trwy gyhoeddi y ddedfryd, ac hefyd nid oeddynt yn gallu gwneyd achos eglur yn ei erbyn: ac yr oedd Penry ei hun wedi ysgrifenu papyr

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. p. 228.

mewn dull cyfreithiol, er dangos nad oedd ef yn droseddwr o unrhyw gyfraith ag oedd mewn bod. Er y cwbl, traddodwyd ei achos i frawdlys Westminster, a dadleuwyd o bob tu 'ger bron yr Arglwydd Brif Farnwr, a'r barnwyr ereill, ar yr 21fed o Fai, 1593; a chafwyd cwyn cywir yn erbyn Penry, trwy fawr drafferth. Y dydd nesaf symudwyd ef i'r *Queen's Bench*, Southware, o'r lle yr anfonodd erfyniad at yr Arglwydd Drysorydd Burleigh, yn tystio ei ddiniwidrwydd, ond y cwbl yn ofer; canys ar y 25med o Fai, cyhoeddwyd barn marwolaeth arno; ond buwyd bedwar diwrnod heb arwyddo y warant, yr hyn a dwyllodd y bobl i feddwl na chyflawnid y ddedfryd. Anfonwyd y warant yn ebrwydd i'r sirydd, yr hwn a orchymmynodd wneyd y crogbren y diwrnod hwnw yn St. Thomas-a-Watering. Pan oedd Penry yn bwya ei giniaw, dyma y swyddogion i mewn i beri iddo barotoi, am y byddai raid iddo farw am bedwar ar gloch y diwrnod hwnw. Arweiniwyd ef am bump o'i garchar yn yr Heol Fawr, Southware, i le y dienyddiad, heb fod nemawr yn gwybod, ac ar yr awr annysgwyladwy hòno, fod dim o'r fath beth ar waith, rhag iddo ddechreu llefaru wrth y bobl, a chyfodi cynhwrf. A nacawyd iddo ddywedyd gair oddi ar yr esgyn-glwyd. Cymmerwyd ei fywyd, a gwasgarodd y bobl, ac ni weddys pa le y claddwyd ef.* Tystiolaetha ysgrifenydd eglwysig diweddar, ac un nodedig o ammhleidiol, iddo gael ei ddienyddio, wedi cael ei drin yn greulawn a dideimlad, ar y 25med o Fai, 1593, yn 34 oed. Dywed hefyd fod ei ddienyddiad yn hollol anghyfiawn. Iddo gael ei farnu yn euog trwy dreisio y gyfraith.† 'Rhaid i ni beidio ag edrych heibio,' meddai Maskell, 'na chafwyd dim prawf, ac hefyd fod Penry ei hun, ar y pryd (i'r hyn nis gallaf roddi nemawr bwys), a phob amser wedyn, hyd yn nod pan yn myned i farw—pan y mae un yn dueddol i gredu y llefarai y gwir—yn gwadu fod ganddo ef ddim i'w wneyd ag ysgrifenu y papyrau hyn.'‡

4. 'Psalmau Dafydd. 1588.' 4plyg.§

1589.

'The Appellation of John Penry unto the High Court of Parliament, from the vile and injurious dealing of the Archbishop of

* *John Penry, the Pilgrim Martyr, 1559-1593*, by John Waddington.

† Enwogion Cymru. *A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen*, by the Rev. Robert Williams, M.A.; at yr hwn waith rhagorol y cyfeirir yn fynych yn y gwaith hwn, er nad yn llawn bob amser.

‡ Maskell's *History of the Martin Mar-Prelate Controversy*, pp. 197-9. [Canfyddir fod yr awdwr wedi rhoddi gofod pur helaeth i *Penry*, er nad yw y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau yn dal ond ychydig o berthynas â llenoriaeth Cymru. Perthyn Penry yn fwy i hanes Anghydfurfiaeth neu Ymneillduaeth nag i hanes llenoriaeth, yn enwedig llenoriaeth Gymreig; gan nad ymddengys iddo ysgrifenu cymmaint a llinell erioed yn yr iaith hòno.]

§ Y mae Johnson yn ei nodi fel yna ym mhlith y llyfrau a argraffwyd gan y Barkeriaid, er na welais y cyfryw, na chrybwylliad o berthynas iddo, heb law yr eiddo ef.—*Typographia*, vol. i. p. 591. [Pur debyg mai amryfusedd Johnson yw y cofnod.]

Canterbury, and others, his colleagues in the High Commission, wherein the complaintant, submitting himself and his cause unto the determination of this honourable assembly, craveth nothing else, but either release from trouble and persecution, or just trial. Anno Dom. 1589.'

1590.

'Britannia, sive Florentissimorum Regnorum, Angliæ, Scotiæ, Hiberniæ, et Insularum adiacentum chorographica descriptio. Authore Gvilielmo Camdeno.' Londini, 1590.

[Hwn oedd y trydydd argraffiad o Camden's '*Britannia*.']

1592.

'Cambrobrytannicæ Cymraecæve Lingvæ Institvtiones et Rvdi-
menta accuratè, & (quantùm fieri potuit) succinctè & compendiosè
conscripta à Joanne Dauide Rhæso Monensi Lanuaethlæo
Cambrobrytanno, Medico Senensi: Ad Jllust. virum Edouardum
Stradlingum Equestris ordinis Cambrobrytannum: Ad intelligend.
Biblia Sacra nuper in Cambrobrytanicum sermonem & castè &
elegantè versa, non minùs necessaria quàm vtilia: Cum exacta
carmina Cymraeca condendi Ratione, & Cambrobrytanicorum
Poematum generibus, alijsquè rebus nonnullis eòdem spectantibus,
ijsdémque pariter non minùs necessarijs quàm vtilibus.

Londini Excudebat Thomas Orwinus. 1592.' 4to.*

* Yn Gymraeg yn debyg i hyn:—'Gosodiadau ac Egwyddorion y Gymreig-
iaith Brydeinaidd, wedi eu gosod allan yn ofalus, ac, hyd y gellid, yn ddichlyn-
aidd a chryno, yng nghyd â rheolau cywir fydryddiaeth Gymreig,' &c.

† [Nid *unplyg* mo hono, ond *pedwarplyg* lled fawr ydyw; a chynnwys 304 o dudalenau, heb law dalen yr enw, y Cyflwyniad i Syr Edward Stradling, Llinellau Lladin o glod i'r Awdwr o waith *Guil. Camdenus* a *Ioan. Stradlingus*, Rhagymadrodd *Humffrey Prichard*, Anerch yr Awdwr 'at y Cymry,' a Chyweiriad Gwallau; y rhai oll a lenwant 24 tudalen;—y cyfan yn gwneuthur 328 o dudalenau. Nid yr awdwr yw yr unig un sydd yn dywedyd mai llyfr *unplyg* yw y Gramadeg hwn. Mynegir hyny gan y Dr. Owain Puw, yn y ei *Cambrian Quarterly Magazine*, ii. 226; gan y Parch. Robert Williams, yn *Eminent Welshmen*, d.g. 'John David Rhys,' a chan ysgrifenydd yn y *Cambrian Journal*, iii. 55, 57. Ond y mae cyfargraff cwbl gyflawn o'r gwaith yn awr o'm blaen, a *phedwarplyg* ydyw, fel y mae yn ddigon hawdd i baw weled, ond sylwi ar y nod-lythyrenau ar odre y dail. Y mae y cyfargraff y cyfeirir ato wedi ei gydrwymo â *Geiriadur* y Dr. Davies, yr hwn hefyd sy bedwarplyg, er dywedyd o Foesen Williams, ac ereill ar ei ol, mai *unplyg* ydyw.]

Llyfr unplyg† ydyw, yn cynnwys tri chant a dwy o dudalenau, heb law tuag ugain tudalen o Ragymadrodd. Y maeepistol Lladinaeg yn ei ddechreu, o gyflwyniad i'w gefnogwr—'Illvstri Viro, Ervditione et Prvdentia Praestantis, eximióque literarum et literatorum Patrono, Edouardo Stradlingo Cambrobrytanno, Equiti aurato.' Yn canlyn y 'Llythyr Cyflwyn,' y mae Englynion Lladin o ganmoliaeth i'r gwaith a'r awdwr—y cyntaf gan Camden. Yna y mae Rhagymadrodd Lladin, gan '*Hvmfredvs Prichardvs Venedotvs Bangoriensis.*' Canlynir hyna gan gyfarchiad yn Gymraeg—'At Bendebhigion, a' Bonhedhigion, a' Phrydydhion, a' Chymreigydhion, ac at eraill o m' Annwyleid o Genedl Gymry, ac eraill amgen no'r hain, Annerch a' Lhwydhiant.' Y mae y llythyr anerchhwn yn gryn faith, yn cynnwys dros saith [wyth] tudalen unplyg [pedwarplyg] mewn argraff fân, ac mewn llythyrenau Italaidd; a'r hwn, oni buasai ei feithder, a fuasem yn ei ddodi oll ger bron y darllenwyr; ond rhaid ymattal, gyda rhoddi y ddosran derfynol yn unig:—

'A' mwyabh parth o'r Llybhr yma a bhybhyriwyd ac a bhedhlyiwyd yn gyntabh, ynn Nhy y Pendêbhc M. Morgan Merêdydh o ymyl y Bugeildy ynn Nyphryn Tabhîda o bhywn Swydh Bhaesybhed: ynn y lhe lawer gwaith y bû bhawr bhy ghhroeso, a'm' hansawdh o bhwyd a' lhynn gann y gwrda a'r 'wreicdha. Eithr diwedhbarth y Lhybhr hynn, a bhybhyriwyd dann berthi a' dail gleision mywn gronyn o Bhangre i mî bhyhûnan a 'elwir y Clûn Hîr, ym mlâen Cwmm y Lhwch, a' thann 'Odreuon Mynydh Bannwchdêni. Rhai a 'eilw y Mynydh hynn [Bann Arthur,] eraill [Môel Arthur.] Dann grîb y Bhóel honn, ac ynn ei harphet, y mae Lhynn digon í bheint, ac yn abhrîbhed ei dhybhnder, ac yn rhybhedh ei ansawdh; o ethryb [mal y cerdhant chwedleu] ny 'welspwyd eirióet edêryn o'r byd ynn cyrchu nac idho, nac atto, nac ynn nobhiaw arno; onyd yn holholh ynn ymwrthod ac êbho: a' rhai a dhywêdant, na's gnotáynt nag anibheilied na milod o vnrhyw, ybhed dhim dwbhr o hono. A' lhawer o enrhybhedôdeu eraill, (ac o rann canbhod arr brydieu betheu dieithr dros benn yn ghhylech y Lhwch yma) a ydys ynn eu hadroth gann gyphrêdin y 'Wlâd honno; ac yn enwêdic gann y sawl a arbhêrynt o ymgyrchu i'r Moelydh a'r Banneu hynny er mwyn bugeila. A'r Lhynn neu'r Lhwch hynn, a 'elwir Lhynn Cwmm y Lhwch. Eithr ymchwêlwn bellach i adroth ichwi taw ym mha le bynnac y dechreuwyd, nac y cenôlwyd, nac y diwêdhwyd y Lhybhr yma; nag ym mha bhann bynnac y mybhyriwyd vn dim arno, i chwî, ac er eych mwyn chwî y gwnaethpwyd hynn olh. Ac o'r ethryb hynny, odd oes dim yndho a bhô tebyc i 'wneuthur dim lhês nag i'r laith, nag i chwithew y Pendebhigion a' Bonhedigion Gwlâd Gymry, y mae yn dhâ iawn gann bhy ghhallon: onyd êbh, gydâwer heibio mal diphrwythbeth, a dechymyger ryw bêth aralh a bhô gwelw nog ebh, a' charer bhi (o's mynner) am bhy ewylhys da, er imi o dhamchwain bhôd (a' hynny o eisieu galhu) yn dhyphygiol (scatbhdyd) o barth perpheitio bhy ghorchwyl. A' hynn a dhywêdabh wrthych' cynn ymâdo o honobh' â chwî, na 'wnaethpwyd

ermóed dhim ynn y byd yma yn gyn gystadled, nac yn gyn berpheithied, na's galhei ryw dhyn cynbhighennus, a' drwe ei ewylhys, o'i dhrwe dabhawt, gymryt arno anurdho y pêth da hynny â'i 'eirieu dûon marwâraidd, o damwheiniei idho arr adêgeu ymgybharbhad ac vndyn aralh annealhus a bhwríei ei góel arno, ac a gredei i'r pêth a dhywettei. Weithion rhac tra gormodh blino arnoch', yma y cymhêrabh bhy ghennad ganwch', gann dheisybh ynn bhy ghwedhi rhât y Tâd, a'r Mâb, a'r Yspryt Glân i'ch plith olh yn 'wastad. *Amen.*

'O'r Clûn Hîr y chweched dydh o bhîs Tachwedh, oedran eyn Harglwydh Iesu Grîst, mîl a' phymcant a' deudhec a' phedwar vgeint.

'Yr eidhoch' olh, ac yn holh yr eidhoch', I. D. R.'

Yn niwedd yr '*Epistola Dedicatoria*' y mae—'*Brychanij prid. Non. Iulias. 1590. Ex animo tui amantissimus & obseruantissimus, Ioannes Dauides Rhæsus*; ac yn gyssylltedig ag enw y llyfr ar y ddalen gyntaf o gorff y gwaith, y mae enw yr awdwr drachefn [yn y cyflwr annibynol]—'*Ioanne Dauide Rhæso Cambrobrytanno Authore.*' Gwelir mai y peth hynotaf yn y llyfr hwn yw ei ddull yn llythyrenu yr iaith Gymraeg. Yn lle llythyrenau dyblyg, y mae yn chwaneu *h* at y wreiddiol, megys *lh* am *ll*; *dh* am *dd*; *bh* am *f*; *gh* am *ng*; ac fel yr holl hen lyfrau, yn cyfnewid *v* am *u*, ac *u* am *v*.^{*} Heb law hyny, y mae ganddo ddwy lythyren nad oes eu bath mewn argraff yn awr. Nid ellir eu dangos, am nad oes un gan yr argraffyddion, heb fyned i'r draul o fathu rhai yn bwrpasol. Y llythyrenau hyn ydyw *w* ac *y*. Y mae yr *w* rywbeth yn debyg i'r rhifnod 8, â'i ben uchaf yn agored (8), ac y mae un ochr yn troi yn fachog ar y llaw aswy, yn debyg i ddwy *Sigma* Groeg, yn groes i'w gilydd; neu yn hytrach ar lun y nod am *ac felly ym mlaen* bychan (&) â'i flaglau i fyny (x).† Y mae yr *y* yn tolcio ar led yn ei dwy fraich, yn debyg i freichiau dyn yn uwch na'i ben, neu yn hytrach heb ei ben, a'r goes hefyd yn rhoi dau gam tolcio, yn debyg i goes rhedynen, neu y *Gamma* Groeg (Y). Nid hon yw yr unig *y* chwaith, canys y mae ganddo *y* gyffredin, ac mae y hòno mor fynych a'r llall, ond yn meddu ei lle ei hun. Y mae yr *y* gamog ym

* [Nid arferir *v* ganddo mewn un modd ym mhlith llythyrenau yr Egwyddor Gymraeg; ond yn y Lladin defnyddir *v* yn lle *u*, ac *u* yn lle *v*, *i* yn lle *j*, a *j* yn lle *i*, agos yn ddiwahaniaeth, yn ol dull cyffredin yr oes hòno : a cheir *v* weithiau yn lle *u* mewn geiriau Cymraeg. Egwyddor Gymraeg y Dr. Rhys yw y ganlynol :—*a, b, bh, c, ch, d, dh, e, g, gh, ghh, h, i, lh, l, m, mh, n, nh, o, p, ph, rh, r, s, t, th, u, w, y* (o ddau fath)=31. Arferir y ddeufath hyn o *y* hefyd yng *Ngramadeg* y Dr. Davies (1621); a chedwir yr un nodwedd yn yr ail argraffiad o hono a ymddangosodd yn Rhydychain yn 1809.]

† [Ceir y dull hwn ar y llythyren *w*, neu un cyffelyb iddo, yn gyffredin iawn mewn hen lawysgrifau Cymreig, megys y *Llyfr Coch o Hergest*, a.r.c.]

mhob lle y mae yr *y* gyffredin yn cadw ei sain heb leddfiad, megys yn *bychan*; ond yr *y* gyffredin ym mhob gair lle y lleddfir ei sain i *u*, megys *bys*. Y mae ganddo hefyd ddau dolnod, os bydd y gair yn ddiffygiol o ddwy lythyren, neu yn ddau air; a'r nodau yn troi eu penau yn groesion, er dangos yn gydiol â pha lythyren y dylasai y llythyren goll fod, pe cadwesid gwreiddioldeb y gair; megys *a' 'r am ac yr*, neu *o' 'r am oc yr*.

Y mae yn briodol rhoddi hefyd ychydig esiamplau o hono. Rhaid dewis rhai byrion. O dan y pen '*De Figura. Dulh*,' ceir ei ddull yntau fel hyn:

Figura verborum alia	<table border="0"> <tr> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">{</td> <td>Simplex :</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">vt</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">{</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>lhádh, lhosgy, bód, rhedeg, rhodio, gwnábh, &c. cybhladh, gwrthladh, atbheiliaw, damgylehynu, perpheithwnabh, &c.</i> </td> </tr> <tr> <td><i>Odíawc :</i></td> </tr> <tr> <td>Composita :</td> </tr> <tr> <td><i>Cybhansodhedic :</i></td> </tr> </table>	{	Simplex :	}	vt	{	<i>lhádh, lhosgy, bód, rhedeg, rhodio, gwnábh, &c. cybhladh, gwrthladh, atbheiliaw, damgylehynu, perpheithwnabh, &c.</i>	<i>Odíawc :</i>	Composita :	<i>Cybhansodhedic :</i>																																													
{	Simplex :		}					vt	{	<i>lhádh, lhosgy, bód, rhedeg, rhodio, gwnábh, &c. cybhladh, gwrthladh, atbheiliaw, damgylehynu, perpheithwnabh, &c.</i>																																													
	<i>Odíawc :</i>																																																						
	Composita :																																																						
	<i>Cybhansodhedic :</i>																																																						
Componuntur verba aut cum	<table border="0"> <tr> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">{</td> <td>Articulis :</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">vt</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">{</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>Ystudiaw, Ystabhelhu, Yssydh,</i> </td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">ex arti- culo <i>y,</i> & <i>ys</i> &</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">{</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>studiaw, stabhelh, sydh</i> </td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">verbis.</td> </tr> <tr> <td>Nomini- bus :</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">vt</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>drygladh, cammdybiaw, gwrladh, treisdaraw, cigwerthu, gwalhgobhiaw</i> </td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">cum</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>drwg. camm. gwr. trais. cig. gwalk.</i> </td> </tr> <tr> <td>Aduer- bijs :</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">vt</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>goáhw, digerydhu, abhlonydhu, braidhgobhi, dateánu,</i> </td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">cum</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>go. di. abh. braidh. dat quasi diat.</i> </td> </tr> <tr> <td>Præposi- tionibus :</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">vt</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>amdóí, damgylehynu, cyngydiaw, trawsneidiaw, trachobhiaw, ateb&gwrtheb, atbheiliaw, cysseiniaw, ymdráw,</i> </td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;">cum</td> <td rowspan="4" style="font-size: 3em; vertical-align: middle;">}</td> <td rowspan="4" style="vertical-align: middle;"> <i>am. dam. cyn. traws. tra. at, gwrth. at. cys. ymm pro ynn.*</i> </td> </tr> </table>	{	Articulis :	}	vt	{	<i>Ystudiaw, Ystabhelhu, Yssydh,</i>	}	ex arti- culo <i>y,</i> & <i>ys</i> &	{	<i>studiaw, stabhelh, sydh</i>	}	verbis.	Nomini- bus :	}	vt	}	<i>drygladh, cammdybiaw, gwrladh, treisdaraw, cigwerthu, gwalhgobhiaw</i>	}	cum	}	<i>drwg. camm. gwr. trais. cig. gwalk.</i>	Aduer- bijs :	}	vt	}	<i>goáhw, digerydhu, abhlonydhu, braidhgobhi, dateánu,</i>	}	cum	}	<i>go. di. abh. braidh. dat quasi diat.</i>	Præposi- tionibus :	}	vt	}	<i>amdóí, damgylehynu, cyngydiaw, trawsneidiaw, trachobhiaw, ateb&gwrtheb, atbheiliaw, cysseiniaw, ymdráw,</i>	}	cum	}	<i>am. dam. cyn. traws. tra. at, gwrth. at. cys. ymm pro ynn.*</i>															
	{		Articulis :											}									vt									{									<i>Ystudiaw, Ystabhelhu, Yssydh,</i>	}	ex arti- culo <i>y,</i> & <i>ys</i> &	{	<i>studiaw, stabhelh, sydh</i>	}	verbis.								
			Nomini- bus :																																													}	vt	}	<i>drygladh, cammdybiaw, gwrladh, treisdaraw, cigwerthu, gwalhgobhiaw</i>	}	cum	}	<i>drwg. camm. gwr. trais. cig. gwalk.</i>
			Aduer- bijs :																																																				
Præposi- tionibus :		}	vt	}	<i>amdóí, damgylehynu, cyngydiaw, trawsneidiaw, trachobhiaw, ateb&gwrtheb, atbheiliaw, cysseiniaw, ymdráw,</i>	}	cum	}	<i>am. dam. cyn. traws. tra. at, gwrth. at. cys. ymm pro ynn.*</i>																																														

Fel hyn y mae yr holl lyfr, yn llawn o gromfachau, ymsangau, a chyssylltiadau, pa le bynag y mae yr awdwr yn dosbarthu ei esiamplau gramadegol. Yn Lladin y mae yr addysg gan mwyaf, a'r esiamplau neu y gwersi yn Gymraeg: ond y mae weithiau yn chwaneu cyfieithiad o'r addysg neu ei gyfarwyddiadau, yn Gymraeg; megys ei '*Methodus cognoscendi syllabas numero syllabarum dubias*,' pryd yr ychwanega yr un peth yn Gymraeg, fel hyn:—

'Modhion i adnabod, béth yw sylhabh betrus ai vn sylhabh, ai ynfeu mwy.

'1. Y môdh cyntabh yw, sebh: Pann liossoccer gair ag [y] bhydharsain yndhó, herwydh rhîbh ei sylhâbheu, ag nyd herwydh synwyr y gair o rann vnig a lhiossog: edrycher ar y lhiossog o sylhâbheu; ag yna wrth bhall y bo ynn y gair lhiossog o sylhâbheu, bhelhy y bydh yn herwydh ei bhôdh ynn yr vnig a' 'r odidog o sylhâbheu, cyn ei liossôgi. Canys ony wydhys bêth yw [Bagl] ai vn sylhabh ai dwy, na pha bhodh yr scribhennar ynn y mydr: lhiossoccer [Bagl] herwydh rhîbh sylhâbheu, a dywetter [Bagleu,] ag yna dwysylhâbhog a bhydh [Bagleu.] Ag am hynny vnsylhâbhog oedh [Bagl] mywn cerdh dabhod a mytr. A phann liossoccer bhelhy, yna y tawdh yr [y] rhwgh y lythyren bhûd a' 'r lhythyren dawdh, am bhod [y] a sain bhydhar neu sain dywyll arnei. Ag o'r achos hynny, ny scribhennir dhim o honei mywn cerdh dabhod, nag ynn yr vnig, nag ynn y lhiossog, onyd mall hynn: [Bagl, bagleu.] Eithr mywn rhydhiaith bhall hynn ydh arbhêrynt o scribhennu, [Bagyl a bagyleu;] yr vn yn dheusylhâbhog, a' 'r lhalh yn drisylhâbhog. Ac ynn yr vn môdh, dwysylhâboc yw [Bwgw]l ynn yr vnig; ag am hynny trisylhâbhoc a bhydh [Bygy]leu ynn y lhiossoc. Canys sylhabh rhagor a dhyly bôd ynn y lhiossoc, nog ynn yr vnig; na rhannêdig na chybhansodhêdig bhô y gair. Rhannêdig, megys y clywsoch' vehod; a' chybhansodhêdig: megys [Eurlhîw ac eurlhîwieu.] Ag ynn yr vn wêdh y bernir am y cyphêlyb.'

'Nôr.

'O's herwydh synwyr y gair yn vnig, y lhiossoccer y gair; ynn lhawer lhe ny bydh mwy o sylhâbheu ynn y lhiossog, nog yr vnig neu 'r odidog, megis ynn yr hain: sebh, [Clerwr, clerwyr. March, meirch] &c.

'A chytboent rhai o'r geirieu a synwyr lhiossog yndhynt ynn yr vnig neu 'r odidog: etto rhaid yw bôd y lhiossog yn bhwy o sylhâbheu no'r odidog. Canys ny elhir [clér] onyd o lawer, na [choed] o vnprenn; eisoes lhiossoccer y geirieu mall hyn: [Cleroedh, coedydh,] y lhiossoc hynny yssydh yn bhwy o rîbh sylhâbheu no'r vnig, er bôd synwyr y lhiossoc a' 'r odidoc ynn myned mywn rhyw bhôdh yn vnparth.

'2. Yr ail pêth i adnabod sylhabh betrus, yw cybhansodhiad y gair. Canys wrth bhall y bo ynn y gair cybhansodhêdic, bhelhy y bydh ynn y rhannêdic, nag odidog na lhiossog bhô y gair. Ag am hynny o's dausylhâbhoc yw [Lheidrdhyn,] vnsylhâbhoc oedh [lheidr] &c.

'3. Y trydydh pêth i adnabod petrusder sylhabh, yw Ardhisgynniad y gair. Canys wrth bhall y bo ynn y gair ardhisgynnêdig, bhelhy y bydh ynn y gair cyssebhin. Ac am hynny, o's pedwarsylhâbhoc yw [Dynioneu] trisylhâbhoc yw [dynion.] Ac o's dwysylhâbhoc yw [Lleidraidh,] vnsylhâbhoc yw [lheidr.] Ag bhelhy y bernir am [Aur ac euraidh] a' 'r cyphêlyb.*

Yr ydys yn ofni mai prin y medr y darllenwyr wneyd rheswm o'r esiamplau hyn, gan mor estronol eu hymddangosiad, er eu bod yn Gymraeg lân loew, yng ngwisg yr ieithydd hynafol hwn; gan hyny, rhoir ychydig linellau yn yr hen ddull hwn, ac yn y dull cyffredin, bob yn ail linell:—

'Hyd neu gyhydedh y sylhâbheu, a bhydh herwydh mesur o
'Hyd neu gyhydedd y sillafau, a fydd herwydd mesur o

lythyr ag amsêroedd gosodiâdeu a bhô yndhynt. A' lhiaws amser
lythyr ac amseroedd gosodiadau a fo ynddynt. A lhiaws amser

a bhydh i sylhabh hîr, ac vn i sylhabh bherr. Canys hwy o amser
a fydd i sillaf hîr, ac un i sillaf fer. Canys hwy o amser

y byddir ynn dywedud sylhabh hîr, nog yn adrodd vn bherr. Hîr
y byddir yn dywedyd sillaf hîr, nag yn adrodd un fer. Hîr

yw pôb lhedhybh, a' byrr pôb talgrwnn: ag etto hwy yw diphthogh
yw pob lleddf, a byr pob talgrwn: ac eto hwy yw diphthong

dalgronn, no sylhabh aralh dalgronn. A' rhai o'r sylhâbheu
dalgron, na sillaf arall dalgron. A rhai o'r sillafau

lhedhbhon, a bhydhant hwy no rhyw ledhbhon erailh, o herwydh
lleddfon, a fyddant hwy na rhyw leddfon ereill, o herwydd

mesur o lythyr ag amsêroedd a bhônt yndhynt.*
mesur o lythyr ac amseroedd a fônt ynddynt.

Y mae rhan fawr o'r llyfr hynod hwn, '*De Poemate metrico*,' h. y. am Fesurau Cerdd; lle y rhoddir llawer o esiamplau o hen englynion, cywyddau, ac awdlau, wedi eu gosod yn yr un dull cyplysg, taflenog, ymsangog, a chromfachog, ag yw y gwersi mewn rhyddiaith. Rhoddir yma un esiampl; ond nis gellir ei gosod yn eglur a chyflawn, o ddiffyg cromfachau taflenog priodol:—

'Awdl gywydh a bhessûrir o bedair sylhabh arr dhêg, saith ym mhôb Bann o'r dhau Bhann; a' r Gair cyrch ynn nechrau yr ail Bann, ynn ateb i'r Awdl gyntabh; a'r Awdl dhiwêthabh yn ymrabhael; a' honno yn vnawdl drwy y Cowydh, bhall hynn:—

'Exemplum Recentiorum.

Carmen. { Vn a dâl y nydôlig, obr didhig i Brydydhion;
{ Ag a bryn dhêg o baei raid, lhonghaid bhal y golhynghon.

Scribitur & ita.

Vn a dâl y nydôlig,
Obr didhig i Brydydhion;
Ag a bryn dhêg o bei raid,
Lhonghaid bhal y golhynghon.

* Tudalen 144.

Atque etiam hoc modo.

Vn a dâl y nydôlig,
 Obr didhig,
 I Brydydhion :
 Ag a bryn dhêg o bei raid
 Lhonghaid
 Bhal y golhyngnon.

Scansio. { Vn-a. dâl-y. ny-do. lig,
 { Obr-di. dhig-i. bry-dy. dhion.
 { Ag-a. bryn-dhêg. o-baei. raid.
 { Lhon-ghaid. bhal-y. go-lhyn. ghon.*

Y mae y Gramadeg hwn yn diweddu gydag attodiad maith, yn cynnwys llawer o ddarnau barddonol helaeth; mēgys, 'Owdl Bhair a gânt Gwilim Têw, i dhyscu llawer o'r hen Bhessûrau gorchestawl, ac nyd ydynt y'w cael ond ynti hî am Bhardhoniaeth; ond am Dhewiniaeth, gochêlwch' y surdoes, medh William Midelton; † 'Owdl a gânt Lewys Morrgannwg wrth Leision Abad Glynn Nêdh, a'r pedwar mesur arr hugein yndhi, arr dhullh yr oes honno,' &c.; ‡ a'r oll yn y ffurf uchod o lythyrenu a sillebu.

Am y Dr. SION DAFYDD RHYS hwn—dywedir i Jane, merch Thomas Stradling, Ysw., o Gastell St. Donat's neu Dunwyd, § yn sir Forganwg, briodi â Syr William Griffith, o sir Gaernarfon, yng Ngwynedd; ac yn Eglwys St. Donat's y priodwyd hwynt. Ar eu dychweliad i Wynedd, cymmerodd Syr William gydag ef un Dafydd Rhys, i fod yn arddwr iddo; a chymmerodd ei wraig Jane hefyd ei morwyn gyda hithau. Yr oedd y Dafydd Rhys hwn yn frawd i Risiart ab Rhys, y bardd, o Ferthyr Mawr, ger Pen y Bont ar Ogwy, yr hwn oedd athraw Iorwerth Fynglwyd, y bardd, o Graig yr Eos, ym mhlwyf Sant y Brid, ac un o feirdd teuluaidd Castell St. Donat's. Darfu i'r Dafydd Rhys hwn a gwasanaethyddes Syr William Griffith ymbriodi. Ei henw hi oedd Annes neu Agnes. Cawsant fab, yr hwn a alwasant John neu Sion, a dilyn enw ei dad, Sion Dafydd Rhys. || Bu farw ei dad, Dafydd Rhys; ac yn fuan wedyn, bu farw Syr William Griffith, a'i foneddiges; a bu gorfod i Agnes a'i mab bychan ddychwelyd i St. Donat's, gan gerdded yr holl ffordd o sir Fôn i sir Forganwg; canys yr oedd hi a'i gwr wedi cael tir tuag at eu cynnaliaeth yn Llanfaethlu, yn sir Fôn. Yr oedd cangen, ac y mae eto, o'r Griffithiaid yn byw yn y plwyf hwnw, a dichon mai yno, yn y lle a elwir y Gareg Lwyd, yr ymsefydlasai Syr William pan ymbriododd. Bu

* [Tudalen 192-3.]

† [Tudalen 235.]

‡ [Tudalen 239.]

§ [Sant Dunwyd, neu Sandunwyd.]

|| [Ganwyd ef yn y flwyddyn 1534.]

gorfod i Dafydd Rhys droi allan o'r lle ar farwolaeth Syr William Griffith.* Pan oedd gweddw Dafydd Rhys yn dychwelyd o Fon, yr oedd y bachgen, Sion Dafydd Rhys, yn rhy ieuanc i gerdded; o ganlyniad, bu gorfod i'w fam ei gario yn ei breichiau, ac ar ei chefn, y rhan fwyaf o'r ffordd. Erbyn iddi gyrhaeddyd St. Donat's, yr oedd yn glaf iawn, a bu farw o'r cystudd hwnw. Cymmerodd Syr Edward Stradling y bachgen bychan ato ef i'r Castell; a rhoddodd ef o dan ofal yr un athrawon â'i fab ei hun, Thomas. Daeth y ddau fachgen yn gyd-gyfeillion hoffus iawn o'u gilydd, ac yn anweyllysgar i ymwahanu, na bod oddi wrth eu gilydd. Wedi cael addysg deuluaidd yn y Castell, anfonwyd y ddau wr ieuanc i Brifysgol Sienna, yn yr Ital, lle y dygwyd hwynt i fyny yn dda, yn holl ddysgeidiaeth y lle a'r oes. Wedi eu dychweliad adref, priododd Syr Thomas; cafodd fab, yr hwn a alwyd Edward; a phenodwyd Sion Dafydd Rhys i fod yn athraw iddo, yn y Castell. Rhywbryd, fel yr oedd yr etifedd ieuanc yn rhodio ar hyd traeth y môr sy'n terfynu ar y Castell, efe yn ddifeddwl, a arosodd ar le oedd yn uwch na lle arall, hyd nes oedd y llanw wedi ei amgylchynu yn rhy ddwfn i gerdded trwyddo. Efe a waeddodd am gynnorthwy, a chlywyd ei lef o'r Castell. Aeth dynion ar geffylau yn ebrwydd i geisio ei waredu; ond ni ellid llwyddo i gael yr un ceffyl i gymmeryd y dwfr, yn erbyn y tonau ewynog. Ar hyn taflodd Sion Dafydd Rhys ei ddillad uchaf oddi am dano, ac aeth yn hyf i'r dwfr, yn erbyn yr holl donau, a dygodd yr etifedd ieuanc i dir yn ddiangol. Os oedd ei barch yn y ty yn fawr gynt, yr oedd yn filwaith mwy bellach. Pan ddaeth yr amser priodol, anfonwyd y boneddwr i'r un brifysgol ag y buasai ei dad ynddi o'r blaen, yn yr Ital, a Sion Dafydd Rhys gydag ef, i fod yn brif athraw iddo. Arosasant yno rai blynyddau; a daeth S. D. Rhys yn glodfawr am ei helaeth wybodaeth, a chafodd ei raddio yn D.M. (Doctor Meddyginiaeth). Ym mhen amser efe a ddychwelodd i Gymru, yn Babydd o ran dygiad i fyny, ac yn fynach; ac o blegid bod yr holl fynachlogydd wedi eu diddymu, efe, fel y gwelwyd, a brynodd etifeddiaeth fechan mewn lle a elwir y Clyn Hir, neu Glyn Hir, ar derfyn Cwm Llwech, wrth droed mynydd Ban uwch Deni, neu Banau Brycheiniog.† Am y rheswm iddo ddewis sir Frycheiniog i anneddu ynddi, dywed ef ei hun fel hyn:—

‘Ac er imi ‘alhu o gybhiawnder, îeu ac o bêth haedhiad arr bhy Ghlwlad, ardhelw y mann cyphrêdin a bhynnwn yndhi i drigiaw, a’ mawr groeso i m’ ynn y lle y delwn am dhybhod: eisoes mybhî (ac nyd amgen nog o ewylhys da parth ac at y ‘Wlad) a dhewisais bhy

* [Ychydig linellau o'r blaen awgrymwyd ddarford i Dafydd Rhys farw o *flaen* Syr W. Griffith. Ac os oedd gweddw Dafydd Rhys yn feddiannol ar dir at ei chynmaliath yn Llanfaethlu, y mae yn hynod, braidd, iddi ddychwelyd i Forganwg ar farwolaeth ei gwr; er, mae yn wir, y gallasai hyny ddygwydd.]

† *Doom of Colyn Dolphin*, gan Taliesin ab Iolo, t. 91-95; lle y ceir achau teulu y Stradlingiaid o Gastell St. Donat's, ym Morganwg, allan o lythyr y Parch. Edward Gamage, o St. Athan, ym Morganwg, at Llewelyn ab Ifan, Tachwedd 23, 1726.

mhreswylbhod ynn Swydh Bhrycheinawe; a' hynny nyd yn vníc o achaws bhy môd bhyhûn yn Gymro; onyd hebhyd (o's bhi a gaphwybh bharnu) o ethryb bhy môd ynn tybieid yn fy ghhallon, nadd oedh vnwlád ynn Ghymru o rann Pendebhigion, a' Bonhedhigion, a' Chyphrêdin, 'welh ei phobl, 'lanach eu cynhedhbheu, syberwach eu moeseu, na hawdhach cáel cymwynas dhâ ganthynt', ym mhób môdh ac y ceisiyd na gleindid, na hawdhgârwech, na chymwynas, na syberwyd, na dim dâ aralh mywn vndyn; no phobl 'Wlad Bhrycheinoc.*'

Yn y lle hwnw y gorphenodd efrydu ei Ramadeg meistrolgar; ac yr oedd Syr Edward Stradling, bywyd yr hwn a achubasai, yn ei gynnorthwyo ag arian, ac angenrheidiau ereill; gan ddangos iddo gyda hyny barch diderfyn.† Yn ei hen ddyddiau, a hen iawn ydoedd, efe a symmudodd i dref Aberhonddu, lle y diweddodd ei ddyddiau, o ddeutu pedwar ugain mlwydd oed, yn amser y Brenin Iago I, yn 1617.‡ Dywed rhai iddo farw yn ddyrn unig; ond dywed Theophilus Jones fod bedd ei wraig yn Aberhonddu, ag arno y cerfiad hwn:—'*Uxor Joh'is David.*' Dywed hefyd fod ei fab, Walter, yn Brotestant, ac yn Ficer Aberhonddu.§ Nid y Gramadeg hwn oedd ei unig waith. Cyfansoddodd, yn yr Italaeg, gynnulliad o 'Reolau i ddechreu dysgu y Lladinaeg,' yr hwn a gyhoeddwyd yn Venis. Ysgrifennodd hefyd Draethawd Lladin ar 'Lafaredigaeth yr Italaeg,|| yr hwn a argraffwyd yn Padua.** Ond ei orchestwaith yw y Gramadeg Cymraeg hwn yn Lladin.††

Am Humphrey Prichard, yr hwn a ysgrifennodd Ragarweiniad i'r Gramadeg, dywedir mai brodor o Fangor, yn sir Gaernarfon, ydoedd. Rhoddwyd iddo fywoliaeth Llanbeulan, Mon, dan yr enw 'Humphrey Prichard ab John,'‡‡ ar Awst 6ed, 1548, gan Arthur Bulkeley, Esgob Bangor. Pabydd ydoedd y pryd hyny; ond yn 1570, a'r 13edd o deyrnasiad Elisabeth, efe a ymddangosodd ger brôn yr Esgob Robinson, ac a danysgrifiodd y 39 Erthyglau. Barnwyd wedyn nad oedd wedi ei urddo, a rhoddwyd arall yn ei le, ar ol hir ymgyfreithio yn llys Bangor; ac nid oes dim ychwaneg o'i hanes hyd ei gyssylltiad â'r Gramadeg hwn.§§ Haerir gan rai mai efe a olygodd yr argraffiad pan ydoedd yn dyfod trwy y wasg yn Llundain, ac iddo gymmeryd gryn hyfdra trwy rod-di ei ragymad-

* 'At y Cymry,'

† Parry's *Cambrian Plutarch*, p. 309, &c.

‡ [Yn y fl. 1609, yn ol y *Cambrian Plutarch*, t. 313, a'r *Eminent Welshmen*, d.g.]

§ Jones's *History of Breconshire*, vol. ii. p. 51.

|| ['De Italicæ Linguae Pronuntiatione.'] ** *Gwladgarwr*, 1839, t. 161-63.

†† *Doom of Colyn Dolphin*, p. 95.

‡‡ ['Humphrey ap Richard ap John,' yn ol y gofres ar ddiwedd Rowlands's *Mona Antiqua*, t. 335. Canlynwyd ef ym mhersoniaeth Llanbeulan gan Hugh Edwards, A.C.; ond ni ddywedir, yn y gofres a nodwyd, pa un ai ar farwol-aeth Prichard, ai ar ei ymddiswyddiad, y cafodd ef hi.]

§§ A. Llwyd's *History of Mona*, p. 360.

rodd ei hun i mewn, a chwanegu rhyw eiriau yn y rhagddalen, heb genad yr awdwr;* ond y mae llythyr ar gael, wedi ei ysgrifenu gan yr awdwr ei hun, ar ei ddyfodiad adref o Lundain, wedi bod yno yn golygu yr argraffu, lle y dywed ei fod wedi ei ddarllen, 'llen am len,' ei hunan. Ymddengys hefyd mai 1250 o lyfrau a argraffwyd o honynt, a'r cwbl ar draul Syr Edward Stradling, i'r hwn y mae yr awdwr yn rhoddi cyfrif llawn.† Yr oedd y llyfrau

* [Os Pabydd, fel y dywedir, oedd y Dr. Rhys, a bod Humffrey Prichard y pryd hwn yn Brotestant, nid yw annhebygol i ragymadrodd o waith Prichard gael ei osod o flaen y gwaith, er mwyn hyrwyddo ei gylchrediad ym mhlith Protestaniaid yn gystal a Phabyddion. Ond y mae yn amhëus iawn ai Pabydd ydoed y Dr. Rhys pan y cyhoeddodd ei Ramadeg; ac ym mhlith pethau ereill a dueddant i ddangos mai Ardystiwr ydoedd, gellir nodi mai anhygoel yw y buasai Pabydd, ie, Pabydd cymmedrol (ac nid cymmedrol mo Babyddion yr oes hõno yn gyffredin), yn dywedyd mewn perthynas i 'Awdl Fair' gan Gwilym Tew, 'am Ddewiniaeth, gochelwch y surdoes, medd Wiliam Midelton,' yr hwn, fel y gwyddys yn dda ddigon oedd yn Ardystiwr; ac nid oes dim yn yr awdl hõno a ystyrir yn 'surdoes' gan Babyddion.

Ni ddywedir ar ragddalen y gwaith mai amcan yr awdwr ydoedd hyrwyddo gwybodaeth o'r Ysgrhythrau ym mhlith y bobl gyffredin trwy gyfrwng y Gramadeg hwn: ond diau mai yr hyn a olygid ydoedd, cynnorthwyo y gweinidogion i ddeall yr iaith Gymraeg (cans yr oedd pregethu Cymraeg wedi myned i gryn raddau allan o arfer yng Nghymru cyn y Diwygiad), fel y byddai iddynt hwy hyfforddi y bobl mewn gwybodaeth o'r Ysgrhythrau, yr rhai, y pryd hwn, oedd newydd gael eu cyfieithu yn Gymraeg gan yr Esgob Morgan. Nid amcanai y Dr. Rhys, mwy na'r Dr. Davies ar ei ol, i'r cyffredin bobl fyfyrïo ei Ieithadur cywraïn ef, cans nis gallai llyfr Lladin fod yn ddealladwy iddynt; ond yr oedd yn ddealladwy i'r gwfr eglwysig; ac o'i ddeall, dysgwylid iddynt gyrhaedd mwy o fedrusrwyd yn yr iaith, a thrwy hynny allu o honynt addysgu y bobl yn amgenach. Dysgu yr athrawon oedd bwriad y Dr. Rhys; a gadewid iddynt hwythau daenu gwybodaeth ym mhlith y werin, a hynny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.]

† 'To the r. wor. Sr. Edwarde Stradlinge, Knighte.

'My duty remembered to your wor. You shall understande that I am come home; but noe sooner came but that Mr. Justice Walter, hearing that shortlie I was to departe from London, and leavinge one at Brecknock to solicit my hastie repayre to him to Ludlow: upon this ocaicon, and for that hee is the Justice of Assise in this circuyth, and to be kept in hand for manye purposes, I am going this daie to Ludlowe, havinge a farr greater desire (as God knoweth) to restore to my Mæcenas. But after my return from Ludlowe I will (through God's grace) be shortlie there. The cause of my longe tarynge in London was for the sure setlinge and placinge of the bookes, and pusinge every one of them, sheete by sheete, that noe impfection might be founde in them: which sheets in xii hundreth and odd bookes growe to a greate number and a tedious pusall. Of these bookes the Queen Matie hadd one, my Lorde Tresorer* another, and my L: of Essex the thirde, for that these three hadd just cause to have consideracon of this excellent language. From the Queen I know not what aunswere was hadd, for that I came away before I spake with Mrs. Skudamore, whoe did deliver the booke; but at the cominge of Mr. Skudamore† to Home-Lasye I shall knowe. There is more worshipfull speeches concerning your selfe about the settinge foorth of that booke then about any one thinge that ever you dyd in your life. And thus, with my humble dute to yor selfe and to your singular good ladye, and hartye comendacons to Mr. John Stradlinge, I beseeche God to blesse and save you all. Brecknocke, this xiith of Julye 1592.

Yor wor to comaunde during liffe,

JOHN DAVYS.'

* Lord Burleigh.

* Yr oedd John Skudamore, o Hom-Lacy, yn foneddig gwastrawd i'r Frenines Elisabeth, a gwnaed ef yn farchog, ac yr oedd yn un o'r aelodau dros sir Henffordd mewn pum eisteddiad seneddol gwahanol yn y teyrnasiad hwan. Yr oedd y foneddiges Skudamore yn un o ff.riaid y frenines.

ym mherchenogaeth Syr Edward pan y bu farw, ac yn cael eu trefnu yn fanwl ganddo yn ei lythyr cymmyn, onid hanner cant i'r awdwr. Amserwyd yr ewyllys hwn y 10fed o Fai, 1610.*

Dywed Prichard mai prif amcan yr awdwr oedd rhwyddhau y bobl gyffredin i ddeall yr Ysgrythyrau, y rhai a gyfieithasid yn ddiweddar i'r iaith Gymraeg. Y mae rhai wedi casglu oddi wrth y dywediad hwn o eiddo Mr. Prichard, fod y Dr. Rhys wedi cofleidio crefydd y Diwygiad, sef Protestaniaeth, ac felly, fel y gwelwyd, y barnai hanesydd enwog sir Frycheiniog: ond y mae Charles Dod yn ei gyfrif ym mhlith y Pabyddion Seisonig.† Yn wir y mae y llyfr ei hun yr un ammhriodolaf i'w roddi yn nwyllaw y cyffredin, er hyrwyddo deall yr Ysgrythyrau, o bob un a ellid meddwl am dano; canys pa rwyddineb i'r cyffredin a wnai llyfr sy gan mwyaf o lawer yn Lladin? Gall, ar yr un pryd, ei fod yn Babydd lled gymmedrol, er bod rhai pethau ereill yn arwain i dybio mai H. Prichard a Theo. Jones sy gywir; canys yr oedd mewn parch mawr gan deuluoedd gwir Brotestanaidd Cymru, megys Gwilym Ganoldref, am yr hwn y dywed yn olysgrifen rhyw esiamplau o englynion:—'Yr Eghlynion vchot a dherbynnaid gann bhy hên Annwyliaid a'm' Cybhwladwr Gwylim Genoldrebh [Captain Midleton] o Swydh Ddimbech.' Yr oedd hefyd ei noddwr o Gastell St. Donat's, wedi cofleidio Protestaniaeth, ac yn amddiffynwr a noddwr galluog i'r Brenin Siarl I, yn y rhyfel gwladol. Ymddengys mai dyben y Dr. Rhys oedd dwyn rhagoriaethau yr iaith Gymraeg i sylw dysgedigion, trwy gyfrwng yr iaith Ladin, yr hon a ddeallid gan agos bawb y pryd hyny a honent ryw hawl o gael eu hystyried yn fedrus ar lyfrau. Yr oedd Syr Edward Stradling, noddwr diweddaf y Dr. S. D. Rhys, yn ysgolhaig enwog ei hunan, ac yn fardd. Y mae llinellau Lladin o'i eiddo yn gyssylltedig â'r Gramadeg;‡ a chyhoeddwyd llyfryn o'i 'Epigrammata'—Englynion—yn y fl. 1607, lle y mae un Lladinaeg o ganmoliaeth i'r Dr. Rhys a'i waith. Yr oedd y Syr Edward o'r

* 'Item, whereas there were printed at my expence twelve hundred and fifty British Grammars, I do give fifty of them ready bound to my friend Mr. Doctor Davys, the author of them; and my will is that the rest of them shall be given and bestowed from time to time by my cousin, Sir John Stradling, upon such gentlemen and others as he shall think fit, for the advancement of the British tongue.'—Traherne's *Stradling's Letters*. *Temp. Qu. Eliz.*

† Dod's *Church History of England*, o'r fl. 1500 i 1688, yr hwn a gyhoeddwyd yn Brussels, yn 1742.

‡ ['Ioan.' (= *Ioannes*, Ioan) Stradling sydd yn anerch y Dr. Rhys yn nechreu y Gramadeg. Syr Ioan neu John Stradling ydoedd fab i Ffransis Stradling, a cheifder i Syr Edward Stradling. Ganed ef yn 1563, a bu farw Medi 11, 1637. Ei gyhoeddiad cyntaf oedd—'*De Vita et Morte contemnenda*' (Splyg, Ffranceffort ar y Main, 1597). Yn 1607 ymddangosodd ei '*Epigrammatum Libri quatuor*' (Splyg, Llundain); yn 1623, '*Beati Pacifici*' (4plyg, Llundain); yn 1625, '*Divine Poems*' (4plyg, Llundain). Urddwyd ef yn farchog yn 1608, ac yn farwnig yn 1611. Ar farwolaeth Syr Edward Stradling yn 1609, daeth i feddiant o drefntadaeth y teulu, ac ymsefydlodd yn Sandunwyd. Oliannwyd ef gan ei fab Edward; a mab arall iddo ydoedd y Dr. George Stradling, yr hwn a fu farw yn y fl. 1688. Os yn y fl. 1609, megys y dywedir, y bu farw Syr Edward Stradling, nis gall ei lythyr cymmyn fod wedi ei amseru ar y 10fed o Fai, 1610; ac nis gallasai yr un gwr fod yn amddiffynwr i Siarls I, gan na ddechreuodd y penadur hwnw deyrnasu hyd y fl. 1625.]

blaen—ewythr i'r uchod—yn enwog fel ysgolhaig Cymreig, a dywedir iddo yntau ysgrifenu Gramadeg.

Teulu Normanaidd ydoedd y Stradlingiaid, yn deilliaw o Wiliam de Esterling, un o'r deuddeg marchog Normanaidd, rhwng pa rai y rhanwyd Morganwg, yn y gwrthryfel â Rhys ab Tewdwr; ond yr oeddynt wedi cymmysgu cymmaint â theuluoedd Cymreig y Dywysogaeth, nes eu bod wedi naturioli i'r wlad a'r genedl. Y maent yn awr wedi hollol ddiflanu, oddi eithr y waedoliaeth a honir gan deuluoedd a briodasant ferched y Stradlingiaid.*

1593.

[Yn llawysgrif yr awdwr, yn gystal ag yn yr erthyglau a ymddangosasant yn y *Traethodydd*, gosodir 'Egluryn Ffraethineb' Salsbri a Perri o dan y flwyddyn hon: ond gan mai yn 1595 yr argraffwyd ef, symmudwyd ef oddi yma, a chofrestrir ef o dan y flwyddyn hòno.]

1. 'Bardhoniaeth neu Brydydhiaeth, y Lhyfr Kyntaf. Gan Capten William Middleton. Thomas Orwin a'i Printiawdh yn Llundain. 1593.' 8plyg.†

Mab ydoedd WILLIAM MIDDLETON i Richard Middleton, o Ddinbych, a brawd i Syr Hugh a Syr Thomas Middleton. Efe a ymgymerodd â morwriaeth, ac a wasanaethodd yn llynges y Frenines Elisabeth yn erbyn yr Yspaeniaid. Y mae y gwaith uchod yn cael ei alw 'Y Lhyfr Kyntaf,' fel pe buasai ei fryd ar gyhoeddi ychwaneg. Dywedir mai efe, gyda'r Cadben Thomas Prys, o Blas Iolyn,‡ ac un Cadben Koet, a fygasant *dybacco* gyntaf yn gyhoeddus yn Llundain. Yr oedd y Llundainwyr yn ymdyru o bob parth i'w gweled.§ Nid oedd pibellau i'r pwrpas hwnw wedi eu dyfeisio eto; ac felly yn ddail wedi eu cordeddu yr arferent ef, yn debyg i geglys neu *sigars* yn yr oes hon.||

2. 'Grammatica Britannica in usum linguæ studiosorum succinctâ methodo et perspicuitate facili conscripta, et nunc primum in lucem edita. Henrico Salesburio, Denbighiensi, autore.' Londini, 1593, 8vo.

* *Cambrian Plutarch*, p. 310; *Colyn Dolphin*, pp. 99—104.

† Dŷry Ritson ei enw yn Lladin fel hyn:—'Bardoniaeth, sive De Arte Poëseos Cambro-Britannicæ (Auctore G. Middleton). Londini 1593.'

[Ymddangosodd ail argraffiad o'r gwaith hwn yng nghysswllt â 'Flores Poetarum Britannicorum' yn 1710. Gweler rhif 5, dan y flwyddyn hòno.]

‡ *Gwyllyedydd*, Mai, 1833, t. 153.

§ Pennant's *Tours in Wales*.

|| [Gweler hanes pur gyflawn am Wilym Ganoldref, ac ereill o'r Miltwniaid, yng *Nywaith Gwallter Mechain*, ii. 431.]

Nid yw y llyfr wedi ei rifo yn dudalenau, ond arwyddion y papyr-
leni yn unig, yn cyrhaedd i len K. Argraffwyd hwn yn Llundain
gan Thomas Salesbury, er mai HENRY SALESBURY o Ddinbych oedd
yr awdwr, a'r hwn a anwyd yn Dôl Belider, yn y fl. 1561, a'r hwn
oedd yn gangen o'r Salesburiaid o Leweni, a châr i William Sales-
bury. Yr oedd wedi cael ei raddio yn B.C. ym Mhrifysgol Rhyd-
ychain; ac astudiodd ac arferodd feddyginiaeth. Y mae ei lyfr
hwn yn gyflwynedig i Henri, Iarll Penfro. Yn ei lythyr at y
darllenydd, yr hwn sydd yn Seisonaeg, efe a ddywed, fod 'amrai
bethau da ereill yn barod i'r wasg, megys y *Testament Brytanaid*,
wedi ei ddiwygio yn ddiweddar gan Esgob Llanelwy.' Mynega
Ames* ddarfod i Morgan edrych dros Destament Salesbury,
a'i ddiwygio ym mhellach, a'i fod yn barod i'r wasg pan fu
farw. Mae yn debyg mai at hwnw y cyfeirir uchod, oddi
eithr y meddylir am waith arall a adawodd yr awdwr ar ei ol, sef
Geirlyfr Cymraeg a Lladin, a'r hwn a fwriadai ei argraffu, pan y
gelwid am argraffiad newydd o'r Gramadeg. Yr oedd rhagddalen
y llyfr bwriadol hwnw yn rhedeg fel hyn:—'Geirfa Tafod Cymraec:
hoc est, Vocabularium Linguae Gomeritanæ, sive vocum antiquitas
Britannicarum ferme omnium, una cum Latinis quibus explicantur,
Commentariolum per Henricum Salesbury. Cui accessit ejusdam
Linguae Grammatica ab eodem authore olim edita, jam denuo
recognita, ad limam revocata, et pluribus locis adaucta, cum rerum
et locorum insignium locupletissimo Indice.' Dywedir gan Wood
i'r Geirlyfr hwn, yn anorphenol, ddyfod i law y Dr. Davies o Fallwyd,
ac iddo wneyd defnydd mawr o hono yn ei waith ei hun, pan y
dywed ereill, fod ynddo lawer o eiriau nad ydynt gan Davies.†
Ond ymddengys mai nid yn anorphenol y gadawyd yr ysgrif, am y
dywed yr Esgob Humphreys fod copi perffaith o'r ysgrif ganddo ef.‡

Gan ddyfod o honof eto ar draws y Salesburiaid, gellir hysbysu
yma, ddarfod, yn y gwrthryfel rhwng y Frenines Elisabeth a Mari
o Scotland, i un Thomas Salesbury ac Edward Jones, gyda phump
ereill, gael eu profi am deyrnfradwriaeth, sef pleidio hawl Mari i'r
orsedd yn lle Elisabeth, ac iddynt gael eu crogi ym Meusydd St.
Giles, ger Llundain, Medi 21fed, 1586. Ar y 10fed o Fai, 1644,
dechreuwyd cyhoeddi papyr Whigaidd, o'r enw '*Flying Post*,' a'r
argraffydd oedd John Salesbury, yr hwn a elwir gan Dutton, y
'*desperate hypergergonic Welshman*.'§

3. ['*Philadelphus, or a Defence of the Brutes and the Brutans*.
By Richard Harvey.' London, 1593, 4to.]

* *Typographical Antiquities*.

† [Nid oes anghyssondeb yn y ddau ddywediad. Gallasai Davies adael
bagad o eiriau Salsbri allan er mwyn byrder, megys y gwnaeth â Geirlyfr
Lladin y Dr. Th. Williams.]

‡ Wood's *Athenæ Oxonienses*, vol. i. pp. 226, 754; Bishop Humphreys's *Additions*
to the same; Williams's *Dict. of Eminent Welshmen*.

§ *Dictionary of Printing and Printers*.

1594.

‘Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr. Gan Esgob Jewel, wedi ei gyfieithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin, o’r Glasgoed, Llansilin.’*

MORUS KYFFIN neu CYFFIN, oedd fab hynaf i Richard Kyffin, Ysw., o’r lle uchod. Yr oedd yn fardd da, ac y mae cryn lawer o’i waith ar gael. Dywed yn ei Ragymadrodd y bwriadai droi y Salmu ar gân, yr hyn, er hyny, ni chwblhawyd. Cyfrifir y gwaith hwn fel yn un o’r esiimplau goreu o gystraweniad pur Gymreigaidd sydd yn yr iaith.†

[Yr awdwr, JOHN JEWEL, a aned ar y 24ydd o Fai, 1522, yn Buden, yn mhlwyf Berri Nerber, yng ngogledd Dyfnaint. Pan yn dair ar ddeg oed anfonwyd ef i Rydychain, pryd yr aeth yn aelod o Goleg Corff Crist (Coleg Merton, yn ol ereill). Cofleidiodd yn fore athrawiaethau y Diwygiad. Pan esgynodd Mari i’r orsedd, gorfu arno ef, fel llawer ereill, ffoi i’r cyfandir; a bu am beth amser yn Ffrancffort, ac wedi hyny yn Strasbwrg: ond pan ddechreuodd Elisabeth deyrnasu, dychwelodd yn ol i Loegr. Yn y fl. 1560 gwnaed ef yn Esgob Salsbri; ac yno yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hwn a ddygwyddodd ar y 22fed o Fedi, 1571. Ysgrifennodd lawer yn ei ddydd, yn enwedig ar y dadleuon cyffredin yn ei oes rhwng y Protestaniaid a’r Pabyddion; ac y mae ei ysgrifeniadau mewn bri a chymmeradwyaeth hyd y dydd heddyw. Ymddangosodd ei ‘Apologia Ecclesiae Anglicanae’ y tro cyntaf yn y fl. 1562, a buan y cyfieithwyd y gwaith nid yn unig i’r Gymraeg, ond i amryw o ieithoedd y cyfandir; a dywedir i’r llyfr hwn, yr hwn sydd wedi ei ysgrifenu mewn Lladin goeth, wneuthur mwy o les i achos y Diwygiad nag un gwaith a gyhoeddwyd yn yr oes hono. Nid yw eto wedi myned allan i’r amser; ond cyfrifir ef yn un o’r amddiffyniadau goreu o Eglwys Brotestanaidd Lloegr a ymddangosodd erioed. Casglwyd gwahanol gyfansoddiadau yr Esgob Jewel mewn un gyfrol unplyg yn 1609; a chymmaint oedd y parch i’w ysgrifeniadau yn yr amser gynt, fel y gosodid un neu chwaneb o’r llyfrau hyn mewn amryw o’r eglwysi, fel y gallai y plwyfolion ddyfod yno i’w darllen; a cheir rhai o’r cyfrolau hyn hyd heddyw mewn ambell eglwys wedi eu cadwyno wrth y ddarllenfa. Dywedir ei fod yn enwog am ei hynawsedd, purdeb ei fuchedd, ei dduwioldeb, a’i ddysgeidiaeth.]

1595.

1. ‘Egluryn Phraethineb, sef Dosparth ar Retoreg, un o’r saith gelbhyddyd yn dyscu lhuniaeth ymadrodd a’i pherthynasau. A dhechreuwyd gan Mr. William Salesbury, a anghwanegwyd ac

* Yn ol Moses Williams. [Rhagddalen y gwaith hwn, yn gywirach, sydd yn y wedd ganlynol, yn ol fel y mae ar ddiwedd y Rhagymadrodd i’r ail argraffiad, gan na welais mo’r argraffiad cyntaf:—‘Defyniad Ffydd Eglwys Loegr: lle y ceir gwled, a gwybod, dosparth gwir Grefydd Crist, ac anghywirdeb Crefydd Eglwys Rufain. Wedi ei gyfieithu o Ladin, yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin.’ Cyhoeddwyd ail argraffiad o’r gwaith yn Rhydychain yn y fl. 1671, dan olygiad Charles Edwards, awdwr *Hanes y Ffydd*; trydydd argraffiad yn y Bala yn 1808, gan y Parch. T. Charles; a 4ydd argraffiad yn Llundain yn 1849, gan y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol. Er bod y Rhagymadrodd wedi ei amseru—‘O dref Lunden ym-Mis Hydref. 1594,’ ymddengys mai yn 1595 y cyhoeddwyd y gwaith;* ac felly y mae yr awdwr wedi ei ragamseru wrth ei osod dan y flwyddyn hon.]

* Williams’s *Eminent Welshmen*, d.g. ‘Morus Kyffin.’

† Williams’s *Eminent Welshmen*.

a orphenwyd gan Mr. Henri Perri, drwy draul Syr Sion Salisbury o Leweni sir Dhinbych. Printiedig gan Ioan Dantes, yn Lhundain. 1595.'

Yr oedd y gwaith wedi ei gyfansoddi er y fl. 1580; ond ni ddeallir iddo gael ei argraffu y pryd hyny. Yr oedd HENRI PERRI, neu yn hytrach Henry Parry, yn enedigol o'r Maes Glas, yn sir Fflint. Yr oedd yn dal o bryd i bryd amrai ddyrchafiaethau eglwysig—yn ganon yn Eglwys Gadeiriol Bangor, yn berson Llanfachraith a Rhoscolyn; a dywedir ei fod yn meddu Trefdraeth yn 1606—oll yn sir Fon. Yr oedd hefyd yn gapelwr, neu weinidog teuluaid, i Syr Richard Bulkeley, o'r Baron Hill, yn yr ynys hono. Bu farw, tybygid, tua'r fl. 1617.* Y mae yn nechreu y llyfryn hwn enwau deuddeg neu ychwaneg, o wŷr dysgedig, yn gosod allan ei glod, mewn ffordd o englynion a llinellau canmoliaeth—rhai yn Seisenaeg, rhai yn Lladin, a rhai yn Gymraeg. Argraffwyd ef hefyd ddwywaith yn y ganrif bresennol.†

2. 'Perl mewn Adfyd, neu, Perl ysprydawl, gwyrthfawrocaf, yn dyscu i bôb dyn garu, a chofleidio y groes, meis peth hyfryd angenrheidiawl ir enaid, pa gonffordd sy yw gael o honi, ple, ac ymha fodd, y dylid ceisiau diddanweh, a chymorth ym hob adfyd: a thrachefn, pa wedd y dyle bawb i ymddwyn i hunain mewn blinder, yn ol gair duw, a esrifennwyd yn gyntaf mewn Dwitich gann bregethwr dyscedig Otho Wermulerus, ac a droed i'r Saesonaeg gann D. Miles Coverdal, ac yr awrhon yn hwyr ir Gembraeg gann. H. L.

Joseph Barnes a'i printiodd yn Rhydychen. 1595.' 12plyg.

Gwr o Landdeiniolen, yn sir Gaernarfon, ydoedd HUGH LEWIS.‡ Mae yn debyg mai yr argraffydd ydoedd un Joseph Barnes;§ yr hwn oedd yr unig argraffydd yn Rhydychain, o'r fl. 1585, yr hwn oedd yn argraffydd i'r brifysgol o'r amser hyny hyd y fl. 1617.|| Y 'D. Miles Coverdal' ydoedd y Dr. Miles Coverdale, golygydd argraffiad Testament Tindal, a'r argraffiad cyntaf o'r Beibl Seisong yn y fl. 1535. Mae yn debyg mai pan oedd yn Holand yn achos argraffu yr Ysgrhythrau, y cyfieithodd ef y gwaith, gan fod Cuth-

* Jones's *History of Breconshire*; ac A. Llwyd's *History of Mona*, pp. 360, 391.

† [Yn Llundain, dan olygiad y Dr. Owain Pw, yn 1807, 8plyg; ac yn Llanrwst yn 1829, 12plyg.]

‡ *Great*, 1805, t. 106.

§ [Nid oes ammheuaeth am hyn; canys dywedir ar y rhagddalen mai 'Joseph Barnes a'i printiodd.' Rhoddir yr enw yn gyflawn, allan o gyfargraff ym meddiant y golygydd; ond yn y cyfryw gyfargraff y mae darn bychan o'r argraffeb ar goll.]

|| *History of Printing*, London, 1770, p. 127.

bert Tonstal, Esgob Llundain, wedi gwahardd eu hargraffu yn y deyrnas hon, a llosgi cymmaint ag a gawsid wedi eu hargraffu.*

['Hv w Lewys' yr ysgrifena y cyfieithydd ei enw ar ddiwedd y cyflwyniad 'Ir Gwir Barchedic, ar Anrhydeddysaf Wr, Richard Vychan, Doctor o Ddiviniti, Archiagon o Fydlesex'; i'r hwn y dymunir 'rad a thangneddyf Ynghrist Jesu.' Heb law y llythyr cyflwyn at y Dr. Vaughan (Esgob Llundain wedi hyn), yr hwn a gynnwys 9 tudalen, ceir yn rhagarweiniol i'r gwaith wyth o Englynion 'At yr vnrhyw wr,' y rhai a lofnodir 'Hv : Lewys'; ac anerch o 9 tudalen 'Ir Darllennydd Christnogaidd rhad a thangneddyf Ynghrist'. Y mae oll, ond yr arweinolion hyn, wedi ei argraffu mewn llythyr-en ddu led brydferth; a gwna yr awdwr, ar ddiwedd ei anerch 'Ir Darllennydd', y sylw canlynol o barth i'r llythraeth :—' Na feia am nad oes (y) ymhob mann o flaen (n) ne (r) lle i dyle fod, canys ni alle y printiwr wneuthyr angen, am nad oedd ganthaw cymaint ac oedd angenrheidiol or llythrennae hynny : ac felly cymer y (d') yn lle y (dd) ac (l') yn lle (ll) ac os damwainiodd i vn llythyr en ne i air fod allan oi le, meddwl mae Saeson ai printiodd, 'rhai oeddynt anghyfarwydd yn yr iaith. cymer bob peth mewn rhann dda, a thi am anogi i, ag eraill hefyd, i gymeryd poen mewn pethau eraill o hyn allan, drosot. yn iach.'

Gyda golwg ar y dull y cyflawnodd ei waith, llefara y cyfieithydd yn y wedd ganlynol :—' Bellach i bwysaw at ddiwedd : na fid rhyfedd, na chwith genyt, paham yr henwais y llyfr hwn yn berl, (gann mae gair Saesonaeg yw perl) nid wyf yn gwneuthyr yn hynn ond fal y gwnaeth fyngwell om blaen, canys darllain y trydydd pennod ar ddeg o Efangyl Sainet Mathew, yn y 45. ar chweched wers a deugain, a thi a gai yr vn gair. Heb law hynn, oni chanlhynais, fy Awdur air yngair, na feddwl wneuthyr o honof ar fai : canys weithieu (yr wyf yn cyfaddef) mi a rois lai, weithieu eraill, mi a rois fwy nac sydd yn y llyfr Saesonaeg, ond cofia beth o ddywaid y Bardd llatin *non verbum reddere verbo, Curabit filius interpret.* my-fi a wneuthym yr hyn a dybais fod yn oreu ar dy les.']

1597.

¶ 'Acte for the repairing of the Bridges of New Port and Carlion, in the Co. of Monmouth, 1597; Acte for the erectinge a Bridge over the River Wye, at Wilton, neere Y^e Towne of Rosse, in Co. Hereford.' (With a great meny of the ancient Acts of Parliament passed in Q. Elizabeth's time.) 'Imprinted by C. Barker, 1597.'

Y mae wedi ei argraffu â llythyrenau Brytanaidd, neu Dduon.

1599.

'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, ac eraill Gynneddfau a Ceremoniau yn Eglwys Loegr.

Printiedig yn Llundain gan Ddeputiaid Christopher Barker, Printiwr i ardderchoccaf Fawrhydi y Frenhines, 1699.'

1600.

1. 'Darmerth, neu Arlwy Gweddi, a ddychymygwyd er mawr dderchafiad Duwioldeb, ac i chwanegu Gwybodaeth ac Awydd yr annysgedig ewyllysgar i iawn wasanaethu'r gwir Dduw. Gan Robert Holland, gweinidog gair Duw, a Pherson Llan Ddeferowg, yn sir Gaerfyrddin.' [Rhydychain, 4plyg.]

* *History of Printing, 1770, p. 66.*

Dywedir mai 4plyg oedd y llyfr hwn, ac iddo gael ei argraffu yn Rhydychain. Y lle a gam-elwir 'Llan Ddeferowg' a ddylasai fod yn *Llanddowror*.

[Adroddir chwedl led hynod yn y *Liber Landavensis*, t. 120, 121, yng nghylch tarddiad enw y lle hwn. Yr oedd yn byw yn ardal Deugleddyf, ym Mhenfro, yn amser Teilo Sant, wr o'r enw Cynwain, yr hwn oedd yn hanu o deulu pendeigaidd, ond yr oedd wedi syrthio i ddirfawr angen a thlodi, o herwydd lluosogrwydd ei blant, o'r rhai y genid iddo un bob blwyddyn. Gwedi ymgynghori o'r tad helbulus â Sant Teilo yng nghylch ei deulu nifeiriol, a derbyn ei gynghor, ond heb ei ddilyn ond mewn rhan yn unig, penderfynodd fodd y plant, neu eu rhoi i fyny i'r sant, os gofalai ef am danynt. 'Fel yr oedd Sant Teilo un tro yn dyfod heibio ar ddamwain y ffordd hōno, efe a ganfu y tad yn Rhyd Sinedig, ar lan yr afon Taf, o dan gynhyrfiad y diafol, yn suddo y plant o un i un yn yr afon i'w boddi; o achos ei dlodi a'i angenoetyd. Pan welodd Sant Teilo y fath anfadwaith, derbyniodd hwynt oll yn adfyw, ac wedi rhoddi diolch, bedyddiodd hwynt yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. Gwedi cymmeryd ymaith y saith mab oddi wrth y tad anffodus, dygodd y sant hwynt i fyny, anfonodd hwynt i astudio llenoriaeth, a gosododd hwynt i fyw ar ei dir ei hun yn Llandeilo [fel y gelwid y fan y pryd hwnw]; ac felly derbyniodd y lle oddi wrthynt hwy yr enw *Llanddyfrgwyf*, o herwydd, o achos eu buchedd grefyddol, nid oedd iddynt un ymborth ond pysgod dyfrol, y rhai, yn ol eu rhifedi hwynt, sef saith, a anfonid iddynt gan Dduw yn feunyddiol, ar gareg yn yr afon Taf, yr hon, o herwydd hyny, a alwyd Llech y Myneich. A thrachefn, gelwir hwynt *Dyfrgwyf*, am eu cael yn y dwfr, eu dianc o'r dwfr, a'u cynnal gan bysgod o'r dwfr. *Dwfrgwyf*, yn yr iaith Frythoneg, sydd yn arwyddo *aquatici viri*.'

Yn ol y ffuglith yma, yr hon yr ymddengys fod rhyw faint o sail iddi, iawn enw y lle yw *Llanddyfrwyf*, yr hwn yn ddigon hawdd a lygrwyd yn *Llanddowror*. Mewn cyfeiriad at yr un chwedl, sonir am yr un lle mewn man arall o'r un llyfr (t. 74), dan yr enw '*territorium Aquilentium*,' h.y. tiriogaeth y *Dyfrwyf*. Saif Eglwys Llanddowror ar lan yr afon Taf, o ddeutu deng milltir i'r de-orllewin o Gaerfyrddin, ac ar gyffiniau swydd Benfro.]

2. 'The Golden-Groue Moralized, in three Books: a work very necessary for all such as would know how to gouverne themselves, their houses, or their countrey. Made by W. Vaughan, Master of Arts, and Student in the Ciuil law.

Printed at London, by Simon Stafford, dwelling in Aldings hill, 1600.' [8vo.]

Y mae y 'Golden-Groue' hwn wedi ei gyflwyno i frawd yr awdwr—sef Syr John Vaughan, Marchog [Iarll cyntaf Carberi], o'r Golden-Grove, sef y Gelli Aur, yn sir Gaerfyrddin.*

3. ¶ 'Rent Rolls of the Lands of Edward Price, Newtowne, called Renty Penathe, sometime purchased by John Price from Edward Herbert.'

Unplyg, wedi ei argraffu ar groen, yw hwn.†

1601.

1. ¶ 'The Passionate Poet: with a Description of the Thracian Ismarus. By Thomas Powell, a Cambrian.

London, V. Simmes. 1601.'

* *Llythyr* J. Joseph, Ysw., F.S.A. [Am yr awdwr, gweler Williams's *Eminent Welshmen*, d.g.]

† J. R. Smith's *Old Book Circular*.

Llyfryn o 26 dalen 4plyg ydoedd. Gwerthwyd un ail law unwaith am 4*p.* 6*s.*

[*Ismarus* sy fynydd yn Thracia, ger llaw aber yr afon Hebrus, yn llawn o winlanoedd hyfryd. Nid ymddengys fod un berthynas rhwng y llyfryn hwn a llenoriaeth Cymru, ond yn unig ei fod yn waith Cymro.]

1602.

¶ 'Giraldi Cambrensis Cambriæ descriptio. By W. Camden.'

Unplyg. Ail argraffiad.* [Cymh. rhif 4, d.f. 1603.]

1603.

1. 'Psalmæ y Brenhinol Brophvvyd Dafydd, gwedi i cynghanedhu mewn mesurau cymreig. Gann Gaptten Wiliam Middelton. Yn nesaf y galloddh at fedhwl yr Yspryd glân.

Simon Stafford a Thomas Salisbury a'i printiodhyn Llundon. 1603.' 4plyg.†

Soniwyd o'r blaen am Thomas Salisbury a'r Cadben Middleton.‡ Pa bryd y dechreuodd ar y gwaith uchod, ni wyddys, ond tystia â'i law ei hun, ar ddiwedd y Salm olaf, iddo ei orphen y 24ydd o Ionawr, 1595, mewn ynysig yn yr India Orllewinol. Yr oedd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi o dan anfanteision anferth—yng nghanol prysurdeb a bloddest byddin ryfelawg, yng nghanol tân a mwg, a thrwst brwydrau, y môr a'i ryferthwy. Yr oedd yn orchest o'r mwyaf iddo allu gwneyd, ac iddo droi ei feddwl erioed at y fath beth, yn y fath le, ac ar y fath amser. Cyhoeddwyd ail argraffiad o hono yn y fl. 1827, ac awgryma awdwr y Rhagymadrodd i hwnw—'Pe buasai yr awdwr byw i gyhoeddi ei Psalmau ei hun, y mae sail i gredu yr ymddangosasant mewn amgenach diwyg, o barth geiriau anghyfiaith; ac fe allai y buasai i rai o'r Psalmau gael eu cynghaneddu ar fesurau *Dyri*, ac am hyny yn fwy addas a defnyddiol i'w canu mewn addoliad crefyddol.'§ Yng nghylch *pymtheg* o bedwar mesur ar hugain Dafydd ab Edmwnnt, a elwir Dosbarth Caerfyrddin, a ddefnyddiodd yr awdwr ar y Salmuau,

* Gwel rhif 3, d.f. 1585.

† [Y mae yn argraffedig yn y llythyren ddu, a chynnwys 287 o dudalenau, heb law y llythyr—'To the Reader'—yr hwn a lofnodir gan 'Thomas Salisbury.']

‡ Gwel rhif 1 a 2, d.f. 1593 [a rhif 2, d.f. 1603].

§ [Golygydd yr ail argraffiad ydoedd y Parch. Walter Davies (*Gwallter Mechain*); a'r cyhoeddwr, Mr. Robert Jones (*Bardd Mawddach*), argraffydd, y pryd hwnw yn Llanfair Caereinion. Pe na buasai gan y Cymry un cyfieithiad ond hwn o'r Salmuau, prin y gallasant dderbyn nemawr yn fwy o les oddi wrthynt na phe gadawsid hwynt yn yr Hebraeg gyssefin. Amcanodd y cadfardd yn dda, ac ymgniodd yn galed i ddwyn yr amcan i ben; ac am hyny teilynga barch ei gyd-genedl: ond am wneuthur gwir ddaioni i werin Cymru trwy gyfrwng y fath wag orchest, mae yn syn i neb anwesu y meddwl fod y fath beth o fewn cylch tebygolrwydd.]

ac yng nghylch *tri ar ddeg* o rai ereill, a eilw efe yn *ofer fesurau*; ac ni allesid doddi arnynt enw cymhwysach. Mae ei gynghaneddion yn fynych yn wael ac anamlwg; ac am aceniad rheolaidd, ni wiw braidd edrych am dano. Y mae y dull yn gaeth ac afrwydd yn gyffredinol, a'r caethder hwnw yn cael ei chwaneu rai gweithiau, trwy gadw at yr un brifodl drwy y Salm i gyd, megys yn *Salmau* ix, xx, xlvii, xlvi, lxi, &c.; yr hyn, er ei fod yn mwyhau yr orchest, sydd yn peri fod y gân yn unffurf a diflas, ac nid yw yr orchest o ddim gwerth.*

Gellir chwaneu fod amrai Gymry yn gwasanaethu ar longau y frenines y pryd hyny, pan oedd rhyfel rhwng y frenines a Spaen. Mewn ysgrif o farddoniaeth, o gasgliad y Parch. Mr. Bulkeley, o'r Bryn Du, ym Mon, y mae cân o 'Hanes Bagad o Gymry, a aethant yn amser y Frenines Elizabeth, trwy ei gorchymmyn hi, i'r Gorllewin India, i ddial ar, ac i anrheithio'r Hispaenwyr.' Golygiedig gan y Cadraglaw Peilyn, 1570. Enwau y Cymry yw, 'Captain Belings, Captain Roberts, a Lieutenants *Salisbury* a Peilyn, Sergeant Hughes, Hugh Middleton.'

2. 'Rhann o Psalmae Dafydd Brophwyd, Jvv canu ar ôl y dôn arferedig yn Eglwys Loegr.

Simon Stafford a'i Printiodd yn Llundon dros T. S. 1603.' 4plyg.

Y T. S. yma oedd Thomas Salisbury, yr hwn a gyhoeddodd gynghaneddiad William Middleton o'r Salmau. Y mae iddo Ragymadrodd yn Gymraeg gan Edward Kyffin. Tair Salm ar ddeg a gynnwysir yn y 'Rhann' hon. Diwedda y llyfr fel y canlyn:— 'Terfyn ar hyn: hyd oni threfno Duw Gymmorth ymhellach.' Efallai fod y ddau ddiweddaf hyn yn gyd-gyhoeddedig â'u gilydd, o blegid ceir hwynt yn gyd-rwymedig. Ymddengys mai Syr Thomas Salisbury, yr ail farwnig, o Leweni, ger Dinbych, oedd hwn, a mab Syr Henry Salisbury, a Hester, merch i Syr Thomas Middleton, Barg., o Gastell y Waen. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, a dywed Wood, gan fod ganddo awenyddiaeth, iddo ymarfer llawer yn y modd hyny. Efe a briodasai Hester, merch Syr Edward Tirrell, o Thorton, a bu farw yn 1643.‡

Dywed Morus Cyffin, o'r Glasgoed, Llansilin, mai 'gwaith rheidiol iawn fyddai troi y Psalmau i gynghanedd Gymraeg: nid i gynghanedd Englyn, nac Awdl, na Chywydd, nac i fath yn y byd ar gerdd blethedig; herwydd felly ni ellir troi na'r Psalmau na dim arall yn gywir. Eithr i'r fath fesur a thôn cynghanedd ag sydd gymmeradwy ym mhob gwlad a ddiwygiwyd trwy dderbyniad dysgleirdeb yr Efengyl: ac fal y gwelir yn y Seisonaeg, Scot-iaith, Ffrangaeg, iaith Germania, iaith Itali, a'r cyfryw; fal y gallo'r

* *Traethodydd*, 1852, t. 179.

† Llythyr H. Thomas at y Parch. P. B. Williams, yn y *Camb. Quart. Mag.* cyf. ii. t. 356. [Ymdeugys mai gwr lleyg, ac nid gwr llên, oedd 'William Bwlclai o'r Brynddu ym Mon, Esq.' Gwel y *Diddanwch Teuluaid*, arg. 1763, t. 111.]

‡ *Burke's Baronetage*.

bobl ganu i gyd ar unwaith yn yr Eglwys: yr hyn beth a fyddai ddifyrwech a dyddanwech nefawl iddynt yn y Llan a chartref.' Ychwanegai, 'Petai genyf y seibiant a'r hamdden sydd gan lawer, cyntaf peth a chwannocaf poen a gymmerwn i arnaf, fyddai tueddu at hyn o waith, ar ol cydsiarad â dysgedigion Cymru yng nghylch pa ddull ar gynghanedd a dybid oreu a chymmesuraf i hyn o dduw-ioldeb.*' Nid ydys yn deall i Morus Cyffin gael yr hamdden hõno, ond ymddengys fod un arall o'r teulu, ef allai brawd i Morus, o'r enw Edward Cyffin, â'i feddwl wedi ei droi y ffordd hõno, a'i ffrwyth yw y llyfr uchod. Y mae yn ei ragflaenu ragymadrodd— 'At fy ngharedigion wlâd-wyr y sawl a garant Ogoniant yr Arglwydd, ag ymgeledd eu gwlad-iaith,' a'r hwn sydd yn nodedig o ddymunol, ac yn terfynu,— 'Yr eiddoch i'w orchymmyn yn-Christ Iesu: Edward Kyffin.' Gan fod hwn wedi ei ddarlunio yn ddiweddar, a'r rhagymadrodd tlws hefyd wedi ei roddi ar yr un pryd, ni raid manylu yma.†

3. 'Itinerarium Cambriæ, &c. Frankfort, 1603.' Unplyg.

[*Rhan* (sef y 9fed) yw hwn o rif 4, sef y gwaith nesaf a gofnodir; ac ni ddylesid ei osod i lawr ar ei ben ei hun.]

4. 'Anglia, Normannica, Hibernica, Cambrica, a veteribus Scripta, Gul. Camdeno, Asserus Menivensis, de Æfredi rebus; Thomæ Walsingham, Hist. Ang.; Ypodigmæ Neusbriæ, per Tho. de Walsingham; Itinerarium Cambriæ Auctore Sylv. Giraldo Cambrense, cum annotationibus D. Povelii. Frankford. 1603.'

Gwahanol argraffiadau yw y rhai uchod o waith Gildas a theithiau W. Camden, gyda gwahaniaeth eglurhaol gan y Golygwyr. Cyhoeddwyd ef hefyd, gyda llawer iawn o chwanegiadau, yn 1806, o dan olygiad Syr Richard Colt Hoare, Barg. F.R.S., F.A.S.‡

[Yn y modd uchod, yn amryfus iawn, y rhoddir yr enw gan yr awdwr; ond, yn gywir, fel hyn y mae:—

'Anglica, Normannica, Hibernica, Cambrica, a Veteribus Scripta.'

Francofurti, 1602 & 1603, fol.

Cynnwys y gyfrol hon y mân weithiau canlynol, o'r rhai canfyddir fod amryw yn dal cyssylltiad â Chymru:—

1. 'Asser de Rebus gestis Ælfredi Regis.'

Adgyhoeddiad o argraffiad yr Archesgob Parker (y rhifyn d.f. 1574), gyda chyweirion. Gweler hefyd rif 11, d.f. 1722.

2. 'Fragmentum de Guilhelmo Conquestore.'

Darn wedi ei dynu allan o waith Ordericus Vitalis, mewn perthynas i farwolaeth y Goresgynydd.

3. 'Chronica Thomæ Walsingham quondam monachi S. Albani.'

Cyrhaedd y brud hwn o B.A. 1273 hyd 1422.

4. 'Ypodigma Neustriæ, per Th. de Walsingham.'

Detholion o waith ysgrifenywyr ereill yw hwn gan mwyaf oll.

* 'Anerch' M. Kyffin, o flaen *Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, 1594.

† *Traethodydd*, 1852, t. 243-45.

‡ Gwel 1590; 1602. [Gwaith gwahanol yw hwn i'r un a gofnodir d.f. 1590; ac nid oes dim a fydd â 'gwaith Gildas,' na 'theithiau Camden.' Gwaith *Giraldus* yn unig a gyhoeddwyd gan Syr R. C. Hoare yn 1806.]

5. 'Vita et Mors Edwardi II. Regis Angliæ, conscripta a Thoma de la Moor.'

6. 'Wilhelmus Gemeticensis de Ducum Normannorum gestis.'

7. 'Topographia Hiberniæ, auctore Giraldo Cambrense.'

8. 'Expugnatio Hiberniæ, sive Historia Vaticinalis Silvestris Giraldi Cambrensis.'

9. 'Itinerarium Cambriæ, seu Laboriosæ Balduini Cantuariensis Archiepiscopi per Walliam Legationis accurata descriptio, auctore Silvest. Giraldo Cambrense.'

Rhydd hanes am bererindod yr Archesgob Baldwin i Gymru i bregethu Rhyfel y Groes; a chynnwys ddarluniad o'r wlad, chwedlau, gwyrthiau, hanesynau, hanes anianol, a rhyw ychydig mewn perthynas i'r Croesodau. Cyd-deithiai Gerallt â'r Archesgob drwy Gymru ar yr achlysur hwn. Argraffiad diweddarach yw o rif 2, d.f. 1585.

10. 'Cambriæ Descriptio, auctore Sil. Giraldo Cambrense.'

Ymddangosasai hwn o'r blaen (rhif 3, d.f. 1585) dan olygiad y Dr. Powel. Cyflwynir y gwaith hwn o eiddo Gerallt i'r Archesgob Stephan Langton; ni chynnwys ond ychydig iawn o ddefnydd hanesol oddi eithr yr achau ar y dechreu, er mai hanesol y cyfrifir yr holl gyfrol y cyhoeddwyd ef ynddi.

Golygydd y gyfrol hon ydoedd Gwilym Camden, awdwr y 'Britannia;' a gelwir hi yn gyffredin, 'Casgliad Camden.'

5. ¶ 'An Ancient Survey of Pen Maen Mawr, North Wales, of the Time of Charles the First, containing curious notices of Priestholme, Aber, Penmaenmawr, and the ancient ruins, Conway, &c.'

[London, 1859, 8vo.]

Mewn hen lawysgrif yr oedd hwn hyd y fl. 1859, pryd y darfu i Mr. J. E. Adlard gyhoeddi argraffiad o 30 cyfargraff yn unig.*

[Mr. J. O. Haliwel a barodd argraffu yr hen weithyn hwn; Mr. Adlard oedd y cyhoeddwr.]

6. ¶ 'A Welch Payte to spare Provender: or, a Looking beake vpon the Time. By Thomas Powell. London, 1603.'

Llyfryn o 16 dalen 4plyg ydyw hwn.

1604.

1. 'The Genealogy of the High and Mighty Monarch James, by the Grace of God King of Great Brittain, &c. with his lineall Descent from North, by divers direct lines to Brutus, first Inhabiter of this Ile of Brittain; and from him to Cadwalader, the Last King of the Brittainish bloud; and from thence Sundry wayes to his Majesty; wherein is playnly shewed his rightfull Title, by lawfull Descent from the said Cadwalader; as well to the Kingdome of

* [Os yn y fl. 1859 yr argraffwyd y gwaith gyntaf, ni ddylasid ei gyflëu yma ym mhlith y llyfrau a argraffwyd yn nechreu y 17fed ganrif; o blegid cofres amseryddol o lyfrau argraffedig yw y gwaith sy genym mewn llaw. Ond y mae wedi ei gofnodi amryw flynyddoedd yn rhy gynnar, hyd yn oed gyda golwg ar amser ei gysfarsoddiad; canys yn y flwyddyn 1625 y dechreuodd Siarls I. deyrnasu; a rhaid mai rhyw amser wedi hyny y cafodd ei ysgrifenu. Torfynglwyd y brenin anffodus hwn, fel y gwyddys, yn y fl. 1649. Cymharer rhif 5, d.f. 1587.]

Brittaine, as to the Principalities of North-wales and South-wales; together with a briefe Cronologie of the memorable Acts of the Famouse men touched in this Genealogy, & what time they were. Where also is handled the worthy descent of his Majesties ancestour Owen Tudyr, and his Affinity with most of the Greatest Princes of Christenedome. With many other maters worthy of Note. By George Owen Hari, Parson of Whit Church, in Kemeis.'

[London, 1604, 4to.]

Y *Whitchurch* uchod a elwir yn Gymraeg Llan Tre' Howel,* yr hwn sy blwyf ger Solfach, yn eithaf gorllewin sir Benfro. Gelwir yr awdwr yn gyffredin yn GEORGE OWEN. Yr oedd yn dal sefyllfa urddasol yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi. Yr oedd hefyd yn berson Llanfilhangel [Penbedw]. Y mae Theo. Jones, yn ei '*History of Breconshire*,' a Fenton, yn '*History of Pembrokeshire*,' yn gwneyd defnydd mawr o'r awdwr hwn. Yr oedd yn awdwr gwaith arall, o'r enw '*The Well Spryng of True Nobilitie*;' ond ni ellais gael sicrwydd i hwnw erioed gael ei gyhoeddi. Efe a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw 'George Owen Harri,' ond efe ei hun a ysgrifennai, o leiaf felly yr arwyddodd linach ei achau i Lewis Dwnn, yn 1597, yn 'George Owen, Clerk,' ond yn yr achau geilw ei hun 'Georg. ap Owain, Person Penbedw a'r Eglwys Wen;' a'i dad oedd Owain ab Harri o Lan Elli, yr hwn yntau oedd fab i Harri ab Owain, o'r un lle, yr hwn oedd yntau yn fab i Owain ab Ieuan o'r un lle, ac yntau yn fab i Ieuan ab Henri ab Richart ab Gwhafet ab Einion ab Llywarch ab Cynhaethwy ab Gwrwared ab Seissyllt ab Rhun ab Llywarch ab Rhyrid ab Mor ab Pasgen, brenin Gŵyr, ab Urien Rheged, brenin Gŵyr.

2. 'Remains of a greater work concerning Britain, the Inhabitants thereof, their Languages, Names, Surnames, Empresses, wise Speeches, Poesies, and Epitaphs.'

Casgliad yw hwn o'r pethau a hysbyswyd i'r enwog W. Camden, tra yr oedd yn casglu defnyddiau ei 'Britannia.'†

1605.

¶ 'Ordovicis Britanni, Davidis F. Disputationum Theologicarum et scholasticarum de Antichristo et ejus Ecclesia Libri duo. Gabrielis Powelli.

Londini, 1605.'

* [*Tregroes* y gelwir *Whitchurch* gan Gymry y wlad oddi amgylch iddi; ac ni wyddys yno ddim am 'Lan tre' Howel.' Gwelir uchod fod G. Owen Harri ei hun yn galw y lle yn *Eglwys Wen*. Y mae eglwys a phlwyf *Llan Hywel* yn yr un gymmydogaeth.]

† Jones's *Biographical Dictionary*. Gwel rhif 2, 1586; 1590; 1602; a rhif 4. 1603.

Gabriel Powel ydoedd fab i'r Dr. Dafydd Powel, ficer Rhiwabon (rhif 1, d.f. 1584).

[Nis gwyddys yn iawn pa beth i'w wneuthur o'r enw uchod. Cyhoeddodd Gabriel Powel yn y fl. 1606, lyfr o'r enw—'Disputationes Theologicae de Antichristo et ejus Ecclesia,' ac yn yr un flwyddyn waith arall yn dwyn yr enw—'De Adiaphoribus Theses Theologicae et Scholasticae,' yr hwn a gyhoeddwyd yn Seisoneg yn 1607. Gweler Williams's *Eminent Welshmen*, d.g. Nis dylai enw yr awdwr sefyll, megys y mae uchod, ar ei ben ei hun, heb un cyssylltiad rhyngddo a'r ymadrodd blaenorol neu ganlynol.]

GABRIEL POWEL ydoedd drydydd mab y Dr. Powel, a ganed ef yn Rhiwabon yn 1575. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1592, cymmerodd radd Baglor y Celfyddydau; ac yna gadawodd y brifysgol am beth amser; ond dychwelodd yno cyn hir drachefn. Cyhoeddodd lawer o lyfrau dysgedig, o'r sawl ceir enwau un ar ddeg yn Williams's *Eminent Welshmen*, d.g. Tynodd ei ddysg, a'i enwogrwydd fel awdwr, sylw y Dr. Rhisiart Vaughan, esgob Llundain, yr hwn a'i cymmerodd ef i'w deulu, ac a'i penododd yn gaplan iddo; a buasai, meddir, yn gwneuthur llawer drosto, pe buasai byw; ond bu farw yr esgob a'i gaplan hefyd o fewn corff yr un flwyddyn, sef 1607.]

1606.

1. 'Pregethau a osodwyd allan trwy awdurdod i'w darllein ymhob Eglwys blwyf a phob capel er adailadaeth i'r bobl annyscedig. Gwedi eu troi i'r iaith Gymeraeg drwy waith Edward James.

Robert Barker printiwr i odidawgaf fawrhydi y Brenin ai Printiodd yn Llundain. Anno Dom. 1606.' [4plyg bychan.]

Llyfr yr *Homiliau** yw yr uchod, yr hwn a ystyrir fel safon athrawiaeth Eglwys Loegr yn amser y Diwygiad.† Gan fod yr hen argraffiad hwn yn brin iawn, a bod cryn gyfnewidiad wedi ei wneyd yn ei sillebiaeth yn yr argraffiad a roddwyd allan yn Nolgellau, yn y ganrif hon, dan olygiad y diweddar Barch. John Roberts, o Dremerchion,‡ ar derfyn siroedd Dinbych a Ffint—yr unig un ar ol yr argraffiad henafol hwn—byddai yn briodol rhoddi esiampl o hono yn ei hen ddiwyg, yr hyn a wneir o ddiwedd yr ail ran o'r bregeth am Gadwedigaeth Dyn :—

'Megis nad hyn yw gwir ystyr yr athrawaeth ymma : yr ydys yn

* [Yn y cyfieithiad hwn rhenir yr ail lyfr yn ddau, a thrwy hyn gwneuthur *tri* llyfr, yn lle dau fel yn y Seisoneg. Dechreu yr ail lyfr fel hyn :—¶ 'Yr ail rhan o Lyfr yr Homiliau neu'r Pregethau ;' a'r drydedd yn llyn :—'Y drydedd ran o lyfr y Pregethau cyhoedd.' Y mae y gwaith oll, oddi eithr penawd y pregethau, y rhed-destynau, a 'baiau' y wasg ar y diwedd, mewn llythyren ddu led fras a darllenadwy. Y mae y llyfr hwn bellach yn dra phrin, yn enwedig cyfargraffau perffaith o hono.]

† [Nid ystyriwyd yr Homiliau erioed yn safon athrawiaeth yr Eglwys. Barn yr Eglwys am danynt yw, eu bod 'yn cynnwys Athrawiaeth dduwiol ac iachus, ac angenrheidiol i'r amserau hyn' (1562)... 'am hyn y ydym yn barnu fod eu darllen hwy yn yr Eglwysi gan y Gweinidogion, yn ddiessgeulus, ac yn llawn llythyr, fel y gallo'r bobl eu deall.'—*Erthygl* xxxv.]

‡ [Ymddangosodd argraffiad y Parch. John Roberts o wasg Dolgellau, mewn cyfrol wythplyg, yn y fl. 1817; a daeth allan argraffiad arall, wedi ei gyfnewid ym mhellach, dan olygiad y Parch. Morris Williams, o wasg y Bala, yn 1847. Y mae y ddau hyn, yn enwedig yr olaf, wedi eu cyfnewid gymmaint, fel nas gellir mewn un modd eu hystyried yn adgyhoeddiadau o'r argraffiad cyssefn.]

ein cyfiawnhau ni yn rhâd, heb weithredoedd, neu fe'n cyfiawnhau'r ni trwy ffydd ynghrist yn vnïc : nid yw yr ystyr, meddaf, mai'n gorchwyl ni yn credu ynghrist, neu ffydd Grist yr hon sydd ynom ni, sydd yn ein cyfiawnhau ni, ac yn haeddu ini gyfiawnhâd (o herwydd ni byddai hynny onid ein cyfrif ein hunain yn gyfiawn drwy ryw weithred neu rinwedd ynom ni ein hunain. Ond gwir ystyr a meddwl yr athrawaeth hon, yw, er ein bod ni'n gwrando gwir air Duw, ac yn ei gredu, er bod ynom ffydd, gobaith, cariad, etifeirwch, ac ofn Duw ac er ein bod ni yn gwneuthyr llawer o weithredoedd da, etto rhaid ini ymwrthod a holl haeddiant y rhinweddau ymma, ffydd, gobaith, a chariad, a phob rhinweddau a daionus weithredoedd eraill ar a wnaethom, a wnawm, neu a allon eu gwneuthur, megis pethau o lawer yn rhy weinion, yn rhy analluog, ac yn rhy anghyflawn i haeddu ini ollyngdod o'n pechodau, a chyfiawnhâd, ac am hynny rhaid ini ymddiried, yn vnïc ynnhugaredd Duw, a'r aberth a wnaeth ein Archoffeiriad, a'n ceidwad Christ Iesu mâb Duw a offrymmodd ef vnwaith drosom ni ar y groes, i hebrwng ini trwy hynny râd Duw a gollyngdod, cystadl o'n dechreuol bechodau, cyn bedydd, ac o'n pechodau gweithredol, y rhai a wnaethom ar ol bedydd, os ni a wir etifarhawn, ac a drown yn ddiragrith atto fe. Fal er rhinweddoledd, ac er duwioled oedd Ioan fedyddiwr, etto yn hyn o beth, am faddeuant pechodau, fe ddanfônodd y bobl oddiwrtho ei hun, ac âu danfonodd hwy at Grist, gan ddywedyd, wele oen Duw yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau 'r byd : felly er maint ac er duwioled rhinwedd yw bywiol ffydd, etto y mae hi yn ein danfon oddiwrthem ein hunain, ac yn ein gollwng, ac yn ein gyrru ni at Grist, i gael yn vnïc gantho fe ollyngdod o'n pechodau neu gyfiawnhâd : fal y mae ein ffydd ni ynghrist, megis yn dywedyd wrthym ni fal hyn, Nid myfi sydd yn tynnu eieh pechodau chwi ymmaith, onid Christ yn vnïc ac atto ef yn vnïc y danfonaf chwi er mwyn hynny, gan ymwrthod mewn hyn o beth â'ch holl rhinweddau da, gairiau, meddyliau, a gweithredoedd, a chan osod a doddi eich ymddiried ynghrist yn vnïc.*

[Nid ymddengys fod ar gael ddim o hanes EDWARD JAMES, cyfieithydd hybarch yr Homiliau i iaith y Cymry. Er gwasanaethu o hono ei genedlaeth mor rhagorol, nis gwyddys pa le na pha bryd y ganwyd ef, nac y bu farw ; ac nid oes un sicrwydd pa un ai gwr Ilén ai gwr lleyg ydoedd. Ni cheir mo'i enw mewn un geiriadur bugraffiadol, ac nid oes un gramadegydd na geirlyfrwr wedi dyfynu cymmaint a llinell o'i waith. Y mae ei gyfieithiad o'r Homiliau yn gyfieithiad rhagorol dros ben, ac yn teylngu sylw, pe na bai ond er mwyn ei briodwedd wir Gymreig yn unig. A mae lle i farnu, gyda chryn ddilysrwydd, wrth ambell ymadrodd, ffurf rhai geiriau, ac ychydig neillduoldeb yn yr ieithwedd, mai gwr o'r Deheudir ydoedd y cyfieithydd clodwiw. Saif Edward James ar orsaf uchel, fel gwasanaethwr ei gyd-genedl, yn ymyl Gwilym Salsbri, yr Esgob Morgan, a'r Esgob Parri ; ac fel ysgrifenywr Cymraeg dileidiaith, nid yw yn ail i un o honynt.]

2. 'Ioannis Audoeni Epigrammata.'

Londini, 1606, 8vo.

Hwn yw yr argraffiad cyntaf o Bennillion Lladin John Owen.

* [Llyfr Cyntaf, t. 33.]

JOHN OWEN ydoedd drydydd mab i Thomas Owen, Yswain, o'r Plas Du, ym mhlwyf Llanarmon, ger Pwllheli, yn sir Gaernarfon. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Westminster, a Phrifysgol Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y radd o B.C.L.; ac wedi hyny bu yn cadw ysgol ym mhlwyf Trelech, yn sir Fynwy, hyd nes, yn 1694, y cafodd ei ddewis yn athraw Ysgol Rydd Warwig. Gwnaeth ei Englynion Lladin ef yn boblogaidd iawn fel bardd: ond ymddengys mai tlawd ydoedd ar hyd ei oes, fel y beirdd yn gyffredin. Yr oedd yn digio llawer wrth ddywedyd ei feddwl yn rhy gras-finiog. Dywedir iddo felly ddigio ewythr cyfoethog iddo, fel y gadawodd ef allan o'i ewyllys diweddaf. Tynodd Eglwys Rhufain hefyd yn ei ben, fel y collfarnwyd ei lyfr.* Bu farw yn 1622, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, ar draul ei gâr, yr Arch-egob John Williams, ac ar haelioni yr hwn yr oedd yn ymddibynu fwyaf yn ei fywyd. Cyfieithwyd ei englynion i'r Seisonaeg, y Ffrancaeg, a'r Yspaeneg.

3. ¶ 'Victoria Christiana. Concio ad Clerum, habita Oxonii, anno 1591, edita et inscripta Nov. Gul. Herberto, tum Cardidiæ despotaë, nunc Pembrochiæ Cometi. Londoni, 1606.'

4. ¶ 'Acte for the new makeinge vp and keeping in reparation of Chepstowe Bridge.

London, Imprinted by Robert Barker, 1606.'

Cynhwysa y sypyn oll 25 o Actau ereill—un hen iawn iawn o berthynas i *Welche Cottons*; yr hanes hynaf am gotwm a wyddom sydd ar gael.†

5. [Historie of Great Britannie, declaring the Successe of Times and Affaires in that Island, from the Romans' first entrance, with Account of the Warres upon the Ancient Inhabitants of South and North Wales, the Overthrowe of Caractacus, their Captaine, the Subdueing of the Isle of Anglesey, the doctrine and manners of the religious Druids,' &c.

London, 1606, 4to.‡]

1607.

1. 'Yr Athrawiaeth am Weddi. Gan John Prideaux, Esgob Caerwrangon.'

Dywedir mai 'William Salbri, Esc.,' a barai y llyfr hwn ym rint.' Pan oeddid yn son am y Dr. Morgan a'i gynnorthwywyr yng nghyfieithiad y Beibl, yn 1588, dywedwyd fod Salesbury wedi marw

* *Y Brython*, iv. 421.

† Holton's *Catalogue*.

‡ Thomas Arthur's *Catalogue*, Nov. 1866.

er ys blynyddau.* Y mae yn rhaid, gan hyny, mai wrth 'barai y llyfr hwn ym rint,' y deallir iddo ei adael yn barod i'w argraffu, ac nid iddo ef ei hun olygu yr argraffiad; neu fod y llyfr hwn ychydig yn rhy bell yma: eto, pe buasai yn gynnarach ni buasai yn amser Gruffydd a William[†] Philip; canys y mae yn gyssylltiol â'r llyfr—'Englynon o fawl i'r Awdwr,' &c., gan 'Gr. a Wi. Philip.' Yr awdwr,

Y Dr. JOHN PRIDEAUX, a anwyd ym mhentref Stafford, ym mhlwyf Hartford, yn Nyfnaint, yr 17fed o Fedi, 1578. Cafodd ei ddysgeidiaeth fel bachgen tlawd, yng Ngholeg Ecseter, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei B.C. Gan ei fod yn ysgolhaig enwog, gwnaed ef yn B.D., ac yn ganlynol yn D.D. Yr oedd cyn hyn wedi cael rheithoriaeth y Coleg. Yn 1615 cafodd ganoniaeth Eglwys Grist, a phersoniaeth Ewelme, yn sir Rhydychain, ac wedi hyny gwnaed ef yn rhaglywydd y Coleg. Yn 1641, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Caerwrangon, oddi wrth yr hon ni dderbyniodd ddim elw, gan i'r Senedd ddiddymu esgobyddiaeth, yr hyn a'i dygodd ef i dlodi mawr. Ysgrifennodd a chyhoeddodd amrai lyfrau—tua 18 neu 20 o wahanol fathau bychain, yn Lladin ac yn Seisonaeg, heb law tua 32 o bregethau. Ymddengys mai y llyfr o'i waith a elwir '*Euchologia*, or Doctrine of Practical Prayer,' ydoedd y llyfr hwn, yr hwn a gyhoeddwyd yn Gymraeg wedi hyn, wrth yr enw uchod, o gyfieithiad Row. Vaughan.† Bu yr awdwr farw yn nhy ei fab yng nghyfraith, y Dr. H. Sutton, yn Bredon, sir Gaerwrangon, yn 1650, yn 72 oed.‡

2. 'Ioannis Stradlingi Epigrammatum Libri Quatuor.

Londini, Impensis Geo. Bishop & Ioannis Norton, 1607.'

Yr oedd y Syr John hwn yn fab i Ffrancis, ac wŷr i Harri Stradling, ac yn hen ewythr i Syr Edward, § noddwr y Dr. 'John Davys' Rhys. Efe a anwyd yn St. George, ger Bristol; ond dywed awdurdod arall mai yng Nghastell St. Donat's, yn sir Forganwg, y ganwyd ef yn 1563. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Brasennose, Rhydychain, a chymmerodd ei raddau yn Neuadd Magdalen, yn 1583. Cyfrifid ef yn ysgolhaig anghyffredin. Wedi teithio ar y cyfandir, aeth i efrydu y gyfraith. Pan oedd yn Llundain, daeth yn ad-

* [Dangoswyd mewn nod (t. 19), ei bod yn dra thebygol fod W. Salsbri yn fyw pan gyhoeddodd yr Esgob Morgan ei gyfieithiad o'r Hen Destament yn 1588; er yn ddiau ei fod wedi marw cyn ymddangosiad y gwaith a gofnodir dan y flwyddyn hon.]

† Gwel rhif 6, d.f. 1715.

‡ Wood's *Athenae Oxonienses*, vol. ii. pp. 68-71; Jones's *Christian Biographical Dictionary*.

§ [Harri Stradling, ac nid Syr John Stradling, ydoedd yn hen ewythr i Syr Edward Stradling, noddwr y Dr. Rhys. Dau gefnder oedd Syr John a Syr Edward. Gwel rhif 1, d.f. 1592 (nod. t. 67). Cyfieithiad (ychydig yn anghywir) yw yr ymadrodd o Williams's *Eminent Welshmen*, d.g. lle y dywedir:—'Sir John Stradling was the son of Francis and grandson of Harry Stradling, who was great uncle to Sir Edward Stradling.']

nabyddus â'r personau a enwir eto, ac ereill. Y gwaith cyntaf a gyhoeddodd oedd 'De Vita et Morte Contemnenda,' yr hwn a argraffwyd yn Ffrancffort, 1595. Cynnwys y gwaith bennillion at 'Clarissimum Dracum;' at 'Io. Daudem Rhesum' (=Sion Dafydd Rhys, awdwr y Gramadeg Cymraeg); at 'Tho. Leysonum medicum Bathoniensem' (=Thos. Leyson, meddyg yn y Bath); a phennillion ereill ar '*Meth a Metheglyn*' y Doctor hwn, &c., &c. Y mae y pennillion yn anerchedig gan mwyaf at ei gyfeillion yn sir Forganwg. Cafodd ei urddo yn farchog yn 1608. Ar farwolaeth ei ewythr, Syr Edward, yn 1609, daeth i feddiant o'r etifeddiaeth. Urddwyd ef yn farchog yn 1611. Yn 1625, dewiswyd ef yn farchog sir Forganwg. Bu farw Medi 11, 1637, yn 73 oed.*

3. 'God's Warning to his people of England, by the great overflowing of waters or floudes, lately happened in South Wales, and many other places: wherein is described the great losses and wonderful damages that happened thereby; by the drowning of many townes and villages, to the utter undoing of many thousandes of people.'

London, 1607. 4to.

4. [Epigrammatum Ioannis Owen, Cambro-Britanni, Ad Excellentissimam Heroinam, D. Arbellam Stuart, Liber Singularis. Editio Prima.

Londini, Ex officinâ Humfredi Lownes, sumtibus Simonis Waterson. 1607.' 12mo.

Yr un y cyflwynir y llyfr hwn iddi ydoedd yr anffodus Arglwyddes Arabella Stuart, yr hon a elwir yn gyffredin yr 'Arglwyddes Arabella.' Y bendefiges hon ydoedd unig blentyn Charles Stuart, Iarll Lennoes, brawd i Henri Darnley, priod Mari (brenines Ysgotland), a thad Iago I, ac felly yr oedd hi yn gyfnither i'r brenin hwnw. Yr oedd y Stuardiaid yn eiddigus iawn o honi, ac anfynych y goddefid iddi rodio yn rhydd. Yn 1610 priododd yn guddiadan â William Seymour, wŷr Iarll Hertford. Tynodd hyn arni wg y brenin, a charcharwyd hi yn Lambeth, a'i gwr yn y Tŵr. Amcanasant ddianc o'u carchar, a llwyddodd Seymour i gyrhaedd y cyfandir; ond daliwyd ei gyd-wedd anffodus, a charcharwyd hi yn gaeth hyd ddydd ei marwolaeth, yr hyn a barodd iddi orphwylo. Bu farw Medi 27, 1615, yn 38 oed.]

1608.

'Merlini Ambrosii Britannii Prophetia Anglicana & Romana.'
Francofurti, MDCVIII.

Prophwydoliaethau Myrddin yn Lladin ydyw, wedi ei argraffu yn Ffrancffort, yn Germani.

[Y mae yr awdwr yn ysgrifenu enw y llyfr blaenorol mor hynod anghywir, ac annhebyg i Ladin, fel nad oes genyf ond barnu mai rhywbeth tebyg i'r un uchod yw ei wir enwad. Nis gwn a ymddangosodd Prophwydoliaethau

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 68-71; Traherne's *Stradling Correspondence*; *Colyn Dolphin*; Williams's *Eminent Welshmen*; Jones's *Christ. Biog. Dict.*

Myrddin yn y *Lladin* yn y flwyddyn hon yn Ffrancffort, ond cyhoeddwyd yno argraffiad *Almaenig* o honynt o fewn y flwyddyn dan sylw, dan yr enw canlynol:—

‘Weissengnugen Merlins mit einem Kommentar des Alanus ab Insulis.’

Yr oedd Prophwydoliaethau Myrddin yn hynod boblogaidd am oesoedd lawer ar Gyfandir Ewrop yn gystal ag yn y deyrnas hon. Ymddangosodd argraffiad o honynt, yn y Ffrancaeg, yn Paris, yn y fl. 1498 a 1528; yn Seisoneg, yn Llundain, yn 1529 a 1533, a thrachefn yn 1641 a 1658; ac yn Edinbwrg, yn 1615; yn yr Italaeg, yn 1539; yn Lladin, yn Venis, yn 1554; ac yn yr Almaeneg, megys y crybwyllwyd, yn 1608.]

1609.

1. ‘Crynhodebo addysg Cristionogawl, a Dosparth Catholicar ddeuddeg pwnc y Phydd a elwir y Gredo, hefyd ar weddi yr Arglwydd, sef y Pader ar Gyfarchiad yr Angel, a elwir Ave Maria, yn ddiweddf ar y Deg gair Deddf a elwir y deg gorchymyn. Gwedi i gyfieithu o'r Lladin i'r Gymeraeg, drwy ddyfal astudiaeth a llafur D. Rosier Smith o dref Llan Elwy, Athraw o Theologyddiaeth, megis ymddiddan ne ddialogiaith rhwng y discibil a'r athraw.’

Y mae *D.* o flaen enw y cyfieithydd yn lle *Dr.* am *Doctor*, fel y gwelwyd am y *Dr.* Miles Coverdal o'r blaen.*

2. [‘Mirroure for Magistrates, with the Variable Fortune and Unhappie Falles of such Princes as hath happened since the Conquest.’

London, 1609, 2 vols. 4to.

Cynnwys amryw o gyfeiriadau at hanes Cymru; megys, Pa fodd y lladdwyd y Brenin Morgan ym Morganwg; Pa fodd y deolwyd Cadwaladr gan y Sacsoniaid; Pa fodd y bu i Owain Glyndwr gael ei dwyllo gan brophwydoliaethau gau, ac yna cymmerwyd arno fod yn Dywysog Cymru, a chael o hono ei erlyn gan y Tywysog Henri o Loegr i'r mynyddoedd, lle y bu farw yn druenus o eisieu ymborth; a phethau cyffelyb.]

1610.

1. ‘Glamorganshire, with the situation of the chief towne of Cardyff and ancient Llandaffe described, by John Speed. 1610.’

2. ‘Pembrokeshire described, and the situations both of Pembroke and St. David's shewed in due form as they are taken by John Speed. 1610.’

* Rhif 2, d.f. 1595. [Yn hytrach talfyriad ydyw o *Dominus*, y gair Lladin am *feistr* neu *arglwydd*; a cheir ef yn fynych o flaen enwau awduron ac ereill nad oeddnt Ddoethoriaid. Mewn oes ddiweddarach, arferid *Mr.* yn bur gyffredin o flaen enwau awdwyr. Yn rhif 4, d.f. 1607, canfyddir fod *D.* yn cael ei arfer o flaen enw benyw (yr Arglwyddes Arabella Stuart), lle y mae yn dynodi *Dolina* = arglwyddes, meistres, boneddiges.]

3. 'The Countie of Radnor described, and the shyre townes situations. By John Speed. 1610.'

4. ['A Map of Merionethshire. By John Speed.']

Unplyg mawr.

Ar gefn yr hen dudlen hon y mae dysgrifiad o'r sir, hanes y cyndrigolion, a rhestr o'r trefi a'r lleoedd mwyaf nodedig.]

5. ['A Map of the Principality of Wales, by John Speed.']

Unplyg mawr.

Cynnwys olygfeydd o wahanol drefi yn y Dywysogaeth; megys Biwmares, Caernarfon, Harlech, Aberteifi, Penfro, Caerfyrddin, Bangor, Ty Ddewi, Llandaf, Llanelwy, Caerdydd, Aberhonddu, Maesyfed, Trefaldwyn, Fflint, a Dinbych.]

6. ['Anglesey, antiently called Mona, described by John Speed.']

Unplyg mawr.

Un arall o hen dudleni Speed; ar ei chefn y mae hanes yr hen drigolion, y crefydd-dai, y prif drefi, a.r.c.]

7. ['A Map of Carnarvonshire. By John Speed.']

Ar gefn y dudlen, ceir, fel arferol, hanes y cyndrigolion, a'r lleoedd hynotaf yn y swydd.]

8. ['Cardiganshyre described. By John Speed.']

Tudlen unplyg o Geredigion; ar ei chefn ceir hanes y swydd, ei hen drigolion, y prif drefi, a'r lleoedd mwyaf hynod yuddi.]

9. ['A Map of Denbighshire. By John Speed.']

10. ['A Map of Flintshire. By John Speed.']

11. ['A Map o Carmarden, both Shyre and Town. By John Speed.']

Unplyg mawr neu freninol.]

12. ['A Map of Brecknoke, both Shyre and Towne. By John Speed.']

Unplyg mawr ydyw, â'i gefn yn cynnwys y dysgrifiadau arferol yn nhudleni Speed.]

13. ['A Map of Monmouthshire. By John Speed.']

Unplyg mawr.]

14. ['A Map of Montgomeryshire. By John Speed.']

15. 'Description of the Counties of Wales, from Holland's edition of Camden,' 1610.

16. ['Gildæ de Excidio et Conquestu Britanniae Epistola.']

Parisiis, 1610.

Adgyhoeddiad ydoedd hwn o argraffiad anghywir ac ammherffaith Polydor Vergil (Llundain, 1525), yr hwn oedd y cyntaf oll a argraffwyd. Gweler tudalen 9; a chymharer rhif 6, d.f. 1587. Ymddangosodd yr argraffiad hwn yn y gwaith o elwir '*Bibliotheca Patrum*' = Llyfrgell y Tadau.]

1611.

1. 'Catechism Petrus Canisius, yr hwn a gyfieithiwyd yn Gymraeg gann D. Rosier Smyth, S.Th.D. o Dref Lanelweu, 1611, ac a brintwyd yn ninas Paris.'

'Y mae un peth tra nodedig yn perthyn i'r llyfr hwn. Argraffwyd ef â'r un llythyren â Gramadeg y Dr. Gruffydd Roberts. Crybwylla y Dr. Smyth am y Doethor Roberts, a'i fod yn byw ym Milan; ac y mae y llythyren yn dangos gael o'r Gramadeg ei argraffu ar y cyfandir; ond pa un ai ym Milan, yn yr Ital, ai yn Paris, yn Ffrainc, nis gellir yn hawdd benderfynu, o blegid yn Paris, ac nid ym Milan, yr argraffwyd 'Catechism' Smyth, a hyny â'r un llythyrenau ag yr argraffwyd y Gramadeg â hwynt. Dyma synwreb o'r llyfr a argraffwyd yn Paris:—"Gwelais yn da ganlyn yr hybarçus orthographiad a'r arderchawg athraw D. Grufyd Robert Canon Theologaid o Fam-Eglwys Dinas Milen gwr a haedai glod a mawl tragwydawl nid yn unig o herwyd ei aml rinwedau eithyr hefyd er mwyn y-e dysg a ye wybodaeth, ac yn bendifadeu yn yr Iaith Gymraeg."* Yr awdwr,

'Petrus Canisius, a anwyd yn 1534, yn Nimeguen, yn nhalaeth Guelderland, yn yr Iseldiroedd. Efe oedd y cyntaf yn yr Almaen a ymunodd ag Urdd yr Iesuaid; a bu trwy ei oes yn aelod gweithgar a llafurus iawn o'r frawdoliaeth hono. Yn 1559, gwnaed ef yn Athraw Duwinyddiaeth, ac yn Rheithor ac Is-ganghellydd Prifysgol Ingolstadt. Gwedi hyny efe a ymosododd ar ddiwygio Prifysgol Vienna, gan ei gwneuthur yn fwy cydunol â golygiadau yr urdd y perthynai ef iddi. Darbwylodd Fferdinand I. i drefnu mesurau gormesol yn erbyn yr Ardystwyr; sylfaenodd y colegau yn Prag, Awgsbwrg, Dilingen, ac yn Ffreibwrg, yn y flwyddyn 1597. Ysgrifenodd gryn lawer, ac y mae ei Holwyddoreg yn cael ei defnyddio ar y cyfandir hyd y dydd heddyw.†

2. 'A Display of Heraldrie. By John Gwilym.'

Y JOHN GWILYM hwn ydoedd o Langarran, yn sir Henffordd, ac a anwyd o ddeutu y fl. 1565, o deulu Cymreig, a derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol y ddinas hono, a gwedyn symmudodd i Goleg Brasennose, Rhydychain, yn 1581. Penodwyd ef yn Rhingyll Arwyddfardd y Groes Goch yn 1618, a bu farw yn 1621.‡

* *Llythyr* y Parch. D. Silvan Evans.—[Gwnaed y nodiadau hyn yn benaf ar awdurdod Tegid, gan yr hwn yr oedd cyfargraff o'r ddau waith.]

† *Llythyr* y Parch. D. Silvan Evans.

‡ *History of Herefordshire*, vol. vi. p. 497; Meyrick's *Lewis Dwnn's Heraldic Visitation of Wales*, vol. i. p. xii of the Introduction.

Lewis Dwnn ydoedd fab Rhys ab Owen, a chafodd ei gyfenw Dwnn, oddi wrth amgylchiad digrifol. Yr oedd un o hynafiaid ei fam, o'r enw Gruffydd

[‘Guillim’ neu ‘Gwillim’ yr ysgrifeniwr enw yr awdwr yn fwyaf cyffredin ; er nad oes dadl nad *Gwilym* y Gymraeg ydyw. Dywedir mai gwir awdwr y gwaith ydoedd y Dr. John Bankham, yr hynafiaethydd, yr hwn a aned yn 1572, ac a fu farw yn 1642. Bu argraffiadau ereill o'r gwaith yn 1632, 1638, 1660, 1679, a 1724. Yn ol Syr Ffrederic Madden (*Notes and Queries*, 2nd S. vol. vi. p. 10), yn y fl. 1610 (ac nid yn 1611, megys y cofnodir ef yma), yr ymddangosodd y gwaith hwn gyntaf.]

3. ‘A Briefe and necessarie Catechism. With a short instructione to all that doe recieve the holy Commvniõ. Set forth by Richard Jones, School-maister in Cardife: for the benefit of all House-holders, their Children and Families.

London, Printed by T. Snodham, 1611.’

Cyrol fechan 12plyg yw hon, ac ail argraffiad. Daeth y cyntaf allan yn 1589, o argraffwasg Thomas East, ac mewn llythyrenau duon. Darfu i'r argraffydd Snodham briodi gweddwr yr awdwr.*

1612.

‘Ioannis Audoeni Epigrammata.

Londini, 1612.’

Dyma, tybir, y trydydd argraffiad o Bennillion Lladin John Owen, y rhai oeddynt mor boblogaidd ym mhlith dysgedigion yr oes hòno. Yr oeddynt yn cyrhaedd pris uchel iawn ; cyn uchod a 16s., nad oeddynt fwy na gwerth swllt o lyfr. Daeth tua saith argraffiad er o honynt, heb law un llawn iawn yn 1633, un yn Amsterdam, ac un yn Paris, o'r hwn y rhoddwyd pedwar llyfr mewn papyr mawr, a phedwar ar femrwn. Rhoddwyd gyfieithiad o hono yn Ffrancaeg yn 1719.

Gethin, yng ngwasanaeth y Brenin Ioan, yr hwn oedd ganddo fwa cryf anferth, ac yn saethu saethau llydain, yr hyn pan welodd y brenin, efe a lefodd ‘*Wel done*, Gruffydd,’ a galwai y Cymry ef ar ol hyny yn Gruffydd *Dwnn*, ond y Seison—*Done* ; ac felly aeth yr enw ar y teulu, y rhai a sefydlasant yng Nghydsweli. Yr oedd Lewis Dwnn yn byw yng Nghewnyn a Gwestyd, ger y Trallwng, yn sir Drefaldwyn ; daethai i feddiant o'r lle hwnw, trwy i'w hendaidd, Dafydd Dwnn, ymsynmud i'r Trallwng, fel goruchwyliwr i'r Arglwydd Powys, a'phriodi Angharad, merch ac aeres Deicws Lloyd, o Gefn y Gwestyd. Gwnaed ef yn gofnodydd achyddol yn 1585, a theithiodd holl Gymru i gasglu achau holl bendefigion y wlad, gan chwilio pob cofnodau a ysgrifenasid ac a gyhoeddasant o'r blaen, yn cyrhaedd o 1580 i 1614. Bu y gwaith mewn llawysgrif hyd y fl. 1846, pryd y casglwyd ef dan arolygiaeth Syr Samuel Rush Meyrick, ac y cyhoeddwyd ef gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, ac yr argraffwyd ef, yn ddwy gyfrol wych bedwarplyg, gan Mr. Rees, Llanymddyfri, yn 1847.* Nid ydys yn gwybod pa bryd y bu farw, ond digon tebyg mai ryw bryd yn nheyrnasiad Iago I. Ei wraig ydoedd Alis, merch a chyd-etifeddes i un Meredith ab Dafydd Fain ; a bu iddynt chwech o blant :—James, Edward, Thomas, Charles, Mari, Elisabeth ; a hiliogaeth y rhai hyn yw y rhan fwyaf o'r Dwnniaid.

* [Y mae y gwaith argraffedig yn anghywir iawn, o herwydd gwaelder yr ysgriflyfr y cymmerwyd ef o hono : y mae y cyfysgrif lawer cyflawnach a chywirach o hono yn llyfrgell Peniarth ; a grefn yn na buasid yn argraffu hono yn lle yr un ammberffaith a gyhoeddwyd.]

1613.

'Poly-Olbion, or a Chorographical Description of Great Britaine, digested in a Poem. By Michael Drayton.'

London, 1613, 4to.

Y mae rhan fawr o'r llyfr cywrain hwn yn dwyn perthynas â Chymru, ac â'r Derwyddon.

[Ganed Michael Drayton yn Harshul, yn swydd Warwig, yn y fl. 1563; a bu farw yn 1631. Tybir iddo gael ei ddysg ym Mhrifysgol Rhydychain, ond iddo ymadael cyn cymmeryd ei radd ynddi; ac yr ydys hefyd yn meddwl iddo ymuno â'r fyddin yn ystod bore ei oes. Yn 1628 sonir am dano megys bardd llawryfog. Ychydig iawn a wyddys am helyntion ei fywyd. Cyfansoddodd amryw gerddi heb law y 'Polyolbion,' ond hōno yw ei gân benaf a rhagoraf. Cynnwys lawer iawn o hynafiaeth werthfawr, heb son am ei theilyngdod fel cyfansoddiad prydyddol.]

1614.

1. 'The theatre of the Empire of Great Britaine: Presenting an exact Geography of the Kingdomes of England, Scotland, Ireland, and the Isles adjoining: with the Shires, Hundreds, Cities, and Shire Towns, within ye Kingdome of England, divided and described By Ioan Speed.

Imprinted at London. Anno 1614.'


Dyna enw gwaith Speed yn llawn, ac y mae gwyneb-ddalenau i wahanol ranau o'r deyrnas, ac yn eu plith, Cymru a'i Siroedd.

2. 'Camden's Remains concerning Britaine, the Names, Surnames, Armories, Apparel, Proverbs, Epitaphs, &c.

London, John Legatt, 1614.'

1615.

1. 'Theater Du Mond sef iw Gorsedd y Byd, lle i gellir gweld trueni a Llaseni Dyn o ran y Corph ai Odidawgrwydd o ran yr Enaid; a Scrifenwyd gynt yn y Ffrangaeg, ag a gyfieithwyd ir Gymraeg drwy lafyr Rosier Smyth o Dref Lan Elwy Athraw o Theologyddiaeth. Psal. 48. Homo cum in honore esset, non intellexit, Comparatus est iumentis insipientibus & similis factus est iis. Dyn pan oedd mewn anrhydedd heb ddeall a gyfflybwyd ir anifeiliaid di wybodus, ag ai gwnaeth i hun yn debyg iddynt hwy.



A Brintiwyd yn Ninas Paris 1615.'

Llyfr bychan 24plyg ydyw, cynnwysedig o tua 300 o dudalenau. Y mae ei ddosraniadau fel hyn:—At ‘Y Darllevvr Havvddgar,’ saith tudalen; ‘Gorsedd y Byd *llifer i,*’ o’r tudalen 10 i’r 51; ac ar ddiwedd y ddosran dywedir, ‘Divved y llyfr cynta.’ ‘Yr Ail Llyfr’ o’r tudalen 52 i’r tudalen 139, lle y ceir ‘Divvedd yr ail llyfr’; ‘Y Trydydd Llyfr,’ o’r tudalen 140 i’r tudalen 225, lle y ceir ‘Divvedd y trydydd llyfr.’ Yna yn nhudalen 226 dechreua ‘Traethiad o odid-avvgrvvydd dyn,’ hyd y diwedd, tybygem, canys hyd dudalen 276 y cyrhaedda yr un a ddaeth i’n llaw. Y mae hefyd y llenau wedi eu nodi ar y gwaelod â gwyddor yr argraffwyr o A hyd ZV.

Cafodd y llyfr hwn ei gyfieithu i’r Seisoneg ym mhen 28 o flynyddoedd ar ol ei gyhoeddi yn Gymraeg, gydag wyneb-ddalen wahanol i’r llyfr, ac i’r ‘Traethiad,’ ac hefyd dudalenau rhifyddol newydd, fel hyn:—Y Llyfr, ‘The Theatre upon ye Dignity & Excellency of Mankind:’ yna y ‘Traethiad’ o dan yr enw, ‘Discourse on the Dignity of Man by Pedro Bouistan call’d Lannay.’ Translated out of French into Spanish by ye Master Baltazar Peres del Castillo & lastly translated out of Castilian into English by Francis Favrer, Merchant. London, 1663.’

Ond priodol fyddai yma roddi esiamplau o’r gwaith:—‘Y phelyasom yn y llyfr cynta ddyn’r anifeiliaid, dangosom pa ddiphig y sydd yntho ef, pa fodd y dylae dderchafu i hun yvchlav ynthvvy, o hervvydd i urddas ai ragoriaeth, gan ystyrio i fod yn vvaelach ag yn ddistyrach nag ynthvvy mevn llavver o bethau. Am hyny gan i ni o’r blaen roddi ar lavvr yn drvvsevl ryvv bethau o drueni dyn, y navvr yr ydym yn myned rhagom i ddatecanu yn fanylach tostyrys tragediaetca trveni dyn, gan ddechre oi anedigaeth ai ddyfodiad i’r byd, a chvvedi gosod allan yn hollavvl holl amserau i fovydd hyd oni ddygom ef ivv fedd, yr hvvn sydd derfyn a divvedd pob peth, Eythr yn gynta dim gedvch ini vveled o ba had y mae ‘negino, ond o lvvgvvr ag haelogaeth? beth ivv’rfan lle y mae’n cenhedlu? pa hyd y mae ym mol ei fam cyn i fod yn debyg i ddim arall oddigerth i gnep o gig analltys, megis pen ddarpho i’r bru dderbyn y ddau had ynghyd, ag i vvres natur i tvvymno, mae’n creavvdu croen tene bychan agos cyphelyb i’r hvvn sy’n nesa at bliscin vvy, ag nid yvv debig i ddim arall oddigerth i vvy anhymig a ddydvvyd cyn i amser, gvvedi haiach o ddyddiau, y gvvaed sy’n cymyseu, ag yn dechre bervvi yn y cyfrivv fodd, ag y mae tair coden bychein yn dechre, megis y boglynau sy’n codi ar phrvvd o ddvvr chvvyrn) yr hain ivv’r manau lle y mae’r tair rhan odidoca o’r anifail rhyfigys yma yn dechre phyrffio sef yr au y galon, a’r ymenydd y rhanau yma ynt benna o’r gvvaith a gvvir phynon y synvvyr-au a’r svvyddau ereill llyvv ardderchavvg, a neuodd y deall a’r cof, gvvir arch rhesvvm.’

Dyma y sillebiaeth, yr eiriadaeth, a’r ymresymiad, lle y gwelir fod yr hen Smyth yn Gymro rhagorol mewn gwlad estronol. Gan ei fod yn argraffu ei waith yn Ffrainc, nid oes *w* yn un man yn y llyfr, eithr dwy *vv*, canys y mae *w* yn ddyeithr i iaith Ffrainc, ac felly i argraffwyr y wlad hòno, ac ieithoedd gwledydd ereill ar *v*

cyfandir. Dyma y rheswm hefyd fod *v* a *vv* mor aml yn cael eu harferyd yn hen lyfrau cyntaf y wlad hon, gan eu bod yn cael eu llythyrenau o'r cyfandir, yn gystal a'r gelfyddyd a'r argraffwyr boreuaf.

Y mae yn y llyfr hefyd rai llinellau barddonol, fel pan gyfieithir rhanau ag sydd yn ddyfyniadau o farddoniaeth wreiddiol, naill ai o'r beirdd cenedlig neu y barddoniaethau ysgrythyrol; megys cyfieithiad o *Iob* x. 9—12, y rhai a ddodir yma yn gyfochrog.

Y Cyfieithiad Cyffredin.

9 Cofia, atolwg, mai fel clai y gwnaethost fi; ac a ddygi di fi i'r pridd drachefn?

10 Oni thywelltaist fi fel llaeth; ac oni cheulaist fi fel caws?

11 Ti a'm gwisgaist i â chroen, ac â chnawd; ti a'm diffynaist i ag esgyrn ac â gïau.

12 Bywyd a thrugaredd a ddarperaist i mi, a'th ymgeledd a gadwodd fy ysbryd.

Cyfieithiad Rosier Smyth.

*Cofia arglvydd fal i'm gvaethost
yn vvanddyn
Fal y llestrvvr y lestro'r pryddyn
Yr hvrn all i ddinistrio ai droi yn
lludvv
A chofia fal i'm phyrfaist o'r un
delvv
A chavvs a geselir o laeth ag o hyfen
A chvvedi iti y hefyd faclodau
gydorphen
Cofia fal i'm gvvisaist a chig ag
a chroen
Ag escyrn a gïau cydgydiaist fi i
boen
Ac a roddaist i'm hefyd drigaredd
a byrvyd
A'th anveledigaeth a geidvv fy
yspryd.'*

Y mae yn bryd bellach roddi ychydig o hanes y gwr enwog hwn, pwy ydoedd, ac o ba deulu yr hanoedd. Ymddengys mai GEORGE WILLIAMS oedd ei enw genedigol, gan ei fod yn fab i Williams o'r Dewisbren, ym mhlwyf Bettws yn Rhos, neu Bettws Abergele, yn sir Ddinbych. Efe a fabwysiadodd y cyfenw *Smith* neu *Smyth* oddi wrth ei fam; ac ymddengys iddo, wedi ei fyned i'r cyfandir, newid ei enw cyntaf hefyd yn *Rosier* yn lle *George*, ac i'w waith ddyfod i'r wlad hon o dan ei enw llenyddol 'Rosier Smyth,' ac ei fod yn caelei adnabod felly fel llenor a bardd; ond fel gweinidog eglwysig wrth yr enw *George Smith*, wrth yr hwn enw y mae cofion iddo gael ei greu yn LL.B. a LL.D., yn Padua yn 1657-8.* Efyddodd wedyn yng Ngholeg y Frenines, Rhydychain, a chadarnhawyd ef yn yr un radd, a chyrrhaeddodd wedi hyny ei D.D. Tybir mai y lle cyntaf a gafodd yn yr Eglwys Sefydledig ydoedd Llangernyw, yn sir Ddinbych, yn 1574. Cafodd wedi hyny bersoniaeth Whitford, yn sir Fflint, yn 1585, ac hefyd ganoniaeth yn Llanelwy yn 1575, gan yr Esgob Wm. Hughes; a chan yr un esgob cafodd bersoniaeth Llaneurgain yn 1584, mewn cyfnewidiad, ef allai, am un o'r lleill. Cafodd ficer-

* [Felly yn y gynysgrifen; ond rhaid mai 1557-8 neu 1567-8, a olygir. Ymddengys fod rhai o amseriadau ereill y cofnod yn anghywir hefyd; o leiaf nid ydynt wedi eu gosod i lawr yn rheolaidd o ran trefn amser.]

iaeth y Cwm, ger Llanelwy, yn 1594. Ymddengys hefyd ei fod yn ganghellydd Llandaf yn 1595 a 1598. Dywedir iddo farw yn Ebrill, 1608, yr hyn ni all fod yn gywir; canys gwelwn ef yn cyhoeddi ei lyfrau yn 1609,-11, a -15, oddi eithr i'w lyfrau gael eu cyhoeddi wedi ei farwolaeth, yr hyn sydd yn annhebyg, a thebygol yw mai 1618 a ddylai blwyddyn ei farwolaeth fod, a'i gladdu yn Llaneur-gain.*

[Y mae ynof amm'heuaeth nid egwan ai yr un gwr oedd *George Williams* neu *Smyth*, yr offeiriad Protestanaidd, â *Rosier Smith* neu *Smyth*, yr ysgrifenydd pabyddol. Yn ol yr hanes a roddir am dano uchod yr oedd mewn urddau cyssegredig yn Eglwys Brotestanaidd Lloegr mor gynnar o leiaf a'r flwyddyn 1574, pryd y dywedir ei gyflwyno i bersoniaeth Llangernyw; ac eto yr ydys yn ei gael rhwng 35 a 44 mlynedd ar ol hyny yn cyhoeddi llyfrau pabaidd ar y cyfandir. Y mae yn wir i'r Dr. Davies o Fallwyd, a Huw Owen o Fon, gyhoeddi llyfrau o waith Pabyddion yn yr iaith Gymraeg; ond gofalwyd am eu diosg o'u nodwedd babyddol cyn eu gosod o flaen y Cymry; ac yr oedd gwaith Parsons a gyhoeddwyd gan Davies, wedi ei gyfnewid yn drwyadl rai blynyddoedd cyn i Davies osod llaw arno, gan Brotestant o'r enw Edmund Buny, yr hwn a drinir yn llymdost gan yr awdwr am anffurfio ei waith, mewn rhagymadrodd i argraffiad diweddarach o'r gwaith cyssefin. Ond am y Dr. Rosier Smith, nid ymddengys iddo ef gyfnewid dim ar weithiau ysgrifenyddwr pabaidd, megys *Canisius* a *Bellarmin*, pan y trodd hwynt i'r Gymraeg; ond cyhoeddodd hwynt, fel y mae yn ddigon eglur, dan nawdd a chefnogaeth Eglwys Rhufain ('*Permissu Superiorum*'), yr hyn sy brawf diammheul mai llyfrau pabyddol o'r iawn ryw ydoedd y llyfrau. Ac os offeiriad Protestanaidd oedd efe, pa ham yr aeth i'r *cyfandir* i argraffu ei lyfrau, pan y buasai yn hwylusach iddo ar lawer golygiad argraffu Cymraeg yn y deyrnas hon? Y casgliad naturiol yw, iddo ddewis gwlad babaidd, a gwasg babaidd, i gyhoeddi llyfrau pabaidd; ac ond odid mai yn ninas Paris, neu yr amgylchoedd, yr oedd efe yn preswyllo pan yr argraffodd y gweithiau sydd yn dwyn ei enw. Ni chyhoeddwyd un llyfr duwinyddol Cymreig o waith Protestant erioed yn un lle ar y cyfandir; ond argraffwyd yno fwy nag un o lyfrau pabyddol Cymreig, heb son am gryn fagad o rai Gwyddelig. Gweler rhif 1, d.f. 1670. Os bu Rosier Smith erioed yn offeiriad yr Eglwys Ddiwygiedig, ymddengys yn fwy tebygol mai ynddi hi y dechreuodd ei yrfa gyhoeddus; ac yna iddo gefnu arni a chofseidio Pabyddiaeth, ac ar hyny ymgilio i'r Cyfandir, lle y cyhoeddodd y llyfrau a gofnodir iddo dan y blynyddoedd 1609, 1611, 1615, a 1618: canys anhygoel yw, bod offeiriad o'r Eglwys, yn byw ac yn dal bywoliaethau yng Nghymru, ac eto flwyddyn ar ol blwyddyn yn dwyn allan llyfrau pabaidd o argraffwasg Paris. Ac heb law hyn, cofnodir marwolaeth *George Williams* yn 1608; ond y mae yn amlwg ddigon fod Rosier Smith yn fyw ym mhen deng mlynedd ar ol hyny.]

2. ['A Catalogue of the Bishops of England since the first planting of the Christian Religion in the Island; together with a brief history of their lives and memorable actions, as neere as can be gathered from Antiquity. By Francis Godwin.'

London, 1615, 4to.

Math o ail argraffiad ydoedd hwn; canys ymddangosodd yr argraffiad cyntaf yn 1601. Cyfieithwyd y gwaith wedi hyny i'r Lladin. Cynnwys hanes Esgobion Cymru yn gystal a rhai Lloegr.

Y Dr. FRANSIS GODWIN, awdwr y gwaith, ydoedd fab i Thomas Godwin, Esgob Baddon a Ffynnonau (neu Bath a Wells), ac a anwyd yn Havington, yn swydd Northampton, yn 1561. Derbyniodd ei ddysg yng Ngholeg Eglwys

* *Brown Willis's St. Asaph*, gan Edwards; *Cambr. Quart. Mag.* vol. iv.; *Cwta Cyfarwydd Llanelwy*; *Y Brython*, iv. t. 207.

Grist, Rhydychain, lle yr aeth yn rheolaidd trwy ei raddau, nes ei wneuthur yn D.D. yn 1595. Yn 1601 dyrchafwyd ef i esgobaeth Llandaf; ac yn 1617 symmudwyd ef i esgobaeth Henffordd. Bu farw yn 1633. Dywedir roddi o hono lawer o gynnorthwy i Camden yn ei ymchwilion hynafiaethol a pharth-ogyddol. Yr oedd yn awdwr amryw o weithiau heb law yr un a gofnodir yma; ac yn eu plith, 'Rerum Anglicarum Henrico VIII, Edwardo VI, et Maria Regnantibus Annales,' yr hwn a gyfieithwyd i'r Seisoneg ac a gyhoeddwyd gan ei fab, Morgan Godwin, yn 1630, unplyg. Pan yn wr ieuanc yn y brifysgol ysgrifennodd waith dychymmygol o'r enw—'The Man in the Moon, or a Discourse of a Voyage thither, by Domingo Gonsales,' yr hwn a argraffwyd yn 1638.]

1616.

1. 'A display of Heraldry of most particular Coat Armours, now at use in the six Counties of North Wales, viz. of the 15 tribes, &c.' Salop, 12plyg.

Gwel rhif 2, 1611. Ef allai mai ail argraffiad, neu argraffiad newydd cyflawnach, ydoedd o hwnw.

[Ai nid gwaith John Davies, o'r Rhiwlas, Llansilin, yn sir Ddinbych, ydyw hwn, wedi ei gamgyflëu d.f. 1616 yn lle d.f. 1716? Gweler cofnod am yr awdwr hwnw yn Williams's *Eminent Welshmen*. Ni ddaeth allan ail argraffiad o rif 2, d.f. 1611 (Gwilym's '*Heraldry*') hyd y fl. 1632.]

2. 'The Second Booke, Containing the Principality of Wales, Delivering an exact Topographie of the Counties, Divisions of the Cantreves and Commotes, Description of the Cities and Shire Towns. With a compendious Relation of things most Memorable in every one of them performed. By Iohn Speede.

London, Printed by Thomas Snodham, for John Sudburie and George Humble. 1616.'

¶ 3. 'Llythyr at Drigolion y Wlad ynghylch eu Heneidiau.'

Er' bod rhai o'r llyfrau y blynyddoedd diweddaf hyn yn Seisonaeg, ac wedi cael eu cyfaddasu i'r dysgedigion a'r boneddigion yn benaf, yn hytrach nag i'r werin, y maent yn dwyn mor agos perthynas â Chymru a'r Cymry, fel y gwelwyd yn addas ddilyn y Parch. Moses Williams, a'u cyflëu yma, fel y gwnaeth yntau yn ei Gofrestr.

4. 'The Love of Wales to their soveraigne Prince, Expressed in a true Relation of the Solemnity held at Ludlow, in the Countie of Salop, upon the fourth of November last past. Anno Domini, 1616. Being the day of the Creation of the high and mighty Charles, Prince of Wales and Earle of Chester, in his Majestie's Palace in White Hall.' London, 1616. 4to.

[Dywedir mai ei awdwr ydoedd Daniel Powel, un o feibion y Dr. Powel, o Riwabon.]

1618.

1. 'Eglurhad Helaethlawn o'r Athrawiaeth Gristnogawl, a gyfansodhwyd y tro cyntaf yn Italaeg, trwy waith yr Ardherchoccaf a'r Hybarchaf Gardinal, Rhobert Bellarmin, o Gymdeithas yr Jesv. Ag o'r Italaeg a gymreigwyd er budh Ysprydol i'r Cymru, drwy dhiwydrwyd a dyfal gymmorth y penbefig* canmoladwy V. R. Permissu Superiorum. MDCXVIII.'

[Y Cardinal RHOBERT BELLARMIN, awdwry gwaith hwn, ydoedd yn un o ddwyfuddion enwocaf Eglwys Rhufain yn ei oes. Ganed ef yn Monte Pulciano, yn Tuscani, yn y fl. 1542; ymunodd â Chymdeithas yr Iesuaid yn 1560; urddwyd ef yn offeiriad yn Ghent, yn yr Iseldiroedd, gan yr enwog Iansenius, yn 1569; ac etholwyd ef yn Broffeswr Duwinyddiaeth ym Mhrifysgol Lwfaen yn 1570. Gwedi llenwi y gadair hōno gyda mawr enwogrwydd am saith mlynedd, dychwelodd i Rufain yn 1576, lle y traddododd ddarlithiau ar dduwinyddiaeth ddadleuol. Yn 1590 aeth gyda llysgenad y Pab i Ffrainc, fel y byddai gan y swyddog hwnw un medrus i ddadleu achos yr Eglwys yn y wlad hōno. Yn 1599 gwnaed ef yn Gardinal; ond mor ychydig oedd ei awydd ef i'r cyfryw ddyrchafiad ac anrhydedd, fel y dywedir na buasai yn eu derbyn, oni buasai y bygythid ef ag ysgymmundod am gyndynrwydd yn erbyn yr awdurdodau eglwysig, os buasai yn anufuddhau. Ym mhen tair blynedd wedi hyn gwnaethpwyd ef yn archesgob Capua; ond ymadawodd â'r archesgobaeth yn 1605, er mwyn myned i Rufain, lle y preswylodd hyd ei farwolaeth, yn 1620, yn aelod gweithgar o lys y Vatican. Y mae ei ysgrifeniadau yn dra lluosog, ac yn llenwi cryn chwech cyfrol unplyg, o'r sawl y mae o ddeutu un hanner ar ddwyfyddiaeth ddadleuol, yn yr hon gangen nid oedd gan Eglwys Rhufain neb cyfartal iddo yn ei amser.]

1620.

1. 'Yr Hen Destament, a'r Apocrypha, a'r Testament Newydd. O gyfieithiad William Morgan, Esgob Llanelwy. A chwedi eu gwellhau gan Richard Parry, Esgob Llanelwy. Argraphwyd yn Llundain, gan Norton a Bill, argraphwyr i'w Fawrhydi, yn y flwyddyn 1620.'

Yr oedd y Testament Newydd a argraffwyd yn yr argraffiad cyntaf o'r Beibl, yn 1588, wedi ei gyfieithu gan Salesbury a Davies, a'i ddiwygio yn unig gan Morgan. O blegid rhyw reswm anhysbys yn bresennol, darfu i'r esgob (Morgan) ei adchwilio; a gwel-som ei fod yn barod i'r wasg pan y bu farw, yn 1604. Ond ymddengys na wnaed un defnydd o hono; eithr yn nheyrnasiad Iago I. gwnaed adchwiliad a diwygiad yng nghyfieithiad yr holl Feibl, gan Richard Parry, canlyniedydd Morgan yn esgobaeth Llanelwy.

Mab oedd RICHARD PARRY i John Parry, Ysw., o'r Pwll Halog, yn sir Fflint, a ganwyd ef yn Rhuthyn yn 1560.† Cafodd ei ddysg-

* Dyna fel y mae y gair yn wreiddiol, yr hyn sydd yn gamargraff am *pendefig*.

† Achau yr Esgob Parry a redant fel hyn:—Richard Parry fab John Harri ac Elen ei wraig, ferch Dafydd ab John ab Twna, o Lanfair. Harri oedd fab Dafydd ab Howel ab Gronwy ab Gruffydd ab Llewelyn ab Cynfrig Efell.—Dwnn, *Heraldic Visitation*, vol. ii. p. 320.

eidiaeth yn Ysgol Westminster, o dan yr hyglod W. Camden, un o ysgolheigion penaf yr oes, ac awdwr gwaith canmoladwy o hanes Brydain, a elwir 'Britannica;'* ac y mae yn dra thebyg iddo gael ei gynnorthwyo gan ei ysgolor Cymreig.† Dewiswyd ef i fyned i Rydychain pan yn 16 oed. Wedi hyny daeth yn Ganghellydd a Deon Bangor; ac yn berson Gresfford, yn sir Ddinbych; a phan ddaeth Iago i'r orsedd, dyrchafwyd ef i Esgobaeth Llanelwy yn 1604. Fel archddiacon yr oedd yn dal bywoliaeth Dyserth, yn sir Ffint, a byddai yn anneddu yno ar brydiau, ac yno y bu farw, yn 1623, yn 63 oed, ym mhen dwy flynedd ar ol cyhoeddi y Beibl, a dwy flynedd o flaen y brenin, ac wedi bod yn esgob bedair blynedd ar bymtheg. Claddwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Y mae yn y Dyserth faes a adwaenir eto wrth yr enw 'Cae yr Esgob.'‡

Yr oedd gwir angen am Feiblau bellach, gan yrhaid fod Beiblau y Dr. Morgan yn dra phrinion, ac nad oedd prin ddigon wedi eu hargraffu yn 1588 ar gyfer pob eglwys a chapel plwyfol yn y Dywysogaeth; a lle yr oeddynt, yr oedd yr arferiad o honynt am ddeuddeg mlynedd ar hugain, a'u cadwraeth mewn eglwysi lleithion, heb gynhesrwydd ynddynt o'r naill ben o'r flwyddyn i'r llall, wedi eu gwneyd yn ddrylliau. Y mae yr esgob, yn ei lythyr Lladin at y brenin, yr hwn sy fel rhagymadrodd i'r Beibl hwn, yn cwyno fod mawr angen am air Duw yn y wlad—fod llawer llan, ac o ganlyniad, llawer plwyf, naill ai 'heb un Beibl, neu ynte fod y Beibl sydd yno yn hen lyfr drylliedig, â'r rhan o hono yn eisieu.' Dywed hefyd mai hyna oedd cyflwr, nid yn unig *rhai*, ond y *rhan fwyaf*, o'r Eglwysi, ac yn ganlynol, y rhan fwyaf o'r wlad. Yr oedd y cyfnewidiadau a wnaed yn yr argraffiad hwn yn gyfryw fel y galleid braidd ei alw yn argraffiad§ newydd hollol; ac yn ol barn llawer yn waethygiad.|| Y cyfieithiad hwn yw ein cyfieithiad awdurdoddedig ni yn bresennol. Anrhegwyd y brenin ag un o honynt; ac y mae hwnw i'w weled yn awr yn y Gywreinfaf Brydeinig, yn Llundain.**

Ef allai y byddai cael taflen fechan o gymhariaeth rhwng y tri chyfieithiad yn ddyddorol; fel y gweler, ar un olwg, y cyfnewidiadau a wnaeth y Dr. Morgan ar gyfieithiad Salesbury, a'r cyfnewidiadau a wnaeth y Dr. Parry ar gyfieithiad Morgan.

* Gwel 1602; a rhif 3 a 4, d.f. 1603.

† [Nid rhyw lawer o gynnorthwy a allasai bachgen dan un ar bymtheg oed ei roddi mewn olrheiniadau o'r fath.]

‡ Ym mhen blwyddyn wedi ei farwolaeth, priododd ei weddw â Thomas Mostyn, Yswain, o'r Rhyd; ac ar yr un dydd darfu i'w mab hithau o'r esgob, sef Richard Parry, briodi merch i Mr. Mostyn; a mab Mr. Mostyn a briododd Ann, merch ieuangaf yr esgob. Enw gwraig yr esgob oedd Gwen, merch John ab Rhys Wynn, o Lwyn Yn.—Dwnn, *Heraldic Visitation*, vol. ii. p. 320.

§ [Yn hytrach, yn *gyfieithiad* newydd; canys yr oedd, ac y mae, yn cael ei alw gan bawb yn *argraffiad* newydd.]

|| [Ar y pwnc hwn cymharer 'Llythyrau Garmon,' yng *Ngwaith Gwallter Mechain*, cyf. ii. t. 218-235.]

** Dr. Llewelyn's *British Versions*.

W. SALESBURY.

DR. MORGAN.

DR. PARRY.

<i>Ezra</i> vi. 2.	A chafwyd mewn cist.	A chafwyd yn Achmetha.
<i>Ier.</i> xxvii. 9.	Gofidus yw.	Drwg diobaith ydyw.
<i>Ezec.</i> xvi. 12.	Rhoddais hefyd fiswrn ar dy wyneb.	Rhoddais hefyd dlws ar dy dalcen.
<i>Math.</i> iii. 8. Teilwng i welliant buchedd.*		Addas i edifeirwch.
— xxiv. 15. Fffieidd-tra y diffeithwch.	Fffieidd-dra anrheithiol.	Fffieidd-dra anghyfaneddol.
<i>Marc.</i> xiv. 22. Ac wedi yddaw veudithiaw y tores.	Ac wedi iddo roi diolech efe a'i torres.	Ac a'i bendithiodd. ac a'i torodd.
<i>Luc.</i> viii. 27. Er ys hir amser.		Er ys talm o amser.
— xix. 4. Fficuspren-gwyllt.	Ffigyswydd gwylltion.	Sycamorwydden.
— xx. 9. Amser mawr.		Dros dalm o amser.
<i>Ioan</i> xvii. 2.	Dy adnabod ti yn unig wir Dduw.	Dy adnabod di yr unig wir Dduw.
<i>Act.</i> iii. 21. Yr un vydd dir ir nev ei dderbyn, yd yr amser yr adverer yr oll bethae, ry ddewesei Dew trwy enae ei oll saint Prophwyti er yn oes oesoedd.	Yr adnewyddir pob peth.	Yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn, hyd amseroedd adferiad pob peth.
— xxvii. 9. Wedy cerddet llawero amser.	Yn ol hir amser.	Ac wedi i dalm o amser fyned heibio.
<i>Rhuf.</i> xii. 3. Na bo i neb ddyall uchlaw y dylir dyall.	(Yr un modd.)	Na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied.
— viii. 6, 7. Ys synwyr y cnawt, angeu yw.	Canys y mae synwyr y cnawd yn farwolaeth.	Syniad y cnawd marwolaeth yw.
<i>1 Cor.</i> iv. 4.	Ni wn i fy mod yn euog o ddim.	Ni wn i ddim arnaf fy hun.
— xiv. 16. Lle yr andyscedic.	(Yr un modd.)	Lle yr anghyfarwydd.
<i>2 Cor.</i> xii. 20.	Terfysg.	Anghydfyddiaethau.
<i>Col.</i> i. 10. Val y rotioch yn deilwng gan yr Arglwydd, ai voddhau ev ym pop dim.	Gan ryglyddu boddym mhob dim.	Gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred dda.
<i>Heb.</i> xii. 5. Nae esklusa.		Na ddirmyga.
<i>Phil.</i> i. 21. Can ys	Canys byw i mi (yw)	Canys byw i mi yw

* ['Teilwng i edifeirwch' yw cyfieithiad Salsbri o'r adnod hon.]

W. SALESBURY.

DR. MORGAN.

DR. PARRY.

Christ ys ydd i im pop Crist, ac elw yw Crist, a marw *sydd*
vn ym-bywyd, ac yn marw. elw.
angeu yn enilliat.

2 *Fedr* ii. 13. Brychay Brychau ydynt a thar- Brychau a meflau
yntynt, a thrisclynay. ysclynau. *ydynt*.*

Ond y cyfnewidiadau hynotaf yw *Dad*. v. 8., lle y cyfieitha y Dr. Morgan, 'Yr oedd gan bob un o honynt delynau a *chrythau* aur yn llawn o aroglarth'; ond yn niwygiad y Dr. Parry, y trowyd y *crythau* yn *phiolau* aur, gan feddwl fod y Dr. Morgan wedi cyfieithu o'r Seisonaeg y gair sydd yno yn *vials* yn *grythau*, trwy ei gamgymmeryd am y gair *viols*. Ond gwall mawr yw hyn yn syniad y neb a dybio felly; canys o'r Groeg yr oedd yr esgob yn cyfieithu, a chyfieithodd y gair Groeg *phialas* yn *grythau*, yr hyn yw ei briodol ystyr, sef cist, blwch, neu gwpan; ac nid yw y gair *phiol*, *phial*, a *phialau*, ond llygriad oddi wrth *vial*, a *vials*. Felly syrthiodd y diwygiwr ei hunan, wrth geisio diwygio ar y Dr. Morgan, i'r un gwall ag y tybiasai fod ei ragflaenydd wedi syrthio, wrth geisio ei osgöi.†

Gwelir bellach mai gwir yw, nad oedd llawer o'r cyfnewidiadau a wnaed yn ddiwygiadau. Y mae y Beibl hwn yn llyfr mawr, hardd, unplyg,‡ wedi ei argraffu â hen llythyrenau duon, neu y llythyrenau Brytanaidd, wedi ei ddosbarthu fel yr argraffiad arall. Y mae cynnwysiad i'r pennodau, a chyfeiriadau ymylenol y Beibl Seisonaeg a elwir Beibl y Brenin Iago.§ Y mae llenau yr Hen Destament a'r Apocrypha yn cyrhaedd i *E e e e* 3; ac y mae llenau y Testament Newydd yn cyrhaedd i *Y* 2. Y mae yn ei ragflaenu Galendar, a chyflwyniad Lladin.

Am yr argraffwyr, Norton a Bill—mab oedd Norton (Bonham Norton) i William Norton, Safwerthydd yn Llundain. Yr oedd Bonham hefyd yn Safwerthwr, ac yn un o henaduriaid dinas Llundain. Priododd Jane, merch Thomas Owen, Ysw., un o farnwyr y Dadleuon Cyffredin; a bu fyw am beth amser yn Church Stretton, yn sir Amwythig, lle y bu farw Ebrill 5med, 1635, yn 70 mlwydd oed. Mae yn debyg mai ei gydranog, John Bill, oedd yn edrych ar ol y fasnach yn Llundain. Yr oeddynt hefyd yn argraffyddion i'r brenin dros yr Iwerddon. Pan argraffwyd araeth y Brenin Siarl i. ar ollyngiad y Senedd yn 1628, darfu i Bill argraffu araeth y Frenines Elisabeth yn gydiol, ac anfon y ddwy, yn un llyfryn, yn anrheg i'r brenin, yr hyn a anfoddlonodd ei fawrhydi yn anghyffredin.||

Ond i ddychwelyd: ymddengys i'r argraffiad hwn eto gael ei

* *Gwyllyddydd*, Meh. 1833, t. 165; lle y ceir sylwadau cyffelyb gan y diwedd-ar Barch. J. Jones (*Tegid*).—[Cymharer *Gwaith G. Mechain*, ii. 229.]

† [Gwel *Waith Gwallter Mechain*, ii. 225.]

‡ [Y mae y llyfr yn fwy ei faint na Beibl yr Esg. Morgan, a'r llythyren yn frasach; ond nid yw gymmaint ei faint a Beibl yr Esgob Llwyd, a argraffwyd mewn llythyren Rufeinig yn Rhydychain yn 1690.]

§ [Yr argraffiad awdurdodedig presennol o'r Beibl Seisoneg, yr hwn a wnaed yn y fl. 1611.]

|| *Dictionary of Printing and Printers.*

ddwyn ym mlaen gan sel wirfoddol a phersonol yn unig, heb gefnogaeth y brenin na'r llywodraeth: nid felly y bu i gael y Beibl Seisonaeg y flwyddyn cyn hyny.* Yr oedd yr enwog a'r dysgedig Dr. John Davies, person Mallwyd, am yr hwn y ceir crybwyll eto, yn gynnorthwy mawr i'r esgob yn y gwaith canmoladwy hwn, gan ei fod hefyd yn gapelwr iddo. Y mae, yn eilythyr Lladin, cyflwyniadol i'r esgob, sydd yn rhagflaenu ei *Eirlyfr*, yn cydnabod yn wylaidd fod ganddo ryw law yn y ddau gyfieithiad; ac yn ei ragymadrodd Lladin i'r un llyfr y dywed:—

'Byddwn yn arferol o ddychwelyd oddi wrth y gorch wyl ysgafn hwn (fel ei gelwir) efo mwy o awydd, a chydag ast udrwydd a diwydrwydd newydd dauddyblyg, at y pethau pwysfawr hyny, (sef *pregethu yr efengyl, a chyfieithu yr Ysgrhythrau Santaidd i'r iaith Gymraeg*).†

Dylai y gwŷr da hyn fod mewn coffadwriaeth dragwyddol gan y Cymry, gan fod yr holl wlad o hyny hyd yn hyn wedi myned i mewn i'w llafur hwy, fel nad oes nemawr o gyfnewidiadau o bwys yn y cyfieithiad Cymreig wedi hyny; dim ond newid y sillebiaeth weithiau, neu lythyrenau yn nechreu gair; megys rhoddi prif lythyrenau yn nechreu enwau Duw, &c.; ychydig o wellâd yn y cyfeiriadau, neu yn y dosraniadau a elwir gwahannodau; rhoi blwyddyn oed y byd ar ben uchaf, neu ymyl y ddalen; tafieni mesurau a phwysau; y dydd o'r mis wrth y Salmu, i gyfleusdra yr Eglwys Sefydledig. Yn y pethau hyn, a'u cyffelyb, gall fod gwahaniaeth; ond ym mhob peth arall, y cyfieithiad hwn o'r fl. 1620 yw ein cyfieithiad awdurdodedig presennol. Y mae yn neillduol deilwng o sylw, mai gwŷr Gwynedd, neu Ogledd Cymru, oedd y rhan fwyaf, os nad pob un o'r cyfieithwyr.‡ Yr oedd y rhan fwyaf o honynt wedi cael eu dysgeidiaeth yng Nghaergrawnt, a'r lleill yn Rhydychain; ac yr oeddynt mor ddysgedig yn yr Hebraeg a'r Groeg, fel, o bosibl, nad oes cyfieithiad yn y byd o'r Ysgrhythrau yn well na'r un Cymraeg; ond y mae llawer yn waeth nag ef.

2. 'The Map of Glamorgan. By Lewis Roberts.'

London, 1620, folio.

Lewis Roberts ydoedd frodor o sir Fon, a'r pryd hyny yn fasnachwr yn Llundain, ac yn frawd yng nghyfraith i'r hwn oedd y pryd hyny yn Arglwydd Faer. Y mae ym mhlith y prydyddiaethau Lladin anerchiadol i'r awdwr, un gan John Davies, ef allai o Fallwyd.§

* [Yn y fl. 1611 y daeth allan y Beibl Seisoneg, a elwir Beibl y Brenin Iago, megys y crybwyllwyd eisoes.]

† Llewelyn's *British Versions*.

‡ [Deheuw'r oedd y Cantor HUET a gyfieithodd Lyfr y Dadguddiad yn Nhestament Salsbri. Y mae llai mewn cymhariaeth yn derbyn eu dysg yng Nghaergrawnt, a mwy yn Rhydychain, o wŷr Deheubarth nag o wŷr Gwynedd. Y rheswm am hyn, mae yn debyg, yw cyfagosrwydd cymharol Rhydychain i'r Deheudir.]

§ *Ceinion Alun*, t. 76. ['The Map of Commerce' a ddywedir yng *Ngheinion Alun*; ac yr oedd masnachwr o Fon yn preswyllo yn Llundain, yn debycach i ysgrifenu ar *Fasnach* nag ar ddim perthynol i *Forganwg*.]

1621.

1. 'Antiquæ Linguae Britannicæ, nunc communiter dictæ Cambro-Britannicæ, a suis Cymræcæ, vel Cambricæ, ab alijs Wallicæ, Rudimenta: Juxta genuinam naturalemque ipsius Linguae Proprietatem, qua fieri potuit accurata Methodo et Brevitate conscripta.

Londini, apud Johannem Billium Typographum Regium. 1621.' [12mo.]

Gramadeg o'r iaith Gymraeg yn Lladin yw y llyfr hwn. Ei awdwr ydoedd y Dr. John Davies, o Fallwyd. Llyfr i'r dysgedig ydyw—yn gwbl y peth y proffesir ei fod—sef traethawd ar neillduolion elfenau yr iaith Gymraeg: ac y mae wedi bod yn gryn gymhorth dilynol ar y gangen o hōno o wybodaeth. Y mae y llythyr cyflwyniadol i'r Esgob Parry, a rhagymadrodd, o waith y Dr. Davies, mewn ffurf o lythyr at Edmund Prys, yn ei ragflaenu. Y mae yn gyflwynedig i'r Esgob Parry, a'r rhagymadrodd yn gyfeiriedig at E. Prys, Archddiacon Meirionydd; ac y mae cân Ladin o waith E. Prys, o gymmeradwyaeth i'r llyfr, fel ateb i'r rhagymadrodd [cyfeiriedig ato, yr hwn a gynnwys 25 tudalen. Nodir o flaen y gân, fod E. P. yn 80 oed y pryd hwnw. Y mae y rhagymadrodd wedi ei arwyddo ag enw 'Jo. Davies.' Wedi rhoddi yr holl gyflwyniadau, canmoliaethau, anerchiadau, &c., yn Lladin, a thaflen o lythyrenau yr wyddor, yr hyn sydd yn dechreu y Gramadeg, ac yna y dechreuir rhifo y tudalenau, y rhai a redant i 223. Yna ceir dau dudalen o enwau awdwyr y caed cymhorth oddi wrthynt yng nghyfansoddiad y llyfr,* a phum tudalen o enwau beirdd Cymreig, y dyfynwyd o'u gwaith fel enghreifftiau yng nghorff y gwaith, yng nghyd â'r amser y blodeuasant. Felly y mae yn cynnwys oll 260 o dudalenau, er na rifnodir ond 223, corff y llyfr. Plygiad bychan ydyw o ryw 24plyg.† Cyhoeddwyd ef unwaith wedi hyn.‡

JOHN DAVIES ydoedd fab i Dafydd ab Sion ab Rhys, gwëydd, yn Llanferres [ger yr Wyddgrug], yn sir Ddinbych; ond er hyny mewn sefyllfa gysurus, ac yn hanu o waedoliaeth y boneddigion penaf yn y wlad. O du ei dad, yr oedd o lwyth Marchudd ab Cynan; ac o du ei fam, o Ednyfed Fychan; ac yn un o'i lythyrau, dyddiedig Awst 26, 1623, y mae yn galw Robert Fychan (*Vaughan*), o Hengwrt, yr enwog hynafiaethydd, yn gefnder.§ Cafodd ei ddysgeidiaeth foreuol yn yn Ysgol Rhuthyn, yr hon a sefydlasid ychydig o

* [Yn hytrach, yr awduron y crybwyllir am danynt, neu y dyfynir o honynt, yng nghorff y llyfr.]

† *Llythyr y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.*

‡ Cyhoeddwyd ef yn Rhydychain yn 1809 [mewn 12plyg], dan olygiad y diweddar Barch. H. Parry, ficear Llanasa, sir Fflint.

§ *Yorke's Royal Tribes; a'r Cambrian Register*, vol. i. p. 158, a vol. ii. p. 470.

flynyddau cyn hyny, gan y Dr. Gabriel Goodman.* Un o'r athrawon yno ydoedd y Dr. Richard Parry, yr hwn a fu wedi hyny yn esgob Llanelwy, Ganwyd ef o ddeutu y fl. 1570. Bu yr athraw yn gyfeillgar iddo ar hyd ei oes, gan ei lwytho â bywoliaethau eglwysig, a'i gymmeryd yn gapelwr iddo. Cafodd berffeithiad ei ddsygeidiaeth yn Rhydychain, yng ngholeg yr Iesu, ac wedi hyny yng Ngholeg Lincoln. Yr oedd wedi bod yn y weinidogaeth hymtheg mlynedd pan aeth i'r olaf. Yn y cyntaf y graddiwyd ef yn B.C., ac yn yr olaf yn D.D., neu fel y byddid yn ei roi y pryd hyny, S.T.P.; canys felly y cerfiwyd ef ar ei fedd, ac hefyd yr arferir ef ganddo ef ei hun yn gydiol â'i enw wrth rai o'i weithiau. Cafodd bersonoliaeth Mallwyd, yn siroedd Meirionydd a Threfaldwyn,† gan y llywodraeth; ond pan ddyrchafwyd y Dr. Parry, ei athraw, yn esgob, cafodd ganoniaeth yn Llanelwy, yr hon a gyfnewidiodd am brebendariaeth Llanefydd a phersoniaeth Llan ym Mawddwy; hefyd Darowain, yr hon a gyfnewidiodd am Lanfor, ger y Bala; a dywed rhai fod Garth Beibio ganddo hefyd. Ymddengys fod Mallwyd, Llan ym Mawddwy, Llanfor, a Llanefydd,‡ ganddo ar yr un pryd. Ar hyn, cyfarchai Rhisiart Cynwal ef, mewn cywydd a wnaeth iddo, i ofyn Beibl dros Robert ab Heilyn:—

' Mae iti renti drwy ras,
Mab dewrwyd, mwy bo d' urddas,
Mallwyd sydd am wellâd sant,
A Mawddwy yn eich meddiant,
A Llanfawr, blaenfawr heb ludd,
Llawn afael, a Llanefydd.'

Ei wraig ydoedd Sian, merch i Rhys (John, medd rhai) Wynn, Yswain, o'r Llwyn Yn, a chwaer i wraig yr Esgob Parry. Ni bu iddynt blentyn; ac ar ol ei farwolaeth ef, dywedir iddi hi briodi ei gurad;§ a dywedir hefyd mai priodas annedwydd iawn a fu hõno. Gan fod ganddo gynifer o fywoliaethau eglwysig, efe a gasglodd gryn lawer o gyfoeth. Adeiladodd bont geryg, o'r enw 'Pont y

* [Sefydlwyd Ysgol Ramadegol Rhuthyn gan y Deon Goodman yn y fl. 1595, chwech mlynedd *ar ol* i Davies fyned i Rydychain, a dwy flynedd *ar ol* iddo ymadael â'r Brifysgol hõno. Nis gallasai ef gan hyny dderbyn ei ddsyg yn Ysgol fawr Rhuthyn, a hithau heb ei sylfaenu ar y pryd: ond hwyrach bod yno ysgol led enwog cyn i'r Deon Goodman sylfaenu yr ysgol bresennol. Ni bu yr Esgob Parry erioed yn athraw Ysgol Rhuthyn.]

† [Saif eglwys, persondy, a phentref Mallwyd, ar derfyn eithaf swydd Feirionydd, ond y mae rhan o'r plwyf yn swydd Drefaldwyn. Gan nad oes un linell neillduol yn gwahaniaethu rhwng terfynau y ddwy swydd yn y lle hwn, dywedir weithiau fod y persondy â rhan o hono ym mhob un o'r ddwy.]

‡ [Ymddengys nad oedd ein hawdwr yn deall y gwahaniaeth rhwng *prebendar*; mewn eglwys gadeiriol a *pherson* neu *weinidog* eglwys plwyf. Nid oedd y berthynas leiaf rhwng y Dr. Davies a phlwyf, bywoliaeth, neu bersoniaeth Llanefydd, er ei fod yn derbyn y corfudd a elwir corfudd Llanefydd yn eglwys gadeiriol Llanelwy. Tâl am weinyddu mewn eglwys gadeiriol yw corfudd neu *brebend*, ac nid am gyflawnu gwasanaeth mewn eglwys blwyfol.]

§ [Y Parch. Edward Wynn, A.C., un o feibion Edward Wynn, Yswain, o Fodewryd, ym Mon, ydoedd y curad hwn. Cafodd fywoliaeth Llan ym Mawddwy ar farwolaeth y Dr. Davies.—*Cambrian Register*, 1795, p. 158.]

Cleifion,' a rhyw ddwy arall, meddir.* Yr oedd llythyrenau ei enw wedi eu palmantu â cheryg gwynion, mewn dau fan ar y bont. Y mae pont newydd wedi cael ei gwneyd yn ddiweddarach yn uwch na'r hen un; ond y mae yr hen i'w gweled, wrth edrych dros ganllaw y newydd, heb ei hollol falurio eto. Efe hefyd a ail adeiladodd ganghell a chlochdy yr eglwys, gan roddi ceiliog gwynt ar nen y clochdy, a'r un llythyrenau is law iddo, a'r flwyddyn 1640 ar ystyllen ar ochr y clochdy; ac felly hefyd ar y palmant o flaen drws y persondy, ac yn un o'i ystafelloedd. Dywedir iddo gwbl adeiladu y ty.†

Yn ei ewyllys, efe a adawodd ardreth maes o'r enw Dôl Dyfi, i dlodion y plwyf, tra y rhedo dwfr. Y mae yr afon wedi treulio cryn lawer o hono ymaith, ond er hyny y mae yn cynnyrchu o saith i ddeg punt yn y flwyddyn. Y gweddill o'i diroedd a adawodd rhwng dau nai—ei nai ei hun, a nai ei wraig, mab yr Esgob Parry, medd rhai; ond dywed ereill mai nai arall i'w wraig, o'r enw Wynn. Y mae y tiroedd yn awr yn werth dros 300*p.* yn y flwyddyn. Y mae rhan nai y wraig, sef y Plas Uchaf, a lleoedd ereill perthynol, wedi ei gwerthu er ys mwy hanner can mlynedd; ond dywedir bod rhan ei nai ei hun ym meddiant ei deulu hyd yn hyn.

Ychydig a wyddys am ei fuchedd gartrefol. Dywedir iddo ef a'i was wneyd y llinellau canlynol ar ddau o eglwyswyr a welent yn myned heibio iddynt ar y pryd:—

Dr. Davies—'Dacw ddau offeiriad ffol,
Yn myn'd ar ol eu gilydd;

Y Gwas—Ond bod yn well ei ddysg a'i ddawn,
Mae'n agos iawn y trydydd.'

Y mae hefyd ar gof iddo anfon y gwas hwn i ddegymu rhyg ym mhlwyf Llan ym Mawddwy, ac i berchenog yr yd achwyn ar y gwas am gymmeryd mwyo'r rhygnag oedddyledus iddo ei ddegymu. Cymmerodd y Dr. Davies y cyfleusdra cyntaf i ymresymu â'r gwas yng nghylch y cwyn hwn, yr hwn a'i hatebodd allan o law:—

'Ei ran ei hunan, a'i hawl,—fe gafodd
Y cyfaill uffernawl,
O'r rhyg iraidd rhagorawl—
Ai rhan Dduw fynai'r hen ddiawl?'

* [Y mae'r tair pont hyn yn aros hyd heddyw, er bod pontydd newyddion (a adeiladwyd yn 1844 a 1845) yn eu hymyl, wedi eu codi yn lle dwy o honynt. Y mae un o'r hen bontydd hyn, yr hon a elwir Pont Ffynnant, ag iddi ddau fwa, ar yr afon Dyfi rhwng Mallwyd a Dinas Mawddwy, ac yn ymyl gorsaf Rheilffordd Mawddwy; y llall, o un bwa, a elwir Pont y Cleifion, ar y Clywedog, o fewn ychydig i Fallwyd, ar yr un ffordd; a'r drydedd, yr hon a elwir pont Fallwyd, ar Ddyfi, ychydig is law aber y Clywedog. Y mae yr olaf hon yn bont hynod o ramantus yr olwg arni, ac yn tynu sylw cyffredin ymwelwyr â'r ardal. Y mae gwedd bur ramantus hefyd ar hen Bont y Cleifion.]

† [Y mae'r persondy y preswyliai y Dr. Davies ynddo yn aros hyd heddyw, ond bod rhai ystafelloedd wedi eu chwanegu ato gan beriglor presennol y plwyf, y Parch. Eb. Edwards, B.D., yr hwn a gyflwynwyd i'r fywoliaeth yn y fl. 1852.]

Am ei weithiau, gwneir sylw o honynt o un i un, fel y delir at flynyddoedd eu cyhoeddiad. Yr oedd amser yn ol Bregethau o'i eiddo, mewn llawysgrifen, yn llyfrfa Ysgol Ystrad Meurig, yn sir Aberteifi. Ei lyfrau a ddaethant, meddir, i feddiant gwr o'r enw Kenrick, yr hwn a fu fyw lawer o flynyddoedd yn ol, yn weinidog yr Ymneillduwyr (Henaduriaid), yng Ngwrecsam, a'r hwn a symudodd oddi yno i Gaerwysg, â'r llyfrau gydag ef, mae yn debyg. Yr oedd ym meddiant y diweddar Farnwr Bosanquet lawysgrif, yn cynnwys nifer o ddarnau barddoniaeth, cyfeiriedig at y Doctor, gan feirdd ei oes.*

Am ei ddysgeidiaeth, y mae ei waith yn eithaf digon o brawf, ei fod yn ysgolhaig mawr, yn y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg, yn gystal a Chymraeg, yr hyn ni ellir ei ddywedyd am ysgolheigion mawr o Gymry yn y dyddiau hyn. Gellir yn gyfiawn gymhwyso ato yntau y llinellau a wnaeth Sion Tudur i'w gyd-ddiwygiwr, y Dr. Morgan.† Bu farw y Dr. Davies y 15fed o Fai, 1644, yn o ddeutu 74 oed; a chladdwyd ef y 19ydd, yng nghanghell yr eglwys. Cerfiwd y geiriau canlynol ar gareg ei fedd, y rhai, trwy fod y gareg yn llawr i'r lle, ac felly o dan draed yr addolwyr, sydd wedi treulio yn hollol:—

' JOHANNES DAVIES, S. T. P.
RECTOR ECCLESIAE PAROCHIALIS DE MALLWYD,
OBIIT 15 DIE MAII,
ET SEPULTUS FUIT 19, A.D. 1644, IN VIRTUTIS
POTIUS QUAM NOMINIS MEMORIA.'

Hyny yw—' John Davies, Dysgawdwr Duwinyddiaeth Gyssegredig, Periglor Eglwys blwyfol Mallwyd, a fu farw y 15fed dydd o Fai, ac a gladdwyd ar y 19ydd, ym mlwyddyn ein Harglwydd, 1644. Mwy er coffadwriaeth am ei rinwedd nag am ei enw.'‡

[Ychydig flynyddoedd yn ol, trwy ymdrechion y diweddar Barch. Rowland Williams, Person Ysgeifiog, yn swydd Fflint (gwr genedigol o'r plwyf hwn), gosodwyd i fyny yn Eglwys Mallwyd Goflech harddwych o fynor gwyn, gwaith y cerfedydd rhagorol Mr. Solomon Gibson, o Lynlleifiad, er cof am y dysgedig Ddr. Davies. Saif ar fur gogleddol yr Eglwys, yn lled agos ar gyfer y ddarllenfa, a chynnwys yr arysgrifen ganlynol:—

H. S. E.
JOHANNES DAVIES, S. T. P.
VERRESIOLANI IN AGRO
DINOVICENSI NATUS,
PRAEPOSITUS HUIC ECCLESIAE,
ANNOS XXX.
VIR MULTARUM LITERARUM,
RELIGIONIS ILLIBATE STRENUUS

* *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, nod, t. 187. [Y mae rhai ysgriflyfrau o farddoniaeth Gymreig yn llawysgrifen y Dr. Davies ar gadw yn y Gywreinfâ Brydeinig, yn Llundain.]

† Gwel nodyn rhif 1, 1588 [t. 44].

‡ Williams's *Eminent Welshmen; Cambrian Plutarch; Gwladgarwr*, Medi, 1837; *Eurgrawn Wesleyaidd*, Mehefin, 1813; *Camb. Quart. Mag.* vol. ii, p. 97. [*Cambrian Journal*, 1803, p. 155.]

PROPUGNATOR,
 CARITATE IN PATRIAM SPECTATISSIMUS,
 QUEM DUOBUS SUI TEMPORIS EPISCOPIS,
 MORUM INTEGRITAS COMMENDAVIT,
 ET IN SS. SCRIPT. CAMBRICÆ VERTENDIS,
 GRÆCA, LATINA, HEBRÆA ERUDITIO
 ADJUTOREM PERUTILEM UTRIQUE REDDIDIT.
 IDEM LINGUÆ ET ANTIQUITATIS
 BRITANNICÆ,
 MAGNUS ET INCORRUPTUS INVESTIGATOR,
 FASTOS DIU NEGLECTOS PATEFECIT,
 AD ANTIQUI SERMONIS USUM ET SCIENTIAM,
 NON UNO OPERE VIAM POSTERIS MUNIVIT.
 ANNUM AGENS ULTRA LXX. DEC. A.D. N. M.DC.XLIV.
 CIVES ÆRE COLLATO
 POST ANN. CC.
 NE CINERIBUS ET MEMORLÆ,
 VIRI EGREGIE DE PATRIA MERITI
 DIUTIUS ABESSET MONUMENTUM,
 HONORIS, PICTATISQUE CAUSA,
 TIT. PON. CUR.]

2. 'Llyfr y Weddi Gyffredin.'*

Gan nad oedd y rhagddalen gyda'r un a welais, ni allesid ei roddi yn gyflawn: ond argraffwyd ef tua'r flwyddyn hon; canys y mae wyneb-ddalen y Salmuau cân sy gyssylltiol ag ef yn darllen fel hyn:—

'Llyfr y Psalmau. Wedi ei cyfieithv ai cyfansoddi ar Fesvr Cerdd yn Gymraec. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionnydd. Ai Printio yn Llvndain, 1621.'

3. 'Catecism,' &c.

Cyhoeddwyd hwn gan y Dr. John Davies o Fallwyd, ac ni wyddys ychwaneg am dano na'r hyn a ddywed ef ei hun yn ei lythyr at Mr. Owen Wynn, o Wydir, yr hwn a amserwyd '*Malloid* 23^o Jan. 1627,' lle y dywed, 'Yr wyf yn anfon i chwi ychydig o Gatecism; nid oes genyf ond deg neu ddeuddeg o'r 500 a argreffais yn 1621, neu buaswn yn anfon ychwaneg i chwi.'†

[Tebygol mai Catecism yr Eglwys, wedi ei argraffu ar ei ben ei hun, ydoedd.]

1622.

1. ¶ 'Direction for Search of Records in the Chancerie, Tower, Exchequer, for the Clearing of all such Titles and Questions as the same may concerne, with the accustomed Fees of Search. By Thos. Powell, Cambrensis.

* [Yn hytrach, 'Llyfr Gweddi Gyffredin; canys felly yn ddiâu y dylai ei enw fod. Y mae yr awdwr byth a hefyd yn arfer 'Llyfr y Weddi Gyffredin' yn lle y 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin,' hyd yn oed pan yn amcanu rhoddi y ddalen enwol bob gair a llythyren fel y byddai yn argraffedig. Hyd y gwyddys, ni elwir cymmaint ag un argraffiad o'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin' yn 'Llyfr y Weddi Gyffredin,' fel y geilw yr awdwr ef yma, ac mewn llawer man arall. Camsyniad arall a wneir yn fynych, mewn perthynas i enw yr unrhyw lyfr, gan lawer, yw, ei alw yn 'Llyfr Gweddi Gyffredin;' sef yw hyny, gosody gair '*gyffredin*' i ddynodi y *lyfr* ac nid y *weddi*; pan yw y *weddi* sy *gyffredin*, ac nid y *lyfr*.]

† *Cambrian Register*, 1796, p. 473.

London, Printed for Paul Man, 1622.'

Llyfryn o 98 tudalen 4plyg ydyw, yn cyfarwyddo chwilio hynafiaethau gan y Cymro uchod yn Llundain.

1623.

1. 'Beati Pacifici ; a Divine Poem, written to his most Excellent Majesty. By Sir John Stradling.'

London, 1623, 4to.

[Gweler t. 67, nod ‡, a rhif 2, d.f. 1607, yng nghylch Syr John Stradling.]

Yr oedd hwn wedi cael ei ddarllen gan y Brenin Iago mewn ys-grif, a'i argraffu trwy awdurdod.

3. 'Remaines concerning Britain, Languages, Surnames, Anagrammes, Proverbs, &c. By. W. Camden.' 1623.

1625.

1. 'Divine Poems, in seven several classes, written to King Charles I. By Sir John Stradling.'

London, 1625, 4to.*

2. ¶ 'A Discourse before James I. By the Bishop of St. David's. 1625.' 4to.

Yr Esgob oedd y Dr. Wm. Laud; ac y mae y bregeth yn wlad-ddysg drwyddi.

1627.

1. 'England, Wales, Scotland, and Ireland, Described and Abridged with y^e History. A Relation of things worthy of Memory from four Larger Volumes. Donne by John Speed. 1627.'

Talfyriad byr yw hwn o waith mawr yr awdwr.†

2. 'The Theatre of the Empire of Great Britaine; Presenting an exact Geography of the Kingdoms of England, Scotland, Ireland, and Wales, &c. Described by John Speed. Imprinted at London. 1627.'

Tybir mai yn 1610 y dylasai hwn fod gan fod rhai o'r darluneni o'r amseriad hwnw, yr hyn a ddengys mai rhywun a geisiodd wneyd cyhoeddiad newydd o'r hen argraffiad, trwy newid yr amseriad, yr hyn a wneid yn fynych gynt â hen ystôr o argraffiadau blaenorol.

[Cymharer rhif 1, d.f. 1614.]

* Gwel 2, 1607; a rhif 1, 1623.

† Gwel rhif 1, 1610; a rhif 1, 1616.

1628.

1. 'Epigrammatum Joannis Owen Cambro-Britanni Oxoniensis Editio Postrema.

Lugduni Batavorum, Ex officina Elzeviriana, Anno 1628.'
12mo.

[Canfyddir i'r argraffiad hwn ddyfod allan o wasg glodfawr yr Elzeviriaid yn Leiden. Yr *Elzeviriaid* oeddynt deulu o argraffyddion dysgedig ac enwog yn Holand yn y 17fed ganrif, ac ymsefydlodd gwahanol gangenau o honynt yn Amsterdam, Leiden, yr Hag, ac Wtrecht, lle y dygasant eu celfyddyd i berffeithrwydd mawr, yn gystal o ran tlydni a chywirdeb, yn enwedig yn y llythyren fân, yr hon a ddefnyddid ganddynt yn fynych. Cynnwys eu hargraffiadau yn benaf weithiau ysgrifenyddwr Groeg a Rhufain. Gwir enw y teulu ydoedd *Elzevier* (yr hwn a ddaw o'r Isdiraeg *else*, llwyfen, a *vuur*, tân). Y tro cyntaf y cyfarfyddir â'r enw Elzevir mewn cyssylltiad â llyfrau, sy mewn argraffiad o Eutropius, yr hwn a argraffwyd yn 1592, ac a gyhoeddwyd yn Leiden gan Lewis Elzevir; a darfu am danynt, fel argraffyddion, gyda phlant Daniel Elzevir, yr hwn a fu farw yn 1680. Argraffeb gyffredin yn Elzeviriaid ar eu llyfrau yw 'Apud Elzevirios,' neu 'Ex officina Elzeviriorum,' neu 'Ex officina Elzeviriana,' ac anfynech y ceir cynenwau neb o'r teulu ar gynddalen y llyfrau a gyhoeddwyd ganddynt.]

2. 'Llyfr y Psalmiau, VVedi ev cyfieithv, ai Cyfansoddi ar fesvr Cerdd yn Gymraeg. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionydd. A'i Printio yn Llundain, 1628.'

Ymddengys yr argraffiad hwn gael ei gyhoeddi wrtho ei hun i'w gydrwymo ag unrhyw argraffiad dyfodol o'r Llyfr Gweddi Gyffredin; caws ceir ef gyda Llyfr Gweddi y fl. 1634.

3. ¶ 'An Act for the Establishing the Estates of Bronfield and Yale, in the Countie of Denbigh, and of the Tenures, Rents, and Services thereupon reserved.

London, Printed by Bonham Norton, 1628.'

Y mae hon yn weithred seneddol bwysig berthynol i sir Ddinbych, yr hyn a ofynid gan Siarl I, pan oedd yn Dywysog Cymru.

1629.

1. Pregeth ynghylch Edifeirwch, gan Arthyr Dent. O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficar y Waun, yn sir Dinbych.'

Llundain. 12plyg.

ROBERT LLOYD a benodwyd yn ficer y Waen yn 1615, ac a drowyd allan gan Brofwyr Cromwel.* Yr unig grybwylliad am dano yng nghoflyfr y plwyf hwnw, yw y cofnod canlynol:—'Jane Lloyd filia Rob^{ti} Lloyd vicarii de Chirke sepulta fuit apud Llandysyl 26. Septembris 1633.† Ymddengys hefyd ei fod yn ficer Llanasa, yn sir Fflint. Cafodd hefyd ficeriaeth Llanrwst yn 1619,

* Walker, *Sufferings of the Clergy*.

† *Llythyr* y Parch. Joseph Maude, ficer y Waen.

ficeriaeth y Cwm, ger Llanelwy, yn 1625, a phersoniaeth Llandyssul, ger y Dref Newydd, yn 1625. Ymddengys mai y lle cyntaf a gafodd ydoedd ficeriaeth yn sir Amwythig.* Pa sawl un o'r bywoliaethau hyn oedd efe yn eu dal gyda'u gilydd nis gwyddom; ac ymddengys fod Willis yn cyssylltu dau o'r un enw,—o bosibl ei dad.

1630.

1. 'Yr Ymarfer o Ddwioldeb: Yn Cyfar-wyddo dŷn i ryngu bodd Duw: Yr hwn lyfr â osodwyd allan yn saeson-aec o waith y gwir barchedig dād Lewis Escob Bangor, ac a gyfieithwyd yn Gamber-aec o waith Row. Vaughan o Gaergai o sir Feirion wr bonheddig. *Est voluisse satis.*

Printiedig gan Felix Kyngston tros Robert Allot,† ac ydynt iw cael tan lŷn yr Arth, ym monwent St. Paul yn Llundain. 1630.' [12plyg bychan.]‡

Yr oedd Rowland Vaughan, o Gaergai, wedi cyfieithu y llyfr uchod er y flwyddyn 1620, fel y dywedir ar wyneb-ddalen yr argraffiadau diweddaraf; ond oeddoddi ei roddi yn y wasg y pryd hyny, ef allai, o blegid bod y Beibl mawr yn dyfod allan gan yr Esgob Parry. Yr oedd yn y wasg yn gynnar yn 1629; canys dywedir yn yr 'Annerch' 'Atydarlennuddo Gymrovniaith', rhagddodedigi'r 'Llwybr Hyffordd,' a gyhoeddwyd yn y flwyddyn hòno: §—'Mi â amcanaswn chwaneu at ddiwedd y llyfr yma fagad o weddiau iwr harfer ar amryw fâth ar achlyssur, ac achosion; eithr y mae yr *Ymarfer o Ddwioldeb* ynteu tan y Print-wase, ac yn bryssio i ddyfod i wlâd Gymru cyn y gaiaf; oddi-yno y gelli di gael beth bynnag a ddymunech. Dyna wr boneddig yn treulio ei amser yn weddol, ac yn ganmoladwy, gan wneuthur gwasanaeth i Dduw, daioni iwr wlâd, a llesâd mawr iddo ei hŷn drwy gyfieithu y llyfr godidog hwnnw. Pe cymmerai foneddigion ieuainge ein gwllâd ni ryw gyffelyb orchwyl-waith duwiol a buddiol, i dreulio eu hamser arno, ni byddei anllywodraeth, a rhysedd yn cael cymmaint rhwyse: Na gwir grefydd vniawn-grêd yn cael cyn lleied bri, a chymmeriad; ac ni byddei occreth yn yssu, ac yn bwytta y naill ddarn o'u tiroedd, na thafarndai, a mwg Tobacco yn yfed y darn arall.' Os oedd achos achwyn gan weinidog yr efengyl fel yna yn y flwyddyn 1629—dros ddwy ganrif a chwarter yn ol, pa faint mwy yw yr achos yn bresennol! Er bod dysgwyliad i'r llyfr hwn fod allan 'cyn y gaiaf' y llynedd, ni ddaeth hyd nes

* Edwards's *Willis's Survey of St. Asaph.*

† Tra thebyg mai un o geraint John Allot, yr hwn oedd yn bregethwr llafurus a defnyddiol, ac a drowyd o ficeriaeth Nottingham, o blegid ei anghydfurfiaeth, ydoedd hwn. Palmer's *Calamy's Non-Con. Memorials*, vol. iii. p. 90. Ymddengys ei fod yn dda ei sefyllfa yn y byd: canys dywedir iddo roddi 10p. i'r tldion, a'r un swm i gwmpeini y Safwerthwyr.—Timperley's *Dictionary of Printing.*

‡ [Cynnwys corff y gwaith 697 o dudalenau; yr arweinolion, 34; a'r cynnwysiad ar y diwedd, 8; y cyfan yn gwneuthur 739 o dudalenau.]

§ [Yn hytrach, yn y flwyddyn ganlynol, sef 1630.]

oedd y flwyddyn hon (1630) wedi dyfod i mewn. Y mae yn ei ragflaenu anerchiad o eiddo yr awdwr, 'Levvis Bayly,' 'At yr vchel allvocaf Dywysog, Charles, Tywysog Cymbrù.' Hefyd anerchiad y cyfieithydd 'I'r annwyl urddasol wraig, Margred, vnig etifeddes Syr John Lloyd, marchog, a Sersiant o'r gyfraith, a chywely John Lloyd o Riwaedog Esc. grás a thangneddyf yn y byd hwn, a gorfoledd tragwyddol yn y byd a ddaw a ddeisyf, R. V.' Y mae yn diweddu—'Eich câr âch câr, gorchmynnwch o mynnwch, Rovv. Vaughan.' Yn yr anerch 'At y Darlleidd' y mae yn gwneyd gwawd dychanllyd yn erbyn y Cymry ag oedd yn ei oes ef yn dibrisio eu hiaith:—

'Yr ydwyf fi yn gweled cymmaint o ragor rhyngddi ac iaith y Saeson, ac sydd rhwng cochol newydd a chaberden glytiog: ac etto nid oes vn sail o athrawiaeth yn y saith gelfyddyd, nad yw wedi ei addurno yn eu hiaith hwy. Oh Frutaniaid gwaedol, cymmerwch chwithau beth poen a thraul, i osod allan eich tafodiaith gyfoethog: oddieithr i chwi fod o vn feddwl a'r cymru seisnigaidd, y rhai sydd yn tybied yn oreu ddeleu a diffoddi ein hiaith ni. . . . Mwyaf peth sydd yn dyfod yn erbyn ein hiaith ni ydyw, anhawsed gan y cymru roddi eu plant i ddyscu, fel y mae'n well gan lawer dŷn fod ei etifedd yn fuwch yn ei fyw na threilio gwerth buwch i ddyscu iddo ddarllain: ac ni cheir yn lloegr nemmawr o eurych, neu scubwr simneiau na fedro ddarllain, ac na byddo a'i lyfr tan ei gessel yn yr Eglwys, neu yn ei ddarllain pan fyddo'r achos. . . . Ac nid oes gennif fi ond hyn i ddywedyd wrthit, i gloi ar y cwbl. Edrych a ddichon y llyfr hwn roddi meddyginiaeth i'th enaid, neu lyfrau eraill o'i gyffelyb: megis y llyfr odiaethol a gyfenwir *llwybr hyffordd i'r nefoedd* o gyfieithiad y llên dyscedig, am hanwyl athro Mr. Ro. lloyd Ficar y waen, neu bregeth am edifeirwch o waith yr vnryhw gymreugydd rhagorol: ac oni ddichon hynny beri i ti wellhau dy fuchedd, ni byddit ddim gwell *pe cyfodai vn oddiwrth y meirw* i'th athrawiaethu, eithr os cei di ddaioni oddiwrth y llyfr hwn, meddwl yn dy weddi am vn a fydd rhwym i wneuthur i'w iaith a'i wlad y gwasanaeth a'r vfydd-dod gorau ar a fedro, tra byddo ei enw *Row: Vaughan.*'

Y Dr. LEWIS BAYLY, awdwr y llyfr hwn, ydoedd enedigol o dref Caerfyrddin; ac yr oedd yn un o hynafiaid Ardalydd Mon.* Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Ecseter, Rhydychain. Yn 1611, yr oedd yn weinidog Evesham, yn sir Gaerwrangon, capelwr i'r Tywysog Harri, a gweinidog Eglwys St. Matthew, Heol Ffriday, Llundain. Am fod ei glod yn fawr fel pregethwr enwog, efe a wnaed yn gapelwr i'r Brenin Iago I, yr hwn a'i dyrchafodd i esgobaeth Bangor, ar farwolaeth y Dr. H. Rowlands, a chyssegrwyd ef yn Lambeth, Rhag. 8fed, 1616. Ar y 15fed o Orphenaf, 1621, taflwyd ef i garchar yn Ffleet, fel y tybir, am ryw ymyraeth yn achos priodas y tywysog â merch brenin Yspañ; ond cafodd yn fuan ei ryddhau. Ei brif waith ydoedd y llyfr hwn, yr hwn a fu yn un o'r

* Hanes arall a ddywed mai o Scotland y daeth, gyda'r Brenin Iago I, fel capelwr i Henri Ffrederic, Tywysog Cymru, ac athraw i'r Tywysog Siarl, wedi hynny Siarl I.—*Gwladgarwr*, 1837, t. 3.

llyfrau mwyaf poblogaidd yn yr iaith Seisoneg am flynyddoedd. Yr oedd argraffiad 8plyg y fl. 1734, yn 59fed;* ac argraffwyd ef yn Gymraeg tua chwech gwaith, ac yn iaith y Ffrancod yn fynych. Achosodd ei gyhoeddiad yn yr iaith hòno beth dadl. Dywedid mai nid Bayly oedd yr awdwr, eithr un *Price*, archddiacon Bangor; tra yr haerodd un Lodwic Molins iddo gael ei ysgrifenu gan weinidog Puritanaidd, a darfod i esgob, yr hwn nad oedd yn hynod am ei dduwioledeb, brynu y llawysgrif gan weddw hwnw, yr hwn, wedi ei feddiannu, ni thalodd byth am dano: wedi hyny iddo ei gyfnewid mewn rhai manau, a'i gyhoeddi fel ei waith ei hun. Ond pa fodd bynag, cyfrifid y llyfr yn barchus fel awduriaeth Bayly gan y rhan fwyaf. Bu yr awdwr farw yn 1631, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Gadawodd ar ei ol bedwar o feibion.† Daeth un o honynt—John—yn awdwr rhai pethau bychain,‡ yn gapelwr y brenin, ac yn warcheidiwr Elusendy Gabriel Goodman, yn Rhuthyn. Thomas, yr ieuangaf, a ddaeth yn D.D.; cymmerodd arfau ym mhlaidd y brenin yn Rhaglan; wedi hyny gogwyddodd at Babyddiaeth; ac o blegid rhywbeth a ysgrifenasai yn sarhäus ar y llywodraeth, efe a garcharwyd yn Newgat. Diangodd o garchar, ac aeth i Holand, lle yr addefodd ei hun yn Babydd. Cyhoeddodd amrai weithiau, a bu farw yn yr Ital, mewn tloidi mawr, o ddeutu y fl. 1659.§

Am y cyfieithydd 'Row. VAUGHAN, wr bonheddig,' yr oedd yn byw yng Nghaergai [ym mhlwyf Llanuwchllyn], ger y Bala, yn sir Feirionydd, ac yn tarddu o hen deulu o'r un enw ag oedd yn meddiannu y lle hwnw er ys cannoedd o flynyddoedd cyn ei amser ef. Yr oedd enwogrwydd yn perthynu iddynt fel teulu, neu genedl. Yr oedd un Gwerfyl Mechain, merch Hywel Fychan, yr hon oedd brydyddes, ac yn byw rhwng 1460 a 1490, yn y lle hwn.|| Brawd i hòno, a mab i Hywel Fychan, o'r enw John Fychan, a briododd ferch un Cadben Madog, a mab iddynt hwythau, o'r enw Robert, a briododd etifeddes Gwern Brychdwn, yr hon oedd yn un o Lwydiaid Mathafarn, a merch i'r rhai hyny a briododd y Milwriad Salisbury, o Rug, ger Corwen, a Bachymbyd, ger Dinbych, yr hwn oedd yn cael ei alw yr '*Hosanau Gleision*,' a'r hwn oedd yn llywodraethwr Castell Dinbych, efe amser y rhyfel cartrefol.** Yng nghofrestr sir-yddion Meirionydd, ceir fod John Fychan o Gaergai yn sirydd yn 1615 ac 1622. Yn 1644, cawn Rowland Fychan, y cyfieithydd, ac ereill wedi hyny o'r teulu, yn siryddion. Cafodd ef ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, ond nid arosodd yno i gymmeryd graddau. Gelwid

* [Y mae genyf yn awr o'm blaen argraffiad o hono a ymddangosodd yn Llundain yn 1810, yr hwn y dywedir mai y 70fed ydyw.]

† Dau fab, medd ereill.—*Gwladgarwr*, 1837, t.3.

‡ 'Two Sermons. The Angell Guardian. The Light Enlightening. Preached by John Bayley, Guardian of Christ's Hospitall in Rhuthyn, 1630.' Y mae y cyflwyniad i'w Dad, Lewis Bayly, Esgob Bangor.

§ Wood's *Athen Oxon.*; *Biog. Brit.*; Williams's *Eminent Welshmen*.

|| Owen's *Cambrian Biography*.

** *Gwylidydd*, cyf. vi. t. 87.

ef y *Cadben Fychan* neu *Vaughan*, gan ei gydnabod, o blegid iddo wasanaethu yn y fyddin o blaid y brenin; ac y mae prawf ei fod ym mrwydr *Naseby*. Y mae ar gael yr hysbysiad canlynol:—‘Ymofyn-er am un S—H—, o L-n-ll-ch-d,* yn agos i *Fangor*; gwr du, byr, llydan-ysgwydd, a chydnerth ei wneuthuriad. Bu yn ymladd o dan y *Cadben Rowland Fychan* yn ymladdfa *Naseby*, lle y cymmerwyd ef yn garcharor. Anfonwyd ef â phenweig neu ysgadan cochion, i un *Mr. Wyn*, yn agos i *Gaerwrangon*, yr hwn a fuasai yn ddiweddar yn swydd *Gaernarfon* yn prynu gwartheg, ac a gyflogasai y dywededig S—H— i’r gorchwyl uchod. Gwelwyd ef yn ddiweddar yn dychwelyd tuag adref, y pedwerydd dydd ar bymtheg o *Ionawr* diweddaf, ar *Fwlch Oerddrws*,† lle y tagodd efe ryw gylchwerthwr (*pedlar*), gan yr hwn oedd ceffyl yn llwythog o *dobacco*, triagl, dwr y bywyd (*brandy*), a lliain, &c., &c.; a chymmerodd y cwbl ymaith.’‡ Y mae ef ei hun hefyd yn cyfeirio, fel y tybir, at hyny, pan y dywed wrth ei ‘anwyl nai *Eu. Vaughan*, Moel y *Fronllwyd*,’ ‘Mi a welaf yr awrhon i mi achos dda i *Ddiolch* i *Dduw* ac i orfoleddu yn ein gwaith yn gwrthryfela (er na ynnillodd yr vn o honom ond ychydig ar ein gwaith, etto rhaid oedd i ni fyned ar ol ein rhywogaeth) y naill tros y Brenin a gwir ragorfraint y *Gymanfa*, a’r llall tros y Brenin ar *Gymanfa*, ac i ddiweddu yn llawen *milvus rapiat vtrumq; bellatorum*, y trydydd â’r asgwrn.’—Rhagymadrodd i’r ‘*Pregeth yn erbyn Schism.*’ Yr oedd yn selog iawn tros y brenin; canai mewn gogan i’r blaid seneddol, a chyfeiriai yn gas atynt yn rhagymadrodd y llyfrau a gyfieithodd o waith y *Dr. Brough*, y rhai a enwir yn eu trefn; a darfu i’w sel gynhyrfu y blaid hono, nes iddynt losgi ei dy a’i feddiannau yn 1645, a u trawsfeddiannu. Dywedir hefyd iddo yntau fod yn garcharor yng *Nghaerlleon* am dair blynedd.§ Adferwyd ei feddiannau, ac adeiladodd ef ei dy eilwaith, gan gerfio englyn uwch ben y porth. Pa bryd y bu farw, nid oes dim cofnod i’w gael, am a wyddys.|| Am y cyhoeddwr *Allot*, a’r argraffydd, nid oes genyf eto ddim hanes.

2. ‘Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a’r Newydd.

Printiedig yn *Llyndain*, gan *Robert Barker*, Printiwr i *Ardderchoccaf fawrhydi* y Brenin: a chan *Assignes Iohn Bill*. Anno Dom. 1630.’ [8plyg.]

Y mae yn ei ganlyn, ‘*Testament Newydd ein Harglwydd a’n Hiachawdwr Iesu Crist*. Printiedig yn *Llyndain* gan *Robert Barker*, Printiwr i *Ardderchoccaf fawrhydi* y Brenin: a chan *Assignes Iohn Bill*, Anno Dom. 1630.’

Y mae hefyd y ‘*Llyfr Gweddi*,’ yn ei ragflaenu, ac hefyd anerchiad *Lladin* *Richard*, *Esgob Llanelwy*, at y Brenin *Iago*, a *Llythyr*

* *Llanllechid*.

† [Rhwyng *Dolgellau* a *Dinas Mawddwy*.]

‡ *Gwyliedydd*, cyf. iv. t. 247.

§ *Gwyliedydd*, cyf. t. ii. 218. Rhagymadrodd i *Waith Huw Morris* [t. x].

|| *Williams’s Eminent Welshmen*.

Lladin yr Esgob William Morgan at Elisabeth; ac yn eu dilyn, 'At y Darllenydd' yn Gymraeg.

Bu y Cymry uwch law *deng mlynedd a thrigain* ar ol sefydliad Protestaniaeth gan y Frenines Elisabeth, ac agos i *gan mlynedd* ar ol gwahanu Prydain oddi wrth Eglwys Rhufain, heb fod dim Beiblau yng Nghymru, ond yn yr eglwysi, y capeli plwyfol, a'r eglwysi cadeiriol. Nid oedd darpariaeth wedi ei gwneyd i'r werin hyd yr argraffiad hwn, fel pe na buasai ganddynt hwy ddim i'w wneyd â gear Duw ond ei wrandaw unwaith yn yr wythnos. Yr oedd yr argraffiad o'r blaen yn unplyg, yn fawr, yn drwm, ac yn ddrud iawn, allan o gyrhaedd y cyffredin, ac yn anghyflës i'w drafod hyd yn oed ar ddarllenfa yr eglwysi. Yr oedd, gan hyny, eisieu Beiblau bychain, hwylus at wasanaeth teuluaid a chyffredin. Yr oedd yr argraffiad hwn yr hyn oedd eisieu—yn wythplyg, neu bedwarplyg bychan o'r hen ddull.* Yr anrhydedd hwn o ddarparu y Beibl fel hyn, y waith gyntaf, i wasanaeth y cyffredin yng Nghymru, sy ddyledus i ddau o hiliogaeth y Cymry, y rhai oeddynt y pryd hyny yn ddinasyddion Llundain, sef Rowland Heylyn a Syr Thomas Middleton.

ROWLAND HEYLYN neu HEILYN, oedd o dylwyth Pentref Heilyn, yn sir Drefaldwyn.†

SYR THOMAS MIDDLETON, oedd fab Richard Middleton o Waenynog, yn sir Ddinbych, a'r hwn oedd yn meddiannu Castell y Waen, trwy bryniad, a brawd i Syr Hugh Middleton, y mwnwr, yr hwn a ddygodd yr Afon Newydd o Ware, yn sir Hertford, i Lundain, ac i'r Cadben William Middleton, neu Gwilym Ganoldref, y bardd, yr hwn, fel y gwelwyd [rhif 1, d.f. 1593, a rhif 2, d.f. 1603] a drodd y Salmau ar gân. Sefydlodd Syr Thomas yn Llundain fel gof aur. Bu yn gwasanaethu y swydd o Arglwydd Faer Llundain, ac efe oedd sylfaenydd Middletoniaid Castell y Waen. Bu i'w rieni naw o feibion a saith o ferched. Y mae cerfiad yn yr Eglwys Wen, ger Dinbych, ar fedd eu tad a'u mam, yn eu dangos oll, y naw mab o'r tu cefn iddo ef, a'r saith merch o'r tu cefn iddi hithau.‡ Cymmerodd Syr Thomas law helaeth a llywyddiannus gyda'r Senedd yn erbyn Siarl I; ac wedi hyny newid-

* [Wythplyg ydyw ei faintioli. Y mae y llythyren yn bur fân, ond yn lled brydferth.]

† Ystyr y gair *Heilyn* yw *trulliad*; ac yr oedd trulliaid etifeddol i Dywysogaeth Powys. Peter, *Hanes Crefydd*, nodyn, t. 512. Yr oedd nai iddo o'r enw Dr. Peter Heylin, yr hwn a anwyd yn 1599; ac a fu farw yn nodedig yn ffafr yr Archesgob Laud, a Siarl I. Ysgrifnodd lawer iawn ar y rhan fwyaf o ddadleuon yr oes. Bu farw yn 1662, yn 63 oed. Bu iddo yntau fab o'r enw Dr. Henry Heylin. Bu arall o'r enw Dr. Richard Heylyn yn Ganon Eglwys Grist, Rhydychain. Bu hefyd Gronwy Heilyn, yng ngwasanaeth 'Llewelyn ein llyw olaf.'—*Cambrian Register*, 1795, pp. 278-9; *Wood's Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 182-189, a 824.—[Ym mhlwyf Llanymynech, yn swydd Amwythig, y mae Pentref Heilyn, ond ei fod ar gyffiniau swydd Drefaldwyn. Bu yr Henadur Heilyn yn un o henaduriaid Llundain, ac yn sirydd y ddinas hōno. Ar ei draul ef yr argraffwyd yr 'Ymarfer o Dduwioldeb' (rhif 1, dan y flwyddyn hon), yn gystal a'r argraffiad Splyg o'r Beibl a gofnodir yn y lle hwn. Bu farw yn 1634.—*Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 19.]

‡ Pennant's *Tours in Wales*, vol. ii. p. 31. [*Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 433.]

iodd ei blaid, a chymmerodd arfau o du'r brenin; diangodd i'w gastell, a cheisiodd ei amddiffyn; ond bu gorfod rhoi i fyny ar yr ammodau a ofynid gan wŷr y Senedd.* Am yr argraffwyr, dywedir i'r Brenin Siarl I. ar Orph. 20, 1627, ac yn y 3edd flwyddyn o'i deyrnasiad, gael ar ddeall fod trwydded y *Barkers* wedi ei throsglwyddo i Bonham Norton a John Bill, ac efe a gadarnhaodd y trosglwyddiad;† a dyna pa ham y dywedir fod y Beibl hwn wedi ei argraffu gan Robert Barker, 'a chan Assignes John Bill.'

3. 'The History of the Ancient and Moderne Estate of the Principality of Wales, Dutchy of Cornewall, and Earldome of Chester. Collected out of the Records of the Tower of London, and diuers ancient Authours. By Sir Iohn Dodridge Knight, late one of his Maiesties Iudges in the Kings Bench. And by himself Dedicated to King Iames of euer blessed memory. London, ¶ Printed by Tho. Harper, for Godfrey Emondson and Thomas Alchorne. MDCXXX.'

Syr JOHN DODRIDGE ydoedd frodor o Barnstabl, Dyfnaint [lle y ganed ef yn 1555]. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Ecseter, Rhydychain, o'r lle y symmudwyd ef i'r Deml Ganol, ac y daeth yn enwog yn y gyfraith. Penodwyd ef gan ei fawrhydi yn Brif Ynad yn 1607, ac yn Farnydd y Llys Penadur, yn 1613 [a bu farw yn 1628].

4. 'Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ai cadwedig, ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ymddyddanion, yn gyntaf yn Saesonaec, o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon wedi ei gyfieithu yn Gamber-aec er cymmorth i'r Cymrc annyscedig, fel y gallo efe gael yn ei dafod-iaith ei hŷn, foddion a chyfryngau i chwanegu ei wybodaeth i wasanaethu Duw.

Printiedig yn Llundain gan Nicholas Okes dros George Latham, ac a geir ar werth ym monwent St. Paul tan arwydd Pen Escob. 1630.'

Cyfieithiad Robert Llwyd yw hwn. Yr oedd pregeth Arthur Dent yn cael ei chyhoeddi gyda'r 'Llwybr Hyffordd,' ac ar wahan hefyd, mae yn debyg. Rhoddid y bregeth yn llawn yn yr argraffiadau cyntaf, ond yn y lleill dim ond talfyriad o dri thudalen, fel ag i lenwi

* Pennant's *Tours in Wales*, vol. i. p. 284. [Mab i'r Syr Thomas Middleton (brawd Syr Huw Midleton a Gwilym Ganoldref) a gofnodir gan yr awdwr, ydoedd y Syr Thomas Middleton a ddug ran o draul argraffu Beibl Cymraeg 1630, ac a gymmerth ran yn y rhyfel rhwng Siarl I. a'r Senedd. Y tad a fu yn Arglwydd Faer Llundain, yn nheyrnasiad Iago I, ac a brynodd Gastell y Waen, yn 1595; a'r mab ydoedd yr ail Filtwn o'r lle hwnw. Felly ewythredd i'r gwr hwn (ac nid brodyr) oedd dygiedydd yr Afon Newydd i Lundain, a chynganeddwr y Salmau ar fesur cerdd.]

† *A Concise History of Printing*, p. 115.

y llen. Yn niwedd ei 'At y Darlennydd,' dywed y cyfieithydd, 'O'm stafell yn Ffoster-lân yn Llundain yr Vgeinfed dydd o fis Medi, 1629. Yr eiddot yn yr Arglwydd, R. Ll.' Wrth ymresymu a'i 'Ddarlennydd,' efe a ddywed:—

'Ai nahawdd genit dreulio amser yn y gorchwyl hwn, nid rhaid i ti golli dim amser a waethygo arnat, neu a rwystro dy orchwylion bydol yn eu pryd: y mae 'r nos yn hîr y gaiaf, a'r Suliau, a'r gwyliau yn hîr yr hâf; gad ymmaith y twmpath chwareu, a'r bowliau, a'r tafarnau, a'r bêl-droed, a'r denis, a'th negeseuau; gwna y pethau hyn yn weddol ar dy ddiwrnodau dy hûn, o bydd achos: eithr gwasanaetha Dduw ar ei ddydd ei hûn; ac onidê, efe a ddigia wrthit, ac i ba le y ffoi di rhagddo?' * * * 'Ai ni fedri di ddarlain Cymraec, na neb o'th dy chwaith? O, beth â ddywedaf wrthit, ond Duw a'th helpio druan; pa fodd y gwasanaethi di Dduw, gan na fedri ddarlain ei air ef. Dyse yn gyntaf y gelych, neu bâr i ryw vn o'th dy ddysey darllain, a dysced y lleill gan hwnw: Mi a gymmeraf arnaf osod y dyn ieuangc a fynnych (yn enwedig o bydd efe hyddyse) ar ffordd gymmwys i ddyfod i ddarlain o honaw ei hûn yn adrybelydr yn ôl cymmeryd o honof ychydig o boen gyd ag ef tros vn wythnos. A pheth yw hynny wrth y llesâd a ddichon dyfû oddiwrtho?'

Gellid tybied mai gweinidog ffyddlawn yn ei ddydd oedd Robert Llwyd, gan ei fod yn llefaru mor eglur yn erbyn gwagedd ac oferedd. Yr oedd hefyd yn fardd o gryn fedrusrwydd.

Arthur Dent, pregeth yr hwn sy gyssylltiol â'r llyfr hwn, oedd 'Weinidog Gair Duw yn South Shoobery, Essex,' ac yn un o'r Presbyteriaid yn amser Iago I. Efe a ddyoddefodd lawer o orthrymderau o blegid ei anghydfurfiaeth; a dyma ei bregeth yn cael ei Chymreigio a'i chyhoeddi gan Eglwyswr. Ysgrifennodd a chyhoeddodd waith enwog o'r enw 'The Ruine of Rome, or, an Exposition of Revelation.' Bu farw tua'r flwyddyn 1600.*

1631.

'Car-wr y Cymru, Yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwlad wyr er mwyn Crist ai heneidiau i chwilio yn Scrythyrau yn ol gorchymyn Crist. Joh. 5. 39. Y rhai, yr awr 'hon yn ddiweddar a brintiwyd o newydd yn Gymraec; ac a geir ar werth yn llyfran cynnwys, a bychain eu maintioli a'i prîs, drwy fawr ddiwydrwydd, a thraul swrn o wyr Duwyol, enwog ac ewyllys-gar i wneuthur daioni i'r Cymru.

Llyndain, Printiedig gan Felix Kyngston, drwy awdurdod. 1361.'

Y mae yn llyfr bychan o 135 o dudalenau 32plyg. Yn y dechreu y mae dau dudalen o—'Cynhwysiad y llyfran hwn,' mewn llythyr-enau Italaidd. Cyrhaedda corff y gwaith i'r tudalen 95. Yna 'Gweddi y Cymro am faddeuant *am iddo hyd yn hyn esceuluso chwilio*

* Brooks's *History of the Puritans*, vol. ii. p. 113. [Am chwaneg o hanes y 'Llywbr Hyffordd,' gweler rhif 3. d.f. 1682.]

yr Scrythyrau, ac am Râs o hyn *allan i'w iawn-chwilio* hwynt,' yn 4 tudalen; 'Gweddi y Car-wr dros y Cymru, *ar i Dduw drugarhau wrthynt a gostwng eu calonau i gadw y gyfraith hon,*' o 5 tudalen; 'Boreuol weddi i'w harfer *mewn Teulu,*' o 4 tudalen; 'Prydnawnol weddi i'w harfer *mewn teulu,*' o 4 tudalen; 'Boreuol weddi Pen-teulu *ar y dydd Sabboth,*' o 3½ tudalen; 'Prydnawnol weddi Pen-teulu *ar y dydd Sabboth,*' o 2 tudalen; 'Gweddi pen teulu *cyn bwyd,*' 'Diolchgarwch pen teulu *ar ol bwyd.*' Yna ceir—'At y *darlleydd,*' o tua 3 tudalen, wedi ei arwyddo 'R. Lloyd;' tudalen heb argraff; a gwyneb y llall gyda 'Felix Kyngston ai *preintiodd, dros yr Awdur, drwy Awdurdod,*' ar ol tudalen gwyn, ceir anerchiad yn Seisonaeg, o 5 tudalen:—'To all the Worthy and True-hearted Well-willers and furtherers of the Spiritual weale of Wales, who haue put their helping hands and *hearts to that late, necessary, and worthy worke of Setting forth the Bible in Welsh, in a small volume. The Author of this Welsh treatise, wisheth Wisdoms Gift (as a gracious Recompence of Reward from the Lord) viz. Length of daies, riches and honor; with Eternall life which is the gift of God through Iesus Christ our Lord. Amen.*' Diwedda gyd 3 tudalen o—'The pronounciation of the Letters in the British tongue,' ac—'A comparison of the pronounciation of the letters in Welsh, to the Greeke and Hebrew Letters,' a'i arwyddo 'By Edward Kyffin.'

OLIVER THOMAS, ydoedd weinidog o Groesyswallt, er na cheir fod neb o'r enw wedi bod erioed yn gweinidogaethu yno yn yr Eglwys Sefydledig, nac yn un lle arall yn y gymmydogaeth sydd o fewn Esgobaeth Llanelwy.* Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Neuadd Hart, yn Rhydychain. Darfu iddo, gyda gweinidogion ereill, roddi ei enw wrth gyfreithlondeb y Cyfammod yn 1647. Yr oedd yn un o'r Profwyr yn y Weithred Seneddol er Lledaeniad yr Efengyl yng Nghymru. Buasai yn dal lleoedd yn sir y Mwythig, ac yn Ffelton yn y sir hōno y bu farw.† Y mae rhifnodau yr amseriad wedi eu camosod a'u gwneyd yn 1361, yn lle 1631, fel y dylent fod.

1632.

1. 'Antiquæ Lingvæ Britannicæ, nunc vulgò dictæ Cambro-Britannicæ, a suis Cymraecæ vel Cambricae, ab aliis Wallicæ, et Lingvæ Latinæ, Dictionarium Duplex. Prius, Britannico-Latinum, Plurimis venerandæ antiquitatis Britannicæ monumentis respersum. Posterius, Latino-Britannicum. Accesserunt Adagia Britannica, & plura & emendatiora quàm antehàc edita.

Londini, Impress. in ædibus R. Young, Impensis Joan. Davies SS.Th.D. An. Dom. 1632.' Unplyg. [4to.]

Dywedir mai gwaith un 'Dr. Thomas ab Wiliam' o Drefriw, yn sir Gaernarfon, ydoedd hwn yn wreiddiol, ac ei fod wedi ei ysgrifenu tua'r fl. 1600, a'i adael ar ei ol mewn ysgrif a ddaeth i law y

* Gwel Edwards's *Brown Willis's Survey of St. Asaph.*

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. p. 860.

Dr. John Davies o Fallwyd, yr hwn, wedi edrych drosto a gwneyd rhai gwelliadau ynddo, a'i cyhoeddodd gydag ail argraffiad o'i waith ei hun.* Gelwid y Williams hwn yn Syr THOMAS AB WILIAM gan ei gydwladwyr; yr hwn oedd fab i Wiliam ab Thomas ab Gronwy, ac yn disgyn o waedoliaeth Ednowain Bendaw, un o'r Pymtheg Llwyth, a Catherin, merch Meredydd Wynn ab Ifan ab Robert, o Wydir, ger Llanrwst. Ganed ef, medd ef ei hun,† yn 'Ardhe'r Meneich, dan droet yr Yri y'nghwmwt Llechwedh Isav, lle y darfu ei fagu a'i feithrin fwyaf.' Cafodd ei ddsgeidiaeth yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn A.C. Wedi hyny arferodd feddyginiaeth. Ysgrifennodd amrai weithiau gorchestol, heb law y Geirlyfr hwn, megys llyfr o'r enw 'Prif Achau holl Gymru Benbaladr;' Cynghorion Meddygol; a gwaith ar Seryddiaeth. Y mae hefyd ysgrif ar ei ol yn dwyn yr enwad yma:—'Llyfr Prophwydoliaethau Cymraeg a Seisoneg a Lladin o law Syr Thomas Williams.' Hefyd Llyfr Llysiau gyda'u rhinweddau meddygol. Ond ei brif waith oedd y Geirlyfr, yr hwn, gyda'i ysgrifeniadau ereill a enwyd, sydd yn Llyfrfa yr Hengwrt, lle bynag y mae hōno gan yr etifedd presennol, Syr Robert Williams Vaughan.‡ Y mae llawysgrif y Geirlyfr yn dair cyfrol bedwarplyg. Yr oedd Syr John Wynn o Wydir yn awyddus iawn am iddo ei gyhoeddi, ac mewn llythyr ato, yr hwn a amserwyd Hydref 21, 1620, efe a awgryma am ryw gynllun i wneyd hyny, yr hyn nid oedd yr awdwr yn gweled nemawr obaith y cwblhēid ef; canys efe a ateb Syr John mewn iaith fel hyn:—'Am y Geirlyfr Lladin a Chymraeg, yr hwn, trwy lafur a thraul fawr, fel y gŵyr Duw, a grynoais ac a drefnais yn ystod y deng mlynedd a deugain hyn, ychydig iawn o dâl neu ystyriaeth yr wyf yn ei weled am fy mhono, ac felly nid wyf yn meddwl gwneyd brys, gobrwyed Duw chwi am eich caniatād, i gyflwyno yr unrhyw i ryw un o'r dynion

* Gwel rhif 1, 1621. [Yr ail ran, sef y rhan Ladin a Chymraeg, sydd wedi ei chymmyrd allan o waith y Dr. Thomas ab Wiliam; gwaith y Dr. Davies ei hun yw y rhan gyntaf, sef y dosbarth Cymraeg a Lladin. Nid yw yr ail ran ddim ond *talffyriad* yn unig o waith y meddyg o Drefriw, a thalffyriad cwta ydyw. Y mae y gwaith gwreiddiol ar gadw yn Llyfrgell Peniarth, yn llawysgrifen yr awdwr ei hun; ac oddi ar ymchwiliad personol gallaf gyd-dystiolaethu ag awdwr dysgedig y *Dictionary of Eminent Welshmen*, nad yw yr hyn a gyhoeddodd Davies o hono nemawr gwell na dangoseg yn unig o'r hyn ydyw y gwaith megys y gadawodd ei awdwr llafurus ef. Nid yw Davies yn honi hawl i *awduriaeth* yr ail ran o'r Geirlyfr. Ni chyhoeddodd Davies, megys y dywed yr awdwr, *ail argraffiad* o'i Eiriadur, nac o un rhan o hono. Yr unig adargraffiad o hono yw yr un hwnw o'r rhan Gymraeg a Lladin a gyhoeddwyd gan Bocshorn, yn Amsterdam, yn 1654, 4plyg; ond yn yr argraffiad hwn gadawyd allan y geiriau Hebraeg ac ieithoedd ereill y cymherir y Gymraeg â hwynt. Y gwr a gyhoeddodd yr argraffiad hwn—Marc Suerius Bocshorn (Boxhorn neu Boxhornius)—a aned yn y fl. 1612, ac a fu yn athraw cadeiriog rheithioreg, llywodeg, a hanesyddiaeth, ym Mhrifysgol Leiden, yn Holand. Cyhoeddodd draethawd ar ddarganfyddiad argraffyddiaeth, ac ysgrifennodd amryw o weithiau dysgedig yn yr iaith Ladin mewn rhyddiaith ac ar fesur cerdd. Bu farw, meddir, yn 1653; ac os felly, bu farw cyn i Eiriadur Davies gael ei gyflawn ddwyn ganddo trwy y wasg, o leiaf cyn iddo gael ei gyhoeddi.]

† Anerch o flaen y Geirlyfr, argraffedig yn y *Greal*, 1805, t. 61.

‡ [Y mae holl Lawysgrifau Hengwrt yn awr ym meddiant W. W. E. Wynn, Yswain, Peniarth, ger Tywyn, Meirionydd; i'r hwn y gadawyd hwynt yn ewyllys Syr Robert W. Vaughan, y barwnig diweddaf o'r enw, yr hwn a fu farw yn 1858.]

hyn, addewidion mawr y rhai a brofais yn effaith fechan, mewn pethau yn cael eu gwneyd trostynt hwy, a rhoddi i fyny ryw gasgliadau iddynt hwy, heb dderbyn erioed *quid pro quo* am ddim o honynt. Fe wŷr Duw fy my mod i, yn y pedair blynedd yr oeddwn yn ysgrifenu y Geirlyfr, mor ddiwyd wrth y gwaith, fel yn fynych, pan ddeuwn oddi wrth y llyfr, na wyddwn, lawer gwaith, pa ddydd o'r wythnos a fyddai, ac felly mi a gollais fy ngalwedigaeth a allasai fod yn gan punt i mi, neu yn gryn lawer, a gallaswn fod yr amser hwnw yn dihoeni o newyn, oni buasai Duw, ac ystyriaeth eich anrhydedd, ac nid haelioni y dynion anhael hyn.* Y mae yn dra thebyg mai pabydd ydoedd o ran ei broffes, a rhoddwyd cyfraith arno ef yn llys esgobaeth Bangor, Mai 23, 1606, wrth yr enw '*Thomas Williams, alias Dns. Thomas Williams de Trefryw, eo quod recusat venire ad Ecclesiam;*' ac ar Dach. 12, 1607, yn llys yr Archesgob, '*Ds. T. Williams rescusans excommunicatur.*' Dywed yr Esgob Humphreys am dano, iddo ef glywed gan ei dad, ddarfod i'r Arglwyddes Bodvel ddywedyd wrtho, pan oedd ei thad, Syr John Wynn o Wydir, ar gychwyn i'r Senedd hòno, pan gymmerodd Brad y Pylor Gwn le, i Thomas Williams ddyfod ato, a'i berswadio yn daer i beidio â myned i'r eisteddiad hwnw; oddi wrth yr hyn y casglwyd wedi hyny ei fod ef wedi cael rhyw awgrym am y bwriad hwnw, ac nad oedd yn foddolawn gadael i'w gefnogydd gael dyoddef trwyddo. Yr oedd yn byw agos trwy ei oes yn Nhrefriw, ger Llanrwst, a dywedir iddo fod yn gwasanaethu yr eglwys hòno, ac y mae yn dra thebyg iddo gael urddau (gan y gelwid ef *Syr Thomas Williams*) yn amser Mari, ac iddo golli y lle ar esgyniad Elisabeth, o blegid ei ymlyniad wrth Babyddiaeth, ac iddo y pryd hyny droi i arfer meddyginiaeth yn lle y weinidogaeth. Ac y mae enw un Thomas Williams yn gurat Trefriw ar yr ymweliad esgobawl yn 1573.†

Y mae yn gyd-rwymedig â'r '*Geirlyfr Dyblyg*' hwn, restr o enwau awdwyr a beirdd, yng nghyd â hysbysiaeth am yr amser yr oeddynt yn oesi; ac hefyd gasgliad helaeth o Ddiarebion Cymreig, ac o Enwau Llysiâu, &c. Oddi wrth lythyr Lladinaidd a ysgrifenydd gan y Dr. Davies at Syr Simonds D'Ewes, ymddengys ddarfod i'r Doctor ysgrifenu deongliad i'r diarebion hyny;‡ a dywedir fod yr ysgrif yng nghadw yn y Gywreinfâ Brydeinig, Llundain, hyd heddyw, ac yn gwneuthur casgliad tra helaeth. Mae y llythyr crybwylledig wedi ei ysgrifenu o Fallwyd, Chwefror 2, 1640; ac yn dechreu fel hyn:—

'Pan y daeth eich llythyr i'm llaw, nid oedd genyf gyfieithiad o'r Diarebion Prydeinig o'r fath ag a ddeisyfech. Ond cyn gynted

* [*Cambrian Register* for 1795, p. 159.]

† Wood's *Athen. Oxon.*; Bishop Humphreys's *Additions, Cambrian Register*, vol. i. p. 157; Williams's *Eminent Welshmen*.

‡ Cyhoeddwyd y Diarebion yn llyfryn bychan yn Nhrefriw, yn nechreu y ganrif hon. [Y maent hefyd wedi eu hargraffu ar ddiwedd Geiriadur y Parch. Thomas Richards (1751); a chyda llawer o chwanegion yn y drydedd gyfrol o'r *Myvyrian Achaiology*. Y maent, yn fwy neu lai cyflawn, wedi ymddangos hefyd mewn rhai cyhoeddiadau ereill; ond nid oes yn agos y cyfan o Ddiarebion Cymru wedi eu hargraffu hyd yn hyn. Y mae casgliad helaeth o honynt yn llawysgrifen Iolo Morganwg yn llyfrgell Arglwydd Llanover, y rhai ni chawsant erioed eu hargraffu. Am adysgrifen o'r rhai hyn y cafodd Ab Ithel wobwr yn Eisteddfod Llangollen yn 1858.]

ag y derbyniais ef, dechreuais ar y gorchwyl o'u deongli; ac yr wyf yma yn anfon i chwi ychydig leni, a thrwy ganiatâd Duw, mi a yraf i chwi y gweddill ar fyrder.'

Y mae efe yn myned ym mlaen i ddangos natur a threfn y diarebion hyny, a'u tebygolrwydd, ar amryw ystyriaethau, i ddiarebion cenedloedd ereill. Mewn perthynas i'w lafur yn cyfansoddi y 'Geirlyfr' hwn, y mae efe yn ei ragymadrodd yn dywedyd:—

'Fel y byddai i'r gwaith hwn fod yn fwy perffaith a chyflawn, myfi a ddarllenais agos yr holl lyfrau sydd yn yr iaith Gymraeg, yn gystal rhai o waith llaw neu ysgrifenedig a'r rhai argraffedig; yn enwedig gwaith y Beirdd a'r Prydyddion, y rhai sydd ym mhob iaith, agos, yn sefydlu ystyr geiriau, ac yn fynych yn rhoddi iddynt arwyddocâd neillduol: hyn a fu er mawr les a budd i mi i'r dyben o sefydlu ystyr geiriau, a'u hysgrifenu yn iawn. Ond er bod gwaith y Beirdd o bob gwlad yn dywyll, ac yn anhawdd eu hamgyffred, eto nid ydwyf yn meddwl fod ysgrifeniadau'r Beirdd mewn un iaith yn fwy tywyll, a dyrs, ac annealladwy, nag yn y Frytaniaith. O herwydd pa ham, poenus a thrafferthus iawn a fu'r gwaith o'u darllen hwynt i mi, o achos fy mod wedi methu â gweled un dyn ag oedd yn eu deall yn y mesur lleiaf, fel y byddai i mi ddadgan fy meddyliau yn eu cylch wrtho, ac fel y cydymgyngorem yng nghyd o'u plegid.'

Yn un o'i llythyrau, efe a sylwa ddarfod iddo dreulio oriau hamdden yng nghylech deugain o flynyddau i gyflawnu y gorchwyl hwn. Mewn perthynas i waith y Doctor Thomas Williams, y mae efe yn sylwi fel y canlyn:—

'Na fydded i ti feddwl na chymmerais i ddim ychwaneg o drafferth yng nghylech Geirlyfr Lladin a Chymraeg y Dr. T. Williams na'i ail ysgrifenu allan o'i lawysgrifen ef ei hun; ond gwybydd fy mod i wedi chwaneu amryw eiriau Cymreig, i'r dyben o eglurhau yn fwy cyflawn ystyr ac arwyddocâd y geiriau Lladin. Yr ydwyf hefyd wedi ei ddiwygio o'r aneirif feiau a'r gwallau hyny, y rhai oeddynt yn dra aml yn rhedeg trwy gorff yr holl lyfr; ac fel y byddai yn fwy perffaith, ac ar yr un pryd yn llai ei faintioli, mi a adewais allan yr holl eiriau Hebraeg a Groeg, ac amryw ereill, ag oeddynt ynddo, gan fy mod i yn barnu y geill y rhai sydd yn ewyllysio gwybod y cyfryw eiriau, eu chwilio hwynt allan yng ngeirlyfrau y rhagdywededig ieithoedd . . . Mewn byr eiriau, yr ydwyf wedi cyfnewid, adferu, difeio, ac iachâu, pa le bynag yr oedd eisieu llaw y meddyg; yr hyn sydd wedi rhoddi gwedd newydd ac arall oddi wrth yr un gyssefin; fel ag y gellir ei alw yr awr hon yn waith i mi fy hun, yn hytrach na gorchwyl y Meddyg Thomas Williams, er fy mod wedi sylfaenu hwn megys ar hwnw,' &c.*

Er maint a ymhona y Dr. Davies yn y drafferth a gymmerth, a'r diwygiad a wnaeth yn y gwaith rhagor fel y gadawsai y Dr. Williams yr eiddo ef mewn llawysgrif, y mae arall, a gymharodd y ddau yn ddiweddar yn tystio, fod y gwaith hwn o eiddo y Dr. Davies, yn llawer gwaelach ac annheilngach† na'r gwreiddiol gan

* Y mae llythyr rhagymadroddol y Dr. Davies, mewn Cymraeg dda, yn *Y Cylchgrawn, neu Drysorfa Gwybodaeth*, am y fl. 1796.

† [Llawer byrach ac anghyflawnach ydyw.]

y Dr. Williams.* Cafodd y rhan olaf,† sef yr un Gymraeg a Lladin, ei ail gyhoeddi yn Amsterdam, yn Holand, yn 1654, yn llyfr pedwarplyg, gan wr o'r enw Boxhorn, oddi ar ei grediniaeth fod llawer o'r geiriau Isdiraeg yn tarddu o wreiddiolaeth Geltig, ac i'r dyben, pe cawsai hoedl, o wneyd ymofyniad pellach i'r mater hwnw, a hynafiaethau derwyddol ereill. Gadawyd allan y cyfeiriadau Hebraeg, &c., yn yr argraffiad hwnw. Y mae ar gael lythyrau a basiasant rhwng y Dr. Davies a Syr John Wynn o Wydir, a'i fab Owen Wynn, yn rhoddi cryn oleuni ar ymdrafodaeth y Doctor a'r Geirlyfrau hyn.‡ Y mae y gwaith wedi ei gyflwyno i Siarl II, y pryd hyny 'Vchel Allvocaf Dywysog Cymbru,' ys dywed Row. Vaughan; ond nid ydys yn deall iddo erioed dderbyn dim budd oddi wrth y warogaeth hon i'r llys.§

Gan mai anfynych y ceir golwg ar yr hen Eirlyfr hwn, rhoddir esiampl o hono, yr hyn, er mwyn arbed lle, a roir yn ddwy golofn; y gyntaf o'r Gymraeg a'r Lladin, a'r ail o'r Lladin a'r Gymraeg.

D.S. Wrth *Arm.* y deallir *Armorica*, neu Lydaw.||

Dwbl, *Duplex*. Gr. *diplous*.**
Item duplicatum.

Dwbled, *Diplois*. *Habet D.G.*

Dwbler, *Patina*, *discus*: *Trublion*.

Dwfn, *Profundus*. *Arm.* Doun.
Gr. *dinai*, *aquarum vortices*,
buthos, *fundum*. Heb. *Tehom*.

Dyfinder, *Frofunditas*.

Dwfr, *Aqua*, *vnda*, *lymphā*, *latex*.
Arm. Dour. Gr. *hudōr*.

Dyfrgi, *Lutra*. *q.d.* *Canis aquaticus*.

*Dyfrgymmlawdd.*vid.* Blawdd.

Muccinium, ii, *Lliain wyneb*,
llawliain.

Muceo, ere, & *Mucesco*, ere:
Bod yn fudr, *myned yn frunt*,
llwydo, *egru*, *methru*, *diwyno*.

Mucidus, a, um: *Budr*, *llwyd*,
wedi llwydo, *mws*.

Mucor, oris, *Brynti*, *llwydni*,
mallder.

Mucosus, a, um: *Llysnafeddog*,
llawn llysnafedd fel y daw o'r trwyn.

Mucro, onis, *Blaen arf*, *dislaen arf*,
blaenseinedd llysiewyn neu'r cyffelyb. *Cleddyf*.

* 'Having seen and compared the original Dictionary, which is a most copious and elaborate work, and which, to the disgrace of the Welsh nation, still remains in manuscript, I am enabled to state that the Latin-Welsh Dictionary printed by Dr. Davies, is little more than a bare index of that by Dr. Williams. For the latter has enriched his work with ample quotations from the ancient Welsh authors, and the publication of it even now would be a boon of the greatest value to the Welsh scholar.'—Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen* [d.g. John Davies].

† [Y rhan gyntaf neu flaenaf yw y rhan Gymraeg a Lladin, megys yr awgrymwyd eisoes.]

‡ *Cambrian Register*, vol. ii. p. 473.

§ *Cambrian Plutarch*; *Gwladgarwr*, 1837. [Nid hwn oedd y tro cyntaf nac olaf chwaith i'r anniolchgar Siarls anghofio ei rwymedigaethau i'w gyfeillion a'i gymmwynaswyr.]

|| [Yn hytrach wrth 'Arm.' y golygir *Armoricè*=yn y Llydaweg.]

** [Gan nad oes gan yr argraffydd lythyrenau Groeg na Hebraeg, na chwaith acennodau gofynol, nis gellir gosod ger bron y darllenydd gynllun cwbl foddhaol o'r Geiriadur. Gellir gwneuthur cyffelyb sylw o barthed i rai enghreifftiau ereill sydd yn dygwydd yn y gwaith.]

Dyfrdwy, *Dea, fl.*
Dyfriar, *Corvus aquaticus, fulex,*
fulica, larus. Arm. Douryar.

Dyfrllyd, *Aquosus.*
Dyfrlle, *Alueus fluvij, locus aquae*
fluentis proprius.

Dwl, *Hebes, obtusus.* vid. an
hinc Afrddwl. Meddwl rhy ddwl
a ddaliaf. *I. Deul.*

Dwnn, *Subfuscus, aquilus.* *Habet*
Gwalch. Yr ych dwnn. *D. G.* A
meirch mai meingrwnn dwnn a
dossawg. *Lly. ap Ll.*

Dwr, *Idem quod.* Dwfr.

Mucronatus, a, um : *Blaenllym,*
a blaen iddo.

Mucus, i, *Llysnafedd y ffroenau,*
budreddi'r trwyn.

Mugil, ilis, *Rhyw forbysg, pen-*
fras.

Muginor, aris, *Murmur, manson,*
ofera, myned yn ara' ddifrys ynghylch
peth.

Mugio, ire, *Brefu fel eidion,*
breferad, bugunad, crochleisio,
gwichleisio, erthychain.

Mulcedo, inis, *Llawch, gor-*
llyfniad.

Digoned hyn yna er dangos y fath yw, i'r rhai nas gwelsant y gwaith erioed. Y mae '*Botanologium,*' neu Lysieulyfr helaeth rhwng y ddau ddsbarth, yn Gymraeg a Lladin.

2. 'Llyfr y Resolusion, yr hwn sydd yn dysgu i ni bawb wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Cristianogion, hyny ydyw ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb;—Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg y gan I. D. er llês i'w blwyfolion;—A'i brintio yn Llundain yn nhy Iohn Beale, tros yr vn I. D. 1632.'

[24plyg, neu 12plyg bychan.]

Dywed argraffiadau ereill—o ba rai y daeth tri ar ol hwn, a'r olaf yn 1802, ar draul y gwladgarol Owain Myfyr*—mai y Dr. Davies o Fallwyd yw yr I. D. uchod. Ymddengys iddo gael ei gyfieithu hefyd yn 1591, gan un Robert Gwinn neu Gwynn, yr hwn y dywedir am dano ei fod yn enedigol neu frodor o Gymru, ac iddo gael ei addysgu yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn B.C. yn 1568, ac wrth ymadael â'r brifysgol yn 1571, efe a aeth i Dowai, ac a dderbyniwyd yn aelod o'r coleg yno, gan enwogi ei hun mewn duwinyddiaeth. Wedi hyny efe a ddaeth i Gymru, ac ymsefydl-

* [Dan olygiad y Dr. Owain Puw; ac o ran argraffwaith, hwn yw y goreu a ymddangosodd o'r gwaith rhagorol hwn hyd yn hyn; ond y mae o ran y llythyr-aeth, a rhai pethau ereill, wedi ei Buweiddio; megys *llyfyr, cwbyl, amyl, pobyl,* a'r cyfryw, yn lle llyfr, cwbl, aml, pobl. Y mae ieithwedd y llyfr hwn yn wir odidog. Nid oes dadl nad y Dr. John Davies o Fallwyd ydoedd y cyfieithydd. Ymddengys iddo gymmeryd i gyfieithu o hono argraffiad Edmund Buny, yr hwn oedd Brotestant, ac a wnaeth lawer iawn o gyfnewidiadau yng ngwaith gwreiddiol Parsons, er mwyn ei gyfaddasu at wasanaeth Protestaniaid. Y mae ganef yn awr o'm blaen argraffiad o'r gwaith cyssefin, wedi ei gyhoeddi ar ol ymddangosiad argraffiad newidiedig Buny, yn y rhagymadrodd i'r hwn y mae yr awdwr yn dylorni y gwr hwn yn bur ddiddfod am ei hyfdra yn newidio, ac, medd efe, yn niweidio ei waith. Nid yw y cyfieithiad Gymraeg yn cytuno mewn un modd â'r argraffiad pabyddol hwn. Tebygol i'r Dr. Davies olygu y llyfr hwn trwy y wasg, pan oedd yn Llundain yn achos argraffu y Geiriadur; canys canfyddir i'r ddau waith ymddangos o fewn corff yr un flwyddyn.]

odd fel offeiriad mynachaid, ac ysgrifennodd amrai lyfrau Cymraeg.* Dichon mai hen gyfieithiad o waith y gwr hwn a ddaeth i law y Dr. Davies, ac iddo, yn ol ei dyb ei hun, wneyd y fath welliadau a chyfnewidiadau ynddo, fel, megys yn achos y Geirlyfr, meddyl-iodd y gallasai ei alw yn gyfieithiad newydd o'i eiddo ei hun.† Dywedir mai gwaith Robert Parsons‡ yw y llyfr, yr hwn oedd yn 'Iesuad,' neu yn un o'r Iesuitiaid; ac felly yn Babydd: ond nid oes dim o hynodion Eglwys Rhufain yn y cyfieithiad hwn o hono. Y mae yn niwedd y llyfr hwn esiamplau o Weddi yr Arglwydd yn iaith Llydaw, a hen iaith Cernyw, gyda deongliad o'r unrhyw yn Gymraeg; a'r Credo yn yr un ieithoedd, ond heb y deongliad. Y mae yn briodol sylwi fod enwad y llyfr wedi ei droi yn yr argraffiad diweddfaf o fod yn 'Llyfr y Resolusion, yn 'Dyhewyd y Cristion,' a'r geiriau blaenaf ar y ddalen flaenorol i'r *prif* wyneb-ddalen.

[Y mae y 'Diwedd' ar dudalen 520; ond y mae pedair dalen yn canlyn, yn cynnwys 'Pynciau'r Ffydd yn iaith Lydaw;' 'Yr vn yn iaith Gernyw;' yng nghyd ag Emyr Ambros ac Awstin, yr hwn a elwir '*Te Deum*,' o gyfieithiad Dafydd Ddu Hiraddug. Cynnwys y defnyddiau rhagarweiniol 12 tudalen; sef anerch yr awdwr 'At ei Anwyl Blwyfolion,' yr hwn a danysgrifir—'I. D.;' 'Gweddi'r Arglwydd yn iaith Lydaw,' ac yna yn Gymraeg, ac 'yn iaith Gernyw.' Canfyddir fod y cyfan yn gwneuthur i fyny 540 o dudalenau.]

1633.

1. 'Yr Hen Lyfr Plygain a'r Gwir Gatechism,' &c.

Llundain, 24plyg.

Hwn a 'brintiwyd gynt,' meddai Thomas Jones, yr Almanaciwr, 'drwy orchymmyn y Brenin, a thrwy lafur boen (y Doctor John Davies) yn y flwyddyn o oed Iesu 1633.'§

2. (1.) 'Epigrammatvm Ioannis Owen Cambro-britanni Oxoniensis, Collegij B. Mariæ (quod vulgo Novum vocant) nuper Socij. Libri Decem. Quorum tres priores ad Mariam Neville, Comitis Dorcestriæ filiam dicati erant. Editio Sexta.

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. 224, a Williams's *Eminent Welshmen.*

† [O hyn nid oes dim tebygoldeb.]

‡ [ROBERT PARSONS neu PERSONS (Robertus Personius, fel yr ysgrifennai ei enw yn Lladin) ydoedd enedigol o Nether Stowey, yng Ngwlad yr Haf, ac yr ydoedd trwy ei oes yn un o amddiffynwyr eiddcaif Eglwys Rhufain yn y wlad hon, ac yn un o wrthwynebwyr chwerwaf y Grefydd Ddiwygiedig. Yr oedd yn ddyn dysgedig, a hynod weithgar, ac ysgrifennodd fagad o lyfrau heb law yr un a gofnodir yma, y rhai, oddi eithr hwn, oeddynt gan mwyaf oll ar destynau dadleuol yr amseroedd hyny. Bu farw yn Rhufain yn y fl. 1610, wedi bod o hono yn athraw yng ngholegau Sevil, Valadolid, Cadix, a Lisbon, ac wedi hyny yn Dowai, St. Omer, a Rhufain. Yr oedd yn aelod o'r ffyddlonaf a llafurusaf o Gymdeithas yr Iesuaid, yr hon ychydig cyn hyny a sylfaeniasid gan Ignatius Loyola; ond y mae hyd yn oed Pabyddion cymmedrol yn collfarnu ei benboethni, a'i ymdrechion diorphwys ef a'i gydweithiwr Garnet i hau hadau anghydfod a gwrthryfel yn y deyrnas.]

§ *Almanac* T. Jones am 1633.

Londoni, Ex Officina Aug. Math. sumtibus Simonis Waterson. 1633.'

Cynnwysa y '*Liber*' hwn—heb law dau dudalen o bennillion anerchiadol i'r awdwr a'i waith—173 o *Epigrammata*. Yna dau '*Liber*' arall, yn cynnwys 217 o *Epigrammata*. Gelwid y cyntaf uchod yn '*Liber Primus*'=y Llyfr cyntaf, a'r llall yn '*Liber Secundus*'=Llyfr yr ail. Yna y daw '*Liber Tertius*'=Llyfr y trydydd, yn cynnwys 208 o *Epigrammata*. Yna ceir gwyneb-ddalen arall—

(2.) 'Epigrammatvm Ioannis Owen Cambro-britanni Oxoniensis, Ad Doctissimam Heroenam D. Arbellam Stuart, Liber Singularis. Editio Quarta.

Londini, Ex Officina Aug. Math. sumptibus Simonis Waterson. 1633.'

Gelwir hwn '*Liber Vnus*,' ac y mae yn cynnwys 276 o *Epigrammata*.

(3.) 'Epigrammatvm Ioannis Owen Cambro-britanni Oxoniensis, Libri Tres. Ad Henricvm Principem Cambriæ Duo. Ad Carolvm Eboracensem Vnus. Editio Quarta.

Londini, Ex Officina Aug. Math. sumtibus Simonis Waterson. 1633.'

Gelwir y dosbarth cyntaf o hwn yn '*Liber Primus*'=y Llyfr cyntaf, cynnwys 111 o *Epigrammata*; yna '*Liber Secundus*'=Llyfr yr ail, yn cynnwys 100 o *Epigrammata*; a '*Liber Tertius*'=Llyfr y trydydd, yn cynnwys 124 o *Epigrammata*. Yna gwyneb-ddalen arall—

(4.) 'Epigrammatvm Ioannis Owen Cambro-britanni Oxoniensis, ad Tres Mæcenates, Libri Tres. Ad Edoardum Noel, Equitem, & Baronetum, unus. Ad Gulielmum Sidley, Equitem & Baronetum, alter. Ad Rogerum Owen, Equitem Auratum tertius. Editio Quarta.

Londini, Ex Officina Aug. Math. sumptibus Simonis Waterson. 1633.'

Y mae hwn eto yn Llyfrau—'*Liber Primus*'=y Llyfr cyntaf yn 100 o *Epigrammata*; '*Liber Secundus*'=Llyfr yr ail, yn 100; a '*Liber Tertius*'=Llyfr y trydydd, yn 103. Yn y rhagddalen arall—

(5.) 'Monosticha qvædam Ethica & Politica veterum sapientum.

Londini, Ex Officina Aug. Math. sumptibus Simonis Waterson. 1633.'

1634.

1. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau a chynneddfau a Ceremoniau eraill yn Eglwys Loegr.'

A Brintiwyd yn Llyndain gan Assignes John Bill ag iw gwerthu gida Robert Melborne yn sin y milgi ym mynwent St. Paul. 1634.'

Llyfr pedwarplyg bychan yw hwn. Y mae yn ei ragflaenu y calendar, a'r uwch-linellau a'r prif eiriau wedi eu hargraffu yn gochion. Y mae yn y llythyren ddu. Y mae yn llawn o weddnodau yr hen Salesbury, pan y gofala ddywedyd yn y Rhuddell—'Y *Benedictus*, yn Gamberaec, megis y mae yn canlyn;'—'Yn ol hynny *Magnificat* yn Gamber-aec, megis y canlyn;'—' *Te Deum laudamus* yn Gamber-aec, beunydd trwy'r holl flwyddyn.' Ar ben uchaf y dalenau dodir—'Boreuawl Weddi;'—'Pryd-nhawol weddi;'—'Y Letani;'—'Dydd Natalic;'—'Dygwyl y Gwirioniaid;'—'Dydd Gwener y Croc-lith;'—'Dydd Pasc;'—'Dydd Iou Dyrchafael;'—'Y xij Sul gwedi'r Drindod;'—'S. Iaco;'—'Y Commun;'—'Bedydd priuat;'—'Gofwy y Claf;'—'Diolvvch gvvragedd yn ol escor plant;'—'Comminasion,' &c.

Y mae i'r Salmau wyneb-ddalen wrthynt eu hun, fel hyn:—

2. 'Psalmau Dafydd o'r vn cyfieithiad â'r Bibl cyffredin, &c. Anno 1634.'

Gan fod y Salmau o'r un cyfieithiad a'r Beibl cyffredin, y mae gwahaniaeth rhwng y Salmau sydd yn y Llyfr Salmau a'r rhai o honynt sydd yn y Foreuol Weddi, fel y gwelir yn y 100fed Salm.

Yn y Foreuol Weddi:—

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar: Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, deuwech yn ei wýdd ef mewn gorfoledd.

Gwybyddwch mai yr Arglwydd sy Dduw: efe a'n gwnaeth ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w lysoedd â moliant genych, a diolchwch iddo, a chlodforwch ei Enw.

Canys daionus yw yr Arglwydd, a'i drugaredd sydd yn dragywydd, a'i wirionedd a bery o genedlaeth i genedlaeth byth.

Yn Llyfr y Salmau:—

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar.

2 Gwasaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwech o'i flaen ef â chân.

3 Gwybyddwch mai yr Arglwydd sy Dduw; efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

4 Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl: diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw.

5 Canys da yw yr Arglwydd, ei drugaredd sydd yn dragywydd; a'i wirionedd hyd genedlaeth a chenedlaeth.

Y mae Salmau cân Prys hefyd yn gyd-rwymedig â hwn, ond ei fod bedair blynedd yn ddiweddarach.*

3. 'A word about Laugharne, in the County of Carmarthen, in a cause between Sir Robt. Mansell, Vice-Admiral of England, and Sir Sackville Crowe, Bart. By Sir William Russell.' 1633.

Ar groen y mae hwn wedi ei argraffu.†

1635.

1. 'Travells in Wales. By Sir Thomas Herbert.'

Rhydd y teithydd hwn hanes helaeth am fynediad Madog ab Owain i America, allan o ysgrif yn llyfrgell Castell Rhaglan, sir Fynwy, yr hon a losgwyd gan filwyr Oliver Cromwel, yn eu hymosodiad buddugoliaethus ar y lle enwog hwnw.‡

[SYR THOMAS HERBERT, yr hwn a ddisgynai o un o gangenau yr Herbertiaid o Raglan, Ieirl Penfro, a aned yng Nghaerefrog o gylch y flwyddyn 1606, ac a dderbyniodd ei ddysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, ac wedi hyny yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Gwedi dar fod tymmor ei addysg, ymdeithiodd trwy ranau helaeth o Asia ac Affrica, a chyhoeddodd yr hanes yn 1634, ac ymddangosodd argraffiad arall wedi ei ddiwygio a'i helaethu, yn 1638. Cyfieithwyd y Teithiau hyn i'r Isdiraeg, ac o'r iaith hōno i'r Ffrancaeg. Pan dorodd allan y rhyfel cartrefol rhwng y brenin a'r Senedd, ochrodd ef ar y cyntaf gyda'r Senedd; ond wedi cael o hono ei benodi i weini ar Siarls yn ei gaethiwed, trodd yn bleidiwr calonog, diwosgryn, ac anhylwgr iddo, hyd awr ei ddienyddiad. Goroesodd ei feistr flynyddoedd lawer; a threuliodd y rhan fwyaf o'r amser hwnw mewn erlyniadau llenyddol. Cynnorthwyodd Dugdale gyda'r 'Monasticon Anglicanum;' a chyhoeddodd hanes y ddwy flynedd ddiweddaf o fywyd y Brenin Siarls, dan yr enw 'Threnodia Carolina.' Ar yr Adferiad creodd Siarls II. ef yn farwnig, ar gyfrif ei wasanaeth ffyddlaw'n i'w dad; a bu farw yn ei ddinas enedigol yn 1682. Ni welaf yn y cofnodau am dano ddim hanes am y llyfr a gofrestrir yma.]

2. ¶ 'Anglo-Britanni Apuleii Madaurensis, Philosophi Platonici, Apologia, Recognita et Nonnullis Notis ac Observationibus illustrata. Parisiis, 1635.'

Y mae mwy na'i hanner yn cynnwys sylwadau Price, yr hynaf-ieithydd Cymreig, ar hynafiaethau Rhufeinaidd a Brytanaidd. Rhoddir ynddo hefyd lawer o arluniau cywrain am hen ddigrifwyr, meibion a merched yn fflangellu eu gilydd, &c.

1638.

1. 'The Epistle of Gildas the most ancient British author: who flourished in the yeere of our Lord, 546. And who by his great erudition, sanctitie, and wisdom, acquired the name of Sapiens. Faithfully translated out of the original Latine. [By Thomas Habington.]

* Gwel rhif 2, d.f. 1638.

† J. R. Smith's *Old Book Circular*.

‡ Williams's *Lyric Poems*, vol. ii. p. 65.

London, printed by T. Coates for William Cooke, and sold at his shop neere Furnevall's Inn gate in Holborn. 1638.' [12mo.]

Cyfieithiad gwallus ac isel iawn yw hwn. Ymddangosodd rhan o'r argraffiad yn 1652, gyda gwyneb-ddalen wahanol,* ac ymddangosodd hefyd yn y ganrif nesaf.

[Cymharer rhif 6, d.f. 1587. Thomas Habington, ydoedd wr boneddig triog, yn Hendip, swydd Gaerwrangon, yr hwn a aned yn 1560, ac a fu farw mewn oedran teg yn 1647. Ond ai nid *William*, mab y dywededig T. Habington, yr hwn oedd lenor lled gyfrifol, ydoedd cyfieithydd *Gildas*? Ganed *William Habington* yn Hendip yn 1605; a bu farw, o flaen ei dad, yn 1645. Derbyniodd ei ddysg yn St. Omer a Paris; a phriododd ferch i Arglwydd cyntaf Powys. Yr oedd yn brydydd ac yn hanesydd; ac ym mhlith ei gynnyrchion y mae—'Castara,' sef cynnulliad o gerddi; 'The Queen of Arragon,' math o dreisgymwawd; 'Observations upon History,' a 'History of Edward iv.' Gan nad oes enw cyfieithydd wrth waith *Gildas*, tebycach mai Habington yr ieuaf, ac nid yr hynaf, ydoedd; canys ni sonir am y tad megys awdwr.]

2. 'Llyfr y Psalmiau, vvedi ev Cyfieithv, a'i cyfansoddi ar fesvr cerdd, yn Gymraeg. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionnydd. A'i Printio yn Llundain. 1638.'

1639.

1. 'De Primordiis Ecclesiarum Britannicarum. A Jacobo Usserio, Archiepiscopo Armachano, totius Hiberniæ primate. Dubliniæ, 1639.'

Gwaith enwog yr Archesgob Usher ydyw, yn cynnwys hynafiaethau yr Eglwys Frytanaid, o'i dechreuad hyd ddiwedd y seithfed ganrif. Diau mai yma y byddai yn briodol gofnodi ychydig am y fath awdwr, yr hwn y cyfeirir ato fel awdurdod ddiarnheul gan bob hanesydd eglwysig; a'r hwn, er nad ydoedd Gymro, a fu yn meddu y fath gyssylltiad â Chymru, yn deuluol a hanesol, yn gystal a chymdeithasol.

JAMES USHER, neu, fel y gelwid ef yn ol iaith ddysgeidiol ei oes, *Usserius*, a anwyd yn Dublin, yn Ionawr, 1580. Enw gwreiddiol y teulu ydoedd *Nevil*, un o ba rai a ymfudodd o Loegr i'r Iwerddon, fel *usher*, neu athraw, i John, mab Harri II, o ddeutu y fl. 1185. O blegid ei swydd gelwid hwnw yn *Usher*, neu fel y dywedem ni yn yr oes hon, athraw, neu ysgrifenydd. Ei dad ydoedd Arnold Usher, un o chwech ysgrifenydd Canghell-lys yr Iwerddon, a'i fam ydoedd ferch James Stanyhurst, yr hwn a fu dair gwaith yn llefarydd y Senedd, yn feistr yn y Canghell-lys, ac yn gofiadur Dublin. Yr oedd ei ewythr frawd ei dad yn archesgob Armagh. Cafodd ei ddysgeidiaeth gan ddau o ysbiwyr gwladwriaethol a gedwid yn ddirgel gan y Brenin Iago o Ysgotland, yn Dublin, ac wedi hyny, yn 1593, aeth i Goleg y Drindod. Cymmerodd ei radd o B.C. yn 1600, ac urddwyd ef y flwyddyn nesaf gan ei ewythr. Cafodd le fel capelwr i'r llywodraeth. Gwnaeth wedi hyny ddwy daith—yn 1603 a 1606—i Loegr i brynu llyfrau i'r coleg y waith gyntaf, a'r ail

* Gwel d.f. 1563, 1568, 1587, 1602, a 1603.

waith i'w feddiant ei hun, pryd y daeth yn adnabyddus ag amryw o enwogion yr oes, yn neillduol hynafiaethwyr enwog; yr hyn hefyd a wnaï bob tair neu bedair blynedd, gan aros weithiau yn Rhydychain, ac weithiau yng Nghaergrawnt, a phryd arall yn Llundain; ac ymwelai hefyd â phob lle yn y wlad, lle y caffai wybod fod hen lyfrfa werthfawr. Er ei fod yn ieuanc, gwnaed ef yn 1607 yn Broffeswr Duwinyddiaeth yn y coleg, ac yn Ganghellwr Eglwys Gadeiriol St. Padrig. Yn 1612, gwnaed ef yn D.D. Yn 1613, efe a gyhoeddodd waith yn Lladin fel parhâd o 'Ddiffyniad' Esgob Jewel; ac yn y flwyddyn hon ei 'Hynafiaethau yr Eglwysi Brytanaid.' Yn nechreu y fl. 1640 daeth trosodd i Loegr, gyda'r bwriad i aros blwyddyn neu ddwy; ond y flwyddyn nesaf darfu i wrthryfel dori allan, ac ymosodwyd ar ei archesgobdy yn Armagh, canys yr oedd wedi ei ddyrchafu i'r urddas hōno er y fl. 1626, wedi bod chwech mlynedd yn Esgob Meath. Gan fod sefyllfa pethau yn parhau yn gynhyrfus, efe a arosodd yn y wlad hon, a rhoes Siarl I. iddo Esgobaeth Carlisle, i'w dal yn gyssylltiolag Armagh, neu heb roi ei archesgobaeth i fyny. Ond yn fuan torodd y rhyfel allan yma rhwng Siarl I. a'r Senedd, ac atafaelodd y Senedd ei elw oddi wrth Carlisle, gan benodi iddo dâl blyneddol o 400*p.*, yr hwn er hyny ni dderbyniodd ond unwaith neu ddwy. Y pryd hyny yr oedd yn Rhydychain gan amlaf, yn pregethu bob Sul yn rhyw un o'r eglwysi, ac yn golygu argraffiad Groeg a Lladin o weithiau Polycarp ac Ignatius, a gyhoeddwyd yno yn 1644, ac a ail argraffwyd yn Llundain yn 1647. Gan fod yr amserau mor derfysglyd, ac yntau wedi ei ddarostwng i dlodi, efe a adawodd Loegr, ac a ddaeth trosodd i Gymru. 'Y mae yr hanesion canlynol am y Dr. Usher, yn rhoddi cryn anrhydedd ar y boneddigion Cymreig, yn yr amseroedd terfysglyd hyny. Yr oedd merch i'r archesgob wedi ymbriodi â Syr Timothy Tyrrel,* yr hwn oedd dan y brenin yn llywodraethu Castell Caerdydd; a chan na oddefid iddo ddychwelyd i'r Iwerddon, efe a dderbyniodd wahoddiad ei fab yng nghyfraith a'i ferch, i dalu ymweliad â hwynt; a gwnaeth eu ty hwynt yn gartref am o ddeutu blwyddyn, yn yr hwn ystod yr ymwelodd y brenin â Chaerdydd, wedi ei orchfygu ym mrwydr Naseby. Gan fod Syr T. Tyrrel yn gorfod rhoddi ei le i fyny, gwahoddwyd yr archesgob gan yr Arglwyddes Stradling, gweddw Syr Edward Stradling, o Gastell St. Donat's, i wneyd ei gartref yn ei thy hi. Yr oedd hyn yn y fl. 1646, pan oedd y wlad mewn cythrwf drwyddi, a'r weriniaeth yn cario pob peth o'u blaen yn sir Forganwg. Aeth yr Arglwyddes Tyrrel gyda'i thad; ond er iddynt gael eu harwain ar hyd ffordd gwmpasog, rhag cael ymosod arnynt gan y gwerinwyr Cymreig, y rhai oeddynt dan arfau wrth y miloedd, deuwyd ar eu traws gan ychydig o honynt. Bu ymddygiad y dynion hyn yn nodedig o arw ac anfoesgar; hwy a olrheinasant gistiau yr archesgob, ac a'u tynasant ef a'r boneddigesau oddi ar eu effylau; ond daeth rhai o'r swyddogion i fyny, a chan gywilyddio o blegid ymddygiad anweddus eu cydwladwyr, hwy a'u harweinasant i dŷ Syr John

* Daeth un o feibion y gwr hwn, sef James Tyrrel, yn enwog iawn mewn dysgeidiaeth ac awduriaeth.—Gwel *Penny Cyclopaedia*, d.g.

Aubrey,* ychydig oddi yno, lle y dangoswyd pob tiriondeb i'r hycharch archesgob a'i gyfeillien. Yr oedd colli ei lyfrau—er iddynt ymddwyn tuag ato mor dirion—yn gofidio meddwl y dyn da hwn yn fawr—yn fwy o lawer na cholli ei holl gyfoeth yn Iwerddon. Pan oedd ei ferch yn ceisio ei gysuro, efe a ddywedodd, 'Yr wyf wedi cael fy nghyffwrdd mewn lle tyner iawn, ond llaw Duw ydyw, a gwelodd ef yn dda gymmeryd oddi arnaf ar unwaith y cwbl a fûm yn ei gasglu dros fwy nag ugain mlynedd, a'r hyn a fwriadawsn ei gyhoeddi, er cynnydd dysgeidiaeth, a lles yr Eglwys.'

'Dranoeth, daeth llawer o'r offeiriaid cymmydogaethol i ymweled ag ef, ac i gydgwyno ag ef yn ei gollod, yr hyn yr oedd ef y pryd hyn yn ei ystyried yn anadferadwy; ond hwy a addawsant wrtho y gwnaent ymdrech i adferyd ei lyfrau a'i baprau, a hwy a gydymdeithiasant ag ef i Gastell St. Donat's. "Fely gweloch," medd yr hanesydd parchedig, "ddarfod i'r bonedigion a'r gweinidogion hyn, nid yn unig addaw, ond iddynt fod yn alluog i gyflawnu, hwy a arferasant eu dylanwad gyda'r bobl, a chyhoeddwyd yn yr Eglwys trwy y wlad, ar fod i bawb ag oedd ganddynt gyfryw lyfrau, neu baprau, eu dychwelyd i'w gweinidogion, neu eu meistri tiroedd; yr hyn yn ganlynol a wnaed; canys ym mhen dau neu dri mis, yr oedd ei holl lyfrau a'i baprau wedi eu dychwelyd iddo yn fwrnelau—mor llawn, fel, pan gafwyd hwy at eu gilydd, nad oedd nemawr yn eisieu." Ym mhlith y rhai a gollwyd, yr oedd dwy ysgrif o berthynas i'r *Waldensiaid*, y rhai yr oedd yr archesgob wedi eu cael tuag at gwblhau gwaith a alwai ef 'Olyniaeth yr Eglwys Cristionogol,' yr hwn a attodwyd gyda'r argraffiad diweddaf o 'Hynafiaethau yr Eglwys Brytanaidd.' Collwyd hefyd Gofrestr o'r Breninoedd Persiaidd, a *Varie Lectiones* ar y Testament Newydd.

'Tra yr oedd ei Radlonrwydd yn St. Donat's, efe a dreuliodd beth amser i edrych dros ran o'r llyfrau a'r ysgrifeniadau a gasglasid gan Syr Edward Stradling, yr hynafiaethydd mawr, a chyfaill i Mr. Camden. "O rai o'r ysgrifau hyn," meddai y Dr. Parr, "y darfu i'r Arglwydd Archesgob ddewis llawer o gasgliadau o hynafiaethau Brytanaidd neu Gymreig, y rhai sydd yn fy meddiant i."

'Arosodd y dyn mawr hwn ar encil ym Mro Morganwg am yn agos i ddeuddeng mis, ac ymddygwyd ato gyda'r parch mwyaf, nid yn unig gan deulu Castell St. Donat's, ond hefyd gan offeiriaid a bonedigion y wlad. Dyoddefodd waeledd corfforol mawr tra yr oedd gyda'r Arglwyddes Stradling; ac wedi colli ei holl elw oddi wrth ei archesgobaeth, yr oedd ei amgylchiadau tymmorol yn isel iawn; lle y gwelwn y duwinydd enwocaf trwy holl Gred yn ymwingo ag adfyd; ond darfu i feddwl santaidd ac anorchfygol Usher ei ddal i fyny, ac ni ddarfu i'r Rhagluniaeth ddwyfol hōno, ar yr hon y rhoddai ei hyder diysgog, ei adael yn amddifad mewn gwlad ddy-eithr. Ond nid oedd gwlad na phobl yn ddyeithr i'w glod, a chafodd hanesydd yr Eglwys Brytanaidd, iddo ei hunan, adfywiad o lettygarwch yr hen oesoedd. Darfu i foneddigion Morganwg, gan fod yn deimladwy o'r anrhydedd a roddasid arnynt gan bresennoldeb y fath ymwelydd enwog, ddangos eu parch, trwy anfon iddo, yn an-

* Llantriddyd: y mac y ty yn awr yn adfeilion.

wybodus i'w gilydd, gryn swm o arian. Yr oedd bellach yn dymuno—gan mor anobeithiol oedd sefyllfa achos y brenin—gael nodedd tu draw i'r môr; ond gan fod glanau y moroedd yn cael eu gwyllo, nis gallai gael cyfleusdra i ddianc i'r cyfandir, ac efe a rwystrwyd i gwblhau ei ddymuniadau. Yn y cyfamser gwahoddwyd ef gan Iarles Peterborough i ddyfod a gwneyd ei arosfa gyda hi yn Llundain. Derbyniodd ei Radlonrwydd y gwahodd-iad; ac wedi cael awdurdod briodol, efe a symmudodd o Gymru i Lundain, ym mis Mehefin, 1646.* Yr oedd y llyfrfa gynnwysfawr oedd y pryd hyny yng Nghastell St. Donat's, a chwaeth nodedig ei noddwr, neu yn hytrach ei noddwraig, yn ddiau yn llawer o fantais i Usher yng ngwellâd cyfansoddiad ei hanesiaeth ragorol. Ond y mae y llyfrau hyny oll wedi eu chwalu yn awr, megys gyda phedwar gwynt y nefoedd, yn chwalfa yr etifeddiaethau, a diddymiant y teulu, pan fu farw Syr Thomas Stradling, yn Ffrainc, yn 1738, yr hwn oedd y trydydd ar hugain, mewn llinell o ddisgyniad uniongyrchol o Syr William Esterling, i'r hwn y rhoddwyd Castell a Maenoriaeth St. Donat's, yng ngwrthryfel Rhys ab Tewdwr, tua'r flwyddyn 1090.

Wedi i Usher symmud i Lundain, cafodd yn 1647, ei ddewis yn bregethwr i Gymdeithas y *Lincoln's Inn*, sef efrydwyr y gyfraith, gan gael ystafelloedd iddo ei hunan, i'r rhai y cafodd symmud ei lyfrfa. Bu yn gwasanaethu y lle hwnw yn gysson, yn ystod y termau am tuag wyth mlynedd. Yn niwedd y fl. 1648, tra yr oedd cytundeb ar droed rhwng y brenin a'r Senedd o berthynas i sefydlu amgylchiadau yr Eglwys, anfonodd ei fawrhydi am Usher i ddyfod ato ef i Ynys Gwyth; ac yna cynnygiwyd cynllun i'r brenin, yr hwn a dynasid gan yr archesgob wyth mlynedd cyn hyny, ac a wrthodasid y pryd hyny gan y brenin; ac er i'r brenin dderbyn y cynllun yn awr, gwrthodwyd ef gan y Senedd. Cafodd y cynllun ei gyhoeddi yn 1658, o dan yr enw, 'The Reduction of Episcopacy to the Form of the Synodical Government of the Ancient Church;' sef Dygiad Esgobyddiaeth i'r Ffurf o Lywodraeth Gymmanfaol yr Hen Eglwys. Efe a fu farw yn nhy Arglwyddes Peterborough, yn Ryegate, yn Surrey, Mawrth 21, 1656, yn 76 oed.†

2. 'Rerum Anglicarvm et Hibernicarvm Annales, regante Elisabetha. Auctore Gvillielmo Camdeno. Ultima Editio.

Lvgd. Batavorvm, Excudebatur typis Elzeviriorum. cio io c xxxix.'

3. 'Concilia, Decreta, Leges, Constitvtiones in Re Ecclesiastica Orbis Britannici. Viz. Pambritannica, Pananglica, Scotica, Hibernica, Cambrica, Mannica, Provincialia, Diœcesana. Ab initio Christianæ ibidem Religionis ad nostram usque ætatem. Operâ & Scrutinio Henrici Spelman, Eq. Aur.

* Gwel erthygl gan 'J. H.,' sef y Parch John Hughes, mae yn debyg, awdwr yr '*Horæ Britannicæ*,' yn y *Cambrian Quarterly Magazine*, vol. i. p. 406; W. Jones, *Christian Biographical Dictionary*.

† *Penny Cyclopædia*, d.g.

Londini, Excudebat Richardus Badger, Serenissimi Principis Walliæ Typographus. CIO. IO C. XXXIX.*

I'r dyben i allu deall yr hen ddull uchod o osod rhifnodau, y mae yn angenrheidiol wrth beth cyfarwyddyd i'r oes hon. Yr oedd CIO am fil, IO am bum cant, c am gant, yr hyn a wna yr uchod yn 1639. Ceir eglurhâd helaeth arnynt gan Johnson.*

[Y mae y dull hwn ar rifnodau yn gyffredin ddigon hyd heddyw ar lyfrau argraffedig ar y cyfandir, yn enwedig yn yr Almaen.

Syr HENRI SPELMAN, awdwr y gwaith hwn, ydoedd hynafiaethydd a hanesydd dysgedig. Hanai o hen deulu anrhydeddus yn Congham, yn Norfolk, lle y ganwyd ef yn 1562. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Walsingham, yn ei swydd enedigol, ac wedi hynaf yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Gwedi hyn myfyriodd y gyfraith yng Nghyfreithdy Lincoln; ond nid hir y bu heb adael y gyfraith, ac ymroddi i ymchwilion hynafiaethol, yn enwedig i olrhain hen gofysgrifau y deyrnas. Heb law y 'Concilia,' a gofnodir yma, o'r hwn yr ymddangosodd y gyfrol gyntaf y flwyddyn hon (1639), a'r ail yn 1664, ysgrifennodd amryw ereill; megys y 'Glossarium Archæologicum,' 'Villare Anglicanum,' 'De non Temerandis Ecclesiis,' 'Reliquiæ Spelmannianæ,' ac ereill. Bu farw yn Llundain, yn 1641, a chladdwyd ef, wrth neillduol orchymyn Siarls I, yn Abatty Westminster, yn agos i gofadail Camden. Yr oedd yn 1664, ysgrifennodd amryw ereill; megys y 'Glossarium Archæologicum,' 'Villare Anglicanum,' 'De non Temerandis Ecclesiis,' 'Reliquiæ Spelmannianæ,' ac ereill. Bu farw yn Llundain, yn 1641, a chladdwyd ef, wrth neillduol orchymyn Siarls I, yn Abatty Westminster, yn agos i gofadail Camden. Yr oedd yn 1664, ysgrifennodd amryw ereill o'r cyfnod hwnw.]

1640.

1. ¶ 'Commissioners for the different Counties of Wales, previous to the Civil War—An Act for the Relief of his Majestie Armie, and the Northern parts of the Kingdom.'

Y mae yn y llythyren ddu. Rhoddwyd yr Act hon allan gan Siarl I. ei hun, ac y mae yn cynnwys y Dirprwywyr Breninol a benodwyd ganddo, tros siroedd Cymru, Henffordd, a'r Mwythig, yn ebrwydd cyn i'r rhyfel dori allan.†

2. ¶ 'A Bright Northern Star, Discovering the Fate of Great Britain.'

Gan na welais hwn yn gyfan, nid oes genyf ond ei ddodi yma. Yr ydwyf yn tybied er hyny mai gwaith y Dewinwr Arise Evans‡ ydyw. Y mae yn deongli yn Seisonaeg hen ddaroganau a hen gudd gyfeiriadau y Beirdd Cymreig, a gyfeirient at ryw waredwr enwog i'r genedl, o dan yr enwau y 'Coronog Fab,' ac ereill. Rhoddir ychydig o esiamplau fel y maent wedi eu hargraffu yn amherffraith iawn:—

- ‘1. *Koronog faban Medd Taliesin*
A hyny a ddarllenir yn llyfre Merthin
Yng hanoli ous i Rhuthwr yw elin
Ag yni ddiwedd i bydd brenin.

* *Typographia*, vol. ii. pp. 41-45.

† J. C. Hotten's *Catalogue*.

‡ Gwel rhif 4, 1651.

The *Translation, Koronog faban*, saith *Taliesin*, and these are read in the books of *Merthin*, in his mid age wil run furious to his enemy, and in his latter dayes will be a King.

- ' 2. *Koronog faban dyma beth chyfedd*
Chag ef Kafod, i Kilia ir gogledd
Af a a gill yn lloeigir Arglwyddi amowredd
Ag uto brenni fudd yn i ddiwedd.

The *Translation, Koronog faban* wonderfully wil betake himself to the to avoyd a storm, he shal lose in *England*, Lordships and greatness, and yet he shal be a King before his end.

- ' 3. *Koronog faban Medd hen*
Proffwyd or Almaen yn Abergaffii
A gill yn i fiemgtid y Goron adyledis
Agyn i henaint i bidd gwrdwnis.

The *Translation, Koronog faban*, saith an ancient Prophet from *Almania*, in his youth wil lose the Crown due unto him, in his old age wil be a man of might and greatness.'

Yna ä ym mlaen yn yr un modd hyd yr ' 21 ' o bennillion. Maint y darn a welais o'r llyfr yw o'r tudalen 12 i'r tudalen 180, o ryw bedwarplyg bychan. Y Daroganwyr a'r Beirdd y mae yn ei henwi, heb law *Taliesin*, ydyw—'*Merlin Ambrose; Areverend Devyn*, and Prophet, Sometimes Bishop of *St. Davies* in *South-Wales*; *Robin ddy*, sometimes of *Anglesey*, a *Bardh*, Prophet and excellent Poet; *Addafras*, a *Barah* [*Bardh*] Prophet, and a Poet; *Merthin Ambrose*, a great Prophet; *Mernhin* [*Merthin*] *Silvestris*; *Kilfardh*, or *Heinyn fardh*, called by both names, who lived in the days of *Taliesin*, in *North-Wales*, an admirable Prophet; *David Gorlleth*, and excellent Poet, and Master of Arts, that lived 190 years ago, and his Songs are grounded on *Taliesin* and *Merthins* Prophecies; *Douid Namor*, *Bardh* and Poet; *Gwyon Bath* [*Bach*] a great Prophet, and the antientest of all the rest; *Johannis de Ruperissa*; *Fryar Bacon* a notable and substantial Prophet, who prophecyed of the destiny of the *Mouldwarp*; *Rees Gochoryri*, a Prophet and an excellent Poet; *Jollo Goch*, a Prophet and a Poet; *John de Breidlington*, a notable Prophet, that sets the destinie of the red *Lyon*, whose name is said to begin with the letter *C*; *Gwendhudd*, one of the ten *Sybilis*; *Master John Cipian*, Doctor in *Astrologie*; *Torquatus Vandrivus*, Student in the Art *Magick*; *Jevan o drwch y daran*, fore-telling of fall of Ministers, and of great warres; *Bergam of Maelor* in *Denbigh-shire*, wherein notabe things are fore-told, with the Conquerous descent from the principality of *Powis*, and *North-Wales*; *Gronwddo* of *Anglesey*, wherein an Angel reveale unto him the Kingly Succession in the regal Government, until the coming of the *Brittish Conquerour* should appear 222 years after the same revelation, or in the year 1642; *Hoan Parchellan*:' ac y mae yn diweddu gyda daroganau amryw dramoriaid.

1641.

1. 'Mercurii Botanici pars altera, sive plantarum gratia suscepti itineris in Cambriam, sive Walliam, Descriptio, &c. Londini, 1641.' 8plyg.

[Meddyliaf mai 'pars prima,' sef y rhan gyntaf, a ddylai hwn fod ; ac mai rhif 3 yw y 'pars altera,' neu yr ail ran.]

2. 'Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Jesu Grist. Argraphwyd yn y Flwyddyn M.D.CXLI.'

Nid oes enw lle nae argraffydd wrth hwn. Dichon mai yn gyfrinachol y cafodd ei argraffu, gan yr Anghydffurfwyr, ac nid gan argraffwyr trwyddedig y brenin, er bod llun y llew a'r unicorn o amgylch y goron ar yr wyneb-ddalen. Nid yw y dalenau na'r tudalenau yn cael eu rhifnodi, eithr arwyddion y lleni yn unig hyd G 92, a'i blygiad yn rhyw 18plyg, tybygwyf. Y mae yn ddwy golofn, a chynnwysiad o flaen pob pennod, ond heb y cyfryw ar ben uchaf y dalenau—dim yno ond enw y llyfr, a rhif y bennod.*

3. 'Mercurii Botanici pars altera, sive plantarum gratia suscepti in Cambriam, sive Walliam, Descriptio, exhibens reliquarum stirpium quæ in priore parte non enumerabantur Catalogum.

Londini, M.DC.XLI.'

Llysieuaeth Gymreig yw y llyfr hwn, o waith un Thomas Johnson ; ac y mae yn cynnwys hanes ei daith trwy Gymru, i gasglu llyisiau prinion, yng nghymdeithas Mr. Paul Sone, a Mr. Edward Morgan, Cymro. Yr oedd eu taith yn dechreu yng Nghaerlleon, yn 1641, i Gaernarfon ; ond yr oeddynt wedi dechreu eu taith yn Llundain, Gorph. 22, 1639, ac esgyn yr Wyddfa, Awst 3, 1639. Ymwelsant hefyd â Mon, Meirion, a Threfaldwyn. Cyhoeddodd yr awdwr weithiau ereill ; sef Planigion Caint [' Iter in Agrum Cantuarium '], yn 1620, a Llysieulyfr arall yn 1634.†

[Ganwyd Thomas Johnson, y llysofydd, yn Selby, yn swydd Gaerefrog ; a bu farw, o archoll a dderbyniodd yn y rhyfel cartrefol, yn 1644.]

4. ¶ 'Argument proving the Jurisdiction used by the President and Counsell in the Marches of Wales over the Counties of Gloucester, Worcester, Hereford, and Salop, to be illegall and injurious, and a meere incroachment beyond their appointed limits, and the Proofoe is like a three-fold cord not easily broken. Printed for Thomas Wakley, 1641.'

* *Llythyr y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.*

† *Cambrian Journal*, 1860, pp. 207-209.

5. ¶ 'The Humble Petition of the Gentry, Clergy, and others, inhabitants, subscribed of the six counties of Flint, Denbigh, Montgomery, Carnarvon, Anglesea, Meirioneth, being the six shires of North Wales, as it was presented to the Knights, Citizens, and Burgesses in Parliament, accompanied with 30,000 hands. Printed for F. Couls, 1641.'

6. ¶ 'The Welchman's Protestation concerning the Corruptions of these times. With her last Will and Testament, writ and published with her own hand fifteen tays after her own teath. With a Song her was never afride in awle her life, because her was Sheare her Country. Printed 1641.'

Yn gyfrinachol y cafodd hwn ei argraffu. Gwawd rhyw ddigrifwr o Siarliad o'r Puritaniaid Cymreig ydyw, ac oll mewn Seisonaeg drom Gymroaidd yr amser hwnw.

1642.

1. 'A just and true Remonstrance of his Majesty's Mines of the Principality of Wales. By Thos. Bushel. London, 1642.'

Mr. Bushel oedd ganlynydd Syr Hugh Middleton yn ymgymmeriad gweithiau mwnau sir Aberteifi. Efe a sefydlodd fathdy arian yn Aberystwyth, trwy ganiatâd Siarl I, ac efe a gynaliodd fyddin o filwyr ar ei draul ei hun, i amddiffyn y brenin yn erbyn y Senedd, ac a roddodd tua deng mil o bunnau i'r brenin, i'w gynnorthwyo i ddwyn ei achos ym mlaen; a'r cwbl oddi wrth y mwngloddiau.

2. 'Two Petitions presented to the King's most excellent Majesty at York, the first of August, 1646;* the first from the Gentry, Ministers, &c., of the Counties, Denbigh, Anglesey, Glamorgan, and the whole principality of Wales, &c. London, 1642.*' 4plyg.

3. 'Ordinance of the Lords and Commons in Parliament assembled, for the better observation of the Monthly Fast. Blacklock, 1642.'

Dwyn perthynas y mae â Phuritaniaeth yng Nghymru.

4. 'Treatise of the Nobilitie of the Realme, with narative of such statutes as are incident hereunto upon a debate of the Barony of Abergavenny. By W. Bird. 1642,' 12mo.

5. 'Army List of Charles I. and the Parliament Troops; or the Names of all the officers in the "Royalist" Army, and those "Round-head" Army, commanded by Fairfax and Cromwell, giving the names of several Welsh Worthies. 1642,' 4to.†

* [Canfyddir fod yn rhaid bod un o'r ddau amseriad hyn yn anghywir.]

† Hotten's *Handbook to Typography*.

5. ¶ 'A Copie of a Letter to the Lord Marquesse of Hartford from the Lords of His Majestie's Councill, also Introductions to the Lord of Hartford now resident at Sir John Mounson his house in Brecknockshire. 1642.'

Rhoddi hanes y mae am fwriad yn erbyn bywyd Arglwydd Herbert, ac hefyd hanes y milwyr troed a gwŷr meirch a gyfodwyd sir Frycheiniog o blaid Siarl I.

7. ¶ 'The Welchman's publike Recantation, or his hearty sorrow for taking up Armes against her Parliament, Declaring to all the World how her hath been abused by faire wordes, and such adullations and flattering, telling her what Booties and Prizes her should get, the Divell take the Array. 1642.'

Llyfryn bach digrifol yw hwn; ond nid ffwl a'i gwnaeth. Gwneyd gwawd o'r Cymry y mae. Y mae yn ei ddiwedd hen Gerdd Gymraeg, yn cael ei galw, 'The Welchman's doleful ditty,' ar y mesur '*O hone, O hone.*'

8. ¶ 'His Majestie's Speech to the Inhabitants of Denbighshire and Flintshire, 27 Sept. 1642.'

Ceisiai Siarl I. ymwthio i ffafr trigolion siroedd Dinbych a Fflint. Addawai iddynt, os cefnogent ef, y gwnai ef yn dda trostynt ar ol hyny. Yr oedd yn deisyf ar y siryddion daenu ei draethawd, gan fod ei argraffweisg wedi eu hattal.

9. ¶ 'The Welchman's last Petition and Protestation, desiring that a speedy aide might bee sent her against her home-bred Enemies, as her shall declare and show to be in her following Petition; whereunto is added the protestation of Thomas ap Shinkin ap Morgan. 1642.'

Y mae ar yr wyneb-ddalen argrafflun o Gymro ar ei daith, a ffon yn ei law. Y mae yn ei ddiwedd, 'The Master Mouse his Answer to her Country-men's Petition,' gydag ateb y Cymro; a'r cwbl yn Seisonaeg Gymreig Cymro yr oes hōno.

10. ¶ 'The Welch-men's Prave Resolution, in Defence of Her King, Her British Parliament, and her Country, against te malignant party, subscribed by Shon, ap William, ap Thomas, ap Meredith, ap Evans, ap Lloyd, ap Price, ap Hugh, ap Rowland, ap Powell, ap Shinkin, ap Shones.'

Traethodyn o'r cyffelyb gyfansoddiad gwawdlyd ar y Cymry gan eu gwrthwynebwyd yn yr ymrysonau gwladol y dyddiau hyny, yw hwn hefyd; ac oll mewn Seisonaeg Gymreig Cymro. Y mae cyfeiriadau mynych at frwydrau cynnar y rhyfel cartrefol yng

Nghymru. Sonir am yr ofn oedd er ys talm am wrthryfel yn sir Fynwy, o blegid lluosogrwydd y Pabyddion yno.*

11. ¶ 'Two Speeches made in the House of Peers against Accommodation, by the Earl of Pembroke. 1642.'

12. ¶ 'Missal, with the Prayers and General Offices of the Catholic Church. P. Urban. viii. 1642.'

Y mae yr uchod, medd Mr. J. C. Hotten, yn Gymraeg oll, er gwasanaeth y Pabyddion yng Nghymru. Y mae yn dalp o lyfr yn cynnwys tua 500 tudalen.

[Hyd oni chaffwyf oleuni eglurach, nis gallaf lai nag ammheu bodoliaeth y llyfr hwn; a thybiaf mai 'Allwydd Paradwys' (rhif 1, d.f. 1670) yw y gwaith a olygir.]

13. ¶ 'Persuasion to Loyalty, or the Subjects Dutie, wherein is proved that resisting or deposing of Kings (under what specious pretences soever couched) is utterly unlawfull. By David Owen. 1642.'

Gwr o sir Feirionydd ydoedd yr awdwr. Ymosodiad cyffredinol ar y Puritaniaid yng Nghymru ydyw.

14. ¶ 'A Loving and Loyall Speech spoken unto our noble Prince Charles by Sir Hugh Vaughan, the 2nd of October, at Ragland Castle, in Monmouthshire in Wales, also the manner of his brave entertainment, and a Relation of divers rich Presents brought unto him. 1642.'

Darfu i ryw Gymro o'r enw 'Master Lewis ap Morgan,' anfon rhodd i'r tywysog o lestr arian a'i arfluniau wedi eu cerfio arno.

15. ¶ 'The Welshman's Warning-Piece as it was delivered in a Sermon in Shropshire at the Assembly when the Resolution was agreed upon, And Now published for the good of all her Countrymen in these parts, by Shon ap Morgan, in the Anti-Prelatian Year 1642. Wherein her gives Kot thanks that her was no Beshit. 1642.'

Y mae y traethodyn hwn drwyddo yn ddynwarediad digrifol o Gymro yn siarad Seisonaeg yn Gymreigaidd. Chwedlau digrifol am 'Lot, old Fader Lot;' 'Taffie, Taffie, her nown Country-man who was porn in Monmouthshire;' 'Shobe, that holy and shust man, Shob;' 'te Tiffel, tat funny old man;' sy'n ddigrifol i'r eithaf. Dirmyg rhyw freninolwr ar y Cymro o'r ochr arall ydyw.

16. ¶ 'A Collection of Sundry Petitions Presented to the King's Most Exellent Majestie by most of the Gentry, Ministers, Freeholders of Six Counties of North Wales, Hereford, Cheshire, &c., in behalf of Episcopacie, Liturgie, and Church Revenue. 1642.'

* J. C. Hotten's *Catalogue*.

Yr oedd arnynt hwy eisieu cyfnewid yr hen ddull o addoli.

17. ¶ 'To the Honourable Court of the House of Commons, the Humble Petition of many Hundred Thousands, inhabiting within the Thirteen Shires of Wales, desiring that their Country may be more strongly fortified with Armes and Ammunition. 1642.'

Yr oedd llawer o anmharch, meddent, wedi cael ei ddangos tuag at y Cymry—yr oedd gyroedd cyfain o anifeiliaid wedi gyru oddi ar eu tiroedd.

1643.

1. 'August 22. Mercurius Britannicus. No 1. By Marchmond Needham.'

2. 'Oct. 21—28. The Welch Mercurie.'

3. 'Oct. 23—30. Mercurius Cambro-Britannicus; British Mercury, or Welch Diurnal.'

4. 'Britannicus Vapulans.'

5. 'Nov. 2. Mercurius Vapulans; or, the Whipping of poor British Mercury. By Mercurius Urbanus, younger brother to Aulicus.'

6. 'A true Relation of the discomfiting and routing of the Earl of Carbery, and his forces of the County of Pembroke, manned and performed under God by the valiant and courageous gentlemen, Col. Rowland Laugharne, John Poyer, Mayor of Pembroke, Major Thomas Laugharn, Simon Thelwall, and Arthur Owen, Esq., Capt. Powel and Capt. Cuney, and other well affected Commanders and Gentlemen, &c. Lond. 1643.'

7. 'Testament Newydd,' &c. [8plyg.]

Cyhoeddwy'r yr argraffiad hwn ydoedd W. Wroth a Walter Cradoc; ac yr oedd mewn plygiad wythau.*

8. ¶ 'The Welch Doctor; or the Welchman turned Physitian, being a new way to cure Diseases in these times, &c. By Shinkin ap Morgan. 1643.'

9. ¶ 'Famous Victorie obtained by Sir William Waller against Lord Herbert and the Welch Cavaliers in the Forest of Deane, where 600 of the Welchmen were slaine, and 1,000 taken prisoners. 1643.'

* Rees's *Nonconformity of Wales*, pp. 81-409.

10. ¶ 'The Welshman's Declaration: declaring her resolution to be revenged on her enemies, for te creat overthrow of a creat many of her Cousins and Countreymen in Tean Forrest, in Gloucestershire, where her was slightly frittered. 1643.'

Y mae iddo wyneb-ddalen cywrain.

11. ¶ 'A Perfect Tiurnal or Welsh Post, with her creat packet of Letters, for her to carry into her Countrey of Whales, touching preten proceeding, and war in England. London, printed for her Welch Post, to carry to her countrymen in Whales, 1643.

Y mae yn addurnedig ag argraff o Siarl I, yn eistedd ar orsedd, a dau lyswr neu droseddwr yn gofyn ffafwr.*

12. ¶ 'The Copies of such Bills as were presented unto His Majestie at Oxon, for the suppression of Innovations in Churches & Chapels; the utter abolishing and taking away of the Bishops, Chaunters, Choristers, Scandalous Clergymen, Pluralities, &c., in Wales. 1643.' 4to.

Y mae hwn wedi ei argraffu yn yr hen lythyren ddu. Y mae yn cynnwys rhestr o'r 'Dirpwywyr i ymofyn yng nghylch "Scandalous Ministers," o fewn llywodraeth ei Fawrhydi yng Nghymru,' hefyd yn siroedd y Mwythig, Henffordd, Caerwrangon, a Chaerlleon.

1644.

1. 'Feb. 6. Mercurius not Veriducus, nor yet Mutus; but Cambro or honest Britannus.'

2. 'March 4. Mercurius Vapulans: or Naworth Stript and Whipt.'

3. 'March 22-29. Britain Remembrancer.'

Y 'Mercurii' hyn oedd dechreuad papyrau y newyddion. Cyhoeddwyd hwynt ar y cyntaf pan ymosododd llynges Yspañ ar longau Prydain, yn amser y Frenines Elisabeth, i roddi hanes ein llongau y pryd hyny. Lleni o bapyrau achlysurol oeddynt. Y pryd hyny, yr oedd pob byddin yn cludo argraffwasg ac argraffwyr gyda hwynt, yr oedd yn gwneyd y rhyfel yn gymmaint 'rhyfel papyr,' ac ydoedd yn rhyfel dur—yn dywallt *inc* yn gystal a thywallt gwaed. Pan y byddai y rhyfel yn Scotland, gelwid y papyr yn '*English Mercurius Caledonius*;' pan yn Lloegr, yn '*London Mercury*;' a phan yng Nghymru, yn '*British*' neu '*Welsh Mercurie*.' Yr oedd y pleidiau crefyddol, yn Buritanaidd anghydfurfiol ac eglwysig, yn cyhoeddi eu '*Mercuries*,' neu '*Diurnals*,' yn erbyn eu gilydd, yn fath o ddalenau hedegog, a'r argraffwyr fel yn ehedeg, a'u gwasg gyda hwynt, o'r naill gwr i'r llall o'r deyrnas. Yr oedd

* J. C. Hotten's *Catalogue*.

John Penry, a rhyw rai ereill, wedi rhoddi esiamplau yn y '*Martin Marprelate*,' ond yr oedd ef wedi ei symmud ymaith cyn hyn. Dichon fod gan John Salisbury, argraffydd cyntaf y '*Flying Post*,' law ynddynt; am yr hwn y dywed Dutton—'Mr. John Salusbury, argraffydd, oedd yn Gymro gorwyllt ffyrnig. Efe a ymwisgai fel pe buasai mewn gwasg, yn unig fel y gallai y boneddigesau ddywed- yd, "Gwelwch y fath ffurf a throed tlws sy gan y gwr boneddig yma!" Yr oedd yn genaw ffol, gwag, a delffaidd. Yr oedd cym- maint o goeg falchder ynddo, a chyn lleied o reswm drosto, ag un dyn a adnabum i erioed. Efe oedd y cyntaf a argraffodd y "*Flying Post*;" ac er gofid i'r awdwr, efe a'i llanwodd yn fynych â chopiau lladrad. Aeth i gyfraith â chwmpeni y Safwerthwyr (i gadw ei hun o'r lifrai), ac efe a heriai y dyn goreu yn y gelfyddyd: ond y mae yn awr yn gorwedd mor ddystaw a llongydd ag y dymunai dyn ei fod ef, yn y Gladdfa Newydd.*'

4. 'A Declaration published by Sir Thomas Middleton, Knight, Seargeant-Magor-General, and Vice-Admirall for the six Counties of North-Wales. London, Printed for Io. Thomas, 1644.' 4plyg.

5. 'God appearing for the Parliament, In sundry late Victories Bestowed on their Forces, Which command & call for great Praise and thanksgiving both from Parliament and People. Die Martis; 4. Martii. 1644. Ordered by the Commons House of Parliament, that Mr. Whitaker, Sir Thomas Widdrington, Mr. Rous, & Mr. Millington, do peruse all the Letters that are come from Shrewsbury, Plimouth, Scarborough, Gloucestershire, and Weymouth: and make a Narative out of them, of all Gods great and late Mercies upon the Parliament Forces, to be Printed and Read on the next day of Publique Thanksgiving. H: Elsyngl, Cler. Parl. D. Com.

Printed at Lóndon for Edward Husbands: March 10, 1644.'

Llyfryn o 22 tudalen 4plyg bychan ydyw.

Yn y '*List of Trisoners*' a gymmerwyd gan y Senedd yn y Mwythig, ceir amryw enwau Cymreig; ac yn eu plith, 'Herbert Vaughan, Esq.' Dichon ei fod o deulu hen gyfieithydd Caergai—'Row. Vaughan, wr Bonheddig.' Ond y peth hynotaf am Gymru ynddo yw hanes cymmeriad Castell Aberteifi gan fyddin y Senedd—'Touching the taking of Cardigan Castle and Town. An Extract out of a Letter written by Captaine William Smith, to the Lord High Admirall, from aboard the ship called the *Swallow* in Milford Haven, Dated the 5 of February, 1644.' Yn yr hanes dywedir y cymmerwyd yn garcharorion, 'Major *Slaughter*, un Captain *Vaughan*, gyda'r cadraglaw a'r llumanwr, un Doctor *Taylor*, Duwinydd, ac o ddeutu cant o filwyr cyffredin, chwech y ýnau mawrion, cant a hanner o arfogaethau, llawer o bylor, pelenau, a darpariaethau ereill, a hyn a wnaed y 29fed o Ragfyr diweddaf,

* Timperley's Dictionary.

&c. Y Doctor Taylor uchod ydoedd yr enwog Dr. *Jeremy Taylor*. Ar ol hyn y bu yn y Gelli Aur, ac yr ysgrifennodd y llyfr a elwir 'Golden Grove,' a'i 'Liberty of Prophesying.'*

6. 'A true Relation of the Routing His Majesties Forces in the County of Pembroke, Under the Command of the Earl of Carbery, by those valiant ond Courageous Gentlemen, Colonell Rowland Laugharn, John Poyer, Simon Thelwall, Thomas Laugharn, and others wel-affected. As it was sent in two several relations, of the the Land fight, and Sea fight; The one to the Right Honourable Robert Earl of Warwick. The other to the Honourable William Lenthal, Esquire, Speaker of the House of Commons. With the number of such Ordnance, Arms, Ammunition, Castles Commanders, and Souldiers as are taken, and that County by God's blessing cleared of the enemy. 11. April. 1644. Ordered by the Commons assembled in Parliament, That these Relations be forthwith Printed and published. Hen. Elfynge. Cler. Parl. D. Com.

London, Printed for Edw. Husbands. April 12, 1644.'

Pedwarplyg bychan o 16 tudalen yw maint hwn.

7. 'Letter from Sir William Brereton, Sir Thomas Middleton, Sir John Meldrum, of the Great Victory (by God's Providence) Given them in Raising the Siege from before Montgomery Castle. And how they routed and totally dispersed his Majesties Forces, under the command of the Lord Byron: where they tooke all their Carriages, Arms, Ammunition, and made them fly to Shrewsbury, and Chester. 1644.'

8. ¶ 'Continuation of Certain Speciall and Remarkable Passages, informed to the Parliament. 1644.'

Y mae yn traethu am 'Col. Breese' yn sir Fynwy, &c.

9. ¶ 'Civil War in Wales and Shropshire, two Great Victories, one obtained by the Earl of Denbigh at Oswestry, and how he took 20 Gentlemen of Wales, &c., the other Victory by Collonel Mitton. 1644.'

10. ¶ 'Sir T. Middleton's Letter concerning the raising of the Siege of Oswestrie. 1644.'

11. ¶ 'England's Tears for the present Wars, which for the Nature of the Quarrell, the quality of Strength, the diversity of Battails, Skirmishes, Sieges, &c., cannot be paralleled by any Age. 1644.'

* *Llythyr y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.*

Yr awdwr oedd JAMES HOWELL, brodor o Abernant,* yn sir Gaerfyrddin, ac y mae portreïad cywrain o hono yn pwysig ar goeden, yn gyssylltiol. Son y mae am warchäedigaeth Castell Penfro, Trefaldwyn, Aberteifi, a Hwlfordd, yn ymrysonau y rhyfel cartrefol.

12. ¶ 'Ordinance for Raising and Maintaining of Horse and Foot for Monmouth, Glamorgan and Brecknock, Radnor, Gloucester and Hereford. 1644.'

Traethawd hanesol pwysig yw hwn a roddwyd allan gan y Cromweliad.

13. ¶ 'Letters from Sir William Brereton, Sir Thomas Middleton, Sir John Meldrum, of the Great Victory given them, in raising the Siege from before Montgomery Castle, and how they routed and totally dispersed His Majesty's Forces, under Lord Byron, with a list of the Names of all the Commanders and Officers taken and kild. 1644.'

Cynnwys hanes llawn am gymmeriad Castell Trefaldwyn. Y mae y 'List' yn rhoi enwau a phenodiad agos 200 o swyddogion Cymreig y Breninolwyr.

14. ¶ 'True Relation of the Proceedings of Colonell Laugharne and others in the County of Pembroke against the Earl of Carbery and his Forces; with the names of the Ships, also with a Schedule of the prisoners of note and quality there taken. 1644.'

Dyry hwn hanes gwahanol iawn i'r hyn a roddir yn rhif 6.

15. ¶ 'Discourse before the unfortunate Parliament at Oxford, on the only way to preserve life. By Griffith Williams. 1644.'

Rhoddir hanes yn ei ddiwedd pa fodd yr ymddygodd y Cromweliad tuag at yr Esgob Williams tra yr oedd yn traddodi y bregeth hon. Cymmerasant feddiant o'i dŷ, gyrasant ymaith ei wraig a'i blant, a llosgasant ei ddodrefn.

15. ¶ 'Jura Majestatis, the Rights of Kings, both in Church and State. 1. Granted by God. 2. Violated by the Rebels, &c., and the Wickedness of the Faction of this pretended Parliament at Westminster, their Rebellion, Murder, Roberie, &c. Oxford, 1644.'

GRUFFYDD WILLIAMS a anwyd yn Llanrug [yn sir Gaernarfon]. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaergrawnt. Heb law lleoedd ereill, bu yn berson Llanllechid. Hefyd dyrchafwyd ef yn Brebendur Westminster; yn Ddeon Bangor, yn 1633; ac yn Esgob

* [Yn hytrach, brodor o Gefn y Bryn, ym mhlwyf Llangammarch, Brycheiniog. Yr oedd efe yn agos i 40 oed pan gafodd ei dad fywoliaeth Abernant a Chynwil Elfed, ger Caerfyrddin.]

Ossori, Iwerddon, yn 1641. Deolwyd ef o'r cyfan yn amser Cromwel, ond adferwyd iddo ei le ar Adferiad Siarl II. Ymddengys ei fod yn bleidiwr gwresog i'r deyrnoliaeth. Bu farw Mawrth 29, 1672, yn 84 oed.*

1645.

1. 'A Letter from Capt. Richard Swanley to the Right Honourable Earl of Warwick, being a full relation of the taking of the town and castle of Cardigan, in Wales, by Major General Langham, with above 100 commanders and common soldiers, and all the arms and ammunition therein, &c. Published by authority.

London, printed for John Thomas. 1645.'

2. 'Several Letters of Great consequence intercepted by Col. Mutton, near Ruthyn, in Wales, concerning Irish Forces to be brought into England. 1645.'

3. 'Gemitus Ecclesiæ Cambro-Britannicæ, or the candlesticks removed by the Ejectment of the Ministers of Wales under the power of the late Act for the Propagation of the Gospel there. 1645.†

4. 'Reall Thankfulness: or, A Sermon Preached In Pavls Church London, Vpon the second day of November, 1645. At a Publike Thanksgiving for the taking in of the Towns and Castles of Caermarthen and Monmouth in Wales, it being the first Lord's-day after the inauguration of the Right Honourable Thomas Adams now Lord Major of that famous City. By Simeon Ash Preacher at Basingshaw, London, and one of the Assembly of Divines.

London, Printed by G. Miller for Edward Brewster at the Bible on Ludgate-hill neer Fleet-bridge, M.DC.XLV.'

Y mae y bregeth hon yn amlygiaeth o'r hyn oedd y teimlad cyhoeddus gwladol pan orchfygodd byddinoedd Cromwel y cestyll hyny.‡

5. ¶ 'Oriens ab Occidente, or a Dawning in the West, as it was delivered in a Discourse to the Long Parliament, upon their day of thanksgiving for several Victories in the West, by John Bond. 1645.'

Y mae yn traethu llawer am fuddugoliaethau y Senedd yn nhrefi gorllewinol Deheudir Cymru, yn enwedig y faes-fuddugoliaeth yn 'Haverfordwest,' yng Nghymru.

* Williams's *Eminent Welshmen*. [Gweler hefyd *Taliesin*, ii. 27.]

† J. R. Smith's *Old Book Circular*.

‡ *Caermarthen and its Neighbourhood*, by Spurrell, p. 5.

6. ¶ 'A Discourse before the Long Parliament at their Thanksgiving unto God, for the gaining of Towns in the West, and for the dispersing of the Clubmen, and the good success in Pembrokeshire. By Thomas Case. 1645.'

7. ¶ 'An Ordinance of the Lords and Commons assembled in Parliament for the more effectually putting in execution the Directory for publique worship, in all Parish Churches and Chappells in Wales. Printed 1645.'

1646.

1. 'Canwyll y Cymry, &c. Gan Rhys Prichard, Ficar Llanymddyfri yn Neheubarth.' Llundain, 8plyg.

Y mae yn hynod na chyhoeddodd y ficar ei waith ei hun, ond ond gadael ei ysgrifeniadau yn ddidrefn, a llawer math o adysgrifau o honynt; canys trwy eu hadysgrifenu, a'u dysgu ar dafod, y taenid ac y ceadwid hwynt mewn bodoliaeth; ond daeth yr argraffiad hwn allan yn dra buan wedi ei farwolaeth—ym mhen o ddeutu dwy flynedd—wedi eu casglu at eu gilydd gan Mr. Stephan Hughes. Yr oedd yr argraffiad hwn yn ddau ddosbarth. Gwnaeth Mr. Hughes lawer o sylwadau eglurhaol ac athrawiaethol ar ymyl a godre y dail trwy yr holl lyfr, fel y byddai arferol â gwneyd â'r holl lyfrau a olygid ganddo, ac nid oeddynt ychwaith yn ychydig o nifer. Dywedir ddygwydd rai blynyddau* ar ol marwolaeth yr awdwr, i Evan Pugh, o'r Pren Teg, ym mhlwyf Llandingad, Llanymddyfri, gael gafael mewn llawer o'i ganau, y rhai a gyhoeddwyd; ar ol cyhoeddi dwy ran o honynt, cyfyngwyd rhyddid y wasg, a thrwy gynnorthwy caredig y Dr. William Thomas, Deon Caerwrangon, y cafwyd caniatâd i gyhoeddi y 3edd Ran, at ba rai chwangwyd y 4edd Ran, pan argraffwyd y cwbl yn un llyfr gan y Parch. S. Hughes.† Ef allai mai yn y lle hwn y byddai yn briodol dywedyd ychydig mewn ffordd o goffiâd am y ficar, a'i gymmwynaswr. Y mae hanes yr awdwr Cymreig hwn mor adnabyddus fel nad rhaid manylu.

RHYS PRICHARD a anwyd yn nhref Llanymddyfri yn y fl. 1579, yn yr unfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Elisabeth; ac yr oedd yn deilliaw o deulu cyfrifol. Yn ei enw, trosglwyddodd ei gyfenw i enw ei daid, canys enw ei dad oedd Dafydd ab Rhisiart ab Dafydd ab Rhys ab Dafydd; ac felly gallasai gymmeryd y Dafydd neu Prichard, neu Rhys, gan alw ei hun yn Rhys Dafydd, neu Rhys Rhys, yn gystal a Rhys Prichard; ond efe a ddewisodd y Rhisiart gan ei droi yn *Prichard*, neu Ab Richard. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle graddiwyd ef yn B.C., ac wedi hyny yn A.C. Y

* [Yn hytrach, ym mhen *ychydig* o amser; canys bu farw yr awdwr ym mis Rhagfyr, 1644, ac ymddangosodd yr argraffiad cyntaf o'r gwaith yn 1646. Yr oedd Ifan Puw yn un o blwyfolion y Ficar.]

† *Hanes Bywyd y Parch. Rhys Prichard* [gan y Proffesor Rees] yn gysylltliol â'r argraffiadau diweddaf o'r gwaith. [Llanymddyfri, 12plyg, 1841; 8plyg, 1858; 8plyg, 1867.]

weinidogaeth gyntaf a gafodd ydoedd curadiaeth Wittham neu Wytham, yn Essees, Ebrill 25, 1602, pan yn dair ar hugain oed. Ar y 6ed o Awst, yr un flwyddyn, cafodd gan y Dr. Rudd, Esgob Ty Ddewi, ficeriaeth Llandingad, yng nglŷn â'r hon y mae capeliaeth Llanfair ar y Bryn. Mae tref Llanymddyfri ym mhlwyf Llandingad, a gelwir y plwyf weithiau yn ol enw y dref, ac felly gelwir yntau yn *Ficar Llanymddyfri*, pan mewn gwirionedd mai ficar Llandingad ydoedd. Cafodd fel hyn ei sefydlu yn ei blwyf genedigol, yng nghanol ei berthynasau, ei gyfeillion, a'i feddiannau. Yn 1613, pan yn bedair ar ddeg ar hugain oed, cafodd ei wneyd yn gapelwr i Iarll Essees. Yr oedd hwnw yn nai i Syr George Derwent, Llwyn y Brain, ger Llanymddyfri, yr hyn a roes fantais iddo ddal personiaeth Llanedi, yr hon, trwy y dylanwad hwnw, a roddwyd iddo gan Iago I. Yn 1614, pan yn bymtheg ar hugain oed, cafodd brebendariaeth yn eglwys golegawl Aberhonddu; ac yn 1626, pan yn saith a deugain oed, cafodd ei osod yn Ganghellwr Ty Ddewi, gyda'r hon swydd y mae personiaeth Llanhuadain.* Gwelir iddo gael dognau mwy nag oedd raid o fywoliaethau eglwysig, a hyny yn dra ieuanc. Yn achlysurol a swyddogol yr ymwelai â'r lleoedd hyny ag oedd bellenig o Lanymddyfri, gan fyw a gweinidogaethu yno ar hyd ei oes. Bu farw yn Nhach. 1644, yn 65.†

Am STEPHAN HUGHES, casglydd a chyhoeddydd 'Canwyll y Cymry,' am yr hwn y gellir dywedyd—er mai y Ficar a wnaeth y Ganwyll, mai S. H. a'i goleuodd—ganwyd ef yn nhref Caerfyrddin ryw bryd yn y y fl. 1623; ac felly yr oedd yn un ar hugain oed pan fu farw y ficar, os yw yr amseriad yn gywir. Ni ddywedir ym mha le y cafodd ei ddysgeidiaeth, er mai yn debygol mai yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin. Cafodd fywoliaeth eglwysig Meidrym, yn sir Gaerfyrddin, o ddeutu 1645; ac felly ym mhen blwyddyn ar ol marwolaeth y ficar, pryd y rhaid ei fod wrthi yn paratoi y gwaith i'r wasg, a dywedir iddo weinyddu yno am ddwy ar bymtheg o flynyddoedd, sef hyd nes y trowyd ef ymaith gan 'Ddeddfyr Unffurfiad,' yn 1662. Ond ni all hyn fod yn gywir; canys efe ei hun a ddywed yn ei 'Anerchiad' ar gân o flaen y gwaith mai 'Neilldŵr' ydoedd: os felly rhaid ei fod wedi gadael yr Eglwys cyn hyn, ac yn wir cyn 1644; ac os yw amseriad ei enedigaeth a'i ordeiniad, neu ei osodiad yn y fywoliaeth ym Meidrym, yn ei le, ni bu ond llai na blwyddyn yn weinidog Meidrym. Ond ef allai ei fod yn galw ei hun yn 'Neilldŵr,' am ei fod yn y swydd fel henaduriaethwr dan y Weriniaeth, ac nid fel eglwyswr o dan freninoliaeth ac esgobyddiaeth, ac felly na chafodd erioed urddau esgobawl. Ond wedi y cwbl, y mae yn ammhëus ai Hughes ydoedd. Yr oedd hefyd yn ddyn cymmedrol iawn ei olygiadau, yn gymmaint felly, fel y goddef-

* [Mae yn deilwng o goffa, mai un o ficeriaid Llanhuadain, mewn cyfnod diweddarach, sef y Parch. William Evans, a gyfieithodd Lyfr y Ficar ar fesur cerdd yn Seisoneg, yr hwn waith a ymddangosodd yn 1771, 8plyg. Cymh. rhif 14, o dan y flwyddyn hono.]

† Wood's *Athenæ Oxonienses*, vol. ii. p. 29; Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen*; 'Oriau gyda Hen Ficar Llanymddyfri,' yn y *Traethodydd*, ii. 134, &c.; ac yn enwedig y *Cofiant* rhagorol sy'n gyssylltedig â'r argraffiad rhagorol diweddar o'i waith gan Mr. Rees, Llanymddyfri.

id iddo yn fynych bregethu yn yr eglwysi wedi ei fwrw allan; ac am hyny gellid ei restru, nid fel anghydfurfiwr hollol, ond ym mhlith y rhai a elwid yn gydffurfwyr achlysurol, neu yr hyn a fuasai yn cael ei alw mewn oes ddiweddarach yn Fethodistiaeth. Bu yn llafurio yn ddiwyd yn siroedd Morganwg a Chaerfyrddin; ac effaith ei weinidogaeth ef ydyw y cynulleidfaoedd ymneillduedig sydd yn y parthau hyny. Bu ganddo hefyd law, gyda chynnorthwy ereill o'r un feddwl, mewn cyhoeddi lluaws o lyfrau a fernid yn wasanaethgar i'r werin, er eu crefyddoli, yng nghyd â'r Ysgrythyrau, fel y ceir gweled yn eu lleoedd priodol. Y mae yn neillduol deilwng o sylw fod yr argraffiadau a olygwyd ganddo ef yn gywir iawn; canys yr oedd ganddo ddull medrus, tlws, i osod ei feddwl mewn iaith leddf, a'i eiriadaeth yn ofalus, yn llawer rhagorach nag ereill o lyfrau ei oes. Nid oes wybodaeth wedi ei drosglwyddo am yr amser y bu farw.*

2. 'Contemplation upon these Times, or the Parliament explained in Wales. London, 1646.' 4plyg.

Awdwr y llyfr hwn ydoedd John Lewis, Yswain, o'r Glasgrug, ger Aberystwyth.

3. ¶ 'Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhithgristion, a'r Gwirgristion.'

Yr ydys yn ei gyflëu yma ar awdurdod 'Llythyr at y Darllenydd' i'r 'Trysor i'r Cymry,'† o ba lyfr y mae hwn yn rhan, lle y dywedir fod y 'Drychau' wedi eu 'printio unwaith o'r blaen er ys deng mlynedd ar hugain a aethant heibio.'

* [Ymddengys i mi fod yr holl ddyrswch yn codi oddi wrth fod yr awdwr ac ereill yn priodoli argraffiad anghyflawn 1646 i Stephan Hughes, pan, yn ol pob hanes a fedraf fi ei gyrrhaedd, yn 1672 yr ymddangosodd ei argraffiad ef. Fel hyn y dywed cyhoeddwr argraffiad diwygiedig Llanymddyfri, 1841:— 'Argraffwyd y Llyfr hwn gyntaf yn bedair Rhan, yn Llundain, dan olygiad y Parch. Stephan Hughes, yn y flwyddyn 1672; ond achwyna fod yr ysgrif a gafodd efe o'r caniadau yn dra ammherffaith, ac iddo fethu cael gafael yn llyfr penaf yr Awdwr, yr hwn a gollwyd yn sir Frycheiniog, yn amser y rhyfel rhwng Oliver Cromwel a'r Brenin Charles y Cyntaf.' A oes prawf mai Stephan Hughes oedd colwynydd argraffiad rhanog 1646? Ymgynghorais â Mr. Rees ar y pwnc, a deallaf na welodd ef mo'r argraffiad cyntefig hwnw; ac amlwg yw na welodd awdwr y gwaith hwn mo hono chwaith. Ni chynnwysai ond *duy* ran yn unig. Os yn 1623 y ganed S. Hughes, rhaid nad oedd ond 23 oed yn 1646, yr oedran ieuangaf y gallai gael urddau eglwysig ynddo. Pan gofier mai ym mhen deng mlynedd wedi Gweithred yr Unffurfiad (yn 1662) yr ymddangosodd argraffiad addefedig S. Hughes, ac iddo ef gael ei droi allan o'r Eglwys trwy rym y weithred hono, canfyddir rheswm da pa ham y mae efe yn ei Raglith i'r Llyfr, yn galw ei hun yn 'Neilldŵr' ac yn 'ffanatig.' Nid 'Canwyll y Cymry' oedd enw argraffiad 1646; canys dywed S. Hughes mai *wedi* argraffu o hono ef y gwaith y cyfarfu â'r enw hwnw yn un o ysgrifau yr awdwr; a chwanega:— 'Yr wyfi yn deisyf ar y neb a'i printio ar fy ôl i, i roddi'r enw hynny iddo.'

* *Adolygydd*, am 1851, t. 413; Calamy's *Ejected Ministers*; Walker's *Sufferings of the Clergy*; Williams's *Eminent Welshmen*.

† Gwel rhif 1, 1677.

4. 'The Earl of Carbery's Pedigree, &c. 1646.'

Traethodyn Seneddol hynod ydyw, yn yr hwn y gwarthruddir yn llym Richard Vaughan, ail Iarll Carbery. Gwraig yr Iarll hwn ydoedd Bridget, merch Thomas Lloyd, Yswain, o Lanllyr [yn Nyffryn Aeron], yn sir Aberteifi; ac yn y Gelli Aur, yn sir Gaerfyrddin, yr oedd yntau yn byw.*

5. 'The Saint's fullness of Joy in their fellowship with God, Presented in a Sermon preached July 21, 1646, before the Honourable House of Commons, in Margaret's Westminster. Being the day appointed for the Surrender of Oxford. Bu the least of saints and the meanest of the Ministers of the Gospel, W. Cradock.

London, printed by Matthew Simmons for Hannah Allen, at the Crown, in pope's Alley. 1646.'

Y mae cyfargraff o hon yn llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain.

6. 'The Taking of Carnarvon by Major General Mytton, with the Articles agreed upon June 5th. 1646.' 4to.

7. ¶ 'A Perfect Diurnall of Passages in Parliament. 1646.' 4to.

Papyr y Newyddion o berthynas i'r rhyfel cartrefol ydyw, ac yn cynnwys hanes am godiad, yn sir Forganwg a pharthau ereill o Gymru, y rhai oedd yn cyhoeddi eu hunain yn blaidd y Brenin a Syr Thos. Fairfax. Prif gefnogwyr y rhai, meddir, oeddynt Syr Ed. Thomas, barwnig, Syr Rich. Basset, Syr Henry Stradling, y Mil. Kames, &c.; o ddeutu 1000 o dan arfau yn holl Gymru. Rhoddir hanes hefyd am Fynwy yn cyfranu 192p. 18s. 1c. tuag at gostau y rhyfel.

[Ai nid yr un yw hwn â rhif 7, d.f. 1647?]

1647.

1. 'A full relation of the whole proceedings of the late rising and commotion in Wales, under pretence for the King and Sir Thomas Fairfax. London. 1647.' 4plyg.

Cynnwysa ysgrifeniadau swyddogol ym mherthynas i ryw gynhyrriad gwladol yn sir Forganwg, yn amser y terfysg rhwng y brenin a'r Senedd.

2. ¶ 'Y Testament Newydd.' Llundain, 12plyg.

Yr oedd yr argraffiad o'r Beibl bach yn y fl. 1630, wedi creu mwy o syched yn y bobl am y 'didwyll laeth'; ac i dori, i ryw fesur, ar y syched angerddol hwnw, y cyhoeddwyd hwn. Nid ydys yn gallu mynegu pwy a fu gymmwynaswr i'n cenedl y pryd hwn. Rhyw dalp o lyfr ydyw, â'r llinellau ar draws yr holl ddalen, ac nid yn golofnau. Rhoddwyd dau argraffiad yn ebrwydd ar ol eu gilydd, heb ddim gwahaniaeth yn eu maint—yn gwbl fel pe buasai yr un argraffiad, gyda bod yr *u* yn lle *v*, yn un o honynt, a'r llythyren

* Dwnn's *Heraldic Visitation of Wales*, vol. i. p. 214.

ddechreu pennod yn addurnedig. Dywedir mai Mr. Walter Cradoc a fynodd gael yr argraffiad hwn er gwasanaeth y bobl gyffredin.*

3. 'Scriptures concord: or a Catechisme compiled out of the words of the Scriptures. By Vavasor Powell. London, 1647.' 8vo.

4. 'Crete Wonders foretold By Her crete Prophet of Wales, which shall certainly happen this present year 1647. by strange fires and crete waters, by spirits and Tivills appearing in many places of tis Kingdome, especially in and about te Cities of London and Westminster, and the effects that will follow thereupon. Also her King's coming home to her Crete Counsell. Printed with her free consent and leave, to be publithed and sold to her true Pretren of England, with all her plood and heart. 1647.'

Math o wawd ydyw i'r Cymry ag oedd yn bleidiol i Siarl I, wedi ei ysgrifenu fel yn null Cymro yn acenu Seisoneg. Y mae argrafflun dirmygus ar yr wyneb-ddalen, o'r Barnwr Berekley, fel y tybir.

5. Ioan. Owen, Cambro-Britanni, Epigrammata.

Lugduni Batavorum, Apud Elzevirios. 1647.†

[Gellir tybied mai yr un yw hwn â rhif 8, gyda gwahanol ddalen enw, y naill i gyfateb i Leiden a'r llall i Amsterdam, fel y gwnelid yn gyffredin yn yr amseroedd hyn; a gwyddys fod cangenau o'r Elzeviriaid wedi ymsefydlu yn y ddau le hyn, yn gystal ag mewn dwy fan arall yn yr Iseldiroedd. Gweler rhif 6, d.f. 1587 (nod); a rhif 1, d.f. 1628.]

6. ¶ 'Jenkin of Wales his Love-Course and Perambulation; an early Droll performed at the Red Bull Theatre about the year 1647.'

Adargraffwyd yr uchod yng ngwasg Chiswick yn 1861, pryd y tynwyd allan 30 llyfr yn unig.

7. ¶ 'A perfect Duirnull of Passages in Parliament. 1647. Contains notices of a "rise in Glamorganshire and other parts of Wales, who declare themselves for the King and Sir Thomas Fairfax. The chieff promoters whereof are said to be Sir Ed. Thomas, Bart., Sir Richard Basset, Sir Hy. Stradling, Col. Kames, etc; forces about about 1000 in all Wales.'"

Cynnwys hefyd hanes am Fynwy yn cyfranu 192*p.* 18*s.* 1*c.* tuag at gostau y rhyfel.

[Cymharer rhif 7, d.f. 1646. Ymddengys mai yr un gwaith wedi ei gofnodi ddwywaith ydyw.]

* Brooks's *Life of the Puritans*, vol. iii. p. 356, allan o'r '*Parliament Explained*,' p. 29.

† *Dictionnaire Bibliographique.*

8. 'Ioan. Oweni, Cambro-Britanni Oxoniensis, Epigrammata. Amstelædami, Apud Elzevirios. 1647.'

9. 'Declaration of Engagements, Remonstrances, Representations, Resolutions, &c., from Sir Thomas Fairfax and the Army, for setting his Majesty in his Just Rights, and the Subjects in their Liberties and Freedom. 1647.'

Cynnwysa hanes hynod am gamymddygiadau Syr William Lewis a 'Master Glyn,' Prwywyr dros Ddeheubarth Cymru. Yn lle edrych allan am ddyledwyr, Pabyddion, a breninolwyr ereill, a chymmeryd eu hetifeddiaethau, yn hytrach hwy a'u cynnorthwyasant. Darfod iddynt yn benodol amddiffyn Arglwydd Carbery, yn sir Gaerfyrddin, Mr. Crane, ac ereill, yn sir Forganwg, Mr. Morgan o Forganwg, a Mr. Herbert ac ereill, ym Mrycheiniog. Enwir amrai ym Mrycheiniog a gynnorthwywyd yn feius. Siariedir am dŷ Morgan Aubrey yn Aberhonddu, a thy William Lewis yn sir Frycheiniog.*

10. 'A Full Vindication and Answer of the XI Accused Members, Denzill, Holles, Sir William Lewis, John Glynne and the rest, to the late Particular Charge or Impeachment. 1647.'

Y mae Syr William Lewis a Mr. Glynne, yn ymdrechu ateb, yn y llyfryn hwn, y cyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn; ac enwir amrywiol bethau ereill cyssylltedig â siroedd Brycheiniog, Morganwg, a Maesfed.*

11. ¶ 'Judge Jenkins's Plea delivered into the Earle of Manchester and the Speaker of the Ho. of Commons, which was read in open Court. By Dav. Jenkins, prisoner in Newgate. 1647.'

Pleidiwr gwrol i'r freninoliaeth oedd y Barnwr Jenkins o Hensol, ym Morganwg. Ateb llym iawn yn erbyn y Senedd ydoedd. Argraffwyd ef yn gyfrinachol; canys y fath oedd teimladau pleidiau gwladol, fel na feiddid argraffu a thaenu y cyfryw bethau yn gyhoeddus.

12. ¶ 'An Apology for the Army, touching the 8 Querries upon the late Declarations, also touching Sedition falsely charged upon them, by David Jenkins, prisoner in the Tower of London. Printed 1647.'

Yn gyfrinachol. Yr hyn sydd yn cael ei ddadlu yw, pa un ai oedd biau y Siarl i. y fyddin, ai y Senedd.

13. ¶ 'Remonstrance to the Lords and Commons of the two Houses of Parliament. 1647.'

Ymddengys mai David Jenkins ydoedd ysgrifenydd hwn hefyd, tra yr ydoedd yn garcharor yn y Tŵr.

14. ¶ 'Severall Poysonous and Seditious Papers of Mr. David Jenkins answered, by H. P. Barrester of Lincolne's Inn. R. Bostock, 1647.'

15. ¶ 'The Cordiall of Mr. David Jenkins; or, his reply to H. P. Barrester of Lincolne's Inne answered. 1647.'

Ymddengys yn amlwg for yr H. P. hwn, naill ai yn dymuno ymwithio i ffafr, neu ei fod yn gyflogedig gan y Senedd, i ateb yr hen Farnwr Cymreig. Ond yr oedd iaith fywiog a rhesymau cryfion yr olaf, yn chwalu gwaith y 'Barrester' yn hollol.

16. ¶ 'A Discourse touching the Inconveniencies of a Long continued Parliament, and the Judgment of the Law of the Land in that behalf, by David Jenkins, now prisoner in the Tower. Printed, 1647.'

Yn gyfrinachol. Ystyrid y traethawd hwn yn daranfollt feiddgar yn ei erbyn y 'Senedd Hir.'

17. ¶ 'An Answer to the Poysonous Sedicious Paper by Mr. David Jenkins, by H. P. Barrester of Lincolne's Inne. R. Bostock, 1647.'

Enw yr awdwr hwn yn llawn oedd H. Parker.

Bu y boneddwr enwog hwn, David Jenkins, o sir Forganwg, am hir amser ynuno brif Farnwry Brawdlysoedd yn Neheubarth Cymru. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan rhwng Siarl I. a'r Senedd, darfu iddo naill ai carcharu ai condemnio i farw amrai bersonau, fel yn euogo uchel fradwriaeth, am ddwyn o honynt arfau yn erbyn y brenin. O'r diwedd cymmerwyd ef yn garcharor yn Henffordd, Rhag. 18, 1645, a hyrddiwyd ef i garchar y Tŵr, yn Llundain. Pan ddygwyd ef o flaen Rheithfa Ty y Cyffredin, efe a ymddygodd, fel y dywedwyd o'r blaen, gan wadu hawl y llys—nad oeddynt yn llys yn ol cyfansoddiad y deyrnas. Tafliwyd ef i garchar yr ail waith; ond efe a ymddygodd yn hollol anhyblyg, gan wadu eu hawdurdod yn gwbl. Hwyl a benderfynasant ei gondemnio, a'i ddienyddio; ond efe a chwaddodd, ac a ddywedodd yr elai i'r crogbren gyda'r Beibl dan ei fraich, a'r *Magna Charta* o dan y fraich arall. Bu yng ngharchar yng Nghastell Windsor hyd yr Adferiad. Mynai Siarl II. iddo fod yn farnwr; ond nid ymostyngai i roddi rhoddion i bobl Neuadd Westminster, fel yr oedd yr arfer wrth gael swydd uchel. Efe a encilliodd i'w etifeddiaeth yn sir Forganwg, a ad-dychwelasad iddo. Bu farw ym Mhont Faen, Rhag. 6, 1663, yn 82 oed.*

18. ¶ 'An Ordinance for the Raising of Money to be employed toward the maintenance of Forces within the Kingdom. 1647.'

* Williams's *Eminent Welshmen*; J. C. Hotten's *Catalogue*.

Dyry hwn gyfrif o'r symiau o arian oedd gan bob sir yng Nghymru i'w talu, ac hefyd enwau y gwerinwyr ym mhob sir oedd i gasglu yr arian.

19. ¶ 'A Declaration about North Wales and the Taxes. 1647.'

Yn gyssylltedig â hwn y mae 'Two Petitions to the Generals Excellency from the County of Hartfordshire and Rutland.' Y mae y '*Declaration*' o berthynas i ryw arian a godasid oddi ar y bobl dldion ddifeddwl yng Ngogledd Cymru heb awdurdod y Senedd. Yr oedd ar y Senedd eisieu gwybod pwy a feiddasai wneyd felly.

20. ¶ 'Several Notes declaring what Forces shall be continued in the Kingdome of England and Dominion of Wales, what Regiments shall be Disbanded, &c. 1647.'

Cyhoeddwyd fod i 100 o feirch a 100 o farchfilwyr gael eu cadw er diogelwch Gogledd Cymru, dan y Cadfridog Mytton, a'r un rhif o dan y Cadfridog Langhorn i Ddeheudir Cymru.

1648.

1. ¶ 'Y Salmau ar gân. Llundain.' 12plyg.*

Dyma y waith gyntaf y cawn grybwylliad am y Salmau fel hyn ar gân. Y mae yn dra thebyg mai yr argraffiad cyntaf ydoedd o waith yr Archddiacon Prys, ac iddo gael ei gyhoeddi wrtho ei hun, ac nid yn gyssylltiol â'r Beibl, na Llyfr y Weddi Gyffredin; † canys nid ydys yn cael fod yr un wedi eu cyhoeddi y flwyddyn hon.

2. ¶ 'News from Pembroke and Montgomery; or Oxford Manchester'd, by Michael Oldsworth and his Lord, who swore he was Chancellor of Oxford, and proved it in a speech made to the new Visitours in their new convocation. Printed at Montgomery. 1648.'

Diau mai dyma y peth cyntaf erioed a argraffwyd yng Nghymru: ac y mae yn dra thebyg mai un o baprau gwasg symmudol un o'r pleidiau gwleidiadol y pryd hyny ydoedd; canys yr oedd hyn yn y gwres mwyaf—y flwyddyn cyn dienyddiad Siarl I. [Gwel t. 2.]

3. 'The Declaration and Resolution of Col. John Poyer, concerning Lieut. General Cromwell, and the particular relation of another Great Fight in Wales. London, 1648.' 4to.

Y mae hwn yn traethu am ryw ymdrafodiaeth rhwng y Mil. Horton a'r Mil. Poyer, yn sir Gaerfyrddin a sir Aberteifi.

4. 'The Declaration of Lieut: Gen. Cromwell concerning his present design and engagement against Col. Poyer, and his adherents in South Wales. London, 1648.' 4to.

* Yn ol Moses Williams.

† [Gweler rhif 2, d.f. 1621; a rhif 2, d.f. 1628.]

5. 'A true and particular Relation of the late Victory obtained by Colonel Horton and Colonel Oakey against the Welsh forces under Major General Langhorne, expressed in a letter from Colonel Oakey to a friend in London. London.' 4to.

6. 'Col. Poyer's Forces in Wales totally routed by the Parliament forces commanded by Col. Horton. Lond. 1648.' 4to.

Dyry hwn hanes am ymladdfa fawr St. Ffagan, ger Caerdydd.

7. 'A declaration of divers Gentlemen of Wales, with their proposition to his highnesse Prince Charles. London, 1648.' 4to.

8. 'A List of the persons taken and those that were slain by Colonel Horton in South Wales, &c. London.' 8vo.

9. 'Lapis Chymicus Philosophorum Examini Subjectus, &c. Authore Bassetto Jhones, Generoso [on shield] "Duw ar fy Rhan." Oxoniæ Excudebat Hen. Hall Academiæ Typographus. Ann. Dom. 1648.'

Cynnwys 64 tudalen, 12plyg bychan.

[Yn ol Williams's *Eminent Welshmen*, 8plyg yw ei faintioli.]

10. ¶ 'The Works of that Grave and Learned Lawyer, Judge Jenkins, by David Jenkins, prisoner in Newgate. 1648.'

Y David Jenkins hwn ydoedd o Hensol [ym mhlwyf Pendewlwyn], yn sir Forganwg, o gylch y fl. 1582. Efe a ysgrifennodd gryn lawer o ddadleuon gwladol, a bu yn garcharor yn y Tŵr. Bu farw ym Mhont Faen, yn 1663, yn yr 82fed flwydd o'i oedran.

11. ¶ 'A New message to the Royalists of the two Kingdoms of England and Scotland. Also further discovery of their present proceedings against the Royal Navy at Sea, the Northern Army, the Welch, Cornish, and Scottish Forces. 1648.'

Mewn barddoniaeth y mae y gwaith uchod.

12. ¶ 'Declaration of the King's Majestie's Army, with their Resolution touching the late businesse in Wales, with the proceedings of Major General Langhorne, and the Protestation of the British Forces in Wales. 1648.'

Gellir casglu llawer o neillduolion y brwydrau yng Nghymru yn ystod y rhyfel cartrefol oddi wrth y llyfryn hwn.

13. ¶ 'A Declaration by Major General Langhorn, and the rest of the Forces joyned him in Wales. Letters from Col. Horton,

relating more fully the late Fight near Cardiff, with a perfect List of the Names of the Prisoners and Private Gentlemen taken in the said Fight. 1648.'

Y mae y llyfrynau uchod, yn enwedig yr olaf, yn cynnwys llawer iawn o fynegiad o berthynas i'r Breninolwyr a'r Pengryniaid (fel y gelwid y blaid arall yn y rhyfeloedd cartrefol) yng Nghymru; am lawer o drafferth yn Aberhonddu yn achos Lewis Lloyd, sirydd Brycheiniog, a'i fab; trafferthion yng Nghaerdydd yn achos Mr. Bushey Mansel; crybwylliadau am St. Ffagan a Llandaf; y gelynyion ym Mhenmare ac yng Nghastell Fulnum (castell Ffonmon) ym Morganwg; y Cadb. Creed ym Mhont Glasbri; y Cadf. Phil. Jones a'i gwmpeni yn 'Swanzy' (Abertawy).

14. ¶ 'A Declaration and Resolution of the Sheriffs, Justices of the Peace, and other of his Majesties well affected subjects in the Counties of Flint and Denbigh, at a general meeting in Wrexham, wherein they declare to oppose all forces that shall enter the Counties. 1648.'

Cynnwys hwn lawer o neillduolion am '*Syr Thos. Middleton, Simon Thelwall, Col. Thos. Ravenscroft, Col. John Aldersey, Capt. Luke Lloyd, a John Salisbury, o Bathgrage, Esquire.*' Wrth y lle a gamlythyrenir yn '*Bathgrage,*' y deallir *Bachegraig*, yn Nyffryn Clwyd.

15. ¶ 'The Trial of Judge Jenkins, at the House of Commons Barre, upon an Impeachment of High Treason, with heads of Charges against him. 1648.'

Prawf rhyfedd oedd hwn. Gelwir ef '*Barnwr o Gymru,*' a chy-huddir ef o gondemnio i farwolaeth bersonau dieuog yng Nghymru am gynnorthwyo y Senedd Hir, yn erbyn Siarl I. Dywedir fod y barnwr yn fwy na gorchest iddynt oll. Anfonwyd ef allan dair gwaith, a galwyd ef i mewn gynnifer o weithiau; ond yr oedd yn fwy anhyblyg a nerthol yn ei atebion bob tro.*

16. ¶ 'The Earl of Pembroke's Farewell to the King. 1648.'

Y mae yr Araeth hon yn llawn o regfeydd a llwon! Yn yr un swp ag y gwelwyd y llyfryn uchod yr oedd hefyd y llyfrynau canlynol:—'*The Westminster Monster, with Pembroke's Pass from Oxford to the Grave.*' Barddoniaeth ddigrifol. '*Earl of Pembroke's Speech in the Ho. of Peers.*' Llawn o ddiarebion gafaelgar. '*The Manner of Election of Phil. Herbert, Earle of Pembroke and Montgomery, Baron of Cardiff; with Speeches by a wel-affected Tanner, 1648.*' Llawn o ysmaldod. '*Gradus Simeonis, or the First-Fruits of Philip, Earl of Pembroke, Printed in the First Year of the Lord's Freedom, 1648.*' '*The Speech without an Oath, of Phil. Earle of Pembroke, 1648.*'

17. ¶ ‘The Declaration of David Jenkins, late prisoner in the Tower of London, concerning the Parliament’s Army, and the Laws and Liberties of England. Printed in 1648.’

Gollyngwyd ef allan o garchar i gael llonydd ganddo, gan ei fod yn ysgrifenu ac yn argraffu yn barhäus yn erbyn y Senedd Hir o’r carchar; ond aeth yn ddengwaith gwaeth wedi ei ryddhau, medd un. Yn ddiau yr hen Gymro hwn oedd y fieren arwaf i’w drafod a gafodd y Senedd hòno, a phlaidd wladol Cromwel.

18. ¶ ‘A Short Comment upon the Grounds and Reasons of Poyer’s taking up Arms in these Second Insurrections, which reasons are most abusively represented to the great advantage of the said Poyer, and to the dishonour of the Gentry of the County of Pembroke. 1648.’

Argraffwyd yn gyfrinachol. Y mae yn rhoddi neillduolion hynod am Benfro a’r bobl, ac am y Mil. Poyer, a’i ddechreuad isel—ei fod yn llygredig ei fywyd, yn elyn i grefydd, ac iddo guro a maeddu dau weinidog duwiol, a’i fod yn rhegwr dychrynlyd, ac yn ddyn anynad. Y mae yn ei ddiwedd restr o’r holl frwydrau yn siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, y bu gan Poyer law ynddynt.

19. ¶ ‘Poyer’s Vindication in Answer to a Lying Pamphlet in which are monstrous lies, scattered abroad to uphold the broken reputation of a poor Solicitor, for those cowardly turncoat cavaliers in the County of Pembroke. Printed in 1648.’

Yn gyfrinachol. Y cyfreithiwr tlawd uchod ydoedd un *John Elliot*, yr hwn a arferai wneyd gwaith y sir yn Llundain, a’r hwn y bu Poyer yn offerynol i’w ddiswyddo. Os yw chwarter y pethau y mae Poyer yn eu dywedyd am dano yn wir, y mae y ffrwgwd yn ymddangos fel rhwng y crochan a’r cetel, pan y mae y naill yn galw y llall yn ‘bardduog.’ Rhoddir cryn hanes am deuluoedd y *Lort*, y *Lewis*, a’r *Elliot*. Teulu cyfrifol iawn yn Narberth oedd yr *Elliot*s, ac yr oedd y *Lorts* wedi priodi i deuluoedd enwog y sir.

20. ¶ ‘A Just reply to a false and Scandalous Paper, intituled “Poyer’s Vindication,” by John Elliot, Esquire. Printed 1648.’

21. ¶ ‘Prince Charles his Letter brought to his Excellency General Fairfax and the Discovery of a Plot; also Sad News from South Wales of the Defeating of the Parliament Forces there, by Collonel Poyer, the Men Killed, taken, and dispersed, their Ordnance and Arms Lost, and Col. Poyer’s Declaration. 1648.’

Y mae yn traethu am gyflafan Castell Penfro, a lleoedd ereill yn y Deheubarth.

22. ¶ 'A Copy of his Highness Prince Charles his Letters to the Commanders of his Majesty's Forces, with a Copy of his Highnesse Commission to Collonel Poyer, written by Mr. Hugh Peters, Minister of God's Word. 1648.'

Yr oedd Hugh Peters mewn swydd ym myddin Cromwel, yn Abertawy. Y mae ei lythyr yn rhoddi hanes gwlaw dychrynllud ym Mhenfro a Thinbych y Pysgod, a'i drafferthion pan yn gwarchae am chwech wythnos yn dra dyddorol. Cymmerwyd llythyrâu y Tywysog Siarl ym Mhenfro. Yr oedd ef wedi penodi y Mil. John Poyer yn llywodraethwr Penfro, a'r Mil. Rice Powel yn llywodraethwr Tinbych a'r castell.

23. ¶ 'Colonell Poyer's Forces in Wales totally Routed by the Parliament Forces under Col. Horton, who took Prisoners:—Major Gen. Stradling, Coll. Philips, 140 Captains, Many County Gentlemen, 3000 Common Soldiers, 4000 Armes, &c., &c. 1648.'

Dysgwylid Cromwel ei hun i'r frwydr hon, ond ni roddai y brenin-olwyr, o dan y Mil. Poyer, amser i'r Mil. Horton. Hwy a ymladdasant mewn maes yn St. Ffagan, ger Caerdydd, pan y bu y Cromweliaid yn hollol fuddugoliaethus.

24. ¶ 'An Ordinance for the setting the Militia in the severall Counties, Cities, and Places in the Dominion of Wales. 1648.'

Ceir yn hwn enwau yr holl brif werinwyr ym mhob sir yng Nghymru, ag oedd yn cynnorthwyo y llywodraeth werinol i gyfodi, a chadw mewn trefn finteioedd o filwyr, a rhoddi i lawr yr holl Babyddion, a rhai anufudd i'r llywodraeth.

25. [¶ 'Cywydd Marwnad Siarles y Cyntaf, Brenin Prydain Fawr, Ffrainge a'r Werddon, a'r Ynysoedd a'r Moroedd o'u cwm-pas, Pen amddiffynwr y Ffydd. O waith Wiliam Philip o Sir Feirionydd, ŵr bonheddig. A.D. 1648.'

[Y dyddiad yn y llawysgrifen y cymmerwyd yr enw o hono yw 1648; ond ar y 30fed o Ionawr, 1649, yn gyffredin y cyfrifir i ddienyddiad Siarls r. ddygwydd. Nid oes o angenrheidrwydd yma ddim anghyssondeb. Cyn cyfnewid yr Hen Gyfrifam y Cyfrif Newydd yn y fl. 1752, dechreuai flwyddyn wladolac eglwysig ar y 25med o Fawrth, er ei bod yn gyffredin mewn ysgrifeniadau nad oedd ynt o ansawdd cyfreithiol ei dechreu, fel y gwneir yn bresennol, ar y cyntaf o Ionawr. Torbenwyd Siarls yn y fl. 1648 yn ol yr Hen Gyfrif, ond yn 1649 yn ol Cyfrif Newydd; neu, megys y gosodir y dyddiad i lawr yn fynych, Ionawr 30, 1648-9, neu 1648. Yn y cyffelyb fodd, dygwyddodd y Chwyldroad a elw Chwyldroad 1688, ym mis Chwefror yn y flwyddyn gyfreithiol hono, eithr yn Chwefror, 1689, yn ol ein dull presennol ni o gyfrif.

Ni gwn pa le yr argraffwyd y Cywydd, od oes wrtho enw lle. Cymmerwyd yr enw allan o lawysgrifen o'r Cywydd; ond y mae genym dystiolaeth benodol a diymwad gael o'r Farwnad ei *hargraffu*; canys yng 'Nghywydd Marwnad Wiliam Phylip o'r Hendref Fechan,' o waith ei gâr Phylip Sion Phylip, ceir y llinellau canlynol mewn cyfeiriad at y gwaith dan sylw:—

'Gwnai *Farwnad* wiw-rad ar ol
Ein Brenin uniawn breiniol ;
Ei gwyn am *Siarls* genym sydd
Yn *brintiedig*, baint dedwydd :
Teilwng oedd, lân ben talaith,
Yn brint roi'i holl iawn-bur waith.'

Dywed yr un *Farwnad* i Wiliam Phylip farw ym mis Chwefror, yn y fl. 1669, a chael o hono ei gladdu yn Llanddwywe :—

'Oedran Iesu, Deyrn oesoedd,
Yn dwyn gwr da enwog, oedd
Mil, chwechant, wylant helaeth,
Chwe' deg a naw, och dygn aeth !
Yn *Chwefror* y llwyr dorwyd
Pen Awen gymhen i gyd ;
Ai corff hwn, y gwr hoff hael,
I *Lan Ddwywe* lân ddiwael:
Y Bedd lle mae i orweddiad,
Wrth glun sydd y dedwydd dad.'

Nid oes dadl nad ar fedd Wiliam Phylip y mae y gareg sydd yn dwyn yr argraff ganlynol ym Mynwent Llanddwywe :—'W. PH. 1669, FE. XI.' Gesyd y dyfyniad blaenorol hyny tu hwnt i ammheuaeth. Costiodd ysgrifenu *Marwnad Siarls* yn ddrud i'r bardd ; attafaelwyd ei holl feddiannau gan wŷr y Senedd, a gorfu arno yntau ffoi am ei einioes, ac ymlechu ym mhlith y llwyni eithin, ac yn holltau creigiau mynyddoedd Ardudwy. Cyfansoddwyd englynon a phennillion ganddo ar ei herwriaeth, ac yn un o honynt nodir ei *oedran* yn yr amser hwnw, yn y wedd ganlynol :—

'Pe cawn i 'r Pengryniaid
Ar ben goriwaered,
Er gwaned a hyned wyf heno,
A phastwn dduddraenen,
'R wy'n *ddeuddeg a thrigain*,
Chwi a'm gwelech yn llawen yn llywio.'

Os oedd ef yn 72 oed yn 1648, rhaid ef fod o gylch 93 yn 1669, pan y dygwyddodd ei farwolaeth. Cyfeirir yn ei farwnad at ei fawr *oedran* pan y bu farw :—

'Triniodd y byd tra enwir,
Trwy iawn hap, i'w *oedran hir* ;
Mewn glân fuchedd rinweddawl
Hyd ei fedd, wr hynod fawl.'

Od oes coel ar y farwnad hon, yr oedd Wiliam Phylip yn wr llawn o rinweddau, ac yn hynod o fucheddol yn ei oes. Y mae ei farddoniaeth yn llefaru drosti ei hun. Nid oedd un bardd o'r radd uchaf yng Nghymru yn yr amser hwnw, ond Huw Morus yn unig. Eilraddol, neu is na hyny, oedd holl feirdd y mesurau caethion yn ystod y cyfnod hwn.]

1649.

1. 'An Act for the better Propagation of the Gospel in Wales.'

2. 'The case of Thomas Bushel, of Enston, in the county of Oxon, Esquire, truly stated, together with his progresse in Minerals, and the desires of several Merchants and others, that are willing and ready to advance so good a worke for the benefit of the

nation, humbly tendred to the serious consideration of the Honble. House of Commons, and all other persons in authority, whether civill or martiall, that are desirous to advance the trade of the nation, supply the necessities of the poor, by discovering the hidden treasures of the earth, preserve the lives of many poore creatures from untimely death (who now are destroyed in their prime for petty felonies) which might otherwise be made serviceable to the Commonwealth. London, 1649.’*

Yr oedd Mr. Bushel wedi ei rwystro yn ei waith yn sir Abertefi erbyn hyn, gan y Senedd a'r rhyfel cartrefol. Dywedir fod llawer iawn o arian a phlwm ym mynyddoedd Brwmfflyd, Tal y Bont, Coginan, Cwm Erfin, a'r Daren—ei fod ef wedi prynu y mwnau hyn, y rhai a ganiatawyd i'r Arglwyddes Middleton gan y Brenin Iago, am 400*p.* i lawr, a 400*p.* yn flynyddol, am yr amser y byddent yn ei gafael.

3. ‘The Liberties and Customs of the Myners, with extracts from the Bundles of the Exchequer and inquisitions, taken in the reigne of Kg. Edwd. 1st, and continued ever since, under the most favourable Kings and Queens of the Kingdom of England. Printed by E. G. 1649.’

Cadarnhâd o'r blaenorol ydoedd hwn.

4. ‘The Use of Passions, by Henry Earl of Monmouth.’ Fol.†

5. ‘Christ Exalted by the Father, God the Father Glorified, and Mans redemption finished. Preached before the Lord Mayor of London 1649. By Vavasor Powell.’

6. ‘Severall Proceedings in Parliament, Licenced by the Clerke of the Parliament. 1649.’

Papyr y Newyddion ydyw, yn rhoddi hanes maith am yr ‘Act for the better propagation of the Gospell in Wales,’ gyda rhestr helaeth iawn o'r ‘*Welsh Commissioners*’ a benodwyd i siroedd Mynwy, Mon, Fflint, &c., gyda chofres o *Weinidogion yr Efyngyl* mwyaf pwysig y pryd hyny yng Nghymru; hefyd, llythyr maith a dyddorol oddi wrth Oliver Cromwel.

7. ¶ ‘A Thanksgiving for the Recovery of Phil. Earle of Pembroke, who was jeared into a Pestilent Fever. 1649.’

Yr oedd y canlynol hefyd yn yr un bwrnel:—‘Will and Testament of Phil. Earle of Pembroke and Montgomery. 1649.’

* Gwel rhif 1, 1642.

† Ysgrif Mr. B. Davies.

Y Philip hwn oedd 4ydd Iarll Penfro. Yr oedd, ac y mae yr Ieirll hyn yn deilliaw o geneidl y Cymry, oddi wrth Syr William Herbert ab Thomas, yr hwn oedd yn byw yng Nghastell Rhaglan yn amser Harri v. Gwelir mae Thomas oedd yr enw ar y cyntaf. Efe a briododd Gwladus, merch Syr Dafydd Gam. Ganwydy Philip uchod Mai 4, 1605. Yr oedd yn Ystafellydd, neu Oruchwyliwr ty, i Siarl I, ac yn orselog drosto ef a'i weithrediau. Yr oedd hefyd yn Ganghellwr Rhydychain. Yr oedd yn ddiarebol am dyngu a rhegu. Ymddengys yn wir mai dynion felly oedd dynion cymmeradwy y llys y pryd hyny. Bu farw yn 1655, yn 50 oed.*

8. ['The Prophecy of the White King Explained, compared with Several Copies, some written a thousand years ago.

London, printed for Robert Ibbitson, 1649, 4to.'

Cynnwysa y gwaith hwn hen Brophwydoliaethau neu ddaroganau gwladol, rhai yn Gymraeg, rhai yn Lladin, a rhai yn Seisoneg; a chynnwys y gynnhudalen hen goedlun digrif. *Dichon* mai yr un yw hwn â rhif 2, d.f. 1640; ond gan na welais ddim o hwn, a dim ond darn o hwnw, nis gallaf benderfynu. Rhoddir ei enw a'i gynnwysiad yma allan o Gofrestr un o lyfrwerthwyr Llundain. Wrth y '*White King*' y mae yn debygol y golygir naill ai Serfen Wyn ai Gwyn Gwarther y sonir am danynt yn yr hen ddarogan a elwir 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer,' yr hon a geir yn y Llyfr Coch o Hergest, col. 577.†

'Disgoganaf Seruen Wynn,
Cennat gwastat ysgwydwyn.'

'Dywedwyf nyt odrycker
Ormes Prydein pryderer,
Gwedy Gruffudd, Gwyn Gwarther.')

1650.

1. 'Christ and Moses' Excellency, or Sion and Sinai's Glory: being a Duplex Treatise, distinguishing and explaining the two Covenants, or the Gospel and Law; and directing the right understanding, applying and finding of the Informing and Assuring Promises, that belong to the both Covenants. By Vavasor Powell, Preacher of the Gospel in Wales.

London, Printed by R. T. for Hannah Allen, at the Crown in Pope's-head-Ally 1650.' (549 tudalen.)

2. ¶ 'An useful Concordance of the Holy Bible, With the various Acceptations contained in the Scriptures, And Marks to distinguish Commands, Promises, and Threatnings. Also a Curious Collection of Similies, Synonymous Phrases, and Prophecies, relating to the call of Jews, and the glory that shall be in the latter days. Lastly, The Titles and Appellations given to Christ and the Church not in

* Burke's *Peerage*.

† [Gweler yr unrhyw yn argraffedig yn y *Four Ancient Books of Wales*, t. 218.]

any Concordance yet extant. Begun by the Industrious Labour of Mr. Vavasor Powell, and Finished by Mr. N. P. and J. F. Recommended to the Studious Reader by the Reverend John Owen, D.D. The Supplements being placed in this Impression, in their proper places. The Second Edition.

London, Printed for Eleanor Smith, Executrix of Francis Smith, late Bookseller.*

Y mae rhagymadrodd galluog iddo gan y Dr. John Owen. Ef allai mai yn awr y byddai briodolaf rhoddi ychydig o goffâd am yr awdwr, er na raid ymhelaethu, gan fod ei hanes mor adnabyddus yn y Dywysogaeth. Dywedir fod

VAVASOR POWEL yn fab i Richard Howel neu Powel, tafarnwr yn y Cnwce Glas, yn sir Faesyfed, ond yn deilliaw o deulu hynafol ac anrhydeddus yn y wlad hono, yn enwedig o du ei fam, yr hon oedd ferch William Vavasor, o'r Dref Newydd, yn sir Drefaldwyn, teulu a ddaethent ar y cyntaf o sir Gaerefrog. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain. Ordeiniwyd ef yn gurad i'w ewythr, Erasmus Powel, yn Clun, ar derfynau siroedd Maesyfed a'r Mwythig, lle hefyd y cadwai ysgol. Dywedir gan ei elynion na chafodd ordeiniad o gwbl, ond iddo ymwithio i'r weinidogaeth yn yr Eglwys trwy hen lythyrau urddiad hen ewythr iddo, y rhai y cawsai afael arnynt; ac iddo gael ei wysio â chyfraith am hyny, a'i fwrw ymaith. Yn fuan efe a ymunodd â'r Puritaniaid, ac a drodd yn bregethwr teithiol ar hyd y wlad, ym mha le bynag y caffai dderbyniad. Cododd hyny erlidigaethau yn ei erbyn, pryd, yn 1662, yr enciliodd i Lundain, lle yr arosodd dros ddwy flynedd, gan bregethu mewn eglwysi a phob lle y caffai ganiatâd. Wedi hyny efe a symmudodd i Dartford, yng Nghaint, lle yr arosodd ddwy flynedd eto, gan bregethu yn fynych i gynnulleidfaoedd lluosog. Wedi i Gymru gael ei gorchfygu gan y Cromweliad, efe a ddychwelodd yn ol; ac a gafodd drwydded gan y Cynghor o Dduwinyddion Henaduriaethol fel dyn galluog i waith y weinidogaeth. Gyda'r awdurdod hon, teithiai yn barhäus, trwy bob peryglon, gan bregethu dair a phedair o weithiau yn y dydd. Cafodd awdurdod o dan y Ddeddf er Lledaeniad yr Efengyl yng Nghymru,† i fod yn un o'r Profwyr i brofi pwy o'r gweinidogion ag oedd eisoes yn yr eglwysi oedd yn meddu cymhwysderau i'r gwaith, gan droi o'i bywoliaethau bawb a dybient yn anaddas, a rhoddi yn eu lle ereill, o blith y werin, ac heb ddysgeidiaeth yn fynych, eithr yn meddu doniau, sel, a duwioldeb, yn eu lle. Yr oedd am y gwasanaeth hyn yn derbyn 100*p.* oddi wrth olud yr esgobdai a'r esgobion. Yr oeddynt yn caniatâu rhan, neu swm penodol, i gael modd i fyw, i'r rhai a droid ymaith, fel nad oeddynt hwy a'u teuluoedd yn cael eu taflu yn *hollol* ddigyn-

* Dichon y dylasai hwn fod bum neu ddeng mlynedd yn ddiweddarach; ond gan nad oes amseriad iddo, dodwyd ef yma. Dywed Antoni Wood mai yn y fl. 1673 yr argraffwyd yr ail argraffiad hwn, a bod y cyntaf wedi ei gyhoeddi yn 1671. Y mae yn llyfr trwchus, yn cyrhaedd y llen T t 3.

† Gwel rhif 1, d.f. 1649.

naliaeth, pa mor annheilwng bynag y gallent fod fel gweinidogion. Ofnir er hyny fod brwdfrydedd y pleidiau gwladol a chrefyddol wedi arwain i droi o'r eglwysi lawer dyn da, yn unig am ei fod yn dal dros freninoliaeth ac esgobyddiaeth. Yn 1656, newidiodd V. Powel ei olygiadau ar fedydd, trwy gymmeryd ei drochi; a gellir o hyn allan ei ystyried fel Bedyddiwr, yn yr ystyr hyny. Yr oedd yn fath o arolygwr hefyd ar yr holl bregethwyr teithiol profedig yng Nghymru, ac efe a fyddai yn talu iddynt eu cyflogau, allan o'r arian a dderbynid oddi wrth ddegymau a thiroedd eglwysig, a gymmerasid oddi ar eu dalwyr esgobyddol; a dywed ei elynion fod llawer o filoedd o bunnau na roddwyd cyfrif am danynt.* Pan gymmerodd Cromwel y teitl o Arglwydd Amddiffynnydd, darfu i Powel ysgrifenu yn ei erbyn, a'i wrthwynebu yn ei wyneb, gan ei fod yn hollol werinwr yn ei olygiadau gwleidiadol, yr hyn a dynodd arno anfoddlonrwydd y gwr hwnw, a chafodd ei garcharu. Wedi ei ryddhau o garchar, dilynodd yr un llwybr llafurus, o blegid yr hyn, wedi addychweliad y freninoliaeth, cododd fwy o erlidigaeth yn ei erbyn nag o'r blaen, a chafodd ei garcharu am beidio â chymmeryd llw o ffyddlondeb i'r brenin, ac am bregethu yn deithiol yn y Mwythig, yng Nghastell y Southsea, ger Portsmouth, ger Llundain, ac yng Nghaerdydd. Symmudwyd ef yn olaf yn ei ol i garchar y Ffleet yn Llundain, lle y bu farw Hydref 27, 1670, yn 53 oed, a chladdwyd ef yn *Bunhill Fields*, lle y gosodwyd beddfaen hardd arno, gyda cherfiad maith yn gosod allan ei rinweddau, a lle y dywedir bod blwyddyn ei farwolaeth yr unfed ar ddeg o'i garchariad. Y mae yn briodol sylwi y cartrefai, pan yng Nghymru, yng Ngheri, ger y Dref Newydd, yn sir Drefaldwyn, lle yr oedd, meddai ei elynion, wedi prynu rhai o'r tyddynod maenorawl a berthynent i'r brenin, neu fel y dywedir, tiroedd y goron, a lle yr adeiladodd dŷ gwych, wedi ymgyfoethogi ar y cyfoeth eglwysig a drawsfeddiannai.† Rhoddir ei lyfrau yn ol eu trefn, gan mwyaf yn Seisonaeg.

3. 'The humble acknowledgment of the Inhabitants of South Wales, and the county of Monmouth, presented to the supreme authority of this nation the Parliament of the Commonwealth of England, subscribed by 19,000 Inhabitants. London, 1650.' 4to.

Aeth amrai foneddigion o Ddeheubarth Cymru i fyny i Lundain gyda'r Deisyfiad hwn. Traethir y modd y derbyniwyd hwynt, a'r ateb a roddodd y Senedd iddynt.

4. ¶ 'The distressed oppressed condition of the Inhabitants of South Wales for many years last past briefly and impartially stated. 1. In reference to their spiritual concernments. 2. In relation to their civil rights and freedom. With severall proposals tending to the discovery of above 15,000*p.* unaccounted for to the Commonwealth.' 4to.

* Gwel rhif 4 a 5, y flwyddyn hon.

† Wood's *Athen. Oxon.*; a Williams's *Eminent Welshmen*.

5. 'A declaration and Remonstrance of the Inhabitants of South Wales, &c. London, 1650.' 4to.

6. 'Anthroposophia Theomagica or A discourse of the Nature of Man and his state after death; Grounded on his Creator's Proto Chemistry, and veri'f'd by a practicall Examination of Principles in the Great World. By Eugenius Philalethes.

London, Printed by T. W. for H. Blunaen at the Castle in Cornhill. 1650.'

7. 'Anima Magica Abscondita or A discourse of the universall Spirit of Nature, with his strange, abtruse, miraculous ascent and descent. By Eugenius Philalethes.

London, Printed by T. W. for H. B. 1650.'

Cyfrolau bychain 12plyg yw y ddwy uchod. Yr awdwr ydoedd THOMAS VAUGHAN, yr hwn a anwyd yn Newton, ym mhlwyf Llan-santffraid, yn sir Frycheiniog, yn 1621; a bu yn berson y lle hwnw. Bu farw Chwef. 27, 1665.

[Yr oedd yn frawd (iau nag ef) i Henri Vaughan, a elwir y '*Silurist*,' awdwr 'Olor Iscanus,' a.r.c.]

8. ¶ 'Modest and Clear Vindication of the Serious Representation, and late Vindication of the Ministers of London, from the Scandalous Aspersions of John Price. 1650.'

Gelwid ef y '*Welsh Quaker and Fanatic*.'

1651.

1. 'Madrddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf; neu Llyfr Saesoneg a elwir, The Marrow of Modern Divinity. Oblegid y Cyfammod o Weithredoedd, a'r Cyfammod o rês, a'u hymarfer hwy ill dau, a'u diweddion, dan yr hên Destament, a'r Testament Newydd. Ym mha un y dangosir yn eglur, pa cyn bellhed y mae dyn yn sefyll ar y gyfraith o rhan ei Cyfiawnhaad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddfwr. A pha cyn bellhed y mae arall yn bychanu'r gyfraith o rhan Sancteiddiad, ac ar hynny yn haeddu ei alw yn Ddeddfwrthwynebwr. A'r llwybr canolig rhwng y ddau, yr hon â arwain i fywyd tragwyddol trwy Jesu Christ.

Mewn cyd-ymddyddan rhwng.

Evangelista. Gweindog yr Efengyl.

Nomista. Deddfwr, neu wr yn dal o ochor y cyfraith.

Antinomista. Deddfwrthwynebwr, neu wr yn llwyr bychanu'r gyfraith.

Neophitus. Christian iefangc.

O waith E. F. yn y Saesneg.

O Cyfieithiad J. E. i'r Gymraeg.

Printiedig yn Llundain gan T. Mabb, a A. Coles, dros William Ballard,* ag i cael ar werth yn i siop ef dan lun y Bibl' yn heol'r ūd, yn Ninas Bristol. 1651.†

Y mae yn ei flaenu anerchiad—

‘I'r ardderchoccaf Herberdiaid, y mwynaf Morganiaid, y bonheddiecaf Kemysiaid, y gwirlanaf Wiliemmaid, ac eraill Pendefigion o ty fewn i wlad Gwent, annerch yn yr Arglwydd Jesu Christ.’

Wrth y pendefigion hyn a enwir, y deallir, tebygid, hynafiaid teuluoedd Tredegar (Syr Charles Morgan‡), hynafiaid teuluoedd Rhaglan (Iarll Penfro), hynafiaid teuluoedd Cefn Mabli, a hynafiaid Aberpergwm.

Y mae yn achwyn yn drwm, o blegid bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hesgeuluso gan y Cymry yn sir Fynwy y pryd hyny.

‘Eithr o holl wledydd y byd (hyd y gwn i) nid oes un cenedl mor ddicariad, a mor elyniaethus iw iaith ei hunan, ac yw'r Cymro, er bod ein iaith ni yn haeddu cymmaint, o barch, o herwydd ei henaint a'i chyfoethogrwydd, ac yr heiddie i eithiodd eraill, canys fal y gwelwn ni beunydd, hwy nac yr elo Cymro na Chymraes i Lundain neu i Caerloew neu i un fann arall o Loeger, a dyscu ryw ychydig o saesneg, hwy a wadant eu gwlad a'u iaith eu hunain. Ac o'r Cymru cartrefol, ie ym mhlith y Pendefigion ysgolheigaidd, ie ym mysc y Dyscawdwyr Eglwysig, braidd un o bwmtheg a fedr ddarllen, ac ysgrifenu Cymraeg. Ac o'r achos hyn y mae, fod llyfrau Cymraeg mor ymbell (canys ni welais i erioed uwch pump llyfr Cymraeg yn printiedig).’

Gwelir yn ebrwydd nad oedd ei wybodaeth am Llyfryddiaeth ei wlad ond prin, pan na welodd ‘uwch pump llyfr Cymraeg yn printiedig,’ pan yr ydys wedi dangos fod uwch deg ar hugain; ac ei fod hefyd yn Gymro ammherffaith, yr hyn yn wir y mae yn ei gyd-nabod, ac yn ymesgusodi o'i herwydd fel hyn:—

* Yr oedd un Henry Ballard, argraffydd, yn byw yn arwydd yr Arth, oddi allan i Temble Bar, gyferbyn ag Eglwys St. Clement, yn 1597 (*The History of Printing*, p. 124); a throwyd un Henry Ballard, allan o weinidogaeth ficeriaeth Tachbroke, ar ddyfodiad Siarl II. i'r orsedd.—Palmer's *Calamy's Non-Conformists Memorials*, vol. iii. p. 350.

† [Cynnwys 303 o dudalenau 16plyg, neu 3plyg bychan, heb law y rhag-anerch at foneddigion y wlad, ac at y darlennydd, yng nghyd â rhai pethau arweiniol ereill. Dywedir gan y Parch. R. Williams yn ei *Eminent Welshmen* yr ystyrir y gwaith hwn yn gynllun neu olygwel da o iaith y Deheudir. Nid yn fynych y gwnaed camsyniad mwy anfodus. Nid yn unig nid yw yn enghraifft deg o iaith Deheubarth, ond nid yw yn gynllun o'r iaith mewn un parth o'r Dywysogaeth; canys gwaith anghelyfdd, trwsgl, carbwl ydyw,—y fath ag a allesid ei ddysgwyl o law un ag oedd wedi arfer meddwl ac ysgrifenu yn Seisoneg, a byw ym mhlith y Seison, ac i gryn raddau wedi anghofio manylion ei famiaith Gymraeg. O ran ieithwedd, hwyrach mai y llyfr tebycaff iddo, ar rai golygiadau, yn y Gymraeg, yw Testament Salsbri, ond ei fod yn llawer llai ysgolheiglyd na'r gwaith clogynrog hwnw.]

‡ [Yn awr Arglwydd Tredegar.]

'Ac yn awr, Pendefigion urddasol, maddeuwch attolwg, fyn ewynunion yn erbyn fynghyd wlad—wyr â ddibrisiant ein hên mamiaith a dangoswch chi adolwg, eich serch atti, trwy dderbyniad roesawgar o'm poen ewyllysgar i, yn gyfiethiad o'r llyfryn hwn—na ddeliwch ar fy anneiryf camsyniadau a'm hawl feiau, canys nid wyf fi (â anwyd ar lan Hafren yn mro Gwent lle y mae saesoniaith yn drech na'r Britanaith) yn cymmeryd arnaf na medraeth, nac hyspysrwydd yn y Cymraeg, eithr nid bychan yw fy serch at yr iaith a daioni fyn' gwlad, ac er cauad fyn' genau rhac ymarfer fyn' gweinidogaeth, i'm torcalon mwyaf, er nad wyf fi, onid y gaelaf o filoedd, ac yn an-addas o'r uchel-swydd weinidogaidd, etto (am fod yn anhawdd gennyf fi, ac yn tra enbeidus i mi, na llwyr ymadel o'm galwad, na bod ychwaith yn segur ynddi, y cymmeraisi, hyn o boen ewyllysgar * * *

Eich gwasanaethwr parodol ymmhob gwaith yr Arglwydd

SION TRE-REDYN.'

Gorphenaf 20. 1650.

Y mae hefyd yn ei 'I'r Darlennydd,' yn ymesgusodi am wallau Cymreigiawl y llyfr (yr hyn yn wir sydd amlwg) trwy chwanegu:—

'Ac heblaw hyn rhag rhwystro'r neb trwy'r aml camsyniadau ym mhrintiad y Cymraeg, bydded hysbys gennit, y Cymro mwyn fod rhagor i cant o filltiroedd rhwng fy nhrigfa i a'r Print-dû, ac nad oedd fal y gwelei wrth lythyr y printiwr y ddaeth i'm llaw i, onid braidd un Cymro i'w cael trwy holl Lundain i ddisgwyl ar y printiad ac i cyfarwyddo'r gweithwyr Saesnyg ac i gyweirio'r aml ddyffygion a sy giw gennit, attolwg, o'th fawr fwyneidd-dra fy nghymmeryd i yn escusodol a than myned yn yscafn heibio'r camsynniadau llythrennol canys aml yn siccr yw'r camosodiadau a'r diffygion o llythrenna ac o'r accentau rhain (' ^) anhepcor yn y Cymraeg, cofia yn ddianwadal er dy well ystyriaeth cyweirio hyn o ddyffygion mwyaf sy yn canlyn, a thi a'm rhwym i fod

Yn wasanaethwr parodol i ti ymmhop gorchwyl Christnogaid,

SION TRE-REDYN.*

May 10. 1651.

* Nid oes, fel y gwelir, ond cyn-lythyrenau enw y cyfieithydd ar wyneb-ddalen y llyfr fel hyn—'J. E.' Y mae Walker yn enwi tri, o'r enw *John Edwards*, a drowyd o'r eglwysi gan 'Brwywyr Lledaeniad yr Efengyl,' sef o *Lanstone, Tredynoc*,* a *Llanmartin*; ond y mae yn debygol mai cydiol oedd y lleoedd hyn, o leiaf rhyw ddau o honynt; ond pa un o honynt oedd cyfieithydd y llyfr hwn, a eilw ei hun, yn ei anerchiadau arweiniol, yn 'Sion Treredyn,' nis gellir yn awr benderfynu; er y meddyliodd rhai mai cyfieithiad yw *Treredyn*, o *Fernton*, ac mai John Fernton, neu *Fenton*, yn fyrach, oedd ei enw; ond nid ydys yn cael fod neb wedi cael ei ddeoli yn y parthau hyn y o'r enw hwnw; rhaid gan hynny mai un o'r Edwardsiaid ydoedd, ac mai *Fernton, Ferntown*, neu *Fenton* oedd enw ei drigfan, a'i gyfieithu yn *Treredyn*, yn gydiol â'r enw cyntaf.

* [Enw Cymraeg *Tredunnoc* neu *Tredonnock*, yng Ngwent, yw *Tref Redynog*, o'r hyn nid yw y llurffiau Seisonig ond llygriadau diweddar; ac ystyr *Tref Redynog* (neu *Tref Redyn*) yw *Ferntown*, o'r hyn gall *Fenton* fod yn d'u'llweddiad, er bod tarddiad arall yn ymddangos yn fwy naturiol, ac yn agosach ato. Gellir barnu gyda chryn debygolrwydd mai gweinidog plwyf *Tref Redynog* ydoedd *Sion Trefredyn*, cyn cael o hono ei droi allan gan wyr Cromwel.]

Y mae yn briodol sylwi yma, mai yr un a elwir, mewn argaffiadau dilynol, yn 'Fêr Duwinyddiaeth Iachus, gan E. Fisher,' yw y llyfr hwn. Bu y cyfieithydd agos i flwyddyn ar ol ysgrifenu ei anerchiad at y 'Pendefigion,' cyn rhoddi yr eiddo 'I'r Darllenydd'—o 'Gorphenaf 20, 1650,' i 'Mai 10, 1651.' Y mae yn amlwg hefyd mai un o'r offeiriad a drowyd allan o'r Eglwys gan y Profwyr, yn fuan ar old dienyddiad Siarl I, oedd Sion—y rhai oeddynt oll o ddeutu 120* o nifer—'o blegid ei bod naill ai yn anwybodus o egwyddorion y grefydd Gristionogol, neu yn esgeuluso pregethu, neu yn arwain bywyd anfoesol.'† Dyma fel y dywedir: ond yr ydwyf yn teimlo tuedd cryfi ammheu a oedd cyfieithydd 'Madrddyn y Difynyddiaeth Diweddaraf' hwn y naill na'r llall; canys dywedir fod ymrysonau gwladol yn cael eu dwyn ym mlaen yn fynych i'r fath bellder, fel ag y torwyd allan lawer dyn da, yn unig am ei fod yn wrthwynebydd y llywodraeth oedd mewn grym ar y pryd.

Yr awdwr, EDWARD FISHER, ydoedd fab hynaf i farchog. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ngholeg *Brasenose*, Rhydychain, lle y cyhaeddodd ei A.C. Gan fod ei deulu mewn dyled drom, ac yn analluog i'w gynnal yn hwy yn y brifysgol (yr hyn, ef allai, a wnaeth i rai ei iselu, trwy ledaenu y gair mai mab i eilliwr anllythyrenog ydoedd), efe a gymmerwyd adref gan ei berthynasau, lle y cynnyddodd yn y ddysgeidiaeth hono a gawsai yn y brifysgol yn gymmaint, fel y daeth yn ddyn enwog ym mhlith y dysgedigion, fel darllenwr mewn hanesiaeth eglwysig, ac yn y tadau, ac fel un deallus iawn yn yr ieithoedd Groeg a Lladin.‡

2. 'A Short Relation of a Long Journey made round or oval by Encompassing the Principallitie of Wales, from London, through and by the Counties of Middlesex, Buckingham, Berks, Oxonia, Warwick, Stafford, Chester, Flint, Denbigh, Anglesea, Carnarvon, Merioneth, Cardigan, Pembroke, Carmarden, Glamorgan, Monmouth, Gloucester, &c., 1652. In prose and verse, by John Taylor, the Water Poet.

Mewn llawysgrif yr oedd y gwaith uchod hyd 1859, pryd y cyhoeddwyd 26 o gopïau yn unig, gan Mr. Thomas Richards.

[Gan mai yn 1859 yr *argraffwyd* ef, ni ddylasid ei restru ym mhlith y rhai argraffedig fwy na dau gan mlynedd cyn hyny.]

3. ¶ 'Just Balance, or some Considerable Queries about Mr. Love's Case, Tryall, and Sentence, about those that appeared Petition-wise on his behalf. 1651.'

4. ¶ 'A Full Narrative of the late Dangerous Design against the State, written with Mr. Love's own hand. Mr. Love's Speech and Prayer on the Scaffold. 1651.'

Llyfryn o 70 tudalen 4plyg.

* [Yn gyffredin cyfrifir y nifer tua *saith mil.*]

† [Chwaneger, 'neu yn berchen bywoliaethau da.']

‡ Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 198. Gwel hefyd ddiwedd argraffiad Cymreig 1754 o'r llyfr uchod.

CRISTOPHER LOVE, A.C., oedd fab i Cristopher Love, o Gaerdydd, ac a anwyd yno yn 1618. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn New Inn Hall, Rhydychain, lle yr aeth yn 1635, pan oedd yn ddim ond 17 mlwydd oed. Wedi cyrhaedd ei B.C. a'i A.C., efe a ordeiniwyd, a daeth yn fuan yn ddyn o sylw, trwy nacâu rhoi ei law wrth y Canonau, fel y mynai yr Archesgob Laud, ac felly diarddelwyd ef o'r coleg. Symmudodd wedi hyny i Lundain, lle y daeth yn wrthwynebol hollol i'r freninoliaeth, ac appwyntiwyd ef i bregethu i'r fyddin yn Windsor. Yn 1644, efe a bregethodd o flaen Prwywyr y Brenin a'r Senedd yn Uxbridge, mewn dull mor anfodddhaol, fel yr achwynwyd arno wrth y Senedd. Wedi hyny bu yn gweinidogaethu i'r Presbyteriaid yn Llundain. Yr oedd yn un o'r rhai a arwyddasant ardstiad yn erbyn rhoddi y Brenin Siarl I. i farwolaeth; ac wedi hyny cymmerodd ran weithgar i roi Siarl II. ar yr orsedd, yr hyn a ddeallwyd gan Cromwel. Am hyny efe a brofwyd, ac a dorfynglwyd ar Fryn y Tŵr, yn Awst, 1651. Efe a gyhoeddodd luaws o fân lyfrau perthynol i'r oes hono, a phregethau.*

1652.

1. 'A modest Answer, to a bold Challenge of an Itinerant Preacher, Vavator Powell.'

Gwaith y Dr. George Griffith, Esgob Llanelwy, ydoedd yr uchod, am yr hwn y ceir crybwyll yn fanylach eto.

2. 'Dec. 27. A true and perfect Diurnal.'

Gwaith Vavator Powell yn erbyn y Dr. Griffith.

3. 'Animadversions on an imperfect relation in the Perfect Diurnal, numb. 138, Bug. 2, an. 1652, containing a narration of a Disputation between Dr. Griffith and Vavator Powell near New Chappell in Montgomeryshire 23 Jul. 1652. London, 1653.†

4. 'A Voice from Heaven to the Commonwealth of England. Printed in the year 1652.' [8vo.]

Awdwr y llyfr hwn oedd un a'i galwai ei hun ARISE EVANS,† a dywedir ei fod yn enedigol o'r Abermaw, yn hytrach o Lwyn Gwril [ym mhlwyf Llan Gelynin] ym Meirionydd, ond yn anneddu yn *Blackfriars*, Llundain. Pleidiwr penboeth ydoedd i'r brenin yn amser y rhyfel cartrefol, ac yn erbyn Cromwel. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain. Symmudodd i Lundain, gan ddysgu gwyddoniaeth a serddewiniaeth, a chafodd y gair o fod yn orcheiniwr, neu ymofynydd â'r meirwon.§ Dywed Pennant ei fod yn serddewin

* Williams's *Eminent Welshmen*; Wood's *Athen. Oxon.*

† Wood's *Athen. Oxon.* Ef allai mai y flwyddyn nesaf y buasai briodolaf rhestru hwn.

‡ [Ei iawn enw ydoedd *John Evans*; ac ymddengys iddo fabwysio *Arise* yn ei le pan yr ymgymmerodd â gorcheiniaeth.]

§ Maunder's *Biographical Treasury*. [Williams's *Eminent Welshmen*, d.g.]

nodedig, ac yn ddyhiryn, ac wedi bod yn dysgu y gelfyddyd ddu gan *William Lilly* ei hun, a'i fod yn ateb i'r darluniad a ddyry ei athraw hwnw o hono—talcen llydan, aelïau trymion, ysgwyddau tewion, trwyn cefnbant, gwefusau mawrion, edrychiad tan ei aelïau, gwallt du, garw, a dolenog, a throed cam. Yr oedd yn efrydydd dwfn o'r gelfyddyd ddu, medd *Lilly*, yr hwn a ddywed fod ganddo *farn dreiddgar naturiol ar nod lladrad*, a llawer o faterion ereill y cyfarfyddai â hwynt. Heb law hyny, yr oedd yn hynod o hyddysg yn *natur ysbrydion*; ac wedi yn fynych ymarfer y ffordd gylchog o alw arnynt. Yna y mae yn dywedyd pa fodd y darfu i'w gyfaill Evans, trwy yr angel *Salmon*, ddwyn iddo weithred eiddo, ag yr oedd un o'i ddeiliaid wedi ei golledu o hono, ac ar yr un pryd taflu i lawr ddarn o dŷ y dyn gan yr hwn yr ydoedd yng nghadw: a thrachefn y modd y darfu iddo, i foddloni cywreinrwydd Argl. *Bothwel* a Syr *Kenelm Digby*, y rhai a ddymument gael gweled ysbryd, agos gollï ei fywyd, gan iddo gael ei gludo dros yr afon Tafwys, a'i daflu i lawr ger llaw Battersea, gan yr ysbryd, yr hwn yr oedd ef wedi ei flino pan oedd yn galw arno, o eisieu gwneyd digon o fygdarth.*

[Yn yr un flwyddyn ymddangosodd, mewn Splyg, 'An Eccho to the Voice,' yn cynnwys hanes bywyd y serddewin, ei alwad, a'i weledigaethau.]

5. 'Mercurius Cambro-Britannicus, or News from Wales, touching the miraculous propagation of the Gospel in those parts.

London, 1652.' 4to.

Prïodolir hwn, yng nghyd ag ereill a enwir eto yn eu lleoedd priodol, i Alecsander Griffith, a fu yn ficar yn Glasbri, sir Frycheiniog, yr hwn oedd wr dysgedig. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle, yn 1618, y cyrhaeddodd B.C., ac A.C. yn 1631, ac yn 1639 cafodd fywoliaeth yn Nheheudir Cymru, sef Glasbri neu Glasbury, yn agos i'r Gelli, o'r lle hwn y trowyd ef allan yn 1650, gan brofwyr Cromwel, am ei fod, yn ol dim a ddeallir i'r gwrthwyneb, yn bleidiol iawn i'r brenin, ac yn orselog yn erbyn y weriniaeth, gan ysgrifenu a chyhoeddi y llyfrynau a enwir, yn cynnwys sylwadau enllibus ar Vavasor Powel, ac ereill o bregethwyr teithiol yr oes hòno a ddodasid i weinidogaethu yn y llanau yn lle y rhai a droisid ymaith. Dyoddefiadau yr offeiriaid a droisid allan yw y llyfr hwn. Wedi adorseddiad Siarl II, cafodd yntau adfeddiannu ei fywoliaeth, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1690.† Y mae y llyfr yn llawn enllib ar V. Powel, a'r gwerinwyr. Am Powel, dywed fod llawenydd mawr, pan y daeth yn ol i Gymru yn 1646, ond bod y blaidd onest a brenin-garol yn gweled yn eithaf da, iddo ddychwelyd, nid o blegid unrhyw serch at yr achos; ond er ei amcan, ei ddiogelwch, a'i fantais ei hun, a daeth mor weithgar a bywiog a symudiad y tafod ei hun, neu a allasai dyfais ymenydd drwg fyth fod, er diwreiddio y weinidogaeth, gan alw yr alwad yn Anghrist, a gwneyd eu personau, trwy bob cableddau gwarthus, yn ffaidd gan

* *A Tour in Wales*, vol. ii. pp. 117, 118.

† Wood's *Athen. Oxon.*; Jones's *History of Breconshire*; Williams's *Eminent Welshmen*; Walker's *Sufferings of the Clergy*.

y bobl. Ac fel y gellid ei wneyd yn gyflymach, efe, gydag ereill, o'r un toriad, a fynasant y 'Ddeddf er Lledaeniad yr Efenngyl yng Nghymru,' a fwriadwyd yn wir i hyny, trwy ofal a charedigrwydd duwiol yr aelodau seneddol hyny; eto trwy yr ymdrafodiaeth anheilwng o'r unrhyw gan ein hawdwr a'i gyd-deithwyr, hi a brofodd fel delw Diana arall yn Ephesus, yn fudd yn unig i *Demetrius* a'i grefftwyr; y tmlau arian oedd yn cael holl sylw eu huchafiaeth. Y mae Walker, yn ei *Sufferings of the Clergy*, yn rhoi 27 o dudalennau unplyg, mewn argraff fân, er dirmygu Prwywyr Lledaeniad yr Efenngyl, a'r profwyr yng Nghymru, yn amser Cromwel, gan mwyaf o lyfrau yr A. Griffith hwn.

6. 'Reports of Certain Cases arising in the severall Courts of Records at Westminster; In the Raignes of Q. Elizabeth, K. James, and the late King Charles, &c. And now Publishd by W. Hughes of Grayes Inne Esquire.

London, printed T. N. W. Lee, M.DC.LII.'

7. 'The Humble Remonstrances of Rice ap Meredith ap Morgan, Shentilman of Wales, with fery brave new Ballads or Songs. 1862.'

Traethodyn digrif yw hwn, o wawd ar y Cymry, mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Adargraffwyd ef yng ngwasg Chiswick yn 1861—dim ond 30 o lyfrau yn unig a argraffwyd y pryd hyny.

8. ¶ 'Bishop of London, and the Welsh Curate. By William Erbury. 1652.'

9. ['A Description of the State of Great Britain, written eleven hundred yeares since.'

London, 1652. 12mo.

Cyfieithiad ydyw hwn o Lythyr annifyr Gildas. Ymddangosasai cyfieithiad Habington o'r un gwaith yn 1638. Gweler dan y flwyddyn hòno, a rhif 6, d.f. 1587.]

1653.

1. 'Canwyll Crist. Gan Vavasour Powel. Llundain.'

Cyfieithiad ydoedd o draethodyn Seisonaeg o eiddo Mr. Powel, o'r 'Saving Faith.'

2. 'Cordiad yr Ysgrythyrau. Gan Vavasour Powel.'

Nid ydys yn sicr a ydoedd yr uchod yn Gymraeg, ynte awdwyr a haneswyr Cymreig yr amseroedd a roddasant eu henwau yn gyfieithedig pan yn eu crybwyll.* Yn Seisonaeg gelwir y cyntaf,

3. 'The Candle of Christ, by Vavasour Powel.'

* [Nid ymddengys i Vavasour Powel ysgrifenu na chyhoeddi dim yn yr iaith Gymraeg.]

Y mae enw yr ail yn rhedeg fel hyn :—

4. 'Scriptures concord : or, a Catechism compiled out of the words of the Scripture, &c.

London, 1653.*

Yr oedd hwn yn ail argraffiad,† a daeth pedwar neu bum argraffiad o'r unrhyw yn olynol, yn y blynyddoedd hyny.

5. ¶ 'Brief Narrative concerning the proceedings of the Commissioners in Wales against the ejected Clergy.'

Ysgrifenydd hwn o blegid lledaeniad hysbysiadau mai o blegid camddefnyddiad rhan fawr o gynnyrch degymau Cymru y rhoddasid Vavasor Powel yng ngharchar y Fleet, yn Llundain.‡

6. ¶ 'Examen & purgamen Vavasoris. 1653.'

Ysgrifenydd hwn gan un o gyfeillion Vavasor Powel, er ymdrech attal y niwed, meddai ei gyfeillion, a allasai yr efengyl ei gael trwy ledaeniad y gair mai o blegid trawsfeddiannu iddo ei hun gynnyrch y degymau y rhoddasid ef yng ngharchar;§ yn enwedig yn erbyn y llyfr a elwid '*Hue and Cry*,' sef, Wbwb y Wlad. Yn hwn y mae yn profi mor ddiuog ydoedd o'r cyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn. Yr ydys yn meddwl mai yma y byddai briodolaf cyflëu rhai ereill o lyfrynu Vavasor Powel. Enwir hwynt yn Gymraeg gan ei haneswyr Cymreig, er mai yn Seisonaeg yn unig y cyhoeddwyd y rhan fwyaf, os nad yr oll o honynt. Y mae yr 'Examen' yn gwrthbrofi tystiolaethau Alecsander Griffith, trwy dystiolaethau rhifedi mawr o Ynadon Heddwch, a boneddigion o uchel gyfrifiad. Dywedir mai awdwyr y llyfr hwn ydoedd Charles Lloyd (y Crynwr o Ddolobran, mae yn debyg) a James Quarrel, gweinidog cyntaf y Gynnulleidfa Ymneillduol yn y Mwythig.||

7. ¶ (a.) 'Ymddiddan rhwng Crist a'r Publican, a Christ a Christian amheus.' = 'A Dialogue between Christ and a Publican, and Christ and a doubting Christian.'

8. ¶ (b.) 'Catechism y Dioddefwyr.' = 'The Sufferers' Catechisme.'

Ysgrifenydd hwn pan ydoedd yr awdwr yng ngharchar.

9. ¶ (c.) 'Tyngu pechadurus a dibechod.' = 'Sinful and sinless swearing.'

* Wood's *Athen. Oxon.* art. 'Vavasor Powel.'

† Gwel rhif 3, 1647.

‡ Gwel rhif 4, 1650.

§ Wood's *Athen. Oxon.*

|| Rees's *Noncon. in Wales*, p. 121.

10. ¶ (*d.*) 'The young mans conflict with the Devil.' 8vo.*

11. ¶ (*e.*) 'Sail y Grefydd Gristionogol.' 8plyg.

12. 'Y Salmau Cân. Gan Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd.' Llundain, 8plyg. Ail argraffiad.†

13. 'Testament ein Harglwydd Iesu Grist, wedi ei gyfansoddi yn Benhillion Cymreig, trwy lafur Rice Jones, o Lanfair yng Nghaer Einion.'

14. ¶ 'A Short Relation of a long Journey, made round, or oval by encompassing the Principality of Wales, from London, through and by the counties of Middlesex, and Buckingham, Berks, Oxonia, Warwick, Stafford, Chester, Flint, Denbigh, Anglesey, Carnarvon, Merioneth, Cardigan, Pembroke, Carmarden, Glamorgan, Monmouth, Gloucester, &c.'

Y gylchdaith boenus hon a wnaed gan John Taylor, y Bardd Dwfr, pan yn ei 74edd mlwydd oed. Dechreuodd Gorphenaf 1af, 1652, a gorphenodd, neu daeth a'r ddau ben yng nghyd, y 7fed o Fedi, 1653, yn gwneyd agos 600 milltir. Y mae yn gydiol fyr hanes Cymru, 'A gyflawnwyd trwy farchogaeth, myned, ymlusgo, rhedeg, ac ysgrifenu, gan John Taylor, yr hwn sy'n anneddu yn Sign y Poet's Head in Phenix Aley, near the middle of Long Aker, or Covent Garden.'‡

15. 'Dirgelwch i rai i'w ddeall, ac ereill i'w watwor, neu Lyfr tri Aderyn. Gan Morgan Llwyd o Wynedd.'

MORGAN LLWYD ydoedd, fel y tybir, yn fab (dywed ereill nai) i Hugh Llwyd o Gynfal, ym mhlwyf Maentwrog, yn sir Feirionydd. Tybir iddo gael ei addysg yng Ngwreesam, iddo gael ei gyffroi i fywyd crefyddol yno, ac ymuno â'r Puritaniaid; ac fel Cymro, iddo ddyfod yn adnabyddus â Walter Cradoc, yr hwn oedd yn gweinidogaethu yng Ngwreesam, ac efe a ddilynodd Cradoc yn y weinidogaeth. Yr oedd ef a Cradoc, gydag ereill, yn cydweithredu â'r Senedd yn 1649, er diwygio yr Eglwys yng Nghymru. Yn ol y trefniant a wnaed y pryd hyny, penodwyd chwech o weinidogion teithiol ym mhob sir, y rhai a feddent awdurdod i gymmeryd ereill a dybient yn addas i'w cynnorthwyo. Y pryd hyn pregethent yn y llanau. Bu farw Mai 3, 1659, § yn 40 oed, a chladdwyd ef yng nghladdfa yr Ymneillduwyr (y Puritaniaid) ger Gwreesam, ond heb ychwaneg o gerfiad ar ei fedd na llythyrenau cyntaf ei enw, 'M. Ll.'||

* Wood's *Athen. Oxon.* Ni welodd Wood hwn, medd efe.

† Gwel rhif 1, 1648; os nad yr un yw y ddau hyn.

‡ Evans's *North Wales.*

§ *Attodiad Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas.

|| Jones, *Drych yr Amseroedd; Traethodydd*, 1648, t. 30; Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*, t. 546 (yr hwn a ddywed mai yn 1659 y bu farw); Morgan, *Hanes Ymneillducaeth*, t. 526, &c.; a Williams's *Eminent Welshmen*.

Llafuriodd yn galed, teithiodd fwy na neb yn ei oes, oddi eithr Vavasor Powel, a dyoddefodd lawer o erlidigaeth. Ysgrifennodd amrai fân lyfrau mewn dull cyfrinol neu ddammegol, a'r hynotaf o ba rai yw hwn. Tybir mai Cromwel a feddylia yr awdwr wrth yr Eryr; wrth y Golomen, yr Anghydfurfwr; ac wrth y Gigfran, yr hen Eglwys Sefydledig; neu, fel y deongla ereill, y mae y Golomen yn dynodi gwir Gristionogion, neu y wir eglwys; y Gigfran, gelynyon y gwirionedd, ac erlidwyr crefydd ysbrydol, neu erlidwyr y gwir Gristionogion, sef y Golomen; a'r Eryr, rhyw ddyn cydwybodol, diragfarn, a gwrol i sefyll rhwng y pleidiau—rhwng y Golomen a'r Gigfran. Gan fod llawer o ysgrifenu ac o siarad dychymmygol felly yn yr oes hono, y mae yn dra thebyg fod pobl yn deall y pryd hyny at beth y cyfeirid, a phwy a gynnrychioliod o dan y ffugenw, neu y ddammeg a arferid; canys yr oedd perygl, pan yr oedd cymaint o ferw egwyddorion, i'r neb a fynai wneyd lles i ryw blaid a dybiai yn ei lle, lefaru yn groew; ac am hyny, dynwardid hen brophwydi y Beibl, a charid y dull yn bell i dywyllwch 'ymadroddion heb wybodaeth.' Ysgrifennodd Morgan Llwyd hefyd lyfr Seison-aeg o'r enw 'Dialogue between Mary, Martha, and Lazarus, about his Soul,' ar yr hwn y gwnaeth y Parch. Richard Baxter sylwadau tra llymion.

16. ¶ 'Gwaedd Ynghymru yn Wyneb pob Cydwybod Euog.' Priodolir hwn i Mr. Morgan Llwyd o Wynedd.*

17. ¶ 'A Brief Relation of the Isle of Anglesea, a curious account of the state of that island in the seventeenth century.'

Mewn llawysgrifen yr ydoedd hyd y fl. 1860, pryd y cyhoeddwyd argraffiad o 26 cyfargraff yn unig, gan Mr. J. E. Adlard.

[Gweler y nod dan rhif 5, d.f. 1603.]

18. ['The North Star: or some Night-Light shining in North Wales. With some Darke Discoveries of the second coming of Christ... By William Erbery.'

1653, 4to.]

1654.

1. 'Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Printiedig yn Llundain gan James Flesher, ac a werthir gan Thomas Brewster,† tan lun y tri Bibl yn ymmul Pauls, yn y flwyddyn 1654.‡

* *Rhagymadrodd* yr ail argraffiad, gan Mr. Dafydd Jones o Drefriw: gwel rhif 1, d.f. 1750.

† Thomas Brewster ydoedd lyfrwerthydd yn unig; cafodd ef a S. Doxer, argraffydd, a Nathan Brooks, llyfrwmydd, eu profi a'u condemnio am argraffu a chyhoeddi llyfrynau cableddus a maleisus.

‡ [Gelwir hwn yn fynych wrth yr enw 'Beibl Cromwel,' am ymddangos o hono yn amser ei foduriaeth ef. Yn yr argraffiad hwn, y pedwerydd o'r Beibl yn gyflawn, yr arferwyd y llythyren Seisonig *J* gyntaf, yr hon oedd o'r blaen yn ddeyithr, fel y cyfryw, i'r Gymraeg. O ran y *ffurf* ceir hi yn argraffiadau Morgan a Parri, y rhai sydd yn y llythyren ddu, ond arferid hi am sain *I*, canys hi a ddefnyddir yn '*Jsaac*, '*Israel*,' ac '*Jddewon*,' yn gystal ag yn *Jacob*, *Joseph*, ac *Jesu*; ond pan arferir llythyrenau Rhufeinig, *I* a ddefnyddir yn y geiriau hyn, au cyffelyb—Gweler *Geiriadur Ysgrhythyrol* Charles, d.g. '*Bibl*.']

Yr oedd Beiblau y flwyddyn 1630, a Thestamentau y flwyddyn 1647, wedi eu taenu pan y daeth galw mawr, erbyn y flwyddyn gyntaf o amddiffyniaeth Cromwel, am argraffiad arall o'r Beibl bychan. Yr oedd agwedd foesol y wlad wedi cyfnewid llawer erbyn hyn, trwy offerynliaeth awdurdodol y weithred seneddol er Lledaeniad yr Efengyl yng Nghymru. Yr oedd pregethwyr selog yn teithio ar hyd a thraws y wlad ym mhob lle, y rhai, o blegid eu brwdfrydedd, a elwid y 'Tanwyr;' a thuedd y mawrion a'r cyffredin at grefydd. Yr oedd y pregethwyr teithiol hyn yn cael achlysur i sylwi mor brin oedd Gair Duw, a chymmaint oedd syched y werin am dano. Wrth ystyried hyn, nid yw ryfedd fod galwad uchel am argraffiad arall o'r holl Feibl at wasanaeth y cyffredin. Y rhai a fuont offerynol i gael yr argraffiad hwn oeddynt y ddau bregethwr teithiol hyny, Vavasor Powel, a Walter Cradoc—y cyntaf yn bleidiwr trochiad y crediniol mewn oed fel gwir fedydd, a'r olaf dros daenelliad plant. Ar ei ol ef (Cradoc) y galwyd yr holl bregethwyr teithiol yng Nghymru yn 'Cradocs,'* am lawer o flynyddau wedyn. Beibl bychan, mân, ag ynddo gyfeiriadau ymlenawl ydyw, o'r hwn yr argraffwyd chwech mil. Gan y rhoddwyd ychydig nodiadau am V. Powel o'r blaen, byddai yn briodol yma chwaneu ychydig am ei gydweithiwr,—

WALTER CRADOC, yr hwn a anwyd mewn lle a elwir y Pwll, yn nhref ddegwm Trefela, ym mhlwyf Llangwm Uchaf, ger Brynbuga, yn sir Fynwy. Dywedir iddo gael ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, er nad yw Antoni Wood yn crybwyll dim am dano. Tebyg na arosodd yno i gymmeryd graddau. Yn y fl. 1620, efe a dueddwyd yn fwy at ystyriaethau crefyddol, trwy bregethiad un Mr. Wroth, person Llanfaches, yn ei gymmydogaeth. Cafodd guradiaeth dan un Mr. Erbury, yn Eglwys Fair, Caerdydd. Am wrthod darllen Llyfr y Chwaryddiaethau, gwysiwyd y ddau, yng nghyd â Mr. Wroth, o flaen yr Archesgob Laud, i Lambeth. Dwrdiwyd y ficar ac attaliwyd y curad. Cafodd wedyn guradiaeth Gwrecsam, lle y bu tua blwyddyn, pryd yr attaliwyd ef yno. Bu wedi hyny ym mhlwyf Waterdein, yn sir y Mwythig. Y pryd hyn yr oedd yn gwneyd teithiau meithion, ac yn cydweithredu â V. Powel, er eu bod yn gwahaniaethu yn eu golygiadau ar fedydd, ac yr oedd Cradoc yn llawer arafach a mwy gofalus a gochelgar ei eiriau a'i ymddygiadau na Powel. Cafodd wedyn fod yn ddilynwr i Mr. Wroth yn ardal (nid yn Eglwys, mae yn debyg) Llanfaches. Yn 1646, cafodd weinidogaeth Eglwys Allhallows, Llundain, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1659. Gwelir mai yn Llundain yr ydoedd pan argraffwyd y Beibl hwn. Yr oedd yn fwy pleidiwr i freninoliaeth nag i weriniaeth fel llywodraeth wladol. Y mae pregethau o'i waith yn Seisonaeg, y rhai a bregethodd pan yn Llundain. Gellir ei olygu ef yn fath o ymneill-

* [Hwyrach nad amhriodol yma a fyddai cywiro ychydig o amryfusedd sydd wedi llithro i *Eiriadur* y Dr. Puw o barthed yr enw hwn. O dan '*Cariad-awg*,' efe a ddywed fod y gair hwnw, megys enw cadarn, yn dynodi—'a member of the sect of independents. *pl. cariadogion*.' Nid yw yr enw ddim angen na *Caradogion* neu *Crudogion*, sef canlynwyr Walter *Caradog* neu *Cradoc*.]

düwr gorfodol. Bu farw yn weinidog yr Eglwys Sefydledig, fel ag yr ydoedd o dan y weriniaeth.*

Am y llyfrwerthydd, Thomas Brewster, ymddengys mai gwerinwr selog ydoedd; canys bu ganddo law, gydag ereill, mewn cyhoeddi amrai lyfrau, y rhai, pan ddaeth Siarls II. i'r orsedd, a farnwyd yn fradwriaeth. Wrth gyhoeddi y ddedfryd ym mrawdlys yr Old Bailey, yn 1663, cyfeiriodd y Barnwr Hyde at Brewster fel hyn:—'Ond, Thomas Brewster, y mae eich trosedd chwi yn ddyblyg: gan hyny, barn y llys yw, fod i chwi dalu i'r brenin, am y troseddau a gyflawnwyd, gant o *farciâu*. Rhaid i bob un o o honoch sefyll wrtho ei hun yn y rhigod o un ar ddeg hyd un o'r gloch mewn un lle yn y Gyfnewidfa; a'r dydd arall (yr un faint o amser) yn Smithfield; a rhoi papyr ar eich hetiau, yn hysbysiad o'ch troseddau, yn cyhoeddi llyfrau gwarthus, bradwrus, a phleidyddol, yn erbyn y brenin a'r llywodraeth. Chwi a garcherir hyd y brawdlys nesaf, ac ni chymmerir meichiau trosoch; ac yna rhaid i chwi aros yng ngharchar tra y gwelo y brenin yn dda. A phan ryddhëir chwi, rhaid i chwi roddi sierwydd da trwy iawn—eich hunain am 400*p.* yr un, a dau o feichiau am 200*p.* yr un, i beidio ag argraffu na chyhoeddi math yn y byd o lyfrau ond a ganiatëir: a dyma yw barn y llys.'† Yr ydys yn tybio i Brewster fyned gyda'r pererinion a'r Puritaniaid i America, canys ceir un o'r enw yn eu plith. Yr oedd yr argraffydd, James Flesher, yn enedigol o Salisbury. Bu farw Mehefin 12, 1695, yn 80 mlwydd a 7 mis.‡

2. 'A true and perfect relation of the whole transaction concerning the Petition of the six counties of South Wales, and the county of Monmouth, formerly presented to the Parliament of the Commonwealth of England, for a supply of Godly ministers, an account of Ecclesiastical revenues therein, &c. London, 1654.' 4to.

Yr awdwr ydoedd Alecsander Griffith. Sylwadau ydyw, tybygid, ar yr un a elwid 'The humble acknowledgment of the Inhabitants of South Wales.'§ [4to.]

3. 'Strena Vavasoriensis: or a New-years gift for the Welsh Itinerants. Or an hue and crie after Mr. Vavasar Powell, Metropolitan of the Itinerants, and one of the Executioners of the Gospel by colour of the late Act for the propagation thereof in Wales, &c. London, 1654.' 4to.

Gwaith yr un gelyn mawr i Vavasar Powel, a'r weriniaeth—Alecsander Griffith—yw hwn hefyd, yn yr hwn y mae yn profesu rhoddi gwir hanes o enedigaeth, bywyd, ac athrawiaeth V.

* *Traethodydd*, 1848, t. 483, &c.; Morgan, *Hanes Ymneillduaeth*, dan sir Ddinbych; Williams's *Eminent Welshmen*.

† *Timperley's Dictionary*.

‡ *Timperley's Dictionary*.

§ Gwel rhif 3, d.f. 1650, a rhif 5, d.f. 1652.

Powel, a'r hwn y mae Antoni Wood yn ei gymmeryd fel hanes geirwir am y gwr hwnw, gan ei fod yn gwneyd i fyny ei hanes am dano yn hollol o hono, ac ereill cyffelyb. Dywed, wrth grybwyll am V. Powel fel curad ei ewythr yn Clun, iddo gymmeryd defod Syr John, a rhag iddo, heb urddau, iddo dan lywodraeth esgobawl,* ddyfod i berygl o gael ei attal, iddo fentyca gan hen weinidog methedig, yr hwn oedd gâr iddo, ei lythrau urddau, gan dynu allan enw y cyntaf, a rhoddi ei enw ei hun i mewn, a than liw y llythrau ffugiol hyny, y mae yn myned, yn ddialw am dano, ac yn dechreu taranu allan o'r pulpudau, fel pe byddai yn ysbryd tanllyd wedi cyfodi o uffern. O blegid ei anghyddfurfiaeth, a'r lluaws cyfeiliornadau y mae wedi eu taenu, ammheuwyd ei alwad, ac edrychwyd yn fanwl dros yr urddiadau, a chafwyd ef yn ffugiol a thwyllodrus, a chafodd ei rwympo i ymddangos yn y brawdlys nesaf a gynnelid yn sir Faesyfed (lle y praegethodd yn fynych wedi iddo adael Clun); felly ar ei ymddangosiad, a'i gael yn euog o anghyddfurfriad, ffugio urddiad, ac athrawiaethau cyfeiliornus, efe, trwy lawer o drafferth, a gadwyd rhag y crogbren. 'Ym mhen dwy flynedd efe a ymsefydlodd yn Dartford, yng Nghaint; lle y taenodd ei gyfeiliornadau, *er mawr hudo a thwylllo eneidiau tlodion.*'—'Ei fod ef, neu hwynt, ag oeddynt ei oruchwylwyr, wedi cael i'w dwylaw uwch law deugain mil o bunnau, yn flynyddol, mewn degymau, tiroedd eglwysig, &c., a bywoliaethau eglwysig a dyrchafiaethau ereill, o ddechreu y flwyddyn 1649 hyd ddiwedd 1653, y rhai oeddynt y pryd hyny heb roi cyfrif am danynt.'—'Iddo, o fod fachgen tlawd, gwas ystabl, ddyfod i gyfoeth mawr, a phrynu ammodrwymau tyddynod y goron ac arglwyddiaethau, a'r rhan fwyaf yn enw dyn arall; ac i barhau ei goffadwriaeth, iddo adeiladu iddo ei hun dy gwych yng Ngheri, yn sir Drefaldwyn.' Llyfr yw hwn, fel ereill, o waith yr un awdwr, i osod allan holl grefyddwyr y weriniaeth cyn ddued ag oedd bosibl, yn enwedig Vavasor Powel, trwy gasglu, a thafu ato, bob peth anfanteisiol a ellid ei gael.

4. 'Origines Gallicæ in quibus Gallorum origines, antiquitates, mores, lingua, etc. illustrantur; cui accedunt Antiquæ Linguae Britannicæ Lexicon Britannico-Latinum, et Proverbia Druidum.'

Amstelædami, Jansson. 1654. [4to.]

Gwaith M. S. Boxhorn, yw y llyfr; ac argraffwyd ef, fel y gwelir, yn Holand.

[Gweler crybwylliad am Bocshorn dan rhif 1, 1632, t. 113. Gwaith y Dr. John Davies yw y Geiriadur ar y diwedd.]

5. 'The Copy of a Petition presented to His Highness the Lord Protector by Bassett Jones of Llanmihangel in the County of Glamorgan, against Colonel Philip Jones, one of His Highness' Council, with Cromwell's Gracious Order, the Colonel's Answer, and the Reply of the said Bassett. 1654.'

* [Felly yng nghynysgrif yr awdwr; ond amlwg yw bod rhyw goll neu ddiffyg yn y frawddeg hon.]

Gosod allan y mae fod etifeddiaethau rhai o'r breninolwyr wedi eu gwerthu yn sir Forganwg. Bod y Milwriad Jones wedi prynu rhai o honynt, ac yn eu plith Faenoriaeth Wrinston; ac yr oedd Bassett Jones fel y gwir berchenog yn ceisio eu cael yn ol. Argraffwyd ef yn gyfrinachol yn 1654.

1655.

1. 'Gemma Cambricum, seu Mnemonica Biblorum.—Perl y Cymro, neu Gofiadur y Beibl. Gan Richard Jones, M.A.*

Llundain.'† 12plyg.

Y mae yn ei ddechreu lythyr bychan o ganmolaeth iddo gan James Howel. Mab ydoedd yr awdwr, RICHARD JONES, i un John Pugh, o Henllan, ger Dinbych. Ganwyd ef yn 1603 (yn Llansannan, meddai Calamy). Aeth i Rydychain yn 1621, pan oedd tua deunaw mlwydd oed, a chymmerodd y radd o A.C. yno. Dywedir ei fod yn ddynd deallus, o ddysgeidiaeth nodedig a duwiol, a defnyddiol a llwyddiannus iawn fel ysgolfeistr. Efe a wrthododd urddau, a chodiad os cydymffurfiai. Gadwyd iddo gadw ysgol yn Henllan dros beth amser, ond o'r diwedd efe a yrwyd ymaith, wedi iddo cyn hyny, mae yn debyg, golli cadwraeth yr Ysgol Rad Ramadegol yn Ninbych. Yr oedd yn fardd o gryn fri, yn Lladin, Seisonaeg, a Chymraeg. Bu farw yn Iwerddon, ond y mae yr amser yn anhysbys, meddai Wood;‡ ond dywed Calamy mai yn Ninbych y bu farw, Awst 15, 1673, yn 70 oed. Pregethwyd ei bregeth angladdol gan Mr. Roberts, gweinidog cydffurfiol, neu weinidog Eglwys Loegr, yn y dref hōno, oddi ar eiriau y Salmydd, 'Gwae fi fy mod yn preswyllo ym Mesech.'§

2. 'Testun y Testament Newydd, &c. Llundain.' 8plyg.

Dywedir mai yr ail ran o 'Berl y Cymro' yw hwn.

3. 'Defosiwneu Priod. Printiedig yn Llundain, i Richard Mariot, ym monwent Eglwys St. Dunstan. 1655.'

Y mae y teitl uchod ar ben ac o dan wyneb-ddalen addurnawl. Y mae teitl arall yn llawnach fel hyn:—

'Defosiwn priod, Wedi ei cymhwyso i bum rhan gweddi: sef i. Cyffes. ii. Rhagddeisyfiad. iii. Deisyfiad. iv. Talu-diolch. v. Erfyniad. Ac Arch arbennig tros y clâf. A Chynghorieu a gweddiau ar ddydd yr Arglwydd, o flaen Cymmun, erbyn dydd marwolaeth, a dydd y farn. A Dwy weddi beunyddiol, sef boreuol

* Rhydd Antoni Wood y llyfr hwn yn 1652.

† [Yn ol Gwallter Mechain (*Gwaith* ii. 301) yn *Rhydychain* yr argraffwyd ef; ond yn ol Moses Williams (*Cofrestr*, rhif 101), yn *Llundain*, megys uchod.]

‡ Wood's *Athen. Oxen.*; a Williams's *Eminent Welshmen*.

§ Calamy's *Account of Ejected Ministers*, vol. ii. p. 848.

a phrydnhawol: Wedi ei cyfiaethu yn Gymraec, Trwy waith W. L. M.A. Rhuf. ii. 14.

Llundain, Printiedig i Richard Marriot ym monwent Eglwys St. Dunstan. 1656.'

Y mae iddo gyflwyniad Lladin gan 'G. L.' i 'Thomæ Myddeltoni Armigero' = Thomas Myddelton, Yswain; a llinellau Lladin i'r awdwr, y Dr. Valentine, 'gan R. E. M.A. Oxon;' a chan 'J. B. M.A. Oxon,' a 'D. T. M.A. Oxon.' Ar ei ddiwedd y mae 'Llundain, Printiedig i Richard Marriot ym monwent Eglwys S. Dunstan. 1656.' Dengys hyn mai yng nghydiad y ddwy flwyddyn y cafodd ei argraffu. Ei faint yw 33 t. 48plyg.*

Y Dr. Valentine oedd weinidog yn Chalfont St. Giles, yn sir Buckingham, yn amser Siarl I. Y cyfieithydd oedd John Owen, yr hwn, meddir, oedd wr o sir Fon.

4. 'Gair tros Dduw, neu dystiolaeth o blaid y gwirionedd, oddiwrth amryw eglwysi, a llawer cant o grist'nogion yng Nghymru (a rhyw ychydig oddiamgylch), yn erbyn drygioni mewn lleoedd uchel, gyda llythyr byrr at yr Arglwydd Pendistein Cromwel.'

Gwaith Vavasor Powel, meddir, yw hwn, ac yn Seisonaeg yr ydoedd: ond nid yw yn cael ei enwi ym mhlith ei weithiau ereill gan Antoni Wood. Cyflwynwyd ef i ddwyrlaw Cromwel, heb law ei argraffu wrtho ei hun. Pwnc y papyr yn hwn oedd yn erbyn gwaith Cromwel yn galw ei hun yn Arglwydd Bendystain, neu '*Lord Protector.*' Mewn canlyniad, anfonwyd gwŷr i ddal yr awdwr, y rhai a'i cawsant yn cynnal cyfarfod yn Aberbechan, yn sir Drefaldwyn, y rhai a'i cymmerasant o flaen y *Major-General Berry*, i Gaerwrangon, lle y gwnaeth amddiffyniad o hono ei hun, fel na charcharwyd ef y pryd hwnw.

5. 'A Catalogue of the Lords, Knights, and Gentlemen that have compounded for their Estates.'

Printed for Thomas Dring at the Signe of the George in Fleetstreet neare Clifford Inne. 1655.'

Cynnwysa hwn enwau lluaws o foneddigion Cymru.

6. 'The most notable Antiquity of Great Britain, vulgarly called Stone-Henge on Salisbury plain. Restored by Inigo Jones, Esquire, Architect General to the late King.'

London, Printed by James Fleshere for Daniel Pakemam at the sign of the Rainbow in Fleet Street, and Laurence Chapman, next door to the Fountain Tavern in the Strand. 1655.'

Y cyhoeddwr a'r golygydd ydoedd John Webb.

* [Tebycach mai 24plyg ydyw. Y mae 48plyg o'r papyr arferedig y pryd hwnw yn orfychanig.]

7. 'A Warning-Piece for England, being a Discovery of a Jesuite Designe to Dismember Wales from England, to the ruin of all, tendered to the Consideration of his Highness the Lord Protector, by P. P. 1655.'

Llyfryn 4plyg, o 32 tudalen, ydyw, yn rhoddi hanes rhyw ymdrafodiaeth nodedig yn llysoedd Aberhonddu; ac yn cyfeirio yn amlwg at un John Corbet, ynad o Aberhonddu fel hollol ddyhiryn. Y mae yn rhoddi hefyd ryw hanes hynod am Thos. Watkin, o Fualt, ym Mrycheiniog, boneddwr; ac Eliz. Williams a ymosododd ar Jephrey Williams mewn llys cyhoeddus am lofruddio ei mab, Roger Price; Rhys Gwyn, ac ereill.*

1656.

1. 'Gair o'r Gair, neu Sôn am Sŵn, y Lleferydd Anfarwol. Gan Morgan Llwyd, Gweinidog yr Efengyl yng Wrecsam, yn sir Ddinbych. Llundain.' 24plyg.

2. 'Ymarfer o Dduwioldeb, &c.

Printiedig gan Sarah Griffin, tros Philip Chetwind.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.† Rhoddwyd ef allan y waith hon trwy ddylanwad Stephan Hughes.

3. 'An Antidote against the infection of the Times; or a faithfull Watchword from Mount Sion to prevent the Ruin of Souls: whereby some speciall Considerations are presented to Sinners, Admonitions to Saints, and Invitations to Backsliders. Published for the good of all, by the appointment of the Elders and Messengers of the several Churches of Ilston, Abergavenny, Tredinog, Carmarthen, Hereford, Bredwardine, Cledock, and Llangors, meting at Brecknock, upon the 29 and 30 daies of the fifth moneth, 1650.

London, Printed for T. Brewster, at the three Bibles at the West End of St. Paul's. 1656.'

[Un o lyfrau y Crynwyr, fel yr ymddengys, ydoedd hwn; canys y mae ei leferydd yn ei gyhuddo.]

4. 'The humble representation and address to his highness (Oliver Cromwell) of several Churches and Christians in South Wales, &c. London, 1656.' 4to.

* Hotten's *Catalogue*.

† Gwel rhif 1, d.f. 1630.

5. 'A Sermon preached at Caermarthen Assizes. By William Thomas, D.D.'

Yr oedd taid y gwr hwn [WILLIAM THOMAS, D.D.] yn Gofriadur Caerfyrddin. Er i'r wŷr gael ei eni yn Bristol, lle yr oedd ei dad yn llein-werthydd, efe, o blegid marwolaeth ei dad, a ddygwyd i fyny gan ei daid, yr hwn a'i rhoddodd o dan ddysgeidiaeth Mr. Owen Morgan, meistr yr Ysgol Ramadegol yng Nghaerfyrddin, a'r hwn a wnaed wedi hyny yn esgob Ty Ddewi. Aeth i Rydychain, lle y graddiwyd ef yn A.C. Cafodd ficeriaeth Penbryn, yn sir Aberteifi, ac wedi hyny ficeriaeth Llacharn gyda Llansadwrnen. Trowyd ef allan o'i fywoliaeth gan y Profwyr yn 1644, fel un anaddas i'w swydd. Wedi dyfodiad Siarl II. i'r orsedd, cafodd ei fywoliaeth yn ol, ac ychwaneg, nes o godiad i godiad, y gwnaed ef yn 1677, yn esgob Ty Ddewi. Ymddengys ei fod yn weinidog llafurus, a bu yn offerynol i gael argraffiad o'r Beibl yn Gymraeg. Symmudwyd ef o Dy Ddewi i esgobaeth Caerwrangon. Cyhoeddwyd rhai darnau o'i waith heb law y bregeth hon.*

6. 'Animadversions upon a Letter and Papers, first sent to His Highness by Certain Gentlemen and Others in Wales: And since printed and published to the World by some of the Subscribers. By One whose desire and endeavour is to preserve Peace and Safety by removing Offence and Enmity. Printed in the year 1656.' †

7. 'The Arraignment and Conviction of Anabaptism, or a reply to Master Tombes his Plea for Anti-pædobaptism. By refutation of his Examen of the dispute at Abergavenny, and Sermon on Mark 16. 16. Wherein the Antiquitie, Universalitie, and Succession of Infant Baptism since the Apostles days, until the Anabaptists sprung up in Germany, is maintained, necessity of Dipping refuted, the arguments for it from the holy Scriptures holden out, and the objections against it assoiled. By John Cragge, M.A. and Preacher of the Gospel at Lantilo Pertholy in Monmouthshire.

London, Printed by T. W. for H. Twyford, N. Brooks, Tho. Dring, J. Place, and are to be sold at their shops. 1656.'

Hanes Seisonaeg ydyw am ddadl a fu yn hen Eglwys y Fenni, yn sir Fynwy, ar y 5med o Fedi yn y flwyddyn hon, rhwng Mr. Tombs, Mr. H. Vaughan (yr hwn oedd fab i John Vaughan, o Gaethle, ger Tywyn, Meirion, ac yn ficar Pant Teg, ger Pont y Pwl, yn sir

* Wood's *Athen. Oxon.*; Nash's *History of Worcestershire*; *General Biographical Dictionary*; Williams's *Eminent Welshmen*, yr hwn a ddyry gyhoeddiad y bregeth hon flwyddyn ym mlaen, yn 1657. Daeth allan hefyd, 'Roman Oracles Silenced: or the Prime Testimonies of Antiquity Produced by Henry Turbervil, in his Manual of Controversies Refuted. By W. Thomas, Bp. of Worcester.' 1690. [Ganed y Dr. W. Thomas yn 1613, a bu farw yn 1689.]

† *Llythyr* Mr. Joseph Joseph.

Fynwy), a Mr. Cragg, o berthynas i Fedydd Babanod.* ‘Yr oedd eglwys newydd o Fedyddwyr wedi ei ffurfio yn y Fenni, yn 1652, ac o ddeutu tri ugain wedi eu chwanegu ati y flwyddyn gyntaf, neu ychydig gyda hyny. Yn ol eu hanes hwy, darfu i hyn roi yn hytrach anfodddhâd i fedyddwyr plant yn y parthau hyny. O’r diwedd, cytunodd y ddwy blaid gael dadl gyhoeddus ar y pwne, yn Eglwys Fair, yn y dref hõno, o ddeutu saith wythnos ar ol y Gymmanfa. Y dadleuwyr oeddynt John Tombs, B.D., ficar Llanllieni,† Henry Vaughan, A.C.,‡ a John Cragg, A.C.§ Y cyntaf dros fedydd y crediniol, a’r ddau olaf dros fedydd plant. Mr. T. a Mr. V. a ddadleuasant gyntaf, yna Mr. Cragg. Wedi hyny, bu iddynt oll argraffu. Enw cyhoeddiad Mr. C. yw—‘The Arraignment and Conviction of Anabaptism.’ Nid yw gwaith Mr. V. yn helaeth. Y mae llythyr cyflwyniadol yn ei ddechreu.

8. ‘Animadversions upon a Letter and Paper, first sent to His Highness by certain Gentlemen and others in Wales: and since printed and published to the World by some of the subscribers. 1656.’

[Diau mai yr un yw hwn â rhif 6 uchod.]

1657.

1. ¶ ‘Yr Ymroddiad, neu Bapuryn a gyfieithwyd ddwywaith i helpu y Cymry unwaith allan o’r hunan a’r Drygioni.’ 12plyg.

Yr awdwr ydoedd Morgan Llwyd, o Wynedd.

2. ¶ ‘Y Dysgybl a’r Athraw o newydd.’

* Thomas, *Hanes y Bedyddwyr*; Williams’s *Eminent Welshmen*; Wood’s *Athen. Oxon.*

† Yr oedd Mr. John Tombs yn frodor o Bewdley, yn sir Gaerwrangon, lle y ganed ef yn 1603. Tua saith mlynedd y bu yn Llanllieni. Yn 1641, darfu i filwyr y brenin ei erlid a’i ysbeilio o gymmaint ag a feddai; a’i erlid wedi hyny ym Mristol. Mabwysiadodd olygiadau pleidiol i fedydd trwy drochi y crediniol mewn oedran yn unig; a bu yn ymddadl eu gyhoeddus ar y pwne yn Lloegr, yn gystal ag yng Nghymru. Yr oedd yn ddyn enwog, o dalentau helaeth, ac yn gydfurfiwr selog ym mhob peth ond bedydd plant. Ysgrifennodd lyfr Lladin yn erbyn ‘*Harmonia Apostolica*’ y Dr. Bull, Esgob Ty Ddewi, ac yn Lladin yn erbyn llyfr Lladin Mr. Baxter ar ‘*Gyfiawnhâd*’; a phregethodd amryw bregethau yn Llundain, yn erbyn y Dr. Crisp. Bu farw yn Salisbury yn 1676, yn 73 oed. Ysgrifennodd luaws o lyfrau ereill hefyd.—Palmer’s *Calamy’s Noncon. Mem.* vol. ii. pp. 293-296.

‡ Henry Vaughan a fu yn ficar Grantham, yn sir Lincoln. Yr oedd yn bregethwr rhagorol, ac yn selog iawn dros y Breninoedd Siarl I. a’r II. Pregethai yn gyhoeddus yn erbyn y llywodraeth ag oedd mewn grym ar y pryd; ond er ei fod yn erbyn y weriniaeth fel llywodraeth wladol, yr oedd hefyd yn erbyn y seremoniau eglwysig; ac am hyny, efe a garcharwyd pan ddaeth Siarl II. i’r orsedd, o blegid peidio â darllen Llyfr y Weddi Gyffredin. Aeth wedi hyny gyda’i deulu i Bermuda; ond o blegid cael anghefnogaeth oddi wrth y Crynwyr, dychwelodd yn ol.—Palmer’s *Calamy’s Noncon. Mem.* vol. ii. pp. 416-18.

§ Claddwyd un John Cragg, yn Eglwys St. Martin in the Fields, yn Llundain, o ddeutu 1653, medd Antoni Wood (*Athen. Oxon.* vol. i. p. 796); ond nid ydys yn sicr ai hwn oedd y dadleuwr.

Tebygol mai ail argraffiad ydoedd o'r 'Crynhodeb o Addysg Cristionogawl' y Dr. Rosier Smith, o Lanelwy, gan mai 'Ymddiddan ne ddialogiaeth rhwng y Discibil a'i a'i Athraw' ydoedd hwnw.*

3. ¶ 'Cyfarwyddyd i'r Cymro.' 12plyg.

Gwaith Morgan Llwyd, o Wynedd.

4. ¶ 'Cymmun & Attebion. Gan Fleetwood, a Tillotson, a W. V.' †

5. Cerbyd Jechydwriaeth. Neu Prif Byngeiau Crefydd Gristonogawl wedi eu egluro a'u gosod allan. 1. Yn gyntaf, mewn Sententiau a Rheolau awdyrdodol. 2. Yn nessaf, mewn cyd-ymddiddan trwy ymholion ac attebion.

Printiedig yn-Ninas Llundain, gan Sarah Griffin, dros Philip Chetwind, 1657.' 16plyg.

Awdwr hwn ydoedd Thomas Powel, D.D., ac yn niwedd llyfr Seisoneg o'r enw—'Qvadrīga Salv̄tis. or the Four General Heads of Christian Religion surveyed, an explained,' y mae. Dywedir hefyd fod 'Catecism' o'i waith ar y 'Deg Gorchymmyn, a Gweddi yr Arglwydd,' yn Gymraeg a Seisonaeg, yr hwn ni welais ychwaneg am dano. ‡ Cyhoeddodd hefyd weithiau dysgedig ereill, megys, 'Elementa Opticæ: novâ, facili, et compendiosâ methodo explicata,' Llundain, 1651. 'Human Industry, or a history of most manual arts,' Llundain, 1661. 'Life of Herod.' 'Translations from the Italian of Malozzi, and the French of Balzac.' Y rhai uchod a adawodd mewn ysgrif. Dywedir hefyd iddo adael ar ei ol waith dyddorol arall, or enw 'Fragmenta de Rebus Britannicis; a short account of the Lives, Manners, and Religion of the British Druids and Bards,' yr hwn, meddir (fel y bu gwaethaf yr anffawd), a gollwyd. Nodir hefyd ryw fân weithiau ereill o'i eiddo. Gofynir bellach pwy oedd yr awdwr boreuol, Cymreig, a dyeithr hwn? Wel—

THOMAS POWEL, D.D., ydoedd fab i John Powel, person y Cantref, ger Aberhonddu, a'r hwn a anwyd yno yn 1608. Efe a aeth i Rydychain yn 1625, ac a etholwyd yn aelod o Goleg Iesu yn 1627, ac yn fuan cymmerodd raddau, a gwnaed ef yn Gymmrawd. Yn y fl. 1635, cafodd ei ordeinio yn berson ei blwyf genedigol, ar gyflwyniad ei frawd. Ond yn amser y rhyfel cartrefol, efe a drowyd o'i weinidogaeth, gan Brofwyr y 'Weithred er Lledaeniad yr Efyngyl yng Nghymru,' am ymlynu wrth y brenin, a darllen llyfr y Weddi Gyffredin, pryd yr enciliodd i'r Cyfandir, lle yr arosodd hyd ddychweliad Siarl II. i'r orsedd, pan y dychwelodd yn ei ol, ac y cafodd ei le gweinidogaethol drachefn. Y mae ei enw wrth

* Gwel d.f. 1609, 1611, a 1615.

† Yn ol Moses Williams.

‡ [Y gwaith hwn (rhif 5) yng nghyd â'r 'Qvadrīga,' ydyw hwnw.]

lythyr y Mil. Jenkin Jones, o Lanthetty, yr hwn oedd ym myddin Cromwel, wedi ei amseru Chwef. 6ed, 1563, mewn cyssylltiad â Thomas Lewis, person Llanfigen, a Griffith Hartley, ficar Aberesgir, yn gofyn a oedd y gweinidogion a droisid allan yn parhau o dan waharddiad i beidio â phregethu, gan fod rhai wedi anturio ufuddhau i gais rhai oedd yn sychedu am glywed pregethu, ac wedi cael eu hanfon i garchar Casgwent o'r herwydd. Gellid tybio nad oedd gan y Milwriad Jenkin Jones ddim i'w wneyd â'r cyfryw bethau erbyn hyn, gan fod y brenin wedi ei adferu er ys llawer blwyddyn. Ond ymddengys fod yr hen swyddogion yn cario eu hawdurdod yn y wlad hyd y gallent. Wedi ei wneyd yn D.D., cafodd ganoniaeth Ty Ddewi,* a dywedir iddo gael ei enwi gan Siarl II. i esgobaeth Bristol, ond bu farw Rhag. 31, 1660, cyn cael ei ethol, a chladdwyd ef yn St. Dunstan's in the West, Heol Ffleet, Llundain. Rhoir cymmeriad uchel iddo gan Wood, fel dyn doeth, gwybodus, a dysgedig mewn amryw ieithoedd, athronydd a beirniad galluog, a duwinydd o gryn fedrusrwydd. Bu ei fab yntau, Thomas Powel, yn berson y Cantref, yr hwn hefyd oedd yn ddyon o gryn dalent yn ei ddydd; a'r hwn, pan gafodd ei ddirmygu unwaith, gan un o'i gydwladwyr, ar gyfrif gwaeledd ei ddisgyniad teuluaid—er ei fod yn alluog i ymffrostio mewn llinach o deulu mor gyfrifol a neb yn y wlad—a'i hatebodd, mewn natur dda, ar fath o farddoniaeth ddi-fyfr, fel hyn:—

'A ydych chwi yn tebyg na ydwyf foneddig,
Mi'ch 'tebaf mewn 'chydig o eirie;
O Nöe a'i dri meibion y daeth holl blant dynion,
Ac o un daeth offeiriad y Cantre?.'

Y mae rhoddiad y fywoliaeth hòno yn y llaw y Poweliaid, ac yn cael ei gwasanaethu ganddynt, er ys o leiaf dri chant o fynyddau; ond y mae yn awr wedi ei gwerthu i deulu arall.†

[Yn y cyfargraff sy ger fy mron, un llyfr yw y 'Cerbyd Jechydwrïaeth' a'r 'Qvadriga Salv'tis,' ond eu bod wedi eu tudalenu yn wahanol. Cynnwys y gwaith Cymreig, yr hwn sy flaenaf yn y gyfrol, 39 o dudalenu, heb law 4 o ragarweinolion yn y dechreu. Diweddir y dosbarth hwn o'r gyfrol â'r ymgais canlynol at englyn:—

'Y Pader, pan trier, Duw-tri a'i dododd
O'i dadol ddaioni,
Yn faen-gwaddan i bob gweddi,
Ac athrawiaeth a wnaeth i ni.

OL. VAUGHAN.'

Yr un peth yn hollol yw y rhan Gymreig â chryn gyfran o'r gwaith Seisonig. Cyflwynir y 'Qvadriga'—'To the Honorable and my worthily honored Lady, the Lady Eleonor Williams, of Gwerneuet,' a thanysgrifir y cyflwyniad gan 'Tho. Powell.' Ar y ddalen nesaf y mae darlun o Bren yn llawn o bob rhyw ffwythau danteithiol, a diodydd blasber yn distylliw o hono, gyda'r arwydd-air—'Dispenso munera caeli' uwch ei ben. Y mae y pren hwn yn tyfu, medd

* Medd Antoni Wood, ond Llandaf, medd Williams.

† Wood's *Athen. Oxon.*; Walker's *Sufferings of the Clergy*; Jones's *History of Breconshire*; Williams's *Eminent Welshmen*.

yr awdwr, yn un o'r Ynysoedd Dedwydd, neu Ynysoedd Canari, yn y Môr Atlantig, a rhydd i ni yr hanes canlynol am dano:—

'I have delineated this Tree in the preceding page, according to the description of *Benzo* an Italian, who spent 14 years in surveying the vast Continent of *America* and the adjacent Ilands. It grows in an Iland called *Hierro* or *Ferro*, which is one of the *Canaries*: There is no other Tree in all the Iland besides, neither any water to refresh the Inhabitants but what this tree affords, the bowels of the Countrey being *iron*, from whence it hath its name. It may be a fit Emblem of a charitable person in an uncharitable Countrey, and may have other fit and apposit applications. It is mentioned by sundry Geographers and Travellers, as *Hugh Linschotten*, *Petr: Bertius* in his description of the *Canaries*: Sir *Rich: Hawkins* in his Navigations, and described by the excellent *Du Bartas*, thus,

In the Ile of *Iron*, one of those same seven
 Whereto our Elders *happy* name have given,
 The savage people never drink the streams
 Of wells and rivers, as in other realms;
 Their drink is in the air, the gushing spring
 A weeping tree out of it self doth wring:
 A tree whose tender-bearded root doth spread
 In driest sand; his sweaty leaf doth send
 A most sweet liquor: and like as the vine
 Untimely cut, weeps at her wound the wine
 In pearled drops, incessantly distills
 A royal stream, which all their cisterns fills.'

Y mae yr awdwr, fel y canfyddir, yn adrodd y chwedlau disail hyn am y maeth-roddawl bren dychymmygol hwn gyda phob difrifoldeb, megys hanes credadwy, ac nid fel llên y werin, yr hyn beth yr oedd yr hen bobl mor nodedig off o hono. Cynnwys y dosbarth Seisonig 126 o dudalenau, gydag 28 o rag-arweinolion.]

6. ¶ 'Gwyddor uchod. O. G. M. Llundain.' 12plyg.*

7. 'Y Cywir Ddychwelwr, yn Datguddio y Nifer bychan o'r rhai Gwir Gredadwy, a'r anhawsder mawr o droedigaeth cadwedigol. Ym mha un yr agorir yn rhagorol ac yn Eglir y dewisol a'r Duwiol wyddorion hyn, sef yn 1. Fod Duw, a bod y Duw yma yn dra gogoneddus. 2. Wneuthur o Dduw ddyn mewn Cyflwr Bendigedig. 3. Trueni dyn trwy ei gwmp. 4. Crist yr unig brynwr drwy werth. 5. Mae ychydig a fydd gadwedig, a hyny drwy lawer o anhawsdra. 6. Mae colledigaeth dyn sydd o hono ei hun. Gan Tho. Shepheard, cyfaill gynt o Ysgoldy Emmanuel Ynghaer-garddu, ac yn ddiweddar Bugail o Gaer-garddu yn Lloegr newydd, o gyfieithiad R. E. yn y fl. 1655, ac a roed allan gan W. Greenhill yn y fl. 1657.'

Y mae yn ei ragflaenu gan y cyfieithydd, 'At fy nghyd-wladwr anwyl y Cymro,' yr hwn a ddiwedda, 'Yr eiddot yn yr Arglwydd R. E.,' yna yr—'Att y Darllenydd Christionogol.' Yn ei ddiwedd y mae yn y ddwy iaith: 'Y mae y llyfr hwn ac amriw eraill llyfrau cymraeg iw cael i werth gan *Thomas Brewster*; tan lun y tri Bibl yn ym-mul Pauls'—'This Book and several other Books in Welsh are

* Yn ol Moses Williams.

to be sold by *Thomas Brewster*, at the three Bibles near the West end of Pauls Church-yard, London.' Yr awdwr,

THOMAS SHEPHEARD, A.C., a anwyd yn Towcaster, yn sir Northampton, yn 1605, a chafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaergrawnt. Ar ei ymadawiad o'r brifysgol, cafodd ei benodi yn ddarlithydd yn Earls Colne, yn Essecs; ac ym mhen tair blynedd, efe a ddiswyddwyd gan yr Archesgob Laud, am anghyddfurfiaeth. Wedi hyn daeth yn gapelwr teuluaidd i Syr Richard Darly, yn Buttercromb, sir Gaerefrog; ond ni oddefai archesgob Caerefrog iddo bregethu heb roddi ei law wrth y canonau, &c. Yna efe a symmudodd i Heddon, yn Northumberland; ond yno canfu llygad Laud ef, ac ni oddefai iddo bregethu heb gydymffurfio, yr hyn a wnaeth iddo ben-derynu mudo i Loegr Newydd, America, yn 1634, a lle y cyrhaeddodd yn Hydref, 1635. Ysgrifnodd amrai lyfrau, heb law hwn. Bu farw, Awst 25, 1646, yn 43 oed.* Am y cyhoeddwr Seisonig,

William Greenhill, efe a anwyd yn sir Rhydychain, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn y brifysgol hòno. Bu yn weinidog yn Stepney, yn amser Siarl I. a Cromwel, o'r lle y trowyd ef ymaith yn amser Siarl II.† Yr oedd yn un o'r Gymmanfa Gynnulleidfaol a gynnaliwyd ym mhalas y Savoy, Llundain, yn 1658, er ceisio gwneyd rhyw gynllun o gydweithrediad rhwng Ymneillduwyr yr oes hòno.‡

Am y cyfieithydd, R. E., nid oes dim wedi ei drosglwyddo i'r oes hon.

[Wrth 'Gaer-garddu' y golygir Caergrawnt neu *Cambridge*; ac wrth 'Gaer-garddu' yn Lloegr Newydd, *Cambridge*, ger llaw Boston, ym Massachusetts. Sefydlwyd 'Coleg Harvard,' a elwir yn awr 'Prifysgol Harvard,' yn y lle hwnw yn y flwyddyn 1636. Y mae y Gaergrawnt hon o ddeutu tair milltir o dref Boston, a chyssylltir y ddwy â'u gilydd gan bont dros yr afon Siarls. Y sefydliad hwn 'Ynghaer-garddu' yw yr addysgfa hynaf yn Nhaleithiau Cyfunol America. Ar y cyntaf galwyd y dref yn 'New Town,' neu Dref Newydd; ond pan sylfaenwyd Coleg Harvard ynddi, cyfnewidiwyd yr enw yn *Cambridge*, o anrhydedd i Brifysgol Caergrawnt yn Lloegr.]

8. 'Remains concerning Britain: Their Languages, Names, Surnames, &c. Written by William Camden, Esquire, &c. The sixth Impression, with many rare Antiquities never before imprinted. By the Industry and care of John Philipot Somerset Herald: and W. D. Gout.

London, Printed for Simon Miller, and are to be sold at the Sign of the Star, in St. Pauls Church-yard. 1657.'

9. 'Reports relating to divers Tenements and Lands in various parts of Wales, Cheshire, Shropshire, &c. By Sir G. Coke, Kt. 1657.'

Y mae gydag ef arlun o wneuthuriad — Vaugan.

* Brooks's *Life of the Puritans*, vol. iii. pp. 109-107.

† Palmer's *Calamy's Ejected Ministers*, vol. ii. p. 468.

‡ *Congregational Magazine*, 1826, p. 452.

1658.

1. 'Prif-fanau Crefydd Cristionogawl a Llwybraiddfodd Byrr o'r Athrawiaeth o honi. O Gyf. Row. Vaughan, Esqr.'

Llundain. 12plyg.*

2. 'Yr arfer o Weddi yr Arglwydd a amddiffynir yn erbyn Dadleuon y newyddiaid o'r amseroedd yma. Gan Ioan Despagne.'†

John Despagne ydoedd ysgrifenydd Ffrengig, a phregethwr yng Nghapel *Somerset House*, Llundain, yn 1656, &c. Efe a achwynodd o blegid rhywbeth yn llyfr 'Ymarfer o Dduwioledeb,' nid o blegid dim drwg ynddo, medd A. Wood, 'o blegid y mae y rhan fwyaf o'r bobl gyffredin yn edrych ar ei awdurdod yn gyfartal i'r Ysgrhythrau.'‡ Ychwanega Moses Williams fel hyn, ar ol enw yr awdwr:—'Cyfieithiad R. V., Esqr. 12plyg. Iago ab Dewi, & Beveridge, & Fleetwood, & Nicholas, & Wells.' Nid ydys yn gallu dyfalu beth a olygai Mr. Williams wrth yr enwau hyn, a'r cyffelyb, y rhai sy ganddo yn fynych yn gyssylltedig â'r llyfrau a enwa, fel pe buasent oll â llaw yn nygiad y llyfrau allan, naill ai fel cyfieithwyr, argraffwyr, neu werthwyr; yr oeddynt yn byw ym mhell ar wahan oddi wrth eu gilydd, o ran lle ac amser.

3. 'Pregeth yn erbyn Schism: Neu, Wahaniadau yr Amseroedd hyn: A Bregethwyd yn Watlington yn sir Rydychen, mewn peth cythryfwl Med. 11. 1662. Yn ol ymddadleu cyhoeddus a fu yno Rhwng Jasper Mayne, D.D. Ac vn § Cyfieith. R. V. Mat. 13. 46. Cyffelyb yw Teirnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd o bob rhyw beth.

Caer-Ludd: Argraphedig gan Jo. Streater tros Phil. Chetwynd.'

Cynnwysa y llyfr hyn 30 tudalen, heb law yr wyneb-ddalen, a llythyr cyflwyniadol Rowland Vaughan, yn 4 tudalen arall, 'Iw anwyl nai Ev. Vaughan, a'i deulu cariadol ym Moel y Fronllwyd y deisyf R. V. lawenydd tragywyddol.' Gan ei fod yr arddangosiad egluraf a welsom o ysbryd yr hen yswain o Gaergai, rhoddir ef yma yn llawn:—

'Fy anwyl nai, gan eich bod chwi mor ofalus am rai om trafferthion bydol, ac yn enwedig am gadw y llyfrau om cyfieithiad: (an cefail mwnaidd Mr. *Edwartt Parry* o lys y cydwybod,) Ni welaf neb *iawnach* o herwydd amryw rwymedigaethau i fod yn ymgeleddwr i annerch ac arwydd om gwaith i na chwychwi, na lle

* Yn ol Moses Williams.

† Yn ol Moses Williams.

‡ Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. p. 486.

§ Nis gallwyd gwneyd y gair, neu y llythyrenau, yn llawn, o blegid toriad ymaith ymyl y ddalen.

gwell i minnau iw yrru nag at vn a dal y pwyth adref yn ei gelfyddyd yntau, o bydd achos: mi a welaf yr awrhon i mi achos dda i ddiolch i Dduw ac i orfoleddu yn ein gwaith yn gwrthryfela (er na ynnillodd yr vn o honom ni ond ychydig ar ein gwaith, etto rhaid oedd i ni fyned ar ol ein rhywogaeth) y naill tros y Brenin a gwir ragorfraint y Gymanfa, a'r llall tros y Brenin ar Gymanfa, ac i ddiweddu yn llawen *milvus rapiat utrumq; bellatorem* y trydydd aeth â'r asgwrn. Sir: i roi ar lawr yr achos o gyfieithu y bregeth hon dyma yr Histori fer honno: yn y Sessiwn, pryd yr oedd *Jo: Lloid* o *Faes* y pandy yn Siryf ef am tasfwyd ar y Cwest mawr, yr amser yr oedd rhyw affaith yn erbyn vn or Seinctiau newydd, fe ddaeth eu Harchescob hwynt o flaen y Barr* i achwyn fy mod i yn vn or troseddwy'r mwyaf, &c. Gofyn o honof fi genad i'r vsdus i'w ateb, ef am neccauodd yn lan, yn ol hyn yr scrifennais at yr *Achwynwr* ac mewn mis neu ddau mi gefais ateb yn *ei feddwl ef*, Yn ei lythyr y cymmerai achos a chablu yr anrhydeddusaf, Doctor *G. Gr.* o lan y myneich, i ddwyllaw yr hwn yr anfonais i ein llythyrau gwrthwynebus, ac yno yn vn oi areithwiw lythyrau, yr anfonai *Dr. Gr.* ei Gyngor parabl-ddoeth or llyfr hwn ym Mith * ai frodyr ffydd ir iawn, neu gael gweled eu gwaith yn gyrru Doctor *Main*, a'r cyfryw ddysgawdwy'r ir to, Proffesu enw Cristion yr wyf, a deisyf gwneuthur daioni im gwlad, heb na bustl na chwerwdod yn enw y Duw byw mi fedraf ddywedyd om calon maddeu i ni ein dyledion fal y maddeuwn &c. Maddeued Duw ir rhai sydd yn gwyrddroi y bobl o throed hwy oll i'r iawn, yr vnig Dduw hwnnw a roddo vnion Grefydd yn Ecclwys Brydain; hyn yw gwir ddymuniad

Eich ewythr anwyl ich gwasanaeth. R. V.'

Yn y flwyddyn 1644,† yr oedd Rowland Vaughan wedi ei nodi yn Sirydd; a pheth rhyfedd iddo gael ei ddewis ar y 'Cwest mawr' yn amser Cromwel, yn enwedig gan fod Vaughan mor selog dros y 'Gymmanfa a'r Brenin,' neu y Senedd a'r Brenin, tra yr oedd ei 'anwyl nai o Foel y Fronllwyd' o'r ochr arall. Ymddengys fod y ddau wedi cymmeryd arfau yn y rhyfel cartrefol, a gelwid yr ewythr weithiau yn *Cadben* Vaughan, neu fel y dywedai y Cymry, 'Capten Fychan o Gaergai,' i'w wahaniaethu oddi wrth un arall, o'r un cyfenw, ydoedd yn blaenori y naill du neu y llall yn yr ymrysonau hyny. Wrth y 'Seinctiau newydd' y deallir y crefyddwy'r ag oedd o blaid y weriniaeth. 'Eu Harchesgob hwy' oedd Vavasor Powel, a'r 'Anrhydeddusaf Doctor G. G. o lan y myneich,' ydoedd y Dr. George Griffith, a fu wedi hyny yn Esgob Llanelwy, ond oedd y pryd hyny yn berson Llan y Myneich, fel y ceir gweled yn helaethach yn ei hanes. Bu ef mewn dadl â Vavasor Powel.‡

[JASPER MAYNE, D.D., ydoedd ysgrifenydd cyfymgerddol a duwinydd yn yr 17fed ganrif. Ganed ef yn Hatherleigh, yn Nyfaint, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Westminster a Phrifysgol Rhydychain, lle y graddiodd yn D.D., ac

* Mr. Vavasor Powel, mae yn debyg.

† [Yn ol y gofres o Siryddion Meirionydd, argraffedig yn yr ail gyfrol o'r *Archæologia Cumbrensis*, yn 1643 yr ydoedd Rowland Fychan yn sirydd Meirion.]

‡ Gwel rhif 1, 2, 3, d.f. 1652.

y cymmerth urddau santaidd. Dyoddefodd lawer yn ystod rhwysg Cromwel o herwydd ei ymlyniad diwosgryn wrth yr achos breninol; a phan ddaeth yr Adferiad, gwnaed ef yn archiagon Sisedr. Ysgrifennodd dwysged o gyfymgerddi, y rhai a ddangosant gryn lawer o arabedd ac ysmaldod. Bu farw yn 1672.]

4. 'Prif-fannau Sanctadd, neu Lawlyfr o Weddiau a wnaethpwyd yn dair Rhan. O waith yr Anrhydeddus Athro William Brough Dr o ddefnyddiaeth, a Deon diweddar o Gwaerloiw. Y trydydd argraphiad yn Saesonaeg ar cyntaf yn gamberaeg o Gyfieithiad Row. Vaughan Esq. Peth mawr yw bod yn Gristion nid i ymddangos. Hier.

Caer Lvdd, Printiedig gan Sara Griffin tros Philip Chetwind o'r heol hynaf. 1658.' 4plyg.

Y mae yn gyssylltedig ag anerchiad R. V. i'w 'anwyl nai Ev. Vaughan,' sydd yn blaenu 'Bregeth ar Schism,'* linellau Lladin canmoliaethol i R. Vaughan, W. Salisbury, a W. Brough, D.D.

Y Dr. WILLIAM BROUGH a addysgwyd yn Rhydychain, ac wedi hyny a fu yn berson St. Michael, Cornhill, Llundain, yn Gapelwr i'r Brenin, ac yn Ganon Windsor. Yr oedd mewn ffafwr fawr gan yr Archesgob Laud, 'ac am hyny a gyfrifid gan y Puritaniaid,' medd Wood, 'yn Arminiad, yn gogwyddo at Bab-yddiaeth, ac nis gwn i pa beth, yr hwn, yn nechreu y gwrthryfel a gyfodwyd ganddynt hwy, a drowyd o'i bersoniaeth, a ysbeiliwyd, a throwyd ei wraig a'i blant dros y drws, ac yntau yn gorfod ffoi i Rydychain.' Wedi yr Adferiad, gwobrwywyd ef â deoniaeth Caerleow yn Awst, 1663. Bu farw Gorph. 5, 1671.†

5. ¶ 'Y Llwybreiddfodd byr o Gristionogawl Grefydd. Gyd ac adroddiad hynodol o riw fannau o Athrawiaeth o'r hyn (er mwyn eglurwch) a grybwyllwyd yn llyfrau o'r blaen. O gyfieithiad Row. Vaughan, Esq.'

Llundain. 12plyg.

6. 'Ymddiffyniad rhag Pla o Schism: Neu Swyn gyfaredd yn erbyn neillduaethau yr Amseroedd. A dynwyd allan o waith St. Paul a St. Jud. Yn dangos trwy ysprydoliaeth goruchel i ba gyfryw bechodau a pheryglon ofnadwy y ysyrthiant hwy, y rhai a rêd allan or Eclwys i Shism neu rwygiad. Ac o ba fath gynneddf melldigedig ddamnedig ydyw y gwyr a demtia, ac a arweinia ir cyfryw neillduadau. Cyfieithiad R. V. Esc.

Printiedig ynghaer Ludd gan Joa. Streater, tros Philip Chetwinde, 1658.'

* Gwel rhif 3.

† Walker's *Sufferings of the Clergy*.

Ymddengys fod yr hen wr boneddig o Gaergai yn llafurus yn ei ddydd yn amddiffyn ei blaid ym mhob modd. Dyma chwech o fân lyfrau mewn un flwyddyn, ac oll yn ffafir yr Eglwys.

7. ¶ ‘Amddiffyniad y Bedyddwyr, yn erbyn Ymosodiadau y bobl a elwir Quakers.’

Llundain, argraphwyd 1658.

Gwaith dau o'r Bedyddwyr o'r enwau John Price a William Bound.

WILLIAM BOUND oedd yn byw yn y Garth Fawr, ym mhlwyf Llandinam, yn sir Drefaldwyn, a'i esgynyddion ef yw y Preisiaid sydd yno yn bresennol. Yr oedd dau frawd o honynt, William a John, y rhai a fuont ddefnyddiol iawn yn eu hoed. Bu farw John yn 1657, cyn i'r llyfr ddyfod o'r wasg. Enw yr ysgrifenydd Crynyddol oedd John Moon.*

JOHN PRICE oedd yn byw ym Maes y Gelli, ger Nantmel, yn sir Faesyfed. Yr oedd yn wr deallus, a chynnorthwyol iawn i'r gweinidog, Mr. Hugh Evans, tra y bu fyw. Yr oedd yn pregethu yn achlysurol. Ystyrid ef yn ddyn defnyddiol a chymmeradwy yn ei gymmydogaeth. Cafodd weled llawer o erlidigaeth yn achos ei grefydd yn ei oes. Bu farw yn 1673, a chladdwyd ef ym mynwent Nantmel. Yr oedd mor wrthwynebol i gydymffurfio yn farw ac yn fyw, fel y gorchymmynodd iddo gael ei gladdu â'i ben yng ngwrthwyneb i'r beddau ereill! a rhoddwyd careg ar ei fedd, a llafn o bres ar ei chanol, ar yr hwn, gyda'i enw, yr oedd deg llinell Seisonig, a'r llythrenau cyntaf ym mhob llinell yn gwneyd ei enw. Yr oedd yn rhaid ei fod o deulu uchel, pan y rhoddid y fath gareg gostus ar ei fedd.†

8. ¶ ‘British and Outlandish Prophecies: most of above 1000 years Antiquity, the rest very Ancient, Foretelling the several Revolutions which hath and shall befall the scepter of England; the Coming in of the Normans, Continuance and Extirpations; the late Warrs; the late Kings death; his Highness's Conquest and arrival to the Scepter, Sovereigntie and Government of Great Brittain, and most of the great Princes of the world by their particular names; and that his Highness that now is shall Conquer most of them. Also, His Highness's lineal descent from the antient Princes of Brittain, clearly manifesting that Hee is the Conquerour they so long prophesied of. Also, a short account of the late King's Original; published in Welsh and English for the satisfaction of the Intelligent in either Tongue. By Thomas Pugh, Gentleman.

London printed by Lodwick Lloyd, at his Shop next to the Castle in Corn Hill, 1658.' [4to.]

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, t. 109, 110; Brooks's *History of the Puritans*, vol. iii. p. 293.

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, t. 110.

Seisonaeg yw y llyfr hwn gan mwyaf, ac o hono ef y cafodd yr hynafiaethydd hwnw, Iolo Morganwg, un o awdlau y 'Coronog Fab' sydd yn gyhoeddedig yn y *Iolo MSS.** Mynegiad Cymraeg a Seisonaeg am flinderau y Siarliaid ydyw, medd Angharad Llwyd.†

9. ¶ 'Prophwydoliaethau Myrddin.'

10. 'Lexicon Tetraglotton, An English-French-Italian-Spanish Dictionary, Wherunto is adjoined a large Nomenclature of the proper Terms (in all the fovvr) belonging to several Arts, and Sciences, to Recreations, to Professions both Liberal and Mechanick, &c. Divided to Fiftie two Sections; With another Volume of the Choicest Proverbs in all the Sayed Tounes, (consisting of divers compleat Tomes) and the English translated into the other Three, to take off the reproach which useth to be cast upon Her, that She is but barren in this point, and those Proverbs She hath, are but flat and empty: Moreover, Ther are sundry familiar Letters and Verses running all in Proverbs, with a particular Tome of the British, or old Cambrian Sayed-Sawes and Adages, which the Author thought fit to annex hereunto, and make Intelligible, for their great Antiquity and Weight: Lastly, there are five Centuries of New Sayings, which, in tract of Time, may serve for Proverbs to Posterity. By the Labours, and Lucubrations of James Howell, Esq. *Senesco, non Segnesco.*

London, Printed by Thomas Leach,' [1659,‡ folio.]

Y mae i'r rhan Gymreig o'r llyfr mawr a chywrain hwn, ragddalen arall, â'r darn neu y dosbarth hwnw yn cael rhifo ei dudalenau wrtho ei hun:—'Diharebion Cymraeg, VVedu ei cyfieithu yn Saisoneg. British, or old Cambrian Proverbs, and Cymraecan Adages, never Englished, (and divers never published) before.' Y mae yr 'Epistle Dedicatory' yn gyflwynedig 'to the Right Honorable, (My most endeered Lord) Richard Earl of Carbery, &c. At His Palace in Golden-Grove;' ac wedi ei amseru 'London 4° Idus Martii, 1658,' gan yr awdwr 'Jam. Howell;' ac un arall tra chywrain, 'To the Knowving Reder;' ac 'A Letter to the Author from a worthy Gentleman, who supplied him with som British Proverbs,' gan 'Richard Owen,' a'i amseru 'Eltham in Kent, Aug. 20. 1657.'

11. 'Rhan o waith Mr, Rees Prichard, Vicar Llanymddyfri.'

Dywedir, mewn nodiad ar y diwedd, dyddiedig 'Tach. 1658,' gan

* *Iolo MSS.* 279.

† A. Llwyd's *History of Mona*, p. 180.

‡ [Nid wyf yn gwbl sicr am y flwyddyn sydd ar dudalen *cyntaf* y llyfr amrywiog a thra dyddorol hwn, gan fod y dyddiad yn fy nghyfargraff i wedi ei ruglo ymaith; ond 1659 sydd ar yr holl dudalenau enwol ereill, o'r rhai y mae amryw yn y llyfr, ac yr wyf yn tybied mai 1659 sydd ar yr un *cyntaf* hefyd; ac os felly, y mae wedi ei gynanseru o flwyddyn yn y gofres hon.]

H. M., diwygiwr y wasg, fod hwn y *trydydd* argraffiad, neu ei fod y drydedd ran : nis gall hyny fod, os nad yr un yw hwn â'r un a roddir yn 1670. Rhyw un rhan o bedair ydyw o waith y Ficar.

12. ¶ 'The very curious Act of Parliament issued during Richard Cromwell's Protectorate, for taking the Accompts and Redressing concerning the Tythes and Church Livings in Wales, and Co. of Monmouth. Printed for the Parliament. 1658.'

1659.

1. ¶ 'Diarhebion Cymreig, wedi eu cyfieithu gan James Howel.'

Llundain. Unplyg

[Nid yw hwn ddim amgen na darn neu gyfran o'r 'Lexicon Tetraglotton,' sef y rhif 10, a gofnodir d.f. 1658. Hwn yw yr unig ddarn Cymraeg sydd yn y gwaith hwnw. Cynnwys 48 o dudalenau. Os ystyrir ef yn waith gwahanredol, ni ddylasid ei gofnodi fel rhan o'r Geirlyfr Pedrieithiog; ac os ystyrir ef (yr hyn ydyw mewn gwirionedd) megys rhan o hwnw, ni ddylasid ei osod ef i lawr ar ei ben ei hun. Heb hwn nid oes dim perthynas rhwng y Geirlyfr a Chymru neu Gymraeg; ac amlwg yw na ddylasid cofnodi yr un gwaith ddwywaith. Hyd yr wyf yn deall, ni chyhoeddwyd mo'r 'Diharebion Cymraeg' ar eu pen eu hunain.]

Yr ydys yn cymmeryd yn ganiataol* mai JAMES HOWEL y llythyrwr ydoedd yr uchod, yr hwn a anwyd yng Nghefn y Bryn, ym mhlwyf Llangammarch, yn sir Frycheiniog, yn 1594, lle yr oedd ei dad, Thomas Howel, yn gurad o'r fl. 1576 i 1631, pan y cafodd Gynwil Elfed, yn sir Gaerfyrddin. Cafodd Howel ei ddysgeidiaeth yn Henffordd a Rhydychain, a chymmerodd radd B.C. Teithiodd lawer ar y Cyfandir, a gwasanaethodd fel ysgrifenydd i Iarll Caerlyr, pan yn Denmarc, fel llysgenad ac ysgrifenydd y llywodraeth, a charcharwyd ef am ei wastraff y pryd hyny. Cynnaliodd ei hun, ar ei waith yn ysgrifenu yn benaf, yn amser Cromwel; ond pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd, efe a gafodd y swydd o Hanesydd Breninol, h.y., i groniclo ysgrifeniadau y llywodraeth, yr hyn a fwynhaodd hyd 1666, pan y bu farw. Enwir tua thrigain o lyfrau o bob math o'i eiddo gan Wood. Mae yn debyg mai yr un a enwir uchod yn Gymraeg yw yr un a enwir gan Wood fel hyn, 'Proverbs; or, old sayed sawes and adages in English, or the Saxon tongue, Italian, French, and Spanish: Whereunto the British, for their great antiquity and weight are added.'†

2. ¶ 'Gair mewn pryd i gyfarwyddo i Gymru i adnabod y wir (hen) ffordd o Addoliad (Duw).

Printiedig yn Llundain gan G. Dawson,‡ ac a werthir yn ei shop ef dan y tri Bibl, yn ymul Pauls.'

* [Y mae hyny tu hwnt i bob ammheuaeth. Cymh. rhif 11, d.f. 1644.]

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 165-169.

‡ Gall fod y Dawson hwn yn rhyw berthynas i Joseph Dawson, yr hwn a drowyd o'i weinidogaeth o Gapel Eglwysig Thornton, yn Sir Gaerefrog, ar ddyfodiad Siarl II. i'r orsedd.—Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. iii. p. 452.

3. ¶ 'Nad yw Gweddi Gyffredin yn wasanaeth dwyfol.'

4. 'The Testimony of VWilliam Erbury, left upon Record for the Saints of Succeeding Ages. Being a Collection of the Writings of the aforesaid Author, for the benefit of Posterity. Whereupon is added The Honest Heretick, being his Tryal at Westminster.'

London, 1659.

Y mae yn cynnwys 23 o draethodau. Y mae rhai ereill yn y Gywreinfia Brydeinig.

4. ¶ 'Articles of Impeachment of transcendant Crimes, Injuries, Misdemeanors, and high breach of Trust committed by Col. Philip Jones, exhibited by Mr. Bledry Morgan, with Col. Jones' Answer. 1659.'

5. ¶ 'Legend of Captain Jones.'

Yr awdwr ydoedd y Dr. DAVID LLOYD, deon Llanelwy. Ganed ef yn y Berth Lwyd, yn mhlwyf Llanidloes, yn 1598. Derbyniwyd ef i Goleg yr Holl Eneidiau, yn Rhydychain, pan yn 14 oed. Daeth wedi hyny yn gymmrawd o'r coleg hwnw, a chymmerodd ei raddau yn y gyfraith leyg. Yn 1642 gwnaed ef yn Ebrwyad Llanfair Dyffryn Clwyd, ac yn Wardain Ysgol Ramadegol Rhuthyn, ac yr oedd ar un pryd yn dal prebenduriaeth yng Nghaerlleon. Yr oedd hefyd yn Gapelwr i Iarll Derby. Cafodd Ddeoniaeth Llanelwy gan yr Esgob Griffith. Dywedir y cyfansoddodd y 'Legend' uchod ar 'Awdl Richard Sion Greulon,' neu Richard ab Sion, gan Sion Tudur. Bu farw Gorphenaf 23, 1696, a chladdwyd ef yn Llan Sant Ffraid, sir Drefaldwyn.*

6. 'Records of some persecutions inflicted upon some of the Servants of the Lord in South Wales, with the sufferings of many for not paying Tithes, not coming to the Steeple Houses, &c., also the fruits of some of the priests who are called Ministers of the Gospel in South Wales and Pembrookshire, by F. Gawler. 1659.' 4to.

7. 'Perfect life of the Son of God vindicated, also an arrow shot out of Zion against Babylon and her Merchants, among whom is Vaviseur Powell, pleading for Sin in a dispute at Knighton, in Radnorshire. By Morgan Watkins. 1659.'

* Williams's *Eminent Welshmen*; Wood's *Athen. Oxon.*; Brown Willis's *St. Asaph; Y Brython*, 1860, t. 443. [Yn ol yr *Eminent Welshmen*, ar y 7fed o Fedi, 1663, y bu farw; ac yn ol yr un awdurdod, yn 1656 y cyhoeddwyd y 'Legend of Captain Jones' gyntaf. Ceir 'Awdl Rhisiart Sion Greulon,' o waith Sion Tudur, yn *Y Brython*, i. 215.]

8. ¶ ‘Articles of High Treason made and Enacted by the late Half-Quarter Usurping Convention, and now presented to Publick View for general satisfaction, of all true Englishmen, with a Petition, or Remonstrance, from the Shentlemen of Wales, to their good Worships, together with Trotters Journey-man on his Amble to the Gallows.

Imprinted for Erasmus Thorogood, and are to be sold at the Signe of the Roasted Rump. 1659.’

Gwaith gwawdlyd y breninoliaid yn erbyn y weriniaeth ydyw.

9. ¶ ‘Articles of Impeachment of Transcendent Crimes, Injuries, Misdemaenors, Oppressions, and high breach of trust committed by Col. Phil. Jones, exhibited by Mr. Bledry Morgan, with Col. Phil. Jones’s Answer. Printed in the year 1659.’

Yn gyfrinachol y cafodd ei argraffu. Yr oedd Cromwel wedi marw yn ddiweddar, ac yr oedd pobl yn dechreu meddwl pa fodd y gwneid o hyn allan. Buasai y Milwriad Philip Jones dros ddeng mlynedd y dyn mwyaf yn Neheudir Cymru. Y mae pob math o gyhuddiadau yn cael eu dwyn yma yn ei erbyn. Y mae pobl Caerfyrddin, Morganwg, Mynwy, Brycheiniog, Maesyfed, ac Aberteifi yn dyfod â chyhuddiadau hynod yn ei erbyn. Rhoir enwau cannoedd o Gymry enwog y dyddiau hyny.

[Yr un yn ddiau yw hwn â rhif 4, dan y flwyddyn hon.]

1660.

1. ¶ ‘Cowir a ffyddlawn ateb i Lyfr a enwir ychydig Gyfarwyddiadau i’r Cymru yn erbyn y Cyfeiliorni sydd ym mysg y bobl a elwir Cwacers, yn yr hon y mae yr awdwr di henw yn dangos i ysbryd maleusus a chenfigenus yn erbyn pobl Dduw. Gyda gwahoddiad i’r Cymru truaïn fel y byddo ydynt uno goleini Crist oddimewn uddynt, a rhodio yntho. Oddiwrthim ni, y rhai mae y byd drygionus mewn gwawd yn i galw Cwacers. Chandler*, & Crook,† & Rondl Davies, & Evans. Llundain.’ 12plyg.

* Cafodd un Thomas Chandler ei droi allan o Eglwys Hoydon Mount, yn Essees, pan ddaeth Siarl II. i’r orsedd; a bu iddo fab o’r enw Samuel, yr hwn oedd y gweinidog ymneillduedig cyntaf yn Ffareham, ac wedi hyny yn Andover, yn sir Hamp. Yr oedd hefyd un arall o’r enw John Chandler, yr hwn a ordeiniwyd yn ol dull y Presbyteriaid, cyn adferiad Siarl II, ac a gafodd fywoliaeth Petto, gan yr Esgob Reynolds, heb ei ail ordeinio. Yr oedd yr esgob ar y cyntaf yn anfoddlawn i ganiatáu ei gymmeryd i’r weinidogaeth heb ei ordeinio, i’r hyn yr oedd gan Mr. C. wrthwynebiad; ond o’r diwedd dywedodd fod Mr. Chandler yn gystal gweinidog eisoes ag y gallasai ef ei wneyd, gan ddywedyd wrtho yntau y gallai fyned a phregethu yr efengyl yn Petto. Efe a ddarllenai ryw ranau o’r Llyfr Gweddî Gyffredin, a gwisgai y wenwisg ambell waith; ond nid arferai yr holl seremonïau, am yr hyn y bygythid ef weithiau, ond ni chafodd ei erlid.—Palmer’s *Calamy’s Nonconformists’ Memorial*, vol. ii. pp. 220, 221, 229.

† Cafodd un John Crook, A.C., ei droi o Gapel Denby, ym mhlwyf Peniston, yn sir Gaerefrog, ar ddyfodiad Siarl II. i’r orsedd.—Palmer’s *Calamy’s Noncon. Mem.* vol. iii. p. 436.

Dyna fel y rhydd Moses Williams ystyr y llyfr hwn. Dichon mai ateb ydoedd i 'Cyfarwyddyd i'r Cymro.*' Dichon hefyd mai gwaith 'Rondl Davies,' person Meifod, ydoedd, am yr hwn y rhoddir ychwaneg eto.

2. ¶ 'Extract of Mr. Bushel's Abridgement.' †

3. 'Some sober inspections made unto the Cariage and Consults of the late Long Parliament, with some Prophetic Paragraphs. London, 1660.' 12mo.

Dywedir mai yr awdwr ydoedd un J. Howell, o Gydweli, yn sir Gaerfyrddin.

4. ¶ 'Welsh Proverbs, extracted from Miscellanies at the end of Howell's Lexicon Tetraglotton, 1660.

5. ¶ 'Battledore. By G. Fox. 1660.'

[Y rhif 10, d.f. 1658, a'r rhif 1, dan y flwyddyn 1659, ydyw hwn; ac anffawd cofnodi yr un argraffiad deirgwaith.]

Y mae gwyneb-ddalen y rhan Gymraeg o'r llyfr hwn fel hyn:—

'Rhau Samplau yn y Iaith Gymraig yngeilch y girie Ti a Dy di:

Yn dangos yn gyntaf

Yn gyfatebol i'r Scrythyrau yn dangos pafodd I darfu I Duw Christ, ar saintie arfaru ddywedid Ti a didi wrth un din yn unig pwu bynag; ac Chwi neu Hwchwi wrth llawer, neu mwy nag un.

Yn aile, Y maie yma rhau Samplau, yn gyfatebol I rheol y Grammar Cymraig, ym pa un yr Yscholhegion, Firiadau, Profswur, ar poble, sin ddywedid chwi, a Hwchwi wrth un din yr unig, nwu a allan weled pafodd y maint gwedi gwurdroi ac yn cyfeiliorni oddi wrth I rheol Profesedig I hinain, y Scrythyrau, ar Grammar

Yn y goloui yr
hwn y goleuodd Christ
chwi chedwch yntho
mal y galloch adnabod
yr eneniad ich dyscu.'

6. 'A Display of Heraldrie: Manifesting a more easie access to the knowledge thereof then hath hitherto been published by any, through the benefit of Method; Wherein it is now reduced by the Study and Industry of John Guillim late Persuivant at Armes. Interlaced with much variety of History, suitable to the severall Occasions or Subjects. The fourth Edition. Corrected and much enlarged by the Author himself in his life time. Together with his own Addition of explaining the terms of Hawking and Hunting, for the use of Gentlemen. And now to this fourth Edition are

* Gwel rhif 3, d.f. 1657.

† Gwel rhif d.f. 1, 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649.

added about three hundred new Coats and Bearings of eminent Families, in their proper Sections, never before inserted. And also a true Register of the Blazons of all the Knights of the Garter, from the first Installment to the last: And also of all the Baronets from their first Creation to the last. Faithfully collected by Francis Nover, Arms-Printer (and Student in Heraldry) in Bartholomew Lane, London.

London, Printed by T. R. for Richard Blome. 1660.*

7. ¶ 'The Mystery of the Good Old Cause, &c. 1660.'

Hanesion hynod am yr aelodau hyny o'r Senedd Hir, a gymmerasent y Llw a'r Cyfammod, yn dangos y cyfoeth a'r elw mawr oedd-ynt yn ei wneyd, er eu bod yn proffesu hunan-ymwadiad. Gwawd ydyw o'r crefyddwyr Puritanaidd Cymreig, gan roddi amrai chwedlau am danynt.

1661.

1. 'Ystyriaethau Drexelius ar Dragywyddoldeb. Gwedi ei gyfieithu yn gyntaf yn Saesonaeg gan Dr. R. Winterton, ac yr awrhon yn Gymraeg gan Elis Lewis, o'r Llwyn-gwern, yn sir Feirion, Wr-bonheddig.

Printiedig yn Rhydychen gan Hen. Hall,† tros Rich. Davies, ac a werthir yn ei shop ef yn heol St. Mair, yn ymul Oriel Col. 1661.'

Telpyn o lyfr bychan ydyw, 32plyg,‡ o tua 404 o dudalenau. Mae yn ei ragflaenu, fel agos yr holl hen lyfrau, englynion o anerchiad i'r llyfr, y cyfieithydd, a'r darlennydd, gan Elis Anwyl, Gruffydd a Wiliam Phylip, ac Edward Morris; y rhai a ystyrir yn feirdd enwog yn yr oes hono. Dywedir un amgylchiad hynod cysylltedig â'r llyfr hwn yn Seisonaeg. Darfu i lyfrwerthydd yn Llundain, yn amser y Frenines Ann, gyhoeddi argraffiad mawr o hono, a chan nad oedd galw am dano cyfatebol i'r draul, daeth i anhawsderau yn ei amgylchiadau bydol. Adroddodd ei gwyn wrth Daniel De Foe, awdwr *Hanes Robinson Crusoe*. Tybiodd y cyhoeddwr, pe gellid cael hanes ysbryd wedi cyfodi oddi wrth y meirw, i'w gydio, fel attodiad iddo, y gallasai werthu yn dda. Yn ebrwydd,

* Gwel rhif 2, d.f. 1611.

† Yr oedd amryw o'r enw Hall yn y weinidogaeth yn amser Cromwel, y rhai a drowyd allan pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd. Gwel Palmer's *Calamy's Non-conformists*, *Memorials*, yn ol y Ddangoseg; a gall fod cangen o deulu rhyw un o honynt wedi ymgymmyd â'r gelyddydd o argraffu, yr hyn oedd yn beth tra chyffredin. Argraffodd yr H. Hall hwn argraffiad o'r Testament Newydd yn yr iaith Dyraeg, o dan nawdd yr Anrhydeddus Robert Boyle.—Timplerley's *Dictionary*.

‡ [Ei faintioli yw 24plyg. Cynnwys corff y gwaith 377 o dudalenau, ac ar y tudalen olaf o hono dywedir—'Ar Dragywyddoldeb nid oes un TERFYN.' Yna y canlyn tudalen o gamargraffiadau, a 14 tudalen o weddiau, ar ddiwedd y rhai ceir y gair 'Terfyn;' a llenwa y rhaglitholion 36 o dudalenau; y cyfan yn 428.]

cipiodd De Foe yr awgrym, ac anfonodd iddo, ym mhen ychydig ddyddiau,—‘The True History of the Apparition of one Mrs. Viel;’ yr hyn a atebodd y pwrpas; canys, aed ymaith â’r llyfrau yn ebrwydd gyda gwanc; a byth er hyny y mae galw am y llyfr yn Seisonaeg, fel y mae tros hanner cant o argraffiadau wedi eu gwerthu, trwy fod miloedd yn credu yr hanes fel gwirionedd, er nad yw y cwbl ond ffug-hanes, o waith De Foe.*

2. ¶ ‘Drych Cydwybod, sef modd cymmwys a ffrwythlawn i ddwyn pob math ar ddyn i gael gwybodaeth o’i bechodau, a megis ei gweled ger bron ei lygaid, gan ddangos iddo pa fodd i gwneiff ei Cyffes i’w Dad enaid, a’r modd i gael meddyginiaeth am danynt.’ 12plyg.

3. ¶ ‘Bref Narrative of V. Powell. By Himself.’†

Dyry A. Wood hwn yn 1671, o dan yr enw—‘’Tis a canting and enthusiastic piece:’ h.y. ‘dernyn o ffregod benboeth ydyw.’‡

4. ‘Cambria Trivmphans, or Brittain in its Perfect Lustre. Shevving the Origen and Antiquity of that Illustrious Nation. The Succession of their Kings and Princes, from the first, to King Charles of Happy Memory. The Description of the Countrey: The History of the Antient and Moderne Estate. The Manner of the Investure of the Princes, with the Coats of Arms of the Nobility. By Percy Enderbie, Gent.

London, printed for Andrew Crooke, and are to be sold at the Green Dragon in St. Paul’s Church-yard. 1661.’ Folio.

Rhoddyd allan argraffiad o hwn mor ddiweddar a’r fl. 1812.§ Dywedir i Enderbie wneyd ei waith yn wael iawn, yn ddim ond casgliadau o awdwyr diweddar. Yr oedd yn enedigol o neu ger Lincoln, ond wedi priodi merch i Syr Edward Morgan o Lantarnam, yn sir Fynwy, ac felly daeth i afael â rhyw ysgrifeniadau yn yr hen lyfrfa yno, y rhai, trwy gymhelliad rhai boneddigion, a gyhoeddodd ef o dan yr enw uchod, heb fod ganddo yr wybodaeth am Gymru ag oedd angenrheidiol i’r fath orchwyl. Bu farw yn neu ger Caerlleon ar Wysg, yn sir Fynwy, yn Ebrill, 1670.

* *Daniel De Foe*, by Foster, 1855. [Yn ol hanesion ereill, i hwylusu gwerthiad ‘Dreincourt on Death’ y gwnaeth De Foe y cast hwn.—Gwel *Anecdotes of Books and Authors*, t. 53.]

† Yn ol *Hanes y Bedyddwyr*, lle y dyfynir o hono.

‡ Wood’s *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 347.

§ [Yn 1810 yr ymddangosodd yr ail argraffiad. Adargraffwyd ef mewn dwy gyfrol unplyg, air a llythyren fel yr argraffiad cyntaf, yr hwn oedd wedi myned yn hynod iawn o brin.]

5. 'A History of the Civil Wars of Great Britain and Ireland. By J. D. 1661.'*

Yr awdwr ydoedd JOHN DAVIES, yr hwn oedd yn fab i William Davies, o Gydweli, sir Gaerfyrddin, a'r hwn a gafodd ei ddysg yn Rhydychain a Chaergrawnt. Dygwyd ef i fyny yn Bresbyteriaid yno. Bu yn trigiannu am beth amser yn Ffrainc, yng nghymdeithas un John Hall, o Durham, lle y dysgodd iaith y genedl hono yn dda, a phan ddaeth yn ol, defnyddiodd ei amser yn cyfieithu gweithiau o'r Ffrancaeg i'r Seisonaeg. Gwnaed ef yn Gofiadur Cydweli; ac yn y lle hwnw y bu farw, Gorphenaf 22, 1693.†

6. 'The Sphere of Gentry: Deduced from the Principles of Natvre, an Historical and Genealogical Work, of Armes and Blazons; In Four Books, Entituled

The	{	(Gentlemen, Esqvire, Knight, King,)	{	Adams Shield, Josephs Coat, Vulcan & Minerva, Fountain & Honour,)	}	Nobility	{	(Native, Dative, Achieved, Created,)
-----	---	--	---	---	---	----------	---	---

In which is contained, The

Genealogies of the Patriarchs and Heroes, Standards of the Jews, Hieroglyphicks of the Egyptians,	}	(Symbols of the Grecians, Antiquities of the Jews, Armes and Ensignes of the English Nation:)
--	---	--

Accommodated with lively Cutts on Copper, as well for Aarons Brestplate as Ariadne's Crown, drawn down to King Charles II. By Sylvanus Morgan.

London, Printed by William Leybourn, for the Author, living at the City Coat, on the back side of the Royall Exchange. 1661.'

Silvanus Morgan ydoedd Baentiwr Peisiau Arfau. Efe a gyhoeddodd lyfr o'r enw 'Armilogia,' ryw bum mlynedd ar ol hwn. Efe a anwyd yn 1620, ac a fu farw yn 1693, yn 73 oed.‡

7. 'The Fall of Man declared, One Warning more. 1661.'

Enwr yr awdwr oedd Thomas Kent, o Dinbych, yn sir Benfro. Yr oedd yn y carchar y pryd hyn am ei egwyddorion, ac y mae yn galw ei hun yn 'Prisoner in outward bond.' Un o'r Crynwyr ydoedd.

1662.

1. ¶ 'Trefn Ymarweddiad y Gwir Gristion, neu Lwybr hyffordd i'r Cymro i rodio arno beunydd gyda Duw. Gan Edward Wynn, D.D.' Llundain, 1662. 8plyg.

* *Gent. Mag.* July, 1715, p. 560.

† Wood's *Athen. Oxon.*; Williams's *Eminent Welshmen*.

‡ Meyrick's *Introduction to Dwnn's Heraldry*, vol. i. p. xii.

Y Dr. EDWARD WYNN, ydoedd fab i Edward Wynn, Yswain, o Fodewryd, yn sir Fon, a Margaret, merch R. Morgan, esgob Bangor. Cafodd ei ddysg yng Nghaergrawnt, lle y cyrhaeddodd y radd o A.C. Yn 1644, cafodd bersoniaeth Llan ym Mawddwy, yn sir Feirionydd, gan ei ewythr, yr Esgob Owen. Wedi yr Adferiad gwnaed ef yn berson Llanarmon, ger Pwllheli, yn sir Gaernarfon, a Llangeinwen, yn sir Fon. Tua'r fl. 1661, cymmerodd y radd o D.D. Gwnaed ef hefyd yn berson Llanllechid, yn sir Gaernarfon, ac yn 1663, yn ganon yn Llanelwy, ac yn ganghellydd ym Mangor. Yn 1668 cafodd bersoniaeth Llaneugrad, Mon. Bu farw Rhag. 17, 1669, a chladdwyd ef yn Llangaffo. Sefydlodd ysgol yng Nghaer-gybi; rhoes 50*p.* i addurno eglwys gadeiriol Bangor, a 100*p.* er cynnal clasgedog o 6*p.* yn y flwyddyn yng Ngholeg Iesu, yng Nghaer-grawnt.*

2. 'British Antiquities Revived; or friendly contest touching ye sovereignty of the three Princes of Wales in antient times, managed with certain arguments, whereunto answers are applied. By Robert Vaughan, Esq. To which is added the pedigree of the Right Hon. the Earl of Carbery, Lord President of Wales, with a short account of the Five Royal Tribes of Cambria. By the same Author. Oxford, 1662.' 4to.†

ROBERT VAUGHAN ydoedd fab hynaf Howel Vaughan, Yswain, o Hengwrt, ger Dolgellau, yn sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn 1592, disgynyddion yr hwn oedd y diweddar Syr Robert Williames Vaughan, o Nannau, Hengwrt, Rug, a Gwengraig; canys y mae (neu yr oedd) cynnifer a hyna o etifeddiaethau teuluaid, wedi dyfod yn un yn bresennol, heb law yr etifeddiaethau yn sir Gaernarfon. Aeth i Rydychain yn 1612, pan yn ugain oed, o'r lle yr ymadawodd cyn derbyn graddau. Gan fod ganddo etifeddiaeth fawr, efe a dreuliodd ei amser mewn ymchwiliaethau hynafiaethol Brytanaidd. Yr oedd yn ymohebu ag enwogion ei oes ag oedd o'r un chwaeth, megys yr Archesgob Usher, Syr S. D'Ewes, Selden, a hynafiaethwyr enwog ereill. Ni chyhoeddwyd ond ychydig o'i weithiau. Y mae 'Hanes sir Feirionydd' o'i eiddo yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*, a rhai o'i lythyrau yn yr ail gyfrol. Bu farw yn Hengwrt, yn 1666.‡

2. ¶ 'A brief Narrative of the former Propagation, and late Restriction of the Gospel in Wales.'

3. 'The Bird in the Cage, Chirping Four distinct Notes to his comfort abroad. i. Of Consideration, Counsel, and Consolation.'

* Wood's *Athen. Oxon.*; *Brown Willis*; Williams's *Eminent Welshmen*.

† Yr oedd yn gwerthu am 1*p.* 11*s.* 6*c.*

‡ Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 257; *Cambrian Register*; Williams's *Eminent Welshmen*. [Ceir cofiant lled gryno am Robert Vaughan, yng *Ngwaith Gwallter Mechain*, ii. 426.] Ail gyhoeddwyd y gwaith hwn yn y ganrif bresennol. [Argraffwyd ef yn y Bala, yn 1834, 4plyg.]

ii. Some Experiences and Observations gathered in Affliction, and first intended only for private use. iii. The Lamentations of Jeremiah, in the ordinary measure of singing Psalms. iv. A true Christians Spiritual Pilgrimage, setting forth his afflicted and consolatory state in another Metre. And as Preface hereto, an Epistle to the Welsh Churches, and a brief Narrative of the former Propagation, and late Restriction of the Gospel, (and the true Preachers and Professors thereof) in Wales. And a short Vindication of the Author and others, from the Calumniation of their Adversaries concerning the same. The Second Edition corrected and enlarged. London, Printed for L. C. at the next shop to Pope's Head Alley, and the West side in Cornhill. 1662.'

4. 'Memorials of Ray.'

Cynnwysa y rhai hyn ei deithiau yng Ngwynedd, gyda'i gyfaill Willoughby, yn dechreu yn Northampton, Mai 8, 1662, trwy Gaerleon i Ddinbych, i Fangor; Mai 20, i ben Carnedd Llewelyn; Mai 22, i Ynys Seiriol; Mai 24, i Landdwyn; 26, i Lanberis, a Bedd Gelert; 27, i'r Wyddfa, a Chlynnog; 29, i Ynys Enlli; a'r 31, i Harlech. Taith i chwilio am blanigion a llyisiau nodedig oedd hon.

5. ¶ 'A Book of the Names of all the Parishes in England and Wales. 1662.'

6. ¶ 'Considerations and Reasons against Reviving the Act entitled, "An Act for the Better Propagation and Preaching of the Gospel in Wales and Redresse of some Grievances there.' 4to.

Nid oes enw lle nac amseriad wrth hwn.

1663.

1. ¶ 'A Description of Wales, by Sir John Price, published by Thomas Ellis, with Mr. Robert Vaughan of Hengwrt's Notes. Oxford, Printed 1663.' 4to.

Math o ail argraffiad diwygiedig ydyw o lyfrau Syr John Price;* ond mor wahanol i'r eiddo hwnw, fel na feddyliai neb ei fod yr un.† Nid argraffwyd ond 128 o dudalenau o hono. Dywed Edward Jones, 'Bardd y Tywysog,' mai argraffiad newydd ydoedd o 'Powel's History of Wales.'‡ Yr oedd Robert Vaughan o Hengwrt, wedi bwriadu cyhoeddi gwaith Powel, gyda gwelliadau a chwangediadau; ac efe a roddodd ei baprau i law Mr. Ellis, ei gymmydog. Yr achos pa ham y darfu iddo adael y gwaith yn anorphenol ydoedd,

* Gwel rhif 1, 2, 3, d.f. 1568.

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. p. 74.

‡ Gwel d.f. 1514.

meddir, i Percy Enderbie gyhoeddi yr eiddo ef—'Cambrian Triumphant,'* a'i fod wedi defnyddio y defnyddiau ag y bwriadai Ellis eu defnyddio, ag oedd wedi eu casglu tuag at ei lyfr. Gwerthwyd yr holl lenau, oddi eithr ychydig iawn, yn bapyr diwerth, fel ag y mae yn anhawdd iawn cael gafael ar un o honynt. Am

THOMAS ELLIS, mab ydoedd i Griffith Ellis, o Ddolbenmaen, yn Eifionydd, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1625. Yn bymtheg oed aeth i Rydychain, a chyrhaeddodd ei B.C. yn 1644. Yr oedd yno yn amser y gwrthryfel cartrefol, a chymmerodd arfau ym mhhlaid y brenin. Cyrhaeddodd wedi hyny ei A.C., gwnaed ef yn gymmrawd o'i goleg, ac ymostyngodd i gydnabod y weriniaeth. Ar farwolaeth ei gâr, y Dr. John Ellis, person Dolgellau, yr hwn oedd yntau yn ysgolhaig ac awdwr enwog amrai lyfrau, cafodd y lle hwnw. Bu farw yn Nolbenmaen yn 1673.†

2. 'The Valiant Welshman, or the true Chronicle History of the Life and Valiant Deeds of Caradoc the Great King of Cambria, now called Wales, as it hath been sundry times acted by the Prince of Wales his Servants. Written by R. A. Gent.

London, Printed for William Gilbertson at the Bible without Newgate. 1663.' [4plyg bychan.]

Enw yr awdwr yn llawn ydoedd Robert Armin.

3. ¶ 'Ichabod, or Five Groans of the Church: Prudently Foreseeing and Passionately Bewailing Her Second Fall, threatned by five dangerous, though undiscerned Miscariages. 1663.'

Traethu y mae am gydio bywoliaethau plwyfol, urddiadau, llygr-edigaeth yr offeiriad, a byw o'u plwyfau. Rhoddir rhestr o'r amrywiol blwyfau yng Nghymru lle yr oedd gweinidogion yn dal bywoliaethau, ond heb fyw yn, nag yn agos i'w heglwysi. Yr oedd 143 o'r fath yn sir Forganwg, 26 yn sir Fynwy, 23 yn sir Benfro, a 17 yn sir Frycheiniog, &c.

1664.

1. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynneddfau a Ceremoniau ereill yr Eglwys, yn ol arfer Eglwys Loegr, ynghyd a'r Psallwyr neu Psalmau Dafydd.

A Brintiwyd yn Llundain gan S. Dover, tros Edward Ffowks, a Pheter Bodwel. MDCCLXIV.' [4plyg.]‡

Yr oedd yn gyssylltedig â hwn:—

'Psallwyr neu Psalmau Dafydd, ar ol Cyfieithiad y Bibl Mawr; wedi eu Pwyntio fel y maent i'w canu, neu i'w dywedyd mewn Eglwysau.

* Gwel rhif 4, d.f. 1661.

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 248, 249; Williams's *Eminent Welshmen.*

‡ [Yn y llythyren ddu y mae; ac y mae pob adran o hono yn dechreu â llythyren fawr addurnog.]

Argraphwyd yn Llundain, tros Edward Fowks, MDCLXIV.*

Llyfr gweddi mawr unplyg [4plyg] i'r 'Eglwysau' ydoedd hwn. Cafodd S. Dover, yr argraffydd, yng nghyd â John Twyn, Thos. Brewster, llyfrwerthydd, a Nathan Brooks, llyfrwerthydd, eu profi yn euog a'u condemnio o blegid argraffu a chyhoeddi llyfrynau 'Cabledus a Maleisus.' Caed Twyn yn argraffu yn Cloth Fair ar hyd y nos; a chafodd ei grogi, ei chwarteru, a chodi ei ben uwch Porth Lludd.

2. ¶ 'Articlau. Y Namyn un deugain Articlau Grefydd. O gyfieithiad J. D. SS. T. P.' 4plyg.†

Y Dr. Davies o Fallwyd ydoedd y cyfieithydd uchod.

3. ¶ '—— ac unfurfiad Thomas Jones.' 8plyg.‡

Dichon mai nid y flwyddyn hon y cyhoeddwyd yr Erthyglau yr ail waith, eithr rywbryd o hyn i'r flwyddyn 1710, pryd y cyhoeddwyd hwynt y drydedd waith wrthynt eu hunain. Dywedir rhywfaint am Thomas Jones mewn lle arall.

4. ¶ 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol yn gynnwysedig mewn Catechism Byr.'

Catecism y Gymmanfa Bresbyteraidd yw y llyfr uchod, yn gyfrol fechan 18plyg, yn cynnwys 74 tudalen. Y mae yn gyssylltedig yr A. B. C., Credo St. Athanasius, a Chredo Nicea. Hefyd 'Articlau neu Byngciau,' sef Erthyglau Eglwys Loegr, 'wedi eu cyfieithu yn Gymraeg gan J. D., S. T. P.'† Ar ol y Catecism, y mae yr hysbysiad canlynol yn y ddwy iaith:—'*The impression of this Book was chiefly done at the charge of Mrs. M. Crowther, an English Gentlewoman; and not a little favoured by Mr. Caleb D'Avenant, a Wigornian.*' 'Argraphiad y llyfr hwn a ddibenwyd yn benaf ar Draul, neu Gôst, Mrs. M. Crowther, Saesnes Foneddig: Ac hefyd drwy helaeth gydroddiad Mr. Caleb D'Avenant o Gaerfrangon.' Yna y canlyn pedwar englyn o 'Fawl i'r rhai uchod am eu haelioni,' ac wrthynt, '*John Rhydderch a'i cânt.*' Rhwng y 'Credoau' a'r 'Erthyglau' y mae tudalen yn cynnwys yr ymadrodd Lladinaidd i'r perwyl hyn:—'Dyma gyfieithiad Cymreig o Erthyglau Ffydd a Chrefydd a dderbyniwyd yn unfrydol yn Eglwys Loegr, ac wedi cymharu yn ofalus a'r argraffiadau Lladinaidd a Seisonig, gan Geo. Llanelwy.' Y 'George' hwn ydoedd y Dr. George Griffith, esgob Llanelwy. Gwelir fod erthyglau y Presbyteriaid ac erthyglau

* [Ymddengys mai dyma y tro cyntaf i'r gair 'argraphwyd' gael ei arferedig ar lyfrau Cymraeg; 'printio' ac 'imprintio' yr oeddid o'r blaen; a gwelir mai ei 'brintio' a gafodd y rhan flaenaf o'r llyfr hwn; ond 'argraphwyd' y 'Psallwyr,' fel y tystio y cyfargraff sy ger fy mron. Cyfieithwyd rhif 4, d.f. 1658 o'r 'trydydd argraffiad yn Seisonaeg,' ond 'printiedig,' nid argraphedig, yw y gwaith Cymreig er hyny. Nid yw amlwg a yw y gair 'argraphwyd' yn arferedig ar ragddalen rhif 7, d.f. 1658.]

† Yn ol Moses Williams [*Cofrestr*, rhif 5.]

‡ Gwel rhif 2.

Eglwys Loegr, wedi eu cyhoeddi yn un llyfr trwy awdurdod yr eglwyswyr. Y mae yn briodol mynegu ym mhellach fod y Catecism wedi ei ddsbarthu yn 30 o ddsbarthiadau, yn ol dyddiau y mis, fel y Salmau ym Meiblau yr Eglwys. Dywed Mr. D. Peter,* ar ol Palmer, mai Mr. William Jones, o sir Feirionydd, a'i cyfieithodd, er nad ymddengys hynny oddi wrth y llyfr ei hunan; ond dywed Williams mai James Owen a gyfieithodd Gatecism y Gymmanfa, gan drefnu y gofyniadau yn ol rhifedi yr wythnosau yn y flwyddyn.† Ef allai er hynny mai ag argraffiad arall y gwnaeth Mr. Owen hynny, gan fod yn hwn yr holiadau yn ol rhifedi dyddiau y mis, ac nid yn ol rhifedi dyddiau y flwyddyn. Bu Wm. Jones, yr hwn oedd enedigol o sir Feirionydd, am beth amser yn cadw yr Ysgol Ramadegol yn Rhuthyn; ac wedi hynny symmudodd i Ddinbych, lle y dewiswyd ef yn gapelwr i'r Llywodraethwr Twistleton; a thua'r fl. 1648, daeth yn weinidog y plwyf. Darfu i weithred yr Unffurfiad ei wthio o'r Eglwys, a Gweithred y Pum Milltir ei yru o'r dref, a chafodd noddfa gan y Treforiaid, yn y Plas Teg, sir Fflint, gan roddi iddo werth ugain punt y flwyddyn o dir at ei gynnalïaeth. Dyoddefodd unwaith dri mis o garchar am gynnal gweddi deulu-aidd yn nhy gwr boneddig, lle y llettyai. Symmudodd i Estyn, lle y bu farw mewn oedran teg, yn 1679.‡

5. 'A Display of Heraldry: manifesting a more easie access to the knowledge thereof then hath hitherto been published by any, through the benefit of Method; Whereinto it is now reduced by the Study and Industry of John Guillim late Pursuivant at Armes. Interlaced with much variety of History, suitable to the several Occasions or Subjects. The fifth Edition. Corrected and much enlarged by the Author himself in his life time: Together with his own Addition of explaining the Terms of Hawking and Hunting. And to the fifth Edition were added about four hundred new Coats, and Bearings, in their proper Sections, never before inserted. As also a true Register of the Blazons of all the Knights of the Garter, from their first Installment: And also of the Baronets, from their first Creation to the last, which were made by King Charles the First. And to this fifth Edition many offensive Coats (to the Loyal Party) are exploded: With a supply of his Majestys Friends: As also the Names and Coats of Armes of the Knights of the Garter, Knights Baronets, and Knights of the Bath: Together with the Atchievements at large of most of the Nobility which were made by King Charles the Second.

* *Hanes Crefydd yng Nghymru.*

† *Biographical Dictionary of Eminent Welshmen.*

‡ Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*, t. 554, 555. [*Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 303.]

London, Printed by T. R. for Jacob Blome, and are to be sold by John Williams at the Crown, and Joshua Kirton at the Kings Armes in St. Pauls Church-yard; Humphrey Tuckey at the Black Spread-Eagle, and Francis Tyton at the Three Daggers in Fleet-street. 1664.*

1668.

1. ¶ 'Memories of the Lives, Actions, Sufferings, and Deaths of those Noble, Reverend and Excellent Personages, that Suffered by death, sequestration, decimation or otherwise for the Protestant Religion, and the great principles thereof, Alliance to their Sovereigne in our late intestine Wars, from the year 1637 to the year 1666, with the Life & Martyrdom of King Charles I. By Da: Lloyd, A.M. sometime of Oriel College in Oxon.

London; MDCLXVIII.†

DAVID LLOYD ydoedd fab Hugh Llwyd, o'r Pant Mawr, ym mhlwyf Trawsfynydd, Meirionydd, ac a anwyd yn 1635. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Rhuthyn, o'r lle yr aeth i Goleg Oriel, Rhydychain. Yn 1658, cafodd bersoniaeth Ibston, ger Rhydychain, a bu hefyd yn Ddarllenydd yn y Siartrws, Llundain. Dychwelodd i Gymru, pan y cafodd ficeriaeth Llan Sant Ffraid ym Mechain, sir Drefaldwyn, canoniaeth yn Llanelwy, a'i benodi yn gapelwr i'r Dr. Isaac Barrow, yr esgob, yn 1670. Yn 1671, cafodd ficeriaeth Abergele, a phersoniaeth Llanddulas, yn 1672; y rhai a gyfnewidiodd yn 1677 am ficeriaeth Laneurgain, yn sir Fflint, a phrebenduriaeth yn Llanelwy. Ymddengys hefyd iddo fod ryw bryd yn dal personiaeth Llansannan. Heb law yr uchod, efe a gyhoeddodd:— 'Wonders no Miracles, London, 1666;' 'Church Worthies; Or, the the Lives of the Right Reverend Arch-bishops, the Reverend Bishops, Doctors, and eminent Divines since the Reformation;' 'State Worthies; being Observations on the States-men and Favorites of England since the Reformation; their Prudence and Policies, Successes, and Miscarriages, Advancements and Falls, during the Reigns of King Henry VIII, King Edward VI, Queen Mary, Queen Elizabeth, King James, and King Charles I.'‡

[1669.

1. 'Poems by the most deservedly Admired Mrs. Katherine Philips, the Matchless Orinda. To which is added Monsiev'r Corneille's

Pompey }
& } Tragedies.
Horace, }

With several other Translations out of French.

* Gwel rhif 2, d.f. 1611; a rhif 6, d.f. 1660.

† Theo. Jones's *History of Breconshire*, lle y mae cryn lawer am yr awdwr hwn.

‡ Williams's *Eminent Welshmen*; and *MS. penes me.*

London, Printed by J. M. for H. Herringman, at the Signe of the Blew Anchor in Lower Walk of the New Exchange, 1669.'

CATHERIN PHILIPS (*Orinda*) ydoedd ferch John Ffowler, o Bucklebury, yn swydd Berc, un o fasnachwyr Llundain; a dywedir gan rai ysgrifenywyr ei geni hi yn swydd Frycheiniog, a chan ereill, ym mhlwyf St. Mari Woolnoth yn Llundain. Nid ymddengys fod un teulu o'r enw Ffowler ym Mrycheiniog o gylch yr amser dan sylw; ond yr oedd yn byw yn Abbey Cwm Hir, yn swydd Faesyfed, o gylch y fl. 1680, foneddwr o'r enw Sir Richard Ffowler; yr hwn y coffeir am dano yn yr hen rigwm canlynol:—

'Alas! alas! poor Radnorshire!
Never a park, nor ever a deer,
Nor ever a squire of five hundred a year,
Save Sir Richard Fowler of Abbey Cwm Hir.'

A hwyrach mai un o gyfathrach y marchog neu y barwnig hwnw ydoedd Orinda. Pa fodd bynag am hyn, cafodd ei bedyddio yn y plwyf a nodwyd, yn Llundain, ar yr 11fed o Ionawr, 1631. Dygwyd hi i fyny yn egwyddorion yr Henaduriaid; ond nid hir y bu heb eu gadael, ac ymuno â'r Eglwys y bedyddiasid hi ynddi. Yn 1647, ymbriododd â James Philips, o'r Priordy, Aberteifi. Y llythyr diweddaf a ysgrifennodd ydoedd ym mis Mai, 1664. Buan ar ol hyny, tra ydoedd yn aros yn Llundain, cymmerwyd hi yn glaf o'r frech wen, o'r hon y bu farw, yn y 33fed flwyddyn o'i hoedran, a chladdwyd hi ger llaw Eglwys St. Bennet, yn y Ddinas.]*

1670.

1. 'Allwydd neu Agoriad Paradwys i'r Cymrv. Hynny yw Gweddiau, Devotionau, Cynghorion, ac Athrawiaethau tra duwiol ac angenrheidiol i bôb Christian yn mynnu agoryd y Porth a myned i mewn i'r Nef. Wedi eu cynnull o amryw lyfrau duwiol, a'i cyfieithu yn Gymraeg: neu wedi eu cyfansoddi, gan I. H.

Yn Lvyck. Imprintiwyd yn y Flwyddyn M DC LXX.' [12plyg bychan.]

Llyfr Defosiynau, neu *Missal* Pabaidd, yn Gymraeg a Lladin yn gyfochrog, yw hwn, yn 478 o dudalenau 12plyg, ac wedi ei ysgrifenu mewn iaith eglur a da. Y mae yr uch-linellau a'r prif eiriau mewn llythyrenau cochion. Tebyg mai gwr o'r Deheudir ydoedd y casglydd, canys efe a'i cyflwynna,—'At fy anwyl Frodyr a'm Chwiorydd a'm Ceraint eraill ffyddlon yn-Gwent a Brecheinoc.' Ac wrth gyn-lythyrenau ei enw 'I. H.' y mae yn debyg mai un o'r Havardiaid o Ddefynog, ydoedd; gan fod teuluoedd Cymreig yno o'r cyfenw hwnw trwy yr oesoedd, ac eto, yn ymlynu wrth y grefydd Babaid; ac un o'honynt yn wastadol yn yr offeiriadaeth. Y mae ei fod yn anerch ei 'Geraint,' yn 'Gwent a Brecheinoc,' yn brawf cadarnhaol o hyn.† Y lle a elwir '*Lvyck*' y dywedir argraffu y llyfr yno, yw *Liège*, yn nheyrnas bresennol Belgium, medd y Parch. D. S. Evans; a dywed un arall, '*Lvyck*,' neu '*Luick*,' a '*Liege city, the capital of the bishoprick of Liege.*'‡ Y mae y Parch. D. S.

* *Y Brython*, iv. 327.

† James Havard oedd enw diweddar offeiriad Pabaidd Aberhonddu, a'i nai o'r un enw, ac o'r un teulu, yw offeiriad Pabaidd presennol Caerfyrddin.

‡ Moræen's *Geography*, a Salmon's *Gazetteer*.

Evans, oddi ar y dyb mai yn *Liege*, yn Belgium, yr argraffwyd y llyfr, yn gwneyd sylwadau ag y mae genyf yr hyfrydwch o'u cof-nodi:—'Dichon mai ym mhrifysgol Babaidd y dref hòno y derbyniodd y cyfeithydd ei ddsgeidiaeth, a bod ganddo, mewn canlyniad, gryn adnabyddiaeth yno, ac mai hyny a barodd iddo fyned yno i argraffu ei lyfr. Yr oedd y rhan fwyaf o'r offeiriaid Pabaidd yn y wlad hon, yn derbyn eu dysg yn yr oes hòno yn Lwfaen, yn Dowai, neu yn y Coleg Seisonig yn Rhufain. Y mae Liège a Lwfaen yn yr un deyrnas, ac nid yn neppell iawn oddi wrth eu gilydd; a chan hyny nis gallaf ganfod un rheswm pa ham nas gallasai llawer o'r wlad hon fod yn cael eu dysgeidiaeth yno hefyd. Ac heb law hyny, cafodd amryw o lyfrau Pabaidd yn y Wyddeleg eu hargraffu yn Lwfaen yn yr oes hòno; megys y, 'Scathan an Chrabhuigh' (=Drych y Crefyddol), 1616; 'O' Clery's Vocabulary,' 1643; 'Parthas an Anna' (=Paradwys yr Enaid), 1645. Cafodd 'Lochran an Chreidmheach' (=Catecism) y Tad O'Molloy, ei argraffu yn Rhufain, yn 1676; a'r 'Teagasg Criosdaidhe' (=Yr Athrawiaeth Gristionogol), gwaith Bonaventur O'Heoghasa, yn Antwerp, yn 1618. Felly yr oedd argraffu llyfrau Pabaidd, o ba iaith bynag y byddent, yn beth cyffredin ar y cyfandir yn yr 16fed a'r 17fed ganrif. Argraffwyd Gramadeg y Dr. Gr. Roberts, fel y bernir, ym Milan, ac y mae yn hysbys i dri neu bedwar o lyfrau Rosier Smith gael eu hargraffu yn Paris.*

[Mewn ychydig iawn o fanau y mae Gymraeg a'r Lladin yn gyfochrog, ond yn Gymraeg y mae agos y cyfan o'r llyfr. Y peth hynotaf a berthyn iddo fel cyfansoddiad llenyddol yw, y llythyrenir ac y seinir y geiriau Lladin ynddo ar ddull y Gymraeg; sef, yn gyffredin, arferir *f* yn lle *v*, *w* yn lle *u*, a *ç* yn lle *c*, pan y dygwyddo sefyll o flaen *e*, *i*, ac *y*. A ganlyn yw gwedd y Pader ynddo:—

'Pater noster, qui es in cœlis: sanctificetwr nomen twwm: adveniat regnum twwm: fiat solwntas twa, sicwt in cœlo & in terra. Panem nostrwm quotidianwm da nobis hodie: & dimitte nobis debita nostra, sicwt & nos dimittimws debitoribws nostris: Et ne nos indwcas in tentationem, sed libera nos a malo. Amen.'

Gan fod y llyfr yn bur anghyffredin, hwyrach na byddai cynllun arall o hono yn annyddorol. Saif y Credo yn y ffurf ganlynol:—

'Credo in Dewm patrem omnipotentem; creatorem cœli & terræ. Et in Jeswm Christwm, filiwm eiws wnicwm, Dominwm nostrwm: qui conceptws est de Spiritw Sancto, natws ex Maria Firgine, passws sub Pontio Pilato, crucifixws, mortwys, & sepwltws: descendit ad inferos: tertia die reswrexit a mortwis: ascendit ad cœlos, sedet ad dexteram Dei Patris omnipotentis: inde fentwrs est iwdicare fïfos & mortwos. Credo in Spiritwm Sanctwm, Sanctam Ecclesiam Catholicam, Sanctorwm commwnionem, remissionem peccatorwm, carnis reswreccionem, fitam aternam. Amen.'

O herwydd diofalwch yr argraffydd, neu ryw achos arall, gwelir nad yw yr awdwr ym mhob gair yn gwbl gysson ag ef ei hun.

Nid oes dadl nad yn y dref a elwir yn yr Isdiraeg *Luik* neu *Luyk*, yn yr Almaeneg *Lüttich*, ac yn y Ffrancaeg *Liège*, yn nheyrnas bresennol Belgium, yr argraffwyd y llyfr hwn. Saif y dref hon mewn talaeth o'r un enw, mewn dyffryn hyfryd rhwng dau fryn, ar lan yr afon Maas; a chynnwys yng nghylch trigain mil o drigolion. Y mae yn sedd un o brifysgolion y wlad, ond nid wyf sier fod ei phrifysgol wedi ei sylfaen yn yr amser dan ystyriaeth.

* *Llythyr* y Parch. Dan. Sil. Evans.

Cynnwys y llyfr 528 o dudalenau, o'r rhai y llenwa corff y gwaith 478; y rhagymadrodd, y Calaniadur, a phethau arweiniol ereill, 24; ac ar y diwedd, gwneir i fyny 26 gan gynnwysiad; gwallau y wasg; 'taflan o ymbell eiriau a arferwyd ymma, y rhai nid ydynt nemmor sathredic yn rhyw fannau o Gymru, gyda'i hystyr mewn geiriau mwy cyffredin;' yma, anereh at y 'Cymro Mwynlan,' yn cynnwys nodiad, yn Seisoneg, ar y dull y dylai y Cymry seinio yr iaith Ladin, sef, ym marn yr awdwr, fel eu hiaith eu hun, ac nid yn ol arfer y Seison. Ceir yn y Calaniadur sydd yn blaenori y gwaith enwau llawer iawn o'r Saint Cymreig; a llythyrenir enw y seintiau ereill mewn dull tra chydreddol ag anian y Gymraeg. Y mae nodeb yr Iesuaid ar y tudalen cyntaf, sef I. H. S., gyda chroes uwch ben yr H ac yn gyssylltedig â hi. Gan na cheir ond cyn-lythyrenau enw yr awdwr, nis gellir dywedyd gyda dim sicrwydd pwy ydoedd. Tybia ein hawdwr, fel y canfyddir, mai un o *Havardaiad* Brycheiniog ydoedd; ond yr unig Gymro o'r Iesuaid yn cyfateb i'r cyn-lythyrenau (I. H.) a gofnodir gan y Dr. Oliver ym mhlith offeiriad ac awduron yr urdd hono ydyw—'JOHN HUMPHREYS, of Wales, died in England 14 March, 1676, æt. 66. Rel. 37.'

Y mae rhai o linellau gwyneb y llyfr, ac mewn manau ereill ynddo, yn *gochion*; ond y mae yn beth hynod i'w nodi mai gosod y cyfryw linellau a geiriau a wnaed â'r llaw, yn gyffelyb i'r modd y gosodir nod llythyrdy ar lythyr, wedi argraffu y cyfryw fanau â'r llythyrenau duon yn y dull cyffredin; canys gwelir y llinellau a'r geiriau cochion yn fynych yn ymwithio ar draws y llinellau duon, ac mewn rhan yn eu gorchuddio. Y mae aneglurdeb y llythyrenau cochion hefyd, y rhai yn gyffredin sydd yn llawn oll o inc, yn goleu-fyngygu yr un peth.

Y mae gan y golygydd gyfargraff amherffaith o'r gwaith hwn; ond y mae un cwbl gyflawn yn llyfrgell Penmaen Dyfi, ger Machynlleth; ac y mae (neu o leiaf yr oedd) un o honynt yng Nghwm Cynfelyn, ger Aberystwyth. Y mae y llyfr hwn yn un o'r ychydig o lyfrau Cymraeg a argraffwyd ar Gyfandir Ewrop, a'r unig un fel yr ymddengys, a argraffwyd yn yr Îseldiroedd, oni chyfrifwn ni argraffiad Boeshorn o Eiriadur Cymraeg a Lladin y Dr. Davies, yr hwn a ymddangosodd yn Amsterdam, yn un arall. Gweler rhif 1, d.f. 1632, a rhif 4, d.f. 1654.]

2. ¶ 'Y Drydedd Ran o waith Mr. Rees Prichard, gynt Ficar Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin, gŷda Llythyr at Plwyfolion Lladdyfri, Llanfair ar Brin, a Llanedi yn sir Gaerfyrddin, a Llythyr at y Cymru a ddarllenant y Llyfr hwn, ynghyd ag Ymholiad beunyddiol o waith Usher, a'r lleill o waith S. Bernard.'

Llundain. 8plyg.

Yr oedd dwy ran o'r gwaith hwn wedi eu cyhoeddi o'r blaen, yn neu tua 1646; ond o blegid caethiwo rhyddid y wasg, ni chyhoeddwyd ychwaneg hyd y flwyddyn hon, pan y cafwyd caniatâd i wneyd hyn y trwy y Dr. W. Thomas, deon Caerwrangon.* Y mae iddo gyflwyniad a rhagymadrodd gan Stephan Hughes.

3. ¶ 'Articles of Agreement and subscription betwⁿ his Highness Prince Rupert and divers Noble and Hon^{ble} Persons and others, undertakers for working of Mines Royal in the counties of Cardigan and Merioneth in the Principality of Wales.'†

4. ¶ 'Y Grefydd Gristionogol.'‡

* Gwel rhif 1, d.f. 1646. [Cymharer rhif 11, d.f. 1658.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; a rhif 2, d.f. 1660.

‡ Yn ol Mr. B. Davies.

5. 'State-Worthies: or, the States-men and Favourites of England since the Reformation, their Prudence and Policies, Successes and Misscarriages, Advancements and Falls, during the Reigns of King Henry VIII, King Edward VI, and Queen Mary, Queen Elizabeth, King James, King and Charles I. The Second Edition with Additions.

London, Printed by Thomas Milbourne for Samuel Speed, in Thread-needle-street neer the Royal Exchange. 1670.'

Y mae yr 'Epistle to the Reader' gan 'David Lloyd.' [Gweler rhif 1, d.f. 1668.]

1671.

1. 'Y Ffydd Ddi-ffwant. Adroddiad o Helynt y Grefydd Gristianogol er dechreuad y byd hyd yr oes hon, a phrofiad oi gwirionedd a'i rhinwedd. The unfeigned Faith. Containing a briefe History of the Christian Religion from the beginning of the World to this present Age, and a prooffe of its veritie and efficacie. Yr ailprintiad gyd ag anghwanegiad.

Printiedig yn Rhydychen gan Hen: Hall, ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam a Llanfyllin: a chan Mr. Gor' [y ddalen yn ddrylliog] 'yn Ghaer-Fyrddyn, a Mr. Vertue yn Abergavenny, ac ymhen y bont ar ogwr. 1671.'

Dywedir, a chredir yn gyffredinol i'r awdwr Cymreig enwog hwn [CHARLES EDWARDS] gael ei eni yn Rhyd y Croesau, ym mhlwyf Llansilin, yn sir Ddinbych. Myn rhai iddo gael ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, ac ei fod yn y weinidogaeth. Y mae yn ddiâu ei fod mewn bri gan enwogion a swyddwyr y Brifysgol yno; canys y mae 'Imprimatur' o'r eiddynt wrth rai o'i lyfrau, ac yno hefyd yr argreffid rhai o honynt. Ymddengys ei fod yn treulio ei amser gan mwyaf yno a Llundain, yn golygu ei lyfrau, canys y mae ei 'Anerchiadau,' a'i 'Ragymadroddion,' yn cael eu hamseru yno. Y mae yn ofidus nas gellid cael hanes manylach am dano. Ymddengys mai disgynyddion y teulu yw Edwards, o'r Great Ness, ger Croesoswallt.*

2. 'Y Bibl Cyssegr-lan; sef yr Hen Destament a'r Newydd. Llundain.'

Beibl bychan wythplyg ydoedd hwn hefyd. Rhoddwyd hwn allan trwy Thos. Gouge a Stephan Hughes. Y rhif oedd tua 6000 o gopïau.

* *Traethodydd, Ion.* 1852 [*Traethodau Llenyddol* y Dr. Lewis Edwards, t. 190]; Blaen-gofiant i'r *Y Ffydd Ddi-ffwant*, 1822, gan y diweddar Barch. Peter Williams, D.D., Llanbedrog. Yr oedd cares i Charles Edwards, yn byw yn Lledrod, ym mhlwyf Llansilin, yr hon a fu farw yn 1664, ac un arall o'r enw Lowri. [Daeth argraffiad tlws o 'Hanes y Ffydd' allan yng Nghaerfyrddin yn 1856, Splyg; ond gresyn ei fod yn dilyn, mewn llawer o fanau, argraffiad *cyfnewidiedig* y Dr. P. Williams, yn lle cymmeryd y gwaith megys y gadawodd ei awdwr ef. 'Dylai'r hen lyfrau gael aros fel yr ysgrifenydd hwynt.']

3. 'Visitation of Pembrokeshire, with arms blazoned and pedigrees. London, printed by John Winter. 1671.'

Nid argraffwyd ond yr wyneb-ddalen, y rhagymadrodd, a'r arweiniad i mewn. Yr oedd corff y llyfr mewn llawysgrif yn ddiweddar ym meddiant neu yn llyfrfa Humphrey Cheetham, ym Manchester.

4. 'DadSeiniad Meibion y Daran. Sef ail-printiad o Lyfr Escob Juel a elwir Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr; Ac o Epistol yr Escob Dafies at y Cembru. An Echo of the Sons of Thunder Being a Second impression of Bishop Juel's Apologie, and of Bishop Davies his Epistle, in the British tongue.

Printiedig yn Rhydychen gan W. H. ac a werthir gan lyfrwyr Gwrecsam, a Llanfyllin, a mersiandwyr Pen y bont ar ogwr. 1671.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, os nad yn ychwaneg.* Ymddengys mai Mr. Charles Edwards ydoedd y golygwr a'r cyhoeddwr.

[Llofnodir yr anerch 'At y Darllenydd' gan 'Charles Edwardes', a dyddir ef—'Rhydychen Mis Rhagfyr 31. 1670.' Y mae y llyfr, oddi eithr y rhanau arweiniol, Epistol yr Esgob Davies, a'r enwau priod, oll yn y llythyren ddu. Cynnwys y gwaith 252 o dudalenau Splyg bychan, yng nghyd â 22 o ragarweinolion=274.]

5. 'The Life and Death of Mr. Vavasor Powell, that Faithful Minister and Confessor of Jesus Christ. Wherein his Eminent Conversion, Laborious, Successful Ministry, Excellent Conversation, Confession of Faith, Worthy Sayings, Choice Experience, Various Sufferings, and other Remarkable Passages, in his Life, and at his Death, are faithfully Recorded for Public benefit. With some Elogies and Epitaphs by his Friends.

Printed in the year MDCLXXI.'

6. ¶ 'Welch Traveller, or the Unfortunate Welchman, in verse. 1671.'

Y 'Welch Traveller' uchod ydoedd Humphrey Crouch. Yr oedd y gwaith mewn llawysgrifen yn unig hyd 1860, pryd y cyhoeddwyd argraffiad bychan o 30 cyfargraff gan argraffwasg Chiswick.

7. 'Visitation of Pembrokeshire, with arms blazoned and pedigrees.'

Cyfrol o lawysgrifau yw hon, sydd yn y *Cheetham Library*, Manchester (rhif 6715, yno). Y mae yn gyfrol unplyg. Y mae achlen pob teulu yn sir Benfro ar ben uchaf y tudalenau, ac is law pob un y mae achau y teulu, gyda digon o le i'w ddwyn ym mlaen am gannoedd o flynyddau. Y mae iddo ragddalen a rhaglith *argraffedig*,

* Gwel rhif 2, d.f. 1587; rhif 1, d.f. 1594. [Yn briodol 1595. Nid oes rhith dadl nad yr ail argraffiad ydoedd, canys dywedir hyny ar y rhagddalen.]

heb enw awdwr; ond dywed y ragddalen iddo gael ei argraffu gan 'John Winter, London, 1671.'

[Yr un yn ddiau yw rhif 3 a rhif 7.]

8. 'Joannis Audoeni Epigrammata. 1671.'

Argraffiad o Bennillion John Owen.'

1672.

1. ¶ 'Ymholiad beunyddiol. Llundain.' 8plyg.

Ymddengys mai ail argraffiad ydoedd o waith yr Archesgob Usher.*

2. ¶ 'Llyfr y Psalmae [cân a darllen] yng nghyd â'r Testament Newydd. Printiedig yn Llundain. 1672.' 8plyg.

Dywed rhai mai Stephan Hughes, a Thomas Gouge, gyda chyn-northwy y Dr. Thomas, deon Caerwrangon,† a rhai offeiriad yn Neheudir Cymru, a fynasant hwn allan, os nad Beibl y flwyddyn ddiweddfaf hefyd.‡

[Ymddengys yn dra thebyg mai yr un yw argraffiadau 1671 ac 1672, gyda gwyneblen wahanol; canys y mae yn fwy na thebyg na ddaeth allan *ddau* argraffiad o'r Ysgrhythrau mor gyfagos i'w gilydd. Yn yr argraffiad hwn dilynodd S. Hughes yr argraffiad a elwir 'Beibl Cromwel,' gan arfer y llythyren Seisonig *J*, megys y gwneir yn hwnw. Dywed y Parch. T. Charles§ fel y canlyn am yr argraffiad hwn:—'Y mae gofal a diwydrwydd Mr. Stephen Hughes yn ganmoladwy iawn yn diwygio y Bibl Cymraeg o lawer o wallau oedd yn y tri argraffiad blaenorol o'r cyfieithiad presennol; ac y mae, er nad heb rai gwallau eto, mor ddiwall ag un argraffiad a ymddangosodd gwedi hyny, os nid yn fwy. Y mae yr orgraff a'r attaliadau mor addas, os nid yn fwy nag un argraffiad o'r Biblau Cymreig. Dilynodd argraffiad 1654, yn rhoddi y llythyren Seisonigaidd *J* i mewn, yr hon oedd o'r blaen yn ddyeithr i'r iaith Gymraeg.' Cymharer rhif 1, d.f. 1654.]

4. ¶ 'A Sheet in Folio containing some Omissions and Mistakes in the British Translation and Edition of the Bible, appointed to be had and read in the Churches in Wales, to be Supplied and Rectified.'||

5. 'Diarhebion Cymreig a gasglwyd allan o Dictionary Dr. Davies. Llundain.' 8plyg.

6. 'Canwyll y Cymru—yn bedair rhan. Llundain.' 8plyg.

Ail argraffiad.** Dywedir mai Stephan Hughes a'i cyhoeddodd.

7. 'Holl Ddyled-swydd Dyn, Gwedi ei osod ar lawr Mewn modd hynod o Eglur, Defnyddiol i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd

* Gwel rhif 1, d.f. 1639.

† Gwel rhif 5, d.f. 1656.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1671.

§ *Geiriadur Ysgrhythrol*, d.g. 'Bibl.'

|| [Moses Williams, *Cofrestr*, rh. 23.]

** Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1770. Nid ydys yn sicr o hyny.

mwyaf Annyscedig. Gwedi ei ddosparthu i xvii o Bennodau; Y rhai trwy ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, a ddarllenir i gyd trostynt deirgwaith yn y Flwyddyn. Angenrheidiol i bob Teuluoedd. Ynghyd a Dwywolder Neillduol ar amryw Achosion. A gyfieithwyd yn Gymro-aeg gan J. Langford, A.M.

London, Printed for R. Royston, Bookseller to the King's Most Excellent Majesty. 1672.'

Y mae hefyd wyneb-ddalen i'r

'Duwiolder Neillduol ar amryw Achosion, yn gystal Cyffredinol ac Anghyffredinol. London, Printed for R. Royston. 1672.'

Richard Royston, y cyhoeddydd hwn, ydoedd feistr Cwmpeini y Safwerthwyr yn 1673 a 1674. Yr oedd yn llwyddiannus iawn yn ei fasnach, a gadawodd yn ei ewyllys rodd i'r tlodion, a gwerth mawr o addurniadau arian i'r Safwerthwyr. Bu farw yn 1686, a chladdwyd ef yn Eglwys Crist, Heol Newgat, lle y mae y cerfiad hwn i'w goffadwriaeth (yn Seisonaeg):—'Richard Royston, llyfrwerthydd i dri o freninoedd, a fu farw 1686, yn yr 86 mlwydd o'i oed.* Y cyfieithydd,

JOHN LANGFFORD, a anwyd yn Rhuthyn. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Crist, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei B.C., Chwefror 28, 1659. Yr oedd yn dal lleoedd eglwysig yng Nghymru. Dywedir mai ar draul T. Gouge y cyhoeddwyd y gwaith.

8. ¶ 'The Life and Death of Mr. Vavasor Powell.'

9. 'Practica Walliæ, or the proceedings of the great Sessions of Wales, concerning the method and practice of an Attorney there, from an original to the execution. Whereunto is added the old Statute of Wales at large; and an abridgment of all the Statutes uniting Wales to England, with tables of the fees, and the matters therein contained. By Rice Vaughan, late of Grey's Inn, Esq. London, 1672.' 12mo.

1674.

1. 'Remains Concerning Britain: their Languages, Names, Surnames, Allusions, Anagrams, Armories, Monies, Impresses, Apparel, Artillerie, Wise Speeches, Proverbs, Poesies, Epitaphs. Written by William Camden, Esquire, Clarenceux King of Arms, Surnamed the Learned. The Seventh Impression, much amended, with many rare Antiquities never before Imprinted. By the Industry and Care of John Philipot, Somerset Herald: and W. D. Gent.

* Timperley's *Dictionary*.

London, Printed for, and sold by, Charles Harper at the Flower de Luce over against St. Dunstan's Church, and John Amery at the Peacock over against Fetter Lane, both in Fleetstreet. 1674.'

1675.

1. 'Hyfforddiadau Cristionogol. Yn dangos Pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd. A osodwyd allan yn Saesonaec, Gan Thos. Gouge, Gweinidog yr efengyl, ac yn Gamberaec gan Richard Jones, o Ddinbech.

Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr. 1675.'

Crybwyllwyd o'r blaen am R. Jones.* 'Diwygiwr y print-wasg' oedd Charles Edwards. Cyhoeddodd T. Gouge y llyfr hwn ar ei draul ei hun, gan geisio Cymro cyfarwydd i'w droi i'r Gymraeg.

Am THOMAS GOUGE, mab ydoedd i'r Dr. William Gouge, yr hwn a fuasai yn weinidog *Blackfriars*, Llundain, chwech mlynedd a deugain, ac a fuasai farw yn 1653. Ganwyd y mab Medi 19, 1605. Dygwyd ef i fyny yn Ysgol Eton, a dewiswyd ef i Goleg y Brenin, Caergrawnt, yn 1626. Cafodd fywoliaeth eglwysig yn Surrey, yr hon a ddaliodd chwech mlynedd, a symmudodd i St. Sepulchre, Llundain, lle y parhaodd i gyflawnu dyledswyddau y weinidogaeth hyd 1662, pan y rhoes ei fywoliaeth i fyny, am na allai gydymffurfio â rhai pethau yn yr Eglwys, ond parhaodd yn aelod ffyddlaw'n o'r Eglwys, tra y gadewid iddo; ond o blegid y troai allan i bregethu gyda'r Anghydfurfwyr, er bod ganddo drwydded i wneyd hyny, ac yn cymuno yn yr Eglwys ar droion, cafodd ei ysgymuno. Yn 1674, gyda'r Dr. Tillotson ac ereill, efe a ffurfiodd gymdeithas wirfoddol i ledaenu addysg yng Nghymru, ac i ledaenu yr Ysgrythyrau, y Llyfr Gweddi Gyffredin, a llyfrau da ereill, yn yr iaith Gymraeg. Y gorchwyl cyntaf a wnaethant oedd prynu 2000 o gopiau o'r 'Ymarfer o Dduwioldeb,' † a gawsant wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, a rhai miloedd o lyfrau ereill, megys 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' ‡ a 'Chatecism yr Eglwys,' i'w rhoddi yn rhad i deuluoedd tlodion yng Nghymru. § Cyn diwedd y flwyddyn hon, dywedir fod deuddeg ar hugain o Feiblau Cymraeg ||—yr hyn oll a gafwyd yng Nghymru a Llundain—dau gant a deugain o Destamentau Cymraeg, ** a phum cant o 'Holl Ddyledswydd Dyn,' †† wedi cael eu rhoddi i dlodion Cymru, a fedrent ddarllen Cymraeg. Mynodd argraffu wyth mil o Feiblau, mil o ba rai a roddodd i'r tlodion; ac anfonodd y saith mil arall i drefwyr penaf Cymru, i'w gwerthu am

* Gwel rhif 1, d.f. 1655.

† Rhif 2, d.f. 1656.

‡ Rhif 4, d.f. 1664.

§ Sir Thomas Phillips's *Wales*.

|| Rhif 2, d.f. 1671.

** Rhif 3, d.f. 1672.

†† Rhif 7, d.f. 1672.

bris rhesymol. Dywedir nad oedd ganddo ond 150*p.* yn y flwyddyn, a'i fod yn rhoddi 100*p.* o hyny bob blwyddyn mewn elusenau crefyddol; ac yr oedd yn eu cyfyngu y naw neu ddeng mlynedd diweddaf o'i fywyd, agos oll i Gymru. Arferai deithio i Gymru, pan dros drigain oed, i ddosbarthu ei elusenau ei hun, ac ereill,—i weinidogion llafurus, trallodedig, ac angenus. Mynodd sefydlu o dri i bedwar cant o ysgolion, i ddysgu plant i ddarllen, ac ymrwymai dalu ei hun am ddysgeidiaeth cant o blant. Gorphenodd ei yrfa yn ddedwydd,* a thraddodwyd pregeth angladdol iddo gan y Dr. Tillotson, archesgob Caergaint.

2. ¶ 'Traethawd Byrr yn erbyn meddwdod, aflendid, ofer-dyngu, a chelwydd.'

3. 'Profiad yr Ysrydion, neu Ddatcuddiad Gau Athrawon, a Rhybudd i'w gochelyd. Neu Draethawd byrr ar 1 S^t. Jo. 4. 1. O waith Rondl Davies Meistr yn y Celfyddydau, a Ficar Meifod. Ym mha un y Datcuddir drwy oleini Gair Duw, Esboniedig gan hynafiaeth, fod amryw athrawiaethau y Pabistiaid, y Presbyteriaid, yr Independentiaid, a'r Cwacceriaid, yn anghysson â'r Yserythyr Lân, ac o herwydd hynny i'w gochelyd gan bob dyn sydd yn caru Iechyd-wriaeth ei enaid.

Rhydychen Printiedig gan H. Hall. ym mlwyddyn yr Arglwydd 1675. [16plyg.]†

Y mae y llyfr hynod a hynafol hwn yn cynnwys 237 o dudalennau 12plyg, yng nghyd â llythyr cyflwyniad o bum tudalen, i Edward Vaughan, Ysw., o Lwydiarth. Rhoddwyd ficeriaeth Meifod i RONDL DAVIES, gan yr Esgob George Griffith, yng nghyd â phersoniaeth y Cwm, ger Llanelwy, yn 1661, medd Brown Willis,‡ ond

* *Hanes Crefydd yng Nghymru*, t. 586.

† [Y mae i'r llyfr ddwy ddalen enwol; y gyntaf yn *Seisonog* fel hyn:—'A Tryall of the Spirits, or a Discovery of False Prophets, and a Caveat to beware of them; or a Short Treatise on 1 John iv. 1. Wherein is discovered, by the light of God's Word, expounded by antiquity, that several Doctrines of the Papists, Presbyterians, Independents, and Quakers, are disagreeable to the Holy Scripture, and carefully to be avoided by every man that loves the Salvation of his Soul. *Pro Ecclesia clamitant, et contra Ecclesiam dimicant.* Cypr.']

‡ Ar ei ddiwedd y mae anerechion byrion yn Lladin i'r awdwr, yng nghyd â chanig Ffrengig i'r unrhyw. Cynnwys y gwaith 237 o dudalennau, gyda 14 o raglitholion, a 7 o derfynolion; y cyfan, 258.]

‡ *Survey of St. Asaph* [ii. 268, 393. Nid oes dadl nad oedd Rondl neu Randolph Davies yn ficer Meifod mor gynnar a'r fl. 1648. Cofnoda Cofflyr plwyf Meifod ei briodas ef, megys *ficer* y plwyf ('vicarium hujus parochiæ') â Mari, merch John Williams, offeiriad, ar y degfed o fis Mehefin yn y flwyddyn hono. 'Matrimonium legitimum contrat. fuit inter Randolphum Davies vicarium hujus parochiæ et Mariam filiam Johannis Williams clerici, 10^o die Junii, 1648.' Cymharer *Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 102. Camsyniodd yr awdwr amser bedydd un o'r plant (John) yn lle amser cyflwyniad y tad i'r fywoliaeth.]

yn y flwyddyn 1651,* medd coflyfr Meifod. Y mae y coflyfr yn cynnwys bedyddiadau tri ar ddeg o blant Rondl Davies, y ficer, a Mari ei wraig, o'r flwyddyn 1649 i'r flwyddyn 1666. Bu yn dal y fywoliaeth o leiaf saith a deugain o flynyddau; a bu farw yn 1695.† Tra yr oedd efe yno, yr oedd y Crynwyr yn gwneyd llawer o gynhwrf yn y gymmydogaeth, a llawer o'r plwyfolion wedi uno â hwy. Gyda golwg ar roi attalfa arnynt hwy, ac Ymneillduwyr ereill yr oes hōno, yr ysgrifennodd ac y cyhoeddodd y ficer y llyfr uchod. Tybir hefyd fod ganddo law yng nghyhoeddiad y 'Cowir a ffyddlon ateb i Lyfr a enwir Cyfarwyddiadau i'r Cymru,' 1660,‡ yr hwn sydd ar yr un ddadl. Yr oedd tri o frodyr o'r enwau Charles, Thomas, a Samuel Lloyd (ond bod Samuel yn byw y pryd hyny yn Llundain, ac yn dal rhyw swydd yno§), yn Dolobran, y rhai a goffeidiasant egwyddorion y Crynwyr; a chan eu bod yn feddiannol ar dda y byd hwn, yr oedd eu dylanwad yn fawr. Adeilasant gapel ar eu tir, ger Coed Cawryd, ym mhlwyf Meifod. Aeth Thomas Lloyd i America gyda William Penn. Dywedir fod egwyddorion y Crynwyr, nid yn unig ym mhlwyf y ficer, eithr hefyd yn ei deulu,—fod chwaer i wraig y ficer yn byw ym Mhentref y Gof; ac iddynt un bore Sabbath gyfarfod á'u gilydd ym Mhentref Parog—un yn myned i'r Eglwys, a'r llall yn croesi ei llwybr tua chapel y Crynwyr, yng Nghoed Cawryd, ger Dolobran. Wedi ychydig o eiriau o gyfarchiad, a phob un yn parotoi i fyned ym mlaen, dywedai gwraig y ficer, 'Pe caffech *chwi ras*, fy chwaer anwyl, *chwi* a ddeuech gyda mi.' Yr oedd ateb parod gan y llall:—'Pe bai *genyt ti ras*, *tydi* a ddeuit gyda mi.' Felly yr ymadawsant, i fyned bob un i'w lle addoliad ei hun, a phob un yn uniawn-gred yn ei thyb ei hun.¶

4. 'Yr Ymarfer o Dduwioledeb yn Cyfarvvyddo dŷn i rodio fal y rhyngo ef fodd Duw. Y trydydd preintiad.

Printiedig yn Llvndain gan Tho. Dawks, dros Ph. Chitwin, ac a werthir dan lun y tri Bibl gyferbyn a'r Royal Exchange. 1675.' [8plyg.]*

Thomas Dawks, argraffydd y llyfr uchod, ydoedd argraffydd rhagorol yr oes hōno; ac a anwyd yn Kelmascot, sir Rhydychain, yn 1636, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol y *Merchant Tailors*, Llundain. Bu yn cyssodi Beibl Amleithog Walton o'r fl. 1652 hyd 1657. Digon tebyg ei fod yn rhyw berthynas i Thos. Dawks a drowyd allan o Eglwys St. Michael, Queenhithe, Llundain, o blegid

* [Ni sonir yng nghoflyfr Meifod i Rondl Davies gael ei gyflwyno i'r fywoliaeth hōno yn 1651.]

† [Cofnodir ei gladdedigaeth yn y coflyfr fel hyn:—'Dom. Ranulphus Dauies Cler. de Peniarth, 25^o Feb. 1695.']

‡ Gwel rhif 1. d.f. 1660.

§ *Life of Richard Davies.*

¶ *Cambrian Quarterly Magazine*, vol. i. pp. 325, 396, 440. [*Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 109.]

** Gwel rhif 1, d.f. 1630; a rhif 2, d.f. 1656.

ei anghydfurfiaeth pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd.* Dywedir mai T. Gouge ac S. Hughes oedd y cyhoeddwyr.

Y mae yn ei ddiwedd anerchiad 'Diwygiwr y preintwase at y darlleydd,' yr hwn, tebygir, ydoedd Mr. Charles Edwards, yn yr hwn y dywed:—

'Pan i'm galwyd i ddiwygio'r preintiad yma o'r llyfr hwn mi dybias nad oedd raid imi ond edrych ar iddo gyfatteb yn gywyr i'r llyfrau o'r blaen. Ac felly y dechreuais wneuthur, nes imi wrth fyned ymlaen i holi'r Copi, ddal sulw fod yn angenrheidiol gyfnewid ynddo lawer o bethau; gan fod y darlleniad a'r ystyr yn dywyll, ac yn anghysson mewn llawer o fannau, ac heb gyrhaeddyd ergyd yr Awdwr yn y dafodiaith arall: Ac i'r cyfieithydd gamgymeryd bagad o eiriau Ladingaidd a Groegaidd yn y llyfr Saesonaec, ysydd a rhawdd eu dirnad, ac allent fagu amryfussedd; megys yn y ddalen 41 o'r preintiad cyntaf, lle y cymmerth y gair site yn lle sight, gan ei gyfieithu golwg, yn lle cyflead. Nid yw y fath gamgymeriad mewn rhai geiriau dieithriol achos i feio ar y cyfieithydd a gymerth boen mor llesol i'w wlad yn y gorchwyl hwn, am nad oedd y pryd hynny hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ac ydynt yr awrhon. Y mae gennif barch iw enw ef am y llyfr hwn, ac yn gofus gennif er fy mebyd mor groesawus ydoedd i'r parth lle ganwyd fi. Ond y beiau mwyaf (tebyg cennifi), a ddigwyddasau oddiwrth anghyfarwyddyd y preintwyr Seisnig, y rhai yn gynnefinol a adawant amryw eiriau a liniau hefyd heb eu rhoi i mewn, onid edrychir attynt yn dra-manwl. O herwydd yr achosion rhagddywededig mi roddais gais ar gyffelybu y rhan fwyaf o'r llyfr Cymraeg a'r un Saesneg ynghyd, ac iw gwneuthur i gydgordio, gan roddi i mewn a thynnu allan, a chyfnewid a symud pethau, fal yr oedd yr achos yn gofyn.'

Yr oedd yn ddiau yn orchwyl gofalus—mwy na phe buasid yn ei gyfieithu o newydd yn hollol—ddiwygio gwaith R. Vaughan; canys gwelsom mai cyfieithiad anystwyth iawn ydoedd: a chan fod darllenwyr yr oes hono yn eithaf afrwydd yn y ddysg o ddarllen, prin iawn y gallasant wneyd synwyr a derbyn budd oddi wrth y llyfrau a gyfieithwyd gan R. Vaughan. Dywed y golygydd hwn, fel esgusawd tros afrwydd-der cyfieithiad R. V., nad oedd 'hyfforddiadau i gyfieithu mor gyffredin ag ydynt yr awrhon.' Ond pa hyfforddiadau yn fwy oedd yn y fl. 1675, nag yn y fl. 1620, pan gyfieithwyd y llyfr, neu yn 1630, pan argraffwyd ef gyntaf, neu yn 1656, pan ail argraffwyd ef? Am a wyddys, nid oedd ond y '*Dictionary in Englishe and Welshe, moch necessary to all suche Welshe-men as will spedly learne the Englishe tongue,*' a briodolir i Willyam Salisbury, a maniach ereill yr oes foreuol hono,† y rhai o blegid eu hynafiaeth, oeddynt wedi myned braidd oll o gyrhaedd meddiant erbyn hyn, a'r rhai, fel y cyffredin o weithiau W. Salesbury, oeddynt agos yn ddfudd, o blegid eu hanystwythder. Ac am weithiau y Dr. Davies o Fallwyd, yr oeddynt yn fwy o gynnorthwy i

* Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. i. p. 161.

† Gwel rhif 1, d.f. 1547, 1548; a rhif 1 a 3, d.f. 1555.

gyfieithu o'r Lladin i'r Gymraeg nag o'r Seisonaeg i'r Gymraeg.*

5. ¶ 'Hebraicorum Cambro-Britannicorum Specimen.'

Rhestr o eiriau yw, tebyg i'r rhestr Gembraeg-Hebreig sydd yn niwedd 'Hanes y Ffydd,' gan Charles Edwards, wedi eu hargraffu wrthynt eu hunain, ar ychydig o ddalenau o blygiad hirgul, gyda Rhagymadrodd Lladin, gan 'Carolus Edwardus,'—'*Lond. Decemb. 24. 1675.*'

1676.

1. 'Hanes y Ffydd, gan Charles Edwards. Rhydychen.'

Dyma yr ail argraffiad.† Yr oedd darluniau heirdd o amryw fath o ferthyrododau ynndo, y rhai ni roddwyd gyda'r argraffiad cyntaf, nac argraffiad Dolgellau yn 1811. Dyma yr argraffiad na welodd y Dr. Williams, Llanbedrog, golygydd dysgedig argraffiad Dolgellau yn 1822, mo hono.

2. 'Gair i Bechaduriaid, a Gair i Sainct. Y cyntaf yn tueddu i ddeffroi Cydwybodau Pechaduriaid diofal i wir deimlad ac ystyr-iaeth o'r cyflwr erchyll y maent ynndo, tra fyddont yn byw yn eu cyflwr Naturiol heb Ail-enedigaeth. Yr ail, yn tueddu i gyfarwyddo ac i berswadio y Duwiol, a'r rhai a Ail-anwyd i amryw ddyled-swyddau enwedigol. Gan Tho. Gouge, Gweinidog yr Efengyl. Ac a gyfieithwyd gan W. Jones, Gweinidog yr Efengyl.

Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y flwyddyn 1676.' 8plyg.

Rhoddwyd ychydig o ddalenau, fel parhâd o hwn, yn gyssylltedig â 'Llyfr y Resolution' y flwyddyn 1684. Y mae yn ei ddiwedd dudalen o 'Diwygiwr y Preint-wasc at y darlleydd,' gan C. E. (=Charles Edwards); ac 'Agoriad ar Eiriau yn y llyfr hwn, nad ydyw rhai pobl yn eu deall, yn rhyw fannau o Ddeheu-dir Cymru, wedi eu hegluro trwy eiriau mwy cyffredin a sathredig, gan Mr. S. H.' (=Stephan Hughes); a phedair o bennodau ar amryw bechodau.

3. 'Principlau, neu Bennau y Grefydd Gristionogol, A agorir fel y gallo y gwannaf eu deall. Gan T. G. Gweinidog yr Efengyl. Ac a gyfieithwyd gan W. J.

* [Heb law Geiriadur Dyblyg y Dr. Davies, yr oedd cynllun y Doethor yn cyfieithu 'Llyfr y Resolution,' yr hwn sy mewn Cymraeg bur a llithrig odiaeth, i'w gael yn 1675, yr hyn nid ydoedd yn 1620 a 1630. Er ymddangos o'r 'Resolution' o fewn dwy flynedd ar ol yr 'Ymarfer,' gellir meddwl wrth iaith y ddau fod o leiaf gan mlynedd rhwng amserau eu cyfansoddiad. Nid yw 'Llyfr y Resolution,' megys cyfansoddiad llenyddol, wedi cael hyd yn hyn y sylw y mae yn ei haeddu.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1671.

Printiedig yn Llundain gan A. Maxwell i'r Awdwr yn y flwydd-
yn 1676.'

Y 'T. G.' uchod ydoedd Thomas Gouge, a'r W. J. oedd y
William Jones, am yr hwn y crybwyllir iddo gyfieithu
'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,'* a'r 'Gair i Bechaduriaid'
uchod. Yr oedd y 'Gair i Bechaduriaid a'r Gair i'r Sainet,' ac
'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' yn cael eu cyd-rwymo yn
un llyfr. Gwyneb-ddalen yr 'Egwyddorion' a argraffwyd gyntaf, ac
erbyn eu myned ym mlaen i'r 'Principiau,' yr oedd yn y fl. 1676;
ond gan iddynt ddechreu y 'Gair i Bechaduriaid' heb yr wyneb-
ddalen, daeth gwyneb-ddalen hwnw hefyd i'r fl. 1676. Y mae
nodau yr argraffwyr, sef eu llythyrenau ar y llenau, yn profi hyny.
Y mae yr 'Hyfforddiadau' yn dechreu yn llen I 3.

5. 'The Theatre of the Empire of Great Britain. Presenting an
exact Geography of the Kingdoms of England, Scotland, Ireland
and Wales. Described by John Speed. 1676.†

6. 'Britannia Antiqua Illustrata: or, The Antiquities of Ancient
Britain, derived from the Phoenicians, wherein the original trade
of this Island is discovered; names of places, offices, dignities,
idolatry, language, and customs of the Primitive Inhabitants
are clearly demonstrated, together with a Chronological History
of this Kingdom, from the first traditional beginning, until the
year 800, A.D.: when the name of Britain was changed into England,
with the antiquities of the Saxons, as well as Phoenicians, Greeks
and Romans. By Aylett Sammes, of Christ's Colledge in Cam-
bridge. Since, of the Inner Temple.'

London, MDCLXXVI. 1676. Folio.

Unplyg ydyw, ac yn cael ei egluro a cherfluniau. [Gelwir y
gyfrol yn gyfrol gyntaf.]

1677.

1. 'Trysor i'r Cymru: Sef Llyfr yn Cynnwys; 1. Pregeth Mr.
Arthur Dent, ynghylch Edifeirwech, o gyfieithiad Mr. Robert
Llwyd, gynt Ficer y Wayn yn Shir Ddinbych. 2. Drych i dri
math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhith-gristion, a'r Gwir-gristion,
o waith Mr. Oliver Thomas, Carwr y Cymru. 3. Bellach neu
Byth o waith Mr. Richard Baxter, ym mha draethawd y cyfiawn-
heir, y cyssurir, y cynhyrfir, ac yr hyfforddir y Sanctaidd, Ddiwyd,
Ddifrifol Gredadyn: A'r Gwrthwynebwyr a'r Esceuluswyr a argy-
hoeddir, drwy oleuni yr Scrythur a Rheswm. O gyfieithiad Mr.

* Gwel rhif 4, d.f. 1664.

† Gwel rhif 1, d.f. 1610; rhif 1, d.f. 1616; a rhif 1 a 2, d.f. 1627.

Richard Jones, o Ddinbych. A'i Brintio yn Llundain gan Thomas Dawks, Printiwr yng-hymraeg i ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin. 1677.'

Y mae yn blaenori hwn 'Lythyr at y Darllenydd' helaeth, am y llyfrau hyn, bob un ar ei ben, o'r hwn y rhoddir dosranau yn gydiol â hwynt, gan fod ail wyneb-ddalen i bob un o honynt, fel hyn :—

(1.) 'Drych i dri math o bobl, sef i'r Anghristion, Rhith-gristion, a'r Gwir-gristion.' Llundain, 8plyg.

Dywedir yn y 'Llythyr at y Darllenydd,' fod y 'Drychau' wedi eu 'printio unwaith o'r blaen ers ys deng-mlynedd ar hugain a aethant heibio.' Rhaid fod hyn tua'r flwyddyn 1646 neu 1647.*

(2.) 'Bellach neu Byth. O gyfieithiad Mr. Richard Jones o Ddinbech. Llundain.' 8plyg.

Am hwn dywed y 'Llythyr at y Darllenydd,'—'Am y traethawd Bellach neu Byth (*Now or Never* yn Saesoneg) yn gyntaf y mae'n dyfod allan yng Hymraeg.' Ymddengys hefyd mai hwn yw y deryn cyntaf a gafodd y Cymry o waith Baxter; yr hwn, er bod ei enw yn adnabyddus, y byddai yn briodol cyflëu ychydig o'i hanes yma.

Y Parch. RICHARD BAXTER ydoedd o deulu Cymreig, ond a anwyd yn Rowton, yn sir y Mwythig, yn 1615, yn nhy ei daid. Yr oedd ei dad yn byw yn Eaton Constantine, o fewn pum milltir i dref y Mwythig. Ni chafodd fanteision dysgeidiaeth athrofaol; er hyny cyrhaeddodd radd gyfrifol mewn dysg, fel ag i'w alluogi gael lle fel Athraw Ysgol Ramadegol Dudley. Cafodd ei urddo gan y Dr. Thornborough, esgob Caerwrangon, pryd nad oedd yn petruso cydymffurfio; ond yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, daeth i adnabyddiaeth ag Anghyddfurfwyr, a'u gweithiau, y rhai a gawsant effaith ar ei feddwl fel ag i ochri tuag at yr Anghyddfurfwyr, er nad oedd ganddo wrthwynebiad i bob math o esgobyddiaeth. Gwahoddwyd ef i weinidogaethu i Kidderminster, lle yr oedd yn cael 60*p.* allan o'r ficeriaeth. Bu wedi hyny yng Nghaerlloew a Chofentri; dychwelodd wedi hyny i Kidderminster yn ei ol. Er ei fod yn anghyddfurfio, yr oedd yn bleidiol i'r brenin, ac wedi yr Adferiad, dewiswyd ef yn gapelwr achlysurol i'w fawrhydi. Cynnygiwyd iddo esgobaeth Henffordd, yr hon a wrthododd. Yr oedd wedi cael trwydded gan esgob Llundain i bregethu yn eglwysi ei esgobaeth, ond iddo beidio â chynhyrfu dadleuon. Ond daeth dydd Bartholomëus, 1662, fel y bu raid iddo gael ei gau o honynt oll. Bu wedi hyny yn pregethu mewn amrai leoedd, er cael ei wyllo gan wylwyr a gymmerent fantais ar ddeddfau seneddol yr amseroedd; ond o'r diwedd carcharwyd ef trwy warant oddi wrth y Barnwr Jeffreys, gan yr hwn y condemnwyd ef, ar ol prawf maith a garw, i dalu dirwy o 500 *marc*, i'w garcharu, ac i'w rwymo i beidio â

* Gwel rhif 3, d.f. 1646.

throseddu y cyfreithiau hyn am saith mlynedd. Ond efe a ryddhawyd dan feichiau, trwy gyfryngwriaeth Arglwydd Powys. Bu farw, yn ddedwydd iawn, yn 1691, yn 77 oed.*

(3.) 'Pregeth ynghylch Edifeirwch. Gan Arthyr Dent. O gyfieithiad Mr. Robert Llwyd, gynt Ficer y Waun, yn sir Ddinbych. Llundain.'

Ail argraffiad.† Y mae y bregeth hon yn gyflawn yma; eithr talfyriad byr iawn o honi sydd yn gyssylltedig â'r 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd,' yn 1682. Yn y 'Llythyr at y Darllenydd,' cyfeirir at yr argraffiad cyntaf o'r bregeth, fel hyn:—'Bydded hyspys i chwi, ddarfod printio y bregeth hon ynghylch *Edifeirwch* unwaith o'r blaen agos er ys hanner cant o flynyddoedd.'

2. ¶ 'Galwad i'r Annychweledig. Gan Richard Baxter. Llundain.'

Dywedir mai Stephan Hughes a fynodd ei gael allan.

3. 'Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd, sef Llyfr yn cynnwys, 1. Agoriad byrr ar Weddi yr Arglwydd. 2. Ymddiddanion rhwng y Carwr a'r Cymro. 3. Ymddiddanion rhwng Crist a'r Publican, &c. Amryw Reolau Duwiol, &c. Ai Brintio yn Llundain gan Thomas Dawkes, Printiwr yng-hymraeg i ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin. 1677.'

Y mae y mân lyfrau hyn eto yn meddu gwyneb- neu rag-ddalenau gwahanol, a chyfeirir atynt yn y Rhagymadrodd, neu y 'Llythyr at y Darllenydd,' yr hwn gyfeiriad a ddodir yn gyssylltiol â'r cyfryw. Am yr holl lyfr dywedir:—

'Ddarllenydd anwyl, Dyma llyfr i Hyfforddi ac i Gyfarwyddo y cyffredin Gymru, ym matterion eu iechydwriaeth dragywyddol. Ac oblegit fod hynny yn beth mawr, (tu hwnt i'r hyn a ddichon calon feddwl, na thafod draethu) os ystyriwn ni y pethau y mae'r Enaid yn cael ymwarded oddiwrthynt, a'r llawenydd a'r gogoniant y mae'n cael bod yn gyfranog o honynt, fe ddylit dderbyn yn roesawgar y fath draethiadau, ac sy'n gwir gyfarwyddo pobl mewn matterion mor bwysfawr.'

(1.) 'Carwr y Cymru, Yn annog ei genedl anwyl, a'i gydwladwyr, er mwyn Crist a'u heneidiau, i chwilio yr Scrythyrau, yn ol gorchymyn Crist. Ioan 5. 39.

Llundain, Printiedig drwy awdurdod yn y flwyddyn MDCLXXXVII.'

Dywedir yn y 'Llythyr at y Darllenydd' am hwn:—

'I gyfarwyddo pobl i chwilio 'r Scrythyrau er iechydwriaeth i'w Heneidiau, dymma i ti Garwr y Cymru, yn awr wedi ei brintio

* Wilson's *History and Antiquities of Dissenting Churches*, vol. ii. pp. 111-135,

† Gwel rhif 1, d.f. 1629.

drachefn. Pa darllenem ni y Scrythyrau fel ein cyfarwyddir yn y llyfr hwn, ni fyddem lawer gwell Cristionogion rhagllaw nag y buom hyd yn hyn.'

Ymddengys gan hyny mai adargraffiad ydoedd,* o waith Oliver Thomas. Cyhoeddwyd argraffiad arall (y trydydd, ymddengys) yn y flwyddyn 1666, o dan yr enw 'Drych y Cristion,' ond heb 'Y Rhagymadrodd at Eglwyswyr Cymru,' yr hwn sydd yn ddernyn o gyfansoddiad rhagorol, a'r hwn y bydd yn briodol ei gyflëu ger bron yma:—

'Ha-wyr frodyr, a thadau Parchedig, ac anwyl yn yr Arglwydd, y mae yn weddus i mi synnied hyn am danoch oll, nad yw yn anwybod i chwi, ond eich bod yn credu yn ddilys, mai ewyllys Crist yw, nid ar i chwi yn vnig, eithr i'r holl braidd y gwnaeth yr Yspryd glan chwi yn olygwyr arnynt, chwilio yr Scrythyrau. Act. 20. 28.'

'Canys mae y ddyled-swydd hon wedi ei yspysu yn amlwg, ac mor gyffredin mewn amryw fannau o Air Duw, ac o'r Tadau dyscedig gynt, ac na ddichon neb oddieithr Gwyledyddion deillion fod yn anhysspys arni. Athro rhagorol yn nechreu yr oes hon, a gaslodd allan o'r hen Dadau athrawaidd gynt, mor daer, ac mor ddifrifol oeddynt, bawb yn eu hamser, yn cymmell y cyffredin i fod yn gyd-nabyddus â Gair Duw, ac i'w fynych chwilio, gan gynghori hefyd y Periglorion o'r amseroedd hynny i gynhyrfu, ac i fod yn daer ar bawb tan eu gofal hwynt i ymarfer â'r ddyled-swydd grefyddol hon, yn eu tai eu hunain gartref, ym mysg eu teulu. A minne (frodyr) gan ganlyn ar ol y Seint Dwyfol hyn, a fyddaf (drwy eich cennad) cyn hyfed arnoch, ac attolwg i chwi, er mwyn Crist Iesu, er mwyn eneidiau eich praidd, ac er mwyn eich hun, fod yn eiriol ar eich plwyfolion, ar iddynt brynu beiblau bychain, y rhai sydd yr awrhon drwy ras Duw a'i ragorol ymgeledd tu ag atom (y cyffelyb peth ni bu yn ein plith erioed o'r blaen) yn aml, yn dda'r newid arnynt, ac yn hawdd i'r tlawd eu cael, fel y gallo pob dyn annyscedig a dim athrylith dduwiol ynddo (o medr ddarllain ei iaith ei hun) (yr hyn a ddylei pawb ei fedru) fanwl chwilio Gair Duw, a bod yn hyspys ynddo.†

Y mae yr awdwr, yr hwn, gellid meddwl, oedd weinidog ffyddlawn iawn o'r Eglwys Sefydledig, yn galw ar ei gyd-eglwyswyr mwy diofal, at eu dyledswyddau, mewn dull pwysig, manwl, ac eto yn dyner a pharchus, mewn lluaws o benau neu ystyriaethau, gan osod allan, er hyny, eu hesgeulusdra mewn iaith gref.

'Tebygol yw y buasai yng ngwlad Cymru yn nyddiau ein Tadau, fwy o chwilio ar yr Scrythyrau nag a fu hyd yn hyn o'n hoes ni, pe buasai y Bugeiliaid ysprydol, neu y rhan fwyaf o honynt, mor graff, mor ddiwyd, ac mor daer ag y dylasent fod i annog, i gymhell, ac gynhyrfu y cyffredin bobl yn y ddyledswydd anhepcoer, ac angenrheidiol hon.

* Gwel rhif 1, d.f. 1631.

† Gwel rhif 2, d.f. 1671.

'Mynych dros ben y mae dolor yn taro yn fy nghalon wrth weled, ac ystyried y diffyg mawr a'r esceulusdra dybryd, sydd yn ein plith ni Eglwyswyr Cymru, o gymmeryd poeni ddyseu ein praidd yn gydwybodus, eisiau ymosod a llwyr-fryd calon i ddarllein, cynghori, ac i athrawiaethu, 1 *Tim.* 4. 13. Yr ydym ni ein hunain, (lawer o honom) yn anghynnefin a Gair cyfiawnder, ac am hyny yn anghyfarwydd, ac yn anghymen i gyfarwyddo eraill. Y mae yn aml gweld yn ein plith ni ynghymru Eglwys-wyr, o ran eu dysceidiaeth yn ganmoladwy, a'i ymadrodd yn barabl-ddoeth; ac etto yn anaml gweled mewn llawer goror o'r wlad yr Scrifennydd wedi ei addyscu i deyrnas nef, yn dwyn allan o'i dryssor bethau newydd, a hen, *Mat.* 13. 52. Ie rhoddwch gennad i mi fy mrodyr anwyl, i ddywedyd wrthyh (y peth sydd ddrwg gennif orfod ei ddywedyd) y gellir cael ym mhob un o Escobaethau Cymru ddeugain, neu driugain o Eglwysi, heb un ynddynt ar y suliau hirddydd-haf, pan fo sychaf y ffyrdd a chlaiaraf yr hin.'

Ac wedi myned ym mlaen yn yr un dull, y mae yn terfynu—
'Eich Brawd, a'ch Car-wr, a'ch car Dienwog Di-Enw.'

Yna y 'Llythyr at ei anwyl geraint a'i gydwladwyr y Cyffredin Cymru, Annerch,' i'w 'cynhyrfu' i chwilio yr Ysgrhythrau; mewn deuddeg o ystiriaethau; ac yn diweddu, 'Eich Car-wr i'w orchymyn yn yr Arglwydd Iesu.' Yna y mae dechreu corff y llyfr yn 'Ymddiddanion rhwng Carwr a'r Cymro ynghyleh chwilio yr Scrythrau.' Y mae yr ymddyddanion yn neillduol o ddyddorol, ac yn pelydru cryn lawer o oleuni ar sefyllfa ac ansawdd dysgeidiaeth Gymreig yn yr oes hono. Ail argraffiad yw hwn, ym mhen chwech a deugain o flynyddoedd wedi yr argraffiad cyntaf.* Cyhoeddwyd yr 'Ymddiddanion' unwaith ar ol hyn, os nad ychwaneg, o dan enwau ereill, ond wedi gadael allan y 'Rhybudd i'r Darllenydd' o flaen yr Ymddyddanion cyntaf, yr ail, a'r trydydd, y rhai sy mewn llythyrenau Brytanaidd.

(2.) 'Agoriad byrr ar Weddi'r Arglwydd. Gan William Perkins. O gyfieithiad R. Holland. Llundain.' 12plyg.

Yr oedd hwn yn ail argraffiad;† ac yn ail argraffiad mor ddiwygiedig ag y galledid ei ystyried yn agos yn llyfr newydd gwreiddiol, fel y gellir deall wrth y 'Llythyr at y Darllenydd,' yr hwn a ddywed:—

'I gyfarwyddo pobl i weddio yn ol Ewyllys Duw, fel y derbyniont iechydwrriaeth iw heneidiau—dyma i ti Agoriad byrr ar weddi'r Arglwydd, mewn rhan o waith Mr. Perkins, ac o gyfieithiad Mr. Robert Holand, person Llanddyfrwr yn shir Gaer-fyrddin; ac mewn rhan o waith a chyfieithiad vn arall—Y mae yn agos i bedwar vgain mlhynedd oddiar pan Printiwyd llyfr Mr. Holant gyntaf, ac fel y mae'r Saesoneg, felly y mae'r Gymraeg wedi ei phuro yn fawr oddiar yr amser hyny, ac am hynny nid oedd afresymmol i ddiwygio

* Gwel d.f. 1631.

† Gwel rhif 1, d.f. 1631.

y llyfr o ran y iaith; ac oblegyt fod y matter yn dywyll mewn rhyw fannau, gweddus oedd iw egluro trwy chwanegu ato.'

Yn yr argraffiad o'r blaen, dywedir mai 'Person Llan Ddeferowg, yn sir Gaerfyrddin,' oedd Robert Holand; ac yma dywedir mai 'gynt Person Llanddyfrwr, yn sir Gaer-fyrddin,' ydoedd; ond dywed Mr. Stephan Hughes, mai Llanddowror oedd y lle.* Y mae yn un o'r llyfrau goreu a gyhoeddwyd yn ein hiaith ar Weddi yr Arglwydd; yn cynnwys 161 o dudalenau, heb law yr wyneb-ddalen, &c. Y mae yn ei ddiwedd bedair dalen o 'Amryw reolau duwiol, perthynol i bob Cristion i'w harfer,' a phum dalen yn cynnwys 'Llythyr arall at y Darllenydd.'

Awdwr y llyfr hwn ydoedd William Perkins, yr hwn a anwyd ym Marton, yn sir Warwic, yn 1558, ac a gafodd ei ddysegeidiaeth yng Nghaergrawnt. Dewiswyd ef yn weinidog Eglwys St. Andrew, yn y ddinas hōno. Gan ei fod yn Buritaniad o egwyddor, efe a roes ei law wrth y 'Llyfr Dysgyblaeth,' am yr hyn yr achwynwyd arno, ac y dygwyd ef ger bron Penaethiaid y Colegau, lle yr amddiffynodd ei hun mewn araeth hyawdl; ond er hynny efe a ddiswyddwyd gan yr Archesgob Whitgiff. Efe a ysgrifennodd lawer, yn gwneyd yng nghyd dair cyfrol unplyg; a chyfieithwyd rhai o honynt i'r Ffrancaeg, Isdiraeg, ac Yspaeneg, heb law y llyfryn hwn i'r Gymraeg. Bu farw yn 1602, yn 44 oed.†

(3.) Canwyll Crist. 1. I gyfarwyddo pechadur. 2. I ddateuddio rhagrithiwr. 3. I gyssuro y gwann, a'r gwir gristion.

Printiedig yn Llundain, yn y flwyddyn MDCLXXVII.‡

Gwaith Vavasor Powel ydyw, er nad yw ei enw wrtho,§ ac yn cynnwys amrywiol lyfrynau o eiddo y gwr enwog hwnw, y rhai—rai o honynt o leiaf—a gyhoeddwyd o'r blaen yn Gymraeg, fel y gweler wrth y cynnwysiad, sef,

'Tri o Ymddiddanion grasol. Y cyntaf rhwng Crist a Phublican pechadurus. Yr ail rhwng Crist a Pharisead rhagrithiol. Y trydydd rhwng Crist a Chredadyn ammheus. I gyfarwyddo pobl i ddyfod at Grist, trwy yr hwn yn vnig y mae iechydwrriaeth i'w gael, *Act.* 4. 12, dyma i ti Ganwyll Crist wedi ei hail brintio, a pheth angwanegid mewn ambell man.'||

4. 'Y Ffydd Ddi-ffvant. sef, Hanes y Ffydd Gristianogol, a'i Rhinwedd. Y trydydd preintiad gyd ag angwanegiad. The Vnfeigned Faith. Containing a brief Historie of the Christian Religion, and a proof of its verity, and efficacie. The third impression with Augmentation.

Preintiedig yn Rhydychen gan Hen: Hall, ac a werthir yn Nimbech,

* [Gweler nod ar yr enw hwn, rhif 1, d.f. 1600, t. 73.]

† Brooks's *History of the Puritans*, vol. ii. p. 129-136.

‡ Ail argraffiad; gwel rhif 1, d.f. 1653.

§ Gwel rhif 1 a 3, d.f. 1653.

|| Rhif 7, d.f. 1653.

a Gwrecsam, a Llanfyllin, Abergavenni, Caer-Fyrddin, a threfydd eraill. 1677.' [8plyg.]

Hwn yw yr argraffiad diweddaſ yn oes yr awdwr, a'r goreu.* Cynnwysa luniau merthyrddodau, y rhai ni roddwyd gyda'r argraffiadau ar ol hyn, oddi eithr un Dolgellau, 1811. Hefyd y mae yn ei ddiwedd restr o eiriau 'Camberaeg-Hebreaidd,' y rhai hefyd a gyhoeddasiid o'r blaen ddwy flynedd yn ol yn llyfryn wrthynt eu hunain.†

5. 'Y Bibl Cyssegr-lan, Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Printiedig yn Llundain gan John Bill, Christopher Barker, a Henry Newcomb, a Henry Hills, Printwyr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin;‡ ac a werthir gan John Hancock, tan lûn y tri Bibl yn Popes-Head Alley, yn Cornhill. 1677.'

Yr oedd diffyg mawr am Feiblau yn y wlad erbyn hyn, canys yr oedd Beiblau y flwyddyn 1671, wedi myned yn brinion iawn. Yr oedd T. Gouge a'i gydlafurwyr wedi lledaenu o Feiblau yr argraffiad diweddaſ hwnw, gymmaint a allasent ei gael yn Llundain a Chymru, sef deuddeg ar hugain, yn ystod y flwyddyn o Wyl Ifan, 1674, i Wyl Fair, 1675, h.y. o Feiblau, heb law 240 o Destamentau, yn Gymraeg; ac hefyd 500 o 'Holl Ddyledsdydd Dyn.' Ymddengys hefyd y cyhoeddasant argraffiadau newyddion o bob un o honynt,§ er na ddeuais eto i afael â'r un arall blaenorol hwnw. Mor brin oedd y Beiblau, fel pan wnaed ymfyniad gan S. Hughes, neu T. Gouge drosto, na allwyd cael uwch law *again* o Feiblau Cymreig ar werth trwy yr holl deyrnas. Achlysuorodd hyn i'r gwyr hyn (S. Hughes a T. Gouge) wneyd ymdrech—yn cael eu cefnogi gan yr hyglod Archesgob Tillotson; a'r canlyniad fu, cael yr argraffiad hwn o 8,000 o Feiblau wythplyg; a bernir mai hwn oedd yr argraffiad helaethaf o lawer a fu eto yn yr iaith Gymraeg. Dosbarthwyd 1,000 o honynt yn ebrwydd i'r tlodion, a chafodd un o gydweithwyr Gouge, sef Thomas Fenion, wedi ei farwolaeth, fod 419*p.* 9*s.*, wedi eu rhoddi i brynu rhifedi o Feiblau Cymraeg, o ba rai yr oedd y Dr. Tillotson wedi rhoddi 50*p.*, Mr. Maurice,|| 67*p.*, ac ereill.

* Gwel rhif 1, d.f. 1671; a rhif 1, d.f. 1676.

† Gwel rhif 5, d.f. 1675.

‡ Pan ddiangodd y Brenin Iago I. o'r deyrnas i rod-di ei orsedd i Dywysog Orange, cafodd ei argraffwasg ei llosgi gan y terfysglu o blegid ei fod yn Babydd.

§ Gwel rhif 3 a 7, d.f. 1672.

|| Henry Maurice, mae yn debyg. Gellir ystyried y cydweithwyr hyn—y rhai a ymfurfiasant yn 1675, fel math o Gymdeithas Feiblaidd—mwy cyfyng, mae yn wir, na'r un bresennol, yn nyddiau bore Anghydfurfaeth, a chan y rhai a drowyd o'r Eglwys Sefydledig yn 1662. Mr. T. Gouge oedd y symmud-ydd—y prif beiriannydd—a mynodd gael cynnorthwy rhai gweinidogion enwog o'r Eglwys Sefydledig, a rhai neillduwyr oddi wrthi, y rhai, fel eu hunain, oedd-ynt yn hoffi gwneyd daioni. Y mae un o'r Beiblau hyn yn Llyfrfa Dug Bedford, yn Woburn; ac ar y ddalen wag y mae yr ysgrifen ganlynol:—

y gweddill;* a'r lleill a werthwyd am bedwar swllt yr un, wedi eu rhwymo; yr hyn oedd yn bris isel iawn am y fath lyfr trwchus a hardd, ac wedi ei greffynu, gan ei fod yn cynnwys y Llyfr Gweddi Gyffredin, yr Apocrypha, a'r Salmau Cân, a gwyneb-ddalen wahanol i bob un o honynt, a'r amseriad yn ol pa un yr oeddynt yn y wasg. Gan mai y Beibl a argraffwyd gyntaf, y mae wedi ei amseru yn 1677, am yr hwn y dywed awdwr y 'Llythyr at y Darllenydd,' o flaen y 'Trysor i'r Cymry'†—Stephan Hughes, mae yn debyg:—'Y mae y Bibl Cymraeg wedi brintio yn agos i ddiwedd y Barnwyr, ni bydd y cwbl yn barod tan flwyddyn gyfan eto ar y lleiaf: *ond nid hir aros da.*' Yr oedd hyn yn 'Llundain, y trydydd dydd ar ddeg o fis Awst, 1677.' Yr oedd yn dechreu y flwyddyn 1678, erbyn i'r Llyfr Gweddi Gyffredin, sy'n gydiol, gael ei argraffu, ac am hyn nodid yr amser yn ddyblyg. er dangos mai yn nherfyniadau i ddwy, diwedd un a dechreu y llall, y cafodd ei argraffu, fel hyn—1677-78.

6. 'A Funeral Sermon, Preached at the Interment of the Virtuous Lady Jane Wynn, Late Wife to Sr. John Wynn, Knight and Baronet. Who dyed at Watsstay the eighteenth day of February, and was buried at Ruabon Church on the twenty fifth of the same Moneth. 1675. By J. R.

London, Printed by R. W. for Hen. Mortlock at the Phoenix in St. Paul's Church-yard, and at the White Hart in Westminster-Hall. 1677.'

7. ¶ 'The Antiquitie of the Quakers proved out of the Scriptures of Truth, published in Love to the Papists, Anabaptists, &c., with a Salutation of pure Love to all Tender-hearted Welshmen, but more especially to Flintshire, Denbighshire, Caernarvonshire, and Anglesea, by their Countryman and Friend, Thomas Wynne.

Printed in the year 1677.'

'For the Right Hon. the Earl of Bedford, Knt. of the noble order of the Garter.

'In thankful acknowledgement of his bounty to Wales in contributing towards the charge of Printing the Household Bibles in the British Language, which were to be freely given to poor families, and of teaching many hundreds of poor Children to read and write.

Signed	Jo. Tillotson
	Edw. Stillingfleet
	Benj. Whitchol
	John Meriton
	Thos. Gouge
	Benjamin Calamy
	Thomas Fenion
	John du Bois.'

Y mae pob enw yn ysgrifen-law yr ysgrifenydd.—Palmer's *Calamy's Noncon. Memorial*, vol. i, p. 187. Costiodd argraffu hwn agos i 2000*p.*

* *Life of Fenion.*

† Gwel rhif 1, y flwyddyn hon.

[Ni fynegir pa le na chan bwy yr argraffwyd ef. Yr oedd yr awdwr, Thomas Wynne, yn anhysbys i Watt a Lowndes. Cynnwys y traethodyn 22 o dudalenau, ac y mae yn weithyn hynod brin; a gwelais ychydig yn ol, mewn cofrestr llyfrwerthwr, fwy na swllt y tudalen yn cael ei ofyn am dano. Y mae yr awdwr yn gwneuthur yr honiadau mwyaf afresymol mewn perthynas i'w blaidd a'i daliadau; a dyfyna o'r Ysgrythyrau enghreifftiau o ddynion yn *crynu* ac yn arswydo, a dywed fod pawb o'r rhai a grynent felly yn *Grynwyr* yr un fath â Chrynwyr y dydd heddyw. Nis gwn ddim chwaneg am yr awdwr hygryn hwn.]

8. 'Improvement of England and Wales, by Sea and Land, to pay debts without money, and set all the poor of England at work with the growth of our own lands. 1677.' 4to.

Y mae yn cynnwys tudlen o'r afonydd Slane a Hafren, a threfi Rhydychain, Stradford ar Afon, &c.; a hen dudlen gywrain o'r wlad rhwng Caerlleon a Chastell Fflint, a rhanau ereill o Gymru.

9 ¶ 'Reports in Common Pleas, being all special Cases; to which is added a Tract concerning Process out of the Court of Westminster, into Wales, 2nd edition, with reference. By Sir. J. Vaughan. 1671.' Folio.

Syr JOHN VAUGHAN ydoedd fab Edward Vaughan, Ysw., o'r Trawsgoed, ger Aberystwyth, yn sir Aberteifi, a Letitia, merch John Stedman, Ysw., o Fynachlog Ystrad Fflur. Efe a anwyd yn 1603. Daeth yn wr enwog yn y gyfraith; a Mai 22, 1668, gwnaed ef yn Farnwr y Deflys, neu Lys y Dadleuon Cyffredin. Priododd yntau un o'r teulu, sef merch John Stedman, Ysw., o Gilcenin, oll yn yr un sir. Bu farw yn 1674, yn 71 oed. Ei fab, Edward Vaughan, a gyhoeddodd yr uchod, a rhai pethau ereill a gafwyd yn barod i'r wasg.

1677-78.

1. (1.) 'Llyfr Gwedi Gyffredin, A Gweinidogaeth y Sacramentau: A Chynneddfau a Ceremoniau eraill yr Eglwys, yn ol arfer Eglwys Loegr.'

Y mae i'w gofio mai gyda'r argraffiad hwn o'r Llyfr Gweddi y cyhoeddwyd, am y waith gyntaf yn Gymraeg, y gwasanaeth am 'Frad y Powdr Gwn,' 'Merthyrolaeth y Brenin Charles y Cyntaf,' ac am 'Adferiad Charles yr Ail,' a elwir yma 'Natalic Mawrhydi y Brenin,' canys yn niwedd y 'Llyfr Gweddi,' ac o flaen y Beibl y mae y cyhoeddiad canlynol:—

'CHARLES R.

'Ein hewyllys a'n pleser yw, i'r Tair Trefn Gweddi a Gweinidogaeth hyn a wnaed i'r Pumbed o Dachwedd, y Ddegfed ar hugain o Ionawr, a'r Nawfed ar hugain o Fai, fod allan o law yn Breintiedig ac yn gyhoeddedic; ac o hyn allan i'w gyd-gynnwys gyda Llyfr y Weddi Gyffredin a Liturgi Eglwys Loegr, i'w harfer bob blwyddyn ar y dywededic ddyddiau, mewn pob Cadeiriawl a Cholegawl

Eglwys a Chapel ac Awl o fewn ein dwy Unifersiti, ac o'n Colegau o Eaton a Chaer-wynt, ac mewn pob Eglwys a Chapel Plwyfawl o fewn ein teyrnas o Loegr, Arglwyddiaeth Gymry, a Thre Berwic ar Tweed.

'Rhoddwyd yn Ein Llys yn y Neuadd-wenn yr ail dydd o Fai yn y Bedwaredd Ffwyddyn ar ddeg o'n Gwledychiad.

'Trwy orchymyn ei Fawrhydi,

'EDW. NICHOLAS.'

Cyn hyn hefyd yr oedd cryn wahaniaeth rhwŷn y cyfieithiad o'r rhanau o'r Ysgrhythrau ag sy'n arferedig yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, i'w darllen yn y gwasanaeth, a'r unrhyw ranau yng nghorff y Beibl ei hun; gan fod yr olaf wedi ei ddiwygio, a'r Llyfr Gweddi yn dilyn cyfieithiadau boreuach heb eu diwygio; ond y fwyddyn hon, rhoddwyd allan awdurdodaeth freninol, y cyfeirir ati yn yr hysbysiad Esgobawl canlynol, er mwyn o unfurfiad:—

'Yn gymmaint â darfod trwy 14 *Caroli II. Cap. iv. Sect. 27.*—'I Esgobion Henffordd, Tŷ Ddewi, Llanelwy, Bangor, a Llandaf, a'u dilynwyr gael eu gorchymyn i gymmeryd y fath gynllun yn eu plith eu hunain, fod i Llyfr y Weddi Gyffredin gael ganddynt ei gyfieithu yn wirioneddol a chywir i'r dafodiaith Frytanaidd neu Gymraeg: a bod i'r cyfryw wedi ei gyfieithu felly, gael ganddynt hwy, neu o leiaf, ryw dri o honynt, ei olygu, ei ddarllen, a'i ganiatau i gael ei argraphu: a bod wedi i'r cyfryw Llyfr gael ei argraphu a'i gyhoeddi felly, i'r Holl Wasanaeth Dwyfol gael ei adferyd a'i ddywedyd gan y Gweinidogion a'r Curadiaid trwy holl Gymru, o fewn i'r parthau lle mae yr iaith Gymraeg yn cael ei harfer yn gyffredin, yn y dafodiaith Gymreig neu Frytanaidd, yn y cyfryw ddull a ffurf ag a ofynir, yn ol Llyfr y Weddi Gyffredin sydd yn yr Iaith Saesonaeg, heb wahaniaethu dim mewn trefn oddiwrth y dywededig LlyfrSaesonaeg.' Ac yn gymmaint a bod, nid yn unig yr Efengylau, a'r Epistolau a appwyntiwyd i'w darllen, ond hefyd fod Tafflen y Llithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, a appwyntiwyd yng Nghalender y Llyfr Gweddi Gyffredin, o angenrheidrwydd yn cyfeirio at gyfieithiad yr hen Destament a'r Newydd, oedd y pryd hynny mewn arferiad, sef yr un a gyhoeddwyd yn mlwyddyn ein Harglwydd 1620, a elwir yn gyffredin Beibl yr Esgob Parry. Yr ydym ni yr Esgobion, y rhai y mae ein henwau yn arwyddedig, wedi ei farnu yn beth perthynol i'n dyledswydd, mewn uffuddod i'r gorchymyn dywededig trwy gynnorthwy rhyw rai o'n Hoffeiriad, y rhai a berchir yn fawr o blegid eu gwybodaeth o'u hiaith frodorol, i beri fod i y Llyfr Gweddi Gyffredin sydd mewn arferiad yn awr yn yr Iaith Gymraeg, gael ei gydmaru yn ofalus â hwnw a gyfieithwyd ac a ganiatawyd yn ar ol y gorchymyn hwnw, ac hefyd yr hen Destament a'r Newydd ag sydd yn awr yn cael ei ddarllen a'r cyfieithiad o'r Hen Destament a'r Newydd i'r Iaith Gymraeg ag oedd mewn arferiad ac yn cael ei ganiatau y pryd hwnw: fel y gweler a wnaed rhyw gyfnewidiad neu gamgymeriad yn y naill neu y llall, yr hwn a ddistrywiai y perphaiith gydgordiad a'r unfurfiad hynny yn yr holl

wasanaeth yn yr Ieithoedd Cymraeg a Saesonaeg, yr hyn oedd dyben y gorchymyn hwnw yn 14 *Caroli* II. i'w wneyd.

'Wrth gyferbynu, cafwyd fod rhai gwelliadau yn y Llythyreniaeth wedi ei wneyd yn argraphiad 1690, a elwid yn gyffredin Beibl yr Esgob Lloyd, yr hwn a gymmeradwywyd yn gyffredin, ac a fwriadwyd yn unig i adgyweirio rhyw gamgymeriadau, yn bennaf gwallau y Wasg, mewn copiau diweddarach o'r Beibl, ac ad-roddi Llythyreniaeth enwau priodol yn ol y Testyn a gyhoeddwyd yn 1620.'

Gwnaed yr hysbysiad uchod yn 1809, lle y gwelwn, er i'r Weithred o Unffurfiad, neu yr awdurdodiad breninol uchod gael ei roddi allan yn 1677, y bu yn ddieffraith am gant a dwy ar hugain o flynyddau. Y mae hyny i'w ryfeddu yn fwy pan yr ystyrir fod tri o'r esgobion Cymreig yn Gymry. Y mae rhyw esgeulusdra mawr wedi ei oddef ym mhob oes pan y gofynid rhyw lesiant ysbrydol i *Gymru*. Y mae llythyreniad yr argraffiad hwn, yng nghyd â'r arferiad o'r gair 'Preintiad' uchod, a rhai geiriau ereill, yn rhoi prawf mai Charles Edwards ydoedd y golygwr, a'r hwn, fel y gwelir wrth ei Lythyrau at y Darllenydd, a'i Anerchiadau, oedd yn Llundain y blynyddoedd hyn yn golygu dygiad amrai lyfrau Cymreig trwy y wasg. Gwelir hefyd mai argraffiad y flwyddyn hon o 'Llyfr y Weddi Gyffredin' yw y cyfieithiad a ellid ei ystyried yr awdurdodedig. Yn nesaf, yn gydiol â'r Beibl, yn 1677, a'r Llyfr Gweddi, sydd wedi amseru ei argraff yn 1677-78, y mae, ond wedi ei amseru, gan ei bod yn awr ym mhellach yn y flwyddyn, gyda gwyneb-ddalen berthynol, yr—

1678.

1. (2.) 'Llyfr y Psalmau, Wedi eu cyfieithu, 'A'i Cytansoddi ar Fesur Cerdd. Drwy waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionnydd. 1678.'

(3.) 'Testament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist Llundain. 1678.'

Yr oedd bellach yn tynu ar flwyddyn, er pan ddywedwyd yn Awst, 1677, fod Llyfr y Barnwyr wedi ei argraffu, a dyma yr 'hir aros' da wedi ei gyflawn foddhau, pa un bynag ai Eglwyswyr ai Ymneillduwyr, gan nad oedd raid i'r Ymneillduwyr brynu y pethau eglwysig, os dewisent; er mai dewis yr oeddynt y rhan fynychaf.

2. 'Of the Heart and its Right Sovereign : and Rome no Mother-Church to England, or, an Historical Account of the Title of our Brittish Church ; And by what Ministry the Gospel was first Planted in every County. With a Remembrance of the Right of Jerusalem above, in the great Question, Where is the true Mother Church of all Christians? By T. J. of Oswestry in the County of

Salop sometime Domestick and Naval Chaplain to His Royal Highness the Duke of York.

London, Printed for Edw. Foulkes, and are to be Sold by T. Basset at the George in Fleet Street. 1678.' [8vo.]

Ar ddiwedd yr 'Epistle Dedicatory,' 'To His Royal Highness, James Duke of York and Albany,' &c.,' ceir enw yr awdwr yn llawnach, 'T. Jones;' ac y mae yn amlwg mai Cymro selog ydoedd. Y mae y llyfr yn cynnwys 640 o dudalenau 12plyg. Y mae ynddo amrai gyfeiriadau Cymreig, megys y canlynol ar waelod t. 146:— '*A myfi Gwalter Archiagon Rhydychen a droes y Llyfr hwn or Lladin yn gymraeg.* I, Walter Arch-Deacon of Oxford Translated this out of Latine into Welsh,' wrth son am waith Geoffrey o Fynwy.

T. J. neu THOMAS JONES, ydoedd fab i John Williams, o Groesoswallt, lle y ganwyd ef. Wedi cael elfenau ei ddysgeidiaeth yn y dref hòno, efe a aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychain, a bu yno hyd nes y cafodd y lle hwnw ei roddi i fyny i blaid y Senedd yn 1849, gan ei fod erbyn hyn yn selog iawn dros y weriniaeth. Cymmerodd ei A.C. yn 1650. Yn 1652, efe a ysgrifennodd 'Vita Edwardi Simsoni S.T.D. ex ipsius autographo excerpta.' Yn 1654, efe a urddwyd, gan esgob, meddir. Yn 1655, daeth yn berson Castell Caereinion, yn sir Drefaldwyn. Cafodd wedyn ei droi allan oddi yno, pan yr ail sefydlwyd ei ragflaenydd Rice Wynn; ac aeth yntau yn gapelwr i Arglwydd Lywydd y Cyffiniau, yng Nghastell Llwydlo; ac wedi hyny i wasanaeth Iago, Dug Caerefrog, yn 1663; ond o blegid iddo ddywedyd rhywbeth yn erbyn esgob Caerwynt a'i swydd, efe a drowyd o'r lle hwnw gan y Dr. Morley, yr esgob hwnw. Yr oedd ychydig cyn hyn wedi cael personiaeth Llandyrnog, yn sir Ddinbych, ac ymneillduodd yno. Yno hefyd aflonyddwyd ef gan y Dr. Morley, yn 1670, trwy roi cyfraith arno yn y Llys Penadur, am ddywedyd ei fod ef yn gefnogydd Padyddiaeth; y tystion oeddynt—esgob Bangor a'i gaplaniaid. Dirwywyd ef i 300*p.*, a daliwyd personiaeth Llandyrnog am y tâl. Ar draul rhan o'r arian hyny adgyweiriwyd Eglwys Gadeiriol Bangor. Aflonyddwyd ef ar ol hyn gan esgob Bangor, o blegid rhyw ddadl rhyngddynt, a dyma yr amser y cyhoeddodd y llyfr uchod. Efe a gyhoeddodd hefyd yn 1682, lyfr o'r enw 'Elymas the Sorcerer; or Memorial towards the Discovery of this Popish Plot,' gan ei briodoli i esgob Caerwynt [y Dr. Morley] ac ereill; o blegid yr hyn y buasai wedi cael ei aflonyddu a'i gospi ym mhellach, oni buasai iddo farw, yr hyn a ddygwyyddodd yn Totteridge, yn sir Hertford, yn y flwyddyn hon (1682).*

3. 'Tudor, A Prince of Wales. An Historical Novel. In Two Parts.

London, Printed by H. H. for Jonathan Edwin, at the Sign of the Three Roses on Ludgate hill. 1678.'

* Wood's *Athen. Oxen.* vol. ii. p. 532, 533; Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen.*

1679.

1. 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogawl,' &c.

Llundain. 8plyg.

Tybiaf mai ail argraffiad yw hwn o'r un a gyhoeddased bymtheg mlynedd yn ol,* neu mai hwn yw hwnw, gan na welais un â'i wyneb-ddalen wrtho. Cyhoeddwyd hwn gan y Parch. D. Jones, o Landyssilio.

2. ¶ 'Patrwm y Gwir Gristion, neu ddilyniad Iesu Grist. A 'Scrifenwyd gynta' yn Lladin. Gan Thomas a Kempis. Gwedi ei gyfieithu'n Gymraeg er ys talm o amser yn ol Editiwn yr Awdwr, gan H. O. gwenydog ym Mon, Esq.

Llundain, Argraphwyd, er budd i'r Cymry. (Pris 9c. i'r tlodion. 1s. 6c. i eraill.)

Y mae y modd y rhoddir enw y cyfieithydd yn gyfryw ag na ellir gwybod a oedd yn y weinidogaeth, ac mai gweinidog y dylai y gair 'gwenydog' fod; ond yn yr argraffiad nesaf† gelwir y lle yn Gwenynog, yr hyn a ddengys, mai ei gartrefle a feddylir, yr hwn le sydd ym mhlwyf Llanbabo;—*Gwenynog* y geilw pobl y wlad y lle; ond dywedir mai '*Gwaenydog*' ydyw ar lyfrau y plwyf. Priodolir yr awduriaeth i THOMAS A KEMPIS, yr hwn a anwyd yn Kempen, ger Cologne, o ddeutu y fl. 1380; cafodd ei ddysgeidiaeth yn Daventer, yn Holand, a daeth yn ganon Monachlog Mynydd St. Agnes. Cymmerodd arno ei hun wedi hyny y gorchwyl o adysgrifo y Beibl, yr offerynyfr, amrai o weithiau St. Bernard, a llyfrau crefyddol ereill. Yr oedd yn adysgrifwr rhagorol, ac yn hoff o'r cyfryw orchwyl. Bu ar waith bymtheg mlynedd yn adysgrifenu y Beibl, yn bedair cyfrol unplyg. Dywedir mai nid Kempis yw gwir awdwr y llyfr hwn—nad oedd ond adysgrifwr o hono yn unig—mai yr awdwr oedd JOHN GERSON, Canghellwr Prifysgol Paris, a'r hwn a fu farw yn 1429; a bu Kempis farw yn 1471, yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed.‡

3. 'Work for a Cooper, being an answer to a libel written by Thomas Wynne, the Cooper, the Aleman, the Quack, and the speaking Quaker. 1679.'

Y mae yn ei ddiwedd bedwar tudalen yn Gymraeg; a pheniad iddynt fel hyn:—'Atteb i'r Cowper o Gaerwys o'i Lythyr anraslon at y Cymru.'§

4. 'The Condemnation of the Cheating Popish Priest, or, A brief account of the Tryal of Father Lewis, the pretended Bishop of Llandaff, at the last Assizes of Monmouth, March 28. Who lately cheated a poor woman of £15, and got a Warrant against her for £15 more, on pretence of Praying for her father's Soul out of

* Gwel rhif 4, d.f. 1664.

† Gwel rhif 5, d.f. 1684.

‡ *Penny Cyclopædia*; *Baner ac Amserau Cymru*, Ion. 1861, t. 76.

§ [Gwel rhif 7, d.f. 1677.]

Purgatory. With the condemnation of another Popish Priest at Gloucester, &c. Licenced, April 7. 1679.

London: Printed for L. C. 1679.'

5. ¶ 'The Whore of Babylon's Pockey Priest, or a True Narrative of the Apprehension of William Geldon, alias Bacon of Tregar in Monmouthshire, a Secular Priest of the Church of Rome, now prisoner in Newgate, who had just before been above two months in cure for the French Pox; wherein is inserted a true copy of the Apothecaries Bill found in his Chamber, containing the whole process of that Rev. Father's Venereal Cure, with several other remarkable Relations of the Debaucheries and Villanies of the Popish Clergy. 1679.'

6. ¶ 'A True Narrative of that Grand Jesuite Father Andrews, who lived at Hardwick in Monmouthshire, how he fled into a large Wood to escape Justice, how he came to an untimely End, and the manner of his Burial. 1679.'

Yr oedd yr Iesuitiad hwn yn byw weithiau yn Ysgynfraith, 8 milltir o Hardwick. Carcharwyd gwraig y talle yr oedd ym Mrynbuga am ei goleddu. Cafodd ffermwr o hyd i'w fedd ryw ddiwrnod yn Wengothen, ger Abergafenni.

7. ¶ 'A Collection of 10 different Broadsides and Single Sheets Published, relating to Mr. Arnold, the Monmouthshire Justice, Sir George Wakeman, and Wm. Bedlow, who was so Active at the Monmouth Trials of Jesuits and Malignants.*'

Y mae dyddiadau y rhai hyn yn cyrhaedd o'r fl. 1679 i 1680. Rhyw hanesion dyeithr ydynt mewn ffug, yn cymmeryd arnynt eu bod yn newyddion o'r cyfandir, ac er hyny yn dadguddio yn amlwg ddichellion yr Iesuitiaid yng Nghymru, ac yn cyfeirio trwyddynt at labyddiad Arnold.

8. ¶ 'Short Narrative of the Discovery of a College of Jesuits at a place called Combe, in the County of Hereford, which was sent up by Herbert Bishop of Hereford to Parliament, according to order, to make diligent search and return an Account thereof, to which is added a true Relation of the Knavery of Father Lewis, the pretended Bishop of Llandaff, now a prisoner at Monmouth Goal. Printed by T. N. 1679.'

Y mae 'Father Lewis' yn cael cael ei ddarlunio yn fwy o ddyhiryn nag o sant. Dywedir chwedl am dano iddo dynu dyn allan o'r purdan i'r nefoedd am 100p., ond iddo o'r diwedd foddloni cymmeryd 30p. gan fod yr amseroedd yn ddrwg.

* [Gellid meddwl mai o Gofrestr rhyw lyfrwerthydd y cymmerwyd y rhifyn hwn, ac mai darluniad o gynnwysiad y gyfrol, ac nid enw neb o'r llyfrynau, a roddir yma.]

9. ¶ 'Letter from a Gentleman in the Country to his Friend in London, occasioned by a Prophesie that was lately found in the place of Retirement of Father Lewis of Combe in Herefordshire. Father Lewis was the party that undertook, for the value of £30, to pray the soul of a certain maid's father out of purgatory, the which hath lately been made mention in a phamphlet. 1679.'

1680.

1. 'Unum necessarium sive practica Definitio Orationis. Ym- arferol Athrawiaeth Gweddi, yn dangos beth (ac mor angenrheidiol) yw'r Ddyledswydd Bwysfawr honno mewn Traethawd byrr o waith Ioan Thomas y Gwaelaf a'r Annheilyngaf o weision Crist.

A breintwyd yn Llundain i'r awdwr.'

2. 'The Mystery and Method of His Majesty's Happy Restora- tion Laid open to Public View. By John Price, D.D. one of the late Duke of Albemarle's Chaplains, and Privy to all the Secret Passages, and particularities of that Glorious Revolution.

London, Printed for James Vade at the Cock and Sugare Loaf near St. Dunstan's Church in Fleet Street. 1680.'

3. 'Index Villaris, or an Alphabetical List of all the Parishes, Villages, Towns, Castles, Seats of Nobility, with their Names,—in England and Wales. By — Adams.' 1680.

4. ¶ 'The Information of Turbervill, of Skerr, in the County of Glamorgan, Gent., 1680.'

Cynnwys hwn lawer iawn o wybodaeth am y Pabyddion Cym- reig, a'r rhai oeddynt anufudd i'r llywodraeth ar y pryd. Yr oedd y Turbervill hwn yn arfer byw gyda'r Arglwyddes Mary Molineux, merch Iarll Powys, fel ei hathraw. Yr oeddynt yn Babyddion, ac arferai ef, a Wm. Morgan, Iesuitiad, a Rheithor dros yr holl Iesuiti- ad yng Ngwynedd, sir y Mwythig, a sir Stafford, gario ym mlaen seremonïau Pabaidd yn fynych. Y mae yn rhoddi hanes am frad- wriaeth yng Nghymru.

5. ¶ 'Examination taken upon Oath in the Counties of Mon- mouth and Hereford, Reported to Sir John Trevor, Chairman of the Committee to prevent the Growth of Popery, with the Account given to the House of Commons by Jno. Arnold and John Scudamore, of the Encouragement given to Popery in the Counties of Monmouth and Hereford. 1680.'

Y Syr John Trevor uchod oedd un o hynafiaid Arglwydd Dungannon, o Fryneinallt, yn swydd Ddinbych. John Scudamore oedd o deulu y Scudamoriaid o Kentchurch, yn sir Henffordd.

6. ¶ ‘Clamor Sanguinis, or the Cry of Blood, being a Short but True Account of a Barbarous and Bloody Assault made on Thursday night, the 16th, on the Body of John Arnold, Esq. Justice of the Peace for the County of Monmouth. 1680.’

Yr oedd yr Arnold hwn yn ddraen yn ystlysau yr Iesuitiaid Cymreig. Yr oedd wedi mynu crogi un Cadben Evans o Forganwg, a darfu i'r Pabyddion gynllwyn i'w lofruddio yn ebrwydd.

7. ¶ ‘An Account of an Attempt upon the Person of Mr. Arnold, one of His Majestie's Justices of the Peace for the County of Monmouth, between 9 and 10 o'clock at night, 15 Ap. 1680.’

Y mae hwn yn hollol wahanol i'r un diweddfaf uchod. Y mae yn rhoddi hanes neillduol am un ‘Master Herbert,’ yn sir Fynwy, Pabydd, a ddygodd gyhuddiad yn erbyn Mr. Arnold.

8. ¶ ‘England's Second Warning-Piece, Observation on the Barbarous Attempt to Murther Justice Arnold (a Person of above £1500 per annum, a very worthy gentleman, and a Justice of the Peace for Monmouthshire) Ap. 15. 1680, with a copy of the pretended Speech of Evans the Popish Priest executed in Glamorganshire.’

Rhoddir hanes am Goleg Iesuitaidd ‘y Combe’ (y Cwm), yn sir Henffordd, ac hefyd am farwolaeth Mr. Phil. Evans, a Mr. John Lloyd, dau offeiriad, a grogwyd yng Nghaerdydd, Morganwg. Yr oeddynt wedi tori gwddf Mr. Arnold, Ustus yr Heddwch yn sir Fynwy, o glust i glust, er hyny efe a adferwyd. Dienyddiwyd hefyd offeiriad o'r enw Langhorn ym Mynwy.

1681.

1. (1.) ‘Canwyll y Cymru; Sef gwaith Mr. Rees Prichard gynt Ficer Llanddyfri. A brintiwyd o'r blaen yn bedair rhan, wedi ei cyssylltu oll ynghyd yn un Llyfr. The Divine Poems of Mr. Rees Prichard, sometimes Vicar of Landoverly, in Carmarthen Shire. Wherunto is added The Strange but True Narrative of the Chief Things, spoken and acted, by an unclean Spirit at Mascon. Translated out of French into English, by Dr. Peter Du Moulin, upon the desire of the Honourable Robert Boyle Esquire. And now done into Welsh, by S. Hughes of Swansea.

London, Printed by Tho. Dawks, his Majesties British Printer. Sold by Enoch Prosser, at the Rose and Crown in Sweeting Rents, at the East End of the Royal Exchange. 1681. The Price, bound, 2s. 6d.’

Dyma y trydydd argraffiad,* yr hwn a ddygwyd allan trwy ym-

* Gwel rhif 1, d.f. 1664; rhif 2, d.f. 1670; a rhif 6, d.f. 1675.

drech a than olygiad medrus Stephan Hughes. Yr oedd yn gydiol a hwn y canlynol:—

(2.) ‘Dav Gymro yn taring yn Bell o’u Gwlad, ac ymgyffwrdd ar fynydd, ac yn chwedleua am a welson ac a glywson ynghylch consurwyr, rheibwyr, dewiniaid a’r fath.’

Dywed Stephan Hughes,† mai gwaith Mr. Robert Holant, ‘gynt gweinidog *Llanddowror*, yn Shir Gaer’ [Fyrddin], yw y gwaith hwn ar gonsuriaeth, ac eglura mai y lle hwnw a gam-lythyrenir mewn lleoedd ereill yn ‘Llan Ddeferawg,’ a ‘Llanddyfwr.’‡

2. ‘Adroddiad cywir o’r pethau pennaf, ar a wnaeth, ac a ddywedodd ysbryd aflan ym Mascon, yn Burgundy, Yn Nhŷ un Mr. Francis Peraud, Gweinidog Eglwys y Protestaniaid yn y Dref honno: A osodwyd allan yn Ffrangaeg gantho ef ei hun; a chwedi hynny yn Saesoneg, gan un ac oedd a gwybodaeth neilltuol ynghylch y Stori hon: Ac yn awr wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan S. H. o Abertawe. A’i Breintio yn Llundain gan T. S. yn y flwyddyn 1681.’

Y mae yn ei ddiwedd ‘Llythyr at y Darllenwr,’ yn dechreu â ‘Darllenwr cariadus,’ ac yn diweddu—‘Stephen Hughes,’ a’i amseru ‘Broad Street yn Llundain, y 6 Dydd o Fis Rhagfyr, 1680.’ Cyflwynir ef i ‘Thomas Manwering,’ gorwyr y Ficer, wrth yr hwn y dywed y cyhoeddwr:—

‘*Anrhydeddus Syr,*

UN o Fendithion mawr yr Arglwydd Dduw i Ddynion ar y Ddaiar, ydyw danfon iw mysc hwynt *Weinidogion Ffyddlon*, sef rhai ac a fyddo, nid yn unig yn Pregethu *Athrawiaeth dda*, eithr hefyd yn rhoddi *Siampl dda* iw Gwrandawyr, mewn Ymarweddiad Duwiol, sobr, a Chyfiawn, canys trwy *Weinidogaeth* y cyfryw rai yn gyffredinol, y mae Duw yn rhoddi i Bobl *Wybodaeth* jachusol o hono ei hun, *Ffydd* yn Grist, *Edifeirwch* am bechod, a *Newydd-deb* buchedd, heb yr hyn ni ddichon neb fod yn gadwedig.

Os cafes rhai erioed y Fendith hon, Plwyfolion *Llanddyfri*, *Llanfair* ar Bryn, a *Llanedi*, a’i cawsant hi (*pe medrasent hwy yn ei Dydd wneuthur defnydd da o honi*) pan danfonodd Duw attynt y parchedig Mr. *Rees Prichard*, i fod yn *Weinidog* iddynt. Canys ni bu dim o’i ran ef yn ôl, na thrwy *Bregethu*, na thrwy *siampl dda*, i geisio i troi nhwy at Dduw trwy *Jesu Grist*, fel y byddent cadwedig.

Trueni mawr ydyw, na buasse Dull ei *Fywyd Bendrigedig* ef wedi ei ossod allan mewn print, gan rai Gwyr duwiol dyscedig, y rhai oeddynt yn ei nabod ef, fel y mae Bywydau llaweroedd o *Weinidogion* grassol, mewn amryw lleoedd, wedi ei gossod allan er siampl i eraill.

† ‘Llythyr at y Darllenwr,’ i’r Adroddiad cywir. Gwel rhif 2, dan y flwyddyn hon.

‡ Gwel d.f. 1631; a rhif 3, d.f. 1677.

Rwi'n casclu mewn rhan oddiwrth ei Waith ef yn y Llyfr hwn, ac mewn rhan oddiwrth yr hyn a glywais i am dano ef, o Eneid rhai a ellit ei coelio, *Fod Mr. Prichard yn Briod da, yn Dád da, yn Feistr da, yn Weinidog da, yn Wladwr da, ac yn Gristion da, trwy y Gras a'r Donnie mawr a dderbyniodd efe oddiwrth y Goruchaf Dduw.*

Ac o herwydd hynny, Megis yr Adroddir, i *Alexander fawr* ddywedyd wrth un o'i Filwyr, a elwit *Alexander* (yr hwn oedd ddyn digalon) *Burw ymmaith yr Ew Alexander, oni byddi di Wr calonnog a glew*: Felly, or Digwydda i un o Ficceriaid *Llanddyfri*, wedi cael y fath Batrwn da i'w ddilŷn, brwfio fod yn Wr o ymarweddiad drwg, yn *Esceulus* yn ei Weinidogaeth ac yn ddiotal am yr Eneidie dan ei law, Fe ellir dwedyd wrth hwnnw, *Burw ymaith o fód yn Ficcer Llanddyfri, oni wellai Di dy Fuchedd, oni byddi Weinidog Ffyddlon i Jesu Grist yn dy Lé.*

Ac yn awr am ei Lyfr ef y mae hyn iw ddywedyd, *mai megis ac y mae yntho lawer iawn o Fatter Da: Felly hefyd y bu ef offeryn yn Llaw Duw i ddechre Grás mewn rhai, ac i gynnnyddu Grás mewn ereill; (cyn belled ac y gallo Dynion farnu) ac fe fu fodd, i dynnu llaweroedd i ddysgu darllain, hyd onid ydynt o herwydd hynny, mewn Ffordd bosiblach nag yr oeddynt o'r blaen, i wrando Pregethiad yr Efengyl yn fuddiol, ac felly i fod yn gadwedig, oni bydd y Bai arnynt ei hunain, trwy esceuluso gwneuthur yn ól yr hyn y maent yn ei ddarllain, ac yn ei glywed allan o Air Duw.*

Syr, yr Amser diwetha y printiwyd y Llyfr hwn fo'i cyssegrwyd ef, i rai o'r *Gweinidogion* pennaf yn holl *Gymru*; nid yn unig am iddynt hwy helpu ei osodiad ef allan, ynghyd â'r Testament cymraeg y pryd hynny; ond hefyd fel y gellit cymmeryd Achos i scrifennu attynt, ynghylch Printio'r Bibl cymraeg drachefn, Gwaith ac a ddaeth i agos ddwyfil o Bynne o gôst, ac eraill Gwyr anrhydeddus a pharchedig o'i Bath.

Ond yn awr Syr, Rwi'n danfon y Llyfr allan tan eich Henw chwi; nid yn unig oblegit eich bod yn *Orwyr* ir *Awdwr* bendigedig; (ac felly, o holl *Foneddigion y Wlad, y Ffittiaf i gael Dedicasiwn o hono*;) Ond hefyd, fel y gallafi trwy hyn ddangos fy Niolchgarwch i Chwi, am eich papyre y dderbyniais i oddiwrthych eich hunan, ac o Landingat, y rhai sydd yn gwneuthur i fynu y rhan fwyaf o'r Llyfr hwn.

Syr, os gwir yw, fod rhan o'r gwaith hwn yn eich dwylo chwi, ar nas printiwyd erioed etto, mi ddeisyfaf arnoch chwi ystyried, *nas gwna'r cyfryw Bethau lesad yn y byd i neb, tra font yn guddiedig megis Canwyll tan Lester, ond oi gosod mewn Print, hwy fyddant megis Canwyll mewn canhwylbren i oleu'r Wlad o bobtu.*

Mae hyn yn ddilys, *Fod llawer o Annuwioledeb yng Hymru, A bod diffig mawr o Weinidogion Ffyddlon, mewn amryw leoedd* (nid wi'n dywedyd ym mhob Lle, yn ein Gwlad) *i droi Pobl oddiwrth eu Hannuwioledeb fel y bônt cadwedig; ac fe ddyle'r ystyriaeth hynny, beri i ni wylu Deigre o waed, pe bae bossibl; Canys nid matter bychan ydyw, fod Bagad ar y Ffordd i fod yn golledig, tros fyth, heb nemawr i rhagod hwynt, rhag mynd yn y blaen i Ddestryw.*

Rym ni'n edrych arno megis ein Dyledswydd, i achub Dyn rhag Boddi, neu gael ei Losgi, pe bydde yn ein pwer ni i gadw ef: Ac

os dylem ni wneuthur ein gore, i safio un'on cymmydogion, o ran Bywyd y Corph; Oni ddylem ni yn fwy o lawer, yn ein Llé, ac yn ôl ein Gallu, ymdrechu cadw Bywyd Eneidie Miloedd o'n Cydwladwyr, rhag Boddi mewn Pechod, a Llosgi dros fyth yn Nhân Uffern? Oblegid y mae'r Enaid yn werthfawroccach na'r Corph, ie na'r Byd i gyd? *Math.* 16. 26.

Ac yn awr, o herwydd y dichon Llyfre da helpu peth tuagat iechyd-wriaeth Eneidie Pobl, Mi ddeisyfaf arnoch chwi (ar ôl pwyso'r matter yn araf) i ddanfon y papyre (or oes dim yn eich dwylo chwi) at ryw Weinidog duwiol a dyscedig, (y Sawl a fynnoch chwi) i gael ei Farn ef arnynt, fel y gellir eu printio hwynt mewn amser er daioni ir Wlad, o bernir hynny'n gymmwys: y mae Christ ein Harglwydd yn addo gobrwyo (oi rês) y sawl a roddo Elusen i Gyrph ei Bobl ef; (pe bae hynny ond cwppanaid o Ddwfr oer) *Ac oni obrwya efe yn fwy o lawer y Sawl a roddo elusen iw Heneidie hwynt.* Ac elusen ir enaid yw gossod llyfr da yn llaw dyn, i cyfarwyddo fe ym matterion ei iechyd-wriaeth. Os dichon Gwr wneuthur llesad i eraill, (yn enwedig i Eneidie Pobl) pan y gwnelo fe hynny iddynt, fe fydd y peth yn Fatter o Ogoniant a Chymffordd iddo: Ond ni bydd e felly i neb o honom, os esceuluswn ni wneuthur y daioni a allem ei wneuthur, i unrhyw enaid pwy bynnag; ond mwy o lawer, os esceuluswn wneuthur felly i Wlad gyfan; nid i sôn ymhellach, nid allwn ni roddi dim cyfrif dâ i Jesu Christ ryw ddydd, am y cyfryw esceulus-dra.

Os Chwychwi, yr hwn sydd gangen wedi tyfu allan o wyr Eglwysig cyfrifol, sef o'r anrhydeddus *Escob Manering*, ar yr un ochor, ac o'r *parchedig Mr. Prichard*, ar yr ochor arall, ni wrendy ar y dymyniade onest, y mae Gweinidogion yn ostyngedig yn ei ossod och blaen chwi, er daioni ir Wlad yn gyffredinol, ac nid ar amean yn y byd, i geisio ennill iddynt eu hunain (fel y mae Duw yn Dyst) os Chwchwi meddaf i ni wrendy, Pwy a wrendy arnom?

Rhynged bôdd i chwi bardyno fy eondra am helaethrwydd i; a derbyniwch hyn i gyd mi attolygaf arnoch, megis arwydd o gariad at ein Gwlad, ac'or parch hynny, ar y sydd yn ddyledus i chwithe, *Anrhydeddus Syr.*

Eich gwasanaethwr gostyngedig. *Stephen Hughes.*

Broadstreet yn Llundain, y 29. o Fis Tachwedd, 1680.'

3. 'The Works of the Eminent and learned Judge Jenkins upon Divers Statutes concerning the King's Prerogative and the Liberty of the Subject. Now Printed from the Original Authentick Copy. Written and published by himself, when Prisoner in Newgate.

London, Printed by Samuel Reycroft, for Samuel Heyrick, at Grayse Inn gate in Holborne.'

4. 'The Armies Imdempnity, with Addition. Together with a Declaration shewing how every Subject of England ought to be Tried for Treasons, Felonies, and all other Capital Crimes, as it is set down in the Laws of the Land. By David Jenkins, now Prisoner in the Tower of London.

London, Printed in the Year 1681.'

5. 'The Historical and Miscellaneous Tracts of the Reverend and Learned Peter Heylyn, D.D. Now Collected into one Volume & To which are Added—An Account of the Life of the Author, &c.

London, Printed by M. Clark, 1681.'

Y Dr. PETER HEYLYN oedd ail fab Henry Heylyn, o deulu Pentref Heilyn, ym mhlwyf Llanymynech, sir y Mwythig, a chefnider i Rowland Heylyn. Ganwyd ef yn Barfford, yn sir Rhydychain, Tach. 29, 1600. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y derbyniodd ei raddau. Cafodd amryw ddyrchafiaethau eglwysig yn amser Siarl I.; o'r rhai, o blegid ei fod dros y brenin a'r Eglwys, y cafodd ei ddifuddio yn amser Cromwel, ac y dyoddefodd brinderau mawrion. Pan adferwyd Siarl II., adferwyd yntau. Eglwyswr ydoedd o argraff y Brenin Iago, ac Archesgob Laud. Bu farw yn 1663, yn 63 oed.*

1682.

1. ¶ 'Prif-fannau y Grefydd Gristionogol. Llundain.' 8plyg.

Ef allai mai trydydd argraffiad ydyw o'r 'Crynhodeb o Addysg Gristionogol,' a gyhoeddwyd o'r blaen, 73 a 25 mlynedd yn ol;† neu ef allai ail argraffiad o 'Prif-fannau Crefydd Gristionogol' Row. Vaughan.‡

2. ¶ 'Y Catechism a osodwyd allan yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, wedi ei egluro ar fyrr eiriau. Llundain.' 8plyg.

Y mae yn dra thebyg mai yr—'An Essay of Questions and Answers framed out of the short notes upon the Catechism, by Dr. Fell,' Esgob Rhydychain ydyw hwn, a'r hwn a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan John Williams, ysgolhaig o Gaergrawnt, ac athraw i ryw wr mawr yng Ngholeg yr Iesu, yn y Brifysgol hono, ac argraffwyd ef yn Rhydychain, ac nid yn Llundain, 1682. 8plyg.§

3. 'Llwybr hyffordd yn cyfarwyddo yr anghyfarwydd i'r nefoedd. Yn yr hwn y dichon dyn ystyriol weled ei gyflwr presennol, pa un ydyw ai cadwedig ai colledig. Wedi ei osod allan ar ddull ym-

* His *Life* with the above Works.

† Gwel rhif 1, d.f. 1609; a rhif 2, d.f. 1657.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1658.

§ *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 593.

ddiddanion, yn gyntaf yn Saesonaec o waith Arthur Dent, Gweinidog Gair Duw. Ac yr awr-hon wedi ei gyfieithu yn Gamberaec er cymmorth i'r Cymro annyscedig, fel y gallo efe gael yn ei dafod-iaith ei hûn, foddion a chyfryngau i chwanegu ei wybodaeth i wasanaethu Duw. Yr ail argraphiad.

Printiedig yn Lundain gan Bennet Griffin yn y Flwyddyn 1682.* [12plyg.]

Y mae hwn yn llyfr lled drwchus 12plyg, o 490 o dudalenau, heb law yr wyneb-ddalen, a'i 'At y darllenydd o Gymro vnaiath; Annerch.' yr hwn sydd yr un ag oedd yn yr argraffiad cyntaf, gan Robert Llwyd, y cyfieithydd. 'C. E.' neu Charles Edwards, oedd 'Diwygiwr y Preintwasg.' Fel y rhan fwyaf o lyfrau yr oes hòno, y mae nifer o ffurf o weddiau yn ei ddiwedd. Ymddyddanion ydyw rhwng—

Yr ym- ddiddan- wyr.	{	<i>Theologus</i> : Pregeth-wr.	
		<i>Philagathus</i> : § Gwr-da.	§ Gwr-onest.
		<i>Asunetus</i> : Anghyfarwydd-ddyn.	
		<i>Antilegon</i> : § Cēcryu.	§ Cynnenwr.

Yn ei ragflaenu y mae—

'*Ystyriaeth, a chynnwysiad yr ymddiddanion hyn â ddengys i ni.*

1. Drueni dyn tan naturiaeth, a'i ymadferth i ddiange rhagddo.
2. Anwiredd yr amser ymma, a chyffredin lygredigaeth y byd.
3. Nodau plant Duw, a nodau y rhai gwrthodedig : ac arwyddion hyspys o iachawdwriaeth, a damnedigaeth.
4. Mor anhawdd yw myned i fywyd : a lleied yw nifer y rhai â ânt yno.
5. Anwybodaeth y byd, a'i wrth-attedion yntef.
6. Hyfryd addewidion yr Efengyl, ac aml drugareddau Duw ir sawl oll â edifarhânt ac â gredant, ac â wir ddychwelant atto ef.'

Golygiadau tra Chalfinaidd yw athrawiaethau y llyfr. Y mae yn gydiol, fel o'r blaen—

4. 'Pregeth am Edifeirwch. Gan Arthur Dent.' †

Talfyriad bychan ydyw o'r bregeth ragorol hòno. Gyda'r 'Trysor i'r Cymru' y mae oll. ‡

* Gwel rhif 4, d.f. 1630.

† Gwel rhif 1, d.f. 1629.

‡ Gwel rhif 1 (3), d.f. 1677.

5. 'Gwyddorion Naturiol. 1682.' 32plyg.

Am hwn y dywedir gan Charles Edwards, yn niwedd y 'Llwybr hyffordd' uchod—'Y mae'r awrhon Briflyfr Newydd wedi dyfod allan, yn cynwys Gwyddorion Ysprydol a Naturiol, gyd ag ybysrwydd o'r amser, a Ffeiriau Cymru, fel yr oedd yn y llyfr Plygain gynt, iw dysgu i'r ieuainge, ac iw hystyried gan bawb.' Cynnwysa hefyd—'*Barddoniaeth i Hanes y Ffydd. A ddanfonodd Mr. Hugh Salisbury O Glog Caenog, (tra yr oedd efe yn Ysgolhaig yn Rhydychen)* iw printio gyda'r llyfr hwn.' Gan hyny yr ydys yn casglu mai gwaith Mr. Charles Edwards ei hun yw y llyfryn bychan tlws hwn. Y mae Almanac ynddo am 1683-84-85; ac hefyd 'nodau rhifyddiaeth,' fel y mae yn gyssylltiol â llyfrau ereill Charles Edwards.

6. 'Wallography, or the Briton described, being a pleasant relation of a journey into Wales; wherein are set down several remarkable passages that occurred in the way thither, and also many choice observables and notable commemorations concerning the state and conditions, the nature, and humourous actions, manners, customs, &c. of the country and people, by William Richards, a mighty lover of Welsh travels and memories of Wales.

London. 1682.' 12mo.

7. 'The Last Judgment, a Discourse at the Assizes for the Co. of Denbigh, by J. Oliver, of Cheshire. 1682.'

Y mae wedi ei gyflwyno i Joshua Edisburg, Uchel Sirydd.

8. ['Egwyddor, i Rai Jevainge i'w cymmhwysu i dderbyn y Cymmun Sanctaidd yn fuddiol. Gwaith y Parchedig a'r Dwyfol Athro Simon Patrick Deon Llanbedr yn lloegr. A Gyfieithwyd o'r Saesonaeg, gan Edward Llwyd, Athro yn y Celfyddydau. Ag a Brintiwyd yn Llundain, 1682.' 12plyg bychan.

Ar ol Rhagymadrodd 'yr Awdur at y Darllenydd,' y canlyn—'Y Cyfieithydd at ei anwyl Blwyfolion, yn llangowair yn swydd feirion; yr hwn a ddyddir—'O'm Stafell yn Eglwyseg Mis Medi y chyntaf. 1682.' Yn nesaf at yr anerch hwn ceir englynion 'Ar y Gorthrymder gynt, y bu y Cyfieithydd dano, ei Warediad, o hono, ac ar y Cyfieithiad,' y rhai y dywedir am danynt—'Ei gowir a'i ffyddlon gâr, *Meredydd Llwyd* ai cânt. Er dal Cof am ei Anwyl cwyfhr, a'i anrhydeddus henaint.' Cynnwys y llyfran 156 o dudalenau, heb law 16 yn y dechreu.

Am yr Awdwr (yr Esgob Patrick), a'r Cyfieithydd, gweler rhif 8, d.f. 1722.

Wrth y lle a elwir '*Llanbedr* yn lloegr,' y golygir dinas esgobawl *Peterborough*, yn swydd Northampton.]

1683.

1. ¶ 'Tystiolaeth o Gariad ac Ewyllys da (a rhagymadrodd o waith Jo. Jones). Gan John Longhurst. Llundain.' 12plyg.

2. ¶ ‘Gwr Cyffredin yn ei Addoliad a’i Ymarfer, Neu, Hyfforddiadau wrth ba rai yr annysgedig a allant wybod pa fodd i’w hym-ddwyn eu hunain, yn eu hamryw Ddyledswyddau tu ag at Dduw a Dyn. Wedi eu cymhwyso i’r dealldwriaethau Gwaelaf. Pregethwr xii. 13. Rhydychen.’

3. ¶ ‘Dosparth Catholic ar holl bynciau’r ffydd, megis dialogaeth rhwng y Discebel a’i Athraw.’*

Ef allai mai argraffiad newydd, yn drydydd, o waith y Dr. Rosier Smith.†

4. ¶ ‘Llyfr Gweddi Gyffredin.’‡

5. ¶ ‘Yr Hen Lyfr Plygain a’r Gwir Gatecism, &c. Llundain.

Ail argraffiad. § Mr. Thomas Jones, awdwr yr Almanaciau, oedd ei gyhoeddydd y tro hwn, am yr hwn y dywed mewn hysbysiad cyssylltedig â’i Almanac y flwyddyn hon:—

‘Yr hen lyfr plygain, a gwir gatechism yr Eglwys, yr hwn sydd anghenrheidiol i bawb ei ddysgu cyn myned i’w confirmio at yr Esgob, ie a chyn derbyn y cymmun bendigedig. Yn y plygain hwn, cynhwyswyd hefyd, boreuol a phrydnawnol weddïau, a llawer o weddïau eraill ar amryw achosion; A diolchgarweh i’w ddywedyd o flaen ac ar ol bwyd. Ag yspysrwydd am holl hen ffeiriau Cymru. Oll fel ag y printiwyd gynt drwy orchymyn y Brenin, a thrwy Lafur boen (Doctor Davies) yn y flwyddyn o oed Iesu 1633. Ag a ailbreintïwyd yn y flwyddyn 1683. Ac etto hefyd y chwane-gwyd, athrawiaeth i ddysgu ysgrifenu amriw fath ar ddwylo, wrth yr hyn y geill pawb ddysgu ysgrifenu gartref cystal ag mewn ysgol.’

6. ‘Y Gwir er gwaethed yw, ac amryw o hen gywyddau.’ Llundain. 12plyg.

Mr. Thomas Jones oedd awdwr a chyhoeddwr hwn hefyd. Efe ddyry ei gynnwysiad yn llawn yn un o’i Almanaciau, sef,—

1. ‘Yn gyntaf, Gyflawn yspysrwydd o felldigedig gydfrawdriaeth y papystiaid i fradychu ein Brenin, ac i orchfygu gwir grefydd y deyrnas hon.

2. Yn ail, yn rhoddi hanes cydfrawdriaeth diweddar arall, o ddyfais rhyw rai a elwir whigs ond pa un ai pabystiaid, ai pa beth arall ydynt hwy, ni fedra i ddywedyd.

3. Yn drydydd, yn dangos (gwallgwmp y bobl).

4. Yn bedwerydd, yn rhagfynegu y Troeadau anferthol a ddi-gwyddant yn y byd cyn dyfod y flwyddyn o oed yr Iesu 1703.’

* Y rhif 1 a 2 hyn, yn ol Moses Williams.

† Gwel rhif 1, d.f. 1609; a rhif 2, d.f. 1657.

‡ Yn ol Mr. Daniel Williams, gynt o Lundain.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1633.

Ymddengys mai math o gydymaith i'r 'Almanac' yr oedd T. Jones yn ystyried y llyfr hwn. Gwelir mai at 'Frad y Powdr Gwn' y cyfeiria dan y pen cyntaf, yr hyn a gymmerasai le bum mlynedd yn ol. Ac y mae yn debyg mai at y *Rye House Plot* y cyfeiria dan yr ail ben; pryd y meddylwyd i'r Presbyteriaid ag oeddynt yn anfoddlawn i rai o ymddygiadau gorthrymus Siarl II. ymdrechu taflu yr iau ymaith. Ystyriwyd eu cynghrair yn deyrnfradwriaeth, a dienyddiwyd yr Arglwydd William Russell, &c. Yng Ngwaith Huw Morus y mae cân neu ddyrian, a ganodd 'ynghylch Plott y Presbyterians yn y flwyddyn o oedran Crist 1682.*'

1684.

1. ¶ 'W. L. M. A. & Valentine.'†
2. ¶ 'Jo. Langford, & Dyledswyd.'‡
3. ¶ 'Ellis Lewis & Drexelius.'§

Wrth y cyntaf y deallir 'Defosiynau Priod' y Dr. Valentine; wrth yr ail 'Holl Ddyledswydd Dyn,' ac wrth y trydydd, gwaith Drexelius ar 'Dragywyddoldeb,' fel pe buasent ail argraffiadau o'r gweithiau hyny: ond camgymmeriad mawr Mr. Moses Williams ydoedd eu rhoddi yma hefyd, gan na ddaeth, hyd y medrais gael allan, ond un argraffiad o Valentine a Drexelius o gwbl, na chwaith ond un o'r 'Holl Ddyledswyd' gan Jo. Langford.||

4. 'Llyfr y Resolution, yr hwn sydd yn dysgv i ni bawb Wneuthur ein goreu, a rhoi cwbl o'n bryd a'n meddwl ar fod yn wir Gristianogion, hynny ydyw ar ymadael a'n drwg fuchedd, a throi ar ddaioni a duwioldeb. Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan y Dr. I. D. er llês i'w blwyfolion. Fe brintwyd y Llyfr hwn, er ys mwy nâ hanner cant o flynyddoedd a aethant heibio, ac yn awr drachefn, nid yn unig er mwyn y Gymraeg bûr sydd ynddo (yn amgenach nag mewn un Llyfr ond y Bibl) eithr hefyd er mwyn y Defnydd da ar

* [Gwel *Eos Ceiriog*, i. 219. Yn 1683 y gosodir y Cydfrad hwn gan Huw Morus, o leiaf felly y mae Golygydd ei Waith (G. Mechain) wedi ei osod.]

† Gwel rhif 3, d.f. 1655.

‡ Gwel rhif 7, 1672.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1661.

|| Cyfaddefir mai i nodyn fel yma y buasai briodolaf taflu y llyfrau a'r sylwadau hyn, yng nghyd â rhai ereill cyffelyb, lle y cafwyd yn dra sicr fod Moses Williams yn camgymmeryd; ond yr ydys yn hwyrirydig er hyny i beidio â gadael allan unrhyw argraffiad a nodir ganddo ef, eithr ei gadw i mewn yn hollol fel y mae ganddo ef, ac ar ei awdurdod, oddi eithr y gwelwyd yn bersonol y llyfr a'r argraffiad enwa efe, pryd y galleid gwahaniaethu, ac adgyweirio oddi ar wybodaeth bersonol berffaith; yr hyn nid ydys yn alluog i'w wneyd yn yr esiamplau hyn. [O dan yr un rhifyn (sef 106, yn ei *Gofrestr* ef) y gesyd Moses Williams y tri llyfr a gofnodir yma; a than yr un rhifyn hefyd y cyfleir ganddo lyfr y 'Dilyniad' o waith Thomas à Kempis. 'Velendine,' nid Valentine, yw yr enw yn y *Gofrestr*.]

a ellir ei wneuthur o hono. Yr ail Argraphiad yn Llundain, gan I. R. yn y flwyddyn 1684.* [8plyg.]

Ymddengys fod parotoad yn cael ei wneyd i ddyfod â 'Llyfr y Resolusion' hwn, a'r 'Llwybr Hyffordd,' trwy y wasg er y flwyddyn 1677, yng nghyd â bwriad cael rhyw lyfrau ereill ag y gwelid eu hangen ym mhlith y Cymry; canys dywed awdwr y 'Llythyr at y Darlennydd,' sydd yn rhagflaenu y 'Trysor i'r Cymru,' yr hwn oedd yn ysgrifenu Awst 13, 1677:—

'Os Duw a rydd iechyd a bywyd, disgwyliwch mewn amser, am ail brintio y *Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd, a Llyfr y Resolusion*; y rhai, nid yn vnig er mwyn y mater, ond hefyd er mwyn y iaith tra ra gorol sydd ynddynt (ac yn enwedig y diwethaf o'r ddau, o ran iaith) wedi ei osod allan gan y cymreigwyr goreu yng-Hymru yn ei amser, sef y *Doctor Davies*) a haeddant eu printio drachefu.'

Golygydd yr argraffiad hwn oedd Mr. Charles Edwards; ac y mae yn ei ddiwedd hefyd draethawd 'Am orphywys ar Grist yn vnig am fywyd ac Iechydwriaeth,' gan T. Gouge, fel parhâd o'r llyfr a elwid 'Gair i Bechaduriaid' † gan yr un, ac a gyfieithwyd gan W. Jones,

[Cynnwysa yr argraffiad rhagorol hwn o 'Llyfr y Resolusion' 394 o dudalenau 8plyg bychan, heb law 6 tudalen o bethau arweiniol. Ar ddiwedd y trathawd 'Am Orphywys ar Grist,' ceir 5 tudalen o 'Agoriad ar ryw Eiriau dieithr i rai yn Neheubarth,' er mwyn gwneuthur y gwaith yn hwylusach i ddarlennyddion pob parth o'r Dywysogaeth. Y mae yr argraffiad drwyddo yn un hynod o gywir. Buasai yn dda iawn cael argraffiad newydd o'r gwaith godidog hwn.]

5. 'Dilyniad Iesu Grist, &c. Gan Thomas à Kempis. O Gyfieithiad Hugh Owen, Gwenynog, ym Môn, Esq.' 12plyg.

Ail argraffiad. † Yn yr argraffiad arall rhoddwyd enw y cyfieithydd yn 'H. O. Gwenydog, ym Mon. Esq.,' ond yma adgyweiriwyd yr aflerwch gwallus hwnw.

6. 'An Historical Account of Church-Government as it was in Great-Britain and Ireland, when they first received the Christian Religion. By the Bishop of St. Asaph.'

London, Printed for Charles Brome at the Gun at the West-end of St. Pauls. 1684.'

Yr esgob hwn ydoedd William Lloyd a fu mewn dadl â'r Crynwyr a'r Ymneillduwyr, Richard Davies a James Owen, yn Llanfyllin a Chroesoswallt, a gellid ystyried y llyfr hwn fel esampol o'r hyn yr ymdriniwyd ag ef yn y ddadl hono.

* Gwel rhif 2, d.f. 1632.

† Gwel rhif 2, d.f. 1676.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1679.

1685.

1. 'Gweddi'r Arglwydd wedi ei hegluro mewn amrŷw ymaddroddion, neu Bregethau Byrion. O waith y Gwir Barchedig Dād Geor. Griffith, D.D. Diweddar Escob Llanelwy.

Printiwyd yn y Theater yn Rhydychen 1685.'

Cyhoeddydd neu olygydd y gwaith da hwn ydoedd 'William Foulkes, Llanfylling,' yr hwn a amsera ei 'At y Darllenydd'—'Mawrth 2, 1684,' blwyddyn cyn ei argraffu. Mab ydoedd i'r Parch. John Foulkes, yr hwn a drowyd o weinidogaeth plwyf Llanfyllin, yn amser Gweriniaeth Cromwel. Y mae yn debyg i'w fab gael y lle o blegid i'w dad ddyoddef cymmaint o anfanteision gan y gwerinwyr. Gan yr Esgob Griffith hwn y cafodd y lle, a Llanfihangel yng Ngwynfe gan yr Esgob Owen. Bu farw tua'r fl. 1691. Claddwyd ef wrth ddrws yr eglwys, lle yr oedd careg â cherfiad coffadwriaethol hyd yn ddiweddar. Am yr awdwr, caed achos i grybwyll o'r blaen; ond yma, yn gyssylltedig â'i brif a'i unig waith Cymraeg, byddai yn briodol ymhelaethu. Tybid, hyd yn ddiweddar i

GEORGE GRIFFITH, D.D., gael ei eni yn y Penryn, ger Bangor, yn sir Gaernarfon, Medi 30, 1619;* ond cafwyd allan wedi hyny, mai trydydd mab ydoedd i Robert Griffith, o'r Gareg Lwyd, yn Llanfaethlu, Mon, lle y ganwyd ef; a bod iddo frawd, y Dr. William Griffith—yr hwn oedd yn ganghellydd Bangor a Llanelwy.† Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Westminster, a'i ddewis yn Efydwr‡ o Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1619. Gwnaeth y Dr. John Owen, esgob Llanelwy,§ ef yn berson Llanfechain, yn sir Drefaldwyn, yr hon a gyfnewidiodd am Lanymynech, ar derfyn yr un sir. Cafodd hefyd bersoniaeth Llandrinio, yn yr un sir. Yn 1635, graddiwyd ef yn D.D., a chafodd ganoniaeth yn Llanelwy. Er ei fod yn wrthwynebydd mawr i'r Weriniaeth, ac wedi dadlu llawer â

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 270.

† Humphreys's *Additions to Wood's Athen. Oxon.*, a ddyfynir mewn nodyn diwygiadol gan Williams, yn niwedd ei *Biography of Eminent Welshmen.*

‡ ['*Students of Christ Church*' y gelwir y rhai a elwir yn '*Fellows*' neu Gymmrodwr yn y rhan fwyaf o'r colegau ereill yn Rhydychain.]

§ Yr oedd y Dr. John Owen, yn fab hynaf i Owen Owen, yr hwn oedd ail fab Owen ab Robert o Fodsilin, ym mhlwyf Aber, yn sir Gaernarfon. Gwnaed ef yn Gapelwr i Siarl I. cyn ei ddyfod i'r orsedd. Cafodd bersoniaeth yn Lloegr, lle y buasai ei dad yn berson. Cafodd esgobaeth Llanelwy yn 1629. Yr oedd yn cael ei gyfrif yn Gymro rhagorol, ac efe a sefydlodd bregethu Cymraeg gyntaf yn eglwys plwyf Llanelwy, yn 1630. Dyoddefodd lawer o anfanteision yn amser y rhyfel cartrefol. Bu farw yn Aberkinsey, ger Llanelwy, Hydref 16, 1651, a chladdwyd ef dan orsedd neu bwlpud yr esgobion yn yr Eglwys Gadeiriol, heb fath yn y byd o goffad. Yn y dyddiau hyny, yr oedd dyn o'r enw Milles neu Miles yn geidwad y llythyrdy yn Llanelwy, yr hwn a aeth i fyw i balas yr esgob, ac a arferai werthu gwin a diodydd ereill yno. Dywedir fod y dyn hwn yn porthi ei geffylau a'i ychain yng nghorff yr eglwys, ac yn porthi ei loi yn eisteddole yn esgob, a lleoedd ereill yn y côr, ac iddo symmud y bedyddfaen i'w fuarth yn gafn dwfr i'w anifeiliaid.—Williams's *Eminent Welshmen*, ar ol amrai haneswyr hynafiaethol.

V. Powel,* ac i'r gwrthryfelwyr losgi ei bersondy, nid ydys yn cael iddo gael ei droi ymaith o'r Eglwys, er nad oedd ei fywoliaethau yn nemawr o elw iddo yn yr amseroedd terfysglyd hyny. Yr oedd ganddo law yng nghyhoeddiad 31 o Bregethau o waith y Parch. William Strong (gynt darlithwr yn Westminster), yn gyssylltedig â'r Parchn. John Howe a Thomas Manton, y rhai oeddynt Anghyddfurfwyr. † Cymmerodd arno gyfieithu 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin' o'r newydd yn Gymraeg; ond nid yw yn wybodus pa un a orphenodd ef ai peidio. Efe a gynnygiodd, yn y Gymmanfa Eglwysig, yn 1640, am argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg; ond darfu i derfysgiadau y cyfnod hwnw roi attalfa ar allu yr offeiriaid i wneyd nemawr; ac yr oeddynt hwythau yn rhy ymlynol wrth eu plaid i gydymdrechu â'r blaidd wrthwynebol, hyd yn nod mewn pethau cyffredin Cristionogaeth. Gan ei fod y fath bleidiwr gwresog i'r 'Brenin a'r Eglwys,' efe a wobrwyyd wedi yr Adferiad ag esgobaeth Llan-elwy, Hydref 28, 1660. Yr oedd yn yr esgob hwn lawer o bethau da. Meddylir mai ei gyfansoddiad ef yw 'Ffurf Bedydd Rhai mewn Oedran Addfetach,' yr hon yr oedd sefyllfa pethau yn galw am dani yn y dyddiau hyny, gan fod lluwaws mawr heb fedydd o unrhyw fath; canys yr oedd llawer wedi eu magu yn Grynwyr, a Gwrthfedyddwyr babanod, yn ystod y Weriniaeth; ac yn awr—rhai o fodd, a rhai o anfodd—yn dychwelyd yn ol i'r Eglwys, fel y gwelwyd yn angenrheidiol cyfansoddi gwasanaeth i'r perwyl, a'r hwn na bu nemawr o arferyd arno byth er y pryd hyny. Yr oedd y Cymro hwn hefyd yr un o'r mwyaf selog dros Weithred yr Unffurfiad, a dywedir mai efe â'i law ei hun a dynodd allan brif ddosranau y Weithred hono. Y mae ei haneswyr eglwysig ei hun yn ei feio yn drwm, am ddarfod iddo, wedi cael ei wneyd yn esgob, ddal yn ei feddiant archddiaconiaeth Llanelwy, a ficeriaeth Llanrhaidr ym Mochnant. Nid ydys yn gwybod fod dim o'i waith yn Gymraeg ond y pregethau uchod, y rhai a gyhoeddwyd yn Seisonaeg yn 1684, ym mhen deunaw mlynedd wedi ei farwolaeth, ac yn Gymraeg ym mhen y flwyddyn, ‡ y rhai hefyd a adgyhoeddwyd yng Nghaer-narfon, yn 1806, gan 'Gymdeithas Traethodau Esgobaeth Bangor.' Bu farw yn ddedwydd iawn, Tachwedd 28, 1666, yn 65 oed, a chladdwyd ef yng nghôr Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yr hon yr oedd efe wedi ei hadgyweirio gryn lawer. Bu iddo chwech o blant. Ei unig fab a briododd ferch ac etifeddes y Parch. Griffith Pearce, periglor Nannerch, yn sir Fflint. Un o'i ferched a briododd â John Middleton, Ysw., o Waenynog; un arall â John Edwards, LL.D., periglor Llanymynech, a changhellwr Llanelwy; un

* Gwel rhif 1, 2, 3, d.f. 1652.

† Dyna fel y dywed ei fywgraffydd eglwysig; ond cafwyd allan fod hyn yn gamgymeriad, ac mai George Griffith, o Lundain, Annibynwr, a chyfaill mawr i'r Dr. Owen, ydoedd hwnw.—Palmer, *Noncon. Mem.*

‡ Dywed Wood a Williams mai Pregethau ar Swper yr Arglwydd a gyhoeddwyd o'i waith; ond bernir mai camgymeriad yw hyny; ac mai y rhai hyn ar Weddi yr Arglwydd y rhaid eu bod, gan nad ydynt hwy yn crybwyll am y rhai hyn; ac y mae Foulkes, yn ei Ragymadrodd i'r llyfr hwn, yn dywedyd yr un peth, yr hwn, gan yr ymddengys ei fod yn adnabyddus ag ef, a allasai fod yn gwybod yn dda.

arall a briododd â — Griffith, Ysw., o Fron y Garth; ac un arall â Mr. Foster, llyfrwerthydd yng Nghaerlleon. Mr. Price, o'r Glyn, a Mr. Davies, o Drewylan, a briodasant ei wyresau o Waenynog.*

Yr oedd y golygydd, William Foulkes, yn A.C., ac yn ficar Llanfyllin, yr hon a gafodd gan yr Esgob Griffith yn 1661, a'r hon a fwynhaodd hyd 1691, deng mlynedd ar hugain. Yr oedd yn dal canoniaeth yn Llanelwy, personiaeth ddiwaith y Cwm, personiaeth (o'r hon y cafodd ei ddeoli) Llanbrynmair, ac yn 1680 cafodd bersoniaeth Llanfihangel y Gwynt.

2. ¶ 'Ymarfer o Dduwioledeb, &c. Y Pedwerydd Argraphad yn Gymraeg, wedi gwellhau llawer o gam yspeliadau oedd yn yr argraphiadau eraill.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Jones.†

3. 'Origines Britannicæ, or, the Antiquities of the British Churches. With a Preface Concerning some pretended Antiquities relating to Britain, in Vindication of the Bishop of St. Asaph.‡ By Ed. Stillingfleet, D.D. Dean of St. Paul's, and Chaplain in Ordinary to His Majesty.

London, Printed by Mr. Flesher for Henry Mortlock, at the Phoenix in St. Paul's Church-yard. 1685.' [4to.]

[EDWARD STILLINGFLEET a anwyd yn Cranborn, Dorset, yn 1635. Derbyniodd ei ddysg yn Ysgolion Gramadegol Cranborn a Ringwood, ac yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt. Yn 1668 ymraddiodd yn D.D., ac enwyd ef gan y Brenin Siarls yn gyron cyfarosol St. Paul yn 1670, ac yn ddeon yr Eglwys Gadeiriol hono yn 1678. Cyssegrwyd ef yn esgob Caerwrangon yn 1689; ac, wedi cyhoeddi llawer o weithiau dysgedig, bu farw yn Westminster, Mawrth 27, 1699.]

4. 'A Winding Sheet for Mr. Baxter's dead, or those whom he has kill'd and slayn in his Catholick Communion, sweetly embalmed and decently buried again. Being an apology for several ministers, viz, Mr. Erbury, Mr. Cradock, Mr. Vavasor Powell, Mr. Morgan Lloyd, misrepresented by Mr. Baxter to the world; with twelve queries concerning separation; wherein the Rev. and learned Dr. J. Owen is further vindicated.

London, Printed for E. Reyner. 1685.'

Amseriad y 'Preface' yw 1684, lle y dywed yr awdwr ei fod yn byw belltra mawr o Lundain.

* Willis's *Survey of St. Asaph*; Wood's *Athenæ Oxonienses*; Williams's *Eminent Welshmen*; a Rhagymadrodd i'r Pregethau, gan W. Foulkes.

† Gwel rhif 1, d.f. 1630; rhif 2, d.f. 1656; a rhif 4, d.f. 1675.

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1684.

1686.

1. ¶ 'Teg Resymau Offeiriad Pabaidd, wedi eu hatteb gan Brotestant o Eglwys Loegr. Llundain.'

2. ¶ 'Caniadau Edmund Prys.*

3. 'Cerdd-Lyfr yr hwn sydd yn cynnwys amryw Garolau, a dyrifau o waith amryw awdwyr. Ac a gasglwyd ynghyd gan Ffoulke Owens o Nantglyn yn Sir Ddinbych.

Printiedig yn y Theater yn Rhydychen, 1686.'

Cyrol deneu 8plyg, o 180 tudalen ydyw. 'Cynnwysa garolau a dyrifau o waith Rowland Vaughan (neu Rowland Fychan, fel ei gelwir weithiau); John Wynne; William Philip; Moris Richard; Thomas Lloyd, o Benmaen; Edward Moris; Hugh Moris; Syr Morgan; Jerem. Gruffydd "y Tailiwr Llawn;" John Lloyd, o'r Cwm Pen Anner; Humphrey ap Evan, neu Humphrey ap Evans, neu Humphrey Dafydd ap Evan (canys tybir mai yr un oedd y tri); Gruffydd Peilin; Foulk Price; Edmund Prys; ac ychydig heb yr un enw wrthynt, awdwr y rhai, mae yn debyg, oedd y casglydd ei hun. Rhwng enw y casglydd ac enw yr argraffle, y mae darlun gwych o'r "Theater" yn Rhydychain (cyffelyb i'r un a welir ar ddalen enwawl yr '*Archæologia Britannica*'); a hwn yw y crefftwaith goreu o lawer iawn o ddim a geir yn yr holl lyfr; canys trwyddo i gyd y mae yn nodedig am aferwch ac anghywirdeb argraffyddol.† 'Y mae yr argraffiad yn llawn beiau anafus a chywilyddus,' meddai arall, Thos. Jones, yn ei ail argraffiad.‡

4. 'Fatherly Instructions: being Select Pieces of the Writings of the Primitive Christian Teachers. Translated into English. With an Appendix. Entituled Gildas Minimus.

London, Printed in the year 1686.'

Cynnwysa y llyfr rhagorol hwn lawer o wybodaeth am y Cymry. Mr. Charles Edwards oedd y cyfieithydd a'r golygydd. Y mae 'To the Reader' yn ei ragflaenu, gan 'Charles Edwards; ac yn ei ddiwedd, '*To the Honoured Persons in City or Country, that lately were Trustees for Charitable works in Wales*,'—yn diweddu gydag—'Your obliged servant, *The Translator*;' ac hefyd llythyr arall—'*To my Kindred and Acquaintance in the Counties of Salop and Denbigh, and elsewhere*,' yn terfynu—'Your's C. E.' Hefyd y mae dalen o 'Barddoniaeth i Hanes y Ffydd a'r Prif-lyfr Newydd, a llyfrau eraill a breintiwyd yn ddiweddar;' a dyna yn unig sydd yn Gymraeg ynddo.

* Yn ol Moses Williams.

† *Llythyr* y Parch. D. S. Evans.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1696.

5. ¶ ‘Answer to a Challenge made by a Jesuite in Ireland, with a Discourse on the Ancient Irish and British.’ 4to.

1687.

1. ‘Trugaredd a Barn Neu Yn agos i Drichant o Siampleu rhyfeddol o farnedigaetheu Duw ar yr Annuwiol, Ac o drugaredd-eu nodedig i'r Duwiol, mewn amryw wledydd ac oesoedd; Gydâ llawer o Ystorieu buddiol eraill, wedi eu casglu allan o Ysgrifenniadeu gwyr Dysgedig :

Er dychryn i'r Drygionus,
Er cyssur i'r Daionus,
Ac er rhybydd i Bawb.

Argraphwyd yn y Mwythig gan R. Lathrop, lle y gellir cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaiidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.' [18plyg.]

Y mae yr hysbysiad canlynol ar gael a gyhoeddwyd o berthynas i'r llyfr hwn:—‘Y mae y Llyfr da, a elwir Trugaredd a Barn, o bris 9^d heb ei findio, a swllt wedi ei findio, yr hwn a brintwyd yr hâf diweddfaf, iw gael ar werth yng-Hymru.’*

Am JAMES OWEN, awdwr y llyfr poblogaidd hwn, † mab ydoedd i John Owen, yr hwn ydoedd amaethwr cyfrifol yn byw mewn lle o'r enw Bryn, ym mhlwyf Abernant, ger Caerfyrddin. Ganwyd ef Tachwedd 1af, 1654. Yr oedd iddo hefyd frawd o'r enw Charles Owen, yr hwn a fu flynyddau lawer yn weinidog yn Warrington, yn sir Lancaster, o dan yr enw Doctor Owen, canys yr oedd ei radd yn D.D. ‡ Er mai Eglwyswr, selog oedd y tad, troes y meibion yn Anghydfurfwyr. Gall fod hyn y raddau i'w briodoli i'r amseroedd dyfodol—fod y Weriniaeth wedi ennill awdurdod, a bod ereill, heb law Eglwyswr, yn cael cynnal ysgolion cyhoeddus. Yr oedd un o'r Crynwyr, a elwid Mr. Picton, yn cadw ysgol yng nghastell y dref; ac yno yr anfonodd ei rieni ef gyntaf, ac yna i'r Ysgol Ramadegol, lle y parotïd dynion ieuaine i'r prifysgolion. Darfu hefyd i bregeth a glywodd gan ryw Ymneilldŵr, gael effaith ddeffrŷs ac argyhoeddiadol iawn ar ei feddwl, yr hyn, mae yn

* Olysgrifen Stephan Hughes i Ragymadrodd ‘Taith neu Siwrnau y Pererin. Llundain y 10 o Ionawr 1687.’ [Y mae Llythyr ‘Yr Awdur at y Darllenydd’ wedi ei ddyddio ‘Llundain, Mehefin, 4dd, 1687,’ a'i arwyddo, ‘Dy gydwladwr, J. O.’]

† [‘Awdwr y casgliad hygoelus hwn oedd James Owen, ganedig o'r Bryn, plwyf Abernant,’ &c.—G. WALTER MECHAIN: *Gwaith*, ii. 304.]

‡ Y mae llyfr rhagorol yn Seisonaeg o'r eiddo Charles Owen, o'r enw ‘The Wonders of Redeeming Love, being an Essay on the Reasons why God Redeemed Fallen Men and not Fallen Angels,’ a'i amseru yn ‘Warrington, Nov. 5, 1722.’ Gwel hefyd rhif 22, d.f. 1768. Efe a gyfieithodd waith James Owen ar Fedydd, i'r Seisoneg, o dan yr enw ‘The Infant's Ark, or Infants Baptism proved by xii Arguments, translated out of the British Tongue, by Charles Owen, V. D. M.’

debyg, a droes glorian ei benderfyniad, ag oedd eisoes yn y fantol, i fantoli o du gweinidogaeth gyda'r Anghyddfurfyr. Gan hyny, yn lle myned i Rydychain, efe a aeth i Fryn Llywarch, plwyf Llangynwyd, yn sir Forganwg, lle yr oedd un Samuel Jones yn cadw athrofa fechan, lle yr arosodd bedair blynedd, ac y gwnaeth gynydd mawr mewn ieithoedd. Wedi gorphen ei ysgoliaeth yno, dychwelodd adref, a sefydlodd ysgol yn nhref Caerfyrddin. Ceisiwyd yn daer ganddo, tra yr oedd yma, gan wr eglwysig o gâr iddo o du ei fam, o'r enw Howel, gydymffurfio, a chymmeryd gweinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, ond yn aneffeithiol, er bod y rhagolygiadau yn ffafriol iddo gael dyrchafiaethau uchel. Dechreuodd ei weinidogaeth fel cynnorthwywr i Stephan Hughes, yn Abertawy; ond trwy gyfeillach â Henry Maurice, gynt gweinidog ym mhlwyf Stretton, yn sir y Mwythig, ac wedi hyny gyda'r Ymneillduwr ym Merthyr Cynog, yn sir Frycheiniog, yr hwn oedd yn deilliaw o deulu cyfrifol yn byw ym Methlan, yn eithaf Lleyn, yn sir Gaernarfon, darfu i Mr. Hughes gael ei gymhell i ymadael ag ef er mwyn ei anfon i efengylu i'r wlad hòno. Daeth i Bodfel, ger Pwllheli, lle y bu mewn perygl mawr oddi wrth erlidwyr, ac am naw mis ni allai fyned o'i dy. O'r diwedd, diangodd ar hyd y nos i Fron y Clydwr, yn sir Feirionydd, lle y cafodd groesawiad gan yr hybarch Hugh Owen. Wedi hyny, yn 1676, pan yn 22 oed, efe a wahoddwyd i Swinney, ger Croesoswallt, gan foneddiges dduwiol o'r enw Mrs. Baker oedd yn byw yno, lle yr urddwyd ef ar gynnulleidfa fechan y buasai ei gweinidog farw flwyddyn neu ddwy cyn hyny. Pan oedd yma, teithiai lawer, a chaffai ei erlid yn arw yn fynych; a rhoddwyd ef unwaith yn y carchar yng Nghaerwys, yn sir Fflint, o'r hwn y cafodd ei ryddhau, ar ol apelio i lys uwch yn Llundain. Priododd yn 1679 â Mrs. Sarah George, o Groesoswallt, a symmudodd yno i fyw, gan symmud yr achos ymneillduol yno gydag ef, a mynodd drwydded, trwy farwr y brawdlys mawr yn Ninbych, i bregethu yn y dref hòno, er bod ustusiaid y brawdlys trimisol wedi ei ommedd yn y ddirmygus. Pan oedd yn byw yng Nghroesoswallt, bu dadl rhyngddo a'r Dr. William Lloyd, esgob Llanelwy,* a'r hwn a fuasai cyn hyny mewn dadl â'r Crynwyr yn Llanfyllin.†

* Y Dr. W. LLOYD, oedd fab i Richard Lloyd, o'r Henblas, yn sir Fon; ond efe a anwyd yn Tilehurst, yn sir Berks, lle yr oedd ei dad yn ficer, yn gystal ag yn berson Sonning. Derbyniodd y mab ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, ac ordeiniwyd ef i fywoliaethau yn Lloegr, a gwnaed ef yn gapelwr i Siarl II., gydag urddas yn eglwys gadeiriol Salisbury. Yn 1667, cafodd ficeriaeth yn Reading, ac archddiaconiaeth Meirionydd; yn 1672, gwnaed ef yn ddeon Bangor, gydag urddas arall yn Salisbury; ac yn 1676, gwnaed ef yn ficer St. Martin, Westminster; a Thachwedd, 1680, gwnaed ef yn esgob Llanelwy. Cafodd ef a phump ereill, yn 1688, eu carcharu am anfon erfyniad at y Brenin Iago II. yn erbyn cyhoeddi ei benderfyniadau gwladyddol yn yr Eglwys, y rhai a ryddhawyd ar ol prawf maith yn y *King's Bench*. Yr oedd yn wr rhyddfrydig, ac yn gyfaill mawr i William III., a'i fesurau, a dyrchafwyd ef ganddo i esgobaeth Lichfield, &c., ac wedyn i Gaerwrangon. Cyhoeddwyd amrai bethau mân o'i waith, ond yr unig ddarn o'i waith yn Gymraeg yw 'Mynegai y Beibl,' sydd yn blaenori y Beiblau a olygwyd gan Moses Williams. Bu farw Awst 30, 1717, yn 91 oed. *Wood's Athen. Oxon.; Biog. Brit.; a Williams's Eminent Welshmen.*

† Rhydd Richard Davies, o'r Cloddiau Cochion, yr hanes yn lled helaeth yn ei ffordd ef:—

Anfonasai yr esgob fath o her i Mr. Owen i ddadlu ag ef yn gyhoeddus ar y pwnc o Ymneillduaeth neu Anghyddfurfiad. Derbyniodd y cynnygiad, a chyfarfuwyd yn llydsy y dref ar y 27fed o Fedi, 1681. Yr oedd gyda'r esgob un Henry Dodwell, fel cefn iddo, gyda lluaws o offeiriaid. Yr oedd gyda Mr. Owen, Mr.

'O ddeutu y flwyddyn 1680, neu 1681, daeth y Dr. William Lloyd, gynt o St. Martin, yn Llundain, i fod yn esgob yr esgobaeth hon, a elwir Llanelwy (*St. Asaph*). Yr oedd erlidigaethau yn llymion a chwervon iawn mewn llawer o leoedd yn y cyfnod hwn, o blegid ysgymmudod, a Deddf yr 20^p. y Mis. Ond meddyliodd yr esgob newydd hwn am ffordd dynerach, trwy wysio pob math o Ymneillduwyr i ymddyddan ag ef, ac i geisio eu perswadio i ddychwelyd i Eglwys Loegr. Ym mysg ereill, pan daeth i'r Trallwng, ar ei ymweliad, efe a anfonodd am danom ni. Ceisiodd Charles Lloyd, Thomas Lloyd, a minnau gael cyfleusdra i ymddyddan ag ef, ond yr oeddwn i yn rhwym i fyned i Lundain y diwrnod hwnw, ond arosodd fy nghyfeillion, hyd nes y cawsant gyfleusdra gydag ef; a rhoddodd fy nghyfaill, Charles Lloyd, i mi hanes wedyn o'r hyn a gymmerodd le rhyngddynt, yr hyn oedd i'r effaith hyn:—

Bod yr Esgob wedi ei anfodloni yn fawr nad oeddwn i yn bresennol, fy achos penodol i fyned, a'm harosiad am beth amser o bwrras i'w weled ef; efe a ddywedodd, *Fod ei achos ef yn fwy, beth bynag oedd fy achos i*. Y dydd hwnw hwy a ymddyddanasant ag ef, ei gapelwyr, ac offeiriaid ereill, fel eu gelwir, o ddeutu dau yn y prydawn, hyd ddau yn y boreu. Wedi hyny hwy a ymddyddanasant ag ef ddau ddiwrnod yn Llanfyllin. Y dydd cyntaf o tua dau yn y prydawn hyd nos, yn gyhoeddus, yn llydsy y dref. Y dydd cyntaf yn y Trallwng, darfu i'n Cyfeillion Charles Lloyd a Thomas Lloyd roddi eu rhesymau am ymneillduad. Ni wnai yr Esgob a'i Offeiriaid amddiffyn eu hegwyddorion ar yr un o'r dyddiau hyny, na gwrthwynebu yr eiddo minnau; dim ond dal ar y tri diwrnod, ar egwyddorion cyffredinol Cristionogaeth, ac esiamp'au yr Apostolion o fedydd dwfr, a chyffyrddiad bach unwaith ar y Bara a'r Gwin. Daliodd Thomas Lloyd y dydd olaf, ar ein rhesymau pa ham yr ydym yn ymneillduo oddi wrth yr Eglwys Loegr, y rhai oeddynt,

1. O blegid nad oedd eu haddoliad yn addoliad yr Efengyl.
2. O blegid nad oedd eu gweinidogaeth yn weinidogaeth yr Efengyl.
3. O blegid nad oedd eu hordinhadau yn ordinhadau yr Efengyl.

Ond nid unent hwy ag ef i brofi yr un o honynt, er ceisio yn fynych ganddynt wneuthur hyny; gan mai Cyfeillion oedd yn dyoddef, rhaid iddynt ymstwtwng i bob anfanteision: canys ni chwasant rybudd yn mlaen llaw o'r pynciau yr oeddynt i ymresymu arnynt, nes y daethant i'r lle yr oeddynt i ymddadlu; a'r dydd olaf hwy a ddirgymhellasant Thomas Lloyd i tuag wyth ar hugain o benau, oll wedi eu hysgrifenu i lawr fel yr oeddynt yn dadleu, i'w hateb yn ddifyfyr, a dywedodd yr esgob, nad oedd ef yn dysgwyl y galleid dywedyd cymmaint gan neb ar y pwnc hwnw, ar gyn lleied o rybudd. A dywedodd, nad oedd ef yn dysgwyl cymmaint a syberwyd oddi wrth y *Crynwyr*; a chanmolodd Thomas Lloyd yn fawr, a daeth ein Cyfeillion drwyddi yn eithaf da gyda hwynt. Cawsant lawer o siarad hefyd a'r Canghellwr, a rhyw Henry Dodwell, a chyda deon Bangor, esgob Henffordd wedi hyny, dyn dysgedig iawn, yr hwn oedd hefyd yn y ddadl hono, yng nghyd â llawer o offeiriaid yr esgobaeth, a rhai Ustusiaid yr Heddwch, Is-raglawiaid y sir, a thyrfia fawr o bobl, yn llydsy y ddywededig dref Llanfyllin. Nid oedd llawer o'r offeiriaid, a'r rhai yr ymddyddenais i wedyn, yn ymddangos yn foddhaol iawn ar y ddadl hono; canys dywedasant eu bod hwy yn meddwl fod cadernid Bedydd Dwfr wedi ei wanhau yn fawr drwyddi; a dywedodd llawer o ddynion o hynodrwydd ag oedd yn bresennol, na feddylasant hwy y galleid dywedyd cymmaint yn erbyn Bedydd Dwfr, ag a ddywedwyd yno. Cytunwyd, trwy gydsyniad pob plaid, nad argreffid y ddadl. — *Account, &c., of Richard Davies.*

Bu yr esgob a Richard Davies yn dadlu, neu yn ymddyddan yn gyfeillgar, wedi hyny, a dangosodd lawer o diriondeb tuag at y Crynwyr; canys yr oedd yn foneddwr llariaidd ragorol.

Philip Henry, tad yr esboniwr Mathew Henry, ac un Jonathan Richards, yr hwn a fwriaisid o eglwys Dinbych. Yr oedd lluaaws mawr o foneddigion siroedd y Mwythig a Dinbych yn y cyfarfod. Buwyd yn dadlu yn gyhoeddus yn y llysy o ddau o'r gloch y pryd-nawn, hyd wyth o'r gloch y nos. Y pwnc, yn benaf, urddiad gweinidogion i waith y weinidogaeth, neu urddiad esgobyddol a henaduriaethol. Dadleuai yr esgob a'i blaid mai esgobawl ydoedd yr urddiad gweinidogaethol yn ol y Testament Newydd, a dadleuai yr Anghydfurfwr mai henaduriaethol oedd yr ordeiniad priodol ac Ysgrythyrol. Dygwyd y ddadl ym mlaen yn dra hynaws gan yr esgob a'r Ymneillduwyr; ond dangoswyd llawer o ysbryd cyffrous gan rai o'r boneddigion a'r ustusiaid eglwysig, a thuedd i arfer awdurdod dreisiol. Er nad ennillodd y naill blaid mwy na'r llall ddim yn y ddadl hon, darfu iddynt adnabod tymmerau eu gilydd yn dda, a pharhaodd yr Esgob yn gyfeillgar â Mr. Owen a Mr. Henry ar ol hyny, gan eu hystyried fel brodyr Cristionogol, er yn Ymneillduwyr cydwybodol. Wedi hyny cymhellwyd Mr. Owen, gan weinidogion sir y Mwythig i symmud i'r dref hòno, i gynnal ysgol i ddwyn dynion ieuanc i fyny i'r weinidogaeth, yr hyn a wnaeth yn 1760, pan yn 46 oed, ac wedi bod yng Nghroesoswallt yn llafurio am ugain mlynedd. Bu farw yn 1706, yn 52 oed.* Cyhoeddodd amryw weithiau yn Seisonaeg, heb law y rhai a enwir o'i eiddo yn Gymraeg. Yr oedd, fel y dynion goreu a mwyaf defnyddiol ym mhob oes, yn gymmedrol iawn yn ei dybiau eglwysig, ac ysgrifennodd lawer o du yr hyn a elwid 'Cydffurfiaeth achlysurol,' yr hyn oedd yn yr oes hòno rhwng dwy blaid a ellid eu galw yn uchel ac isel Ymneillduwyr.†

2. 'Ecclesiarum Britannicarum Antiquitates. Llundain, 1687.'

Ail argraffiad o 'Hynafiaethau yr Eglwys Frytanaid,' gan yr Archesgob Usher.‡

3. 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau. Llundain.

Y Llyfr Gweddi a gyhoeddwyd yn Llundain gan Thos. Jones ydyw, yn gyssylltedig â hwn y mae Salmuau cân Prys, ag iddynt yr wyneb-ddalen canlynol:—

'Llyfr y Psalmuau, Wedi eu Cyfieithu, A'u Cyfansoddi Ar Fesur Cerdd, yn Gymraeg. Drwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionydd.

Argraphwyd yng Haerludd dros Thomas Jones. 1687. Ag ar werth drosto ef

* Jones's *Christ. Biog. Dict.*

† Dr. Richards's *Welsh Nonconformists's Memorial*; Williams's *Eminent Welshmen*; *Life of Richard Davies, of Cloddiau Cochion*; *Y Traethodydd*, 1848, t. 299, &c., ac 1849, t. 473-488.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1639.

Gan { Mr. Charles Beard, Tan Lûn y
Trî Adar Duon a'r forforwyn yn
Watling Street. } yn Llundain.'
{ A Mr. John Marsh, Tan Lûn y
Llew Còch yn Cateaton-Street }

1688.

1. 'Esponiad ar Gatechism yr Eglwys, Neu Ymarfer o Gariad Ddwylfol. A gymmonwyd er lleshad Esgobaeth Bath. Gan Thomas, Esgob Baddon. Ac a gyfieithwyd o'r Saesonaeg (yn ol ei gyntaf osodiad allan), gan William Foulkes, Athro yn y Celfyddydau, a Gweinidog anwiw Gair Duw yn Llanfylling.

Printiedig yn Rhydychen yn y flwyddyn 1688.'

2. 'Taith neu Siwrnai y Pererin, tan Rith neu Gyffelybiaeth Breuddwyd. Yn yr hwn y dangosir, i. Y Môdd y mae Pechadur yn Cychwyn, neu yn Dechreu ei Siwrnai, o'r Byd hwn tua'r Nefoedd. ii. Y Peryglon y mae fo'n cyfarfod âg hwynt, yn ei Daith. iii. Ei Ddyfodiad o'r diwedd ir Wlad ddymynol, neu'r Nefoedd, mewn Diogelwch.

Wedi Lisenso gan R. Midgley, y 23 o fis Tachwedd, 1686. Printiedig yn Llundain gan J. Richardson,* yn y flwyddyn 1688.'

Math o gyfieithiad rhydd, neu alleiriad yw hwn o 'Daith y Pererin' Bunyan, lle y dywed 'S. H.' (Stephan Hughes) yn ei 'Lythr at y Cymru,' yn ei ddechreu, o berthynas iddo:—

'Fy Anwyl Gyd-wladwyr,—Yr wyf'n danfon yn awr Lyfr i'ch mysg, y fu Offeryn i wneuthyr llawer o Ddaioni, i fagad o bobl, y sydd yn deall Saesneg; yr hwn a gyfieithwyd, megis i'r Ffrangeg a'r Dwtsh, felly hefyd yr-wan i'r Gymraeg; mewn Gobaith y bydd e buddiol (trwy fendith yr Arglwydd) naill ai i Weithio Grâs lle mae'n niffyg; neu yntau i angwanegu Grâs, lle y mae e eïsus.

Gwir yw fod yn y Llyfr yma Blisgyn a Chnewllyn; ac am hynny, rhaid ei ddarllen e'n fynych trosto; fal y gellir tori y Plisgin (sef, deall y Damhegion, y sy'n rhedeg trwyddo) ac felly y canfod y Cnewllyn (y matter cynnwysedig yn y cyffelybiaethau) i'w fwytta (trwy fyfyrïo arno) megis ymborth melus a iachusol.

Y mae'r Cyfieithiad o waith pedwar o honom,* sef Gwr bonheddig o Wynedd (yn yr hanner olaf o'r Llyfr); Gwr o Benkader; Ysgolhaig ieuange a ddaeth gyda mi i'r Ddinas hon; ac o'm gwaith fy hunan (y rhan fwyaf o honaw) gan sefyll ar yscwyddau y lleill, fal y gallwn ganfod ym-mhellach nag hwynt hwy.

Ni chedwais i Eiriau, ond ystyr a meddwl yr Awdwr (mewn

* Yr hwn, ef allai, ydoedd fab i Joshua Richardson, yr hwn a fu yn berson Middle, yn sir y Mwythig, ac a garcharwyd yn Llundain gan y blaidd seneddol, yn amser y rhyfel cartrefol. Bu farw yn ddedwydd yn 1671.—Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. iii. p. 149.

amryw fannau) yn y cyfieithiad: Canys fal y gŵyr y Dyscedig yn ddigon da, nid oes vn Llyfr a gyfieithir, o vn iaith ir llall, Air yng Air, a dâl ei ddarllain; oblegit bod Phrases (ymadroddion) a geiriau yn brydferth mewn vn iaith y rhai nid ydynt felly mewn iaith arall.

‘Mi a adewais allan Ail-adroddiad rhyw bethau, ar a oedd yn y llyfr Saesneg; canys wedi eu gosod hwy ar lawr vnwaith, Beth oedd raid eu mynegi nhw drachefn.

‘Mi a angwanegais ym mron *sheet* at y Llyfr, ynghylch mynediad y Pererin tua Mynydd Sinai; ynghyd â llawer o egluriadau ereill; fal y gellit ei ddeall e’n well: Ac mi a adawaf y Dyscedig i farnu, pa vn nad yw’r Llyfr yma yn hawddach i’w ddirnad ai ddeall na’r llyfr Saesneg. Ac fel na byddem ni yn Farbariaid y naill ir llall, mi a agorais eiriau Gwyr Gwynedd â’n geiriau ni o Ddeheubarth; an geiriau ninne, âi geiriau nhwythau.’

Felly ä yr awdwr a’r cyfieithydd medrus ym mlaen, gan wneyd sylwadau canmoliaethol a gocheliadau, o berthynas i ryw weithiau ereill a gyhoeddid yn yr oes hòno, ac yn terfynu gan alw ei hun— ‘Eich Gwasanaethwr yn yr Arglwydd. S. H.’

‘*Llundain y 10 o Ionawr 1687.*’

3. ‘Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, Neu helaeth Eir-lyfr Cymraeg a Saesnaeg, yn cynwys mwŷ o eiriau Cymraeg, nag sŷdd ym Eirlyfr y Disgawdr Sion Dafis o Gymraeg a Lading. Yn gyntaf, yn hyspysu meddwl y Gymraeg ddieithr, drwŷ gymraeg mwŷ cynnefinol: yr hyn sŷ gyfleus, a deunyddiol iawn i bawb a Ewŷllysiynt ddeall a ddarllennont yn gymraeg. Yn Ail, yn dangos y gwir Saesnaeg i bob gair Cymraeg. Ag yn ddilynol, y môdd i gysylltu, sef i (yspelio) pŷb gair yn gywir yn y gymraeg, a’r Saesnaeg. Ac a helaethwŷd Ag Argraphyddol henwau Gwledŷdd, Gosgorddau, Dinasoedd, Trefŷdd, a manau (ymmrydain fawr, a Rhai dros y môr:) yn yr hên gymraeg, a’r bresennol Saes-

‘The British Language in its Lustre, Or a Copious Dictionary of Welsh and English: Containing many more British words than are in Dr. Davies’s *Antiquæ Linguae Britannicæ Dictionarum duplex*. First, Explaining the hard British words, by more familiar words in the same Tongue: very useful for all such as desire to understand what they Read in that Language. Secondly, Shewing the Proper English to every British word: And consequently, The true way of Spelling all words in both Languages. Amplified With the Geographical names of Countries, Counties, Cities, Towns, and places in Great Britain (and some beyond seas) in the Antient British, and present English. Whereunto

naeg. At yr hŷn a chwanegwyd, Eglur, a hylaw athrawiaeth, (i'r Cymrŷ) am gywir Adroddiad y Saesnaeg; drwŷ fyrr hyfforddiad yn yr Iaith gymraeg. Gyda phriodol ddeunŷdd neu Arwŷdd-occad yr hŷll orddiganau, a'r Attalion, sy'r Awron yn Arferedig yn y gymraeg a'r Saesnaeg: Ag yn Angenrheidiol eu deall gan bŷb darllennŷdd. A gasglwŷd drwŷ ddirfawr boen, a diwŷdrwydd Tho. Jones. Argraphwyd 1688, ac ar werth yng Haerlŷdd Mr. Lawrence Bakerville, tan Lun y Llew Coch yn yr henadur-Rewl, a chan Mr. March, tan Lŷn y Llew Coch yn rhewl Cath-fwytŷaad.'

are added Plain and easie Directions to Welshmen for the true pronouncing of the English Tongue by a short Introduction in the British Language. With the proper use or signification of all accents, points or stops, as now used in the British and English. being necessary to be understood by every Reader. Compiled by the great Pains and Industry of Tho. Jones. Printed 1688, and sold in London by Mr. Lawrence Bakerville at the Red Lion in Aldermanbury, and Mr. John March at the Red Lion in Cateatonstreet.'

Y rhagymadrodd a derfyna yn gyfochrog fel hyn:—

'O'm Tŷ wrth lun y Carfil, yn maes isa'r fawnog, Caerlŷdd, Medi 12, 1687.

'From my house near the sign of the Elephant in Lower Moorfields, London, September 12. 1687.

THOS. JONES.'

THOS. JONES.'

Ar waelod y ddalen ddiweddaf o gorff y llyfr y mae 'July 30, 1686, *Imprimatur*, Hen. Maurice,' yr hyn oedd ddull cyffredin o gefnogi neu gymmeradwyo llyfrau gynt. Y mae y llyfr yn arbenigol wallus, trwy anwybodaeth yr awdwr, a gwallau argraffwyr Seisonig. Am anwybodaeth yr awdwr, cymmerer yr hyn a ganlyn yn siampl, lle y dywed, mewn math o olymadrodd, 'Yr argraphyddion (gan eu bod yn anghynefinol ar Gymraeg) a wnaethant rai beiau ynddo (ar ŷl i mi ei geryddu) drwŷ dynnu allan lythyrennau, a rhai geiriau a'u pellenau heb eu rhoddi yn eu llŷ drachefn fel y dylent: Llŷ yr ysgrifennais, ac y ceryddais yn ddfai [*Athrawiaeth i ddysgu darllen Saesneg*] yr Argraphyddion wedi hynŷ a'u gwnaethant [*Athrawiaeth i ddarllen dysgu Saesneg.*'] Nid oedd posibl dirnad beth oedd y 'ceryddu' hwn gan yr awdwr yn y cyssylltiad yna, nes edrych i'r Seisonaeg gyfochrog, a gweled mai 'After my correcting it,' a 'Where I had writ and truly corrected,' ydoedd ei feddwl. Camgymerodd, yn ei anwybodaeth, mai CERYDDU = *punish!* ydoedd y 'correcting' hwn, ac nid 'diwygio y print-wasg,' fel y dywedid

gan ereill o'i gyfoedion,* Y mae yn wir yn 'ceryddu' i *burpas*, yr argraffyddion, mewn nodyn bychan tua'r diwedd :—

'Y Mae yn ddrwg iawn genif fôd rhai mannau o'r llyfr hwn, ac o'm halmenac am y flwyddyn 1688, gwedi eu hargraphu mor ddryced; mi a delais gymmaint am y mannau gwaethaf ag am y mannau goreu : Ac yn wir nid arna i y mae'r bai, ond ar y digyd-wÿbod argraphyddion. Os arhoswn am lyfrau difai, hÿd oni bo'r Argraphyddion yn dda eu cydwÿbod, gallwn fôd fÿth heb eu cael. Os byddaf fi bÿw i roddi'r Argraphyddion ar waith ymmhellach, byddaf tebyg iawn iw rhwÿmo (i gymmerÿd eu bûdr waith am eu poen, a) oddiwrth fy nghogio i, a thwyllô'r wlad.

Nid oes myn f'einioes—Argraphÿdd,
Od dwÿn nad ydÿw
Drwy ddiogi a meddwi meddaw,
Yn cogio'r Bÿd, goegun baw.'

A gellir ychwanegu eto, cyn belled ag y mae camgymeriadau argraffyddion i'w gweled yn gyffredin, h.y., gweision argraffwyr, mai 'megys yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon.' Y mae llawer un hynach yn y gelfyddyd na'r egwyddorwas bychan, yn deilwng o gael ei alw, 'trwy ddiogi a meddwi,' yn '*printer's devil*'—'diawl yr argraffydd;' canys tybir nad yw yn gyfeiliornad dywedyd, fod mwy o feddwon ac annuwiad ym mhllith argraffyddion, nag un dosbarth arall o'r boblogaeth law-weithyddol. Ond er yr holl ddigalondid a'r siomiant, yr oedd yn gysur i'r awdwr fod ei waith yn cael ei gefnogi, a'i gymhell yn wresog i sylw y wlad, gan un ag oedd alluog i farnu, a hwnw yn neb llai na Mr. Stephan Hughes, yr hwn, yn nechreu y flwyddyn hon, oedd yntau yn Llundain yn 'diwygio y printwasg,' ac a ysgrifena fel hyn :—

'Mi a gynghorwn ir sawl sydd yn chwennych dyscu darllen cymraeg, i brynu Primer ac Almanack Mr. Thomas Jones; canys y mae'r Llythyrennau a'r Sylafftau ynddynt; fel na bo iddynt syblachad a diwyno y Catechism, a elwir sail y Grefydd Gristianogawl, a phethau da eraill wedi eu pwytho gydag ef, ac a ddaw ar fyrder i'r wlad; nid yn vníc er mwyn Plant, ond hefyd er mwyn Pobl oedranus; fel y gallont ddeall Gwyddorion Crefÿdd yn well, a byw yn fwy cyfattedbol iddynt.†

THOMAS JONES, awdwr y Geirlyfr hwn, yr Almanaciwr, a chyhoeddydd amrai lyfrau ereill, a anwyd, meddir, yn Nhre'r Ddôl, ger Corwen, yn sir Feirionydd, yn 1647. Dywedir iddo fyned i

* Yng ngwyneb-ddalen y rhan o 'Heraldic Visitation' Lewis Dwnn, am 'Achau Tair Sir Gwynedd Uwch Conwy,' oedd ym meddiant 'Lewis Owen o Beniarth yn Sir Feirionydd, Esgr,' dywedir 'A gopiwyd wrth archiad Thomas Mostyn o Loddiath Esgr ac a *geryddwyd* gan William Hughes a John Davies, yr hwn ai hysgrifenodd ef yn y Flwyddyn 1585.' Yn yr wyneb-ddalen gyfieithedig gyferbyniol gan Syr S. R. Meiryck, cyfieithu y '*Ceryddwyd*' Cymreig yn '*Attested*' yn Saesonaeg, yn lle *corrected*.—*Heraldic Visitation*, vol. i. pp. 65 a 67.

† Rhagymadrodd 'Taith neu Siwrnai y Pererin,' 168½.

Lundain fel gwnïedydd (teiliwr), yn ddeunaw oed ; lle y daeth hefyd yn fasnachydd o gryn fri. Arferai deithio trwy yr holl wlad, gan gadw ffeiriau Caerlleon, Mwythig, Gwrecsam, a Bristol. Yn y flwyddyn 1680, dechreuodd gyfansoddi a chyhoeddi Almanaciau, y rhai a alwai yn 'Newyddion mawr oddiwrth y Ser.' Efe oedd y cyntaf i gyhoeddi Almanaciau priodol ; er y dywedir mai math o Almanac ydoedd y llyfr cyntaf Cymraeg, gan Syr John Price ;* ac yr oedd 'Gwyddorion Naturiol, neu Brif-lyfr Newydd' Charles Edwards, yn cynnwys dyddiau'r mis, &c., am dair blynedd;† eto, nid hyny yn unig ydoedd y llyfrau hyn, eithr amrywiaethau ereill, a'r rhan galendraidd yn cael ei chyssylltu, yn debyg fel y rhoddid y Wyddor, ac ychydig gyfarwyddiadau i ddysgu darllen, gydag agos bob llyfr Cymraeg gynt, er mwy o gyfleusdra i'r cyffredin, ac er mwy o annogaeth iddynt i'w prynu. Felly hefyd y rhoddid prif bethau mwyaf angenrheidiol Almanac, i'r un dyben, yn gyssylltedig â rhai mân lyfrau. Ond T. Jones ydoedd y cyntaf i gyhoeddi blwydd-lyfrau rheolaidd o'r fath. Dilynwyd ef yn fuan gan ereill ; megys, John Jones, Ty'n y Caeau, ger Gwrecsam, yr hwn y dywedai Thos. Jones, oedd yn lladrata o'i Almanaciau ef ; Evan Davies, Manafon ; Sion Cain Jones,‡ o ger Corwen ; John Prys, o Landegla yn Ial ;§ a John Rhydderch, o'r Mwythig. Hefyd W. Howel, o Lanidloes, yr hwn oedd yn is-oruchwylydd ar etifeddiaeth Llwydiaid y Berth Lwyd, ger y dref hòno.¶ Yn y Deheubarth yr oedd John Harris, o Gydweli, a Mathew Williams, ysgolfeistr a daiarfesurydd, yn sir Gaerfyrddin.** O'r diwedd, cododd yn y Gogledd dywysog yr Almanacwyr, sef 'Sion Rhobert Lewys,' o Gaergybi, ym Mon, yr hwn a fu yn cyfansoddi ac yn cyhoeddi Almanaciau o dan yr enw 'Cyfaill,' gyda rhyw air arall, megys 'Cwynfanus, Hyderus,' yn chwanebol, i wahaniaethu y naill flwyddyn oddi wrth y llall, am bedair blynedd a deugain.†† Wedi i T. Jones roi ei fasnach heibio, efe a sefydlodd argraffwasg yn y Mwythig, o ddeutu y flwyddyn 1696, i gyhoeddi gweithiau Cymreig, y rhan fwyaf o'i gyfansoddiad neu ei gyfieithiad ei hun. Bu yn dwyn y gwaith ym mlaen o argraffu yn hyd 1713. Y mae ei Almanaciau ef yn rhai tra gwerthfawr, gan eu bod yn cynnwys llawer iawn o bethau buddiol am yr

* Gwel d.f. 1546. [Yn hytrach, gwaith Salsbri ydoedd y 'Calendar.' Ymddengys mai math o Galendar Eglwysig ydoedd, cyffelyb i'r un a ragddodir i'r Llyfr Gweddi Gyffredin.]

† Gwel rhif 5, d.f. 1682.

‡ Dechreuodd ef gyhoeddi Almanaciau yn 1776, mewn canlyniad, medd efe, yn y 'Blaen ymadrodd' i'r Almanac cyntaf hwnw, i farwolaeth y 'dysgedig Gwilym Howell.'

§ Daeth ei Almanac cyntaf ef allan yn 1738, a pharhaodd i'w gyhoeddi am tua deugain mlynedd, o dan yr enw 'Dehonglydd y Ser, neu Almanac,' &c.

¶ Bu ef farw yn 1774.

** Daeth ei Almanac cyntaf ef allan yn 1777, o dan yr enw '*Britannus Merlinus Liberatus*. Sef Amgylchiadau Tymhorol ac Wybrenol : neu Almanac, &c.'

†† *Llythyr* Mr. O. Robert, Rhoscolyn.

oes hōno—am ddynion a phethau nas ceir yn un man arall. Yn wir, byddai cronfa o'r hen Almanaciau yn hollol angenrheidiol i unrhyw un a gymmerai arno ysgrifenu hanesiaeth yr oesoedd a aethant heibio.

4. 'Cyfoeth i'r Cymru, neu Drysor y Ffyddloniaid, wedi ei agoryd mewn amryw Bregethau, er mwyn gwneuthur gwerthfawrowgrwydd, hawddgarwch, a godidowgrwydd Christ yn fwy adnabyddus, Ddymunol, a chymeradwy, &c. Gan William Dyer. Wedi ei Gymreigio gan un a chwenychai les i lawer.' Llundain. 12plyg.

WILLIAM DYER ydoedd unwaith yn gurađ Chesham a Chouldsbury, yn sir Buckingham, o'r lle y cafodd ei droi ymaith o blegid ei Anghydfurfiaeth. Pregethodd yn Llundain yn amser y pla. Yr oedd yn ei ddyddiau diweddaf yn tueddu at y Crynwyr, a chladdwyd ef yn eu plith hwynt yn Southwarc, yn 1696, yn 60 oed.

5. 'Llyfr Gweddi Gyffredin.'

Llyfr Gweddi bychan yw hwn, ac y mae yn gyssylltedig ag ef—

'Y namyn un deugain Erthyglau Crefydd Eglwys Loegr, neu Sylwedd Ffydd y Protestaniaid drwŷ gyttundeb yr Archesgobion ar Esgobion o'r ddwy Brew; ar hōll wŷr Llen, (ar eu Cymmanfa yng-Haerludd, yn y bummed flwyddŷn o Deyrnasiad y frenhines Elizabeth, yr hon oedd y flwyddŷn o oed Jesu 1562,) Er ymwared oddiwrth amrŷw draws amcan-grefyddau, ac i wastadlu bodlonrhwŷdd a chyttundeb ynghŷlech gwir Grefydd. Argraphwŷd yn fynuch yn Saesnaeg, drwŷ Orchymmŷn y Brenhinoedd. Ac pryd ymma yn Gymraeg, o Gyfieithiad Thomas Jones, 1688. Ar werth gan Thomas Jones, a chan y rhai eraill a wertho ei Lyfrau ef.'

'Imprimatur, Articuli Ecclesiae Anglicanae in Linguam Britannican Conversi. Hn. Maurice R^{ms} in Christo P. D. Wilhelmo Archiepisco. Cant. a Sacris.

Feb. 16.

1667.'

Pan oedd y Dr. Bull, esgob Ty Ddewi, wedi bwriadu talu ymweliad â'r holl esgobaeth, i draddodi rhybudd neu siars i'r offeiriaid, ond yn analluog i wneyd hyny, gan ei gaethiwo yn oedranus ac yn afiach i'w dŷ yn Abermarlais, efe a ysgrifennodd gylchlythyr helaeth at offeiriaid ei esgobaeth, ac ym mhlith pethau ereill, y mae yn argymhell iddynt roddi rhybudd i'w holl blwyfolion, 'fod y Llyfr Gweddi Gyffredin yn Gymraeg, wedi ei argraffu yn ddiweddar yn gyfrol fechan, ac ar werth gan Whitledge, llyfrwerthydd, yn Ave-Mary-Lane, yn Llundain, a chan Thomas Jones, yn y Mwythig; felly gall eich holl blwyfolion ddigoni eu hunain â hwynt. Y mae mawr eisieu y Llyfrau Gweddi Gyffredin hyn ar bobl fy esgobaeth, a dywedir i mi, y prynid hwynt yn gyffredinol, yn enwedig gan y gwerthir hwynt am o ddeutu deunaw ceiniog yr un. Ac i rwyddhau hyn, a'i wneyd yn hawdd i'ch plwyfolion, mi a'ch cynghorwn i

gasglu arian ganddynt, fel y gellid prynu y fath gyflawnder ag a gyflenwo eu heisieu; fel, trwy y moddion hyn, y gallont yn fuan a rhwydd gael eu taenu trwy yr holl esgobaeth.*

1689.

1. ¶ 'Y Rhybuddiwr Crist'nogawl, &c. Rhydychen.' 8plyg.

Cyfieithwyd y llyfr hwn gan Edward Morus, y bardd, o'r Perthi Llwydion, Ceryg y Drudion, yn sir Ddinbych, ar gais Mrs. Margaret Fychan, o Lwydiarth; ac argraffwyd ef ar draul y foneddiges hōno. Yr oedd E. Morus, yn gydoeswr a chymmydog i Huw Morus.† Yr oedd yn fardd lled ffraeth. Y mae o'i waith yn gyhoeddedig—'Carolau Gwyliau Nadolig, 1663;' 'Carol Plygain, yn gwahodd i filwrio yn y ffydd Gristionogol, 1686;' 'Carol Ciwpit;' 'Edifeirwch Gwr Ifanc, am dori pwyntment â'i gariad, a dymuno ei chymmod a ffafr drachefn;' 'I ddiolch am Rodd Valentine;' 'Cynnadledd rhwng dau Gydymaith yn Llundain;' 'Cyngor Bardd i'w Forwyn;' 'Ynghylch y Briodas gnawdol;' 'I ofyn Gwrthban i Aeres Nannau;' 'Ansawdd Braglyn.†

2. 'The case of their Majestie's Subjects in the principality of Wales, in respect of the Court held there before the present Council in the Marches of Wales, with other grievances, and reasons for taking away the said Court. 1689.'

3. 'An answer to a paper entituled "The Grievances of his Majestie's subjects residing within the principality of Wales," with the particular conveniences of that Court. London, 1689.' Folio.

4. ¶ 'Poems by Charles Cotton. 1689.'

Y mae hwn yn cynnwys Hanes am Ffynnon St. Gwenfrewi, a chrybwyllion am Gonwy.

1689-90.

'Y Bibl Cyssegr-lan, sef, yr Hen Destament a'r Newydd. Printiedig yn Llundain gan Charles Bill, a Thomas Newcomb, Printiwr i Ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin ar Frenines. 1690.'

Yr oedd Mr. S. Hughes wedi rhagddarparu gogyfer â'r argraffiad hwn; ond bu farw cyn ei orphen. Yr hwn a gymmerodd y gwaith mewn llaw wedi marwolaeth S. Hughes ydoedd Mr. David Jones, yr hwn a droisid allan o eglwys Llandyssilio, yn sir Gaerfyrddin.§ Yr oedd yr argraffiad hwn yn lluosocach na'i flaenoriaid. Nid ydys

* Nelson's *Life of Dr. G. Bull, Bishop of St. David's*, p. 449.

† *Eos Ceiriog*, ii. t. 360.

‡ *Blodeugerdd*, t. 11, 13, 111, 114, 121, 122, 375, 466, 467, 536.

§ [Y mae y Llandyssilio yma ar derfynau swydd Gaerfyrddin a swydd Benfro, nid neppell o dref Arberth.]

yn sicr pa nifer oedd yr holl argraffiad; ond dywedir i ddeng mil (10,000) gael eu dosbarthu yng Nghymru gan y golygydd, Mr. D. Jones. Ymddengys mai prif gefnogydd a chynnorthwywr Jones oedd Thomas, Arglwydd Wharton, (wedi hyny Is-iarll Winchendon, a Iarll ac Ardalydd Wharton). Yr oedd y pendefig hwn yn Brotestant selog, ac yn un o weinidogion y Frenines Ann am gryn amser. Yr oedd yn gyfaill i'r Anghydfurfwyr. Rhoes, yn 1692, gyfarwyddiadau i weinyddwyr ac ymddiriedolwyr ei ewyllys, roi elw etifeddiaeth yn Tynmingthwait, ger Weatherby, yn sir Iorc, tuag at ddosbarthu 1050 o Feiblau, a'r un nifer o 'Sail ac Eglyddorion y Grefydd Gristianogol,' gyda phrofiadau allan o'r Ysgrhythrau. Yr oedd yn rhaid i'r plant a gaent y llyfr, allu adrodd ar dafod y Salmau hyn, 1, 15, 37, 113, 145; ac i bob un o ddeg a ddarllenai oreu y rhoid y 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd, gan J. Allen,* ac 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' gan Thos. Lye. Yr oedd y Beiblau i'w rhoi fel hyn—i Leeds, 8; Haliffacs, 40; Pontefract, 30; Cockermonth, 30; Doncaster, 20; Kendal, 20; Carlisle, 20. Yr oeddynt yn cael eu rhoddi o fewn 60 mlynedd yn ol yn y capeli Ymneillduol yn y lleoedd hyny. Ond os ydynt yn cael eu rhoddi o gwbl yn awr, i'r Eglwys Sefydledig y maent yn cael eu rhoddi; er mai rhodd i'r Ymneillduwyr ydoedd, a'r 'Egwyddorion' a gysylltid yn awduriaeth yr Anghydfurfwyr!† Yr oedd boneddigion ereill yn cynnorthwyo Jones, heb law rhai gweinidogion a dinasyddion Llundain.‡ Nid yw y papyr na'r argraffwaith yn gystal yn hwn ag yn un y flwyddyn 1678. Cynnwysa y Testament Newydd a Salmau Prys, gyda gwyneb-ddalen i bob un, a galleid cael y rhai hyn heb y Llyfr Gweddi oll, yn ol rhagfwiad Mr. S. Hughes, yr hwn a ddywedai ddwy flynedd yn ol, 'Os Printier y Bibl cymraeg drachefn, rhaid i rai o honoch fod yn foddlon i dderbyn rhai na bo yntho ond y Testament hên a'r Newydd, a'r Psalmau cân, wedi eu beindio ynghyd; canys felly y printier llaweroedd o honynt, fel y bo'r Biblau yn rhatach i'r tlodion. Ac am y Llyfr Gwasanaeth, ynghyd a'r Psalmau i'w ddarllen ar psalmau ar gân fe ellir eu cael hwynt yn ynhyraeg (wedi eu beindio ynghyd) gan y rhai sy'n gwerthu llyfrau Mr. Thomas Jones yng-Hymru.'||

1690.

1. ¶ 'Ymddiffyniad rhag y pla o Shism.' Cyfieithiad R. V. Llundain.

* [Yr 'Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd' (rhif 1, d.f. 1693) yw y llyfr a olygir. Gwaith Arthur Dent yw y 'Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd' gwel rhif 1, d.f. 1629, a rhif 2, d.f. 1682.]

† [Pa ham na fynasid gwybod y ffaith cyn gwneuthur adfyfyrion arni? Pe gwnaethid hyny, hwyrach y cawsid fod y synnod sydd yn terfynu y frawddeg yn afreidiol. Nid yw Eglwyswyr mewn un modd yn dibrisio llyfrau buddiol o herwydd eu bod yn waith Ymneillduwyr, fel y mae cofrestr ein hawdwr yn dangos mewn lluwys o enghreifftiau. Eglwyswr, nid Ymneillduwr, ydoedd yr Iarll Wharton.]

‡ Llewelyn's *British Versions*.

|| Gwel rhif 5, d.f. 1688. Rhagymadrodd 'Taith neu Siwrnai y Pererin,' rhif 2, d.f. 1688.

Ail argraffiad, mae yn debyg,* er na ddygwyddodd iddo ddyfod 'n llaw, ond cyflewyd ef yma ar awdurdod Mr. M. Williams.

2. 'Y Bibl Cyssegr-lan, Sef, yr Hen Destament a'r Newydd.

Rhydychain, Printiedig yn y Theatr yn y flwyddyn MDCXC.' Unplyg.

Yr oedd Beiblau mawr yr Eglwysi wedi treulio erbyn hyn. Y prif gynnorthwywr yn nygiad allan yr argraffiad hwn ydoedd y Dr. William Lloyd, esgob Llanelwy, ac am hyny y gelwid hwn yn Feibl yr Esgob Lloyd, am yr hwn esgob da y rhoddwyd hanes o'r blaen.† Golygydd yr argraffiad hwn ydoedd Mr. Piers Lewis, o Fon;‡ yr hwn oedd y pryd hyny ym Mhrifysgol Rhydychain. 'Fy nghymmydog Mr. Pysr Lewis, o Goleg yr Iesu,' meddai Mr. Richard Morris, 'ac wedi hyny o Lanfachreth ym Môn, oedd coledwr yr Argraffiad hwnw (nid yr Esgob Llwyd) trwy yr hwn y cafodd yr enw *Welsh Rabbi*, yn Rhydychain. Mi welais yn ei dŷ ef, yn Llanfihangel Tre'r Beirdd, yr holl ddalenau prawf a ddaethant o'r wasg yn y gwaith hwnw. Ni wyddai yr Esgob fwy oddi wrth y Gymraeg, er ei fod unwaith yn Esgob Elwy, na'r Esgob Newcombe, y sydd yno yr awr hon,§ yn ymdrechu hyd y geill i ddeol yr iaith oddi ar wyneb y ddaiar; felly tra anghymhwys i hyfforddi iawn ysgrifen y Bibl.'||

1691.

1. 'Ymadroddion Bucheddol ynghylch marwolaeth. O waith

* Gwel rhif 6, d.f. 1658.

† Gwel rhif 1, d.f. 1687.

‡ Yr oedd yn enedigol o Lanfihangel Tre'r Beirdd, ym Mon. Fel y gwelir uchod cafodd ei ddysg yn Rhydychain, lle y daeth yn A.C. Cafodd Gofrestraeth ym Mangor yn 1679, a Phersoniaeth Llanfachreth yn 1690. Cafodd wedi hyny, yn 1693, Bersoniaeth Llanllechid, a Ficeriaeth yng Nghôr Esgobawl Bangor, yr hon a gafodd yn 1698. Aeth i Ruthyn i ymgynghori â meddyg o blegid rhyw afiechyd oedd yn ei flino, lle y bu farw, Mai, 1699, yn 36 oed. *Brown Willis*; Rowlands's *Mona Antiqua*.

§ Bu y Dr. Newcombe yn Esgob Llanelwyo 1755 hyd 1761. [Os felly, y mae Rh. Morys yn y dyfyniad uchod, yr hwn a ysgrifenydd yn 1768, yn anghywir.]

|| Llythyr R. Morris yn y *Great*, 1805, t. 282. [Rhwyng enw y llyfr ac enw yr argraffie, y mae darlun o'r 'Theatr,' a rhai o adeiladau ereill Rhydychain, ac ar y cynbarth, milwr yn arwedd gwaewffon yn ei law ddeheu, a tharian yn ei aswy, gyda helm gribog ar ei ben, a sarfflath neu hedd-wialen, petryalai, compawd, a rhai cer ereill, yn gorwedd yn ei ymyl. Rhagddalen y Testament Newydd a lenwir oll gan luniau; megys Angel yn ehedeg yng nghanol y nef, â'r geiriau 'Y Testament Newydd' ar ei esgyll; ysgrifenydd yn ysgrifenu ei rol, ar yr hon y ceir yn ysgrifenedig *Dad*. xiv. 6; eryr yn clugio ar ddarn o glogwyn; gyda rhai lluniau arwyddocaol ereill. Y mae papyr y cyfargraff sy ger fy mron yn helaeth hynod; a lle nid oes cyfeiriadau y mae cryn dair modfedd o ymyl y dail yn wag. Chwanegwyd at yr argraffiad hwn lawer iawn o gyfeirnodau ar fin y dalenau yn fwy nag oedd mewn un argraffiad blaenorol, yn yr hyn y canlynwyd ef gan Moses Williams, Rhisiart Morys, a'r argraffiadau diweddar yn gyffredin. Argraffiad lled anghywir a thwrstau ydyw, ac nid yw idd ei gystadlu ag argraffiad yr Esg. Parri a ymddangosasai seithdeg mlynedd o'r blaen; ac ym mhlith gwrthunion ereill a gynnwysir ynddo, gellir nodi *dwyllo* yn lle *dwylaw*. Dilyn 'Feibl Cromwel' yn yr arferiad o'r llythyren Seasonig J. Gweler rhif 1, d.f. 1654.]

Doctor Sherlock. A gyfieithwyd yn Gymraeg' gan Tho. Williams, A.M.

Printiedig yn Rhydychen gan Leon Lichfield, i John Marsh yn Cat-Eaten street, ac i Charles Walley tan y llew coch yn Aldermanbury, yn Llundain. 1691.' 8plyg.

Mewn lle arall gelwir y cyfieithydd yn Thomas Williams, o Ddinbech. Crybwyllir am dano ef ym mhlith y rhai a gyrhaeddasant y radd o A.C. yn Rhydychain, Gorph. 5med, 1680, fel aelod o Goleg yr Iesu, a'i fod yn fab i William Williams, yr hwn a gawsai ei A.C. yn 1676.* Cafodd Thomas Williams fywoliaeth Dinbych (y bersoniaeth a'r ficeriaeth), yn 1697, gan yr Esgob Jones, o Lanelwy, a'r cyntaf i'w chael yn gydiol felly. Ymddengys y bu yno hyd 1726, ysbaid naw ar hugain o flynyddoedd.† Yr awdwr,

WILLIAM SHERLOCK, D.D., a anwyd yn Southwarc, Llundain, yn 1641. Derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Eton, a gorphenodd yng Nghaergrawnt. Yn 1669, cafodd bersoniaeth yn Llundain. Yn 1683, cymmerodd y radd o D.D., a chafodd brebendariaeth St. Pancras. Yr oedd yn Uchel Eglwyswr, ie, yn Iacobydd, ac o blegid yr hyn yr attaliwyd ef rhag gweinidogaethu. Yn ystod yr amser hwnw y cyfansoddodd y llyfr rhagorol hwn, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1690. Gwelir iddo gael ei droi yn Gymraeg agos gynted ag yr oedd wedi ymddangos yn y Seisonaeg. Efe hefyd o'r diwedd a gymmerodd y llwon gofynol a wrthodasai o'r blaen. Efe a gyhoeddodd amrai draethodau a phregethau; ond ni wnaed sylw o nemawr o honynt wedi yr argraffiad cyntaf o honynt ond hwn. Er ei fod yn ddyn o ysbryd lled uchel, yr oedd yn ddyn duwiol, talentog, a defnyddiol. Bu farw yn Hampstead, ger Llundain, yn 1707, yn 69 oed. Mab iddo ef ydoedd y Dr. Thomas Sherlock, a a fu yn Esgob Bangor o'r fl. 1728 i'r fl. 1734; yr oedd yntau hefyd yn ysgrifenydd o gryn enwogrwydd, ac yn cael ei ystyried yn ddyn da, elusengar.†

2. *Novus Reformator, or the Welch Levite tossed in a Blanket, in a Dialogue between Hick — of Colchester, David J—nes, and the Ghost of Wil. Pryn, &c.*

London, Printed for the Assigns of Will. Pryn, next Door the Devil. 1691.'

1692.

1. ¶ 'Gwyddor y Grefydd Gristionogol.'

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 84.

† Edwards's *Willis's St. Asaph*. [Y gwr da hwn ydoedd Cyfieithydd y 'Cydymaith i Ddyddiau Gwylion ac Ymprydion Eglwys Loegr,' o waith Nelson, rhif 4, d.f. 1712.]

‡ *Life of Sherlock*; W. Jones's *Christian Biographical Dictionary*.

Trydydd argraffiad, o bosibl.* 'Mi a gynghorwn,' meddai Mr. Stephan Hughes, 'ir sawl sydd yn chwennyachu dyscu darllen cymraeg, i brynu Primer ac Almanack Mr. Thomas Jones; canys y mae'r Llythyrennau a'r Sylafftau ynddynt; fel na bo iddynt syblachad a diwyno y Catechism a elwir sail y Grefydd Gristianogawl, a phethau da eraill wedi eu pwytho gydag ef, ac a ddaw ar fyrder i'r wlad, nid yn vnig er mwyn Plant, ond hefyd er mwyn Pobl oedranus; fel y gallont ddeall Gwyddorion Crefydd yn well, a byw yn fwy cyfattedbol iddynt.†

2. ¶ 'Myfyrdodau Comfforddus i Gristionigion.'

Llundain. 8plyg.

3. 'Ymadroddion hen Mr. Dod.'

O blegid yr ymadroddion neu y gwirebion hyn, y cyfrifid ef yn enwog, ac y mae ei goffodwriaeth mewn bri. Argraffwyd hwynt mewn amryw ffurf, yn Seisonaeg—lawer o honynt ar ddwy len o bapyr i'w gludio ar furiau ystafelloedd.‡ Ond pwy ydoedd yr hen Dod hwn? *Ateb—*

JOHN DOD a anwyd yn Shottidge, yn sir Gaerlleon, yn y fl. 1550, a chafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaergrawnt. Pan yn ddeg ar hugain oed cafodd fywoliaeth eglwysig Hanwel, yn sir Rhydychain, lle bu yn gweinidogaethu yn ffyddlawn am ugain mlynedd, pryd y trowyd ef allan am Anghydfurfiaeth, pan y symmudodd i Canon-Ashby, yn sir Northampton, gan bregethu yn ddiabfonyddwech hyd nes y gorchymmynodd Iago i. iddo gael ei ddystewi. Wedi marwolaeth Iago i, caniatawyd iddo eto bregethu yn gyhoeddus, a sefydlu yn Ffaustley, yn sir Northampton, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, yn 96 oed.§

1693.

1. 'Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd, neu wahawdd difrifol i Bechaduriaid i droi at Dduw er iachawdwriaeth, gan ddangos i Bechadur ystyriol beth sydd raid iddo wneuthur i fod yn gadwedig. Gan Joseph Alleine, Gweinidog yr efengyl gynt yn Taunton, yn ngwlad yr hâf.

Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitledge a W. Everingham. 1693.'

Yr oedd Whitledge ac Everingham yn gydranogion yn y gwaith o argraffu. Dau ddyn sengl oeddynt. Argraffasant dair mil o Feiblau, a mil o Destamentau Gwyddelig a Gaelig â llythyrenau Brytanaid. Methasant yn fuan yn eu masnach, a gorfu iddynt

* Gwel rhif 4, d.f. 1664; a rhif 1, d.f. 1679.

† Rhagymadrodd 'Taith y Pererin,' rhif 2, d.f. 168

‡ *History of England*, vol. i. p. 370.

§ Neal's *History of the Puritans*, vol. iii. p. 270.

droi i weithio am gyflog.* Cyhoeddwyd y llyfr uchod ddwy waith ar ol hyn—unwaith dan ei enw priodol, ‘Yr Alarwm,’ canys cyfieithiad ydyw o ‘Alleine’s Alarm to the Unconverted,’ neu, ‘Dychryn i’r Annychweledig;’ a’r drydedd waith yn y Bala, o dan olygiad y diweddar Barch. John Roberts, gweinidog plwyf Dymeirchion, ar derfynau Dyffryn Clwyd; ac yr ydys yn tybied hefyd fod gan Mr. Charles law yn y gwaith. Y tro hwnw galwyd ef wrth yr enw uchod o ‘Hyfforddwr,’ &c.; ac yr oedd y cyhoeddiad o hono trwy haelioni rhyw wraig foneddig yn Lloegr, yr hon a wnaeth y galleid lledaenu dwy fil o honynt am ddim, er na farnwyd yn briodol gwneyd felly, eithr eu ‘gwerthu am bris cymmedrol, a gwneuthur defnydd o’r arian a ddelai oddi wrthynt i gyhoeddi ychwaneg o lyfrau buddiol ereill.’† Yr awdwr,

JOSEPH ALLEINE, ydoedd dduwinydd Anghyddfurfiol, a anwyd yn Devizes, yn sir Wilts, yn 1623. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain yn amser Cromwel. O blegid ei ddawn rhagorol mewn gweddi efe a gafodd gaplaniaeth yn ieuane. Cyrhaeddodd ei B.C. yn 1663. Gan fod ei gyllid yn fychan, efe a ymroddodd, gyda chynnorthwy ei wraig, i gynnal ysgol fyrddio, ac yr oedd yn pregethu llawer; ond yn 1655, efe a wnaed yn gyd-weinidog â George Newton, ar blwyf St. Magdalen, yn Taunton, yng Ngwlad yr Haf; o’r lle hwn y deolwyd ef gan Weithred yr Ymfurfiad, ac yn 1663, efe a daflwyd i garchar, lle, wedi dyoddef llawer, gyda saith o weinidogion ereill, a hanner cant o Grynwyr, efe a gyhuddwyd yn brawdlys am bregethu, a dirwywyd ef i dalu cant o farciau (=o ddeutu 70p.) a’i garcharu hyd nes y telid hwynt. Bu yng ngharchar am flwyddyn. Wedi ei ryddhau dechreuodd eilwaith bregethu yn fwy selog nag o’r blaen, ac efe a daflwyd i garchar eilwaith yn 1665, lle y cadwyd ef drigain o ddyddiau. Ysgrifonodd amrai fân lyfrau ar grefydd ymarferol, a thra buddiol. O blegid ei fawr ddyoddefiadau, bu farw yn lled ieuane—yn 1668, yn 45 oed, a chladdwyd ef ym mynwent St. Magdalen, a rhoddwyd ar ei fedd y llinellau canlynol:

‘Here Mr. Joseph Allein lies
To God and [man?] a sacrifices.’‡

2. ‘Dattodiad y Qwestiwn Mawr, *Beth sydd raid i ni ei wneuthur fel y byddom Gadwedig.* Athrawiaethau i Fuchedd Sanctaidd. O waith y Difnydd Parchedig Mr. Richard Baxter.

Printiedig yn Llundain gan Tho. Whitledge a W. Everingham, 1693.’

Y mae yn gyssylltodedig â hwn ‘Gatechism Byrr o waith Mr. Richard Baxter.’

3. ‘Catecism byr.’ Llundain. 12plyg.

* Timperley’s *Dictionary*.

† Rhagymadrodd argraffiad y Bala.

‡ Wood’s *Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 299-231; Jones’s *Christian Biographical Dictionary*.

Yr ydys yn tybied mai 'Catecism y Gymmanfa,' o gyfieithiad Mr. James Owen, yw hwn, neu hwnw yw 'Gwyddor y Grefydd Gristionogol,' a enwyd o'r blaen,* canys darfu i Mr. Owen wneyd hyny.†

4. 'Traethawd ynghylch Gweithredoedd da ac Elusenau. O waith Mr. Thomas Gouge, yr hwn yn ddiweddar a gymerth boen yn gariadus i Lesau Cymru.

Printiedig yn Llvndain gan Tho. Whitledge a W. Everingham, 1693.'

5. 'Rhesswmmau Yscrythurawl, Yn profi mai Dyledswydd Pob math o Wrandawyr (oddieithr y rhai sydd yn byw ar Elusenau) Yw cyfrannu yn ol eu gallu o bethau da'r byd hwn tuag at Gynhaliaeth Cyssurus eu Gweinidogion, a'u Athrawon. O waith Mr. Thomas Gouge, yr hwn yn ddiweddar a gymerth boen yn gariadus i Lesau Cymru.

Printiedig yn Llvndain gan Tho. Whitledge a W. Everingham, 1693.'

Cydwniid y ddau hyn yng nghyd fel un llyfr. Cyhoeddwyd yr olaf yn llawn yn y 'Traethodydd.'‡ Y maent yn draethau byrion, o gyfansoddiad campus, a theilwng iawn o ystyriaeth Cristionogion yr oes hon. Dangosant yn eglur oddi ar ba egwyddor yr oedd Tho. Gouge yn haelionus ei hun, a'r addysg dda yr oedd yn eirhoi i ereill, er eu cymhell i fod felly yr un modd. Y mae llawer o draethodau bychain fel hyn, neillduol o dda, ym mhlith y pethau a daenid gan bobl dda y canrifoedd a aethant heibio, y rhai y byddai yn gystal, os nad gwell, eu hail gyhoeddi, na chyhoeddi rhai newyddion yn wastadol. Tybiwn mai hwn a eilw Mr. David Peter yn 'Dyledswydd Gweinidogion a Phobl;' ac a gyfieithwyd, meddai efe, gan Mr. James Owen.§

6. 'Hysbys Rwydd a Di Honglad am y blynyddoedd tros byth wrth yppine arwydd y bo y Flwyddyn yn Dechre. Gan Einion Morgan.'

Llundain. 8plyg.

Math o Almanac neu Galendar parhaol ydoedd.

7. 'Bedydd Plant o'r Nefoedd, Neu Draethawd am Natur a Diben Bedydd. Yn profi, Trwy ddeuddeg o Ressymau Scrythuraidd y dylid bedyddio plant y ffyddloniaid. O waith James Owen, Gweinidog yr Efengyl.

* Rhif 1, d.f. 1692.

† Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*.

‡ 1852, t. 396, &c.

§ *Hanes Crefydd yng Nghymru*, t. 615.

Printiedig yn Llundain gan T. Collins.* 1693.'

8. 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin y Cydymmaith Gorau, &c. O gyfieithiad E. E.'

Llundain. 8plyg.

9. 'Pregeth ynghylch Godidawgrwydd neu Lesioldeb Llyfer y Gweddiau Cyffredin. Gan William Beveridge, D.D. Esgob Llanelwy.'

Llundain. 12plyg.

Ganwyd y Dr. WILLIAM BEVERIDGE yn Barrow, yn sir Leister, yn 1638. Dygwyd ef i fyny yng Ngholeg St. Ioan, Rhydychain. Bu yn arddiacon Colchester, yn berson St. Pedr, Cornhill, Llundain, yn ganon Caergaint, ac yn gapelwr i William III. a Mari. Pan gynnygiwyd iddo esgobaeth Bath a Wells, yn 1691, o'r hon y difuddiasid y Dr. Ken, o blegid nacâu cymmeryd y llwon o ufuddod i'r Brenin William III. a'r Frenines Mari, efe a'i gwrthododd; ond yn 1704, efe a dderbyniodd esgobaeth Llanelwy. Ysgrifennodd amrai lyfrau cymmeradwy ar dduwinyddiaeth; ond y mwyaf pobl-ogaidd yn Gymraeg yw ei 'Fedlyliau Neillduol ar Grefydd.' Bu farw yn 1707.†

10. 'Llyfr yn erbyn Sosiniaeth, gan Dr. Jonathan Edwards o Wrexham.'‡

Seisonaeg yw y llyfr hwn, yr wyf yn tybio, ond y mae dull Mr. David Peter yn crybwyll am dano ef a'r awdwr yn peri credu mai Cymraeg ydyw. Y mae teitl y llyfr yn Seisonaeg yn cael ei eirio fel hyn:—

'A Preservative against Socinianism; shewing the direct and plain opposition between it, and the Religion revealed by God in Holy Scripture.' 4to. Oxon. part 1st, 1693, and part 2nd, 1694.

JONATHAN EDWARDS a anwyd yng Ngwrecsam, sir Ddinbych. Aeth i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain, yn 1655. Wedi myned trwy y graddau ereill, efe, yn 1686, a wnaed yn D.D., ac a etholwyd yn Benaeth Coleg yr Iesu. Yr oedd o'r blaen yn Berson Kiddington, yr hon a newidiodd am Hinton, ger Caerwynt; ac yr oedd ganddo hefyd fywoliaethau yn sir Fôn a sir Gaernarfon. Yn y blynyddoedd 1689-91, cyflawnodd y swydd o Is-ganghellydd Rhydychain. Bu farw Gorph. 20, 1712, yn 73 oed.§

* Yr oedd amryw o'r enw Collins yn y weinidogaeth yn amser Siarl I. a Cromwel, y rhai a drowyd o'u lleoedd ar ddychweliad Siarl II.—Gwel Palmer's *Calamy's Nonconformists' Memorial*, yn ol yr *Index*.

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 850; Jones's *Biographical Dictionary*; Jones's *Christian Biographical Dictionary*.

‡ Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*.

§ Wood's *Athen. Oxon.*; Williams's *Eminent Welshmen*; Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*.

11. 'An Essay on the value of the mines, late of Sir Carbery Price, writ for the satisfaction of all parties, by William Waller, steward of these mines.*'

Y mae yn amhosibl deall sefyllfa pethau o berthynas i'r mwngloddiau gwerthfawr hyn yn yr amser hwnw, heb roddi hanes tra helaeth, wedi ei gasglu o amrai lyfrau a gyhoeddased o berthynas iddynt yn y dyddiau hyny, yn enwedig y diweddaf uchod.

Wedi yr Adchweliad, sef dyfodiad Siarl II. i'r orsedd, daeth y mwngloddiau drachefn i ddwyllaw y Gymdeithas o Anturiaethwyr mewn Mwnau, y rhai, fel yr ymddengys, oeddynt yn anghytuno cymmaint ym mhlith eu gilydd, nes nad oedd nemawr o ysbryd gweithio y mwngloddiau hyn, hyd oni ddarfu i Mr. A. Shephard gymmeryd arno drefnu amgylchiadau y rhai cyntaf a gawsant yr hawl-fraint, a thaffu o'r neilldu hawliau pawb ereill. Yn y flwyddyn 1690, darganfuwyd mwngloddiau ereill ar etifeddiaeth Syr Carbery Pryse, Gogerddan, dim llai gwerthfawr na'r rhai hyny ag oedd yn dechreu gwaelu. Yr oedd y mwn ger llaw wyneb y tir, heb nemawr ond y mwsogl yn ei orchuddio. Nid oedd gwell mwngloddiau na'r rhai hyn yn eu hamser, am gyfoethogrwydd, yn un parth o'r deyrnas; a chawsant yr enw o 'Potosi Gymreig.'

Trwy rinwedd gweithred seneddol a gymmerodd le yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad William a Mari, darfu i Syr Carbery, yn y flwyddyn 1690, gymmeryd llawer i fod yn gydgysfranogion ag ef, a rhanu ei gloddffeydd a'i gyttiroedd yn bedair mil o ranau, a chael Mr. Waller, mwnwr o ogledd Lloegr, i fod yn oruchwyliwr iddo, am gyflog o 400*p.* yn y flwyddyn, yr hyn oedd yn anferth o gyflog y pryd hyny, a dechreu gweithio y mwngloddiau ar ei dir ei hun. Deallodd Cymdeithas y Mwnwyr Breninol, sef y rhai oedd yn honi hawl i bob mwn a gynnwysai arian neu aur, fel yn perthyn i'r goron, neu i'r llywodraeth, eu bod yn gyfoethog, a rhoisant eu hawl i mewn ar sail eu braint freninol, gan nad oedd y weithred seneddol yn foddhaol ddealladwy. Ar hyn aed i ymgyfreithio â Syr Carbery a Mr. Sheppard dros y Cwmpeini. Cymmerodd Syr Carbery a'i gydranogion, ym mhlith y rhai yr oedd llawer o uchelwyr, megys Dug Leeds, Ardalydd Caerfyrddin, &c., fantais ar yr amseroedd, i gael, yn y flwyddyn 1693 (y bummed o deyrnasiad William a Mari) weithred enwog, yr hon oedd yn awdurdodi holl ddeiliaid coron Lloegr i fwynhau a gweithio eu holl fwngloddiau eu hunain, yn Lloegr a Chymru, er iddynt gynnwys aur neu arian; ond bod i'r brenin, neu y rhai hyny a honent feddiant drosto, gael y mwn ar yr ammod o dalu i'r perchenogion am dano ar y ben tir, cyn ei symmud oddi yno, o fewn i ddeng niwrnod ar hugain wedi ei godi, a chyn ei symmud i'w wneyd yn blwm; am y plwm, naw punt y dynell; copr, deg punt, &c. Dywedir i Syr Carbery, pan lwyddodd trwy ennill y gyfraith hon, farchogaeth (trwy gael ceffylau yn barod ar hyd y ffordd) o Lundain i'r Esgair Hir mewn wyth

* Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2 a 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; a rhif 3, d.f. 1670. Y mae yn darlunio yn fanwl y modd o weithio y mwn plwm, a'r tawdd-dy yn yr Esgair Hir, sir Aberteifi.

awr a deugain, fel y taenwyd y newydd mewn can lleied o amser, ym mhlith holl drigolion y rhan hyny o sir Aberteifi.

Gweithiwyd y mwngloddiau gan berchenog etifeddiaeth Gogerddan yn ystod ei fywyd ef; ond bu farw yn ddiblant, a daeth y mwngloddiau i law Syr Humphrey Mackworth, yr hwn a brynodd hawl a rhan Mr. Edward Pryse am bymtheg mil o bunnau; er hyny y mae etifeddiaeth Gogerddan yn parhau ym meddiant cangen o'r Prysiaid. Y mae llyfryn Mr. Waller yn dangos fod y gweithiau mwn wedi bywhau a llwyddo yn fawr tra y buont hwy yn eu gweithio. Y mae yn dywedyd, yn ei draethawd, ei fod wedi ei ysgrifenu gyda golwg ar heddychu y cydfeddiannwyr—lawer o honynt mewn cyfraith â'u gilydd; ac hefyd i osod allan fantais y mwngloddiau hyn, fel y gweithid y rhanau yn llwyddiannus. Y mae yn dywedyd hefyd, fod ei gyfrifiaeth bob amser yn gadael fod y mwngloddiau yn rhydd oddi wrth daliadau i berchenog y tir; a bod i gronfa o ugain mil o bunnau gael ei chodi, i wneyd pyllau, tawdddy, &c. Y mae yn chwaneu hefyd, ddarfed i Syr Carbery, yn y flwyddyn 1693, cyn i'r mwneu efydd gael eu darganfod—wedi adfeddiannu ei hawl oddi ar gyn-ddalwyr y mwngloddiau breninol—ranu ei hawl i bedair mil ac wyth o ranau; a phrisiwyd a gwerthwyd pob rhan yn ddwy bunt ar bymtheg y rhan; a chynnygiwyd iddo wedi hyny ddeugain mil o bunnau am y gweddill gan fasnachwr enwog o Lundain, i'w talu i lawr yn ebrwydd, yr hyn a wrthododd am y rheswm hwn, sef iddo ef (Mr. Waller) ymresymu â Syr Carbery a'i gyd-berchenogion y gellid â trysorgyff digonol—fod yn alluog, mewn ychydig o flynyddau—gyda chwe' chant o bobl—i wneyd elw oddi wrth un wythien, o ddeng mil a thrigain o bunnau yn flynyddol, yn ol fel y gwelir wrth bapyr a argraffwyd yn y flwyddyn 1693, yr hwn sydd yn cyfrif fel hyn:—

‘Chwe'chant o ddynion, yn gweithio y gwaith mawr, pan y byddo y llyfelau i fyny, yn 8s. 6c. y dunell, am godi, golchi, a gwneyd yn farchnadol, fel y mae yn cael ei wneyd yn awr, rhaid i bob dyn godi uwch law tynell wrth yr wythnos i wneyd cyflog; ond yn ol un dynell yr wythnos, cyfyd y chwe' chant o ddynion dri chant o dynelli yr wythnos, ac yn ol deng wythnos a deugain, bymtheg mil o dynelli yn y flwyddyn—y gost o godi hyn yw	}	P.	s.	c.

Cludiad i lan Dyfi, yn ol 5s. y dynell	2750	0	0
--	------	---	---

12c. y dynell ar ddwfr, ac am ei ddadlwytho i'r ystordy ym mhorthfa Aberdyfi	}	750	0	0

Pymtheg mil o dynelli o fwn, a wnaiff ddeng mil o dynelli o blwm—toddi hwn pan fyddo y melinau i fyny, yn ol 15s. y dynell	}	7500	0	0

Costau	18,375	0	0
----------------	--------	---	---

Deng mil c dynelli o blwm, yn ol 9p. y dynell..	90,000	0	0
---	--------	---	---

	P.	s.	c.
Cost am ei godi, golchi, toddi	18,375	0	0
Gwneyd pyllau, a chostiau damweiniol	1,125	0	0
Elw clir	70,500	0	0*

12. 'Scrinia Reserata: a Memorial offered to the Great Deservings of John Williams, D.D. Who some time held the Places of L^d Keeper of the Great Seal of England, L^d Bishop of Lincoln, and L^d Archbishop of York. Containing a Series of the Most Remarkable Occurrences and Transactions of his Life, in Relation both to Church and State. Written by John Hacket, Late Lord Bishop of Lichfield and Coventry. Imprimatur Jo. Cant. Nov. 27. 1602.

In the Savoy: Printed by Edw. Jones, for Samuel Lowndes, over against Exeter Exchange in the Strand. M.DC.XC.III.'

1694.

1. 'Llyfr arall ar Sosiniaeth, gan Dr. Jonathan Edwards.'

Yr ail ran ydoedd hwn o'r gwaith Seisonig y flwyddyn o'r blaen, sef y 'Preservative against Socinianism.'† Ymddengys fod y gwaith hwn yn dra phoblogaidd ym mhlith duwinyddion Cymru yn y dyddiau hyny, gan iddo gael ei ysgrifenu gan Gymro, yng Nghymru, a hyny mewn adeg ag yr oedd tybiau Sosinus yn dechreu cael eu derbyn, neu ddechreu cael edrych arnynt yn ffafriol, gan rai.

2. 'A Discoverie of Certaine Errours published in Print in the much commended Britannia 1594. Very prejudiciall to the descendantes and successions of the auncient Nobilitie of this Realme. By York Heraulte.'‡

Yr awdwr ydoedd Ra. Brooke, *Yorke Herault at Armes*; ac y mae yn ei ragflaenu lythyr at 'Maister Camden;' ac y mae yn diweddu â 'Iohn Leylands new yeeres Gyft, giuen of him to King Henrie the viii in the 27. yeere of his reigne,' yr hyn a ddengys iddo gael ei argraffu cyn y flwyddyn hono.

* Meyrick's *History of Cardiganshire*.

† Gwel rhif 10, d.f. 1693.

‡ [Ymddengys y llythraeth yn llawer rhy hen i'r flwyddyn y cofnodir y gwaith o dani.]

1695.

1. 'Bara i Blant, neu Wyddorion cyntâf y Grefydd Gristionogol. O gyfieithiad P. P. Pregethwr yr efengyl.'

Llundain. 12plyg.

2. 'The History of Britain, that part especially call'd England. From the first Traditional Beginning. Continued to the Norman conquest.

London, Printed for R. Cheswell, &c. MDCXCV.'

Gan fod y gwaith yn rhoddi llawer o wybodaeth am wlad a chenedl y Cymry, nas canfyddir yn gyffredin, cyflewyd ef yma.

3. 'The History of the Principality of Wales: In Three Parts: Containing,

I. A brief Account of the Antient Kings and Princes of Brittain and Wales till the final Extinguishing of the Royal British Line.

II. Remarks upon the Lives of all the Princes of Wales, of the Royal Families of England, from K. Edward the First to this Time.

III. Remarkable Observations on the most Memorable Persons & Places in Wales, & of many considerable Transactions & Passages that have happened therein for many hundred years past.

Together with Natural and Artificial Rarities and Wonders in the several Counties of the Principality.

By R. B.

London, Printed for Nath. Crouch at the Bell in the Poultry near Cheapside. 1695.'

Enwyr awdwr yn llawnoedd Robert Burton.* Llyfr bychan o tua 200 tudalen 24plyg ydyw, ac y mae iddo wyneb-addurn o ddalen blygedig, yn arddangos '*John the French King taken Prisoner by Edward the Black Prince of Wales at the Battle of Poictiers in France.*' Darfu i'r R. B. hwn gyfansoddi amrai fân lyfrau o'r un natur tua'r un amser; megys, 'The History of the House of Orange;' 'The History of Oliver Cromwell;' 'The History of the Kingdom of Ireland;' 'The English Heroe; or, Sir Francis Drake Revived;' 'The History of the Nine Worthies of the World;' 'Female Excellency;' 'Memorable Accidents;' 'Delights for the Ingenious;' 'Delightfull Fables.'

* [Ni ddylid camgymeryd yr awdwr hygoel hwn yn lle ei gyfenwydd llawer enwocach, Robert Burton, awdwr galluog yr '*Anatomy of Melancholy,*' yr hwn a aned yn 1576, ac a fu farw yn 1640.]

4. 'King Arthur, or, The British Worthy. A Dramatick Opera Performed at the Queen's Theatre By Their Majesties Servants. Written by Mr. Dryden.

London, Printed by Jacob Tonson, at the Judge's Head, near the Inner-Temple-Gate in Fleet Street. 1695.' Small 4to.

JOHN DRYDEN ydoedd fab i Erasmus Dryden, ac a anwyd yn Aldwinle, ger Oundle, yn sir Northampton, yn 1631. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Westminster a Phrifysgol Caergrawnt. Ei enwogrwydd fel bardd a'i ymlyniad wrth y llys a barodd iddo gael ei benodi yn fardd a hanesydd i Siarl II, ar farwolaeth Syr W. Davenant, yn 1668, pan yn 37 oed. Ysgrifennodd lawer mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Bu farw yn 1701, yn 70 oed.*

5. 'Camden's Britannia, Newly Translated into English: with large additions and improvements. Published by E. Gibson, of Queens-College in Oxford.

London, Printed by F. Collins, for A. Swalle, at the Unicorn at the West-end of St. Paul's Church-yard; and A. & J. Churchil, at the Black Swan in Pater-noster-Row. 1665.'

6. ¶ 'Valor Beneficiorum, or a Valuation of all Ecclesiatical Preferments in England and Wales. 1695.'

1696.

1. 'Carolau a Dyriau Duwiol, neu Goreuon Gwaith y Prydyddion goreu yng-Hymru. Yr hŷn a Argraphwŷd yn ofalus, yn y Flwŷddŷn 1696. Ac ar werth gan Thomas Jones.'

Ail argraffiad, † 'yn gyflawnach o lawer nag o'r blaen, gan Mr. Thomas Jones, yr hwn a ddiwygiodd amryw o feiau'r argraffiad cyntaf, ac a ddywedodd iddo ef wellhau llawer ar Gynghaneddion y Carolau a'r Cerddi trwy gorph y Llyfr; ac iddo ef i 'mgleddu a'i drefnu yn y cyfryw Wisg drwsiadus, hyd oni farnodd ef, yn ôl debygoliaeth, ei fod mor ddifeius ag odid o Lyfr Cymraeg yn yr amser hwnnw. ‡

2. 'Goleuni wedi tori allan yng Nghymru, Gan ymlid ymaith y tywyllwch; Neu Gariad y Sais tuac at yr Hen Gymry: Gan gynnwys ateb i Lyfr, yr hwn a elwir *Bedydd Plant o'r Nefoedd*; yr hwn a osodwyd allan yn y jaith Gymraeg, gan Mr. James Owen. Ymmha le yr ydys yn ymholi ac yn diddadlu ei ddeuddeg Resswm ef, am fedyddio plant y ffyddloniaid, ac yn dinystrio bedydd baban-

* Stephen Jones's *New Biog. Dict.*

† Gwel rhif 3, d.f. 1686.

‡ 'Rhagymadrodd' y trydydd a'r pedwerydd argraffiad [o waith Sion Rhydderch drwstan].

od. Ac yn profi hefyd mai bedydd yw soddiad yr holl gorph mewn dwfr, yn enw'r tad, &c. ac nad yw neb yn ddeiliaid bedydd ond y Credadwy yn unig. Ymmha le y mae y Bedyddwyr yn cael eu hamddiffyn oddiwrth yr holl waradwyddiad a chamgyhudded hynny, ac y mae Mr. Owen yn daflu arnynt. Gan Benjamin Keach.

Printiedig yn Llundain, ac ydynt ar werth gan William Marshall,* wrth lun y Bibl yn Newgate-street. 1696.'

Mae y llyfr hwn o eiddo Mr. Keach yn cynnwys 379 o dudalenau 12plyg o gorff y gwaith, heb law 38 o dudalenau yn yr arweiniad, yn gwneyd felly lyfr trwchus o 417 o dudalenau. Y mae felly yn llawn cymmaint a phedwar o lyfr Mr. Owen.

Am y ddadl hon, dywed awdwr *Hanes y Bedyddwyr*, y Parch. Josiah Jones,† fel hyn:—

'Wedi hyn (1689), gan fod rhyddid wedi ei sefydlu, lledanodd yr enwad yn fwy eto. Cododd hyn wrthwynebiad oddi wrth y Gwrthfedyddwyr, yn neillduol yr Annibynwyr. Wedi llawer o ddadleuon, cytunodd y ddwy blaid bregethu ar fedydd ym Mhen y Lan, yn sir Benfro. Mr. John Thomas, y gweinidog Annibynol, a bregethodd gyntaf ar fedydd babanod. Pregethodd Mr. John Jenkins, bugail yr eglwys yn Rushacre, y dydd canlynol ar fedydd y crediniol. Yn y flwyddyn 1692 y bu hyn. Cyffrôdd hyn y Gwrthfedyddwyr gymmiant, fel y ceisiasant gan Mr. Samuel Jones, o sir Forganwg, amddiffyn y pwnc; ond efe a nacaodd, a'i hen ysgolor, Mr. James Owen, yr hwn oedd y pryd hyn yng Nghroesoswallt, yn sir y Mwythig, a'i cymmerodd mewn llaw. Yn 1693 y daeth ei lyfr ef allan, o dan yr enw *Bedydd Flant o'r Nefoedd*, yn argraffedig yn iaith y wlad. Hwn, tybygid, oedd y traethawd cyntaf ar fedydd babanod a ymddangosodd yn Gymraeg. Trowyd ef hefyd i'r Seisonaeg. Cyhoeddodd B. Keach atebiad iddo, yr hwn a gyfieithwyd i'r Gymraeg; ac hefyd Lyfr Narcott ar y pwnc, ac felly ni chollodd y Bedyddwyr ddim tir.†

Er y cwbl, gellir ystyried y Bedyddwyr yn llafurio dan anfantais led fawr yn y ddadl hon, 'o blegid gorfu iddynt gyfieithu llyfr Mr. Owen i'r Seisonaeg i'r dyben i Mr. Keach ei ddeall; ac wedi hynny cyfieithu llyfr Mr. Keach i'r Gymraeg er budd i'r Cymry. Dywedir hefyd fod y cyfieithiad yn ddrwg iawn.'§ Ef allai y byddai gair neu ddau yma am yr awdwr yn dderbyniol:—

Y Parch. BENJAMIN KEACH a anwyd Chwef. 1640, yn Stokehaman, yn sir Buckingham. Ni chafodd ddysgeidiaeth ond yr hyn oedd ddigonol i'w gyfaddasu i fod yn fasnachydd, yr hyn a ddilyn-

* Un o hiliogaeth y Dr. William Marshal, y mae yn debygol, yr hwn a droisid o eglwys yn Lancaster pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd; ac wedi bod beth amser ar led, a ddychwelodd ac a sefydlodd yn Llundain fel meddyg.—Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. ii. p. 367.

† [Ai Josua Thomas?]

‡ *History of the Welsh Association.*

§ Peter, *Hanes Crefydd yng Nghymru*, t. 599, yr hwn a gyfeiria hefyd at y *Monthly Repos.* vol. i. pp. 399-401.

odd am beth amser; ond rhoddodd heibio yn fuan, gan fwriadu ymgymeryd â'r weinidogaeth; a dechreuodd bregethu yn 18 oed ym mhlith y Bedyddwyr Cyffredinol, ond wedi hyny ymunodd â'r Bedyddwyr Neillduol. Ymsefydlodd yn Winslow, yn sir ei enedig-aeth. Cafodd ei aflonyddu, ei garcharu, a'i roddi yn y rhigod, o blegid ei bregethu a'i ysgrifeniadau, a'i ddirwyo i 20*p.*, a'i lyfr ar fedydd ei losgi. Yn 1668, efe a symmudodd i Lundain, i weinidogaethu i gynulleidfa a ymgynnullent yn Goat Yard Passage. Ysgrifenodd dros ddeugain o lyfrau heb law yr un hwn. Yr unig waith arall o'i eiddo sydd yn Gymraeg yw 'Traethawd ar y Cyffelybiaethau a roddir yn yr Ysgrhythyrau i Dduw'r Tad,' yr hwn a gyhoeddwyd yn y ganrif bresennol. Bu farw Gorph. 18, 1704, yn 64 oed.* Dywed Ivimey na atebodd Mr. Owen mo'r llyfr hwn o eiddo Mr. Keach;† ond yn hyn yr oedd yn camgymmeryd.‡

3. 'Caniadau Edmund Prys.'§

4. 'Blodeugerdd—Llyfr Carolau, &c. Gan Thos. Jones.'

Mwythig. 1696.||

Dichon mai ail neu drydydd argraffiad yw o'r 'Cerdd-Lyfr.'**

5. 'Brittannia. By W. Camden. Edited by Bishop Gibson.' London. 1696.

1697.

1. 'The History of Wales. Comprehending the Lives and Succession of the Princes of Wales, from Cadwalader the last King, to Llewelyn the last Prince, of British Blood. With a short Account of the Affairs of Wales, under the Kings of England. Written originally in British, by Caradoc of Lhancarvan; and formerly published in English by Dr. Powel. Now newly arranged and improved by W. Wynne, A.M. and Fellow of Jesus-Colledg, Oxon.

London: Printed by M. Clark,†† for the Author, and are to be sold by R. Clawell, at the West end of St. Pauls. 1697.' [8vo.]

* Aubry's *English Baptists*, vol. iv. 268-313; Wilson's *Dissenting Churches*, vol. iv. pp. 247-250.

† Ivimey's *History of Baptism*, vol. ii. 385.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1702.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1686.

|| Gwel rhif 1. Gall mai yr un yw rhif 1 hwnw â hwn, ac mai yr un yw rhif 3 yma â rhif 2, d.f. 1686.

** Sef rhif 3 a enwyd eisoes. Nid ydys wedi gweled hwnw, na chael hysbys-rydd boddhaol ond am dano.

†† Y mae yn ddiogon tebyg fod yr M. Clark hwn yn fab i Matthew Clarke, M.A., yr hwn oedd yn enedigol o Lwydlo, yn sir y Mwythig, ac a drowyd allan o'r weinidogaeth o Narborough, yn sir Leister, ar ddyfodiad Siarl II. I'r orsedd.—Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. ii. p. 392, &c.

Trydydd argraffiad.* WILLIAM WYNNE ydoedd fab ieuangaf Robert Wynne, o'r Garthewyn, yn sir Ddinbych; cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Cafodd ei ordeinio gan Esgob Bangor. Bu farw yn 1704, yn 34 oed.† Claddwyd ef ym Mangor.‡

2. "A Walk through Wales in August, 1697, By the Rev. Richard Warner, of Bath."§

[Y mae hwn wedi ei gynamseru gan *mlynedd* gyfan: gweler rhif 27, d.f. 1798; rhif 27, d.f. 1799; a rhif 7, d.f. 1800.]

3. ¶ 'Y Cywir Ddychwelwr.'

Y mae yn ei rhagflaenu, gan y cyfieithydd, 'At fy nghyd-wladwr anwyl y Cymro,' a'r hwn a ddyweda, 'Yr eiddot yn yr Arglwydd R.E.' Yn ei ddiwedd ceir—'Y mae y Llyfr hwn ac amriw eraill llyfrau cymraeg iw cael i werth gan *Thomas Brewster*; tan lun y tri Bibl yn ym-mul Pauls'—'This Book and several other Books in Welsh are to be sold by *Thomas Brewster* at the three Bibles near the West end of Pauls Church-yard, London.'

[Rhif 7, d.f. 1657, yw y gwaith hwn, ac ymddengys mai mewn amryfusedd y cafodd ei adgofnodi yma; canys nid ymddengys i argraffiad newydd o hono gael ei gyhoeddi y flwyddyn hon. Adargraffwyd ef yng Nghaerfyrddin yn y fl. 1727. Gellir gwled ei enw yn gyflawn d.f. 1657; canys nid oes yma ond deryn cwta o hono.]

4. ['King Arthur, an Heroick Poem. By Richard Blackmore, M.D.']

London, 1697, folio.]

1698.

1. 'Artemidorus—Gwir ddeongliad Breuddwydion. O gyfieithiad Thomas Jones.' Mwythig. 8plyg.

2. ¶ 'Yr A B C, neu Lyfr i ddysgu darllen Cymraeg, at yr hwn y chwanegwyd Catecism yr Eglwys.' Mwythig. 8plyg.

3. 'Attebion i'r holl wag Esgusodion a wnae llawer o bobl yn erbyn dyfod i dderbyn y Cymmunn Bendigedig; a cholledig gyflwr y rhai a esgeulusant ddyfod i Swpper yr Arglwydd. O gyfieithiad Mr. Michael Jones, Deacon, Mab Michael Jones, Ficar o Eastyn, sir Fflint.' Llundain. 8plyg.

Wrth ei enw Seisoneg, *Hope*, y gelwir y plwyf hwnw yn awr. Ymddengys y bu Michael Jones yn Ficer yr Hope o'r flwyddyn 1685 i 1705. Nid ydys yn gwybod dim ychwaneg am y mab.

* Gwel rhif 1, d.f. 1574; a rhif 1, d.f. 1663.

† *Gentleman's Magazine*, 1691, 2nd part, Supplement, p. 1175.

‡ *Lewis's Topographical History of Wales; Evans's North Wales.*

§ *Evangelical Magazine*, 1803, p. 527.

4. 'Duwiolder am Ddydd yr Arglwydd.'

5. 'The Adventurer, or an expedient first for composing all difference between the partners of the mine Estate of Sir Carbery Pryse, &c. Proposed by Sir Humphrey Mackworth.'

London, 1698, folio.*

6. ¶ 'A short Review, with some Remarks upon the union in the late agreement in doctrine among the Dissenting Ministers.'

London, Published by W. Marshal, at the Bible in Newgate. 1698.'

7. 'Essay on the Value of the Mines late of Sir Carbery Price (in Wales), writ for the Private Satisfaction of all the Partners. By W. Waller, Gent. Steward of the said Mines. Privately printed, 1698.'

Y mae yn rhoddi hanes cywrain am y Gwaith Plwm a'r Tawdd-dai, yn yr Esgair Hir, a lleoedd ereill.

1699.

1. 'Taith y Pererin: neu Siwrneu Dyn o'r Byd hwn ir Byd a Ddaw, Dan gyffelybiaeth Breuddwyd. Yn yr hwn y dangosir, yn gyntaf, y modd o'i gychwŷnfa Ef. Yn ail, ei siwrneu ddyrys; yn drydydd, ei ddyfodiad o'r diwedd i'r Wlad ddymunol, Teŷrnas Nef. O wneuthuriad John Bunyan, yn Saesnaeg: Y Llyfr hwn a Argraphwyd yn Saesnaeg bumtheg o weithiau, Ac unwaith o'r blaen yn gymraeg o gyfieuthiad Cymmysg ddwylo.†. Hwn y'w'r ail argraphiad yn gymraeg, ar Cyntaf o gyfieithiad Thomas Jones.

Argraphwyd yn y Mwŷthig, gan Thomas Jones, MDCLXXXIX.'

2. 'Eglurhad byrr ar Gatechism yr Eglwys, ynghyd a thystiolaethau o'r Scrythyr lân. O gyfieithiad John Morgan.'

Llundain. 8plyg.‡

* Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; a rhif 11, d.f. 1693.

† Gwel rhif 4, d.f. 1688.

‡ Rhoddwyd rhif 1 a 3, d.f. 1696; rhif 1, 2, 3, a 4, d.f. 1698; a rhif 1 a 2, dan y flwyddyn hon, ar awdurdod Moses Williams, ac fel y maent ganddo ef.

3. 'An Account of the Cardiganshire Mines, by William Waller.*'

Cynnwysa yr uchod barthlen o'r rhan hòno o sir Aberteifi, lle yr oedd y mwngloddiau perthynol i lywodraethwyr Cwmpeini Anturiaethwyr Mwnau Lloegr. Y mae ynddo gynllun o Fwlech yr Esgair Hir, Bwlch Caninog, Cwm Symlog, Coginan, Bryn Pica, Cwm Erfin, Pen Craig Ddu, Ystum Tuen, a 'mwnglawdd newydd' Cwm Ystwyth.†

4. ¶ 'Cydymmaith yr Eglwyswr yn ymweled â'r Claf, &c. A gyfieithwyd allan o'r chweched argraphiad yn Saesonaeg, gan E. Jones, o Lanfrewig.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Richard Lathrop, gwerthwr Llyfrau.'

Tebygol y dylasai hwn fod swrn o flynyddoedd yn ddiweddarach, tua'r fl. 1740, os yr un yw Lathrop‡ y gwerthwr llyfrau hwn â Lathrop a argraffodd rai llyfrau mân Cymraeg tua'r flwyddyn hòno; er y gallasant fod yn dad a mab. Llanmerewig, ger y Dref Newydd, yw y lle a gamenwir yma yn Lanfrewig. Cafodd y Parch. Edward Jones ficeriaeth Nantglyn yn 1625, o'r lle y deolwyd ef; ond cafodd fywoliaeth y lle hwn yn 1635, gan yr Esgob Owen.

5. 'The Paraselene dismantled of her Cloud, or, Baxterianism Barfac'd, Drawn from a Literal Transcript of Mr. Baxter's, And the Judgment of Others, In the most Radical Doctrines of Faith; compar'd with those of the Orthodox, both Conformist and Nonconformist; and transferr'd over by way of Test, unto the Papist and and Quaker. By Thomas Edwards, Esq.

London, Printed, and sold by Will. Marshal at the Bible in Grace-Church-street, 1699.'

Llyfryn 4plyg yw hwn. Yr awdwr, T. Edwards, ydoedd o'r Rhual, yn sir Fflint. Y mae y gwaith yn llyfr mawr o tua 450 o dudalenu pedwarplyg bychan yr oes hòno. Nid oes dim Cymreig ynddo, ond bod yr awdwr yn Gymro, oddi eithr dau air yn yr 'Epitaph' canlynol a wnai yr awdwr i Mr. Baxter:—

'Baxter farewell! § Hen-Fydd's Epitome,
Rome's Vatican and Conclave fell in thee;
St. Omers mourn! for thy Disciples will
By this find lesser Grist come to thy Mill.

* Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; rhif 11, d.f. 1693: a rhif 6, d.f. 1698.

† Meyrick's *History of Cardiganshire*.

‡ [Argraffodd 'R. Lathrop' y llyfr 'Trugaredd a Barn' (rhif 1, d.f. 1687), yn y Mwythig yn 1687, deuddeng mlynedd cyn yr amser a gofnodir yma.]

§ *Romish Faith*.

*To say no more, write on his Tomb, Here lies
The Memoir of Self-Inconsistencies :
Or rather thus, Papal Conformity,
Hid under Reformation here doth lie.*—Page 223.

6. ¶ ‘Memoirs, of Lieut. General Ludlow, with original papers and many curious particulars relative to the fights at Monmouth, Pembroke, Hereford, and other places in East Wales. In 3 Volumes.

Switzerland, Printed at Vevay, in the Canton of Bern, 1699.’

Argraffwyd y gwaith hwn ar y cyfandir, rhag cospedigaeth, yr hyn a gymmerasai le ped hargraffesid ef yn nheyrnas Lloegr.

7. ‘Edwardii Liuidii apud Oxonienses Cimeliarchæ Ashmoleani Lithophylacii Britannici Ichnographia. Sive Lapidum aliorumque Fossilium Britannicorum singulari figura insignium; quotquot hactenus vel ipse invenit vel ab amicis accepit, Distributio Classica: Scrinii sui lapidarii Repertorium cum locis singulorum natalibus exhibens. Additis rariorum aliquot figuris ære incisus; cum Epistolis ad Clarissimos Viros de quibusdam circa marina Fossilia & Stirpes minerales præsertim notandis.

Londini Ex Officina M.C. 1699.’

Cant ac ugain o lyfrau a argraffwyd o hono, ar draul amryw foneddigion. Awdwr yr ‘*Archæologia Britannica*’ ydoedd yr E. Llwyd hwn.*

1700.

1. ‘Trefn a Defosiwn beunyddiol. O gyfieithiad N. R. A.M.’

Llundain. 8plyg.

2. ‘Cyngor y Bugail i’w Braidd, &c.’

Llundain. 8plyg.

3. ‘Arweiniwr Cartrefol i’r iawn i’r buddiol Dderbyniad o Swpper yr Arglwydd, ym mha un hefyd y mae’r ffordd a’r modd o iechydwriaeth wedi eu gosod allan yn fyrr, ac fel y bo hawdd eu deall. Gan Theophilus Dorrington. O gyfieithiad David Maurice, D.D.’

Llundain. 8plyg.

4. ¶ ‘Sail y Grefydd Gristionogol.’ 8plyg.†

5. ‘Testament y Deuddeg Patriarch, sef meibion Jacob. A gyfieithwyd allan o’r Groeg gan Robert Grosthead, esgob Lincoln;

* Gwel rhif 4, d.f. 1707. [Ymddangosodd ail argraffiad yn y fl. 1760 dan olygiad J. Huddesford.]

† Ef allai yr un yw hwn â rhif 11, d.f. 1653; rhoddwyd y rhif 1, 2, 3, a’r 4 hyn ar awdurdod Mr. M. Williams, ac ereill, heb eu gweled.

ac allan o'i Gopi ef a Gyfieithwyd yn Ffrangeg ac yn Dwits gan eraill, ac yn awr yn Gamberaeg. Er Parch i ba un, i mae yn 'Sciifenedig yn y Brif Ysgol yn Cambridge ar Barsmant Coppi o hwn yn y Groeg. At yr hwn y chwanegwyd Epistol Paul yr apostol at y Laodiceaid. Hefyd ychydig ym mherthynas Marwolaeth Paul yn Rhufaen dan Nero Cæsar.

Duflun Argraphwyd ac ar werth gan Cadwalader Ellis, yn y Bala, yn sir Meirionydd. 1700.' 12plyg.

6. 'Llyfr y Weddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, &c.

Mwÿthig Argraphwÿd gan Thomas Jones. 1700.'

Y mae yn gyssylltedig ag ef 'Llyfr y Psalmiau wedi eu cyfieithu, a'u cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg. O waith Edmund Prys, Arch-diacon Meirionnydd.

Argraphwyd yn y Mwÿthig gan Thomas Jones. 1700.'

7. ¶ 'Cynghorion Tad i'w Fab.'

Dywedir mai yr awdwr ydoedd Henry Evans, o Fedwellty, Mynwy, yr hwn a gyfrifid yn gryn fardd yn ei ddydd.*

8. ¶ 'Cydymmaith yr Eglwyswr yn ymweled a'r claf, yn cynnwys yn i. Y modd neu wedd o ymweled a'r claf. ii. Y drefn am ymweled a'r claf, allan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. iii. Cymmun y Claf. iv. Rhai Gweddiau a ffurfiau eraill. Gan mwyaf allan o scrifeniadau defosionawl rhai o'r Difeinyddion enwocaf o Eglwys Loegr, ynghyd a Bedydd Public a Phrifat. O gyfieithiad Edward Jones, Llanafrewig.

Mwythig, Argraphwyd ac ar werth yno gan Thos. Durston.'

Ail argraffiad, os oedd y llall mor gynnar; neu dichon mai hwn yw y cyntaf, a hwnw yr ail neu y trydydd.†

9. ¶ 'Cyfarwyddiadau i Fesurwyr.

Mwythig, Argraphwyd gan Thomas Durston.'

10. ¶ 'Yr Ymarfer o Dduwioldeb, yn cyfarwyddo Dyn i rodio fel y rhyngo ef Fodd Duw. Yr hwn lyfr a osodwyd allan yn Saesnaeg o waith y gwir barchedig Dad yn Nuw Lewis Escob Bangor, ac a gyfieithwyd yn gymraeg o waith Row. Vaughan o Gaergai yn sir

* [Awdwr 'Yr Hen Wr Dall a'r Angeu,' rhif 19, d.f. 1781. Ond os yr unrhyw Henry Evans ydoedd awdwr y gwaith hwn, rhaid naill ai bod hwn wedi ei osod gryn lawer yn rhy gynnar, ai ynte nis gall hwnw fod yr argraffiad cyntaf o'r 'Hen Wr Dall.']

† Gwel rhif 4, d.f. 1699.

Feirionydd, Wr Bonheddig, yn y flwyddyn o oed Iesu 1620. Y pummed argraphiad yn Gymraeg, wedi gwella llawer o gamyspeil-iadau oedd yn yr Argraphadiau ereill.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thos. Durston.*

11. 'A familiar discourse, or dialogue, concerning the mine Adventures, wherein Sir Humphrey Mackworth and other Welsh Gentlemen were concerned. To which is prefixed "An abstract of the present state of the Mines of Bwlch yr Yskair hir," &c.

London, 1700.

Y mae yn darlunio yn llawn y gweithiau plwm a chopr yn sir Aberteifi, y gweithiau glo yn sir Forganwg, a'r gweithiau toddi yng Nghastell Nedd, yng nghyd â'r amrywiol adeiladau a'r peiriannau a ddefnyddid.

12. A list of Names of Mine Adventurers. Printed by Freeman Collins. 1700.†

Dyma yr oll, a nodir isod, a ddeallais a gyhoeddwyd yn y ganrif hon ar ddadl y mwngloddiau yn sir Aberteifi, tua dau gant o flynyddau yn ol. Y maent yn brinion iawn; ond y maent yn werth eu cael i'r neb a deimlo chwaeth yn y cyfryw ymchwiliaeth.

13. 'Help i Ddarllen yr Ysgrythur Gyssegr Lan, &c. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg allan o'r Hôll Ddyledswydd Dŷn (sef y Newydd) Gan E. W. Gweinidog Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys, yn y Flwyddyn, 1700.'

Enw llawn E. W. oedd Ellis Wynn.‡ Ym mhen tua deugain mlynedd eto ceir E. W. arall, yr hwn oedd offeiriad duwiol iawn, yng nghymmydogaeth Pont y Pwl, o ysbryd ac arferion Methodistiaid yn yr Eglwys Sefydledig cyn sefydlu Methodistiaeth. Bu farw yn ieuanc.

14. 'Cyfammod Eglwysig, &c. Gan Lewis Davies. 1700.'

Gweinidog Ymneillduol yn Ty'r Dwncyn, ger Mynydd Bach, Morganwg, ydoedd Mr. L. Davies.

1701.

1. 'Catecism y Gymmanfa,' &c. Llundain.

* Gwel rhif 1, d.f. 1630; rhif 2, d.f. 1656; rhif 4, d.f. 1675; a rhif 2, d.f. 1685.

† Gwel rhif d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; rhif 11, d.f. 1693; rhif 6, d.f. 1698; rhif 3, d.f. 1699; a'r rhif 12, 23, y flwyddyn hon.—Gwel hefyd Meyrick's *History of Cardiganshire*.

‡ [Y mae yr awdwr yn y lle hwn wedi dileu enw 'Edmund Williams,' a gosod enw 'Ellis Wynn' yn ei le; ond y mae yn gyffelybol mai 'Edmund Williams' oedd llawn enw yr offeiriad o gymmydogaeth Pont y Pwl.]

Dichon mai pedwerydd argraffiad yw hwn o 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,' o dan enw arall.* Y Parch. James Owen ydoedd y cyfieithydd.

2. 'Catecism, &c. Bibl I. Lewis, &c.†

3. 'Rheol Buchedd Sanctaidd yn dangos y Moddion a'r Arfeu i ynnill pob Grâs, a Meddyginiaeth rhag pŏb rhyw Bechod, a Myfyrdodau cymmwynascar i wrth-wynebu pŏb Profedigaeth. Ynghŷd â Gweddiau yn cynnwys Hŏll Ddyledswydd Cristion. A'r Rhannau o Ddyfosiwn wedi eu cymmwyso at bŏb Achosion, a'u cyfansoddi at bŏb Angenrheidiau. Gan Jer. Taylor, D.D. O'r deunawfed Argraphiad yn Saesonaeg.

Argraphwyd yn Llundain 1701.' [8plyg.]

Y mae yn ei ragflaenu gyflwyniad‡ 'I'r Parchediccaf Dâd yn Ghrîst, Humphrey, Arglwydd Escob Bangor,§ a rhagymadrodd at yr 'Anwyl gariadus Gymro,' yng ngwir arddull awdwr y 'Bardd Cwsg.' Yn y rhagymadrodd y mae yn crybwyll am yr amryw lyfrau a ddaethent trwy y wasg Gymreig yn flaenorol, 'heblaw'r BIBL brenhin y lyfrau—amryw lyfrau dâ eraill megis yn swyddogion tan hwnnw, rhai i'th ddyfyn, rhai i'th helpu, rhai i'th ddenu i'r Daith nefol, i'r unig Waith angenrheidiol hwn.' Yna chwanega,

'Ac er godidocced pob un o'r Llyfrau Cymraeg yn ei Le a'i Swydd briawd; etto mi a ryfygwn orchymmyn i ti *dri'n* enwediceaf ōll, megis o lês cyffredinach ac anghenrheitiach na'r lleill i gŷd. Oherwydd at Waith Iechydwriaeth a phŏb gorchwyl arall, mae *tri pheth* yn angenrheidiol cyn yr êl byth i ben; *Yn* 1. rhaid i ti *wybod beth yw'r gwaith*, at hynny mae Llyfr *Holl Ddyledswydd Dyn* yn odiaeth i yspysu i ti'r cwbl a ofynnir gennit; *Yn* 2. rhaid i ti *ymroi yn hollawl i gychwyn ac i ganlyn ar y gwaith*, ac at hyn y daeth Llyfr y *Resolusion* yn unswydd i roi cwbl o'th fryd a'th fwriad ar wasanaethu Duw; Ac *Yn* 3. cyn yr elech byth yn weithiwr hwylus rhaid i ti *gael y Moddion a'r Arfeu a Mesuraer gwaith*, ac am y rheiny odid oes un drysorfa gyfothocchach a llofnach na'r *llyfran hwn*.'

Yn canlyn y mae englynion 'At Gyfieithydd Rheol Buch. Sanct.,' gan 'Edm. Prys, ficar Clynog fawr yn Arfon;' ac yn Lladin gan

* Gwel rhif 4, d.f. 1664; rhif 1, d.f. 1679; a rhif 3, d.f. 1693.

† Rhoddwyd y rhif 1 a 2 hyn ar awdurdod ac yn null Mr. Moses Williams. [Fel hyn y saif yr erthygl hon (2) yng *Nghofrestr* Moses Williams, rhif 30:—'Catecism & Bibl. T. Lewis, & Beveridge, & Baddon;'] beth bynag a olygai yr awdwr hwnnw wrth y fath gofnod.]

‡ Y mae y cyflwyniad hwn yn llawn yn y *Gwyllydydd* am Fai, 1834, t. 139.

§ Yr esgob hwn ydoedd Humphrey Humphreys, D.D., yr hwn oedd fab i Richard Humphreys, Ysw., o Benryn Deudraeth, yn sir Feirionydd, yr hwn a anwyd yn 1648. Cafodd ei ddysg yng Nghroesoswallt, Bangor, a Rhydychain. Wedi bod yn berson Llanfrothen a Thrawsfynydd, yn ei sir enedigol, efe yn 1689, pan yn ddim ond 41 oed, a wnaed yn esgob Bangor, ac ym mhen 12 mlynedd symmudwyd ef i Henffordd, lle fy bu farw yn 1712, yn 64 oed.—Lewis's *Topographical History of Wales*; Williams's *Eminent Welshmen*.

'*Fulco Pricæus, Llanlhyvniæ Parochus Arvonensis*;'* ac 'At Ddarllen-ydd Rheol B. Sanct^{dd}.' gan 'E.W.' ei hun. Dywedir mai mab i Edmund Prys, yr archddiacon, oedd '*Fulco Pricæus*,' neu Ffowc Prys, ac ef allai mai mab arall iddo ydoedd, 'Edm. Prys, ficar Clynog Fawr yn Arfon.' Am yr awdwr,

JEREMY TAYLOR, D.D., mab ydoedd i eilliwr (gorchwyl ag yr oedd llawfeddyginiaeth yn gyssylltedig ag ef y pryd hyny) yng Nghaergrawnt; er ei fod yn deilliaw oddi wrth deulu cyfoethog, un o ba rai oedd y Dr. Rowland Taylor, yr hwn a ddyoddefodd ferthyrddod yn amser y Frenines Mari. Ganwyd Jeremy yn 1613. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, † yng nghyd â'i wneyd yn Gydyrnaith. Cafodd hefyd bersoniaeth Uppingham, yn Rutland, yn 163 $\frac{1}{2}$, ac wedi hyny gwnaed ef yn gapelwr i Siarl I; ond gan i Siarl gael ei orchfygu, daeth Taylor yn wrthddrych erlidigaeth y Senedd, a chafodd ei garcharu am beth amser. Wedi ei ryddhad, efe a ffodd i Gymru, gyda Nicholson, wedi hyny esgob Caerloew, a Wyatt, wedi hyny prebendari Lincoln, lle y cawsant eu noddedu gan Iarll Carbery. Yn y Gelli Aur, ger Llandeilo Fawr, yn sir Gaerfyrddin, y cafodd Taylor loches, lle y bu o'r fl. 1647 i'r fl. 1658, ystod un flynedd ar ddeg. Dywedir y cadwai ysgol tra y bu yno, mewn pentref bychan ger llaw, o'r enw Llanfihangel Aberbythych; a dywedir hefyd mai tra yr oedd yma y cyfansoddodd yr '*Holy Living and Holy Dying*' = 'Rheol Buchedd Sanctaidd' hwn, a llyfr da arall o'i eiddo a alwodd '*The Golden Grove*,' yn ol enw palas ei noddwr, ac amrai ereill. Ysgrifennodd luaws o lyfrau ereill, ond hwn a'r '*Contemplation on the State of Man*' = 'Ystyriaethau ar Gyflwr Dyn,' yw yr oll a gyhoeddwyd yn Gymraeg. Y mae cofiadwriaeth Jeremy Taylor wedi ei anfarwoli yn y gymydogiaeth; canys gelwir y llwybrau y cerddai yn '*Taylor's Lanes*' = Heolau neu Lwybrau Taylor. Pan gafodd Siarl II. ei wneyd yn frenin, efe a'i dyrchafodd ef i esgobaeth Down a Connor, yn Iwerddon, i'r hon y cafodd ei gyssegru yn Ionawr, 1661. Bu farw, Awst 13, 1667, yn 55 mlwydd oed. †

4. 'Blaenor i Gristion yn ei arwain ef at y pethau a ddylai ef eu credu, gwneuthur, a'u gobeithio. At ddiwedd pa un y dodwyd Gweddiau i'w harferu ar amryw achosion. O gyf. Joh. Williams, A.M. Person Llanfrothen.'

Llundain. 8plyg.

Dywedir mai yng Ngwylan, ger Maentwrog, yr oedd Mr. Williams yn anneddu, ac felly o fewn cyrhaedd eglwys ei blwyf, er mewn plwyf cymmydogaethol.

5. ¶ 'Summary View of the Articles against the Bishop of St. David's.'

Yr esgob hwn oedd y Dr. Thomas Watson. Yr achos cwyn yn

* H.y. Ffowc Prys, o blwyf Llanllyfni, yn Arfon.

† [Yng Ngholeg Caius yng Nghaergrawnt y derbyniodd ei ddysg, ac yn y Brifysgol hono yr ymraddiodd yn Athraw y Celfyddydau; ond ymsefydlodd wedi hyny yn Rhydychain, a chafodd gymmrodoriaeth yno.]

‡ *Penny Cyclopædia*; Jones's *Christ. Biog. Dict.*

erbyn yr esgob oedd, darfod iddo, wedi cymmeryd llw o ffyddlondeb i William III, ddangos ei hun yn fwy ffafriol i Iago; ac hefyd am Simoniaeth (derbyn arian am leoedd neu fywoliaethau eglwysig). Cafodd ei ddiswyddo yn y flwyddyn 1697, wedi tair blynedd o ymgyfreithio. Ef allai y dylasid doddi y llyfr hwn ychydig yn gynnarach.

6. 'Britannia, with Improvements and Continuation to the present Time. By W. Camden. 1701.'

1702.

1. ¶ 'Ychwaneg o Eglurhad am Fedydd* Plant bychain, neu Ateb i wrthresymau Mr. Keach a Mr. Narcot yn erbyn Bedydd Plant, ac amddeffyniad o'r rhesymau tros eu bedyddio hwynt,' &c. 12plyg.

Tra thebyg mai gwaith Mr. James Owen yw hwn. Nid ydys yn sier o'i amseriad, gan nad oedd yr wyneb-ddalen yn gyssylltedig â'r copi a welais. Pa fodd bynag, terfyna Mr. Owen, ei 'At y Darlleneydd,' 'Amwythig, Mawrth 26ain, 1701.' Dywed Mr. Ivimey, na atebodd Mr. Owen mo lyfr Mr. Keach, sef 'Goleuni wedi tori allan yng Nghymru;' ond dengys hyn ei fod yn camgymmeryd.†

2. ¶ 'Godidowgrwydd Rhinwedd, ac effaith yr Efengyl.'

Mwythig. 8plyg.

3. 'Cynffwrdd i'r Gwan Gristion, neu'r Gorsen ysig. Gan Dafydd Maurice, D.D., & Dorrington.' Rhydychain. 8plyg.

Dyna fel y cofrestra Moses Williams ef; ond y mae yn dra thebyg mai Theophilus Dorrington oedd yr awdwr, ac mai y cyfieithydd ydoedd y Dr. Dafydd Maurice.†

Yr oedd y Dr. D. Maurice yn berson Abergele a Llanarmon, ac yn dal prebendariaeth y Faenol yn eglwys esgobawl Llanelwy. Bu farw yn 1702, yn 76 oed.

4. 'The History of Wales; Comprehending the Lives and Succession of the Princes of Wales, from Cadwaladr the last King to Llewelyn, the last Prince of the British Blood. With a short account of the Affairs of Wales, under the Kings of England. Written originally in British by Caradoc of Lhancarvan; and formerly published in English by Dr. Powell. Now newly augmented and improved by W. Wynne, A.M. and Fellow of Jesus-Colledge, Oxon. To which is added a Map of Wales by J. Sellers.

London: Printed for John Senner, oposite to the South Portico of St. Clement's Church in the Strand. 1702.'

* ['Ffydd plant bychain' a ddywedir yng *Nghofrestr* Moses Williams, yn ol fel yr adargraffwyd hi yn y *Gwyllyddydd*, ix.]

† Ivimey's *History of Baptism*, vol. ii. p. 385.

‡ Gwel hefyd rhif 3, d.f. 1700.

Y pedwerydd argraffiad.* Y mae yr argraffiad uchod yn ddiffyg-
iol o'r dernyn rhagorol hwnw a elwir ' *Winning of the Lordship of
Glamorgan or Morganwg out of Welshmen's hands,*' yr hwn a roddwyd
i'r Dr. Powel gan Mrs. Blanch Parry, wedi ei ysgrifenu gan Syr
Edward Stradling.

5. 'A large Review of the Summary View of the articles against
the Bishop of St. David's.' †

6. 'Gloria Cambricæ, or Speech of a Bold Briton against a Dutch
Prince of Wales.' 1702.

Y '*Bold Briton*' ydoedd yr Anrhydeddus Robert Price. Yr
araeth hon ydoedd yn erbyn gwaith y brenin, William III, yn rhoddi
rhyw diroedd o eiddo y goron—o ddeutu gwerth chwe' mil o bunnau
yn y flwyddyn—yn sir Ddinbych, i Ddug Portland, yr hwn oedd
Ddwtzman, ac a ddaethai trosodd i Loegr gyda'r brenin, y Tywysog
Orange. ‡

[Y mae cyfieithiad o'r Araeth hon, neu o leiaf, o ran o honi, yn y *Greal*, rhif
6, t. 247; ac adgyhoeddwyd yr unrhyw yn y *Gwyllydydd*, xi. 201.]

7. 'A Short Narrative of the Proceedings against the Bishop of
St. David's.

London, Printed in the Year 1702.'

1703.

1. 'Hymnau Sacramentaidd 'Scrythyrol. Gan T. B., s.y. Thomas
Baddy.' Llundain. 8plyg.§

2. 'Pasg y Cristion, neu Wledd yr Eglwys, &c. Gan Tho.
Doolittel, A.M. Wedi ei gymreigio gan T. B. yr hwn a chwana-
egodd chwech o Hymnau i'w canu ar ol derbyn y Cymmun.

Argraphwyd yn Llundain. 1703.'

[Am enw y llyfr hwn yn gyflawn, gweler rhif 3, d.f. 1739. Yr wyf yn
meddwl mai camsyniad Moses Williams, yr hwn a ddilynwyd gan ein hawdwr,
oedd gosod y gwaith hwn dan y flwyddyn hon; a'm tyb yw mai argraffiad
1739 yw y cyntaf o hono. Y mae cyfargraff cyflawn o hwnw yn awr o'm
blaen, ac nid oes ynddo yn un man mo'r awgrym lleiaf mai adargraffiad ydyw.
Prin y mae achos crybwyll fod llawer o bethau anghywir i'w cael yng *Nghof-
restr* y llafurus, y dysgedig, a'r gwladgar Moses Williams. Argraffiad 1739 sy
gyfrol 8plyg o 212 tudalen.]

THOMAS BADDY oedd weinidog yr Ymneillduwyr yn nhref Din-
bych. Nid oes nemawr o goffa am dano ef gan haneswyr crefyddol
Cymru. Daeth yno tua'r flwyddyn 1693. Deallir ei fod yn wr

* Gwel rhif 1, d.f. 1584; rhif 1, d.f. 1663; a rhif 1, d.f. 1697.

† Gwel rhif 5, d.f. 1701.

‡ Macaulay's *History of England*.

§ Yn ol Moses Williams.

boneddigaidd, ac yn meddu cryn lawer o dda y byd hwn, ac yr oedd hefyd yn bregethwr poblogaidd. Dywedir yr arferai wisgo ysbardynau arian am ei sodlau, yr hyn a dramgwyddai rai o'i gyfeillion, am y tybient ei fod yn cydymffurfio gormod â dull gwŷr mawr yr oes. Pan ddeallodd hyn, dywedodd, 'fod yn ddrwg iawn ganddo eu bod yn rhoddi eu calonau i flino o blegid yr hyn a roddai efe am sodlau ei draed.' Digion tebyg iddo fod yno hyd ei farwolaeth. Mr. Pugh, mab yng nghyfraith Mr. Baddy, yr hwn oedd fasnachwr yn y dref, a roddodd y tir i adeiladu y capel ymneillduaidd y tro cyntaf, yn 1742, lle hefyd y saif yr addoldy presennol.* Y mae yn cael ei enwi yn ewyllys y Dr. Daniel Williams, fel un o'r rhai cyntaf i dderbyn elw a budd oddi wrth weddill etifeddiaeth helaeth y gwr da hwnw, tra y byddai yn weinidog yn Ninbych.† Y mae hanes am dano, iddo fyned i'w lyfrfa, a thra yr oedd yno yn darllen neu yn ysgrifenu, efe a glywai ryw un y tu ol iddo yn chwerrthin ac yn ysgrifnygu arno, yr hyn a barodd iddo sefyll peth—fel yn wir y gallasai. Efe a ddaeth drachefn, a'r pryd hyny efe a ysgrifennodd ar ddernyn o bapyr, yr Ysgrythyr ddiabol-glwyfawl hòno, 1 *Ioan* iii. 8:—'I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diabol;' ac a'i daliodd y tu ol oddi wrtho, pan y peidiodd y chwerrthin am byth: canys yr oedd yn air gofidus i ddiabol gwatwarus, ac yn ddigon i'w lesgäu. A buasai yn ei lesgäu yn fwy fyth, pe buasai yn dangos iddo *Iago* ii. 12:—'Y mae y cythreuliaid yn credu ac yn crynu.' Ond fe gafodd ddigon am unwaith.‡ Bu ganddo rywbeth i'w wneyd â chyhoeddi llyfrau Cymreig o 1703 i 1728, hyd o fewn blwyddyn i'w farwolaeth. Am y llyfr diweddaf y bu ganddo rywbeth i'w wneyd â'i gyhoeddiad, sef y 'Dwy daith i Gaersalem,'§ yr ysgrifennodd y llythyr canlynol, naill ai at Gyfeisteddfod y Drysorfa Bresbyteraidd yn Llundain, ai at gyfieithwyr y llyfr hwnw, a'r cyhoeddwy'r ereill:—

'*Dinbych, Mawrth* 12, 1727.

Syr,—Yr wyf yma yn anfon i chwi sampl o'r llythyren, â'r hon y mae y llyfr i gael ei argraffu, os cydwelir i wneyd â hi. Buaswn yn anfon i fyny yn gynt, ond y mae y papyr a anfonasoch o'r fath faint anghyffredin, fel na chymmer yr argraffydd ddim llai na 30s. y bapyr len am argraffu mil o lyfrau perffaith ar y papyr hwnw. Ond mi a gytunais ag ef fel hyn (os cydsynia y boneddigion sy'n ym-drafferthu): Fod iddo gael 10*p.* am yr holl waith. Bydd i'r papyr a anfonasoch pan ei plygir, wneyd 12plyg mor fawr ag unrhyw 8plyg cyffredin. Os boddhânt ar y llythyren yn y sampl hon, a'r pris, &c., yna gallant fyned ym mlaen. Byddwch cystal ag anfon gorchym-

* Morgan, *Hanes Ymneillduaeth*, t. 532.

† Calamy's *Continuation*, vol. ii. p. 991.

‡ *Cambro-Briton*, vol. ii. p. 277.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1728.

mynion a chyfarwyddiadau pellach mor fuan ag y byddo yn gyflëus.

Wyf, eich gwasanaethwr gostyngedig,

THOS. BADDY.*

Yr oedd cynulleidfa Mr. Baddy yn Ninbych yn o 50 i 60. Yr oedd un o honynt yn werth o bedair i bum mil o bunnau; tri yn werth pum cant o bunnau bob un; y gweddill yn fasnachwyr ac amaethwyr; a dim un cardotyn. Yr oedd ganddynt 8 pleidlais dros y sir, a 12 dros y dref. Bu farw yn 1729.†

3. 'Cristionogrwydd yn gynnwys, &c. Gan C. Ellis.' Llundain. 8plyg.

Cadwaladr Elis, o'r Bala, mae yn debyg, yr hwn oedd lyfr-werthydd.‡

4. 'Agoriad yn agor y ffordd i bob Dealltwriaeth cyffredin i wneuthur dosparthiad rhwng y Grefydd y mae'r bobl a elwyr Qwakers yn ei chyfaddeu, a'r Gwyrdroadau, Camosodiadau, a drwg enllib eu hamryw wrthwynebwy; yn gystal ar eu Gwyddorion a'u Harferion. Efog annogaeth i bob Dyn i ystyried eu ffyrdd a'u Crefydd, ac i ddychwel yn brysur at yr Arglwydd.' 8plyg.

5. 'Na thwng ddim.' Llundain. 12plyg.

6. 'Gweledigaethau y Bardd Cwsg. Gan Ellis Wynne.' Llundain. 12plyg.

[Yn gywir, fel hyn:—'Gweledigaethu y Bardd Cwsc. Y Rhann Gyntaf. Argraphwyd yn Llundain gan E. Powell, i'r Awdwr. 1703.' Ni cheir enw 'Ellis Wynne,' ar y rhagddalen, nac mewn un man arall o fewn y llyfr. Gweler yr 'Hysbysiad' i'r argraffiadau mau (Caerfyrddin, 1853, a 1865, 16plyg). Cyfrol fechan 24plyg, yn cynnwys 154 o dudalennau, yw yr argraffiad cyntaf; ac ni chynnwys dalen yr enw un gair ond a grybwyllir uchod.]

ELLIS WYNN, enw yr hwn sydd eithaf hysbys i holl Gymru, ydoedd fab i Edward Wynn, yr hwn a briododd etifeddes y Lasyynys, ger Harlech, yn sir Feirionydd, ac a anwyd yn y flwyddyn 1670-1. Nis gwyddys ym mha le y cafodd ei ddysgeidiaeth, ond dywedir ei fod yn LL.B.§ Dichon y bwriadai unwaith fod yn gyf-

* O Lawysgrif Mr. Baddy ei hun yn Llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain. Cynnwysa y llythyr olysgrifen helaeth, yn achwyn ar iselder y weinidogaeth ym mhllith yr Ymneillduwyr yng Ngogledd Cymru—nad oedd y gweinidogion a ddeuent o'r Deheudir yn boblogaidd, o blegid eu llediaith ddeheuol—nad oedd y bobl yn eu deall. Y mae hefyd un gwr ieuanc tlawd o Gymro o sir Ffiint i gael cynnorthwy o'r Drysorfa i gael addysg i'r weinidogaeth.

† Allan o lawysgrif y Dr. John Evans, yn Llyfrfa Red Cross-street.

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1700.

§ [Dywedir felly yn y rhestr o Awduron Cymreig sydd yn gyssylltedig â *Geirlyfr Cymraeg* Richards: ond camsyniad y geirlyfrwr hwnw ydyw. Nid oes un sail iddo unwaith fwriadu bod yn gyfreithiwr.]

reithiwr, ond cymhellwyd ef gan yr Esgob Humphreys i ymgymeryd â'r weinidogaeth offeiriadol, er y dywedir nad oedd ganddo nemawr o dueddiad at y swydd; ac efe a'i dwbl urddodd (yn ddiakon ac offeiriad) yr un dydd, ac a'i cyflwynodd i bersoniaeth Llanfair, ger ei gartref. Cafodd hefyd bersoniaeth Llandanwg, a chaplaniaeth Llanbedr, ger Harlech, oll yn ei gymmydogaeth a'i sir enedigol. Efe a gymmerth yn wraig, yn 1702, Lowry Llwyd, o Hafod Lwyfog, yn sir Gaernarfon, a bu iddynt bump o blant. Bu farw yng Ngorphenaf, 1734, a chladdwyd ef dan fwrdd yr allor yn eglwys Llanfair, ger Harlech, yr 17fed o'r mis hwnw, yn 64 mlwydd oed. O'i blant, ei fab hynaf William, a fu yn berson Llanaber, ger Abermaw, i'r hwn y disgynodd etifeddiaeth Lasynys, a'r hon a werthwyd gan ei wŷr. Ei drydydd mab, Edward, a fu yn berson Penmorfa, yn sir Gaernarfon, ac yr oedd hwnw yn daid i'r Parch. John Wynne, person Llandrillo, yn Edeyrnion.* Ei brif waith ydoedd y llyfr hwn. Yr oedd Mr. Theophilus Jones, awdwr yr 'History of Breconshire,' wedi bwriadu cyfieithu y llyfr hwn i'r Seisonaeg; ond bu farw cyn ei gyhoeddi, a pha beth a ddaeth o'r ysgrif nid ydys yn gwybod. Ond dichon nad oedd Mr. Jones wedi gweled gwaith Seisonaeg tra chyffelyb, yr hwn sy gyfieithiad o waith Yspaenaidd un Don Quevedo. Y mae y tebygoliaeth yn fawr yn wir—mor debyg, fel y cafodd Ellis Wynn ei gyhuddo o lenysbeilio yn ei 'Fardd Cwsg,' nad yw yn awdwr gwreiddiol, ac mai cyfieithiad llythyrenol ydyw. Cymmerwyd peth trafferth i'w cymharu yn fanwl, ond ni fedrwyd gweled cymmaint ag un ddostran gyfieithedig, er bod y drychfeddyliau wedi eu mabwysiadu a'r iaith wedi ei hefelychu. Y mae y Seisonaeg yn cynnwys saith o weledigaethau:—'The First Vision, of the *Algouazil* (or Catchpole) possest.' 'The Second Vision, of Death and her Empire.' 'The Third Vision, of the Last Judgment.' 'The Fourth Vision, of Loving Fools.' 'The Fifth Vision, of the World.' 'The Sixth Vision, of Hell.' 'The Seventh Vision, of Hell Reformed.' Y mae gan y 'Bardd Cwsg' yntau ei *Vision of the World*, yn ei 'Weledigaeth Cwrs y Byd;' ei *Vision of Death and her Empire*, yn ei 'Weledigaeth Angeu yn ei Freninllys Isaf;' a'i *Vision of Hell*, yn ei 'Weledigaeth Uffern.' Y maent yn gosod allan yr un cymmeriadau:—'Y Prydydd a'r Offeiriad;' 'Bradshaw,' 'Pontius Pilat,' 'Nero,' 'Caligula;' 'Angeu Ofn,' ac 'Angeu Cariad;' 'Potecariaid,' a 'Witches;' a darlunir rhyw ofer-goelwyr Pabaidd yn ymofyn y ffordd i Baradwys, ac yn ei cholli, yn yr un geiriau gan y ddau, ac eto nid mor agos i'w gilydd ag i fod yn gyfieithiad. Er mwyn dangos i'r darllenwyr y tebygoliaeth, rhoddir esampl o un ddostran:—

'Going further on, I was gotten into a Crowd of Taylors, that stood up sneaking in a Corner, for fear of the Devils. At the first Door, there were Seven Devils taking the Names of those that came in, and they ask'd me mine, and my Quality, and so they let me pass. But examining the Taylors, These Fellows (cry'd one of the Devils) came in such shoals, as if Hell were made only for Taylors. How

* Williams's *Eminent Welshmen*; Y *Traethodydd*; Rhagymadrodd i'r *Bardd Cwsg*, o olygiaeth y Parch D. S. Evans.

many are they? (said another) Answer was made, About a Hundred. About a Hundred? They must be more than a Hundred, says t'other, if if they be Taylors; for they never come under a Thousand or Twelve Hundred strong: And we have so many here already, I do not not know where we shall 'stow them. Say the word, my Masters, Shall's let them in or no? These poor *Pricklice* were damn'dly startled at that, for fear they should not get in: But in the End, they had the Favour to be admitted. Certainly, said I, these Folks are but in an ill condition, when 'tis a Menace for the Devils themselves to refuse to receive them: Thereupon a Huge Over-grown, Club-footed, Crump-Shoulder'd Devil, threw them all into a deep Hole. Seeing such a Monster of a Devil, I ask'd him, how he came to be so deform'd: And he told me, he had spoil'd his Back with carrying of *Taylors*: For, said he, I have been formerly made use of as a Sumpter to fetch them; but now of late they save me that labour, and come so fast of themselves, that 'tis one Devil's work to dispose of them. While the Word was yet speaking, there came another Glut of them; and I was fain to make way, that the Devil might have Room to work in, who pil'd them up, and told me, they made the best Fewel in Hell.*

Digon yw hyna er dangos fod yn rhaid darfod i Ellis Wynn, redeg i ysbryd y gwaith Seisonig (yn hytrach Yspaenig) hwn; canys cyfieithiad Seisonig ydyw o Yspaenaeg Don Francisco de Quevedo. Yn lle *Vintner* yr Yspaenwr, y mae y 'Bardd Cwsg' yn cymmyrd *Tafarnwr*; ac felly yn ail foldio y cwbl i'w gyfaddasu i'r Cymry a Chymraeg, gan gadw ei ddullwedd a'i iaith drwyddo, yn hollol fel pe buasai yn wreiddiol. Y mae yr esiamplau ereill sydd genym o eiddo Ellis Wynn, yn ei ragymadroddion i 'Lyfr Gweddi Gyffredin' 1710, ac i'r 'Rheol Buchedd Sanctaidd,' yn dangos fod y dull dychymmygol barddonol yn eithaf naturiol iddo, yr hwn a wnai iddo yn ebrwydd yfed ysbryd beth bynag a gaffai yn tueddu i'r dull hwnw; a'r hyn a brawf wirionedd yr hen ddiareb, 'Pob cyffelyb ymgais.'†

Onnd dichon y gofyn rhyw rai, pwy oedd y *Quevedo* hwn, yr hwn y dywedir i Ellis Wynn ei ddynewared yn ei 'Fardd Cwsg?' Francisco Gomez de Quevedo y Villegas (canys dyna ei enw yn llawn) a anwyd ym Madrid, yn Yspaen, Medi, 1550. Yr oedd yn deilliaw o deulu uchel yn y wlad. Buasai ei dad, Pedro de Quevedo, yn ysgrifenydd i'r Ymherodres Mari, a'r Frenines Ann, gwraig Philip II.; a'i fam, Donna Maria de Santibannez, yng ngwasanaeth ystafell wely y frenines. Felly dygwyd Quevedo ieuanc i fyny megys yn y llys. Cafodd ddysgeidiaeth barotoawl i weinidogaeth yr offeiridaeth babaidd; ond blinodd ar dduwinyddiaeth, er iddo yn bymtheg oed gael ei raddio yn D.D., a throes ei efrydiaeth at y gyfraith, meddyginiaeth, ac athroniaeth. O blegid iddo glwyfo gwrthwynebydd mewn ornest yn achos merch a fynai y ddau ei chael, bu gorfod iddo ffoi o'r wlad, ac i Naples yr aeth, lle y croesawyd ef gan y gweinidog Yspaenaidd yn y llys hwnw. Cafodd ei garcharu

* [Vision of Hell, p. 151. Edit. 1703.]

† Rees's *Biographical and Historical Description of South Wales*, p. 118.

amrai weithiau ar y dybiaeth o ysgrifenu cabledau ar y llywodraeth, y rhai a brofwyd o'r diwedd yn waith rhyw fynach, a chafodd yntau ei ryddhau, ac adferyd iddo ei ystâd, yr hon a drawsfeddiannasid gan y llywodraeth, o blegid, fel y tybid, ei fradwriaeth; yr hon, er hyny, ni chafodd ei hir fwynhau, canys yr oedd wedi dinystrio ei iechyd trwy ei garchariad, fel y bu farw Medi 8fed, 1645, yn 65 oed. Ysgrifennodd lawer o weithiau barddonol a rhyddieithol; ond ei *Suenos*, neu Weledigaethau, yw y rhai mwyaf poblogaidd, y rhai ydynt amrywiol ffug-weledigaethau o'r byd arall, lle y mae yn gosod allan ddiwedd gwageddau bydol, a'r cospedigaethau a ddeuant am droseddau. Y mae yn dangos gwybodaeth helaeth o'r natur ddynol. Cyfieithwyd hwynt yn fuan i amrai ieithoedd, ac yn 1668, ymddangosasant gyntaf yn y Seisonaeg, o gyfieithiad Syr Roger l'Estrange; ac mor boblogaidd oeddynt fel y daeth yr unfed argraffiad ar ddeg allan yn 1715; ac argraffiadau a chyfieithiad newydd droiaiu wedi hyny. Y mae ei holl waith yn Yspaeneg yn 11 cyfrol, er nad ymddengys i'r ugeinfed ran o'i gyfansoddiadau ddianc heb eu dinystrio.*

7. ¶ 'Ymadrodd Gweddaiidd ynghŷleth Diwedd y Byd Neu Tueddiad at yr amser a digwŷddo Dydd y Farn Yn Cynwŷs hefŷd Mwŷ na dau cant o Englynion Duwiol; o erfŷniad am drugaredd. Yn ôl dosparth y Prif-Feirdd, wedi i'r Pof-feirdd rhag eu llygru, eu rhoi allan mewn Cerdd i'w cadw mewn parch.

Argraphwyd yn y Mwŷthig, Ac ar werth yno, gan Thomas Jones, yn ei Dŷ êf, yn yr Hwŷlfa a elwir, mr. Hill's Lane.'

[Nid oes wrtho nac enw yr awdwr na dyddiad; cynnwys 64 o dudalenau 18plyg.]

Y mae i hwn ragymadrodd 'At y Darllenwr,' gan Thomas Jones, lle y dywed—'Yn y flwyddyn o oed Iesu 1700. Gwr bonheddig o Sir Ddinbŷch (sef Mr. William Anwŷl) a roddodd y Coppi yn yscrifen o Law deg i mi, iw Argraphu os gwelwn i yn dda; Ac a ddywedodd wrthif ei gael ef ymhlas Sr. Richard Wŷnn (sef Yngwŷdŷr yn Sir Ddinbŷch) ar ol marw Sr. Richard Wŷnn. Ond ni wyddeu ef pwy oedd yr Awdwr, na pha bryd yr yscrifennwyd ef. Nid oedd mo henw'r Awdwr wrth y Gwaith, na'r amser yr ysgrifennwyd ef chwaith; Ac ni fedrais i'f etto wybod pwy a'i hysgrifennodd; Ond am yr amser yr yscrifennwyd ef, yr ydwyf yn deall wrth yr hyn a ddarllenas ynddo, (ac a ellwch chwitheu ddarllain yn y tu diweddaf ar ail ddalen o hono) ei yscrifennu ef ar ol marw y Frenhines Elizabeth o fendigedig goffadwriaeth.' Maint y llyfr yw 24 tudalen 12plyg. Y mae ynddo, heb law rhyddiaith, 201 o 'Englynion Erfyniad am Drugaredd.'

8. ¶ 'Ymddyddan rhwng hen Ddyn dall a'r Angau.' Mwythig. 8plyg.†

* *Penny Cyclopædia.*

† Dilynwyd Mr. Moses Williams, gan mwyaf yn y rhestr hon.

9. ¶ 'Extraordinary use of the Articles exhibited against the Bishop of St. David's further cleared and made plain. 1703.*'

10. 'The Life of John Williams, L^d Keeper of the Great Seal, Bishop of Lincoln, and ABp. of York, In the Reigns of King James, and King Charles the First. Wherein are related several Occurrences of those Times both in Church and State. With an Appendix, giving a just Account of his Benefactions to St. John's College in Cambridge. By Ambr. Philips, Fellow of the same College. The Second Edition.

Cambridge, Printed for A. Roper at the Black Boy; and R. Basset at the Miter in Fleetstreet. 1703.'

11. 'Letter to the Arch-Deacons and the rest of the Clergy of the Diocess of St. David'. By the Archb. of Canterbury. 1703.'

Pwnc y llythyr yw y personiaid tlodion gyda dim ond 30p. y flwyddyn yn y sir hon.

12. ¶ 'Amores Britannici. Epistles heroic and gallant, from Henry II. to Rosamond, King John to Matilda, Queen Catherine to Owen Tudor, and Owen Tudor to Queen Catherine. 1703.'

1704.

1. Annogaeth i gymmuno yn fynych, yn y Sacrament Sanctaidd o Swpper yr Arglwydd. Gan ei Ras John, gynt Arglwydd Arch-Escob Canturburi. A gyfieithwyd i'r Gamberaeg allan o'r pymthegfed Argraphiad yn Saesonaeg.

Argraphwyd yn Llundain. 1704.'

Yr awdwr hwn, JOHN TILLOTSON, D.D., archesgob Caergaint, oedd fab i frethynwr yn Sowerby, yn sir Gaerefrog, ac a anwyd yn 1630. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth ym mhlith y Puritaniaid, ac wedyn yng Nghaergrawnt, lle y daeth yn gydymaith o'i goleg. Yn 1664, dewiswyd ef yn bregethwr i Gyfreithdy Lincoln, ac yn ddarlithwr St. Lawrens. Yn 1679 daeth yn adnabyddus â Siarl, Iarll (wedi hyny Dug) y Mwythig, a'r hwn, trwy ei ddull hynaws, a droes efoddi wrth Babyddiaeth. Yn 1683, ymwelodd ag Arglwydd Russell, pan ydoedd dan gondemniad, a gweinyddodd iddo yn ei fynyddau olaf ar ei ddiennyddiad, yr hyn, yng nghyd â rhai ymddygiadau gwladyddol ereill, a'i hynododd fel Chwig cryf ym mhlith pleidiau gwladyddol yr oes. Yn 1689, gwnaed ef yn ddeon a phrebendari St. Paul. Yn 1691, enwyd ef yn archesgob Caergaint, ac ar yr un pryd cafodd ei dyngu yn un o'r dirgel-gynghor, i lywodraeth William III. a Mari. Yn 1694, cafodd ergyd o'r parlys, o'r hyn y bu farw Tach 22fed, yn 65 ml. oed. Yr oedd y pregethwr

* Gwel rhif 5, d.f. 1701 ; a rhif 5, d.f. 1702.

mwyaf poblogaidd yn ei oes. Y mae ei waith yn dair cyfrol fawr unplyg, y rhai a gyhoeddwyd gan ei weddw wedi ei farwolaeth; ac y maent hefyd yn gyfrolau 8plyg, ac un argraffiad yn gyfrolau bychain llogell, yn lluaws o nifer, o ddeutu 24plyg.*

2. 'Atcofiad o'r Scrythyr; neu, Holiadau ac Attebion: Ynghŷd a'u Profiadau Allan o'r Scrythyr Lan.

Argraphwŷd yn y Mwŷthig, 1704. Ac ar werth yno Gan Thomas Jones.'

3. 'Cymmorth i'r Cristion a Chyfarwyddiad i'r Gwr Ieuange: Yn Cynnwys, I. Hyfforddiadau Athrawiaethol er iawn hyfforddi ei Farnedigaeth. II. Cyfarwyddiadau buddiol yn dangos pa fodd i dreulio ei holl fywyd. III. Cynghorion Neillduol yn dangos pa fodd i dreulio pob diwrnod. Mewn Perthynas i'w 1. Weithredoedd Naturiol. 2. Gorchwylion Moesol. 3. Difyrwch angenreidiol. 4. Dyledswyddau Crefyddol. Yn fwy Neillduol, Ynghylch 1 Gwedd Gyhoeddus. 2 Deuluaidd. 3 a Dirgel. Darlleniad a Gwrandawriad y Gair. Derbynniad Swpper yr Arglwydd. Gan W. Burkitt, Gynt M.A. o Pembroke Hall yng Haergrawnt, ac yr Awrhon Vicar o Dedham yn Essex, wedi ei Gyfieuthu i'r gymraeg er llës i'r Cymru.

Argraphwyd yn y Mwŷthig gan Thomas Jones, 1704.'

Y mae yr hysbysiad canlynol, yn y ddwy iaith, ar gefn dalen y rhagymadrodd:—

'Cyfieuthad, ac Argraphiad y Llyfr hwn, A Llyfr Arall a Argraphwyd yn ddiweddar (o waith Mr. Ellis) a elwir Cristionogaeth yn Gynnwys,† A ddibenwyd yn fwyaf ar draul neu Gost Mrs. M. Crowther, Saesnes Fonheddig, Ac hefyd drwy helaeth Gyd-roddiad Mr. Caleb D'Avenant o Gaer-Frangon.'

Diwedd y rhagymadrodd a amserir 'Ebrill 25, 1704.'

WILLIAM BURKITT, A.C., a anwyd yn Ffletcham, yn sir Northampton, yn 1650, ac a fu farw 1703. Ystyrid ef yn ddyndu duwiol a haelfrydig, ac ysgrifennodd amryw lyfrau, heb law Esboniad ar y Testament Newydd, yr hwn sydd er ys blynyddau bellach wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg.‡

4. 'Amddiffyniad byrr dros y bobl (mewn gwawd) a elwir Quakers. Gan W. Chandler, A. Pyott, John Hughes, ac eraill.' Llundain. 12plyg.

* Stephen Jones's *New Biographical Dictionary*.

† Gwel rhif 3, d.f. 1703.

‡ Jones's *Biographical Dictionary*.

5. 'Gwyddorion y Gwirionedd, neu y pethau hynny ynghylch athrawiaeth ac addoliad y sicr Gredir ac a dderbynnir gan y bobl a elwir Quackers, &c. Gan Jo. Crook.' 8plyg.

6. 'Cyngor Difrifol i Geidwaid Tai i osod i fynu Addoliad Duw yn eu Teuluoedd. Gyda Gweddiau Beunyddiol i'w harferu Fore a Hwyr.

Argraphwyd yn Llundain. 1704.'

Yr awdwr, meddai Moses Williams, ydoedd George Lewis, ficar Abergwili.*

7. 'Bloedd-nad Ofnadwy, Yr udcorn diweddaf Neu Ail-ddyfodiad Christ i farnu'r Byd; ar wedd Pregeth. Ynghyd a rhai Caniadau deunyddiol i annerch y Cymru. Ac Hyfforddiad i'r anllythrenog i ddysgu darllen Cymraeg. O Waith John Morgan, Ficar Aber-Conwy.

Argraphwŷd yn y Mwŷthig, Ac ar werth yno gan Thomas Jones. 1704.' [18plyg.]

8. 'Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr A gasglwyd allan o'r Ysgrhythur-Lân ac o Ysgrifeniadau'r Athrawon Goreu. Gan E. S,† Person Bettws Gwerfil Gôch.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Jones 1704.' [16plyg.]

Ar ddiwedd y Cyflwyniad i 'Joan Arglwydd Esgob Bangor,' ceir enw yr enw 'Edward Samuel,' yn gyflawn.

EDWARD SAMUEL oedd berson Llangar, o'r fl. 1720 i 1748, a gynt person Bettws Gwerfil Goch, nid pell o'r un lle, yng nghwr isaf † sir Feirionydd. Ganwyd ef yn 1674, mewn lle o'r enw Cwt y Defaid, ym mhlwyf Penmorfa, yn sir Gaernarfon. Bu farw Ebrill, 1748, yn 74 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Llangar. § Cyfansoddodd y Parch. W. Wynn, o Langynhafal, bedwar o englynion ar ei farwolaeth, || a dywedir, 'a Dafydd Samuel, wŷr yr hen Samwel o Langar, a'u hysgrifennodd yn Llundain, Gorph. 15, 1790,' ar y ddalen o'r hwn y cafwyd hwynt gan Glyn Myfyr (O. Jones). Yr oedd Dafydd

* Dau lyfr yn un yw y rhif 6 hwn a rhif 1—y tudalenau yn rhedeg ym mlaen, y cyntaf yn terfynu yn 42, a hwn yn cymmeryd y 43 hyd 68. Nid yw enw y Dr. Tillotson wrth y cyntaf, nac enw George Lewis, ficar Abergwili, wrth hwn, er y gall fod Mr. Moses Williams yn gywir yn eu priodoli iddynt; ond ar ddalenau y llyfr ei hun nid oes enw awdwyr nac argraffydd.

† Edward Samuel.

‡ [Uchaf, a chyfrif oddi wrth y môr.]

§ [Rhagymadrodd y Parch. D. Silvan Evans i'w argraffiad o Gyfieithiad Edward Samuel o waith Grotius ar 'Wirionedd y Grefydd Gristionogol' (Caerfyrddin, 1854, 16plyg). Gwel rhif 10, d.f. 1716.]

|| Gwel y *Gwylidydd*, Medi, 1831, t. 185.

Samuel yn llawfeddyg ar fwrdd y llong *Discovery*, gyda'r Cadben Cook, ar ei fordaith o gylch y byd. Yr oedd yn llygad-dyst o'r gyflafan echrydus a ddygwyddodd i'r morwr enwog hwnw ar lanau ynys Owhyhee. Yr oedd yn fardd ac ysgrifenydd enwog, a chyhoeddodd hanes manwl am yr erchylldra hwnw yn y flwyddyn 1786. Bu D. Samuel farw yn 1799.*

1705.

1. 'Pregeth o achos y Dymmestl Ddinystriol, Tach. 26, 27, A.D. 1701, ar Preg. vii. 14.'

Llundain. 4plyg.

2. 'Hymnau Scrythyrol, yn cynnwys Achosion perthynasol o foliant yng Weinidogaeth y Sacrament o Swpper yr Arglwydd; &c.' 8plyg.

Dichon mai ail argraffiad ydyw, neu fod hwn neu y llall wedi ei gamddodi.†

3. ¶ 'An account of the Convincement, Exercises, Services, and Travels, of that ancient Servant of the Lord, Richard Davies, with some relation of ancient Friends, and of the spreading of truths in North Wales.'

Bu chwech argraffiad o'r llyfr hwn yn y ganrif hon (y 18fed), a chafodd yn ddiweddar ei gyhoeddi o newydd yn Gymraeg. Crynwr oedd Richard Davies, ac yn anneddu yn y Cloddiau Cochion, ger Meifod, yn sir Drefaldwyn. Yr oedd yn un hynod o selog a llafurus o'r blaidd hono yn ei oes, a dyoddefodd gryn lawer o blegid hyny. Cynnwysa fwy o hanes y Crynwyr yng Nghymru nag a geir mewn un lle arall.

4. 'The Bishop of St. David's Vindicated.'‡

5. 'The case of Sir Humphrey Mackworth, and of the Mine Adventurer, with respect to the irregular proceedings of several Justices of the Peace for the County of Glanmorgan, and of their agents and Dependents.'

London, 1705. 4to.

Dyma ddadl y mwngloddiau yn dyfod drosodd i'r canrif hwn, wedi bod ysgrifenu brwd, a chyfreithio costus, ar hyd yr hanner diweddaf o'r 17fed canrif.§

* Gwel *Cambrian Register*; a Williams's *Eminent Welshmen*. ['David Samwell' yr arferai y meddyg ysgrifenu ei enw.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1703.

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1701; rhif 5, d.f. 1702; a rhif 9, d.f. 1703.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; rhif 11, d.f. 1623; rhif 6, d.f. 1698; rhif 3, d.f. 1699; a rhif, 12 a 13, d.f. 1700.

6. 'The Parson's Jewel; or Morgan's Qualify'd Incumbent wherein are contain'd all the niceties a Clergyman is to observe from a Presentation to his Benefice to his Qualifying himself at the next Quarter Session at his Induction. By Walter Morgan, Vicar de Iure of Llan-tri-Sanct in County Glamorgan, Clerk, and Chaplain to the Countess-Dowager of Peterborough, lately Deceas'd. Duro flagello mens docetur rectius.

London: Printed for Edward Ewets, at the Green Dragon in St. Paul's Church-yard. 1705.'

Y mae 'A Prayer for the Queen' (=Gweddi dros y Frenines Aññ) yn ei ddiwedd. Cynnwysa 20 tudalen 4plyg.

1706.

1. 'Natur Confirmasiwn wedi ei hegluro drwy holi ac ateb.' 8plyg.

2. 'Y Rhybuddiwr Crist'nogol, &c.' Llundain.

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad,* neu fod camosodiad yn awr neu o'r blaen.

3. Cyfoeth i'r Cymru. Neu Drysor y Ffyddloniaid. Wedi Ei Egoryd Mewn amryw o Bregethau, er Mwyn gwneuthur gwerth-fawrogrwydd, hawddgarwch, a godidawgrwydd Christ yn fwy adnabyddus dymunol a Chymeradwy. A'r Nefoedd yn agored, a'r uniawn Ffordd iddi. Mewn dwy bregeth. Gyda Galwad i Bechaduriaid gan Grist ei hun. A Rhybudd o'r nefoedd i wilio a gweddio, ac i ymbarotoi erbyn Marwolaeth ar farn. Gan William Dyer. Wedi ei gymreigio gan ûn a Chwennychai lesâd i lawer.

Argraphwyd J. ag D. Bridge yn Austin-Friar yn Llundain yn y Flwyddyn 1706.'

Ail argraffiad yw hwn.†

4. 'Case between W. Ensworth and Mary Griffith respecting Lands at Llanvilling and Pennant, the Estates of W. Griffith. 1766.' Folio.‡

1706-7.

1. 'Cases (both Appellants and Respondents) of Capt. David Eyton and John Eyton and John Eyton, Jane, his Wife, and Ann Eyton, respecting their Property in Flintshire. 1706-7.' Folio.§

* Gwel rhif 1, d.f. 1689: y mae y rhif hwnw, a'r 1 a'r 2 hyn, yn ol Mr. Moses Williams.

† Gwel rhif 4, d.f. 1688.

‡ J. R. Smith's *Old Book Circular*.

§ J. R. Smith's *Old Book Circular*.

1707.

1. 'Cadwyn euraidd, &c. neu ystyriaeth byr o'r pedwar peth olaf; sef, Marwolaeth, Barn, Uffern, y Nef.' 8plyg.*

2. 'Egwyddorion y Grefydd Gristionogawl, &c. O Gyfieithiad William Evans.'

Mwŷthig. 8plyg.†

Cyfieithiad newydd yn gystal ac argraffiad newydd o 'Gatecism y Gymmanfa,' ef allai yn gwneyd y pummed argraffiad.‡

Mr. WILLIAM EVANS, y cyfieithydd, ydoedd athraw yr Athrofa Bresbyteraidd yng Nghaerfyrddin, ac efe ydoedd yr athraw cyntaf a gadwodd yr athrofa hono, ac yn weinidog y gynulleidfa Ymneillduol yno. Ni ddywed yr haneswyr un o ba le ydoedd Mr. Evans. Ond dywedir y cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ystrad Walter, o dan y rhagorol Rhys Prydderch, yr hwn oedd yn cadw ysgol i wŷr ieuanc a fwriadent ymroddi i'r weinidoaeth ym mhlith yr Ymneillduwyr yn yr oes hono. Urddwyd Mr. Evans ym Mhencader, yn 1688, lle y bu bymtheg mlynedd, a symmudodd i Gaerfyrddin yn 1703. Dywedir ei fod yn ddyrn rhagorol o ran ei dduwioldeb, yn bregethwr da, yn weinidog ffyddlawn, ac yn ysgolhaig gwell na'r cyffredin. Bu farw yn 1720, wedi bod 32 mlynedd yn y weinidogaeth.§

3. 'Amser, a diwedd Amser; Yn Ddau Draethawd: Y cyntaf ynghylch Prynu'r Amser: Yr ail ynghylch ystyried ein Diwedd. A osodwyd allan gyntaf yn Saesonaeg gan John Madyn. Ac a gyfieithwyd yr awrhon i'r Gymraeg er daioni i'r Cymru.

Llundain: Argraphwyd i Eben. Tracey, dan Lŷn y Tri Bibl ar Bont Llundain. 1707.'

Y mae yn ei ragflaenu ddau gyflwyniad; un 'At y Gwir-Barchedig Dad yng Hrist Humphrey gan Rad Duw Esgob Caerffawydd,' a'i arwyddo—'Samuel Williams;' a'r llall 'At y Darllenwyd o Gymro diledryw, Annerch,' a'i arwyddo—'Samuel Williams. Aber Trosol, ym mhlwyf Llandyfriog ger llaw Emlyn, y 5 o Ebrill yn y flwyddyn 1703.' Yr S. W. uchod ydoedd ficar Llangynllo a Llandyfriog, ger Castell Newydd yn Emlyn, a thad y Parch. Moses Williams.||

* Yn ol Moses Williams.

† Yn ol Moses Williams.

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1664; rhif 1, d.f. 1679; rhif 3, d.f. 1693; a rhif 1, d.f. 1701.

§ *Hanes Grefydd yng Nghymru*, gan Peter, t. 604; *Hanes Ymneillduaeth*, t. 429. [Cymh. rhif 6, d.f. 1714.]

|| *Hanes y Bedyddwyr*; a *Llythyr* y Parch. D. Silvan Evans. Gwna Mr. Williams gangymmeriad yn ei *Biog. Dict. of Eminent Welshmen*, trwy alw y lle yn 'Nantgunllo,' gan ei gangymmeryd, dichon, am 'Nantgwnlle,' neu 'Llanconlle,' yr hwn sydd yn Nyffryn Aeron, ac yn ugain milltir, o leiaf, o Langunllo [neu Llangynllo. Y mae Llangynllo a Llandyfriog yn cyffinio â'u gilydd.]

JOHN FOX, neu JOHN MADYN, ydoedd weinidog Pricklehurst, yn sir Gaerloew, lle y gwnaeth ddaioni mawr yn y wlad. Wedi ei droi allan, daeth yn weinidog yn Nailsworth.*

4. 'Archæologia Britannica, giving some Account additional to what has been hitherto Publish'd, of the Languages, Histories and Customs of the Original Inhabitants of Great Britain: from Collections and Observations in Travels through Wales, Cornwall, Bas-Bretagne, Ireland and Scotland. By Edward Lhuyd M.A. of Jesus College, Keeper of the Ashmolean Museum in Oxford. Vol. i. Glossography.

Oxford, Printed at the Theater for the Author, MDCCVII. and sold by Mr. Bateman in Pater-Noster-Row, London: and Jeremiah Pepyat, Bookseller at Dublin.' [Folio.]

EDWARD LLOYD neu LLWYD, yr hwn a'i dyry yn ol yr hen lythyreniad 'Lhwyd,' † ydoedd fab o ordderch i Edward Llwyd, Ysw., o Lanforda, ger Croesoswallt, yn sir y Mwythig, o Bridget, ail ferch — Price, Ysw., o Glanffread, ‡ ym mhlwyf Llanfihangel Geneu'r Glyn, ym mharth uchaf sir Aberteifi. Gallai rhywun ei wneyd yn fwy o Sais na Chymro: § ond efe ei hun a ddywed, 'Nid wyf yn honi fy hun yn Sais, ond hen Frytwn, ac yn ol yr achau Cymreig, yn deilliaw o du fy nhad, oddi wrth Elidyr Lydanwyn, fab Meirchion, fab Ceneu, fab Coel Godebog, yn nhal-

* Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. ii. p. 233.

† [Lhuyd oedd ei lythyreniad ef ei hun, gan yr arferai *u* yn lle *w*, yn gystal ag *lh* yn lle *ll*.]

‡ [Glan *Ffréd* y seinir yr enw yn y gymmydogaeth: *Ffréd* hefyd y seinir enw y Santes *Ffraid*, yn Llan Sant *Ffraid*, gan drigolion Ceredigion. Nid ymddengys nemawr o sail i dybied mai llygiad yw Glan *Ffrwd*, fel y tybia rhai, o ran y bod y lle ar lan ffrwd yr afon Eleri].

§ [Cymro ydoedd o ran tad a mam, ac nid oes fawr amhheuaeth nad yng Ngheredigion y ganed ef. Pe ganesid ef yn swydd Amwythig, yr hyn yn ddiaw nis gwnaed, ni buasai hyny mewn un modd yn ei wneuthur yn Sais; canys Cymraeg a arferid y pryd hwnw o ddeutu Croesoswallt, ac nid yw wedi diflanu yno eto; ac er prawf, gellir crybwyll fod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal ar y Suliau yn rhai o'r eglwysi yn y gymmydogaeth hõno y dydd heddyw, er eu bod yn gorwedd o fewn terfynau swydd Amwythig.

Er nad oes, i'm tyb i, nemawr o achos petruso pa le oedd genidfan Edward Llwyd; eto nid gwiw celu nad yw y peth yn gwbl amlwg. Y cofnod canlynol o barthed. lle ei enedigaeth a gymmerwyd allan o dderbyn ar gadw yn y Gywreifa yn Rhydychain, ac ymddengys iddo gael ei ysgrifenu pan oedd Llwyd eto yn fyw. Gosodir ef yma air a llythyren fel y mae yn yr iaith yr ysgrifenwyd ef ynddi.

'Edward Lhuyd was born at Lappiton Parish. His nurse is now living at Crew Green where he was nursed, at Mrs. Judith Cowfield at Lappiton. His nurse says he is 4:: years old three days before Michaelmas, according to Catherine Bowen his nurse to the best of her (knowledge) memory.'

Pa le y mae 'Lappiton' nis gwn, gan na fedraf gael fod un plwyf o'r enw hwnw yng Nghymru na Lloegr. Dywed Baxter (yn ei *Adversaria*) farw Llwyd ar y 29fed o Orphenaf; ond tebycach mai ar y 29fed o Fehefin y dygwyddodd hyny.]

aeth Rheged, yn Scotland, yn y bedwaredd gaurif, cyn i'r Sacsoniaid ddyfod i Ynys Prydain.' Ei linach yn gyflawn a redai fel hyn:—'Edward ab Edward ab Edward ab Sion ab Sion ab Sion ab Rhisiart ab Meredydd ab Madog ab Griffri Fychan ab Blad ab Gwion ab Rhadfarch ab Aper ab Gwrgi ab Hedd Molwynog ab Greddf ab Tygynnydd ab Llawr ab Llawfrodedd Farchog ab Aper ab Tudwal Gloff ab Rhodri Mawr ab Merfyn Frych ab Gwrhyad ab Elidyr ab Sanddef ab Alcwn ab Tegid ab Rhaid ab Dawc ab Llywarch Hen ab Elidyr Llydanwyn.' Dyn o fywyd rhydd ac anfoesol oedd ei dad, yn cadw trythylliaid, gan hudo boneddigesau o'u morwyndod. Yr oedd cytundeb priodas wedi ei wneyd rhyngddo a mam yr awdwr hwn, ond ni phriodasant, gan fod ei etifeddiaeth wedi ei threulio a'i gwerthu i Syr Watkin W. Wynn. Ganwyd E. Lhwyd yn 1660. Aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, Hydref 31, 1682, a dywedir iddo farw yng Ngorphenaf, 1709, yn 49 oed. Rhoddwyd ef yn is-geidwad, ac wedi hyny yn uch-geidwad, i Amgueddfa Mr. Ashmol, yn Rhydychain, lle yr oedd ef ei hun wedi rhoddi amryw bethau cywrain i'w cadw. Ei orchwyl oedd teithio o'r naill fan i'r llall, trwy Gymru, Iwerddon, a Scotland, i olrhain hen garneddau, hen arfau rhyfel, hen weddillion mewn mawnogydd a chreigiau, a hen golofnau, croesau, a beddadelau, &c. Cyhoeddodd amrai weithiau dysgedig [gwel rhif 7, d.f. 1699,] heb law yr uchod; cynnwysiad a dosbarthiad yr hwn sydd fel y canlyn:—

1. Geirdarddiad Cymhariaethol.
2. Geir-restr Gymhariaethol o ieithoedd Prydain a'r Iwerddon.
3. Gramadeg Llydawaidd, wedi ei gyfieithu o'r Ffrancaeg.
4. Geir-restr Lydawaeg a Seisoneg.
5. Casgliad o Eiriau wedi eu gadael allan o Eirlyfr y Dr. Davies.
6. Gramadeg Cernywaeg.
7. Rhestr o Lawysgrifau Cymreig.
8. Geirdarddiad Prydeinaidd.
9. Byr Arweiniad i'r Wyddelaeg, neu yr hen iaith Albanaid.
10. Geirlyfr Seis-Wyddelig, yng nghyd â rhestr o Lawysgrifau Gwyddelig.

Y mae yn llyfr mawr unplyg. Dywedir fod rhai gweddillion o'i ysgrifeniadau anghyhoedd yn Wynnstay, sir Ddinbych.*

5. 'Rhybydd caredig i bob Tyngwr ofer.' Llundain. 12plyg.

6. ¶ 'Eglurhad Byr o'r Catechism. Gan W. Asaph.'

Y Dr. W. Beveridge a feddylir. Nid oedd wyneb-ddalen i'r un a ddaeth i'm llaw. Y mae y 'Rhaglythyr Annerch' wedi ei amseru 'Llundain, mis Medi 19, 1704;' ond yn ei ddiwedd y mae hysbysiad y cyhoeddid 'Y Llyfr Gweddidi Gyffredin, gwyl Fihangel nesaf, 1708.' Gall mai amseriad yr argraffiad Seisonig ydyw 1704, dair blynedd yn ol.

7. 'Amser, a diwedd Amser; yn ddau Draethawd: Y cyntaf ynghylch Prynu'r Amser; Yr ail ynghylch Ystyried ein Diwedd. A osodwyd allan gyntaf yn Saesonaeg gan Ioan Madyn. Ac a gyfieithwyd yr awrhon i'r Gymraeg er daioni i'r Cymru.

* Meyrick's *History of Cardiganshire; Gwladgarwr, Rhagfyr, 1837* [t. 309].

Llundain : argraphwyd i Eben. Tracey dan Lûn y tri Bibl ar Bont Llundain. 1707.'

Dyma, ymddengys, ddau argraffiad gwahanol o'r un llyfr yn yr un flwyddyn.* Cyfieithir enw yr awdwr, *John Fox*, yn Ioan Madyn, neu Ioan Lwynog, yma. Ymddengys fod y galwad gymmaint am y gwaith da hwn, fel y penderfynodd yr un gwr, Mr. Samuel Williams, roddi dau argraffiad o hono yn yr un flwyddyn. Yn rhagflaenu hwn y mae dau lythyr gwreiddiol—'Y Llythyr Gorchymyn-edig'—'At y Gwir Barchedig Dad yn yr Arglwydd, Humphrey, gan Rad Duw Arglwydd Escob Caerffawydd.' A'r llall at 'At y Darlleneydd o Gymro diledryw, Annerch.' Ac wedi ei arwyddo, 'Yr eiddot ynddo Ef, yn llaw yr hwn y mae ein Hamserau.

Aber Trosol, ym mhlwyf Llandyfriog, ger llaw Emlyn, y 5 o Ebrill, yn y flwyddyn 1703. Samuel Williams.'

Am y cyhoeddydd, Ebenezer Tracey, dywedwyd am dano, 'Nid yw ei grefydd yn cael ei chyfyngu i'r eglwys yn fwy nag i'r siop; y mae ei ymddygiad yn ei deulu yn ddifrifol ac esamplaid; ei ddefosiwn yn wastadol; ei ofal dros ei dylwyth yn dyner ac ammhleidiol; ac yn ymddangos tuag at ei wasanaethwyr yn fwy fel tad na meistr.'—*Dunton*.

8. 'The Case of Sir Humphrey Mackworth, and of the Mine Adventurer, with respect to the extraordinary proceedings of the Agents, Stewards, and Dependents of the Right Hon. Sir Thomas Mansel, Bart.

London. 1707.' 4to.†

9. 'Some Account of Mines, and the Advantages of them to this Kingdom, with an Appendix relating to the Mine Adventure in Wales. By Thos. Heton.

London, Printed by W. B. for John Wyat, at the Rose in St. Paul's Churchyard. mdc cvii.' 4to.

Y mae gyda hwn wyneb-arlun, pais arfau y Preisiaid o Gadnant, yn sir Fon. Y mae rhestr o hen lyfrau cywrain ar Fwngloddiau a gyhoeddasiid o'r blaen. Rhoddir hanes hefyd am fwngloddiau yn siroedd Aberteifi a Morganwg.

10. 'Llyfr o Weddïau Duwiol, Yn Cynnwys ynddo Mwy na Saith ugain o Weddïau ar amryw Achosion, Ac ar bob amser Cyfaddas i Weddio, yn Gyffredinol ac yn Neilltuol. Y Gweddïau hyn a gasglwyd allan o waith yr Awdwyr goreu yn Saesnaeg, Ac a gyfieithwyd ir Iaith Gymraeg.

* Gwel rhif 3 y flwyddyn hon.

† Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; rhif 11, d.f. 1693; rhif 6, d.f. 1698; rhif 3, d.f. 1699; rhif 12, 13, d.f. 1700; a rhif 5, d.f. 1705.

Argraphwyd yn y Mwythig, 1707. Ac ar werth yno gan Thomas Jones yn ei dŷ yn agos i Hewl Merdal.'

1708.

1. 'Eglurhad ar Gatechism yr Eglwys. Wedi ei gyfieithu, Er mwyn a lles Escobaeth Llanelwy.

A Brintiwyd yn Llundain, ag ar werth gan Edm. Powel yn Black-friars, a Rob. Whitledge yn Ave-Mary-lane; gan S. Rogers yn Abergafenni; R. Munshull yn Caerlleon; a J. Rogers yn y Mwythig. 1708.'

Yr oedd ym mhlith yr Anghydfurfwyr neu grefyddwyr yr oes flaenorol, amryw o'r enw Rogers. Y mae genym hanes am ddau Gymro, sef Hugh Rogers, o Dref Newydd, yn sir Drefaldwyn, yr hwn a drowyd o'i bwlpud yno yn 1662, a'r hwn a fu farw yn 1680; a Mr. Rogers, a drowyd o Gasgwent yn sir Fynwy; a gallai mai mab i un o honynt ydoedd argraffydd y llyfr Cymreig hwn.*

2. 'Catechism byr i Blant; at yr hwn y chwanegwyd un arall, er Addysc i'r rhai sydd i'w derbyn a'u cymmeryd i Swpper yr Arglwydd. Gan M. H.'

Mwythig. 8plyg.

Yr awdwr ydoedd y Parch. Mathew Henry, a dywedir mai y cyfieithydd ydoedd y Parch. Jenkin Evans, gweinidog yr Ymneillduwyr yng Nghroesoswallt, ar awgrymiad yr hwn y chwanegodd Mr. Henry y profiadau ysgrhythrol ar ol pob atebiad.†

Y Parch. Jenkin Evans a anwyd yn sir Forganwg, ac yr oedd yn weinidog ieuanc yr Ymneillduwyr yng Nghroesoswallt. Dywed Mr. Henry am dano ei fod yn weinidog teilwng a da, ac yn ddyr rhagorol; a dywed bywgraffydd Henry iddo wneyd llawer o ddaioni yng Nghroesoswallt, ac yn y wlad oddi amgylch. Bu farw Awst, 1709, yn 35 oed. Pregethwyd ei bregeth angladdol yno gan y Parch. M. Henry, ar 2 *Tim.* i. 12, y geiriau a ddewisid gan Mr. Evans ei hun.‡

3. 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Jones.'

Pris hwn oedd 8s. heb gauad, neu yn gauedig am 10s.

4. 'Llyfr y Psalmau.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thomas Jones. Tan arwydd y Bel, rhwng marchnad y brethyn gwyn a marchnad y Pysgod.'

* Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. iii. pp. 494, 505.

† Sir John B. Williams, *Memoirs of M. Henry*, p. 297.

‡ Yr un, t. 351.

Yr oedd y ddau uchod yn un llyfr ; ond bod gwyneb-ddalen i bob un o honynt.

5. ['Memoirs of Monmouthshire, by N. Rogers.' 12mo.]

6. ['The Speech of an Antient Britain in Parliament, against an Exorbitant Grant. Together with Four more Speeches, spoken in the Treasury.']

London: 1708, 8vo. 'Price One Penny.'

Yr 'Antient Britain' hwn ydoedd yr Anrh. Robert Prys, o Gilar, ym mhlwyf Ceryg y Drudion, swydd Ddinbych. Cynnwys yr araeth 16 tudalen. Gweler rhif 6, d.f. 1702.]

1709.

1. 'Y Gwrandawr Neu Lyfr yn dangos pa gynheddfau sydd reidiol i'r rhai a Ewyllysiant Gael Budd a Lles wrth wrando'r Gair a Bregethir. O waith yr awdwr Parchedig John Edwards, D.D. O gyfieithiad H. Powel. Llundain.'

Yr oedd Mr. Howel Powel yn byw mewn lle a elwir Maes y Clettwr, yn Sir Frycheiniog, ac yn aelod cyfrifol a defnyddiol iawn gyda'r Bedyddwyr.* Ymfudodd i America tua'r flwyddyn 1712, ac ymsefydlodd yn weinidog i gynulleidfa yn Cohensey, Jersey Newydd, lle y bu farw yn 1716.†

2. ¶ 'Saith o Bregethau, sef i. Ynghylch y Pechod anfaddeuol yn erbyn yr Yspryd Glân, &c. ii. Dyledswydd ac Ymarferiad y Saint, &c. iii. Yr amser cymeradwy a dydd jechydwriaeth. iv. Diwedd amser a dechreuad Tragwyddoldeb. v. Ymroad Josua i wasanaethu'r Arglwydd. vi. Y ffordd i'r Nef wedi ei hamlygu. vii. Cyflwr dyn yn y byd a ddaw, &c. O waith Robert Russel, o Wadhurst yn Sussex, a'i gyfieithu i'r Gymraeg gan William Edwards. Allan o'r nawfed argraphiad a deugain yn y Saesneg. Pengwern s.y.h. Mwythig.'‡

3. 'Select Proverbs, Italian, Spanish, French, English, Scottish, British, &c. Chiefly Moral. The Foreign Languages done in English.'

London, Printed for W. Meadows, at the Golden Fann in St. Paul's Church-yard. 1709.'

* Ond dywed y Parch. T. Rees, mai gweinidog Eglwys Gynulleidfaol yng Ngwenddwr, Brycheiniog, ydoedd H. P. Ef allai ei fod yn bob un o'r ddau, gan fod llawer o hen gynulleidfaoedd Ymneillduedig yn gymmysg.—Rees's *Non-Con. in Wales*, p. 285.

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas.

‡ Yn ol Moses Williams.

4. 'Llyfr Gweddi Gyffredin a Gweinidogaeth y Sacramentau a Chynneddau a Ceremoniau Eraill yr Eglwys, Yn ôl arfer Eglwys Loegr. Ynghyd a'r Psallwyr neu Psalmau Dafydd. Wedi eu Nodi i'w Darllain a'u Canu yn yr Eglwysydd.

A Brintiwyd yn Llvndain ag ar werth gan Edm. Powell yn y Black-fryers, a Rob. Whitledge yn Ave Mary Lane, a C. Browne yn Newgate Street. 1709.'

5. 'Memoirs of Mr. James Owen, of Salop.

London, Printed and Sold by J. Morphew near Stationer's Hall. 1709.' [12mo.]

6. 'Taffy's Triumph: or, a New Translation of the Cambro-myomaxia, in Imitation of Milton. By a Gentleman of Oxford, &c.'

Unplyg bychan o 16 tudalen. Dywedir mai math o ddychan ydyw gan T. Holdsworth. Daeth allan hefyd argraffiad Lladin yn unig, yn yr un flwyddyn hon.*

7. 'Cases (both Appellants and Respondents) of Simon Lloyd, and W. Wynne, and his Wife, respecting the property of Meredith Lloyd. 1709.' Folio.

8. 'The Mouse-trap, or the Welsh Engagement with Mice in English and Latin. 1709.†

9. 'Collection of Welsh Travels and Memoirs of Wales, the whole collected by J. T., a mighty lover of Welsh Travels. 1709-38.'

1710.

1. 'Cred a Buchedd Gwr o Eglwys Loegr; O Waith William Stanley, D.D. Deon Llanelwy.

Printiedig yn Llundain, ac ar werth gan R. Whitledge, wrth lun y Bibl yn Ave-Marie-Lane, ger llaw Ludgate. 1710.'

168 tudalen, 18plyg.

* [Enw y gwaith Lladin, yn ôl y cyfargraff a welais i, sy fel hyn:— 'Muscipula, sive Kambromyomaxia. Londini, MDCCIX.' 8vo. Llyfran o 16 tudalen yw, a dychanu y Cymry yw ei amcan. Gwelais yng Nghofrestr un o lyfrwerthwyr Llundain, mai y Dr. Edward Cobden, archiagon Llundain, yr hwn a gyhoeddodd 'Poems on Several Occasions,' yn 1748, ydoedd yr awdwr; a bod y Dr. Cobden hwn yn daid i'r diweddar Richard Cobden, A.S.; ond ymdengys i mi fod y cyhoeddiad braidd yn rhy gynnar i'r llinach hon fod yn gywir. Tebycach mai gwaith Holdsworth ydyw, neu ei gydwaith ef a'r Dr. Sacheverel.]

† Dyry un arall yr wyneb-ddalen fel hyn, yr hyn a ddengys mai yr un ydyw ag a gyhoeddwyd wedi hyny. Gwel rhif 9, d.f. 1738; a rhif 4, d.f. 1749. 'A Collection of Welch Travels and manners in Wales, being a pleasant relation of Dean Swift's Journey to that ancient Kingdom, and remarkable passages that occurred on the way, a trip to N. Wales by a Barrister, funeral sermon. Welch Schoolmaster, mouse trap, &c., by J. T.'

Yr oedd yr awdwr hefyd yn berson Henllan, ger Dinbych; ac er mwyn plwyfolion y lle hwnw, y dywedir yn y rhagymadrodd, iddo fynu ei argraffu yn Gymraeg; ac am y rheswm hwn, ei fod yn dangos beth yw athrawiaeth Eglwys Loegr, yn erbyn y Papistiaid a'r Presbyteriaid. Dyna fel y dywedir yn yr arweiniad i mewn. Ganwyd y Dr. Stanley, yn Hinchley, sir Lancaster. Cafodd ddeoniaeth Llanelwy yn 1706. Yr oedd yn ddyn mawr yn y llys a'r eglwys. Heb law y llyfr uchod, efe a gyhoeddodd rai pregethau; ond nid ydys yn gwybod fod dim o'i eiddo wedi ei droi i'r Gymraeg ond y llyfr uchod. Bu farw yn 1730, yn 68 oed.

2. ¶ 'Saith o Bregethau, sef i. Ynghylch y Pechod anfaddetoul yn erbyn yr Ysbryd Glan, &c. ii. Dyledswydd ac Ymarferiad y Sainget, &c. iii. Yr Amser Cymeradwy, &c. iv. Diwedd Amser, &c. v. Ymroad Josuah, &c. vi. Y ffordd i'r Nefoedd wedi ei hamlygu. vii. Cyflwr dyn yn y byd a ddaw, &c. O waith Robert Russel, o Wadhurst yn Sussex. A genadwyd ac a entrwyd yn ol y drefn gyfreithlon. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Gwilym ab Iorwerth, allan o'r unfed argraphiad a deugain yn y Saeson-æg.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston.*

Ail argraffiad, tybygid; ond ef allai na bu ond un argraffiad, ac nad yw yr amseriad o'r blaen, y llynedd, na hwn eleni, yn gywir; eto y mae rhai pethau yn arwain i feddwl y bu dau—y llall 'o'r nawfed argraffiad a deugain,' a hwn 'o'r unfed argraffiad a deugain.' Rhoddwyd y llall yn ol M. Williams, a hwn yn ol copi personol.†

3. 'Y Namun un deugain Arti-clau Crefydd. O gyfieithiad J. D. SS. T. D. ac o adgyweiriad S. ac M. Williams.'

Y trydydd argraffiad, wrthynt eu hunain.‡ Y cyhoeddwyd oedd-ynt Mr. Moses Williams, a'i dad Mr. Samuel Williams. Y cyfieithydd ydoedd y Dr. Davies, o Fallwyd.

4. 'Annogaeth Fer i'r Cymmun Sanctaidd, gyda natur a mesur y parotoad i'w dderbyn. O gyfieithiad Thos. Williams.'

Llundain. 12plyg.

* Gwel rhif 2, d.f. 1709.

† [Nid yw *debjig* y cymmerasid arg. 1710 o argraffiad llawer boreuach nag un 1709. Cyffelybol yw mai yn y flwyddyn hon (1710) yr argraffwyd y gwaith gyntaf; ac mai amryfusedd yng *Nghofrestr* Moses Williams a barodd ei osod flwyddyn yn gynmarach. Ac y mae yn ddilys na buasai yr un gwr yn gwneuthur dau gyfieithiad o'r un gwaith, ac yn cymmeryd yr 41fed argraffiad Seisonig yn sail i'w ail gyfieithiad, wedi cymmeryd ei gyfieithiad cyntaf o'r 49fed. Yr un, y mae yn ddigon amlwg, yw 'William Edwards' y naill a 'Gwilym ab Iorwerth' y llall.

‡ Gwel rhif 2 a 3, d.f. 1664.

5. 'Flores Poetarum Britannicorum Sef Blodeuog waith y Pryd-
yddion Bryttannaidd. O gasgliad J. D. SS. Th. D. fal yr ydys yn
tebygu.

Printiedig yn y Mwythig, gan T. Jones dros D. Lewys. 1710.'
[12plyg.]

Y D. Lewys hwn ydoedd y Parch. Dafydd Lewys, ffar Llan-
gatwg, ger Castell Nedd; canys y mae y 'Llythyr at y Darllenydd'
wedi ei arwyddo 'Dafydd Lewys. Llan-Llawddog, Gor. 10. 1710,'
lle yr ydoedd y pryd hyn. Y Dr. Davies, o Fallwyd, a dybid oedd
y casglwr. Detholion ydyw o waith hen feirdd, o dan wahanol
benau neu bynciau. Y mae hefyd yn cynnwys 'Llyfr Barddoniaeth
o waith y Capten William Middleton.*'

6. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, &c.

Argraphwyd yn Llundain gan Edm. Powell, ac ar werth gan
John Gouge yn Westminster Hall, a chan Edm. Powell, yn Black-
frier, yn Llundain. 1710.' [Unplyg.]

Llyfr Gweddi mawr i'r Eglwys ydoedd, ac y mae hyd yn hyn
mewn arferiad mewn llawer o lanau gwledig Deheudir Cymru. Ei
olygydd ydoedd Elis Wynn, awdwr y 'Bardd Cwsg.' Y mae
Salmau Càn Prys yn gyssylltiol. Y mae 'Hysbysiad' neu rag-
ymadrodd iddo gan y golygydd, a'r Hymn gladdedigaeth sy'n
dechreu—'Myfi yw'r adgyfodiad mawr,' o gyfansoddiad yr un, ef
allai.† Y mae yn chwanegol hefyd yr Erthyglau, o gyfieithiad y Dr.
J. Davies, o Fallwyd; y rhai y methai Elis Wynn gael gafael
arnynt, er eu bod wedi eu hargraffu lawer gwaith o'r blaen, nes
iddo gael o 'hir-olrhain' afael arnynt 'drwy eglwyswr parchedig o
Went.' Buasai yn brofedigaeth gref roi y rhagymadrodd yn
gyflawn yma, fel na choller 'briw-fwyd gweddill' y fath gofydd a'r
gwr o Lasyns, oni buasai ei fod wedi ei argraffu yn gyflawn mewn
lle arall ychydig flynyddau yn ol.†

7. 'Undeb yn orchymynedig i ymarfer. Gan Daf. Phillips,
Person Maenor Dewi, yn Sir Benfro. O gyfieithiad Samuel
Williams.'

Llundain. 8plyg.

Samuel Williams ydoedd berson Llangynllo, yn sir Aberteifi, a
thad Moses Williams.

* Gwel rhif 1, d.f. 1593. [Argraffwyd ef o newydd yn Llundain yn 1864;
ac yn ddiweddarach yn Llanrwst. Llyfryn o 94 tudalen yw yr argraffiad
cyntaf.]

† [Nid oes ammheuaeth mai Elis Wynn yw awdwr yr emyn hwn.]

‡ Gwel y *Gwyllydydd* am Fedi, 1833, t. 275.

8. ¶ 'Yr Ymarfer o Dduwioledeb; yn Cyfarwyddo Dyn i rodio fel y rhyngo ef Fodd Duw. Yr hwn Lyfr a osodwyd allan yn Saesnaeg o waith y gwir barchedig Dâd yn Nuw Lewis Escob Bangor, ac a gyfieithwyd yn gymraeg o waith Rowland Vaughan o Gaergai yn Sir Feirionydd, Wr bonheddig yn y Flwyddyn o oed Iesu 1620. Y Chweched argraphiad yn Gymraeg, wedi gwellau llawer o gam-speiladau oedd yn yr Argraphiadau eraill.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston, lle y gellir cael Brintio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesneg.* [8plyg.]

9. 'Tour to Hafod, by J. E. Smith, M.D. F.R.S., &c. Accompanied with splendid Views of the Scenery in the Grounds and adjacent Country.

London, 1710.' Folio.

[Ymddengys fod yma gamgyflead o ganrif gron; canys y mae yn bur amlwg mai y diweddar Syr James Edward Smith, D.M., yr hwn a aned yn Norwig yn 1759, ac a fu farw yn 1828, yw yr awdwr a olygir. Nid oedd Hafod yn lle o sylw yn y byd ar ddechreu y ganrif ddiweddaf.]

10. 'Cardiganshire described with due form of the Shire Towns, as it was surveyed, by J. S.' (John Speed.)

11. 'Testament y Deuddeg Patriarch, sef Meibion Jacob. A Gyfieithwyd yn Ffrangeg ac yn Duts.'

12. 'Poem on Mrs. Mary Lloyd of Denbigh, on Mr. H. Vaughan, on Mrs. Owen, on the Welsh Language, upon the Double Murder of Charles I, in answer to a libellous copy of Rhymes made by Vavasor Powell; to the Rt. Hon. Countess of Carbery, at her coming into Wales. 1710.'

Awdures y llyfr uchod ydoedd 'Orinda,' sef Mrs. Catharine Philips, gwraig Jas. Philips, Ysw., o'r Priordy, Aberteifi.†

1711.

1. 'Y Athrawiaeth yn ol Duwioledeb, Gwedi ei Seilio ar Sanctaidd Serythrau'r Gwirionedd; ac yn gyttunol a rhan athrawiaethol Erthyglau a Chyfaddefiadau Protestanaidd Lloegr. Att'r hyn y chwannegwyd, Byr Hanes o Drefn Eglwys'r Efengyl yn ol y Serythrau. Gan Isaac Chauncey, M.A. A chwedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg gan Matthias Maurice, er Cynnydd Gwybodaeth, a

* Gwel rhif 1, d.f. 1630; rhif 2, d.f. 1656; rhif 4, d.f. 1675; rhif 2, d.f. 1685; a rhif 11, d.f. 1700.

† [Gweler rhif 1, d.f. 1669.]

Derchafiad Cyfiawnder, Cariad, ac Efengyl Iessu Ghrist ym Marn a Bywyd ei Frodyr a'i Gid-Wladwyr Anwyl y Cymru.

Argraphwyd yn Llundain i'r Cyfieithydd, gan Edm. Powell, yn Black-friars, yn agos i Ludgate. 1711.'

Y mae oll yn 420 o dudalenau 12plyg; 24 o honynt yn cynnwys 'Y Rhagymadrodd,' wedi ei amseru 'Llundain, yr Ugainfed dydd o'r Degfed Mis, 1710,' a'i arwydd 'Matthias Maurice.'

ISAAC CHAUNCY, A.C., a D.M., ydoedd fab hynaf y Parch. Charles Chauncy, yr hwn oedd weinidog yn Ware, sir Hertfford, ac wedi dyoddef llawer o blegid ei anghyddfurfiaeth trwy ormes yr Archesgob Laud, a ffodd i America, i'r lle y cyrhaeddodd yn 1638, lle wedi hyny y daeth yn llywydd Coleg Harvard. Ganwyd ei fab Isaac yn Ware, ac yr oedd tua dwy flwydd oed pan symmudodd y teulu i America. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yng ngholeg ei dad, ac wedyn yn Lloegr, a chafodd fywoliaeth blwyfol Woodborough, yn sir Wilts, fel Presbyteriad, o'r hon y trowyd ef allan pan adferwyd Siarl II. Wedi hyny bu yn weinidog Ymneillduol yn Andover, a Llundain, lle y bu mewn dadl â'r Drd. Crisp a Williams. Gan ei fod yn rhy hoff o bregethu dadleuol, lleihaodd ei gynnullidfa, fel y rhoddodd ei ofal i fyny yn 1701, ond parhaodd yn athraw athrofa hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn 1712. Ysgrifonodd amrai lyfrau a ystyridd yn boblogaidd yn yr oes hòno. Yr uchod yw yr unig un a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg.* Rhoddwyd ail argraffiad o hono yn y ganrif hon.

2. 'Traethawd Ymarferol am gyflawn-awdŷrdod Duw a'i Gyfiawnder ef yng nghyd â'r Pethau pwysfawr eraill, y rhai sydd yn tarddu oddiwrth ei awdurdod ef, sef Etholedigaeth, Prynedigaeth, Galwedigaeth Effeithiol, a Pharhâd mewn Gras. Gan Eliseus Cole. O gyfieithiad H. Powel, o Faesclettwr, yn sir Frecheiniog.†

Yr oedd dadleuon y 'Pum Pwnc' yn frwd iawn yn eglwysi yr Annibynwyr, y Presbyteriaid, a'r Bedyddwyr, yn y Deheudir, y dyddiau hyn. Yn un o gymmanfaoedd y Bedyddwyr yr annogwyd cyhoeddi y gwaith hwn, fel cais, er attal cynnydd yr hyn a ystyridd gan yr hen bobl yn gyfeiliornadau peryglus.

3. 'Holl Ddyledswydd Dyn, Gwedi ei osod ar lawr mewn ffordd hynod ag Eglur, Defnyddiol i bawb, ond yn enwedig i'r Darllenydd mwyaf Annysgedig. Gwedi ei Dosparthu i xvii o Bennodau; Y rhai, trwy ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, a ddarllenir i gyd trostynt deir-gwaith yn y Flwyddyn. Angenrheidiol i bob Teuluoedd. Ynghyd a Dwywolder Neillduol ar amryw Achosion. A gyfaethwyd yn Gymro-aeg gan J. Langford, M.A. Yr ail Argraphiad ar ôl manwl Chwiliad a delead Beiau'r Cyntaf. Hyd yn hyn yr Hen Iaith.

* Wilson's *History and Antiquities of Dissenting Churches*, vol. i. p. 239-90.

† Gwel rhif 1, d.f. 1709.

Argraphwyd yn Llundain gan Edm. Powell, yn Black Fryers, yn agos i Ludgate. MDCCXI.'

Ymddengys fod hwn yn drydydd argraffiad.* Y mae hefyd wyneb-ddalen arall i'r—

'Dwywolder Neillduol ar Amryw achosion, Yn gystal cyffredinol ag anghyffredinol.

Argraphwyd yn Llundain gan Edm. Powel, yn Black Fryers, yn agos i Ludgate. 1711.'

4. ¶ 'Boreuol a Phrydnawnol Weddïau i'w harfer mewn Teulu-oedd, a chan un dyn ar ei ben ei hun o'r neilltu. O waith Edmund Gibson yn (Saesnaeg) Dyscawdwr Difynyddiaeth, gweinidog Plwyf Lambeth, gerllaw Llundain, yn Sir Surry: Ac a gyfieithwyd i'r gymraeg gan ŵr bonheddig o sir Gaerfyrddin.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston.'

5. ¶ 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin, Y Cydymaith Goreu; Yn y Tŷ a'r Stafell, Cystal ag yn y Deml. Neu Gasgliad o Weddïau allan o Liturgy Eglwys Loegr, yn angenrheidiol i'r holl Deulu ynghyd, ac i bod Dyn yn Neullduol, wrtho ei hun. Gyda swydd Bennodol i'r Sacrament. Gwedi i Genniathau ai roddi i lawr yn Llyfr yr Hall yn ôl Gweithred neu Act o Parliament.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston, lle gellir cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.'

6. 'Ymarferol-waith i'r Elusen-Ysgolion; yn egluro Natur Confirmasiwn, mewn ffordd o Gwestion ac Atteb. Gyda Gweddiu cyfaddas i'r Achos arbennig hwnnw. Gan Robert Nelson, Esqr. O gyfieithiad Moses Williams.

Llundain, Argraphwyd gan Joseph Downing.' 12plyg.

Yr oedd J. Downing yn byw yn St. John's Lane, ac yn argraffydd i'r 'Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol.' Bu farw Awst 31, 1734.† Byddai yn briodol yma roddi ychydig o hanes yr awdwr, sef,

ROBERT NELSON, Yswain. Ganwyd ef yn Llundain, yn 1656. Yr oedd yn ŵyr i Lewis Roberts, yr hwn oedd Gymro o sir Fon, a'r hwn a fu farw yn un o fasnachwyr penaf Llundain yn ei oes.‡ Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt.

* Gwel rhif 7, d.f. 1672; a rhif 2, d.f. 1684.

† Timperley's *Dictionary*.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1620.

Priododd foneddiges babaid,* yr hon a fu yn achos o ofidiau iddo, gan fod ei brif gyfeillion yn eglwyswyr isel, yn enwedig yr Arch-
esgob Tillotson. Nacaodd gymmeryd llw o ufudd-dod i William III.
hyd y flwyddyn 1709. Ysgrifonodd amrai lyfrau ar dduwinydd-
iaeth ymarferol, y rhagoraf o ba rai yw y 'Cydymaith i Ddyddiau
Gwylion.'† Yr oedd yn nodedig mewn haelioni yn ei fywyd, ac ar
ei farwolaeth, gadawodd ei holl feddiannau i ddybenion elusengar,
yn neillduol tuag at ysgolion rhad. Un ydoedd o ysbryd ac yn
cerdded yn llwybrau y diweddar Thos. Gouge. Bu farw yn Ken-
sington, yn 1714, yn 59 oed.‡

7. 'Boreuol a Phrydnhawrol Weddi i Deulu. O gyfieithiad
Moses Williams.

Llundain, argraphwyd gan Joseph Downing.' 12plyg.

8. 'Cas gan Gythraul neu Annogaeth i bawb ochelyd myned i
ymghynghori a Dewiniaid, Brudwyr, a Chonsyrwyr. gyda Eglur-
had ynghylch y perigl mawr o fyned i ymghynghori a hwynt, a
Chrybwylliad ynghylch llawer o arferion a thraddodiadau drygionus,
sydd yn cael eu harferyd yng Nghymru

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys Gwerthw'r Llyfrau.'
[8plyg.]

Y mae y rhagymadrodd wedi ei arwyddo 'T. P.,' gyda'r amser-
iad—'Mis Medi y 15 1711.'

9. 'Llyfr y Resolution, neu hollawl Ymroad, i roi'r cwbl o'n Brÿd,
a'n meddwl, a'n hõll nerth, a'n Gallu. I Wasanaethu Duw. Er
mwyn cael dedwyddwch ac Iechydwriaeth in Heneidiau. Cyfieith-
wyd o'r Saesnaeg i'r Gymraeg gan Doctor John Davies o Fallwyd
yn sir Feirionydd.

Argraphwÿd yn y Mwythig yn y flwyddyn 1711. Ac ar werth
yno gan Thomas Durston.' 24plyg.

Dywedir mewn lle arall mai Thomas Jones a'i hargraffodd.§ Yr
oedd hwn yn drydydd argraffiad,|| ac yn dalp o lyfr bychan trwchus,

* [Ni wyddai ef mai pabyddes oedd hi, hyd ar ol eu priodas; a dywedir
nad effeithiodd amrywiaeth barn ar eu dedwyddwch teuluaidd.]

† Gwel rhif 4, d.f. 1712.

‡ Jones's *Biographical Dictionary*; *Penny Cyclopædia*.

§ [Rhydd y Dr. Puw, yn yr 'Hybysiad' o flaen y gwaith yr argraffeb fel hyn:—
'Argraphwyd yn y Mwythig yn y Flwyddyn 1711. Ac ar werth yno gan
Thomas Jones;' tra y dyry ein hawdwr ef megys uchod: ond yn y cyfargraff
o'r llyfr sy genyf yn awr o'm blaen, fel hyn y mae:—'Argraphwyd yn y
Mwythig. Ac ar wrth yno gan *Thomas Durston*.' Nid oes un amseriad
wrtho. Ar ddiwedd anerech yr awdwr 'At ei anwyl Blwyfolion,' rhoddir yr
enw *John Davies* yn llawn (yn lle dim ond 'I. D.' fel yn y ddau argraffiad o'r
blaen); ac ar ei gyfer ar y llaw aswy rhoddir—'Mallwyd yn Sir Feirionydd;'
er nad oes dim o'r fath beth yn argraffiad yr awdwr. Deuddegplyg bychan yw
ei faint, a chynnwys 246 o dudalenau, heb law dalen yr enw, ar y dechreu ac un
arall ar y diwedd.]

|| Gwel rhif 2, d.f. 1632; a rhif 4, d.f. 1684.

ond dim ond y rhan gyntaf yn unig a gynnwysai. Rhoddwyd o hono argraffiad da a llawn wedi hyn, ar draul Owain Myfyr, gwyneb-ddalen yr hwn sydd fel y canlyn :—‘Llyfr y Resolution*—Dyhewyd y Cristion, yn Ddwy Ran. Y Rhan Gyntaf sydd yn dysgu i ni bawb roi ein bryd yn llwyr ar fod yn Gristionogion Gwir, ac ymadael a Buchedd Ddrwg, a throi at Ddaioni a Duwioldeb. Yr Ail Ran a draetha am y Rhwystrau i ddyinion roi eu bryd ar wasanaethu Duw. A gyfieithwyd gan y Dr. Davies, o Fallwyd. Y IV. Argraffiad. Ar draul Cymro, un o Ddinasyddion Llundain.

Llundain : Argraffedig gan John Jones, Heol y Capel. 1802.’ [8plyg.]

Y mae yn niwedd hwn Weddi yr Arglwydd yn ieithoedd Llydaw a Chernyw, gyda deongliad Cymreig o’r unrhyw : hefyd ‘Eryn Ambros ac Awstin, yr hwn a elwir y *Te Deum*, ac a gyfieithwyd yn Gymraeg y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug.’

10. ‘Llaw-Lyfr y Llafurwr, yn ei Hyfforddi p’odd i wneud y goreu o amrafel Weithredoedd ei Alwedigaeth, a’r Petheu cynnefina ’g sy’n digwydd yn ei Fywyd ef tuag at Ogoniant Duw, a Llesad ei Enaid ei hun. A ’sgrifennwyd yn Saesneg gan Weinidog yn y Wlad er Dajoni i’w Blwyfolion. Ac a gyfjeithwyd i’r Gymraeg gan Foses Wiliams, A.B. Ciwrad Chidingstôn yng Hent.

Printiedig yn Llvndain ; Ac ar werth gan Joseph Downing ym Martholomew-Close yn agos i West-Smithfield, 1711.’

[Llyfryn hirfain 12plyg o 70 tudalen ydyw. Ar ei ddiwedd y mae dalen a ellir ei galw yn dudalen 71 a 72, er nad yw wedi ei rhifnodi, yn cynnwys hysbysiad am ddau o’r ‘Llyfrev a gyfjeithwyd yn ddiweddar i’r Gymraeg gan Foses Wiliams, A.B.’]

11. ‘Catecism Sacramentaidd, A amcanwyd er Cyfarwyddyd i Wasanaeth dynion tlodion, Ac a gyflwynwyd at bob Caredig a Haelionus Gristianogion. Gan R. W. A.B.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Jones.’

Y mae diwedd y llythyr yn cael ei arwyddo—‘Edw. Wells. Cotesbach Tach. y cyntaf, 1705.’ Rhaid cofio mai amseriad y gwaith gwreiddiol yn Seisonaeg yw yr uchod.

12. ‘Llythyr oddiwrth Weinidog Eglwys Loegr at Ymneilltuvr o’i Blwyf o Farn y Presbyterian. Ac a gyfieithwyd yn Gymraeg gan Lewis Evans, Athraw Yscol St. Clears.

Argraphwŷd bedair gwaith yn Saesnaeg, mewn un Flwŷddŷn, a’r awron y waith Gyntaf yn Gymraeg, gan Thomas Jones, ac ar werth dan Arwŷdd yr — yn agos i farchnad yr ŷd ar brethŷn Gwŷn ganddo ef yn Unig, yn y Mwŷthig.’

* [Nid cwbl gywir hyn. Nid oes son am ‘Lyfr y Resolution’ ar ddalen enwol argraffiad 1802, nac mewn un man arall ynddo, ond yn unig yn yr ‘Hysbysiad,’ lle y sonir am yr argraffiadau blaenorol o’r gwaith.]

13. 'Llythyr oddiwrth VVeinidog o Eglwys Loegr, At un o'i blwyfolion yn neillduo oddiwrth yr Eglwys o grêd y Presbyteriaid. Wedi ei gyfieithu er Lles i'r Cymru. Gan G. J. Yn Dangos, 1. Mor rhwŷm ydânt i droi at yr Eglwys, ac mor euog a fyddant, os parhau a wnânt i neulltuo oddiwrthi. 2. Yn rhoddi Attebion eglur i'r holl wrthressymau, a'r essgusion a wneir ganddânt, rhag dyfod iddi. 3. Yn gossod allan ar fyrr mor anghyttunol ydŷw eu crêd eu hŷn a'u gweithredoedd, a'r cyttundeb sydd rhyngddynt â'r Papistiaid ymhob un o'r ddau.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Jones.'

Cynnwysa 65 o dudalenau, tudalen o 'Ceryddiad i rai beiau, a ddiangasant yn y llyfr hwn wrth ei Argraphu,' a dau dudalen yn cynnwys y 'Llyfrau Cymreig ar werth gan Thomas Jones, yn ei dy ef yn y mwythig, tan arwydd y Bel, rhwng marchnad yr yd a'r Brethyn gwyn, a marchnad y Pysgod.'

Yr oedd yn beth lled gyffredin gynt i ddau argraffiad o'r un llyfr gael eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn, gan wahanol bersonau. Cyfarfyddir ag amryw esiamplau o'r fath, er na ellir rhoddi rheswm boddhaol am hyny.

14. 'Llythyr Edward Wells, D.D., &c. O gyfieithiad G. J.' Mwythig. 8plyg.

15. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynneddfau a Ceremoniau Eraill Eglwys Loegr, a Psalmau Dafydd, &c.

Argraphwyd yn Llundain gan Edm. Powel.'

Y mae hefyd yn gydiol â hwn, gyda gwyneb-ddalen, 'Y Psalter neu Psalmau Dafydd,' sef cyfansoddiad Edm. Prys.

16. 'Mine Adventurer laid open. By T. Waller.*'

17. 'Y Psalter neu Psalmau Dafydd yn Gymraeg: gyda'r Catechism, ac amryw Weddiau detholedig, a Rhai Psalmau Canu allan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Chwanegwyd at y Gatechism ar gyfer pob Pwnc o honaw, rhyw unig Destin, neu ran o'r Scrythurlan yn profi yr unrhyw.

Argraphwyd yn Llundain gan E. P.† Ac ar Werth gan Harri Clements, o Lŷn yr Hanner Lleuad yn Saesnag, The Sign of the Half Moon. in St. Paul's Churchyard, 1711.'

Harri neu Henry Clements, cyhoeddydd y llyfr uchod, ydoedd llyfrwerthydd enwog yn Llundain, ac a fu farw Awst 23, 1719.‡

* Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2 a 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1676; rhif 11, d.f. 1693; rhif 6, d.f. 1698; rhif 3, d.f. 1699; rhif 12 a 13, d.f. 1700; rhif 5, d.f. 1705; a rhif 8 a 9, d.f. 1707.

† Edm. Powel, gwel rhif 14.

‡ Timperley's *Dictionary*.

Y mae y rhif 4, 5, a 17, yn gydiol â'u gilydd, ond bod tair rhag-ddalen iddynt. Y mae yn eu blaenu, ar gefn gwyneb-ddalen rhif 5, fel hyn :—' We do Approve and Recommend this work. Humph. Hereford. W. Asaph. Jo. Bangor. Jo. Llandaff. Geo. S. David's.' Hefyd, cyflwyniad 'At yr Anrhydeddus Farchog a'r Enwog Freyr Syr John Wynn, o Watstay yn Sir Ddinbych;' ac wrtho y llythyr-enu 'E. E.'

18. 'Gweddiau yn yr Ystafell, I'r harferu gan bob Cristion Defosionawl. Wedi eu casclu allan o'r Cydymaith Goreu, gan Awdwr yr unrhyw.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston, lle y gellir chael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.'

19. 'Boreuol a Phrydnawnol Weddiau i'w harfer mewn Teulu-oedd, a chan un dŷn ar ei ben ei hun o'r neilltu. O waith Edmund Gibson yn (Saesnaeg) Dyscawdwr Difnyddiaeth, gweinidog Plwŷf Lambeth, gerllaw Llundain, yn Sir Syrri: Ac a gyfieuthwŷd i'r gymraeg gan ŵr o Sir Gaerfyrddin.

Argraphwyd yn y Mwythig 1711, ac ar werth yno gan Thomas Jones.

Y mae rhif 11, rhif 12, a'r rhif 19, yn gwneyd un llyfr bychan o 84 o dudalenu 48plyg.* Y mae yn hynod hefyd nad yw y tudalenu wedi eu rhifnodi, dywed yr argraffydd yn y diwedd mai 'Gwr Bonheddig o ddeheubarth Cymru a Gyfieithodd y Lyfr hwn o'r Saesnaeg i'r Gymraeg; A chymreigiwr da ydiw ef yn ol Cymraeg y wlad honno. Ond mi a fŷm cyn hyfed a throi rhai o'r geiriau yn gymraeg hyddusgach i bobl gwynedd, er mwŷn cael o'r llŷfr fôd yn gymradwy drwy holl gymru. Gan obeithio a cŷd-ddwŷn y Cyfieithwr a myfi am hyny.'

1712.

1. 'Hynodeb Eglwysydd, &c. O gyfieithiad W. Rowlands, A.B.'

Llundain. 12plyg.†

2. ¶ 'Yr unrhyw, gan G. J., h.y. Griffith Jones, & Wells.'† Nid oes amseriad, a gall mai nid yr un flwyddyn y cyhoeddwyd y ddau argraffiad hyn.

3. ¶ 'Pregethau gan Edward Jones.'†

[Y Pregethau neu Homiliau (rhif 1, d.f. 1606) o gyfieithiad Edward *James*, yw y llyfr a olygir. Ni bu un argraffiad o honynt rhwng 1606 a 1817.]

4. 'Cydymaith i Ddyddiau Gwylion ac Ymprydiau Eglwys Loegr,

* [Yn hytrach rhaid mai 24plyg ydyw.]

† Y rhai hyn yn ol Moses Williams.

&c. Wedi ei droi yn Gymraeg, allan o'r argraphiad berffeithiaf yn Saesoneg. Gan Thos. Williams, M.A. Eglwyswr Dimbech.

Argraphwyd yn Llundain gan W. Bowyer, yn White Fryers. 1712.'

Gan fod yr awdwr, Mr. Robert Nelson, yn wr cyfoethog haelionus, ac yn byw yn Llundain, y mae yn dra thebyg mai ar ei draul ef y cyhoeddwyd ei waith rhagorol hwn; yr hwn, gan ei fod yn llyfr o gryn faint, ac yn rhwymedig mewn cloriau a lledr cryf, a fuasai yn rhy uchel ei bris i'r cyffredin ei gyrhaedd.* Aeth argraffdy Mr. Bowyer ar dân y flwyddyn hon. Cafodd ganiatâd i gasglu i wneyd y golled i fyny, a daeth y cyfraniadau i 2,539*p.* 15*s.* 2*c.* Yr oedd ym mysg y cyfranwyr 120 o argraffwyr a llyfrwerthwyr, a'u cyfraniadau yn amrywio o 10 swllt i 10 gini. Yr oedd gini y pryd hyny yn werth 1*p.* 1*s.* 6*c.*† Ganwyd W. Bowyer yn 1663, a bu farw yn 1737, yn 74 oed.

5. 'Undeb yn Orchymynedig i ymarfer.' Llundain.

Ail argraffiad, mae yn debygol.‡

6. 'Hanes y Ffydd. Gan Edward Samuel.'§

Ymddengys fod hwn yn bedwerydd argraffiad, a'r cyntaf wedi marwolaeth yr awdwr.¶ Edward Samuel oedd Berson Llangar, ger Corwen, 'gynt person Bettws Gwerfil Goch,' nid pell o'r un lle, yng nghwr isaf sir Feirionydd. Ganwyd ef yn 1674, yng Nghwt y Defaid, ym mhlwyf Penmorfa, sir Gaernarfon. Bu farw Ebrill, 1748, a chladdwyd ef ym mynwent Llangar. Y mae ar gael bedwar englyn ar ei farwolaeth, ac wrthynt 'Y Parch. W. Wynne, o Langynhafal, a'i cânt, 1748;' a 'Dafydd Samwel, w'yr yr hen Samwel o Langar, a'u hysgrifenodd yn Llundain, Gorph. 15, 1790,' ar y ddalen o waith yr hwn y cafwyd hwynt gan Glyn Myfyr.** Yr oedd Dafydd Samwel yn llawfeddyg ar fwrdd y llong *Discovery*, gyda'r Cadben Cook, ar ei fordaith o gylch y byd. Yr oedd yn llygad-dyst o'r gyflafan echrydus a ddygwyddodd i'r morwr enwog hwnw ar lan Owyhee, am yr hyn y cyhoeddodd hanes manwl yn 1789. Bu D. Samwel farw yn y flwyddyn 1799.†† Yr oedd y Parch. Edward Samuel yn

* Gwel rhif 6, d.f. 1711.

† Temperley's *Dictionary of Printing and Printers*.

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1710.

§ Ar awdurdod y *Diddanwch Teuluaidd*. [Camgymeriad yn ddiat. Ni chyhoeddodd Edward Samuel un argraffiad o 'Hanes y Ffydd,' ac ni chyfansoddodd waith o'r enw.]

¶ Gwel rhif 1, d.f. 1671; rhif 1, d.f. 1676; a rhif d.f. 1677.

** Mr. Owen Jones, Llundain. Gwel y *Gwyllyddydd*, Mehefin, 1831, t. 185. [Nid arferai Mr. Owen Jones (os *Owain Myfyr* a olygir) alw ei hun yn *Glyn Myfyr*. Yr oedd Glyn Myfyr, pwy bynag oedd, yn fyw yn 1831.]

†† Gwel *Cambrian Register*.

fardd o gryn enwogrwydd yn ei ddydd. Y mae ar gael o'i waith, 'Carol Plygain Duwiol, a wnaeth yn 1722;' 'Carol Plygain yn 1744;' 'Carol yn am rhyfel;' a 'Gwahoddiad Plygeiniol.'*

7. 'A Reply to the Mine Adventurer laid open.' 1712.†

8. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau Gyda Chynneddfau a Ceremoniau Eraill yr Eglwys yn ôl arfer Eglwys Loegr; a Psalmiau Dafydd, Fel y maent bwyntiedig iw Darllain ai Canu yn yr Eglwysydd.

Argraphedig yn y Mwythig 1712, ac ar werth yno gan Thomas Jones.'

Y mae gwyneb-ddalen arall i'r Salmau Canu.

1713.

1. 'Llyfrgell y Cristion Ifainc, &c. Gan R. Ll.'

Mwythig. 8plyg.‡

2. ¶ 'Pregeth gan R. Lloyd.'‡

3. 'Catechism yr Eglwys wedi ei egluro trwy holion ac atebion, a'i Profi o'r Ysgrhythyr, yn bum rhan, a deuddeg dosparth, yn cynnwys byrr ac eglur hanes 1. Cyfammod Cristionogawl; 2. Y Ffydd Gristionogawl; 3. Ufudd-dod Cristionogawl. Gan John Lewis, Gweinidog Margate, yng Nghent.'

Mwythig. 8plyg.

Ganwyd John Lewis ym Mristol yn 1675, ac a fu farw ym Margate, yn 1746, yn 69 oed. Ysgrifonodd lawer o hanesyddiaeth henafol. Dywedir hefyd ei fod yn dduwinydd enwog.§

4. 'Dwys ddifrifol Gyngor i Hunan-ymholiad. Wedi ei draethu mewn V. o Bregethau, ar 2 Cor. xiii. 5. Gan Tho. Wadsworth, M.A. Gweinidog yr Efengyl gynt yn Newington Butts, yn Southwark. Wedi ei gyfjeithu er mwyn rho'i cymmorth ir cymru iw hadnabod eu hunain. Gan Tho. Baddy.

Caer-Llewon, Argraphwyd yn 1713.' [12plyg: 158+2=160 tudalen.]

* *Blodeugerdd*, t. 27, 29, 320, 367. [Ysgrifonodd hefyd Farwnad i Huw Morus, y bardd. Ceir hefyd ddarnau prydyddol o'i waith yn 'Llu o Ganiadau,' sef rhif 37, d.f. 1798.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1642; rhif 2, 3, d.f. 1649; rhif 2, d.f. 1660; rhif 3, d.f. 1670; rhif 11, d.f. 1693; rhif 6, d.f. 1698; rhif 3, d.f. 1699; rhif 12, 13, d.f. 1700; rhif 5, d.f. 1705; rhif 8, 9, d.f. 1707; a rhif 16, d.f. 1711.

‡ Yn ol M. Williams ac ereill.

§ Maunder's *Biog. Treasury*.

Y Parch. THOMAS WADSWORTH, A.C., a anwyd yn Llundain yn 1630. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaergrawnt. Cyflwynwyd ef i bersoniaeth Newington Butts yn 1652, yn ol y drefn Bresbyteriaidd. Bu yn llwyddiannus iawn yno hyd adferiad Siarl II, pryd y gorfu arno roi ei le i fyny i arall ar ryw ddadl gyfreithiol; er hynny cafodd bregethu mewn amrai o'r eglwysi plwyfol, ac o'r diwedd ei ddewis yn weinidog plwyf St. Lawrens Poutney, lle y bu yn llafurio heb ordeiniad esgobaethol hyd ddydd Bartholomëus, 1662, pryd y darfu i Weithred yr Unffurfiad ei gau allan o'i ofal gweinidogaethol. Wedi ei ddeoliad efe a weinidogaethodd yn ddirgelaidd ym mhlith ei gyfeillion, mewn amrai leoedd. Bu farw yn ddedwydd, Tach. 29fed, 1676, yn 46 oed.*

5. 'Ymddygiad Gweddus yn yr Eglwys, Neu ychydig ragrybuddiadau ac hyfforddiadau mewn trefn i fwy Defosiynol a pharchedig gyflawniad o addoliant public Duw, megys yr appwyntiwyd gan Eglwys Loegr. O gyfieithiad R. Ll.'

Mwythig. 8plyg.

6. 'The Life and Miracles of St. Wenefrede, Together with her Litanies; with some Historical Observations made thereon.

S. Buckley, London 1713.' 8vo. [The Second Edition.]

Y *Life* uchod a ysgrifenyddwyd gan Robert, Prior o'r Mwythig, o ddeutu y fl. 1138, ac a gyfieithwyd gan J. F., Iesutiad; ac a adgyhoeddwyd gan yr Esgob Fleetwood, fel uchod.†

7. 'Y Bibl Cyssegr-lan, &c. Llyfr Gweddi Gyffredin, &c. Salmau Cân Archddiacon Prys. 1713.'

Rhodddwyd hwn allan gan y 'Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol.'

8. ['Cerdd y Winllan.

Mwythig. Argraphwyd gan Thomas Durston, 1713.']

1714.

1. 'Llythyr Edward Wells, D.D. at Gyfaill ynghylch y Pechod mawr o gymmeryd Enw Duw yn ofer, &c. O gyfieithiad Iaco ab Dewi.'

Mwythig. 8plyg.

Dywed y Parch Jos. Thomas, mai gwr o Landyssul, sir Aberteifi, ydoedd 'Iaco ab Dewi,' neu James Davies, enw yr hwn a geir mor fynych yn gyssylltedig â hen lyfrau; iddo fyw flynyddoedd ger Pencader, a'i fod yn aelod duwiol iawn o gynulleidfa yr Ymneillduwyr

* Wilson's *Dissenting Churches*, vol. iv. p. 150-154.

† Evans's *North Wales*. [Yr ail argraffiad, fel y gwelir, yw yr un a gofnodir uchod.]

yno, ac iddo symmud wedi hyny i blwyf Llanllawddog.* Ond dywed y Dr. W. Owen Pughe, mai 'Bardd enwog, a hynafiaethydd,' o Flaen Gwili, yn sir Gaerfyrddin, ydoedd, ac iddo farw yn 1722.† Yr ydys yn bresennol yn analluog i gyssoni hyn. Geilw Mr. Edmund Jones, gynt o Ebenezer, Pont y Pwl, ef 'yr adnabyddus a'r crefyddol Iaco ab Dewi, am yr hwn wasanaethi'w wlad,' sef cyfieithu y 'Tyred a Chroesaw at Iesu Grist;' 'yr wyf yn gobeithio ei fod yn cael ei wobrwyo yn helaeth yn y nefoedd.'‡ Efe a fu farw, fel y dywedir uchod, Medi 24, 1722, yn 74 oed; a chladdwyd ef yn Llanllawddog. Yr oedd ganddo ysgriflyfr yn rhoi hanes am ysgrif a elwid 'Cwttta Cyfarwydd,' a ysgrifenasid gan Meurig, Trysorydd Llandaf.‡

2. 'Holl Ddyledswydd Cristion. Gan John Jones, D.D. Chancellor Llandaff. O gyfieithiad Rees Lewis.'

Mwythig. 8plyg.

3. 'Myfyrddodau Bucheddol ar y Pedwar Peth Diweddaf, sef Angau, Barn, Nef, ac Uffern.' Llundain. 12plyg.

Ail argraffiad, mae yn debygol.§

4. 'Cyfeillach beunyddiol â Duw yn Gynddelw neu Ensaml ym Muchedd Sanctaidd Armele Nicholas, &c. O gyfieithiad Iago ap Dewi.'

Mwythig. 8plyg.

5. 'Pregeth ynghylch yr hen Ffydd, &c.' Caerlleon. 8plyg.

6. 'Gemmeu Doethineb, neu Ymadroddion doethion, wedi eu chwilio, a'u trefnu, mewn Ffordd (nid anghynefin yn hollawl) i ddyscu Gwybodaeth i Ddynion. Yn gantoeedd ac yn Ddegau. Hefyd Holiadau buddiol, ac ymddyddanion rhwng Gweinidog ac amryw Bechaduriaid, &c. Gan Rhys Prydderch, Gweinidog yr Efengyl yn Sir Gaerfyrddin.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston tros D. Lewys a Christ. Samuel, yn y flwyddyn 1714.'

Y mae hwn yn un o'r llyfrau bychan hynotaf a gyhoeddwyd yn y ganrif hon. Cyssylltir ag ef 'Lythyr at y Darllenydd,' gan 'William Evans,' yr hwn oedd athraw cyntaf Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin.|| Y mae ei bennodau wedi eu dosbarthu yn ddeg adnod, a phob deg pennod yn gwneyd yr hwn a eilw yn 'Cant i,' a 'Cant 2,' &c., hyd 'Cant. 7.' Gan fod y llyfr hynod hwn mor ddeythr, dodir esaml o hono:—

* *Hanes y Bedyddwyr; a'r Adolygydd, 1852, t. 54.*

† *Cambrian Biography.*

‡ *Iolo MSS. 222.*

§ Gwel rhif 1, 1767.

|| Gwel rhif 2, 1707.

'Cant 7. deg 7.'

1. 'Fe addawodd Duw, gadw ei Bobl ac efe a geidw ei addewid.

2. Nid oes gymmaint o wahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf o'r rhai Duwiol; ac y sydd rhwng y lleiaf o'r Duwiol, a'r mwyaf moesol o'r Annuwiol.

3. Mae rhai yn gweled Bai lle nad yw ac heb weled bai lle mae llawer.

4. Os mynwn fôd fel y Sainct yn y Nef mewn Gogoniant: y mae yn rhaid i ni fôd fel hwynteu, mewn ufydd-dod ar y Ddaiar.

5. Gwell yw troi oddiwrth Eulynod at Dduw; na throi oddiwrth Dduw at Eulynod.

6. Nid digon i ni ymgadw rhag drygioni y Rhith; ond y mae'n rhaid i ni ymgadw rhag Rhith y drygioni.

7. Nid yw pôb Dŷn di ail anedig yn anhywaith; ond y mae pôb Dŷn anhywaith yn ddi ail anedig.

8. Mae Gweithredoedd y cyfiawn yn gymmeradwy yn ei ôl ef; ac nid efe ei hun, yn ôl ei weithredoedd.

9. Nid a fu sy'n parhau heddy, Ac nid y sydd dros fyth a bery.

10. Fe a wŷr y Credadyn pe pechei efe, na chondemnid ef am ei Bechod: ond y mae efe yn ofni pechu, fel pe na chondemnid ef am ei Bechod.*

Yna y canlyn, 'Holiadeu ynghylch amryw bethau; buddiol i'r Oes ryfygus yma eu hystyriaid, a meddwl yn ddifrifol am y Cyfrif a ofyn Duw am danynt, ac am bob gweithred yn ol hyn.' Y mae yr holiadau yn rhai hynod iawn; megys, 'Ynghylch doddi Plant i Weddio cyn Bwyd, ac wedi Bwyd, yn rhithiol mewn Tafod leferydd i'r Teulu;' 'Am Ddawnsio Cymmyscedig;' 'Am ddodi Ceiliogeu i Ymladd;' 'Am blant yn priodi heb gennad eu rhieni;' 'Am Occreth;' 'Am roi Plant i'w Magu i eraill;' 'Ynghylch codi Bediw ar Farwol-aeth Deiliaid;' 'Ynghylch Canueu masweddol a Llygredig;' 'Ynghylch Swyno;' 'Ynghylch Dewino, a Thesni wrth y Ser, ac Amser Genedigaeth;' 'Ynghylch yfed Iechyd;' 'Ynghylch Gwallt Llaes.' Yna terfyna gyda dernyn rhagorol o'r enw, 'Dadleuon pechadurieid wedi eu Gostegu, trwy Fuddugoliaeth y Gwirionedd mewn ymddiddan rhwng Gweinidog âg amryw Bechadurieid.' Yr awdwr—

Y Parch. RHYS neu REES PRYDDERCH; dywedir iddo gael ei eni ym mhlwyf Llandefeilog, ger Aberhonddu, yn sir Frycheiniog; ac yr oedd yn berchen cryn etifeddiaeth yno. Cafodd addysg er ei gymhwyso i'r weinidogaeth yn amser y Weriniaeth, a chyfrifir ef ym mhlith yr Anghydfurfwyr a drowyd o'r eglwys wedi i Siarl II. ddechreu

* [Tudalen 101, 102. Nid yw y ddalen gyntaf o'm cyfargraff i ar gael; ac felly nis gwn pa un ai cywir ai anghywir yw enw y llyfr megys y gosodir ef i lawr gan yr awdwr.]

teyrnasu, pryd yr ymgymmerodd â llafurio yn selog fel y goddefai yr amseroedd ym mhob lle y caffai, yn siroedd Caerfyrddin, Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, hyd ddiwedd ei oes, ond yn benaf yn siroedd Brycheiniog, Caerfyrddin, a Maesyfed. Yr oedd yn byw yn Ystrad Walter, yn sir Gaerfyrddin, o fewn ychydig filltiroedd i Llanymddyfri, ac yn cadw ysgol ramadegol, neu fath o athrofa, mewn lle a elwir Abercrychan, ger llaw. Dywedir ei fod yn ysgolfeistr enwog, a gallasai gael lle cysurus yn yr Eglwys, pe buasai yn cydffurfio, a cheisid yn daer ganddo wneyd hynigan y Dr. Thomas, esgob Ty Ddewi. Math o barhâd o'i ysgol ef yw y Coleg Ymneillduaidd sydd yng Nghaerfyrddin, athraw cyntaf yr hwn ydoedd W. Evans, yr hwn a gafodd ei ddysgeidiaeth dan Prydderch ei hun.

Ef allai mai yma y bydd briodolaf rhoddi nodiad am

CHRISTMAS SAMUEL. Tybir iddo gael ei eni ym mhlwyf Llanegwad, yn sir Gaerfyrddin, yn y fl. 1674. Efe a ddilynodd Mr. Tho. Bowen, ym mugeiliaeth cynulleidfa o Ymneillduwyr yn y Pant Teg, ger Caerfyrddin,* yn 1710. Efe a gyhoeddodd rifedi o lyfrau defnyddiol yn yr iaith Gymraeg. Bu yn gynnorthwy mawr i Mr. G. Jones, Llanddowror, i sefydlu ei Ysgolion Cymreig, er bod y gwr hwnw yn eglwyswr. Bu farw Mehefin 18, 1764, yn 90 oed.†

7. 'Dirgelwch i rai i'w Ddeall ac i eraill i'w Watwar sef Tri Aderyn yn ymddiddan yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran. Neu Arwydd i Annerch y Cymru. Yn y flwyddyn 1653, cyn dyfod 666.

Argraphwyd gan J. S. tros Nicholas Thomas, â Lewis Thomas, 1714.' 32plyg.

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.‡ Y mae rhaglythyr iddo gan 'L. T.' (Lewis Thomas)—'Mehefin 22, 1714 O'm stafell yn y Mwythig dan lun y delyn Gymreig.' Dywedir hefyd mewn hysbysiad yn ei ddiwedd: 'Y llyfr hwn a werthir mewn Amryw fannau yn Ghyrnru yn Enwedig gan Lewis Thomas, o Blwy Llangrannog a Nicholas Thomas o Blwy Kennaerth. Pris 9 Ceiniog.' Mae yn debyg mai egwyddorwas yn yr Amwythig oedd Nicholas Thomas y pryd hyn. Ym mhen ychydig flynyddau eto ceir ef yn argraffu ar ei draul ei hun, wedi sefydlu y drydedd argraffwasg yng Nghymru. Yr oedd Lewis Thomas yn weinidog yn Henllan, sir Gaerfyrddin; ac yn yr ymranid a gymmerodd le yn 1708, efe a gymmerodd blaid yr Annibynwyr a'r gwir Galfiniaid o'r gynulleidfa, y rhai a adeiladasant gapel Rhyd y Ceisiaid ger llaw.§

* [Yn Rhestr y Tanysgrifwyr i Eirlyr Sion Rhydderch (rhif 5, d.f. 1725) ceir enw 'Mr. Christmass Samuel Minister at Llanegwad;' ac ym mhlith enwau derbynwyr 'Y Fuchedd Gris'nogol' (rhif 6, d.f. 1752) y mae 'Rev. Mr Christmas Samuel of Llanegwad.']

† Rees's *Non-Con. in Wales*, p. 342.

‡ Gwel rhif 15, d.f. 1653.

§ *Byr a Chywir Hanes Eglwys Rhyd y Ceisiaid*, gan Mr. Matthias Maurice.

8. 'Rhybudd Teg Mewn Pryd da. Sef Llyfr bychan yn dair rhan, Rhan i. Yn cynnwys Stori yn dangos mor wag yw y Byd i hyderu arno. Rhan ii. Yn cynnwys Deunydd a chymmwysiad yr ystori. Rhan iii. Yn cynnwys cyfarwyddiadeu i gadw cydwybod lân. E las a gafas rybudd, ac ni las a'i cymmerodd.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Tho: Durston. 1714.'

9. 'Cyfoeth i'r Cymru. Neu Drysor y Ffyddloniaid, wedi ei Egoryd mewn amryw o Bregethau; Er mwyn gwneuthur gwerth-fawrogrwydd hawddgarwch a godidawgrwydd Christ yn fwy adnabyddus dymunol a chymeradwy. A'r Nefoedd yn agored, a'r uniawn Ffordd iddi, Mewn dwy bregeth, Gyda Galwad i bechaduriaid gan Grist ei hun. A Rhybydd o'r nefoedd i wilio a gweddio, ac ymbaratoi erbyn Marwolaeth a'r farn. Gan William Dyer. Argraphwyd yn 1714.'

'Hwn yw'r ail Argraphiad o'r llyfr hwn yn Gymraeg. Wedi ei brintio yn llawer mwy cywir a chyflawn na'r Argraphad cyntaf.*

Er bod hwn yn cael ei alw yn ail argraffiad; ond os yw y cyntaf a roddais yn hysbysiaeth gywir, y mae yn rhaid fod hwn yn drydydd argraffiad.†

10. 'Caniadau Nefol; Sef Agoriad ar y Bennod gyntaf o Ganiadau Solomon, ar fesur Cerdd, Ynghyd. A rhai Hymnau Ysprydol. O Waith Davydd Lewys, Gweinidog yr Efenngyl.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Tho. Durston yn y Flwyddyn 1714.'

11. 'An Historical Account of the Ancient and Modern State of the Principality of Wales, Dutchy of Cornwall, and Earldom of Chester. Collected out of the Records of the Tower of London, and divers ancient Authors. By Sir John Doderidge, Knight. The Second Edition.‡ To which is added his Royal Highness the Prince of Wales's Patent both in Latin and in English; also an Account of his Dignity, Privileges, Arms, Rank and Titles, and of his Sons and Daughters.

London: Printed for J. Roberts in Warwick Lane. 1714. (Price Two Shillings Stitched.)

12. 'Canwyll y Cymru Sef Gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficcer Llandyfri. A brintwyd o'r blaen yn bum rhan, wedi ei

* Cefn yr wyneb-ddalen.

† Gwel rhif 4, d.f. 1681; a rhif 3, d.f. 1706.

‡ Gwel rhif 3, d.f. 1630.

cyssyllty oll yn un Llyfr. The Divine Poems of Mr. Rees Prichard Sometime Vicar of Llandovery in Carmarthenshire. Y Pummed Argraphad gydag ychwanegiadau helaeth.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston yn y Flwyddyn 1714.*

Dylai yr hyn sydd yn 1700 gan S. Hughes, fod yma.

13. ['Wales, a Poem, by Francis Price.' 8vo.]

1715.

1. 'Trugaredd a Barn, &c. Llundain.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.†

2. 'Pregeth a bregethwyd ar y dydd cyntaf o fis Mawrth, 1714. Yr hwn oedd Ddydd Gwyl St. Dafydd. Gan George Lewis, M.A. Caplan i'r gwir Barchedig Arglwydd Ioan Escob Bangor.

Argraphedig yn Llundain gan Edm. Powel, Ac ar werth gan Charles King yn Westminster Hal, a chan Edm. Powel yn Black-fryars yn Llundain, 1715.'

3. 'Cydymmaith i'r Allor. Yn dangos, Anian ac Angenheid-rwydd Ymbaratoad Sacrafennaidd, Modd y derbyniom y Cymmun bendigedig yn Deilwng. Ym mha un y profir, Fod y Dychryniadau a'r Amheuon hynny ynghylch Bwyta ac Yfed yn anheilwng, a Bwyta ac Yfed Barnedigaeth i ni ein hunain wrth hyny, yn ddisail ac yn anwarantadwy. At yr hyn a 'chwanegir Gweddiau a Myfyrdodau rhagddarparol i Ymbaratoad Sacrafennaidd, yn ol yr hyn y mae Eglwys Loegr yn ei ofyn gan ei Chymmunwyr. A Gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Foses Williams, Baglawr Celfyddydau, wrth Arch y Parchedig Capten Lewes o'r Gernos.

Ac a brintwyd ac a werthir yn Llundain, Gan Joseph Downing ym Martholomew-Close ger llaw Smithfield, MDCCLXV.'

Llyfr bychan 18plyg ydyw, o 96 tudalen. Arwyddir ei 'Ragym-adrodd' â 'W. V.,' ac y mae yn ei ddiwedd dri thudalen a hanner o eirlyfr, yn cynnwys 'Ynghylch Cant o Eiriau Cymraeg Gorhynaidd ni arferir heddiw yn sathredig trwy Gymru, a'u Harwyddocâd.'

[Y mae y Gernos, lle yr oedd y Cadb. Lewes yn byw, ym mhlwyf Llangynllo, swydd Geredigion, ac nid yn neppell o Gastell Newydd Emlyn.]

4. ¶ 'Galwedigaeth ddifrifol i'r Crynwyr, i'w gwahawdd hwy i ddychwelyd i Grist'nogaeth. O gyfieithiad Theophilus Evans.'

Mwythig. 8plyg.

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; a rhif 1, d.f. 1681.

† Gwel rhif 1, d.f. 1687.

Y Parch. THEOPHILUS EVANS ydoedd bummed mab i Charles Evans, o Ben y Wenallt [ym mhlwyf Llandygwydd, ger llaw Trefhedyn Emlyn], yn sir Aberteifi, ac a anwyd yn 1694. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn 1718, ac yn offeiriad yn 1719. Ei guradiaeth gyntaf ydoedd Tir yr Abad, yn sir Frycheiniog, o'r lle y symmudodd i Lanlleonfel, yn yr un gymmydogaeth. Yn 1728, cafodd fywoliaeth fechan Llanynys gan esgob Ty Ddewi, yr hon, wedi ei gwasanaethu am ddeng mlynedd, a gyfnewidiodd am Langammarch. Yn 1739, cafodd St. Dewi yn Llanfaes [yn nhref Aberhonddu], yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Yn 1763, rhoes Langammarch i fyny i'w fab yng nghyfraith, Hugh Jones, tad Theophilus Jones, awdwr yr '*History of Breconshire*,' yr hwn, wedi hyny a'i cyfnewidiodd am Lywel—oll yn sir Frycheiniog. Ei wraig ydoedd Alis, merch Morgan Evan, Rhyd Galed, sir Forganwg, o'r hon y bu iddo bump o blant, tri mab a dwy ferch. Bu farw yn 1769, yn 75 oed.*

5. ¶ 'Godidowgrwydd, Rhinwedd, ac Effaith yr Efengyl.'

Mwythig. 8plyg.

6. ¶ 'Euchologia, neu yr Athrawiaeth o arferol Weddi. Gan Ioan Prideaux; Esgob Caerfrangon. O gyf. Rowland Vaughan, Esq.' 8plyg.

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad ac ail gyfieithiad.†

7. ¶ 'Y Gyfraith a roddwyd allan o Zion. A Gorchymynion Arglwydd y Bywyd, (Yr hwn ydyw yr Arglwydd or Nef) Gwedi i hysbysu i Ddynion Gan Walter Jenkins. A Sgrifenyd yn gynta yn yr jaith Saesoneg, yn y flwyddyn 1660. Ag yn awr gwedi i gyfieithu ir Gymraeg er lleshad i bawb er sydd yn che enych dyfod i adnabod ffordd a Gorchymynion Crist, y rhai sydd yn arwain i Fywyd trgwyddol, Gan Elisha Beadles.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston.'

8. ¶ 'Athenæ Britannicæ, or a critical History of the Oxford and Cambridge Writers and Writings, &c.'

London. 1715.

Cyhoeddwyd y gwaith hwn ar amrywiol amserau, o'r amseriad hwn hyd 1800.

1715-16.

1. ¶ 'Ymddangosiad dilys a disymmwth Crist i Farnu'r Byd.'

* Jones's *History of Breconshire*; Williams's *Eminent Welshmen*.

† Gwel rhif 1, d.f. 1607. [Dilys fod yma ryw gamsyniad. Nid oes hanes i Rowland Vaughan gyfieithu y gwaith hwn, os nid efe oedd cyfieithydd argraffiad 1607; ac os efe a gyfieithodd hwnw, nid yw hwn gyfieithiad newydd.]

Traethawd ydyw ar *Dad.* xxii. 20, o fwy na '350 o dudalenau. Y mae yn ei ddiwedd 'Ysbysiad' am gyhoeddi cyfansoddiad newydd o'r Salmau ar gân; yng nghyd â chynllun o hono yn cynnwys y Salm 1, fel hyn:—

'Y dŷn nid â dŷn dedwydd yw
i Gynghor Gwyr dirâs,
Ni thramwy'w Ffyrdd tra byddo byw
ni châr mou gwawdjaith gâs.

Yng Nghelloedd gwych ei galon jach
mae'n cuddio Geiriau Duw,
Ei Feistr Gwaith yw'r Beibl bach
ei gyfaill Gwely yw.

Saif hwn yn beraidd bren o hŷd
ar Lan y Nefol Nant:
Nid Dig y Diawl, nid Bâi y Byd
all chwythu hwn i bant.

Bydd Dail ei Broffes byth yn llawn,
tra gwyrf a gwyrdd eu Gwawr
A Ffrwyth Sancteiddrwydd fel y Grawn
fai'n pyngo'r llwyn i'r llawr.

Ond nid fel hwn, medd Duw, fydd Rhan
yr enwir drwg eu Hynt;
Fel main Us mân eu Gobaith Gwan
A chwelir gan y Gwynt.

Fe aiff gan Ddiawl i Uffern dân
y Dorf annuwiol drist
Pan gaffo'r Saint mewn Braint a Bri
Le ar Ddeheulaw Crist.

Can's Calon Duw a'i Serch y sy
ar Ffyrdd y Cyfion call
Ond Trawsfyrdd a Troseddwy'r hy
sy'n mynd i Lety'r Fall.'

Ni wyddys a gafwyd cefnogaeth i gyhoeddi y Salmau hyn; ac nis gellir anwesu nemawr ofid am yr amddifadrwydd o honynt, os yw yr uchod yn gynllun cywir o'r cyfansoddiad a'r llythyreniaeth. Gwell yw yr hen 'Archddiacon Meirionydd,' er ei waethed mewn rhai manau.

1716.

1. 'Llythyr at y Merthyron yngharchar. Gan St. Cyprian. O Gyfieithiad J. Morgan.'

Llundain. 12plyg.

2. 'Llythyr at y cyfryw o'r Byd, ac sydd raid eu deffroi a'u cyfarwyddo, er lleshad a Budd tragwyddol eu Heneidieu, tan y penau a ganlyn, sef, Meddwl ac Ystyried, i. Pa beth ydynt, a chyda hyny Eglurhad byrr o'r Credo, &c. Gan Garwr Eneidieu, &c. Wedi ei gyfieithu gan Iaco ab Dewi i'r Gymraeg.

Printiedig yn y Mwythig, gan John Rhydderch, ar draul David Lewis, Christmas Samuel, a William Davies. 1716.'

Mr. David Lewis ydoedd weinidog yr Ymneillduwyr yng Nghasnewydd ar Wysg, sir Fynwy. Dyma y lle cyntaf i ni gael enw JOHN RHYDDERCH fel argraffydd. Mab ydoedd ef i Rhydderch Dafydd ab Gruffydd, o'r Cwm Du, ger Castell Newydd yn Emlyn, yn sir Gaerfyrddin.* Yr oedd o deulu darllengar, ac amryw o honynt yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr a'r Henaduriaethwyr. Yn nechreu y canrif hwn nid oedd argraffydd llyfrau bychain Cymreig yn unman o fewn y Dywysogaeth; ac i'r Mwythig yn gyffredin y cymmerid pob peth o'r fath i'w argraffu, yr llyn a wnaeth fod cryn gyrchu yno gan fân ysgrifenydd, beirdd, a theithwyr llyfrau a chaneuon. Rhaid cofio mai crefyddwyr yr oes ydoedd ei llenorion. Yr oedd teulu Rhydderch yn y Cwm Du oll, neu gan mwyaf, yn aelodau ac yn weinidogion, pregethwyr, a chynghorwyr, rhai gyda'r Bedyddwyr, ac ereill gyda'r Henaduriaethwyr; ac yr oedd llawer hefyd o awen yn y teulu; ac felly yr oeddynt yn hynafiaethwyr a llyfrwyr; yn hoff o ddarllen, ac yn uwch mewn gwybodaeth gyffredinol na'u cymmydogion. Wrth ymwneyd felly â llyfrau, a'r Mwythig yn fath o ystorfa llyfrau Cymreig yn yr oes hono, daeth rhai o'r gymmydogaeth hon i dybio mai celfyddyd ragorol ydoedd argraffu llyfrau, ac i ymroddi i ddysgu y gelfyddyd; megys 'Nicholas Thomas, o blwyf Cennarth,' a John Rhydderch; ac ereill i ymgymmeryd â'r gorehwyl o werthu llyfrau, megys 'Lewis Thomas o blwyf Llangrannog.'† Y canlyniad fu i argraffwasg gael ei sefydlu yn eu cymmydogaeth, ac un Isaac Carter yn argraffydd; yr hwn a symmudodd yn fuan i Gaerfyrddin, lle y ceir Nicholas Thomas yn argraffydd, wedi bod ychydig amser dan enw Isaac Carter. Y mae yn dra thebyg mai yr un wasg oedd dan enw y ddau, canys y mae argraffwaith y llyfrau a argraffwyd ganddynt yn profi hyny; a thebyg iawn yw, bod gan N. Thomas rywbeth i'w wneyd â'r wasg hono, pan ydoedd yn Nhrefhedyn, gan ei fod ef yn byw yng Nghenarth, ger llaw.

Y mae enw un John Harries, W. Davies, a Christmas Samuel, yn gyssylltedig fel cyhoeddwyr llyfrau. Daeth J. Harries yn weinidog cynnorthwyol i Davies, i Gapel Isaac, yn 1724, a bu farw Ionawr 3, 1748; a dilynwyd yntau gan Thomas Williams, awdwr yr 'Oes-Lyfr.'

* *Yr Adolygydd*, 1852. [Ym mhlwyf Bettws Ieuan, yng Ngheredigion, y mae y Cwm Du, er nad yw neppell o dref Castell Newydd, yr hon y gorwedd y rhan fwyaf o honi o fewn terfynau swydd Gaerfyrddin. Gweler dan rif 1, d.f. 1719.]

† Gwel rhif 7, d.f. 1714.

3. 'Gweledigaeth David Evans, o'r Plâs Du, yn sir Drefaldwyn.'

Mwythig. 8plyg.

Yr Evansiaid oeddynt unwaith yn berchenogion y Plas Du, neu y Plasau Duon. Yr Evan cyntaf oedd Evan ab Hywel, yna ei fab yntau yn Lewis Evans, a'i blant yntau yn Morgan, Evan, Edward, ac Einion Evans, gan adael yr *ab* allan fel o'r blaen y gwneid yn y teulu hyn hyd ddeuddeg neu dair ar ddeg o genedlaethau—hyd Einion ab Seissyllt, yr hwn a briododd Nest ferch Madog ab Cadwgan, o Nannau, Arglwydd Meirionydd.

4. 'Drych y Prif Oesoedd, Yn ddwy Ran. Gan Theophilus Evans.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch tros yr Awdwr 1716.'

[Dyma yr argraffiad cyntaf o 'Ddrych y Prif Oesoedd,' ac y mae yn llawer anghyflawnach na'r ail argraffiad, yr hwn oedd yr olaf a gyhoeddwyd gan yr awdwr hylithr ei hun. Nid yw enw y gwaith yn gyflawn yma; ond gan nad oes cyfargraff o'r cyn-argraffiad o fewn fy nghyrhaedd, nis gallaf gyflawnu y diffyg: ond tebygol mai cyffelyb ydoedd i enw yr ail argraffiad, yr hwn a geir yn llawn d.f. 1740, rhif 4.]

5. 'Y Cymmunnwr ystyriol, neu Eglurhâd Athrawiaeth Sacrament Swpper yr Arglwydd, &c. Gan William Fleetwood, D.D. Esgob Llanelwy, yn awr Esgob Eli.'

Llundain. 12plyg.

Yr oedd y Dr. Fleetwood yn esgob Llanelwy o'r fl. 1708 i'r fl. 1714, ar ol y Dr. Beveridge, ac o flaen y Dr. J. Wynne.

6. 'Pregeth a bregethwyd yn Nghapel Tŷ Ely, yn Holburn, yn Llundain, ar Ddydd Mercher, Mehefin y 7, 1716, Dydd y Diolchgarwch cyhoeddus am fendŷth Duw ar Gynghorion ac Arfau ei Fawrhydi yn llonyddu y Gwrthryfel annaturiol diweddar. O gyfieithiad Iago ab Dewi.'

Mwythig. 12plyg.

Y 'Gwrthryfel annaturiol' hwnw oedd yr un a godwyd yn Scotland ar ddyfodiad Sior I. i forsedd Lloegr, gan y rhai a fynent roddi wŷr i Siarl II. yn frenin, yn lle ei gefnder Sior I.

7. 'Ufudd-dod Eglwys Loegr i'r Brenin George, &c.'

Llundain. 12plyg.

[Llyfryn arall ar yr un pwnc ydyw hwn yma.]

8. 'Llawlyfr y Gwir Gristion.'

Mwythig. 12plyg.

9. 'Gwirionedd: y Grefydd Grist'nogol. O Waith Hugo Grotius. A gyfjeithwyd gan Edward Samuel Person Bettws Gwerfil Goch.

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rhydderch yn y Flwyddyn, 1716.' [16plyg, neu 8plyg bychan: 16+204=220 tudalen.]

Rhoddwyd peth o hanes y cyfieithydd o'r blaen.* Y mae yn briodol yma roddi peth crybwyllion am yr awdwr

HUGO GROTIUS a anwyd yn Delfft, yn Holand, Ebrill 10, 1583. Cafodd ei ddysgeidiaeth ym Mhrifysgol Leiden; ac wedi gorphen ei dymmor yno, efe a gymmerodd le fel ysgrifenydd llysgenadaeth i Ffrainc, a chyhoeddodd amrai bethau. Wedi myned yn ei ol o'r daith hòno, efe a wnaed yn gyfreithiwr. Yn 1615 efe a anfonwyd i Loegr, i ymdrechu heddychu rhyw ymrafael oedd rhwng Holand a'r wlad hon o berthynas i'r hawl o bysgota ym moroedd Greenland, pryd y derbyniwyd ef yn groesawgar gan y Brenin Iago I. Wedi myned yn ol efe a ymddyrysodd yn nherfysgiadau yr amseroedd rhwng y pleidiau duwinyddol a gwladyddol—y Calfiniaid a'r Gwrthfynegwyr (Arminiaid) oedd yn ymranu yn y wlad hòno, yr hyn a fu yn fuddugoliaeth i'r cyntaf ar yr olaf; ac yn y carchar yr ysgrifennodd y Traethawd hwn yn Lladin.† Rhod ail argraffiad o hono yn Gymraeg yn 18— o dan olygiad y Parch. David Rogers, gweinidog Wesleyaidd; ac un arall yn ddiweddar [1854] gan Mr. Spurrell, Caerfyrddin, o dan olygiad medrus y Parch. D. S. Evans.

10. 'Cywydd i'r Merthyron. Llundain.' 12plyg.

[Hwn yw y darn argraffyddol goreu a chywiraf a welais i o waith Sion Rhydderch garbwl; er bod hwn yn ddigon pell ar ol argraffwaith cyffredin yr oes. Y mae Dafydd Rogers wedi gwneyd amryw gyfnewidiadau yn yr argraffiad a gyhoeddwyd ganddo ef o'r cyfieithiad godidog hwn. Nid oes dyddiad wrth argraffiad Rogers.]

11. ¶ 'Myfyrdod Comfforddus i Gristionogion.'

Llundain. 12plyg.

12. 'Ufudd-dod i Lywodraeth a Chariadoldeb, wedi eu gosod allan mewn pregeth a adroddwyd yn Eglwys St. Paul, yng Ngardd y Myneich, ar Ddydd Gwyl Dewi, sef y dydd cyntaf o Fawrth, 1715.'

Llundain. 8plyg.

Cyhoeddwyd y bregeth uchod yn y ddwy iaith, gan yr un, ac ar yr un pryd.

['Gardd y Myneich' yw *Covent Garden*, yn Llundain. Mae yn debyg mai o flaen Ysgol Rad y Cymry y traddodwyd y bregeth.]

13. 'Pregeth ar Act. xxi. 30, 31. O Gyfieithiad R. Llwyd.' Mwythig. 12plyg.

14. ¶ 'Defosiwnau Priod, o gyfieithiad W. L. M.D.

* Gwel rhif 6, d.f. 1714.

† *Penny Cyclopædia*; Jones's *Christian Biographical Dictionary*.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros Dafydd Lloyd.' 32plyg.

Y mae rhagymadrodd y llyfr bychan hwn gan 'John Owen,' yr hwn oedd wr o sir Fon,* yr hwn a briodola ei awduriaeth i un Dr. Valantine. Pwy ydoedd y Dr. Valantine? Ai onid Thomas Valantine, B.D., o Chalfont Saint Giles, yn sir Buckingham, yr hwn y ceir ei enw yn un o 121 o dduwinyddion a enwyd i fod yn Gymmanfa o Dduwinyddion, cynnwysedig o Eglwyswyr ac Anghydfurfwyr i gyfarfod yn Westminster, i ymdrafod ar ryw gynllun i'w roddi ger bron y Brenin Siarl I. a'r Senedd, er cymmodi pleidiau crefyddol yr oes hono? Yr oedd yn bregethwr poblogaidd iawn. Attaliwyd ef rhag gweinidogaethu gan un Syr John Lamb, Deon yr Archau, o blegid gwrthod darllen Llyfr y Chwaryddiaethau.† Y mae cyfeiriad at y llyfr hwn o'r blaen ddwy waith, yn ol Mr. Moses Williams.‡

15. 'Ffordd y Cristion i'r Nefoedd, Neu pa beth sydd raid iddo ef wneuthur i fod yn Gadwedig: Gwedi i droi 'n Gymraeg, allan o'r trydydd Argraphiad yn Saesonaeg. Gan R. Llwyd, Eglwyswr Llangedwyn.

Argraphwyd yn y Mwythig.'

16. 'Gweddi yr Arglwydd wedi ei hegluro mewn amryw Ymadroddion Byrion. Gan G. Griffith, D.D. Esgob Llanelwy.'

Ail argraffiad.§ Rhoddwyd argraffiad o'r unrhyw hefyd yn y canrif hwn, gan Gymdeithas o Eglwyswyr yn Esgobaeth Bangor.

17. 'Athenæ Britannicæ. By Myles Davies. 1716.'

Un o Dre'r Abad [ym mhlwyf Whitford, ger Treffynnon] oedd MYLES DAVIES, ac o deulu y Dafisiaid o Lanerch, ger Dinbych. Cynghorwr yn y gyfraith ydoedd; ac yn byw fwyaf yn Llundain. Yr oedd yn elynol iawn i Ariaeth, Sosiniaeth, Pabyddiaeth, &c., ac yn nodedig o selog dros Sior I. pan y daeth i gymmeryd meddiant o orsedd y deyrnas hon. Bu farw mewn siomedigaeth a thlodi Tach. 24, 1723, yn 48 oed, a chladdwyd ef yn Nghapel y Tŵr, Llundain.||

18. 'A true (though a short) account of the antient Britons, in respect of their descent, qualities, settlements, country, language, learning, and religion; with the effigies of Llewelyn ab Gruffydd, the last Prince of Wales of the British Blood. By J. L. a Cambro Briton.'

London, 1716, 4to.

* A. Llwyd's *History of the Island of Anglesea*, p. 392.

† Palmer's *Calamy's Nonconformist Memorials*, vol. i. p. 297.

‡ Gwel rhif 3, d.f 1655; a rhif 1, d.f. 1684.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1685.

|| Pennant's *History of Whitford and Llanasa*, p. 115.

19. 'Memoir of Matth. Henry. By W. Tong.' 8vo.

Cyhoeddwyd argraffiad arall 12plyg yr un amser.

20. 'A Display of Heraldry, of most particular Coat Armours, now at use in the six Counties of North Wales, &c. Collected out several Authentic Authors by John Davies of Llan-Sillin Parish in Denbigh Shire, Antiquary.

Salop. Printed by John Roderick for the Author, in the year 1716.*

Y John Roderick hwn ydoedd *John Rhydderch*, yr argraffydd a'r Almanaciwr Cymreig.† Arferai alw ei hun yn *John Rogers* hefyd.

JOHN DAVIES ydoedd o'r Rhiwlas, Llansilin, yn sir Ddinbych. Y mae dwy gyfrol unplyg a dwy gyfrol 4plyg o Achau Cymreig ganddo yn y Gywreinfia Brydeinig, ym mhlith ysgriflyfrau a elwir *Additional MSS.* rh. 9864-7. Prynwyd hwy gan y diweddar Thomas Pennant, Ysw., y teithydd, gan weinyddes yr hen Ddafydd Jones, yr argraffydd, Trefriw. Oddi wrth yr ysgrifau hyny y cafodd Syr R. S. Meyrick rai gwelliadau wrth olygu ei *Heraldic Visitation*. Y mae enw John Davies yn gyssylltedig ag un William Hughes, fel yn tystio i gywirdeb achau pob teulu ag y mae eu hachau wedi eu cofrestru gan Lewys Dwnn, yn siroedd Mon, Caernarfon, a Dinbych. Darfu i lyfr o achau gael ei gyhoeddi allan o weddillion ysgrifeniadau John Davies, gan John Reynolds, mab Jacob Reynolds, o Groesoswallt, a'r hwn oedd yn nai fab chwaer hefyd i'r hen achwr.

[Y mae yn lled ddilys genyf mai hwn yw y gwaith a gam-gofnodir d.f. 1616, rhif 1. Yn y flwyddyn hon (1716) yr ymddangosodd 'Heraldry' John Davies gyntaf.]

21. ¶ 'Catecism; Hynny yw, Athrawiaeth i'w dysgu gan bob Dyn, cyn ei ddwyn i'w Gonffirmio gan yr Esgob.' Llundain.

Catecism yr Eglwys, gyda rhagymadrodd gan 'Moses Williams,' 'At Blwyfolion Llan-Wenog yng Ngheredigion,' lle y mae yn galw ei hun eu 'Periglor,' ac a gyhoeddodd yn Llundain, pan oedd yno yn golygu yr argraffiad o'r Beibl a ddaeth allan yn 1717-18.‡

22. 'Aluredi Beverlacensis Annales sive Historia de Gestis Regum Britanniae, Libris ix. E Codice pervetusto, calamo exarato, in Bibliotheca Viri clarissimi Thomæ Rawlinsoni, Armigeri, Descripsit ediditque Tho. Hearnus, A.M. Oxoniensis, Qui & Præfatione, Notis, atque Indice illustravit.

Oxonii, E Theatro Sheldoniano, MDCCXVI. Sumptibus Editoris.'

[ALURED (ALRED neu ALFFRED) o Beverley, ydoedd hanesydd Seisonig, yn byw yn y 12fed ganrif. Dywedir ei eni yn Beverley, yn swydd Gaerefrog; ac

* Meyrick's *Dwnn's Heraldry*, *Introd.* p. xxx.

† Gwel rhif 2, d.f. 1716.

‡ *Yr Haul* am Chwefror, 1858.

iddo dderbyn ei ddysg ym Mhrifysgol Caergrawnt, lle yr enwogodd ei hun yn fawr mewn duwinyddiaeth, yn gystal ag mewn gwahanol gangenau o ddysgeidiaeth gyffredin. Bernir i'w farwolaeth ddygwydd o gylch 1129, y flwyddyn y mae ei Hanes yn terfynu. Y mae yn dechreu ei hanes gyda Brutus, yr un modd â Gruffydd ab Arthur, ac yn ei derfynu yn y 29fed flwyddyn o deyrnasiad Henri I, brenin Lloegr. Ni chynnwys y gwaith ond ychydig, os dim, na cheir yn ysgrifeniadau Gr. ab Arthur, Beda, Fflorens o Gaerangon, Henri o Huntingdon, a Simeon o Durham; ond oddi ar y blaenaf a'r olaf y mae wedi benthyca yn benaf. Nid oes dim cyssylltiad neillduol rhwng ei waith a Chymru, a phrin y mae yn haeddu ei gofrestru yn y gwaith hwn.

Y Golygydd ydoedd THOMAS HEARN neu HEARNE, yr hynafiaethydd diffin a dysgedig, yr hwn a gyhoeddodd luaws mawr o hen awduron cyffelyb i Alured, a gweithiau yn dwyn cyssylltiad â hynafiaethau y deyrnas. Ganwyd ef yn White Wetham, yn swydd Beres, yn 1678; derbyniodd ei ddysg yn ysgol rydd Bray, ac yn Neuadd Edmunt, yn Rhydychain; a bu farw ar y 10fed o Fehefin, 1735.]

1717.

1. 'Mynegai'r Bibl Cyssegr-lân, &c. Gan William Nicholas, &c. O gyfieithiad Samuel Williams.'

Llundain. 8plyg.

Samuel Williams ydoedd berson Llangynllo [ger Castell Newydd Emlyn], yn sir Aberteifi, a thad Moses Williams, golygydd y Beibl.* Yr oedd y Mynegai yn cael ei argraffu i'w gyd-rwymo â'r Beibl oedd yn awr yn cael ei gyhoeddi, ond bod rhyw nifer o honynt yn cael eu rhoddi allan wrthyn eu hunain hefyd. Dywedir uchod 'gan William Nicholas;† ond dywedir mewn lle arall mai gwaith y Dr. William Lloyd, esgob Llanelwy, ydoedd y Mynegai.

2. 'Pregeth a Bregethwyd yn Nghapel Ty Ely, &c. O Gyfieithiad un o ffyddlon ddeiliaid y Brenin George.'

Mwythig. 8plyg.

Gall fod hon yn ail argraffiad ac ail gyfieithiad.‡ Capel Ty Ely ydoedd gapel eglwysig teuluaidd perthynol i'r ty yn yr hwn y cartrefa esgobion Ely tra y byddant yn Llundain, fel y mae yn berthynol i bob esgobaeth, at wasanaeth' eu hesgobion, ac a elwir wrth enw eu hesgobaethau, megys *Ely House, Bangor House, &c.* = Ty Ely, Ty Bangor.§

3. 'Meddylieu neillduol ar Grefydd. Dosbarthedig mywn Devddeg Pwngc; a Bwriadeu Gweithadwy Ffuriedig arnynt. Gan y Gwir Anrhydeddus Dâd yn Nuw Gwilim Beveridge, D.D. gynt Arglwydd Esgob Llan Elwy. O Gyfieithiad Jago ab Dewi.

Printiedig yn Llundain, ac ar werth yno gan Wiliam Mears dan Lun yr Oen ger Llaw Templ-Bar. MDCCXVII.' 12plyg.

* [Yr oedd Samuel Williams yn reithor Llangynllo ac yn ebrwyad neu fier Llandyfriog.]

† ['Gan William Nichols' a ddywedir yng *Nghofrestr* Moses Williams: gweler rh. 129.]

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1716.

§ [Nid oes, hyd yr wyf yn gwybod, un ty yn Llundain y pryd hwn yn perthyn i un esgobaeth ond esgobaeth Llundain ei hun, ac archesgobaeth Caergaint.]

Y mae iddo ragymadrodd cyflwyniadol '*I'r Urddasol a'r Anrhydeddus Harri Llwyd o Lan Llawddog yn Sir Gaer Fyrddin Ysgwier a Sersiant o'r Gyfraith,*' &c., o waith '*Moses Williams;*' ac wedi ei arwyddo a'i amseru ganddo—'*Llundain, y Seithfed o Idiau Rhagfyr, 1716.*' Y mae yn dilyn hynny wyth o englynion '*Mawl i'r Llyfr, yr Awdwr, a'r Cyfieithydd,*' gan '*Samuel Williams, Person Llan Gynllo yng 'Winionydd;*' pedwar o '*Englynion o Folawd i'r Llyfr*' gan '*Theophilus Evans;*' a chywydd '*Clod haeddedigol i'r Llyfr hwn*' gan '*Jenkin Thomas;*' ac y mae yn ei ddiwedd y '*Cywydd i'r Jesu, o Gynhildeb Wynneb yn wrthwynneb,*' gan '*Jeuau Gruffydd o Lan Hiangel Tredeyrn.*' Y mae y geiriau Italaidd yn yr wyneb-ddalen hon, yn argraffedig â llythyrenau cochion yn y gwreiddiol.

Diau mai y gwaith rhagorol hwnw, o'r enw uchod, o waith y Dr. William Beveridge, esgob Llanelwy, ydoedd.

IEUAN AB GRUFFYDD* oedd yn byw yn y Tŵr Gwyn, ym mhlwyf Troed yr Aur, yn sir Aberteifi, ac yn gymmydog i Iago ab Dewi. Yr oedd yn un o amryw brydyddion a hynodent yr oes hono yng Ngheredigion. Y mae 'Carol Haf' o'i waith ym 'Mlodau Dyfed.' Y mae marwnad iddo yn argraffedig o waith Jenkin Thomas, o'r Cwm Du, ger Castell Newydd yn Emlyn, yr hwn oedd frawd i daid John Rhydderch yr argraffydd, yr hwn a ddywed—

'Oer y pwne oedd rhoi pencerdd
 Dan gwys ddwys ddofn, colofn cerdd :
 IFAN GRUFFYDD fwyn graffus,
 Dyn ar air a dynai'r us ;
 E brofwyd hwn yn Brif-fardd,
 Dir ei fod yn Gadair Fardd :
 Fe wnai Gerdd yn bencerddiawl,
 Cysson oedd ei dôn ddidawl ;
 Tebyg oedd ei gyhoedd gân,
 Lwys ergyd, i lais organ ;
 Fe eiliai gân o fawl gwych,
 Ar dôn fwyn i'r da'n fynych :
 Ail oedd ei hen awen o,
 A'i wybodaeth i Bedo.
 Gwnai gynnwlwaith perffaith, pur,
 A didwyll, ail i Dudur.
 Gosodai, fel gwe sidan,
 Bleithiadau'n glymiadau glân ;
 'R oedd yn ei gân ruddyn gwych,
 Y tri enaid tirionwych '

Yr oedd hefyd fardd arall o'r enw Ieuan Gruffydd, yn byw tua'r un amser yng Nghefn y Maes, ym Meirionydd; ac y mae perygl weithiau gymmeryd y naill yn lle y llall..†

* [*Ifan Gruffydd* y gelwid ef yn ei ddydd, ac y gelwir ef ar lafar gwlad hyd y dydd heddyw. Y mae y ty y preswyliai ynddo yn aros eto, ac yn adnabyddus fel y cyfryw yn y gymmydogaeth.]

† *Yr Adolygydd*, 1852, t. 54, 61; *Llythyr* y Parch. D. S. Evans. [Yr wyf, ar ol manylach ystyriaeth, yn tueddu i dybied mai yr un oedd y ddau Ifan

4. 'Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig, gan mwyaf a gyfansoddwyd yn yr Iaith Gymraeg, neu a Gyfieithwyd iddi hyd y Flwyddyn 1717.

Printiedig yn Llundain, gan Brintwyr y Brenin, 1717.'

Yr oedd Mr. Moses Williams yn cael argraffu ei fân lyfrau Cymreig at wasanaeth crefyddol, gan Joseph Downing, argraffydd y 'Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol,' gan ei fod o bosibl yn cael cynnorthwy y gymdeithas hono i'w dwyn allan; ond y 'Gofrestr' hon, gan nad ydoedd o natur crefyddol, h.y., heb fod yn gynnorthwy i ddefosiynau nac ymarferiad crefyddol, eithr dernyn llenyddol o gywreinrwydd a difyrwch, a argraffwyd ar ei draul ei hun gan 'Brintwyr y Brenin,' y rhai oeddynt yn rhwym o gael argraffu y Beiblau, o blegid eu breintlythyr i'r dyben hwnw, er bod hynny ar draul y 'Gymdeithas' hefyd.

[Adargraffwyd cyfran o'r 'Gofrestr' hon yn y *Gwyllydydd* am 1832, t. 87, 119, 217; a gresyn na buasid yn cyhoeddi y cyfan o honi. Dyma seilwaith 'Llyfryddiaeth' Gymreig; a buwyd am agos i gant a hanner o flynyddoedd heb wneuthur un cais i chwaneu ati a'i pherffeithio. Gweler y Rhagymadrodd i'r gwaith hwn. Nid yw enw yr awdwr, MOSES WILLIAMS, ar ddalen yr enw; ond ceir ef ar ddiwedd y cyflwyniad i 'Richard Mostyn, o Benbedw;' ac hefyd ar ddiwedd yr anerech byr 'Ar y Cymry,' yr hwn a ddyddir yn 'Llundain, y 7fed o Fehefin, 1717.']

5. 'Catechism o'r Scrythur, Yn Nhrefn Gwyr y Gymmanfa: A Scrifenwyd yn Saisoneg gan Fathew Henry Gweinidog yr Efengyl, Ac yn Gymraeg i ddangos i'r Cymro injaith (1) Y petheu y dylei efe eu credu. (2) Y dyledswydeu a ddylei efe ei cyflawni tu âg at Dduw a Dynion. (3) Y cyfryngeu neu'r Moddion, a ddylei efe ei harfer. (4) Y petheu a ddylei efe eu gofyn gan Dduw mewn Gweddi, a hynny allan o Air Cyssegrlan Duw ei hun: O brintiad Cyntaf yr awdwr gan Iaco ab Dewi. A'i Brintio yn y Mwythig gan John Rhydderch, i David Johnes, Christmas Samuel, a William Davies. 1717.'

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad, neu argraffiad a chyfieithiad newydd.*

Gruffydd hyn, ac mai rhyw gamsyniad a barodd ei gyssylltu â Meirionydd. Y mae dau le o'r enw *Cefn y Maes* (a wahaniaethir fel y Mawr a'r Bach) yn Nyffryn Troed yr Aur (Tredëyrn), Ceredigion; a hwyrach bod y bardd, yn ystod rhyw ran o'i oes, wedi bod yn preswyllo yn un o honynt. Yr wyf yn gwybod i mi weled yn rhywle, ond nid wyf yn sicr pa le, grybwylliad am Ifan Gruffydd, o Gefn y Maes, ym Meirionydd, ym mhlith beirdd y cyfnod hwn; ond y mae yn debyg ddigon mai gwall rhyw ysgrifenydd ydoedd hyn; a gallasai yr amryfusedd ddygwydd trwy waith rhywun yn gweled enw 'Ifan Gruffydd o Gefn y Maes,' ac heb wybod fod lle neu leoedd o'r enw yng Ngheredigion, ac yn gydnabyddus â lle o'r enw ym Meirionydd, iddo drosi annedd y bardd i'r tu gogledd i'r afon Dyfi.]

* Gwel rhif 2, d.f. 1708.

Yma y ceir enwau y cyhoeddwy fel cyd-argraffwyr â Rhydderch, pryd, hyd y gellir gwybod yn bresennol, mai Rhydderch yn unig oedd yr argraffydd,* ac mai y lleill oedd yn anturio y draul, os nad oedd yr argraffydd yn cyd-gymmeryd y draul, trwy gymmeryd nifer o gopiau i'w ofal ei hun, i'w gwerthu o'r Mwythig fel ystorfa lyfrau, neu 'Paternoster Row' y Cymry yn y dyddiau hyny. Y mae yma un yn cael ei enwi yn chwangel fel cyhoeddydd, at y rhai a enwyd o'r blaen,† sef David Jones neu Johnes, am yr hwn yr wyf hyd yn hyn wedi methu cael boddlonrwydd, na bod un c'r enw hwn ym mhlith yr Ymneillduwyr yn yr hen amseroedd, oddi eithr Mr. David Jones a drowyd o eglwys Llandyssilio Gogo,‡ ac yr oedd ef yn rhy gynnar i fod â rhan yn y gorchwyl hwn. Ond gall mai dyn anghyhoedd crefyddol ydoedd, ac mai rhyw werthwr llyfrau teithiol yn y dyddiau hyny ydoedd.

Y mae yn ei flaenu anerchiad rhagymadroddol o chwe' thudalen, 'At fugeiliaid ac Athrawon, Penteuuloedd ac Jeuenetid Cymru:' ac wedi ei arwyddo

Caerfyrddin Meh.
24. 1716.'

William Evans.'

Ac y mae olysgrifen o gefnogiad wedi ei arwyddo gan 'Thomas Wallters. Thomas Parot. James Lewis. David Johnes. Thomas Maurice. Jenkin Jones. David Edward. Philip Pugh. David Jenkin. Thomas Beynon. James Davies.' Gweinidogion Ymneillduol yr oes hõno.

Er bod hanes awdwr enwog y llyfr yn dra adnabyddus, byddai yn wallus peidio â rhoddi braslun o hono yn gyssylltedig â'r llyfr cyntaf hwn o'i eiddo a gyhoeddwyd yn Gymraeg, ac mor gynnar fel y gallasai y cyhoeddwyr fod wedi ymgynghori ag ef am eu bwriad canmoladwy. Gan hyny—

Y Parch. MATTHEW HENRY a anwyd yn y Broad 'Oak (=Y Dderwen Lydan) yr hwn sy ffermdy yn nhref ddegwm Isgoed, yn sir Fflint, Hydref 18, 1662. Yr oedd ei dad, Philip Henry, yn un o'r 2000 offeiriaid a adawsant, neu a gymmerasant eu troi o Eglwys Loegr yn 1662, yn hytrach nag ufuddhau i 'Weithred yr Unffurfiad.' Wedi cael y rhan fwyaf o'i ddysgeidiaeth gyda Mr. Doolittle, yn Llundain, yr hwn oedd yntau hefyd yn un o'r gweinidogion anghydfurfiol,§ efe yn 1685, pan yn 23 oed, a ddechreuodd astudio y gyfraith yn Gray's Inn, Llundain; ond rhoddodd heibio y gyfraith yn fuan, a dechreuodd bregethu, ac wedi ei ordeinio yn 1687, yn

* [Nid oes yma mo'r dyryswech lleiaf: Sion Rhydderch oedd yr argraffydd, ac i neu dros y gwŷr a enwir yr oedd yn gwneuthur y gwaith. _ Gellir meddwl na sylwodd yr awdwr ar y geiryn 'i'.]

† Gwel rhif 2, d.f. 1716.

‡ [Llandyssilio Gogo sy blwyf yng Ngheredigion, nid neppell o'r Cai Newydd; ond dywed yr awdwr mewn man arall (d.f. 1689-90) mai o 'Eglwys Llandyssilio, yn sir Gaerfyrddin,' yr hon sydd yng nghymydogaeith Arberth, y cafodd Dafydd Jones ei ddifeddiannu.]

§ Gwel rhif 1, d.f. 1687.

25 oed, efe a sefydlodd fel gweinidog ymneillduedig Presbyteriaidd yng Nghaerlleon. Bu yno hyd 1712, sef 25 o flynyddoedd, pryd y symmudodd i Hackney, i weinidogaethu yno. Bu farw gan ddyrnod o'r parllys mud, pan ar ei daith o Gaerlleon i Lundain, Meh. 22, 1714, yn 52 oed. Y gwaith y mae yn cael ei adnabod oreu wrtho yw ei 'Esboniad ar yr Hen Destament a'r Newydd,' yr hwn a ddaeth allan gyntaf mewn 5 cyfrol unplyg; a'r hwn a geir yn bresennol yn Seisonaeg mewn amryw ffurfiau a phrisiau, ac sydd hefyd yn Gymraeg er ys blynyddau bellach. Nid oedd yr awdwr wedi gorphen yr Esboniad pan fu farw; ond cwblhawyd ef o'r *Rhufeiniad* i'r *Dadguddiad* gan wahanol ddwyllaw. Ysgrifennodd ef amrai draethodau a phregethau, heb law yr Esboniad, y rhai sy mor rhagorol a'i esboniad, er nad ydynt yn cael eu darllen gymmaint; a chyhoeddwyd rhai darnau yn Gymraeg, heb law y 'Catechism' hwn.*

Dywedir fod y Catecism hwn yn 'nhrefn gwŷr y Gymmanfa.' Yr ydys yn cael yr ymadrodd hwn yn fynych yn gyssylltedig â llyfrau yn ymdrin â phynciau crefydd mewn ffurf o 'Gorff o Dduwinyddiaeth gan Ymneillduwyr, a'r Eglwyswyr yn ysgrifenu ar bynciau crefydd mewn trefn, yn y ffurf o Esboniad ar Gatecism yr Eglwys. Gwŷr y Gymmanfa oeddynt 121 o dduwinyddion a gyfarfuant yn Westminster, mewn canlyniad i weithred seneddol a gymmerodd le yn 1643, i geisio cytuno ar bynciau athrawiaethol a dysgyblaethol eglwysig yn amser yr anghydfod ihwng yr Eglwyswyr a'r Puritaniaid, er sefydlu Presbyteriaeth yn grefydd sefydledig y wladwriaeth yn lle Esgobyddiaeth. Ym mhlith pethau ereill, penderfynasant ar osod eu tybiau athrawiaethol allan mewn ffurf o Gatecismau; y Catecism mwyaf, a thalfyriod o hono o dan yr enw 'Y Catecism byraf,' y rhai, y ceir gweled, a gyloeddwyd yn Gymraeg amrywiol weithiau cyn i'r Presbyteriaid ymlygru oddi wrth ffydd eu hynafiaid, a syrthio ar draws y cwbl i'r hyn ag yr oedd 'gwŷr y gymmanfa' yn cyfansoddi eu Catecism fel rhagfur yn eu herbyn. Ond y mae Eglwys Sefydledig Scotland yn eu hystyried eto fel safon eu hawdurdod, neu grynodedb o'u ffydd.†

6. 'The Rise and Progress of the Most Honourable and Loyal Society of Ancient Britons, established in Honour to Her Royal Highness's Birth-Day, and the Principality of Wales on St. David's Day, the First of March, 1714-5. By Sir Thomas Jones, Kt. Treasurer and Secretary to the said Society. In a Letter to his Countreymen of the Principality of Wales.

London, Printed by W. Wilkins, for W. Taylor, at the Ship in Paternoster-Row. 1717.'

7. 'A Survey of the Cathedral Church of St. David's, and the Edifices belonging to it, as they stood in the year 1715. To which

* *Penny Cyclopædia*; Jones's *Christ. Biog. Dict.*

† Neal's *History of the Puritans*, vol. iii. p. 43-241.

are added, Some Memoirs relating thereto and the country adjacent, from a MS. wrote about the latter end of Queen Elizabeth's reign. Together, with an Account of the Arch-bishops, Bishops, Precentors, Chancellors, Treasurers, and Arch-Deacons of the See of St. David's. Collected by Browne Willis, Esq; Illustrated with Draughts, and adapted to the said Historical Description.

London: Printed for R. Gosling, at the Mitre and Crown against St. Dunstan's Church in Fleet-Street. 1717.'

8. 'The Goodness and severity of God, in his dispensations, with respect unto the Ancient Britains, displayed in a Sermon preached to an auditory of Protestant Dissenters at Haberdasher's hall in London on March 1. 1716, being the anniversary of the birth of her royal Highness the Princess of Wales, and the festival of St. David. By Jer. Owen.'

London. 1717.

9. 'The Nature and Duty of a Public Spirit. A Sermon Preach'd at St. James's Westminster, on St. David's Day March 1. 1716. Before the Honourable the Stewards and Others of the Society of Antient Britons, Establish'd in Honour of Her Royal Highness's Birth-Day and the Principality of Wales. By the Right Reverend Father in God Benjamin, Lord Bishop of Bangor.

London: Printed for James Knapton, at the Crown: and Timothy Childe, at the White-Hart, in St. Paul's Church Yard, 1717. Price Four Pence.'

Yr esgob hwn ydoedd y Dr. Benjamin Hoadley. Maint y llyfryn yw 32 tudalen 8plyg.

[Ganed y Dr. BENJAMIN HOADLEY (neu HOADLY) yn Westerham, yng Nghaint, yn fl. 1676; a bu farw yn 1761. Yn fuan wedi esgyniad Sior I. i'r orsedd, gwnaed ef yn Esgob Bangor; yn 1721 symmudwyd ef i Henffordd; yn 1723 i Salsbri; ac yn 1734 dyrchafwyd ef i esgobaeth Caerwyt, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Parodd ei syniadau ar bynciau eglwysig lawer o ddadleu ac ysgri-fenu yn yr oes hono; a chyhuddid ef gan lawer o wneuthur ei oreu i ddadsyl-faenu y sefydliad yr oedd yn esgob ynddo. Cyrhaeddodd 'Dadl Bangor' fwy o enwogrwydd na nemawr o un ddadl arall o fewn amgacrau yr Eglwys. Tarddodd y ddadl hygof hono allan o bregeth ar Ioan xviii. 36. ('Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn'), yr hon a draddodwyd ganddo, pan oedd yn esgob Bangor, o flaen y Brenin Sior I; a mawr fu yr ymddadleu a ganlynodd.]

1718.

1. 'Beibl Cyssegrian, &c. Printiedig yn Llundain, gan Brintwyr y Brenin Ioan Basged, Asseins Thomas Newcwm, a Harri Hils, a fuant feirw MDCCXVIII.' 8plyg.

Hyd yma, nid oedd un gymdeithas i argraffu yr Ysgrythyrau—

dim ond ymdrechïadau personol; ond erbyn hyn yr oedd 'Cymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol' wedi ei ffurfio, i'r dyben o argraffu Beiblau a Llyfrau Gweddi Gyffredin, ac weithiau draethodau a llyfrau defosiynol ereill, i ddeiliaid Prydain Fawr, eithr gan mwyaf yn gartrefol. Y Beibl uchod oedd y cyntaf a argraffwyd gan y Gymdeithas yn Gymraeg. Y mae yn cael i alw yn gyffredin, 'Beibl Moses Williams,' oddi wrth y Parch. Moses Williams, Ficar Defynog, yn sir Frycheiniog, neu y pryd hyn Ficar Llawenog, yn sir Aberteifi, am yr hwn y crybwyllwyd amryw weithiau yn barod, am mai efe oedd yn edrych dros neu yn golygu yr argraffiad hwn. Yr oedd hwn yr argraffiad tlws, yn cynnwys llawer iawn o wellïadau ar argraffïadau blaenorol. Rhoddodd 'Oes y Byd' ar ben uchaf y dalenau. Cyfieithodd hefyd yr Apocrypha,* yng nghyd â Chanonau a Gweddïau† yr Eglwys Sefydledig, a chyhoeddodd hwynt yn gyssylltiol â'r Beiblau; ond daeth nifer mawr hefyd allan heb-ddynt. Y mae y rhai sydd heb y Gweddïau Cyffredin yn gyssystiol â hwy, wedi eu hamseru 1717, yr hyn a achosa beth dyrswch i'r ymfynydd, gan yr arwain i dybio ddarfod cyhoeddi dau argraffiad. Ymddengys er hyny mai un argraffiad ydyw, a darfod iddo ef a'r Gymdeithas adael i'r Ymneillduwyr gael rhan o honynt heb y Llyfr Gweddi Gyffredin, ac i'r rhai hyny ddyfod allan wrthynt eu hunain, cyn gorphen y lleill. Yr oedd yr ymroddiad hwn i'r Ymneillduwyr yn ei brofi yn ddyn tyner a pharchus o gydwybodau ereill nad oeddynt yn Eglwyswyr—mai Eglwyswr cymmedrol ydoedd, fel yr holl ddynion defnyddiol ym mhob oes. Gwerthid y Beiblau hyn yn llawn wedi eu rhwymo am y pris isel o bedwar swllt.‡

2. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, &c.

Printiedig yn Llundain, gan Brintwyr y Brenin Ioan Basged, Asseins Thomas Newcwm a Harri Hils, a fuant feirw MDCCXXXVIII.'

Hwn oedd y Llyfr Gweddi a gyhoeddwyd yn gyssylltiol â'r Beiblau uchod.

3. 'Pregeth gan y Parch. Moses Williams.'

Cyfeirir yn fynych at y bregeth hon yn y 'Diddanwech Teuluaid.'

4. 'Holl Ddyledswydd Dyn a osodwyd ar lawr mewn ffordd eglur, hawdd ei deall, er lles i bawb, ond yn enwedig ir Darllennydd gwaelaf. Gwedi ei dosparthu yn XVII. o Bennodau. Ac wrth ddarllen un o honynt bob Dydd yr Arglwydd, gellir darllen y Cyfan

* [Yr oedd llyfrau yr Apocrypha oll wedi eu cyfieithu o'r blaen; canys ceir hwynt yn argraffiad yr Esg. Morgan yn 1588, yn argraffiad yr Esg. Parri yn 1620, yn argraffiad yr Esg. Llwyd yn 1690, ac, hyd yr wyf wedi gweled, ym mhob argraffiad blaenorol arall. Ond ysgatfydd nid oedd yr Apocrypha ym 'Meibl Cromwel,' yr hwn a gyhoeddwydd yn 1654. Ni wnaeth Moses Williams ddim i'r Apocrypha ond a wnaeth i'r Hen Destament a'r Newydd.]

† [Ai nid 'Canonau a Gosodedigaethau' yr Eglwys a 'olyga yr awdwr? Yr oedd 'Gweddïau' yr Eglwys wedi eu cyfieithu, a'u hargraffu lawer gwaith o'r blaen. Y mae y 'Canonau a Gosodedigaethau' hyn o flaen argraffïadau Rhisiart Morys (1764 a 1752) hefyd.]

‡ *Seren Gomer*, Hydref, 1855.

dair gwaith dair gwaith yn y Flwyddyn. Angenrhaid i bob Teulu-oedd. Gyda Duwiol-swyddau Dirgel ar amryw Achosion. O Gyfieithiad Edward Samuel Person Bettws Gwerfil Gôch.

Argraphwyd yn y Mwythig Gan John Rhydderch, tros yr Awdwr yn y Flwyddyn. 1718.' [16plyg, neu 8plyg bychan.]

Y mae i'r 'Duwiol-swyddau a Gweddïau' ragddalen o'r eiddynt eu hunain fel hyn:—

'Duwiol-swyddau. a Gweddïau iw harfer ynⁿ ddirgel ar amryw Achosion. Cyffredin ac Anghyffredin. O Gyfieithiad Edward Samuel Person Bettws Gwerfil Gôch.

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rhydderch, tros y Awdwr.*

Ymddengys fod hwn yn bedwerydd argraffiad,† ac yn gyfieithiad newydd. Dywedir uchod ei fod yn cael ei argraffu 'tros yr Awdwr,' yr hyn sydd gamddywediad, canys dros y cyfieithydd yr argraffwyd ef, ac nid 'tros yr Awdwr;† ac yn wir nid ydys wedi gweled enw awdwr erioed i'r llyfr hwn yn Seisonaeg na Chymraeg. Y mae enw Henry Hammond wrth y rhagymadrodd, yr hwn oedd Eglwyswr enwog yn amser Siarl I, Cromwel, a Siarl II. Ystyrid ef yn ysgolhaig enwog gan y rhai nad oeddynt yn cydweled â'i olygiadau athrawiaethol. Dyoddefodd lawer o anfanteision yn amser y weriniaeth, o blegid ei ymlyniad wrth esgobyddiaeth a breninoliaeth, er ei fod o olygiadau cymmedrol. Ganwyd ef Awst 18, 1605, a bu farw Ebrill 25, 1660, yn 54 oed.§

5. 'Holl Ddyledswydd Dyn.

Argraphwyd yn Ngwrecsam gan Edward Wicksteed.'

Gellir galw hwn yn bummed argraffiad.|| Hynod oedd i ddau argraffiad o lyfr o gryn faint ddyfod allan yn yr un flwyddyn.

* [Y mae y 'Duwiol-Swyddau a Gweddïau' wedi eu tudalenu ar wahan oddi wrth y rhelyw o'r gyfrol, a chynnwysant 90 tudalen; ond canlyna y selnodau fel pe bai y cyfan yn un llyfr. Cynnwys corff y traethawd ar 'Holl Ddyledswydd Dyn,' 363 tudalen; y dosbarth rhagarweiniol, 36; a 'thaflen' y cynnwysiad ar y diwedd, 5: y cyfan, 494 o dudalenu. Y mae Rhagymadrodd y Dr. Hammond—'At y Gwerthwr Llyfrau'—wedi ei gamamseru yn agos i gan mlynedd; sef, 'Mawrth 7. 1567,' yn lle 1657.]

† Gwel rhif 7, d.f. 1672; rhif 2, d.f. 1684; a rhif 3, d.f. 1717. [Nid ymddangosodd *Gyfieithiad Edward Samuel* na chynt na chwedi y tro hwn; nis gellir gan hyn alw hwn yn *bedwerydd* argraffiad. Diau mai *cyfieithiad arall* yw yr un a ymddangosodd yng Ngwrecsam (rh. 5) yn ystod yr un flwyddyn, os yw hwnw yn argraffiad gwahanol mewn gwirionedd. Y mae enw Edward Wicksteed, cyhoeddwr argraffiad tybiedig Gwrecsam, ym mhlith y tanygrifwyr i gyfieithiad Edward Samuel. Y mae yn ddichonadwy hefyd mai yr un cyfieithiad ac argraffiad yw y ddau, ond bod dalen yr enw ar ychydig o'r llyfrau wedi ei chyfaddasu i Wrecsam; megys y gwneid yn fynych gynt, ac y gwneir ambell waith yn y dyddiau presennol.]

‡ [Argraffu y *cyfieithiad* dros *awdwr* y cyfieithiad, a wnaeth Sion Rhydderch.]

§ Wood's *Athen. Oxon.*; Jones's *Christ. Biog. Dict.*

|| Gwel rhif 7, d.f. 1672; rhif 2, d.f. 1684; rhif 3, d.f. 1711; rhif 4, d.f. uchod.

Dichon i un gael ei gyhoeddi yn nechreu y flwyddyn; a chan eu bod yn gyffredin yn cael eu dosbarthu yn fuan i'r tanysgrifwyr, fod galw ebrwydd am ychwaneg; ac felly i argraffiad arall, o leiaf y rhagddalen, gael ei argraffu cyn ddiwedd y flwyddyn. Ni ellir rhoddi cyfrif arall am ddau argraffiad o lyfr mor fawr yn dyfod allan o fewn corff yr un flwyddyn. Yr ydys wedi cael amryw hen lyfrau yn amseru felly—dau argraffiad o'r un llyfr o wahanol fanau yn yr un flwyddyn. Os yw y mynegiad hwn yn gywir, ac nid oes genyf sail i'w ystyried yn anghywir, hon ydoedd yr argraffwasg gyntaf yng Nghymru, a hwn y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd yng Nghymru.*

6. 'The British History, translated into English from the Latin of Jephrey of Monmouth. With a large preface concerning the authority of the history. By Aaron Thomson, late of Queen's College, Oxon.

London: printed for J. Boyer, at the Rose in Ludgate-street, H. Clements at the Half-moon, and W. and J. Inneys at the Princes-arms in St. Paul's churchyard. MDCCLXVIII.'

7. ¶ 'Dyled Pennau Teuluoedd. O Waith y Parchedig Erasmus Savnders, Athraw Difnyddiaeth. A Chyfieithiad Samuel Williams, Person Llangynllo yng Ngheredigion.'

Nid ydys yn sicr a gyhoeddwyd hwn; ond yr oedd yn cael ei barotoi i'r wasg yn 1715, gydag amryw lyfrau a gyhoeddwyd o hyn i hyn.† Ymddengys mai o deulu y Pentref, yn sir Benfro, ydoedd yr awdwr hwn, yn yr hwn deulu y mae yr enw Erasmus a Saunders yn cael eu cadw hyd y dydd hwn.

[Y cyfenw presennol yw *Saunders Davies*.]

8. 'Memoirs of the Life and Eminent conduct of the Rev. Dr. Daniel Williams, with his Will and Testament. 1718.‡

9. ¶ 'Justin and the Monks of Bangor. 1718.' Unplyg.

[*Austin* neu *Augustine* (=Awstin Fynach), ac nid 'Justin,' mae yn ddiaw a ddylasai yr enw hwn fod.]

10. 'A Full Answer to Mr. Phillonniere and the Bishop of Bangor. By H. Mills. 1718.'

* [Buasai yn bur ddymunol pe mynegasai yr awdwr pa un a welodd efe yr argraffiad hwn ai peidio. Nid yw yn crybwyll dim ar ba awdurdod y mae wedi ei osod yn y gofres. Gan nad yw yn rhoddi yr enw yn gyflawn, mae yn lled amlwg nas gwelodd efe mo'r argraffiad tybiedig hwn; a chan nad oes hyd yma un prawf fod *neb* wedi ei weled, rhaid edrych ar rif 1, d.f. 1719 megys cynnyrch cyntaf yr argraffwasg o fewn Tywysogaeth Cymru. Nid ysgrifenasai neb '*yn Nghwrecsam*' yn y fl. 1718.]

† Rhestr o 'Lyfrau Cymreig *parod* i'w *Printio*,' yn niwedd 'Cydynmaith i'r Allor.' Gwel rhif 3, d.f. 1715.

‡ J. R. Smith's *Old Book Circular*.

Llyfryn yw hwn o 116 tudalen, o berthynas i ryw anghydfod oedd rhwng esgob Bangor a'i offeiriaid. Yr esgob oedd y Dr. B. Hoadley, a'r pwnc oedd ar y Ddadl Fangoraidd, a achlysurasid gan bregeth yr esgob ar Deyrnas Crist heb fod o'r byd hwn.*

1719.

1. 'Eglurhaad o Gatechism Byrraf y Gymanfa, Yn yr hwn lle y cymerir ac y gosodir allan yn dra helaeth yr holl atebion sydd i'r Gofynnion ynghatechism byrraf y Gymmanfa mewn ail Holiadau ac atebion, Gwirioneddau gwedi heglurhau ai profi trwy Reswm a'r Scrythur; amryw o amheuon Cydwybod a ddattodir ac a ddiddryssur, Rhai o'r prif wrthddadleuon ac ymrafaelion mewn crefydd a drinir, atebir, ac a ddisbrofir trwy'r Scrythyrau, ynghyd a Rhesymau yn erbyn amryw amryfuseddau, Buddiol i'w ddarllen mewn teuluoddd neullduol, ar ôl eu holi yn y Catechism, fel y gall y gwannaf yn hawdd ddeall yr hyn a ddyscer yn y Catechism yn fwy eglur. O waith Thomas Vincent Gwenidog Maudlin yn heol y Llaeth yn gaer Ludd.

Printiedig yn Nhref-Hedyn, gan Isaac Carter, dros Tho: Beynon, John Davies, Da: Davies, Tho: Mackaeg, Nich: Thomas, Ev: Morris. Ac a gyfieithwyd i'r Cymraeg, gan J. P. a T. J. 1719.'

[16plyg: 445†+4=449 tudalen.]

Os nad yw yr hysbysiad o'r blaen am argraffwasg Gwreccsam y llynedd yn gywir, † rhaid mai argraffwasg *Trefhedyn* ydoedd y gyntaf yng Nghymru, ac mai hwn oedd y *llyfr cyntaf Cymraeg a argraffwyd yng Nghymru*. Trefhedyn sydd yn bentref cydiol â thref Castell Newydd yn Emlyn, yn sir Gaerfyrddin. § Yr oedd John Rhydderch, yr argraffydd, o ymyl y lle hwn, a Nich. Thomas, a fu wedi hyn yn argraffydd, o Cenarth, ger llaw. Mae yn debyg i N. Thomas, wedi dysgu y gelfyddyd, fynu argraffwasg yno, trwy gynnorthwy ereill o'r gymmydogaeth hono o deulu John Rhydderch,

* [Gwel rhif 9, d.f. 1717.]

† [Nifer gwirioneddol y tudalenau yw 444; ond canlynir t. 144 gan 146, ac ni ddiwygir y gwall hyd y diwedd; ac felly y mae rhifnodau y tudalen olaf yn 445 yn lle 444.]

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1718.

§ [Hyn yw, Castell Newydd sydd yn swydd Gaerfyrddin; ond yn swydd Geredigion y mae *Trefhedyn*. Rhenir tref Castell Newydd yn Emlyn yn ddwy ran gan yr afon Teifi: y rhan ar y llaw aswy i'r afon, yr hon yw y fwyaf o lawer, ac yn ymyl yr hon y mae gweddillion yr hen gastell, yw *Castell Newydd*, yr hon, megys y crybwyllwyd, sydd yn swydd Gaerfyrddin; y rhan ar y llaw dde i'r afon yw *Trefhedyn* (a elwir yn Seisoneg *Adpar*), yr hon, er nad yw ond bechan, sydd un o fwrdeisdrefi Ceredigion. Saif Trefhedyn ar lechwedd serth, yn goredrych yr afon, a gorwedd y castell a'r parth arall o'r dref ar y gwastadedd oddi tani, ar yr ochr arall. Cyssylltir y ddwy dref â'u gilydd gan bont olygus o faen. Yr afon Teifi, o Lanbedr hyd yma, ac oddi yma i waered hyd nes yr ymuno y Cuch â hi, yn agos i Faenor Deifi, yw terfyn y ddwy sir. Ym mhlwyf Cenarth y gorwedd Castell Newydd.]

y rhai oeddynt yn nodedig awyddus am lyfrau Cymraeg yn yr oes hono. Ymddengys mai rhai yn cymmeryd rhan yn y draul o argraffu a lledaenu y llyfr ydoedd y personau a enwir, rhai yn argraffwyr, a rhai yn weinidogion, a rhai yn feirdd. Crybwyllwyd o'r blaen am Gatecismau y Gymmanfa.* Am y cyfieithwyr ni ellir rhoddi dim hanes, gan na roddwyd ond llythyrenau cyntaf eu henwau yn unig. Am yr awdwr,

THOMAS VINCENT, A.C., yr ydoedd yn fab i John Vincent, yr hwn a ddygwyd i fyny yn gyntaf yn gyfreithiwr, ac wedi hyny yn weinidog, a anwyd yn nhref Hertford, yn 1634. Wedi cael elfenau ei ddysgeidiaeth yn Westminster a Ffelsted, efe a'i gorphenodd yn Rhydychain yn amser y weriniaeth, lle y cyrhaeddodd ei A.C. Gwnaed ef yn gapelwr i Robert, Iarll Leister; ac er na ordeiniwyd ef gan esgob, cafodd weinidogaeth plwyf Maudlin, yn Heol y Llaeth, Llundain, lle yr arosodd yn ffyddlaw yn ystod y pla mawr, gan bregethu ac ymweled â'r cleifion yn ddiogfn.† Ond pan ddaeth dydd Bartholomæus, cafodd ei droi ymaith, am na chydffurfiai â defodau‡ yr Eglwys Sefydledig; eto perchid ef yn gyffredin gan bob plaid, a pharhaodd i bregethu hyd y gallai gael ei oddef gan derfysgiadau yr amseroedd. Yr oedd Mr. Vincent ym medru yr holl Destament Newydd a'r Salmau ar dafodleferydd, meddai Calamy. Dywedai iddo ymdrafferthu i ddysgu felly, heb wybod na byddai i'r rhai a'i cymmerent o'i bulpud, fynu dwyn ei Feibl hefyd oddi arno rywbyrd. Ysgrifonodd a chyhoeddodd amrai lyfrau mân a phregethau; ond nid oes dim o'r eiddo yn Gymraeg, am a wyddys, heb law hwn. Bu farw yn 1678, yn 45 oed.§

Thos. Beynon ydoedd weinidog Tref Wen, Trefdraeth, a Llechryd, yn Neheudir Cymru. Efe a ordeiniwyd yn 1688. Bu farw yn 1729,|| wedi bod yn y weinidogaeth 41 o flynyddoedd. 'J. P.' ydoedd John Pugh, gweinidog Henllan a'r Bwlch Newydd, yn sir Gaerfyrddin; a derbyniodd gynnorthwy o'r drysorfa Bresbyteraid yn 1717.**

2. ¶ 'Tyred a Groesaw At Jesu Grist. Neu Draethiad Eglur a Buddiol ar Joan vi: Adnod xxxvii. Yn Dangos Achos, Gwirionedd, a Dull Dyfodiad Pechadur at Jesu Grist. â'i dderbyniad Dedwydd â'i Roesaw Bendigedig. A Scrifenwyd yn Saesoneg gan John Bunyan, Awdwr Taith y Pererin, Ac Yn Gymraeg gan Jaco ap Dewi, o'r unfed Printiad ar ddeg yn Saesonaeg.

Printiedig yn y Mwythig gan John Rhydderch, tros B. W. a J. J.'

* Gwel rhif 5, d.f. 1717.

† [Ni chymmerodd y pla mawr le hyd ym mhen tua thair blynedd ar ol Dygwyl Bartholomæus.]

‡ [Nid am anghydffurfio â defodau yr Eglwys y troed y ddwy fil allan o honi ar y dydd hygof hwnw, ond am na chydymffurfient â'i ffurfwasanaeth.]

§ Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 463; Neal's *History of Puritans*, vol. iv. p. 451.

|| Ysgrifau y Dr. John Evans yn Llyfrfa Red Cross-Street.

** Ysgrifau yn Llyfrfa y Dr. Williams.

Dichon na raid manylu ar awdwr y llyfr hwn, sef yr hen Ioan Bunyan, yr hwn a anwyd yn Elstow, ger Bedford, yn 1628. Gwnaed ef yn weinidog i gynulleidfa o Fedyddwyr, ond yn 1660, efe a gymmerwyd i fyny, a gondemniwyd, ac a dafwyd i garchar, am gynnal yr hyn a elwid yn gyfarfodydd anghyfreithlawn, gan y rhai oedd y pryd hyny mewn awdurdod, a chadwyd ef yn y carchar ddeuddeng mlynedd a hanner, pan y rhyddhawyd ef trwy eiriolaeth y Dr. Barlow, esgob Lincoln. Yn y carchar yr ysgrifennodd lawer o'i lyfrau. Bu farw yn 1688, yn 60 oed.*

3. 'Testament y Deuddeg Patriarch, sef Meibion Jacob. A gyfieithwyd allan o'r Groeg gan Robert Grotshhead, Esgob Lincoln. Ac allan o'i gopi ef a gyfieithwyd yn Ffrangeg, ac yn Dwits gan eraill, ac yn awr yn Gymraeg. Er parch i ba un i mae yn Scrifenedig yn y brif Ysgol yn Nghambridge ar Barsment Coppi o hwn yn y Groeg. At yr hwn y Chwanegwyd Epistol Pawl yr Apostol at y Laodiceaid. Hefyd ychydig ym mherthynas Marwolaeth Paul yn Rhufain dan Nero Cæsar.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan John Rogers. 1719.' 12plyg.

Ail argraffiad o'r hen gyfieithiad gyda pheth gwellâd.†

4. 'Glossarium Antiquitatum Britannicarum, sive Syllabus Etymologicus Antiquitatum veteris Britanniae atque Hiberniae, temporibus Romanorum. Auctore Willielmo Baxter Cornavio scholæ Merciarorum praefecto, &c.'

350 a argraffwyd am 4s. yr un; ond cyrhaeddodd wedi hyny i 15s., 1p., a 2p. 5s.

WILLIAM BAXTER, awdwr yr Hynafiaethau Brytanaidd a Gwyddelig uchod, yn amser y Rhufeiniaid, oedd yn nai i'r hyglod dduwinydd Richard Baxter, ac a anwyd yn Llanllugan, ger y Dref Newydd, sir Drefaldwyn, yn nhy tad ei fam, yn y flwyddyn 1650. Esgeuluswyd ei ddysgeidiaeth yn fawr yn ei ieuenctyd, fel, pan anfonwyd ef gyntaf i ysgol Harrow, yn 18 oed, nad oedd yn deall un gair o unrhyw iaith ond Cymraeg. Ond gwnaeth ddefnydd da o'i amser, fel y daeth yn ddyn o wybodaeth helaeth. Cyhoeddodd amrai weithiau ar hynafiaeth heb law yr un uchod, a gadawodd lawer o ysgrifeniadau o'r un natur ar ei ol, y rhai a gyhoeddwyd yn 1726, gan Moses Williams, o dan yr enw 'Reliquiæ Baxterianæ' (=Gweddillion Baxter). Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn cadw ysgol yn Lloegr. Bu farw yn 1723, yn 73 oed, gan adael teulu o ddau fab a thair merch ar ei ol.‡

* Jones's *Biographical Dictionary*.

† Gwel rhif 5, d.f. 1700.

‡ Williams's *Biographical Dictionary of Eminent Welshmen; Biographia Britannica*.

5. 'A Survey of the Cathedral Church of Llandaff. Containing the Inscriptions upon the Monuments, with an Account of the Bishops and other Dignitaries belonging to the same; what other Preferments they enjoy'd; And the Times of their Decease, Places of Burial, and Epitaphs. To which is subjoin'd A large Appendix of Records, and other curious matters relating thereto. Collected by Browne Willis, Esq; Adorn'd with Draughts of the said Church, in order to illustrate the Description thereof.

London: Printed for R. Gosling, at the Mitre and Crown against St. Dunstan's Church in Fleetstreet. 1719.'

6. 'Merry-Andrew's Epistle to his old Master Benjamin, a Mountebank at Bangor-Bridge, on the River Dee, near Wales.*

7. 'Rules and Orders of the British (or Welsh) Charity School in London, where the Welsh Language is taught. 1719.'

1720.

1. ¶ 'Cyffes Ffydd y Bedyddwyr. Cyfieithedig gan Jenkin Jones.'

Jenkin Jones ydoedd weinidog y Presbyteriaid yn Llwyn Rhyd Owen [ger Llandyssul], yn sir Aberteifi; efe oedd y cyntaf o'r gweinidogion hyny a ymwrthododd â Chyffes a Chatecism y Gymmanfa ar y 'Pum Pwnc.'† Bu farw yn 1742.

2. ¶ 'Cywir a Phrydlon. Gan Mathias Morice.'‡

3. 'An Appendix to Delaune's Plea: Neu Lyfr Newydd yn cynnwys Ymddiddanion Buddiol a ddigwyddodd yn ddiweddar yn Ninas Bethel, rhwng Adam Gojem a Ben Kabal, Ynghylch Matterion Crefydd. Yr hwn sydd yn Amddeffyn cywir dros bobl Dduw, a wradyddir yn gyffredin ar enw Sismaticiaid. A gyhoeddwyd yn awr er lles cyffredinol, Gan Enosh Mophet.

Argraphwyd ym Mhen Gwern-Bowys dros Ewyllysiwr da i'r Cymru. 1720.'

Pengwern ym Mhowys (Pengwern Bowys) oedd enw gwreiddiol y Mwythig neu Amwythig = *Shrewsbury* neu *Salop*.

THOMAS DELAUNE, ydoedd athraw ysgol y Bedyddwyr Tansoddawl, ac a anwyd yn Brini, yn Iwerddon, o ddeutu tair milltir o Riggsdale. Pabyddion mewn sefyllfa isel oedd ei rieni, yn dal

* J. R. Smith's *Old Book Circular*.

† Morgan, yn ei *Hanes Ymneillduaeth*, a Thomas, yn ei *Hanes y Bedyddwyr*, a wnânt rai crybwylladau am dano; ond nid oes hanes cysson a chyflawn i'w gael, er y buasai hyny yn ddymunol.

‡ Gweler rhif 3, d.f. 1709.

yehydig o dir dan un — Riggs, Ysw. Sylwodd y gwr boneddig hwn ar dueddiadau ysgolheigaidd y bachgen Delaune, a rhoddodd ef mewn priordy yn Cilcrash, ger Corc, i gael dysgeidiaeth. Pan rhwng 15 a 16 oed cafodd le fel ysgrifenydd i fasnachwr, ac o blegid terfysgoedd yr amseroedd daeth drosodd i Loegr, a phriododd â merch Mr. Edward Hutchinson, yr hwn a fuasai yn weinidog cynulleidfa yn Ormond, Iwerddon, ond a ddaethai yntau drosodd i Loegr o blegid terfysgiadau yr Iwerddon. Wedi hyny aeth i Lundain, i gadw ysgol ieithyddol, lle y daeth i adnabyddiaeth a chyfeillach â Mr. B. Keach, gweinidog enwog ym mblith y Bedyddwyr. Efe a ysgrifennodd y '*Flea*,' neu ei Ddadl dros Anghydfurfiaeth, mewn canlyniad i bregeth o eiddo y Dr. Calamy, yn yr hon yr awgryma nad oedd gan lawer reswm digonol dros eu Hanghydfurfiaeth, yn gosod allan wir sefyllfa eu hachos, gan gyfiawnhau eu hymneillduad. Am y llyfr hwn cafodd ei garcharu yn Newgate, Tach. 30, 1683, lle y bu am bymtheng mis, o blegid na allasai dalu y ddirwy o gant o farciau (70*p.*), mewn tlodi mawr, heb ddim i ymddibynu arno ond elusen. Bu ei wraig a dau o'i blant farw gydag ef yn y carchar, o blegid cyfyngder a gwaelder eu lle yno, ac o'r diwedd suddodd yntau ei hun o dan ei ddyoddefiadau, a bu farw yn Newgate, yn ferthyr i her y Dr. Calamy.* Nid ydwyf yn gallu gwybod dim am y cyfieithydd, Enosh Mophet.†

4. 'Survey of the Cathedral of St. Asaph, with an Account of Bishops, &c. By Browne Willis.'‡

BROWNE WILLIS, LL.D., ydoedd yn hynafiaethydd enwog, ac a anwyd yn Blandfford, sir Dorset, yn 1682. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Westminster a Rhydychain. Priododd Catherine, merch i un Daniel Elliot, yr hon hithau oedd yn awdures o gryn enwogrwydd. Ei brif a gorchestol waith fel hynafiaethydd ydoedd ei 'Survey of the Cathedrals of England,' yn dair cyfrol. Bu farw yn ei blas, Whaddon Hall, yn 1760, yn 78 oed.§

5. 'Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol. At ba un y chwanegwyd, yr Ail Rhan, yr hon na fu erioed o'r blaen yn argraphedig. Y trydydd argraphiad.||

Argraphwyd yn y Mwythig gan T. Durston.'

* Neal's *History of Puritans*, vol. iv. pp. 485-487.

† [Enw ffugiol, wedi ei gymmeryd o'r Hebraeg, ydyw. Yn yr iaith hōno, ystyr *Enosh* yw dyn, gwr; a *Mophet*, rhyfeddod, gwrth, arwydd, arwyddlun, argoel, neu gysgod. Yn *Sech.* iii. 8, cyfieithir y ddau air hyn, yn y rhif lluosog, 'gwŷr rhyfedd;' sef, gwŷr wedi eu bwriadu yn arwydd neu gysgod o rywbeth. Dygwydd y geiriau yn fyny yn y Beibl Hebraeg. Hebraeg hefyd yn *Adam Gojem a Ben Kabal*, y naill yn arwyddo dyn o'r bobl, a'r llall mab gefyn neu gadwyn.]

‡ [Nid yw y teitl yma yn gyflawn; ond gan nad yw yr argraffiad o fewn fy nghyrhaedd, nis gallaf ei gyllawnu. Cymh. rhif 5, d.f. 1719; a rhif 5, d.f. 1721.]

§ *Penny Cyclopædia.*

|| Gwel rhif 3, d.f. 1686; a rhif 1, d.f. 1696.

6. ¶ ‘Gweledigaethau y Bardd Cwsg. Gan Ellis Wynne.

Mwythig, argraphwyd gan T. Durston.’

Hwn ydoedd yr ail argraffiad.*

[Y mae hwn fwy na deng mlynedd ar hugain yn rhy gynnar; canys nid ymddangosodd ond *un* argraffiad o'r ‘Bardd Cwsg’ hyd y fl. 1755, yr hwn oedd yr argraffiad cyntaf i Th. Durston. Gweler yr ‘Hysbysiad’ i argraffiad Caerfyrddin, 1865, lle y rhoddir cofres o'r gwahanol argraffiadau a fuant o'r gwaith hwn.]

7. ‘A Sacrament

Catechism

or, a

Catechism,

preparatory to the receiving of the Sacrament of the Lord's Supper. And for that end to be learnt and said by some afore their coming to it, (especially their coming at the first time) or their beginning upon this necessary duty.

‘Sacrament

Gatechism

neu

Gatechism,

i barattoi rhai i dderbŷn Sacrament Swpper yr Arglwydd ac er mwŷn hynnŷ iw ddyseu ai ddywedŷd ganddynt, cyn eu dyfodiad iddo, (yn enwedig eu dyfodiad nhw'r waith gyntaf) neu eu dechreu nhw ar y ddyledswydd angenrheidiol hon.

For the use of the Parish of Chirk, whose Inhabitants ar partly Welsh and partly English.

By R. R. A.M. and Vicar of the said Parish of Chirk.

Printed for the Author. 1720.’

Daeth y Parch. Robert Robert, A.C., yn ficar y Waen, neu *Chirk*, yn 1709, a chladdwyd ef yno Chwefror 18, 1741-2.

Y mae y tudalenau oll wedi eu rhanu yn golofnau—y Seisonaeg a'r Gymraeg wedi eu hargraffu ochr yn ochr. Cynnwysa 41 o dudalenau. Ar yr ail dudalen y mae y canlynol:—

‘To the Reader

Christian Reader. This little book is not published to supply any want of good and usefull treatises upon the Sacrament: so far that, as it is but a repetition (after another method) of what is out already upon that subject.

All here proposed, is so to speak in every page (not as a barbarian in an unknown tongue) but as a people of two different nations under heaven, Parthians and Medes. May every man of them in his own language wherein he was born; hear at Jerusalem, the wonderfull works of God. This being all I preface concerning this work (praying to God it may profit) I conclude,

Yours, &c. R. R.’

* Gwel rhif 3, d.f. 1703.

8. 'Church-Catechism for the use of the Diocese of St. Asaph. By W. Beveridge. 1720.'

9. 'Sir Edward Leighton's privately printed Appeal concerning the Manor of Baulsley or Ballesley, Montgomery, which has been in his family since the time of Henry VIII. 1720.'

1721.

1. 'Canwyll y Cymry, sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficar Llanddyfri.

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rogers.'

Dyma y chweched argraffiad.*

2. 'Difyrwch Crefyddol. Neu Lyfr o Ganiadau Newyddion a'r Destynau 'Scrythyrol, yn gyttunol ag Athrawiaeth amryw Ddefnyddion clodfawr o Eglwys Loegr. O Waith John Prichard Prÿs o Eglwysael, neu Langadwaladr yn Sir Fôn. Y Rhan Gyntaf.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros yr Awdwr yn y Flwyddyn 1721.' 12plyg.

Maint y llyfr bychan crefyddol hwn yw 174 o dudalenau o gorff y gwaith, a 30 o dudalenau yn cynnwys arweiniadau, cynnwysiad, &c., oll yn 204 o dudalenau.

[Naill ai 16plyg, neu 8plyg bychan, yw y llyfr. Y mae y lleri wedi eu sel-nodi fel mewn llyfr 8plyg, ond 16plyg o ran maint ydyw; yr hyn a ddengys mai bob yn hanner llen yr argraffwyd ef. Cynnwys corff y gwaith 182 tudalen, gyda 16 o ragymadrodd, anerchion i'r llyfr, &c.; y cyfan yn gwneuthur 198 o dudalenau. Er y dywedir mai 'y rhan gyntaf' ydyw, ni ddeallais fod un rhan arall wedi ymddangos. Cyfansoddiadau crefyddol ar y mesur a elwir 'Gadael y Tir' (y ffordd hwyaf) ydyw. Cyffelyb yw o ran teilyngdod i waith cyffredin carolwyr yr oes hōno, hynodrwydd y sawl yn gyffredin yw lluosog-rwydd nid yn unig o eiriau llanw, ond o frawddegau a llinellau cyfain heb ynddynt ddim synwyr yn y byd ond cleciadau y cydseiniad. Ond y mae y gwaith dan sylw yn rhyddach na llawer o'i gyfoedion oddi wrth yr hylligrwydd hwn.]

Yr oedd John Prichard Prÿs yn fardd crefyddol o gryn enwog-rwydd yn ei ddydd. Y mae ar gael gywydd campus o'i waith mewn llawysgrifen, ar enedigaeth John Griffith, etifedd o'r un enw â deg aer ol yn ol ar Landdyfnan.†

3. 'Pechadur Jerusalem yn gadwedig: Neu Newyddion Da i'r Gwaelaf o Ddynion: A chynnorthwy i'r Eneidiau Anobeithiol: Gan ddangos y mynneu Iesu Grist gynnig Trugaredd yn Gyntaf i'r Gwaethaf o Bechaduriaid. Scrifenwyd yn Saesoneg gan Joan

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; a rhif 1, d.f. 1681; rhif 12, d.f. 1714; a hwn.

† Llythyr Mr. Hugh Michael.

Bunyan, Awdwr Taith y Pererin, ond yr awrhon yn Gymraeg gan Benjamin Meredith.

Argraphwyd yn Henffordd gan William Parks. 1721.'

Gweinidog ieuanc poblogaidd perthynol i'r Ymneillduwyr ydoedd BENJAMIN MEREDITH. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn Llan Bryn Mair, yn 1733; ond dewiswyd iddo ymadael y flwyddyn ar ol hyny, am y bernid fod ei syniadau yn anghywir am rai o brif athrawiaethau yr efengyl.*

4. 'Hanes y Byd a'r Amseroedd; Er Hyfforddi rhai o'r Cymru. O Waith S. T.

Argraphwyd yn Llundain gan J. Batly, tros David Lloyd, yn y flwyddyn 1721.' 16plyg.

Awdwr y llyfr hwn ydoedd SIMON THOMAS, yr hwn a anwyd ger llaw y Cilgwyn,† yn sir Aberteifi, ac a gafodd addysg gymhwysiadol i'r weinidogaeth ym mhlith yr Ymneillduwyr. Wedi bod yn cael ei addysgu yn Lloegr, efe a ddychwelodd, ac a arosodd beth amser yng Nghymru, gan bregethu yng Nghaeronen, Cilgwyn, a lleoedd ereill, yng nghyrau uchaf sir Aberteifi. Wedi hyny symmudodd i ryw le yn sir Henffordd; ac yno y bu farw tua'r fl. 1743.‡

Dichon mai rhyw lyfrwerthwr teithiol oedd David Lloyd, y cyhoeddwr. Gwelsom ei enw o'r blaen yn gyffelyb.§

5. 'A Survey of the Cathedral Church of Bangor; and the Edifices belonging to it. Containing An Account of all the Inscriptions on the Monuments and Gravestones: The History of the Bishops, Deans, and other Dignitaries: Their several Preferments, Times of Decease, Burial, and Epitaphs. Together with a large Appendix of Records, and other curious Matters relating to Bangor Church and Bishoprick: As namely, The Dedications of all Churches and Chapels in the Diocese of Bangor; and Descriptions of Clynog-fawr and Bodowen Chapel. To which are also subjoined several Supplementary Additions and Records to the like History of St. Asaph Cathedral some Time since Published: The Dedications of the Churches and Chapels in that Diocese; and Descriptions of Gresford and Mould Churches. Collected by Browne Willis, Esq.

* *Cofiant y Parch. John Roberts.*

† [Y mae dau Gilgwyn yng Ngheredigion; un yn agos i Gastell Newydd yn Emlyn, a'r llall nid neppell o Lanbedr. Ymddengys mai y lle olaf a olygir yma. Y mae, neu o leiaf yr oedd, addoldy gan yr Henaduriaid yn y Cilgwyn hwn; ac yn yr un ardal y mae Caeronen.]

‡ *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, Rhagymadrodd, t. xxvii; hefyd *Llythyr y Parch. W. Thomas*, Bwch Newydd, yr hwn sy gangen o'r un teulu.

§ Gwel rhif 14, d.f. 1716.

Illustrated with Draughts of the Ichnography and Upright of Bangor Cathedral, View of Bodowen Chapel.

London, Printed for Robert Gosling, at the Middle Temple Gate, in Fleet-street. MDCXXI.'

6 'A View of the State of Religion in the Diocese of St. David's about the beginning of the 18th Century. With some accounts of the causes of its Decay, together with considerations of the Reasonableness of augmenting the Revenues of Improprate Churches. By E. S. D.D.

London, Printed for John Wyat, at the Rose in St. Paul's Church Yard. 1721.' 8vo. 128 pp.

Llyfr 12plyg o 128 o dudalenau ydyw, ac heb gyflwyniad na rhagymadrodd iddo.

[Canfyddir wrth Gyflwyniad y gwaith (canys y mae iddo Gyflwyniad) i'w Freninol Uchelder Sior, Tywysog Cymru (Sior II. wedi hyny) mai enw yr awdwr ydoedd 'Er. Saunders.' Rhydd yr awdwr hanes alaethus am ansawdd crefydd yn esgobaeth Ty Ddewi yn ei amser ef, yr hyn a briodolir ganddo i reibusrwydd perchenogion lleyg meddiannau eglwysig, a'r cyflog truenus a delid i'r curadiaid, y rhai, am ddeg neu ddeuddeg punt yn y flwyddyn, a orfodid i wasanaethu tair neu bedair o eglwysi; ac hefyd i waith yr esgobion ac ereill yn rhoi bywoliaethau yng Nghymru i ddynion hollol anwybodus o'r iaith Gymraeg, y rhai yn gyffredin oedd-ant annhriannol, ac a adawent eu plwyfau i ofal curadiaid o'r mwyaf anghymhwys i'w gwaith, y rhai nid oedd eu tal ddim gwell na thâl gweithiwr pur gyffredin.]

7. 'The Ancient History of Great Britain, by John Lewis, Esq.*'

JOHN LEWIS, Ysw., ydoedd yn byw ym Maenor Owain, ger Abergwaen, yn sir Benfro, ac yr ydoedd yn dad cu i Mr. Richard Fenton, awdwr 'Hanes sir Benfro.'

8. ¶ 'Ymadrodd ynghylch Dychymygion Dynion yn Addoliad Duw. Gan y Gwir Barchedig Dr. William King, Arglwydd Esgob Llundain Derry. Ac a Gyfieithwyd gan Dafydd Llwyd Ficar Llandefathew yn Sir Frycheiniog.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Tho. Durston.'

Y mae yn niwedd y llyfr hwn dri o 'Englynion o Fawl i'r Gwaith a'r Cyfieithydd,' gan 'Theophilus Evans Vicar Llangammarch,' ac yn eu rhagflaenu 'N.B. Camsyniad oedd Printio yr Englynion hyn o flaen Drych y Prif Oesoedd,' gan mai gwaith awdwr y llyfr hwnw ydynt i gyfieithiad y llyfr hwn. Yr awdwr,

* *Cambro-Briton*, vol. ii. p. 366.

DR. WILLIAM KING, a anwyd yn 1650. Cafodd ei ddsgeidiaeth yng Ngholeg y Drindod, Dublin. Ei brif waith (yn Seisonaeg) sydd ar Wreiddioldeb Drwg.* Bu farw yn 1729, yn 79 oed.†

9. ¶ 'Miscellanies upon Day Fatality, Omens, Dreams, Knockings, Corps-candles in Wales, &c. By John Aubrey. 1721.'

[Ail argraffiad ydyw hwn, ac nid oes ammheuaeth nad yn y flwyddyn hon yr ymddangosodd. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf mewn cyfrol 8plyg yn 1696; a'i chynnwysiad yn gyflawn sy fel hyn:—1. 'Day-Fatality; 2. Local-Fatality; 3. Ostenta; 4. Omens; 5. Dreams; 6. Apparitions; 7. Voices; 8. Impulses; 9. Knockings; 10. Blows invisible; 11. Prophecies, 12. Marvels; 13. Magick; 14. Transportation in the Air; 15. Visions in a Beril, or Glass; 16. Converse with Angels and Spirits; 17. Corps-Candles in Wales; 18. Oracles; 19. Extasie; 20. Glances of Love; 21. Second-Sighed Persons.' Canfyddir mai y 17fed yn unig sydd yn dal cyssylltiad â Chymru. Argraffwyd y gwaith hefyd yn 1784; ac ymddangosodd argraffiad 8plyg o hono yn ddiweddar yn Llundain.

Ganwyd yr ofergoelus John Aubrey yn Easton Piers, yn swydd Wilts, yn y fl. 1625-6; a bu farw, yn ol rhai, yn 1697, ac yn ol ereilh, yn 1700. Gorphennodd ei addysg yng Ngholeg y Drindod, Rhydychain, lle y derbyniwyd ef yn 1642. Dewiswyd ef yn Gymmrawd o'r Gymdeithas Freninol yn 1662. Ni chyhoeddodd ddim ond y gwaith blaenorol; ond gadawodd ar ei ol luaws o ysgrifau, y rhai sydd ar gadw yng Nghyweirfa Ashmol yn Rhydychain; ac argraffwyd rhai o honynt ar ol ei farwolaeth.]

1722.

1. 'Prif Ddledswyddau Christian. sef Angenrhaid a Mawrllles Gweddi Gyffredin a Mynych Gymmuno. A fwriadwyd er mwyn adnewyddu'r Duwioldeb oedd arferedig gynt ym mhlith y Prif Grist'nogion. O Waith y Gwir Barchedig Dâd yn Nuw William Beveridge, D.D. diweddar Arglwydd Esgob LlanElwy. ac o Gyfjeithiad Edward Samuel.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros yr Awdur. 1722.' [16plyg.]

[Y mae hwn a rhif 5, d.f 1723, yn gwneuthur llyfr dyblyg; y cyntaf yn cynnwys 'Angenrhaid a Mawrllles Gweddi Gyffredin;' a'r olaf, 'Angenrhaid a Mawrllles Mynych Gymmuno;' er bod tudalen enwol y ddau yn agos yr un fath, ond yr amseriad. Cyflwynir y cyntaf 'At yr Anrhydeddus Robert Price Esq; Un o Ddeuddeg Barnwyr Lloegr;' a'r ail, 'At yr Anrhydeddus Watkin Williams Wynne Esq; o Wynstay.' Cynnwys y ddau yn agos i 400 o dudalenau. Fel holl gyfansoddiadau Edward Samwel, y mae yr ieithwedd yn dda ragorol. Yn y fl. 1723 yr ymddangosodd, o leiaf 1723 sydd ar fy nghyfargraff i o'r gwaith. Dyddir y cyflwyniad, 'Llangar Jonawr 15fed. 1722-3.']

2. 'Y Ffydd Ddiffuant, sef Hanes y Ffydd Gristionogol, Ai Rhinwedd.—The Unfeigned Faith. Containing a brief History of the Christian Religion, And a Proof of its Verity and Efficacy.

* ['*Dechreuad Drwg*' a olygir. Enw y gwaith gwreiddiol yw *De Origine Mali*=On the Origin of Evil. Yr oedd y Dr. King yn archesgob Dulyn pan y bu farw, er mai esgob 'Llundain Dderi' (fel y geilw y Cymry *Londonderry*) ydoedd pan gyhoeddodd y gwaith hwn.]

† *Maunder's Biographical Treasury.*

The Fourth Edition.* Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rogers, MDCCXXII.'

3. 'Prydferthwch Sangeteiddrwydd yn y Weddi Gyffredin, mewn pedair pregeth, O waith y Parchedig Thos. Besse, D.D. A chyfieithiad Theophilus Evans.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch.†

4. ¶ 'Y Llyfr a elwir Holl Ddyledswydd Dyn, Wedi ei Grynhoi yn fyrr, Er lles i'r Tlodion a'r Gwannaf eu Coffadwriaeth, &c. Gan Edmund Stacy, a'i osod allan yn Gymraeg, gan G. J.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rogers, Gwerthwr Llyfrau.'

Ymddengys fod y talfyriad hwn o'r 'Llyfr Holl Ddyledswydd,' &c., yn chweched argraffiad.‡ Dichon fod peth cyfnewidiad wedi ei wneyd ynddo hefyd er boddhau rhai duwinyddion mwy Calfnaidd na'r awdwr gwreiddiol, ac mai hwn a argymhellid ganddynt i'w cyfeillion o dan yr enw 'Holl Ddyledswydd Dyn, sef y Newydd,'§ fel yn fwy efengylaidd, fel y dywedent hwy, na'r llall. Tebygol mai Mr. Griffith Jones, Llanddowror, ydoedd y cyfieithydd; lle y gwelir ei fod yn gyfieithiad yn gystal a thalfyriad ac argraffiad newydd.

5. 'Dwysfawr Rym Buchedd Grefyddol, wedi ei hystyried. At ba un yr angwanegwyd rhai Boreuol a Phrydnawnol Weddiau. Gwedi ei Gyfieithu yn Gymraeg o'r trydydd Argraphiad yn y Saesonaeg. At yr hyn y chwanegwyd Eglurhad byrr ar Weddi yr Argwlwydd, ac ocheneidiau duwiol ar amryw achosion, &c.

Argraphwyd yn Nhrehedyn, gan Isaac Carter, tros J. Ll. ac A. T.|| yn y Flwyddyn 1722. Ag ar werth gan Thomas Lewis werthwr Llyfrau yn Caerfyrddin, a Dafydd Evans yn Nhrehedyn.'

Y mae y llyfr hwn yn gyflwynedig gan A. T., 'at yr anrhydeddus foneddigion Stephen Parry o Neuadd Trefawr, Esgwair, Ustus o'r heddwch, ac Aelod o Barlament dros Dref Aberteifi, a Walter

* Gwel rhif 1, d.f. 1671; rhif 1, d.f. 1676; a rhif 4, d.f. 1677; a hwn uchod.

† Gwelwyd un Seisonaeg o hwn, a nodiad ysgrifenedig ar ei ddiwedd, fel gan yr awdwr ei hun, fel hyn: 'The Beauty of Holiness in the Book of Common Prayer was written by Dr. Besse, Bp. of Hereford. Bp. Biss 1721.' Y mae 'Llythyr y Cyfieithydd at y Darlennydd,' ac wrtho 'Theo. Evans.' Y mae tros 3 tudalen o enwau derbynwyr.

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1672; rhif 2, d.f. 1684; rhif 3, d.f. 1711; rhif 4 a 5, d.f. 1718; a hwn yma.

§ Ymddiddanion â Dr. Opiwn.

|| A. T. ydoedd y Parch. Alban Thomas, o'r Rhos, ym mhlwyf Bhenporth, Ceredigion.

Llwyd o Goedmor, Esgwair, ac uchel Sirif presennol Sir* Aberteifi.'

Awgrymwyd o'r blaen mai gwerthwyr llyfrau oedd Lewis ac Evans; ac y mae hyn yma yn cadarnhau hynny. Nid oes nemawr o ammheuaeth mai y Parch. Alban Thomas, o'r Tyglyn, yn sir Aberteifi, yw 'A. T.' awdwr y llyfr hwn. Dywedir ei fod yn hendaidd i'r diweddar Alban Thomas Gwynn Jones, o'r Mynachdy. Yr oedd o'r fl. 1722 i'r 1740 weinidog plwyfau Blaenporth a Thremain. Yr oedd Stephen Parry a Walter Llwyd yn gymmydogion iddo. Parry oedd ei feistr tir, ac yn un o'i blwyfolion. Gadawodd Mr. Thomas rai gweithiau ereill. Efe oedd awdwr Cywydd Marwnad Mr. Hector Morgan, o Aberporth, a Marwnad i Ifan Gruffydd, y Bardd, o'r Tŵr Gwyn. Cyfansoddodd hefyd 'Sen i'r Tobacco.'†

6. 'A Critical History of the Establishment of the Bretons among the Gauls, and their Dependence upon the Kings of France, and Dukes of Normandy. By Monsieur the Abbot of Vertot, &c.

London, Printed for W. Taylor, &c. MDCCLXXII.'

Cynnwysa y llyfr hwn lawer iawn o wybodaeth am darddiad cenedl y Cymry.

7. ¶ 'Taith neu Siwrnai y Pererin, Tan Rith neu Gyffelybiaeth Breuddwyd; yn yr hwn y dangosir, Modd y mae Pechadur yn Cychwyn neu yn Dechreu ei Siwrnai o'r byd hwn tua'r Nefoedd—Y Peryglon y mae fo'n cyfarfod a hwynt yn ei Daith, a'i ddyfodiad o'r diwedd i'r Wlad ddymunol, i'r Nefoedd mewn Diogelwch.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston.'

Nid oes amseriad wrth hwn; ond dywedir y deuai 'Hanes y Ffydd allan cyn pen tri mis, wedi ei ddiwygio gan J. Rhydderch.'‡ Gall er hynny mai yn niwedd 1721 y cyhoeddwyd ef. Ail argraffiad ydyw o fath o gyfieithiad rhydd, neu alleiriad o Daith Pererin Bunyan a roddwyd allan gan Mr. Stephan Hughes 34 o flynyddoedd yn ol.§ Dywedir uchod mai wedi ei ddiwygio|| gan John Rhydderch y rhoddid 'Hanes y Ffydd' allan, ond ar ragddalen hwnw dywedir mai John Rogers a'i hargraffodd, yr hyn sydd yn brawf y byddai Rhydderch yn amrywio ei enw; ac hefyd nad oedd Rhydderch yn argraffu ar ei draul ei hun, eithr mai argraffu yr ydoedd yn argraffdy Durston, ac ei fod yn gyhoeddwr neu werthwr llyfrau, fel y dywed ef ei hun weithiau. Y mae yn amlwg wrth yr argraffwaith

* Yr oedd yn aelod o'r Senedd yn 1721-2, a bu farw yn ddiblant yn 1724, yn 49 oed. Yr oeddynt o deulu Cymreig hynafol, sydd yn awr wedi diflanu.—Meyrick's *History of Cardiganshire*.

† [Cymh. *Gwaith Gwallter Mechain*, ii. 304.]

‡ Tudalen 280 o'r *Taith* hwn.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1688; a rhif 1, d.f. 1699.

|| [Gwr gwych oedd Sion Rhydderch i *ddiwygio* gwaith Charles Edwards!]

a'r llythyrenau mai gwaith argraffwasg Durston yw yr argraffiad o 'Hanes y Ffydd' ag y mae enw 'Rogers' wrtho; ac felly ereill ag y mae enw Rhydderch wrthynt fel argraffydd, ac nad oedd ond cyhoeddwr yn unig.

8. 'Meddyginiaeth a Chyssur. Yr dyn helbulus, clafyccus, a thralloodus, ar ei glaf wely, a gasglwyd allan or ysgrythur Sanctaidd, ac hefyd o ystorieu ac Athrawiaethau yr hen Dadau; a rhesymau y Philosophyddion, a gwyr doethion dyscedig ereill o'r cynfyd: Ac a osodwyd allan trwy lafur Edward Lloyd. Athro y celfyddydau; a gweinidog yr efengyl yn llangower, yn Sir Feirion: Er lleshâd i'w braidd y mae'n figail arnynt, ac yn orchwyliwr i gyfrannu iddynt eu bwyd yn eu bryd, sef yw hynny, didwyll laeth y gair. 1 Pet. 2. 2. Ac ar ol hynny er budd i'r Cymru oll.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rogers, 1722.'

Bu y Parch. EDWARD LLOYD, A.C., yn gweinidogaethu yn Llangower, yr hwn le sydd ar lan Llyn Tegid, ger y Bala, sir Feirionydd, ddeugain mlynedd, o'r hwn le y cafodd ei ddeoli yn amser Cromwel, a bu y lle yn wag am hir amser,* a bu farw yntau yn 1685. Ei fab ef ydoedd yr Esgob Wm. Lloyd. Y rhagymadrodd neu 'Lythyr at ei Blwyfolion,' a derfyna, 'Eglwyseg, Awst y cyntaf, 1683.' 'Eich Ewyllysiwr da Edward Lloyd;' yr hyn a brawf, naill ai bod hwn yn ail argraffiad, neu iddo fod yn ysgrifenedig 39 mlynedd cyn ei argraffu.† Dywedir mai y Dr. Simon Patrick, esgob Ely, ydoedd yr awdwr;‡ yr hyn a ddygwyd i fyny yng Nghaergrawnt a Rhydychain; ac wedi amrai ddyrchafiaethau eglwysig, a wnaed yn ddeon Peterborough, ac yn 1689 yn esgob Chichester, ac yn esgob Ely yn 1692. Ysgrifennodd amrai weithiau duwinyddol, sydd yn cael eu hystyried yn werthfawr.§ Pan yr oedd yn ddyn ieuanc efe a ysgrifennodd lyfr a elwir '*Friendly Debate*' (= Dadl Gyfeillgar), yr hwn a gafodd, medd yr Esgob Burnet, effaith ddrwg iawn i hogi ysbrydoedd yn ormodol yn erbyn yr Ymneillduwyr yn amser Siarl II, yr hwn, trwy wneyd defnydd mawr o ryw ymadroddion gweinion ac anwyliadwrus, a ymdrechodd ddynoethi yr holl gorff o weinidogion anghyddfurfiol i ddirmyg. Ond y mae yn weddus hysbysu, iddo, wedi myned yn hynach, gyfaddef ei edifeirwch am y gwaith hwnw, mewn dadl yn Nhy y Senedd, pan y dywedodd, 'y gwyddys ddarfod iddo ef ysgrifenu yn lled boethlyd yn erbyn yr Ymneillduwyr, yn ei ddyddiau ieuangach, ond ei fod ef wedi byw yn ddigon hir i weled rheswm i newid ei dyb am y bobl hyny, a'r modd hyny o ysgrifenu.'||

* Walker's *Sufferings of the Clergy*, p. 248, lle y camsillir ei enw ef ac amryw ereill, yn *Floyd*, yn lle *Lloyd*.

† [Gweler rhif 8, d.f. 1682].

‡ Lewis's *Topographical History of Wales*.

§ Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 540-1.

|| Neal's *History of the Puritans*, vol. iv. pp. 387-8; Jones's *Christ. Biog. Dict.*

9. 'Trugaredd a Barn. Gan James Owen.'

Ail argraffiad, tybygid.*

10. 'Britannia, or a Chorographical Description of Great Britain and Ireland; translated and enlarged by Bishop Gibson. 1722.'

Y mae yn ddwy gyfrol unplyg, gyda pharthleni ac arlun.

11. ['Asser de Rebus gestis Æfredi Regis. Curâ Francisci Wise.'

Oxonii, 1722, 8vo.]

1723.

1. 'Llun Aggrippa, neu'r Cristion o fewn ychydig wedi ei ddatguddio: Wedi ei 'Sgrifenu yn Saesneg, gan F. Mead, ac yn Gymraeg gan Jenkin Jones, a'i Brintio Yng-nghaerfyrddin, dros Christmas Samuel a Lewis Griffies. A.D. 1723.'

Rhoddwyd o'r blaen nodau am Jenkin Jones a Christmas Samuel.† Am 'L. Griffies,' yr wyf yn methu cael ei fod ef yn weinidog; gall, ynte, mai llyfrwerthwr ydoedd. Am yr awdwr, yr hwn a elwir yma yn 'F. Mead,' y deallir mai yr hyglood dduwinydd, MATTHEW MEAD ydoedd, yr hwn oedd Anghydfurfiwr enwog a anwyd yn sir Buckingham, yn 1629. Rhoddodd Cromwel iddo weinidogaeth y Capel Newydd, Shadwel, Middlesex, o'r lle y deolwyd ef pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd. Yn 1663 yr oedd yn byw yn Stepney. Yna efe a enciliodd i Holand, ond daeth yn ol yn 1671, ac adeiladodd gapel mawr yn Stepney. Cyhoeddodd rai llyfrau crefyddol, ond y penaf o ba rai yw 'Y Cristion o fewn ychydig' uchod. Bu farw yn 1699, yn 70 oed.‡ Y mae diwedd y rhagymadrodd wedi ei arwyddo 'Jencin Jones.' 'Yng Ngheredigion Hydref 30. o.c. 1723.'

2 ¶ 'Annogaeth Ddifrifol Gweinidog i'w Blwyfolion i ofalu am eu Heneidiau, yn cynnwys yr ystyriaethau hyn,—i. Anfeidrol Odidogrwydd a Gwerthfawrhydi'r enaid. ii. Mai Colled yr enaid yw'r anhawsaf ei ddiodef o'r holl Golledion. iii. Y mawr Berygl y mae'n Heneidiau ynddo o herwydd Pechod. iv. Rhyfeddol Drugaredd DUW yn darparu moddion, &c. Yr ail argraphiad.

Mwythig, argraphwyd.'

Nid ydwyf wedi cael gafael yn yr argraffiad cyntaf o hwn. Y mae yn gyssylltedig 'Hymn neu Gan ar yr un Defnydd,' ac wrthi 'A. T. a'i gwnaeth,' sef Alban Thomas, mae yn debyg.

* Gwel rhif 1, d.f. 1687.

† Gwel rhif 5, d.f. 1717; a rhif 1, d.f. 1720.

‡ Maunder's *Biographical Treasury*; Palmer's *Calamy's Noncon.*

3. 'Mona Antiqua Restaurata. An Archæological Discourse on the Antiquities Natural and Historical, of the Isle of Anglessey, the ancient Seat of the British Druids, &c. By Henry Rowlands, Vicar of Llanjdan, in the Isle of Anglesey.

Dublin, Printed by Aaron Rhames, for Robert Owen, Bookseller in Sinners's Row. MDCCLXXIII.'

HENRY ROWLANDS oedd fab i William Rowlands, o'r Plas Gwyn, ym mhlwyf Llanedwen, sir Fon, ac yno y ganwyd ef yn 1655. Yr oedd ei hendaidd yn fab i Edward Rowlands, yr hwn oedd frawd i'r Dr. Henry Rowlands, o Fellteyrn, esgob Bangor. Ei fam oedd ferch Edward Wynn, o Benhesgyn. Ei hen nain oedd yn nain i wraig y Dr. Edm. Griffith, esgob Bangor; ac felly yr oedd awdwr y 'Mona' yn ŵyr i'r esgob hwnw. Dywedir na chafodd ddim dysgeidiaeth oddi eithr yn deuluaidd* yn ei wlad ei hun. Ni bu erioed oddi cartref ddim pellach na'r Mwythig, i.e. myn rhai na bu erioed bellach o sir Fon na Chonwy; er hyny, trwy ei dalantau cryfion naturiol, cyrhaeddodd ddysg uchel, fel y gallasai gyfansoddi mewn Lladin brydferth. Cafodd ei ordeinio a'i benodi i ficeriaeth Llannidan a chapeliaeth Llanedwen, yn 1690. Ei wraig oedd ferch i Mr. Nicholas, o'r Plas Newydd, un o hynafiaid Ardalydd Mon. Bu farw yn y flwyddyn hon (1723), yn 68 oed, a chyn i'w waith hwn ddyfod o'r wasg; ac am hyny dywed Henry Owen, golygydd yr ail argraffiad: —'Daeth yr argraffiad cyntaf a argraffwyd yn Nublin, B.A. 1723, allan yn anghywir iawn, o ddiffyg rhyw ddyn cyfaddas i edrych dros y lleni.' Cyhoeddodd hefyd draethawd ar Ddaiareg (*geology*), cyn i hyny dynu sylw dysgedigion fel gwyddor. Gadawodd ar ei ol ychwaneg o hanes Mon mewn ysgrifen Lladinaidd, yr hon a gyfieithwyd† yn ddiweddar, ac a gyhoeddwyd yn yr *Archæologia Cambrensis*.‡

4. 'Patrwm y Gwir Gristion, neu Ddilyniad Iesu Grist, &c. Wedi ei droi yn Gymraeg gan W. M. A.B.

Argraphwyd yng Nghaerlleon, gan W. Cooke. 1723.'

Ymddengys fod hwn yn gyfieithiad ac argraffiad newydd o 'Thomas à Kempis.' Cyfieithydd yr argraffiadau ereill oedd 'H. O. Gwenynog, yn Mon, Esqr.,' o ba rai y daeth allan ddau o'r blaen, yr hyn a wna fod hwn yn drydydd argraffiad neu gyhoeddiad.§

* [Ni ddywedir na chafodd ddim ond dysgeidiaeth gartrefol neu deuluaidd, ond na chafodd fanteision dysg ond yr hyn a allodd ei gael o fewn ei ynys enedigol. Y mae yn debygol ddigon mai yn ysgol fawr Biwmares, yr hon sydd agos i'r fan lle y ganed ef, ac wedi ei sefydlu er y fl. 1602, y gorphenodd ef ei ddysgidiaeth.]

† [Y cyfieithydd ydoedd y diweddar Barch. John Jones, A.C., periglor Llanllyfni, yr hwn a fu farw Chwef. 12, 1863.]

‡ Pennant's *Tours*; A. Llwyd's *History of Anglesea*; Williams's *Eminent Welshmen*.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1679; rhif 5, d.f. 1684; a hwn uchod.

5. 'Prif Ddledswyddau Christion. sef Angenrhaid a Mawrles Mynych Gymmuno. A fwriadwyd er mwyn adnewyddu'r Duw- ioldeb oedd arferedig gynt ym mhlith y Prif Grist'nogion. O Waith y Gwir Barchedig Dâd yn Nuw William Beveridge D.D. diweddar Arglwydd, Esgob LlanElwy. ac o Gyfjeithiad Edward Samuel.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rhydderch, tros yr Awdur. 1723.' [16plyg.]*

6. 'The Breviary of Britain. Gan Moses Williams.'

Cynnwys hwn y tri gwaith o eiddo H. Llwyd, gydag esboniadau.†

7. 'Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd: neu Wahoddiad Difrifol i Bechaduriaid i droi at Dduw er Jechydwriaeth. Gan ddangos i'r Pechadur ystyriol beth sydd raid iddo ei wneuthur i fod yn gadwed- ig. O waith Gweinidog Duwiol yn Lloeger.

Printiedig yn Llundain gan Henry Meur, yn yr Old-Bailey, yn— (coll yn y ddalen)—Ludgate. 1723.'

Gwaith Joseph Allein, sef yr Alarwm (=Alleine's 'Alarm') yw y llyfr hwn. Hwn ydoedd yr ail argraffiad Cymreig o hono.‡ Cyhoedd- wyd argraffiad arall o hono tua'r fl. 1800—1804, gan Richard Jones, yn Nolgellau, o dan yr enw yr 'Udgorn Arian,' ond heb amseriad.

1723-4.

1. 'Trefn Ymarweddiad Gwir Gristion. Neu Lwybr Hyffordd i'r Cymro i rodio arno beunydd gyda'i Dduw. Gan Edward Wynn. D.D. Yr ail argraffiad.§

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rhydderch, tros Thomas John Morgan, yn y flwyddyn 1723-4.'

Y mae yn llyfr o 100 o dudalennau 24plyg; ac y mae yn ei rag- flaenu ragymadrodd yr awdwr at 'Blwyfolion Llangeinwen a Llan- gaffo,' yn ynys Mon, i'r rhai yr oedd yn berson.

2. ¶ 'Dull Priodas Ysprydol Rhwng Silo a Sion yn dangos tra- gwyddol gariad Silo Mab y Brenin Alpha at Ferch yr hen Amoriad. Sef, ail ran o'r Pererindod Ysprydol o'r Aipht i Ganaan, gan yr un Awdwr.

Printiedig yng Haerfyrddin gan N. Thomas ac ar werth yno, gan Chrispianus Lewis.'

* [Cymharer rhif 1, d.f. 1722.]

† Parry's *Cambrian Plutarch*. [Gweler rhif 1, d.f. 1573.]

‡ Gwel rhif 1, 1693.

¶ Gwel rhif 1, d.f. 1662.

3. ¶ ‘Dechreiad Cysgadur. sef, y Bardd Cwsg, y’r ail rhann. Yn dangos mewn Breuddwyd Gweledigaeth Rhyfeddol y Bardd Cwsg; Ar ymddiddan a fu rhyngddo ef a Chydwybod, Ffydd, Gobaith, Cariad, Gwirionedd, Gostyngyddrwydd, Gonestrwydd, Sobrwydd, Haelioni, Cywirdeb, &c. Ynghylch Llygredd y Byd, ynghyd ag ychydig Annogaeth yn erbyn Swyngyfaredd, Dewiniaeth a’r Cyffelyb.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Tho. Durston tros John Jones.’

Ar ei ddiwedd dywedir, ‘Terfyn R. Parry a’i Gwnaeth.’ 8 tudalen ydyw. Gwr o’r Ddyserth, yn sir Fflint, oedd y bardd hwn.* Efe a anwyd yn 1666. Bu farw yn 1749, yn 83 oed; ac y mae ei fedd wrth gongl ogleddol eglwys plwyf Dyserth. Y mae o’i waith amryw ddarnau yn y *Blodeugerdd*, t. 146, 154, 231, 298. Efe hefyd ydoedd awdwr llawer o’r *Cydymaith Diddan*.†

1724.

1. ‘Hanes y Byd a’r Amseroedd; neu Lyfr Gwybodaeth y Cymro. O Waith S. T. Yr Ail Argraphiad‡ yn gyflawnach na’r Argraphiad cyntaf.

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rogers.’

[Fel hyn y mae tudalen enw y cyfargraff a welais i o’r argraffiad hwn:— ‘Llyfr Gwybodaeth y Cymro. O Waith S. T. Yr Ail Argraphiad yn gyflawnach na’r cyntaf. Argraphwyd yn y Mwythig, gan John Rogers; 1724.’ 12plyg, yn cynnwys 163+6=174 o dudalennau, ydyw.]

2. ¶ ‘Ystyriaeth o Gyflwr Dyn, yn y bywyd hwn. Ac yn yr hwn sy i ddyfod. O Waith y gwir Barchedig Dad yn Nuw gynt Arglwydd Escob Down a Chonnor Jer. Taylor. D.D. Ac a Gyfieithwyd gan Gr. Wynn, Offeiriad Llan Gadwaladr.

Printiedig Ynghaerlleon, gan Roger Adams.’§

3. ‘Oes-Lyfr yn dair Rhan. i. Rhan sydd Gôf-Lyfr Ysgrythurol. ii. Am Frenhinoedd y Brythoniaid, a Thywysogion Cymru. iii. Am Frenhinoedd Lloegr. O Gasgliad Thos. Williams.

* Gwel rhif 6, d.f. 1759.

† Gwel rhif 6, 1759; a rhif 16, d.f. 1766.

‡ Gwel rhif 1, 1721. Daethai Adams i Gaerlleon o Fanchester, lle y buasai yn gyhoeddydd y *Manchester Weekly Journal*. Efe oedd cyhoeddydd cyntaf y *Chester Courant*. Yr oedd iddo fab o’r enw Orian Adams, yr hwn a ddygwyd i fyny i’r un gelfyddyd; ac wedi ymsymud trwy yr holl wlad fel cyssodydd, a bod unwaith yn gyd-feistr, ac yn teithio yn ei gerbyd ei hun, a fu farw mewn lletty tlawd yng Nghaerlleon, yn 80 oed.—*Timperley’s Dictionary*.

§ Y mae yn dra thebyg fod y Roger Adams hwn yn deilliaw oddi wrth R. Adams, yr hwn a fuasai yn amser Iago I, a Siarl I, yn berson Woodchurch, yn sir Gaerlleon. Yr oedd amrai o’r teulu yn enwog yn y weinidogaeth ym mhllith yr Anghydfurfwr.—*Palmer’s Calamy’s Noncon. Memorials*, vol. i. p. 170.

Printiedig gan N. T.*

Y mae yn ei ragflaenu anerchiad cyflwyniadol yr argraffydd 'At yr Anrhydeddus ar Parchedig Griffith Price *Esq.*' yn diweddu, 'Eich gwasanaethwr tra Rhwymedig *Nicholas Thomas.*' 'Caerfyrddin 9 dydd o Fehefin, 1724;' a 'Llythyr at y Darllenydd,' ar ryw rigwm barddonol, gan yr awdwr, 'Eich gwasanaethwr Thomas William, Llandeilo Vawr 9. o fis Mehefin, 1724;' ac hefyd 'The Names of the *Subscribers.*'

Y Thomas Williams hwn oedd enedigol o gymmydogaeth Capel Isaac, ac yn aelod gyda'r Ymneillduwyr yng Nghrug y Bar ac Abergorlech. Bu farw yn 1778, a chladdwyd ef yn Llanfynydd, Mehefin 12, 1778.† Yr oedd yn byw mewn ty ar y Mynydd Bach, ger Llandeilo Fawr. Ymddengys ei fod yn ddyn o alluoedd cryfion deallus, ac yn meddu ar wybodaeth gyffredinol helaeth, yn bregethwr doniol ac athrylithgar, ac yn weinidog cymmeradwy yn yr eglwys. Yr oedd y llyfr hwn yn waith 40 mlynedd o lafur iddo.‡

4. 'Y Cristion Cyffredin, &c.

Argraphwyd yn Nhrerhedyn, gan I. Carter. 1724.'

5. 'Traethawd Ynghylch Gweithredoedd da ac Elusenau. O waith Mr. Thomas Gouge, yr hwn yn ddiweddar a gymerth boen yn gariadus i Lesau Cymru.

Llundain, Printiedig gan H. Meere. 1724.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.§ Ei faint yw 24plyg. Y mae yn ei ddechreu lythyr cyflwyniad at 'Mr. Parthenia Lowman;' a chrybwylliad yn hwnw ei bod hi yn rhoddi y bummed ran o'i hardreth bob blwyddyn i'r tlodion. Nid oes enw cyfieithwr wrtho; ond cesgkir oddi wrth yr hyn a ddywed Mr. David Peter am lyfr arall a gyhoeddassid yn gydiol â'r argraffiad cyntaf o'r llyfr hwn, a gyfieithwyd gan Mr. James Owen, mai y gwr da hwnw a gyfieithodd hwn hefyd. Cyfieithiad go rydd ydyw o 'Sermon' T. G. 'on Good Works;' neu, dichon, fod yr awdwr wedi gwneyd ychydig gyfnewidau ynddi, cyn ei rhoddi i'r cyfieithydd, er mwyn ei chael i ffurf traethawd.||

6. 'Display of Heraldry. By John Gwillim.'

Unplyg mawr yw hwn, a gelwir ef yn 'Sixth Edition,' ac y mae ynddo lawer o gerfluniau.** Dywedir mai gwir awdwr y llyfr hwn ydoedd y Dr. John Barkham, deon Bocking.

* Nicholas Thomas.

† Register of the Parish Church of Llanfynydd from March 25th, 1778, to the 25th of March, 1779.

‡ Morgan, *Hanes yr Ymneillduwyr*, t. 419.

§ Gwel rhif 4, d.f. 1693.

|| *Llythyr* y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.

** Yn ol *Catalogue* B. Quaritch. [Gweler rhif 2, d.f. 1611.]

7. 'Llyfr Gweddî Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, gyda chynneddfau a Ceremonïau eraill 'Reglwis, Yn ol Arfer Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn y Mwythig ag ar werth gan J. R. 1724.'

8. ¶ ['Life of Sir Leoline Jenkins.']

1725.

1. 'Rhai Datguddiadau O'r Nefoedd Newydd ar Daear Newydd, ac hefyd Dyfal Ddisgwyliad y Creadur am ollyngdod o'i Caethiwed i Ridd-did gogoniant Plant Duw. Ynghyd a rhai Arwyddion yn yr hwn y byddent yn Gynnwysedig. Gwedi eu Casglu allan o'r Ysgrythyrau. Gydâ Thybygoliaethau or Amser yn yr hwn y gellir eu disgwyl. A Defnyddiau buddiol i'w i wneuthur o honaw fel yn 2 Petr 3. 14. A ysgrifenyd gan William Alleine, Ag a Drowyd i'r Gymraeg Gan Ioan Harri.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin gan Nicholas Thomas, dros Joan Harri, Ioan Phillips, a Miles Harri. MDCXXV.'

Y mae rhagddalen arall i'r ail ran, gan yr un gwŷr oll, ac yn yr un flwyddyn. Gwallus iawn yw y cyfieithiad a'r argraffiad, fel na ellir gwneyd rheswm o hono mewn amrywiol fanau; ac y mae y cyfieithydd, yn ei ddiwedd, yn ymesgusodi o herwydd y gwallau—ei fod yn anfedrus yn yr iaith Seisonaeg. Y cyfieithydd,

IOAN HARRI, neu John Harri, ydoedd fab i Harri Watkins, o'r Blaenau, ym mhlwyf Aberystroth, sir Fynwy. Ymunodd â'r Bedyddwyr trwy drochiad yn 1696, pan oedd tua 22 oed, gan hynny efe a anwyd tua'r fl. 1674. Tybir y dechreuodd yn lled fuan arferyd ei ddawn yn gyhoeddus; ac ordeiniwyd ef tua'r fl. 1715, pan yn 41 oed, ar annogaeth Mr. Abel Morgan, un o weinidogion y Bedyddwyr a aethai i America, ac a'i hadwaenai yn dda cyn ei ymfudiad o Gymru, fel un cymhwys i ofalu am y rhan o'r gynnulleidfa oedd yn anneddu tua Mynydd Islwyn. Priododd ferch i Watkin Harri, un o hen aelodau cyfrifol y gymnulleidfa, ac yn nhy yr hwn y cyfarfyddent cyn adeiladu y capel. Cymmerodd y gwaith o gyfieithu a chyhoeddi y llyfr uchod ar annogaeth Cymmanfa y Bedyddwyr. Yr oedd y rhan fwyaf o'r corff hwnw o grefyddwyr yng Nghymru yn y dyddiau hyn yn dal y golygiad o deyrnasiad personol Crist, fel y gellid meddwl, gan iddo gael annogaeth y Gymmanfa i'w gyhoeddi, yr hyn a amddiffynir yn y llyfr, ac hefyd fod Miles Harri a Ioan Phillips, yn cyfranogi yn y gorchwyl. 'Yr oedd yn ei farn yn Filflwyddiad, ac yn cael ei gyfrif yn ddyn da iawn,' meddai ei gymmydog, Mr. Edmund Jones, Ebenezer, ger Pont y Pwl, yr hwn nid oedd yn dueddol i roddi y gair goreu i'r Bedyddwyr; ond am hwn ychwanega: 'Y mae yn hawdd genyf gredu ei fod yn caru ymddangosiad Crist, i'r hwn y rhoir coron gogoniant, 2 Tim. iv. 8. Canys ai allan yn y nos i edrych am ddyfodiad Crist. Y mae ei ddaioni yn ganmoladwy, ond nid ei ddoethineb; ond y mae yn ddigon ei fod yn ddyn da, a chan hynny yn wir

ddedwydd.* Bu I. H. farw yn 1737, yn 63 oed, a chladdwyd ef wrth gapel Blaenau Gwent, ym mhlwyf Aberystroth.†

Am ei gynnorthwywr,

MILES HARRI, un o'r Blaenau oedd yntau, a derbyniwyd ef yn aelod gyda'r Bedyddwyr trwy drochiad yn 1724. Ordeiniwyd ef y gweinidog cyntaf i'r Bedyddwyr ym Mhen y Garn, ger Pont y Pwl. Y pryd hyny yr oedd yn byw ym Medwellty, yr hyn oedd yn dra anghyflêus o ran meithder y ffordd; ond yn 1736, efe a symmudodd i Bont y Pwl. Yr oedd yno yn gymmydog i Mr. Edmund Jones, a grybwyllwyd uchod, ac wrth ymdrafod â'r ordinhâd o fedydd trwy daenelliad a throchiad yn eu gwahanol gynnulleidfaoedd, aeth yn ddadl bersonol rhyngddynt, yr hon a gynyddodd i'r fath chwerwder ysbryd o bob tu, nes cynhyrfu holl grefyddwyr y gymmydogaeth, a gwelwyd fod gwir grefydd yn debyg o gael clwyf; a'r canlyniad fu, i'r pleidiau arwyddo papyr o heddychiad, a pheidio â briwo teimladau eu gilydd wrth ymdrin â bedydd. Yr oedd yn meddu tyddyn bychan o'r eiddo ei hun yn — ger Tredegar, ac ar hwnw y cododd gapel, y cyntaf i'r enwad hwnw yno, yn 1763. Bu farw yn 1776.‡

Am IOAN PHILLIPS, nid oes dim ar gael. Y mae yn debyg mai aelod neu ddiakon lled gysurus ei sefyllfa yn y byd ydoedd, a'r hwn a gydymrwymodd â Miles Harri, am eu bod yn gyfoethocach na Ioan Harri, i'w gynnorthwyo yn y draul a'r cyfrifoldeb o argraffu, yr hyn oedd raid ei fod yn gryn lawer, gan ei fod yn llyfr lled drwchus, o faint argraffiadau 'Llyfr y Ficar.'

Yr awdwr, WILLIAM ALLEINE neu ALLEYN, yn hytrach ALLEIN, A.C., yr hwn oedd fab ieuangaf Mr. R. Allein, o Ditchet. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain; a chafodd gaplaniaeth deuluaidd rhyw wr mawr yn Llundain. Yn nechreu y rhyfel cartrefol yr oedd yn byw yn Ilchester. O blegid ei fod yn pleidio y Senedd, cafodd ei ysbeilio yn fynych gan filwyr y brenin, a diogelu ei fywyd yn rhyfedd yn fynych. Symmudodd i Lundain; ac yn 1653, daeth yn weinidog rheolaidd a sefydlog Blandford, yn sir Dorset; ond trowyd ef ymaith pan adferwyd Siarl II, a gadawodd y lle a daeth i Fristol, lle y bu dros saith mlynedd. Yna aeth i Yeovil, lle y bu farw yn 1677, yn 63 oed. Dywedir ei fod yn ddyn duwiol a dysgedig iawn.§

2. 'Golwg ar y Byd, sef llyfr yn cynnwys Briwsion oddiar fwrdd y Dysgedigion i'r Cymru dymunol; ac yn dangos Gallu, Doethineb, a daioni Duw, a dyled Dyn yn y Creadigaeth. Gan Dafydd Lewis, Ficar Llangattwg, ym Morganwg.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Nicholas Thomas. 1715.'|| 12plyg.

* Jones's *Account of Aberystroth Parish*, p. 156.

† *Hanes y Bedyddwyr*.

‡ *Hanes y Bedyddwyr*.

§ Palmer's *Calamy's Noncon. Mem.* vol. ii. p. 118.

|| Y mae Càn o'i waith yn y *Blodeugerdd* (t. 309), o'r enw 'Peroriaeth Haf. [Gweler rhif 5, d.f. 1710.]

3. 'Caniad Solomon, Wedi ei drefnu ar fesurau iw Ganu, a Byrr Agoriad o'r Gân hon, wedi ei drefnu o adnod i adnod ar gyfer y Caniad. Gan T. Baddy.

Argraphwyd yn Nghaerlleon gan W. Cooke, 1725.'

4. ¶ 'Teml Solomon wedi ei hyspyrdoli, neu Oleuni'r Efengyl wedi ei gyrchu allan o'r Deml yn Jerusalem. Gan John Bunyan.

Printiedig yng Haerfyrddin gan Nicholas Thomas.'

5. 'The English and Welch Dictionary: or, the English before the Welch. Y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg; Neu'r Saesneg o flaen y Cymraeg. Containing all the Words that are Necessary to understand both Languages; but more especially, for the Translation of the English into Welch. Yn cynwys yr holl Eiriau sy' angenrheidiol i ddeall y ddwy Jaith, eithr yn fwy enwedigol, i Gyfieithu'r Saesneg i'r Gymraeg. Wherein you may easily find the Welch word, or Words to every English Word. Ym mha un y bydd hawdd i chwi daro wrth air, neu Eiriau Cymraeg i bob Gair Saesneg.

Salop; Printed and sold there by the Author John Roderick, 1725.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac a werthir yno gan yr Awdwr John Hydderch, MDCCXXV.' [8plyg bychan.]

Gwelwyd o'r blaen mai yr un yw John Rogers a John Rhydderch, ac yma gwelir mai yr un yw John Roderick a John Rhydderch, neu yma gydag amrywiaeth arall, *Hydderch*;* ond yn niwedd y rhagymadrodd y mae yn *Rhydderch*. Felly dyma yr un dyn yn rhoddi ei enw mewn pedwar dull gwahanol:—Rhydderch, Hydderch, Roderick, a Rogers. Gan fod hwn yn waith gwreiddiol, a'r cyntaf o'r fath at wasanaeth y cyffredin, er eu hwyluso i ddeall llyfr Seisonaeg (canys y Gymraeg oedd gyntaf yn Geirlyfr a elwid 'Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb,' gan T. Jones, yn 1688),† byddai yn foddhaol cadw ar gael ei ragymadrodd: ac y mae fel y canlyn:—

'*Anwyl Gydwladwyr,*

Fe ddarfu i mi o'r diwedd megys Ymdeithydd hwyr-drwm anibenus, trwy ddirfawr boen a manwl chwilio hyd Lwybrau anghynefinol, a thrwy faith rwystrau attaliedig a diffygion, (yr hyn a wiria'r hen Ddihareb, mai *hîr y bydd y Mûd ymhorth y Byddar.*) gyrraedd at y diben nôd, neu gyflawni f'aml addewidion ynghylch Argraphu y Geirlyfr *Saesneg a Chymraeg* hwn, Ac er wrth hir

* [*Rhydderch*, yn ddigon amlwg yn fy nghyfargraff i. Y mae yr enw mewn prif lythyrenau; a gallasai yr *R* fod wedi dianc heb ddim inc, neu wedi treulio ymaith, yn y cyfargraff a welodd yr awdwr. *Rhydderch* hefyd, fel y sylwa yr awdwr, sydd ar ddiwedd y Rhagymadrodd.]

† [Gwel rhif 3, d.f. 1688].

ddisgwyl i amryw anobeithio, gan dybiaid na byddai i mi byth ddwyn y goïchwyl i ben; Ac yn wir i chwi fy nghymwynasgar gydwladwyr haelionus, y mae rhwymedigaeth fy niolchgarwch am fynghynnorthwyo iw yrru ymlaen, onite fe fasai debyg i ddigwydd megis Plentyn y ddaethai hyd yr anedigaeth heb rym i esgor, ac fe allesid ddywedyd am danai fel y dywedwyd am yr adeiladydd ynfyd, y gwr hwn a ddechreuodd adailadu, ac nid allodd orphen, pa fodd bynnag er bod geni yn fy ymyl fel yr addefais i o'r blaen dri math ar ysgrifen law o'r Llyfr hwn o ysgrifeniad tri o wyr, etto er hynny mae ynddo ef o'm casgliad fy hun, heblaw y geiriau Egwyddorig oedd yn y tair ysgrifen ragddywededig yn dynn ar ddwy fil o Eiriau Saesneg. Canys mi a rifais o'm casgliad yn y Llythyren S. bedwar cant a deg a deugain tros ben y cwbl oedd yn y rhei'ny. Felly y mae 'ngobaith y bydd i'r llyfr hwn fod yn dra buddiol a llesol i drigolion *Gwynedd* a *Deheubarth*, o herwydd un o'r tair ysgrifen Eirlyfr a soniais i am danynt o'r blaen, a ysgrifennodd y Parchedig Mr. *Erasmus Lewes*, Periglor Eglwys *Llanbedr Pont Stephan*,* o gasgliad pa un mae fy hyder i cewch yn yr arweiniol Eiriau gymmaint ag sy'n arferedig ym mhob parth o Ddeheubarth, ac sy ddieithrol i ni *Yngwynedd*, At ba un fe chwaneodd amryw Eiriau o gasgliad y Brytwn Dysgedig a Llafurus hwnnw Mr. *Edward Llwyd A.M.* Diweddar geidwad Tryssor-gell y Teganau a'r peth mwya' dieithr a rhyfeddol yn Rhyd-Ychen. Ac er bod amryw o'r geiriau hynny, yn anyspys, ac yn dywyllion jawn i fro 'nganedigaeth i, etto fi a'i rhoddais ar lawr yn olaf, yn yr arweiniol Eiriau, gan obeithio y bydd i'r rhei'ny hefyd fod yn wasanaethgar i ryw frô neu duedd gan mwyaf, oni byddant eu gyd. Weithian *Gymru* un Jaith nid oes geni amgenach iw wneyd na'i gyflwyno ef megis lledfegyn i'ch mysg, tan obeithio y bydd i chwi ei goledd a'i achlesu, a chyd-ddwyn am diffygion ar beiau, a lithrodd o'm hanfodd, pa un bynnag ai camgymeriad, ai mysgrellni, a bod mor hynaws ai wellau, a dygymmod ag ef'n dirion-farn, o herwydd mai hwn yw'r cyntaf a ddaeth allan ar *Saesneg* yn y ddull hon, o flaen y Cymraeg, Ac ni roed orchwyl o'r fath yma ond antur allan y tro Cyntaf erioed yn ddifeius, gan hynny pwy byn nag a fyddo mwya lllithiedig a pharodol i feio arno, pan gymmero ef gymmaint o boen a thrafferth arno'i hun i ddwyn ymlaen un gorchwyl ag a gymmerais i wrth hwn, nid ammheua na bydd mwy Ewyllysgar i esgusodi, ac i roi ateb hynawsedd dros bob gwall ac anaf a welo 'Ngwaith

Eich ufuddaf Wasanaethwr,

JOHN RHYDDERCH.'

'MWYTHIG Ebrill yr 10fed Dydd 1725.'

* Erasmus Lewes, ydoedd fab ieuangaf i John Lewis, o'r Gernos, plwyf Llangynllo [ger Castell Newydd Emlyn], yn sir Aberteifi. Bu yn ficar Llanbedr Pont Stephan, a pherson Bettws Bledrws, yn yr un sir, am 50 mlynedd. Bu farw Chwefror 19, 1744, yn 82 oed, a chladdwyd ef yng Nghanghell Eglwys Llanbedr.—*Meyrick's Cardiganshire*.—Yr oedd ychydig o flynyddau yn ol hen ysgriflyfr ar gael, o'r enw 'Briwsion o'r Brydyddiaeth Gymreig,' ac ynddo hanner dwsin o englynion, 'Myfyrdod wrth fyned i'r Eglwys,' a 'Ysgrifenydd gan ERASMUS LEWES, Ficar Llanbedr.'—*Gwyllydydd*, ii. t. 347.

[Ar y diwedd y mae—'A Compendious Herbal: or, The Names of most of the Physical Herbs, Trees, and Fruits in English and Welch. Llyssiau Lyfr Cryno. Neu Henwau y rhann fwyaf o Physygwawl Lysiau'r Ddaiar, Coed, a Firwythau Coed, yn Saesneg a Chymraeg.' Nid yw y gyfrol wedi ei thudalenu, ond ar y tudalen olaf ond un ceir y selnodau 'K k k 2.' Y mae y papyr yn hynod o wael, a'r argraffwaith yn gynllun perffaith o anghywirdeb a bwn-glerwch.]

6. ¶ 'Canwyll y Cymry, sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficar Llanymddyfri. Y degfed argraphiad gyda ychwanegiad helaeth.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston, lle y gellir cael Brintio bob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.'

Gellir barnu mai y flwyddyn hon yr argraffodd Durston yr argraffiad hwn, canys y mae efe wedi cyfnewid dwy linell ym mhennill 19fed y gân* 'am ddiwedd y Byd,' fel hyn:—

'Mil a saith gant aethant heibio
A phump ar hugain o'r oes mor gryno.'

7. ¶ 'The Statement of Hy. Browne and Rd. Gibbins, concerning 15 Shares in the Welch Copper Company, the transfer of which was forbidden by proclamation.'

Argraffwyd yr uchod yn anghyhoedd yn 1725.

8. ['Life and Character of Judge Jeffreys.' 8vo.]

1725-26.

1. 'Maddeuant i'r Edifeiriol. Neu Draethawd am Natur Pechod a Grym Edifeirwch, Dan Ddammeg y Mab Afradlon. Gan J. Goodman, D.D. Caplan Cyffredinol i fawrhydi Siarl yr Ail, yn Saesnaeg. Ag a gyfiaithwyd yn Gymraeg trwy ddirfawr boen a diwdrwydd gan y Diweddar a'r Dysgedig Mr. Wm. Lewis o'r Llwynderw, a Mr. Evan Pryce, o Ryd-y-benne.

Argraphwyd Ynghaerfyrddin, ag a werthir yno gan Isaac Carter y Printiwr yn y Flwyddyn 1725-6.'

Mae y llyfr hwn yn cynnwys 450 o dudalenau 12plyg;† a'r prif eiriau ar y rhagddalen yn gochion. Buasai yn ddymunol gallu

* [Can cv. yn argraffiad 8plyg Llanymddyfri, 1858.]

† [Wythplyg lled fychan yw ei faint. Ar ol tudalen yr enw ceir 'Llythr Gorchymmynedig'—'At y Gwir Anrhydeddus Arthur Iarll Essees, Viscount Malden, Baron neu Breyr o Hadham, Arglwydd Lieftenant o Sir Hartfford, un o Arglwyddi'r tra Anrhydeddus ddirgel Gyngor Mawrhydi y Brenin;' 'Rhagymadrodd yr Awdwr at y Darlennydd;' a rhai pethau arweiniol ereill; 14 tudalen, yn gwneuthur yn y cyfan 464 o dudalenau. Y mae wedi ei argraffu yn gywirach na llawer o lyfrau yr oes hono.]

gwybod rhywbeth am y cyfieithwyr; ond am yr awdwr, nid ydys yn bresennol yn gwybod pa un ydoedd ai John Goodman, a wnaed yn Gydyrnaith o Goleg Ecseter, Rhydychain, yn 1548; neu ynte y Dr. John Goodman,* person Hadham, a chapelwr i'r Brenin Siarl II, ac a fu mewn dadl bapwr â'r Dr. Sherlock.†

Mr. WILLIAM LEWIS, un o'r cyfieithwyr, ydoedd foneddwr dysgedig a gwladgarol, yn byw yn y Llwyn Derw, ger Castell Newydd yn Emlyn,‡ ac yr oedd yn un o hynafiaid W. P. Lewis, Ysw., Llys Newydd. Dywed awdwr 'Drych y Prif Oesoedd,' fod ganddo lyfrfa ardderchog o lyfrau perthynol i Gymru.§

2. 'Meddyliau ar Grefydd. Gan y Gwir Anrhydeddus Dad yn Nuw, Gwilim Beveridge, D.D. gynt Arglwydd Esgob Llanelwy. O gyfieithiad Jago ab Dewi.

Printiedig yn Llundain; ac ar werth yno gan W. Roberts, ar Lambeth Hill.' 12plyg.

Yr oedd hwn, tybir, yn ail argraffiad.|| William Roberts, ydoedd enedigol o sir Gaernarfon. Bu tros lawer o flynyddoedd yn aelod o ac yn argraffydd i Gymdeithas y Cymmrodorion. Yr oedd yn 1759 yn trigfanu yn Abchurch Lane, ac yn 1762, yn White Friars.** Rhoddwyd allan argraffiad o'r llyfr da hwn, gan T. Williams, Dolgellau, yn 1804.

3. ¶ 'Llyfr Gweddî Gyffredin, y Salmau, a'r Erthyclau, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thos. Durston.' 4plyg.

Nid oes amseriad iddo; ond dechreu y Calendar yn 1726, yr hyn sy brawf mai y pryd hyn y cafodd ei gyhoeddi.

1726.

1. ¶¶ 'Siwrnai, Neu Daith Cristiana a'i phlant o Ddinas Distryw tua'r Ganaan Nefol ar ôl ei phriod, yn dangos am y Blinderau mawrion a gyfarfuant a hwynt ar y ffordd, a'u dyfodiad diogel o'r diwedd i'r wlad ddymunol. Sef, Ail ran o Daith y Pererin. Gan John Bunyan.

* [Diau mai y Dr. John Goodman hwn, ac nid y llall, oedd awdwr y gwaith dan ystyriaeth.]

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. pp. 641, 698.

‡ [Y mae lle o'r enw Rhyd y Benau yn agos i'r Cribin, nid neppell iawn o Lanbedr, Ceredigion; a hwyrach mai yno yr oedd Evan Pryce, y cyfieithydd arall, yn byw ac yn bod.]

§ *Cyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Castell Newydd Emlyn, 1860, t. 58.*

|| Gwel rhif 3, d.f. 1717.

** Gwel *Cofrestr Cymdeithas y Cymmrodorion* am y blynyddoedd hyny.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin gan N. Thomas.*

2 ¶ 'Y Catecism; Hynny yw, Athrawiaeth i'w dysgu gan bob Dyn, cyn ei ddwyn i'w Gonffirmio gan yr Esgob.'

Y mae yn ei ragflaenu anerchiad rhagymadroddol 'At Blwyfolion Llan-Wenog yng Ngheredigion,' gan 'Eich Gwasanaethwr yn yr Arglwydd, a'ch Periglor anwiw, MOSES WILLIAMS,' yr hwn a wnaed tra yr oedd ef yn Llundain yn 'diwygio Argraphiad Newydd y Bibl, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, sy'n awr dan y Print-wasg;' yr hwn a ddywed, 'Ni feddyliais na allwn lai yn y cyfamser na danfon rhyw Lyfrau duwiol i'ch plîth chwî, megis jawn am fod cyhyd amser yn absennol. A chan nad oes yma ond prinder o rai Cymraeg, ac mai ofer yw anrhegu fy Nghydwladwyr uniaith â rhai Seisneg, mi brintiais gynnifer Copi o *Gatecism yr Eglwys* ac a wasanaetha ieuengetid *Gwenog*, ond odid dros rai Blynnyddoedd.†

3. 'Epistolæ Ho-Elianæ: Familiar Letters Domestick and Foreign, Divided into Four Books;

Partly { Historical,
Political,
Philosophical:

Upon Emergent Occasions. By James Howell, Esq; one of the the Clerks of his late Majesty's most Honourable Privy Council.

The Ninth Edition, very much Corrected.'

London, 1726, 8vo.

[Ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'r argraffiad cyntaf o'r Llythyrau hyn yn y fl. 1645, a'r bedwaredd ac olaf yn 1655. Nid oes dim perthynas rhwng y gwaith a Chymru, ond yn unig bod ei awdwr yn Gymro.]

James Howel oedd frodor o'r Bryn, yn Llangammarch, yn sir Frycheiniog.

4. 'An Explanation of the Principles of the Christian Religion, and the Truth and Reasonableness of them shew'd in Short Discourses on the Church-Catechism. To which is added, A brief Account of Confirmation, and other Usages of the Church; with a conclusion concerning the excellency of the Christian Religion and of

* Gwel rhif 7, d.f. 1722.

† Gan nad yw y ragddalen wrth y *copi* sy genyf o'r Catecism hwn, nid ydwyf yn *gwbl* sicr pa un ai y flwyddyn hon, ynte pan yr oedd Mr. Williams yn Llundain yn golygu argraffiad 1718 o'r Beibl y cafodd ei gyhoeddi. [Nid oes nemawr o ammhueaeth nad pan yr oedd efe yn Llundain yn golygu argraffiad 1717-18 o'r Beibl Cymraeg, yr ymddangosodd y 'Catecism' hwn; canys cafodd bersoniaeth Defynog yn y fl. 1717, a bywoliaeth St. Mair, Bridgewater, yn 1724; ac felly rhaid fod ei breswiliad ym mhlwyf Gwenog, a'i gyssylltiad ag ef, wedi darfod cyn yr amser hwn (1726). Cofnodir ei briodas fel wedi cymmeryd lle ym mhlwyf Defynog yn 1718; ac un o'r plwyf hwnw ydoedd ei gydweidd.]

the Church of England. By R. Davies, M.A. Rector of Ross-Crowther in Pembrokeshire.

London, Printed by W. Barger, &c. MDCCLXXVI.'

5. ¶ 'The Case of Sir Nathaniel Curzon, claiming the Barony of Powys, and exhibiting in his Proofs that his Ancestors were possessed of the Monastery of Byldwas, Stafford, the Manor of Andover, Hants, and Ironbrook Grange, Derbyshire. 1726.'

Argraffwyd i ddybenion personol.

6. 'Mosis Gulielmi, A.M. R.S. Socii Repertorium Poeticum, sive Poematum Wallicorum, quotquot haecenus videre contigit, Index Alphabeticus, primam singulorum lineam, et loca ubi inveniuntur, exhibens. Accedit Poetarum Nomina, et quando plerique omnes floruerint.

Londini ex Officina Typographica W. Robert. A.D. MDCCLXXVI.'

1727.

1. 'Y Beibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd, &c.

Printiedig yn Llundain gan Brintwyr y Brenin, Ioan Basged, ac Asseins Harri Hills, a fu farw. 1727.'

Hwn oedd yr ail argraffiad o'r Beibl o dan olygiad y Parch. Moses Williams, ac ar draul y Gymdeithas er Lledaenu Gwybod-aeth Gristionogol. Ychwanegwyd ato daflen o arwyddocâd geiriau anghyfaith. Yr oedd heb ystyr y pennodau, neu gynnwysiad, na chyfeiriadau ymylenawl; ac yr oedd tuchan mawr ym mhllith y cyffredin o blegid y gommeddiad hwn, gan eu bod wedi ymgynnefino â'u gwasanaethgarwch. Yr oedd gydag ef hefyd 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin,' a

'Llyfr y Salmau wedi eu cyfieithu, a'u cyfansoddi ar Fesur Cerdd yn Gymraeg. Trwy waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionnydd. Printiedig yn Rhydychen dros Ioan Basged, Printiwr i Ardderchoccaf Fawrhydi y Brenin. 1727.'

Mae yn debyg mai er prysuro y cwbl trwy y wasg y rhoddwyd y Salmau Canu i'w hargraffu yn Llundain. Pris y Beibl hwn yn gyflawn, gyda'r Llyfr Gweddi a'r Salmau Canu, wedi ei rwymo yn dda, ydoedd 4s. yn unig, fel y tystia y cyfeiriad isod.*

2. 'A Grammar of the Welch Language. By W. Gambold.'

[Carmarthen, 1727, 16mo.]

* 'The Welsh Bible, with Apocrypha, Service, and Psalms, corrected by the Reverend Mr. Moses Williams. 4s.'—*List of Books Printed and Sold by the Bible-Sellers of London*, cyssylltedig â'r 'Whole Duty of Man,' a argraffwyd (yn Seisonaeg) yn 1737.

WILLIAM GAMBOLD a anwyd yn Aberteifi, yn 1672. Dygwyd ef i fyny i'r Eglwys Sefydledig. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Ecseter, Rhydychain; a bu yn gwasanaethu plwyfau Puncton a Llanychaer [ger Abergwaen], yn sir Benfro. Cyfansoddodd Eirlyfr mawr Seisonaeg a Chymraeg, yr hwn y methodd gael cefnogaeth i'w gyhoeddi, a daeth ei lawysgrif i feddiant y Parch. John Walters, a defnyddiwyd hi ganddo ef yng nghyfansoddiad ei Eirlyfr mawr ei hun. Ei fab ef ydoedd John Gambold, yr hwn a roddodd ei le i fyny yn yr Eglwys, ac a ymunodd â'r Morafiaid, ac oedd yn gyfaill gwresog i holl eglwyswyr Methodistaidd yr oes, yn neillduol John a Charles Wesley. Ordeiniwyd ef yn esgob yng nghyfundeb y Morafiaid. Y mae capel a chynulleidfa yn Hwlfordd, sir Benfro (yr unig un yng Nghymru) fel gweddillion ffrwyth ei lafur. Bu y tad farw yn 1728, yn 58 oed. Rhoddwyd allan ail argraffiad o'r 'Grammar' yng Nghaerfyrddin, yn 1817, a thrydydd, helaethach o lawer, yn y Bala, yn 1828, ym mhen can mlynedd ar ol marwolaeth yr awdwr, a'r olaf hyd yn hyn, er ei fod yn haeddu gwell croesaw; canys llyfr defnyddiol ydyw i'w roddi yn llaw y Sais a fyn ddyfod yn adnabyddus ag egwyddorion yr iaith Gymraeg.*

3. 'Dydd y Farn Fawr, neu sain yr Udgoron diweddaf, Sef Ymdangosiad dilus a disymmwth Crist i Farnu'r Byd. Gan Thos. Vincent. Wedi ei osod allan yn Saes'neg yn Lloegr, yr Alban, a'r Iwerddon. Yn awr wedi ei Gyfieithu, a'i osod allan goreu y gellid at wasanaeth ac achos presennol y Cymry. Gan Jencin Jones. A'i argraffu yng Nghaerfyrddin gan Nicholas Thomas. 1727. (Pris 1s. 6c.)'

4. 'Y Cywyr Ddychwelwr. Yn Datcuddio y nifer bychan o'r rhai gwir Gredadwy, a'r anhawstra mawr o Droedigaeth Gadwedigol. Gan Tho. Shephard, cyfaill gynt o Ysgol-dŷ Emanuel Ynghaer-garddu ac yn ddiweddar o Gaer-garddu yn Lloegr newydd.

Printiedig Yng-Haerfyrddin gan Nicholas Thomas, dros W. Williams a J. Thomas, ac a werthir yno gan Crispianus Jones yn Heol y Farchnad. 1727. Pris 1s. 6d.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.† Rhoddwyd hysbysrwydd am argraffiad arall yn gyssylltedig â Llyfr Hymnau a argraffwyd ym Modedeyrn, Mon, tua'r fl. 1760, dan olygiad Mr. John Roberts (Sion Rhobert Lewis yr Almanaciwr); ond nid ydys yn deall iddo gael ei gyhoeddi. Tybiwn mai gweinidogion neu bregethwyr ym mhllith yr Ymneillduwyr yn y Deheubarth ydoedd J. Thomas‡ a W. Williams, yn gystal a C. Samuel, yr hwn ydoedd yn weinidog y Pant Teg. Y

* Nod yn Rhagymadrodd *Geiriadur* Walters, 1794.

† Gwel rhif 7, d.f. 1657.

‡ Yr oedd yn weinidog yr Ymneillduwyr yn Llechryd, ger Aberteifi, yr amser hwn; a buasai cyn hynny yn gyd-weinidog â Mr. Rees Price, yn Ty'n-Ton, neu y Bettws, ger Pen y Bont ar Ogwy.

mae llythyr helaeth 'At y Darllenydd Cristionogol,' gan W. Greenhill, yn ei ragflaenu.

Am yr awdwr, nid oes genyf ddim hanes mwy am dano nag a ddywedir ar y rhagddalen uchod.

[Y mae cofnod am Shephard (neu Shepheard) a Greenhill, d.f. 1657, rhif 7, t. 176.]

5. 'Myfyrdod erbyn Angau.'

6. 'Gwaedd yng Nghymru yn Wyneb pob Cydwybod: Gan Morgan Llwyd o Wynedd.'

Mae yn dra thebyg mai ail argraffiad ydoedd, er nad ydwyf wedi gwled, na chael hanes am y cyntaf. Tybygwn y rhaid ei fod tua'r un amser â 'Llyfr y Tri Aderyn,' tua 69 yn ol i hwn yn awr. Y mae yn gyssylltedig ei 'Llythyr i'r Cymry cariadus,' yng nghyd â hanes ei 'Fywyd Ysbrydol,' a ysgrifenydd ganddo ef ei hun. Y mae hefyd ragymadrodd gan Thos. Williams, Mynydd Bach, sir Gaerfyrddin, sef awdwr yr 'Oes-Lyfr,' am yr hwn y crybwyllwyd yn barod.*

7. 'Y Wir Eglwys yn cyrchu att y nod nefol Ynghadernid y tragywyddol Dduw. Lle mewn rhan y gwelir Gwendid a gwaith a gobaith y Crediniol. A gwir allwedd i'r Ystyriol i agoryd llyfr y Datcuddiad. At yr hyn y chwanegwyd byr hanes Eglwys Rhydyceished yn eu rheulltuad o Henllan, 1705. Gan Matthias Maurice.

Argraphwyd yn y flwyddyn 1727.'

MATTHIAS MAURICE (MORICE neu MORRIS), a anwyd ym mhlwyf Llanddewi y Felffre, yn sir Benfro, yn 1684. Dygwyd ef i fyny yn ddilledydd. Wedi troi ei feddwl at y weinidogaeth ym mhlith yr Ymneillduwyr, cafodd fyned am beth amser i Athrofa Caerfyrddin, o dan ofal y Parch. W. Evans, yr athraw cyntaf, lle y gwnaeth y fath gymnydd fel ag i allu cyfansoddi yn rhwydd yn y ddwy iaith. Lle ei aelodaeth ar y cyntaf oedd Henllan Amgoed, yn sir Gaerfyrddin; ond o blegid rhyw ddadleuon, a achlysurasid trwy ysgrifeniadau y Dr. Williams a'r Dr. Crisp, enciliodd ef, ac amryw ereill, a ffurfiasant eu hunain yn eglwys yn Rhyd y Ceisiaid. Pan oedd yno, cyfododd ei elynion erlidigaeth yn ei erbyn, i'w orfodi gan y dirgnud (*press-gang*) i wasanaethu yn y llynges; ond gwardwyd ef ar hyd y nos gan foneddwr. Gadawodd Gymru yn 1712, i wasanaethu cynulleidfa yn Olney, yn sir Bucks, lle y bu hyd 1714, pryd y symudodd i Rodwel, yn sir Northampton, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr a gymmerodd le yn 1738, yn 54 oed. Ei brif waith yw 'Social Religion Exemplified,' yr hwn a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y diweddar Barch. B. Evans, o'r Dref Wen.†

* Gwel rhif 3, d.f. 1724.

† *Congregational Magazine*, vol. vii. pp. 1673-76.

8. 'Case of a Dispute between Jasper Jones, Esq. versus John Kenrick, Esq., and Sir Wm. Cranmer, relative to Estates in Shropshire.'

Papyrau a argraffwyd mewn achos cyfreithiol yw hwn, yn 1727, o berthynas i etifeddiaethau Rushbury, Bryn, &c., wedi codi oddi ar fargais (*mortgage*) a wnaed yn 1683.

9. ¶ 'Case between Anne, Widow of the Rev. Dr. Price, T. Baker, and Watkin Williams Wynne, relative to the Purchase of the George Inn at Wrexham, for the Accommodation of Mr. Wynne's Electors for the County of Denbigh, Mr. Middleton having purchased the Lion for his Electors.'

Dwy bapyrlen ydyw a argraffwyd yn 1727, o blegid dadleuon yn yr Etholiad i'r Senedd; ond prisid ef yn Llyfr-restr J. C. Hotten yn 5s. 6c.!

10. ¶ 'A Salutation to the Britains to call them from many Things to the one thing Needful; especially to the poor unlearned Tradesmen, Plowmen, and Shepherds, those that are of the low Degree like myself. Translated from the British Language by Rowland Ellis, corrected by David Lloyd. By Ellis Pugh.

Philadelphia, Printed 1727.'

Gwaith un o'r Crynwyr Cymreig yw y llyfr hwn. Cynnwys 15 tudalen o arweiniad, a 222 tudalen o draethawd, oll yn 237 tudalen 12plyg. Gwerthwyd un ail law am 1p.

[Gwaith Elis Puw Grynwr (rhif 5, d.f. 1782) ydyw hwn. Cyfieithwyd ef i'r Seisoneg o lawysgrif yr awdwr, ac argraffwyd ef yn America, ym mhell cyn i'r gwaith gwreiddiol ymddangos trwy y wasg, yr hyn ni bu tan y fl. 1782. Gweler cofnod am Elis Puw o dan y flwyddyn hono.]

1728.

1. 'Hanes y Byd a'r Amseroedd, er Hyfforddiad rhai o'r Cymru, o waith S. T.

Llundain.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad, a hynny ym mhen saith mlynedd,* yr hyn a brawf dderbyniad poblogaidd y llyfryn hwn gan ein hynafiaid.

2. 'Dwy Daith i Gaersalem. Yn cynnwys yn Gyntaf, Hanes cywir a rhyfeddol o Ymdaith Dau Bererin o Loegr er ys Blynnydoedd, a pha ddigwyddiadau a fu iddynt yn eu Hymdaith o Gaersalem Grand Cairo, Alexandria &c. Yn Ail, Ymdaith pedwar Gwr ar ddeg o Saeson, yn y Flwyddyn 1669. o

* Gwel rhif 1, d.f. 1721; a rhif 1, d.f. 1724; a hwn yma.

Scanderoon i Dripoli, Joppa, Rama, Caersalem, Bethlehem, Jericho, Afon yr Jorddonen, Llynn Sodom a Gomorah, &c. Ynghyd a Hên bethau, tystiolaethau a Choffadwriaethau lleoedd a sonir am danynt yn yr Ysgrhythyr gan T. B. At ba un y Chwanegwyd, Gwiwgf Amlygol ar Gyflwr y Iddewon Genedl gynt ac yn ddiweddar, sef Descrifiad y Tir Sanctaidd, ei Gosgorddiad. Ffrwythlondeb &c. 2. Amryw Gaethgludiad yr Juddewon yn ôl iddynt feddianu'r lle. 3. Amcan a Thebygolion pa beth a ddaeth o'r Dêg Llwyth a Gaethgludodd yr Assuriaid, ag amryw Hanesion perthynasol i hynny. 4. Cyflwr yr Juddewon er pan aethant ar Alltudiaeth, a helynt bresenol Palestine. Ynghyd ag Ymadrodd ynghylch y Gynghorfa fawr a gynhaliodd yr Juddewon yngwastadedd Adjady yn Hungaria. yn y flwyddyn 1650. i chwilio yr Yscrethyrau ynghylch Christ. gan S. B. Sais oedd yn y mann ar lle. Gyda Rhyfeddol Siomedigaeth yr Juddewon gan gau Ghrisr yn Smyrna 1666. Yn ddiweddar y Dynghedfol a therfynol Ddestrywiad yr Juddewon ym Mhersia yn y flwyddyn 1666 ar Achosion o hynny. O Gasgliad R. B. yn Saesneg a Chyfeithiad William Lewes yn ddiweddar o'r Llwyn Derw yn Sir Gaerfyrddin, Wr Bonheddig.

Argraphwyd yn y Mwythig gan John Rhydderch ac ar werth ganddo ef yno.'

[Nid oes amseriad wrth fy nghyfargraff i; ond gall fod wedi treulio ymaith, gan fod y papyr yn hynod fasw, a pheth briw yng ngwaelod y ddalen. Lle y dylai y dyddiad fod y mae rhyw un wedi ysgrifenu '1721' ag inc hynod o ddiliw. Splyg lled betryal ydyw ei faint; a chynnwys y llyfr sydd o'm blaen 172 o dudalenau, heb law y rhagddalen, ar gefn yr hon y mae yr anerch 'At y Darllenydd;' ond y mae dalen, os nid ychwaneg, yn eisieu ar y diwedd. Y mae'r papyr yn nodedig o wael, a'r argraffwaith yn bur aflêr.]

Y mae yn dra thebyg mai Thos. Baddy, gweinidog yr Ymneillduwyr yn Ninbych, a ddeallir wrth y 'T. B.*' uchod: am yr 'S. B.,' 'R. B.,' a 'William Lewis,'† nid oes dim hanes i'w gael.

Cyhoeddasiad y llyfr hwn yn Saesonaeg tua'r flwyddyn 1695, pryd y cyhoeddwyd amrai fân lyfrau Seisoneg hanesiol gan R. B. (Robert Burton), a dichon mai cangen o'r un teulu llenorol oedd yr 'S. B.' uchod.

3. 'Golwg ar Destament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist, sef Crynhoad o swm a sylwedd y pethau hynny a gynnwysir ym mhob Lyfr, ac ym mhob Pennod, wedi ei gasglu allan o Esponiad helaeth y Diweddar a'r Parchedig Mr. Mathew Henry, Gweinidog yr Efengyl. At yr hwn y chwanegwyd Tabl ar fesur

* Gwel rhif 1 a 2, d.f. 1703, lle y ceir mwy am y llyfr hwn; rhif 2, d.f. 1705; a rhif 4, d.f. 1713.

† [William Lewes (neu Lewis) o'r Llwyn Derw ydoedd un o gyfeithwyr 'Maddeuant i'r Edifeiriol,' rhif 1, d.f. 1725-26; lle y ceir byr grybwylliad am dano.]

Cerdd yn ol yr Egwyddor A. B. C. I helpu'r côf, ac i wneuthur i fynu y diffyg o Concordans bychan i'r Testament Newydd, wedi ei gyfeithu i'r Cymraeg gan Josua Thomas.

Cacrfyrdin, Printiedig gan Nicholas Thomas dros Christmas Samuel. 1728.'

Y mae yn dra thebyg mai yr un yw y Josua Thomas hwn â 'J. Thomas' a enwyd o'r blaen.* Dichon mai Mr. Thomas, Ffos yr Efail, Llandeilo Fach, yr hwn a fu yn weinidog yr Ymneillduwyr yn Llanedi, sir Gaerfyrddin, ydoedd.†

4. 'Grammadeg Cymraeg. Yn cynnwys Athrawiaeth Llafaryddion, a Lliosiniaid, Helaeth Ddosbarth ar y Sillafau a'u hamryw berthynasau. Wyth Rann Ymadrodd a'i Chynneddfau. Hyfforddiant i jawn Ysgrifenyddiaeth, beth yw Enw, Rhag Enw, Gorair, Arorair, Cenedlryw, Nôd Bannog, Cyssylltiad, y Pum Amser a'r Moddau, Cystrawen, &c. Colofnau Cerdd Dafod, a chyflawn Athrawiaeth Awdurdodawl y Prif Feirdd, ym Mhrydyddiaeth a Barddoniaeth yn gyflawnach nag erioed o'r blaen. Gorchestion Dafydd Nanmor ac eraill, Beiau ac Anafau Cerdd Dafod, Hanes Eisteddfodau a'r modd y trefnid gynt. Statud Griffydd ab Cynan. Ac amryw bethau eraill tra Angenrheidiol i'w deall cyn y meiddio neb Ryfygu bod yn Bencerdd, nag jawn Ysgrifenydd ychwaith. O Gasgliad, Myfyriad, ac Argraphiad John Rhydderch, ac ar werth ganddo ef yn y Mwythig. 1728.'

Crynodeb ydyw o Ramadeg y Dr. Sion Dafydd Rhys, gyda rhai pethau ychwanegol.

5. 'Case of Hugh Powell against the King, upon an Information in the Nature of a Quo Warranto against the said Hugh Powell, of Castlemaddock, in the Parish of Llandetaelog, in the county of Brecknock, to shew by what Authority he Claimed to be a Capital Burgess and Common Councilman of the Borough of Brecknock. 1728.'

Cynnwysa ddau bapyr hanesol cywrain, a argraffwyd yn gyfrinachol.

6. 'Maurice and Richard Wynn's Appeal to the House of Lords, respecting the Estates of Maesmochnant, Gwern Wood, &c. in the Parish of Llanrhaiader, Denbigh. 1728.'

Y mae yn perthynu i diroedd a elwir Maes y Criafol, Bwlch Glas, Mynydd Mawr, &c., a chafodd ei argraffu yn anghyhoedd.

* Gwel rhif 4, d.f. 1727.

† Morgan, *Hanes Ymneillduwaeth*, t. 423.

7. ['Gwth i Iuddew, Neu Bregeth, i. Yn rhoddi Hanes pobl yr Iuddewon; Gymmaint o ffafr ag oedd Duw yn ei dangos iddynt. ii. Pa mor Ysgeler ddyinion oeddynt. iii. Pa fodd y gorddiwesodd Barn Duw hwy am eu Hysgelerder: Dinystr eu Templ: eu Gorthrymderau, &c. Gan Theophilus Evans P. Llanddulas Abercressau.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston.'

Rhydd ein hawdwr y gwaith hwn, yn amryfus yn ddiau, o dan y fl. 1752 (gweler rhif 4, dan y flwyddyn hono); ond gan y dywedir ynddo fod yr awdwr (Theo. Evans) ar y pryd yn Berson Llanddulas, rhaid iddo gael ei gyhoeddi ryw bryd rhwng 1719 a 1728, pryd y dyrchafwyd ef i Lanynys, yr hon a ddaliwyd ganddo am ddeng mlynedd, pan y cafodd fywoliaeth Llangammarch, yr hon a wasanaethwyd ganddo hyd y fl. 1763.]

8. ['Life of Sir John Perrot.' 8vo.]

1729.

1. 'Pregeth neu Draethawd yn erbyn cymmeryd Enw'r Arglwydd yn ofer, a osodwyd allan er rhybudd i'r sawl a chwenychant drefnu eu Buchedd yn ddiuog ger bron Duw, am iddynt hwy ymogelyd eu llygru a'r arfer diffeith o Gymmeryd yn ofer Enw y Gwr a'i gwnaeth. Iago i. 26.

Llundain.'

2. ¶ 'Gwaith a Gwobr ffyddlon weinidogion yr Efengyl, a wnaed yn gyhoeddus ar ddeisyfiad eglwys Llangloffan.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, dros Mr. John Evans, o Bistillmeugan.'

Pregeth ydyw ar *Can.* viii. 12, a bregethwyd yng Nghymmanfa y Bedyddwyr, yn Llangloffan, sir Benfro, yn 1729, gan

ENOCH FRANCIS, yr hwn ydoedd fab i Francis David Francis, ac a anwyd mewn lle o'r enw Pant y Llaethdy, ar lan Teifi. Dechreuodd yn 1683 bregethu gyda'r Bedyddwyr, yn 19 oed, mewn lle a elwir Pen y Waen, ym mhlwyf Llanllwni. Daeth wedi hyny yn weinidog Castell Newydd yn Emlyn, a Rehoboth, a elwid y pryd hyny Partley. Priododd tua'r fl. 1718 fenyw ragorol o Flaen Rhymini, yn sir Forganwg, tybygid, yr hon oedd yn aelod yn Hengoed. Anneddai ym mlodau ei ddyddiau yng Nghapel Iago, ger Llan y Bydder. Efe ydoedd un o'r rhai cyntaf o weinidogion y Bedyddwyr a dderbyniodd gynnorthwy o Drysorfa y Gweinidogion yn Lloegr. Ei awduriaeth ef yw rhai o'r hen lythyrau cymmanfaol, yn enwedig un y fl. 1737. Ystyrir ef yn ddyn da, ac o ysbryd araf a thangnefeddus. Bu farw Chwefror, 1740, yn 57 oed, a chladdwyd ef wrth Gapel Cilfywyr, yn sir Benfro. Yr oedd gan yr hebryngwyr felly 20 milltir i'w gludo. Yr oedd myntai fawr o honynt, a threfnwyd fod rhan o honynt o'r 10 plwyf yr oedd ganddynt i fyned trwyddynt, gymmeryd y baich trwy eu plwyf eu hunain. Bu iddo

6 o blant, a daeth un o honynt, Benjamin, am yr hwn y ceir achos i grybwyll eto, yn weinidog enwog. Cyfansoddwyd Cywydd Marwnad iddo gan Mr. Jenkin Thomas, gweinidog yr Ymneillduwyr yn y Dref Wen, ger Aberteifi.*

3. 'Llythyr Bugeilaidd oddi wrth Weinidog at ei Blwyfolion, &c. A osodwyd allan er Lleshâd i'r cyfryw nad oes ganddynt mo'r amser na'r Amgyffred i ddarllain hirach a dysgediccach Traethiad-
au; gan W. A. D.D. A Gyfaethwyd i'r Gymraeg o'r pedwerydd Argraffiad yn y Saesonaeg gan A. T. er Llesad i'w Blwyfolion ac eraill.

Printiedig yng Haerfyrddin, gan Isaac Carter yn y Flwyddyn 1729. Pris pedair Ceiniog.'

Y mae yr uchod yn Seisonaeg hefyd.

[Ymddengys mai y Parch. Alban Thomas, periglor Blaen y Porth, Ceredigion, a chyfieithydd 'Dwysfawr Rym Buchedd Grefyddol,' ydoedd yr 'A. T.' uchod.]

4. 'Traethawd ar Benarglwyddiaeth Duw. Gan Eliseus Cole.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad,† yr hwn a gyhoeddwyd ar annogaeth Cymmanfa y Bedyddwyr, a gynnaliwyd yn Llangloffan, sir Benfro, yn 1729, o blegid y ddadleuaeth Galfaidd ac Arminaid oedd yn terfysgu eu heglwysi yn y dyddiau hyn.‡

5. 'Catecism, gan Benjamin Keach.'

Yn y gymmanfa uchod, gwnaed y penderfyniadau hyn, Bod y 'Catecism,' fe allai yr eiddo Mr. Keach, a Cole ar Benarglwyddiaeth Duw,' y ddau i gael eu hargraffu yn Gymraeg, gan fod athrawiaethau Arminaid yn awr yn anesmwythâu y Bedyddwyr. Gwnaethent lawer o derfysg ym mhlith yr Annibynwyr a'r Henaduriaethwyr am agos i ugain mlynedd o'r blaen, yn fuan ar ol y dadleuon yn Llundain o berthynas i weithiau y Dr. Crisp, ac ysgrifeniadau y Dr. Daniel Williams. Yr oedd y diweddfaf yn enedigol o Wrecsam.§

6. 'The History of Great Britain, from the first inhabitants thereof, till the death of Cadwalader last king of the Britains; and of the kings of Scotland to Eugene v. As also a short Account of the kings, dukes, and earls of Bretagne, till that dukedom was united to the crown of France, ending with the year of our Lord 68, in which are several pieces of Taliessin, an antient British Poet, and a defence of the antiquity of the Scottish nations; with many other antiquities, never before published in the English tongue: With a

* *Hanes y Bedyddwyr.*

† Gwel rhif 2, d.f. 1711.

‡ *Hanes y Bedyddwyr.*

§ Thomas's *History of the Welsh Associations*, am Langloffan, 1729.

compleat index to the whole. By John Lewis, Esq.; Barrister at Law. Now first published from his original manuscript [By Hugh Thomas] To which is added, The Breviary of Britayne, written in Latin by Humphrey Lhuyd, of Denbigh, a Cambre Britayne; and lately Englished by Thomas Twine, gent.

London: printed for T. Gyles* in Holborn, Mess. Woodman and Lyon in Covent-garden, and C. Davies in Paternoster-row. MDCCXXIX.'

Dywed Ritson mai dychymmygol yw y llyfr hwn.† Crybwyllir cryn lawer am yr Hugh Thomas uchod gan Theophilus Jones.‡ Dywedir mai Pabydd ydoedd Hugh Thomas.

JOHN LEWIS, Ysw., a anwyd yn Llynwenni, ger Maesyfed Newydd, yn 1600. Yr oedd yn byw yn Maenor Owain, yn sir Benfro, ac yr oedd yn hendaidd i Mr. Richard Fenton, awdwr yr 'History of Pembrokeshire,' ac yn fab i John ab George ab Lewis ab Richard ab James ab Jenkin ab Howel ab Jenkin ab Rhys ab Rhotbert ab Owen ab Robert ab Gwrward ab Gwilym ab Gwrward ab Gwilym ab Gwrared o Cem maes ab Cuhelyn Fardd ab Gwynfardd Dyfed ab Pwyll Pendefig Dyfed ab Meurig Brenin Dyfed ab Arcol Law Hir ab Pyr y Dwyrain ab Lliw Hen.§

7. 'Cyfrif Cywir o'r Pechod Gwreiddiol.'

Llyfryn dienw oedd hwn a gyhoeddwyd gan y blaid wrth-Galfinaidd ym mhlith yr Ymneillduwyr yn Neheudir Cymru, a bernir mai ei awdwr ydoedd Mr. Jenkin Jones, Llwyn Rhyd Owain.||

8. ¶ 'Old Private Case relative to Estates in Eisloes, Sholton, Mancott, and Aston, in Flintshire, between Wm. Sparrow and Wm. Shaw, Lessee of Ravenscroft Gifford, Esq.'

Argraffwyd mewn achos cyfreithiol yn 1729.

9. ¶ 'Act of Parliament relating to the Salt Works at Neath. 1730.'

Ef allai nad yw yr amseriad yn hollol gywir. Yr oedd Mr. Nash, tad yr hynod Richard (neu *Beau*) Nash, o'r Bath, yn rhanog yn y gwaith hwnw.

* Fletcher Gyles oedd lyfrwerthydd enwog yn Holborn, Llundain; ac yn drysorydd Ysgol Elusengar Hatton Garden. Bu farw Tach. 8, 1741.—Timperley's *Dictionary*.

† Ritson's *Memoirs of the Celts*. Gwel hefyd rhif 1, d.f. 1568; a rhif 1, d.f. 1573.

‡ *History of Breconshire*.

§ *Cambrian Register*, 1796, p. 65, note.

|| Rees's *Non-Con. in Wales*, p. 298.

1730.

1. 'Yr ymarfer o Lonyddwch. I gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn llonydd yn y Byd trafferthus hwn. Gan George Webb. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Iago ab Dewi o'r pummed Argraphiad yn Saesonaeg.

Argraphwyd yng Haerfyrdding gan Nicholas Thomas, dros Gryffydd Sion o Bant yr Haidd. 1730.'

[Yn fy nghyfargraff i, yn y wedd ganlynol y mae y rhagddalen :—'Yr Ymarfer o Lonyddwch : i gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn llonydd yn y Byd trafferthus hwn. Gan George Webb. A gyfiaethwyd i'r Gymraeg gan Iago ap Dewi or pummed Argraphiad yn Saesonaeg.' Nid oes iddo un argraffeb na dyddiad ar y rhagddalen ; ond ar ol y 'Terfyn,' t. 167, chwanegir :—'Argraphwyd ym Modedern yn sir Fon, gan John Rowland, tros, Ellis Jones.' Ond nid oes yma un dyddiad chwaith. Rhyw lyfryn 12plyg ydyw o ran maint. Y mae tair dalen o Weddiau ar y diwedd ; a chynnwys yr holl lyfr 173 o dudalenau. Crefftwaith carbwl sydd arno.]

Awdwr y llyfr hwn,

GEORGE WEBB, D.D., ydoedd fab i weinidog, a anwyd yn Bromham, yn sir Wilts. Aeth i Goleg y Brifysgol, Rhydychain, yn 1598, ac oddi yno i Goleg Corff Crist, lle y cyrhaeddodd ei B.C. a'i A.C., ac ordeiniwyd ef yn weinidog Steeple-Ashton, yn ei swydd enedigol, yr hwn le a gafodd gan Iarll Penfro. Wedi hyny cafodd bersonoliaeth yn ninas Caerbaddon. Y pryd hyny cyrhaeddodd B.D. a D.D. ; a gwnaed ef yn gapelwr wrth alwad i Siarl I ; ac efe a fedyddiodd ei blentyn cyntaf, wrth yr enw Siarl Iago (= Charles James), yr hwn a fu farw mewn awr wedi hyny. Yn 1624, gwnaed ef yn esgob Limeric, yn Iwerddon, lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1681. Yr oedd y Dr. Webb yn cael ei gyfrif y pregethwr goreu a berthynai i'r llys yn ei oes. Ysgrifennodd a chyhoeddwyd amrai draethodau a phregethau o'i eiddo yn Seisonaeg, heb law y traethawd uchod, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1631, o dan yr enw 'The Practice of Quietness, directing a Christian how to live quietly in this troublesome World.'*

2. 'Cyd-gordiad Egwyddorawl o'r Scrythrau, neu Gyfarwyddiad i gael pŵb lle o'r Scrythur Lân. Gan Abel Morgan.

Philadelphia, Argraphwyd gan Samuel Keimer, a Dafydd Harry. 1730.'

Gwelir i'r llyfr hwn gael ei argraffu yn Philadelphia, yn Unol Daleithiau America ; a myn rhai mai Benjamin Franklin oedd y gweithiwr arno ; o blegid, meddant, nad oedd un wasg yn Phila-

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 7, &c., 654. Y mae Wood yn chwanegu mai nid yn ei dŷ y bu farw, ond yn garcharor gan y gwrthryfelwyr Pabaidd Gwyddelig, yng Nghastell Limeric ; ac iddynt ganiatáu ei gladdu ym mynwent St. Munchins, yn y ddinas hono : ond i'r rhai dyhiraf o honynt, cyn iddo fod yn gorwedd yno 24 o oriau, gymmeryd ymaith y corff a'i chwilio, mewn gobaith cael modrwyau, neu ryw bethau ereill o werth. Ond pan na chawsant ddim, rhoddasant y corff yno yn ol.

delphia y pryd hyny, ond yr un hòno wrth ba un y bu Franklin yn gweithio. Gwir y bu ef yn cyd-argraffu ag S. Keimer, ond nid ymddengys ei fod yno y pryd hyny. Y mae y llyfr wedi ei gyflwyno i 'Dafydd Lloyd, Ysw., prif ynad talaeth Pensylvania.' Buasai yn dra dymunol allu rhoddi ychydig o eiriau hanesol am holl gefnogwyr, &c., y llyfr Cymraeg Americanaidd hwn; ond am yr awdwr yr ydys yn meddu peth gwybodaeth, digon i foddioni unrhyw ymfynydd.

ABEL MORGAN a anwyd yn 1637, mewn lle o'r enw yr Allt Goch, ym mhlwyf Llanwenog, yn sir Aberteifi. Dechreuodd bregethu yn 19 oed. Ordeiniwyd ef ym Mlaenau Gwent, yn sir Fynwy, tua'r fl. 1700, er iddo gael galwad yn 1697. Ymfudodd i'r America yn 1711, yr hyn a achlysurwyd gan ryw flinderau yn yr eglwys. Cyfarfuwyd i ymadael ar Awst 23, y flwyddyn hòno, pryd y rhoddodd iddynt amryw gynghorion buddiol er eu cysur dyfodol. Er yr achlysuron a'i tueddent i ymadael, yr oedd y cyfarfod ymadawol yn un o alar mawr, gan iddo fod yn llafurus a defnyddiol yn eu plith. Cychwynodd ei fordaith o Fristol, Medi 28; ond ni chyrrhaeddasant America hyd y gwanwyn canlynol, wedi mordaith dymnestlog, pryd y bu amryw farw, ac yn eu plith ei wraig ei hun a'i fab. Yr oedd iddo frawd o'r enw Enoch Morgan, a brawd unfam o'r enw Benjamin Griffith, y rhai ill tri a fudasant, ac a fuant weinidogion llafurus ym mhllith y Cymry ymfudol i'r wlad hòno. Wedi iddo fod rai blynyddau yn Philadelphia, efe a symmudodd i Ben y Pec, lle y bu yn gweinidogaethu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn 1722, a chladdwyd ef yn Philadelphia. Gwelir mai ym mhen saith mlynedd wedi ei farwolaeth y cyhoeddwyd y llyfr. Cyhoeddwyd y llyfr gan ei ddau fab, Enoch a Benjamin, yng nghyd â dau weinidog arall a aethent o'r un gymmydogaeth trosodd.* Y mae yn briodol sylwi mai Mynegair neu *Concordans* i'r Beibl ydyw, yr hwn a gymmerodd Mr. Peter Williams yn gynllun i'r eiddo ef.† Cyfieithodd hefyd 'Gyffes Ffydd y Bedyddwyr' yn Gymraeg, a rhai Catecismau; ond ni wyddys a argraffwyd y rhai hyny, a gadawodd ar ei ol lawer o ysgrifeniadau ereill.‡

3. 'The History of the Principality of Wales. In three parts. Containing 1. A brief account of the Kings and Princes of Britain and Wales, till the final extinguishing of the Royal British line. 2. Remarks upon the lives of all the princes of Wales of the Royal families of England, from Edward I. to Charles II. 3. Remarkable observations on the most memorable persons and places in Wales, and of many considerable transactions and passages that have happened therein for many hundred years, &c. By Robert Burton. The Second Edition.§

* *Hanes y Bedyddwyr*; *Y Cyfaill* (Utica, New York), cyf. vii. t. 25; *Crostry's Baptist History*, vol. i. pp. 122-3, vol. iv. pp. 193, &c.

† Rhagymadrodd Mr. P. Williams i'w *Fynegair*.

‡ *Hanes y Bedyddwyr*.

§ Gwel rhif 3, d.f. 1695.

London: Printed for A. Bettesworth* at the Red-Lyon, and J. Batley at the Dove, in Paternoster-Row. 1730.'

4. 'Y Cyfrif Cywiraf o'r Pechod-Gwreiddiol, i geisio rhagflaenu twyll a hudoliaeth rhyw bapurun Cabledus, na fyn neb ei arddel, heb na Thad na Mam, ond y Press, heb nag enw nag amser wrtho yn dwyn yr enw Cyfrif Cywir o'r Pechod Gwreiddiol, fel Swm y peth y mae yn ei gynnwys yntho, yr hwn sydd yn llwyr anheilwng o'r fath enw: Can's y mae'n cyfeiliorni yn ddirfawr yn ei gyleh, ac yn crybwyll am bechod gweithredol Adda yn ei le ef.

Argraphwyd Ynghaerfyrddin gan Isaac Carter, Mis Mehefin, y 27, 1630. Dros Mr. James Lewis a Mr. Christmas Samuel, Gweinidogion yr Efengyl.'

Sylwyd o'r blaen am C. Samuel.* Yr oedd Mr. J. Lewis yn un o Ddinas Cerdin, ym mhlwyf Llandyssul, sir Aberteifi; ac yn weinidog yr Ymneillduwyr ym MhenCader, sir Gaerfyrddin. Bu farw yn 1747, yn 73 oed.† Atebiad ydoedd hwn i'r 'Cyfrif Cywir.'‡

5. 'Cyfreithjeu Hywel Dda ac Eraill, seu Leges Wallicae Ecclesiasticae et Civiles Hoeli Boni et Aliorum Walliae Principum, quas ex variis Codicibus Manucriptis eruit, Interpretatione Latina, Notis & Glossario illustravit Gulielmus Wottonus, S. T. P. adjuvante Mose Gulielmio, A.M. R.S. Soc. Qui & Appendicem adjecit.

Londini: Typis Gulielmi Bowyer. MDCCXXX.' Folio.§

Nid oes eisieu chwanegu dim yma am M. Williams; ond byddai yn briodol sylwi ychydig am ei gydlafurwr yn y gwaith hwn.

Y Dr. WILLIAM WOTTON, yr hwn oedd fab i Henry Wotton, person Wrentham, sir Suffole, a'r lle y ganwyd ef yn 1666. Dangosodd pan yn blentyn alluoedd anghyifredin i ddysgu ieithoedd; ac erbyn ei fod yn bum mlwydd, yr oedd, o dan addysg ei dad, wedi cyrhaedd cryn rwyddineb mewn darllen a chyfieithu Lladin, Groeg, a Hebraeg. Derbyniwyd ef i Neuadd Catherin, Rhydychain, pan nad oedd yn llawn ddeng mlwydd oed, lle y cyrhaeddodd wybodaeth o'r Galdaeg, Syriaeg, a'r Arabaeg. Yn 1679, cafodd ei B.C. pan yn 13 oed. Yn y gauaf canlynol dygwyd ef i sylw dysgedigion yn Llundain gan y Dr. Burnet; ac ym mhlith ereill tynodd sylw y Dr. Wm. Lloyd,

* Gwel rhif 6, d.f. 1711; ahif 2, d.f. 1716; rhif 5, d.f. 1717; rhif 1, d.f. 1723; a rhif 3, d.f. 1728.

† *Hanes yr Ymneillduwyr*, t. 406-7.

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1729.

§ Cyhoeddwyd ail argraffiad yn 1841, gan y 'Commissioners of the Public Records of the Kingdom,' dan olygiaeth Aneurin Owen. [Nid ail argraffiad mo hono, ond testyn newydd yn ol llawysgrifau hynaf a chywiraf, yng nghyd â chyfieithiad Seisoneg. Cynnwys hwn lawer mwy nag y sydd yn argraffiad y Dr. Wotton a Moses Williams.]

esgob Llanelwy, yr hwn a foddhawyd mor fawr yng ngallu ei gof yn ail adrodd air yng air bregeth a bregethasai yr esgob, fel y cymmerodd ef gydag ef i Lanelwy, ac y cadwodd ef yno dros amser yn llyfrgellydd iddo. Pan ddychwelodd i Rydychain, gwnaed ef yn Gymmrawd, a chafodd ei A.C. yn 1683, pan yn 17 oed. Yn 1691, cyrhaeddodd ei B.D., pryd hefyd y cyflwynodd y Dr. Lloyd, esgob Llanelwy, iddo fywoliaeth ddiwaith Llandrillo, yn sir Ddinbych, a chafodd hefyd le arall yn sir Buckingham. Cyhoeddodd amrywiol o weithiau dysgedig. Ei 'Gyfreithjeu Hywel Dda,' gyda chyfieithiad Seisonaeg [Lladin] a gafwyd ar ei ol mewn ysgrif; ac er y dywedir iddo ddysgu Cymraeg, fel ag i fod yn alluog i bregethu ynddi, prin y credir y buasai y gwaith hwn mor berffaith, na thebyg, oni buasai i Moses Williams ei olygu. Gwnaed ef yn D.D. yn 1707, a bu farw yn Buxted, Essecs, yn 1726, yn 60 oed.*

6. 'Case of Silence, Widow of Thomas Folkes, and Maurice Lewis, Son an Executor of Grace Griffiths, to Llaneigredd Park, and other Lands in Anglesea, and an Estate in Caernarvonshire.' 1730.

7. ['Cyngor dirfrifol i un ar ol bod yn Glaf, mewn Llythyr oddi wrth Weinidog at un o'i Blwyfolion gyda Diolch i Dduw ar ol myned yn iach o glefyd.

A Brintiwyd yn Llundain ac a werthir gan J. Downing, ym Martholomew Close, ger llaw Smithfield. '1730.' 12plyg, 28 tudalen.]

1731.

1. 'Athrawiaeth yr Eglwys. Y Rhan Gyntaf. Yn Cynnwys xii. O Draethiadau Bucheddol, ar amryw Achosion, wedi eu Casglu allan o rai o Homiliau Etholedig Eglwys Loegr. A'u Cyfansoddi mewn Dull Newydd, ac Araith Gyfaddas i'r amser, er lles i'r Cyffredin. Gan Peter Nourse, D.D. At yr hyn y 'chwanegwyd Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol i Deuluoedd. O Waith y Parchedig Dad yn Nuw, William Wake, D.D. Arglwydd Arch-Esgob Caergaint neu Canterbury, a i Gyfieithu gan E. S. Person Llangar.

Argraphedig yn Ghaerlleon gan Roger Adams. 1731.' [16plyg.]

Am Nourse, nid oes genyf yn awr ddim i'w ddywedyd; ond am

WILLIAM WAKE, D.D., efe a anwyd yn Blandfford, sir Dorset, yn 1657. Cafodd ei ddysg yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei A.C. yn 1679. Dangosodd sel wresog dros Brotestaniaeth yn amser y Chwyldroad, a chafodd ei wobrwyo gan William III. Yn 1686, gwnaed ef yn gapelwr i'r brenin, yn 1693, yn berson St. James, Westminster, yna yn ddeon Ecseter; ac yn 1705, cyfodwyd ef yn esgob Lincoln; ac yn 1716, yn archesgob Caergaint. Ysgrifennodd

* Chalmer's *Biographical Dictionary*; *Penny Cyclopaedia*.

amrai draethodau ar ddadlyddiaeth Babaid, a phregethau yn dair cyfrol, gydag esboniad ar Gatecism yr Eglwys. Bu farw yn 1737, yn 80 oed.*

2. 'Pregeth Ynghylch Gofalon Bydol a Bregethwyd yn Eglwys Llangywer, yr ail Dydd o Fis Mai, 1720, ar Gladdedigaeth Mr. Robert Wynne, diweddar Vicar Gwyddelwern. Gan E. S.

Argraphedig yn Ghaerlleon gan Roger Adams, 1731.' [16plyg.]

Cyhoeddwyd y ddau uchod yn gydiol â'u gilydd, y 'Bregeth' fel i lenwi gwagle yn niwedd y papyr a fwriedid i'r llyfr 'Athrawiaeth yr Eglwys.' Awdwr y bregeth a chyfieithydd y gwaith uchod ydoedd Edward Samuel, person Llangar, ger Corwen, 'gynt person Bettws Gwerfil Goch.' Yr oedd y Parch. Robert Wynne yn fardd o gryn fri yn ei oes. Y mae ar gael o'i waith 'Marwnad ar ol y Frenhines Ann,' a 'Haf-gân yn amser Heddwch.† Cafodd ficeriaeth Gwyddelwern yn 1702, gan yr Esgob Jones.

3. 'Y Geirlyfr Saesonaeg a Chymraeg. A ddechreuwyd gan Sion Rhydderch, a ychwanegwyd, ac a orphenwyd gan y Parch. J. Williams, Person Plwyf Willey, yn sir Amwythig.

Mwythig, Argraphwyd, ac ar werth yno gan Thos. Durston.'

Yr oedd John Rhydderch wedi marw erbyn hyn, ac wedi gadael ar ei ol ysgrif barotöedig tuag at ail argraffiad o'i Eirlyfr, a gyhoedd- asid chwe' blynedd yn ol.‡

[Nid ymddengys fod sicrwydd pa bryd y bu Sion Rhydderch farw; ond eglur yw ei fod wedi marw ryw amser cyn cyhoeddi y Geirlyfr hwn; a gwyddys ei fod yn fyw ar ddiwedd y fl. 1729; ond yr oedd y pryd hyny wedi gorfod rhoi heibio ei alwad argraffyddol, ac wedi ymadael â'r Amwythig. Mewn llythyr at Lewis Morys, dyddiedig yn Llundain, Rhagfyr 1, 1729, rhydd yr hanes canlynol am dano ei hun:—'Yr wyf megys alltud yn y ddinas hon, yn ddiswydd ddfudd i mi fy hunan na neb arall, yr hyn sydd i'm digaloni yn ddirfawr; a gorfod arnaf fi, o herwydd anfoddlonrwydd cartrefol, roddi llythyr ysgar i'm holl offerynau galwedigol, er nad oedd arnaf na chwyn na cholyn mewn modd yn byd am gymmaint a cheiniog pan ddaethym o'r Amwythig, nac eto, i Dduw y bo'r diolch. A chan fy mod i mor ansefydlog, nid oes ynwyf na chalon na chefn i ysgrifenu at neb o'm hen gymdeithion.** Nid ymddengys fod dim hanes pa beth a ddaeth o hono ar ol hyn, na pha mor ebrwydd y darfu ei ddaiarol daith.]

4. 'The Welsh Opera. 1731.'

5. 'Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan Enw Mr Drygddyn, Wedi ei Annerch i'r Byd mewn Ymddiddan cyfeillgar Rhwng Mr Doethineb a Mr Ystyriol. Gan Joan Bunyan, Awdwr Taith y Pererin. Wedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg gan T. Lewis o'r Pedwar-

* *Biographical Britannica*; W. Jones's *Christian Biography*.

† *Blodeugerdd*, t. 296-7.

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1725.

* *Y Gwyllydydd*, iv. 152.

ydd Argraphiad yn y Saesonaeg. At yr hyn y Chwanegwyd Bywyd a Marwolaeth Joan Bunyan. Yn dangos am ei Enedigaeth, ei Ddugiad i fyny, a'i Fuchedd ddrygionus yn ei Ieuengetyd; y Moddion tan ba rai y cafodd ei Droedigaeth; ei waith, ei ddiodefiadau, ei Demtasiwnau, a holl Helynt ei Fywyd hyd ei ymadawiad or Byd hwn.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan N. Thomas a J. Williams. MDCCXXXI.'

Gelwir hwn y trydydd argraffiad, ond ymddengys ei fod y pedwerydd argraffiad.* Y cyfieithydd,

THOMAS LEWIS, ydoedd frodor o sir Frycheiniog, ac a ymunodd yn foreu â H. Harris a'r Methodistiaid. Efe oedd un o'r pregethwyr di-urddau cyntaf. Yr oedd wedi ei benodi yn gymmedrolwr neu yn llywydd y Cymdeithasau yn sir Frycheiniog; ac fel y cyfryw, yr oedd, gyda'r offeiriaid, pan oedd Mr. Whitfield yn gymmedrolwr, yn gwneyd i fyny y Gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd yng Nghymru, sef yn Watford, yn sir Forganwg, Ionawr 5, 6, 1743.†

7. 'Humphredi Llwyd, Armigeri, Britannicæ Descriptionis Commentariolum: necnon De Mona Insula, et Britannica Arce sive armamentario Romano Dissertatio Epislatoris.

Londini: Typis Gulielmi Bowyer. MDCCXXXI.'

Nid argraffwyd ond chwe' llyfr yn unig o hwn, am danysgrifiad o £1*p.* 1*s.*

[Adgyhoeddiad yw o weithiau Humphrey Llwyd, y rhai a gofnodir d.f. 1570 a 1572. Y golygydd ydoedd y dysgedig Moses Williams, A.C., A.C.F. Nid yw enw y llyfr yn gwbl gyflawn yma.]

8. 'Papers privately printed for the House of Lords by the Family of Sir George Wynne, concerning the Estate at Halkin, in Flintshire, in which a very rich Lead Mine was discovered. 1731.'

9. 'The Reverend Mr. Williams, Rector of Llanddettys Discourse, Preach'd at St. Paul's Covent Garden, On St. David's Day, March 1, 1731. Before the Society of Ancient Britons, Establish'd in Honour of Her Majesty's Birth-Day, And the Principality of Wales. Publish'd at the Request of the Stewards, and the Rest of the Society.

Printed in the Year MDCCXXXI.'

Y mae yn 16 tudalen 4plyg. Enw yr awdwr yn llawn wrth y 'Dedication' yw 'Walter Williams.'

* Gwel rhif 4, d.f. 1688; rhif 3, d.f. 1706; rhif 9, d.f. 1714; a hwn yma.

† *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. 162.

1731-32.

'Cymmorth i'r Cristion, a Chyfarwyddyd i'r gwr Ieuange. Yn Cynnwys I. Hyfforddiadau Athrawiaethol er jawn hyfforddi ei Farnedigaeth. II. Cyfarwyddiadau buddiol, yn dangos pa fodd i dreulio ei holl Fywyd. III. Cynghorion neillduol yn dangos pa fodd i dreulio pob diwrnod. Mewn Perthynas i'w 1. Weithredoedd Naturiol, 2. Gorchwylion Moesol, 3. Difyrwch Angenrheidiol, 4. Dyledswyddau Crefyddol. Yn fwy Neillduol Ynghylch 1. Gweddi Gyhoeddus, 2. Deuluaidd. 3. A Dirgel. Darlleniad a Gwrandawriad y Gair. Derbyniad y Sacrament. Gan W. Burkitt, M.A.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan N. Thomas, ac ar werth gan John Lewis, Gwerthwr Llyfrau. 1731-2.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.*

1732.

1. 'Bedydd Plant yn cael ei Ymddiffyn, lle mae'r Rhesymmau am dano o'r Scrythyr, Rheswm, a Henafiaeth, yn fyr yn cael eu Cynnig; Y Gwrthresymmau yn erbyn yn cael eu Hatteb. Yn Profi fod Bedydd trwy Dywalltiad neu Dannelliad yn Gyfreithlon. Y Rhesymmau ynghylch Angenrhaid trochiad yn cael eu Hystyried. Gan Fowler Walker, V.D.M.

Argraphwyd yn Llundain gan Risiard Hett, dan lûn y Bible a'r Crown yn y Poultry. MDCCXXXII.'

2. ¶ 'Yr unrhyw yn Seisonaeg.'

Mr. F. Walker ydoedd weinidog Ymneillduol yn Bridgnorth, sir Amwythig, ac a symmudodd i'r Fenni neu Abergafenni, yn sir Fynwy, yn 1724. Bu farw yn 1753.†

3. 'Adnodau ar rai Lleoedd Cableddus a Sarhaus o lyfrau a osodwyd allan yn ddiweddar, ar Fedydd Plant, gan Mr. Fowler Walker, mewn Llythyr at yr Awdwr, yn mhlaid y Cynnulleidfaoedd tan Fedydd yn Neheubarth Cymru.

Argraphwyd yn Llundain, yn y Flwyddyn MDCCXXXII.'

Dywed 'Hanes y Bedyddwyr' mai Mr. David Rees, brodor o Hengoed, ar derfynau siroedd Mynwy a Morganwg, ydoedd awdwr yr uchod. Cafodd ran o'i ddysg gan y Parch. Samuel Jones, A.C., Bryn Llywarch, nid pell o Gastell Nedd. Aeth i Lundain, lle yr ordeiniwyd ef ar eglwys y Bedyddwyr yn Limehouse, a bu yno yn weinidog tra defnyddiol am tua deugain mlynedd. Ganwyd ef yn 1683. Bu farw yn 1748, yn 65 oed. Am y ddadl hon, dywed awdwr 'Hanes y Bedyddwyr' yn helaethach mewn lle arall.‡ 'O

* Gwel rhif 3, d.f. 1704.

† Ysgrifau y Dr. John Evans, yn Llyfrfa Red Cross Street, Llundain.

‡ *History of the Welsh Association.*

ddeutu 1726, neu 1727, ychwanegwyd llawer [o aelodau] at [eglwysi] y Blaenau a Hengoed. Achlysurowd hyn lawer o ddadleuon ar fedydd. Yr oedd y pryd hyny ddau weinidog ieuanc selog yn y ddadl, Mr. Miles Harris tros fedydd y crediniol, a Mr. Edmund Jones tros fedydd babanod. O'r diwedd, cynhyrfodd y wlad gymmaint, fel ag y darfu i'r ddwy ochr appwyntio cyfarfod ar y mater, nid yn gymmaint i'w ddadleu, ag i gymmeryd mwy o ofal ar dymmerau, goganau, &c. Yr oedd amryw o weinodogion yn bresennol; rhoed i fyny beth i'w gilydd, a maddeuodd y naill i'r llall, a chytunwyd ar gyfeirio at ogoniant Duw, anrhydedd yr efengyl, a chadw parch eu gilydd. Ysgrifenyddwyd ar dystiad, gwiredwyd, ac argraffwyd y cytundeb ar hanner llen. Y Bedyddwyr a arwyddasant oeddynt Mr. Griffith, o Hengoed, a Mr. John Harris a Mr. Miles Harris, o'r Blaenau; y gwrth-fedyddwyr, y Meistriaid David Williams, Daniel Rogers, ac Edmund Jones, o Ben y Main; James Davies, Evan John, a Jenkin John, o Ferthyr Tydfil. Yr oedd y rhai hyn oll yn weinidogion, pregethwyr, neu ymgeiswyr. Gwiredodd pump y cytundeb; y cyntaf o ba rai oedd Mr. Fowler Walker, gweinidog Annibynol yn y Fenni. Cadwyd y cytundeb hwn i fyny am rai blynyddau. Yr oedd wedi ei amseru yn 1728. Ond yn gynnar yn 1732, cyhoeddwyd llyfryn ar fedydd babanod yn Seisoneg, gan Mr. Walker, y tyst cyntaf uchod. Cyhoeddwyd ef yn Gymraeg hefyd yn fuan. Am y rheswm hwn, cytunodd y brodyr, yng Nghymmanfa y Blaenau, gyhoeddi, yn Gymraeg, draethodyn bychan Mr. Charles Doe, o ddeugain o destynau o'r Ysgrhythyr ar fedydd y crediniol, ac anfonwyd llythyr at Mr. Walker, gan Mr. David Rees, o Lundain, yr hwn a drowyd i'r Gymraeg, ac a argraffwyd yn yr un flwyddyn, gydag addewid yno yr ystyrid ei lyfr ym mhellach yn hamddenol.'

4. 'Afalau Aur i Bobl Ifeinge, a Choron gogoniant i Hên Bobl. Neu'r Dedwyddwch o fod yn Dda yn Amserol, a'r Anrhydedd o fod yn Hên Ddysgybl. Hefyd, Gwrthddadleuon y Gwr Ifange wedi eu Hatteb, ac Amheuon yr hen Wr wedi dattod. Gan T. Brooks, Gweinidog yr Efengyl. A Gyfieithwyd i'r Gymraeg o'r Degfed ar hugain Argraphiad yn y Saesonaeg.'

Caerfyrddin, Argraphwyd gan N. Thomas. MDCCLXXXII.'

THOMAS BROOKS. Bu am beth amser yn pregethu yn St. Thomas Apostol, Llundain; ond dewiswyd ef yn 1651, gan fwyafrif o blwyf-olion St. Mair, Heol y Pysgod, Llundain. Yn ei egwyddorion eglwysig yr oedd yn Annibynwr. Bu farw Mehefin 27, 1680.* Y mae gwaith arall o'i eiddo wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg yn ddiweddar, sef ei 'Mute Christian' (=Y Cristion Mud).

5. 'Rhesymau Eglur Paham Nad Taenelliad Babanod, ond Bedydd y Crediniol yn unig, a ddyleu gael Derbyniad, A ymddengus oddiwrth ynghylch Deigain Text o'r Ysgrhythyr, a Deongliadau

* Palmer's *Calamy's Nonconformist Memorial*, vol. i. p. 156.

amlwg arnynt. O waith Charles Doe. Y Pedwerydd Argraphiad yn y Saesoneg. Yn awr a drowyd i'r Gymraeg er lles i'r Cymru.

Printiedig yn Bristol, gan Sam. Farley. 1732.'

Dyma y llyfr y crybwylla awdwr 'Hanes y Bedyddwyr' am dano. Ei faint yw 91 tudalen. Yr awdwr,

CHARLES DOE, oedd weinidog i gynulleidfa o Fedyddwyr yn Llundain. Cyhoeddodd Attodiad i Fywyd Bunyan, yn gyssylltedig â'r 'Helaethrwydd o Ras.' Yr oedd yn byw yn y Borough, yn Southware, ac yn gyfaill neillduol i Bunyan.*

6. ¶ 'Catechismau, i'w dysgu gan Blant.'

Cyfieithiad yw hwn o waith Seisonaeg. Y cyfieithydd ydoedd y Parch. Jenkin Jones, Llwyn Rhyd Owain. Y mae 'At y darllenydd' yn ei ragflaenu, yn cyrhaedd pedair neu bum dalen, a'i amseru—'J. Jones, *Llwynrhydown*, Awst yr ail Dydd. o.c. 1732.' Yn ganlynol ceir tair dalen o 'Cyfarwyddyd i ddysgu Darllain a Ysgrifennu Cymraeg,' yng nghyd â 'Gweddi yr Arghwydd,' a 'Credo'r Apostolion.' Cynnwysa y llyfr tua 150 o dudalennau.

7. ['Buck's Views in Wales.' Folio.]

1732-33.

'Golwg ar y Beiau y sydd yn yr Hanes a Brintiwyd ynghylch Pedair neu Bump Mlynedd i nawr, ym mherthynas i'r Rhwygiad a wnaethpwyd yn Eglwys Henllan, yn y Blynyddoedd 1707, 1708, 1709.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan N. T. a J. W. 1732-3.'

Yr awdwr oedd Jer. Owen; a'r ddadl oedd trefn eglwys yn ol y Testament Newydd; sef M. Maurice dros y drefn Annibynol a'r athrawiaethau a elwid yn Galfinaidd uchel, a Jer. Owen dros y drefn Bresbyteraid, a'r athrawiaethau a ystyrir yn wrth-Galfinaidd.†

1733.

1. 'Traethawd i brofi ac i gymhell ar yr holl Eglwysi y Ddyledswydd Fawr Efangylaidd o Weddio dros Weinidogjon. Gan Jeremi Owen.

Argraphwyd yn Llundain, gan W. Wilcins, yn yr Heol a elwir yn gyffredinol Lombard-Street, gerllaw i'r Cyfnewidty Brenhinol. M DCC XXXIII. [8plyg: 142 tudalen.]

Mr. JEREMI OWEN ydoedd fab i Mr. David Owen, amaethwr cyfrifol, a gweinidog Ymneillduol Cefnarthen, yn agos i Lanym-

* Offor's *Introduction to the Pilgrim's Progress*, p. xix.

† Gwel rhif 7, d.f. 1727.

dwyfri, yn sir Gaerfyrddin. Bu y mab hefyd yn weinidog yno dros beth amser ar ol marwolaeth y tad; ond ymddengys nad oedd yno pan ysgrifenedd y llyfr hwn. Ni allodd Mr. Peter na Mr. Morgan gael dim ychwaneg o'i hanes. Ond yr oedd yn weinidog yn Barnet, sir Hertfford,* yn 1727.† Nid oes nemawr o lyfrau duwinyddol yr hen dadau Cymreig o'r ganrif ddiweddaf yn wreiddiolach, a theilyngach o'i ail gyhoeddi na'r traethawd uchod. Math o bregeth ydyw ar *Mat.* ix. 37, 38, wedi ei hestyn i faint traethawd helaeth, ac yn nhrefn ac arddull y Puritaniaid.

2. 'Pwyll y Pader; neu, Eglurhad ar Weddi'r Arglwydd. Mewn amryw Bregethau. Wedi ei Gyfieithu (gan mwyaf;) a'i wneuthur yn gwbl yn ôl Trefn Esponiad y Gwir Barchedig Esgob Blackal ar Weddi'r Arglwydd. Gan Theophilus Evans.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston, Gwerthwr Llyfrau, MDCCXXXIII.'

Maint y llyfr uchod yw 94 tudalen 12plyg.

[Cynnwys y llyfr o dudalenau 227+16=243. Y mae iddo gyflwyniad Lladin—'Viro Ornatissimo Sackville Gwynn, de Glan-Bran, in Agro Maridunensi, Armig. ;' a dyddir y rhagymadrodd 'At y Darllenydd'—'Dydd Calan-gauaf, 1732.']

3. 'Gair yn ei Bryd, neu ychydig o Eglurhad ar Ddirgeledigaethau ag sydd yn cael eu datguddio yn yr ysgrythyrau, perthynol ac angenrheidiol idd eu gwybod. Am ddoeth a da, uniawn a chyfiawn Arfaeth Duw, mewn perthynas i Gadwedigaeth Pechaduriaid, yn gytunol ag Articlau Eglwys Loegr, ac â barn Difinyddion duwiol yn fwyaf cyffredinol. Gwedi eu gosod allan gan un ag sy'n ewyllysio cynnorthwyo y Cymro uniaith i farnu'n uniawn.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan N. T. a J. W. dros Enoch Francis. 1733.'

Pregeth yw hon ar yr ochr Galfnaidd i'r ddadl oedd yn terfysgu eglwys y Bedyddwyr yn Hengoed y pryd hyny, ac wedi ei hestyn i draethawd o 214 o dudalenau. Terfyna y Llythyr at y Darllenydd fel hyn:—'Yr hwn wyf dy ufudd wasanaethwr mewn cariad Crist'nogol.

Pencelly, Ebrill }
18. 1733. }

ENOCH FRANCIS.'

Am yr awdwr gwel mewn lle arall.‡

* [Tebygol y golygir naill ai East Barnet ai Chipping Barnet, y rhai sydd yn swydd Hertfford; ond ym Midlesecs y mae Barnet.]

† *Ysgrifau* y Dr. John Evans, yn Llyfrfa Red Cross Street, Llundain.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1729.

4. 'Glossarium Antiquitatum Britannicarum, sive Syllabus etymologicus Antiquitatum veteris Britanniae atque Iberniae, temporibus Romanorum. Auctore Willielmo Baxter, Cornavio, Scholae Merciarorum Praefecto. Accedunt viri Cl. D. Edvardi Luidii, Cemeliarchae Ashmol. Oxon. de fluviorum, montium, urbium, &c. in Britannia nominibus, adversaria posthuma. Londini, 1719. Editio secunda.

Londini: Impensis T. Woodward, C. Davies, J. Hozard, W. Bickerton, & R. Chandler. MDCCLXXXIII. 8vo.*

5. 'Eglurhad Athrawiaeth Dieddefaint Crist. Mewn tair Pregoeth. Gan enwog wasanaethwr Crist Mr. Thomas Bradbury. O Gyfaethad Matthias Maurice.

Argraphwyd yn Llundain, 1733.'

THOMAS BRADBURY a anwyd yn Wakefield, sir Gaerefrog, yn 1677. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Attercliff. Dechreuodd bregethu yn ieuanc yn 1696; ond bu yn hir o amser yn cynnorthwyo yn y weinidogaeth mewn amrai leoedd; ond o'r diwedd yn 1705-7 efe a ordeiniwyd yn Fetter Lane, Llundain, ac wedi hyny efe a ymsefydlodd yn New Court. Dyoddefodd gryn drallodion anghyflêus yn niwedd teyrnasiad Ann. Yr oedd yn gryf yn erbyn y golygiadau Ariaidd oedd yn ffynu ym mhlith yr Ymneillduwyr yn y dyddiau hyny. Bu farw yn 1757, yn 80 oed, a'r 60fed o'i weinidogaeth.†

1734.†

1. ¶ 'Eglurhad Athrawiaeth Dioddefaint Crist.'

[Ymdegyys mai yr un yw hwn â'r un diweddaf (rhif 5) o dan y flwyddyn o'r blaen.]

2. 'Infant Baptism, No Institution of Christ, and the Rejection of it Justified from Scripture and Antiquity, in answer to Mr. Fowler Walker's Book, entituled, *A Defence of Infant Baptism*, &c., to which are annexed Animadversions on the Reverend Dr. Thomas Ridgley's Dissertation on Infant Baptism. By David Rees.

London, Printed and Sold by Aaron Ward, at the King's Arms, in Little Britain, John Noon, at the White Hart in Cheapside, H. Whitley near the Royal Exchange, and Samuel Rogers in Abergavenny.'

* Ail argraffiad : gwel rhif 4, d.f. 1719.

† *Congregational Magazine*.

‡ Y flwyddyn hon yr argraffwyd yr Almanac cyntaf yng Nghymru; ond nid y cyntaf yn Gymraeg, sef yr eiddo Sion Rhydderch, yng Nghaerfyrddin. [Ond oedd Sion Rhydderch wedi marw y pryd hwn? Cymh. rhif 3, d.f. 1731.]

Helaethiad oedd hwn o'r rhif 3, y flwyddyn ddiweddaf.* Cyfieithwyd ef, nid gan yr awdwr, ond gan weinidog arall o'r enw John Phillips, yr hwn oedd enedigol o Rydwilym, yn sir Benfro, ond y pryd hyn yn Llundain.

THOMAS RIDGLEY, D.D., a anwyd yn Llundain tua'r fl. 1667. Addysgwyd ef yn yr Athrofa Annibynol yn Trowbridge, swydd Wilts, dan arolygiaeth un Mr. Davidson. Yn 1695, dewiswyd ef yn gydweinidog a chynnorthwywr i'r Parch. Thomas Gouge, yn agos i'r Three Cranes, Llundain. Ar farwolaeth y Dr. Chauncey, yn 1712, dewiswyd ef yn athraw yr Athrofa Annibynol yn Llundain, yr hon swydd a lanwodd yn anrhydeddus hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar y 27fed o Fawrth, 1734, yn y seithfed flwyddyn a thrigain o'i oed. Mae y Dr. Ridgley yn awdwr llawer iawn o fân lyfrau; ond ei brif waith yw ei Gorff Duwinyddiaeth, yn ddwy gyfrol unplyg. Cyhoeddodd y Doctor ei hun ddau argraffiad o'r gwaith gwerthfawr hwn; ac y mae wedi myned trwy amryw argraffiadau wedi marwolaeth yr awdwr. Barna amryw ddynion dysgedig mai y corff duwinyddiaeth goreu yn yr iaith Seisoneg ydyw.†

3. 'The Life of the Late Honourable Robert Price, Esq; one of the Justices of His Majesty's Court of Common-Pleas.

London: Printed by the Apointment of the Family, 1734. Price 3s. Stitch'd; 3s. 6d. Bound.' [8vo.]

Addurnir yr wyneb-ddalen ag arlun y gwrthddrych, yr hwn a anwyd yn y Gilar, ym mhlwyf Ceryg y Drudion, sir Ddinbych.

Dyfarna Macaulay hwn yn waith gwrthun, llawn o gamddarluniadau, ac o ysbryd gwrthryfel. Ni feiddiodd gyhoeddi ei *Gloria Cambriæ* tra yr oedd y brenin yn fyw, ond yn 1702; ac eto geilw ei hun yn *Bold Briton*. Yr oedd y brenin wedi rhoi digon o achos i duchan, trwy roddi tiroedd y goron yng Nghymru i'r pendefigion Dwtsiaidd.‡

4. 'Byr Hyfforddiad yn Addoliad Duw, a Discyblaeth Eglwysi y Testament Newydd. Gan y Duwiol wr Mawr ei ddyse Doctor John Owen. O Gyfaithiad Matthias Maurice.

Argraphwyd yn Llundain, 1734.'

Nid oes enw argraffydd. Y mae y cyfieithydd yn sylwi yn lled helaeth, yn ei ragymadrodd '*Att bawb sydd Ynghymru yn anwyl gan Dduw wedi galw i fod yn Sainet: ac yn neilltuol y rhai a breswylant yn Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin,*' yn amddiffyn ei 'Hanes Eglwys Rhydychied, § yn ei nheulltuad a henllan,' yn erbyn y 'Golwg ar y Beiau y sydd yn yr Hanes,' gan Jer. Owen.||

* Gwel rhif 1, 2, a 3, d.f. 1733.

† *Llythyr* y Parch. T. Rees.

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1702.

§ [*Rhyd y Ceisiaid*, ym mhlwyf Llanbeudy, y mae yn debyg.]

|| Gwel rhif 7, d.f. 1727.

1735.

1. 'Cristionogaeth yn fyr.

Argraphwyd yng Nghaerlleon gan Roger Adam, Printiwr. 1735.'

2. ¶ 'Tlysau yr Hen Oesoedd. 1735.*'

Awdwr hwn ydoedd Mr. Lewis Morris. Ni argraffodd ond ychydig ddalenau o hono. Yr oedd Mr. Morris wedi sefydlu argraffwasg yng Nghaergerbybi mor foreu a hyn—flynyddau cyn sefydlu un ym Modedern, fel y prawf hyn a ganlyn [o dan rif 6, d.f. 1735].

3. 'Ymarferiadau a Myfyrdodau Sacramentaidd: Neu Arferol-waith Cristion cyn dyfod at Fwrdd yr Arglwydd, wrth y gwaith, ac ar ôl Cymmuno. Yn Ddwyr Ran. O Waith Jabez Earl, D.D. A Chyfieithiad Ioan Ifans.

Argraphwyd yn Llundain, dros yr Awdwr, gan S. Richardson, yn Salisbury-Court, gerllaw Fleet Street. MDCCXXXV.'

JABEZ EARL, D.D., a anwyd yn y flwyddyn 1676. Yn 1699, dewiswyd ef yn gynnorthwywr i'r Parch Thomas Reynolds, gweinidog yr eglwys Annibynol yng Nghapel y Weigh-House, Llundain, lle y llafuriodd am wyth mlynedd. Yn 1707 symmudodd i Hanover-street, Long-Acre, Llundain. Cyflawnodd ei weinidogaeth yno am y tymmor maith o drigain ac un o flynyddau. Bu farw yn 1768, yn yr oed patriarchaidd o bedwar ugain a deuddeg. Cyhoeddodd amryw bregethau heb law ei draethawd ar Swper yr Arglwydd.†

IOAN IFANS, neu 'John Evans, M.A.,' y cyfieithydd, ydoedd awdwr 'Cyssondeb y Pedair Efengyl,' tybygid.‡

4. 'History yr Heretic Pelagius. Yn yr hwn y rhoddir cyflawn Hanes o'i Heresi ef. Dangosir, Y modd y torrodd yr Heresi honno allan yn ddiweddar ym mys y Protestaniaid: Y modd yr ydys yn gwyrddroi yr Ysgrythyrau tuag at ei Hamddiffyn. Hefyd, Y modd y cafodd ei dwyn i mewn (yn yr Oes ddiwaetha a aeth heibio) i'r Deyrnas hon. Gan S. T.

Argraphwyd yn y flwyddyn 1735.'

Yr awdwr ydoedd Simon Thomas, awdwr 'Hanes y Byd a'r Amseroedd.'§ Y mae hwn yn gyfrol fechan dlos, o 256 tudalen

* Crybwyllir am dano yn y 'Diddanwch Teuluaid.' [Y mae peth o'r 'Tlysau' hyn, os nad y cyfan o honynt, ar gadw yn y Gywreinfia Brydeinig yn Llundain. Y golygydd neu gyhoeddwr ydoedd Lewis Morys (*Llewelyn Ddu o Fon*); ac y mae y Rhaglith iddynt yn argraffedig yn y *Gwyllydydd*, xiv. 85, 118, 149, 184, 213, 244.]

† *Llythyr* y Parch. T. Rees.

‡ [Gweler rhif 2, d.f. 1765; a rhif 2, d.f. 1773.]

§ Gwel rhif 4, d.f. 1721; rhif 1, d.f. 1724; a rhif 1, d.f. 1728.

24plyg. Y mae tua'i hanner yn cynnwys '*Histori Arminius.*' Am Pelagius, ef a ddywed:—

'Ei Enw cyntaf priodol ef oedd *Morgan*. Yr Enw hwn sydd gyffredin ym mysg y Cymru hyd heddyw. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth yr hen Rufeiniaid. Canys Preswylodd y Rhufeiniaid yn yr Ynys hon ym mysg y Brytaniaid amryw Gannoedd o Flynyddoedd. Yr enw Rhufeinaidd oedd *Marcus*. Nid oedd un enw agos mwy cyffredin yn mysg y Rhufeiniaid na'r Enw hwn. Y Cymru a'i cymmerasant ac a'i galwasant *Marc*: Ac o'r Enw hwn [*Marc*] ffurfiasant Enw arall, yr hwn oedd *Marcyn*. Ar ol hir arferiad yr Enw hwn [*Marcyn*], rhoddodd tafod y bobl gyffredin droad iddo, ac a'i galwasant *Morgan*. Yr un gyffelyb beth a wnaethant mewn perthynas i'r Enw *Joan*. *Joan*, gair Hebraeg yw: Fe'i arferwyd yn gyffredin iawn ym mysg yr hen Iuddewon. *Jochanan* a'i galwent; mae'n dyfod o'r Gair Hebraeg [*Chanani*], yr hwn sy'n arwyddocau *graslaw*n. Yr enw Hebraeg *Jochanan*, y Groegiaid a'i galwent ac a'i scrifinent *Joannes*; a'r Rhufeiniaid *Johannes*. Y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Rhufeiniaid, a'i galwasant *Ioan*. *Ioan* y galwe y Cymru ef ar y cyntaf; eithr ar ol hir arferiad, y cyffredin bobl, a'i lled droesant re a'i galwasant *Iouan*, ac ar ol hyny *Iewan*, ac o'r diwedd *Ifan*. Y Saeson o honynt hwythau a gymmerasant yr enw hwn *Johannes*, ac a'i galwasant *John*. Yr enw *John*, y Cymru a'i cymmerasant oddiwrth y Saeson, ac a'i galwasant *Shon*: ac o'r enw hwn, *Shon*, y cyffredin a ffurfiasant enw arall, sef *Shoncyn*; a'r enw hwn, *Shoncyn*, trwy hir arferiad a drowyd ac a alwyd *Shencyn*. Ac felly, *Ioan*, *Iouan*, *Iewan*, *Ifan*, *Shon*, a *Shencyn*, nid ydynt ond un enw, wedi ei wyrdroi a'i drawsffurfio gan Dafodau y Bobl gyffredin. Felly hefyd *Walter*, *Wat*, *Watcin*. Yn yr un modd *Marcyn* a alwyd o'r diwedd *Morgan*. Eithr Pelagius, er bod o hono yn Lladingwr gweddol, eto ni ddangosodd ef yma fod gantho Wybodaeth dra chywrair yn Nhafodiaeth ei wlad ei hun. Canys fe debygodd fod ei enw ef [*Morgan*] yn arwyddocau y *Môr-heli*; ac am hyny efe a gymmerodd yr enw Llading am y gair *môr*, sef *Pelagus*. Y Rhufeiniaid a'r Groegiaid a alwant y môr *Pelagus*: a thrwy chwanegiad un llythyren, fe ffurfiwyd ei enw *Felagius*. Ac oddiwrth yr enw hwn y mae ei ganlynwyr yn cael eu galw *Pelagians*.'

5. 'A Collection of Miscellaneous Prints, &c., chiefly illustrating North Wales, including an early view of Penmaenmawr, a play-bill of the Cambro-Britons, large engraving of Chirk Castle. 1735.'

6. 'Annogaeth i Argraphu Llyfrau Cymraeg.'

Rhoddwyd yr argraffwasg ar waith yng Nghaergerby, B.A. 1735, gan Llewelyn Ddu o Fon, er amcanu gosod 'Tlysau yr Hen Oesoedd' ger bron ei gyfoedion, eithr o wall amgeledd, gorchwyl methiantus fu hwnw, mal llawer un arall o'r fath yng Nghymru, a gwael y dynged na buasai amgen! meddwn i; ond barned y darlennydd ai nad oedd pwys yn chwedl y gwr a roddes ei law yn y gwaith, yr hwn sydd yn rhagymadrawdd fel hyn:—

'AT DRIGOLION GWYNEDD.—Pwy bynag na fedro roddi gair da i

hyn o orchwyl, harddach iddo na ddywedo ddim; canys pwy yn ei gof a darawai y llaw a fai yn cynnyg cymhorth, er gwaeled a fyddai? ac nid yw yn chwarae teg enllibio gwr dyeithr yn ei gefn. Beth a wyddech na fedr ateb trosto ei hun, pei bai yn y fan? Os ffola fûm am fyned i gost fawr er lles i'm gwlad (*tybygaswn* i), y peth lleiaf a ellwch yw esgusodi gwr *gwirion*: Pwy a wŷr flas peth nes ei brofi?—*Wela, gan hyny, yn dyfod i ofyn eich nodded, forwyndod yr argraffwasg cyntaf erioed yng Ngwynedd.** Os da fydd y peth yn eich golwg, chwi a rowch fywyd iddo; os amgen, dychweled i'r llwch o'r lle daeth. Llawenychasai'ch hen deidiau, pei gwelsent y cyfryw beth: nid oes ammeu nad digio wna rhai o honoch chwi; dylaswn fyned i wlad arall i ddechreu prophwydo.

Er mwyn denu y Cymry Seisnigaidd i ddarllen Cymraeg, ac i graffu ar beth na chlywsant erioed son am dano (sef bod dysg a gwybodaeth gynt yng Nghymru), rhoddais y cynnwysiaidau yn Seisnigaeg; na ddigiwch gan hyny wrth y cymmysg. Bernwch pan wypoeh y cwbl. Da iawn y gwn i, mai gwir a ddywed yr hen Wŷr—*A fo gwas cyffredin byd, hwy'r y carff ei dâl*: Canys dyled ar bawb nid yw ddyled ar neb. Eto chwi a welwch, er gwybod o honof hyn, i mi dori drwy reol callineb i'ch gweini chwi.

Pei edrychem ar fydra oes dyn, ac ar ei gwagedd, nid oes neb mor gibddall na welai mai *Efolineb yw bydol ddoethineb*, a byddem fwy caredig i'r genedl sydd yn dyfod ar ein hol. Anifeilaidd yw y dyn a adawai blant y byd mewn tywyllwch, lle y gallai â chanwyll ffyrlling eu goleuo—“*Gwell gwae fi na ni.*”

Yr argraffwasg, medd y doethion, yw Canwyll y byd, a Rhyddid Plant PRYDAIN. Pam i ninnau (a fuom wŷr glewion, gynt! os oes coel arnom) na cheisiwn beth o'r goleuni? Swllt o bwrs pob un o honoch, tuag at y papyr a'r gwaith, a lanwai'r wlad o lyfrau da, ac â llawer o fwynder a dyddanwch, ac a gadwai'ch enwau i dragwyddoldeb, fal cenedloedd ereill. Oni wnewch, gwnewch a fynech. Duw gyda chwi! yw dymuniad eich ufudd wasanaethwr,

LEWIS MORRIS.†

Yn y wasg hon hefyd yr argraffwyd math o Almanac yn y flwyddyn 1741; canys dywedir mewn rhigwm o farddoniaeth ar yr wyneb-dalen, iddo gael ei 'brintio ynmon.'‡ Y mae amgylchiad yn cael ei grybwyll hefyd yn nheithlyfrau y Parch. John Wesley, sydd yn cadarnhau bod gwasg yng Nghaerdybi. Yr oedd Mr. Wesley yng Nghaerdybi yng ngauaf y flwyddyn 1748, wedi cael ei attal gan wynt croes i fyned i'r Iwerddon, pan y pregethodd amrai weithiau yno, a lleoedd ereill ym Mon, pan y gofynodd Mr. E., gweinidog Caerdybi, ganddo ysgrifenu rhywbeth bychan, 'I gynghori y Methodistiaid i beidio â gadael yr Eglwys;' ac efe yno a ysgrifennodd ei 'Air at Fethodist,' ('*A Word to a Methodist,*') yr hwn a gyfieithodd Mr. E., ac a argraffwyd yn ebrwydd.§ Gan hyny, yr oedd argraffwasg yng

* Yr oedd hyn yn gamgymeriad, canys argraffasid llyfr 'Holl Ddyledswydd Dyn,' yng Ngwreesam, er ys 17 mlynedd cyn hyn. Gwel rhif 5, d.f. 1718.

† [*Y Greal*, rhif 3, 1805, t. 110.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1741.

§ Wesley's *Journals*, 1748. [Gallasai yn rhwydd gael ei 'argraffu yn ebrwydd' heb fod gwasg yng Nghaerdybi, nac yn agos yno.]

Nghaergybi y pryd hyny, neu yn rhywle cyfagos, fel y galleid argraffu yn ebrwydd yr hyn a ysgrifonodd Mr. Wesley, ar gais gweinidog y lle y pryd hyny. Aeth Lewis Morris o Fon i sir Aberteifi tua'r fl. 1749, wedi priodi ei ail wraig, yr hyn oedd cyn bod son am wasg Bodedern. Y wasg hon a fogan Lewis Morris, a brynodd Dafydd Jones o Drefriw, a brylodd hen was L. Morris,* yr hyn a gydsaif â'r ffaith fod gwasg gan D. Jones, yn Nhrefriw, cyn bod John Rowland yn argraffu ym Modedern. Y mae yn ddigon eglur mai argraffwasg wahanol ydoedd un Lewis Morris ac un John Rowland, Bodedern; ac mai nid ym Modedern yr oedd yr eiddo L. Morris, eithr yng Nghaergybi, yr hwn le oedd fel pencartref y Morrisiaid, gan fod William Morris, un o'r brodyr, yn anneddu yno, ac mewn sefyllfa gyfrifol dan y llywodraeth.

LEWIS MORRIS ydoedd fab ieuangaf Morris Prichard, wrth ei alwad gyntaf yn gylchwr, ac wedi hyny yn fasnachydd yd; ac a anwyd ym Mhentref Eirianell, pentref distadl ym mhlwyf Penrhos Llugwy, ym Mon, Mawrth 1, 1702. Ychydig o ddysgeidiaeth a gafodd yn ei ieuentyd; eto cyrhaeddodd i allu bod yn fesurwr tir, a chweddi hyny i swyddau dan y llywodraeth, megys casglwr y dreth ar halen ym mhorthladd Caergybi; ac yn 1737, yn archwiliwr y moroedd cyffiniol yng Nghymru, yr hyn a wnaeth mor foddhaol, fel y cyhoeddwyd peth o'i archwiliadau yn 1748. Rhoddwyd ef hefyd yn olygydd y Tollddy yn Aberdyfi, ac yn oruchwiliwr mwneu y brenin yng Nghymru. Tynodd gynlluniau o'r mwngloddiau, ond ni chyhoeddwyd hwy. Yr oedd yn deall llysieuath a meddyg-iniaeth. Talodd hefyd gryn sylw i beirianwaith, ac hefyd i gerddoriaeth. Yr oedd yn gyflym iawn i weled talent mewn dynion ieuaine, ac yn awyddus i roi iddynt bob cefnogaeth, megys y cefnogodd ac y cododd Goronwy Owen i sylw. Yr oedd yn hynafiaethydd Cymreig enwog, ac yn fardd. Gadawodd waith enwog o'r enw 'Celtic Remains,' yn ddwy gyfrol, yn barod i'w hargraffu,† ac hefyd 'Trysorgell Barddoniaeth.' Y mae ysgriflyfr o'i eiddo gan Miss Richards, Llanerfyl. Treuliodd ddiwedd ei oes ym Mhenbryn, ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, sir Aberteifi, lle a gafodd gyda'i ail wraig. Ei wraig gyntaf oedd Elisabeth Griffith, o Dŷ Wydryn, ger Caergybi, yr hon a briododd yn 1729; a'r ail, Ann Lloyd, o Benbryn, yn 1749. Bu farw Ebrill 11, 1765, yn 63 oed.‡

1736.

1. 'Cadwyn Euraidd o Bedair Modrwy, i dynnu Pechaduriaid, at eu dymunol Drigfan. Neu Ystyriaeth byr, o'r pedwar peth olaf sef 1. Marwolaeth, y sicraf. 2. Barn, y manylaf. 3. Uffern, y mwyaf dychrynadwy. 4. Y Nef, y mwyaf hyfryd, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig, tros Lewis William. 1736.'

* *Llythyr* P. Davies, Llansannan.

† [Nid ydynt barod i'w hargraffu. Yr wyf yn gydnabyddus ddigon ag un o'r ddwy gyfrol hyn, yr hon a alwai yr awdwr yn rhan gyntaf.]

‡ Willams's *Eminent Welshmen: Cambrian Register*, vol. ii.

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.* Gwerthwr llyfrau ydoedd y Lewis William hwn, tros ba un y cafodd y 'Gadwyn' ei argraffu y tro hwn.†

2. ¶ 'Heraldry Displayed. By John Davies.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad neu argraffiad newydd;‡ cyhoeddwyd yr argraffiad hwn gan Mr. John Reynolds, o Groesoswallt, yr hwn oedd yn fab i Jacob Reynolds, o'r Waen, ac a briodasai chwaer i'r awdwr; gan hyny, y cyhoeddwr ydoedd nai fab chwaer i hynafiaethydd y Rhiwlas.§

3. ¶ 'Marwnad i Sion Rhydderch, gan Jenkin Thomas.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin. 1736.'||

JENKIN THOMAS ydoedd fab i Thomas Morgan, ac ŵyr i Morgan Rhydderch, a gorwyr i Dafydd Gruffydd, o'r Cwm Du, ger Castell Newydd yn Emlyn, yn sir Gaerfyrddin,** ac yr oedd Sion Rhydderch yr argraffydd, yn ewythr o frawd ei dad iddo. Ganwyd ef tua'r fl. 1688, neu o hyny i 1690, ym Melin y Drewen. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd hefyd yn amaethwr bychan, ac yr oedd hefyd yn arferyd ei ddawn fel pregethwr. Bu iddo saith o blant. Daeth chwech o honynt yn ddynion lled hynod fel ysgolheigion a beirdd, er eu bod oll wedi eu dwyn i fyny yn gryddion, sef Dafydd, Enoch, John, Samuel, Nathaniel, ac Evan. Yr oedd John yn ysgrifenydd yr ynadon yn ei gymmydogaeth. Perthyn i'r Presbyteriaid yn y Drewen, ger Aberteifi, yr ydoedd.†† Ychydig o'i waith sydd wedi ei gyhoeddi—rhyw ychydig ym 'Mlodau Dyfed,' ac y mae 'Cywydd o Glod haeddedigol i'r Llyfr,' yn gyssylltedig â 'Meddyliau Neillduol' yr Esgob Beveridge, a gyhoeddwyd yn 1717.‡‡ Bu farw tua'r fl. 1765.§§ Y mae gorwyr iddo, o'r enw Samuel Jenkins, yn byw yn Philadelphia, America, ac yn awdwr amryw lyfrau Seisonig; ac yn eu plith 'Hanes Cymru,' a gyhoeddwyd tua'r fl. 1853.||||

* Gwel rhif 1, d.f. 1607.

† Gwel rhif 8, d.f. 1737.

‡ Gwel rhif 21, d.f. 1716.

§ *Cambro-Briton*, vol. i. p. 386.

|| Yn ol *Ceinion Alun*, t. 72.

** [Yng Ngheredigion, megys y crybwyllwyd o'r blaen, y mae y Cwm Du. Gweler rhif 2, d.f. 1716.]

†† [Y mae y Drewen o ddeutu 9 milltir o Aberteifi, ac o ddeutu milltir, neu ychydig yn chwaneg, o Drefhedyn Emlyn, ac ar y ffordd fawr rhwng y ddwy dref. Y mae swrn o waith prydyddol 'Ioan Siencyn,' neu 'Sion y Crydd Bach,' fel ei gelwid weithiau, yn argraffedig ym *Mlodau Dyfed*; a chynnwys y gwaith amryw o gyfansoddiadau Siencyn Thomas; a chân neu ddwy o waith Nathaniel Siencyn.]

‡‡ Gwel rhif 3, d.f. 1717.

§§ *Yr Adolygydd*, 1852, t. 54-9.

|||| *Cyfansoddiadau* Eisteddfod Castell Newydd Emlyn, t. 49. [Ymfudodd 'Samwel Siencyn,' mab i Siencyn Thomas, i America, yn rhywle oddeutu can mlynedd yn ol; ac ŵyr i'r Siencyn Samwel hwnw yw dinesydd presennol Philadelphia.]

4. 'Y Psallwyr, neu Psalmau Dafydd; gyda'r Catechism, ag amryw Weddiau etholedig, a Rhai Psalmau Cân allan o'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Chwanegwyd at y Catechism a'r Gyfer pŏb Pwngc o honaw rhyw Destyn, neu ran o'r Scrythur-lân yn profi yr unrhyw.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn. M.DCC.XXXVI.'

5. ¶ 'Interesting Old Case between Thos. Morgan, Gent., and W. Morgan, Esq., relative to the Lands Wm. Morgan of Lanedern, in th Co. Glamorgan. 1736.'

Argraffwyd yn gyfrinachol.

6. ¶ 'Three privately Printed Statements, by C. Mason, Ben Stoakes, and Sir J. Bybye Lake, Salop.'

Argraffwyd yn gyfrinachol i ddybenion cyfreithiol yn 1736.

7. ¶ 'A Brief Account of many of the Prosecutions of the people called Quakers in the Exchequer, Ecclesiastical, and other Courts.'

Y mae yn hwn enwau llawer o'r Crynwyr Cymreig, a'u dyoddefiadau.* Ysgrifenyd atebiad iddo gan offeiriad Llacharn, yn cael ei gefnogi gan ei trodyr yn esgobaeth Ty Ddewi.†

8. ¶ 'Voyages, Travels, and Adventures, with the History of his Brother Jonathan Vaughan. By Wm. Owen Gwin Vaughan. 1736.'

1737.

1. 'Welch Piety, or an Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1734 to Michaelmas 1737.

London, Printed by M. Downing.'

Mynag neu adroddiad ysgolion dyddiol symmudol y Parch. Griffith Jones, Llanddowror, ydyw, y cyntaf; y rhai a barhawyd bob blwyddyn yn gysson hyd 1760. Y maent yn gronfa ragorol o wybodaeth am ansawdd crefydd a dysgeidiaeth yn yr oes hòno. Ef allai na byddai yn briodol myned hebio heb roddi ychydig linellau coffaol yma, am un a fu mor hynod yn ei oes.

Y Parch. GRIFFITH JONES a anwyd yng Nghilrhedyn, yn sir Gaerfyrddin, yn 1683. Bu farw ei dad pan ydoedd ef yn ieuanc; ond gan ei fod yn awyddus am efrydiaeth, cafodd ei roddi o dan athraw galluog yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, lle y daeth ym mlaen yn gyflym. Ordeiniwyd ef yn ddiakon gan yr Esgob Bull, yn 1708, a'r flwyddyn ganlynol yn offeiriad. Yn 1711, rhoddwyd iddo fywololiaeth Llandeilo Abercowyn; ac yn 1716, rhoddodd Syr John Phillips, Barwnig, o Gastell Picton, iddo ficeriaeth Llanddowror.

* Rees's *Non-Con. in Wales*, p. 307.

† Gwel rhif 5, d.f. 1739.

Priododd Mr. Jones, wedi hyny, chwaer i Syr John. Yr oedd hefyd yn achlysurol yn gwasanaethu Llanllwch, ger Caerfyrddin, lle, fel un o'i gynnulleidfa, yr arferai un Miss Bridget Vaughan, yr hon wedyn a ymbriododd ag Arthur Bevan, Ysw., o Lacharn, ei wrando, a'r hon y mae ei haelioni wedi gwneyd ei choffadwriaeth yn hynod yng Nghymru. Darfu i enwogrwydd Mr. Jones, fel offeiriad selog, ei ddwyn i sylw y 'Gymdeithas er Lledaenu yr Efengyl mewn Parthau Pellenig,' y rhai a'i tybient ef yn neillduol addas fel cenadwr i'r India. Efe a gydsyniodd â'u cais, ac a ymbarotodd i fyned ymaith; ond yn rhywfodd cafodd ryw attalfa, a da a fu hyny er mwyn y Cymry. Yn 1730, y dechreuodd sefydlu ei ysgolion dyddiol symudol, pryd y sefydlwyd dros 3185 o ysgolion, ac y bu tros 150,213 yn derbyn addysg ynddynt. Dygwyd yr ysgolion ym mlaen wedi marwolaeth Mr. Jones gan Mrs. Bevan, yn ystod ei bywyd, sef tuag ugain mlynedd; a gadawodd yn ei hewyllys y swm o 10,000*p.* tuag at eu cynnalïaeth. Bu farw yn nhy Mrs. Bevan, Ebrill 8, 1761, yn 78 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llanddowror, lle y cyfodwyd cerf-faen er coffadwriaeth am dano, ar draul yr un foneddiges.* Heb law mynu allan ddau argraffiad o'r Beibl Cymraeg, cyfansoddodd a chyhoeddodd tuag un ar ddeg o wahanol weithiau o wahanol faintioli, yn Gymraeg, a rhai yn Seisonaeg, a llawer o honynt fwy nag unwaith, fel y gwelir, o dan eu priodol flynyddoedd yn y gwaith hwn; ac y maent, amrai o honynt, wedi eu cyhoeddi amrai o weithiau er hyny hyd yn hyn.

2. 'Cynnyg tuag at wneuthur yr Wybodaeth o Grefydd yn hawdd i'r Dealltwriaeth iselaf. Sef, Hanes ferr ac eglur o Athrawiaethau a Rheolau y Grefydd Gristianogol. Scrifenedig yn Saesonaeg gan Edward Syngé, D.D., Archesgob Tuam yn Iwerddon.

Rhydychen. Argraphwyd gan Leon Lichfield. 1737.'

3. 'Patrwm y gwir Gristion; neu Ddilyniad Iesu Grist, &c. Gan Thomas à Kempis.

Mwythig, Argraphwyd gan Thos. Durston.'

Y mae arlun o'r croesholiad yn nechreu yr argraffiad hwn o'r 'Llyfr Dilyniad,' ac yn ei ddiwedd dywedir ei argraffu yn y flwyddyn hon. Yr oedd hwn yn bedwerydd argraffiad, neu yn hytrach yn gyfieithiad ac argraffiad newydd.†

4. 'Cyngor Rhad yr Anllythrennog: neu Lyfr bâch mewn ffordd o Holiad ac Atteb, yn arnheg mewn cariad y ddyinion t'lawd ac isel y ddysey darllain. Gyda Dymuniad difrifol ô fendith y Nefoedd arno, fel y delont trwy Râs ac addyse y'r Yscrethurau y adnabod ac y addoli Duw, y fod yn gyfoethog mewn ffydd ac yn ddedwydd yn y byd a ddaw. Gan Wenidog ô Eglwys Loegr.

* Williams's *Biog. Dict. of Eminent Welshmen.*

† Gwel rhif 2, d.f. 1679; rhif 5, d.f. 1684; rhif 4, d.f. 1723; a hwn yma.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn M.DCC.XXXVII.' 16plyg : tudalenau, vii+72=79.]

5. 'Dwy Ffurf o Weddi. Y gyfarwyddo'r anghyfarwydd ynghylch y ddyledswydd fawr hon, a'r y llwyddiant ô ba ûn, gyda Duw, y mae tragwyddol Jechydwriaeth dÿn yn sefyll, fel na ddyleu neb y esceuluso gweddi (mewn amser Cymmeradwydd) ac ewyllysio fod yn gadwedig.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn M.DCC.XXXVII.' [16plyg : 48 tudalen.]

Y mae yn dra sicr mai gwaith gweinidog Llanddowror ydyw y ddau uchod ; y rhai a argraffwyd gyda'u gilydd yn un llyfr, ond bod gwyneb-ddalen i bob un wrtho ei hun.

6. 'Helaethrwydd o Ras i'r Gwaelaf o Bechaduriaid. Mewn hanes gywir a ffyddlon o Fywyd a Marwolaeth John Bunyan. Mewn Dadguddiad Rhagorol, a Rhyfeddol Drugaredd Duw yng Nghrist iddo ef, yn enwedigol yn ei Gymmeryd ef o'r llwch a'i ddychwelyd ef i ffydd ei Fendigedig Fab Jesu Grist. Lle y dangosir yn neillduol, pa olwg a pha helbul a gafodd am Bechod, ac hefyd pa Brofedigaethau niweidiol a gyfarfu efe a hwynt, a'r modd y dygodd Duw ef trwyddynt oll. Wedi Gyfiaethu o'r Nawfed Argraphiad Saesnaeg, Gan John Einnon.

Argraphwyd yn y flwyddyn 1737, ag ar werth gan Dafydd Isaac. Pris 1s. 6c.'

7. 'Cyfarwyddid i'r Cymru. A ysgrifenyd yn 1655.

Printiedig yn y Mwythig, 1737.'

8. 'Yr Ymroddiad neu Bapuryn. A Gyfieithwyd ddwy [waith i helpu y Cymru o'r Hunan a'r drygioni. Fe a'i Cyfieithwyd yn y flwyddyn 1654.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thomas Durston, tros Lewis William, Gwerthwr Llyfrau, yn y flwyddyn 1737.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.* Y mae y ddau uchod yn cael eu priodoli i awduriaeth Morgan Llwyd o Wynedd.

9. 'The English and Welch Dictionary or The English before the Welch. Containing all the Words that are Necessary to understand both Languages ; but more especially, for the Translation of the English into Welch. Wherein you may Easily find the Welsh Word or Words, to every English Word. Originally began by John Roderick, and now Finished and compleated with several

* Gwel rhif 1, d.f. 1657.

hundred Additional Words, by the Revd. Mr. John Williams Rector of Willey in Shropshire.*

Shrewsbury Printed and Sold by Thomas Durston. 1737.'

Y mae iddo hefyd wyneb-ddalen Gymraeg fel hyn:—

'Y Geirlyfr Saesneg a Chymraeg; Neu'r Saesneg o flaen y Cymraeg. Yn cynnwys yr holl Eiriau sy' angenrheidiol i ddeall y ddwy Jaith, eithr yn fwy enwedigol, i gyfieithu'r Saesneg i'r Cymraeg. Ym mha un y bydd hawdd i chwi daro wrth air, neu Eiriau Cymraeg i bob Gaer Saesneg. A ddechreuwyd ar y Cyntaf gan Sion Rhydderch, ag a ddibenwyd yn awr, ynghyd a Chwanegiad o lawer cant o Eiriau gan y Parchedig Mr. John Williams Person Plwyf Willey yn Sir Amwythig.

Argraphwyd yn y Mwythig ac ar werth yno gan Thomas Durston. 1737.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad diwygiedig.† Ymddengys wrth gymharu y ddau dudalen hyn á'u gilydd, a rhagymadrodd yr argraffiad cyntaf, yr hwn hefyd sydd yn ddwyieithawg, y byddai Sion Rhydderch yn argraffu ei enw yn amrywiol—yn *John Rhydderch*, *John Roderick*, a *John Rogers*, gan olygu, mae yn debygol, mai yr un ydyw yr enwau hyn yn wirioneddol, ond bod y naill yn Gymraeg a'r llall yn Seisonaeg. Y mae i'r ail argraffiad hwn ragymadrodd gan Thomas Durston, y cyhoeddwr, fel hyn:—

'Yr wyf yn credu y bydd yr ail Argraphiad hwn or Geirlyfr Saes'naeg a Chymraeg yn dra llesol a buddiol i Drigolion caredig Leheubarth a Gwynedd; O herwydd pahan yr wyf yn gobeithio nad oes dim Achos i'm esgusodi tros y gorehwyl hwn.

Fe ddygwyd y gwaith hwn i ben trwy Boen a llafur Mr. J. W. yr hwn a fanwl ddiwygiodd amryw feiau anoddef yn yr Argraphiad cyntaf; O gasgliad pa un mi a chwanegais agos o chwe chant o Eiriau newyddion yn y Saes'neg a'r Gymraeg; Y mae fy ngobaith am hynny y bydd y Geirlyfr hwn yn gymmeradwy gan bawb ar a ddymunont Amlediad ag amlhâd i'r hên Iaith Frutanaidd. Y groesaw a'r Cymmeriad a ddangosodd y Cymru mwynion i'r Argraphiad cyntaf o'r Llyfr hwn (ammherffaith a beius fel yr ydoedd) am cynhyrfodd yn bennaf dim, i Argraphu a gosod allan yr ail Argraphiad hwn, yr hyn a'i gwna ef nid yn unig o Lês cyffredinol, ond fel yr wyf yn gobeithio, yn Foddlonrwydd mawr i'r Sawl a chwennychont goleddu a chadw y Dafodjaeth Gymraeg yn ei Phurdeb a'i Chywirenrydd, yr hwn yw gwir Ddymuniad Eich ufuddaf Wasanaethwr T. D.'

* [Chwanega yr awdwr yma—'and of Mr. Lewis Evan of Landessilio;' ond gallaf sicrhau, ar wybodaeth bersonol, nad oes dim o'r fath beth i'w weled ar gynddalen y llyfr hwn. Y mae yr enw Seisonig ar y llaw chwith, a'r un Cymraeg ar ei gyfer ar y llaw dde. Nid yw y gwaith wedi ei dudalenu; ond llyfr 8plyg bychan lled drwchus ydyw.]

† Gwel rhif 5, d.f. 1725.

10. ¶ ‘Memorials sent up to Parliament by Rees Griffith and Thos. Lewis, concerning the Tithes of Old Radnor.’

Argraffwyd yn anghyhoedd yn 1737. Y mae yn cynnwys hysbysiaeth gyfreithiol ac eglwysig am bersoniaeth ac eglwys Maesyfed Hen.

1738.

1. ¶ ‘Tracts on the English, Welsh, and Irish.’

[Y mae yn debygol genyf mai rhif 7 o dan y flwyddyn hon yw y gwaith y cofnodir ei enw yn anghyflawn yn y lle hwn. Amlwg yw nas gwelodd yr awdwr mo hono, ped amgen rhoddasai ei enw yn gyflawn, os yn wahanol i'r un a gofnodir yn y blaen.]

2. ¶ ‘The Case of the Hon. James Annesley and the Earl of Anglesea, Humbly offered to the lovers of truth.’

3. ‘Cydymaith i'r Allor. Yn dangos Natur ac Angenrheidrwydd o Ymbarattoi i'r Sacrament, Y Cymmun Sanctaidd. Ym mha ũn y Profrir yr holl ofn ag Arswyd (ynghylch Bwytta ac Yfed yn anheilwng, ac i fod yn Euog o Ddamnedigaeth i ni ein hunain wrth hynny) yn ddisail; ac yn anwarrantedig. At yr hyn y chwanegwyd, Gweddiau a Myfyrdodau, i Ymbarottoi i dderbyn y Sacrament, fel ag y mae Eglwys Loegr yn gofyn gan ei Chymmunwyr.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston, 1738. Pris 6d.’

4. ‘Galwad at Orseddfainge y Gras, Fel na'n Condemniwr o flaen Gorseddffainge Barn; neu Ymddiddanjon ynghylch Gweddi, yn cynnwys Annogaethau a Chyfarwyddjau i weddio Duw tra fyddom yn y Bŷd hwn, fel y byddom sicr o Ras a Thrugaredd i Fywyd Tragwyddol yn y Bŷd a ddaw. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain yn y flwyddyn M.DCC.XXXVIII.’

Y mae yn wybodus mae y Parch. G. Jones, Llanddowror, oedd yr awdwr. Adgyhoeddwyd hwn hefyd yn 1838, fel un, a'r cyntaf o'r darnau, yn cynnwys y gyfrol gyntaf o ‘Holl Ysgrifeniadau Cymreig y diweddar Barch. Griffith Jones, Llanddowror, Swydd Gaerfyrddin; ynghyd â Chofnod o'i Fywyd. Gan y Parch. E. Morgan, M.A. Ficar Syston a Radcliffe, swydd Leicester, a Chaplan Arglwydd Ferrers.’ Eithr un gyfrol yn unig a gyhoeddwyd.

5. ¶ ‘Carwr y Cymru, yn anfon ychydig gymmorth i bob Tad, a mam sy'n ewyllysio bod eu plant'n blant i Dduw hefyd; A chael ymddiddan ysbrydol rhwng rhieni a'u plant, yn cynnwys eu dyledswydd i'w gilydd.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Tho. Durston, tros Dafydd Jones, Athraw Yscol Gymreig.’

6. ¶ ‘Cydymaith yr Eglwyswr yn ymweled a'r claf, yn cynnwys
i. Y modd neu wedd o ymweled a'r claf. ii. Y drefn am ymweled

a'r claf, allan o Lyfr Gweddi Gyffredin. III. Cymmun y Claf. IV. Rhai Gweddiau a Ffuriau ereill. Gan mwyaf allan o sgrifeniadau defosionawl rhai o'r Difeinyddion enwocaf o Eglwys Loegr, ynghyd a Bedydd Public a Phreifat. O gyfieithiad Edward Jones, Llan-afrewig.

Mwythig, Argraphwyd, ac ar werth yno gan Thos. Durston.'

Nid oes amseriad i'r argraffiad hwn; ond hysbysir ar ddalen gyssylltedig â Geirlyfr Rhydderch a Williams, a argraffwyd gan Durston yn 1737,* ei fod yn yr argraffwasg, ac y cyhoeddid ef mewn ychydig amser. Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.†

7. 'An Essay on the Antiquities of Great Britain and Ireland: Wherein they are placed in a clearer Light than hitherto. Designed as an Introduction to a larger Work, especially an Attempt to shew an Affinity betwixt the Languages, &c. of the ancient Britains, and the Americans of the Isthmus of Darien. In answer to an Objection against revealed Religion.

Edinburgh, Printed by T. and W. Ruddiman, and sold by Alexander Kincoid Bookseller. MDCCLXXXVIII.' [8vo.]

Y mae yn cynnwys hefyd 20 o dudalenau o esiampl o Eirlyfr Seisonaeg a Gwyddeleg, Llythyr E. Lhuyd at y Scotiaid, a Geir-eglyrydd o eiriau Americanaidd Culdin Darien.

[Cynnulliad o wahanol draethodau wedi eu tudalenu ar eu pen eu hun ydyw. Cynnwys gyfieithiad i'r Seisoneg o Ragymadrodd Cymraeg ('At y Cymry') Edward Llwyd i'r *Archæologia Britannica*, yng nghyd â'r Rhaglith Gwyddeleg a geir yn yr un gwaith.]

8. ¶ 'The Briton Described, or a Journey through Wales. 1738.'
[Yr un yn ddiau â'r gwaith canlynol, rhif 9.]

9. 'Collection of Travels and Memoirs of Wales, containing the Briton Described, being a Pleasant Relation of D—n S—t's Journey into that Ancient Kingdom; Humours and Customs of the People; Trip to North Wales; the Welsh Man's Sermon. 1738.'

Gwaith yr hen Ddeon Jonathan Swift ei hun ydyw; ac y mae ynddo yr arlun nodedig o hono yn esgyn ar ei geffyl.

[Lledrith yw tadogi y llyfryn llipa hwn ar y Dr. Swift. Nid ysgrifennodd Deon doniol Sant Padrig erioed mo'r fath 'ffol eiriau ffiloreg' ag a geir ynddo. Rhyw ddynsodechyn o Sais gelydol, a geisiai wneuthur digrifun o'r Dywysogaeth a'i harferion, ydyw ei awdwr.]

1739.

1. 'Gwagedd mebyd a jeuengtid, Yn yr hwn y dangosir Natur lygredig pobl jeuaingc, ac y cynhygir moddion er eu Diwygiad. Sef. Rhai Pregethau a Bregethwyd yn Hand Alley, yn Llundain, ar Ddymuniad amryw o rai jeuaingc. At yr hwn y chwanegwyd Catechism i rai jeuaingc. Gan Daniel Williams, D.D.

* Gwel rhif 9, d.f. 1737.

† Gwel rhif 4, d.f. 1699; rhif 8, d.f. 1700; a hwn yma.

Llundain, Argraphwyd.' [8plyg: tudalenau 200.]

Y Dr. DANIEL WILLIAMS, a anwyd yng Ngwrecsam, yn 1644. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, ordeiniwyd ef yn weinidog Henaduriaethol. Wedi gweinidogaethu mewn amryw leoedd yn Lloegr, aeth i'r Iwerddon, yn gapelwr i Arglwyddes Meath, ac i weinidogaethu i gynulleidfa yn Dublin, lle y bu ugain mlynedd, ac y priododd foneddiges o deulu anrhydeddus a chyfoethog. Symmudodd i Lundain yn 1682. Derbyniodd y radd o D.D. gan Brifysgolion Edinburgh a Glasgow. Wedi hyny galwyd ef i weinidogaethu i gynnulleidfa o Ymneillduwyr yn Wood-street, Llundain, ac wedi hyny yn Hand Alley, Pinner's Hall, a Salter's Hall. Yr oedd y Brenin William III. yn hoff o hono, ac yn ymgynghori ag ef yn fynych ar achos Iwerddon. Bu dadl bwysig rhyngdedd a'r Dr. Crisp, yr hwn oedd yn Antimoniad o Galfiniad. Gadawodd yn ei ewyllys gyfoeth lawer tuag at wahanol achosion. Ei lyfrau a adawodd i ffurfio llyfrfa gyhoeddus, yr hon a adwaenir wrth yr enw *Red Cross Street Institution*, Llundain, yng nghyd â moddion i'w chynnyddu. Hefyd, gadawodd foddion i gynnal ysgolion rhad ym mhob sir yn y Gogledd, ac i roddi crefft i nifer o'r bechgyn o'r cyfryw ysgolion, ac hefyd tuag at ddysgeidiaeth i weinidogion ieuainc, ac i gynnal chwech o efrydwyr Henaduriaethol ym Mhrifysgol Glasgow. Y mae yr holl gyfoeth elusenol hwn yn awr yn nwylaw y Sosiniaid, o dan yr enw Henaduriaethwyr neu Bresbyteriaid; er hyny, y maent yn gorfod cynnal yr ysgolion; a chan nad oes neb yn awr yn arddel yr enw Henaduriaethwyr neu Bresbyteriaid, o'r hen Ymneillduwyr yn siroedd y Gogledd, oddi eithr yng Ngwrecsam, er eu bod yn rhwym o fod yn gyssylltedig â chynulleidfaoedd Ymneillduwyr Protestanaidd, y maent yn gyssylltedig â chynulleidfaoedd yr Annibynwyr. Y mae, neu yr oedd rhai yn ddiweddar yn Bangor, Dinbych, Newmarket, a Llan Bryn Mair. Gadawodd foddion a chyfarwyddiadau yn ei ewyllys i gyhoeddi ei weithiau bob hyn a hyn o flynyddoedd dros ddwy fil o flynyddoedd. Mynai i'r 'Gwagedd Mebyd a Ieuengtyd' gael ei gyhoeddi yn amlach, o blegid yr ysgolion, a bod iddo gael ei gyfieithu i'r Gymraeg, a phum cant yr ail flwyddyn wedi ei farwolaeth, a'i wneyd drachefu mor aml ag y bydd achos. Hefyd, un wythfed ran o'i ystâd i'w rhoi i bwrcasu Beiblau a Chatecismau, yn Seisonaeg a Chymraeg, i'w rhoddi i'r tlodion yn y gwahanol leoedd bob blwyddyn. Dywedir mai y Parch. T. Baddy, o Ddinbych, a'i cyfieithodd. Bu y Dr. Williams farw yn 1716, yn 72 oed.*

2. 'Y Llaeth Ysprydol, Neu Bregeth, yn dangos mawr hiraeth y ffyddloniaid am laeth y gair ynghyd a'r ffordd y mae mae cynyddu trwyddo. O Gasgliad Eglwyswr.

Caerfyrddin, Printiedig gan Nicholas Thomas dros yr Awdwr yn y ffyddyn 1739. Tris tair ceiniog.'

Ymddengys mai yr 'Eglwyswr' hwn ydoedd y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho.†

* Calamy's *Continuation*, &c. vol ii. p. 990.

† [Nid oedd D. Rowlands ond rhyw 26 oed y pryd hwn.]

3. 'Pasc y Christion Neu Wledd yr Efengyl; Wedi ei chyhoeddi Mewn Traethawd ynghylch Swpper yr Arglwydd: Gydâ thair o ymddiddanion buddiol er mwyn rho'i ychwaneg o Addysc ir Gwan ynghylch y Natur a'r Arferiad o'r Sacrament hwn. Gan Tho. Doolittel. A.M. Wedi ei ymreigio gan T. B. yr hwn a chwanegodd chwech o Hymnau iw canu a'r ôl derbyn y Cymmun.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston. 1739.' [16plyg.]

THOMAS DOOLITTEL, A.C., a anwyd yn Kidderminster yn 1630. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain. Cafodd weinidogaeth St. Alphage, Llundain, fel Henaduriaethwr; ond gyrwyd ef ymaith ar Wyl St. Bartholomæus yn 1662. Wedi hyny bu yn gweinidogaethu fel Ymneilldüwr mewn amrai leoedd, a chafodd ran yn nhrallodion yr amserau. Ysgrifennodd lawer o lyfrau buddiol. Bu farw yn 1707, yn 77 oed.*

[Yn ol ein hawdwr, hwn ydyw yr ail argraffiad; ond yr wyf wedi amlygu fy marn eisoes (rhif 2, d.f. 1703), mai y cyntaf ydyw. Cynnwys 216 (212+4) o dudalenau wythplyg.]

4. 'Traethawd ar Ailenedigaeth [darn o'r ddalen wedi colli] neu — Lê Cynnulleidfa — yn Rhydychen. A osodwyd allan Gyntaf ar Ddeisyfiad y Gwrandawyr. Y nawr wedi ei Chyfieithu o'r Pedwerydd Argraphiad.

Printiedig yn Bristol gan Sam. a Felix Farley, 1739.'

5. 'An Examination of a Book, lately Printed by the Quakers; And by them distributed to the Members of both Houses of Parliament, Entitled, A Brief Account of many of the Persecutions of the People called Quakers, in the Exchequer, Ecclesiastical, and other Courts; for Demands recoverable by the Acts made the 7th and 8th Years of the Reign of King William III. for the more easy Recovery of Tithes, Church-Rates, &c. So far as the Clergy of the Diocese of St. Davids are concerned in it.

London: Printed for J. Roberts, near the Oxford-Arms, in Warwick-Lane, MDCCXXXIX.'

Amddiffyniad ficiar Llacharn, sir Gaerfyrddin, ydyw, yn erbyn cyhuddiadau y Crynwyr o'i fod yn eu herlid o blegid y degwm, &c.

6. 'A Discourse of the Word of God, by Morgan Lloyd, translated by Griffith Rudd. 1739.'

Cyfieithiad ydyw hwn o'r 'Gair o'r Gair,' gan Morgan Llwyd; a'r cyfieithydd, mae yn debyg, ydoedd un o hiliogaeth yr Esgob Rudd o Dy Ddewi.

* Wilson's *History of Dissenting Churches*.

7. 'Case of Matthew Deere, Son and Heir of Edward Deere, before the Ho. of Lords, against Rees Powell, relative to the Estates of Richard John, late of Lantrisent, in the Co. of Glamorgan, situated in the Parishes of Lantrisent and Ystraddevodock, in the said Co. 1739.'

Argraffwyd yn gyfrinachol.

8. 'The Scripture Genealogy Beginning at Noah, & To which is Added, The Genealogy of the Caesars. & Also a Display of Heraldry of the particular Coat of Armours now in Use in the Six Counties of North Wales, &c. By John Reynolds of Oswestry, Antiquarian.

Chester: Printed by Roger Adam for the Author 1739.' [4to.]

Yr oedd yr awdwr yn nai fab chwaer i John Davies, Rhiwlas, Llansilin, awdwr y 'Display of Heraldry;' ac ymddengys mai rhyw weddillion amherffaith a gafodd ar ol hwnw ydyw y llyfr gwir amherffaith uchod.

1740.

1. 'Y Nefawl Ganllaw, Neu'r Union Ffordd i Fynwes Abraham. Mewn ychydig o ystyriaethau eglur i gyfarwyddo y Cyfeiliornus ir Porthladd dymunol hwnnw. Gan L. A. Gweinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan R. Lathrop; tros Dafydd Jones.'

2. 'Myfyrdodau Wythnosawl, Sef, Myfyrdod ar bôb Diwrnod yn yr Wythnos, yn Enwedig yn amser Grawys, Gwedi eu Cyfieithu yn bennaf er mwyn Addysg y Tlawd, yr hwn nad oes iddo foddion i gyrraedd Llyfrau gwell, Ynghyd â Cholectau, Gweddian, a geiriau llesawl eraill; yn ffurf ei Ddyddyfr.'

3. 'Cyngor yr Athraw i Rieni, Ynghylch Dwyn eu Plant i Fynu, Yn cynhwys rhai meddyliau neilltûol ar y Testÿn hwnnw, gwedi eu cyfansoddi a'u cymhwÿso ir deall gwannaf; ynghyd a Rhagymadrodd, yn dangos, Mor esgeulus yn Gyffredinawl yw Rhieni, am roddi meithrin Syberlan iw Plant.'

Cyhoeddwyd y tri uchod gyda'u gilydd yn un llyfryn lled gryno, ond bod gwyneb-ddalen gwahanol iddynt. Y mae ar gefn gwynebdalen y cyntaf wyth o englynion 'Mawl i'r Llyfr a'r Cyfieithydd,' gan y cyhoeddwr, sef '*Dafydd Jones o Drefriw*,' ac yna dau dudalen o anerchiad rhagymadroddol, at '*Yr Ymdeithydd Cyfeiliornus*,' ac wrtho 'L. A.' '*Yspytty Evan*, Hydref y Chweched yn y Flwyddyn 1740.' Cynnwysa hwn iv. a 38 o dudalenu. Y mae yr ail yn dilyn y rhifnodau ym mlaen, gan ddechreu yn nhudalen 39, ond yn rhifo v. o dudalenu, at '*Y Darllenydd Hynaws*' rhyngddynt, a'i arwyddo 'L. A.'

Y mae hwn yn cyrhaedd hyd 96 tudalen. Y mae i'r trydydd dudalen o anerchiad 'At bôb Rhieni ystyriol a difrifol,' a'i arwyddo gan 'L. A. ;' ac yna 'Y Rhagymadrodd,' gan 'I. P.' hyd x. tudalen; yna dilyn y rhifnodau o'r llyfr arall, gan ddechreu yn 97 tudalen, ac ym mlaen hyd 130. Felly y mae y llyfryn hwn yn 149 o dudalenau, gyda nifer yn cymmeryd enwau y 'Subscribers.' Ni allwn ddywedyd mwy yn bresennol am L. A., ond mai LEWIS ANWYL, gweinidog plwyf Ysptyty Ifan, ydoedd, yn 1740, pan gyfieithodd y llyfrynau hyn. Symmudodd i ficeriaeth Abergele yn 1742, gan gymmeryd ei annedd yn Nhyddyn Forgan. Ei wraig oedd Gwen, merch ieuangaf Robert Gruffydd, Bachysaint a Than y Bwlch. Efe a fu farw yn 1776; a chladdwyd ef ger llaw y Bedyddfaen, yn eglwys ei blwyf hwnw, Chwefror 27, 1776. Dywedir mai blwydd oed oedd ei fab, y Parch. Robert Anwyl, pan ddaeth ei dad i Dyddyn Forgan. Bu ef yn ficar Llandrillo, yn Edeyrnion, ac yn berson Nannerch, yn sir Fflint.

4. 'Drych y Prif Oesoedd, yn ddwy Ran. Rhan I. Sy'n traethu am hen Ach y Cymry, o ba le y daethant allan: Y Rhyfeloedd a fu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, y Brithwyr, ac a'r Saeson. Eu Moesau gynt, cyn troi yn Gristianogion. Rhan II. Sy'n traethu am Bregethiad a Chynnydd yr Efengyl ym Mrydain: Athrawiaeth y Brif Eglwys. Moesau'r Prif Gristnogion. Gan Theophilus Evans, Vicar Llangamarch yngwlad Fuellt, a Dewi, ym Mrycheiniog. Yr Ail Argraphiad yn llawnach o lawer na'r cyntaf.

Argraphwyd yn y Mwythig tros yr Awdur, ac ar werth yno gan Tho. Durston.' [Splyg bychan: tudalenau 361+24=385.]

[Fel y rhan amlaf o lyfrau Durston, nid oes dyddiad ar y gynddalen; ond ar ddiwedd y llythyr 'At y Darllenwydd,' ceir 'Dydd Calan-Mai 1740.' Y mae y gwaith wedi ei gyflwyno, yn Lladin, i'r Dr. Nicolas Claget, esgob Ty Ddewi; yna y canlyn y llythyr neu anerch a nodwyd; yr hwn a ddilynyr gan gofres luosog o danysgrifwyr; a chloir y dosbarth rhaglithiol gan 'Englynion o Fawl i'r Brytwn dyscedig, yr Awdur.' O'r englynion hyn y mae tri, 'O Fawl i'r Gwaith a'r Cyfieithydd,' o waith Theophilus Evans ei hun, gyda'i enw o danynt, y rhai a roddwyd yma yn amryfus, canys gwrthun i'r eithaf fuasai i'r awdwr foli ei hun; ond englynion ydynt wedi eu cyfansoddi ganddo i anerch gwaith arall, sef rhif 3, d.f. 1717. Mewn rhai o'r argraffiadau diweddar o'r gwaith yr ydys wedi gosod—'At Theophilus Evans,' ar eu diwedd; ond y mae yn yn drywel i'r neb a ystyrio, fod y cyfryw englynion yn hollol amherthynasol i waith o fath 'Drych y Prif Oesoedd,' a'u bod yn cyfeirio yn ddigon amlwg at lyfr ar destyn crefyddol a *gyfieithiad* i'r Gymraeg.

Hwn yw yr argraffiad diweddar o'r llyfr tra dyddorol hwn yn ystod bywyd yr awdwr.]

5. ¶ 'Dwys ddifrifol Gyngor i Hunan ymholiad. Wedi ei draethu mewn pump o Bregethau. Gan Tho. Wadsworth, M.A. Gweinidog yr Efengyl gynt yn Newington Butts, yn Southwark. Wedi ei gyfieuthu er mwyn rhoi cymmorth ir cymru iw hadnabod eu hunain. Gan T. Baddy.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Tho. Durston.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad o hono.*

6. 'Pelydr a Thywyniad yr Yspryd, neu Bwysi o Fyrr. Sef Dewisol, Duwiol, a chysurlawn Fyfyrdodau. Yn adfywio, goleuo, a llonni'r Enaid. Wedi ei ail Brintio yn Saesonaec, yn yr vnfed-flwyddyn a'r ddêg o ddedwydd deyrnasiad y Brenin William y Trydydd.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston, 1740.'

[Nid oes un dyddiad wrth y cyfargraff a welais i o hono; ond a ganlyn yw ei argraffeb:—'Argraphwyd yn Saesonaeg yn Llundain, i William Marshal.' Llyfr 12plyg ydyw.]

7. 'Caniadau Nefol, sef Agoriad ar y Bennod gyntaf o Ganiadau Solomon ar fesur Cerdd, Ynghyd a rhai Hymnau Ysprydol. O waith Dafydd Lewys, Gweinidog yr Efengyl.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Tho. Durston yn y flwyddyn 1740.'

Cyhoeddid y tri uchod yn un llyfr, er bod gwyneb-ddalen i bob un o honynt.

8. 'Ateb y Parchedig Mr. Whitfield i Lythyr Bugeiliaidd diweddfaf Esgob Llundain.

Pont-y-pwl. Argraphwyd yn yr Argraph-Wasg Newydd yn y Flwyddyn MDCCXL.'

9. Rhyw 'Lyfr gan John Lewis o'r Maesgwyn, 1740.'†

10. 'Pasc y Christion neu Wledd yr Efengyl, &c. Gan Tho. Doolittel, A.M. Wedi ei ymreigio gan T. B. yr hwn a chwanegodd chwech o Hymnau i'w canu a'r ôl derbyn y Cymmun.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Richard Lathrop. 1740.'

[Y mae yn lled ddilys mai yr un argraffiad yw hwn â rhif 3, d.f. 1739, gydag argraffeb 'R. Lathrop' yn lle argraffeb 'Thomas Durston.' Dywedir i'r ddau gael eu 'ymreigio,' a diau na fu dau argraffiad o'r un llyfr, ac yn yr un dref, mor agos a hyn i'w gilydd.]

11. 'Diferyn Dewisol o Fel o'r Graig Crist: Neu Air Byrr o Gyngor i Saint a Pechaduriaid. Wedi ei osod allan yn gyntaf yn Saesonaeg: Ac yr awr hon wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg er Cymmorth i'r Cymru.

Pont-y-pool: Argraphwyd yn yr Argraph-Wasg Newydd yn y Flwyddyn MDCCXL.' 32 tudalen.

Awdwr y traethodyn poblogaidd hwn ydoedd—

Y Parch. THOMAS WILCOX, yr hwn a anwyd yn Linden, yn sir Rutland, yn 1622. Yr oedd yn weinidog cynnulleidfa o Fedyddwyr Neillduol yn *Three Cranes, Tooley Street*, Llundain, cyn y Chwyldroad.

* Gwel rhif 4. d.f. 1713.

† Yn ol cyfeiriad ato yn y 'Diddanwch Teuluaid.'

Bu yng ngharchar Newgate ddwy neu dair gwaith, o blegid ei anghydfurfiad. Yr oedd yn ddyn o dymmer lariaidd a Christonogol, ac yn gymmedrol yn ei farn. Bu farw Mai 17, 1687, yn 64 oed.*

12. 'Llythyr Addysg Esgob Llundain at y Bobl o'i Esgobaeth; yn eu rhybuddio yn erbyn Claiarwch o'r naill du; a zel danbaid nid ar ol Gwybodaeth o'r tu arall, A Gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Theophilus Evans Vicar Llangamarch.

A brintiwyd yn Nghaerloyw gan R. Raikes yn y Flwyddyn 1740.'

Llyfryn yn erbyn Mr. Whitfield a'r Methodistiaid ydyw, ac atebiad iddo a roddwyd uchod.† Yr argraffydd ydoedd yr hygloodus Robert Raikes, Ysw., a enwogir yn ei goffadwriaeth fel sylfaenydd y gyfundrefn o Ysgolion Sabbothol. Casglodd gyfoeth mawr, yr hwn a ddefnyddiodd, yng nghyd â'i bin a'i ddylanwad, mewn elusenau. Yr oedd un Dr. Stock yn cydweithredu ag ef gyda sefydliad Ysgolion Sabbothol. Ganwyd ef yn 1735, a bu farw yn 1811, yn 76 oed.

13. 'A Further Account of the Progress of the Circulating Welsh Charity Schools. In a letter to a Friend. By the Reverend Mr. Jones, Minister of Llandowror, near Laugharne, Carmarthenshire.

London Printed for J. Hutton, at the Bible and Sun without Temple-Bar, MDCCXL. [Price six pence.]

James Hutton ydoedd ar y cyntaf yn llyfrwerthydd, ac am flynyddoedd yn ysgrifenydd i Gymdeithas y Morafiaid, ac yn pregethu yn eu plith; er hyny nid oedd ei elusenau yn cael eu cyfyngu i blaid, a threuliodd y rhan ddiweddaf o'i oes yn teithio i wneuthur daioni. Yr oedd iddo barch gan bob gradd. Bu farw yn Oxtend Cottage, yn Surrey, Ebrill 25, 1795, yn 80 oed, a chladdwyd ef yng ngladdfa y Morafiaid, yn Chelsea.‡

14. ¶ 'Canwyll y Cymry, sef, Gwaith Mr. Rees Prichard gynt Ficeer Llanddyfri. Wedi ei Argraphu ynghyd yn Chwe Rhan, yn llofnach nag un Argraphiad a fu allan erioed o'r blaen, a chweddi ei fanwl chwilio a'i ddiwygio yn ofalus o amryw Feiau a Chamgymmeriadau anafus, gan J. H.'

Eto yn Seisonaeg fel hyn:—

'The Divine Poems of Mr. Rees Prichard; Sometime Vicar of Llandoverly in Carmarthenshire. Yr Wythfed Argraphiad gyda ychwanegiadau helaeth.

* Crostry's *History of the Baptists*, voi. iii. p. 161; Wilson's *Dissenting Churches*; vol. iii. p. 226.

† Rhif 8.

‡ Timperley's *Dictionary*.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Richard Lathorp. Lle y gellir cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesonaeg.'

Gelwir hwn yr wythfed argraffiad; ond ni chafwyd eto ond saith o honynt.*

15. 'Hyfforddwr at Orseddfainc y Grâs: neu, Ail ran o'r Alwad at Orseddfainc y Grâs. Yn dyscu Ym mha fôdd i nesâu at Dduw, ac i ymbil ag ef yn ei Eirjeu ei hun; megis ag y gallo'r Pechadurjaid mwyaf, a geisio, gael Grâs Duw a Thrugaredd, trwy'r Arglwydd Jesu, i Fywyd tragwyddol. Yn Cynnwys Matter a Threfn, ac amryw Gyfarwyddiadau ynghylch y Ddyledswydd o Weddi, ac Ymadroddjon perthynasol i'w harferu ym mhôb rhan o honi; wedi eu casglu allan o'r Ysgrhythur Lân. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn MDCCXL.'

Yr awdwr ydoedd ficar Llanddowror. Y mae lxviii o dudalenau, yn cynnwys 'Y Rhagdraethawd: neu Lythyr yr Awdwr at bawb o'i Gydgenedl, yr Anwyl Gymry, &c, yn cynnwys Cymhelliad a Chyfarwydd-deb i Weddio ar Dduw;' a chorff y gwaith yn 172 tudalen, oll yn 240 o dudalenau 12plyg llydan.

16. 'Llythyr oddiwrth y Parchedig George Whitfield, At Societies neu Gymdeithasau Crefyddol, a osodwyd yn ddiweddar ar droed mewn amryw Leoedd yng Nghymru a Lloeger. A ysgrifenyd yn y Llong a elwir Elizabeth, Capt. Stephenson, yn rhwym o Lundain i Philadelphia.

Pont-y-pool: Argraphwyd yn yr Argraph-Wasg Newydd yn y Flwyddyn MDCCXL.'

17. 'Dichellion Satan, sef Pregeth a Bregethwyd yn Eglwys St. Helen Fawr, yn Llundain. Gan y Parchedig ar Enwog George Whitfield, A.B. o Golledge neu lê Cynullfa Penfro yn Rhydychen. A Gyfieuthwyd gan ŵr Eglwysig E. W.

Argraphwyd yn y Mwythig gan R. Lathorp, tros Lewis Williams.'

18. 'Llywybur. Hyffordd i'r Cymru Ti a Channan nefol trwy ymarferud ar moddion trwy ras a ffydd Ynghrist. Y mae Llyfur wedi ei ossod allan yn 3 Rhan. Yn Gyntaf, Ychydig o Hymneu ar amryw achosion gan rai o weinidogion Eglwys Loeger ag eraill. Ag yn Ail, Agoriad eglur ar y Ganiadau Solomon o waith y parchedig Mr. Tho. Baddy gweinidog'r Efengyl yn Sir Ddinbach. Ag yn Drydydd, y mae ychydig rheolau'r ymcynhyllfa wythnosol sy mewn rai maneu

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 1, d.f. 1681; rhif 12, d.f. 1721; rhif 6, d.f. 1725; a hwn yma.

ynghymru ac yn amal iawn y Lloegr newydd ac a mewn amryw wledynd o'n amgylch er mwyn cynyddu mewn gras a gwybodaeth o Crist ac o honynt eu hynain.

Argraphwyd yn y Mwythig gan R. Lathorp, tro Evan ab Rhys. MDCCXL.'

Y mae hwn yn un o'r llyfrau mwyaf gwallus ei argraffwaith o holl hen lyfrau yr oes hòno.

1741.

1. 'Ym Ddiddan rhwng Rhobin Criwso a Bardd y Cwsg am y blynyddau dros Byth.'

Math o Almanac ydyw, am y flwyddyn 1741. Y mae yn ei ddechreu fath o gyfarchiad ar gân, wedi ei argraffu yn wallus, fel yn wir y mae yr holl lyfryn. Dyma siampl o ddau bennill:—

'mi a ysgrifenis hyn yn eon
rhyd m ynyddau a bryniau gwerddon,
Ai brentio ymhon byda son am dano
a mofyn tyn am Robin Criwso.

BARDD.

ffarwel Rhobin Criwso y leni
mi af etto yr ogo y gyseu,
Os byddaf byw y flwyddyn nesaf
mi wna fwy o so am danaf.'

Hyny yw :

Mi a ysgrifenis hyn yn eon,
'R hyd mynyddau a bryniau Gwerddon ;
A'i brintio ym Mon—bydd son am dano,
A 'mofyn tyn am Robin Criwso.

Y BARDD.

Ffarwel, Rhobin Criwso, eleni ;
Mi af eto i'r ogo i gysgu :
Os byddaf byw y flwyddyn nesaf,
Mi wna fwy o son am danaf.

Dyma y prawf y crybwyllwyd am dano o'r blaen o fod gwasg argraffu ym Mon cyn yr un a fu ym Modedeyrn.*

2. 'Hymnau Duwiol, Buddiol i'w dysgu, a'i canu gan bawb o ffyddlon Blant Sion ; i'w diddanu ar y ffordd wrth ymdaith tua'r Wlad nefol. Col. iii. 16.

* Gwel rhif 6, d.f. 1735, lle y ceir hanes helaethach am hòno.

Pont-y-pool: Argraphwyd yn yr Argraph-Wasg Newydd yn y Flwyddyn MDCCXLI.'

Y mae dwy ran, a rhagddalen i bob un.

3. 'Hymnau Duwiol. O Gasgliad Gwyr Eglwysig M. J. ac E. W.

Argraphwyd ym Mhont-y-pool, gan S. Mason.'

4. 'An Address to the Charitable and Well-Disposed, In Behalf of the Poor in the Principality of Wales.

London: Printed for James Hutton, at the Bible and Sun, without Temple-Bar, MDCCXLI.'

Anerchiad y Parch. G. Jones, Llanddowror, dros gael argraffiad o Feiblau a Llyfrau Gweddi Gyffredin i'r Cymry, ydyw.

5. ¶ 'Tair o Farnodau, neu Alarnadau Godidog, mewn Coffadwriaeth i'r Parchedig a tra duwiol ŵr Bonheddig Mr. William Steward, yr hwn a ddiweddodd ei yrfa o fewn Plwyf Ciwjob yn agos i Dref'r Gelli, o fewn Shir Frecheiniog y 22 o Fis Hydref. 1740.'

Yr oedd ef yn bregethwr selog ar ddechreuad Methodistiaeth.

6. 'Y Catecism; Sef yw hyny, Athrawiaeth i'w dysgu gan bôb Plentyn cyn ei ddwyn i'w gonffirmio gan yr Esgob. Gyd ag Ysgrifurthurold Testynau perthynasol.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn M,DCC,XLI.'

7. 'Catechism y Bedyddwyr: neu Gyfarwyddyd byr yn Egwyddorion y Grefydd Grist'nogol. Yn gyttynol a'r Gyffes Ffydd a ossodwyd allan gan Henuriaid a Brodyr o amriw Gynlleidfaoedd o Gristnogion (wedi eu bedyddio ar broffes o'i Ffydd) yn Llundain ar Wlâd; yn arddel yr Athrawiaeth o Etholedigaeth Bersonol, a Pharhaed hyd y Diwedd.

Pont-y-pool: Argraphwyd yn yr Argraph-Wasg Newydd, yn y Flwyddyn, 1741.' [16plyg: 36 tudalen.]

8. 'The Weekly History: or, An Account of the most Remarkable Particulars relating to the Present Progress of the Gospel.

London: Printed by J. Lewis in Bartholomew-Close, near West Smithfield. [Price One Penny.]'

Papyrau wythnosol oeddynt, o ddwy ddalen unplyg, yn cynnwys llythyrau oddi wrth weinidogion, ac ereill, ag oedd ganddynt law yn y diwygiad Methodistiaidd yn yr oes hono, yng Nghymru a Lloegr. Y mae y rhan fwyaf yn cynnwys llythyrau oddi wrth, ac at Howel Harris a George Whitfield, yn rhoi hanes eu teithiau, eu

trallodau, a'u llwyddiant. Dechreuwyd eu cyhoeddi tua'r 9fed o Ebrill, 1740; canys dyma o'm blaen y rhifyn 44, am 'Saturday, Feb, 6, 1741-42' (yr hyn oedd Chwefror 6ed, 1742, yn ol y cyfrif newydd), a rhifynau 47, 50, 53, 54, 55. Pa sawl rhifyn gyda hyny a ddaeth allan, ni all yr ysgrifenydd benderfynu; ond y mae yn debyg na ddaeth llawer, canys newidiwyd y ffurf i rifynau bychan.* Cynnwysent hefyd yn eu diwedd hysbysiadau am lyfrau, a chyhoeddiadau gan Mr. Whitfield, ac ereill yn yr oes hono, ag a dybid yn fuddiol i'w lledaenu ym mhlith y dychweledigion, er eu llesâd ysbrydol. Yn wir, math o baprau newyddion crefyddol oeddynt. Ymddengys mai John Lewis oedd yr anturiaethwr, a'i fod yntau yn 'un o honynt,' canys gelwir ef '*dear brother Lewis*' (anwyl frawd Lewis) yn rhai o'r llythyrau; ac y mae rhai yn gyfeiriedig ato ef. Yr ydys yn tybio mai Cymro o gymmydogaeth Llanfair ym Muallt ydoedd. Y mae yn briodol sylwi mai ym mhlith y dosbarth Calfinaid o'r diwygwyr Methodistaidd yr oedd y paprau hyn yn cael eu taenu. Y maent yn werthfawr iawn i hynafiaethydd Methodistaidd Cymreig. Byddai rhestr gyflawn o honynt yn drysor gwerthfawr, gan fod yn anhawdd iawn eu cael oll. Y maent yn perthynu cymaint i Gymru ag i neb arall, os nid mwy.

9. 'Hyfforddwr,' &c. [Rhan Iaf o Gatecism G. Jones, Llanddowror.]

Llundain.†

10. ¶ 'Cynnygiad Amcan Gostyngedig tua g at yr Adfywiad o Grefydd Ymarferedig ym Mhlith cristianogion, Mewn Anerchiad Dyfrifol at Broffesswyr Crefydd. Gan I. Watts. D.D. Ac a Gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r Ail Argraphiad yn Saesoneg or Lleshâd ir Cymru.

Argraphedig yn y Mwythig gan Tho. Durston.'

ISAAC WATTS, D.D., ydoedd fab i Isaac Watts, ysgolfeistr yn Southampton, ac a anwyd yn y dref hono yn 1674. Yr oedd y tad yn un o'r Anghydfurfwyr, ac wedi dyoddef anghyfleusderau a cholledion, a hyd yn nod carchariad, o blegid hyny. Wedi i'r mab gael elfenau ei ddysgeidiaeth gan ei dad, efe a roddwyd dan ofal gweinidog enwog yn Llundain, y Parch. T. Rowe, ag ydoedd yn cadw athrofa, lle y gwnaeth gynnydd canmoladwy. Ei orchwyl gweinidogaethol cyntaf oedd bod yn gapelwr teuluaidd i Syr John Hartopp, o Stoke Newington, ac yn athraw i'w fab; yna yn 1698, dewiswyd ef yn gyd-lafurwr â'r Dr. Isaac Chauncy, gweinidog y gynulleidfa Ymneillduol ym Mark Lane, Llundain, ac yn ddilynydd iddo wedi ei farwolaeth. Ond darfu i afiechyd y Doctor luddias iddo barhau; ac yn ei waeledd cafodd ei wahodd i deulu Syr Thomas Abney, lle y bu hyd ei farwolaeth, ybsaid 36 o flynyddoedd, yr hyn a gymmerodd le yn 1748, yn

* Gwel rhif 8, d.f. 1743.

† *Llythyr* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

74 oed. Ysgrifennodd lawer, a chyhoeddwyd ei weithiau wedi ei farwolaeth yn chwe' chyfrol 4plyg, a dwy ar bymtheg 8plyg.* Heb law y rhanau o'i waith a enwir yn y gwaith hwn, cyhoeddwyd hefyd yn nechreu y ganrif hon ei bregethau ar 'Angeu a Nefoedd,' ac yn ddiweddarach ei 'Y Byd a Ddaw,' a'i 'Hymnau i Blant.'

11. 'A Collection of Welsh Travels and Memories of Wales.

London. 1741.'

Ail argraffiad yw hwn, gyda phethau ereill o 'Wallographia' y flwyddyn 1682.†

12. 'Deonglydd yr Ysgrythurau Tuac at Eglurhau ac amddiffyn amryw Leoedd o'r Ysgrythur Lan, Y Rhai a wydroir gan Hæreticciaid er mwyn cynnal i fynu eu Hæresiau au Camsoniadau. Y Rhan Gyntaf

Printiwyd yn y Flwyddyn, 1741.'

Cynnwys y llyfr hwn xvi. o dudalenau o Ragymadrodd, a'r llyfr ei hun yn 144 tudalen. Y mae 'Diwedd y Rhan Gyntaf' ar ei ddiwedd, er na welwyd eto yr ail ran. Ei awdwr ydoedd y Parch. Simon Thomas, gynt o'r Cilgwyn a Chaeronen, ac wedi hyny o Henffordd, lle yr ydoedd yn argraffu ei lyfrau, yn ei dy ei hun.

13. 'Catecism y Gymmanfa: Gyd ag Agoriadau: Neu y Catecism Byrraf, yr hwn a dynnwyd i fynu gan y Gymmanfa o Ddifnyddion yn Westminster. Gyd ag Eglurhâd byrr ar y Geiriau dyrys ynddo, er Hyfforddi Dynion Jeuainge, Gan I. Watts, D.D. Ac a Gyfiaethwyd i'r Gymraeg o'r Trydydd Argraphiad yn y Saesonaeg, gan J. Evans.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Wilson, tan Lûn Pen y Twrc yn Heol Eglwys-Grâs. MDCCXLI.' [16plyg: 46 tudalen.]

14. ¶ 'The several humble Petitions of Prynne, Burton, and Bastwick, to the House of Commons, also the Petition of Calvin Bruen and friends of North Wales and the City of Chester. 1741.'

Llyfr 4plyg a argraffwyd yn gyfrinachol.‡

1742.

1. 'Rhai Hymnau Duwiol o waith Edmund Williams. Yr hwn oedd wr Eglwysig. A lewyrchodd yn hynod dros amser, Ond a fu farw ym Mlodau ei ddyddiau pan oedd o amgylch 25 Oed. Gosodir i lawr ymma hefyd, Ymddiddanion ynghylch dawnsio, A Rhai o'i

* W. Jones's *Christian Biography*.

† Ritson's *Memoirs of the Celts*.

‡ Hotten's *Catalogue*.

Eiriau diweddaf, Ar ei glâf-wely Angau, er lleshaed i'r Byw, yn enwedig ir Ieuaingc. Psm. xxxvii. 37.

Printiedig yn Bristol gan F. Farley, 1742.'

2. ¶ 'Rheolau Cymdeithas Grefyddol.'

Yr oedd yn y cyfnod hwn amryw offeiriaid duwiol ac efengylaidd yn sir Fynwy, yn cefnogi y diwygiad Methodistiaidd. Yr oeddynt yn cynnal cymdeithasau crefyddol; ac ymddengys mai i reoleiddio y cyfryw gymdeithasau y ffurfiwyd y rheolau uchod.

3. ¶ 'Hymnau Duwiol, gan Howel Harris, Morgan Jones, Daniel Rowland, a Herbert Jenkins, ac ereill.'

Yr hymnau a gyfansoddwyd, fel y 'Rheolau,' at wasanaeth y cymdeithasau crefyddol a ffurfid yn yr amser hwnw gan yr offeiriaid, ac ereill, ag oedd yn cymmeryd rhan lafurus yn y diwygiad Methodistiaidd, cyn bod nemawr eto i'w cael yn gyfaddas i'r cyfryw gyfarfoddydd, o ba rai y nodwyd amrai lyfrynu yn y gwaith hwn.*

Ef allai y byddai yn briodal crybwyll yma am y gwŷr da hyn bob yn un, gan y daw enwau rhai o honynt ger bron eto.

HOWEL HARRIS a anwyd yn Nhrefecca, ger Talgarth, yn sir Frycheiniog, yn 1713.† Cafodd ysgol gartrefol hyd nes ydoedd yn 19 oed, pryd yr aeth i Rydychain, gyda bwriad i ymgymhwyso i'r weinidogaeth yn yr Eglwyf Sefydledig; ond nid arosodd yno yn hwy nag un tymmor neu derm. Pan geisiodd gael ei dderbyn i'r weinidogaeth trwy ordeiniad, ni lwyddodd. Yna troes allan i bregethu yn deithiol, megys yr oedd Whitfield a Wesley yn Lloegr, ond heb gysylltiad â'u gilydd, hyd nes iddynt glywed am eu gilydd. Yn 1752, ymneillduodd mewn rhan oddi wrth y lleill o'r Methodistiaid, trwy adeiladu math o goleg neu nawdd-dy,‡ mewn rhan trwy ei draul ei hun, ac mewn rhan trwy roddion ei gyfeillion, lle y derbynai ato ei gefnogwyr o bob parth o'r wlad, llawer o ba rai a werthent eu heiddo cartrefol, ac a ddeuent yno, gan fwrw eu cyfoeth i'r drysorfa gyffredin. Ac yntau a brynai, neu a gymmerai am ardreth, dyddynod yn y gymmydogaeth, y rhai a drinid ganddynt fel un teulu, gan

* Gwel hefyd rif 2 a 3, d.f. 1741; a rhif 1 a 2, d.f. 1742.

† [Yn hanes ei fywyd a ysgrifenyd ganddo ef ei hun, yr hwn a gyhoeddwyd yn y 'Brief Account of the Life of Howell Harris, Esq.,' argraffedig yn Nhrefecca yn y fl. 1791, dywed ef mai ar y 23ydd o Ionawr, 1714, y ganed ef; a'i eiriau ydynt—'I was born at *Trevecca*, in the Parish of *Talgarth*, in the County of *Brecon*, on *January* 23d. 1714.' Dywed *Enwogion Cymru*, yr un fath â'n hawdwr uchod, mai yn 1713 y ganed ef; ond dilys fod hyny yn amryfusedd, oni chyfrifir fod y flwyddyn yn dechreu yn mis Mawrth.]

‡ [Tebyeach i *fonachlog* na dim arall; ac yn y golygiad hwnw yr edrychai Bardd blasber Pant y Celyn ar y sefydliad:—

'Pam y treuliaist dy holl ddyddiau
I wneyd rhyw fonachlog fawr,
Pan y tynodd Harri frenin
Fwy na mil o'r rhai'n i lawr?'

Marwnad Howel Harris: 1773.]

werthu y cynnyrch; a hefyd yr oedd ganddo weithfa wlan a llin, y rhai a weithient eu hunain, gan wneyd marchnadyddiaeth o honynt, er elw i'r cyfan. Parhaodd y sefydliad yn llwyddiannus i raddau, hyd ddiwedd oes Mr. Harris. Yn 1759, efe a gymmerodd raglafiaeth ym milwriaeth wirfoddol sir Frycheiniog; a chyfododd filwyr o blith ei gyfeillion, ac aeth allan ei hun yn gadben arnynt, er gwrthwynebu ymosodiad bygythiedig ar y deyrnas. Bu farw Gorph. 28, 1773, yn 60 oed; a gadawodd yn ei ewyllys ei holl eiddo i gynnal y sefydliad dros byth; ond o ddiffyg meddwl grymus i flaenori a llywodraethu, gwywodd y sefydliad o radd i radd, fel ag yr oedd marwolaeth yn lleihau 'y teulu.' O'r diwedd, gwnaeth y Trefnyddion Calfnaid gytundeb â'r gweddill, i'w drosglwyddo trwy weithred gyfreithiol reolaidd i'r cyfundeb hwnw, er ei sefydlu yn goleg athrofaol i roddi dysgeidiaeth ieithyddol i'w pregethwyr ieuainc.*

MORGAN JONES ydoedd gynghorwr grymus ym mhlith y Methodistiaid cyntaf, yng nghymmydogaeth Pont y Pwl, yn sir Fynwy, ac oedd hefyd yn arolygwr dros y rhan hòno o'r wlad, o dan y Parch. John Powel, yr hwn ydoedd weinidog yn yr Eglwys Sefydledig. Cafodd ei alw wedi hyny gan gynnulleidfau o Ymneillduwyr yn sir Fynwy, i fod yn weinidog iddynt, i ba rai y gweinidogaethodd yn benaf dros flynyddoedd diweddaf ei oes.†

DANIEL ROWLANDS‡ ydoedd fab i'r Parch. Daniel Rowland, gweinidog plwyfau Llanccwille a Llangeitho, yn sir Aberteifi, ac a anwyd ym Mhant y Beudy, yn y plwyf cyntaf, yn 1713. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Henffordd, ac ordeiniwyd ef yn 20 oed, yn gurad y ddau blwyf uchod; ac ym mhen amser cafodd guradiaeth Landdewi Brefi, yn yr un gymmydogaeth. Wedi bod yn gwasanaethu y ddau blwyf blaenaf yn agos i 30 mlynedd am y tâl bychan o 10*p.*, efe, tua'r fl. 1763, a ddifreintwyd o'r cwbl gan yr esgob, o blegid ei afreolaeth deithiol Fethodistaidd. Parhaodd mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid hyd ddiwedd ei oes; ond yr oedd yn cartrefu yn Llangeitho, lle yr adeiladwyd iddo gapel mawr, ac yno y gweinyddai yr ordinhadau, yn ol trefn yr Eglwys Sefydledig, i'r cannoedd a gyrchent yno yn fisol o bob parth o'r wlad, ac yn flynyddol i'r Gyndeithasfa fawr. Bu farw Hydref 16, 1790, yn 77 oed. Bu ganddo ryw ran mewn peri i amrai lyfrau ddyfod allan yn Gymraeg; a chyhoeddwyd tua dwsin o'i Bregethau yn Gymraeg, a chyfieithiad Seasonig o ryw wyth o honynt, fel y gwelir yn y gwaith hwn.§ Argraffwyd y deuddeg yng nghyd gan S. Williams, yn Aberystwyth, yn 1814.

HERBERT JENKINS a ymunodd â'r Methodistiaid ar gyffiniau siroedd Mynwy a Morganwg, yn nechreuad eu sefydliad yn y cymmydog-

* *Life of Harris*; Jones's *History of Breconshire*; Malkin's *South Wales*; Hughes, *Methodistiaeth Cymru*; a Williams's *Eminent Welshmen*.

† *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 165, 489.

‡ [Rowland (nid Rowlands) yr ysgrifennai efe ei gyfenw; ac felly y mae ar y llyfrau a gyhoeddwyd ganddo: ond yr ydys weithian, er hyny, wedi ei ystrydebu yn Rowlands; ac felly, mae yn debyg, y rhaid iddo aros.]

§ *Coffhâd am y Parch. D. Rowlands*, gan y Parch. John Owen; *Methodistiaeth Cymru*, gan Hughes, cyf. i. t. 66, &c.; Williams's *Eminent Welshmen*.

afathau hyny. Cafodd wedi hyny ddysgeidiaeth yng Ngholeg yr Arglwyddes Huntingdon, yn Nhrefecca. Bu hefyd yn cydweithredu â'r ddau Wesley, ac yn un o aelodau eu Cynnadledd. Wedi hyny, bu yn gwasanaethu capel Mr. Whitfield, ym Moorfields, Llundain, a chapel yr Arglwyddes Huntingdon, yn Ecseter. A phan adeiladodd hi ei chapel yn Lewis, ger Llundain, sefydlwyd ef yno; a chan y mynai ymsefydlu yno yn wastadol, a bod hyny yng ngwrthwyneb i fviriad y foneddiges hōno, yn ol fel yr awdurdodasid i'w hymddiriedolwyr, bu gorfod i Mr. Jenkins encilio. Wedi hyny derbyniodd alwad i wasanaethu cynulleidfā o Annibynwyr yn rhyw le yn Lloegr.*

4. 'Welsh Piety Continued: or, A Further Account of the Circulating Welsh Charity Schools, from August 1740, to August 1741. In a Letter to a Friend.

London: Printed by M. Downing, in Bartholomew-Close. MDCXLII.'

5. 'Welsh Piety Continued: or, A Further Account of the Welsh Charity Schools, from September 1741, to September 1742. In a Letter to a Friend.

London: Printed by M. Downing, in Batholomew-Close, MDCCXLII.'

6. 'History of Britain, till the Death of Cadwaladr, with Lhuyd's Breviary. 1742.' Folio.

7. 'Ancient British Music, or a Collection of Tunes never before published, which are retained by the Cambro Britons, &c. Part I. By John Parry.'

Yr oedd JOHN PARRY yn enedigol o Riwabon, yn sir Ddinbych. Gelwid ef Parry Ddall, am ei fod yn amddifad o'r synwyr hwnw. Yr oedd yn delynwr teuluaidd i Syr Watkin W. Wynn, o Wynnstay. Bu farw Hydref 7, 1782.

8. ¶ 'A Collection of Welsh, English, and Scotch Airs, with Variations. Part II. By John Parry.†

9. 'The Arminian Heresy and the (Commonly call'd) New Method; Compar'd And the Foundation of these two Schemes Consider'd and Examin'd.

Printed in the year, 1742.'

Cynnwys v. a 202 o dudalenau 12plyg bychan. Y mae yr awdwr yn gwrthwynebu Arminiaeth, Pelagiaeth, a'r hyn a eilw y 'New Method,' sef cyfundrefn y Parch. R. Baxter.

* *Evangelical Register; Memoir of the Countess of Huntingdon*, 1835, p. 249, &c.; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. 1. 163.

† Gwel rhif 7 uchod.

10. ¶ ‘Remarks upon a Small Treatise Entitl'd The Beauty of Holiness in Book of Common Prayer.’

Cynnwys 199 tudalen 12plyg. Awdwr y ddau ydoedd y Parch. Simon Thomas ; canys dywed nodyn ysgrifenedig yn Seisoneg gan hen law yn gyssylltedig â chyfrol o dri o'i weithiau (rhif 12, 1741, a'r ddau uchod) fel hyn :—‘Pob un o'r rhai hyn a ysgrifenyd gan Mr. Simon Thomas, Gweinidog Ymneillduol, yr hwn a anwyd yn y Cilgwyn yn sir Aberteifi, ond a fu yn cyfanneddu lawer o flynyddoedd yn Henffordd, ac yno y diweddodd ei yrfa.’ Gwaith y Dr. Biss, esgob Henffordd, yw y ‘Beauty of Holiness,’ a chafodd ei gyfieithu i'r Gymraeg.*

1743.

1. ‘Drych Difinyddiaeth : neu Hyfforddiad i Wybodaeth jachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefyddol : Sef, Holiadau ac Attebion Ysgrhythyrol ynghylch yr Athrawiaeth a gynhwysir yng Nghatecism yr Eglwys. Angenrheidiol i'w dysgu gan Hen a Ieuaingc. Yn Bum Rhan. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain gan John Olfir ym Martholomey Clôs, gerllaw Smithfield Gorllewinol, yn y Flwyddyn MDCCLXIII.’

Y gweinidog hwn ydoedd y Parch. G. Jones, Llanddowror.

2. ‘Traethawd ar Farw i'r Ddeddf, a Byw i Dduw. Ym mha un yr amlygir yn helaeth, y Môdd y mae'r Yspryd Glan yn dwyn yr Enaid o'r Cyfammod o Weithredoedd, i'r Cyfammod o Râs. O'r Hunan i Grist. At ba un y chwanegwyd Chwêch o Hymnau buddjol, ar amryw ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. Daniel Rowland.

Argraphwyd yn Bristol, gan Felix Farley, yn y Flwyddyn 1743.’

3. ‘Llythyr o Annerch Difrifol a charedig, oddiwrth Weinidog yn y Wlad at ei Blwyfolion. Yn Cynnwys i. Gyffredinawl a neilltuol Ddosparthiadau yn tuedddu at fywiogi gwir deimlad o Grefydd ac ymarfer o Grist'nogrwydd. ii. Ymgais ewyllysgar i adferu Crefydd Deuluawl : ynghyd â ffurf eglur o Ddefosiwn o Deluoedd, wedi ei chwanegu âg Yspysyadau ac Athrawiaethau eraill angenrheidiol ynghylch Gwedi, Y cyfan gwedi ei Gyfaddasu at Synhwyrau y cyffredin Bobl. Gwedi ei gyfieithu or Saes'naeg, gan J. Jones, Gweinidog Plwyf Llangynog, yn y Flwyddyn 1742.

Argraphwyd gan Tho. Durston Gwerthwr Llyfrau yn y Mwythig 1743. [8plyg.]

Bu y Parch. J. Jones yn Llangynog o'r fl. 1720 hyd 1744, pryd y bu farw hyd y gwyddys.

* Gwel rhif 3, d.f. 1722.

4. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, &c.

Argraphedig yn y Mwythig, ac ar Werth yno gan Thomas Durston, Gwerthwr Llyfrau, 1743.'

5. 'A Compleat and Impartial History of Ancient Britons. From the Earliest Account of Time to the End of King Henry viii, &c. By John Owen, Rector of Pickworth in Lincolnshire.

London, Printed for the Author 1743.'

Y mae y gwaith hwn yn ddwy neu ychwaneg o gyfrolau, ac yn cynnwys llawer o gerfluniau.

6. 'Crynodeb y Salmau Cân: sef, rhai Salmau Detholedig yn gyfain, a'r Rhannau mwyaf buddjöl ac eglur eu Hystyriaeth, o Salmau ereill, a chynhulliad o Adnodau perthynol i'w gilydd ar amryw Destynau, gyd â'r Ystyr o honunt, yn fyr, o flaen pob Salm, &c.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn MDCCXLIII.'

7. ¶ 'Catecism o'r Ysgrhythyr, yn nhrefn Gwyr y Gymmanfa. A 'sgrifenyd yn Sais'neg, Gan y Parch. Matthew Henry, Gweinidog yr Efengyl. Yn Gymraeg, i ddangos i'r Cymro uniaith i. Y pethau a ddylai efe ei Credu. ii. Y Dyledswyddau a ddylai efe ei cyflawni tu ag at Dduw a Dynion. iii. Y Cyfryngau neu'r Moddion, a ddylai efe ei Harfer. iv. Y Pethau a ddylai ei Gofyn gan Dduw mewn Gweddi, a hynny allan o Air Cyssegr-lan Duw ei hun. Wedi ei gyfieithu gan Jago ab Dewi.

Yr ail Argraphiad.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross, Evan Evans, yn Aberhonddu, a Daniel Evans, yn Abertawe. Pris Swllt heb ei rwymo.'

Yr oedd hwn yn wir y trydydd argraffiad o gwbl, ond yr ail o gyfieithiad Iago ab Dewi; canys y Parch. Jenkin Evans oedd cyfieithydd y cyntaf.*

8. 'An Account of the most remarkable particulars relating to present progress of the Gospel.

London: Printed and Sold by John Lewis, in Bartholomew-Close, near West Smithfield. MDCCXLIII.'

Daeth yr uchod allan yn rhifynau bychain wedi i'r *Weekly History* beidio.† Ni fedrais gael allan pa sawl rhifyn a ddaeth o honynt; y mae yr un sydd wrth fy llaw yn 'Number 2, vol. ii.,' a'r llythyr

* Gwel rhif 2, d.f. 1708; rhif 5, d.f. 1717; a hwn uchod.

† Gwel rhif 8, d.f. 1741.

cyntaf oddi wrth 'Brother Thos. James (an exhorter in Wales) to the Rev. Mr. Whitfield.'

9. 'The Miraculous Increase of Jacob's Flock opened and applied, From Genesis xxx. 25, to the End. By S. O. Cradoc. And Published by Edmund Jones, Minister of the Gospel in Wales.

London: Printed for J. Oswal. at the Rose and Crown in the Poultry, MDCCXLIII.'

Solomon Owen Cradoc ydoedd ffugenw a roddai Edmund Jones, gweinidog Ebenezer, ger Pont y Pwl, wrth rai o'i weithiau, gan addef ei hunan yn gyhoeddwr yn unig o'r cyfryw lyfrau, er mai efe ydoedd yr awdwr hefyd, am yr hwn y mae y lle hwn y cymhwysaf i roddi ychydig gofion, gan y cyfarfyddir â'i enw yn fynych o hyn allan. Gan hyny,

EDMUND JONES ydoedd fab i John Lewis a Catherin Morgan, o Benllwyn, ym mhlwyf Aberystroth, sir Fynwy, ac a anwyd Ebrill 1af, 1702. Ymunodd â'r gynnulleidfa neu eglwys o Annibynwyr ym Mhenmain ac Abertilerwy, yn 1721. Ymsefydlodd fel gweinidog yn Ebenezer, Pont y Pwl, yn 1740, lle y bu yn llafurus a selog iawn yn cyflawnu ei weinidogaeth, gyda llawer o hynodrwydd, a chryn lawer o ofergoeldd, hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ei ddywediadau a'i sylwadau mor hynod ar ddynion a phethau, fel ag yr adnabyddid ef wrth yr enw 'Yr Hen Brophwyd.' Ysgrifennodd gryn lawer o fân lyfrau yn y ddwy iaith, a gadawodd lawer ar ei ol mewn llawysgrifen, a rhai o honynt wedi eu hollol barotoi i'r wasg, yn neillduol dwy gyfrol o'i 'Ardd Lysiau' wedi ei hysbrydoli, ar ganiad, yn yr iaith Seisonaeg. Bu farw yn 1793, yn 91 oed.

1744.

1. 'Y Rhyfel Ysprydawl, a wnaethpwyd gan Shaddai ar Diabolus; Er ennill yn ôl Fam-ddinas Byd: Neu golli ac ennill drachefn Dref Mansoul. Gan John Bunyan, Awdwr Taith y Pererin, y Gynta a'r Ail Ran.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Richard Lathorp, lle y gellir cael Printio pob math o Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg, 1744.'

Mae y rhagymadrodd gan 'Dl. Rowland,' yn dangos mai y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, a'i golygodd, os nad a'i cyfieithodd. Yr oedd Richard Lathorp, yr argraffydd, yn deilliaw o deulu o'r enw hwn ag oeddynt yn Anghydfurfwyr. Bu un John Lathorp yn weinidog yn Llundain wedi i un Mr. Jacob fyned i Virginia yn 1624.* Argraffwyd y llyfr hwn hefyd gan W. Williams, ym Merthyr Tydfil, yn 1813.

* Palmer's *Calamy's Nonconformist Memorial*.

2. ¶ 'Patrwm y Gwir Gristion: neu Ddilyniad Iesu Grist. A 'scrifenwyd gynta yn Lladin gan Thomas a Kempis. Gwedi ei Gyfieithu'n Gymraeg ers talm o Amser, yn ol Editiwn yr Awdur, Gan H. O. Gwenydog yn Mon Esq.

Mwythig Argraphedig gan Tho. Durston.'

Yr oedd hwn yn bummed argraffiad.* Sylwyd o'r blaen fod enw y cyfieithydd wedi ei roddi mewn dull trwsgl iawn—weithiau 'H. O. Gwenydog,' pryd arall 'H. O. Gwenydeg,' yr hyn a arweinia i dybio mai 'Gweinidog' a ddylasai fod; ac yma 'H. O. Gwenydog yn Mon Esq.,' yr hyn sydd eto yn annghyssondeb dyryslyd.

3. 'Welch Piety Continued: Or, A Further Account of the Circulating Welch-Charity Schools, from Michaelmas 1742, to Michaelmas 1743. In a Letter to a Friend.

London: Printed by M. Downing, in Bartholomew Close, MDCCCLIV.'

Y Downings oeddynt argraffwyr y Gymdeithas er Lledaenu yr Efengyl mewn Parthau Tramor. Bu Joseph Downing, yr hwn a ystyrid yn ddyn da, farw Awst 31, 1734; ac y mae yn dra thebyg mai mab i J. D. ydoedd yr M. Downing hwn.

4. 'Pregeth Ddiweddaf Mr. John Bunyan: A Bregethwyd yn Llundain yn Mis Gorphenâf, yn y Flwyddyn o Oed ein Harglwydd MDCCVIII. A gyfieithwyd i'r Cymro-aeg gan John Morgan, Diweddar a Blwŷf Cynwil-Gaio.

Argraphwyd yn Nghaerfyrddin: gan Samuel Lewis, MDCCCLIV.'

5. 'Crist ym Mreichiau'r Credadyn, Wedi ei osod allan mewn Pregeth ar Luc ii. 28. Gan y Parch. Ebenezer Erskine, M.A. At ba un y chwanegwyd, Pregeth arall, a elwir, Dadl Ffydd, ar Air a Chyfammod Duw, Salm lxxiv. 20. Gan y Parch. Ralph Erskine, M.A. Hefyd Odl ar waith a Dadl y Nefoedd, Wedi ei gymmeryd allan o'r Llyfr rhagorol hwnw a elwir yn Saesonaeg, Gospel Sonnets.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, tros y cyfieithydd, ac ar werth yn ei Argraph-dŷ, yn Heol-Awst, MDCCCLIV.' [12plyg: 4+92=96 tudalen.]

EBENEZER a RALPH ERSKINE oedd frodyr, a gweinidogion enwog yn eu dydd perthynol i Eglwys Sefydledig Bresbyteraidd Scotland.

Brodor o Scotland hefyd ydoedd John Ross, yr argraffydd. Yr oedd teulu o honynt yn byw yn y wlad, ger llaw tref Caerfyrddin. Dywed ef ei hun iddo ddyfod o Lundain, lle y buasai yn 'gwasanaethu saith mlynedd fel pen-gweithiwr mewn argraffdy enwog,' ac mai efe oedd

* Gwel rhif 2, d.f. 1679; rhif 5, d.f. 1684; rhif 4, d.f. 1723; rhif 3, d.f. 1737, a hwn yma.

yr unig un yn y parthau hyn a ddygasid i fyny yn rheolaidd i'r gelfyddyd. Y mae traddodiad mai ymgilio a wnaeth o Lundain, rhag cael ei erlyn am argraffu rhywbeth go ryddfrydig. Ymddengys nad oedd yr hen argraffwyr oedd yng Nghaerfyrddin cyn ei ddyfodiad ef yno wedi cael eu dwyn i fyny yn rheolaidd i'r gelfyddyd, sef, 'Dav. ac Ev. Powell,' a 'Rhys Tomas,' a bod hyn yn rheswm fod eu gwaith mor aflêr. Heb law ei fod yn argraffydd wedi cael ei ddwyn i fyny yn rheolaidd, ceisiodd lythyrenau newyddion, ac argraffwasg newydd, wedi ei gwneyd gan saer celfydd yn Llundain; a chan nad oedd yn deall yr iaith Gymraeg ei hun, darparodd olygwr ar ei waith Cymraeg. Gyda'r manteision hyn yr oedd yn gobeithio am ffafr y wladwriaeth; ac yn wir ni bu ei obeithion yn ofer, canys ciliodd y ffafr oddi wrth y lleill ato ef, fel y bu i un o honynt, R. Tomas, ymgysylltu ag ef fel cydranog yn y fl. 1763; ond ni cheir y cyssylltiad hwnw ond am y flwyddyn hono a rhan o'r nesaf yn unig.* Ymddengys y torodd y cyssylltiad rhyngddynt pan oeddynt yn argraffu 'Golwg ar Deyrnas Crist,' gan Williams, Pant y Celyn; canys dywedir i hwnw gael ei argraffu 'gan J. Ross, oddieithr y 24 tudalen cyntaf o Gorph y Llyfr.'† Pan ddechreuodd argraffu wedyn ei hunan, rhoddodd yr hysbysiadau uchod am dano ei hun, er mwyn tynnu gwaith ato, gan addaw 'hyd eithaf ei allu wneuthur ei oren i fwynhau a chynnal y ffafr trwy ffyddlondeb, diwydrwydd, a gofal;'‡ a diau i'w addewid gael ei gwirio ganddo; argraffai yn rhad a mwy destlus, ac yn gyffredin ar well papyr, nag argraffwyr Cymru yn ei oes. Yr oedd yn aelod o'r eglwys Annibynol yn Heol Awst. Y mae ei enw yn arwyddo galwad yr eglwys i'r Parch. David Peter, yr hon a ddyddiwyd 'Decr. 19, 1791.'§ Bu yn cario ym mlaen y gelfyddyd o'r fl. 1743 hyd 1799, dros 56 o flynyddoedd. Bu farw rywbyrd cyn diwedd y flwyddyn 1799, neu yn gynnar iawn yn 1800; canys ceir hysbysiad i'w weddw farw Ionawr, 1800, yn 100 oed.||

6. 'Aleluja, neu, Casgliad o Hymnau, Ar amryw Ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. William Williams. Yr ail Argraphiad.

Caerfyrddin: Argraphwŷd gan Samuel Lewis, yn Heol y Brenin; Lle gellir cael argraphû pob mâth o Lyfrau Cymro-aeg, â Saeson-aeg; Llŷthyren newydd a Phapûr da; yn gystal ac yn Llundain. MDCCXLIV.'

WILLIAM WILLIAMS, a adwaenir wrth yr enw *Williams Pant y Celyn*, a anwyd yng Nghefn y Coed, ym mhlwyf Llanfair ar y Bryn [yn ymyl Llanymddyfri], yn sir Gaerfyrddin, yn 1717. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth gan weinidog o'r enw Mr. Powel, yr hwn oedd yn

* Gwel rhif 6, 7, a 8, d.f. 1763.

† Gwel rhif 6, d.f. 1764.

‡ Gwel rhif 25, d.f. 1764.

§ *Memoirs of D. Peter*, by W. H. Lewis, p. 12; *Llythyr y Parch. W. Thomas*, Bwlch Newydd.

|| *British Magazine*, 1800, p. 204.

cadw ysgol o fri yn Llwyn Llwyd, ger y Gelli, yn sir Frycheiniog, gyda bwriad o ymroddi i'r alwad feddygol. Ond yn ddamweiniol clywodd Mr. H. Harris, Trefecca, yn pregethu yn Nhalgarth, yn 1738, pan ydoedd yn 21 oed, ac ennillwyd ef i ddirifoldeb crefyddol, a phenderfynodd ymroddi i'r weinidogaeth. Ordeiniwyd ef yn ddiakon o'r Eglwys Sefydledig yn 1740, pan yn 23 oed, gan y Dr. Claget, esgob Ty Ddewi, a bu dair blynedd yn gwasanaethu Llanwrtyd a Llanddewi Abergwesyn; ond o blegid lluaws o gyhuddiadau a wnaed yn ei erbyn o barth i droseddiadau ar reolau yr Eglwys Sefydledig, ni chafodd ordeiniad offeiriadol, ac efe a ymunodd â'r Methodistiaid Calфинаidd, gyda'r rhai y llafuriodd yn selog a chymmeradwy hyd ei farwolaeth. Yr oedd ei gyhoeddiadau yn amrywiol iawn, ac oll yn boblogaidd ym mhlith y werin, yn enwedig ei Hymnau, trwy y rhai yr anfarwolir ei goffadwriaeth. Bu farw ym Mhant y Celyn, ym mhlwyf Llanfair ar y Bryn, Ionawr 11, 1791, yn 74 oed.*

[Ymddengys i'r Awdwr gyhoeddi yr "Aleluja," y waith gyntaf, mewn pump o ranau bychain. Tebygol i'r rhan gyntaf gael ei chyhoeddi tua dechreu 1744, gan iddi gael ei hail argraffu rywbryd cyn diwedd y flwyddyn hòno. Daeth yr ail a'r drydedd allan yn 1745, a'r ddwy arall yn 1746 a 1747. Yr ydys yn casglu ddarfedd argraffu y pump yng nghyd yn un llyfr, a bod dau argraffiad wedi eu cyhoeddi felly, yn y cyfrwng o 1747 i 1758, gan fod un y flwyddyn hòno "Y Drydedd Argraphiad." Nid yw yr ysgrifenydd yn gwybod am un argraffiad arall o'r 'Aleluwia' yn oes yr awdwr.

Yn y fl. 1743 y trodd Williams oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, ac yr oedd yn y Gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd gan y Methodistiaid, yr hon a gynnaliwyd yn y fl. hòno, yn nhy Jeffrey Dafydd, Rhiwiau, Llanddeusant, sir Gaerfyrddin. Dywedir i Howel Harris, mewn Cymdeithasfa yn fuan ar ol hòno, "anog y brodyr oedd yn bresennol i gyfansoddi nifer o Hymnau erbyn y Gymdeithasfa nesaf, i weled a oedd yr Arglwydd wedi cynnysgaethu neb o honynt â dawn prydyddiaeth. Gwnaethant felly; ac ar ol i bob un ddarllen ei waith, dywedodd Harris, 'Williams piâu y canu,' ac annogwyd ef gan y brodyr oll i ddefnyddio ei dalent er gogoniant Duw a lles ei eglwys." Oddi wrth yr hanes yma, prin y gellir meddwl i Williams gyhoeddi dim yn gynt na 1744.

Prydyddiaeth, ni a welwn, oedd y gwaith cyntaf a ddygold efe allan trwy'r wasg. Yr oedd ei gyd-lafurwr, Rowlands Llangeitho, wedi cyhoeddi '*Traethawd* ar Farw i'r Ddeddf, a byw i Dduw,' yn 1743; ond ni chynnygiodd Williams ddim mewn rhyddiaith am lawer o flynyddoedd ar ol hyny, fel y ceir gwled rhag llaw. Cynnwysa ei lyfr cyntaf hwn 242 o Hymnau, a thestyn neu gynnwysiad pob un o'u blaen. Mae llawer o'r hymnau hyn y prydfertaf yn ein hiaith, ac mewn arferiad cyffredinol; ond y mae ganddo ereill braidd yn anystwyth a difarddoniaeth. Yn ei hymnau goreu, mae yr iaith yn gyffredin yn goeth, destlus, a pherseiniol; ond yn y lleill yn wael a gwallus. Mae rhai geir-doriadau lled anghelfydd ganddo, megys, "Rwi'n' yn lle 'yr wyf yn'; 'Tr'wi ar y dda'r,' yn lle byddwyf ar y ddaear; 'Par'to'd' yn lle 'parotowyd,' neu 'parotoed'; 'O'n,' 'po'n,' 'lo's,' 'cro's,' 'gwa'd,' &c., yn lle oen, poen, loes, croes, gwaed, &c., i odli â sôn, nôs, rhad, a geiriau cyffelyb. Mae toliadau o'r fath yn anharddu y brydyddiaeth yn fawr, a mwy dewisol gan lawer fuasai ysgrifenu y cyfryw eiriau yn llawn, a goddef odliad ammherffaith, yn hytrach nag anffurfio'r iaith trwy doriad diystyr. Yn lle 'i gyd,' ysgrifennai yr awdwr 'ei gyd,' yn lluosog 'eu gyd,' ac weithiau 'i fi,' yn lle 'i mi,' 'eirad' yn lle *irad*; 'Dringad' yn lle *dringo*; 'landio' yn lle *glanio neu dirio*, &c.

Gallwn sylwi yma nad yw y geiriau 'Gorfoleddus,' a 'Galarus,' yng nghyd ag enwau tonau, i'w cael yn argraffiadau W. W. ei hun, yn rhagflaenu yr hymnau: yn argraffiad 1812 y dygwyd hwy i mewn gyntaf, ac nid ydynt o nemawr fudd

* Morgan's *Ministerial Records of Williams*; Williams's *Eminent Welshmen*.

erbyn hyn. Dewiswyd tonau gan mwyaf o hen gasgliad Dr. Ripon, gyda rhai tonau Cymreig heb fod yn argraffedig. Gwell fyddaf gadael y pethau hyn allan mewn argraffiadau newyddion o holl weithiau yr awdwr.*]

7. 'Hymnau Duwiol, yw canu mewn Camdeithasau Crefyddol. A Gyfansoddwyd gan mwyaf, gan y Parchedig Daniel Rowlands. Gweinidog o Eglwys Loegr.

Printiedig yn Bristol, gan Felix Farley, yn y flwyddyn M,D,CC,XLIV.'

8. 'Hymnau ar Amryw Ystyriaethau, Gan amryw Awdwyr.

Argraphedig yn Nghaerbaddon† gan Felix Farley, yn Nôl y Castell. 1744.'

Y maent o waith y 'Diweddar Mr. D. Jencins; o'r Saeson-aeg, John Cennick, gan Herbert Jencins.'

9. 'Letters, Essays, and other Tracts illustrating the Antiquities of Great Britain an Ireland. Together with many curious Discoveries of the Affinity betwixt the Language of the Americans and the ancient Britons to the — Greek and Latin, &c. Also Specimens of the Celtic, Welsh, Irish, Saxon and American Languages. By the Rev. Dr. Malcolme.

London: Printed for J. Mellan, near Whitehall. 1744. (Price 3s. sew'd 4s. bound.)'

10. 'A Dialogue Between the Rev. Mr. Jenkin Evans assistant Minister to the Church of White-Chapel, and Mr. Peter Dobson a man of sense and some Learning, and a Citizen of London concerning Bishops Particularly the Bishops in the Principality of Wales.

London: Printed for M. Cooper at the Globe in Pater-noster-row. MDCCXLIV. (Price one Shilling.)'

11. 'Life of Reynold Peacocke, Bishope of St. Asaph and Chichester. By J. Lewis.

London, 1744.'

250 a argraffwyd o'r gwaith uchod.

1745.

1. 'Ystyriaethau ynghylch Angenrhaid a Mawrilles Buchedd Grefyddol. Gyda Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol. O Gyfieithiad Mr. Roger Edwards.

Argraphwyd yn Llundain: Ac ar Werth yno gan S. Birt, tan Lyn y Bibl ar Bêl yn yr Heol a elwir Ave-Mary-Lane. MDCCXLIV.'

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† [Os yw yr enw wedi ei ddadysgrifio yn gywir, y mae 'Caerbaddon' (= *Bath*) wedi cael ei gamarfer yma am 'Gacrodor' (= *Bristol*); canys yn y ddinas olaf yr oedd Felix Farley yn argraffu.]

2. 'Myfyrdodau Duwiol i'n cymhwyso erbyn awr angeu.
Mwythig.'

3. 'A Letter to a Clergyman, Evincing the Necessity, and vindicating the Method of Instructing Poor and Ignorant People to read the Holy Scriptures in their native Language; and of Catechetically teaching them the Principles of Religion, in Circulating Charity-Schools: Attempted of late in some parts of Wales.

London: Printed by M. Downing in Bartholomew-Close, MDCCXLIV.'

Nid oes lle i ammheuaeth mai y Parch. G. Jones, Llanddowror, ydoedd awdwr y gwaith uchod.

4. 'Histori Nicodemus. Neu, yn hytrach Ysgrifen Nicodemus, o herwydd na dderbyniodd yr Eglwys ond pedair Efengyl, &c.* Da yw Mae'n gyda'r Efengyl; Medd Gwyddfarch gyfarwydd. A osodwyd allan gan Dafydd Jones, Myfyriwr ar hen bethau.

Argraphwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh.'

Y mae iddo 'Lluthur at y Darlennydd,' wedi ei arwyddo gan 'Dafydd Jones, Trefriw, Tan-yr-yw, Mai 4, 1745;' ac y mae yn gydiol ag ef hefyd fel attodiad, 'Ymddiddanion a fu rhwng Adrian Ymerodr Rhufain ag Epig,' &c. Yr oll yn 24 t. 8plyg.

DAFYDD JONES [*Dewi Fardd*] ydoedd yn byw yn Nhrefriw, ger Llanrwst, ond yn sir Gaernarfon. Yr oedd yn fardd a hynafiaethydd o gryn fri yn ei ddydd; efe a bwrcasodd y wasg argraffu a fuasai gan Mr. Lewis Morris, yng Nghaergerby, ym Mon, ac a'i sefydlodd ei hun fel argraffydd yn Nhrefriw, fel y ceir gweled ar ragddalen y cerddi a'r llyfrynau a argraffwyd ganddo yno; a hefyd gan ei fab yntau, Ismael Davies. Wyr iddo, mab i Ismael, yw Mr. John Jones, argraffydd, Llanrwst,† yr hwn a ymestynodd yn ol i'w hendaidd i gael ei ddau enw. Am hir amser nid argreffid yn Nhrefriw ond cerddi yn unig, o blegid nad oedd ganddo gyflawnder digonol o lythyrenau, mae yn debyg; canys argraffai ei lyfrau o ychydig ddalenau yn y Mwythig. Ymddengys nad oedd gan Lewis Morris ond golwg wael ar Dafydd Jones fel awdwr; canys yn un o'i lythyrau at Ieuan Brydydd Hir, efe a ddywed:—'Yr wyf yn rhyfeddu nad yw Dewi Fardd wedi dyfod â'i lyfrau i'r tanysgrifwyr. Nid wyf wedi clywed eu bod wedi dyfod i Aberystwyth. Y mae wedi llofruddio llyfr da, trwy roddi ynddo weithiau y penbyliaid mwyaf yn y greadigaeth, a'r

* Nid yw hwn ddim amgen na chyfieithiad o hen lyfr a gyhoeddwyd yn foreu ar y gelfyddyd o argraffu, o'r enw, 'Nichodemus Gospell. Enprynted at London in Fletestrete at the sygne of the Sonne by Wynkyn de Worde, Prynter unto the most excellent Prynmesse my Lady the Kynges Moder In the yere of our Lorde God m.cccccc.ix the xxiiij Daye of Marche.' Argraffwyd rhagddalen hwn mewn llythyrenau gwynion ar waelod neu bapyr du. Cynnwys 23 o ddalenau 4plyg.—*Johnson's Typographia*, vol. i. p. 277. [Hen gyfieithiad ydyw, ond ei fod wedi ei gyfnewid a'i waethygu gan Dafydd Jones.]

† [Y mae yntau bellach wedi huno gyda'i dadau; ond y mae meibion iddo yn dwyn y gelfyddyd argraffyddol yn mlaen.]

creaduriaid mwyaf anllythyrenog a feddent lun dynol, megys Robert Humphrey, &c., &c. Ffei, ffei o honynt! Neu a oeddynt yn cael eu rhoddi fel *ysmotiau* clyision, i chwi ac ereill ymddangos yn odidocach? Os yw fel arall, yr ydych chwi yn fyw, a gellwch amddiffyn eich hun o blegid sefyll ym mhlith y fath gymdeithion; ond y mae yn ddrwg genyf dros Hugh Morris, druan, os yw ef yn gwybod am hyn: ei fod ef yn gorfod, er gwaethaf ei ddannedd, sefyll yng nghymdeithas dynion nad oeddynt deilwng i ddwyn pluf ei ysgrifell; a'r lle a ddylasai ei farddoniaeth lenwi, yn cael ei lenwi â'r fath ddyinion ag sy gymmaint is law iddo ef ag yw *crythavr crwth trithant* is law Corelli neu Vivaldi.* Ac mewn llythyr arall. at Mr. Edward Richard, Ystrad Meurig, efe a ddywed:—'Yr wyf yma yn anfon i chwi un o erthyliaid basdardaidd Dafydd Jones. Y mae yn ddrwg genyf fod fy enw ym mhlith y tanysgrifwyr. Y ffwl, i borthi ei wagedd ei hun, a lanwodd y llyfr â'i brydyddiaeth ddiles ei hunan, ac ereill cyn waethed ag yntau, ac a adawodd allan yr hyn a addawasai roddi i mewn, sef holl waith Hugh Morris, ac y mae wedi llurgynio hyd yn nod y rhai a roddodd i mewn.'†

5. 'Myfyrdodau Bucheddol ar y Pedwar Peth Diweddaf, sef Angau, Barn, Nef, ac Uffern. Gan John Morgan, M.A.

Argraphwyd yn Llundain: Ac a werthir yno gan S. Birt, yn yr Heol a elwir Ave-Mary-Lane. M,DCC,XLV.'

Dichon bod hwn yn drydydd argraffiad.‡

6. ¶ 'Caniadau Edmund Prys.'

Y trydydd argraffiad, ef allai.§ Beth ydoedd y Caniadau hyn—pa un ai ei Salmau, ai ei weithiau barddonol ereill, nis gall yr ysgrifenydd benderfynu.||

7. 'Aleluwia, neu Gasgliad o Hymnau, Ar amryw Ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. William Williams'. Yr ail Ran.

Argraphwyd ymhristo, gan Felix Farley, yn y Flwyddyn M,DCC,XLV.'

8. 'Aleluia, neu, Gasgliad o Hymnau, Ar amryw Ystyriaethau. O Waith y Parchedig Mr. William Williams. Y Drydedd Rhan.

Argraphwyd Ymrhistro gan Felix Farley, yn y Flwyddyn M,DCC,XLV.'

* *Cambrian Register*, 1795, p. 344.

† *Cambrian Register*, 1795, p. 347.

‡ Gweler rhif 1, d.f. 1707; rhif 3, d.f. 1714; a hwn yma.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1686; a rhif 3, d.f. 1698.

|| 'Diddanwch Teuluaid,' yn ol yr hwn y cyflewyr yr hysbysiad yma. [Ei 'Salmau' yn ddiau oedd y 'Caniadau' hyn, os ymddangosodd rhywbeth o'i eiddo y flwyddyn hon; canys nid ymddangosodd ei weithiau barddonol hyd y pryd hwn.]

9. 'Hymnau Detholedig; O Waith amryw Awdwyr, wedi eu cynnull ynghŷd, a'i diwygio yn yr Ysgrifenyddiaeth a'r Brydŷddiaeth, ac yn yr Ystyr o honynt, Er Lles y Cymru. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Caer-Ferddin, Argraphwŷd gan Samuel Lewis, M,DCC,XLV.'

Y mae y llythyreniaeth a'r sillebiaeth yn tueddu i ddyfarnu hwn yn waith gweinidog Llanddowror.

10. 'Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol. Yn Cynwys, Casgliad helaethach nag y fu'n yr Argraphiadau eraill, o Oreuon Gwaith y Prydyddion gorau Ynghymru; yn y ffordd honno o Gerddwriaeth. At ba un y Chwanegwyd, Yr Ail Rhann, yr hon na fu erioed or blaen yn Argraphedig: Y Pedwerydd Argraphiad.*

Argraphwyd yn y Mwythig gan T. Durston, lle y gellir cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg.'

Yr unig wahaniaeth rhwng y pedwerydd a'r trydydd argraffiad yw chwanegu 'Y Pedwerydd Argraphiad,' ar yr wyneb-ddalen, yng nghyd â newid yr amseriad, o'r flwyddyn 1720, i—'Mwythig Jonawr y 24 dydd 1745; a rhoddi 'J. R.,' yn lle 'John Rhydderch,' yn niwedd y Rhagymadrodd. Heb law hyny, y mae y ddau argraffiad mor debyg i'w gilydd—yn cyfateb yn y llythyrenau, ei dudalenau, ei blygiad, a'i wallau—a phe buasai yr un argraffiad. Ymddengys yn wir mai cael gafael a ddarfu i Durston ar y gweddill ydoedd ar law o'r argraffiad arall wedi marwolaeth Rhydderch, a'i gyhoeddi fel y pedwerydd argraffiad, trwy argraffu y rhagddalen a'r rhagymadrodd yn unig, gyda'r cyfnewidiadau a enwyd, i wasanaethu ei ymddangosiad fel argraffiad newydd o'r holl lyfr, ym mhen pum mlynedd ar hugain ar ol y llall.

[Nid oes mo'r ammheuaeth leiaf nad yr un argraffiad yw y trydydd a'r pedwerydd, ond bod cynddalen a rhagymadrodd yr un olaf wedi eu hargraffu o newydd. Y mae hyd yn oed lleferydd yr un a elwir 'y pedwerydd argraphiad' yn ei gyhuddo mai y trydydd ydyw. 'Yn gymmaint ag mai dyma'r *Drydedd* waith i'r Llyfr hwn ddyfod allan yn Argraphedig gyhoeddus yn eich plith, y waith gyntaf fe'i rhoddwyd allan gan Ffowc Owen, ac a Argraphwyd yn Rhydychen yn y Flwyddyn 1686,' &c. Hefyd, dywedir yn y trydydd argraffiad am yr ail ran, na bu erioed o'r blaen yn argraffedig: os argraffwyd hi yn y trydydd argraffiad, nis gellid honi yn y pedwerydd nad argraffesid mo honi o'r blaen. Un trwstan o'r fath drwstanaf oedd Sion Rhydderch, druan, gyda phob peth; ac ymddengys fod Durston wedi ei wneuthur yn drwstanach fyth gyda'r hyn a elwir 'y pedwerydd argraphiad' hwn. Cynnwysa'r gwaith o gylch 450 o dudalenau splyg bychan. Nid oes un amseriad ar ei gynddalen; ond y mae yn amlwg wrth ddyddiad y Rhagymadrodd ('Mwythig Jonawr y 24 dydd 1745') mai yn y fl. 1745 y cyhoeddwyd ef.]

* Gwel rhif 3, d.f. 1686; rhif 6, d.f. 1696; rhif 5, d.f. 1720; a hwn yma.

11. 'Welch Piety Continued: Or, A Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1743, to Michaelmas 1744. In a Letter to a Friend.

London: Printed by M. Downing, in Bartholomew Close, MDCCXLV.'

12. 'Dail Pren y Bywyd: Neu, Iechydwrïaeth y Cenhedloedd trwy Efengyl Iesu Grist. Wedi ei hagogrôd a'i chymmwyso mewn Pregeth. Ar Dat. xxii. adn. 2, a'r Rhan ddiweddaf. Pennau'r hon a ddysgwôd mewn Breuddwôd, Yr 20fed o Fis Mawrth, 1742. Gan Solomon Owen Cradock, Bugail yng Nghymru, ac a 'scrifenwôd gan mwyaf, ganddo ei hun, yn Saeson-aeg. Ac a wnaed yn awr yn gŷhoeddus, er Llês Cyffredinol i Genedl y Cymru, gan Edmund Jones, Gweinidog yr Efengyl.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Samuel Lewis, lle gellir cael argraphu pôb rhyw lyfrau Cymraeg â Saesonaeg. M,DCC,XLV.'

13. 'Cerdd Sion; sef, Traethawd yng nghylch Moli Duw mewn Salmau a Hymnau ac Odlau ysbrydol, &c. Y Rhan Gyntaf. Gan Weinidog anheilwng o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn 1745.'

14. 'Gair o'r Gair: neu Son am Swm, y Lleferydd Anfarwol. Yr hwn trwy'r Byd a glywir ym mhob Iaith tan y Nefoedd; ac ym mhob Tafod-Iaith hyd Eithafoedd y ddaiar. Gan Morgan Llwyd, Gweinidog yr Efengyl yng Wrecsam, yn Sir Dimbych. Yr ail Argraphiad,* wedi ei wellhâu a'i Ddiwygjo o amryw Feiau anafus yn yr Argraphjad cyntaf.

Caer-Ferddin. Argraphwyd gan Samuel Lewis, 1745.'

Y mae y 'Llythyr, At y Darllenydd' yn ei ragflaenu gan 'J.— M.—,' dyddiedig 'Caer-ferddin, Gorphen-hâf, 21, 1745.' Gwelir fod naw a phedwar ugain mlynedd wedi myned heibio er pan gyhoeddasid ef gyntaf, cyn cael yr ail argraffiad hwn. Cyhoeddwyd cyfieithiad o hwn yn 1739, gan Griffith Rudd, o dan yr enw, 'A Discourse of the Word of God.'

15. 'Sinai a Seion: Neu Allwôdd y Ddâu Gyfammod, Gan mwyaf tan yr Enwau Deddf a Gras. Ynghyd a Dirgelwch Cnawdoljaeth, Jesu Grist. Wedi eu cyfansoddi yn Saeson-aeg mewn Ffordd o Hymn Gan Ral. Erskine, M.A. Newydd gyfieithu i'r Cymro-aeg. At ba rai y chwanegwôd Dau Lygad Ffydd.

* Gwel rhif 1, d.f. 1656.

Er mae byrr er hyn cynhwysfawr,
Er mae bychan etto gwerthfawr.

Caer-Ferddin : Argraphwŷd gan Samuel Lewis, M,DCC,XLV.'

RALPH ERSKINE, ydoedd frawd i Ebenezer Erskine,* ac a anwyd ym Monclaw, Northumberland, yn 1683. Cafodd yntau ei ddysgeidiaeth yn Edinburgh, a sefydlodd yn weinidog Dumffernlin. Yn 1711, efe a ymneillduodd, fel ei frawd. Bu farw yn 1752, yn 68 oed.

16. 'Hymnau Duwjol : Buddiol i'w dysgu, a'u canu gan bawb o ffyddlon Blant Seion, er eu diddanu ar eu Ffordd wrth ymdaith tu â'r Wlad Nefol. O Gasgljad Gŵr Eglwŷsig. Yr ail Argraphjad.†

Caer-Ferddin : Argraphwŷd gan S. Lewis : tros John Morgan, ac ar werth ganddo Ef yn Heol y Dwfr, llê gellir cael ar werth amrŷw fâth o Lyfrau a Hymnau tra buddjol eraill, 1745.'

Y mae yn dra sicr mai yr un yw y John Morgan hwn â'r J. M. uchod, ac ei fod yn rhyw gyhoeddydd neu lyfrwerthydd yng Nghaer-fyrddin.

17. ¶ 'Llythyr at Gymdeithas o bobl a elwir Bedyddwyr ; y rhai gynt a gyfarfyddent yn y Llwynau yn Llantrisant : ond yn awr yn cyfarfod ym Mrynbyga, Llangwm a Phen-y-garn. Gau Thos. Williams.'

Yr awdwr, THOMAS WILLIAMS, oedd enedigol o derfynau siroedd Mynwy a Morganwg. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn Hengoed. Yr oedd yn wr selog, ac yn amddiffynwr cadarn o athrawiaethau rhad ras, yn yr ystyr Calfinaidd o honynt. Galwyd ef i weinidogaethu i'r gynnulleidfa wasgaredig a elwid Eglwys Llantrisant, yn sir Forganwg, rywbryd cyn 1734 ; canys ceir ei enw wrth lythyr at Gymmanfa Pen y Garn, yn y flwyddyn hono. Yn 1741, clywodd bregeth yng nghyfarfod blynyddol y Crynwyr, ym Mrynbuga, yr hon a anesmwythodd ei feddwl, a'r canlyniad a fu iddo ymadael â'r Bedyddwyr, ac ymuno â'r Crynwyr, wedi bod yn weinidog gyda'r cyntaf lawn ugain mlynedd. Llyfr yn amddiffyn ei egwyddorion newydd yw yr uchod. Heb law y rhan sydd yn dwyn yr enw uchod, mewn ffordd o lythyr at yr hen gynnulleidfa oedd y bu yn gweinidogaethu iddynt, y mae rhan arall i'r llyfr mewn math o lythyr 'At y Gweinidogion Bedyddiedig, ac at bawb ar sydd gyda hwynt, yn yr ymddiddan a fu ym Mryn Buga ar y Pum Pwnc ynghylch *Eliseus Cole*.' Dengys hyn ei fod wedi newid yn ei farn ar holl bynciau athrawiaeth, yn gystal ag ar ordinhadau crefydd.‡

18. ¶ 'Britannia Sancta, in two parts, 4to.

* *Encyclopædia Britannica*.

† Gwel rhif 2, d.f. 1741.

‡ Thomas, *Hanes y Bedyddwyr*, t. 173-4.

Printed by Thomas Meighan. 1745.*

19. 'An Expostulatory Epistle to the Welsh Knight, on the late Revolution in Politics and the extraordinary conduct of himself and his Associates. 1745.'

Yr awdwr ydoedd Syr Watkin W. Wynn.†

20. 'An Exhortation to Brute's Progeny alias Hil Frutus, Being the Second Poem in the late Vicar of Llandovery's Work translated and imitated by Way of Essay. By the late Reverend Mr. John Powell of Tredustan. To which is added A Ministers Complaint.

Printed for Evan Preece. 1745.'

Maint hwn yw 8 tudalen 12plyg; ac y mae y gair *Printed* yn 'Printed,' fel uchod. Tredwstan sy dreflan ym mhlwyf Talgarth, yn sir Frycheiniog.‡

21. 'An Expostulatory Epistle to the Welch Knight, on the late Revolution. Also relates to the Broad Bottoms. 1745.'

22. ¶ 'Dyrchafiad y Credadyn mewn Cyfiawnder Cyfrifol,' &c.

23. 'Apology for the Welch Knight, and a View of Broadbottom, Dialogue between Dapper, Taff, Broadbum. 1745.'

24. 'Llyfr bychan o Hymnau ar Amriw Achosion a thestynau Duwiol o waith amryw Awdwyr ag o gasgliad un ag sydd yn dymuno'n dda i'r Cymru, ac ar deisyfiad rhai Crist'nogion Duwiol.

Y rhai sy'n profi rhinwedd grâs
Yn dwad y mas fel ffryddiau,
O dan sail yr orsedd fainge,
All seinio cainge o Hymnau.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Richard Lathrop, lle y gellir, cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Lyfrau Cymraeg a Saesnaeg. 1745.'

Rhan ydyw hwn, gyda gwyneb-ddalen ar wahan, o lyfr yn cynnwys hefyd bregeth neu draethawd ar Ffydd. Mae'r llythyrenau 'G. W.' a 'D. W.,' a'r enw 'Richt. William,' wrth rai o'r Hymnau.

1746.

1. 'Y Bibl Cyssegr-lan, sef Yr Hen Destament a'r Newydd.

Caer-grawnt: Printiedig gan Joseph Bentham, Printiwr i'r Brif-Ysgol, MDCCXLVI.' [8plyg.]

* Rees's *South Wales*.

† J. R. Smith's *Old Book Circular*.

‡ *Letters of J. Joseph, Esq., F.A.S.*

Y mae yn gyssylltedig ag ef 'Lyfr Gweddî Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynheddfau a Seremonïau eraill yr Eglwys, yn ôl arfer Eglwys Loegr; Ynghŷd a'r Sallwyr neu Salmau Dafydd, Wedi eu Nodi megis ag y maent i'w Canu neu i'w Dywedyd mewn Eglwysydd; a Ffurf neu Ddull gwneuthur, Urddo, a Chyssegru Esgobion, Offeiriaid, a Diaconiaid.' Y mae ynddo hefyd barthleni—'Teithiau Plant Israel yn yr Anialwch,' a 'Teithiau yr Apostolion:' 'Rhodd Wm. Iones Esqr. F.R.S. j'r Cymru;' gyda 'Mynegai'r Beibl Cyssegr-lân, neu Hanes y Pethau hynottaf yn Llyfrau'r Hen Destament a'r Newydd; yn dangos pa Amser y digwyddasant, a pha Leoedd yn yr Ysgrifthyf y maent wedi eu gosod i lawr.' Y 'Wm. Iones Esqr. F.R.S.' hwn ydoedd dad yr hygloed Syr William Jones. Y mae y llyfr yn cynnwys hefyd yr 'Apocrypha,' a 'Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig,' a 'Tablau Arian, Pwysau, a Mesurau, &c.,' a gyfansoddwyd gan 'Risiart Morys, golygydd yr argraphiad hwn o'r Beibl.* Y mae yr holl bethau hyn yn ei wneyd yn llyfr 8plyg trwchus iawn. Dyma yr argraffiad cyntaf dan olygiaeth 'Rhisiart Morys o Fon.' Y maent yn ôl trefn Beiblau Moses Williams o'r blaen. Yr oedd y Beiblau hyn wedi myned cyn brined, fel na cheid un yn unman am bunt. Yr hyn a gynhyrfodd ac a achlysuodd i'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol gyhoeddi yr argraffiad hwn ydoedd, taerni y Parch. Griffith Jones, Llanddowror. Yr oedd ef yn awr yn llawn gwaith gyda'i Ysgolion Rhad Symmudol; ac yn ei 'Fynegiadau' o sefyllfa ei ysgolion o flwyddyn i flwyddyn, yn yr iaith Seisoneg, o dan yr enw '*Welch Piety*,' yr oedd yn darlunio sefyllfa y wlad, o ran prinder o air Duw, mewn iaith gref. Gwelwyd iddo, yn y flwyddyn 1741, gyhoeddi 'An Address to the Charitable and well disposed; in behalf of the Poor in the Principality of Wales,'† yn yr hwn y mae yn 'dymuno caniatâd, yn ostyngedig i osod o'u blaen y darluniad byr canlynol; mor fawr y mae eisieu eu cydymdeimlad y pryd hwn, tuag at gynnyrchu llesiant ysbrydol a thragwyddol y bobl dldion yn Nhywysogaeth Cymru, y rhai sy'n llafurio dan yr angenrheidrwydd mwyaf gofidus o gael eu cyflenwi â Beiblau Cymraeg, Llyfrau Gweddî Gyffredin, Catecismau, ac Ysgolion Elusenol, i ddysgu iddynt y pethau a berthyn i'w iachawdwriaeth dragwyddol, yn eu hiaith eu hunain, yr unig dafodiaith y mae y tlodion yn alluog i gael ei dysgu ynddi.' Efe a chwanega:—'Y mae angen gofidus a dymuniad taer am argraffiad helaeth o'r Beiblau a Llyfrau Gweddî yn yr iaith Frytanaidd,—dim llai rhif [na deuddeg mil—y rhif a argraffesid o'r rhan gyntaf o'r 'Esboniad ar y Catecism'] all ddigoni a diwallu y rhai sydd eisoes wedi dysgu, neu sydd yn awr yn dysgu darllen, ac yn sychedig am danynt.' Yr oedd rhyw ddwy y pryd hyn wedi rhoddi 30*p.* bob un, a dau arall 100*p.* bob un, tuag at y draul. Yn ei '*Welch Piety*,' am yr un flwyddyn, y mae yn taflu at yr esgobion, fod yn awr y cyfleusdra goreu iddynt a allai fod i 'wneyd eu hunain yn anwyl gan y genedlaeth hon a'r ddyfodol,

* [Y mae hefyd yn cynnwys 'Llyfr y Salmau, wedi eu Cyfieithu, a'u Cyfansoddi ar Fesur Cerdd, yn Gymraeg. Drwy Waith Edmund Prys, Archdiacon Meirionnydd.']

† Gwel rhif 4, d.f. 1741.

trwy gefnogi argraffiad o'r Beibl Cymraeg.' O ddeutu pum swllt, meddai efe, a gostiai argraffu Beiblau a Llyfr Gweddi yng nghyd; ac yr oedd trysorfa wedi ei chasglu erbyn 1742, digon i dalu am un rhan o bedair o'r draul i argraffu deng mil o Feiblau a Llyfr Gweddi Gyffredin, sef tuag 1,250*p.* Erbyn y flwyddyn 1744, yr oedd ysgogiad am gael argraffiad newydd, oddi wrth y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol; ac erbyn diwedd y flwyddyn 1746, yr oedd 'gobaith i'r tlodion am gael y Beibl Santaidd yn eu hiaith, am bris isel, a chymmaint ag a fyddo yn bosibl o'r rhai tlotaf heb dalu dim.' Yr oedd cyssylltiad arbenig rhwng cyhoeddiad yr argraffiad hwn a'r ysgolion rhad hyny, yn ol y cytundeb â'r cyfranwyr, sef bod y 'Personau, y rhai y mae eu henwau isod wedi cytuno i gyfranu y symiau a roir gyferbyn â'u henwau tuag at adargraffu y Beibl Cymraeg a Llyfr Gweddi Gyffredin, i'w lledaenu yn y dull canlynol, sef yw hyny, Fod iddynt gael eu rhoddi yn ddidal i'r tlodion teilwng, yn enwedig y rhai hyny a gyrchant at Weinidog eu Plwyf i adrodd Catecism yr Eglwys o flaen y Gynulleidfa, mewn trefn i'w haddysgu ym mhellach ynddo trwy esboniad syml ac eglur eu Bugail arno, yr hyn, gobeithir, a gynnorthwya i adfywio yr hen drefn fawr ddymunadwy o Gateceisio. Yn ail, Fod yr arian a ddaw oddi wrth werthiant y cyfryw Feiblau i'r rhai ag sy'n alluog ac yn ewyllysgar i'w prynu hwynt, i gael eu defnyddio i gynnal yr Ysgolion Rhad Cymreig, felly i ddysgu y rhifedi mawr iawn y rhai nad ydynt eto yn medru darllen.* Yr oedd Mr. Jones yn derbyn cwynion o bob parth o'r wlad, oddi wrth yr offeiriaid, æ ereill o gefnogwyr yr Ysgolion, am Feiblau, a'r anhawsder o gael rhai. 'Y mae llawer o'r rhai hyny a ddysgwyd nad oes ganddynt Feiblau i ddarllen ynddynt, na dim i'w prynu, pe gellid eu cael am arian,' meddai 'Thomas Meylor, o Gastell y Blaidd, sir Benfro.' 'Gobeithiwn na bydd i chwi ddiffygio yn eich ymdrechiau i gael argraffiad o'r Beibl Cymraeg,' meddai 'Ev. Davies, Gweinidog Ymneillduol dysgedig, ac Athraw Athrofa.† 'Nid oes gan y rhai hyny sydd eisioes wedi dysgu fodd i bwrcasu iddynt eu hunain lyfrau da, yn enwedig y Beibl Santaidd, prinder yr hwn sydd yn awr mor fawr ag ydyw yr eisieu yn gymhelliadol,' meddai 'Jonathan Griffies, Vicar Bettws, ar finoedd Siroedd Caerfyrddin a Morganwg.' Dengys y tystiolaethau hyn fod yr angen am air Duw yn fawr, yn cael ei deimlo trwy fod mwy yn gallu darllen, pe cawsent ef, trwy addysg Ysgolion Elusen Symmudol y Parch. G. Jones. Dywedir i lawer o Ymneillduwyr gyfranu yn helaeth tuag at yr argraffiad hwn, trwy law y Dr. Stennett, un o weinidogion y Bedyddwyr, er mwyn eu cael heb fod mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig; canys ni allai yr un tlawd gael y Beibl yn rhodd yn ol

* *A Memorial, cyssylltedig â'r Welsh Piety.*

† Gweinidog yr Ymneillduwyr yn Hwlffordd, yr hwn a anwyd yn Llanbedr, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Hoxton, dan yr athrawon enwog y Dr. Ridgley a Mr. John Eames. Dewiswyd ef yn 1741 yn athraw yr athrofa oedd yng Nghaerfyrddin, ar farwolaeth Mr. V. Griffiths. Yn 1743, symmudodd i Gaerfyrddin at yr Athrofa; ond o blegid anghydfod rhyngddo a'i gyd-athraw, efe a ymadawodd o Gymru, ac a ymsefydlodd yn Billericay, yn Essexes.—*Hanes Crefydd yng Nghymru*, gan D. Peter, t. 683-4.

ammod y cyfraniadau cyffredin, ond ar yr ammod o ddyfod i adrodd Catecism yr Eglwys wrth yr offeiriaid ar gyhoedd.

Y mae dau wr boneddig yn cael eu henwi yn gyssylltiol â'r argraffiad hwn, fel y gwelwyd, sef y golygydd,—

Mr. RISIART neu RICHARD MORRIS, neu MORYS,* yr hwn ydoedd frawd hynaf y brodyr Lewis a William Morris, ac a anwyd ym Mhenrhos Llugwy, ym Mon, yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, os nid cyn diwedd yr ail ar bymtheg. Trwy ddyllanwad ei frawd Lewis, cafodd le fel ysgrifenydd yn y Swyddfa Lyngesawl, yr hon a lanwodd flynyddau lawer. Yr oedd yn ieithydd a bardd Cymraeg da, a dywedir fod ei ysgrifeniadau yn Llyfrfa yr Ysgol Rad Gymraeg ydoedd gynt yn Gray's Inn Road, Llundain.† Bu farw yn y Tŵr yn Llundain, yn 1779.‡

Y boneddwr arall a enwir fel cymmwynaswr i'r argraffiad hwn ydychyd awdwr y parthleni, sef,—

WILLIAM JONES, Yswain, F.R.S., yr hwn oedd fab Sion Siors, ffermwr bychan ym mhlwyf Llanfihangel Tre'r Beirdd, ym Mon; ac efe a anwyd yno o ddeutu y fl. 1680. Er na chafodd ond dysgeidiaeth gyffredin, gwnaeth y fath ddefnydd o hyny fel y daeth mor enwog mewn rhif a mesur, fel y gallodd gymmeryd lle fel athraw yn y wyddor hòno ar fwrdd llong ryfel, ac y tynodd sylw Arglwydd Anson. Cyhoeddodd waith ar Forwriaeth pan yn 21 oed, yr hwn a gafodd ganmoliaeth mawr. Wedi hyny ymsefydlodd fel athraw rhifyddiaeth yn Llundain; yn 1706 cyhoeddodd waith enwog ar rif a mesur. Yr oedd ei ddysg a'i gymmeriad yn gwneyd iddo gyfeillion ym mhlith mawrion a dysgedigion penaf ei oes. Bu farw ym mis Gorphenaf, 1749, yn 51 oed, pan oedd ei fab William (Syr William Jones) yn ddim ond tair blwydd oed.§

Joseph Bentham, yr argraffydd, a benodwyd yn argraffydd y Brifysgol yn 1740, yr hon a ddaliodd hyd 1763, pan y rhoes ei le i fyny i John Archdeacon.||

2. 'Galwad Difrifol mewn Cariad Cristionogol at yr holl bobol i ddychwelyd at Yspryd Crist ynddynt eu hunain; fel y delont i jawn ddeall pethau, &c. Ymherthynas i. Cariad Duw yn Gyffredinol yn danfon ei Fab i farw dros bob dyn. ii. Yr Ysgrythyrau Sanctaidd. iii. Am Addoliad. iv. Am Fedydd. v. Am y Swpper, &c. Gan Benjamin Holmes. Wedi ei gyfieithu er mwyn y Cymru allan o'r Seithfed Argraphiad yn Saesneg.

Bristol, Argraphwyd gan Sam. Farley. 1746.' Lile y gellir cael Printio pob math ar Gopiau am bris gweddaidd.'

* [Rhisart Morys yw ei ddull ef ei hun o ysgrifenu ei enw, fel y gwelir ar ddechreu 'Tablau Arian, Pwysau, a Mesurau,' attodedig i'r argraffiad hwn.]

† [Y maent weithian wedi eu symmud i'r Gywreinfia Brydeinig.]

‡ Williams's *Biog. Dict. of Eminent Welshmen*.

§ Lord Teignmouth's *Memoirs of Sir W. Jones*; Williams's *Eminent Welshmen*.

|| Timperley's *Dict.*; gwel hefyd rhif 19, d.f. 1770.

Y mae yr hysbysiad canlynol yn niwedd y llyfr uchod:—'N. B. Yr Rhan fwyaf o'r Llyfr hwn a ddiwygiwyd bob yn Siet gan y Cyfieithydd ynghymru, cyn ei brintio yn yr Argraph-wasg: felly pa feiau bynag a allai ddiangid ei Ddiwygiad ef, mae y Printiwr yn dymuno cael ei escusodi oddiwrthynt, ac i'r Darlennydd ei diwigio.' Gwaith yn amddiffyn golygiadau y Crynwyr ydyw. Dywed y Parch. T. Rees, mai un Thomas Holmes oedd y Crynwr cyntaf yng Nghymru.* Ef allai mai disgynydd o'r Thomas Holmes hwnw ydoedd awdwr y llyfr hwn, ac un arall eto.†

3. ¶ 'Rhyfeddod Rhyfeddol, i annerch rhyw Ddynol, sef, gwir a chywir Weledigaethau a welodd Duw yn dda ddatguddio i Thos. Evans, o Lanfair Caereinion, yn sir Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1746.

Argraphwyd yn y Mwythig tros John Jones o Penarth.'

4. 'Aleluia neu Gasgliad o Hymnau, ar amryw destynau o'r Ysgrythyrau. O waith William Williams. Y Pedwerydd Ran.

Argraphwyd Ymhristo, gan Felix Farley, yn y flwyddyn M,DCC,XLVI.†

5. 'A Journey to Llandrindod Wells, in Radnorshire; with a particular description of the Wells, the places adjacent, the humours of the company there, &c. Being a faithful narrative of every occurrence worth notice that happened in a journey to and from those Wells. To which is added, observation and information for those who intend visiting Llandrindod: and to which is prefixed the Parson's Tale, a poem, by a Countryman. The second edition, corrected and amended.

London: 1746.'

Yr oedd yr argraffiad cyntaf tua'r flwyddyn 1744. Gwaith cyfreithiwr ydyw, medd Mr. Gough, yr hwn a wnaeth ei hun yn enwog iawn yno; ac wedyn a wnaeth ddigrifuniau o bawb y bu yn ymgufeillachu â hwynt.

6. 'Welch Piety Continued: or a further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1744, to Michaelmas 1745. In a Letter to a Friend.

London: Printed by John Oliver, in Bartholomew-Close, near West Smithfield. M,DCC,XLVI.'

John Oliver neu Olfir, ydoedd argraffydd y Gymdeithas er

* Rees's *Non-Con. in Wales*, p. 107.

† Gwel rhif 20, d.f. 1777.

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1744; a rhif 7 a 8, d.f. 1745.

Taenu Gwybodaeth Gristionogol, ac yn gwneyd gorchwyl mawr ym Martholomew Close, lle y bu farw Ionawr 19, 1775, yn 73 oed.*

7. ¶ 'Gair mewn Pryd.

Argraphwyd yn y flwyddyn 1746.'

Ail argraffiad, tybygid.†

8. 'The History of the Cymbri (or Britains) for three hundred years from the commencement of Christianity. giving an account of the Patriarch of the Tribes. Their Peregrinations Their Settlement in this Isle: Their Struggles with forrein Invaders: The Gospel preach'd among them by Apostolical men. All that has hitherto writt relating to the Primo-primitive State of the Brittish Isles, confuted: and the true History stated and demonstrated. All new Discoveries.

Printed in the Year 1746.'

Dywed Syr Thomas Philipps, Barg., o Middle Hill, mai awdwr ac argraffydd y llyfr hwn ydoedd y Parch. Simon Thomas, o Henffordd.‡ Dywed hefyd fod yr argraffwaith yn nodedig o aflêr. Ymddengys i Mr. Thomas sefydlu argraffwasg yn ei dy, yn Henffordd, yn gyssylltedig â'i weinidogaeth. Tebyg mai math o gyfieithiad oedd hwn, wedi iddo fyned i Loegr, o'r hyn a gyhoeddasai yng Nghymru, sef 'Hanes y Byd a'r Amseroedd.'§

9. 'The Christian Conduct and Crown. A Sermon, preached at Warrington, Feb. 23, 1746, on occasion of the death of the late Reverend Charles Owen, D.D. By J. Owen.

London, printed for J. Hodges.'

Testyn y bregeth hon yw 2 *Tim.* iv. 7, 8. Y mae wedi ei chyflwyno gan yr awdwr i'w gefnder.

¶ [Y Dr. Charles Owen hwn ydyw y gwr y crybwyllir am dano t. 236, rhif 1, d.f. 1687, a brawd i James Owen, awdwr 'Trugaredd a Barn.']

10. 'The End of all perfection. A Sermon, preached at Rochdale, June 29, 1746, on occasion of the much lamented death of Mr. James Hardman, Merchant. By J. Owen.'

Y testyn yw *Salm* cxix. 96. Yr awdwr o'r ddau lyfr a enwyd ydoedd y Parch. Jeremi Owen.||

* *Timperley's Dictionary.*

† Gwel rhif 3, d.f. 1733.

‡ [*Cambrian Journal*, iv. 328.]

§ Gwel rhif 4, d.f. 1721.

|| [Gwel rhif 1, d.f. 1733.]

11. 'Creulonderau ac Erledigaethau Eglwys Rhufain Gwedi ei taenu ar led, neu Draethawd, &c.'

Y mae yn dra thebyg mai y Parch. T. Richards, awdwr y Geirlyfr,* ydoedd cyfieithydd y llyfryn hwn; canys y mae amseriad y 'Llythyr at y Darllenydd,' o 'Llangrallo, Ebrill 15. 1746.'

12. ¶ 'The Case of Dame Mary Lake in Appeal to Parliament concerning an Estate in Montgomery and Salop, mortgaged in 1707 by Mr. Mason for £5,000.'

Argraffwyd i ddybenion personol yn 1746.

1747.

1. 'Byrr Grynhoad eglur o'r Grefydd Gristianogol Ynghyd a gair o Gyngor ag Addysg mewn perthynas i'r Schismaticiaid sy'n ymneillduo oddiwrth Eglwys Loegr. Ail Argraphiad gyd â Anghwanegiad.

Argraphwyd yn Nulun MDCCLXVII.'

20 tudalen 8plyg.

2. ¶ 'Twenty Arguments for Infant Baptism. By G. Jones, Llanddowror.'

3. 'Aleluia, neu Gasgliad o Hymnau. O waith William Williams, Gweinidog yr Efengyl. Y Bummed Ran.

Argraphwyd ym Mhristo, gan Ffelix Farley, yn y flwyddyn. 1747.†

4. 'Welch Piety Continued: or, a further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1745, to Michaelmas 1746. In a Letter to a Friend.

London. Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCLXVII.'

5. 'Welch Piety: or, a further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1746, to Michaelmas 1747. To which are annexed, Testimonials to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London: Printed by John Oliver, in Bartholomew-Close. M,DCC,XLVII.'

6. 'Hymnau Byddiol a chymmwys yw canu ar hamryw achosion gan Gristnogion gwir Brofiadol. Gan John Richard.

* Gwel rhif 6, d.f. 1687.

† Gwel rhif 5, d.f. 1744; rhif 7 a 8, d.f. 1745; a rhif 4, d.f. 1746.

Caer-ferddin : Argraphwyd yn y flwyddyn, M,DCC,XLVII.' [16plyg : 16 tudalen.]

7. 'Hymn Fuddjol ac Anghenredjol. er Darostwng balchder Dyn er Derchafu person Crist Ag er Cyssuro'r Cristjon. Gan John Richard, Marc 14. 15. Y neb a'i darlleno dyalled. Cor. 14. 15. Cānaf ar Yrsbyd, ac ar dyall hefyd. Eph. 3. 4. Wrth yr hyn y gellwch Pan Ddarllenwch wybod fy nyall i yn nirgelwch Crist.

Caer-Ferddin : Argraphwyd yn y Flwyddin, M.DCC.XLVII.' [16plyg].

8. 'The Miscellaneous Works of Mr. John Toland, Now first published from his Original Manuscripts. Containing, I. An History of the British Druids, with a Critical Essay on the ancients Celtic Customs, Literature, &c. To which is added, an Account of some curious British Antiquities, &c., &c. Vol. I.

London. 1747.'

Yn Hanes y Derwyddon, ceir yma :—

'Mr. Tate's Questions about the Druids and other British Antiquities, with Mr. Jones's Answer to them.'

JOHN TOLAND a anwyd yn Ennis-Owen, ger Londonderri, yn Iwerddon, yn 1670 ; ac a gafodd ddechreuad ei addysg yn Redcastle, ger y ddinas hòno, o'r lle yr aeth yn 1687, i Brifysgol Glasgow, yn Scotland, ac wedyn i Edinburgh, lle y gwnaed ef yn A.C. yn 1690. Wedi hyny bu yn aros mewn amryw deuluoedd Protestanaidd yn Lloegr, ac yna aeth i Brifysgol Leiden, yn Holand, lle yr oedd hefyd mewn bri gan yr Ymneillduwyr, ac yn eu cymmundeb. Troes wedi hyny yn ei farn, hyd yn oed i wadu y dwyfol ddadguddiad, neu yn ei eiriau ef, nad oes dim goruwch rheswm mewn Cristionogaeth ; a bu mewn llawer o ddadleuon trwy y wasg â duwinyddion ei oes. Cymmerwyd ef i fyny gan y llywodraeth am ei dyb, gorchymynwyd llosgi ei lyfr, a buasai yntau yn cael ei gymmeryd fyny oni buasai iddo ffoi o'r Iwerddon i Loegr. Bu ganddo lawer i'w wneyd yn amser William III. ag olyniant y goron. Bu farw Mawrth, 1721-2, o ddeutu 51 oed.

9. [Drych y Dyn Maleisus, neu Bregeth yn dangos Ysbryd chwerw ffyrnig y dyn maleisus yn y Byd hwn, a'i gyflwr gwael truenus dan feddiant Satan yn y byd arall. O waith T. Evans, Vicar Llangamarch.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Tho : Durston.')

1748.

1. 'Prif Gristianogaeth a ymadfywiwyd yn y ffydd ac ymarferiad y Bobl a elwir Quakers. Gan W. Penn. A drowyd i'r Gymraeg gan John Owen, o Maes Adda, yn Sir Gaerfyrddin.'

Yn ei ddiwedd dywedir—‘Y Traethawd byrr ymma, a drowyd i'r Cymraeg gan John Owen, o Maes Adda, Sir Gaerfyrddin, yn y Flwyddyn 1748.’ Yr awdwr,

WILLIAM PENN, ydoedd fab i Syr William Penn, o Winstead, yn Essecs, a phrif lyngesydd Lloegr yn amser Siarl II. Cymro o genedl ydoedd, ac efe, Syr William, ydoedd y cyntaf i gael ei alw yn *Penn*. Enw ei dad oedd John Tudur, a'r hwn, meddai y mab, gan ei fod yn preswyllo ar ben rhyw fynydd uchel yng Nghymru, a elwid yn *Sion Penmynydd*. Y mae hyn, tybygwn, yn ei gyssylltu â Thuduriaid Penmynydd ym Mon. Symmudodd wedi hyny i'r Iwerddon, lle yr ymgyfoethogodd yn fawr, a phan ddaeth yn ol i Gymru, cyferchid ef gan ei hen adnabyddion yn Mr. Penn, heb y llinachau Cymreig. Yr oedd hyn yn dyfod i arferiad cyffredinol bellach yng Nghymru, o fabwysiadu yr enw personol cyntaf yn lle y llinachau o *ab, ab, ab*, nes dyfod o'r diwedd trwy gyssylltu enw y cartrefle, yn lle hyny, torid yn fyr gyda'r enw personol cyntaf a'r cartrefle. O hyn allan ni a gawn enw y cartrefle yn gyfenw y teulu, megys *Carreg, o Gareg; Bodfel, o Bodfel; Pennant, o Bennant; Mostyn, o Fostyn, &c.*: ac felly *Pen neu Penn, o Pen*, gan feddwl Penmynydd.* Ganwyd William Penn yn Llundain, Hydref 14, 1644. Wedi cael elfenau ei ddysgeidiaeth yn Chigwel, Essecs, ac yn Llundain, efe a aeth i Rydychain. Yr oedd y pryd hyn dan argyhoeddiadau crefyddol, yr hyn a weithiwyd ar ei feddwl trwy bregethiad Crynwr. Gan iddo wneyd proffes o'r argyhoeddiadau hyn, efe a ddiarddelwyd o'r Brifysgol. Bu wedi hyny yn teithio ar led, a phan ddaeth adref, efe a aeth i Gyfreithdy Lincoln, i efrydu y gyfraith. Gan ei fod yn parhau i ymlynu wrth y Crynwyr, anfonodd ei dad ef i'r Iwerddon, ond yno efe a ymunodd yn ffurfiol â'r gymdeithas hòno, o blegid yr hyn y cafodd ei garcharu. Digiodd ei dad gymmaint wrtho, fel y troes ef allan o'i dy. Pan yn 24 oed, efe a ddechreuodd ddyfod allan fel gweinidog ym mhlith y Crynwy; a chafodd ei garcharu yn y Tŵr ac yn Newgate, ac yn y carcharau yr ysgrifennodd y rhan fwyaf o'i weithiau.†

Yr oedd Siarl II. mewn dyled o ddeutu 16,000*p.* i dad Penn, ac wedi eu gwneyd iddo yn ewyllys diweddaf ei dad; ond yr oedd amgylchiadau arianol y penadur hwnw mor isel, fel nad oedd ganddo fodd i dalu a chan fod y Crynwyr yn dyoddef erlidigaethau a cholledion trymion o blegid eu crefydd, cynnygiodd Penn i Siarl, os caniatâi iddo ef hawl o ddiroedd yng Ngogledd America, y maddeuai efe yr holl ddyled hòno, fel y gallai sefydlu yno drefedigaeth i'w gyfeillion, y Crynwyr, ac hefyd i bwy bynag a ewyllysiâi fwynhau mwy o ryddid crefyddol nag oeddynt yn ei fwynhau yn y wlad hon y dyddiau hyny. Felly, ar y 5med o Ionawr [1681], cadarnhawyd talaeth helaeth i William Penn, o dan yr enw *Pennsylvania*. Mynasai Penn ei galw yn Gymru Newydd, ond ni fynai yr ysgrifenydd, Gabriel Thomas, Cymro, mo'i galw felly. Er bod y llywodraeth wedi rhoddi ysgrif hawl o'r dalaeth i Penn, nid ystyriai efe er hyny fod ganddo hawl, heb wneyd cytundeb â'r llwythau Indiaidd ydoedd yn preswyllo

* *Cyfaill o'r Hen Wlad yn America, 1838, t. 258.*

† *W. Jones's Christian Biography.*

y wlad. Yn ganlynol, wedi iddo gyrhaedd drosodd ar yr 28fed o Hydref, 1682, dranoeth efe a alwodd y llwythau Indiaidd a'u pen-aethiaid, a gwnaeth bwrcasiad o'r tiroedd, gan dalu am dano mewn nwyddau amrywiol, hyd i werth pum cant a deg ar hugain o ddolerau. Yr oedd o Gymry yn ymfudo gyda William Penn, y rhai oeddynt Grynwyr, megys Dafydd Llwyd, yr hwn a fu yn gyfieithydd cyffredinol, a blaenor y gynnadledd gyntaf yn 1683, ac efe a dynodd y cytundeb â'r Indiaid; Thomas Llwyd, brawd i Charles Lloyd, o Ddolobran, ym mhlwyf Meifod, yn sir Drefaldwyn, a'r hwn a fu y llywydd gweithredol cyntaf ar dalaeth Pennsylvania, yn 1684; Gabriel Thomas, yr hwn oedd ysgrifenydd y cynnulliad cyntaf yn 1683; Anthony Morris, maer cyntaf Pennsylvania; Griffith Jones, yr ail faer; Hugh Dafydd,* yr hwn oedd un o ddeiliaid Charles Lloyd, Dolobran.†

Cyfansoddodd lawer o lyfrau, er nad oes yr un wedi ei droi i'r Gymraeg ond yr uchod; ond y mwyaf poblogaidd o'i ysgrifeniadau yw yr un a elwir '*No Cross, no Crown*' (=Heb Groes, heb Goron). Bu yn briod ddwy waith. Ei wraig gyntaf ydoedd Gulielma Maria Springett, merch Syr William Springett, o Dorking, yn Essecs, a'r hon a briododd yn 1672, pan oedd yn 32 oed. Ei ail wraig ydoedd Hannah, merch un Thomas Calow, Ysw., yr hon a briododd yn 1696, pan oedd yn 52 oed. Bu farw yn Ruscomb, ger Reading, yn Lloegr, yn 1718, yn 74 oed.‡

2. ¶ 'Annerch i'r Cymry, gan Evan Pugh.'

[*Annerch i'r Cymru ... o waith Ellis Pugh,* yw y llyfr a olygir; ond nid argraffwyd mo hwnw yn Gymraeg dan y fl. 1782.]

3. 'Addysg i'r rhai a ddeuant i dderbyn Bedydd Esgob, mewn ffordd o holiad ac ateb. Gyda Gweddiau iddynt i'w harfer cyn ac wedi'r unrhyw.

Llundain.'

4. 'Drych Difynyddiaeth: Neu Hyfforddiad i wybodaeth jachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefydd: sef, Holiadau ac Attebion Ysgrythurolog ynghylch yr Athrawjaeth a gynhwysir yng Nghatecism yr Eglwys. Angenrheidjol i'w dysgu gan Hen a Jeu-ainge, yn Bum Rhan. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Olfir, ym Martholomy Clôs, ger llaw Smithfield Gorrlewinol, yn y Flwyddyn MDCCLXVIII.'

Gwaith Ficer Llanddowror.

5. 'Hydrographical Survey of the Coast of Wales.'

Dywedir mewn lle arall mai enw y gwaith hwn yw:—'Plans of

* *Cyfaill o'r Hen Wlad yn America*, taflen gyssylltedig â rhifyn Medi, 1838.

† *An Account of Richard Davies*, Cloddiau Cochion, t. 5.

‡ *Cyfaill o'r Hen Wlad*, 1839, t. 258-9; W. Jones's *Christian Biography*.

Harbours, Bars, Bays, and Roads in St. George's Channel.* Daeth allan hefyd yn 1801, gydag 'Additional Observations, from Surveys lately made by William Morris. Shrewsbury, Printed for the Author by Sandford and Madocks. 1801.'

WILLIAM MORRIS ydoedd drydydd mab Lewis Morris, awdwr gwreiddiol y 'Plans.'

Gwaith Lewis Morris, o Benbryn, yn sir Aberteifi, gynt o Fon† ydyw. Dywedir mai rhan fechan o hono a gyhoeddwyd y flwyddyn hon, sef tuag ugain o forleni (*charts*), yn dangos ansawdd amrywiol aberoedd Cymru, porthladdoedd, &c. Nid ammhriodol a fyddai rhoddi yma ychydig o'r rhagymadrodd, er mwyn dangos natur y gwaith i'r rhai hyny nas gwelsant:—

'Yr athrist hanesion am longdrylliadau, a cholledion, yn dygwydd mor fynych ar dueddau Cymru (y rhai yn ddiammheu a achlysurwyd yn benaf o blegid diffyg gwybodaeth, ac amherffeithrwydd y Darluniadau a roddwyd o'r parthau hyny) a gymhellodd Gyfarwyddwyr y Morlys i gymmeryd yr unrhyw dan eu hystyriaeth, ac i benderfynu ar fod i arolygiad mesurol gael ei gymmeryd mewn llaw. Ac yn y flwyddyn 1737, rhyngodd bodd iddynt fy mhenodi i at y gorchwyl; a dechreuais arno wrth y Penmaen Mawr yng Ngwynedd, ger llaw Bar Caerlleon. Ar ol cyflwyno gorchwyl blwyddyn, archwyd i mi fyned rhagof; ond gan na ddarparaisid i mi eto mo'r cyfreidiau a'r defnyddiau anheggorol i'r perwyl, gohiriwyd y gorchwyl hyd y flwyddyn 1742. Y pryd hwnw y caniatodd y Cyfarwyddwyr i mi lestr wedi ei ddarparu yn gyfrdo; a thrwy y moddion hyn, aethym â'r gwaith ym mlaen gyda gofal a manylrwydd mawr hyd nes cyrhaeddodd y mynediad i Fôr Hafren. Ond yn y flwyddyn 1744, cyfododd y rhyfel rhwng y deyrnas hon a Ffrainc, a llesteiriwyd y gwaith; a minnau a orphenais fy morleni, ac a gyflwynais fy arolygiad i'r Morlys. Y darluniadau o'r Porthladdoedd, &c., ag sydd yn awr wedi eu cerfio, ac yn cael eu gosod yn y Traethawd hwn, a ffurfiwyd yn y dechreu yn llyfr bychan a wnaethym i'm gwasanaeth i fy hun; er mwyn adnewyddu fy nghof, pan ddygwyddai tymmestloedd, neu ryw anhap disymmwrth, a ddichonai ddamweinio yn ystod y gwaith. Ond hapiodd i mi ddangos y pethau hyn i Arglwyddi y Morlys, a rhyngodd bodd iddynt eu cymmeradwyo, gan annog ar iddynt gael eu cyhoeddi er budd i forwyr; yng nghyd â rhai crybwylliadau a wnaethwn mewn perthynas i'r gwelliadau a ellir eu gwneuthur yn y Porthladdoedd hyny: gan na thybid yn addas gyhoeddi yr Arolygiad o'r holl Arfordir nes myned â'r gwaith ym mlaen hyd Bentir Cernyw, sef gorphen hyd yno, o Fôr Hafren. Gallaf anturio honi fod yn peth *anarferol* yn y Darluniadau hyn, ac nas ceir mewn odid, os yn unrhyw rai ereill; hyny yw, Bod enwau lleoedd wedi eu doddi i lawr yn ol eu gwir orgraff; yr hyn mewn Darlunleni ereill o'r Arfordiroedd hyn sydd yn gyffredinol yn cael ei wneuthur yn y fath fodd, fel nas clywodd trigolion y manau hyny erioed son am danynt, ac nad ydynt gan mwyaf ddim amgen na ffug-ddyfeisiau cyfieithwyr anwybodus, a cherfwyr esgeulus: eithr yr oedd fy ad-

* *Goleuad Cymru*, llyfr iii. t. 340.

† Gwel rhif 5, d.f. 1735.

nabyddiaeth o iaith a hynafiaethau y Brytaniaid yn rhoddi mantais i mi yn hyn.'

6. ¶ 'Profiad Tufewnl,' &c.

Hanes neu hunan-gofiant rhyw grefyddwr Methodistaidd ydyw; ond gan fod yr un a ddaeth i law yr ysgrifenydd yn ammherffaith, ni ellid rhoddi ychwaneg o berthynas iddo. Hanes am naw mlynedd ydyw, o'r fl. 1734 i 1743.

7. ¶ 'Galar a Gorfoledd y Saint,' &c.

Nid yw y rhagddalen wrth y copi a gafwyd o hwn. Llyfr Hymnau bychan ydyw, yn cynnwys 24 o hymnau da, un o ba rai yw hon sydd yn dechreu,—

'Fe dderfydd sôn am ryfel,
Fe dderfydd cario'r groes.'

8. (1.) 'Darluniad o'r Gwir Gristjon; neu, Hanes byr o Fywyd Sanctaidd a Marwolaeth Mr. Henri Gearing, Dinasydd o Lundain. Ynghyd ag Amryw Bethau gwedi eu casglu allan o'i Baprau, y rhai oedd er profi a holi ei hunan, ac a all fod yn Gyfarwyddyd a Chym-morth i Gristjonogion eraill yn Achos pwysfawr eu Heneidjau. Gan Mr. Joan Shower, Gweinidog yr Efengyl. Gwedi ei argraphu amryw weithjau yn y Saesneg; ac yn awr y waith gyntaf yn Gym-raeg. O Gyfieithad Mr. P. Pugh. At yr hyn y chwanegwyd Myfyrdodau Difrifol a gasglwyd allan o Lyfr arall o Waith Mr. Shower.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Olfir, ym Martholemy Clôs, dros Ewyllysiwr da i'w Wladwyr, yn y Flwyddyn 1748.'

(2.) 'Myfyrdodau Difrifol ynghylch Dioddefaint Crist. I. Yn yr Ardd. II. Yng Nghaersalem. Ac, yn III. Ar Fynydd Calfari. A gasglwyd allan o Lyfr arall o Waith Mr. Joan Shower, a elwir Dioddefiadau Crist yn cael eu hamlygu wrth Fwrdd yr Arglwydd. Canys cynnifer gwaith ag y bwyteuch o'r bara hwn, ac yr yfoc o'r cwppan hwn, y danghoswech farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.'

(3.) 'Hymnau ar amryw achosion.'

Y mae y tri uchod yn un llyfr; ond bod gwyneb-ddalen i'r ddau olaf hefyd.

9. 'A History of Anglesea, with a Distinct Description of the Towns, Harbours, Villages, &c., as a Supplement to Rowlands's; with Memoirs of Owen Glyndwr.'

Dywedir mai awdwr hwn ydoedd

HENRY OWEN, M.D., yr hwn a anwyd yn Nhan y Gader, ger

Dolgellau, yn sir Feirionydd, yn y fl. 1716. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhuthyn a Rhydychain. Bu yn dilyn yr alwad feddygol am tua thair blynedd; ond o blegid ei iechyd ymgymmerodd â'r weinidogaeth, ac wedi ei ordeinio, cafodd ei wneyd yn gapelwr i Syr Matthew Featherstonehaugh, gyda bywoliaeth eglwysig Torling, yn Essecs. Yn 1750, cafodd bersoniaeth St. Olave, Llundain, yn lle Torling, ac yn fuan ei benodi yn gapelwr i esgob Llandaf, wedi hyn Durham. Bu yn ymwneyd â llenoriaeth ddysgedig ar hyd ei oes, a chyhoeddwyd llawer o'i weithiau. Ni chyhoeddwyd dim o'i eiddo o berthynas i Gymru ond hwn, ac ail argraffiad diwygiedig o Rowlands's 'Mona Antiqua.' Bu farw Hydref 15, 1795, yn 79 oed.*

10. 'Thomæ Tanneri, Episcopi Asaphensis, Bibliotheca Britanico-Hibernica: sive de Scriptoribus qui in Anglia, Scotia & Hibernia ad sæculi xvii initium floruerunt; ex editione Davidis Wilkins.

Londini, 1748.' Unplyg.']

[THOMAS TANNER a anwyd ym Market Lavington, yn swydd Wilts, yn 1674; derbyniodd ei ddysgeidiaeth ym Mhrifysgol Rhydychain; a chyn diwedd ei oes cyrhaeddodd yr urddas o eistedd yng nghadair esgobawl Asaf yn Llanelwy. Heb law y gwaith a grybwyllir yma, y mae yn awdwr y 'Notitia Monastica,' yr hwn sydd waith rhagorol ar hanes y mynachdai; a chyfroddodd lawer o erthyglau i argraffiad o'r 'Athenæ Oxonienses' gan Wood. Bu farw yn 1735.]

11. ¶ 'Pedwar o Gywyddeu Sef i Cywydd Galarnad Pechadur o waith Elis Rowland II Cywydd Marwnad Hugh Morrus y Bardd III Cywydd Llyntegid sef y prydydd yn Cyfflybu tonau'r llun i dragwyddoldeb IV Cywydd ir jar ar mynawyd

Argraphwyd gan J Rowland Bala Tros Richard Reinallt Siopwr Prise Ceiniog a dime.' [16plyg.]

[Math o 16plyg ydyw. Nid oes iddo amseriad. Rhifnodir y tudalenu hyd 9, ac yna dechreuir â 2, a pharhêir hyd 8; ac felly 16 tudalen ydyw. Y mae yn dwyn yn hollol yr un gweddnodau â 'Dyfywrch ir Cymru,' o ran papyr, orgraff, argraff, a diffyg attalnodau, a'r cyffelyb; ac y mae ym mhob un o honynt dudalenu cyfain heb gymmaint ag un attalnod. Ar ei derfyn dywedir mai 'Diwedd yr ail Rhan' ydyw; a diau genyf mai ail ran 'Dyfywrch ir Cymru' yw; canys ceir 'Terfyn y Rhan Cyntaf' ar ddiwedd hwnw. Y mae y ddau lyfr, fel yr awgrymwyd, yn gwbl gyffelyb i'w gilydd; a gellir barnu mai o'r un wasg y daethant allan; ac nid yw debyg fod y nall na'r llall o honynt wedi derbyn ei argraff yn Dilyn, os y lle hwnw a olygir wrth 'Duelyn' ar ragddalen y 'Dyfywrch.']

1749.

1. 'Llythyr ynghylch y Ddyledswydd o Gateceisio Plant a Phobl Anwybodus.

* *Gent. Magazine*, 1778, 1797; Williams's *Eminent Welshmen*. [Y mae cofiant byr am y Dr. Henry Owen, o waith Caerfallwch, yng *Ngoleuad Cymru*, ii. 201.]

† *Dictionnaire Bibliographique. Tome Troisième.*

Argraphwyd yn Llundain, gan Ioan Olifer, ym Martholomy Clôs, ger llaw Smithfield Gorllewinol, yn y flwyddyn MDCCLIX.'

Gwaith gweinidog Llanddowror yw hwn hefyd. Olifer ydoedd argraffydd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Bu farw Ionawr 19, 1775.

2. 'Hyfforddiad Gynnwys i Wybodaeth jachusol o Egwyddorjon a Dyledswyddau Crefydd: Sef, Holiadau ac Attebion Ysgrythyrol ynghylch yr Athrawjaeth a gynhwysir yng Nghatecism yr Eglwys. Angenrheidjol i'w dysgu gan Hen a Jeuainge. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Olfir, ym Martholomy Clôs, ger llaw Smithfield Gorllewinol, yn y flwyddyn MDCCLIX.' [8plyg: t. 320.]

Yr un yw awdwr hwn eto.*

3. 'Llyfr o Weddïau Duwiol yn Cynnwys ynddo Mwy na Saith ugain o Weddïau ar amryw Achosion, ac ar bob Amser cyfaddas i Weddio, yn Gyffredinol ac yn Neullduol. Y Gweddïau hyn a gasglwyd allan o waith yr Awdwyr goreu yn Saesnaeg, Ac a Gyfieithwyd i'r Iaith Gymraeg.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston. 1749.'

4. 'A Collection of Welsh Travels, and Memoirs of Wales. Containing I. The Briton Described, or a Journey thro' Wales: Being a Pleasant Relation of D—n S—t's Journey to that ancient Kingdom, and remarkable Passages that occur'd on the Way. Also many choice Observations and notable Commemorations concerning the State and Condition, the Nature, Humours, Manners, Customs, and mighty Actions of that Country and People. II. A Trip to North Wales, by a Barrister of the Temple. III. A Funeral Sermon, preached by the Parson of Langwillin. IV. Muscipula; or the Welsh Mouse-trap, a Poem. The whole collected by J. T. a mighty Lover of Welsh Travels.

London: Printed for and Sold by J. Torbuck, in Clare Court, near Drury Lane; and also by most Booksellers and Pamphlet Shops in England and Wales.'

Awdwr yr uchod oedd y nodedig Ddeon SWIFFT. Tybiwn mai Llangwillog, † ym Mon, a feddylir wrth 'Langwillin' uchod.

* Gwel rhif 1, d.f. 1743; a rhif 4, d.f. 1748.

† [Enw dychymyngol ydyw, yr un fath â'r holl lyfr.]

Y Deon JONATHAN SWIFFT ydoedd ŵyr i Thos. Swift, ficar Goodrich, sir Henffordd, ac a anwyd yn Nublin yn 1667. Cafodd ei ddsgeidiaeth yng Ngholeg y Drindod yno. Bu ar feddwl myned yn filwr, ond wedi hyny cymmerodd urddau, a chafodd brebenduriaeth yn Connor, ac wedi hyny fywoliaeth Laracon a Rathbigan. Yn 1701, cymmerodd y radd o D.D., a dechreuodd ysgrifenu llythyrau ar lywodeg. Yr oedd yn awyddus iawn am gael esgobaeth yn Lloegr; ond yr oedd y Frenines Ann yn ammheu a oedd ef yn uniongred, a'r unig godiad a allasai ef ei gael oedd deoniaeth St. Padrig, yr hon a gafodd yn 1713. Yr oedd ei fywyd moesol hefyd yn ammhëus iawn, ac hyd yn nod yn warthus i'w swydd. Yr oedd yn boblogaidd iawn gyda'r werin Wyddelig, o blegid ei ysgrifeniadau yn pleidio defnyddio gwisgoedd o waith Gwyddelig yn unig yno, er mwyn cefnogi llaw-weithwyr cartrefol. Yr oedd ei ddawn ysgrifenu yn llym, digrifol, a gafaelgar. Bu farw yn 1745, yn 77 oed.*

5. 'Welch-Piety Continued: Or a Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1747, to Michaelmas 1748. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. M, DCC, XLIX.'

6. 'Welch-Piety Continued: Or a Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1748, to Michaelmas 1749. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close, M, DCC, XLIX.'

7. 'Llythyr at y Cyfryw o'r Byd ac sydd raid eu deffroi a'u cyfarwyddo er Lleshad a Budd tragwyddol eu Heneidie. Tan y Pennau a ganlyn. I. Difrifol Ystyriaethau. II. Hunan-ymholiad wedi ei gasglu oddiwrth y Gredo. III. Hunan-ymholiad oddiwrth Weddi yr Arglwydd. IV. Hunan-ymholiad oddiwrth y Deg Gorchymyn. V. Gofyniadau ynghylch Efengyl Crist. VI. Dwys Eglurhad o'r Geirie Paham y byddweh feirw. Gan Mr. John Reynolds, Gweinidog yr Efengyl yn y Mwythig. Wedi ei Gymreigio er lleshad y Cymru.

Caer-fyrddin: Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCC, XLIX.'

Y Parch. JOHN REYNOLDS ydoedd fab i John Reynolds, M.D., yr hwn a drowyd o eglwys Wolverhampton yn 1661, o blegid ei Anghydfurfiaeth. Dygwyd y mab i fyny yn Ymneilldŵr, a bu yn gweinidogaethu yn llwyddiannus yn y Mwythig, ac wedi hyny yn Llundain. Gwerthwyd llawer o filoedd o'r llyfryn uchod yn Seisonaeg. Mr. Reynolds a bregethodd yn angladd y Parch. Matthew Henry.†

* Maunder's *Biographical Treasury*.

† Palmer's *Calamy's Nonconformists' Memorial*, vol. iii. p. 246; Sir J. B. Williams's *Memoirs of M. Henry*, p. 217.

8. ¶ 'Essay upon British Antiquities, &c. By Lord Kames.'

9. 'Pigion Prydyddiaeth Pen-fardd y Cymry : Sef Caniadau, a Hymnau ac Odlau Ysprydol; Allan o Waith y Parchedig Mr. Prichard, Gynt Ficeer Llanymddyfri.

Argraphwyd yn Llundain, gan Ioan Olfir, ym Martholomew-Clôs. MDCCXLIX.'

Mr. G. Jones, Llanddowror, a dalfyrodd ac a gyhoeddodd waith y ficar fel hyn y tro hwn.

10. 'Cambria; a Poem in three Books: Illustrated with Historical, Critical, & Explanatory Notes. Humbly Inscribed to his Royal Highness Prince George. By Richard Rolt.

London: Printed for W. Owen, Temple-Bar. 1749.' 4to.

Cynnwysa y llyfr hwn lawer o nodau am Gymru a Chymry.

11. 'Cynghorion yn erbyn Tyngu, Tori'r Sabbath, a Meddwdod; ynghyd a Thraethawd byr o'r Cyfreithiau ag sydd mewn Grym tu ag at gopsi y Troseddau hynny.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol Awst. MDCCXXXIX.'

Y mae hwn yn ddwyieithawg, ac iddo wyneb-ddalen Seisonig hefyd.

12. 'Carol Marwnad Evan Williams, yr hwn a orphennodd ei Yrfa yn y Flwyddyn 1748.

Bristol: Argraphwyd gan S. a F. Farley. 1749.'

13. 'A Poem, Sacred to the Memory of the late Sir Watkin Williams Wynne, Bart. By Richard Rolt, Author of Cambria.

London: Printed for W. Owen, Publisher, at Homer's Head near Temple-Bar. MDCCXLIX. [Price One Shilling.]'

14. 'A View of Llanberis. 1749.'

1750.

1. 'Gwaedd Ynghymru yn wyneb pob cydwybod euog. Yr ail Argraphiad.*

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Tho. Durston, yn y Flwyddyn 1750. Ac a werthir gan Dafydd Jones o Drefryw yn unig.'

Yr awdwr ydoedd Morgan Llwyd o Wynedd; ac y mae yn ei ragflaenu ei 'Lythyr at y Cymru Cariadus.' Y mae hefyd yn ei

* Gwel rhif 16, d.f. 1653; a rhif 1, d.f. 1739; felly dylasai hwn fod y trydydd argraffiad.

ddiwedd englynion gan Dafydd Jones, Thos. Llwyd, Huw Morris, Mr. Dafydd Lewis, Iago ab Dewi, Bess Powys, a Wiliam Philip.

2. 'Eglurun Rhyfedd, Sef, Ystyriaethau Godidog, yn gyntaf yn cynnwys hanes yr Hên Wr o'r Coed. Yn ail, Breuddwyd Troilus. Yn drydydd, Trôedigaeth Evagrius y Philosophydd. Yn bedwar-ydd, Merthyrdod Andronicus ymerawdwr. Yn bummed, Cywydd y Merthyron. Y ddau a osodwyd allan gan Dafydd Jones, Trefriw.

Mwythig.'

3. ¶ 'Hanes o Fywyd a Marwolaeth Judas Iscariot.

Mwythig.'

4. 'Galwad at Orseddfainge y Grâs : fel na'n condemnier o flaen gerseddfainge Barn : Neu Ymddiddanion ynghyleh Gweddi. Yn cynnwys annogaethau a chyfarwyddiadau i weddio Duw tra fyddom yn y Byd hwn ; fel y byddom sier o Râs a thrugaredd i fywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Yr ail argraphiad.† Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Llundain : Argraphwyd gan Ioan Olfir, yn y lle a elwir Bartholomew-Close, ger llaw Smithfield. M, DCCX.'

Prin y rhaid mynegi mai gwaith y Parch. G. Jones, Llanddowror, yw yr uchod.

5. 'Llwybr Hyffordd y Plentyn Bach i Fywyd Tragwyddol. Neu, Genadwri Nefol yn dyfod a Newyddion Gogoneddus o dangnefedd ac amltra i drigolion Brydain Fawr. Yn rhoddi esiampl tra hynod am dduwiolder ac haelioni llange jeuange a Elwyr Benjamin yr hwn a fu farw Dydd Sul y 14 o Fehefin diweddfaf. Y modd yr ymddanghosodd i'w Dâd ac i offeiriad y Plwyf mewn Dull Gogoneddus ar ôl ei farwolaeth. Ei ymddiddanion hyfryd wrthynt. Yn dra chyfleus i'w ystyried gan bawb, yn bendifaddau dynion jeuange. Gan Mr. Worthy, Mr. Jones, Mr. King, Gwr Bonheddig. Wedi ei Gyfieithu yn Gymraeg gan Tho. Evans.

Pengwern, s.y.h. Mwythig, argraphwyd 1750.'

6. ¶ 'Hanes Tair Sir ar Ddeg Cymru. Yn Cynnwys ysbysiad helaeth pa fath ydynt. A pha bethau goreu sy ym hob un o honynt, A pha fath Bobl sy'n Gwladychu ynddynt, a pheth yw Hyswiaeth bennaf Merched ymhob Sir? Pa yd ac Enllyn sy amla a gorau ymhob un o honynt, A Pha le mae'r Cyffileu, Gwartheg, Defaid,

Brethynod, Gweoedd, Gwlaneni, y Llieiniau gorau yng Nghymru, &c. At yr hon y chwanegwyd Tair o Gerddi Dwyfol. A Rhifedi Plwyfydd pŵb Sir uwch eu pennau. Gan D. T.

Argraphwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh Gwerthwr Llyfrau.'

[Enw yr awdwr ydoedd DAFYDD THOMAS. Y mae Gwalter Mechain, yn ei *General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales*, yn dyfynu yn fynych o'r gwaith hwn.]

7. ¶ ['Dyfywrwch ir Cymru Neu Ddewisol Ganiadau Sef Cywydd ir arian o waith y Parchedig Mr. Ellis ap Ellis o Llandrillo yn Rhos Yn rhoi byr gyfri or daioni. a'r drygioni a bair arian Arian attyb i bob Peth medd Solomon. gwraiddin pob drwg iw arian-garwch medd St. Paul 1 Tim. 6. 10 Preg. 10. 19

Cywydd i ofyn Cyngor i'r Llwynog, o waith Hugh Lloyd Cynfel ymhwlwy Maentwrog yn Sir Feirionydd: Mae ateb ir Cywydd or blaen o waithyr un Gwr am gyffes y Llwynog

Byrr hanes ynghylch Can tre'r Gwaelod sef y Tir a fu gynt ar Gyffiniau sir Aberteifi a sir Feirionydd ond yn awr sydd wedi lyncu gan y Mor mewn cywydd o waith hen Awdwr

Cywydd o Alarnad am yr Anrhydeddus fardd Ed. Morris or perthi llwydion o waith Hugh Morris

Cywydd o Hanes Pensilfaenia a wnaed yno gan Hugh Gruffudd gynt o lwyn y Brain yn sir Feirionydb

Cywydd i'r drycin a'r Drudaniaeth gan Daf. Manuel

Cywydd o waith Thomas Price Esqr. o Blas Iolyn er Rhybydd i bawb gytuno ai gilydd a pheidio Amyned i'r Gyfraeth gan fynegu fel ei mae'r gwyr y gyfraith yn amdwyo pob un o'r ddau Tu

Cerdd alarus a chwynfan Sion y Prydydd yn ei garchar ar y don a Elwir Gwel yr Ddeiliad

Ni phrintied erioed or blaen mor gwaith Gorchestol yma ond mewn hen Almanacs

Duelyn Print by J. P. For Richard Evans Price Three Pence'

Gellir dynodi hwn, a'r 'Pedwar o Gywydau' (rhif 11, d.f. 1748), fel y llyfrau anghywiraf a argraffwyd yn yr iaith Gymraeg. Cynnwys hwn 32 o dudalennau 16plyg; ac ar ei ddiwedd ceir—'Terfyn y Rhan Cyntaf;' ac nis gall fod fawr o amhheuaeth nad y llyfr arall a nodwyd yw yr ail ran. Nid oes nemawr o attalnod na tholnod i'w gweled o ddechreu i ddiwedd y ddau lyfryn; ac y maint yn nodedig am eu haflerwch argraffyddol. Nid oes un amseriad i'r lyfryn hwn; ond gosodir ef yma yng nghymmydogaeth y 'Pedwar o Gywyddau,' er y tybiaf mai hwn, ac nid y llyfryn hwnw, a ymddangosodd gyntaf.]

EDWARD MORRIS neu MORUS oedd wr cyfrifol o borthmon, yn byw

yn y Perthi Llwydion, plwyf Ceryg y Drudion, yn sir Ddinbych. Yr oedd yn gydoeswr â Huw Morus, ac yn gyfaill mynwesol iddo. Bu farw yn Essecs, tra yr oedd yng nghylch ei alwad fasnachol.

THOMAS PRICE neu PRYS ydoedd fab i'r Dr. Elis Prys, o Blas Iolyn, yn Ysppyty Ifan, sir Ddinbych. Efe a briododd Margaret, merch William Griffith o'r Penryn, ger Bangor, yn sir Gaernarfon. Gan ei fod o duedd led wyllt, efe a wnaeth i fyny long ryfel yn amser y Frenines Elisabeth, i fyned i herwa yn erbyn yr Ysperiaid. On bu wedi hyny yn swyddog yn y fyddin. Yr oedd felly pan ddarfu i'r frenines adolygu ei byddin yn Tilbury, yn 1588. Dywedir mai efe, gyda'r Cad. Wm. Middleton, a'r Cad. Thos. Huet* (neu Huel, ef allai), oedd y cyntaf erioed i chwiffio myglys, neu yn hytrach dail cordeddedig (=ceglys neu *cigars*), yn heolydd Llundain, a bod y lluoedd yn edrych yn synedig arnynt. Y mae rhai pethau ereill o'i waith yn argraffedig; † megys 'Cof am Richard Myddleton, Llywydd Castell Dinbych a'i wraig Jane;' 'Cywydd Ffoledd Ieuencyd.' Y mae mewn ysgrif Gywydd ar farwolaeth ei fab Elis Prys. Yr oedd yn byw yn sir Gaernarfon yn 1599. Bu farw tua'r fl. 1610. ‡

8. ¶ 'Llyfr Meddyginiaeth a Physygwriaeth i'r anafus a'r clwyfus. Yn Cynnwys Cynghorion tra Buddiol a llesol i ddyd ac Anifael; o Gasgliad hen physygrwr Celfyddgar. At yr hyn y chwanegwyd y Gelfyddyd o goginiaeth (neu cookery) i arlwyo neu Drwsio amryw fath ar fwydydd, sef Cig, Pysgod, ac adar, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig.'

9. 'Welch Piety: Or, A Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1749, to Michaelmas 1750. To which are annexed Testimonials Relating to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew Close. MDCCL.'

10. 'A Sermon Preached from John v. 28, 29. Occasioned by the Death of Mr. Evan Williams, Preacher of the Gospel in Wales. To which is added some Account of his Life and Death. By Edmund Jones, Minister of the Gospel.

London: Printed for J. Noon, at the White Heart, near Mercers Chapel, Cheapside. M,DCC,L.'

Mr. Evan Williams ydoedd fab i Evan Williams a Gwenllian Ifan, o Abercraf, ym mhlwys Ystrad Gynlais, yn sir Frycheiniog, ac a anwyd Ionawr 6, 1719. Difrifolwyd ei feddwl yn ieuanc trwy weinidogaeth un o weinidogion yr Ymneillduwyr o'r enw Lewis

* [Cadben *Koet* y gelwir ef yn gyffredin.]

† [Cyfansoddodd nifer mawr o ganiadau ar wahanol fesurau barddoniaeth gaeth, yn gystal ag amryw bethau mewn iaith rydd. Y mae ei brydyddiaeth, ac ond odid ei ryddiaith hefyd, ar gadw mewn llawysgrifen yn y Gywreinfu Brydeinig yn Llundain.]

‡ *Archæologia Cambrensis*, 1860, p. 114, &c.

Jones, yng nghyd â darllen amryw lyfrau ag oeddynt wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg yn yr oes hono. Ymunodd â'r Ymneillduwyr yng Nghwm Llyfnant, o dan weinidogaeth Mr. Roger Howel, yn 1739, pan yn 20 oed; ond o blegid bod Mr. Howel a'i bobl yn gwyro oddi wrth efengyleiddrwydd a symlrwydd yr Efengyl, efe a welodd yn briodol ymuno â chymmundeb Mr. D. Rowlands, Llangeitho, a Mr. Griffith Jones, Llanddowror, yr hwn a'i hantonodd yn 1742, i sir Gaernarfon i gynnyg ar gadw ei Ysgolion Rhad Symmudol yno, lle y dyoddefodd ei faeddu yn dost,* a phrin y gallodd ddiane â'i fywyd yn ysglyfaeth. Wedi ei ddyfod yn ol, efe a ail ymunodd â'r Ymneillduwyr yn Nefynog, yr hon oedd yn eglwys o egwyddorion efengylaidd, a sefydlasid gan Mr. Edmund Jones, a'r hwn a'i cefnogodd i bregethu. Yn Hydref 4, 1745, pan yn 26 oed, aeth i'r athrofa i Gaerfyrddin. Tra yr oedd yno yr oedd yn pregethu bob Sabbath o ddeutu Caerfyrddin, yn yn amlaf yng Nghapel Glan Dwr, yn sir Benfro, lle yr oedd hen weinidog o'r enw John David. Buwyd yn meddwl ei ordeinio yno fel cynnorthwywr i hwnw; ond daeth galwad daer am dano oddi wrth y gynnullidfa Ymneillduol yng Nghaernarfon, ac yno yr aeth Medi 7, 1747, megys ar brawf, ac yr arosodd hyd y Nadolig, pryd y dychwelodd yn ol i'r athrofa. Ond cynnyddodd effeithiau y driniaeth a gafodd y tro cyntaf yn rhwyg yn ei gyfansoddiad naturiol cryf, fel y bu farw Awst 19, 1748, yn 29 oed.†

11. 'Rhan o Bregeth Ein Harglwydd ar y Mynydd. Wedi ei Egluro a'i osod allan yn gyntaf yn Saesonaeg gan John Wesley, M.A. Cydymaith o Colege Lincoln yn Rhydychain. Wedi ei gyfieithu'r awrhon er Bydd i'r Cymru.

Argraphedig yn Brista gan Felix Farley. MDCCL.'

Cynnwysa y traethodyn hwn y bregeth gyntaf o eiddo Mr. Wesley ar y Bregeth ar y Mynydd, sef ar *Mat.* v. 1—4. Nid oes enw cyfieithydd; ond y mae ychydig o linellau tlyision o'i blaen, 'At y Darlennydd Hawddgar,' gan y cyfieithydd, pwy bynag ydoedd. Gwelir ei bod wedi ei thaenu yn Gymaeg yng Nghymru hanner can mlynedd cyn i'r Wesleyaid feddwl am sefydlu achos Cymreig yn y Dywysogaeth.

12. 'Ymddiddan rhwng Methodist Uniawn-gred ac un Camsyniol. Yr ail Argraphiad.

Argraphwyd yn y Flwyddyn 1750.'

13. 'Ymddiddan rhwng Methodist a Morafiad.

Argraphwyd yn Mristo yn y Flwyddyn M,DCC,L.'

* *Drych yr Amseroedd.*

† *Some Account of the Life and Death of Mr. Evan Williams* gan Mr. Edmund Jones, yn gyssylltedig. Hefyd ceir crybwylliad am dano yn '*Methodistiaeth Cymru,*' gan Hughes; a '*Hanes Ymneillduaeth,*' gan y Parch. D. Morgan.

14. 'Tri Chyflwr y Cristion, Yn cael ei Ddatgyddio trwy'r Serythurau Sanctaidd. 1. Druenyys wrth Natur. 2. Yn Gyssurys trwy Ras. 3. Yn orfoleddus mewn Gogoniant. Ynghyd ac amlygiad Byr o Ddyledswydd Dyn ti ag at ei Greawdr ae Gid Greaduriaid. A gymmerwyd allan o'r Saesnaeg. At ba rai y chwanegwyd ychidig o Hymnau, neu Ganiadau Ysprydol; i Ddifyrnu'r Pererynion, tra fyddont yn ymdeithio trwy Anialwch y Bÿd presennol, ti a'r Ddinas Nefol. Gan Benjamin Lewis o Drê Castell Newydd ar Wyse yn Sir Fynwe; yr hwn a fy farw yn y flwyddyn, 1749. ac yn awr yn ol ei farwolaeth cyflawnwyd ei Ddymuniad yn ei fywyd.

Argraphwyd ym Mhristo, gan Sam. Farley, yn y Flwyddyn, M, DCC, L.'

15. 'The Protical Son: a Welsh Preachment, by the Parson of Llangtyddre, on the Return of his Protical Son. 1750' 8vo.

Un o gynnyrchion digrifol y digrifol Deon Swiftt.

[Gweler rhif 9, d.f. 1738, a'r nodyn yno. Nid gwaith y Deon Swiftt mo'r swtrach hyn.]

16. 'Ymddiddan rhwng Cynghorwr a'i Gymmydog ynghylch Llawn Sierwydd Ffydd.

Llundain: Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCL.'

17. 'Instruction for the Young Christian, &c. By a Minister of Church of England. or Addysg i'r Cristion Je uange: neu Eglurhad ar Gatecism yr Eglwys. Mewn ffordd o Holiad ac Atteb. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Llundain: Argraphwyd i B. Dod, Gwerthwr Llyfrau i'r Gymdeithas er Helaethu Gwybodaeth Gristionogol, dan Lun y Bibl a'r Agoriad yn yr yr heol a elwir Ave-Mary Lane, 1750. [Pris 4 Ceiniog, neu 28 Swllt y Cant.]'

Y mae hwn yn ddwyieithawg, a thebygol mai gwaith Mr. Jones, Llanddowror, ydyw.

18. 'Hyfforddiadau Pa fodd i dreulio pob Dydd Cyffredin, a phob Dydd yr Arglwydd. wedi eu casglu allan o Scrifenniadau Mr. Baxter a Dr. Doddridge.

Argraphwyd yn y Mwythig: yn y Flwyddyn MDCCL.'

Er bod yr uchod wedi ei argraffu y flwyddyn hon, ni chyhoeddwyd ef ond yn gydiol â 'Galwad i'r Annychweledig' Baxter, y flwyddyn nesaf, ac fel attodiad i hwnw, gyda'r rhagddalen yn cymmyrd i mewn y rhagddalen uchod.*

* Gwel rhif 1, d.f. 1751.

19. 'View of Denbigh. 1750.'

[Ai nid *Tenby* a ddylai hwn fod ?]

20. ['Profiad Tufewinol o Nefoedd ag Uffern, a osodwyd allan yn ddiweddar er rhybydd i'r balch a'r rhyfygus, ac er cadarnhad i'r llese a'r gwan ei meddyliau. Gwir ewyllysiwr da i'r grefydd Brotestanaidd ac sydd yn dymuno gweled Teyrnas anghrist a Phabyddiaeth yn cael ei diddymu, ac am weled adferiad Jerusalem i fod yn ben moliant ar y Ddaear. Gan Henry Lloyd.

Argraphwyd yn Brista gan Felix Farley. 1750.']

21. ['Amddiffynol-Feddyginiaeth yn erbyn Pechodau a Ffolineb mebyd a Jeungetid. Wedi ysgrifenu mewn ffordd o Holiad ac Atteb. At yr hyn y chwanegwyd, Cofrestr helaeth o'r Enwau Ysgrythuroł mwyaf hynodol; wedi eu casglu er lles i Blant a'u hegluro er eu gwell cydnabyddiaeth a'r Ysgrythurau Sanctaidd. Wedi eu cymmeryd allan o Lyfr helaethach o Gatecismau a Gweddi-
au i Blant a Dynion ieuange. Gan I. Watts, D.D. ac yn awr wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg o'r chweched argraphiad yn Saeson-
aeg.

Llundain, Argraphwyd gan Ioan Olfir yn y lle a elwir Bartholomew Close, ger llaw West Smithfield. MDCCL.']

1751.

1. 'Galwad i'r Annychweledig. Trwy y diweddar Barchedig a Duwiol Mr. Richard Baxter. Ynghyd a Hyfforddiadau Pa fodd i dreulio pob dydd Cyffredin, a phob Dydd yr Arglwydd, wedi eu casglu allan o 'Scrifenniadau Mr. Baxter, a Dr. Doddridge.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Eddowes, a J. Cotton, MDCCL.']

Yr oedd hwn yn ail argraffiad o'r gwaith rhagorol hwn o eiddo Baxter.* Y mae rhagymadrodd iddo gan Job Orton; ac yn ei ddiwedd agoriad ar eiriau anhysbys i rai. Pa un a oedd Mr. Orton yn deall Cymraeg ai nid oedd, nid ydys yn hysbys. Dywed wrth 'Y rhai yng Ngwynedd,' eu 'bod mewn rhan yn rhwymedig i'r Parchedig Mr. Samuel Price, Gweinidog yr Efengyl yn Llundain, ac i weinidogion da eraill, y rhai a roddwyd mewn ymddiried am arian at ddibenion cymmwynasgar. Ond am hwn a llyfrau da eraill, yr ydych yn rhwymedig yn bennaf i Mr. Josiah Twamley o Giderminster yn Sir Gaerangon, yr hwn y bu ei haelioni ei hun yn fawr, a'r hwn a ymdeithiodd lawer o filldroedd i annog ei garedegion cristianogol i roddi cymmorth haelionus, tu ag at gyfranu i chwi y cyfryw lyfrau, a allant, trwy fendith Duw, beri i dduwioldeb gynyddu yn eich plith.'

* Gwel rhif 2, d.f. 1677.

Y mae yn gydiol—

‘Hyfforddiadau pa fodd i dreulio pob Dydd Cyffredin a phob Dydd yr Arglwydd, wedi eu casglu allan o Scrifenniadau Mr. Baxter a Dr. Doddridge.

Argraphwyd yn y Mwythig yn y Flwyddyn MD.CCL.’

Yr ydys yn tybio fod rhai o’r rhai hyn wedi eu hamseru yn 1750.

SAMUEL PRICE ydoedd enedigol o’r Ty’n Ton, ger Pen y Bont ar Ogwy, Morganwg, ac yr oedd yn ewythr i’r Dr. Richard Price, brawd ei dad, sef Rhys Prys, neu Rice Price, Ty’n Ton. Bu yn cydweinigogaethu â’r Dr. Watts ddeugain mlynedd, a saith mlynedd yn olynnydd iddo. Bu farw yn 1756.*

Y Dr. PHILIP DODDRIDGE sydd enw eithaf adnabyddus, ac oedd weinidog dysgedig, duwiol, a doniol, ym mhllith yr Ymneillduwyr, ac a anwyd yn Llundain, yn 1702. Daeth yn weinidog yn Kibworth, Market Harborough, a Northampton, olynol. Ysgrifennodd gryn lawer. Aeth i Lisbon er mwyn ei iechyd, lle y bu farw yn 1751, yn 49 oed.†

2. ‘Sail Bedydd Plant Bychain wedi ei chwilio, ac heb allu ei chael yng Ngair Duw. Neu ychydig Nodiadau ar Lyfr a osodwyd allan yn ddiweddar, gan Weinidog o Eglwys Loegr, dan yr Enw *Hyfforddiad i Wybodaeth jachusol o Egwyddorion a Dyledswyddau Crefydd*.

Argraphwyd yn Llundain, ac ar werth gan George Keith, ym Mercers Chapel Cheapside. M,DCC,LI.’

Sylwadau ydyw ar gymmaint o Gatecism G. Jones, Llanddowror, ag sydd yn ymdrin â bedydd.‡

3. ‘Traethawd a Bregethwyd (yn Saes’naeg) ar Ddydd Sul, y Bedwaredd o Ebrill, yn y Flwyddyn 1742; O flaen y Brif-Yscol yn Rhydychen. Gwedi ei Gyfieithu i’r Gymraeg er Budd i’r Cymru. At yr hyn y chwanegir Gair i Bechadur.

Argraphwyd ym Mristo, gan Felix Farley, yn y Flwyddyn 1751. [Pris Ceiniog a Dimmai.] [16plyg : 24 tudalen.]

Pregeth y Parch. Charles Wesley, ar *Eph.* v. 14, ydyw. Yr oedd hefyd wedi pregethu y bregeth hon mewn dau le o leiaf yng Nghymru y flwyddyn flaenorol, sef yn eglwys Wenfo, Morganwg, Gorph. 15, ac mewn Gwyl mabsant fawr, yn yr Eglwys Newydd (= *Whitchurch*), ger Caerdydd, Medi 15, 1741.§

* Wilson’s *Dissenting Churches*.

† Maunder’s *Biog. Treasury*.

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1748.

§ C. Wesley’s *Journal*, vol. i. pp. 187, 199. [Cyhoeddwyd ail argraffiad o’r Bregeth hon yn Nhrefeca yn 1775 (rhif 14 dan y flwyddyn hōno). Ymddangos-

4. 'Hosanna i Fab Dafydd, neu Gasgliad o Hymnau o Waith William Williams.

Argraphwyd ym Mhristo gan Felix Farley, yn y Flwyddyn 1751.'

Y mae yr hysbysiad canlynol ar gefn yr wyneb-ddalen:—'Bydded hysbys i bwy bynnac a bryno'r Hymnau yma, fod dwy Ran arall (os canciata Duw) i ganlyn, mor gynted ag yr elo hwn ymaith, o'r un Faintiolaeth, fel y gallo pwy bynnac, a'i gwelo yn gymmwys (ond cadw hwn yn lân,) gael y tri i'w cydrwymo. W. W.'

5. ¶ 'Attebi'r Ugain Rhesymmau. Gan Josuah Thomas, a Dr. Gill.*

'Y mae er ys rhai blynyddoedd,' medd Mr. Thomas, 'Esboniad ar Gatecism yr Eglwys, wedi ei gyhoeddi, gan Weinidog o Eglwys Loegr.' Cytunwyd yn y cyfarfod hwn—Cymmanfa Llanelli, 1749—'fod i rai o'r gweinidogion feddwl am atebiad. Ffnwyd pedwar neu bump, ond ni phenderfynwyd ar neb. Ymgymmerodd amryw â'r pwnc, ac yn eu plith tynodd Josuah Thomas ychydig awgrymiadau, a chefnogwyd ef i fyned ym mlaen.' '1750, *Molston*.—Cytunwyd fod i'r hyn a ysgrifennodd y brawd Josuah Thomas ar Fedydd, mewn atebiad i'r Ugain Rhesymau, gael ei argraffu. Argraffwyd yr Ugain Rhesymau yn Seisonaeg, ac ysgrifennodd y Dr. Gill atebiad byr, a chytunwyd cymmeryd rhan o argraffiad ei lyfryn ef hefyd.'†

Y Dr. JOHN GILL a anwyd yn Kettering, sir Northampton, yn 1697, lle yr oedd ei dad yn ddiakon i'r eglwys o Fedyddwyr trochedig. Dangosodd yn ieuanc ei awydd am wybodaeth, trwy gyrchu yn fynych, a threulio llawer o amser mewn gwerthdy llyfrwerthwr, fel y daeth yn ddiareb yn y lle i ddywedyd fod rhywbeth cyn wired a bod John Gill yn y gwerthdy lyfrau. Cafodd ei droi allan o'r Ysgol Rydd Ramadegol, trwy ragfarn elynol yr offeiriad oedd yn llywyddu arni, a cheisiwyd ei anfon i athrofa feithrinol i'r weinidogaeth; ond pan ddywedwyd ei oed, a'r cyrhaeddiadau yr oedd wedi eu gwneyd eisoes, gwrthodwyd ef, am y rheswm ei fod yn rhy ieuanc, ac os myned ym mlaen a wnai mor gyflym, fel yr oedd yn debyg y gwnei, y byddai wedi myned trwy holl gylch dysg cyn y byddai yn alluog i gymmeryd gofal am dano ei hun, nac i'w godi yn gyhoeddus. Ond ni ddarfu i hyn ei ddigaloni rhag ymgynnyddu mewn gwybodaeth o'r Groeg, y Lladin, a'r Hebraeg. Derbyniwyd ef yn aelod yn yr eglwys lle yr oedd ei dad yn ddiakon; dechreuodd bregethu yn Higham Fferrers,‡ ac yn 1719, pan yn 22 oed, ordeiniwyd ef yn

odd hefyd 'Yngwrecsam,' o wasg A. Tye, yn 1802, mewn lyfryn 12plyg, dan yr enw 'Gwaedd-Ddefiro i Bechadur. Sef Pregeth ar. Ephes, 5. 14. Gan Charles Wesley, A.M.' Y mae yr 'Hyspysiad' o'i blaen wedi ei lofnodi gan 'J. H.,' sef, y mae yn debyg, John Hughes, awdwr yr *Horæ Britannicæ*, yr hwn oedd y pryd hwn ar gylchdaith Dyffryn Clwyd.]

* Gwel rhif 2, d.f. 1747.

† *History of the Welsh Association.*

‡ *Maunder's Biographical Treasury.*

weinidog i gynnulleidfa o Fedyddwyr yn Horsleydown, ger Llundain.* Ysgrifennodd lawer, ac y mae cyfran o'i waith yn adnabyddus i'r Cymry, gan fod ei Esboniad ar y Testament Newydd yn awr yn Gymraeg, heb law rhai mân bethau ereill. Y mae ei Esboniad ar yr holl Feibl yn Seisoneg, yn ddeg cyfrol 4plyg. Bu farw yn Llundain, Hydref 14, 1771, yn 75 oed.†

6. 'Rhesymmau yr Ymneillduwyr am Wahanu oddiwrth Eglwys Loegr; A Achlysrwyd gan Lythyr ynghylch y Ddyledswydd o gateceisio Plant.‡ Ysgrifennwyd yn Saesonaeg gan Joan Gill. D.D.'

Yn gynnar yn y flwyddyn hon y cyhoeddwyd yr atebiad Cymraeg i'r Ugain Rhesymau dros Fedydd Babanod. Ac yn yr haf daeth atebiad y Dr. Gill allan, at yr hyn y chwanegwyd—'Reasons for Separating from the Church of England.' Cyfieithwyd y Rhesymau dros Ymneillduo y pryd hyn y Gymraeg, a chyd-rwymwyd hwynt â'r atebiad Cymraeg a ysgrifennwyd gan y brawd Josuah Thomas.§ Enw llyfr y Dr. Gill yn gyflawn sydd fel hyn:—'The Argument from Apostolic Tradition, in favour of Infant Baptism, with others, advanced in a late Pamphlet, called Baptism of Infants, a reasonable service, &c, confounded. And also an answer to a Welsh Clergyman's Twenty Arguments for Infant Baptism; to which is added, the Dissenters' Reasons for Separating from the Church of England, occasioned by the said Writer.'|| Prin y rhaid chwanegu mai â Mr. Jones, Llanddowror, yr oedd holl ddadleuon hyn.

7. 'The Life and Amours of Owen Tiderio Prince of Wales, otherwise Owen Tudor, who married Catharine Princess of France, and Widow of our great King Henry v; from which marriage descended Henry VII. Henry VIII. Edward VI. Queen Mary, and Queen Elizabeth, all of whom had from him the Surname of Tudor; and from him likewise are descended, by the eldest Daughter of Henry VII. the present Royal Family of Great Britain, France, and Ireland. First wrote in French, and published many years since at Paris and now translated into English.

London: Printed for William Owen, at Homer's Head, near Temple bar. MDCCLI.'

William Owen, cyhoeddydd y llyfr, oedd yn byw yn y lle uchod. Bu yn 1752 ar ei brawf yn y *Guildhall* am gyhoeddi rhyw waith a gyfrifai y llywodraeth yn gabled; ond profwyd ef yn ddiuog gan y rheithwyr. Bu farw Rhagfyr 1, 1793.**

* W. Jones's *Christian Biography*.

† Stephen Jones's *Biographical Dictionary*.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1749.

§ Thomas's *History of the Welsh Associations*.

|| Yr un.

** Timperley's *History of Printing*.

8. ['Hymnau ar amryw Ystyriaethau wedi eu gosod allan er budd a leshâd Eneidiau. Gan mwyaf, o waith Mr. Henry Lloyd.

Caerfyrddin, Argraphwyd yn y flwyddyn MDCCLI.']

1752.

1. 'Dirgelwch i rai i'w Ddeall ac i eraill i'w Watwar, sef Tri Aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran, Neu arwydd i annerch y Cymry yn y flwyddyn 666. Gan Morgan Llwyd (fel y tybir).

Argraphwyd yn y Flwyddyn 1752.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.*

2. 'Bibl Cyssegrlan, Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Argraphwyd yn Llundain.' [8plyg.]

Y mae gwyneb-ddalen arall i—

'Llyfr y Weddi Gyffredin,' &c. [Llyfr Gweddi Gyffredin.]

Hwn oedd yr ail argraffiad a olygwyd gan Richard Morris.† Y mae yr un ffurf â'r argraffiad arall, ac yn gyssylltedig y mae y Salmau Cân, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Dywedir mai 30,000 o gopiau oedd y ddau argraffiad yng nghyd.

3. 'Gwael Gardod Ysbrydol i'r Cymro, i hunanymholiad. Ni bydd ddoeth ni ddarlleo.'

4. ¶ 'Gwth i Iuddew, Neu Bregeth, i. Yn rhoddi hanes pobl yr Iuddewon: Gymaint o ffafr ac oedd Duw yn ei ddangos iddynt. II. Pa mor Esgeler ddynion oeddynt. III. Pa fodd y Gorddiwesodd Barn Duw hwy am eu Hesgelerder: Dinystr eu Teml: eu Gorthrymderau, &c. Gan y Parch. Theophilus Evans, P. Llanddulas Abercressau.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston.‡

Fe allai y dylasid doddi hwn ychydig yn gynnarach. Y mae yn ei ragflaenu gyflwyniad Lladinaidd i Marmaduc Gwynn, Yswain, o'r Garth, sir Frycheiniog, tad gwraig y Parch. Charles Wesley; yr hwn sydd i'r ystyr a ganlyn:—

'At y Gwr Ardderchog, Marmaduc Gwynn, o'r Garth, yn Sir Frycheiniog, Yswain.

'Y mae yr Amddiffyniad hwn, y fath ag ydyw, o'r unig wir Grefydd, o'r hon yr wyt ti yr amddiffynwr dewraf, yn ceisio dy

* Gweler rhif 13, d.f. 1953; rhif 7, d.f. 1714; a hwn yma.

† Gwel rhif 1, d.f. 1746.

‡ [Y mae hwn yn ddiau wedi ei gamamseru dan y flwyddyn hon: gweler rhif 7, d.f. 1728.]

gefnogaeth o honi, sef y Grefydd Gristionogol, wrth yr hon nid oes neb yn fwy ymlynol na'th hunan; yn ddiragfarn, nid oes neb yn ymlynu yn dynach, heb danbeidrwydd gwag Dduwioldeb.

'Mor dda y llwyddai Cristionogaeth, pe byddai rhai fel tydi, sy'n meddu cyflawnder o bob peth da y bywyd hwn i'w sirlioli, yn dysgleirió mor esmwyth mewn sel yng ngweithredoedd-rhinwedd.

'Gan hyny, dos ym mlaen, wr anrhydeddus, dan ddiogelwch Crist, pleidia, cefnoga, lledaena, addurna y ffydd hon trwy dy Awdurdod, dy Fwyd, dy Siaml: ac na ddirmyga dderbyn yn rasusol a ffafriol y llyfr bychan hwn, yr hwn sydd yn mynedd allan i'r byd, fel pe byddai yn rhyw gofeb o'm cariad tuag at yr Eglwys, yn gystal ag o'r teimlad tra boddhaol o'r eiddof tuag atat tithau. Dy fwyaf ymlynol

THEO. EVANS.*

5. 'Egwyddorion a Dyledswyddau y Grefydd Grist'nogawl: neu ychwaneg o Hyfforddiad i'r rhai a ddysgasant Gatecism yr Eglwys. Ynghyda byr ac eglur Athrawiaethau a Gweddiau perthynasol i bobl ar eu pennau eu hunain. I Deuluoedd. I Ddydd yr Arglwydd. Swpper yr Arglwydd. Yn amser Clefyd, &c. Gan y Gwir Barchedig Dâd yn Nuw Thomas, Arglwydd Esgob Sodor a Manaw.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Eddowes, a J. Cotton. 1752.'

Hwn oedd y llyfr cyntaf a ysgrifenydwyd ac a argraffwyd yn iaith Ynys Manaw, neu *Isle of Man*. Eglwyswr yn sir Gaernarfon a'i cyfieithodd. Y Thomas hwn, esgob Sodor a Manaw, ydoedd yr enwog

THOMAS WILSON, D.D., yr hwn a anwyd yn Burton, yn sir Gaerlleon, yn Rhagfyr, 1663. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaerlleon, a Choleg y Drindod, Dublin. Yn 1687, cafodd ei ordeinio i guradiaeth yn sir Lancaster, ac efe ond 23 oed, † a chafodd gaplaniaeth i Iarll Derby, a'i benodi yn athraw i'w fab, gyda'r hwn y gwibdeithiodd Gyfandir Ewrop. Yn Ionawr, 1697-8, gwnaed ef yn D.D. ac yn esgob Manaw. Er nad oedd cyllid ei esgobaeth ond 300*p.* yn y flwyddyn, efe a'i hystyriai yn ddigonol i gynnal ei urddas a'i sefyllfa, a rhoddi hefyd lawer o elusenau. Ymdrechai ym mhob modd wella sefyllfa y trigolion yn dymmorol ac ysbrydol. Cyhoeddodd gyfansoddiad eglwysig, yr hwn a gafodd ganmoliaeth uchel yr Arglwydd Ganghell-ydd King. Fel arwydd o barch derbyniodd y radd o D.D., yn ychwanegol at yr un a gafodd wrth ei wneyd yn esgob, gan Brifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt, yr hyn ydoedd yn beth anghyffredin, fod yr un dyn yn D.D. triphlyg. Yr oedd mor ymlynol wrth

* Cyfieithwyd o'r Lladin gan W. Rowlands, ieu., o Athrofa Golegawl Wesleyaidd Taunton, Gwel hefyd yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, 1865, t. 4, a 61, lle y mae argraffiad newydd o'r 'Gwth i Iuddew.'

† [Tair ar hugain yw yr oed cyffredin, a'r oed gofynol, i un gael urddau diacon yn yr Eglwys; a phedair ar hugain yw yr oed i gael urddau offeiriad. Nid oedd dim hynod yn Wilson, gan hyny, o ran ei *oedran*, pan y cafodd ei urddo.]

ei esgobaeth, fel y gwrthododd gynnygiad o esgobaeth yn Lloegr. Bu farw Mawrth 7, 1755, yn 93 oed.*

6. 'Y Fuchedd Gris'nogol, o'i Dechreu, i'w Diwedd mewn Gogoniant. Ynghyd â'r amryw Foddion a'r Offerynnau Cris'nogol sydd yn llesol iddi. Gyd â Chyfarwyddiadau i Dduwioldeb yn y Dirgel, a Ffuriau o Weddi, wedi eu cymhwyso at amryw Gyflyrau Cris'nogion. Gan Joan Scot, D.D. Person S. Giles yn y Meusydd, yn Llundain. A Chyfieithad Josua Tomas, Ficar Llanbister yn Sir Faesyfed, a Merthyr Cynog ym Mrycheiniog, a Chaplain i'r Gwir Anrhydeddus Jarll Powis.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Olfir, ym Martholomey Clôs, ger llaw Smithffild Gorllewinol, yn y Flwyddyn M.DCC.LII.' [8plyg : xxvi+370+2=398 tudalen.]

Y Dr. JOHN SCOTT ydoedd fab i Thomas Scott, amaethydd cyfrifol ym mhlwyf Chippenham, yn sir Wilts, ac a anwyd yno yn 1638. Cafodd ddysgeidiaeth fasnachol dda, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda masnachwr yn Llundain ; ond gan fod ei feddwl yn tueddu at y weinidogaeth, efe a ymryddhaodd, ac a aeth i Rydychain yn 1657, pan yn 19 oed. Ar ei ordeiniad cafodd weinidogaeth St. Thomas, Southware, Llundain. Yn 1677, pan oedd yn 39 oed, cafodd bersoniaeth St. Peter-le-Poer, Llundain, ac yn 1684, cafodd brebenduriaeth yn St. Paul. Yn 1685, pan yn 47, cafodd raddau hyd D.D. Yn 1691, cafodd bersoniaeth St. Giles yn y Meusydd, a chanoniaeth Windsor. O blegid rhyw anhawsder yn ei feddwl i gymmeryd y llwon gofynol, efe a wrthododd esgobaeth ddwy waith. Ei brif waith yw y 'Christian Life,' cyfieithiad o ran o ba un yw y llyfr uchod. Bu farw yn 1694, yn 56 oed.†

[Y mae y llyfr yn 8plyg helaeth, ac o argraffwaith llawer gwell na'r cyffredin o lyfrau Cymreig yr amser hwnw. Y mae iddo gyflwyniad Seisoneg i Esgob Ty Ddewi (yr Anrh. Richard Trefor, yr hwn a lanwodd sedd Dewi o'r fl. 1743 hyd 1752); yr hwn a ganlynir gan ddeg tudalen mewn colofnau dyblyg o enwau y tanysgrifwyr ; ac y mae helaethrwydd y gofres yn dangos i'r cyfieithydd gael cefnoctyd rhagorol yn ei anturiaeth. Ar y diwedd y mae dau dudalen o 'Eglurhad o rai Geiriau, anhawdd i'r Cymro un-jaith eu dyall, yn y Llyfr hwn.' Y mae y llyfr ym mhob ystyr yn un o'r lyfrau Cymreig goreu a gyhoeddwyd yn y cyfnod hwn. Nis medraf roi mwy o hanes y cyfieithydd nag a geir wedi ei gofnodi o dan rif 10, d.f. 1753.]

7. 'Welch Piety : or, a further account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1750, to Michaelmas 1751. To which are annexed Testimonials Relating to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London : Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. M.DCC.LII.'

* *Biog. Brit.* ; W. Jones's *Christ. Dict.* ; Stephen Jones's *Biog. Dict.*

† *General Biog. Dict.* ; *Biog. Brit.* ; W. Jones's *Christ. Biog.* ; Maunder's *Biog. Treasury.*

8. 'Some Account of the Welch Charity Schools ; and of the Rise and Progress of Methodism in Wales, through the Means of them, under the sole Management and Direction of Griffith Jones, Clerk, Rector of Llanddowror, in Carmarthenshire, in a short History of the Life of that Clergyman as a Clergyman.

Goddaith a roir mewn Eithin
Gwanwyn Crâs, trwy'r Gwynnon Crân ;
Anodd fydd ei ddiffodd ;
Ac Un Dyn a'i hennyn Hi. i.e.

One Sinner destroyeth much Good.

'Mong these, there was a Politician
With more Heads than a Beast in Vision ;
And more Intrigues in Every one
Than all the Whores of Babylon ;
And, in his Dark Pragmatick Way,
As busy, as a Child at Play.

London : Printed in the Year 1752.'

Awdwr y llyfr uchod ydoedd y Parch. John Evans, person Eglwys Gymmun, ger Llanddowror. Yr oedd yn elyn mawr i Mr. G. Jones, a'r diwygiad drwyddo. Y mae ei lyfr yn cynnwys pob cabledau ar y gwr da hwnw, y rhai, os gwir, a'i gwna y dyn gwaethaf yn y byd. Y cyhuddiadau dynt :—

1. 'Y galleid meddwl, wrth ddull G. J. yn rhoi hanes ei gatecisio yn yr Eglwys, rhwng y llithoedd, yn 1738, mai Catecism Eglwys Loegr ydoedd yn ei arferyd, pan mewn gwirionedd mai Catecism Matthew Henry a arferai !*

2. 'Ei fod yn cydnabod fod ŵyn gwerthfawr Crist ym mhlith yr amrywiol sectau !

3. 'Na fu Mr. Jones erioed yn gymmodlawn ag Eglwys Loegr—ei chanonau, homiliau, &c. !

4. 'Mai Mr. Jones oedd yr unig athraw Methodistaidd yng Nghymru am flynyddau !

5. 'Bod yn debygol mai efe oedd yr offeryn mawr, a'r penaf, i sefydlu Methodistaeth yn Lloegr !

6. 'Mai efe a wnaeth Howel Harris yn Fethodist !

7. 'Ei fod yn dysgu fod yr un hawl gan bobl i ddewis eu gweinidogion ag i ddewis eu meddygon !

8. 'Ei fod yn casglu eglwys allan o'r Eglwys, ar egwyddorion yr Annibynwyr a'r Ailfedyddwyr ! [*Anabaptists* yw y gair a ddefnyddir.]

* Yr hwn a gyhoeddassid, ef allai o ddeutu y pryd hyn ; ond gan nad oes amseriad wrtho, y mae wedi ei rodd yn rhif 7, d.f. 1743, gyda nod o ammheuaeth (?). Ymddengys fod Mr. G. Jones, heb ddechreu cyhoeddi ei Gatecism ei hun yn 1738, gan mai yn 1741 y daeth y rhan gyntaf allan.

9. 'Fod ei athrawiaeth o'r areithfa yn Antinomaidd—fod hyny yn gwneyd ei ddilynwyr mor hynod, fel os dywedid wrth ddyeithr fod y dyn y byddai yn myned i ymfasnachu ag ef yn *Jonesiad*, y deallid yn ebrwydd ei fod i gadw gocheliad!

10. 'Bod ganddo fic tuag at yr offeiriaid rheolaidd;—os beient hwy ef am bregethu teithiol, efe a'i galwai hwy yn ddreiliaid dioglyd;—os cyhuddid ef o fod yn annysgedig, efe a haerai nad oedd dim i'w ddysgu yn y prifysgolion ond yfed ac ysmocio!

11. 'Mai yn durnor llestri coed y cafodd ei ddwyn i fyny, a'i fod yn arfer y gwaith hwnw wrth ei bleser pan yn berson Llanddowror.

12. 'Bod y bobl yn ei ddilyn i gyfarfodydd nos, ac mewn canlyniad, fod deunaw cwpl wedi priodi mewn un flwyddyn, o'r rhai a gyrchent i'r cyfarfodydd hyny, ac yn eu plith oll nid oedd ond un heb fod yn feichiog fawr!

13. 'Bod Mr. G. Jones wedi cael personiaeth Llanddowror trwy ddichell amhriodol, yn ystod bywyd yr hen berson, sef Mr. John Jones!

14. 'Ei fod yn dyeithro y bobl oddi wrth eu gweinidogion, nes y byddai offeiriaid a gwardeiniaid pleidiol iddo yn ei gyhoeddi i bregethu yn yr eglwysi ar hyd y wlad; ac os na chai allweddau yr eglwys, neu ffordd i fewn trwy y ffenestr, er gwaethaf yr offeiriaid, yr esgynai i ben un o'r coed yn y fynwent i bregethu; ac y galwai yr offeiriaid rheolaidd yn weision cyflog, cŵn mudion, &c.!

15. 'Mai pan wysiwyd ef ger bron y Parch. D. Howard, capelwr yr Esgob Bull, a changhellwr llys yr esgob, am ei afreolaeth, iddo haeru nad oedd yn myned i blwyf nac eglwys neb heb ei genad; ond nad oedd ganddo namyn myned yn fud, pan ddaeth offeiriaid y cyfryw blwyfau i'w wyneb; ac y mae y rheswm pa ham yr aeth i blwyfau ereill wedi addaw na wnelai, oedd, ei fod wedi addaw o'r blaen fyned, cyn addaw peidio, a'i fod yn ystyried ei hun yn gydwybodol rwym i'r addewid gyntaf!

16. 'Mai dyfais Mr. Jones i lenwi ei eglwys oedd addaw torth geiniog i bob gwr, gwraig, a phlentyn, a'i cyfarfyddai ef unwaith yn y mis, ac a adroddent ryw adnod o'r Ysgrythyr yn yr eglwys, y Sadwrn cyn Sul y Cymmundeb; ac wedi eu cael felly i gymmeryd y cynnygiad cyntaf, y rhoddai ail ammod—fod yn rhaid iddynt ddyfod i'r eglwys y Sabbath hefyd am y dorth geiniog!

17. 'Iddo daenu ar led fod y cythraul wedi marchogaeth yn ei ysgil ryw noswaith dywell, pan, wedi cryn ymddyddan rhwng y ddau elyn â'u gilydd, i'r cythraul gyfaddef nad oedd arno ofn yr un gweinidog yn Eglwys Loegr ond Mr. Jones ei hun!

18. 'Ei fod yn gwneyd casgliadau yn yr Eglwys y Suliau Cymmundeb, heb roi dim cyfrif i'r gwardeiniaid; ac ar yr un pryd yn cyfodi treth ffynyddol i dalu am yr elfenau, a *phocedu* y casgliad iddo ei hun!

19. 'Ei fod yn derbyn tâl am bregethu ar hyd y wlad, tra yr oedd yn cael cynnorthwy i gyflenwi ei Eglwysi ei hun, yn ei absennoldëb,

yn rhad;—ei fod ei hun yn cael hanner coronau yng nghil ei ddwrn gan amryw, ac yn dysgwyl eu cael yn rheolaidd!

20. 'Ei fod yn cyfnewid y Litani, ac yn gadael allan ddarnau cyfain o'r gwasanaeth, er mwyn prynu yr amser i bregethu a gweddio yn hir ei hunan!

21. 'Bod yn rhaid i bwy bynag a brynai Feibl gan Mr. Jones am 4s. brynu hefyd ei Gatecism am 2s.; ac mai trwy y ddyfais hono yr oedd yn gwerthu miloedd o honynt!'

Pallai lle i fyned dros yr holl lyfr hynod hwn; a rhoddwyd cymaint o hono, o blegid na welsom ddarfod i neb o fywgraffwyr Mr. Jones wneyd sylw o'r cyhuddiadau. Ymddengys mai offeiriad o egwyddorion eglwysig uchel oedd yr awdwr; a mynai i'w ddarllenwyr gredu mai chwibgi cyfrwys oedd Mr. Jones—yn offeiriad mewn dichell—yn Iesutiad Ymneillduol yn yr Eglwys—wedi dyfod iddi i gael mantais i'w dinystrio, ac i lesäu Ymneillduaeth yn fwy effeithiol.

Yr unig ysgrifenydd sydd yn cyfeirio at y gwrthwynebiadau hyn i Jones Llanddowror, yw y Parch. E. Evans (y *Prydydd Hir*), yn ei gyflwyniad o'i gyfrolau Pregethau i Syr. W. W. Wynn. Yno, wedi crybwyll am ddiffygion gweinidogion yr Eglwys yng nghyflawniad eu dyledswyddau, efe a ddywed wrth Syr Watkin:—'Yn awr y pwnc yw, Pa beth a ddylai gweinidog ffyddlawn yr efengyl ei wneyd yn y cyfryw amseroedd peryglus? Yr wyf yn eithaf sicr fod rhai gweinidogion cydwybodol yr efengyl wedi dyoddef yn greulawn yn y blynyddau diweddaf dan yr esgobion arglwyddiaethus hyn—y rhai oedd ganddynt fwy o sel dros anrhydedd Duw, a chynnaliad gwir grefydd a rhinwedd, nag oedd ganddynt hwy. Ychydig, rhaid cyfaddef, oedd rhifedi y cyfryw bersonau haelfrydig, ac arferwyd pob dull a modd i'w hanghefnogi a'u digaloni. Os ammheuir yr hyn yr wyf yn ei haeru yma, mi a appeliaf at ysgrifeniadau y diweddar dduwiol a gwir barchedig Mr. Griffith Jones, o Landdowror, yr hwn a ddyoddefodd holl fustleiddiwch offeiriad llwgr-wobrwyol, yr hwn a gyflogwyd gan yr esgobion i'w faeddu, er ei fod ef, trwy neillduol ras Duw, heb frycheuyn na chrychni, ond yr hyn a welai malais a gwallgofrwydd yn dda ei dafu arno.' Goroedd Mr. Jones ei holl wrthwynebiadau; ac y mae ei waith a'i goffadwriaeth mewn bri gan Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, tra y mae gwaith ac enw ei wrthwynebwr 'wedi ei golli fel ei dom.'

9. 'Esponiad byr ar Gatecism yr Eglwys. Sef, Holiadau ac Attebion Ysgrhythurol ynghylch Egwyddorion a dyledswyddau 'r Grefydd Gris'nogol. Yn Bum Rhan.

Llundain: Argraphwyd gan Ioan Olfir, ym Martholomy Clôs, ger llaw Smithfield Gorllewinol. 1752.'

[Gweler rhif 10, d.f. 1753, am iawn amseriad 'Undeb mewn Gwlad,' a osodwyd yma gan yr awdwr.]

10. 'Drych y Dyn Maleisus, neu Bregeth yn dangos yspryd chwerw ffyrnig y dyn maleisus yn y Byd hwn, a'i gyflwr gwael

truenus dan Feddiant Satan yn y byd arall. O Waith T. Evans Vicar Llangammarch.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston.'

11. 'Llyfr Caniadau.

Mwythig. 1752.'

12. 'Pregeth ynghylch Rhodio gyda Duw. O Waith y Parchedig Mr. George Whitfield. A.B. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg er Bûdd i'r Cymru.

Argraphwyd ym Mristo, gan Ffelics Ffarley, 1752.'

13. ¶ 'Collection of Welsh Travels and Memoirs of Wales.'

Nid oes amseriad iddo, a chyfansoddiad dychymmygol ydyw.*

14. 'Yr Angenrheidrwydd o ddyfod i'r Eglwys, ac iawn gyflawniad o'r addoliad sanctaidd yno. Gwedi ei ddangos a'i ddodi ar ddull ymddyddanion, neu ymresymiaidau Cyfeillgar, a 'Sgrifenwyd, ac a fwriadwyd er mŵyn y rhai sydd absennol o'r Eglwys; Etto yn parhâu ac yn sefyll ynghymmundeb Eglwys Loegr. Gân wir Aelod o'r unrhyw; ac a gyfieithwyd er hyfforddiad a Llessâd pôb Cristion. Gan L. Owen, Person Llan Eugrad yn sir Fôn; at yr hyn y chwanegwyd Pregeth yn dangos y ffurf a'r drefn weddus, ardderchogrwydd, a Llesioldeb y Llyfr Gweddi Gyffredin.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston. 1752.'

Yr oedd Mr. Owen wedi cael personiaeth Llan Eugrad, Gorph. 24, 1739.†

15. 'Genuine Account of the Life and Transactions of Howell ap David Price, Gentleman, of Wales, exhibiting a Series of the most remarkable Occurrences during his Seven Years Travels Abroad, five of which were spent with a Lady he had released from Slavery. With further particulars since his return with her to England. Written by Himself.

London Printed for T. Osborn in Grays Inn. MDCCLII.'

16. 'An Account of the Convincement, Exercises, Services, and Travels of that Ancient Servant of the Lord, Richard Davies, with some Relations of Ancient Friends, and the Spreading of the Truth in North Wales, &c. The Second Edition.‡

* J. R. Smith's *Old Book Circular*.

† Rowlands's *Mona Antiqua*.

‡ Gwel rhif 3, d.f. 1705.

London: Printed. Philadelphia: Reprinted, and sold by James Chattin, the next door to the Church Alley, M,DCCLII.'

1753.

1. 'A Plan of the Waste or Common and adjoining Freehold in the upper parcel in the parish of Gwnws, in the Manour of Mevenith, in the County of Cardigan, with the Mines of Esgair y Mwyn, situate on the said Waste or Common, taken by virtue of an Order of the Court of Exchequer, dated the 11th day of July; 1753, by Edward John Eyre, Surveyor.'

2. 'Salmau Dafydd: Wedi eu cyfansoddi yn ol jaith y Testament Newydd. Ac wedi eu cymhwyso i Stad ac Addoliad Cris'nogol. Yn Saesnaeg gan I. Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r Pumthegfed Argraphiad. Gan D. Jones, o Gayo.

Llundain: Argraphwyd gan Ioan Olifer, yn Martholomew-Close, ger llaw Smithfield Gorllewinol. M.DCC.LIII.'

Rhyw lyfryn fel plygiad 24 ydyw. Y mae y xxxii tudalen blaenaf yn cael eu rhifo ar wahan oddi wrth gorff y llyfr, ac yn cynnwys 3½ tudalen o ragymadrodd y cyfieithydd, yn cynnwys annogaeth yr awdwr i ganu mawl, a rhesymau am gyfieithu y gwaith. Yn gyssylltiol hefyd y mae cymmeradwyaeth i'r gwaith gan y Parch. Philip Pugh, yr hwn oedd weinidog Ymneillduol cynmulleidfaoedd yn y rhan uchaf o sir Aberteifi, ger Llangeitho, yn yr oes hòno, olynwr yr hwn oedd Thomas Grey o Abermeurig, dan weinidogaeth yr hwn yr aeth y rhan fwyaf o honynt hwy a'u gweinidog at y Methodistiaid Calфинаidd, ac felly y maent hyd heddyw.* Y mae hefyd 'Rai Cyfarwyddiadau i'r Darllenydd,' gan y Dr. Watts; a chymmeradwyaeth rhyw 'Rhys Efan, Argraffydd,' yr hwn, mae yn debyg, ydoedd Gymro yn swyddfa yr argraffydd Seisonig yn Llundain.

DAVID JONES a anwyd yn 1711, mewn lle o'r enw Cwm Gogerddan, ym mhlwyf Caio, yn sir Gaerfyrddin; a bu yn byw wedi hynny yn Hafod Daflog, ym mhlwyf Llanwrda [yn agos i Lanymddyfri], yn yr un sir, lle yr oedd yn trin amaethyddiaeth, ac yn ymfasnachu mewn anifeiliaid. Ei brif waith yw ei gyfieithiad o'r Salmau [a Hymnau Watts]. O ran ei dybiau crefyddol, yr oedd yn Ymneilldŵr, ac yn aelod o gymdeithas neu eglwys Annibynol. Bu farw Awst 30, 1777, yn 66 oed, a chladdwyd ef wrth Gapel Crug y Bar.†

3. 'Hanes am Ddychrynlyd gyflwr Ffrancis Spira. Gwedi ei gyfieithu i'r Gymraeg er Llês i'r Cymru.

Argraphwyd ym Mristo, gan F. Farley, yn y flwyddyn MDCCLIII. [Pris Tair Ceiniog].'

4. 'Cydymaith yr Allor. Yn dangos Natur ac Angenrheidrwydd Ymbaratoad i'r Sacrament, &c.

* *Llythyr y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.*


† *Williams's Eminent Welshmen; Adolygydd, 1852, t. 472.*

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston. 1753. Prîs 6d.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad o leiaf, a'r cyfieithydd ydoedd Mr. Moses Williams.*

5. 'Llyfr Gweddî Gyffredin, &c.

Argraphedig yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Thomas Durston, Gwerthwr Llyfrau. 1753.'

6. 'Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus : Being a British, or Welsh-English Dictionary : Containing Some Thousands of British Words more than any Welsh Dictionary hitherto published. All the Authorities or Examples which the learned Dr. Davies gives, in his British-Latin Dictionary, from ancient Poets, Historians, &c. are inserted in This, as they are accurate Proofs of the Significations assign'd to those Words ; and the Words which are added, are often exemplified in the same Manner. And to make this Work more compleat, besides the Explications and Etymologies of Words, many valuable British Antiquities are interspersed through all the Parts of it. To which is prefix'd a Compendious Welsh Grammar, with all the Rules in English.  Besides the Author's Collections from his own Reading and Observations, and what is contain'd in Dr. Davies's British-Latin Dictionary, This Work hath been greatly Improved out of Mr. Edward Lhwyd's *Archæologia Britannica*, Dr. Wotton's *Glossary*, &c.—And there is likewise added, A Large Collection of British Proverbs. By Thomas Richards, Curate of Coychurch.

Bristol : Printed and sold by Felix Farley, in Small Street. Sold also in London, by Messrs. Knapton, Innys, Hilch, Davies, Clarke, Owen, &c. By R. Raikes in Gloucester, W. Williams, Bookseller, in Monmouth, and by all the Booksellers of the Principality of Wales. MDCCLIII.† [Price 6s.] [8vo.]

THOMAS RICHARDS ydoedd enedigol o sir Forganwg ; a bu yn gwasanaethu curadiaethau plwyfau Llangrallo‡ a'r Coetty, yn y sir hònò

* Gwel rhif 3, d.f. 1715.

† [Y mae rhai o'r adluniau wedi eu hamseru 1759 ; ac y mae un o'r cyfryw yn awr ar fy mwrdd ; ond nid argraffiad newydd mo hono, namyn yr argraffiad cyntaf gyda gwneblen newydd, yn amrywio rhyw ychydig bach oddi wrth yr un a roddir uchod. Ni elwir mo hono yn ail argraffiad. Yr argraffiad cyntaf ar ol un 1753, sef yr ail argraffiad gwirioneddol, ydyw yr un a ymddangosodd o wasg Trefriw yn 1815, 8plyg, gyda rhai chwanegion, ac yn eu plith 'Rheolau Barddoniaeth Gymraeg.' Daeth yn trydydd argraffiad allan yn Nolgellau ychydig ar ol hyny ; a'r pedwerydd, megys y mynegir uchod, ym Merthyr Tydfil. Gweler rhif 25, d.f. 1759.]

‡ [*Coychurch* (ar y ddalen enwol) yw yr enw Seisonig am *Langrallo*, yr hwn sy blwyf nid neppell o Ben y Bont ar Ogwyr.]

am 40 mlynedd. Yr oedd hefyd yn aelod gohebol o Gymdeithas y Cymmrodorion, Llundain; a'r hon, yn yr oes hòno, yr oedd agos holl lenorion a charwyr llenyddiaeth Gymreig yn gyssylltedig â hi.* Bu yn briod ddwy waith, a bu iddo ddau o blant. Bu mab iddo fyw i wth o oedran, ond yn orphwyllog. Bu farw Mawrth, 20, 1790, yn 80 oed.† Ymddengys y cyhoeddwyd pedwar argraffiad o'r gwaith hwn, a'r pedwerydd yn 1838, ym Merthyr Tydfil, a dywedir ei fod wedi ei helaethu yn fawr.

7. 'Hosanna i Fab Dafydd, neu Gasgliad o Hymnau, o waith William Williams. Yr Ail Ran.‡

Argraphwyd yn Mristo, gan E. Farley, yn y Flwyddyn 1753.'

Y mae yr hysbysiad canlynol ar gefn y rhagddalen:—'Yr wyf yn meddwl printio Llyfr bychan oddeutu'r un Faintioli a Hwn, a'i Enw "Buddugoliaeth yr Efengyl," yn un Gan, yn cynnwys wedi tri chant o Wersi. W. W.' Ni ddarfu i Mr. Williams fyth gyflawni y bwriad hwn o'i eiddo; ac yr ydys yn tueddu i gredu mai yr hyn a drodd allan yn 'Olwg ar Deyrnas Crist' mewn cychwyniad ydoedd y Gân hon.

8. 'Welch Piety: or, A Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1752, to Michaelmas 1753, &c.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCCLIII.'

9. 'Tour through Great Britain. 2 Vols.

London, Printed. 1753.'§

10. ['Undeb mewn Gwlad, neu Bregeth ynghylch y Newidiad diweddar a wnaed yn y Flwyddyn, yn eglurhau'r Peth ac yn dangos y Rhesymmau am hynny, tu ag at ddwyn Pobl i iawn farnu yn y Matter ymma; ac i gadw Dydd Nadolig a Gwyliau eraill, ar yr Amserau y maent yn awr wedi eu happwyntio i'w cadw. Ac ynghylch yr Amser y mae cadw Gwyl Cyssegriad Eglwysydd, yr hon a elwir yn gyffredin Gwyl Mabsant. A osodwyd allan yn Gymraeg, gan Josua Thomas, Offeiriad yr Eglwys Newydd yn Nhir Abad.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston. 1753.' 12plyg: 24 tudalen.]

JOSUA THOMAS ydoedd enedigol o Penpes, ym mhlwyf Llanlleonfel, yn sir Frycheiniog. Cafodd guradiaeth Tir Abad yn 1739, ac ym-

* Gwel *Rhestr o Gymdeithas y Cymmrodorion*, am 1759, 1762.

† Ei Feddargraff ym Mynwent Llangrallo; a *Llythyr* y Parch. J. Evans, Curad Coetty.

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1751.

§ Warrington's *History of South Wales*, second edition, note. pp. 451-2.

ddengys ei fod yn gwasanaethu ei blwyf genedigol hefyd, a bu yn eu gwasanaethu hyd 1751 o leiaf.*

[Yr oedd Mr. Thomas hefyd yn ficar Llanbister a Merthyr Cynog, fel y gwelir wrth gymharu rhif 6, d.f. 1752; canys diau mai yr *un* oedd awdwr y bregeth hon â chyfieithydd y 'Fuchedd Gris'nogol.' Ni wyddai yr awdwr pa flwyddyn yr argraffwyd y 'Bregeth' hon, ac am hyny cyfleodd hi dan y flwyddyn 1752: ond nid oes dadl nad yn y flwyddyn hon yr ymddangosodd.]

1754.

1. 'Mer Difeinyddiaeth Iachus, Mewn Ffordd o Ymddiddan. A gyfieithwyd gynt o'r Saes'neg, ac ynawr wedi ei ddiwygio o aneirif o o Feiau ac oedd yn yr Argraphiad cyntaf.

Argraphwyd ym Mristo, gan E. Farley, yn y Flwyddyn 1754.'

Argraffiad newydd a chyfieithiad diwygiedig o 'Fadruddyn y Difynyddiaeth diweddaraf,' yr hwn bedd hen gyfieithiad o 'Marrow of Modern Divinity' gan 'Edward Fisher.'† Y cyhoeddydd a diwygiwr y cyfieithiad ydoedd un Morgan Jones,‡ yr hwn oedd weinidog yr Ymneillduwyr yng Nghewn Arthan, o leiaf hyd y fl. 1774; canys derbyniodd gynnorthwy y flwyddyn hono o'r Drysorfa Bresbyter-aidd.§

2. 'Llaw Lyfr yw Ddarllen i'r Cleifion, gyda Myfyrdodau peraidd a gweddiau i'w harfer yn amser Clefyd, o waith yr Esgob Andrews. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Edward Roberts, Ciwrat ynghappel St. Garmon, yn Sir Ddinbech, yn y flwyddyn o oedran Crist 1671. Angenrhaid i fôd gan bôb Teulu.

A brintwyd yn awr, Tros Cadwalader Davies, o blwy Gwyddelwern, yn Sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1754.'

Ymddengys i'r llyfryn bychan hwn fod 83 o flynyddoedd mewn llawysgrif, cyn ei argraffu. 16 o dudalenau 18plyg yw ei faint, ac nid oes enw argraffydd wrtho.

3. 'Gwirionedd y Grefydd Grist'nogol: a dull y Farn Fawr. Mewn tair Pregeth o waith diweddar Barchedig Mr. Richard Rees, Gweinidog yr Efenigyl yng Nghwm y Glo.

Bristol: Argraphwyd gan S. Farley, yn y Flwyddyn MDCCLIV.' [12plyg.]

RICHARD REES (neu RICE) oedd enedigol o'r Gwernllwyn Uchaf, ym mhlwyf Merthyr Tydfil, yn sir Forganwg, lle y saif yn awr ran o

* Jones's *Breconshire*.

† Gwel rhif 1, d.f. 1651.

‡ [Ceir yn y dechreu lythyr 'At y Darlennydd' wedi ei arwyddo 'Morgan Jones Mai 22, 1754,' oddi wrth ba un yr ymddengys fod hwn wedi ei gymharu â'r nawfed argraffiad Seisoneg a'i fawr ddiwygio.]

§ *Ysgrifau* yn Llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain.

dref a gweithiau haiarn Dowlais. Efe ydoedd perchenog y lle hwn, yng nghyd ag amryw leoedd ereill yn y gymmydogaeth. Efe a ymunodd yn ieuanc â chynulleidfa o Ymneillduwyr neu Bresbyteriaid yn y gymmydogaeth, a gyfarfyddent i addoli mewn capel bychan yng Nghwm y Glo, yr hwn sydd le yn ymyl y fan y mae y ffordd haiarn o Ferthyr i Gwm Nedd yn cymmeryd y mynydd, a'r hwn oedd addoldy cyntaf yr Ymneillduwyr, a'r ammod-rwym a gawsant gan y Cadben David Jenkins, o Hensol. O'r cwch hwnw yr heidiodd holl hen Ymneillduwyr y wlad hòno, yr rhai a adwaenir yn awr wrth yr enw Undodiaid, ac ereill a ystyrir yn unionged. Yn amser y gwr hwn yr ymrwygodd y gynulleidfa, ac yr adeiladwyd capel Ariaidd ac Undodaidd Cefn Coed y Cymmer ac Aberdar. Dywedir mai Arminiad ydoedd. Bu farw yn 1749.* Cyhoeddwyd y pregethau hyn wedi marwolaeth eu hawdwr, gan Mr. Philip Charles, ei olynnydd yn y weinidogaeth.† Efe a ordeiniwyd yn 1738, wedi cael ei ddysgeidiaeth dan Mr. Perrot, yng Nghaerfyrddin; ac fel y rhan fwyaf o efrydwyr y gwr hwnw, troes allan yn Arminiad neu Ariad.

4. ¶ 'Difyrwch y Pererinion, o Fawl i'r Oen, yn cynnwys Hymnau ar amryw Destunau o'r ysgrythyr lân.'

Yr awdwr oedd Mr. David Jones, o Gaio, cyfieithydd Salmau Watts.‡

5. 'Llythyr Difrifol at Bechadur, ynghylch Cyflwr ei Enaid. A gyfieithwyd i'r Gymraeg er Budd i'r Cymru.

Argraphedig ym Mristo, gan E. Farley, yn y flwyddyn 1754.'

6. 'Hosanna i Fab Dafydd, neu Gasgliad o Hymnau. O Waith W. Williams.

Argraphedig ym Mristo gan E. Farley, yn y Flwyddyn 1754.'

['Tebygol mai trydedd ran o'r Hymnau dan yr enw 'Hosanna i Fab Dafydd,' ydoedd yr un a nodir yma. Cyhoeddiasid y rhan gyntaf yn 1751, a'r ail yn 1753, fel y gwelir dan y blynyddoedd hyn. Gan nad oes yr un llyfr dan yr enw hwn yn yr argraffiad o holl Emynau yr awdwr yn 1811, yr ydys yn tybied mai yr hymnau a elwir. 'Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c., i Frenin y Saint,' oedd y rhai hyn, a darfod argraffu y tair rhan yng nghyd, gyda chwanegiadau, dan yr enw diweddaf. Cynnwysai y tair rhan o'r 'Hosanna,' &c., yr hymnau o 243 hyd 329 o'r argraffiadau presennol. §]

7. ¶ 'Life of Dr. Francis Mansell, Principal of Jesus College, Oxon. By Sir Leonel Jenkins.'

1755.

1. 'Prif Addysc y Cristion. Y rhan Gyntaf, sy'n cynnwys, i. Cyngor Difrifol i Rien i faethu eu Plant yn ofn ac Addysg yr Arglwydd

* *Y Beirniad*, 1862, t. 245-6.

† *Y Beirniad*, 1862, t. 246.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1753.

§ *Llythyr* Mr. Morris Davies.

II. Ysponiad Byrr ar y Catechism. III. Ychwaneg o Eglurad ynghylch Sacrament y Bedydd. IV. Addysc ferr ynghylch Conffirmasiwn, neu Fedydd Esgob. V. Eglurhad Sacrament Swpper yr Arglwydd, &c. Yr ail ran, sydd yn cynnwys, I. Annogaethu difrifol I Gadw yn sanctaidd a chrefyddol Ddydd yr Arglwydd. II. I fynŷch Gymuno. III. I ymddwyn gyda pharchedig ofn'n Nhŷ Dduw, sef yr Eglwys. IV. I arfer Enw Duw gŷda pharch yn ein hymddiddanion cyffredin. V. Cyngor yn erbyn y Pechod o feddwod. VI. Yn erbyn dywedyd celwydd. VII. I ymarfer y mawr Ddledswydd o weddio mewn Teuluoedd, mewn dull o amryw Lythyrau oddiwrth Weinidog Eglwys Loegr at êi Blwyfolion. O gyfieithiad Edward Wynne, Curad Llanaber.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Cotton, a J. Eddowes. M.DCC.LV. [8plyg.]

Awdwr hwn oedd drydydd mab i Elis Wynn, ac y mae yn ei ddiwedd—'Hymnau a Charolau, o waith Mr. Elis Wynne, o Lâs-ynŷs.'

[Gwaith Elis Wynn hefyd yw yr 'Esponiad byrr ar y Catechism,' t. 16—43.]

2. 'Welch Piety: or, A Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1754, to Michaelmas 1755. To which are annexed Testimonials Relating to the Masters and Scholars of the said School. In a Letter to a Friend.

London: Printed By J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCLV.'

3. 'Catechism Byrr a Buddiol. Wedi ei gymmeryd (gan mwyaf) o'r Saesoneg.

Argraphwyd ym Mristo, gan E. Farley, yn y Flwyddyn 1755. 25 tudalen 12plyg.

4. 'Gwasanaeth Cyhoedd Eglwys Loegr; Wedi ei addurno â lly o Ddarluniadau Newydd Ystoriawl: A Ddychymygyd gan S. Wale; ac a Dorrwyd ar Efydd, gan Ravenet, Grignon, Scotin, Canot, Walker, a Ryland.

Llundain: A Fwriadwyd gan Risiart Morys, LL.C.C. Ac i'w cael ganddo ef, yn y lle a elwir y Navy Office 1755.'

Er bod y parotoad hwn wedi ei wneyd y flwyddyn hon, buwyd wrthi am bymtheg mlynedd cyn i'r Llyfr Gweddi hwn gael ei gyhoeddi, yn cynnwys yr holl bethau a gyhoeddid gynt gyda'r Llyfr Gweddi cyflawnaf,* ac yr oedd yn werth dau gini, wedi ei rwymo yn hardd.†

5. ¶ 'Marwnad er Coffadwriaeth am y Parch. Griffith Jones. Gan B. Francis.'

* Gwel rhif 12, 29, a 34, d.f. 1770.

† *Catalogue of Books* in vol. ii. of *Cambrian Register*.

Y Griffith Jones hwn oedd wr a anwyd yn yr Allt Fawr, ym mhlwyf Llannon, yn sir Gaerfyrddin, ac a fu yn weinidog i'r Bedyddwyr ym Mhen y Fai a Hengoed; ond a symmudodd i America, lle y bu farw yn 1754, yn 59 oed.*

6. 'Proposals for Enriching the Principality of Wales. By Giraldus Cambrensis. 1755.'

[Y mae Gwallter Mechain, yn ei gyfrolau Seisonig ar Amaethyddiaeth Cymru, yn mynych ddyfynu y gwaith hwn, ac yn llefaru yn uchel am dano.]

7. 'Gosodedigaethau Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain. Dechreuedig ym mis Medi, 1751. A ail drefnwyd, a Guttunwyd arnynt yn unfryd, ac a Sicrhawyd, gan yr Anrhydeddus y Penllywydd, a'r holl Swyddogion eraill, gyda'r rhan fwyaf o'r Cyfeillion, mewn llawn Gynnulleidfa, yn eu Cyfarfod misawl, yn Nhafarn Carreg-Lundain yn Cannon-street, Ebrill. 4. 1753, ac hefyd yn Nhafarn yr Hanner-Lleuad yn Cheapside, Mai 7. 1755.

Ich Dien

Undeb a Brawdgarwch

Llundain: Printiedig i Wasanaeth y Gymdeithas, gan John Oliver yn Bartholomew-Close. MDCCLV. [Pris Swllt.]'

Y mae hefyd ragddalen Seisonig fel hyn:—

'Constitutions of the Honourable Society of Cymmrodorion in London. Begun in the Month of September, 1751. Revised, unanimously Agreed upon, and Confirmed, by the Honourable the Chief President, and all the other Officers, and Majority of Members, in full Assembly, at their general Monthly Meeting, at the London Stone Tavern in Cannon-street, April 4, 1753, and also at the Half-Moon Tavern in Cheapside, May 7, 1753.

Ich Dien

Undeb a Brawdgarwch

London: Printed for the use of the Society, by John Oliver in Bartholomew-Close. MDCCLV. [Price One Shilling.]'

Llyfryn 4plyg o 52 tudalen yw yr uchod, gyda Chymraeg ar un tu a Seisonaeg ar y tu arall, hyd t. 14. O t. 15 hyd 26 Seisonaeg: t. 27 Cymraeg: t. 28 hyd 37 Cymraeg a Seisonaeg, fel yn y dechreu: t. 28 hyd 40 Cymraeg. Y gweddill a gynnwys enwau yr Aelodau.†

[8. 'Gweledigaethu y Bardd Cwsc. Y Rhann Gyntaf.

Hwn ydyw yr ail argraffiad o'r 'Bardd Cwsg' (rhif 6, d.f. 1703). Cam-syniodd yr awdwr yn gryn bell wrth ei osod d.f. 1720; a gellir barnu nas gwelodd ef gyfargraff cyfan o hono; canys, megys y canfyddir, y mae y flwyddyn ar ei ddalen enwol. Gweler yr 'Hysbysiad' o flaen argraffiad Caerfyrddin, 1865; a chymharer rhif 24, d.f. 1759.]

* Thomas, *Hanes y Bedyddwyr*, t. 206.

† Llallawg.

Argraphwyd yn Mwythig gan Thomas Durston, 1755.' 16plyg.

1756.

1. 'Rhesymmau Protestant, Pa ham na fyddai yn Babist, mewn ffordd o Gwestiwn ac Atteb. Gwedi ei gyfieithu o'r seithfed Argraphiad ar hugain yn Saesoneg, er Budd i'r Cymru.

Argraphedig ym Mristo gan E. Ffarley, yn y flwyddyn 1756.'

2. 'A Treatise on the Medicinal Waters of Llandrindod, in Radnorshire, South Wales; with some remarks on Mineral and Fossil Mixtures, in their native Veins and Beds; at least as far as respects their influence on Waters. By Diederick Wessel Linden, M.D.

London: Printed by J. Everingham and T. Reynolds, for the Author. And Sold by W. Owen, at Homer's Head, Temple Bar. 1756.' [8vo.]

[Dyn pur nwythig ydoedd awdwyr y traethawd hwn, a fferyll yn ol urdd y Rhosgroesogion; a gorchwyl anhawdd yn fynych yw dyfalu beth yw ei feddwl gyda golwg ar rinweddau iachaol y dyfroedd y mae yn ysgrifenu yn eu cylch. Cyhoeddodd lyfr arall ar ddyfroedd Llanybi, yn Eifionydd, yr hwn a gofnodir d.f. 1767, rhif 19.]

3. 'Hyfforddiadau Eglur i'r jeuaingc a'r Anwybodus; yn cynnwys Eglurhâd hawdd a chryno o Gatecism yr Eglwys; wedi ei Gymhwyso i ddeall a choffadwriaeth y Rhieni o'r synwyr salaf: Gan Esgob Synge. Ac wedi ei gyfieithu o'r seithfed Argraphiad. Gan L. Anwyl, Vicar Abergele.

Mwythig: Argraphwyd gan T. Durston.'

4. ¶ 'Y Sacrament a'r Aberth Cristionogol.'

Ef allai mai nid yma y dylai hwn fod, nid oes rhagddalen i'r un sydd ym meddiant yr ysgrifenydd. Deallwn wrth y rhagymadrodd mai gwaith Daniel Brevint, D.D., ydyw. Rhydd y Parch. John Wesley ganmoliaeth uchel i'r gwaith bychan hwn.

[Y mae y llyfr hwn wedi ei ragamseru bedair blynedd. Yr un ydyw â rhif 16, d.f. 1760, lle y gwelir ei enw yn gyflawn.]

5. ¶ 'Cyfoeth i'r Cymru, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thos. Durston.'

Ymddengys y rhaid i hwn fod y pedwerydd argraffiad o'r llyfr efengylaidd uchod.*

6. Welch Piety: or, A Further Account of the Welch Charity Schools, From Michaelmas 1755, to Michaelmas 1756. To which are annexed, Testimonials relating to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCCLVI.'

* Gwel rhif 4, d.f. 1688; rhif 3, d.f. 1706; rhif 9, d.f. 1714; a hwn yma.

7. 'Golwg ar Deyrnas Crist, Neu, Grist yn bob Peth, ac ymhob Peth, &c. O Waith W. Williams.

Argraphedig ym Mristo gan E. Farley, yn y flwyddyn 1756.'

Gwelsom o'r blaen* fod Mr. Williams yn bwriadu cyhoeddi llyfr o'r enw 'Buddugoliaeth yr Efengyl, yn un gân yn cynnwys wedi tri chant o wersi.' Nid oes ammheuaeth mai y gân hono wedi ei helaethu yw y gwaith hwn, a'i gyhoeddi o dan enw arall a gwell.

8. 'Testament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist.

Argraphwyd yn y flwyddyn MDCCLVI.'

Nid oes enw argraffydd, ond y mae hysbysiad tu fewn i'r clawr, am swyddfa 'J. Eddowes, Gwerthwr Llyfrau, ac Argraffydd, yn yr Heol a elwir High Street, yn y Mwythig.' Nid oes gynnwysiad yn blaenori y pennodau ynddo.

9. 'Cynhwysiad byr o Feddyliau'r Eglwys a ymgorpholodd dan y drefn hon, yn Sir Fonwy. Pa un sy'n ymgysfurfod yn bennaf, yn y Neuadd, yn y Pant-têg, ger llaw Pont-y-pool: yn agos i'r modd y Proffeswyd hwynt ar Ddydd ein Hordeinassiwn, sef Dydd llun y Sulgwyn, 1756.

Argraphwyd yn y Bala gan John Rowlands.'

Y mae yn amlwg mai nid amseriad argraffu y llyfryn hwn yw yr uchod, gan nad oedd John Rowlands yn argraffu yn y Bala hyd flynyddau ar ol hyn; ac mai amseriad 'Ein Hordeinassiwn' ydyw, neu gorfforiad yr Eglwys, neu y gynnulleidfa ymneillduedig yn y Pant Teg.

10. ¶ 'Myfyrdodau ar y Pedwar peth Diweddaf Sef Angeu, Barn, Nêf, ac Uffern. Gan y Parchedig Mr. John Morgan, M.A., Periglor Matchin, yn Essex. Y Trydydd Argraffiad.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Thomas Durston, Tros William Hughes.'

Dichon fod hwn yn bedwerydd argraffiad.† Yr oedd Mr. Morgan wedi bod yn gwasanaethu curadiaeth Llanfyllin, ac fel arwydd o barch, y mae yr argraffiad hwn wedi ei gyflwyno i drigolion plwyf Llanfyllin.

11. ¶ 'A Short History of the Crown Manor of Creuthyn, in the County of Cardigan, South Wales. By Lewis Morris. 1751.'

Y mae iddo gyflwyniad 'humbly presented to the Right Hon.

* Gwel rhif 5, d.f. 1753.

† Gwel rhif 1, d.f. 1707; rhif 3, d.f. 1714; rhif 5, d.f. 1745; a hwn yma.

Arthur Herbert, Earl of Powis, by L. M. Dec. 1756,' yr hyn a ddengys iddo fod bum mlynedd heb ei argraffu ar ol ei ysgrifenu.

12. 'Ffurf Gweddi, I'w harfer ym mhob Eglwys a Chapel o fewn y Rhann honno o Brydain Fawr a elwir Lloegr, Tywysogaeth Cymru, a Thref Berwic ar Twid, ar Ddydd Gwener y Chweched o Chwefror nesaf; yr hwn a ordeiniwyd trwy Broclamasuwn i fod yn ddydd Ymryd a Darostyngiad Cyffredinol: I ymbil am Fendith oddi wrth yr Hollalluog Dduw ar Lyngesau a Byddinoedd Ei Fawrhydi yn y cyflwr presennol hwn o Negeseuon Cyffredin; ac hefyd i ymostwng ein hunain ger ei fron Ef, mewn dwys ystyriaeth o'i ddiweddar Gofwyad gan Ddaeargryn ddychrynlyd ac Estynedig, a deimlwyd yn neillduol mewn rhai gwledydd cymmydogol y sydd yn heddychol a chariadus a ni, ac mewn radd fechan gennym ein hunain hefyd: ac yn ganlynol er cael Maddeuant o'n Pechodau gwaeddfawr ni, i droi ymaith ei Farnedigaethau, ac er Parhaad o'i Drugaredd Ef, yn Nodded y Grefydd Brotestanaidd a'n Breiniau ni, yn Ffynniant ein Gwlad ac er Llesaad y Brenhin a'r Frenhinol Deulu. Trwy Orchymyn hyspysol ei Fawrhydi.

Llundain: Argraphwyd gan Tomas Bascett Argraphydd i Ardderchoccaf Fawrhydi'r Brenhin; a chan Wrthrychiaid Rhobert Bascett. 1756.'

4plyg bychan ydyw, ac yn y llythyren ddu. Cynnwysa drefn y gwasanaeth boreuol, a gwasanaeth y cymmun, ac o ddeutu 16 tudalen.*

13. 'Description of the Great Roads and cross Roads of England and Wales. 1756.'

1757.

1. 'Tystiolaeth y Credadyn am ei hawl i'r Nefoedd, neu, Gynnig byr tuag at Gysur Cristnogol, Neu lawenydd ysprydol. Ymha un y dichon y Cristion wneuthur ei hawl i'r Etifeddiaeth Nefol, &c. A gyfieithwyd gan Josuah Thomas.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan E. Powell, yn y flwyddyn 1757.'

Yr oedd y llyfr yn Seisonaeg wedi ei gyhoeddi yn 1743; ond heb enw awdwr nac argraffydd iddo, ac yr oedd hwnw y trydydd argraffiad, gyda chwanegiad.

JOSUAH THOMAS ydoedd fab i Thomas Morgan Thomas, amaethwr, ac a anwyd yn y Ty Hen, ym mhlwyf Caio, yn sir Gaerfyrddin, Chwefror 22, 1718. Efe a rwymwyd yn egwyddorwas i fasnachwr yn Henffordd. Efe a briododd foneddiges yn Llanllieni, yr hon

* *Llythyr* y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.

ydoedd yn un o'r Bedyddwyr; ac yntau a ymunodd â'r un gynnull-eidfa, ac a drochwyd yn 1740, pan yn 22 oed. Bu farw ei wraig gyntaf, a phriododd eilwaith, pryd y sefydlodd yn y Gelli, yn sir Frycheiniog, ac yr ymunodd â chynulleidfa Maes y Berllan. Yno y dechreuodd bregethu, yn 1749, pan yn 31 oed; ac ordeiniwyd ef yn gynnorthwywr i'r hen weinidog. Yn 1754, pan yn 36 oed, efe a gafodd ac a dderbyniodd wahoddiad i gymmeryd gofal y gynnull-eidfa o Fedyddwyr yn Llanllieni. Gwelir iddo gyhoeddi y llyfryn hwn ym mhen rhyw dair blynedd ar ol ymsefydlu yno; ond ei brif waith yw 'Hanes y Bedyddwyr ym mhllith y Cymry.' Gadawodd hefyd lawer o ysgrifeniadau ychwanegol, o'r un natur, y rhai sydd yn cael eu cadw yn Llyfrfa Coleg y Bedyddwyr yn Bristol. Bu farw yn Llanllieni, yn sir Henffordd, Awst 25, 1797, yn 79 oed.*

2. 'Y Garreg Wen. Pregeth ar 2 Pedr i. 10. Gan Timothy Thomas.'

TIMOTHY THOMAS, brawd ydoedd i'r Josuah Thomas uchod, ac a anwyd yn 1720, ac felly yn rhyw ddwyflwydd yn ieuangach na'i frawd. Daeth yntau yn bregethwr gyda'r Bedyddwyr, ac ymsefydlodd fel gweinidog yn Aberduar, ym mhlwyf Llan y Byddar, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn awdwr amryw draethodau, a bu farw Tachwedd 12, 1768, yn 48 oed.†

3. 'Welch Piety: Or, A Further Account of the Circulating Welsh Charity Schools, From Michaelmas 1756, to Michaelmas 1757. To which are annexed, Testimonials Relating to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCLVII.'

4. ¶ 'Y Gwir Ddoethineb, Neu, Bregeth, &c. Gan Theophilus Evans, P. Llanddulas Abercressin, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Thos. Durston.'

5. 'Gwersi i Blant a Dynion jeuainge, Mewn Dau Gatecism. I. Catecism Athrawiaethol yn fyrr, mewn Chwech o Wersi. II. Catecism Athrawiaethol ac Ymarferol, yn gryn helaeth, mewn Chwech o Rannau. Gyda Rhagymadrodd yn dangos yr Angenrheidrwydd o Grefyddol Addysg. Gan Samuel Bourn. Wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg, o'r Ail Argraphjad yn Saesonaeg gan Edward Evan.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Evan Powel yn M,DCC,LVII.'

S. BOURN a anwyd yn Derby, yn 1648. Cafodd ei addysg yng Nghaergrawnt. Ymunodd â'r Presbyteriaid, ac ymsefydlodd yn Caln, yn sir Wilts, yn 1679. Yn 1695, efe a symmudodd i Bolton, ac

* *Seren Gomer*, 1825; *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones.

† Williams's *Eminent Welshmen*; a *Seren Gomer* am Ionawr a Chwefror, 1823.

wedi hyny i Turly, ger Wigan, yn sir Lancaster. Bu farw yn 1715, yn 67 oed. Y cyfieithydd—

EDWARD EVAN ydoedd fab i grydd o'r enw Sion Rhys Ifan Sion Hywel Gwyn, o Nant y Gerdinen [ger Aberdâr], yn y fl. 1716. Ymunodd yn ieuanc â'r Ymneillduwyr yng Nghwm y Glo, ger Merthyr Tydfil, lle yr oedd y capel cyntaf a adeiladwyd yn yr ardal hono, a'r hwn a adawyd yn hollol i syrthio yn adfeilion, pan adeiladwyd hen gapel Aberdâr, yn 1751, a chapel Cefn Coed y Cymmer wedi hyny. Gan ei fod ef yn anneddu yr ochr arall i'r mynydd, yn Llwydgoed, efe a symmudodd ei aelodaeth i Aberdâr, wedi bod wyth mlynedd yn aelod yng Nghwm y Glo. Yn fuan daeth yn ddyn cyhoeddus, ac i arferyd ei ddawn mewn pregethu, a galwyd ef i weinidogaethu, ac ordeiniwyd ef yn 1772. Efe oedd y trydydd gweinidog yno. Yn ei farn yr oedd yn Galfaidd ar y cyntaf, ond wedi hyny cofleidiodd Arminiaeth, ac efe oedd un o'r rhai cyntaf i alw ei hun yn Arminiad. Cymmerodd fferm o'r enw Ton Coch, yn y plwyf hwnw, i'w alluogi i gynnal ei deulu; canys nid oedd addewid ei gynnulleidfa iddo ond 8*p.* yn y flwyddyn. Bu yno yn gweinidogaethu 25 mlynedd, sef hyd ei farwolaeth yn 1797,* yn 71 oed. Am ei ymdrafodaeth â chyfieithu a chyhoeddi y llyfr hwn, dywed ei fab, Rhys Evans, yr hwn sydd yn awr (1858) yn 78 oed,† ddarfod i'w dad weled hysbysiad S. Bourn, mewn rhywle y pryd hyny, y rhoddai efe 10*p.* i bwy bynag a gymmerai arno gyfieithu a chyhoeddi ei Gatecism ef. Mr. Edward Evan, yn gweled y cynnygiad yn haelionus, gan fod y byd yn gwasgu arno, y teulu yn fawr, a phobl ei ofal yn gwneyd ond ychydig iddo, a ymgymmerodd ryw hir nos gauaf â chyfieithu y llyfr, ac aeth ag ef i Gaerfyrddin i'w argraffu. Pum cant ydoedd y rhif a argraffwyd. Gan ei fod wedi ei argraffu yn wallus ac aflêr iawn, ni werthwyd ond ychydig o honynt, a bu Mr. Edward Evan yn golledwr o 7*p.* ar yr anturiaeth, er ei fod wedi cael 10*p.* gan yr awdwr i ddechreu. Dylesid dywedyd hefyd fod Mr. Evan yn fardd, wedi ei gyhoeddi a'i farnu yn ben-bardd mewn Gorsedd yn 1780; ac yr oedd yn meddu galluoedd barddonol cyfrifol, yn barchus, ac o ymddygiad moesol a chrefyddol.

6. ¶ 'Gweledigaethau y Bardd Cwsg.

Mwythig, Argraphwyd gan Thos. Durston.'

Yr oedd hwn, ef allai, yn ail argraffiad.‡

[Yr ail argraffiad oedd yr un a ymddangosodd yn 1755 (rhif 8, d.f. 1755); a'r trydydd yw rhif 24, d.f. 1759. Ni bu un argraffiad yng nghorff y flwyddyn 1757.]

7. Rhai Hymnau a Chaniadau Duwiol ar Amryw Ystyriaethau. Gan William Williams.

Argraphedig yng Nghaerfyrddin, gan Evan Powel, 1757.'

* [Yn ol y Newyddiadur *Gwladgarwr* (am Fedi, 1867), ar y dydd hwyaf o'r fl. 1798 y bu farw.]

† [Bu farw Rhys Evans ar yr ail o Fedi, 1867, wedi gorphen yr 88fed flwyddyn o'i oedran.]

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1703; rhif 6, d.f. 1720; a hwn yma.

8. ¶ 'Yr Addoliad Cristnogol neu dair Pregeth am fuddiol wrandawriad y Gair, uno mewn Gweddi, a chanu Moliannau i Dduw, &c. Gan Job Ōrton. Cyfieithwyd gan Evan Evans.'

Yr Evan Evans hwn ydoedd y Prydydd Hir, tybygid. Ef allai mai ym mhellach ym mlaen o gryn lawer o flynyddau y dylai yr uchod fod.

9. ['Llyfr Gweddi-Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chyneddffau a Ceremoniau eraill yr Eglwys, yn ôl Arfer Eglwys Loegr; A Psalmau Dafydd, Fel eu maent bwyntiedig i'r Darllain a'i Canu yn yr Eglwysydd. Ynghyd a Nam yn un deugain Erthyglau Crefydd.]

Argraphedig yn y Mwythig, ac ar Werth yno gan Thomas Durston, Gwerthwr Llyfrau, 1757.' splyg bychan.]

1758.

1. 'Pererindod ysprydol o'r Aipht i Ganaan, tan rith Breuddwyd. O Gasgliad y Pererin o waith hunan-ymholiad, yn Nyffryn ystyr-iaeth.

Argraphwyd tros y Parch. David Jones, o Bont-y-Pwl. Caerfyrddin.'

DAVID JONES a anwyd yng Nghwm Aman, sir Gaerfyrddin, yn 1741. Aeth i weithio ei gelfyddyd i sir Fynwy, a thueddwyd ef at ystyriaethau crefyddol trwy weinidogaeth Mr. Howel Harris. Efe a ymunodd â'r Bedyddwyr ym Mhen y Garn, ger Pont y Pwl, a dechreuodd bregethu yn ieuanc, ac ordeiniwyd ef yn weinidog iddynt yn 1773. Wedi bod yn gweinidogaethu yno o ddeutu deng mlynedd, efe a briododd Mrs. Hannah Jones, o'r Ddôl Goch, ger Castell Newydd yn Emlyn, ac aeth yno i fyw, ac am hyny y gelwir ef wedi hyny, ac yn yr amrywiol farwnadau am dano, yn Dafydd Jones o'r Ddôl Goch. Yr oedd ef yn ddyn o ysbryd duwioldeb a dawn rhagorol. Bu farw yn ddedwydd iawn Ionawr 21, 1792, yn 51 oed, a chladdwyd ef ym Mynwent Troed yr Aur, yn sir Aber-teifi.*

2. 'Dull Priodas Mab y Brenin Alpha. Dull Priodas ysprydol rhwng Siloh a Sion, yn dangos Tragwyddol gariad Silo, Mab y Brenin Alpha, at ferch yr hen Amoriad. Sef ail ran o'r Pererindod ysprydol o'r Aipht i Ganaan.

Argraphwyd yn y Mwythig, Tros Evan Ellis, o Blwyf Llanfihangel, yn sir Ddinbech, gan J. Cotton a J. Eddowes, 1758.'

3. 'Hanesion yr hên oesoedd, sef, i. Dechreuad y Byd; ii. Ymddiddanion o'r Cynfyd; iii. Rhwng Duw ac Adda; iv. Rhwng

* *Hanes y Bedyddwyr*, argraffiad cyntaf, t. 250-1; *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones, t. 694; *Great y Bedyddwyr*, Ionawr, 1860.

Satan, y Sarph ac Efa ; v. Rhwng Duw a Noah. O waith Thomas Williams, Merchant Taylor, o Dâl y Bont, yn agos i fangor. Rhif. 1.

Printiedig yn Llundain.'

4. 'Welch Piety: Or, A Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, From Michaelmas 1757, to Michaelmas 1758. To which are annexed Testimonials Relating to the Masters and Scholars of the said Schools. In a Letter to a Friend.

London: Printed by J. Oliver, in Bartholomew-Close. MDCCLVIII.'

5. 'Aleluwia, Neu Gasgliad o Hymnau. O waith William Williams, Gweinidog o Eglwys Loegr. Y Drydedd Argraphiad.*

Argraphwyd ym Mristo, gan E. Ffarley a'i Mab, yn y flwyddyn M, DCCL, VIII.'

6. 'Lloffion Prydyddiaeth, Sef ynghylch chwech a deugain o Ganiadau duwiol. O waith Mr. Rees Prichard, Gynt Ficer Llanymddyfri.

Argraphwyd yn Llundain, gan Joan Olfifer. MDCCLVIII.'

Golygydd a chasglydd y 'Lloffion' hyn ydoedd Mr. G. Jones, Llanddowror.†

7. 'Catecism Byrraf. A Gyflwynwyd gan y Gymmanfa o Ddifynyddion yn Westminster, i'r Ddau Dy o Barlament, a chwedi ei Gymmeradwyo ganddynt. Yn cynnwys Egwyddorion y Grefydd Gristnogol. Ynghyd a Phrofiadau Ysgrythyrol.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn MDCCLVIII.'

8. 'Yr Amonjad, a'i Lwynog Wedi ei ddal, mewn byr Draethawd ar *Neh.* iv. *Bennod.* iii. *Adnod.* Gan John Morgan gynt Gweinidog yr Efengil yn Llanwenarth yn Sir Fynwy.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prÿs, Gwerthwr Llyfrau, tros Hugh Evans, 1758.'

9. ¶ 'A Catalogue of the Estate of the Duke of Powis, with Plans. 1758.'

1759.

1. 'Dewisol Ganiadau yr Oes hon, yn ddwy rann, y rhann gyntaf sydd yn cynnwys Englynion, Cywyddau ac Awdlau, a waith yr Awduriaid Goreu yn yr oes Bresennol. Yr ail ran. Carolau Plygain a Cherddi Newyddion na fuont yn argraphedig erioed o'r blaen; o waith

* Gwel rhif 5, d.f. 1744 ; rhif 7, d.f. 1745 ; rhif 4, d.f. 1746 ; a rhif 3, d.f. 1747.

† Yr ail argraffiad yw o'r 'Pigion' hyn ; gwel rhif 9, d.f. 1749.

Llawer o Feirdd Cymru. A gasglwyd ac a Gyfansoddwyd gan Hugh Jones, Llangwm.

Argraphwyd yn y Mwythig.'

Dywedir y bu tri argraffiad o'r llyfr hwn. Yr oedd Hugh Jones, o Langwm, Dafydd Jones, o Drefriw, ac Elis Roberts, y *cooper*, yn gyfoeswyr, ac yn gyfeillion gwresog. Crach-brydyddion oedd y tri, a hoff iawn o gwmni Syr John Heidden; a'r tri yn fath o ddigrifwyr; canent yn ddigrifol a chellweirus, yn ol fel y byddai y cwmni, ac yn aml gwnaent wawd o bethau crefyddol. Y mae eu gwaith yn gymmysg o bob athrawiaeth, a llawer o sawr Pabaidd ar garolau Hugh Jones. Yr oedd yn ei amser goreu o'r fl. 1740 i 1780.*

2. 'Y Prif Feddyginiaeth, sef Physigwriaeth yr Oesoedd gynt, neu Ffordd hawdd a Naturiol i Jachau y rhan fwyaf o Glefydau. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, allan o'r pummed argraphiad yn Saesoneg, er lles i'r Cymru.

Argraphwyd yn y Mwythig ac ar werth yno gan Stafford Prys Gwerthwr Llyfrau 1759.'

Wrth y rhaglythyr y mae 'J. E.,' h.y. John Evans, o'r Bala, ac wrth y rhagymadrodd y mae 'J. W.,' h.y. John Wesley; canys cyfieithiad ydyw o'r llyfr a elwir 'Wesley's Primitive Physick,' wedi ei gyhoeddi a'i gylch-daenu yng Nghymru trwy offerynoliaeth y Methodistiaid Calfaidd ac yn eu plith, yn a deugain o flynyddau cyn i ddilynwyr John Wesley ddechreu gweinidogaeth Gymraeg yn y Dywysogaeth. Gan nad oedd ond llythyrenau cyntaf enw yr awdwr wrtho, nid oedd ond ychydig yn gwybod mai Mr. Wesley ydoedd yr awdwr; ped amgen, y gallasai rhagfarn luddias rhai dallbleidiol i'w ddefnyddio, a pheri iddynt ofni ei gyfarwyddiadau i'r corff, yn gymmaint ag yr ofnent ei bethau ysbrydol i'r enaid. Yr oedd y cyfieithydd yn adnabod gor-ragfarn y Methodistiaid Cymreig yn dda, ac am hyny efe a gelodd yr enw yn llawn. Felly y gwnaed â'r amrywiol ddarnau ereill o'r eiddo y Mrd. John a Charles Wesley, pan y rhoid enw Mr. Whitfield yn llawn wrth y darnau hyny o'i weithiau ef a gyhoeddwyd.† Am y cyfieithydd,—

JOHN EVANS, ganwyd ef yng Nglan yr Afon, ym mhlwyf Gwrecsam, yn 1723; ond ei rieni a symmudasant yn fuan i Adwy'r Clawdd, yn yr un plwyf. Dangosodd hoffder mawr mewn darllen yn ieuane iawn. Gosodwyd ef yn 13 oed i ddysgu gwëyddiaeth. Dygwyd ei feddwl dan argraffiadau crefyddol, yn benaf, trwy ddarllen 'Saith Bregeth Robert Russell.' Yn 1741, aeth rhyw amgylchiadau ag ef i breswyllo i'r Bala, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, ac adwaenid

* *Y Gwyllydydd*, Mai, 1827, t. 149, a *Chwefror*, 1828, t. 59; *Williams's Dictionary of Eminent Welshmen*.

† *Gwel* rhif 14, d.f. 1750; rhif 3, d.f. 1751; a rhif 14, d.f. 1752.

ef wrth yr enw 'John Evans o'r Bala.' Priododd Margaret, merch Morris ab Robert, un o'r Ymneillduwyr Presbyteraid oedd yn y Bala. Ymunodd â'r Methodistiaid, a dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1765, pan yn 42 oed, tybygid. Yr oedd yn ddyn o ddealltwriaeth cryf, ac o wybodaeth gyffredinol helaethach na nemawr o gynghorwyr Methodistiaid yr oes hono. Yr oedd wedi gwrrtheithio adnabyddiaeth dda o'r iaith Seisoneg, fel ag i allu gwneyd defnydd o lyfrau yr iaith hono, a chyfeillachu ynddi. Yr oedd ei olwg a'i ymddygiad yn syth, hardd, a boneddigaidd. Yr oedd hefyd, o blegid ei wybodaeth helaethach, yn llawer mwy haelfrydig ei feddwl, a mwy diragfarn na chyffredin o sectwyr ei oes. Bu yn offerynol, gyda chynnorthwy ei gymmydog cyfoethocach, ond o'r un argraff, sef Mr. T. Ffoulkes, i gyfieithu a chyhoeddi Pregethau Charles Wesley, a 'Rheolau yr Unol Gymdeithasau,' &c.*

3. 'Ffurf Gweddi i'w Harfer ym mhob Eglwys 16 Chwef. 1760.

Llundain. MDCCLIX.†

4. 'Y Garreg Wen, Neu Draethawd bychan, ymherthynas i Sierwydd; ymha un yr amlygir, 1. Fod Sierwydd yn Gyrhaeddadwy yn y bywyd hwn. 2. Sierwydd o ba beth sydd gyrhaeddadwy. 3. Yr angenrheidrwydd i ymofyn am dano, a'r budd o'i gael. 4. Pa fodd i'w gael. Gan Timothy Thomas.'

Tybygir mai y bregeth ar 2 *Pedr* i. 10,‡ wedi ei helaethu i draethawd, yw hwn.

5. 'Gwagedd Mebyd a Jeuengtyd, yn yr hwn y dangosir Natur lygredig pobl jeuange, ac y cynhygir y moddion er eu Diwygiad. Sef Rhai Pregethau a bregethwyd yn Hand Alley, yn Llundain, ar Ddymuniad amryw o rai jeuange. Gan Daniel Williams, D.D. Y drydydd Argraphiad.§

Llundain Argraphwyd yn ol cyfarwyddiad Ewyllys Diweddfaf yr Awdwr. 1759.'

6. 'Blodeugerdd Cymru, sef Casgliad o Ganiadau Cymreig gan amryw Awdwr o'r oes ddiweddfaf. Yr hwn a gynnwys draethiadau Duwiol, a Diddanol; y rhai na fuont yn gyhoeddedig mewn Argraph o'r blaen. O gynnulliad David Jones o Drefriw.

Argraphwyd yn y Mwythig ac ar werth yn gan Stafford Prys, Gwerthwr Llyfrau. ☞ Bydded hysbys i'r Cymru, fod Llyfr Dewisol Ganiadau yr oes Hon, yn awr yn yr Argraphwasg, ac a fydd yn barod ynghylch Gwyl Mihangel, 1759. Pris 3s.¶

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 482, &c.

† *Llythyr* Mr. Ben. Davies.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1757.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1739; ni welais ond y ddau hyn o'r tri.

¶ Gwel rhif 1, dan y flwyddyn hon.

Fe allai y dylasai hwn fod flwyddyn yn ol: nid oes genyf ond yr hysbysiad uchod i amseru y ddau y flwyddyn hon.

7. Sicerwydd Ffydd, wedi ei agoryd a'i gymhwysu; Sef, Sylwedd amryw Bregethau ar *Heb. x. 22.* Gan y Parchedig Ebenezer Erskine. Athro'r Celfyddydau. Gweinidog yr Efengyl yn Sterling, yn Scotland. Gan William Williams, Gweinidog o Eglwys Loegr.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Evan Powel, yn Heol y Prior, yn y Flwyddyn, 1759.' 130 tudalen 8plyg.

Y mae yn ei ddiwedd Hymn gan D. R., sef Daniel Rowlands, Llangeitho, yn ddiau, yr hwn a gyd-weithredai â'r cyfieithydd, ac ai cefnogai, sef Bardd Pant y Celyn, yng nghyhoeddiad y llyfryn hwn. Yr awdwr,—

EBENEZER ERSKINE a anwyd ym mhentref Dryburgh, yn Scotland, yn 1680, o'r lle y diarddelasid ei dad am Anghydfurfaeth yn 1662. Cafodd ei ddysgu yn Edinburgh, ac yn 1705 efe a ymsefydlodd fel gweinidog plwyf Portmoak, lle y bu 28 o flynyddoedd, ac ymsymmudodd i Stirling yn 1733. Yna ymwahaniaethodd yn yn ei opiniynau oddi wrth lysoedd eglwysig Scotland, yr hyn a derfynodd yn ei waith yn cydsynio, ac yn cydweithredu ag ereill yn sefydlu Presbyteriaeth Ymwahanol. Bu farw yn 1756, yn 76 oed.*

8. 'Traethiad am y Wisg-Wen Ddisglair, Gymmwys i fyned i Lys y Brenhin Nefol; sy'n cael ei gwisgo am y dyn noeth truenus: neu Amlygiad o ddirfawr drüeni Dÿn, trwy bechod; ac o'i waredigaeth gyflawn, a'i jechydwraeth ardderchog ef, trwy Jesu Grist: lle y dangosir, yn helaeth, am Gyfiawnhâd a Sancteiddhâd, yn ol yr Ysgrythurau. Yn gyttunol, fwyaf i gyd, â Chyffes-ffydd, a osodwyd allan yn y Fl. 1689; â Chatecism y Gymmanfa; ac â'r rhan athrawiaethol o Erthyglau Eglwys Loegr. Gan Timothy Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdur, Gan E. Powel 1759.' [18plyg: 368+12=380 tudalen.]

[Y mae yn y dechreu lythyr 'At Eglwys Iesu Grist yr hon sydd yn cyfarfod ynghyd ar brydiau yn Aberduar, Penycoed, Bethel a Bwlchyrhiw,' dyddiedig yn y 'Maes, ym Mhencarreg, Ion. 1. 1756.']

Argraffwyd hefyd ail argraffiad yn 'Dolgelieu: gan T. Williams, gwerth 2s. 6ch.' tua 1800.

9. 'Pererindod ysprydol o'r Aipht i Ganaan, Tan rith Breuddwyd O Gasgliad y Pererin, allan o waith Hunan-ymholiad, yn Nyffryn ystyriaeth.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys, tros Evan Ellis, o'r Bryn-caled, Ymhlwyf Llangwm, yn Sir Ddimbech. MDCCLIX.'

* *Encyclopædia Britannica.*

Ail argraffiad;* hwnw yn y Deheu, a hwn yn y Gogledd. Mae yn debyg mai llyfrwerthwr teithiol oedd Evan Ellis, yr hwn oedd y llynedd yn byw ym mhlwyf Llanfihangel Glyn Myfyr, ond erbyn eleni wedi symmud i blwyf Llangwm.

10. 'Myfyrdod y Claf, o waith y Parchedig Peter Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Evan Powell.'

11. 'Egwyddorion y Grefydd Grist'nogawl yn Gymraeg Er Lleshad Ieuengctid Cymru. Megis y gosodwyd hwynt allan mewn Catechism Byr, gan y Parchedig Gymanfa o Ddifynyddion yn Westminster, 1647. Oddieithr rhai Pyngciau yn y Dechreu; A Bedydd gwedy ei eglurhay trwy'r yscrythyrau yn ol Barn y rhai a Gamhenwir yr Ailfeddydwyr. Wedi eu Dosparthu yn byngciau ar Wahan, ai profi trwy eglur a phenderfynol Leoedd o'r Scrythyrau mewn cyflawn eiriau fel y rhannodd y parchedig Mr. W. E.† hwynt.

Ym Mristol, Argraphwyd gan John Grabham. 1759.'

Catecism y Gymmanfa ydyw, wedi ei gyfaddasu i'r Bedyddwyr, trwy gyfansoddi darn newydd ar fedydd, yn lle yr un gwreiddiol sydd yn pleidio bedydd babanod. Cyfaddaswr yr argraffiad hwn at wasanaeth y rhai arddelent fedydd trwy drochiad noeth, ydoedd ABEL MORGAN, meddir, sef mab i Abel Morgan, awdwr 'Cordiad yr Ysgrhythrau.'

12. 'History of Modern Enthusiasm. By T. Evans.' [8vo.]

Hwn, meddai ei wŷr, Theo. Jones, awdwr '*History of Breconshire*,' wrth Syr Samuel R. Meyrick, awdwr '*History of Cardiganshire*,' ydoedd gwaith diweddaf awdwr 'Drych y Prif Oesoedd.'

[Nid cywir hyn, canys ymddangosodd y Bregeth ar y Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, yn 1760. Gweler rhif 2, dan y flwyddyn hono.]

13. 'Constitution of the Old Cymmrodorion Society, with List of Members, 1759.' 4to.

14. 'A Plain Disquisition on the indispensable Necessity of fortifying and improving Milford Haven; containing likewise an attempt to demonstrate the advantages that will arise from it to this nation, with some hints on the prosecuting schemes. To which is annexed an exact Map of the harbour, drawn after a very late Survey. Addressed to a patriotic member of Parliament.

London, 1759.' 8vo.

15. 'History of Great Britain from the first inhabitants thereof,

* Gwel rhif 1 a 2, d.f. 1758.

† Gwel rhif 2, d.f. 1707.

till the death of Cadwalader, last King of the Britains, &c. By John Lewis, Esq. Barister at Law.' Folio.

16. 'Catecism, neu Egwyddorion Crefydd. Wedi eu haddasu at Gyrrhaeddiad Pobl ieuauinge a Phlant; gyda Phrofiadau Ysgrythurol. Gan Henry Read.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, tros y Parch. Mr. Josia Rees, o Gelli-onnen; Ac ar Werth gan Mr. Jones, Gwerthwr Llyfrau, yn Aberhonddu; a Mr. Rhyddero, Gwerthwr Llyfrau, yng Nghaerfyrddin. (Pris Dwy Geniog.)'

17. 'Cofrestr o Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain: Gwyl Dewi, 1759. A Sylfaenwyd Fis Medi 1751, Er anrhydedd eu Gwlad a'u Hiaith, cynnyddiad Cyfeillgarwch yn eu plith eu hunain, a Gwybodaeth Anianol ym mhlith y Cymry yn gyffredinol: Ac a ymgyfarfyddant yn Nhafarn yr Hanner-Lleuad yn Cheapside, yn yr hwy'r, y Mercher cyntaf o bob mis trwy'r Flwyddyn.

Argraphwyd yn Llundain: Gan William Roberts, Printiwr y Gymdeithas. M.DCC.L.IX.'

18. 'Aceldama neu Faes y Gwaed. Sef Hanes alaethus o'r Anghyfanedd-dra gressynol sy'n amgylchu Trigfannau Rhyfel. Gwedi ei gymmeryd allan o Ddau Lythyr a Scrifennwyd yn gyntaf yn y Jaith Germanaidd (neu Dutch) gan y Parchedig Mr. Sorge yn Shilberg, yn Newmark ar y 13 a'r 14 o Hydref, yn y Flwyddyn 1758, at ddau o'i Gyfeillion. Wedi ei gyhoeddi yn Saesonaeg gan y Parchedig Mr. George Whitfield. A'i gyfjaethu i'r Gymraeg gan y Parchedig Mr. Daniel Rowland. Ac ar werth gan y Parchedig Mr. Peter Williams.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan Evan Powell, yn Flwyddyn 1759.'

Y mae ei gyfarchiad at ei 'Anwyl Gydwladwyr,' gan y Parch. P. Williams.

19. 'Gwybodaeth o Iechydwriaeth yn werthfawr yn awr Angeu. Gwedi ei wirio mewn Pregeth. A bregethwyd Jonawr 4, 1759. ar farwolaeth y Parchedig Mr. James Hervey, A.M. Periglor Weston Favel yn Sir Northampton. Gan W. Romaine, A.M. Gweinidog St. Dunstans Orllewinol yn Llundain. A Gyfieuthwyd i'r Gymraeg gan J. Thomas. yr hwn a chwanegodd chwech o Hymnau.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prŷs Gwerthwr Llyfrau. 1759.'

JOHN THOMAS ydoedd enedigol o Fyddfai [ger Llanymddyfri], yn sir Gaerfyrddin. Dechreuodd grefydda gyda'r Methodistiaid. Bu beth amser yng Ngholeg Trefecca, tan nodded Arglwyddes Huntingdon. Ymunodd â'r Ymneillduwyr, ac ordeiniwyd ef yn y Cae Bach, ger Llandrindod, sir Faesyfed; a gweinidogaethai hefyd yn Rhaiadr Gwy. Teithiai lawer trwy Gymru; bu farw yng Nghaerfyrddin. Cyhoeddwyd ei Hunan-Fywgraffiad, ym mhen lawer o flynyddoedd wedi ei farw, o dan y teitl canlynol:—

'Rhad Ras neu Lyfr Profiad, Mewn byr Hanes am Ddaioni yr Arglwydd tuag at ei wael wasanaethwr Ioan Thomas (Awdwr Caniadeu Sion) o'i febyd hyd yma. Deuwch chwi y rhai a ofnwch Dduw a mynychaf yr hyn a wnaeth efe i m henaid. Psal.

Abertawy, Argraphwyd gan J. Voss. Lle yr argreffir pob math o lyfrau am bris rhesymol. 1810.'

20. 'Hosanna to the Son of David; or, Hymns of Praise to God, For our Glorious Redemption by Christ. Some few translated from the Welsh Hymn-Book, but mostly composed on new Subjects. By William Williams.

Bristol. Printed by John Grabham, in Narrow-Wine-Street. 1759.'

[Hwn ydyw Llyfr Hymnau Seisoneg Cyntaf W. W. Y mae yn cynnwys 51 o Hymnau; a dywed Charles mai yn ei ddyddiau boreuol y cyfansoddodd yr awdwr hwynt.*]

21. 'An Account of the Conversion of Edward Lee, a Malefactor, Who was executed at Haverford-West, in Wales, for a Robbery. In a Letter from Mr. Cennick to his Friend in London. The Second Edition.

London, Printed and Sold by M. Lewis in Paternoster-Row, near Cheapside. 1759.'

22. 'Social Religion Exemplifi'd, in an Account of the first Settlement of Christianity in the City of Caerludd. By Matthias Maurice.

London. 1759.'

Y mae yn ei ddiwedd 69 o enwau Cymreig, a grybwyllir yn yr ymddyddanion.

23. ¶ 'A Plain Disquisition on the indispensable Necessity of Fortifying and Improving Milford-Haven. 1759.'

Y mae ynddo ddarlunlen fawr a chywir o'r llongfa hòno.

[Yr un yn ddiammheu â rhif 14, dan y flwyddyn hon.]

24. ['Gweledigaethu y Bardd Cwsc. Y Rhann Gyntaf.


Argraphwyd yn Mwythig gan Thomas Durston, 1759.' 16plyg.

* Llythyr Mr. Morris Davies.

Y trydydd argraffiad o rif 6, d.f. 1703. Y mae yr argraffiad hwn ac un 1755 'yn cyfateb yn gwbl i'w gilydd ym mhob peth, oddi eithr y flwyddyn ar y tudalen cyntaf, yng nghyd â rhyw ychydig bach o wahaniaeth argraffwaith yn y tudalen diweddaf, lle y crybwyllir am "Y Llyfrau a argraphwyd ac sydd ar werth gan Tho. Durston." Tebygol, gan hyny, mai yr un argraffiad yw y ddau, ac nad oes dim newydd yn argraffiad 1759, ond yn unig dalen yr enw a dalen yr hysbysiadau.*]

25. ['Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus: being a British, or Welsh-English Dictionary By Thomas Richards, Curate of Coychurch.

Bristol: Printed by Felix Farley in Small-Street, for Benj. Dod, at the Bible and Key in Ave-Mary Lane, near St. Paul's, London. M DCC LIX.

 The Welsh Grammar may be had alone, Price 1s.' [8vo.]

Yr un argraffiad yw hwn â rhif 6, d.f. 1753, gyda gwyneblen newydd, ag ynddi beth cyfnewidiadau a rhai chwanegion. Yn 1753 yr ymddangosodd y 'Thesaurus' gyntaf; ac ni bu ail argraffiad o hono tan y fl. 1815; ond ceir, megys yr awgrymwyd, ambell gyfargraff â'r fl. 1759 wrthynt; ond nid oes dim gwahaniaeth arall.]

26. '[Caractacus, a Dramatic Poem: Written on the Model of the Ancient Greek Tragedy. By the Author of Elfrida. The Second Edition.'

London, MDCCLIX, 8vo.

Yr awdwr ydoedd y Parch. WILLIAM MASON, yr hwn ydoedd fab i wr llên yn swydd Gaerefrog, lle y ganed ef yn y fl. 1725. Cafodd ei ddysg ym Mhrifysgol Caergrawnt. Ysgrifennodd lawer o ganau heb law 'Caractacus' ac 'Elfrida'; megys, 'Isis,' 'The English Garden,' ac 'Ode to the Naval Officers of Great Britain'; ysgrifennodd hefyd gofiant ei gyfaill y Bardd Gray; ac amryw gerddi dychan dan y ffugenw Mac Gregor. Yr oedd yn beriglor Aston, yn un o gaplaniaid y brenin, ac yn rhaggeiniad Eglwys Gadeiriol Caerefrog. Bu farw yn 1797. Gweler rhif 41, d.f. 1774.]

1760.

1. 'Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb, neu Helaeth Eirlyfr Cymraeg a Saesnaeg, yn Cynwys llawer mwŷ o Eiriau Cymraeg nag sŷdd yng Eirlyfr y disgawdr Sion Dafis o gymraeg a Lading. Yn gyntaf, yn hysbysu Meddwl y gymraeg ddieithr, Drwŷ Gymraeg Mwŷ cynnefinol: Yr hŷn sŷ Gyfleus, a Deunyddiol iawn i bawb a Ewŷllysiont ddeall a ddarlennont yn gymraeg. Yn Ail, yn Dangos y gwŷr Saesnaeg i Bob gair Cymraeg. Ac yn ddilynol, y modd i Gysylltu, sef i (ysbelio) pŷb gair yn gywir yn y gymraeg a'r Saesnaeg. Ag a helaethwyd ag argraphyddol henwau gwledŷdd, Gosgorddau, a Dinasoedd, Trefŷdd, a manau (ym Mrydain fawr, a rhai Dros y

* [Hysbysiad i argraffiad Caerfyrddin, 1865. Yr wyf yn ddyledus i syberwyd y Parch. Charles Williams, D.D., Penaeth Coleg Iesu, Rhydychain, am gydnabyddiaeth â'r argraffiad hwn.]

Môr:) Yn yr Hên Gymraeg, a'r Bresennol saesnaeg. At yr hyn a chwanegwyd, Eglŷr, a hylaw Athrawiaeth, (i'r Cymry) am gywir Adroddiad y Saesnaeg; Drwy fyrr hyfforddiad yn yr iaith gymraeg. Gyda phriodolder ddeunydd neu Arwŷddoccaed yr hõll orddiganau, a'r Attalion; sy'r Awron yn Arferedig yn y gymraeg a'r saesnaeg: Ag yn Angenrheidiol eu Deall gan Bõb Darllennŷdd. A Gasglwyd ar y Cyntaf, Drwŷ ddirfawr boen, a Diwydrwydd Thomas Jones, ac yn awr a ddibennwyd, gan Richard Morris, o Lanmihangel, trer Beirdd yn Sir Fõn.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys, tros Llywelyn ab Joan, o blwŷ Llan-ddona yn Ynys Fõn, 1760.' [16plyg, neu 8plyg bychan: o gylch 400 o dudalenau.]

[Ar y ddalen gyferbyniol ar y llaw dde, cawn yr un enwad hirfaith yn Seisoneg; a'r argraffeb a red fel hyn:—'Shrewsbury: Printed by Stafford Prys, for Lewis Jones, of the Parish of Llan-ddona, in the Isle of Anglesea. 1760.' 'Richard Morris, of Temple St. Mihangel Town' y gelwir gorphenwr y gwaith ar y rhagddalen Seisoneg. Cynnwysa y gwaith hefyd 'Henwau (Physygawl) Lysiau'r ddaear, Coed, a Ffrwythau Coed, yn Gymraeg a Saesnaeg;' yr hyn ni chrybwyllir ar y ddalen enw, er meithed yw. O 'Botanologium' y Dr. Davies y cymmerwyd yr 'henwau' Cymreig hyn, ac amcanwyd gosod eu henwau Seisonig i mewn yn lle rhai Lladin y Doethor. Lleinw y 'Rhagymadrodd,' yng nghyd a'r 'Achosion am drefn y llyfr hwn,' 28 tudalen; ac ar y diwedd tanygrifa y gorphenydd ei enw—'Richard, ab Morus, ab Rowlant, ab Robart.']

Gellir galw hwn yn ail argraffiad, wedi ei ddiwygio a chwanegu ato.*

2. 'Pregeth, yn dangos beth yw Natur ac Anian y Pechod yn erbyn yr Yspryd Glân. Gan T. Evans, Vicar Dewi, yn Aberhonddu.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Stafford Prys, yn y Flwyddyn 1760.'

Maint hwn yw 23 tudalen [16plyg]. Ymddengys y dylasai 'History of Modern Enthusiasm,'† fod yn ddiweddarach, neu gwelir mai *nid* hwnw ydoedd gwaith diweddaraf yr awdwr.

[Ail gyhoeddwyd y Bregeth hon yn yr *Haul* am 1865, t. 297. Dyddir y Rhagymadrodd—'At y Darllenydd,' yn 'Llwyn-Eion, yn Llangammarch, o fewn Gwlad Fuellt. Dydd Calan Mai 1759.' Cynnwys y llyfryn 24 o dudalenau, ond bod dau o honynt yn hysbysiadau, a'r trydydd yn wyn.]

3. ¶ 'Porthor Ysprydol, sef Galwad i bawb i ymgeisio a Duw. Gwedi ei osod allan gan John Prys.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, gan R. Marsh.'

Tebygol mai John Prys o Ial, y Bardd a'r Almanaciwr, ydoedd yr awdwr hwn. Yr oedd yn byw ym Mryn Eglwys yn Ial, yn sir

* Gwel rhif 3, d.f. 1688.

† Gwel rhif 12, d.f. 1759.

Ddinbych. Bu yn cyfansoddi ac yn cyhoeddi Almanaciau am dros ddeugain mlynedd. Gwelais ei unfed a deugain argraffiad am 1779, yr hyn a brawf iddo ddechreu yn 1738. Yr enw a roddai iddynt ydoedd 'Deonglydd y Ser, neu Almanac.'

4. 'Agoriadau Datuguddiad Creadigaeth y Nefoedd. Gen. i. viii. v. Ar Angylion, y Cerubiaid, a'r Seraphiaid. E. 37. 7. 8. 9. v. Esay 37. 16. Gen. i. 19. Yspryd Duw yn ymsymmud ar y Dyfroedd. Ordinhad yr haul, a'r lleuad, a'r ser, a'r Goleuni a'r Tywyllweh. Y Trydydd 'Serifeniad o waith yr Awdwr, sef Thomas Williams, Merchant Taylor, Tal y Bont, Nesa i fangor fawr, yngwynedd.

Bededeurn, Argraphwyd.'

Er y dywedir fod hwn y 'Trydydd 'Sgrifeniad' neu waith o eiddo yr awdwr; dau yn unig a allwyd eu cofrestru hyd yn hyn.*

2. 'Ymbarottoad tu ac at Ddedwyddol, a Thragywyddol Wynfyd y Nefoedd. Neu, Myfyrdodau, ar bob Dydd o'r Wythnos.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Stafford Prys, Gwerthwr Llyfrau, 1760.' 76 tudalen 12plyg.

[16plyg yn hytrach na 12plyg yw maint y llyfryn. Cynnwys 4 tudalen o gynnwysiad, a hysbysion am lyfrau, heb law 76 o gorff y gwaith.]

6. 'Un Ymadrodd ar bymtheg ynghylch Iesu Grist, a'n Prynedigaeth trwyddo ef; Neu ynghylch ail Erthyg y Credo: Allan o bregethau y Gwir barchedig Ordinary y Brodyr yn Berlin, yn y flwyddyn 1738. O gyfieithiad Evan Williams. (Cymharwyd y cyfan a'r Argraffiad diweddaf yn yr Almanae.) Anghwanegir hefyd rai Hymnau.

Llundain Argraffwyd.'

7. 'Llyfr, Gweddi-Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau a Chyneddau a Seremoniau Eraill yr Eglwys, Yn ol Arfer Eglwys Loegr: A Salmau Dafydd fel y maent bwyntiedig i'w Darllain a'u canu yn yr Eglwysydd ynghyd a Nam yn un deugain Erthyglau Crefydd.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Stafford Prys, Gwerthwr Llyfrau, 1760.' 12plyg.

[Ymddengys i mi mai yr un argraffiad ydyw hwn â rhif 9, d.f. 1757, gyda rhagddalen yn dwyn enw 'Stafford Prys' yn lle 'Thomas Durston,' a chyfnewid yn yr amseriad. Y mae hynodion y rhagddalen (megys 'nam yn,' yn lle 'namyn,' &c.) yr un fath yn y ddau. Ymddengys fod Thomas Durston bellach wedi marw, a Stafford Prys wedi cymmyd ei le.]

* Gwel rhif 3, d.f. 1758.

8. ¶ 'Amddiffyniad Bedydd y Crediniol, Gan G. Davies, a D. Thomas.'

Achlysurwyd y llyfr uchod gan yr hyn a ysgrifenasid gan Mr. Griffith Jones, Llanddowror, am fedydd plant yn ei Gatecism. Am yr Awdwyr,—

1. GRIFFITH DAVIES, ganwyd ef yn 1699, o rieni duwiol iawn a llettygar. Cafodd ei ddysgeidiaeth dan ofal Mr. Fosket a Mr. Evans, athrawon Coleg y Bedyddwyr ym Mristol. Ordeiniwyd ef fel cyn-northwywr gweinidogaethol yn 1736: a dewiswyd ef yn fugail yr eglwys yn Abertawy, yn 1739, pan yn llawn ddeugain mlwydd oed; a pharhaodd i weinidogaethu yn ffyddlawn a defnyddiol hyd ddiwedd ei oes, yr hyn a gymmerodd le Hydref 3, 1776, yn 77 oed, gan adael archwaeth da ar ei ol ym mhlith ei gydnyddion.

2. Gwr o ger llaw Ffynnon Henri ydoedd Mr. DAVID THOMAS, a chodasid ef, a dechreuodd bregethu gyda'r Presbyteriaid; ond cyfnewidodd ei farn ar y pwnc o fedydd; trochwyd ef, a derbyniwyd ef yn aelod yng Nghastell Newydd yn Emlyn. Cafodd ei ordeinio yno yn 1747; a bu farw yn 1784.* Dywedir fod 'teimladau dadleuol wedi codi mor uchel rhwng pobl yr Eglwys Sefydledig a'r Bedyddwyr y pryd hyny, fel y cymhellwyd perchenog y lle y pregethent yno, i'w cau allan oddi yno, sef o'r Mŵr, ym mhlwyf Llacharn. Ofnir fod gan yr offeiriad law yn hyn.'†

9. 'Traethawd Defnyddiol am Ben-Arglwyddiaeth Duw, a'i Gyfiawnder ynghyd a'r Pethau Pwysfawr, sy'n tarddu oddiwrth ei Ben-arglwyddiaeth ef, sef; Etholedigaeth, Prynedigaeth, Galwedigaeth effeithiol, a Pharhad mewn Gras. O waith Mr. Eliseus Cole, yn Saesoneg.

Bristo. Argraphwyd gan John Graeham ac William Pine, yn Heol y Gwîn, 1760.'

Ymddengys fod hwn yn gystal yn gyfieithiad newydd ag ydoedd yn ail argraffiad;‡ canys y mae yn ei ragflaenu 'Annerch at y Darllenydd' gan 'Peter Williams,' lle y dywed ei fod o'r wythfed argraffiad Seisonig, tra yr oedd y llall o'r chweched argraffiad. Y mae yn dra thebygol mai Mr. Peter Williams hefyd oedd y cyfieithydd. William Pine, un o'r argraffwyr, ydoedd argraffydd cyntaf y *Bristol Gazette*. Bu farw Chwefror 22, 1803, wedi bod yn argraffydd, o leiaf 43 o flynyddoedd.

10. ¶ 'Archæologia Britannica. By Edward Llwyd.'

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones, t. 401.

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1711 [a rhif 4, d.f. 1729.]

Dywedir fod hwn yn ail gyhoeddiad,* gyda chwanegiadau o amryw lythrau Mr. Llwyd ar gloddiadau, gan J. Huddesfod, 1760.

11. ¶ 'Edwardii Luidii apud Oxonienses Cimeliarchæ Ashmoleani Lithophylacii Britannici Ichnographia, &c. Editio Altera.

Oxonii, E Typographeo Clarendoniano, Prostant apud Bibliopolas Oxonienses; J. Rivington, &c. M DCC LX.'

[Yn y cofnodiad o'r argraffiad cyntaf o'r gwaith hwn (rhif 7, d.f. 1699,) dygwyddwyd camargraffu 'Liuidii' yn lle Luidii. Gweler yr enw yn llawn dan y flwyddyn hono.]

12. ¶ 'Yr Ymarfer o Lonyddwch. I gyfarwyddo Cristion pa fodd i fyw yn Llonydd yn y Byd trapherthus hwn. Gan George Webb. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Iago ab Dewi, o'r pumed Argraphiad yn Saesonaeg.

Argraphwyd ym Modedern yn Sir Fôn, gan John Rowland, tros Ellis Jones.'

Argraffwyd, yn ail argraffiad, o argraffiad gwallus Caerfyrddin,† heb ddiwygio y beiau, eithr yn llawer mwy gwallus na'r argraffiad cyntaf hwnw.

13. 'Rhai Hymnau : A gasglwyd ynghyd er Annogaeth a Diddanweh Teulu Sion.

Argraphwyd 'Modedern yn Sir Fon, gan John Rowland; tros Richard Jones, a John Roberts.'

Nid oes ar hyn o bryd unrhyw hysbysiaeth i'w chael am y cyntaf a enwir fel un o gyhoeddwr y llyfryn uchod, sef Richard Jones; ond am ei gyd-gyhoeddwr y mae yn bod gryn lawer i'w ddywedyd, gan iddo fod, am oes hir, yn oracl y Dywysogaeth.

JOHN ROBERTS, neu, fel yr adnabyddid ef yn well, SION RHOBERT LEWYS, Almanaciwr Caergybi, ydoedd fab i Rhobert Lewys o blwyf Llanaelhaiarn, sir Gaernarfon; ac a anwyd yn y flwyddyn 1731. Dangosodd yn ieuanc awydd am wybodaeth, trwy ei lafur dybryd i gyrhaedd yr unrhyw, a hyny yn hollol heb ddim cynnorthwy. Tueddwyd ef yn foreu i ymwasgu at yr ychydig bobl ddifrifol‡ oedd yn y wlad y pryd hyny, trwy effaith pregeth a glywodd gan yr hyglood Mr. Howel Harris, o Drefecca, ar un o'i deithiau trwy Wynedd. Penderfynodd adael ei fro, a myned ar ei ol, i ymuno â'r gymdeithas a sefydlasai y gwr da hwnw yno, yr hyn hefyd a wnaeth, trwy gerdded ar ei draed bob cam o Lanaelhaiarn, yn sir Gaernarfon, i Drefecca, yn sir Frycheiniog. Ond yn rhywfodd, nid arosodd yno

* Gwel rhif 4, d.f. 1707. [Ni bu erioed ond un argraffiad o'r 'Archæologia Britannica;' ac amryfusedd diamwys oedd cofnodi y gwaith yma. Bu ail argraffiad o rif 11 ('Lithophylacii Britannici Ichnographia') yng nghorff y flwyddyn hon, o dan olygiad J. Huddesford; ac nid oes dim ammheuaeth o barthed y flwyddyn.]

† Gwel rhif 1, d.f. 1730.

‡ [Pa fodd y gwyddai ein hawdwr fod pawb yn yr oes hono yn plygu eu gliniau i Baal ond canlynwyr Howel Harris yn unig?]

ond ychydig o wythnosau, pan y dychwelodd yn ol, ac yr ymunodd â chymdeithas yr ychydig Fethodistiaid oedd yn y wlad, gan y rhai y cyfodwyd ef i arferyd ei ddawn i gynghori; ond ni bu erioed yn bregethwr rheolaidd. Yr oedd ei gynghorion yn fwy o natur foesol ac ymarferol nag athrawiaethol; ac ni pharhaodd chwaith i wneyd hyny yn hir, nac i fod mewn undeb â'r Methodistiaid. Ymosododd ar y gwaith o gadw ysgol, am yr hyn y gwysiwyd ef i lys esgob Bangor; ond gollyngwyd ef yn rhydd ar ol peth ymddyddan.

Cyhoeddodd amryw lyfrau, enwau y rhai a geir yn y gwaith hwn, o dan eu priodol amseriadau. Yr oedd hefyd yn fardd lled rwydd, a hynod o naturiol; ond ei orchwyl mwyaf ydoedd ei 'Gyfeillion,' neu Almanaciau, yn y rhai y dangosodd ei hun yn arsylllydd seryddol cywir.* Bu yn cyfansoddi ac yn cyhoeddi y rhai hyn bob blwyddyn, yn ddiattal am bedair a deugain o flynyddoedd, a gwerthid o honynt o bymtheg i ugain mil yn flynyddol. Yr olaf o'i eiddo oedd am y flwyddyn 1804. Gan ei fod yn byw yng Nghaerdybi, ym Mon, argreffid hwy yn Dublin.† Ei argraffwyr yno ydoedd M'Culloch, Powell, Bonham, Downs, ac Elliot. Bu farw y 19ydd o Fedi, 1806, yn 75 oed.‡

14. 'Llythyr oddiwrth y Gymmanfa at yr Eglwysi.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan E. Powel yn Heol y Prior. 1760.'

Dywed gohebydd i'r *Cymro*, mai 'dyma y Llythyr argraffedig cyntaf oddi wrth Gymmanfa Flynyddol y Bedyddwyr yng Nghymru at yr Eglwysi.'

15. 'Yr Amser o Berygl, a'r Moddion o Ddiogelwch, at ba rai y chwanegwyd Ffordd Sancteiddrwydd. Sef Tair Pregeth a Bregethwyd yn ddiweddar ar Ddyddiau Ymryd Cyffredinol. Yn Saesonaeg gan y diweddar Barchedig Mr. James Herfey, A.M.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan Evan Powel, yn y flwyddyn 1760.'

Tair pregeth o eiddo y Parch. J. Hervey yw yr uchod, y rhai a draddodwyd ganddo ar ddyddiau gwyl ac ymryd cyffredinol.§

16. 'Y Sacrament a'r Aberth Cristionogol. Mewn dull o Draethawd, Myfyrdod, a Gweddi, ar Natur, Rhannau, a Bendithion, y Cymmun Sanctaidd. O waith Daniel Brevint, D.D. Gynt yn Ddeon Lincoln. A gyfieithwyd allan o'r bedwaredd Argraphiad yn Saesonaeg Gan W. Ll. Gweinidog Llandyngai.

* [Prin y mae eisieu crybwyll mai nid ffrwyth ei arsylliadau ei hun ydoedd yr amseroniau a gyhoeddid ganddo.]

† [Ymddengys fod rheswm arall heb law cyfagosrwydd Caerdybi i Ddilyn, pa ham yr argraffai S. Rh. Lewys ei Amseroniau yn lle olaf. Yr oedd toll drom yn y dyddiau hyny, ac hyd o gylch y fl. 1830, ar amseroniau a gyhoeddid yn yr ynys hon, ond nid oedd na mâl na threth arnynt yn yr Ynys Werdd.]

‡ *Llythyr* Mr. Owen Roberts; a'r *Tracthodydd*.

§ Cofiant, cyssylltedig â'r 'Myfyrdodau' yn Gymraeg, t. xi. nodyn.

Ac a Argraphwyd yn Llundain gan Joan Olfir, yn Bartholomew-Clôs, yn y Flwyddyn 1760.' [12plyg: 144 tudalen.]

DANIEL BREVINT ydoedd frodor o Jersey. Cafodd ei ddysg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y gwnaed ef yn A.C. ac yn D.D.; ac wedi hyny cafodd ei godi yn ddeon Lincoln. Cyhoeddodd y Parch. John Wesley dalfyriad o'r gwaith hwn o'i eiddo, i'w ledaenu ym mhlith ei ddilynwyr.

17. 'Casgliad o Hymnau, am Gwymp Dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i Gyfodjad yn yr Ail: Neu, Ddyn wrth Natur heb ûn Cyfiawnder, a Christ yn bôb Pêth. Gan Morgan Rhys.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Rhys Thomas yn Heol Awst. Lle gellir cael argraphu pôb math o Lyfrau. 1760. Pris Dwy Geinjog.'

18. 'Select Remains of John Ray, with his Life by W. Denham, and Itineraries, including his Itinerarie through Wales, Account of the Curiosities, Religious Houses, Pories, Wells, Customs, Superstitions of the Welsh. 1760.'

19. ¶ 'Llewelin and his Bards. By John Walters. 1760.'

[Y mae yr awdwr wedi rhagamseru y gwaith hwn ugain mlynedd gyfan. Gweler rhif 15, d.f. 1780.]

Barddoniaeth hanesol gywrain, ac ymddengys mai argraffiad cyfrinachol ydoedd.

20. ¶ 'Edgar and Elfrida, with the Defeat of Hoel, Prince of Wales. By T. de Monmouth.'

Argraffwyd yn gyfrinachol o ddeutu 1760.

1761.

1. 'Rheolau a Threfniadau yr Unol Gymdeithasau a Sefydlwyd yn Llundain, Bristo, &c.

Bala, Argraphwyd gan John Rowland.*

Rheolau cymdeithasau y Methodistiaid Wesleyaidd yw y rhai hyn, wedi eu cyhoeddi a'u lledaenu ym mhlith y Methodistiaid Calфинаidd, 89 o flynyddau cyn i'r corff Wesleyaidd ymsefydlu yn Gymraeg yn y Dywysogaeth. Awdwr efengylaidd 'Methodistiaeth Cymru' a ddywed wrth son am y Mrd. Foulkes, a John Evans o'r Bala, 'Cyhoeddwyd ganddynt tua'r pryd hyn, sef 1759, ddwy bregeth o eiddo Mr. Charles Wesley, a "Phrif Physygywriaeth yr Oesoedd gynt,"

* [Yn ol y cyfargraff a welais i, fel hyn y mae y rhagddalen:—'Natur Bwriad a Cyffredin Rheolau y Cymdeithasai unedig yn Llyndain, Bristol, Kingswood, &c Argraphwyd yn y Bala gan John Rowland yn y Flwyddyn 1761.' Cynnwys y llyfryn 16 o dudalenau 12plyg. Ar dudalen 13 ceir llofnodiad John Wesley a Charles Wesley.]

o waith y Parch. John Wesley; ac yn 1761, cyhoeddwyd llyfr arall, sef, "Rheolau yr Unol Gymdeithasau, a sefydlwyd yn Llundain, Bristol, a lleoedd eraill." *

2. 'Byrr Hanes am Fywyd a Marwolaeth Nathaniel Othen, yr hwn a saethwyd i farwolaeth y'ngastell Dover, y 26 o hydref, 1757. A gyfieithwyd gan John Evans.

Argraphwyd yn y Bala, gan John Rowland.'

3. ¶ 'The Wandering Jew, neu'r Crydd o Gaersalem.'

4. ¶ 'Coppi o Lythyr yr hwn a gafwyd Tann Garreg, ymmha un y mae amryw Gynghorion da a buddiol; eithr yn fwyaf enwedigol ynghylch cadw y Sabboth.'

5. 'Marwnad y Parchedig Mr. Gryffydd Jones, Gweinidog Llanddowror, a Llandeilo-fach; yn Sir Gaerfyrddin. Yr hwn a fu Farw yr 8fed o Ebrill, 1761. Colled pa un ddylai fod o fawr Alar i Bawb trwy Gymru. Ynghyd a Gair o Annogaeth i'r Bendefiges Anrhydeddus Madam Bevans,† i ddwyn yr achos mawr dajonus yn y blaen; Sef yr Ysgolion rhad. Gan William Williams.

Gaerfyrddin, Argraphwyd gan Evan Powell, yn Heol y Prior, 1761.'

6. 'Piety the Best Portion. By W. Herbert.'

WILLIAM HERBERT oedd yn byw ym Mrechfa, sir Gaerfyrddin. Ymunodd â'r Bedyddwyr yn Nhredwstan, trwy droch-fedyddiad yn 1731. Dechreuodd bregethu yn 1736. Ordeiniwyd ef i gynnorthwyo gweinidog Maes y Berllan yn 1738. Bu farw yn 1742, yn 45 oed, a chladdwyd ef ym mynwent plwyf Llyswen, lle y mae careg ar ei fedd. Fel pregethwr, dywedir ei fod yn wr deallus a doniol, a'i weinidogaeth yn ddefnyddiol a derbynol. Heb law y llyfryn uchod, efe a ysgrifennodd draethodyn yn cymharu crefydd i ffon, yn Seisonaeg, o'r enw 'The Spiritual Staff,' yr hwn a gyhoeddwyd yn y 'Spiritual Magazine,' yn yr oes hono. Cyhoeddwyd hefyd, ym mhen blynyddoedd, ac wedi ei farwolaeth fel yr un uchod, lyfryn Cymraeg o'i eiddo.‡ Y mae hwnw wedi ei amseru fel hyn:—'Wm. Herbert. Llandefathew, 13eg§ o Fedi, 1732.'

* *Methodistiaeth Cymru*, gan J. Hughes, cyf. i. t. 502.

† ['Annogaeth i'r Ddwyfol, a'r Anrhydeddus Madam Bevans,' yn fy adysgrifen i.]

‡ *Hanes y Bedyddwyr*, t. 97, &c., a 382.

§ [Yr wyf yn ammheu fod y ffurf wrthun '13eg' yn cael ei harfer mor gynnar a hyn. Peth pur ddiweddar yw yr ymfydrwydd o chwaneu -eg ar ol y rhifnodau o ddeg i ugain; ac -ain ar ol ugain ac uchod.]

7. 'Marwnad ar ol Mari, Gwraig Richard Howel, o Bryn-y-Deintir. Yr hon a derfynodd ei Hoes y 4 o Chwefror, 1761. Gan William Jones. At ba un y 'chwanegwyd Hymn Newydd, &c.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan Rhys Tomos, yn Heol Awst, 1761.'

8. 'Cofiadur Prydlon Lloegr, &c. A gyfieithwyd o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan E. Ellis, Gweinidog Eglwys Rhos a Llandidno.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, yn y flwyddyn, 1761.'

Hanes ydyw am un Mr. Richard Brightley, gweinidog perthynol i'r Eglwys Sefydledig, yr hwn a fu farw yn ei areithfa.

9. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr Eglwysi y Perthynant iddynt.

Caerfyrddin, Argraphwyd, gan Evan Powel, yn Heol y Prior, 1761.'

10. ¶ 'Trefn Rhagluniaeth yn groes i Naturiaeth. a disgwyliad Dyn: yr hwn (yn gyffredin) a elwir Golud.

Ac Argraphwyd yng Nghaerfyrddin gan Rhys Tomos tros T. Williams. 1761.'

11. ¶ 'A Sketch of the Life and Character of the Reverend and Pious Mr. Griffith Jones, late Rector of Llanddowror in Carmarthen-shire, the first Projector and Conductor of the Welch Circulating Schools throught the Principality of Wales.

Printed by J. Oliver, London.'

12. 'A Memorial of Ancient British Piety: or a British Martyrology. Giving a short Account of all such Britons as have been renowned for their extraordinary Piety and Sanctity. To which is annexed, A Translation of two ancient Saxon Manuscripts, relating to the Burying Places of the English Saints. From the Library of Bennet College, Cambridge.

London: Printed for W. Needham, over against Gray's Inn Gate in Holborn. 1761.'

13. ¶ 'Damnegion Iesu Grist ar Gan. Gan Joseph John.

JOSEPH JOHN ydoedd enedigol o gymmydogaeth y Mynydd Bach, ger Llandeilo Fawr, yn sir Gaerfyrddin, ac aelod o'r gynnulleidfa Ymneillduol yng Nghapel Isaac. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Athrofa Caerfyrddin dan y Parch. T. Perrot. Cyhoeddwyd y gwaith uchod wedi ei farwolaeth gan weinidog Capel Isaac, y Parch. T. Williams, awdwr yr 'Oes-Lyfr.' Bu farw Ebrill 2, 1752.*

* *Y Beirniad*, 1862, t. 247.

1762.

1. 'Rhodd oreu Rhieni i'w Plant. I. Yn cynnwys Catechism yr Eglwys. II. Holion ac Attebion, allan o'r ysgrythyr Lân. III. Buchedde'r Eglwyswyr, &c.

Mwythig.'

2. 'Pantheologia, Neu Hanes Holl Grefyddau'r Byd, &c. At yr hyn y chwanegwyd Nodau yn rhoi Hanesion am amrywiol iawn o wledydd yn Europe, Asia, Affrica, ac America; eu sefyllfa, eu marsiandiaeth, eu Ehangder, ynghyda moesau, dysc, arferion, ymborth, a dull gwisgoedd, a threfn bywyd, eu Trigolion; Wedi ei dynnu allan o'r awdwyr diweddaraf, Goreu, a Chywreiniaf, Gan W. Williams, Gweinidog o Eglwys Loegr.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ev. a Dav. Powell, yn Heol y Prior, yn y flwyddyn 1762.'

Y mae y nodyn canlynol ar waelod tudalen 121:—'☞ Boed hysbys i'r Wlad argraphu'r Llyfr hwn oddiyma allan gan J. Ross, yn Nghaerfyrddin, 1763;' ac un arall ar waelod t. 499:—'☞ Argraphwyd o hyn yma allan gan E. Evans, yn Aberhonddu.' Bu y llyfr dair blynedd ar ddeg yn dyfod o'r wasg, yn rhanau anghyfartal. Y mae yn llyfr trwchus, yn cynnwys 654 o dudalenau 12plyg.

3. 'Pumtheng Araith, ar Amryw Destunau a osodwyd allan mewn Cymdeithas gyhoedd wrth Arwydd-arf y Frenhines, yn Heol y Porth newydd yn Llundain. Gan T. Wetherall. Wedi ei gyfieithu er lles i'r Cymru: Gan y Parchedig Mr. D. Rowland: Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin: gan Rhys Tomos, yn Heol Awst: 1763.'

Y mae iddo ragymadrodd gan y Parch. Peter Williams, a hymn yn ei ddiwedd ar 'Wyrthiau Duw.'

4. ¶ 'Cerdd o Alarnad ar ol Mrs. Gwen Williams, Gwraig y Parchedig Mr. Evan Williams o Lanuwchllyn yn Sir Feirionydd, yr hon a derfynodd ei Hoes Hydr. 26. 1762.'

Ar ei ddiwedd dywedir—'William Jones ai Cant,' ac 'Argraphwr John Rowland Bala.'

5. 'Cofrestr o Gymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain: Gwyl Ddewi, 1762, A Sylfaenwyd Fis Medi, MDCCLI. Er Anrhydedd eu Gwlad a'u Hiaith, Cynnyddiad Cyfeillgarwch yn eu plith eu hunain, a Gwybodaeth anianol ym mhlith y Cymry yn gyffredinol: Ac a ymgyfarfyddant yn Nhafarn yr Hanner-Lleuad yn Cheapside, yn yr Hwyr, y Mercher cyntaf o bob Mis trwy'r Flwyddyn.

Llundain: Argraphwyd gan William Roberts, Printiwr y Gymdeithas, M.DCC.LXII.*

6. 'Dwy Ffurf o Weddi. Gan y Parchedig Mr. Griffith Jones, gynt Periglor Llanddowror, yn sir Gaerfyrddin. Yr ail Argraffiad. †

Llundain, Argraphwyd gan J. a W. Olifer, 1762.'

7. 'Y Mor o Wydr. Gan W. Williams. 1762.' ‡

[‘Tebygol mai yr argraffiad cyntaf o'r “Caniadau ar y Môr o Wydr” ydoedd hwn, yn cynnwys yr “Hosanna i Fab Dafydd,” gyda chwanegiadau. Gwel-som gopi o hono, ond yr oedd yr wyneb-ddalen yn eisieu. Cynnwysa Ragymadrodd mewn rhyddiaith, a naw o ganiadau heb law yr hymnau; yn yr olaf o'r caniadau hyn y mae “Ffydd ac Anghredinaeth, Gras a Serchiadau Natur, yn cael eu darlunio mewn Cân Benrydd.”§ Math o alarnad ydyw, a'r ymgais cyntaf i gyfansoddi yn Gymraeg ar y mesur anghyfawdl. Oddi wrth Hysbysiad yn niwedd “Attebiad Philo-Evangelius i Martha Philopur” yn 1763, ymddengys fod y llyfr hwn yn dra chymmeradwy, gan y dywedir “y gwerthwyd tros ddeuddeg cant” o hono “mewn ychydig fisoedd,” a bod galwad am argraffiad newydd. Method yr ysgrifenydd gael amseriad yr ail a'r trydydd argraffiad, ond daeth y pedwerydd allan yn 1773, a'r pumed yn 1795.

Mae y “Môr o Wydr” yn llai llyfr na'r “Aleluia,” yn cynnwys yr Hymnau o 243 hyd 383, yn argraffiad 1811 o holl Hymnau yr awdwr. Cyfieithiad o hymn Seisoneg Williams yw yr olaf, gan ei fab, y Parchedig John Williams, golygydd yr argraffiad hwnw. Gadawyd yr hysbysiad hwn allan yn argraffiad mawr Mackenzie.

Am yr hymnau hyn, dywed yr awdwr yn ei Ragymadrodd crybwylledig:—“Nid oes yma ond ychydig Hymnau nas gall y gwanaf yn yr eglwys eu canu, am ei bod naill ai yn y dull o weddi am ryw rai o roddion y cyfammod newydd, neu achwyniad am bechod, lle mae llawer o'r rhai cyntaf yn ffaelu cael eu canu gan rai o herwydd y llawn sicrwydd ffydd sydd ynddynt am fywyd tragwyddol. Fel y maent, byddent er can bendith trwy bob ardal sydd wedi cadw'r iaith Gymraeg tan eu hadenydd.” Ymddengys wrth hyn ei fod yn ymdrechu ysgoi un anfantais oedd yn perthynu i'w lyfr cyntaf, sef yr “Aleluia.”¶]

8. ¶ ‘Traethawd Byrr yn dangos beth-yw'r Anedigaeth Newydd Ynghyd a difrifol annogaeth i ymofyn am dani A gyfiaethwyd i'r Gymmraeg er Budd i'r Cymru.

Argraphwyd yn y Bala gan John Rowland tros John Roberts.'

Y mae yn terfynu—‘Dy Gyfaill yn yr Arglwydd W. A.;’ a'i faint yw 16 tudalen 12plyg. Y cyhoeddwr ydoedd Sion Rhobert Lewys, Caergybi.**

* Gwel rhif 17, d.f. 1759.

† Gwel rhif 5, d.f. 1737.

‡ *Coafint Mr. Williams*, yn y *Drysorfa*, llyfr ii. gan y Parch. T. Charles. [Fel hyn y saif yr enw yn argraffiad cyflawn Caerfyrddin, 1811:—‘Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c. i Frenin y Saint.']

§ Yn yr hen argraffiad, mae y penawd i'r gân hon yn llawn fel y canlyn:—‘Ffydd ac Anghrediniaeth, Gras a Serchiadau Natur, yn cael eu darlunio, mewn Cân Benrydd: neu, Galarnad Eusebius, yr hwn a gafodd lawer o groes ragluniaeth, yn enwedig claddu amryw o'i gyfnasafiaid.’—M.D.

¶ *Llythyr Mr. Morris Davies.*

** Gwel rhif 13, d.f. 1760.

9. 'The Christian Covenant, or the Baptismal Vow, as stated in our Church Catechism, &c. By the late Rev. Mr. Griffith Jones. The Second Edition.

London: Printed by J. and W. Oliver, in Bartholomew-Close, near West Smithfield. MDCCLXII.'

Ni allodd yr ysgrifenydd weled yr argraffiad cyntaf yn Seisonaeg o'r rhan hon o waith Mr. Jones.

10. 'The Christian Faith, or the Apostles' Creed spiritually explained. By Questions and Answers. By the late Rev. Griffith Jones.

London: Printed by J. and W. Oliver, in Bartholomew-Close, near West Smithfield. MDCCLXII.'

11. 'Cydymaith yr Allor, yn dangos Natur ac Angenrheidrwydd o ymbaratoi i'r Sacrament, mewn trefn i dderbyn yn deilwng y Cymmun Sanctaidd. Ymha un y Profir fod yr holl ofn a'r arswyd (ynghylch Bwytta ac yfed yn anheilwng, ac i fod yn Euog o Ddamnedigaeth i ni ein hunain wrth hynny) yn ddisail; ac yn anwarantedig, &c. Gwedi ei gyfieithu i'r Cymraeg, gan L. E.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys. 1762.'

Y mae hwn yn drydydd argraffiad o'r 'Cydymaith i'r Allor.*' Arwyddir 'Y Rhagymadrodd' gan W. V. Arferid ei gydrwymo â 'Llyfr Gweddi-Gyffredin' y Mwythig.†

12. 'Y Drydydd Ran o Ganiadau Sion; neu Hymnau ac Odlau Ysrydol. Gan John Thomas.

Bristol: Argraphwyd gan E. Farley. 1762. Pris Tair Ceiniog.'

13. 'Sketch of the Life and Character of the Reverend and Pious Mr. Griffith Jones, late Rector of Llanddowror, in Carmarthenshire; The first Projector and Conductor of the Welsh Circulating Schools throughout the Principality of Wales.

London: Printed and Sold by J. and W. Oliver in Bartholomew-Close, MDCCLXII. [Price Sixpence].'

14. 'Llythyr Martha Philopur at y Parchedig Philo Evangelius ei Hathro. Yn mynegu iddo ei Phrofiad, a'r Testynau hynny o'r Ysgrhythur a ddaeth i'w Chôf, i gadarnhau y Gwaith rhyfeddol ac anghyfeffin o eiddo'r Arglwydd, a ymddangosodd ar Eneidieu Lluoedd o Bobl yn Sir Aberteifi, ac sydd yr awrhon yn taenu ar lled i Eglwysi Cymdogaethol. Gan W. Williams.

* Gwel rhif 3, d.f. 1715; rhif 4, d.f. 1753; a hwn yma.

† Gwel rhif 7, d.f. 1760.

Caerfyrddin : Argraphwyd gan E. Powell, yn Heol-Prior. 1762.'

15. 'Llais y Durtur : Sef Gwahoddiad Grisol Crist ar Bechaduriaid. Neu Bregeth a Bregethwyd yn Llanddewi Tach. 1. 1761. Ar Dat. iii. 20. Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws, ac yn curo, &c. Gan y parchedig Mr. D. Rowland. Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho.

Argraphwyd yn Nghaerfyrddin tros T. Davies, gan Rhys Tomos, yn Heol Awst. 1762. Pris dŵy Geiniog.'

16. ¶ 'Hyfforddiadau i Ymarferiad Defosiynol yn yr Eglwys. Llundain.*

17. 'Proposals for Enriching the Principality of Wales : Humbly Submitted to the Consideration of his Countrymen, By Giraldus Cambrensis. The Second Edition.†

Gloucester, Printed by R. Raikes, and J. Millan, in London, M.DCC.LXII. Price one Shilling and Sixpence.' [8vo.]

18. ¶ 'The Private Act of Parliament dividing between the Duke of Beaufort (as Lord of the Manor of Swansea) and the Burgesses, the Waste Grounds called Town Hall and Burroughs, 1762.'

19. ['The Life of Richard Nash, Esq. By O. Goldsmith.' 8vo. 1762.]

20. ¶ ['Gorfoledd ym Mhebyll Seion : neu ychydig o Destynau o'r Yscrethyr wedi eu tro,i mewn ffordd o Fawl, yng hyd â Chân o hanes Pechod. Gan Dafydd William. o Blwyf Llandeilo fach yn Sîr Forganwg, ger llaw Pont ar Ddu-lâs.

Argraphwyd yn Nghaerfyrddin gan Rees Thomas, yn Heol Awst. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau. Pris tair Ceiniog.'

Nid oes dyddiad wrth y llyfr hwn ; ond tybir mai o gylch y flwyddyn hon yr ymddangosodd ; o leiaf y mae yn ddilys iddo gael ei gyhoeddi cyn diwedd y fl. 1764 ; canys canfyddir iddo gael ei argraffu gan Rys Tomas, ac efe eto yng Nghaerfyrddin ; ond symmudodd ef i Lanymddyfri yn 1764, fel y canfyddir wrth fod rhai o'i lyfrau y flwyddyn hono yn dwyn argraffeb Caerfyrddin, ac ereill un Lanymddyfri. Ail argraffiad o hwn, y mae yn debyg, yw rhif 10, d.f. 1782, ac argraffiadau diweddarach yw rhif 13, d.f. 1797, a rhif 13, d.f. 1798.]

1763.

1. 'Diddanwch Teuluaid ; y Llyfr Cyntaf : yn cynnwys Gwaith y Parchedig Mr. Goronwy Owen, Lewis Morris, Esq ; a Mr. Huw Huws, &c. Beirdd Mon Mam-Gymru, ac Aelodau o Gymdeithas y Cymmrodorion. O Gasgliad Huw Jones, o Langwm, C.C.C.

* *Llythyr* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

† Gwel rhif 6, d.f. 1755.

Llundain: Argraphwyd gan Wiliams Roberts, Printiwr y Gymdeithas. M.DCC.LXIII. [Pris Deunaw yn rhydd, a Deuswllt yn rhwym.] [12plyg: 38+266=304 tudalen.]

GRONWY OWEN, A.C., ydoedd fab i Owain Gronwy, o blwyf Llanfair Mathafarn Eithaf, ym Mon, lle y ganwyd ef Ionawr 1, 1722. Dyn tlawd yn y byd ydoedd ei dad; ond er pob anfanteision daeth Gronwy ym mlaen fel ag i fod yn alluog i fod yn gynnorthwywr yn Ysgol Ramadegol Pwllheli yn bymtheg oed. Cafodd ei ddysg yn Rhydychain, trwy haelioni Mr. Edward Wynn o Fodewryd, lle y cyrhaeddodd ei radd o A.C. Ordeiniwyd ef yn ddiakon yn 1745, pryd y cafodd guradiaeth ei blwyf genedigol. Wedi hyny bu yn gurad yng Nghroesoswallt, lle y priododd yn 1747. Symmudodd i Donnington yn 1746, lle yr oedd yn cadw ysgol ac yn gwasanaethu plwyf Uppington. Yn 1753 efe a symmudodd i Walton [ger Llynlleifiad], yn sir Lancaster; ac yn 1755, i Northolt, ym Middleseccs. Gan ei fod yn methu cael lle i gynnal ei deulu, efe yn 1757 a ofynodd ac a gafodd gynnorthwy gan Gymdeithas y Cymmrodorion er symmud i America, lle y cafodd swydd mewn coleg yn Williamsburg, yn Virginia, o Broffesor yr ieithoedd dysgedig, gyda 200*p.* yn y flwyddyn o gyflog. Cafodd wedi hyny fywoliaeth St. Andreas, yn Brunswig, Virginia, o'r lle y clywyd ddiweddaf oddi wrtho, ar yr 28fed o Orphenaf, 1767. Tybir iddo farw yn 1770, yn 48 oed.*

Crybwyllasom o'r blaen am L. Morris† a H. Jones.‡ Am

HUW HUWS, neu HUGH HUGHES (y Bardd Coch), yr oedd yn fab i Gruffydd Hughes, Llwydiarth Esgob, ger Llanerch y Medd, ym Mon, ac yn berchen yr etifeddiaeth hòno, yr hon a ddisgynasai iddo oddi wrth ei hynafiaid, y rhai oeddynt yn deilliaw oddi wrth dylwyth Tegeryn ab Carwyd, arglwydd Tŵr Celyn, ym Mon. Ganwyd ef Mawrth 22, 1693. Nid yw yn ymddangos iddo dderbyn dysg helaeth pan yn fachgen; ond trwy ddiwydrwydd, efe a gyrhaeddodd radd gymmesur o wybodaeth yn y Gymraeg a Seisonaeg, fel yr ydoedd yn cynnyddu mewn blynyddoedd; yn wir, i'r fath raddau ag y gallai brydyddu yn y ddwy iaith uchod. Heb law ei lyfrau a gofrestrir yma, ceir peth o'i waith yn y llyfr uchod, y 'Blodeugerdd,' § a'r 'Dewisol Ganiadau.' Am y 'Diddanwch i'w Feddiannydd,' cyhoeddwyd ef, meddir, o dan olygiad Wm. Griffith, gynt o Bennynydd, wedi hyny o Gaergybi. Gadawodd lawer o lyfrau ar ei ol mewn ysgrif, yn cynnwys achau, caniadau, hanesion, a chofion. Bu farw Ebrill 6, 1776, yn 83 oed.||

2. 'Troedigaeth yr Atheist, neu Lygaid yr Anghredadyn wedi eu Hagor. Gan roddi cyflawn a Gwir Hanes Mr. Wright, Gwr Bonheddig, yr hwn oedd yn byw yn Nhref Guernsey, efe oedd wir atheist,

* Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen.*

† Gwel rhif 5, d.f. 1735.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1759.

§ Gwel rhif 6, d.f. 1752.

|| Williams's *Eminent Welshmen.* [Yn ol y gwaith hwn, yn 1722 y ganed ef; sef yn yr un flwyddyn â Gronwy Owen: ond os felly, nis gallasai fod yn 83 yn yr un y fl. 1776, yr hon yw blwyddyn ei farwolaeth, yn ol yr un awdurdod.]

ac ni chynhwysau ef i un o'i blant i fyned i'r Eglwys, gan fynych adrodd iddynt fod Pob peth yn dwad wrth Natur. Yn dangos fel yr ymddangosodd Angel i'r Eneth, yr hon oedd ddeg oed, &c. A gyfieithwyd gan John Vaughan.

Dimbech 27 Mai, Argraphwyd yn y fl. 1763.'

3. 'Cyngor Difrifol i gadw Dydd yr Arglwydd.

Argraphwyd yn Llundain, ac a werthir gan Hugh Jones, o Langwm.'

4. 'Coffadwriaeth y Cyfiawn a'i Ddedwyddwch; neu Farwnad Joseph Thomas, o'r Dyffryn ym Margam, yn Sir Forganwg. Yr hwn a ymadawodd ar Byd hwn, Mai 17, 1763, &c. A gyfansoddwyd gan Dafydd William.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan E. Powell, yn Heol-y-Prior, 1763.'

DAFYDD WILLIAM a ddechreuodd bregethu mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid Calfinaidd, ac a anfonwyd i Forganwg i gadw un o Ysgolion Rhad Madam Bevan (neu G. Jones, Llanddowror). Ym mhen amser ymunodd â'r Bedyddwyr, ac yr oedd yn un o aelodau, a gweinidog cyntaf eu heglwys yng Nghroes y Parc, Llanbedr ar Fro, Morganwg. Bu farw yn 1794.*

5. 'Diferyn Dewisol o Fel o'r Graig Crist. Neu Air byr o Gyngor i Sainct a Phechadur. Yn Saeson-aeg gan T. Wilcoes. Newydd Gyfieithu o'r 42 Argraphiad; fe werthwyd o hono yn Saeson-aeg, Chwe Ugain Mil. At ba un y 'chwanegwyd Hymn am Gariad Crist. Newydd Gyfieithu o waith Dr. Watts.

Argraphedig gan R. Tomas a J. Ross, ac ar werth ganddynt hwy yn eu Hargraphdy Newydd yn Heol Awst, a chan Mr. J. Williams, yn Heol y Groes, yng Nghaerfyrddin; a chan M. Bevan; yn Abertawe. 1763. [Pris Dwy Geiniog].'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, ac ef allai yn ail gyfieithiad hefyd.†

6. 'Difyrwch i'r Pererinion o Fawl i'r Oen. Neu Gasgliad o Hymnau ar amryw Ystyriaethau allan o'r Ysgrythyr Lan. Gan Dafydd Jones, o Gayo.

Caerfyrddin: Argraphwyd dros yr Awdwr, gan Ev. Powell, yn Heol-y-Prior. 1763.'

7. 'Atteb Philo-Evangelius i Martha Philopur. Gan William Williams, Gweinidog yr Efengyl.

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones, t. 613, 617.

† Gwel rhif 11, d.f. 1740.


Caerfyrddin, Argraphwyd gan R. Tomas a J. Ross, yn Heol Awst, 1763. Lle y dygir Argraphyddiaeth ym mlaen yn ei holl rannau ar Lythyrenau Newyddion yn y dull mwyaf cywraïn.'

8. 'Helaethrwydd o Ras i'r Pennaf o Bechaduriaid, Mewn cywir Hanes o Fywyd a Marwolaeth John Bunyan. Neu Fyrr Ddadcuiddiad o ragorol Drugaredd Duw yng Nghrist iddo ef, &c. Wedi ei ei gyfieithu o'r newydd yn ol y nawfed Argraphiad yn Saesonaeg.

Caerfyrddin: Argraphwyd yn Heol Awst, ac ar werth yno gan R. Tomos a J. Ross. 1763. Pris Swllt.'

Yr oedd hwn, ymddengys, yn ail gyfieithiad, yn gystal ag yn ail argraffiad.*

9. 'Llythyr oddiwrth Gymanfa o Weinidogion at yr amryw Eglwysi y Perthynant iddynt.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ev. Powell, yn Heol-y-Prior, dros y Parchedig Mr. Timothy Thomas. 1763.  Ac yr wyf yn gobeithio y bydd i bwy bynnag o Barchedig gyfeillion Mr. T. Thomas, ag a fo un peth ganddynt i'w Argraphu, adel i mi eu Gwasanaethwr gostyngedig Evan Powell, gael yr anrhydedd o'u gwasanaethu.'

10. 'Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau. Neu Rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Y Rhan Gyntaf. Gan W. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd dros yr Awdw gan J. Ross, yr unig Argraphydd yn y Parthau hyn, a ddugwyd i fynu yn rheolaidd i'r Gelfyddyd honno. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau ar Lythyren dda, am brîs Gweddauidd. M,DCC,LXIII.'

Yr amser hyn (ar gefn dalen ddiweddaf y llyfr hwn) y mynegir fod 'yr ail ran o Grefyddau'r Byd' (=y Pantheologia), 'i'w brintio ar frys.'

[Yn niwedd y rhan hon o'r 'Ffarwel Weledig' y mae Marwnad 'Maria Sophia,' ar y mesur diawdl, neu 'gân benrydd.']

11. 'An Act obtained by Thomas Hughes, Esq. to enable him to open a Communication ffrom his House adjoining Halkin Mountain to a House at Nant y moch in Bagill, Co. Flint. 1763.'

12. 'Rheol o Addoliad ac Ymarfer Duwioldeb i'r Hwsmon. Neu Hyfforddiadau y dichon y rhai Annysgedig wybod wrthynt pa fodd i'w hymddwyn eu hunain yn eu hamryw Ddyledswyddau tuag at Dduw a phob Dŷn. Gwedi ei gyfaddasu at synhwyrâu y cyffredin Bobl. Gwedi ei gyfieithu o'r Saes'naeg gan Tho. Jones, Ficar Pennant. 1761.

* Gwel rhif 6, d.f. 1757.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, yn agos i Farchnad y Garddwy'r. M.DCC.LXIII.' 70 tudalen 12plyg.

13. 'A Collection of Poems, Principally consisting of the most Celebrated Pieces of Sir Charles Hanbury Williams, Knight of the Bath, &c.

London: Printed for Lynch, near Temple Bar, in the Strand, 1763. [Price Two Shillings and Sixpence.]'

Syr CHARLES HANBURY WILLIAMS ydoedd ail fab i John Hanbury, Yswain, o Barc Pont y Pwl, yn sir Fynwy, ac a anwyd Rhag. 8, 1709; ac a fu yn A.S. tros Drefynwy. Mabwysiadodd y cyfenw Williams. Bu farw Tachwedd 17, 1759.

1764.

1. 'Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr. Mwythig.' 12plyg.

Dyma ail argraffiad o waith yr hen Edward Samuel* ym mhen trigain mlynedd ar ol y cyntaf.

[Y mae yn dyb genyf na bu ail argraffiad o'r gwaith hwn nac yn y flwyddyn hon, nac mewn un flwyddyn arall. Cyffelybol yw mai gwall rhyw ysgrifenydd neu argraffydd ydoedd troi 1704 (y flwyddyn yr ymddangosodd gyntaf) yn 1764, yr hyn a arweiniodd i'r camsyniad. Y mae diffyg yr argraffeb yn y cofnodiad yn awgrymu nas gwelodd ein hawdwr mo'r llyfr; ac mai ei restru a wnaeth ar awdurdod rhywun arall.]

2. 'Cyd Gordiad neu Dreimiad ar y Testament Newydd, Lle y gwelir ba wirionedd mae'r Efengylwyr a'r Apostolion yn llefaru, ar cwbl yn rhedeg yn ol yr Egwyddor, A. B. C. y deng air Deddf ac Hymn am Waredigaeth Pechadur Trwy Iesu Grist. Tros Dafydd Lewis, Caerfyrddin.'

Math o lawlyfr neu nodlyfr ydyw.

3. 'Tair Pregeth am Dragywyddoldeb ynghyd a'r Budd a'r Fantais o edrych ar Bethau tragywyddol. A bregethwyd yn Saesoneg gan y Parchedig Mr. Job Orton. Ac yn awr a gyfieithwyd yn Gymraeg trwy ganiatad yr Awdwr, gan W. Jones. Yr ail Argraphiad.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Cotton, a J. Eddowes, 1764.'

Nid ydys wedi cael yr argraffiad cyntaf. Yr awdwr—

JOB ORTON, a anwyd yn y Mwythig, yn 1717, o rieni duwiol. Cafodd ei ddysgeidiaeth, i ddechreu, yn hen ysgol rad ramadegol y lle, ac wedyn gyda'r Dr. Charles Owen, o Warrington, brawd Mr. James Owen; ac yn olaf gyda'r Dr. Doddridge, lle y cymmerwyd ef

* Gwel rhif 8, d.f. 1704.

yn gynnorthwywr. Yn 1741, efe a alwyd i wasanaethu y cynnull-eidfaoedd Presbyteraidd ac Annibynol yn y Mwythig, lle y llafuriodd hyd nes i afiechyd ei orfodi i beidio, yn 1765. Wedi hynny, efe a symmudodd i Kidderminster, lle y bu yn nychu hyd ei farwolaeth, yn 1783, yn 66 oed.* Nid oes gwybodaeth ar gael pwy oedd y cyfieithydd.

4. 'Anghyfreithlondeb bwyta Gwaed. Wedi ei amlygu trwy olwg ar yr ystyriaeth yr oedd y Cenhedloedd Cristionogol o'r dechreuad yn cynnal eu rhyddid yng Nghrist oddiwrth jau deddf Moses. Gan Mr. John Glass. At ba un y chwanegwyd, rhai o feddyliau Dr. Delany ar yr un ystyriaeth. Wedi i'u Gyhoedd yn gymraeg gan J. Popkin.

Caerfyrddin Argraphwyd.'

JOHN GLASS, ydoedd fab i Alecsander Glass, gweinidog Eglwys Sefydledig Scotland, ac a anwyd yn Auchtermuchty, yn sir Ffeiff, yn 1695. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Perth, ac yna ym Mhrifysgolion St. Andrew ac Edinburgh. Ordeiniwyd ef yn weinidog plwyf Tealing, ger Dundee, yn 1719; ond ni bu yn hir yn weinidog heb ddangos ei fod yn gwahaniaethu mewn egwyddorion a dysgyblaeth eglwysig oddi wrth weinidogion yr Eglwys Sefydedig yn Scotland, a gwnaeth ei wahaniadau yn gyhoeddus trwy y wasg, yr hyn a gynhyrfodd ddadl wresog trwy yr holl deyrnas. Efe a wysiwyd ger bron Cynghorfa Angus a Mearns, gan yr hon y diarddelwyd ef, yr hyn a gadarnhawyd gan y Gymmanfa Gyffredinol. Y canlyniad a fu, sefydlu lluaws o gynnulleidfaoedd Annibynol; ond yn gwahaniaethu oddi wrth Annibynwyr ereill yn eu trefn o addoli a threfn eglwysig, yn ol yr hyn a elwir yn Lloegr a Chymru yn Sandemaniaeth, oddi wrth un arall o'r enw Robert Sandeman. Bu Mr. Glass farw yn 1773, yn 78 oed.†

[Y Dr. PADRIG DELANY ydoedd frodor o Werddon, ac a anwyd yng nghylch y fl. 1686. Derbyniodd ei ddysg yng Ngholeg y Drindod, Dulyn, a chafodd urddau yn yr Eglwys. Yn 1732 cyhoeddodd waith o'r enw 'Revelation Examined with Candour;' ac yn hwn y traetha ei lèn ar anghyfreithlondeb bwyta gwaed ac allan o hono y mae y dyfyniadau a geir yn y llyfr Cymreig dan ein sylw wedi eu cymmerwyd. Ceir dyfyniadau helaeth o hono hefyd, ar yr un pwnc, yn Esboniad y Dr. Adam Clarke ar ddiwedd *Act. xv.* Cyhoeddodd y Dr. Delany amryw weithiau ereill; ac yn eu plith, Adfyfyrion ar Amlwreicaeth; Bywyd Dafydd Frenin; a Sylwadau ar Nodiadau Arglwydd Orreri ar Fywyd ac Ysgrifeniadau y Deon Swift. Bu farw yn 1768.]

JOHN POPKIN a fu bregethwr gyda'r Methodistiaid yn ardaloedd gorllewinol sir Forganwg, ac wedi rhai blynyddoedd cofleidiodd yr hyn a elwir Sandemaniaeth, ac ysgrifennodd, cyfieithodd, a chyhoeddodd lyfrau o blaid ei egwyddorion, ac yr oedd yn llym iawn yn erbyn ei hen gyfeillion y Methodistiaid; yr hyn a achosodd gryn derfysg yn y

* W. Jones's *Christian Biography.*

† W. Jones's *Christian Biography.*

Deheudir ar y pryd, am yr hyn y cwyna ei haneswyr.* Cyhoeddwyd hefyd o'i eiddo yn Seisonaeg, 'Observations on the Nature of the House of God, his Church—Christian Knowledge—Church Union, and the Unity of Christ's Disciples; occasioned by his Lordship the Lord Bishop of St. David's Address to the Clergy of that diocese, on that subject at Abergwilly-Palace, October 23, 1804; in which His Lordship directs the Clergy of that Diocese to consider a Parish House, or what is called a Parish Church, to be the house of Gods, for such House grows up with the well-disposed Persons from their youngest years. By John Popkin. Swansea; Printed by. T. Jenkins,† Windstreet. 1813.'

5. 'Rhybydd ofnadwy i Blant anraslon: yn rhoddi cyflawn a thrymlyd hanes o un William Johnson. wr Gieuangc ynghylch pump ar hugain oed, yr hwn a anwyd yn Ninas Lincoln, ac a Grogwyd ar y Pedwerydd dydd o Fawrth 1763, am echryslawn fwrdrad a wnaeth efe ar ei Dad a'i Fam a'r Forwyn, gan yspelio'r Tŷ ai rodidi ar dân, ynghyd a'i dreial, a'i Gyfaddefiad, ai farn yw grogi ai sybedi, ei ymadroddion marwolaeth, a'i gynghor i bobl ieuangc, Gweddi a phregeth ar yr unrhyw achos, Gan y Parch. Dr. Wilkinson, allan o Psalm xxxvii. 22.

Argraphwyd yn y Mwythig.'

6. 'Golwg ar Deyrnas Crist. Neu Grist yn bob peth, ac ymhob peth. Sef Caniad mewn dull o agoriad ar Col. iii. 11, 1 Cor. xv. 20. Yr ail argraphiad,‡ wedi ei ddiwygio o amryw feiau, a chwedi ychwanegu llawer o bethau ato, nad oedd yn yr argraphiad cyntaf. Gan William Williams.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan J. Ross, oddieithr y 24 tu dalen cyntaf o Gorph y Llyfr.'

Y mae yr hysbysiaeth a ganlyn yn gyssylltedig â'r uchod:—

'Theomemphus ☞ Am fod gwerth swm fawr o lyfrau o bryd i bryd wedi sefyll ar ddwylo'r Awdwr, mae efe yn meddwl peidio printio rhagor o'r llyfr hwn nag a debygo a ellir werthu yn fuan, am hynny y sawl sydd am dano danfonant eu henwau a swllt o arian subscription i'r Awdwr ei hun, neu i ryw rai o'i ffryns ef, y rhai yw rhyw ddyinion gonest geirwir ag a dalo iddo yr hyn a dderbyniont pwy bynag a font. A swllt fydd pris y llyfr heb ei feindio i'r rhain, ond i'r lleill maen bur debyg y cyst ef fwy, ac o bosib nas gellir ei werthu ef am 15 ceiniog, ond nis gwyddys yn iawn am hyn am nas gwyr yr Awdwr pa faint yr ymhelaetha tan ei law ef wrth ei ail sgrifenu.'

* *Drych yr Amseroedd*, ail argraffiad, t. 145; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 409.

† [Ai nid 'D. Jenkin' a ddylai hwn fod? Dafydd Jenkin neu Jencin ydoedd argraffydd cyntaf *Seren Gomer*.]

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1756.

Yr oedd bardd Pant y Celyn yn deall pa fodd i fasnachu, yn gystal a chanu; a da pe buasai llawer bardd a chyhoeddydd llyfrau ar ei ol wedi dilyn ei siampl ef.

7. 'Diferion Gwybodaeth, &c. &c. A draddodwyd gan Dafydd Jones, o Drefrhyw, C.C.C.

Argraphwyd yn Llundain gan William Roberts, ac a werthir Ynghymru gan Dafydd Jones o Drefrhyw.' 20 tudalen 12plyg.

Diwedd y rhagymadrodd a ddywed fel hyn:—'Annerch wael oddiwrth dy Garwr. Llundain, Mawrth 31, 1764.' Ac yn niwedd y llyfr y mae 'Diwedd y Rhan gyntaf;' eithr ni welais yr un arall.

8. 'Bywyd a Marwolaeth Theomemphus o'i Enedigaeth i'w Fedd. Gan W. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Joan Ross. 1764.'

9. ¶ 'Llyfr ar Arddodiad Dwyllaw. Gan Timothy Thomas, Aberduar.'

[Y mae yn bur ddilys mai rhif 24, dan y flwyddyn hon, ydyw y llyfr hwn. Ceir ei enw yno yn gyflawn, yng nghyd â'r achlysur o'i gyhoeddiad.]

10. 'Moliant i Dduw; Neu ychydig nifer o Hymnau. Wedi eu cyfansoddi, a'u gwneyd yn gyhoeddus; mewn difrifol ddymuniaid o'u bod yn fuddiol i ddynion, er clôd i Dduw, trwy Jesu Grist. Gan Timothy Thomas.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Evan Powell yn Heol-y-Prior. 1764.'

Cynnwysa y llyfr uchod 126 o hymnau, neu yn hytrach caniadau, ar 108 o dudalenau, heb law 12 tudalen yn rhagymadrodd, &c. Ar gefn y rhagddalen y mae y cyngor buddiol a ganlyn:—'N.B. Dylai pob yn ddarllain y llythyr neu'r rhagymadrodd a fyddo o flaen pob llyfr cyn darllain y llyfr.'

11. ¶ 'Cariad Brawdol. Gan Timothy Thomas, Aberduar.'

12. 'Golwg o Ben Nebo ar Wlad yr Addewid; mewn casgliad o Hymnau, am gwmp dyn yn yr Adda cyntaf, a'i gyfodiad yn yr Ail. Yr ail argraphiad. At ba un y chwaneqwyd Hymnau ac Odlau newyddion, ar amryw Fesurau, i'r Pererinion, sy'n Teithio o Ddinas Distriw i'r Gaersalem newydd. Gan Morgan Rhys.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin: Gan Rhys Tomas, 1764. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau, am bris gweddaidd.' 84 tudalen 12plyg.

MORGAN RHYS a anwyd yng nghymydogogaeth Llanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, ryw bryd tua dechreu 1700. Ymunodd â'r Methodistiaid yng Nghil y Cwm yn foreu. Yr oedd yn preswyllo mewn

bwthyn ar dir Cwm Gwenyndy, ym mhlwyf Llanfynydd, ac yn cadw ysgol yng Nghapel Isaac, ger Llandeilo Fawr, yng nghyd â phregethu yn deithiol ym mhlith y Methodistiaid Calfinaidd. Bu farw tuar flwyddyn 1776.*

13. 'Y Pedwerydd Ran o Ganiadau Sion; Neu Hymnau ac Odlau Ysrydol. Gan John Thomas. At yr hyn y chwanegwyd, Can i Ieuengetyd, ar ddymuniad rhai Pobl Ivainge, gan yr un Awdwr.

Bristol Argraphwyd gan E. Farley. 1764. Pris 4d.' 60 tudalen 12plyg.†

14. 'Y Perl Gwerthfawr; neu Bennau o Wybodaeth Iachus, i Bechadur am ffordd y Bywyd, &c. Wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg, er lles i'r Cymru.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, Printiwr a Gwerthwr Llyfrau. M,DCC,LXIV. Pris 4d.' 44 tudalen 18plyg.

Y mae y rhagymadrodd wedi ei arwyddo gan 'David James, Edward Parry, Thomas Edwards—Henllan May 29, 1764.' Am yr rhai a enwir uchod, gellir cofnodi am

(1.) DAVID JONES, mai ysgolfeistr yr Ysgolion Symmudol o eiddo Mr. G. Jones, Llanddowror, yng nghymydogeathau Dinbych tua'r fl. 1750, ydoedd.

(2.) EDWARD PARRY ydoedd fab i wr mewn sefyllfa isel a drigfanai yn sir Ddinbych. Yr oedd yn ei ieuentyd yn meddu peth tueddiad at farddoniaeth ysgafn, a choeg chwareu; yr hyn a wnaeth iddo ymgysylltu â Thomas Edwards o'r Nant, ac ereill o'r un tueddiad. Tua'r fl. 1747, dwyseiddiwyd ei feddwl trwy bregethiad rhyw un o'r teithwyr Methodistiaidd. Dechreuodd bregethu yn 1749. Yn yr ymranid rhwng Mr. Howel Harris a'r Methodistiaid, efe a dueddodd gyda'r cyntaf, gan lyfrhau yn ei ysbryd defosiynol. Yn 1766, aeth i fyw i le a elwir Bryn, wrth yr hwn le y mae ei enw yn cael ei adwaen. Ail ymunodd â chorff y Methodistiaid, a pharhaodd yn llafurus hyd ei farwolaeth.‡

(3.) THOMAS EDWARDS, a grybwyllwyd eisoes, ydoedd yr hwn a adwaenid wrth yr enwad *Twm o'r Nant*, ac a anwyd yn Llannefydd, ger Dinbych, yn 1738. Dangosodd yn ieuanc athrylith, yr hyn a wrtheithiodd heb unrhyw fanteision. Cymmerodd hyfrydwech mewn cyfansoddi a dynwaredu caniadau coeg-chwareuol, a elwid *Interludes*. Bu flynyddoedd yn dilyn yr alwedigaeth o gludydd coed, &c. Byddai weithiau yn lled dda ei sefyllfa, a phryd arall yn eithaf isel. Cyfansoddai yn dda os mynai. Bu farw yn 1810, yn 72 oed.§

* *Yr Adolygydd*, 1851, t. 330; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 428, 450.

† Gwel rhif 12, d.f. 1762.

‡ *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 142-6.

§ *Y Greal*, 1805; *Gwladgarwr*, 1836; *Williams's Eminent Welshmen*; a *Hanes Twm o'r Nant*, gan Humphreys.

15. ¶ 'Myfyrdod-dau Duwiol i'n Cymhwysu erbyn Angau.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prŷs Gwerthwr Llyfrau.' 58 tudalen 18plyg.

16. 'Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards. Translated into English, with Explanatory Notes on the Historical Passages, and a short Account of Men and Places mentioned by the Bards, in order to give the Curious some Idea of the Taste and Sentiments of our Ancestors, and their Manner of Writing. By the Rev^d Mr. Evan Evans, Curate of Llanvair Talyhaern in Denbighshire.

London: Printed for R. and J. Dodsley in Pall-Mall. M.DCC.LXIV.' 4to.

[Y mae y gwaith hwn yn gymmwysedig o dair rhan: y rhan gyntaf yn Seisonaeg; yr ail yn Lladin; a'r drydedd yn Gymraeg. Y mae dalen enw yn blaenori pob rhan neu ddsbarth. Y gyntaf yw y Seisoneg, yr hon yw rhag-ddalen yr holl gyfrol; a'r hon a gofnodir uchod. Dechreu y Lladin ar dudalen 60; a rhagddalen y rhan hòno sy fel y canlyn:—'De Bardis Dissertatio; in qua nonnulla quæ ad eorum antiquitatem et munus respiciunt, et ad præcipuos qui in Cambria floruerunt, breviter discutiuntur. Studio et Opera Evani Evans, Cereticensis.' Gelwir yr holl lyfr yn fynych wrth yr enw Lladin hwn. Dechreu y Gymraeg ar dudalen 95, a rhed yr enwad fel hyn:—'Ychydig Awdlau o waith yr hen Feirdd, yn amser Tywysogion Cymru, wedi eu cyfieithu i'r Saesoneg; Er mwyn dangos ansawdd ein Prydyddiaeth i wir cywraint, dysgedig, anghyfiaith: â nodau byrrion, i eglurhau enwau Dynion, a Lleoedd, a grybwyllir ynddynt; a hanes byrr o honynt, wedi ei gasglu allan o Drioedd Ynys Prydain, a hen Goffadwriaethau eraill; er dywentydd i'r oes hon, ac er adfer ei haeddedigawl barch i'r hen famiaith Gymraeg, ac i'n Gwlad; a'u dyledus glod i'w thrigolion dewrwyh gynt.' Nid oes argraffeb ond i'r tudalen cyntaf yn unig. Y drydedd ran a gynnwys yr 'Awdlau' gwreiddiol; yn y rhan gyntaf ceir cyfieithiad Seisoneg o honynt; a'r ail ran, neu y dosbarth Lladin, sy draethawd yng nghylch yr hen feirdd a'u barddoniaeth. Gwelir fod Llanfair Talhaiarn wedi ei gamsillebu yn 'Llanvair Talyhaern' ar y ddalen gyntaf. Rhisiart Morys oedd golygwr y gwaith trwy'r wasg yn Llundain. Y mae llawer o gyfeiriadau at y gwaith hwn yn llythyrau y Prydydd Hir.]

EVAN EVANS, neu a adwaenir yn well gan ei gydwladwyr wrth ei enw barddonol, *Ieuan Brydydd Hir*, a anwyd yng Nghynhawdref, yn mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1730. Derbyniodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig, yn yr un sir, o dan yr athraw enwog a sylfaenydd yr athrofa hòno, Mr. Edward Richard. Oddi yno symmudwyd ef i Goleg Merton, Rhydychain, yn 1751. Wedi gadael y brifysgol, bu yn gwasanaethu fel curad mewn amryw leoedd olynol, megys Towyn, yn sir Feirionydd, Llanberis a Llanllechid, yn sir Gaernarfon, a Llanfair Talhaiarn, yn sir Ddinbych. Dangosodd yn foreu ymlyniad wrth yr awen a hynafiaethau, yr hyn a dynodd sylw prif lenorion a gwladgarwyr y Dywysogaeth yn yr oes hòno. Bu yn ddiwyd iawn i gasglu ac adysgrifenu hen ysgrifeniadau, trwy ymweled â'r rhan fwyaf o'r llyfrfaoedd yng Nghymru y gwyddid fod hen ysgrifeniadau ynddynt. Bu Syr Watkin W. Wynn, a'r Dr. Warren, esgob Bangor, yn rhoddi blwydd-dâl iddo dros beth

amser, i'w alluogi i fyned ym mlaen gyda'i lafur hwnw. Caniataodd Paul Panton, Ysw., o'r Plas Gwyn, ym Mon, flwydd-dal bychan o 20*p.* yn y flwyddyn iddo, ar yr ammod o gael ei holl ysgrifeniadau ar ol ei farwolaeth, y rhai, o ganlyniad, hyd i gant o gyfrolau, a ddaethant i feddiant y boneddwr hwnw; ac yn llyfrfa y Plas Gwyn y maent eto.* Bu farw yng Nghynhawdref, Awst, 1789, yn 59 oed.† Am y cyhoeddwy—

ROBERT a JAMES DODSLEY, yr oeddynt yn frodyr ac yn gymdeithion yn eu masnach. Yr oeddynt hefyd yn awdwyr o gryn enwog-rwydd. Ganwyd Robert ym Mansfield, Nottingham, a bu farw yn Pall Mall, Llundain, Medi 5, 1764, tra yr oedd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi. Dilynodd James y fasnach ym mlaen mor llwyddiannus, fel y daeth i gael ei enwi yn sirydd Llundain. Yr oedd yn werth dim llai na 70,000*p.* pan fu farw, yr hyn a gymmerodd le Chwefror 19, 1797, yn 74 oed. Gadawodd yn ei ewyllys agosi 400*p.* i gwmpeini y Safwerthwyr; 1000*p.* bob un i George Neal, a'i hen egwyddorwas John Walter, llyfrwerthwyr; 4000*p.* i John Freeborn, yr hwn a fuasai yn ei wasanaeth lawer o flynyddoedd; 1000*p.* i Mr. Webster, ei gyfreithiwr; 500*p.* i'w forwyn; 500*p.* a'i gerbyd a'i geffylau i'w gerbydwr; a 200*p.* yn y soddion i dlodion St. Iago, Westminster; yr oll yn 7,600*p.*‡

17. 'The Origin of Language and Nations, Hieroglyphically, Etymologically, and Topographically Defined and Fixed, After the Method of an English, Celtic, Greek, and Latin English Lexicon. Together with an Historical Preface, An Hieroglyphical Definition of Characters, A Celtic General Grammar, and Various other Matters of Antiquity. Treated of in a Method Entirely New. By Rowland Jones, Esq; of the Inner Temple.

London: printed by J. Hughs, near Lincoln's-Inn-Fields: MDCCLXIV.' 8vo (small).

ROWLAND JONES ydoedd fab i John Williams, Bachellyn, ym mhlwyf Llanbedrog, yn Llein, sir Gaernarfon, ac a anwyd yn 1722.§ Pan yn lled ieuanc aeth i Lundain, lle y bu am ryw gymmaint o amser yn ysgrifenydd mewn swyddfa cyfreithiwr, yr hon alwad yr ymddengys a arferasai gyda'i dad, yr hwn yntau a fuasai yn ysgrifenydd gyda Mr. Parry, o'r Wern Fawr, un o hynafiaid teulu presennol Madryn, yn y sir uchod. Pan yn Llundain, daeth amgylchiad neillduol ag ef i adnabyddiaeth â boneddiges gyfoethog, yr hon a briododd, trwy yr hyn y daeth yn berchen meddiannau lawer. Yn lled ebrwydd wedi priodi, aeth yn aelod o'r Deml

* [Yn hytrach mewn blychau dan glo yn rhai o gelloedd Mr. Barton Panton, ger Caergybi, y maent yn llwydo ac yn pryfedu, heb i un llygad dynol gael cip arnynt.]

† Williams's *Eminent Welshmen; Cambrian Quarterly Magazine*, vol. i. p. 133, 134, 373, 393; gwel hefyd rhif 9, a.f. 1772; a rhif 2, d.f. 1776.

‡ Timperley's *Dictionary*.

§ *Coflyfr Eglwys Llannor, yn Llein.*

Fewnol (*Inner Temple*), yn Llundain, a daeth yn gynghorwr yn y gyfraith. Bu farw yn Llundain, yn nechreu y flwyddyn 1774, yn 57 oed. Bu iddo dri o blant, sef dwy ferch, y rhai a fuont feirw yn ieuaine, ac un mab, sef y diweddar Rowland Jones, o'r Weirglodd Fawr, ger Pwllheli, yr hwn a fu farw yn ddibriod yn 1856; ac a gladdwyd yn Llanbedrog, Rhagfyr 2, 1856; a daeth yr etifeddiaeth i William Jones, o'r Ysgubor Hen, Eifionydd, yr hwn oedd fab i'w gefnder, a thrwyddo yntau i'w fab, y presennol feddiannydd, John Lloyd Jones, o'r Weirglodd Fawr (*Broom Hall*), ac Uchel Sirydd sir Gaernarfon yn 1859.*

18. 'Hymnau Newyddion, Nad oedd yn un o'r Ddau Argraphiad cyntaf.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yr unig Argraphydd yn y Parthau hyn, a ddugwyd i fynu yn rheolaidd i'r Gelfyddyd honno. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau ar Lythyren dda, am bris gweddaidd. 1764.'

[Ymddengys mai yr ychwanegiadau at yr argraffiadau cyntaf o'r "Môr o Wydr," oedd yr "Hymnau Newyddion" hyn, yn cael eu gwerthu, ef allai, wrthynt eu hunain er mwyn y rhai oedd wedi prynu y rhanau neu yr argraffiadau cyntaf. Yr oedd yr hymnau o 330 hyd 342 wedi eu chwanegu at yr ail argraffiad, a 343 hyd 353 at y trydydd, yn ol eu rhif yn argraffiad 1811; hymnau sacramentaidd o 354 hyd 365, a'r rhelyw ar destynau cyffredinol.†]

19. 'Crwydriad Dychymmyg i Fyd yr Ysbrydoedd; Neu Fyfyrdodau ar Farwolaeth y Parchedig Mr. Lewis Lewis, Gweinidog Eglwys Loegr, yr hwn a ymadawodd â'r Bŷd, Meh. 9, 1764. Gan William Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Joan Ross, tros yr Awdwr, 1764.' [12plyg.]

20. 'Dwy Farwnad, Un ar ol Mr. Thomas Lewis, o Drefela yn Llan-gwm. Y llall ar ol Mrs. Rachel Harrys; gwraig Mr. Harrys, o Bont-y-pool; yn Sir Fynwe. Yr hon gyfnewidiwyd y Dŷdd cyntaf o Awst; yn y Flwyddyn 1763, yn y 25 o'i Hoed: Ac a gladdwyd yn Llanguby; Lle hefyd y claddwyd ei Mâb William

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin; Gan Rhys Thomas. M,DCC,LXIV.'

21. 'Derchafiad y Credadyn mewn Cyfiawnder Cyfrifol. Wedi ei osod allan mewn Pregeth gan y Parchedig Ebenezer Erskine, M.A. Ar Salm lxxxix. 16. Newydd Gyfieithu yn ofalus o'r Saesoneg i'r Gymraeg.

* *Llythyr* y Parch. D. S. Evans; a'r eiddo R. Jones, yn y *Drych a'r Gwyllydd* (New York).—[Gyda golwg ar y gwaith dychymmygol hwn o'r eiddo Rowland Jones, a'r defnydd a wnaed o hono gan y Dr. O. Pw, cyfeirir y darlennydd at erthygl ar y pwnc yn y *Brython*, i. 35.]

† *Llythyr* Mr. Morris Davies.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth yno gan J. Ross, lle caniateir Elw mawr i'r rhei'ny a'u pryno i'w roddi ymaith, neu iw hail werthu. 1764. [Pris Dwy Geiniog.]'

22. 'Dwyfolder Beunyddiol y Cristion; ynghyd a Chyfarwyddiad-au pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y Dydd.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ev. Powell. Yn Heol-y-Prior. 1764.'

23. 'Llythyr oddiwrth y Gymmanfa at yr Eglwysi.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan E. Powel. Yn Heol-y-Prior. 1764.'

24. 'Amlygiad Byr am Arddodiad Dwyllaw; A'r Dderbyniad o'r Ysryd Glan: Ar y Dull o Ymddiddan rhwng Ymofynwr a Ffyddlon. Gan Timothy Thomas. Ac a wnaethpwyd yn gyhoeddus ar ddymuniad Cymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yn Rhyd-wilym, Hydref 24. 1764.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan E. Powell, yn Heol-y-Prior. 1764. Pris tair Ceiniog.'

Yr oedd eglwysi y Bedyddwyr yng Nghymru yn selog iawn dros arddodiad dwyllaw ar y bedyddiedig o'r fl. 1689 hyd 1737, heb nemawr o ddadl. Yn y flwyddyn olaf a enwyd, yr oedd dyn ieuanc yn ymgeisydd am gymmundeb, ac wrth ei holi, dywedodd nad oedd ei feddwl yn glir ar y pwnc hwnw. Achlysueroedd hyny i'r pwnc gael ei chwilio; ac achlysueroedd ddadleuon blinion rhwng gweinidogion ac aelodau a'u gilydd arno—rhai drosto, ac ereill yn ei erbyn. Bu dadl frwd arno yn eu heglwys yn Aberduar yn 1743. Yr oedd y Parch. T. Thomas, gweinidog Aberduar, yn selog dros yr arddodiad. Fel ag oedd y ddadl yn lledaenu, efe a roddodd yng nghyd ychydig o feddyliau arno, ac mewn cyfarfod chwarterol yn y gymmydogaeth, efe a'u darllenodd i'r gweinidogion oeddynt bresennol; ac ar gais rhai o honynt efe a'u cyhoeddodd, fel uchod, gyda rhai hymnau o'i gyfansoddiad ei hun.*

25. 'Ymddiddan rhwng Hen Wr dall ac Angau, &c.

Caerfyrddin argraphwyd ac ar werth gan J. Ross; a chan Mr. Bevan yn Abertawe. 1764. [Pris Ceiniog.]'

Y mae yr hysbysiad canlynol ar gefn y rhagddalen:—

'Hyn sydd i hysbysu fod John Ross Argraphydd o Lundain wedi gosod i fynu argraph-wasg yng Nghaerfyrddin, lle gall boneddigion crefftwyr ac ereill hyderu cael pa beth bynag a fyddont am gael ei argraphu, wedi ei wneuthur yn lan, yn gywir ac yn fuan, am Bris rhesymol.

* Thomas's *History of the Baptist Associations in Wales*, p. 43, 60.

* * Gan mai efe yw yr unig un yn y Parthau hyn a ddugwyd i fynu yn rheolaidd i'r Gelfyddyd, wedi gwasanaethu saith flynedd yn Ben-gweithiwr mewn argraphdy enwog yn Llundain: gwedi cael oddiyno yn ddiweddar lawer iawn o lythyrennau newyddion, a gwir argraph-wryf (*Printing Press*) wedi ei wneuthur yno gan saer celfydd enwog, a chwedi darparu Golygwr ar ei waith Cymraeg; gyda'r manteision hyn y mae yn gobeithio am ffafr y wladwriaeth, yr hyn y bydd iddo hyd eithaf ei allu wneuthur ei oreu i'w fwynhau a'i gynnal trwy ffyddlondeb, diwydrwydd, a gofal.'


26. ¶ (Congl o'r ddalen wedi ei thori ymaith.) 'Yr hwn a hunodd Meh. 9. 1764 gan Morgan Rhys.

Caerfyrddin.*

27. 'Difyrwech i'r Pererinion o Fawl i'r Oen. Yr ail ran: † Neu Gasgliad o Hymnau ar amryw Destynau allan o'r Ysgrythur lan; iw canu yn ddirgel a chyhoeddys; a rhai o honynt yn gymmwys iw harfer wrth Fwrdd yr Arglwydd. Gan Dafydd Jones o Lanwrda, gynt o Gayo.

Argraphwyd yn Llanymddyfri, gan Rys Tomas. 1764.'

28. 'Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c. i Frenhin y Saint. Yn dair rhan, i. Hymnau Ysprydol ar amryw Destynau. ii. Hymnau Sacramentaidd. iii. Caniadau Moesol, ar amryw Fesurau ac Ystyriaethau. Y drydedd Argraphiad. Gan W. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yr unig Argraphydd yn y Parthau hyn, a ddugwyd i fynu yn rheolaidd i'r Gelfyddyd honno. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau ar Lythyren dda, am bris gweddaidd. M, DCC, LXIV:  Enter'd according to Act of Parliament, and whoever shall presume to print the Whole, or any Part hereof, will be prosecuted.'

Y mae yn gyssylltedig â hwn y darnau canlynol o waith yr un awdwr:—'Ffydd ac Anghrediniaeth, Gras a Serchiadau naturiol, yn cael eu darlunio mewn Can Benrydd; neu Galarnad Eusebius,' &c.; 'Cân newydd am Briodas,' &c.; 'Hymnau Newyddion, nad oedd yn un o'r Ddau Argraphiad Cyntaf.' Hysbysir hefyd, 'Fod 300 o Lyfrau Sicerwydd Ffydd, Mr. Erskine, yn sefyll heb werthi,' a bod 'r Ran o Grefyddau'r Byd, wedi eu brintio.' Y mae y ddau hysbysiad yn helaeth iawn, yn ol dull y bardd o Bant y Celyn: y cwbl yn llyfr o 160 o dudalenau 12plyg.

29. 'Life and Character of the late Lord Chancellor Jeffreys. 1764.'

* *Llythyr* Mr. Ben. Davies, Ysgolfeistr.

† Gwel rhif 6, d.f. 1763.

30. 'Dwyfolder Beunyddiol y Cristion; ynghyd a Chyfarwyddiadau pa fodd i rodio gyda Duw ar hyd y dydd.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ev. Powell, yn Heol-y-Prior. 1764.'

[Yr un yn ddiau â rhif 22, dan y flwyddyn hon.]

31. ['Diferyn dewisol o Fel o'r Graig Crist. Neu Air byrr o Gyngor i Seintiau a Phechaduriaid. Yn Saeson-aeg gan T. Wilcocks. Y Trydydd Argraphiad, gyda Diwygiad o amryw Feiau yn yr Argraphiadau cyntaf. At ba un y rhag-chwanegwyd Odl, Am ddirgelwch Enwau, dwy Anian, a Swyddau Crist. Newydd gyfieithu allan o'r Llyfr enwog hwnnw, elwir Gospel Sonnets, a 'serifennwyd yn Saeson-aeg, gan Ralph Erskine, M.A.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Joan Ross, tros Lewis Wiliam. 1764. [Pris Dwy Geiniog.'] [24plyg.]

32. ['Carwr y Cymru yn anfon ychydig Gymmorth i bob Tad a Mam, &c. neu Ymddiddan Ysbrydol rhwng Rhieni a Phlant.

Argraphwyd yn y Mwythig tros Robert Lloyd, yr hwn a roes y Perl Gwerthfawr allan. 1764.*

1765.

1. 'Y Rhedegwr Ysbrydol: Neu Bortreiad o'r Dyn ag sydd yn rhedeg i'r Nefoedd: Ynghyd a'r Ffordd y mae yn rhedeg ynddi, y Nodau y mae yn myned heibio iddynt: Hefyd rhai Cyfarwyddiadau i redeg fel y caffael gafael, Ar Cor ix. 24. Felly rhedwch fel y caffoch afael. At yr hyn y chwanegwyd Llythyr at bob Dynion Diog a Diofal; ac y'chwanegwyd Carchar-Fyfyrdodau, 'sgrifenwyd 1665. Wedi eu cyfeirio at galonnau Saint yn dioddef a Phechaduriaid yn teyrnasu. Gan John Bunyan. Newydd eu cyfieithu o Ail Lyfr un-plyg yr Awdwr a argraphwyd yn Llundain 1737, tan Olygiad y Parch. Samuel Wilson.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth yno gan J. Ross. 1765. [Pris 4d] Gyda Elw rhesymol i'r rhainy a bryno lawer.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad. Y mae yn gamgymeriad dywedyd yma ei fod o gyfieithiad Mr. S. Wilson,† canys Sais ydoedd ef, a golygydd argraffiad Seisonig o holl waith yr awdwr.

2. 'Cyssondeb y Pedair Efengyl: Gyd ag Agoriad Byrr, a Nodau Athrawus, ar yr hyn a dybir dywyllaf ac anhawsaf ynddynt. Yn y

* Gwel rhif 5, d.f. 1738; *Traethodydd* ix. t. 149.

† [Ni ddywedir hynny ar y tudalen hwn. Yr hyn a fynegir ydyw, cael o'r gwaith ei gyfieithu o ail lyfr unplyg yr awdwr, yr hwn lyfr unplyg a argraffwyd yn 1737 dan olygiad Samuel Wilson. Cymh. rhif 5, d.f. 1766.]

blaen y mae hefyd Rhagdraethawd buddiol yn arwain at y Cyssondeb, gan osod allan Hanes y wir Grefydd a'i llewyrchiad fwy fwy bob oes er dechreuad y Byd. Chwanegwyd hefyd Rifres yr amseroedd. Gan John Evans, Athraw yn y Celfyddydau.

Argraphwyd yn Mristo gan E. Farley, 1765.' [8plyg.]

JOHN EVANS ydoedd o deulu Meini y Gwynion, plwyf Llanarth, sir Aberteifi. Yr oedd gweinidog hefyd o'r enw yn gwasanaethu yn eglwys y plwyf hwnw yn y dyddiau hyny, canys y mae ei enw ym mhlith tanysgrifwyr am lyfrau Cymreig yr oes hono; ond gwahaniaethir hwn oddi wrth hwnw fel tanysgrifiwr am 'Bregethau' Ieuan Brydydd Hir, fel hyn:—'Rev. Mr. John Evans, A.M. Author of the *Harmony of the Four Gospels*.' Yr oedd yn cael ei alw yn sir Aberteifi yn 'Ffeiriad Plymouth,' am, ef allai, ei fod wedi bod yn gweinidogaethu yno. Ymddengys mai efe ydoedd y John Evans a olygodd argraffiad o'r Beibl yn 1769; ac ei fod y pryd hyny yn gapelwr i'r brenin yn Whitehall, Llundain. Ceir ei enw yng Nghofrestr Cymdeithas y Cymmrodorion, am 1759-62, fel yn enedigol o sir Gaerfyrddin. Yr oedd perthynasau iddo yn byw ym Moeddyn, ym mhlwyf Llanarth, hyd yn ddiweddar. Efe a gyfieithodd hefyd y 'Deddfau Cristionogol,' gan Esgob Gastrel.* Cyfieithwyd hefyd 'Ymarferiadau a Myfyrdodau Sacramentaidd' y Dr. Earl, gan un 'Ioan Ifans;'† ond gall fod hyny yn rhy foreu i'w briodoli i gyfieithydd gwaith Gastrel. Dyma y cynnygiad cyntaf i roddi i'r Cymry esboniad rheolaidd ar unrhyw ranau o'r Ysgrhythrau, bymtheng† mlynedd cyn i Sylwadau Mr. Peter Williams ddyfod allan y waith gyntaf. Rhoddwyd argraffiad arall yng Nghaerlleon, gan J. Hemingway, yn 1804.

3. ¶ 'Annerch difrifol a charedig at y bobl a elwir Methodistiaid.

Argraphwyd yn Llundain, gan Siôn a Wm. Oliver, Printwyr i'r Gymdeithas er Helaethu Gwybodaeth Gristionogol, yn Bartholomew Close yn agos i West Smithfield. 1765.'

[Llyfryn bychan ydyw, Arminaidd yn ei olygiadau.]

4. 'Pechadur Jerusalem yn Gadwedig: Neu Newydd da i'r gwaethaf o Ddynion; a Chynnorthwy i'r Eneidiau Anobeithiol; Gan Ddangos y mynneu Iesu Grist gynnig Trugaredd yn gyntaf i'r Gwaethaf o Bechaduriaid, &c. Scrifennwyd yn Saesoneg gan Joan Bunyan, Awdwr Taith y Pererin; a gyfieithwyd i'r Cymraeg gan Benjamin Meredith.

Caerlleon, Argraphwyd yn y Flwyddyn 1765, gan W. Read a Thos. Huxley, ac a werthir gan Lewis Jones, tan Gauad am Sŵllt i'r Cynnorthwŷwr, ag i'r Wlad am Bumtheg Ceiniog.'

* Gwel rhif 2, d.f. 1773. [Gweler y *Great*, rhif 6. t. 282.]

† Gwel rhif 3, d.f. 1735.

‡ [Yn hytrach *pum* mlynedd; canys yn 1770 yr ymddangosodd argraffiad cyntaf y Feibl Peter Williams.]

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.*

5. 'Eucharistia, Neu Draethawd am y Sacrament Swpper yr Arglwydd. A scrifennwyd gyntaf yn Lladin mewn Prydyddiaeth gan y Dysgedig Hugo Grotius. Newydd ei Gyfieithu i'r Gymraeg, Gan Mr. Dafydd Jones, o Lawenog. At ba un y chwanegwyd, Agoriad Byrr o'r Salm 37. Ynghyd â Gweddi'r Tywysog Eugene.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr gan Ioan Ross. 1765. (Pris Chwe Cheiniog.) [12plyg: 40 tudalen.]

6. ¶ 'Pelydr a thywyniad ysprydol, neu Bwysi o Fyrr: sef Dewisol, a chyssirlawn fyfyrdodau, yn adfywio, goleuo, a llonni'r Enaid. Wedi ei ail Brintio yn Saesonaeg yr 11eg fl. o ddedwyddol Deyrnasiad y Brenin William y Trydydd. Imprimat. Jos. Caryl.

Mwythig.'

Mae yn debyg mai ail argraffiad yw hwn.†

7. 'Llythrau rhwng Mr. Samuel Pike a Mr. Robert Sandeman mewn Perthynas i'r Llythrau ar Theron ac Aspasio. Hefyd rhai meddyliau ar Gristianowgrwydd. Mewn llythyr at Gyfaill. Gan Awdwr y Llythrau ar Theron ac Aspasio. At yr hyn y 'chwanegwyd, Troedigaeth Jonathan yr Iuddew, fel pe mynegasid ganddo ei hun. Ynghyd â rhan o'r Diwedd-Glo j'r Llythrau ar Theron ac Aspasio. Wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg Gan John Popkin.

Caerfyrddin, Argraphwyd, gan Joan Ross, yn Heol Awst, 1765.'

Y mae y rhagymadrodd gan 'William Davies.' Yng nghanol yr 18fed ganrif, ysgrifennodd y Parchedig James Hervey lyfr a ganmolid yn fawr gan Galfiniaid yr oes hono, ar natur ffydd gyfiawnhaol, o'r enw 'Theron ac Aspasio,' yr hyn a ystyrid fel cilgwthiad i Arminiaeth Mr. J. Wesley, gan ei wrthwynebwyr. Ond cyfododd gwrthwynebwyr i'r gwaith o blith y Calfiniaid, ym Medyddwyr Sandemanaidd Ysgotland, y rhai a sefydlasid gan John Glass. Robert Sandeman, un o'r henuriaid, a gyhoeddodd restr o Lythrau at Mr. Hervey, yr hyn a achlysuodd ddadl rhyngddo a Samuel Pike, gweinidog Annibynol; a'r canlyniad fu, i Pike gael ei ennill i uno â'r Sandemaniaid yn Llundain. I gynnrychu yr un daliadau yng Nghymru y cyhoeddwyd y Llythrau hyn yn Gymraeg, gan Mr. Popkin, yr hwn, ac efe yn Fethodistiad Calfiniaidd, a ennillwyd i fod yn un o honynt. Lledaenwyd y tybiau Sandemanaidd gryn lawer ym mhlith y Bedyddwyr yng Ngwynedd.

8. 'Yr Ymroddiad, neu Bapurun. A gyfieithwyd i helpu'r Cymru allan o'r hunan a'r drygioni. At ba un y chwanegwyd yn

* Gwel rhif 3, d.f. 1721.

† Gwel rhif 5, d.f. 1740.

gyntaf y Disgybl a'r Athraw o newydd.* Ac yn drydedd Gwyddor uchod,† &c. Gan Morgan Llwyd. Wedi ei ddiwygio yn ofalus gan Ifan Thomas, Argraphydd.

Mwythig, Argraphwyd gan W. Williams, tros Richard Jones o Ddyffryn Clwyd. M,DCC,LXV.'

Cynnwysa 62 tudalen 32plyg. Hwn oedd y trydydd argraffiad.‡ Cynnwysa yr argraffiad hwn y tri gwahanol o'r fl. 1657.§

EVAN THOMAS neu IFAN TOMAS, ydoedd fab i John Abel, neu John Thomas, yr hwn oedd yntau yn fab i Thomas Abel, o'r Wtra Wen, ym mhlwyf Llanfair Caereinion, yn sir Drefaldwyn, lle y derbynid ac y pregethai Mr. Howel Harris, a phregethwyr cyntaf y Methodistiaid hyny.|| Arferai John Abel deithio i bregethu ar hyd y wlad o dan yr enw John Thomas, a dichon fod y mab Evan wedi bod hefyd yn arferyd ei ddawn yn ei ieuenctyd; canys gelwid ef, mewn gwawd, gan ei gyfoedion yn 'Barchedig Evan Thomas,' naill ai am iddo fod yn arfer siarad yn gyhoeddus, neu am ei fod o dalent a gwybodaeth helaethach na hwynt. Dygwyd ef i fyny i'r gelfyddyd o argraffu, ac yr oedd yn gyssodwr da a chyflym, yn ysgolhaig Cymraeg da, yr hyn a'i gwnai yn wasanaethydd gwerthfawr mewn swyddfau argraffwyr Seisonig, lle yr argreffid llyfrau Cymraeg, megys yn yr Amwythig, &c. Fel cyssodydd a golygydd, ac nid fel awdwr, y mae ei enw wrth y llyfrau y ceir ei enw yn gyssylltedig â hwynt. Symmudodd i Gaerlleon yn 1765; ac i Gaerfyrddin tua'r fl. 1767-69, lle y bu rai blynyddau; ond erbyn y flwyddyn 1781, yr oedd yn cyssodi yn swyddfa Mr. T. Wood, argraffydd cyntaf y *Shrewsbury Chronicle*. Yr oedd yn briod â merch i deulu cyfrifol o'r Cae Ceirch, ger Dolgellau, yr hon oedd chwaer i Mrs. Erasmus Evans, o Lanfyllin, ac i Mr. Richards, tad y Barwn Richards, o Gaerynweh. Troes allan yn ddyn ofer ei fywyd, a hoff iawn o ymyfed. Yr oedd wedi gadael argraffu a throi yn serydd, daroganwr, a dewin, i'r neb a wrandawai arno. Cyhoeddodd Almanac, wrth ei enw ei hun, o bris chwecheiniog. Yr oedd hefyd yn fardd lled dda, a'r enw barddonol a gymmerai arno ei hun ydoedd *Ieuan Fardd Du*. Yr oedd cyn diwedd ei oes wedi myned yn grwydryn mor dlawd a di-angeledd, fel na wyddai ym mha le i gael ei bryd bwyd nesaf, nes y darfu i furiau Nawdd-dy yn y Mwythig ei dderbyn, lle y bu farw Ionawr 12, 1814, yn 80 oed.**

* ['Gwaith Morgan Llwyd oedd hwn, ac nid hen lyfr y Dr. Rosier Smith.'—M.D.]

† ['Gwaith Morgan Llwyd oedd hwn hefyd; ac ar gân y mae. Yr oedd M. Ll. yn credu egwyddorion serdewiniaeth, sef bod gan y planedau ddylanwad ar ddyn yn ei gyflwr diadgenedledig, ond wedi ei gyfnewid trwy ras, ei fod wedi ei ddyrchafu uwch law y dylanwadau hyny. Rhywbeth felly, dybygwn, oedd ei olygiadau ar hyn.'—M.D.—Ymddengys gan hyny fod nodyn yr awdwr ar rif 3, d.f. 1657, yn anghywir o barthed y ddau lyfr yn hyn.]

‡ Gwel rhif 1, 2, 3, 1657.

§ Gwel rhif 1, 2, 3, a 6, y flwyddyn hòno.

|| *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 392.

** *Y Traethodydd*, 1848, t. 165, 364.

9. 'Marwnad Robert Davies, Gwr Duwiol o Blwyf Machen. Yn Shir Fynwau. Yr hwn a fu Farw y Bumed ar Ygain, o Fis Awst, 1763, &c. Gan Evan Thomas. M,DCC,LXV.'

10. ¶ 'Bugeilgerdd. Gan Edward Richard, Ystrad Meurig.'

EDWARD RICHARD ydoedd fab i Thomas Richard, dilledydd a thafarnwr yn Ystrad Meurig, sir Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1714. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth gan ei frawd, Abraham, yr hwn a ddygasid i fyny yn ysgolion gramadegol Henffordd a Chaerfyrddin, ac wedi hyny yn Rhydychain; a chadwai ysgol yn yr eglwys pan ddeuai adref rhwng y termau. Aeth Edward hefyd i'r un ysgol i Gaerfyrddin, yr hyn, gyda chynnorthwy un Mr. Pugh, o Lanarth, a'i dygodd yn ddigon o ysgolhaig i allu sefydlu ysgol ei hun yn Ystrad Meurig yn 1734, pan yn 20 oed. O dan yr ystyriaeth o'i analluogrwydd i wneyd cyflawnder â'i ysgolorion, efe a roes ei ysgol i fyny, gan lafurus ymgynnyddu trwy gynnorthwy Mr. Evan Evans (*Ieuan Brydydd Hir*)* dros ddwy flynedd. Ail agorodd ei ysgol yn 1745. Cafodd ei benodi yn athraw yr Ysgol Rad yn Lledrod. Gan ei fod yn gynnil ac ammhriod, gallodd arbed peth cyfoeth, a phenderfynodd sefydlu ysgol ramadegol yn Ystrad Meurig, ar gost tyddyn a brynasai, ac yn 1757 sicrhaodd ef i'r dyben hyny. Sefydlodd lyfrfa yno yn 1769. Yn 1771 sicrhaodd amrai dyddynod bychain ereill tuag at gynnal yr ysgol. Yn 1774 gwnaeth weithred newydd ar y cwbl. Bu farw Chwefror 28, 1777, yn 63 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Ystrad Meurig.†

11. ¶ 'Atteb i Lyfr Mr. Thomas ar Arddodiad Dwyllaw.'

Dadl oedd hon a ffynai y pryd hyny yng nghorff y Bedyddwyr, ac a ddygwyd ym mlaen gyda brwdfrydedd niweidiol i'r achos mewn llawer o fanau yn y Deheubarth.‡

12. 'Drych i ddwfr Cleifion, I'w cynnorthwyo i ddeall Achos, Natur, a Chanlyniadau eu Clefydau, &c. At yr hyn y chwanegwyd, rhai Dyfr-arwyddion o waith Hên Feddygon Myddfai; y rhai o herwydd eu gwerthfawrogrwydd, a gadwyd o law i law mewn ysgrifen 534 o Flynyddau, &c.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan Ioan Ross, tros Dafydd Efan, o Ffynnon-nedd, gerllaw Bont ar Gothi, ac ar werth ganddo yn ei dŷ ei hun, ac yn yr Argraph-Dŷ yn Heol Awst. 1765. [Pris Dwy Geiniog.]'

MEDDYGON MYDDFAI. Yr oedd y lle hwn yn y 13 ganrif yn cael ei fynychu gan feddygon, un o ba rai oedd Rhiwallon, yr hwn, mewn cyssylltiad â thri ereill, ei feibion, tra yr oeddynt yma, a enwogasant eu hunain trwy ysgrifenu traethawd ar yr ymarferiaeth

* [Yr oedd Ed. Richard 16 flynedd yn *hŷn* na'r Prydydd Hir.]

† *Hanes ei Fywyd*, yn gyssylltiol â'r *Eos*, 1811; Meyrick's *Cardiganshire*; Williams's *Eminent Welshmen*; *Yr Haul*, am Dachwedd, 1848.

‡ Gwel rhif 9 a 24, d.f. 1764.

feddygol, yr hwn oedd, os nad yw eto, yn cael ei gadw ym mhlith Llawysgrifau Cymreig yr Ysgol Rad Gymreig, yn Llundain.

[Argraffwyd gwaith Meddygon Myddfai, gyda chyfieithiad Seisoneg, dan nawdd Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, yn Llanymddyfri yn 1861.]

13. 'Ymofyniad Byrr pa un a ydyw y ddwy ddefod o Arddodiad dwylaw ar Bersonau Bedyddiedig fel y cyfryw yn Ordinhad o Grist.

Argraphwyd gan S. Farley. M,DCC,LXV.'

14. 'Crist Bywyd y Cristion. Wedi ei osod allan mewn dwy Bregeth ar Phil. i. 21, &c. Gan Weinidog o Eglwys Loegr. At yr hyn y chwanegwyd Dwy Hymn, ar yr un Ystyriaeth.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Ioan Ross, yn Heol Awst, tros yr Awdwr. 1755. (Pris Tair Ceiniog.)'

15. 'Charter for the Borough of Carmarthen.

Carmarthen, Printed by J. Ross. 1765.'

'This Charter has been principally repealed by the 1st W.4th.'
—MS.

16. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross. 1765.'

17. 'Cyfaill i'r Cymro; neu, Lyfr o Ddiddanwech Cymhwysol, Ei dowys Dyn ar Ffordd o Hyfrydwch: Yn Ganeuon, a Charolau, ag Englynion hawdd yw deull. O waith Prydyddion Sir y Flint, a Sir Ddimbech. O Gasgliad W. Hope, o Dre Fostyn.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. Read a T. Huxley yn y Flwyddyn 1765; ag ar werth gan W. Hope, yn Sir y Flint.'

Yr awdwyr ydynt—'Dafydd Jones, o Lanfair Tal Haiarn; 'Hugh Roberts, o Fagillt; William Hope, o Dre Fostyn; 'Edward Barnes, o Lanelwy; 'Thomas Edwards, o Nant Henllan; 'Thomas Jones, o Ruabon; 'Daniel Jones, o Ruabon; ac 'Edward Thomas, o Lan Rhydwen;' yn gwneyd llyfryn o 148 tudalen 18plyg.

18. 'An Account of the Convincement, Exercises, Services and Travels of that Ancient Servant of the Lord, Richard Davies. With some Relations of Ancient Friends, and the Spreading of the Truth in North Wales, &c. The Second Edition.*

London, Printed and Sold by Luke Hinde, at the Bible in George-Yard, Lombard Street. 1765.'

* Gwel rhif 3, d.f. 1705.

Yr oedd hwn mewn gwirionedd yn drydydd argraffiad; ond ef allai na wyddai cyhoeddwr yr argraffiad hwn am yr argraffiad American-aidd, yr hwn hefyd a elwir, ac y mae yn debyg, oedd yr ail argraffiad.*

1766.

1. 'Crist yn y Cymmylau yn dyfod i'r Farn, sef Pregeth ar Ymddattodiad pob peth. Lle y danghosir ail ddyfodiad Crist i Farn, hefyd, y treual a'r barnedigaeth echrslon a Gyhoeddir yn erbyn yr holl Bechaduriaid anychweledig. Ynghyd a gwynfydedig a gogoneddus Gyflwr Pob un a edifarhaodd; ac a ddewisodd Grist o flaen dim.

Argraphwyd yn y Mwythig gan W. Williams, tros Evan Ellis, 1766.'

2. 'Gogoneddus Ddirgelwch Trugaredd Duw; Neu Werthfawr Feddyginiaeth i Eneidiau lluddedig, wedi ei osod allan mewn Traethawd, lle'r agorir dau ddirgelwch mawr. i. Dirgelwch rhad ras dadguddiedig yn yr Efengyl. ii. Dirgelwch yr Efengyl yn gynnwysedig yn y Gyfraith. Fe brofir hefyd ynddo, fod y Gyfraith Frenhinol yn rheol o ufudd-dod Efangylaidd, &c. Ysgrifenyd yn Saesonaeg gan John Brisco,† Gweinidog yr Efengyl yn Thomas, Southwark.

Argraphwyd yn Llundain yn 1647. Yn Gymraeg gan J. M. Caerfyrddin, Argraphwyd, gan Joan Ross. 1766. [12plyg.]

Mae yn debyg mai John Morgan, o Gynwyl, oedd y J. M. hwn.‡
Yr awdwr—

JOHN BRISCO neu BRISCOE ydoedd fab i Robert Brisco, o High Wycomb, yn sir Buckingham, lle y ganwyd yntau, a chafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cymmerodd ei B.C. Dechreuodd bregethu yn sir Beres, yn nechreu y Weriniaeth, gan yr hon lywodraeth y cafodd weinidogaeth St. Thomas, Southware, ac hefyd ei benodi yn un o Brofwyr cymhwysderau ymgeiswyr am y weinidogaeth. Ychwanegwyd iddo hefyd ofal St. George, Southwarc. Pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd, efe a drowyd allan, o blegid ei Anghydfurfiaeth. Wedi hyny bu yn gweinidogaethu lle y caffai; ac o'r diwedd ymsefydlodd yn ei le genedigol, lle y bu farw yn nechreu mis Mehefin, 1679.'§

* Gwel rhif 18, d.f. 1752.

† [*Bisco* a ddylai yr enw fod; ond yr wyf yn meddwl mai 'Brisco,' fel y mae ein hawdwr wedi ei roddi, ac fel y mae yn fy nadysgrif innau, sydd ar wyneblen yr argraffiad hwn.]

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1744.

§ Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 474; Hysbysiad yn flaenorol i'r ail argraffiad uchod; gwel rhif 1, d.f. 1790.

3. 'Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau, neu rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Yr ail Ran. Gan Wm. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr, gan J. Ross. 1766.'

4. 'Rhai Meddyliau am Berson Crist. Wedi ei gymmeryd allan o waith John Glass. Vol. ii. tu dalen 1—5. Hefyd, Llythyr oddiwrth S. Pike at R. Sandeman. Gyd â Chyffes S. Pike, o flaen yr Eglwys yn St. Martin's le Grand, yn Llundain, a wnaed Rhagfyr 22, 1765.

Argraffwyd yng Nghaerfyrddin.'

5. 'Ocheneidiau o Uffern: Neu Riddfannau Enaid damnedig. Yn dangos cyflwr galarus y Damnedigion, mewn ffyddlon Esponiad ar Ddammeg y Gwr Goludog a Lazarus, Luc xvi. 19 i'r 31. Fe ddichon hefyd jawn wasanaethu fel Gair o Rybudd i Bechaduriaid, hên ac jeuaingc, trwy Ffydd yn Iesu Grist, i ochelyd y lle poenus hwnw. Ynghyd â Dadcuddiad o ddefnyddioldeb yr Scrythurau, fel ein diogel Gyfarwyddyd i ochelyd Poenau Uffern. Gan John Bunyan. Newydd ei gyfieithu i'r Cymraeg yn ol yr Argraphiad Saesoneg tan Olygiad y Parchedig Mr. Samuel Wilson, 1737.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross. Pris Swllt wedi ei rwymo, 8 geiniog heb hynny, gyd ag Elw rhesymol i'r rhai a bryno amryw ynghyd. M,DCC,LXVI.' [12plyg: 168 tudalen.]

6. 'Ocheneidiau o Uffern, wedi eu rhoddi mewn Pregeth oddiwrth Ddammeg Difas a Lazarus. Gan ddifeunydd Parchedig. A Chyfieithiad J. T.

Caerlleon, Argraffwyd gan Thos. Huxley, yn agos i'r Eastgate, neu Borth y Dwyrain.'

Hynod oedd i ddau waith ar 'Ddammeg y Goludog a Lazarus,' o'r un enw, gael eu cyhoeddi yn yr un flwyddyn, gan wahanol argraffwyr, ac eto nid yr un awduriaeth ydynt, er yr un enw.

7. 'Achos Babanod yn cael ei amddiffyn. Gan Edward Hitchin. Cyfieithwyd o'r ail Argraffiad yn Saesoneg, ac a gyhoeddwyd gan Aelodau o Gymdeithas a gyfarfyddai yn y Shop, Plwyf Cilmaenllwyd, yn Sir Gaerfyrddin.

Argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan J. Ross.'

EDWARD HITCHIN, A.C., a alwyd i'r weinidogaeth ym mhlith yr Ymneillduwyr o ddeuto 1743, fel cynnorthwywr i'r Parch. R. Rowlin, gweinidog hen gynnulleidfa Annibynol Fetter Lane, Llundain. Wedi hyny efe a symmudodd i weinidogaethu i Artillery Lane, Bishopsgate Street. Yn 1755, adeiladwyd capel White Row, i'r

hwn y symmudodd y gynulleidfa, a lle y parhaodd yntau i lafurio hyd 1774, pan y bu farw, yn 49 oed.*

8. 'Drych y Cristion, neu Gadwedigol Ffydd, wedi ei Datguddio mewn Ymddiddan, &c.

Dublin, Argraffwyd gan S. Powell a'i Fab. MDCCLXVI.†

9. 'Adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist wedi ei brofi, mewn Pregeth, a bregethwyd ar Ddydd Sul y Pasg. Gan y diweddar Barchedig Mr. Samuel o Langar.

Argraphwyd tros William James.'

Ni ddywedir ym mha le, er yr ymddengys mai gan S. Prys, Mwythig, yr argraffwyd ef. Y mae rhestr o lyfrau S. Prys ar ei ddiwedd.

10. 'Mona Antiqua Restaurata. An Archæological Discourse on the Antiquities, Natural and Historical, of the Isle of Anglesey, the Ancient Seat of the British Druids. In Two Essays. With an Appendix, containing a Comparative Table of Primitive Words, and the Derivatives of them in several of the Tongues of Europe; with Remarks upon them. Together with Some Letters, and Three Catalogues. By Henry Rowlands, Vicar of Llanidan, in the Isle of Anglesey. The Second Edition,‡ Corrected and Improved.

London: Printed for J. Knox, near Southampton-Street in the Strand. MDCCLXVI.' [4to.]

Golygydd a diwygiwr y gwaith hwn ydoedd y Dr. Henry Owen, yr hwn a orphenodd ddwyn yr argraffiad cyntaf o'r wasg. Y mae rhagymadrodd o'i waith yn ei ragflaenu.§

11. 'Y Ffigys-bren anffrwythlon : neu Farn a Chwyp y Proffeswr diffrwyth. Yn dangos y Dichon Dydd Gras ddarfod arno, yn hir cyn darfyddo ei Fywyd. Hefyd yr Arwyddion wrth ba rai y gellir adnabod y cyfryw Ystrueiniaid marwol. Gan John Bunyan. Newydd ei gyfieithu o Ail-Lyfr unblyg yr Awdwr, a argraphwyd yn Lluodain, 1737, tan Olygiad y Parch. Mr. Sam. Wilson.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros y Cyhoeddwr gan J. Ross. 1766.' [12plyg: 84 tudalen.]

* *Congregational Magazine*, 1826, p. 136.

† Gwel dan y flwyddyn 1677. Cynnwysa hwn yr holl fân lyfrau hyny, 'Carwr y Cymro,' &c., a gyhoeddwyd y flwyddyn hono. Cyhoeddwyd y gwaith y tro hwn o dan olygiad Mr. John Roberts, neu Sion Rhobert Lewys, yr Almanaciwr, tybygid.

‡ Gwel rhif 3, d.f. 1723.

§ Gwel rhif 9, d.f. 1748.

12. 'Anfeidrol Werthfawrogrwydd Enaid Dyn, ac anrhaethadwy ffolineb y dyn a fo diofal am dano : Ynghyd ag Annogaeth ddifrifol i bechaduriaid i droi at Dduw, a derbyn Jechydwriaeth i'w Heneidiau. Gan Evan Thomas, argraphwydd.

Caerlleon, Argraphwyd.'

13. 'Hymnau, neu Ganiadau er Mawl a Gogoniant i Dduw. Yn cynnwys ocheneidiau, griddfanau, ymdrechadau, a buddugoliaethau y Pererinion, wrth ymdeithio tua'r bywyd. Gan John Roberts.*

14. 'Ymddiddan rhwng yr Iesu a'r Publican, yr hwn sydd er addysg a chysur i'r Cristion gwan. Trydydd argraphiad.

Caerlleon.'

15. 'Helaethrwydd o Ras i'r Pennaf o Bechaduriaid. Sef cywir hanes o Fywyd a Marwolaeth John Bunyan. O gyfieithiad Evan Thomas.

Caerfyrddin, argraffwyd.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.†

16. 'Cydymaith Diddan. Yn ddwy ran. Y rhan gyntaf sydd-yn cynnwys crynodeb o Araithyddiaeth yr hen Frutaniaid yn mysgu Brythonaeg i'w gilydd. Yr ail ran sydd yn adrodd mewn euraid odlau di-rif, afieithus ddifyrwech Brodorion Cymry. Digon o Grwth a Thelyn, medd yr Gyrys o Iâl, 1216. Gan Dafydd Jones o Drefriw, C. C.

Caerlleon, argraffwyd gan Elizabeth Adams, &c.'

17. 'Myfyrdodau difrifol ar y pedwar peth diweddaf, sef, Angeu, Barn, Nef, ac Uffern. Gan John Bunyan.

Caerfyrddin, argraffwyd.'

18. 'Esponiad byrr ar Gatecism yr Eglwys, sef Holiadau ac Attebion ysgrythyrol ynghylch Egwyddorion a Dyledswyddau'r Grefydd Grist'nogol. Yn bum rhan. Gan y Parchedig Mr. Griffith Jones, gynt Person Llanddowror, yn sir Gaerfyrddin. Y drydedd argraffiad.‡

Llundain, argraffwyd gan J. a W. Olifer, ym Martholomew Clôs, gerllaw Smithfield orllewinol.'

* Hen Almanaciwr Caergybi [Sion Rhobert Lewis].

† Gwel rhif 6, d.f. 1737 ; a rhif 8, d.f. 1763.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1743 ; rhif 2, d.f. 1749 ; a hwn yma. Daeth argraffiad arall allan gan un David Oliver, o Wrecsam, yn y rhan gyntaf o'r ganrif hon. Dichon fod y D. Oliver hwnw yn deilliaw o'r Oliferiaid, y rhai a argraffasant agos holl weithiau efenglydd Llanddowror.

19. 'Canwyll y Cymru, sef gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficer Llanddyfri, y trydydd argraphiad ar ddeg.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys. 1766.'

Gelwir hwn yn drydydd argraffiad ar ddeg; ond ni chafwyd eto ond naw o honynt, oddi eithr y Pigion a gyhoeddwyd ddwywaith.* Y mae iddo wyneb-ddalen Seisoneg hefyd.

20. 'Salmau Dafydd, wedi eu cyfansoddi yn ol iaith y Testament Newydd. A'u cymhwyso i stât ac Addoliad Crist'nogol. Yn Saesneg gan I. Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan D. Jones o Lanwrda, gynt o Gayo. Yr ail argraphiad,† gyda diwygiad o lawer o feiau. At ba un y chwanegwyd 12 o Salmau newyddion.

Llanymddyfri, argraphwyd gan Rys Tomas. MDCCLXVI.'

21. ¶ 'Amddiffyniad i Lyfr cyntaf Mr. Thomas ar Arddodiad Dwyllaw.‡

22. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, 1766.'

23. 'Y Catecism Byrraf. A gyflwynwyd gan y Gymanfa o Difnyddion, yn Westminster, i'r ddau dŷ o Barliament, a chwedi ei gymmeradwyo ganthynt. Yn cynnwys Egwyddorion y Grefydd Grist'nogol, ynghyd â Phrofiadau Ysgrythyrol.

Caerfyrddin, Argraphwyd, ac ar werth gan J. Ross, yn Heol Awst. 1766. [Pris Dwy Geiniog, neu 2s. 6d. y Cant.]'

Y mae i'r llyfryn hwn ragymadrodd helaeth a chywrair, yn gwrthwynebu golygiadau Sandeman a Popkin (yng Nghymru), wedi ei arwyddo 'John Griffith, *Pant Saeson*, Mai 12. 1766.'

24. 'Hanes Llwyddiant yr Efengyl, a rhyfeddol waith Duw ar Eneidiau pobl yn North America; mewn Llythyr oddiwrth y Parchedig Mr. Briel o East Hampton, at y Parchedig Mr. Barton. At yr hyn y chwanegwyd Cân am Werthfawrogrwydd y Bibl. Gan William Williams.

Caerfyrddin, argraphwyd tros yr awdwr, gan J. Ross. 1766.'

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; rhif 1, d.f. 1681; rhif 12, d.f. 1714; rhif 1, d.f. 1721; rhif 6, d.f. 1727; rhif 14, d.f. 1740; a hwn yma.

† Gwel rhif 2, d.f. 1753.

‡ Gwel rhif 9, d.f. 1764; a rhif 12 a 14, d.f. 1765.

25. 'Rhwymyn Perffeithrwydd, neu Frawdgarweh Parhaus; Wedi cael ei drîn yn ffyddlon gan Timothy Thomas, Gweinidog yr Efengyl yn Aberduar, swydd Gaerfyrddin, Awdwr y "Wisg Wen."

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr gan J. Ross. 1766.'

Cynnwysa y llyfr hwn 112 o dudalenau.

26. 'Gwaedd yng Nghymru yn wyneb pob Cydwybod. Gan Morgan Lloyd o Wynedd. At yr hyn y rhagchwanegwyd ei Lythyr i'r Cymru cariadus. Ynghyd a Hanes ei Fywyd ysbrydol a ysgrifenydd ganddo ei hun.

Caerfyrddin, argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. 1766. [Pris dwy geiniog.]'

Ymddengys fod hwn yn bedwerydd argraffiad.* Golygydd yr argraffiad hwn ydoedd y Parch T. Williams, Mynydd Bach.†

27. 'Y Cristion mewn Gwirionedd. Wedi ei osod allan mewn Lythyr oddiwrth Gaiffer at Aly-ben-hayton. Yr hyn a wyddom yr ydym yn ei lefaru. Wedi ei gyfieithu allan o'r Saesoneg.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. 1766.' 24 tudalen 12plyg.

28. ¶ 'Interesting Family Papers printed for Lady Mary Herbert and Arthur Lord Herbert, of Chirbury (Earl Powis) concerning the disposal of the Family Estates at Oswestry, Salop, and in Montgomery, Radnor, and Carmarthen.'

Y mae iddo attodiadau, yn rhoddi tystiolaethau y tystion. Argraffwyd yn anghyhoedd, i ddybenion cyfreithiol, 1766.

29. 'Private Act of Parliament introduced and passed to enable Thos. Kymmer to make a Canal from Little Gwendraeth River, near the Town of Kidwelly, to the Great Forest and Pwll Llygod.

Carmarthen 1766.'

30. 'Particulars of the Manor of Dolgelly, with the Freehold Estates of Hugh Vaughan, Esq., the Seat called Hengwrt. 1766.'

Gwnaed y 'Particulars' pan oedd yr etifeddiaeth ar werth y ffyddyn uchod.

31. ¶ 'An Essay on the 34 Coins of Cunobelin [Cynfelyn] King of Britain, A.D. 15. Wherein this noble set of Coins is classed, and appropriated to our British King upon rational grounds. The coins are illustrated, in a short commentary, By Samuel Pegge, A.M. 1766.'

* Gwel rhif 10, d.f. 1653; rhif 1, d.f. 1739; rhif 1, d.f. 1750; a hwn yma.

† Gwel rhif 3, d.f. 1724; a rhif 6, d.f. 1727.

[Bu y Dr. SAMUEL PEGGE yn ymohebu twysged â Lewis Morys mewn perthynas i hynafiaethau Prydeinig, ac y mae amryw o lythyrau Lewis Morys ato ef wedi ei hargraffu yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*. Ganwyd ef yn Chesterfield yn 1704, a gorphenodd ei addysgiaeth yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt. Yn 1731 cyflwynwyd ef i fywoliaeth Godmersham, yng Nghaint, ac yn 1751 i Whittington, yn swydd Stafford. Ei brif weithiau, heb law yr un a grybwyllir yma, ydyw, 'Dissertations on Anglo-Saxon Remains;' 'The Life of Robert Grossetete, Bishop of Lincoln;' ac 'Anonymiana.' Bu farw yn 1796. Mab iddo ef oedd Samuel Pegge, awdwr y 'Cunialia,' ac 'Anecdotes of the English Language,' yr hwn a fu farw yn 1800; ac ŵyr iddo ydoedd Syr Christopher Pegge, D.M., Cadeidraw Meddyginiaeth ym Mhrifysgol Rhydychain, yr hwn a fu farw yn 1825.]

1767.

1. 'Crocodil Afon yr Aipht, Wedi ei weled ar fynydd Seion, sef Cenfigen wedi ei olrhain trwy'r Byd a'r Eglwys. Gan W. Williams.

Caerfyrddin, argraphwyd dros yr awdwr gan J. Ross. 1767.'

2. 'Yr Aberth Cymmeradwy: neu, Ragoriaeth Calon Ddrylliog. Yn dangos Natur, Arwyddion, ac Effeithiau priodol Ysbryd Drylliedig. Gan y Gwâs enwog hwnw o eiddo Crist Mr. John Bunyan.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. MDCLXVII. [Pris ehwe' ehciniog.]' 100 tudalen 12plyg.

3. 'Atteb i Lyfr Mr. Edward Hitchin, a elwir, Achos Babanod yn cael ei ddadleu, ei eglurhau, a'i amddiffyn, &c. Gan y diweddar Barchedig Mr. Samuel Ewer, o Hamstead, ger llaw Llundain. Wedi ei gyfieithu gan Josuah Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, 1767. [Pris swllt.]* 268 tudalen 12plyg.

4. 'Hymnau; neu Ganiadau, er Mawl a Gogoniant i Dduw. Yn cynnwys Oeheneidiau, Gryddfanau, Ymdrechadau, a Byddygoliaethau, y Pererinion; wrth ymdeithio tu'r Bywyd. Gan John Roberts. †

Caerlleon: argraphwyd gan J. Harvie. M,DCC,LXVII.'

5. 'Tyred a Chroesaw at Iesu Grist. Sef Ymddiddan rhwng yr Iesu a'r Publican. Yr hyn sydd er addysg a chysur i'r Cristion gwan. ‡ Y trydydd argraphiad.

Caerlluon: Argraphwyd gan Ioan Harfie, tros Peter Morris. 1767.'

6. ¶ 'Annogaeth i Bobl Ieuange cyn dyfod i'w Conffirmio. Gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Pris 2d.'

* Gwel rhif 7, d.f. 1766. Darfu i Mr. Thomas, heb law cyfieithu, chwanegu hefyd ryw faint ato.—*Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, t. 409.

† Sef Sion Rhobert Lewis, Almanaciwr Caergybi; gwel rhif 12, d.f. 1760.

‡ Gwel rhif 14, d.f. 1766.

7. 'Helaethrwydd o Ras, i'r Pennaf o Bechaduriaid. Sef Cywyr Hanes o Fywyd a Marwolaeth Ioan Bunian: neu Fyrr Ddatcuddiad o Ragorol Drugaredd Duw iddo êf, yn enwedigol, yn ei gymeryd êf o'r dommen, a'i ddychwelyd i Ffŷdd ei Fendigedig Fâb, Iesu Grist. Lle danghosir hefyd yn neillduol, pa Olwg ar, a pha Ofid am Bechod a gafodd; hefyd, pa amrywiol Brofedigaethau a'i cyfarfu, a pha fodd y dygodd Duw ef trwyddynt oll. Wedi ei gyfieithu o newydd gan Ifan Tomas, Argraphydd.

Caerlleon: argraphwyd gan Ioan Harfie, tros Bedr Morus o Lanrwst. 1767. Pris swllt.' [16plyg.]

Y mae yn ei ragflaenu lythyr o eiddo 'Ifan Thomas' at y darlennydd. Y mae yn llyfr bychan tlws o 162 tudalen 18plyg. Ymddengys fod hwn yn bedwarydd argraffiad o hono.* Argraffwyd ef hefyd gan T. Williams, yn Nolgellau, yn 1803.

8. 'Rhyfeddod y Rhyfeddodau, neu y Gair a wnaethpwyd yn Gnawd. Wedi ei osod allan mewn Cân Dduwiol. Gan William Robert. Aelod o'rEglwys sy'n ymgynnull gerllaw y Felin, ymhlwyf Llanelli, yn sir Gaerfyrddin.

Llanymddyfri: argraphwyd gan Rees Thomas. 1767.'

9. 'Remains of Japhet: being Historical Enquiries into the Affinity and Origin of the European Languages. By James Parsons, M.D. Member of the College of Physicians, and Fellow of the Royal and Antiquary Societies of London.

London: printed for the Author. M,DCC,LXVII.'

[JAMES PARSONS, meddyg enwog ac ysgrifenydd cyfrifol, a anwyd yn Barnstapl, Dyfnaint, yn y fl. 1705, ac a fu farw yn 1770. Y mae meddyginiaeth, difyniaeth, hanes anianol, a hynafiaethau yn ddyledus i'w fedr a'i ddiwydrwydd am ddarganfod llawer o wirioneddau pwysig yn dwyn cyssylltiad â hwynt, Cynnwys y gwaith hwn o'r eiddo dros bedwar cant a hanner o dudalenau 4plyg; ac ym mhlith pethau ereill y mae ynddo Dafflen o Eiriau Gwyddleg a Chymraeg, lle y dangosir eu perthynas â'u gilydd, er bod cryn wahaniaeth rhyngddynt o ran ymddangosiad.]

10. 'Agoriad i Athrawiaeth y Ddau Gyfammod, dan yr enwau Deddf a Gras; yn dangos Natur pob un o honynt, pa beth ydynt fel y maent yn ddau Gyfammod: Hefyd, pwy, a pha beth yw Cyflyrau y rhai sydd dan bob un o honynt, &c. Gan y gwas enwog hwnw o eiddo Crist Mr. John Bunyan.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. 1767. [Pris swllt.]' [12plyg: 242 tudalen.]

Dywedir i Edward Parry, o'r Bryn Bygad, yn sir Ddinbych,

* Gwel rhif 6, d.f. 1737; rhif 8, d.f. 1763; rhif 15, d.f. 1766; a hwn yma.

gyfieithu y 'Traethawd ar y Ddau Gyfammod,' trwy gynnorthwy Dafydd James, athraw ysgol yn Llansannan, un o athrawon Ysgolion Symmudol Mr. Jones, Llanddowror, mae yn debyg.*

11. 'Myfyrdodau Difrifol ar y Pedwar Peth diweddaf: sef Angau, Barn, Nef, ac Uffern. Gan y Gwâs enwog hwnw o eiddo Crist Mr. John Bunyan.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. M,DCC,LXVII. [Pris tair Ceiniog.]'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.†

12. 'Barnedigaethau ofnadwy Duw ar Blant Creulawn, drwg ac anufudd i'w Rhieni. Wedi ei gyfieithu i'r Cymry. Gan Ifan Thomas.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Ross, tros Lewis Jones. 1767.'

13. 'Rhybudd teg mewn pryd da; sef Dadlau Pechaduriaid gwedi eu gostegu trwy fuddugoliaethau y gwirionedd. Mewn Ymddiddanion rhwng Gweinidog o Eglwys Loegr, ag amryw Bechaduriaid, sef Meddwyn, Tafarnwr, Bragwr, Coegddigrifwr, Cerddwr, Dawnsiwr, Tyngwr, Celwyddwr, a'r Twyllwr. Gan Rhys Rhydderch.‡

Caerlleon: argraffwyd gan Joan Harfie, tros B. Morris. 1767.'

14. 'Gweledigaethau y Bardd Cwsg. Yn cynnwys, I. Gweledigaeth Cwrs y Byd. II. Gweledigaeth Angeu. III. Gweledigaeth Uffern. Y Rhan Gyntaf.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. M.DCC.LXVII.'

Yr oedd hwn y trydydd argraffiad.§ [12plyg.]

[Y pedwerydd argraffiad ydyw hwn. Ymddangosodd yr argraffiadau ereill yn 1703, 1755, a 1759. Ar ol yr amseriad, chwanegir:—'Lle y gellir cael y Llyfrau rhagorol hyn sydd yn canlyn,

Agoriad i Athrawiaeth y ddau Gyfammod, dan yr Enw Deddf a Gras. Pris Swllt.

II. Myfyrdodau ar y Pedwar Peth diweddaf: sef, Angeu, Barn, Nef, ac Uffern, ar Fesur Cerdd. Pris 3c.

III. Yr Aberth Cymmeradwy: Neu, Ragoriaeth Calon ddrylliog. Yn dangos Natur, Arwyddion, ac Effeithiau priodol Ysbryd drylliedig. Pris 6c.

Y tri uchod gan Mr. John Bunyan.

IV. Gogoneddus ddirgelwch Trugaredd Duw; neu werthfawr Feddyginiaeth i Eneidiau lluddedig, &c. Pris 9c. Gan Mr. John Bisco.

V. Crist ym Mreichiau'r Credadyn, gan Mr. Ebenezer Erskine: A Dadl Ffydd ar Air a Chyfammod Duw, gan Mr. Ralph Erskine. Pris 6c.

VI. Gwaedd yng Nghymru, gan Mor. Lloyd, Pris 2g.

VII. Catecism byrraf y Gymmanfa, Pris 2g.'

Hyna oll, air a llythyren, yng nghysswllt ag argraffeb y rhagddalen!]

* *Goleuad Cymru.*

† Gwel rhif 17, d.f. 1766.

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1714.

§ Gwel rhif 6, d.f. 1703; rhif 6, d.f. 1720; a hwn yma.

15. 'Llyfr Ecclesiastes: neu'r Pregethwr, Wedi ei gyfansoddi ar fesur Cywydd. Gan Edward Evan, o Aberdâr a Lewis Hopkin, o Llynogwr, yn Sir Forganwg.

Bristol: Argraphwyd gan S. Farley. 1767.'

Y mae llythyr 'At y Darllenydd' iddo gan y Parch. Edward Evan,* yr hwn a ddywed:—

'Dygwyddodd i wr Ieuangc o Sir Aberteifi a'i enw Dafydd Thomas, ddyfod i wared i Forganwg o ddeutu'r Flwyddyn 1727. Un ydoedd o berchen cynheddfau naturiol cryfion; a chweddi cael cyfran weddol o fawnteision gwybodaeth. Efe a dderbyniwyd yn Aelod i Gynulleidfa'r Parchedig Rhys Prys, 'or Ty'n Tonn.† Yr oedd ganddo Dalent o Awen, a rhwyddineb ymmadrodd. Efe a ymosododd i ddysgu Rheolau Grammadeg o iaawn ysgrifenyddiaeth o ddeutu'r Flwyddyn, 1730: ac a ddaeth yn gryn gyfarwydd a dych'mygfawr mewn Barddoniaeth Gymreig—Efe a briododd; ond ni chafodd ef nemmor o hyfrydwch oddiwrth y cyflwr hyn y Ei ddyddiau diweddaf a dreuliodd gyda Dafydd Martin yn Ystrad Tyfodwg. Efe a orphennodd ei yrfa yn y Flwyddyn, 1735; ac wrth chwilio ac edrych ar ei yscrifeniadau ef, mi gefais y Bennod gyntaf o Lyfr y Pregethwr, wedi ei chyfansoddi ar fesur cywydd; yr hyn a'm cynhyrfodd i ofyn cynnorthwy Lewys Hopkin, i orphen a chyflawnu Bwriad, yr hwn oedd wedi ei attal gan farwolaeth.'

Gwelir fod y llyfr bychan tlws hwn, yr hwn a gynnwys 50 o dudalenau 32plyg, yn waith tri awdwr. Y bennod i. gan y D. Thomas uchod; pen. ii. v. vii. ix. a xi. gan Mr. E. Evan; a'r pen. iii. iv. vi. viii. x. xii. ac 'Englynion at y Cymry,' gan

LEWIS neu LEWYS HOPKIN, yr hwn oedd frodor o Hendref Ifan Goch, ym mhlwyf Glynogwr, yn sir Forganwg. Cyhoeddwyd llyfr o'i weithiau a adawodd ar ei ol, yn cynnwys ei weithiau ef, a lluaws o weithiau rhai ereill o feirdd y Deheudir, o'r enw *Fel Gafod*, gan John Miles, o Bencoed, Llanilid, Morgannwg.

16. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr amryw Eglwysi; i ba rai y maent yn perthynu.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. 1767.'

17. 'Cyfiawnhad Pechadur, Neu fod yr Etholedigion wedi eu Cyfiawnhau, a'u rhyddhau oddiwrth gosp pechod trwy Grist: Pan ddygodd Gospedigaeth ein Heddwch ni ar y Pren, &c. Gan Samuel Richardson.

Llanymddyfri: Argraphwyd gan Rhys ap Tomas. 1767.'

* Gwel rhif 5, d.f. 1767.

† Rhys Prys, neu Rees Price, ydoedd weinidog y gynulleidfa o Ymneillduwyr Presbyteraidd yn Ty'n Ton, ger Pen y Bont ar Ogwyr, yn sir Forganwg, brawd y Parch. Samuel Price, a thad i Thomas Price, o Lundain. Cafodd ei ddsygeidiaeth yn Attercliff, sir Iorc, o dan Mr. Jollie. Sosiniaeth a bregethir yn awr yno.—*Ysgrifau yn Llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain.*

18. 'Pumtheng Araith ar Amryw Destynau a Osodwyd allan mewn Cymdeithas gyhoedd wrth Arwydd-arf y Frenhines, yn Heol y Porth newydd, yn Llundain. Gan J. Wetherall. Wedi ei Gyfaethu er Llêl i'r Cymru: Gan y Parchedig Mr. D. Rowland; Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho.

Argraphwyd yng Nghaerfyrddin, gan Rhys Tomas yn Heol Awst. 1767.*

19. 'An Experimental and Practical Enquiry into the Ophthalmic, Antiscrophulous, and Nervous Properties of the Mineral Waters of Llangybi, in Carnarvonshire. To which is annexed, An Essay on the Prize Question, proposed by the Royal Academy of Bourdeaux, for the year 1767, on the Subject of Analyzing Mineral Waters. By Diederick Wessel Linden, M.D.

London: Printed by J. Everingham; and sold by C. Morgan, under the Piazza, Covent-garden; W. Williams, Bookseller, in Shrewsbury; J. Bulkeley, Bookseller, in Chester; P. Titley, Apothecary, in Llanrwst; H. Jones, Mercer, in Carnarvon; and R. Griffith, Mercr, in Pwllhely, 1767. [Price Two Shillings.]

Cyflwynir y gwaith i 'William Price, Esq; of Rhiwlas in Merionethshire, Fellow of the Royal and Antiquarian Societies;' a thanysgrifir y llythyr cyflwyniadol fel hyn:—'D. W. Linden. April 20. 1767. Llangybi,'—Cynnwys y rhan o'r gwaith sydd yn dwyn cyssylltiad â Ffynnon Llangybi 66 o dudalenau. Y mae y llyfr a'r ffynnon a ddarlunir ynddo, yn teylngu llawer mwy o sylw nag y mae yr olaf wedi ei gael er ys oesoedd. Bernir fod rhinweddau y ffynnon yn gyfartal i rinweddau ffynnonau Maesyfed a Brycheiniog; a phe na buasai wedi bod mor anffodus a tharddu yng Nghymru, diammheu y buasai ei rhagoroldeb heddyw yn hysbys i'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop.†

20. ¶ 'Taith y Pererin, gan John Bunyan. Yr ail Ran. O Gyfieithiad John Edwards o Glynn Ceiriog.

Mwythig.'

21. 'Golwg ar Ddull y Byd hwn yn myned heibio, a Thragwyddoldeb o Happusrwydd yn nessau, i holl Waredigion Seion; sef, Perffaith Ryddhad i'r Carcharorion gobeithiol; neu ddedwydd Fynediad Priodas-ferch yr Oen i Dragwyddol Deyrnas ei Harglwydd a'i Hachubwr Jesu Grist.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr gan J. Ross. 1767. [Pris Dwy Geiniog.]

Cynnwysa 36 tudalen 24plyg. Nid oes enw awdwr ar yr wyneb-

* [Onid oedd Rhys Tomas wedi ymadael o Gaerfyrddin cyn y flwyddyn hon, ac ymsefydlu yn Llanymddyfri?]

† Ysgrif y Parch. D. S. Evans.

ddalen, eithr yn gyssylltiol â'r hymn ddiweddaf dywedir:—'Hyn yn fyr (ac fe allai'r diweddaf) oddiwrth eich cyd-bererin i'r byd arall, Morgan Rhys.'

22. 'Considerations on the Illegality of Presenting Such as are Unacquainted with the Welsh or British Language to Ecclesiastical Benefices in those Parts of Wales where that Language is in general Use and Understood. By a Gentleman of Wales.

London: Printed for W. Harris, N^o 70, the North side of St. Paul's Church-yard; And sold by H. Jones, at Caereinion, North Wales. MDCCLXVII.' [8vo.]

Y mae nodyn mewn llawysgrif yn yr un a welais yn dywedyd mai yr awdwr ydoedd 'John Jones, M.A. Fellow of Queen's College, Rhydychain.*'

23. 'Traethawd ar Fywyd Ffydd, Gan W. Romaine, M.A. Periglor y Fonach ddu (Black Fryars,) a Lecturer St. Dunstan's, yn Llundain. A Gyfieithwyd gan Joan Tomas, trwy ganiatad yr Awdwr.

Liverpool: Argraphwyd yn Heol y Morfa, M,DCC,LXVII.'

24. ['Anfeidrol werthfawrogrydd Enaid Dyn, ac Anrhaethadwy Ffolineb y Dyn a f'o Di-ofal am dano. Ynghyd ag Annogaeth Ddifrifol i Bechaduriaid droi at Dduw, a derbyn Iechydwriaeth yw Heneidiau. Gan Ifan Tomas, Argraffydd.

Caerlluon: Argraphwyd gan Ioan Harfie, yn Heol porth y Gogledd. 1767.' 12plyg: 16 tudalen.

Yr wyf yn tybied mai yr un yw y llyfr hwn â rhif 12, d.f. 1766, ac nad ymdangosodd un argraffiad o hono y flwyddyn hono. Y mae y flwyddyn 1767 ar argraffeb hwn.]

25. 'Meddyliau Presennol Mr. Samuel Pike, ar Gatecism byrraf y Gymmanfa, mewn Llythyr at Gyfaill, ag y bu Rhagymadrodd Mr. John Griffith at ei Argraffiad Newydd o'r Catecism hwnnw, yn achlysur o honno. Wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg, gan John Popkin.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross yn Heol-Awst. 1767.'

26. 'Dihuniad Cysgadur. Sef, Y Bardd Cwsg, yr ail rhann Yn dangos mewn Breuddwyd Gweledigaeth Ryfeddol y Bardd Cwsg; A'r ymddiddan a fu rhyngddo efe a Chydwylbod, Ffydd, Gobaith, Cariad, Gwirionedd, Gostyngedd, Gonestrwydd, Sobrwydd, Haelioni, Cywirdeb, Gwirionedd, &c. Ynghylch Llygredd y Byd,

* [Am rai tybiau o barthed i awdwr y llyfr hwn, gweler y *Brython*, iii. 370, 433; a chymharer rhif 23, d.f. 1768.]

ynghyd ag ychydig Annogaeth yn erbyn Swyngyfaredd, Dewiniaeth, a'r Cyffelyb.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, tros Dafydd Gryffydd, 1767.'

Ail argraffiad, gwel rhif 3, d.f. 1723-4.

27. ¶ ['Jechydwriaeth wrth y Drws: neu Groch lef o'r Nef ar Bechaduriaid diadgenedledig ar y Ddaear, &c. At ba un y chwanegwyd Hymn-Gynghor, ar Col. iii. 2, gyda Phregeth fer ar Dad. iii. 20.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, tros Hugh Evans.'

Wyth tudalen ydyw, ac y mae yr englyn canlynol ar yr wyneb-ddalen:—

'Prynwch, darllenwch, boed llês—o'r llyfr,
Mae'r llafur yn gynhes;
Hyd fy eithaf cyfieithes,
Yn y geiriau gorau ge's.*']

1768.

1. 'Cyfarwyddyd i Weddio, (A Drefnwyd i Esgobaeth Baddon). Gan y Gwîr Barchedig Dad yn Nuw Thomas Kenn.

Llundain: Argraphwyd gan J. a W. Olfir, ym Martholomey-Clôs; ger llaw Smithfield Gorllewinol. MDCCLVIII.'

Cyhoeddwyd hwn ar draul y 'Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol;' a gwerthid ef am 5c. i'r aelodau. Yr awdwr,—

THOMAS KEN neu KENN, a anwyd yn Berkhamstead, yn sir Hertford, yn 1637. Daeth yn gapelwr i Siarl II; ac wedi hyn yn esgob Bath a Wells. Gwrthwynebodd Iago II. i ddwyn Pabyddiaeth i mewn i'r deyrnas; ac yr oedd yn un o'r saith esgob a garcharwyd yn y Tŵr, am wrthwynebu y teyrn hwnw. Yr oedd yn awdwr pregethau, prydyddiaeth, &c., y rhai a gyhoeddwyd gan ei nai, gyda'i hanes, yn 4 cyfrol. Bu farw 1711, yn 74 oed.†

2. ¶ 'Trefn am Dduwioldeb ar Ddydd yr Arglwydd, cymmwyseidig i'r rhai gwaelaf eu deall. Gan Wm. Asheton, D.D. Person Beckenham, yn-nghent, a gyfieithwyd gan R. Lloyd, Person Hurnant.

Argraphwyd yn y Mwythig.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, tybygid,‡ ym mhen deng mlynedd a thrigain ar ol yr argraffiad cyntaf. Cafodd yr awdwr,—

WILLIAM ASHTON, ei ddydsgeidiaeth yng Ngholeg *Brasenose*, Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei B.C. ar Ebrill 11, 1662.§ Am y cyfieithydd,

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† *Maunder's Biographical Treasury.*

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1698.

§ *Wood's Athen. Oxon.* vol. ii. pp. 215-823.

R. LLOYD, A.C., nid oes hanes ar gael. Nid oes beddfaen iddo yn Hirnant, ac ni wyddys pa un ai yno, ai yn rhyw le arall y claddwyd ef; ac nid oes dim son am dano yn y Coflyfr Eglwysig amgen nag a ganlyn: —'1730. A memorable year, wherein I am oppressed and injured by certain persons, whom I freely forgive. However I made of this Parish this y^r 4 Score pounds. All Glory to God alone. R. Lloyd.* Ymddengys iddo gael y lle hwn gan yr Esgob Wynn, yn 1717, ac ei fod yn dra hen pan ysgrifennodd yr uchod, ac ei fod hefyd yn berson Eglwys Fach Glan Conwy.†

3. 'Oes Lyfr. Yn dair rhan. Yn cynnwys i. Côt Lyfr ysgrythyr-ol. ii. Am Frenhinoedd y Brutaniaid, a Thywysogion Cymru. iii. Am Frenhinoedd a Brenhinesau Lloegr er y Concwest, i deyrnasiad Sior iii. Yn rhoddi hanes am y pethau mwyaf rhyfeddol a ddigwyddodd yn eu Teyrnasiad hwynt; sef Rhyfeloedd, Plâ, a Heintiau, Daear-grynfeydd, Mellt a Tharannau dychrynlyd, Llifogydd mawrion, Tân yn anrheithio Trefydd ac Eglwysydd, ac amryw Bethau eraill, na buont yn argraphedig o'r blaen yn Gymraeg. Gwedi eu casglu allan o'r Awdwyr goreu â ysgrifenasant ar y Testynau hynny, Gan Thomas Williams.

Argraphwyd gan J. Ross, yng-Nghaerfyrddin. MDCCLXVIII. [Pris chwe' cheiniog.]

Ail argraffiad ydoedd hwn.‡ Y mae y rhagymadrodd wedi ei amseru, 'O'm llyfrgell ar y Mynydd bach, yn Llandeilo fawr, Awst 18. 1768.'

4. 'Y Credadyn Bucheddol: Neu Fannau Credo'r Apostolion. Wedi eu gosod allan yn gymmwys i hyweddu pob Dyn i Fuchedd Dduwiol a Christianogol. Yn Ddwy Ran. A ysgrifennwyd yn Saisneg, Gan y Parchedig Mr John Kettlewell, Ficar Coles-Hill, yn Sir-Warwic, ynghylch y Flwyddyn 1689. Ac a gyfieithwyd o'r trydydd Argraphiad Seisnig, Gan Risiart ap Robert, Athraw Ysgol Llanrhaidr yng Nghinmerch, yn Sir Ddinbych, yn y Flwyddyn 1763.

Llundain; Argraphwyd gan Sion a Wiliam Olifer, yn Bartholomew-Close. MDCCLXVIII.' [8plyg: 394+20=414 tudalen.]

JOHN KETTLEWELL a anwyd yn North Allerton, sir Iorc, Mawrth 10, 1653. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn ysgol rad y dref hòno, a'i anfon i Rydychain yn 1670, pan yn 17 oed. Cafodd gymmrodiaeth yng Ngholeg Lincoln, a chapeliaeth Iarles Bedford; ac yn 1685, pan yn 29 oed, cafodd ficeriaeth Coleshill, yn sir Warwic. Pan ddaeth

* *Llythyr* y Parch. T. Rowland, Person Pennant Melangell.

† Edwards's Willis's *St. Asaph*.

‡ Gwel rhif 4, d.f. 1724.

William III. i'r orsedd, efe a wrthododd gymmeryd llw o ymostyngiad iddo ef a Mari, am yr hyn y cymmerwyd ei fywoliaeth oddi arno, pryd y daeth i Lundain, ac yr ymgymmerodd â llenoriaeth. Yr oedd yn Iacobydd diysgog. Bu Nelson yn llawer o gymhorth iddo yn ei adfyd, yr hwn oedd yntau yn Iacobydd; ond, fel gwrthddrych ein sylw, yn ddyn da, a diarebol o haelionus.* Casglwyd ac argraffwyd ei waith yn 1718, yn 4 cyfrol unplyg. Bu farw Ebrill 15, 1695, yn 42 oed.†

[Y mae 'Y Credadyn Bucheddol' yn well ac yn gywirach gwaith na'r rhan amlaf o lyfrau yr oes yr ymddangosodd ynddi. Cydnebydd y cyfieithydd ei rwymedigaethau am gymnorthwyon yn ei orchwyl i'r Parch. W. Wynn, Ieuan Brydydd Hir, a Rhisiart Morys, yr hwn a'i golygodd trwy y wasg. Dywed y Prydydd Hir, mewn llythyr at Risiart Morys, dyddiedig Meh. 28, 1767, iddo ef gymmeryd cryn drafferth gyda'r cyfieithiad, a chyfnewid a diwygio cryn lawer arno, er nad oedd yn y diwedd yn gwbl wrth ei fodd.]

5. ¶ 'Catechism o'r Ysgrythyr, yn nhrefn Gwyr y Gymmanfa, a 'sgrifenydd gan y Parch. Mathew Henry. Yn Gymraegi ddangos i'r Cymro un-jaith, I. Y Pethau a ddylau efe gredu. II. Y dyledswyddau a ddylau ei cyflawni tuag at Dduw a dynion. III. Y Cyfryngau neu'r moddion a ddylau efe eu Harfer. VI. Y Pethau a ddylai efe ei Gofyn gan Dduw mewn Gweddi, a hyny allan o air Duw ei hun. Wedi ei Gyfieithu gan Iago ab Dewi.

Yr ail argraphiad. Yng-nghaerfyrddin.'

Yr oedd hwn mewn gwirionedd yn bedwerydd argraffiad, tybygid, ac yn drydydd o gyfieithiad Iago ab Dewi.‡

6. 'Taith y Pererin tan Rith Breuddwyd.

A Gwir Freuddwyd Ysprydol,
Nid Rhith ond Sylweddol.

Yn yr hwn y dangosir, Cychwyniad llaweroedd ar Bererindod allan o Ddyffryn y Distryw tua Mynydd Sion, ond o'ch eu maent yn y Nôs yn gwrthgilio'n fintoedd i'w hên gartref, Etto fe gafodd rhai nerth i fyned yn eu blaen, ac a gyraeddasant ben eu Taith, a hynny gyda llawer Dramgwyddiadau ar hyd y ffordd. Y Drydedd Rann. O Waith John Bunyan. A Gyfieithwyd gan John Edwards, yng Nglynn Ceiriog, allan or 27 yn Saesonaeg.

Caerlleon: Argraphwyd gan Joan Harfie, tros Ddafydd Llwyd, o'r Bala. 1768.'

Dyma drydydd argraffiad, a chyfieithiad newydd.§ Y cyfieithydd,

* Gwel rhif 6, d.f. 1711; a rhif 4, d.f. 1712.

† W. Jones's *Christian Biography*; Wood's *Athen. Ozon.* vol. ii. pp. 867, 868.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1708; rhif 5, d.f. 1717; rhif 7, d.f. 1743; a hwn yma.

§ Gwel rhif 2, d.f. 1688; rhif 1, d.f. 1699; a hwn yma.

JOHN EDWARDS, neu fel ei llysenwid, 'Sion y Potiau,' a anwyd tua'r flwyddyn 1700, yng Nglyn Ceiriog, yn sir Ddinbych. Gwëydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac am hyny a elwid gan yr hen bobl, 'Sion y Gwëydd.' Yr oedd ei drigfa uwch law eglwys Llan Sant Ffraid Glyn Ceiriog, lle cryno, a'r gerddi wedi eu hamgylchu â choed boes, ac ywen wedi ei thrwsio i lun ceiliog y coed, ac adarwr yn yr ywen arall yn cyfeirio dryll at y ceiliog. Dywedir iddo adael ei deulu, a bod saith mlynedd yng ngwasanaeth llyfrwerthwr yn Llundain, ac felly y cyrhaeddodd yr ychydig ddysg a gwybodaeth oedd ganddo yn fwy na'r cyffredin. Y pryd hyn canodd Jonathan Hughes iddo broest, a'r llinellau hyn ynddo,—

'Brawd doeth fardd, bryd doi i'th fwth ?
Briw ydyw i'th fun briodi'th fath.'

Yr oedd yn brydydd lle dda, ac yn deall y mesurau caethion yn weddol, fel y profa ei Awdl i Eglwys Llangollen. Yr oedd iddo ddau fab, o'r enw Cain ac Abel, am y rhai y dywedai y rhigymwyr,

'Cain ac Abel, cŷn ac ebill,
Abel a Chain, ebill a chŷn.'

Mab i'r Abel hwnw oedd y Parch. Abel Jones, diweddar weinidog y Bedyddwyr ym Merthyr Tydfil. Bu Cain yn cyhoeddi Almanaciau am flynyddoedd, ac yr oedd yn aelod a blaenor y canu gyda'r Bedyddwyr yn y Glyn, a mab i hwnw oedd Sion Cain Jones, y prydydd, a fu farw yn 1826; ac yr oedd merch i hwnw, gorwyres i John Edwards, o'r enw Leah Evans, yn brydyddes awenyddol, yng Nglyn Ceiriog. Cafodd J. E. hefyd fab ordderch yn ei henaint, yr hwn a alwodd Pilat, a bu yn aelod gyda'r Wesleyaid tuag Abergele. Ymddengys nad oedd J. E. mor bleidiol i'r Bedyddwyr a'i ddisgynyddion; canys dywedir iddo rigymu gogan iddynt pan oeddynt yn bedyddio. Gofynai unwaith, wrth glywed clul cloch y llan, i ryw ferch, 'Bessi, i bwy mae'r *passing bell*?' ac atebai hithau yn ddfeddwl, 'I ferch hyna' Nathaniel,' o bleid merch hynaf Mr. Nathaniel, o Lechrodau, oedd wedi marw. Yr oedd, fel agos holl lyfrwyr yr oes hõno, yn ymgiprys ag ysbrydion. Dywedir i ysbryd ystranciog ei gario oddi wrth ei dŷ dros gwm dwfn Nant y Weniar, a'i osod i lawr yn esmwyth ar ael bryn; ac yr oedd yn cael ei adrodd fel diareb yn y wlad; 'Ysbryd Allt y Badau yn pwtian Sion y Potiau.' Ystyrir ei ddisgynyddion yn rhagori ar y cyffredin mewn talent i brydyddu a chanu, ond eu yn bod dra thueddol i fynychu tafarndai; eto yr oedd ei feibion, Cain ac Abel, yn sefyll yn uchel eu cymmeriad a'u crefydd. Parotodd J. E. ei gareg fedd ei hun, a rhoddodd 1 *Cor.* xv. 52, yn Lladin ar y gareg. Bu farw yn 1776.*

8. 'Arithmetic: Mewn Trefn Hawdd ac Eglur. I wneuthur y Rheolau Canlynol, yn y Ffordd Cyffredin, Degrannau; ac wrth y Sliding Rule, &c. Gyda chyfarwyddid i gael arwynebiad, ac Eangfesur amryw luniau, megis Tiroedd, muriau Tai, a'u pennau,

* *Y Tyst Apostolaidd*, 1850, t. 136, 137; *Ysgrif y Parch. R. Ellis*.

Lloftydd, byrddau, Gwydr, Plangciau, Coed ysgwar a chrynon, Llestri a Llongau, &c. O Gasgliad John Roberts.*

Dublin, Argraffwyd gan S. Powell, Dame Street, tros yr Awdwr. MDCCLXVIII.'

9. 'Y Ffigisbren anffrwythlon: Neu Farn a Chwyp y Proffeswr Diffryth. Yn dangos y dichon Dydd Gras Ddarfod arno yn hir cyn darfyddo ei fywyd. Hefyd yr arwyddion wrth ba rai y gellir adnabod y cyfryw drueiniaid marwol. Gan y Gwas enwog hwnw o eiddo Crist, Mr. John Bunyan. Wedi ei gyfieithu o Ail-Lyfr unplyg yr Awdwr, a argraphwyd yn Llundain 1737, tan olygiad y Parch. Mr. Samuel Wilson.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross, 1768. [Pris Pedair Ceiniog.]'

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad.†

10. 'Ymddiddan rhwng yr Arglwydd Iesu Grist a'r Pharisead hunan-gyfiawn, yr hwn sydd yn pwysu ar ei weithredoedd ei hun.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Joan Ross, yn Heol Awst, tros Peter Morris, yn y Flwyddyn 1768.' 12 tudalen 12plyg.

11. 'Hanes Bywyd a Marwolaeth Tri Wyr o Sodom a'r Aipht, y fan hefyd y croeshoeliwyd ein Harglwydd ni, sef *Afaritius*, yr Awyddus; *Prodigalis*, yr Afradlon; a *Fidelis*, y Cristion. Mewn dull o Ymddiddan rhwng Cantator y Bardd a Phen-Cantator, yr Holiedydd. At ba un y chwanegwyd Marwnad i bob un o'r tri, &c. Gan Wm. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, tros yr Awdwr. MDCCLXVIII.'

12. 'Nodau 'Sgrythyrol y Gwir Gristion, ynghyd a Rhai Diferion o Laeth a Mel, wedi eu cyfieithu o'r Saesonaeg. Hefyd, Gwaedd ar Fynydd Sion yn gwahadd Proffeswyr Crefydd o bob Barn, at eu Dyledswydd o herwydd y Terfysg presenol sy'n y Deyrnas hon. Gan J. T.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross yn Heol Awst 1738.'

13. 'Llythyr at Holl Drigolion Cymru: a Elwyr y Tair Ysgol i'r Nefoedd. Wedi ei sylfaenu ar y Tair Egwyddorion, neu Sylfaenau yr Efengyl, ac a gynhwysir dan y pennau hyn, Bywyd Rhesymmol, Ffydd Rhesymmol, Gobaith Rhesymmol. Oddiwrth eu Brawd

* Sion Rhobert Lewis, Almanaciwr Caergybi.

† Gwel rhif 11, d.f. 1766. [Tebycach mai ei gamgyflëu a gafodd yma, ac mai argraffiad 1766 ydyw.]

Thomas Edwards, Gweinidog o Eglwys Loegr fwy na Dêg mlynedd ar hugain mewn urddau. At ba un y chwanegir Tair Pregeth: Un ar yr Ail Enedigaeth, neu'r Enedigaeth Newydd. Un ar y Sacrament, ac un ar Iechydwrïaeth a Dedwyddwch Tragwyddol trwy Grist. A ffordd gyfleus i arfer Boreuol a Phrydnawnol Weddi mewn Teuluoedd.

Argraphwyd Ynghaerlleon gan Read a Huxley.'

14. 'Gweledigaethu y Bardd Cwsc. Y Rhan Gyntaf.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan J. Eddowes. MDCCLXVIII.' [16plyg.]

Yr oedd hwn yn bedwerydd argraffiad o Elis Wynn.*

15. 'An Historical Account of the British or Welsh Versions and Editions of the Bible. With an Appendix containing the Dedications prefixed to the first Impressions. By Thomas Llewelyn, L.L.D. Pro Patria.

London, Printed by Richard Hitt, &c. MDCCLXVIII.' [8vo.]

THOMAS LLEWELYN, LL.D., a anwyd ym Mhenalltau Isaf, ym mhlwyf Gelligaer, sir Forganwg, rywbryd tua'r flwyddyn 1720. Yr oedd ei rieni yn perthyn i hen gynnulleidfa y Bedyddwyr yn Hengoed, lle y bedyddiwyd yntau yn 1738. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Nhrosnant, Pont y Pwl, o dan un John Matthews, ac wedi hyny yn Athrofa y Bedyddwyr ym Mristol. Yna symmudodd i Lundain, lle y bu dan ofal ac addysg amryw ddysgedigion. Pan yr oedd yn Llundain, ymunodd mewn cymmundeb â Samuel Wilson, yr hwn oedd y pryd hyny yn weinidog y Bedyddwyr yn Heol Prescott, lle y cafodd alwad i bregethu. Wedi hyny sefydlodd athrofa, mewn cysylltiad â chymdeithas o Fedyddwyr, er hyfforddi gwŷr ieuainc i'r weinidogaeth. Y pryd hyn anrhegodd Prifysgol Aberdeen yn Scotland ef â'r radd o A.C., ac wedi hyny â D.C. (neu LL.D.) Efe hefyd ydoedd un o brif sefydlwyr Cymdeithas y 'yymmrodorion, Llundain. Ym mhen blynyddau dychwelodd i Gymru, gan wasanaethu ei genedl ym mhob modd ag y gallai. Bu farw yn 1783.†

16. 'Llyfr y Weddi Gyffredin, &c. [Llyfr Gweddi Gyffredin.]

Printiedig gan Mark Baskett, Printiwr i Ardderchoccaf Fawrhydi'r Brenin, &c. M,DCC,LXVIII.' Unplyg.

* Gwel rhif 6, d.f. 1703; rhif 6, d.f. 1720; rhif 14, d.f. 1767; a hwn yma. [Y mae hwn yn bummed argraffiad o'r 'Bardd Cwsg.' Ar ei ddiwedd ceir cofres yn cynnwys 'Llyfrau a Argraphwyd ag sydd ar werth gan J. Eddowes, yn y Mwythig,' y sawl sydd ugain o rifedi.]

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas, t. 207; *Hanes y Bedyddwyr*, gan Jones, t. 573, &c.; gwel hefyd *Seren Gomer*, Medi a Hydref, 1855, lle y mae hanes ei fywyd yn helaeth, gan y Parch. W. Roberts, Blaenau.

Y mae yn gyssylltiol â hwn, 'Llyfr y Salmau,' &c. Drwy Waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd.' 'Printiedig yn Llundain: gan Mark Baskett, &c. M,DCC,LXVIII.'

17. 'Llythyr oddiwrth Gymanfa o Weinodigion, at yr amryw Eglwysi i ba rai y maent yn perthyn.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. 1768.'

18. 'Hieroglyphic: or, A Grammatical Introduction to an Universal Hieroglyphic Language; Consisting of English Signs and Voices. With a Definition of all the Parts of the English, Welsh, Greek, and Latin Languages; Some Phisical, Metaphysical, and Moral cursory Remarks on the Nature, Properties and Rights of Men and Things. And Rules and Specimens for Composing an Hieroglyphic Vocabulary of the Signs and Figures, as well as the Sounds of Things, upon rational and Philosophical Principles, and the Primitive Meaning of Names. By Row. Jones.

London: printed by John Hughs, near Lincoln-Inn-Fields. Of whom may be had, the Origin of Languages and Nations; price 5s. and his Proscrits 1s. in Sheets. 1768.' Small 8vo.

19. 'Hymnau cymmwys i Addoliad Duw, O waith y Diweddar Barchedig Mr. Jenkin Jones.* At y rhai y chwanegwyd, Caniadau o Waith yr un Awdwr, Ynghyd a'i Farwnad, Gan Evan Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst, dros Stephen Jones. MDCCCLXVIII.'

20. ¶ 'Yr Hen Lwybr. Newydd ei gyfieithu o'r Saesonaeg.

Caerfyrddin, Argraffwyd, ac ar werth gan J. Ross, am Ddimmau bob yn un, neu ddau Swllt y Cant.'

21. 'Taith y Pererin, tan gyffelybiaeth Breuddwyd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross (Pris naw ceiniog.)'

Yr oedd hwn yn bedwerydd argraffiad† o'r holl lyfr, ac yn bummed argraffiad o'r drydedd ran.

22. 'The Character and Conduct of Ecclesiastics in Church and State; from the First Plantation of this Island, to the Accession of the Royal House of Hanover to the Crown of Great Britain. In Five Parts. Containing, 1. The Conduct of the Pagan Ecclesiastics.'

* Gynt gweinidog Llwyn Rhyd Owen; gwel rhif 1, d.f. 1720; rhif 1, d.f. 1723; a rhif 3, d.f. 1727.

† Gwel rhif 2, d.f. 1688; rhif 1, d.f. 1699; rhif 20, d.f. 1767 (mewn cyssylltiad â rhif 6 a 7, d.f. 1768); a hwn yma.

ii. The Conduct of the British and Saxon Clergy. iii. From the Conquest to the Reformation. iv. From the Reformation to the Revolution. v. From the Revolution to King George i. Taken from the Manuscript of Dr. Charles Owen, of Warrington. To which is added An Appendix. Giving a Short Account of the English Historians.

Shrewsbury, Printed by J. Eddowes, near the Market House. MDCCLXVIII.'

CHARLES OWEN ydoedd frawd i James Owen. Efe a gyfieithodd lyfr ei frawd ar Fedydd Babanod,* o dan yr enw 'The Infant Ark;' ond ni chafodd ei gyhoeddi. Cafodd ei werthu yn 1860 gyda llyfrau cywrain Mr. E. Edwards o'r Mwythig, am 5s. 6c.

23. 'Consideration on the Illegality and Impropriety of preferring Clergymen, who are unaquainted with the Welsh Language to Benefices in Wales, &c., by John Jones, A.M. Fellow of Queen's College, Oxon. 1768.'†

24. ¶ ['Rhyfeddol Brophwydoliaeth Myrddin yr hwn a Brophwydodd er's canoedd o flynyddoedd am amrywiol o Arwyddion a Rhyfeddodau sydd yn bresenol, ac yn ganlynol i'r helbulus ddyddiau sydd ar ddyfod. Wedi ei Gyfansoddu ar Fesur Cerdd yn y Flwyddyn 68. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.']

Llyfryn bach o 8 tudalen ydyw. Nid oes iddo argraffeb o fath yn y byd; ac o herwydd hyn nis gellir gwybod pa bryd, pa le, na chan bwy y cafodd ei argraffu: ond gellir meddwl mai wrth 'y Flwyddyn 68' y golygir 1768; ac ymddengys hyn yn amlycach ond ei gymharu â'r pennill diweddaf, yr hwn sy fel y canlyn:—

'Un mil a saith cant cyfan a thrigen mlwydd ag wyth
Oedd oedran Crist ein prynwr pam wnaethpwyd hyn o fwyth,
I gael rhybiddio'r Cymru a chyffro pawb or byd
I alw ar Dluw'n garedig i attal hyn o lyd.'

Cwyna ein hawdwr wrth gofnodi y trydydd argraffiad (rhif 20, d.f. 1778) na fedrodd gael gafael ar y ddau argraffiad blaenorol: ymddengys mai hwn yw yr argraffiad *cyntaf*; ac argraffiad anghywir a gwael truenus ydyw. Ni chynnwys dalen yr enw ddim ond a grybwyllr uchod, gyda dyfyniad o *Gen.* xix. 17 (a gam-argreffir 'ix. 17'):—'Diange am dy einioes: nac edrych ar dy ol, ac na saf yn yr holl wastadedd, diange ir mnydd rhag dy ddyfetha.']

1769.

1. 'Camni yn y Goelbren; neu, Datguddiad o'r Modd y mae Penarglwyddiaeth a Doethineb Duw yn trefnu Cystuddiau Dynion, Ynghyd â'r Modd y dylai Crist'nogion ymddwyn tanynt. Gwedi ei osod allan mewn Pregeth oddiwrth Preg. vii. 13. Edrych ar Orchwyl Duw, canys pwy a all unioni'r Peth a gammad Efe? At ba un y chwanegwyd, Pregeth arall ar Diar. xvi. 19. Gwell yw bod yn

* Gwel rhif 7, d.f. 1693.

† [Gwel rhif 22, d.f. 1767.]

ostyngedig gyd â'r gostyngedig na rhannu'r Yspail gyd â'r Beilchion. Gan y diweddar Barchedig a Dysgedig Mr. Thomas Boston, Gweinidog yr Efengyl yn Etric yn yr Alban. Newydd ei Gyfaithu yn Gymraeg.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, dros T. Davies, o Sir Benfro. 1769.'

Cynnwysa hwn 78 o dudalenau. Yr oedd cynnygiad am ei argraffu yn gyssylltedig â Phregeth y Parch. D. Rowlands er y fl. 1762,* lle y mae enwau lluaaws o weinidogion o bob enwadau, a phregethwyr Methodistaidd, fel rhai a dderbynient enwau am dano. Ym mhllith y Methodistiaid yn y Gogledd, y mae 'Mr. John Evans o'r Bala, Mr. Charles Marc [?] a Huw Tomas yn Llun, ac hefyd John Rowland gerllaw Llanycil,' yr argraffydd, mae yn debyg. Rhoddid hysbysiad y bwriedid 'argraphu llyfr arall o'r un Meintioli a hwn, o Waith yr un Awdwr, ar Ostyngeddrwydd—mewn amryw Bregethau;' ond tebyg na chafwyd cefnogaeth ddigonol. Yr awdwr,—

THOMAS BOSTON, a anwyd yn Duns, Scotland, yn 1677. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Edinburgh. Yn 1699, cafodd weinidogaeth plwyf Simpren; ac yn 1707, efe a symmudodd i Etric. Cyhoeddwyd gweithiau ereill o'i eiddo yn Gymraeg yn y 19fed ganrif. Bu farw yn 1733, yn 56 oed.†

Y cyfieithydd, mae yn debygol, ydoedd y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho.

2. 'Duwioldeb Rhydychain: Neu Hanes Cyflawn a Diduedd am chwech o Ysgolheigion a fwriwyd allan o Neuadd-golegol St. Edmunds, yn Rhydychain. Gyda Llythyr Cyflwyniad at yr Anrhydeddus Iarll Litchfield, Canghellor y Brif-Ysgol honno. Gan Athraw'r Celfyddydau o Brif-ysgol Rhydychain.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Joan Ross, tros Joan Tomas o Lanfihangel, gerllaw'r Gelli Aur. MDCCLXIX. [Pris Chwe' Cheiniog.]'

Dywedir mai awdwr campus y llyfryn grymus hwn ydoedd

Syr RICHARD HILL, mab Syr Rowland Hill, a brawd hynaf y Parch. Rowland Hill, yr hwn a anwyd yn Hawkston, sir Mwythig, yn 1733. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei A.C. Wedi bod ar daith trwy Ewrop, efe, pan ddaeth yn ol, a hynododd ei hun trwy ei ymlyniad wrth y Methodistiaid Calфинаidd, yr hyn a arddangosodd wrth ysgrifenu y llyfr uchod, yn yr hwn y mae yn ymosod yn llym ar yr awdurdodau. Atebwyd ef gan y Dr. Newell, o Rydychain, ac atebodd yntau hwnw yn ol gyda llymder mwy fyth. Bu hefyd mewn dadl wresog â Wesley, Fletcher, ac ereill o'r Methodistiaid Arminiaidd, mewn amddiffyniad i Galfiniaeth. Ar farwolaeth ei dad

* Gwel rhif 15, d.f. 1762.

† *Encyclopædia Britannica*.

daeth i'r etifeddiaeth, ac yn aelod o'r Senedd dros sir y Mwythig. Yr oedd yn siarad llawer yn y Senedd, a chan mwyaf ar amgylchiadau cyssylltedig â chrefydd. Byddai weithiau yn pregethu mewn capeli; ac adeiladodd gapel ger llaw ei dŷ. Bu farw yn 1808, yn 75 oed.*

3. 'Dirgelwch Babel Fawr, Mam-Butain yr holl Ddaear; Neu Gywir hanes o lawer o Greulonderau, a Chyfeiliornadau Eulunaddolgar Eglwys Rhufain; Wedi ei nodi allan o'r awdwyr Gorau, er lles i'r Cymru. Gan John Hughes, Drefaes, yn Llŷn.

Argraffwyd yn Llanymddyfri.'

4. 'Cyfaill i'r Cymro: neu Lyfr o Ddiddanwch Cymhwysol, er dowys Dyn ar Ffordd o Hyfrydwch: yn Ganeuon, a Charolau, ar Englynion, hawdd yw deull, o waith Prydyddion sir y Flint, a sir Ddimbych. O gasgliad W. Hope, o Dre Fostyn.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. Read a F. Huxley yn y flwyddyn 1769, ag ar werth gan W. Hope, yn sir y Flint.†

5. 'Cyngor Gweinidog o'r Wlad i'w Blwyfolion, yn enwedig i'r rhai ieuainge o honynt. Yn dangos Beth a ddylent Gredu a Gwneuthur fel y b'ont gadwedig.

Argraphwyd yn Llundain i'r Gymdeithas er cynnyddu gwybodaeth Gristnogol. MDCCLXIX.' 78 tudalen.‡

6. 'Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau: Neu rai Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Y Drydedd Ran.§ Gan William Williams.

Llanymddyfri: argraphwyd tros yr Awdwr gan Rys Tomas. M,DCC,LXIX.'

Cynnwysa 84 o dudalenau 12plyg. Y mae y ddwy ddalen ddiweddaf yn cynnwys hysbysiad helaeth a hynod o eiddo yr awdwr, am ei 'Pantheologia' oedd yn cael ei gyhoeddi yn rhanau y pryd hyn.

7. 'Y Bibl Cyssegr-lan, Sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Printiedig gan Mark Basket, printiwr i ardderchoccaf fawrhydi'r brenin, a chan wrthrychiaid Robert Basket, 1769.'

Beibl 8plyg ydoedd, ar draul y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth

* *Gentleman's Magazine.*

† [Naill ai y mae hwn yn ail argraffiad ai yn gamgyflead o rif 17, d.f. 1765.]

‡ [Fel hyn y saif yr argraffeb yn y cyfargraff sydd o'm blaen:—'Llundain: A argraphwyd i J. Rivington, Gwerthwr Llyfrau i'r Gymdeithas er cynnhyrchu Gwybodaeth crist'nogol, ym Monwent St Paul, No 62. M DCC LXIX.' Ni chynnwys ond 48 o dudalenau 12plyg, a'r olaf o honynt yn wyn.]

§ Gwel rhif 3, d.f. 1766.

Gristionogol. Argraffwyd 20,000 o gopiau.* Golygydd yr argraffiad hwn oedd y Parch. John Evans, awdwr 'Cyssondeb y Pedair Efengyl,' tybygid.† Dywedir y dilynwyd orgraff Beibl yr Esgob Lloyd yn hwn, am yr hyn y mae Mr. Richard Morris yn ceryddu y y golygydd yn llym, mewn llythyr ato, dyddiedig 'Tŵr Gwyn, 2 Chwefror, 1768.'‡ Cafodd y Dr. Thomas Llewelyn, Bedyddiwr o sir Forganwg,§ gan y Gymdeithas argraffu rhai miloedd yn ychwaneg na'u bwriad ar y cyntaf, er mwyn cyflenwi diffygion yr Ymneillduwyr. Rhoddodd un Mr. Marlow, o Lanllieni, gant ac ugain o Feiblau yr argraffiad hwn i'r Bedyddwyr; i'w rhoddi ar eu pulpudau yr oedd-ynt, y rhan fwyaf. Darfu i'r Parch. Benjamin Evans, gweinidog yr Ymneillduwyr yn Llanuwchllyn,|| gael, ym mhen chwe blynedd, 500 o honoynt, trwy, ac o rodd, fel y tybir, Mr. Sporton, masnachwr cyfoethog a haelionus iawn yn ei ddydd, yn Llundain, fel y prawf y llythyr canlynol o'i eiddo at gyfaill yng Nghaerlleon, dyddiedig yn 'Clapham, 5med Mehefin, 1775:'—'Gyda'r un llong chwi a dderbyniwch 200 o Feiblau i'r Parch. Benjamin Evans, o Lanuwchllyn, yr hwn a ysgrifena atoch ym mha fodd y dymuna iddynt gael eu hanfon ym mlaen, a rhaid i mi grefu arnoch dalu y cludiad, a phob gofyniadau dyledus ar y 200 hyn, a'r 300 gweddill a anfonir. Mi a ad-dalaf i chwi yn y modd y mynoch, mor fuan ag y mynegoch i mi y swm.'**

Dywed y diweddar Barch. Evan Evans (*Ieuan Brydydd Hir*) fel hyn am yr argraffiad hwn:—

'Ond i mae bai arall sydd waeth na'r cwbl a grybwyllwyd uchod,'—sef yn lle *ynghyngor*, *ynghynnulleidfa*, *ynqolwg*, ysgrifenu *ynghyngor*, *ynghynnulleidfa*, *ynqolwg*,—'ag sydd yn argraffiadau diweddaf y Bibl Cyssegrlân drwy newidog ag anffurfio enwau dynion a lleoedd drwy holl gorph yr yscrythur lân, gan daflu y llythyren *Ch* gymraeg allan o'r geiriau hynny, lle ir oedd y Groegiaid a'r Hebreaid yn arfer y llythyr *Chi* a *Chaph* Hebräeg, ag arfer *C* yn ei lle, megis yn y geiriau canlynol: *Acis*, *Nebucodonosor*, *Aristarcus*, *Tycicus*, *Acaia*; yn lle *Achis*, *Nebuchodonosor*, *Aristarchus*, *Tychichus* ag *Achaia*. Chwith iawn a fyddai yserifennu y geiriau canlynol, *Llywarch*, *Cynfarch* yn Gymrâeg, yn y wëdd lygredig hon, *Llywarc*, *Cynfarc*. Nid llai chwithig ynteu, i'r sawl a ddeallont y iaith wreiddiol, yw troi *Achis*, *Nebachodonosor*, *Aristarchos*, *Tuchicos*, *Achaia*,†† yn *Acis*, *Nebucodonosor*, *Aristarcus*, *Tycicus* ag *Acaia*, o ran fod y Saeson yn eu llafaru felly, a'n heglwyswyr seisnigaidd ninnau yn eu dilyn yn eu llygredig lafariad.

'Nid wyf fi yn dywedyd mo hyn er gwarthruddio neb, o herwydd nad eill neb ond a allo. I mae gennyf fi a phob gwir Gymro ddyladwy

* Dywedwyd mai 10,000 oeddynt, yn y *Dysgedydd*, Gorph. 1828, t. 196.

† Gwel rhif 2, d.f. 1765.

‡ *Y Greal*, 1806, t. 282.

§ Gwel rhif 15, d.f. 1768.

|| [Gwedi hyny yn y Dref Wen, ger Castell Newydd Emlyn.]

** *Congregational Magazine*, 1842, p. 823.

†† [Y mae y pum enw hyn mewn llythyrenau Groeg gan y Prydydd Hir; ond gan nad oes llythyrgyff Groeg yn swyddfa yr argraffydd, yr ydys yn gorfod arfer y llythyren gyffredin.]

barch a chariad i'r sawl a olygasant yr argraphiadau diweddar y Bibl Cyssegrlân yn Gymrâeg, o herwydd eu bod yn deall iaith ein gwlad yn odidog. Ond da i gwnaethent hwy yn y peth hwn yn fy marn i, ac i bawb a ddelo ar eu hol hwynt, i olygu argraphiad yr yscrythur lân, ddilyn orgraph neu ddull yscrifenniad y dyscedig a'r parchedig Esgob, *Risiart Parry*, a'r Doctor *Davies* o *Fallwyd* yn argraphiadau y Bibl Cyssegrlân, a ddaethant allan yn y flwyddyn 1620 a 1630; gwyr a oeddynt yn deall iaith eu gwlad yn rhagorol, a chanddynt gariad iw gwlad a'u hiaith, ag i eneidiau dynion. Nid fel y gormesiaid seisuigaidd yn ein dyddiau drwg ni, y rhai ni fedrant, ag ni fynnant, wneuthur yr hyn a weddai i Fugeiliaid ffyddlon. Duw yn ei drugaredd a symmudo ymmaith ei farnedig-aethau oddiarnom, ag a ganiattao ini gannwyllbren ei air sanctaidd yn ein iaith ein hunain, ac escobion a fedront yscrifennu, pregethu, a darllen Cymrâeg. Amen.*

8. 'An Account of some Remains of Roman and other Antiquities in and near the county of Brecknock, in South Wales: By John Strange, Esquire. Addressed to the President, Council, and Fellows of the Society of Antiquaries. Read at the Society of Antiquaries, April 13. and 20, 1769.

London: Printed by W. Bowyer and J. Nicholas. MDCCLXIX.'

9. 'Historical and Critical Remarks on the British Tongue and its Connection with other Languages Founded on its State in the Welsh Bible. By Thomas Llewelyn, LL.D.

London, Printed for J. Buckland, in Paternoster row, &c. M.D.CC.LXIX. [Price Two Shillings.] [8vo.]

10. 'Offeiriadgrefft wedi Ymddiffyn. Pregeth yn achos Bwrw allan Chwe' gwr Ieuangc Boneddigaidd o Brif-Ysgol Rhydychen. Am Weddio, Darllain ac Ysponio yr Ysgrythurau. Wedi ei Gostyngedig gyflwyno i Mr. Prif Gangellor a Phenaeithaid y Tai. Gan eu Gostyngedig Was'naethwr, Y Shaver. Wedi ei gyfieithu Cymraeg.

Dublin: Argraphwyd gan S. Powel, in Dame-Street, opposite to Townes's Street. M,DCC,LXIX.'

Awdwr y llyfryn hwn ydoedd

Y Parch. JOHN MACGOWAN, A.C., yr hwn a anwyd yn Edinburgh, yn 1726. Dechreuodd ei yrfa grefyddol ym mysg y Trefnyddion

* 'Rhybudd i'r Darllenydd,' yn ei 'Anghwanegiadau,' yn niwedd Llyfr ii. [t. 324] o *Gasgliad o Bregethau* y Parch. Evan Evans. [Yn ol y *Greal* (rhif 6, t. 282), a Gwallter Mechain (*Gwaith*, iii. 259), yn 1770 yr ymddangosodd yr argraffiad hwn o'r Beibl Cymraeg. Amlwg yw nas gwelodd yr awdwr mwy na'r golygydd mo hono. Ni ddywed y Prydydd Hir ym mha flwyddyn y daeth allan; ond sonia Gwallter Mechain (l.c.) am dano fel yr argraffiad cyntaf o fewn ei gof ef, yr hyn a ddengys ei fod yn gydnabyddus ag ef. Ond hwyrach bod iddo ddau amseriad, yn gyffelyb i argraffiad Moses Williams, 1717-18.]

Wesleyaidd. Yn y cyfundeb hwnw hefyd y dechreuodd arfer ei ddawn fel pregethwr. Ar ol peth amser mabwysiadodd olygiadau Calфинаidd, ac ymunodd â'r Bedyddwyr Neillduol; a bu am ychydig amser yn weinidog i gynnulleidfa o honynt yn Bridgnorth, yn sir Mwythig. Ni ddilynwyd ei lafur yno â nemawr o lwyddiant. Yn 1766, ymsefydlodd yn weinidog i'r gynnulleidfa yn Devonshire Square, Llundain, lle y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Tach. 25, 1780, yn 55 oed. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau poblogaidd, yn enwedig ei 'Dialogues of Devils.*'

11. 'Galarnad ar Farwolaeth Mr. W. Read: o Bont y Moel, yn ymyl Pont y Pool: Physygyr, Meddyg, ac Apothecary: Yr hwn a ymadawodd â'r byd ym Mis Mawrth, 19, 1769, yn y 53, o'i oed. Ac a adawodd ar ol Wraig a gyfenwid Mary, a dwy Ferched, Mary ac Anne, ac etifeddiaeth luosog iddynt. Ynghyd a Llythyr wedi ei ddychymygu o Fyd yr Ysbrydoedd at ei wraig a'i ddwy ferched. A Hymn hefyd wedi ei chyfansoddi ar awr o Gystudd a Gwendid. Gan W. Williams.

Argraphwyd yn Llanymddyfri, Gan R. Thomas. 1769.'

12. 'Marwnad ar Farwolaeth y Parchedig Timothy Thomas, yr hwn a ymadawodd â'r byd Tachwedd 12, 1769.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr, gan J. Ross, yn Heol Awst, 1769.'

Awdwr y Farwnad hon ydoedd frawd y gwrthddrych, ac i awdwr 'Hanes y Bedyddwyr,' sef

Y Parch. ZACHARIA THOMAS, yr hwn ydoedd fab ieuangaf Mr. John Morgan Thomas, o Esgair Ithri. Dechreuodd bregethu yn 1757. Galwyd ef i'r weinidogaeth fel cynnorthwywr ei frawd yn Aberduar tua'r fl. 1762; ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1771, † lle y bu yn gweinidogaethu yn ffyddlawn hyd ei farwolaeth, Ionawr 16, 1816, yn 89 oed, ac wedi bod yn pregethu 59 o flynyddoedd.‡

13. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr Amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. 1769.'

14. 'The Philosophy of Words in Two Dialogues between the Author and Crito, containing an Explanation with various Specimens of the First Language and thence of all its Dialects and the Principles of Knowledge: a Lexicon of difficult Names and Passages in

* *Llythyr y Parch. T. Rees.*

† *Hanes y Bedyddwyr, gan Thomas, t. 392, 407.*

‡ *Hanes y Bedyddwyr, gan Jones, t. 329.*

the Bible and Ancient Authors; and a Plan for an Universal Language. By Row. Jones.

London: printed by John Hughs. 1769. Of whom may be had by the same author—The Origin of Languages and Nations,* price 5s. his Proscript, 1s; and his General Grammar,† 2s. 6d.’

15. ¶ ‘Darluniad Byrr o’r Briodas Ysprydol, tan yr enw Shilo, sef Crist, a Merch yr Hen Amoriad, sef Pechadur Diadgenedledig.’

16. ‘Articles for Kilbebill Society.

Carmarthen, Printed by J. Ross, in Lammas-Street. M.DCC.XIX.’

1770.

1. ‘Y Beibl Sanctaidd: Sef yr Hen Destament a’r Newydd, gyda Nodau a Sylwadau ar bob Pennod.

Caerfyrddin, argraphwyd dros y Parch. Peter Williams. 1770.’
[4plyg.]

Cynnwysa hwn yr Apocrypha, a Salmau Cân yr Archddiacon Prys; ond yr oedd i’w gael hefyd heb yr Apocrypha i’r rhai a ddewisent ei gael felly. Dyma y waith gyntaf i’r Beibl gael ei argraffu yng Nghymru. Rhoddodd Mr. Richard Morris, o Lundain,‡ brawd Lewis a William Morris o Fon, ddwy barthlen i’w harddu, fel y gwnaethai Mr. William Jones,§ tad Syr William Jones, â Beiblau y blynyddau 1742 a 1752. Argraffwyd 8000 o honynt, a gwerthid hwynt am bunt yn rhwym; ac felly yn iselbris iawn. Nid Peter Williams oedd y cyntaf i esbonio yr Ysgrhythrau yn Gymraeg; canys yr oedd ‘Cyssondeb y Pedair Efenngyl, gan John Evans, Athraw yn y Celfyddydau,’ yn cynnwys nodau byrion ar adnodau, yn gyhoeddedig er y flwyddyn 1765.|| Ond rhaid addef mai P. W. oedd y cyntaf a wnaeth ‘sylwadau ar bob pennod.’ Yr ydys yn tybio mai sylwadau Ostervald a ddilynodd ef fwyaf, yr hwn oedd Almaenwr, a gwaith yr hwn a gyfieithasid ac a gyhoeddasid yn Seisonaeg yn yr oes hono.

[Yr oedd Ieuan Brydydd Hir hefyd wedi dechreu ar gyffelyb orchwyl o gylch yr un amser; ond ni chafodd ef byth mo’i argraffu. Y mae cyfrolau o hono ar gadw mewn llawysgrifen yn y Gywreinfia Brydeinig yn Llundain.

Ioan Ffrederic Ostervald, oedd frodor o Neuffshatel yn Switserland, lle y ganed ef yn y fl. 1663, ac y bu farw yn 1747. Treuliodd ei oes fel gweinidog Protestanaidd yn ei dref enedigol. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau defnyddiol yn eu dydd, yn yr iaith Ffrengig; ac y mae rhai o honynt, fel y dywed ein hawdwr, wedi eu cyfieithu i’r Seisoneg; megys ei ‘Arguments and Reflections on all the Books of the Bible,’ i’r hwn y mae ‘Sylwadau’ Peter Williams i raddau helaeth yn ddyledus. O’r un gwaith hefyd y tynodd y Prydydd Hir y rhan luosocaf o’i nodiadau yntau.]

* Gwel rhif 17, d.f. 1764.

† Gwel rhif 18, d.f. 1768.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1690; a rhif 1, d.f. 1760.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1746.

|| Gwel rhif 2, d.f. 1765.

2. 'Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg. [Pris tair ceiniog yn unig] y III. Rhan, O ddydd Sadwrn, Mawrth 17, hyd Sadwrn, Mawrth 31, 1770.

1. Wyth tu-dalen o Hanes Cymru, o amser Cadwaladr Brenhin Prydain, hyd at Lewelyn y diweddaf o Dywysogion Cymru, a 'sgrifenyddwyd gan Caradog o Lancarfan, dan yr enw, Brut y Tywysogion.—Yr ystori hon a drefnir yn y cyfryw fodd ag y gellir ei rhwymo wrth ei hun, pan ei gorphenir.

2. Wyth tu-dalen arall sydd yn cynnwys Ymresymiaidau ar amrywiol Destunau, sef, Y modd i wellhau tir yn diweddu—Llythyr a gyfieithwyd allan o'r Spectator—Hanes ferr o'r terfysg a gyfododd yn y deyrnas hon yn amser Risiart II. gan un Wat Tyler—Hanes y Buioed, math o Seirph o faintioli rhyfeddol, i'w gweled yn aml mewn rhai manau yn America—Y modd i gryfhau'r llygaid.

3. Wyth tu-dalen o Brydyddiaeth, yn cynnwys, Salm LXLVIII o gynghaneddiad y Parchedig Mr. Elis Wynne, awdwr y Bardd Cwsg—Cerdd i feibion ac i ferched—Deuddeg englyn unodl union—Y 98 Salm wedi ei chyfansoddi ar lafar cerdd—Hanes ymryson a fu yn ddiweddar rhwng dau blwyf &c.

4. Wyth tu-dalen o Newyddion cartrefol a phellennig—Atteb y brenhin i ddinasyddion Llundain—Cyfarchiad y ddau dŷ o Barliament i'r Brenhin—Atteb grasusol ei Fawrhydi—hanes ryfeddol o'r modd y gorchymynodd ymherawdwr y Twrciaid i'w ddeiliaid gadw diwrnod o ympryd a gweddi, &c.—Hanes am lofruddiaeth ganol dydd yn Sir Forganwg; byr hanes o eisteddfod Henffordd ar lofruddion &c., &c., &c.

Argraphwyd gan I. Ross; ac ar werth gan R. Rhydderch, yng Nghaerfyrddin; Mr. Williams, o Fleet-Street, Llundain; Mr. Cadel, ym Mristo; Mr. Eddowes, yn y Mwythig; Mr. Thomas Bowen, yn Llanfair-muallt; Mr. I. Hughes, yn Niwbwrch, sir Fon; Mr. W. Jones, yn y Bala; Mr. C. Lloyd, yn Aberystwyth; Mr. Rogers, yn y Fenni; Mr. Jones, yn Aberhonddu; Mr. Savus, yng Nghaerdŷdd; Mr. Beedles, Pont-y-pŵl; Mr. Rees, yng Nghastell Nedd; Mr. Awbry, yn Abertawe; Mr. Wright, a Mr. B. Jones, yn Hwlfordd; Mr. Harris, yn Aberteifi; Mr. N. Watkins, yn Llanymddyfri; Mr. Edwards, yn Llandeilo-fawr; Mr. I. Jones, Rhwymwr Llyfrau, yng Nghaernarfon; Mr. Pughe, yn Llanrhwst, sir Ddinbych; dan lun y Llew Gwynn, ym Machynlleth, sir Drefaldwyn; Mr. Rees, New-Inn; Mr. D. Evan, Henllan-am-Goed; a Ioan Efan, Carriwr o Gaerfyrddin i Aberteifi.'

'Fe ddeisyfir ar y cyfryw Foneddigion, ac eraill, sydd yn meddiannu hen Law-'sgrifeniadau Cymraeg, ac yn ewyllysio eu cael yn

gyhoeddus, eu hanfon at Gyhoeddwr yr Eurgrawn Cymraeg, i ofal y Parchedig Mr. Josiah Rees, o'r Gelligron, gerllaw Castell-Nedd; R. Rhydderch, Gwerthwr-Llyfrau; neu I. Ross, Argraffydd, yng Nghaerfyrddin.'

Yr oedd y cyhoeddiad cyfnodol Cymraeg cyntaf hwn yn dyfod allan unwaith bob pythefnos, pob rhifyn yn 32 o dudalenau 8plyg bychan, o werth tair ceiniog y rhifyn. Yr oedd pob rhifyn yn bedwar dosbarth a phob dosbarth yn wyth tudalen, wedi eu rhifnodi ar wahan; yr hyn, erbyn rhwymo y llyfr, a wnai bedwar o lyfrau o 120 tudalen bob un, yn ol prif benau neu ddosbarthiadau y cyhoeddiad; 120 o'r *Brut y Tywysogion*, 120 o *Ymresymiadau ar amryw- iol Destynau*, 120 o *Brydyddiaeth*, a 120 o *Newyddion Cartrefol a Phell- enig*. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf ddydd Sadwrn, Mawrth 3, 1770; a'r olaf ddydd Sadwrn, Medi 15fed, yr un flwyddyn. Felly *pymtheg* rhifyn a ddaethant allan o hono, pryd y rhoddwyd ef i fyny o ddiffyg cefnogaeth ddigonol.*

Golygwyr yr Eurgrawn oeddynt y Parch. Peter Williams, ac Evan (neu Ifan) Tomas, argraffydd;† ac yr oedd Mr. Eliezer Williams,‡ y pryd hynny yn fachgen ieuanc, yn cymmeryd cryn ran ynddo;§ ac ymddengys fod rhan o'r olygiaeth ar y Parch. Josiah Rees, gweinidog y Presbyteriaid yn y Gelli Onen, ar ol cynlluniad a thraul yr hwn y cerid ef ym mlaen;|| ac ymddengys hefyd wrth ryw englynion gan Ifan Tomas i'r Cyhoeddwr anturiaethus, John Ross, ei fod yntau wedi dysgu y Gymraeg mor dda, er ei fod yn Sais, neu yn hytrach yn Scotiaid, tybygid, fel ag yr oedd yn gallu cymmeryd rhan yn yr olygiaeth.**

* [Canfyddir mai cynnwysiad amlen y *trydydd* rhifyn a roddwyd uchod; gan na welodd y golygydd mo amlen y rhifyn cyntaf, ac nid ymddengys fod yr awdwr chwaith yn gydnabyddus â hi. Gellir gweled cynnwysiad yr *ail* rifyn yn *Nhraethodau Llenyddol* y Dr. Edwards, t. 507.

† Gwel rhif 8 a 9, d.f. 1767; rhif 11 a 15, d.f. 1766; a rhif 7 a 12, d.f. 1767.

‡ [Nid yw debyg fod llaw yn y byd gan Eliezer Williams ynddo, canys nid oedd efe y pryd hwn ond 16 oed.]

§ *Cambro-Briton*, i. 452.

|| Rees's *Historical Description of Glamorganshire; Beauties of England and Wales*.

** *Y Traethodydd*, 1848, t. 362-365. [Dywedir weithiau fod y Parch. Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir) ym mhlith gohebwy'r y greal hwn; ond er bod genyf gyfargraff lled gyflawn o'r cyhoeddiad, yr wyf yn methu canfod dim o'i waith ef ynddo. Y mae y Dr. Lewis Edwards wedi cyhoeddi yn y *Traethodydd*, a'i adgyhoeddi yn ei *Draethodau Llenyddol*, 'Gywydd Methiant,' yr hwn a argraffwyd yn yr 'Eurgrawn' hwn, o waith Ieuan Brydydd Hir *Hynaf*, yr hwn oedd yn ei flodau o gylch y fl. 1450, a'i briodoli i Ieuan Brydydd Hir *Ieuf*, sef y dywededig Evan Evans, neu 'Ieuan Fardd ac Offeiriad,' fel yn gyffredin y galwai efe ei hun. Gwnaed yr un camgymeriad gan ysgrifenydd yn y *Brython* (cyf. iv. t. 34); ond dangoswyd mewn rhifynau ereill o'r un cylchgrawn, tu hwnt i'r chwythryn lleiaf o ammheuaeth, mai gwaith bardd y bymthegfed ganrif ydyw; ac ym mhlith profion ereill crybwyllwyd fod darnau helaeth o'r cywydd yn argraffedig yn *Flores Poetarum Britannicorum*, yr hwn a gyhoeddwyd yn y fl. 1710, ugain mlynedd cyn geni y Prydydd Hir o Geredigion. Gwelais y cywydd hwn hefyd mewn casgliad o farddoniaeth law-

3. 'Tyred a Groesaw at Iesu Grist: neu Draethawd eglur a buddiol, ar Ioan vi. 37. Yn dangos Achos, Gwirionedd, a Dull dyfodiad Pechadur at Iesu Grist, a'i dderbyniad dedwydd, a'i groesaw bendigedig ef. A 'sgrifenydd yn Saes'neg gan John Bunyan. Ac yn Gymraeg gan Iago ab Dewi. Yn ol argraphiad un-plyg yr Awdwr a argraphwyd yn Llundain 1737, tan olygiad Was ffyddlon i Grist Mr. Samuel Wilson.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross, yn Heol Awst. M, DCC, LXX.'

4. 'Teml Solomon wedi ei hysbrydoli; Neu Oleuni'r Efengyl wedi ei gyrchu allan o'r Deml yn Jerusalem, i'n harwain yn hawsach i mewn i Ogoniant Gwirioneddau y Testament Newydd. Gan John Bunyan.

Argraffwyd Ynghaerfyrddin.'

5. 'Cydymaith i'r Allor. Gwedi ei gyfieithu i'r Cymraeg gan L. E.

Argraffwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys.'

Yr oedd hwn y pedwerydd argraffiad o hono.*

6. ¶ 'Cywydd Llyntegid, sef y Prydydd yn cyffelybu Tonnau'r Llyn i Dragwyddoldeb.†

7. 'Seion yn ei galar, neu Hymnau o fawl i Dduw.

Argraphwyd yn y Flwyddyn, 1770.'

8. 'Ymddiffyn Cristionogol: sef, Coppi o Lythyr at wr urddasol, a anfonodd ei Was i aflonyddu addoliad Crefyddol ar Ddydd yr Arglwydd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Ross, dros Dafydd Lewys. 1770.'

Awdwr y llythyr ydoedd Mr. R. Jones, Rhoslan, yn sir Gaernarfon; a daeth allan wedi hyny o dan yr enw 'Lleferydd yr Asyn.'

9. 'Dedwyddol ymadawiad y cyfiawn, Neu Marwnad y Parchedig Mr. William Evans, Gweinidog yr efengyl, o blwyf Llan-Giwe, yn Sir Forganwg, yr hwn a ymadawodd a'r byd presennol Ebrill 23, yn y flwyddyn 1770, yn 54 oed, yr hwn oedd ddiwid a llafyrus a defnyddiol, &c. Gan Dafydd William.

ysgrifol a wnaed ar bwys dau gan mlynedd yn ol. O ran hyny, y mae y cywydd yn dwyn digon o brofion mai cyfansoddiad gwr yn dyoddef pwys henaint a methiant ydyw; tra nad oedd Evan Evans ond rhyw ddeugain oed yr amser y cyhoeddid yr 'Eurgrawn.'

* Gwel rhif 3, d.f. 1715; rhif 4, d.f. 1753; rhif 11, d.f. 1762; a hwn yma. [Cyfieithiad Moses Williams yw rhif 4, d.f. 1715; a rhif 4, d.f. 1753; ond cyfieithiad L. E. yw rhif 11, d.f. 1762, a hwn yma.]

† Awdwr y Cywydd hwn ydoedd Morys ab Robert o'r Bala.

Pontfaen : Argraffwyd dros yr Awdwr yn y flwyddyn MDCCLXX.'

DAFYDD WILLIAMS oedd enedigol o gymmydogaeth Llanymddyfri. Ymunodd yn foreu â'r Methodistiaid, gyda'r rhai y dechreuodd bregethu, ac ar gymhelliad y Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, daeth i Forganwg i gynnal un o Ysgolion Rhad Mrs. Bevan, ac i bregethu. O blegid bod un arall o'r enw Dafydd Williams, wedi dyfod i Forganwg o gymmydogaeth Llandyfaelog, ac yntau hefyd yn pregethu gyda'r Methodistiaid, ac wedi ei ordeinio yn Aberddin, ger y Bont Faen, gwahaniaethid hwynt yn eu henwau ym Morganwg, trwy alw hwn yn Ddafydd William Dafydd, a'r bardd yn Ddafydd William Rhys. Wedi treulio cryn amser felly, efe a ymadawodd â'r Methodistiaid, ac a ymunodd â'r Bedyddwyr yng Nghroes y Parc, Bro Morganwg, ar ffurfiad cyntaf yr Eglwys hono, gyda'r rhai y bu hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Hydref 1, 1794, yn 82 oed,* ac a gladdwyd ym Mynwent Llanbedr y Fro, lle y mae careg gerfiedig ar ei fedd.

10. 'Marwnad ar y Parchedig Mr. H. Davies Chaplain i'r Wir Anrhydeddus Countess Walsingham, yr hwn a fu farw y 13, o Ionawr, 1770, yn y 53 flwyddyn o'i oed.—An English Elegy on the Rev. Mr. H. Davies Chaplain to the Right Hon. Countess of Walsingham, who departed this life January 13th, 1770, in the 53d year of his age, who was likewise a pastor of four large Congregations in Pembrokeshire. By Mr. W. Williams.

Llanymddyfri : Argraphwyd gan R. Tomas tros yr Awdwr. 1770.' [12plyg.]

11. 'Marwnad ar y Parchedig Mr. G. Whitefield, Chaplain i'r Wir Anrhydeddus Iarles Huntingdon; yr hwn a fu farw y degfed ar hugain o Fedi, 1770. yn Newbury yn Lloegr Newydd. Gan W. Williams. Ynghyd a Llythyr Capten Jacobson, o Boston, ar Achos ei Farwolaeth.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr gan I. Ross. M, DCC, LXX.' [12plyg.]

12. 'Marwnad, neu Goffadwriaeth o ddedwydd Farwolaeth rhai o Weinidogion ffyddlon yr Efengyl; a ymadawodd â'r byd hwn yn ddiweddar, yn Neheudir Cymru: sef y Parchedig Mr. Howel Davies, yn Sir Benfro; Mr. William Richard, yn Sir Aberteifi; a Mr. Sion Parry, yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag amryw eraill o'r Saint fu yn cyd-addoli Duw gyda rhai o honom yn y Byd presennol, sydd heddyw yn holl-iach yn y Byd tragwyddol. Gan Morgan Rhys.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross. 1770.'

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas a Jones; *Yr Adolygydd*, 1851, t. 334-339; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 487.

13. ¶ 'The Scourge for the Assirian the great Oppressor, according to the Slaughter of Midian, by the Anointing, Esai. 10, 26, 27. Collected out of the Works of Ancient Authors.

Salop: Printed by W. Laplain.'

Gwaith Wm. Erbury yw y llyfr, gyda llythyrau Wm. Erbury a Morgan Llwyd, gyda 'Poem, made by John Cenick, found in his Pocket Book after his Decease.' Y cyhoeddwr ydoedd

THOMAS MEREDITH, yr hwn oedd yn byw yng Nghoed y Rhos, Mochdref, ger y Dref Newydd, yn sir Drefaldwyn, ac a ymunasai yn foreu iawn â'r Methodistiaid; ac efe a osodwyd fel math o gynghorwr a blaenwr arnynt yn y gymmydogaeth, tua'r fl. 1745. Pan ymranodd y Methodistiaid â Howel Harris, ymlynodd T. Meredith wrth Harris, ac aeth ato i Drefecca, lle y bu am beth amser, lle y gwyrdd at egwyddorion y Cyfrinwyr, ac ymneillduodd gyda rhyw nifer o dan arweiniad Thomas Sheen ac ereill, a phan ddaeth yn ol, gwnaeth ymdrech a fu yn gryn lwyddiannus i dynu dysgyblion ar ei ol yn sir Drefaldwyn;* ac i'r dyben o ledaenu yr egwyddorion hyny, yr ymddengys y cyhoeddwyd y llyfr yn uchod, gan eu bod yn benthyca llawer oddi wrth Erbury, Llwyd, &c.

14. 'Gorchestion Beirdd Cymru neu Bigiadau dewisol o waith y Prydyddion o'r amrywiol oesoedd. Gan Rice Jones, o'r Blaenau, yn Sir Feirionydd.'

RICE JONES ydoedd fab hynaf John Jones, Ysw., o'r Blaenau, Llanfachraith, ger Dolgellau, yn sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn y fl. 1713. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn hen Ysgolion Gramadegol Dolgellau a'r Mwythig, gyda bwriad iddo arferyd y gyfraith; ond gan i'w dad farw pan oedd yn 18 oed, efe a benderfynodd aros gartref, lle y treuliodd ei oes fel boneddwr gwledig. Cyhoeddwyd llyfr o'i Weddillion Barddonol yn 1818 gan ei wŷr. Yr oedd yn un o'r beirdd enwocaf yn ei amser. Ei fai oedd ei ysgafnder. Bu farw Chwefror 14, 1801, yn 88 oed.†

15. 'Difyrrwch i'r Pererinion o Fawl i'r Oen: yn cynnwys Hymnau ar amryw Destynau o'r Ysgrythur lân; ac Ymddiddanion rhwng Y Pererinion Gwyr a Gwragedd. Y Drydedd ran.‡ Gan mwyaf wedi eu cymmwyso i'w canu mewn Cymdeithasau Crefyddol. Gan David Jones, o Lanwrda.

Caerfyrddin, Argraphwyd, tros yr Awdwr, gan J. Ross. M,DCC,LXX.' [12plyg.]

16. 'Y Seren Foreu, neu Ganwyll y Cymry. Gan Rhys Pritchard, A.M. Gynt Fiear Llanymddyfri. At yr hyn y chwangewyd ynghylch 359 o Benillion a gymerwyd allan o Scrifen-Law

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 373-4; *Drych yr Amseroedd*, t. 138-145.

† *Williams's Dictionary of Eminent Welshmen*.

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1763; a rhif 27, d.f. 1766.

yr Awdwr ei hun, pa un nas Cyhoeddwyd yn yr Argraphiadau Cyntaf.

A gyhoeddwyd ac a Argraphwyd yn Llanymddyfri gan R. Tomas. [Pris 3s. 6c. bound.] M,DCC,LXX.'

Yr oedd hwn y pedwerydd argraffiad ar ddeg, o leiaf, er na chofrestrwyd eto ond naw, oddi eithr y 'Pigion' a gyhoeddwyd ddwywaith.* Y mae i'r argraffiad hwn Ragymadrodd gan Rhys Tomas, ac i hwnw Olysgriffen, yn dywedyd:—

'Fy Nghydwlady, Trefnodd Duw, Awdwr pob Daioni i 'scrifen-iadau yr Awdwr Duwiol hwn gael eu rhoddi i mi i wneuthyr y gorau o honynt, ac wrth eu chwilio, deallais mai ei Bregethau oedd y rhan fwyaf o honynt, pa rai a gadwyd yn ei Lyfr-gell ef yn Llanymddyfri, er dydd ei Farwolaeth hyd nes iddynt ddyfod i'm Llaw. Ac os rhydd Duw i mi amser, anturiaf gynnig rhai o honynt i'm Cyd-Wladwyr yn Argraphedig; gan hyderu nas cant lai derbyniad genych, nag a roddasoch i'w Garolau. Y Llyfr cyntaf fydd gwerth 1s. Pwy bynnag a'i chwenycho anfonant eu Henwau ymma yn ddi-draul, fel y gwybyddwyf y Rhifedi a allwyf Argraphu; y hyn a fydd yr un Llythyren a Phapur a hwnn. R. Tomas.'

Ond ymddengys na chafwyd cefnogaeth ddigonol, ac felly y maent yn wir wedi eu hollol ddinystrio.†

17. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Llanymddyfri: Argraphwyd gan Rys Tomas, 1770.'

18. 'Defnyddiol Hymnau i Breswylwyr y Graig. Gan Morris Griffiths, ger llaw Hwlfordd.

Trefecca, Argraphwyd dros yr Awdwr. M,DCC,LXX.'

MORRIS GRIFFITH ydoedd o Gaerbyddyn, yn agos i Langybi, yn Eifionydd, sir Gaernarfon. Dechreuodd gyda chrefydd gyda'r Ymneillduwyr yn y Glasfryn Fawr. Symmudodd Wm. Prichard, oedd yn byw yno, o Fon, o blegid yr erlidigaeth, a symmudodd yntau gydag ef, fel gwasanaethwr, ac mae yn debyg mai yno y dechreuodd bregethu. Symmudodd i sir Benfro, lle y bu gryn amser mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid. Yr oedd yn byw yn Prendergast, ger Hwlfordd. Ymunodd â'r Bedyddwyr cyn diwedd ei oes, ac ordeiniwyd ef fel cynnorthwywr gweinidogaethol. Bu farw yn 1805.

19. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynneddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys, yn ol Arfer Eglwys Loegr: Ynghyd â'r Sallwyr, neu Salmau Dafydd, Wedi eu nodi megis ac y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwysydd.

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; rhif 1, d.f. 1681; rhif 12, d.f. 1714; rhif 1, d.f. 1721; rhif 6, d.f. 1725; rhif 14, d.f. 1740; rhif 19, d.f. 1766; a hwn yma.

† Rhagymadrodd y Proffesor R. Rees i argraffiad Rees o *Ganwyll y Cymry*.

Caer-Grawnt: Printiedig gan J. Archdeacon, Printiwr i'r Brif-Ysgol. M.DCC.LXX.'

Y mae hwn yn llyfr 8plyg hardd, yn wir yn un o'r llyfrau harddaf a gyhoeddwyd yn y ganrif hòno. Nid ydys wedi gweled dim o weithiau yr oes hòno yn dlysach na chywirach na hwn. Yr oedd ei wneuthuriad yn gostus iawn; canys y mae yn cynnwys a ganlyn:— Ceir fel addurn rhagddalenol, Arf-arwydd Cymdeithas y Cym-rodorion, o blegid ymddengys mai dan ei nodded hi, pan oedd Richard Morris, o Swyddfa'r Llynges, yn llywydd, y cafodd ei gyhoeddi, ac yn ddiau o dan ei olygiad ef, er gwasanaeth personol a theuluaidd boneddigion ag oeddynt yn aelodau o'r Gymdeithas hòno. Nid oeddynt o fewn cyrhaedd y cyffredin, ac felly anaml iawn y gwelir cyfargraff o honynt. Ceir ynddo yr 'Hyfforddiadau i Ymddygiad Defosiynol,'* yna gwyneb-ddalen gerfiedig hardd, yn cael ei hamgylchynu gan golofnau addurnedig â dail, ac ar y pen uchaf pais arfau Tywysog Cymru, ac yn agos i'r gwaelod pais arfau y deyrnas. Oddi fewn y mae teitl fel hyn:—'Gwasanaeth Cyhoedd Eglwys Loegr; Wedi ei addurno â LIV o Ddarluniadau Newydd Ystoriawl: A Ddychymygydd gan S. Wale; ac a Dorrwyd ar Efydd, gan Ravenet, Grignon, Scotin, Canot, Walker, a Ryland.

Llundain: A Fwriadwyd gan Risiart Morys, LL.C.C. Ac i'w cael gantho ef, yn y Lle a elwir y *Navy Office*. 1755.'

Y mae rhai o'r cerfluniau yn ardderchog, yn enwedig rhif i. sy'n gwynebu yr wyneb-ddalen. Y mae yr arlun, fel y traethir dano,— 'Y Wraig mewn gweddus wisgiad, a'i brenhinol Goron, a arwyddocâ Eglwys Loegr; Pen pa un yw'r Brenhin. Mae hi yn sathru ar Gleddyfau, Cadwyni, &c. i ddangos mor ffaithd ganthi Erlidigaeth: a'r Gangen Olewydd a ddengys ei hoffder i Heddwch. Mae ei llaw ddehau yn cyfeirio at y Bibl agored (a gynhelir gan Blant angyl-aidd â Chap Rhyddid). i ysbysu ei chariad i'r Gwirionedd, a'r rhyddid y sydd i'r holl Aelodau i chwilio'r Ysgrythyrau. Y Mitr a'r Goron, a ddengys ei Llywodraeth Esgobawl; a'r Bara a'r Gwin, y Sacrament a roddir yn y ddau ryw i'r Llygion. Rist. Morys a'i 'sgrifennodd.' Y mae gwyneb-ddalen arall i'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin, 'a'i amseriad yn 'M.DCC.LXX.† Blaenorir hyn gan yr 'Act am Unffurfiad,' a'r 'Calendar,' yn dechreu yn 1752. Wedi ffurfiau y gwasanaeth cyhoeddus, ceir yr 'Erthyglau Crefydd,' yng nghyd â 'Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig.' Yna y mae wyth tudalen o donau, er esiampl i ganu y Salmau; ar eu pen uchaf y mae y nod hwn:—'Noda, yn lle ch, dd, ff, ll, ng, ph, rh, th, oran Prinder lle,' h.y. yn y geiriau sy'n cydreddeg a'r nodau, 'darllenwch c, d, f, l, n,
p, r, t.‡
3 3 3 3 3 3 3 3

* Gwel rhif 29.

† Gwel rhif 26, d.f. 1770.

‡ [Math o nodyn nid amhebyg i'r ffugren 3 sydd o dan y llythyrenau hyn; ond nis gellir ei arddangos yn gywir heb fwrw llythyrenau i'r perwyl hwnw.]

canu ar y Peroriaethau lleddfôn: a'r Psalmau mawl ar y Peroriaethau Crason; ac ar y diwedd dywedir, 'Yr 8 diweddaf o Gyfansoddiad Ifan Wiliam.' Diweddir gyda chyfansoddiad y Salmau gan Edmund Prys.*

Bu argraffydd yr argraffiad tlws hwn, J. Archdeacon, farw yn Hemingford Abbots, Medi 10, 1795, yn 70 oed.†

20. ¶ 'Catecism, neu Egwyddorion Crefydd. Wedi eu haddasu at Gyrhaeddiad Pobl ieuange a Phlant; Gyda Phrawfiadau Ysgrythurul. Gan Henry Read. Wedi ei gyfieithu allan o'r Saesoneg.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst, tros y Parch. Mr. Josia Rees, o Gelli-onnen: Ac ar werth gan Mr. Jones, Gwerthwr-Llyfrau yn Aberhonddu; a Mr. Rhyddero, Gwerthwr-Llyfrau, yn Gaerfyrddin. (Pris Dwy Geiniog).'

Ymddengys mai y cyfieithydd a chyhoeddwr ydoedd y Parch. JOSIAH REES, yr hwn oedd fab i'r Parch. Owen Rees,‡ o Gefn Arthen, ger Llanymddyfri, ac wedi hyny o Aberdâr. Yr oedd yn byw yn y Gelli Gron, lle a brynasid gan ei ail fab, Owen Rees, yr hwn oedd gyfranog â Longman a'i Gyf. fel llyfrwerthwyr yn Llundain; ac yr oedd yn weinidog y Presbyteriaid yn y Gelli Onen, lle sydd yn awr ym meddiant y Sosiniaid. Ei fab hynaf oedd y Dr. Thomas Rees, awdwr y rhanau o'r 'Beauties of England and Wales' ag sydd yn cynnwys siroedd Deheudir Cymru, yn ddwy gyfrol. Cyhoeddodd bregeth o'i gyfieithiad yn 1805, o waith un Pyle, ar 'Ddrwg Fucheddau dynion fel achos o Anghrediniaeth,' mewn cyssylltiad â dwy bregeth gan y Parch. John Davies, person Llaiddetty, ym Mrycheiniog.

21. 'Marwnad i'r Parchedig Mr. Lewis Lewis, Gweinidog yr Efengyl gynt yn Pencadair, ym Mhlwyf Llanfihangel. Yr hwn a ymadawodd â'r Byd y 27 Dydd o Fis Gorphenhaf, yn y Flwyddyn 1770. At ba un y chwanegwyd, Odl am Lwyddiant yr Efengyl. A gyhoeddwyd ar ddymuniad amryw o Aelodau yn perthyn i Gynulleidfaoedd y rhagddywededig Mr. Lewis Lewis. Gan Stephan Ifans.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr, gan I. Ross, yn Heol-Awst, lle mae ar werth ychydig nifer o'r Llyfrau rhagorol a eiwir Achosion Cydwybod. 1770.'

Yr oedd Mr. Lewis yn byw yn y Ddôl Wen, Llanfihangel ar Arth, yn sir Gaerfyrddin. Ychydig o flynyddoedd y bu yn y weinidogaeth.§

* Gwel rhif 34, d.f. 1770.

† Timperley's *Dictionary*.

‡ [Yn rhif 11, d.f. 1771, dywedir mai mab i'r Parch. Lewis Rees, a brawd i'r Dr. Abraham Rees, ydoedd Josiah Rees, o'r Gelli Onen.]

§ *Hanes yr Ymneillduwyr*, gan Morgan.

22. 'Hanes Gywir o Drial William Spiggot neu Spicket, John Spiggot neu Spicket William Morris William Thomas neu Blink David Morgan, neu Eurych Diog William Walter Evan, Charles David Morgan a'i Fab Llywellin. Pa rai a driwyd ar Ddydd Mercher yr 28 o Fawrth 1770 yn Henffordd o flaen yr anrhydeddus Mr. Baron Perrot, a Mr. Justice Yates, am y Galanastra Annynol y wnaethant ar William Powell o Lanaraeth yn Sir Gaerfyrddin, Pendefig.

Llanymddyfri: Argraphwyd gan R. Tomas, 1770.'

4plyg bychan ydyw. Ar gefn y fyneglen y mae 'At y Cymry,' gan 'Daniel Tomas Argraffydd,' yn yr hwn yr hysbysa mai efe a'i cyfieithodd, y grwnach o herwydd diffyg amgeledd a ga y Gymraeg, ac y crybwylla yn barchus am y '*Cymmrodorion Society*.* Rhoddwyd yr hanes hefyd yn rhifynau 'Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg.† Cyhoeddwyd yr unrhyw yn Seisonaeg hefyd, yn dwyn y teitl canlynol:—

'The Trial of William Spiggot, alias Spickett, John Spiggot, alias Spickett, Wm. Thomas, alias Blink, David Morgan, alias Lacy, Wm. Walter Evans, Cha. David Morgan, Wm. Charles, and David Llewelin, For the Murder of Will. Powell, Esq; of Glanareth, in the Parish of Llangaddock, in the County of Carmarthen; At the Assizes held at Hereford, On Wednesday the 28th of March, 1770; Before Sir Joseph Yeats, Knt.

Glocester, Printed by R. Raikes; and sold by S. Bladon, in Paternoster-Row; C. Badham and M. Davies in Hereford; P. Davies in Leominster; H. Berrow in Worcester; J. Evans in Carmarthen; the Booksellers in Bath and Bristol; and by the Distributors of the Several Newspapers, &c. &c.'

Y mae yn hwn arlun teg o'r llofruddiaeth.

23. 'The Christian Covenant, or the Baptismal Vow, as Stated in our Church Catechism, Scripturally explained by Questions and Answers. With Account of the Creation and Fall of Man, the Covenant of Works. The Third Edition.‡ By a Minister of the Church of England.

London: Printed by J. and W. Oliver, in Bartholomew-Close, Printers to the Society for Promoting Christian Knowledge. MDCCCLXX.'

* *Llythyr* y Parch. W. Thomas, Bwlch Newydd.

† Gwel rhif 2.

‡ Gwel rhif 9, d.f. 1762.

24. ¶ 'Aleluia Drachefn: Neu, Dair Rhan o'r Hymnau a Gyfenwid Ffarwel Weledig, &c. Wedi eu hargraphu yn un Llyfr, a'u Diwygio. Gan W. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth dros yr Awdwr gan Ioan Daniel.*

25. 'Letters from Snowdon: Describing a Tour through the Northern Counties of Wales. Containing the Antiquities, History, and State of the Country: with the Manners and Customs of the Inhabitants.

London, Printed for J. Ridley, † in St. James's Street; and W. Harris, N^o 70 St. Paul's Church-Yard. MDCCLXX.' [8vo.]

Dywedir mai Jos. Craddock, Ysw., F.R.S., oedd ysgrifenydd y Llythrau hyn. Cyhoeddwyd argraffiad o honynt yn Dublin yr un flwyddyn.

26. 'Cicero's Brutus, or the History of the famous Orators; also his Orator, or Accomplished Speaker. Now first translated into English, &c.'

London, 1770, 8vo. 6s.

Y cyfieithydd ydoedd E. Jones, Bardd y Brenin.

[Nid oes mo'r berthynas leiaf rhwng y gwaith hwn a Chymru a'i llenoriaeth, oddi eithr ei fod, fel yr ymddengys, yn waith rhyw Gymro: ond yr wyf o'r farn fod ein hawdwr wedi camgymmeryd yr amseriad, ac wedi priodoli y cyfieithiad i wr cyfenw i'r un a gymmerodd y boen wrtho. Nid oedd Edward Jones (Bardd y Brenin), yr hwn a aned yn 1752, y pryd hwn ond 18 oed; a diau mai nid gwaith llencyn o'r cedran hwnw ydyw cyfieithiad mor rhagorol. Dywed y Dr. Adam Clarke, ‡ mai yn 1776, chwech mlynedd yn y blaen, y cyhoeddwyd y gwaith, pryd yr oedd Bardd y Brenin yn 24 oed, ac wedi bod yn Llundain yn chwareu ei delyn yng nghylch dwy flynedd. Nid oes ond ychydig o amnheuaeth yn fy meddwl mai Edward Jones, o'r Deml Fewnol, awdwr 'Index to Records,' 2 gyfrol unplyg, 1795, a 'Chyfraith Plwyf,' 12plyg, 1794, ydyw y cyfieithydd gwirioneddol. Am ansawdd y gwaith, dywed y Dr. Clarke ei fod yn gyfieithiad o fwy teilyngdod na chyffredin, a'i fod yn ffyddlawn, yn hoewych, ac yn eglur.]

27. 'Anti-Pamela, or Memoirs of James Parry and Parthenissa. 2 Vols. 3rd Edition. 1770.'

28. 'Hyfforddiadau i Ymddygiad Defosiynol a Gweddus yng Ngwasanaeth Duw; Yn fwy enwedigol yn yr Arferiad o'r Weddi Gyffredin a appwyntiwyd gan Eglwys Loegr.

Caer-grawnt: Printiedig gan J. Archdeacon, Printiwr i'r Brif

* [Ymddengys mai yn y flwyddyn hon y dechreuodd Ioan Daniel argraffu: ond gweler rhif 19, d.f. 1784.]

† Cafodd Joseph Ridley wobwr o 42p. yn 1795, gan y Gymdeithas er Cefnogi y Celfyddydau, am wneyd gwellâd yn yr argraffwasg.—Timperley's *Diction-ary*.

‡ *Bibliographical Miscellany*, i. 44.

Ysgol, tros Edward Ryland: Ac ac werth gantho yn ei Dy, N^o 67 yn yr Old Bailey, Llundain, MDCCLXX.'

29. 'Eglurhad o Ddawn yr Yspryd; sef Sylwedd Pregeth yn Ebenezer, yn Sir Benfro, y deufed dydd ar bymtheg o Ragfyr, 1769. Yn cael ei gwneuthyr yn gyhoeddus fel hyn, er mwyn y Gynulleidfa yno, ar eu Dymuniad. Gan W——. W——.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr, gan I. Ross, yn Heol-Awst. MDCCLXX.'

WILLIAM WILLIAMS ydoedd fab i William ac Ann Williams, o'r Dref Fach, Llan Nant Gwyn, yn sir Benfro, lle y ganwyd ef yn 1732. Cafodd ddysgeidiaeth gyfredin dda, gyfaddas i lenwi ei gylch fel boneddwr gwledig. Ymbriododd yn 1751 â Miss Bowen, Llwyn y Gwair[ger Trefdraeth], yn sir Benfro; ac eilwaith ag un Miss Morgan; a thrydedd waith yn 1784, â Miss Lewis, o Lwyn y Grawys, yn yr un sir. Bedyddiwyd ef yng Nghilfywyr, Mawrth 2, 1760, pan ydoedd yn 28 oed, a dechreuodd bregethu yn fuan; ac ordeiniwyd ef yn gynnorthwyol i weinidog Blaen y Waen, yn 1766. Yn 1774-5 daeth i fyw i dref Aberteifi, a bu yn offerynol i godi achos y Bedyddwyr i gyfrifiaeth a phoblogrwydd mawr yno. Gwnaed ef hefyd yn Ustus yr Heddwch dros siroedd Penfro ac Aberteifi, yr hyn oedd dra rhyfedd, pan oedd gweithredoedd y *Test and Corporation Act* mewn grym, yn gofyn i bob un a lanwai swydd o anrhydedd neu elw dan y llywodraeth, gymmeryd Swper yr Arglwydd yn yr Eglwys Sefydledig, cyn pen blwyddyn ar ol ei osodiad yn ei swydd, ac unwaith, o leiaf, bob blwyddyn ar ol hyny, dan boen o ddirwy drom, a cholli ei swydd. Bu Mr. Williams er hyny yn y swydd dros lawer o flynyddau heb ymostwng unwaith i'r prawf hyny o gydymffurfiad ag Eglwys Loegr. Dichon ei fod yn gallu gwneyd hyn o dan gysgod yr *Act of Indemnity*, yr hon oedd yn diogelu swyddogion rhag cosp am y cyfryw droseddau, yn y flwyddyn a aeth heibio. Yr oedd yr ardal ag yr oedd yn byw ynddi yn llai erlidgar nag ardal oedd ereill, ac yntau ei hun o gymmeriad uchel fel gwr boneddig, yr hyn yn ddiâu a wnaeth lawer yn ei ffafr. Byddai yn cael y flaenoriaeth yng nghyfarfodydd yr Ustusiaid, ac yn gadeiriwr y Brawdlys Trimisol. Bu farw Awst 13, 1799, yn 76 oed, a'r 32fed o'i weinidogaeth.*

30. 'Y Bummed Ran o Ganiadau Seion; neu Hymnau ac Odlau Ysbrydol. Gan John Thomas, Gweinidog yr Efengyl gerllaw'r Ffynhonnau, ac yn Rhaiadr Gwy, Sir Faesyfed.

Trevecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCLXX.†

31. 'History of the Gwydyr Family. By Sir John Wynn.‡

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan Jones, t. 79-85, 240.

† Gwel rhif 12, d.f. 1762; a rhif 13, d.f. 1764.

‡ Gwel rhif 41, d.f. 1781. Rhoddwyd hefyd argraffiad arall gan Angharad Llwyd yn 1827. [Gesyd yr awdwr nod ammheuaeth (¶) o flaen dyddiad yr argraffiad hwn; ond nid oes ammheuaeth nad y flwyddyn hon y cyhoeddwyd ef. Ei golwynydd ydoedd yr Anrh. Daines Barrington.]

32. ¶ ‘Some Observations on Passages of Scripture ; and Letters by Thomas Meredith.

Salop Printed by W. Laplain.’*

33. ‘Llyfr y Salmau, Wedi eu Cyfieithu, a’u Cyfansoddi ar Fesur Cerdd, yn Gymraeg. Trwy Waith Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd.

Caer-grawnt: Printiedig gan J. Archdeacon, Printiwr i’r Brif-Ysgol. M.DCC.LXX.’

Yr oedd hwn yn gyssylltedig â Llyfr Gweddi Gyffredin y flwyddyn hon.†

1771.

1. ‘Gweledigaethau Dirnadwy ; neu Ddehongliad i’r Breuddwydion o amryw ystyriaethau, wedi eu casglu allan (gan mwyaf) o Scrifeniadau gwerthfawr yr hên Gymry.

Caerfyrddin.”

2. ‘Gloria in Excelsis. Neu Hymnau o Fawl i Dduw a’r Oen. Y rhan gyntaf. Gan Wm. Williams.

Llanymddyfri.”

3. ‘Hunan-Adnabyddiaeth : neu Draethawd, yn dangos Natur a Mantais y cyfryw Wybodaeth Bwysfawr, a’r Ffordd i’w Chyrhaeddyd : ynghymmysg ag amryw o Ystyriaethau ar y Natur Ddynol. Gan John Mason, A.M. Wedi ei Gyfieithu yn Gymraeg gan Josiah Rees.

Caerfyrddin, Argraphwyd dros y Cyfieithydd gan J. Ross : 1771. Ar werth hefyd gan Dafydd Jones, Aberhonddu ; Dafydd Morgan, Castell Nedd ; R. Rhydderch, Gwerthwr-Llyfrau, yng Nghaerfyrddin, a — Jenkins, Gwerthwr-Llyfrau, Bontfaen. [Pris Swllt heb ei rwymo].’ [12plyg.]

4. ¶ ‘Canwyll y Cymry, gan Rees Prichard.’

Yr oedd hwn y pymthegfed argraffiad, er na restrwyd eto ond un ar ddeg, heb law y ‘Pigion’ a gyhoeddwyd ddwywaith.‡

5. ‘Welsh and English Dictionary, gan W. Evans.

Carmarthen.’

* Gwel rhif 13.

† Gwel rhif 19, a 28.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1646 ; rhif 2, d.f. 1670 ; rhif 6, d.f. 1672 ; rhif 1, d.f. 1681 ; rhif 9, d.f. 1700 ; rhif 1, d.f. 1721 ; rhif 14, d.f. 1740 ; rhif 19, d.f. 1766 ; rhif 16, d.f. 1770 ; a hwn yma.

Gwnaeth y Parch. T. Richards, Llangrallo, welliadau yn yr argraffiad hwn.*

[Pwy oedd y Parchedig WILLIAM EVANS, awdwr y Geirlyfr hwn? Nid oes cymmaint a gair am dano yn neb o'n coffaon; ond eto yr oedd yn awdwr Geiriadur Seisoneg a Chymraeg nid anghyfrifol. 'A Welsh and English Dictionary,' medd ein hawdwr; ond 'An English and Welsh Dictionary' a ddylasai fod; canys y *Seisoneg* sy flaenaf ynddo.]

6. 'Gweinidog wedi marw yn llefaru eto, sef cynnwysiad Dwy Bregeth a bregethwyd Tachwedd 11, 1770, ar farwolaeth y Parchedig Gô. Whitfield, A.M. gyn o Goleg Penbro yn Rhydychen, Chaplain yr Anrhydeddus Iarles Huntingdon. Gan y Parch. Mr. David Edwards. A Gyfieithiad i'r Gymraeg y Parch. Mr. P. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros y Cyfieithydd gan J. Ross. 1771. [Pris Dwy Geiniog.]'

7. 'Trysorfa Auraidd i Blant Duw, trysor y rhai sydd yn y Nefoedd; yn cynnwys Testynau dewisedig o'r Bibl, a Sylwadau ysbrydol a phrofiadol, am bob dydd yn y flwyddyn. Ysgrifenydd gan C. H. V. Bogatsky. Ynghyd a Hymnau a ddewiswyd at bob un o honynt, o waith y Dr. Watts.

Trefecca, Argraphwyd dros y Cyfieithydd, yn y flwyddyn 1771.'

Y mae hwn yn lyfr trwchus, dros 360 o dudalenau, ac yn agor yn ei dalcen, fel llyfrau canu. Y cyfieithydd a'r cyhoeddydd ydoedd y Parch. John Thomas, gynt gweinidog yr Ymneillduwyr yn Rhaiadr Gwy, Cae Bach, &c., yn sir Faesyfed; ond y mae rhagymadrodd byr, o dan y peniad o 'Y Cyfieithydd at y Darllenydd,' wedi ei arwyddo a'i amseru fel hyn: 'J. T.' 'Manafon, Sir Drefal. Medi 3. 1771.'

8. 'Llewyrchiadau Gras o dan yr hên Oruchwyliaeth, mewn Hymnau ar Destynau Ysgrythyrol. Hefyd Lloffion o Hymnau'r Dr. Watts, yn perthyn i'r llyfr Trysorfa Auraidd, &c.† Gan J. T.‡

Trefecca; Argraphwyd dros yr Awdwr. M DCC LXXI.'

9. 'Pregeth ar Farwolaeth y Parch. G. Whitfield, A.M. Gyda pheth o hanes ei fywyd. Gan J. Wesley, A.M. Cyfaill (gynt) o Brif-Ysgol Lincoln, yn Rhydychen, a Chapelwr y wir anrhydeddus Iarles Waddolog Buchan.

Pontfaen, Argraphwyd gan Rhys Thomas, tros y cyfieithydd Henry Lloyd. 1771.'

Ymddengys fod y cyfieithydd a'r cyhoeddydd,

* Titlepage of Edition 1832. [1812 ?]

† Gwel rhif 7.

‡ Y Parch. John Thomas uchod.

HENRY LLOYD neu HARRI LLWYD, yn frodor o Rydri, ger Caerphili, yn sir Forganwg. Ymunodd â Mr. Wesley, a dechreuodd bregethu yn fuan. Bychan oedd ei ddoniau, ond yr oedd yn ddyd duwiol, gonest, a da.* Gan ei fod yn alluocach i bregethu yn Gymraeg nag yn Seisonaeg, treuliodd ei holl amser yn teithio yn Neheubarth Cymru,† oddi eithr unwaith yr anfonodd Mr. Wesley ef i Gernyw; lle y cyfarfu ag erlidigaeth orwyllt, a phan oedd yr erlidwyr yn ei faeddu, yn eu cynddaredd, efe a droes i weddio yn Gymraeg, yr hyn a newidiodd agwedd yr holl dorf; meddyliasant ei fod yn rhywbeth goruch-naturaliol, a chafodd lonyddwch. Bu yn llafurio lawer o flynyddoedd; a bu farw yn dangnefeddus, mewn oedran teg, wedi treulio ei gyfansoddiad allan yn llwyr, lawer o flynyddoedd cyn sefydlu yr achos Wesleyaidd Cymreig yn y Dywysogaeth.‡

10. 'The Circles of Gomer, or, an Essay towards an Investigation and Introduction of the English, as an Universal Language, upon the first Principles of Speech, according to its Hieroglyphic Signs, Argrafic Archetypes, and superior Pretensions to Originality; a retrieval of original Knowledge; and a re-union of Nations and Opinions on the like Principles, as well as the Evidence of ancient Writers; with an English Grammar, Some Illustrations of the Subjects of the Author's late Essays,§ and other interesting Discoveries. By Row. Jones, Esq.

London, Sold by S. Crowder, in Pater-noster Row; Richardson, and Urquhart, at the Royal Exchange; P. Elmsley, in the Strand; and J. Almon, in Piccadilly. 1771.'

11. 'Rhai Rheolau a Chyfarwyddiadau a gynnygiwyd er cynnyddu Cyfeillach Grefyddol ym mhlith Crist'nogion, ynghyd a Hymn ar Dymmer Lonydd. O waith y Parchedig Mr. Lewis Rees.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross. 1771.'

Y Parch. LEWIS REES ydoedd fab i Rees Edward Lewis, o'r Glyn Llwydrew,§ ym mhlwyf Glyn Corwg, yn sir Forganwg, lle y ganwyd ef Mawrth 2, 1710. Yr oedd ei daid yn offeiriad plwyf Penderyn, yn sir Frycheiniog, ond ei rieni yn aelodau gyda'r Presbyteriaid ym Mlaen Gwrach. Cafodd ei addysg o dan ofal Mr. Davies, yr hwn oedd y pryd hyn yn gweinidogaethu ym Mlaen Gwrach, ac ymunodd â'i gynulleidfa. Bu wedi hyn dan ofal Mr. Simons, gweinidog Chwar-elau Bach, ger Castell Nedd, a Mr. Price, Ty'n Ton, gweinidog Pen y

* Atmore's *Methodist Memorial*, p. 243.

† Pregethai yn lled fynych yn nhy Mr. B. Isaac, ar y Man Moel, ym mhlwyf Bedwellty; y rhai a berthynent i gynulleidfa wreiddiol y Bedyddwyr Cyffredinol yng Nghraig y Fargod, ym mhlwyf Gelligaer, sir Forganwg.

‡ *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1848, t. 65, nodyn.

§ Gwel rhif 18, d.f. 1668; a rhif 15, d.f. 1769.

|| ['*Glynrhywdre*, ym ol y *Cofiant* gan Roberts.]

Bont ar Ogwy. Oddi yno aeth i Ysgol Ramadegol Mr. V. Griffith, Maes Gwyn. Ar annogaeth neillduol, aeth gydag Edmund Jones, Pont y Pwl, i'r Gogledd, yr hyn a derfynodd yn ei ordeiniad ym Mlaen Gwrach, Ebrill 13, 1738, pan yn 28 oed, er mwyn gweinidogaethu yn y Gogledd, yn neillduol yn Llan Bryn Mair. Priododd yn 1740 â merch i foneddwr o'r enw Penry, o sir Frycheiniog, a bu iddynt chwech o blant—Josiah, a fu wedi hyny yn weinidog Gelli Onen; Abraham, yr enwog Ddr. Abraham Rees, o Lundain; Mary, Isaac, Jacob, ac Ebenezer. Yn 1745, symmudodd i Faes yr Onen, lle y bu hyd 1759, pan y symmudodd i Dŷ'r Dwncin, Morganwg. Wedi marwolaeth ei wraig yn 1794, symmudodd i Abertawe; ac yn olaf i Lansamlet, at ei ferch a'i fab yng nghyfraith, y Parch. J. Davies, lle y bu farw Mawrth 21, 1800, yn 90 oed, wedi bod yn y weinidogaeth 70 mlynedd.*

12. 'A Dissertation on the Welsh Language, Pointing out it's Antiquity, Copiousness, Grammatical Perfection, with Remarks on it's Poetry; and other Articles not foreign to the Subject. By John Walters, Rector of Landough, Glamorgan-shire.

Cowbridge, Printed to the Author, by R. and D. Thomas.† M,DCC,LXXI. [8vo.]

Y Parch. JOHN WALTERS a anwyd mewn ty bychan ger llaw y Fforest, ym mhlwyf Llanedi, yn sir Gaerfyrddin, yn 1721.‡ Cafodd ei ddysg yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd radd A.C. Wedi cael urddau, cafodd bersoniaeth Llandocheu, ger y Bont Faen, yn sir Forganwg, a phrebendariaeth yn Llandaf; ac yr oedd hefyd yn ficar St. Hilari, yn yr un sir. Bu farw Mehefin 1, 1797,§ yn 77 oed.||

13. 'Taith y Pererin, tan Gyffelybiaeth Breuddwyd, &c. Wedi ei gyddmaru oll yn ffyddlon â'r argraphiadau goreu yn Saesoneg, a'i ddiwygio o amryw feiau anafus; ynghyd â Rhagymadrodd a Diwedd-glo yr Awdwr, y rhai na buont erioed o'r blaen yn Gymraeg.

Caerfyrddin, argraphwyd ac ar werth gan J. Ross, yn Heol Awst. Ar werth hefyd gan Mr. Allen, yn Hwlfordd, a Mr. W. Jones, yn y Bala. 1771. [Pris naw ceiniog, gyda elw da i brynwyr amryw.]'

* *Yr Adolygydd*, 1852, t. 201-206. [Gweler hefyd *Ychydig o Hanes y diweddwr Barchedig Lewis Rees*: gan John Roberts, Llanbrynmair. Caerfyrddin, 1812, 12plyg.]

† Rhys a Daniel Thomas, gwel rhif 22, d.f. 1770.

‡ [Yng Nghoflyfr Bedyddiadau plwyf Llanedi, cofnodir ei fedydd ef yn y geiriau canlynol:—'*Johannes filius Johannis Walterii 22 Augusti 1721.*'* Pentref bychan, neu dwr o deios, yw y Fforest, ac yn un o'r tai hyn, yn ol traddodiad yr ardal, y ganed y geirlyfrwr. Ymddengys mai rhai o Landdewi Brefi, yng Ngheredigion, ydoedd y Waltersiaid yn eu dechreuad; ac y mae yr enw yn gyffredin yn y parthau hyny hyd heddyw, er ei fod wedi diflanu yn Llanedi a'r cwmpasoedd. Y mae cangen arall o'r un Waltersiaid wedi ymsefydlu yn Llanymddyfri a'r gymmydogaeth.]

§ Williams's *Eminent Welshmen*.

|| *Y Brython*, 1863, t. 208.

* *Llythyr y Parch. D. Williams, B.D.*

Y mae rhagymadrodd, neu 'Gair at y Darllenydd,' yn ei ragflaenu, gan yr argraffydd, yn hysbysu pa gyfnewidiadau a gwelliadau a wnaed yn yr argraffiad hwn, ac yn sicrhau ei fod y goreu a ddaethai allan hyd hyny. Gellir ystyried hwn yn bedwerydd argraffiad o leiaf.*

14. 'The Welshman's Candle: or the divine Poems of Mr. Rees Prichard, sometime Vicar of Llandovery, in Carmarthenshire. Now first translated in English verse. By the Rev. William Evans, Vicar of Lanhaden.

Carmarthen, printed by J. Ross. M,DCC,LXXI.' [8vo.]

15. 'Pregeth a bregethwyd gan y Parchedig Mr. George Whitefield, yn y Tabernacle yn Llundain, Awst 30, 1769, ar ei ymadawiad i Georgia. Cyfieithwyd gan y Parchedig Mr. John Rowlands.

Llanymddyfri, argraphwyd gan Rhys Tomas. M,DCC,LXXI.'

Y mae yn ei ddiwedd ychydig o hanes marwolaeth Mr. Hervev.

[Testyn y Bregeth yw Ioan x. 27, 28; ac amcan ei thraddodiad ydoedd cael tanysgrifon neu gasgliadau at yr achos yn America. Llyfryn 12plyg o 24 tudalen ydyw.]

16. 'Pob Dyn ei Physygwr ei hun. Yn Ddwyr Ran. Yn cynnwys i. Arwyddion y rhan fwyaf o glefydau ag y mae Dyn yn ddarostyngedig iddynt, ynghyd â Chynghorion rhagddynt, a gasglwyd o waith prif Physygywyr eu Hoesoedd. Gan Dr. Theobald, ac a gyhoeddwyd yn Saesneg trwy orchymyn ei ddiweddar Uchelradd Wiliam Duwe o Cumberland; at yr hyn y chwanegwyd amryw Gynghorion at yr un rhyw glefydau, allan o 'Sgrifeniadau hen Awdwr profedig. ii. Yn cynnwys Cynghorion rhag y rhan fwyaf o glefydau ag y mae Ceffylau, Ychen, Gwartheg, Lloi, Wyn, a Moch yn ddarostyngedig iddynt: Gwedi eu casglu allan o waith Awdwyr profedig: Y cwbl yn cynnwys pethau isel bris a hawdd eu cael. Ynghyd a Thabl at bob Rhan. Tra chymmwys ac angenrheidiol ym mhob Teulu ac i bob Trafaeliwr. Newydd ei gyfiaethu i'r Gymraeg.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac a werthir gan I. Ross. 1771.' [Pris chwe cheiniog heb ei rwympo.]'

17. 'Cynghorion Tad i'w Fab. Yn rhoddi iddo gyfarwyddiadau pa fodd i ymddwyn ei hunan yn y Byd presennol.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan I. Ross; ac ar werth hefyd gan y Parch. Tomas Wiliam, Mynydd bach. M,DCC,LXXI.'

* Gwel rhif 2, d.f. 1688; rhif 1, d.f. 1699; rhif 6 a 7, d.f. 1768; a hwn yma.

18. 'Taith y Pererin.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan J. Eddowes. 1771.'

Yr oedd hwn yn bummed argraffiad o leiaf.* Mynych y cyfarfyddir â dau argraffiad yn yr un flwyddyn o'r hen lyfrau Cymreig—un yn y Deheudir, a'r llall yn y Mwythig i'r Gogledd.

19. 'Marwnad ar Farwolaeth y Parch. Mr. Morgan Jones o Blwyf Blaenau-Gwent, Gweinidog yr Eglwys ymgynlledig yn y Neuadd, ym mhlwyf Pant-teg, Sir Fynwy; yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon Ionawr 11, 1771. Yn y 55 flwyddyn o'i Oedran.

Argraphwyd yn y Bont Faen, gan R. Thomas.'

20. 'Y Catecism; hynny yw, Athrawiaeth i'w dysgu gan bob un, cyn ei ddwyn i'w confirmio gan yr Esgob. Gyda ag Ysgrythyrol Testynau perthynasol.

Argraphwyd yn Llundain yn y flwyddyn M,DCC,LXXI.'

21. 'Llythyr oddi wrth Gymmanfa o Weinidogion at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Llanymddyfri, Argraphwyd gan Rhys Tomas. 1771.'

22. ¶ 'Caniadau Dwyfol; wedi eu hamcanu mewn iaith esmwyth er budd a gwasanaeth i Blant yn Saisneg gan Isaac Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dafydd Jones, o Lanwrda.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar Werth gan I. Ross, yn Heol-Awst, ac ar werth gan Mr. R. Rydderch, Gwerthwr llyfrau, yng Nghaerfyrddin; Mr. Allen, yn Hwlfordd; Mr. D. Morgan, yng Nghastell Nedd; Mr. Beadles, yn Mhont y pwl; a Mr. Jones, yn Aberhonddu. M,DCC,LXXI. Pris Chwe' Cheiniog wedi ei rwymo.'

Cynnwys hwn 45 o dudalenau 8plyg. Nid oes iddo ragymadrodd; ond cyfieithiad o ragymadrodd y Doctor ar ddygiad plant i fyny. Y mae yn cynnwys talfyriad o'r Deg Gorchymmyn ar Gân, a welir mor fynych mewn llyfrau egwyddori plant; ond ni chydabyddir eu bod yn waith Watts, ac o gyfieithiad D. Jones.

23. 'The Contemplative Man, or the History of Christopher Crab, Esq; of North Wales. Vol. I.†

London: Printed for J. Whiston, Fleet-Street. MDCCLXXI.'

24. 'An Account of the Convincement, Exercises, Services, and Travels, of that Ancient Servant of the Lord, Richard Davies. With

* Gwel rhif 2, d.f. 1688; rhif 1, d.f. 1699; rhif 6 a 7, d.f. 1768; rhif 13, uchod; a hwn yma.

† Yr wyneb-ddalen yn un modd i'r ail gyfrol.

Relation of Ancient Friends, and the Spreading of Truth in North Wales, &c. The Third Edition.

London: Printed and Sold by Mary Hind, at N^o 2. George-Yard, Lombard-Street. 1771.*

25. 'A Vindication of the Conduct of the Associated Ministers in Wales: with some Remarks on the late Declaration and Protest. By a Member of the Association.

Carmarthen, Printed by J. Ross, for R. Rhyddero, Bookseller and Stationer in the Market Place. M,DCC,LXXI. [Price Six-pence.]'

Llyfr yw hwn ar pynciau mewn dadl rhwng y Calfniaid a'r Pelagiaid ym mhlith yr Ymneillduwyr yn Neheubarth Cymru, yn erbyn llyfr a gyhoeddassid gan y Dr. Jenkins, ac a ysgrifenasid, tybygid, gan y Dr. B. Davies.

26. ¶ 'Golwg ar y Ddinas Noddfa; Mewn Casgliad o Hymnau, i Ddifyrri y Pererinion, sydd yn teithio trwy Lyn Wylofain, i'r Breswylfa lonydd. Ynghyd â Marwnad, Ester, Gwraig Wiliam Sion, o'r Llawelau, ym Mhlwyf Lansawel, yn Sir Gaerfyrddin: Hi a fu briod ag ef 19 o Flynyddoedd. Gorphennodd ei Gyrfa yn 55 oed; Chwefror 5. 1770. Gan Morgan Rhys.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, tros yr Awdwr, 17—' [Congl y ddalen ar goll.] ['Pris Dwy Geiniog.]'

27. 'A Letter to certain Dissenting Ministers in Wales occasioned by their forming an Association and Subscribing to certain Articles of Faith. With a Postscript, containing Remarks on a late Vindication of their Conduct. By a Layman.

Carmarthen, Printed for the Author by J. Ross; and sold by T. Rhyddero. Bookseller and Stationer, near the Town Hall. 1771. [Price Sixpence.]'

28. ¶ ['Llythyr at bob Cymro Ewellysgar a garo ffyrdd y gwirionedd, wedi sylfaenu ar un gair hynny ydiw Cofia Pregethwr XII Pennod ar gair cynta or adnod gynta Cofia. O Waith Ellis Roberts, Cowper.

Argraphwyd yn Warrington gan William Eyres, Printiwr a Gwerthwr Llyfreu Tros Moses Evans o Llanddoged yn agos i Llanrwst. (Pris Tair Ceiniog.)' 12plyg: 28 tudalen.

Yn anffodus anghofiodd 'Elis y Cowper' osod y flwyddyn yr argraffwyd ef ar lawr; ond gan i'w 'Ail Lythyr' (rhif 20, d.f. 1772) ymddangos yng nghorff y flwyddyn nesaf, y mae yn debygol, mai o gylch yr amser hwn y gwnaeth y 'Llythyr' yma ei ymddangosiad. Duwinydd digrif o'r fath ddigrifaf ydoedd

* Gwel rhif 1, d.f. 1657; a rhif 3, d.f. 1705.

Elis ; a dyma'r tro cyntaf iddo, medd efe, ysgrifenu, neu o leiaf gyhoeddi, dim mewn iaith rydd : ond y mae dernynau yma ac acw ar hyd y gwaith nad ydynt ryddiaith, a thebyg ddigon fod Elis yn medru gwneuthur barddoniaeth o honynt. Y mae yr iaith yn garbw, glogyrnaidd, werinaidd, ac yn wallus i'r eithaf. Dyma yr hyn a eilw yr arddunol fardd yn Rhagymadrodd :—

'Dyma'r llythyr cyntaf iw osod
A neis i erioed heb fod ar draethod ;
Derbyn hwn y Cymro mwynlân,
O law dyn gwael fel di dy hunan.

Cymerwch bawb fi yn Esgysodol,
O ran nad wy na doeth na duwiol ;
Pedfawn medru gwneud daioni ;
Fe fydde gan waith yn dda gan i.'

Ar y tudalen olaf, dywed y Cylchwr wrth y 'Cymro caredig,' er ei gysur a'i adeiladaeth, 'Ond bydded hysbys i ti ac i bob dyn, sydd yn hoffi y gwaeledd ddawn a dderbyniais i fod Llyfr y soniais i am dano yn dyfod allan ar fyr Damunad i ti hysbysu i bob Cymro, a garo Newydd glod i Dduw, o Garolau a Cherddi ar amryw fesurau.'

Tebygol mai hwn yw yr unig lyfr Cymreig a gafodd ei argraffu yn *Warrington* ; a pha beth a barodd i'r pastynfardd, neu yn hytrach i'w gyhoeddwr Moses Evans, fyned yno i argraffu ei gymyrrchion, sy beth nad ydyw hawdd ei ddyfalu. O gylch canol y ganrif dan sylw, agorwyd athrofa gyfrifol gan yr Ymneillduwyr Henaduriaethol yn *Warrington*, a bu amryw o wŷr enwog yn athrawon ynddi. Pan oedd yr athrofa yn ei bri, gosodwyd i fyny yno argraffwsg, a daeth allan o honi amryw lyfrau o deilyngdod, mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Ond prin y mae yn debygol mai enwogrwydd gwasg *Warrington* oedd yr achos i'r llyfryn hwn gael ei gargywain yno i'w argraffu.]

1772.

1. 'Eglwys yn y Tŷ : neu Bregeth am Grefydd-deuluaidd. Gan y Parch. Mathew Henry', Awdwr *Esponiad ar y Bibl*. At ba un y chwanegwyd Pregeth arall yn ateb yr *Esgusodion* yn erbyn *Crefydd-deuluaidd*. Gan y Parch. Job Orton. Wedi eu cyfieithu i'r Cymraeg gan Samuel Philips.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Eddowes. M,DCC,LXXI.'

2. 'Pum Pregeth ar y Testunau canlynol : Luc xxiii. 42. Rhad Ras yn wir. Rhuf. viii. 28. Happusrwydd y Duwiol. Dat. iii. 20. Llais y Durtur. Judas 9. Trech yw'r Gostyngedig nâr Balch. 1 Pedr ii. 2. Llaeth ysbrydol. At ba un y chwanegwyd, Amryw o Hymnau. Gan y Parchedig Mr. Daniel Rowland, Gweinidog yr Eglwys Newydd, gerllaw *Llangeitho*.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros T. Davies, gerllaw *Hwlfordd*, yn Sir Benfro, gan J. Ross. 1772. [Pris Swllt.]* [12plyg.]*

* [Cynnwys gofres bur helaeth o danysgrifwyr, a phob un o honynt yn cymeryd cryn nifer o lyfrau ; ac yn eu plith y mae—'Rev. Peter Williams editor of the *Welch-Bibles with Notes*, am gant : ond y mae rhai yn cymmeryd cym-maint arall a hyny ; ac nid oes enw neb am lai na deuddeg.]

Ymddengys fod yr hen Fethodistiaid, neu'r Diwygwyr Methodistiaidd Eglwysig, yn hwyrfrydig i gael eu hystyried yn amgen nag Eglwyswyr, er eu diarddel o'r Eglwys. Pan adeiladwyd capel i'r Methodistiaid, sef i Rowlands a'i bleidwyr, yn ymyl Llangeitho, wedi i'r gwr da hwnw gael ei gau allan o'r Eglwys, ymddengys na fynent ei alw yn gapel, na thy cwrdd, rhag cael eu hystyried yn Ymneillduwyr, eithr yr 'Eglwys Newydd,' ger llaw Llangeitho.

3. 'Tair Pregeth a bregethwyd yn yr Eglwys Newydd gerllaw Llangeitho, i. Newydd da i'r Cenedloedd. Matt. ii. 8, 9...II. Crist oll yn oll. Heb. i. rhan olaf o'r nawfed adnod...III. Cerydd a Chariad Brawdol. Matt. xviii. 12...Gan y Parchedig Mr. Daniel Rowland.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros T. Davies, gerllaw Hwlfordd, yn sir Benfro, gan I. Ross. 1772. [Pris chwe' cheiniog.]* [12plyg.]

Gwerthwyd tuag 8000 o bregethau Mr. Rowlands yn Gymraeg, a thros 3000 yn Seisonaeg.

4. 'Pregeth ar yr achlysur o Chwythiad arswydus Powdwr gwnn yng Nghaerlleon gawr. Gan Jos. Jenkins o Wrexham, M.A. Cyfieithwyd gan Benjamin Evans o Lanuwchlyn.

Gwrexham: argraffwyd gan R. Marsh.'

JOSEPH JENKINS, D.D., ydoedd fab i'r Parch. Evan Jenkins, gweinidog y Bedyddwyr yng Ngwrecsam, yr hwn a ddaethai yno o sir Fynwy. Cafodd elfenau ei addysg yn Llundain, dan ofal un Dr. Walker, hyd 1761; yna aeth i Brifysgol Aberdeen, yn Scotland, lle y cyrhaeddodd ei A.C., ac wedi hynny ei D.D.† Yr oedd y pryd hyn yn tueddu at y Presbyteriaid, a dechreuodd bregethu gyda hwy. Pan yn athraw teuluaid yn Llundain, ymunodd â'r Bedyddwyr, a bedyddiwyd ef gan y Dr. Stennet yn 1766. Galwyd ef i'r weinidogaeth yno, lle y bu hyd 1769, pan y dychwelodd i Wrecsam. Bu beth amser yn gweinidogaethu yng Nghaerlleon, ond ar farwolaeth ei dad, gwahoddwyd ef i gymmeryd ei le yn 1773.‡

[Y cyfieithydd ydoedd Benjamin Evans, gweinidog yr Annibynwyr y pryd hwnw yn Llanuwchllyn, ac wedi hynny yn y Dref Wen, Ceredigion.]

* Argraffwyd deuddeg Pregeth y Parch. D. Rowlands, gyda'u gilydd, gan S. Williams, Aberystwyth, yn 1814.

† Thomas's *History of the Baptist Associations in Wales*, p. 52.

‡ *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas, t. 155-157. Efe a gyhoeddodd hefyd:— 'A Calm Reply to the first part of De Courcy's Rejoinder,' 8vo. 1778; 'Discourses on Select Passages of Scripture History,' 2 vols. 12mo. 1779; 'The Inconsistency of Infant sprinkling with Christian Baptism,' 12mo. 1784; 'The Beauties of Believer's Baptism,' 12mo. 1778; 'A Defence of the Baptists, against Peter Edwards,' 12mo. 1795; 'The Love of the Brethren proceeding from a perception of the Love of God, a Sermon on the Death of the Rev. Samuel Stennett, D.D.,' 8vo. 1795; 'The Personality and Deity of the Holy Ghost, a Sermon,' 8vo. 1805.

5. ¶ 'Llyfr y Weddi Gyffredin.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys.'

6. 'Gloria in Excelsis, neu Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen. Gan W. Williams Yr ail argraphiad.*

Caerfyrddin; Argraphwyd gan J. Ross. 1772.'

7. 'Gorfoledd y Cristion, mewn Pregeth allan o'r Gal. vi. 14. A gyfieithwyd i'r Gymraeg Gan Gurat yn Neheubarth, allan o Seisonaeg y Parchedig J. Hervey, Periglor Weston-Favel, yn Sir Northampton. At ba un y 'chwanegwyd Pregeth arall gan y Cyfieithydd; 1 Pedr i. 15.

Trefecca: Argraphwyd dros y Cyfieithydd. M,DCC,LXXII.'

JAMES HERVEY, A.C., ydoedd fab i offeiriad yn Hardington, ger Northampton, lle y ganwyd ef yn 1714. Wedi derbyn elfenau ei ddysg yn Ysgol Ramadegol Northampton, efe, pan yn 18 oed, a anfonwyd i Goleg Lincoln, Rhydychain, lle y gwnaeth gynnydd cyfrifol yn ei ddysgeidiaeth; a thrwy³ddyfod yn adnabyddus â'r Parch. John Wesley, daeth yn ystyriol o bwysfawrogrwydd crefydd: ond wedi hyny efe a ymlynodd yn fwy wrth y blaid Galfn-aid. Wedi cyrhaedd yr oedran cyfaddas, urddwyd ef yn gurad Dummer, yn sir Hamp. Bu wedi hyny yn gwasanaethu lleoedd ereill; ac yn 1750, ar farwolaeth ei dad, daeth i feddiant o fywoliaethau Weston Favel a Collingtree. Ei brif waith yw ei 'Fyfyrdodau,' y rhai a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd yn Gymraeg yn 1828. Bu farw ar Ddydd Nadolig, 1758, yn 44 oed.†

8. 'Caniadau ar amryw Destynau. Wedi eu cyfansoddi ar fesur Cerdd. Gan Sion Llewelyn, o Goed y Cymmer, yn y Faenor, sir Frycheiniog, &c. Yr ail argraffiad,‡ gyda diwygiad o amryw feiau: at ba un y chwanegwyd rhai caniadau newyddion.

Aberhonddu; argraffwyd gan E. Evans, yn y Coleg, 1772. [Pris chwe' cheiniog].'

Gôf oedd SION LLEWELYN wrth ei alwedigaeth; ac aelod o'r hen eglwys Ymneillduol Bresbyteraid ar Gefn Coed y Cymmer.

* Gwel rhif 2, d.f. 1771. [Ai nid yr ail ran a ddylasai hwn fod? Cyhoeddwyd y 'Gloria in Excelsis' mewn dwy o ranau: y mae y gyntaf yn cynnwys yr hymnau 689 hyd 717; a'r ail, o 718 hyd 810 [o argraffiad 1811]. Nid oes dim yn y rhaniadau hyn yn effeithio ar ansawdd yr hymnau, ond yn unig dangos y modd eu cyhoeddwyd ar y cyntaf, fel yr oedd yr awdwr diwyd a llafurus yn gallu eu cyhoeddi, ym mhlith llauws o orchwylion pwysig ereill.—*Morris Davies.*]

† *Cofiant y Parch. J. Hervey*, yn gyssylltedig â'r 'Myfyrdodau,' gan y Parch. D. MacNichol, yn Gymraeg gan D. Williams, 1828.

‡ [Ni chofnodir mo'r argraffiad *cyntaf* yn y gwaith hwn. Ni welodd y golgydd mo hono, ac nis gŵyr pa flwyddyn yr ymddangosodd.]

Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i wyro yn ei farn yn yr hyn a derfynodd yn yr hyn y profasant eu bod yn bresennol, sef Undodiaid.

9. ¶ 'The Love of our Country.'

Barddoniaeth Seisonaeg ydyw, gan y Parch. Evan Evans (y Prydydd Hir).*

10. 'Dwy Bregeth ar Ezeq. xxxiii.—11. Y Gyntaf yn cynnwys taer annogaeth i edifeirwch neu ddychweliad at Dduw. Yr Ail yn haeru, a thrwy 'Scrythurau eglur a rhesymmau di-ymad yn profi, na dderyw i Dduw, trwy un arfaeth neu ordinhâd gyn-amserol, luniaethu neb yn an-ochel i ddinystr neu farwolaeth dragywyddol. At y rhai'n y 'chwanegwyd Dau Ymofyniad neu Ymchwiliad. Y Cyntaf, Am farn Eglwys Loegr ynghylch cyrhaeddiad y Brynedigaeth Gristianogol, neu rinwedd marwolaeth Crist. Yr Ail, Am feddwl St. Pedr, yn yr hyn a ddywed efe, yn y drydedd Bennod o'i ail Epistol, ynghylch Ysgrifennadau St. Paul. Gan Ioan Wallter, Person Llandocheu.

Pont—y—Fon: Argraphwyd gan R. Tomas. M,DCC,LXXII.' [8plyg: 44 tudalen.]

Cyfieithwyd a chyhoeddwyd y pregethau hyn yn Seisonaeg yn y fl. 1783; a daeth argraffiad Cymraeg o honynt allan yn nechreu y 19fed ganrif, o dan olygiad y Parch. J. Hughes, awdwr yr *Horæ Britannicæ*.

11. 'Golwg ar Weinidogaeth Epaphras, &c. Neu Farwnad y Parchedig Mr. Lewis Jones, gynt Gweinidog yr Efengyl yn Llanedi, yn sir Gaerfyrddin, a chwedi hynny yn y Cas newydd, Pen y bont, yn sir Forganwg, lle y bu yn llafurio yn y weinidogaeth yn ddiwyd ac llwyddiannus, defnyddiol, ac offerynol; yn llaw'r Hollalluog i ddwyn llawer o Eneidiau o'r Tywyllwch i'w ryfeddol Oleuni ef. Cafodd ei symmud gan Ragluniaeth Duw wedi hynny i le a elwir Rhosan, yn Lloegr, hyd nes galwodd ei Arglwydd am dano i dderbyn ei Wobr yn y flwyddyn 1772. A gyfansoddwyd Gan Dafydd William.

Caerfyrddin, argraphwyd tros yr awdwr gan J. Ross, gerllaw yr Eglwys. 1772.'

12. 'Catecism neu Hyfforddiad Byrr yn Egwyddorion y Grefydd Grist'nogol; er lleshâd Ieuengetid Cymru, &c.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross. 1772.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad, mae yn debygol.†

* Gwel rhif 16, d.f. 1764; rhif 7, d.f. 1769; a rhif 2, d.f. 1770.

† Gwel rhif 2, d.f. 1707; rhif 11, d.f. 1759; a hwn yma.

13. 'Hanes Bywyd a Marwolaeth y Parchedig Mr. Fafasor Powel, y Gweinidog a'r Milwr dewrwyd hwnnw o eiddo Iesu Grist. Ymha un y gosodir allan, Ei Droedigaeth neilltuol, ei Weinidogaeth lafurus, a llywyddiannus, ei Ymarweddiad rhagorol. Cyffes ei Ffydd, Ymadroddion gwerthfawr. Profiadau dewisedig, yr amrywiol Garcharau, &c, &c, a ddiodefodd, a'i Attebion calonnog ger bron Brawdleoedd. Gyd a Llawer o Bethau hynod eraill a ddigwyddasant yn ei Fywyd a'i Farwolaeth. Ynghyd a rhai Hymnau melus.

Caerfyrddin, Argraffwyd, ac ar werth gan I. Ross, yn Heol y Prior, gerllaw'r Eglwys. M,DCC,LXXII.'

Cyfieithiad yw y llyfr hwn o un a gyhoeddwyd yn Seisonaeg. Y cyfieithydd ydoedd un 'D. Risiart.' Cynnwysa oll 200 tudalen 12plyg. Y mae hefyd hysbysiad yn gyssylltedig â hwn, yn mynegu y bwriedid argraffu o waith Mr. F. Powel, lyfr a elwir 'Godidowgrwydd Crist ar Moses, neu Ogoniant Seion ar Seina, Mewn ffurf o Gatechism;' ond nid ydys wedi cael y cyflawnwyd y bwriad da hwnnw.

14. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros S. Davies, gan J. Ross. 1772.'

15. ¶ 'Llofryddiaeth (Cân ar) Farwolaeth Humphrey Jenkins.

Caerfyrddin.*

16. 'Gloria in Excelsis, neu Hymnau o Fawli Dduw a'r Oen. Gan W. Williams. Yr Ail Ran.

Caerfyrddin, Argraphwyd dros yr Awdwr gan I. Ross ger llaw yr Eglwys. 1772.†

17. ['Gloria in Excelsis; or Hymns of Praise to God and the Lamb. By W. Williams.

Carmarthen, Printed for the Author, by John Ross, removed to Priory Street, near the Church. M,DCC,LXXII.'

['Hwn ydoedd ail lyfr Hymnau Seisoneg yr awdwr. Cynnwysai 72 o dudalenau, a 70 neu 71 o hymnau. Mae yr argraffiadau diweddfaf yn cynnwys 72, drwy chwanegu hymn arall o waith Williams, sef, 'Guide me, O Thou Great Jehovah,' cyfieithiad o'r Gymraeg, 'Arglwydd, arwain drwy'r anialwech,' a ddaeth allan yn gyntaf yng Nghasgliad Hymnau Whitfield, yn 1774. Nid ydys yn sicr ai yr awdwr ei hun a'i cyfieithodd, ynte W. Evans, cyfieithydd 'Llyfr y Ficer' i'r Seisoneg, gan fod y cyfieithiad yn dwyn arno lawer o'i ddelw ef.']‡

* *Llythyr* Mr. Ben. Davies, Ysgolfeistr. [Felly y cofnodir y gwaith; ond dilys yw bod yma ryw gamgymeriad.]

† *Ysgrif* Mr. Ben. Davies, Ysgolfeistr. Gwel rhif 2, d.f. 1771; a rhif 6, uchod.

‡ *Llythyr* Mr. Morris Davies.

18. 'Britannia, or a Chorographical Description of Great Britain and Ireland. By William Camden.

London. 1772.' 2 cyfrol unplyg.*

19. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, &c. a'r Sallwyr, neu Salmau Dafydd. 1772.'

20. 'Ail Lythyr Hen Bechadur at ei gyd Frodyr; Wedi sylfaenu ar y geiriau hyn, 'Gwrando ferch a gwel,' wedi Cymmeryd allan o'r bumed Psalm a deugain, a'r ddegfed adnod gan Ellis Roberts.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Eddowes tros Peter Morris, yn y Flwyddyn, 1772.'

Y mae chwech o englynion ar yr wyneb-ddalen; y rhagymadrodd yn 2 dudalen, ac yna y llyfr, oll yn 16 tudalen 12plyg.†

21. ¶ 'An Essay on the New Description of England and Wales. 1772.'

1773.

1. 'Diddanwch i'w Feddiannydd, neu Ganiadau Defosiynol, ar Amryw Destynau, a Mesurau, gan mwyaf, Am Fywyd, Marwolaeth, Dioddefaint, a Haeddiant Crist. Gan mwyaf o waith Mr. Hugh Hughes, &c.

Dublin: Argraffwyd gan S. Powel, Tros Gwilim ab Gryffyth. M,DCC,LXXIII.'

Cynnwysa y llyfryn bychan hwn waith barddonol, heb law gwaith Hugh Hughes, yr eiddo Gwilim ab Gryffyth, y cyhoeddwr, Robert Hughes (Caint Bach), a Gwilym ab Ioan (Wm. Jones, Bardd Mon).

2. 'Y Deddfau Cristianogol, neu Ddidwyll Air Duw. Sef Ffydd a Dyledswyddau Cristion yn Gyfan ac yn Gryno, Wedi eu dosparthu wrth Drefn a Chymhwysder Rheswm, a'u gosod i lawr Yngeiriau'r Ysgrythur. Gan y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, Francis Gastrel, yr hwn yn ddiweddar oedd Esgob Caerlleon. Ac wedi eu gosod allan yn Gymraeg, yn ol y cyfieithiad cyffredin, Gan John Evans, A.M.

Caerfyrddin, Argraffwyd dros yr Awdwr gan J. Ross, gerllaw'r Eglwys. 1773.'

3. 'Rhybŷdd Cyfr-drist j'r diafol a'r difraw: Neu gywir hanes am gyfiawn farn Duw, a oddiweddodd ystafellaid o ynfydion anystyriol yn ninas Caerlleon; y rhai ar ganol eu difurwch a chwythwyd i'r

* Gwel d.f. 1602; rhif 4, d.f. 1603; a rhif 2, d.f. 1604.

† [Gweler rhif 28, d.f. 1771.]

awyr gan Bowdwr Gwnn, a'r Tŷ lle yr oeddynt a wnaed yn gyd wastad a'r llawr. At yr hyn y chwanegwyd Pregeth oddiwrth y geiriau hynny, Eithr, o nŷd edifarhewch, chwi a ddifethir oll yn yr un modd, Luc xiii. 3. Gan y Parch. Evan Evans, Curat [Tywyn].

Argraphedig Ynghaerfyrddin gan J. Ross, yn Heol-y-Prior, ger llaw yr Eglwys. 1773. [Pris dwy geiniog].'

4. 'Udgorn dydd Grâs, ac udgorn Dydd Barn.—Pregeth ar yr achlysur o'r Ddaergryn, a fŷ yr eilfed Dydd ar hugain o Ebrill, 1773, mewn amryw Fannau o ogledd Cymru; Wedi ei chymmeryd allan o Mat. xxiv. 7. "A Daeargrynfau mewn mannau." Gan y Parchedig Mr. Joan Morgan, gynt Curat Lledrod a Gwnnws yn Swydd Geredigion, ond yn bresennol Curat Llanberis yn Swydd Gaernarfon. At yr hwn y chwanegwyd Cerdd, ar yr un Achosion, gan Evan James, Gwerthwr y Llyfr hwn.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Eddowes. 1773.'

'Daeth un John Morgan, o'r Deheudir, yn Gurad i Lanberis; byddai cryn lawer yn cyrchu i wrando arno: ac er nad oedd ei wybodaeth na'i ddoniau yn ardderchog, eto gellir barnu fod ei amcan am ddyrchafu Crist, ac achub pechaduriaid. Ymddangosodd yn fwy amlwg gyda chrefydd yn ei hen ddyddiau. Mae yn debyg y cafwyd ynddo beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel.*

Ymddengys mai gwr o Lanfachraith, ym Meirionydd, ydoedd Evan James.

[Cynnwys y llyfryn 16 o dudalenau 12plyg. Ar ddiwedd y gerdd, gyda'r hon y terfyna'r llyfryn, ceir—'Evan James, o blwy Llanfachraith, a'i cant, yn Sir Feirionydd.']

5. 'Gorchestion Beirdd Cymru, neu Flodau Godidawgrwydd Awen. Wedi eu lloffa, a'u dethol, allan o waith rhai o'r Awduriaid ardderchoccaf. a fu erioed yn yr Iaith Gymraeg. O Gasgliad Rhys Jones o'r Tyddyn Mawr yn y Bryniach, ym mhlwyf Llanfachreth, yn Swydd Feirion.

Argraphwyd gan Stafford Prys, yn y Flwyddyn M,DCC,LXXIII.' [4plyg.]

6. ¶ 'Deddfau Moesoldeb Naturiol. Wedi ei gyfieithu gan Hugh ab Hugh.†

7. 'Ffordd y Bywyd wedi ei datguddio, a Ffordd Marwolaeth wedi eglurhau: Ym mha un y mynegwyd cyflwr happus Dyn cyn y Cwmp, a'i gyflwr truenus yn y Cwmp; a'r Ffordd o Ddychweliad

* *Drych yr Amseroedd*, gan R. Jones, ail argraffiad, t. 190.

† Gwel rhif 1, d.f. 1763.

allan o'r Cwyp, i Ddelw Duw drachefn, ymha un yr oedd Dyn cyn y Cwyp. Ac hefyd i gae Llwybrau, Ffyrdd ceimion, Dichellion, Rhwydau a Phrofedigaethau gelyn Enaid Dyn wedi ei eglurhau, y sawl sy'n myned o amgylch megis Llew rhuadwy, yn ceisio baglu a llyngcu y cyfryw ac ydynt mewn rhyw fesur yn adnabod gwardedigaeth allan o Ffyrdd Marwolaeth a Dinystr. Gan Charles Marshal. A gyfieithwyd i'r Cymraeg er mwyn y Cymry.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior. M,DCC,LXXIII.'

Y mae i hwn 'Annerch i'r Cymro,' wedi ei arwyddo 'J. Lewis,* Hwlfordd, y 6fed or bedwaredd Mis 1773.' Ymddengys fod camgymeriad yma yn enw yr awdwr, ac y dylasai fod yn

STEPHEN MARSHAL, B.D., yr hwn a anwyd yn Godmanchester, yn sir Huntingdon, ac a gafodd ei ddysg yng Nghaergrawnt. Bu am beth amser yn weinidog yn Wethersfield, yn Essecs, ac yna yn Ffinchingfield, o'r lle y diswyddwyd ef, o blegid ei Anghydfurfiaeth, hyd 1640, pryd, rywfodd, y cafodd le arall. Yn 1641, gwnaed ef yn gapelwr i fyddin Iarll Essecs. Bu ganddo law helaeth yn nterfysgoedd amseroedd Siarl I. Bu farw yn 1655.†

8. 'Egwyddorion o'r Gwirionedd, neu pethau ynghylch athrawiaeth ac addoliad, &c. Gan John Crook. A gyfieithwyd i'r Cymraeg gan John Lewis.

Caerfyrddin, argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior. M,DCC,LXXIII.'

Yr oedd yr enw Crook ym mhlith awdwyr Crynyddol er amser y Siarliaid, a'i waith yn Gymraeg.‡

9. 'Welch Piety: Or a Further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1772, to Michaelmas 1773.

London Printed.'

Rhoddwyd 200 o'r uchod yn anrheg i'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol, gan Syr John Thornold, Barwnig, yr hwn oedd yn gefnogwr mawr i ymdrechïadau y Parch. Griffith Jones, gyda'r Ysgolion Symmudol.

10. 'Sylfaen Buchedd Sanctaidd, neu'r Ffordd trwy ba un y daeth llawer o rai ag oeddynt yn Baganiaid i fod yn Grist'nogion enwog, &c. Gan Hugh Thurford.

* [Ymddengys mai un o'r Crynwyr ydoedd y cyfieithydd, J. Lewis, sef yn ddia yr un gwr ag a gyfieithodd rif 8.]

† Brooks's *Lives of the Puritans*, vol. iii. pp. 241-254. [Nid yw debygol mai gywaith 'Stephen Marshal' yw y llyfr. Prin y gallasai neb wneuthur camgymeriad mor ddybryd a throi 'Stephen' yn 'Charles' ar gynddalen llyfr.]

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1660.

Caerfyrddin : argraffwyd gan John Ross. 1773.'

11. 'Mynegeir Ysgrythurol : neu Ddangoseg Egwyddorol o'r holl Ymadroddion yn yr Hen Destament a'r Newydd, Yn Ddwyr Ran. Y Rhan gyntaf, yn cyfarwyddo at y Llyfr, y Bennod, a'r Adnod, lle y cynhwysir Prif Eiriau pob Ymadrodd : Ynghyd âg Arwyddocâd Geiriau anghyfiaith. Yr ail Ran, yn cyfarwyddo at Enwau priodol Dynion, Llefydd, &c. gydâ'u Harwyddocâd yn y Ieithoedd gwreiddiol, o ba rai y maent yn deilliaw. Gan y Parchedig Peter Williams.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdur, gan J. Ross, yn Heol-y-Prior, gerllaw'r Eglwys. M,DCC,LXXIII.' [4plyg.]

Dywed yr awdwr am y 'Mynegeir i'r Bibl, sef Concordance—nid oedd un i'w gael yn Gymraeg, namun un a argraffwyd yn Pennsylvania,* a hwnw a ddilynais; eithr gorfu i'm ddiwygio peth, a chwanegu llawer.'† Ond y gwahanol ystyr sydd i eiriau mewn gwahanol fanau o'r Ysgrythyrau, yn ddiâu a gymmerodd efe o Cruden's 'Concordance,' heb eu cydnabod; a'r rhai, gan eu bod yn cynnwys golygiadau athrawiaethol dadleuedig, yn briodol iawn a adawyd allan o'r Mynegair bychan diweddar. Yr oedd yn ei fwriad ei ddwyn allan yn llawer cynt, ac yn helaethach; ond bu orfod hysbysu, na chaed 'cynnifer o enwau at y Mynegair Ysgrythurol, neu Concordans Cymraeg,' ag oeddid yn ei ddysgwyl; a chan farnu fod y bobl gyffredin, er mwyn pa rai yr amcanwyd ef yn bennaf, yn ei weled yn rhy ddrud, 'Hyn sydd i hysbysu i'r cyffredin, ein bod yn bwriadu argraphu yn llai nag y soniwyd o'r blaen, ac etto, os bydd bosibl, ei wneuthur yn agos mor fuddiol, sef trwy nodi (nid pob gair yn y Bibl, eithr) y geiriau pennaf ym mhob ymadrodd, ac felly ei gynnwys mewn ynghylch tair neu bedair Rhan, deg Papurlen ym mhob rhan, a'i werthi am swllt y Rhan: ac mi a allaf sicrhau i'r pwrcaswyr, y bydd felly yn rhagorach o lawer na'r Concordans a argraphwyd yn Pennsylvania.'‡ Rhoddwyd argraffiad yn 18—, gan fab yng nghyfraith yr awdwr, Mr. D. Humphreys, lle y dywed ei fed yn gyflawnach o ddwy neu dair mil o eiriau na'r cyntaf hwn, sef trwy chwanegu yr hyn a adawyd allan, fel y dywedir uchod. Daeth argraffiad 8plyg allan hefyd yn fwy diweddar, cyn y rhai bychain presennol.

12. 'Deial Ahas, wedi ei hysbrydoli. Gan Wr-llug o'r Wlad; Wedi ei olygu a'i ddiwygio gan y Parch. P. Williams, gweinidog yr Efengyl. A gyfieithwyd i'r Cymraeg gan Hugh ab Hugh.‡

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol y Prior. MDCCLXXIII.'

* Gwel rhif 1, d.f. 1730.

† Dalen gyssylltiol â Phregeth y Parch. D. Edwards, ar Farwolaeth Mr. Whitfield. Gwel rhif 6, d.f. 1771.

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1763; a rhif 6, uchod.

Yr awdwr ydoedd DAFYDD TUCCEB, gwneuthurwr Deialau.

13. 'Manteision ac Anfanteision y Cyflwr Priodasol, fel yr ydys ynddo gyda dynion crefyddol neu ddigrefydd, &c. Gan y Parchedig a'r Enwog Mr. J. Johnson o Liverpool. Wedi ei gyfieithu i'r Cymraeg gan Gwilym Rhysiart.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, ger llaw yr Eglwys. 1773.'

Y mae y rhagymadrodd 'At y Darlennydd,' yn arwyddedig gan 'Gwilym Rhysiart, Pencoed, yn ymyl Meidrim, y 27 o Fawrth, 1773.' Rhoddwyd allan argraffiadau o hono hefyd yn y ganrif hon.

14. 'Caniadau y rhai sydd ar y Môr o Wydr, &c. i Frenin y Saint, &c. Y pedwerydd argraphiad, gyda chwanegiad o Hymnau newyddion nad oeddynt yn un o'r argraphiadau o'r blaen. Gan W. Williams.

Aberhonddu, argraphwyd tros yr awdwr gan E. Evans, yn y Coleg. Lle gellir cael argraphu pob math o lyfrau ar lythyren dda, am bris gweddol. M,DCC,LXXIII.'

Nid ydys yn deall fod argraffiad o'r blaen wedi bod o Hymnau Williams, dan yr enw uchod, er ei fod yn galw hwn y pedwerydd argraffiad; gan hyny, y meddwl yw, mai y pedwerydd argraffiad o'i Hymnau ydyw, dan unrhyw enw.

15. 'The genuine History of the Britons asserted against Mr. Macpherson. By the Rev. Mr. Whitaker, author of the History of Manchester. 1773.' 8vo.

[Yn y fl. 1772 yr ymddangosodd y gwaith hwn.

Yr awdwr, y Parch. JOHN WHITAKER, a aned ym Manchester o gylch y fl. 1735, ac a efrydodd yn Rhydychain, lle y cymmerodd radd Athraw Celfyddydau yn 1759, a Baglor Dwyfyddiaeth yn 1767. Yr oedd hefyd yn Gymmrawd o Goleg Corff Crist. Ysgrifennodd a chyhoeddodd lawer; ond ei brif waith yw ei 'History of Manchester,' yr hwn a gyhoeddwyd yn 1771. Bu farw yn ei bersondy yn Ruan Langhorn, yng Nghernyw, ar y 30fed o Hydref, 1808.]

16. 'Golwg o ben Nebo ar Wlad yr Addewid, mewn casgliad o bigion o Hymnau, ar Gwypm Dyn yn yr Adda cyntaf, a'i Gyfodiad yn yr ail Adda. Wedi eu trefnu a'u diwygio allan o'r ail argraffiad,* ynghyd a rhai Caniadau Newyddion, na buont argraffedig o'r blaen. Gan Morgan Rhys.

Caerfyrddin, argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior. 1773.'

17. 'Cynneddfau a Dyledswyddau Gweinidogion, dan yr Enwau Tadau a Phrophwydi, yn cael eu hystyried, a'u Marwolaeth ei

* Gwel rhif 12, d.f. 1764.

Defnyddio.—Mewn Pregeth a Bregethwyd mewn Cymmanfa o Weinidogion a Chennadon, o Amryw Eglwysydd Cymru: Gwedi cyfarfod yn Bethesda, yn Sir Fonwy, ar y 9ed o Fehefin, 1773. Gan Hugh Evans, M.A. Ac a gyhoeddwyd ar Ddymuniad y Gymmanfa.

Bristol: Argraphwyd ac ar werth gan William Pine, 1773. Ac ar werth gan Cadel, Ward, Beet, Edwards, a Norton. A chan G. Keith, J. Buckland, yng Nghaerludd.

Yn y flwyddyn hon yr oedd y Parch. D. Thomas, o Gilfywyr, i bregethu yn y Gymmanfa, ond efe a fu farw yn ddisymmwth, cyn yr amser. Yr oedd y bregeth uchod yn gyfaddasol iawn i'r amgylchiad, a deisyfid ar iddi gael ei hargraffu yn ddwy iaith.*

HUGH EVANS, A.C., ac wedi hyn y raddiwyd yn D.D., ydoedd fab i Caleb Evans, o sir Frycheiniog, ac ŵyr i Thomas Evans, yr hwn hefyd oedd yn pregethu yn foreu gyda'r Bedyddwyr. Cafodd ei ddysg o dan Mr. Price, o'r Llwyn Llwyd; yr hwn oedd yn cadw athrofa, ac yn pregethu gyda'r Presbyteriaid ym Maes yr Onen. Yr oedd modryb iddo, chwaer ei dad, yn byw ym Mristol, ac yn 1730, hi a wahoddod ei nai yno, ac yno y bedyddiwyd ef. Tua'r fl. 1731, dechreuodd bregethu. Yn 1734, cafodd alwad i gyflenwi lle Mr. Arnold, a fuasai farw, ond dewisodd aros ym Mristol, yn cyn-northwyo Mr. Fosket, fel athraw yr athrofa, ac yn ei le wedi ei farwolaeth. Bu farw yn 1781, yn 69 oed.†

18. 'Pregeth ar Ymfrost yng Nghrist Iesu. Newydd ei chyfieithu i'r Cymraeg.

Trefecca: argraffwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXIII.'

Dichon mai cyfieithiad newydd, ac ail argraffiad o Bregeth Mr. Hervey ydyw hon.‡

19. 'Iawn Ddefnydd o Farnedigaethau Duw. Pregeth ar Achos o Chwythiad dychrynlyd y Powdr Gwnn yng Nghaerlleon: Trwy'r hyn y cafodd Torf o bobl ymgynhulledig mewn Poppet Shew, eu chwythu i'r awyr; fel y lladdwyd llawer, ac y briwyd eraill, Tachwedd 5ed, 1772. Wedi ei chyhoeddi drwy Ddeisyfiad. Gan Joseph Jenkins. A.M.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-y-Prior, gerllaw yr Eglwys, 1773. [Pris dwy geiniog].'

Darfu i neillduolrwydd yr amgylchiad beri i'r argraffiad cyntaf o'r

* Thomas's *History of the Baptist Association*, p. 65.

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones, t. 838-840.

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1772.

bregeth hon gael ei werthu yn fuan, a dyma alwad am ail argraffiad i'r Deheudir.*

20. 'Golwg ar Madewiad y Cyfiawn. Ar ddull Gweledigaeth, neu farwnad Mary John, Merch Lewlin John, o Lantrisant, yn sir Forganwg, yr hon a gafodd y fraint gan yr Arglwydd, o effeithiol alwad i'w Hyfryd winllan yn 12 mlwydd oed cafodd ei Derbyn. Yn Aelod o'r Gymdeithas wythnosol hynny a gedwir yn mysg y Bobl dwymon Hynny a elwir Methodists, yn Hardd yn ei Bywyd a'i Rhodiad yn wresog yn ei Hysbryd yn ddiwyd mewn gweddi a haul Duw yn tewynu ar ei phabell nes daeth yr hyfryd Alwad, arni i dderbyn ei choron a gorphen ei gyrfa yn 14 oed, yn mis Gorphenhaf 6 dydd yn y flwyddyn, 1773. A gyfansoddwyd gan Dafydd William.

Bruste: Argraphwyd tros yr Awdwr, gan T. Co—. [Congl y ddalen wedi ei dryllio.]

21. 'Cynneddfau a Dyledswyddau Gwladwyr, &c. Mewn Pregeth a bregethwyd mewn Cymmanfa o Weinidogion a Chenadon o amryw Eglwysydd Cymru, gwedi cyfarfod yn Bethesda, yn sir Fônwy, ar y 9fed o Fehefin 1773. Gan Hugh Evans, M.A.

Bristol, Argraphwyd gan William Pine. 1773.'

[Yr un yn ddilys ydyw y gwaith hwn â rhif 17 o dan y flwyddyn hon, os na bu dau argraffiad o fewn yr un flwyddyn, yr hyn nid yw debygol.]

22. 'Geir-lyfr Ysgrythurol: neu Egwyddor, yn Dangos Arwydd-occad y Rhan fwyaf o Eiriau, ac Ymadroddion caled, a Natturiaethau Creaduriaid, a Gynnhwysir yn yr hen Destament a'r Newydd. Yn gyttunol a Lityrgi, Erthyclau, a Homiliau, Eglwys Loegr. Wedi ei Dalfyru, gan mwyaf allan o Eirlyfr y Parchedig Mr. Wilson, &c. Gan John Roberts.

Argraphwyd yn Nulyn gan S. Powell. M,DCC,LXXIII.'

Awdwr y 'Geirlyfr Ysgrythurol' nid oedd neb llai na John Roberts, yr Almanaciwr, neu 'Sion Rhobert Lewis.' Hwn ydoedd y Geirlyfr neu y Geiriadur Ysgrythyrol *cyntaf* i'r Cymry. Y mae yn ei ragflaenu, 'At y Darllenydd' o dri thudalen, yng nghyd â 'Rhagymadrodd i'r Llyfr hwn, ar fesur cerdd,' o ddeuddeg ar hugain o Bennillion, ar 'Ardderchawgrwydd yr Ysgrythyr Lân.' Y mae yn llyfr o 141 o ddalenau, neu 282 o dudalenau 12plyg. Yr oedd y cyfryw waith yn newydd i'r wlad, a buan y gwasgarwyd yr argraffiad, nes bod, ym mhen pymtheng mlynedd, sef yn 1788, gefnogaeth i roi hysbysiad am ail argraffiad, lle y dywedir:—'Os bydd

* Gwel rhif 4, d.f. 1772.

i'r *Llyfr* uchod gael ei roddi'n yr Argraffwasc; yr wyf yn meddwl cael gan Wŷr *diduedd*, fwrw golwg ofalus trosto ef yn gyntaf, Rhag fy mod i wedi casglu *Tywys gweigion*, wrth hynny gwneuthur ei sŵm yn fwy na'i sylwedd; neu lloffa llawer o *Dywys pydron*, y rhai a wna liwiau drwg ar y gwirioneddau disgleiriaf; neu gasglu llawer o *ŷd meddw*, i lenwi'r pen a sŵn, yn hyttrach nac archolli calon iâch; neu gasglu *Tywys* afiach, a bwyso ar gylla rhai gweiniaid, yn lle adnewyddu eu grym, Fe gynnwys y *llyfr ynghylch* 300 o Ddalenau wyth-blyg ehelaeth: ei bris o bedwar swllt i bump. Os daw galwad am *Fil* o honynt Argreffir SiAMPL (Specimen) o hono yn ei ddull: ac enway ewyllyswyr da, a f'o barod i dderbyn cynhorthwy tu ag atto ef.'

Deallir oddi wrth hyn, y bwriedid i'r ail argraffiad fod yn helaethach dair gwaith, o leiaf, na'r cyntaf. Ond cyn iddo allu cwblhau y bwriad uchod, yr oedd y Parch. T. Charles, o'r Bala, yn llafurio yr un modd. Pa un ai clywed a ddarfu Mr. Charles, fod John Roberts yn casglu neu yn paratoi tuag at chwaneu a chyhoeddi ei *Eirlyfr*, ai ynte darfod i John Roberts ymgynghori â Mr. Charles, yn ol ei addewid o 'gael gwyr dysgedig i edrych trosto,' nid ydys yn alluog i benderfynu. Pa fodd bynag, cafodd ymgynghorfa ei chynnal rhyngddynt, a'r canlyniad a fu, i John Roberts roddi i fyny ei fwriad o ail gyhoeddi yr eiddo ef, a gwerthu ei holl ysgrifeniadau parotöedig tuag at y Geirlyfr i Mr. Charles, am 5 swllt, medd traddodiad. Nid yw Mr. Charles yn crybwyll dim am Eirlyfr John Roberts, nac am ei ysgrifeniadau, o blegid yr hyn y teimlai rhai o'r teulu yn anfoddlawn a thramgwyddus, gan ystyried llafur J. R. yn 'gynsail Geiriadur Charles.' Pa ddefnydd a fu ysgrifeniadau J.R. i Mr. Charles, neu pa ddefnydd a wnaeth efe o honynt, y mae yn anhawdd dyfalu, gan, os defnyddiodd hwynt o gwbl, eu bod wedi eu cydweithio ag ereill helaethach; er y gellir meddwl mai fel gwaith John Roberts, neu ryw un arall, y dechreuwyd cyhoeddi Geirlyfr Charles; canys daeth y rhan gyntaf allan heb enw Mr. Charles, na neb arall, fel *awdur*; ond dywedai y cyhoeddwr, W. C. Jones, Caerlleon, y dysgwylid y byddai iddo gael ei olygu gan Mr. Charles neu Mr. T. Jones.. Yr ydys wedi gweled clawr y rhan gyntaf o'r argraffiad cyntaf o Eiriadur Charles. Y mae yn cynnwys 88 tudalen, o 'A' i 'Barnu,' a'i gwyneb-ddalen sydd fel hyn:—

'Geirlyfr Ysgrhythyrol. Rhan I. Pris Swllt. Y mae'r *llyfr hwn* yn cynnwys ynddo arwyddocâd y geiriau anghyfaith a geir yn yr Ysgrhythyr Lan; ynghyd ag amryw feddyliau, ac ystyriaethau, geiriau ac ymadroddion cyfieithedig, wedi eu casglu gan mwyaf allan o Eirlyfrau Mr. Wilson, Mr. Bagwel, Mr. Simson, Mr. Bernard, Mr. Brown, Mr. Cruden, Mr. Batton, &c., &c. Ac hefyd o Eirlyfr (Lexicon) Groeg a Saesonaeg Mr. Parkhurst. Fe all fod yn ddefnyddiol fel Mynegair ac Eglurydd: Y mae'n dangos sefyllfa Mynyddoedd, Dinasoedd, a'u hamgylchiadau; naturiaethau Creaduriaid, Coedydd, a Meini; cylchau'r llu'r nefoedd, a'u maintioli; Aberthau, Gwyliau, a Seremoniau'r Iuddewon; ynghyd a'u cyfeiriad i ddangos pethau Efengylaidd.

AMMODAU.

I. Yr ydym yn bwriadu cario 'r gwaith y'mlaen o ran dull, trefn, a defnydd, mor agos ag y gellir i'r Rhan hon.

II. Fe gwblheir y gwaith mor gryno ag y gellir heb fod yn niweidiol i gorph y matterion sy'n gynnwysedig ynddo.

III. Yr ydys yn bwriada i'r *Coppi* oll gael myned tan olygiad Mr. *Charles* a Mr. *T. Jones*, cyn ei roi yn y Wasg; o leiaf un o honynt, os na bydd cyfleustra iddynt ill dau i'w olygu.

IV. Rhoddir y ddalen gyntaf (*Tittle Page*), ynghyd a'r Rhagymadrodd, yn y Rhifyn olaf o'r llyfr.

Siopwyr, Ysgolfeistriaid, neu ryw ddynion cyffredin a ewyllysio fod yn annogaeth i'r gwaith, trwy dderbyn enwau; a obrwyir yn helaeth; am bob 12 hwy a gan 2 am eu trafferth, sef, 14 yn y *Dwsin*, &c.

☞ Desgwylir i bawb a fyddo'n derbyn y Rhannau, anfon tal am y Rhan hon cyn y derbyniant ddim ychwaneg; a dymunir arnynt wneuthur hynny mor fuan ag y gallont, er mwyn rhwyddineb i gario 'r gwaith y'mlaen.

W. C. JONES, Argraffydd, Caerlleon.'

Dyna fel y rhoddwyd allan y rhan gyntaf o'r hyn a alwyd wedyn yn 'Eiriadur Charles;' ac y mae yn amlwg, gan nad pwy bynag oedd awdwr y rhan hono, nad oed gan Mr. Charles yr un llaw ynddi—yn unig y bwriadai Mr. Jones, yr argraffydd, gael naill ai Mr. Charles neu T. Jones yn olygydd y gwaith. Pa faint o'r 'Coppi' ag oedd yn llaw yr argraffydd, a ddaeth allan fel hyn, nid ydys yn gallu penderfynu; ond ymddengys y gwelodd Mr. Charles yn angenrheidiol wneyd rhyw gymmaint o ychwanegiadau a chyfnewidiadau wrth fyned ym mlaen, fel ag y gwelwyd yn angenrheidiol ystyried a galw Mr. Charles yn awdwr, ac nid golygwr. Y mae yn amhëus fod gan Mr. Charles na Mr. Jones ddim llaw hyd yn nod yng ngolygiaeth y rhan hon o leiaf; a sier dylesid cydnabod yr awdwr, pwy bynag ydoedd, hyd yn nod os 'Sion Rhobert Lewys, Almanaciwr Caergybi,' ydoedd.

Gellir tybio, oddi wrth hyn, fod y Geiriadur yn y wasg pan ymgymerodd Mr. Charles ag ef. Buasai yn ddiau yn llawer mwy boddhaol pe buasai Mr. C. wedi crybwyll am y 'cynsail' hwn, fel y darfu i'r Parch. P. Williams grybwyll am y Mynegair a gyhoedd- asid yn America.* Buasai y cyfryw addefiad yn attal llawer o deimladau anhyfryd; er nad anturir rhoddi barn ar y dyben, er y buasai yn well, tybiaf, pe gweithredasid beth yn wahanol.

23. 'Can y Pererinion Cystuddiedig ar eu taith tua Seion: neu ychydig o Emynau profiadol, er mawl i Dduw, a Chynnydd i'r Cristion. Gan D. Morys, gerllaw Lledrod.

* Rhagymadrodd *Mynegair* P. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior, gerllaw yr Eglwys. M,DCC,LXXIII.'

DAFYDD MORYS neu MORRIS a anwyd yn Lledrod, yn sir Aber-teifi, yn 1744. Ymunodd yn fuan â'r Methodistiaid, a dechreuodd bregethu tua'r fl. 1765, pan yn 21 oed; a daeth yn fuan yn un o bregethwyr grymusaf ei oes. Teithiai yn fynych i Dde a Gogledd. Er nad oedd wedi derbyn manteision dysgeidiaeth, eto, cyrhaeddodd fesur helaeth o wybodaeth dduwinyddol; a deallai awdwyr Seisonig yn dda. Efe a symmudodd o Ledrod i ardal y Tŵr Gwyn, yn yr un sir, yn 1774, ar gais y Gymdeithas fechan o Fethodistiaid oedd yno. Galwyd ef i roi heibio ei alwedigaeth, ac ymroddi yn llwyr i bregethu, ac i gynnal cyfarfodydd eglwysig wythnosol, a chydabyddid ef yn flynyddol am ei lafur. Yr oedd yn dad i'r Parchn. Ebenezer a Thomas Richard,* gweinidogion yng Nghorff y Methodistiaid, ac yn daid i'r Parch. H. Richard, Capel Marlborough, Llundain. Bu farw Medi 17, 1791, yn 47 oed.†

24. 'The Io Triads: or, the Tenth Muse, wherein the Origin, Nature, and Connection of the Sacred Symbols, Sounds, Words, Ideas, are discovered, &c. By Rowland Jones, Esq.

London. 1773. 1s.'

25. 'Marwnad ar Farwolaeth Howell Harris, Esq; o Drefecca, yr hwn a ymadawodd o'r Byd, yr 21 o fis Gorphenâf, 1773. Gan Henry Lloyd.

Trefecca, Argraphwyd dros yr Awdwr, M,DCC,LXXIII.'

26. 'Amryw Hymnau Dymunol a Phrofiadol, o Waith Harri Sion, gerllaw Pont-y-Pŵl, yn Sir Fynwy, At ba un y chwanegwyd Pigion o Hymnau, o Waith yr Awdwyr hynottaf yn yr Oes bresennol.

Caerfyrddin, Argraphwyd dros y Cyhoeddwr gan I. Ross. M,DCC,LXXIII.

Cynnwysa y llyfr 144 o dudalenau 24plyg, er nad oes ond 36 o honynt yn waith H. Sion; y lleill sydd waith W. W., D. J., J. W., M. Rh., a P. W. yn Gymraeg a Seisonaeg.

HARRI SION, neu HARRI JOHN, ydoedd hen wr enwog fel crefyddwr, perthynol i'r Bedyddwyr yn hen eglwys Pen y Garn, ger Pont y Pwl, yn sir Fynwy, yn yr hanner cyntaf o'r 18fed canrif. Mewn marwnad iddo gan y Parch. B. Francis, dywedir mai gwr o Lan-

* [Y mae yma gamsyniad. Tad y Parch. Ebenezer Morris, yr hwn a fu farw yn 1825, ydoedd Dafydd Morys; ond nid oedd, hyd y gwyddys, yn perthyn o'r nawfed ach, i'r Parchn. Ebenezer a Thomas Richard, y rhai oedd-ynt frodorion o swydd Benfro. Y mae yn debygol mai yr enw 'Ebenezer' a ddarweiniodd ein hawdwr i hyn o amryfusedd. Mab y dywededig Ebenezer Richard (o Dregaron) yw Mr. Henry Richard, A.S.]

hiddel ydoedd. Yr oedd yn rhagori mewn crefydd a duwioledeb. Yr oedd yn brydydd da, sylweddol, melus iawn, a chymmeradwy. Ymddengys mai ail argraffiad o'i hymnau yw hwn, ond ni welais y cyntaf. Bu farw yn y flwyddyn 1754, yn 90 oed.*

27. 'Marwnad er Coffadwriaeth am Mr. Howel Harris, Yr hwn oedd Un o'r rhai cyntaf a ddechreuodd y Diwygiad mawr yng Nghymru: A ymadawodd a'r Byd hwn, Gorphenhaf y 21, yn y flwyddyn, 1773. Yn y driugeinfed Flwyddyn o'i Oedran. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd trecs yr Awdwr gan E. Evans: Lle gellir cael argraphu pob math o gopiau am bris rhesymol. M.DCC.LXXIII.'

28. 'Llythyr oddi wrth Gymmanfa o Weinidogion at yr amryw Eglwysi, i ba rai y maent yn perthynu, &c. &c.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol y Prior. M,DCC,LXXIII.'

29. 'Pregeth, yn dangos yn eglur Nad oes perffaith Ddedwyddwch i'w ddisgwyl, hyd oni chyflawnir Nifer Etholedigion Duw. Gan y Parchedig Mr. Samuel Johnson, M.A. Ac a gyfieithwyd o'r Saisneg, gan Hugh Williams, Athraw Celfyddydau, Person Aberffraw, ac Aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. Read a T. Huxley. M,DCC,LXXIII.'

HUGH WILLIAMS, A.C., ydoedd frodor o sir Gaernarfon.† Cafodd bersoniaeth Aberffraw, ym Mon, Chwefror 15, 1754.‡ Ymunodd â Chymdeithas y Cymmrodorion ar ei sefydliad yn 1751, neu ym mhen ychydig ar ol hyny. Ymddengys ei fod yn rhywle ym Mon cyn hyny, ef allai yn gurad neu ragflaenydd y Parch. Thomas Owen; canys bu rhyw ymgom am ei gymhwysderau barddol rhwng Mr. Wm. Elias, Plas y Brain, a Gronwy Owen; canys gorchymmyna yr olaf i Mr. Richard Morris ddywedyd wrth y blaenaf—'Tell William Elias that I know Hugh Williams better than he does, and consequently what sort of poet he was.'§ Ymddengys mai y gymwynas agos gyntaf a wnaeth â Gronwy, ar ol cael bywoliaeth Aberffraw, ydoedd anrhegu Gronwy â Gramadeg Sion Rhydderch, yr hyn y mae y derbynydd yn ei gydnabod mewn llythyr arall at Wm. Morris yn 1754:—'Dyma fy hen gyfaill anwylaf, y Parch. Mr. Hugh Williams (yn awr) Periglor Aberffraw ym Mon, wedi gyru i mi Ramadeg Sion Rhydderch, i'm hyfforddio yn yr hen gelfyddyd.'

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas, t. 219, nodyn.

† *Cofrestr Cymdeithas y Cymmrodorion*, 1769.

‡ Rowlands's *Mona Antiq. Rest.*

§ *Llythyr Gronwy Owen.*

‘Ai byw Huwelyn Williams, person Aberffraw,’ meddai Gronwy Owen, Gorphenaf 25, 1767, yn ei lythyr o Brunswick, at Mr. Richard Morris,* ac ymddengys wrth ei ‘Salmau Cân,’† y bu fyw naw blynedd o leiaf ar ol hyny. Cyfansoddodd rhywun englyn Lladin i Gronwy Owen, y bardd, ac y mae cyfieithiad neu efelychiad o hono gan Mr. Williams, a dyma’r ddau :—

‘Gronovius Oenus Anax—Clerum—
 Clarus est et sagax ;
 Cupio sit magis capax—
 Splendescat et fiat fax.’

Y cyfieithiad—

‘Mab Owen, pen llên a’n llyw,—Goronwy,
 Gwr enwog, call ydyw ;
 Cynnydded, er dâed yw,
 Gwawried yn oleu gwiw-ryw.’

30. ‘The Depositions, Arguments and Judgment in the cause of the Church-Wardens of Trefdraeth, in the county of Anglesea, against Dr. Bowles ; adjudged by the Worshipful G. Hay, L.L.D. Dean of the Arches : instituted to remedy the grievance of preferring persons unacquainted with the British Language, to Livings in Wales. To which is prefixed, An address to the Bishops of Hereford, Bangor, St. David’s, Asaph, and Llandaff. Published by the Society of Cymmrodorion. Cwn mudion ydynt heb fedru cyfarth. Bugeiliaid ydynt ni fedrant ddeall. Essay, &c.

London : Printed for William Harris, N^r St Paul’s Churchyard. MDCCCLXXII.’

31. [‘Liber Miscellaneorum, Neu, Lyfr Amrywioldeb, yr hwn sydd yn ymadroddi ar laweroedd o destynau dieithr ac anghynefin heb fod erioed o’r blaen mewn Argraph-wasg, etto yn angenrheidiol o’u traddodi i’r Eglwys y dyddiau hyn.

Llanymddyfri : argraphwyd gan Dan Thomas 1773.’‡]

1774.

1. ‘Gwybodaeth ac Ymarfer o’r Grefydd Grist’nogol, Wedi ei gymhwyso at Ddealldwriaeth Pobl annysgedig : Neu Gynhygiad i Athrawiaethu’r Indiaid. Yr hwn a fydd dra gwasanaethgar i bawb oll a elwir yn Grist’nogion, ond ni ystyriasant hyd yn hyn mo Feddwl y Grefydd y maent yn broffesu : Neu y rhai sydd yn proffesu eu bod yn adnabod Duw, ond yn eu Gweithredoedd. yn ei wadu ef.

* *Gwyllyddydd*, 1833, t. 180.

† Gwel rhif 12, d.f. 1776.

‡ *Llythyr* Mr. J. R. K. Jones.

Mewn Ugain o Ymddiddanion neu Bennodau. At yr hyn y chwane-gir Hyfforddiadau a Gweddiau I Bobl ddi gred, I Athrawon, I Ddisgyblion, I Ddynion neillduol, I Deuluoedd, I Rien i dros eu Plant, ar Suliau, &c. Gan y gwir Barchedig Dâd yn Nuw, Thomas Wilson, D.D. Diweddar Arglwydd Esgob Sodor a Manaw. A gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r Nawfed Argraphiad yn Sais'neg, Gan Ddafydd Elis, Curad Derwen yn Swydd Ddinbych.

Llundain, Argraphwyd gan J. a W. Olfir, ym Martholomew-Clos, yn agos i West-Smithfield. 1774.' [12plyg.]

DAFYDD ELIS a anwyd yn Hafod y Meirch, ym mhlwyf Dolgellau, yn 1739. Dygwyd ef i fyny o dan ofal Mr. Edward Richard, o Ystrad Meurig. Urddwyd ef yn ddiakon yn Llanelwy, yn 1764, ac yn offeiriad ym Mangor, yn 1765. Y guradiaeth gyntaf a wasanaethodd ydoedd Llanberis, yn sir Gaernarfon; oddi yno aeth i Dderwen, yn sir Ddinbych; oddi yno i Amlwch, ym Mon; oddi yno cafodd bersoniaeth fechan Llanberis; ac yn 1790, cafodd bersoniaeth Criccerth, yn yr un sir. Bu farw Ebrill, 1795, yn 56 oed. Gadawodd amryw roddion yn ei ewyllys, ym mhlith pethau ereill, 200*p.* tuag at ysgol i dlodion Criccerth, Treflys, ac Ynys Cynhaiarn, tra fyddo dwfr yn rhedeg. Cydnabu ei ddiolchgarwch i Ystrad Meurig, trwy roddi Rowlands's 'Mona Antiqua' yn anrheg i'r ysgol hono; a gadawodd ei holl ysgriflyfrau barddonol i Mr. D. Thomas (*Dafydd Ddu Eryri*). Y mae cerfiad ar gareg ei fedd ym mynwent Criccerth, yn dywedyd am dano ei fod yn 'Ieithydd a Bardd godidog; diwyd yn ei alwedigaeth o Weinidog yr Efengyl; gweniaith a rhagrith oedd gas gan ei enaid; ac efe a'i ceryddai yn llym yn ereill.' Terfyna ei feddargraff â thri englyn gan ei gyfaill, D. Ddu Eryri.* Cyhoeddwyd y llyfr uchod o'i gyfieithiad ar draul y 'Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol,' a gwerthid ef am 1*s.* 9*c.* Y cyhoeddydd†—

JOHN RIVINGTON, a fu yn cynnal masnach gryn fawr, fel llyfrwerthydd, ym Mynwent St. Paul, Llundain, dros fwy na hanner can mlynedd, lle y bu farw Ionawr 16, 1792. Dilynwyd ef yn ei fasnach gan ei feibion, Francis a Charles Rivington. Bu farw Francis Rivington, Hydref 18, 1822, yn 77 oed, gan adael ei fab, John Rivington, yn feddiannydd y fasnach.‡ Bu y Rivingtons, yn feibion, wyrion, a neiaint, yn y fasnach tua chant a hanner o flynyddoedd, yn llyfrwerthwyr i'r Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth

* *Greal neu Eurgrawn Caernarfon*, Ion. 1800, t. 25.

† ['Llundain, argraphwyd gan J. Rivington,' yw yr argraffeb yn llawysgrif ein hawdwr: ond megys uchod y mae yr argraffeb a'r cyfan o'r wyneblen mewn cyfargraff sydd yn awr ger fy mron. Os cywir argraffeb ein hawdwr, rhaid bod rhai o'r cyfargraffion yn amrywio yn hyn o beth. Ond gan nad yw efe yn rhoddi y rhagddalen yn gyflawn, y mae lle i dybied nad oedd y gwaith o fewn cyrhaedd iddo pan yr ysgrifennai, ac mai mewn amryfusedd y dygwyd enw Rivington i mewn. Ymddengys mai rhif 15 dan y flywyddyn hon oedd gan yr awdwr o flaen ei feddwl.]

‡ *Timperley's Dictionary of Printers and Printing.*

Gristionogol, ac yn cael eu cefnogi gan yr esgobion a'r offeiriaid o'r egwyddorion a'r gwaedoliaeth uchaf.*

2. 'Llythyr Rysiart Dafies, D.D. Esgob Tŷ Ddewi, at y Cymry, Yr hwn Lythyr a 'sgrifennodd efe at ei Gyd-wladwyr, o flaen Cyfieithiad William Salsbri o'r Testament newydd, i'w hannog hwy i ddarllain a defnyddio Gair Duw. Y trydydd Argraffiad.†

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-Prior. M,DCC,LXXIV.'

Y Parch. Peter Williams a gyhoeddodd yr argraffiad hwn.

3. 'Cydymaith i'r Hwsmon, neu Lyfr yn cynnwys ynddo Fyfyrdodau ar bedwar Tymmor^{ny} flwyddyn, ac ar amryw achosion ereill; ynghyd ac amryw Ganiadau ac Englynion cymmwys i bob Myfyrdod, i adfywio'r gwaith, a dyfyru'r Darllenydd. Gan Hugh Jones gynt o Faesglaseu.

Llundain : Printiedig gan T. Davies, Heol St. Ioan, Maes y Gof. † Yn y flwyddyn MDCCCLXXIV.' 8plyg.

HUGH JONES a anwyd yn y Maesglasau, ger llaw Dinas Mawddwy, yn sir Feirionydd, tua'r fl. 1750. Cadw Ysgol Symmudol yn y cyffiniau, ar derfynau siroedd Meirionydd a Threfaldwyn, yr oedd Hugh Jones; a byddai hefyd yn gwerthu llyfrau yn y cymmydog-aethau lle y byddai, tros argraffwyr a llyfrwerthwyr y Mwythig. Gellir yn eithaf priodol ei alw yn llenor; canys bu o'i febyd i'w fedd yn ymdrafod â llyfrau. Bwriadai ei rieni unwaith ei ddwyn i fyny yn weinidog i'r Eglwys Sefydledig, fel y dygasent ei frawd, y diweddar Barch. D. Jones; ac anfonwyd yntau i ysgol barotoawl i'r dyben hyny: ond gan yr ystyriai ef hyny yn ormod o gaethiwed ar ei dueddfryd naturiol, efe a roes yr ymgais i fyny. Cynnygiwyd iddo lawer sefyllfa o elw lawer gwaith, ond gwrthodai bob amser bob cynnygiad o'r fath, fel y gallai fod yn rhyddach i ymwneyd â llenyddiaeth Gymreig, ac i beidio ag ymdrafod â therfysg y byd, i'r hyn yr oedd ganddo fawr wrthwynebiad. Yr oedd yn nyddiau ei ieuentyd yn dra hoff o brydyddu, a byddai yr holl gymmydog-aethau yn adseinio ei bennillion. Yr oedd yn meddu cryn lawer o chwaeth i gyfaddasu ei gyfansoddiadau i chwaeth yr oes, pan oedd y dull chwareuol yn boblogaidd yn y Dywysogaeth. Yr oedd hefyd

* [Y maent hyd heddyw yn dwyn yr unrhyw fasnach ym mlaen, ac y maent ym mhlith y mwyaf cyfrifol o gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr Llundain.]

† Gwel rhif 2, d.f. 1567; nid ydys wedi cael ond dau eto. [Ymddangosodd yr ail argraffiad yng nghysswllt â'r ail argraffiad o'r 'Ffydd Ddiffuant' yn 1671: gweler rhif 1, dan y flwyddyn hòno. Nid wyf yn meddwl iddo ymddangos ar ei ben ei hun erioed cyn y tro hwn; canys ymddengys mai yng nglŷn â Thestament Salsbri yn unig yr argraffwyd ef yn 1567, er bod ein hawdwr, ar awdurdod Moses Williams, wedi ei gofnodi wrtho ei hun megys rhif 2 dan y flwyddyn hòno.]

yn hyrwydd mewn cerddoriaeth eglwysig, neu 'salmyddiaeth. Ond y rhan fwyaf o'i lafur, fel y gwelir, a fu cyfieithu a chyhoeddi traethodau yn Gymraeg, yn benaf traethodau duwinyddol. Ond i goroni ei holl lafur, efe a gyfieithodd waith *Iosephus* i'r Gymraeg, a'r hwn a gyhoeddwyd. Efe hefyd a gyfieithodd gyfrol helaeth 8plyg o 'Feddyginiaethau Teuluaid' Buchan. Dechreuodd hefyd gyfieithu Esboniad helaeth y Parch. Matthew Henry, ac aeth mor bell a Lefiticus; ond o blegid maint y gwaith a'i oedran mawr yntau, bu gorfod iddo roi y gwaith heibio. Yr oedd ganddo hefyd mewn llaw gyfieithiad o'r 'Byd a Ddaw' gan y Dr. Watts, pan y rhoes angeu derfyn ar ei einioes, yn Ninbych, lle yr ydoedd fel darllenydd yn swyddfa argraffu Mr. Gee, yn 1825, yn 75 oed; a chladdwyd ef ym Mynwent yr Eglwys Wen, ger y dref hòno.*

4. 'Pererindod Ysprydol, o'r Aipht i Ganaan. Tan Rith Breuddwyd. O gasgliad y Pererin, allan o Waith Hunan-Ymholiad, yn Nyffryn Ystyriaeth.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros y Parch. Dafydd Jones, o Bont-y-Pwl, Gan Ioan Ross. M,DCC,LXXIV.' [12plyg: 96 tudalen.]

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad.†

5. 'Pregeth a bregethwyd yn Eglwys Plwyf Llangynyw, yn sîr Drefaldwyn, ar farwolaeth Mr. John Nightingale, ar ddydd Sul, Gorphenaf 10, 1774.

Mwythig.'

6. 'Cristianawgrwydd Catholic, neu Draethawd Byrr tuag at leihau rhif gwrthddadlau ym mhlith Crist'nogion; yn bur addas i'r dyddiau presennol, yn enwedig ymhlith y Plwyfolion hynny, lle i mae'r Methodistiaid, neu Hoffwyr Crefydd y Goleuni Newydd yn cael cynhwysiad. Gan Arch Esgob dysgedig.

Mwythig.'

7. 'Aurora Borealis; neu Y Goleuni yn y Gogledd, fel arwydd o Lwyddiant yr Efengyl yn y dyddiau diweddaf; Neu Shecinah'r Mil Blynnyddoedd: Mewn Dull o Lythyr oddi wrth Ermeneus y y Lladmerydd, at Agrupnus y Gwyllyedydd. Gan William Williams. Yr ail argraphiad.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr Awdwr gan E. Evans. 1774.'

8. 'Rheolau Bywyd Dynol a gyfieithwyd o Scrifen yr Indiaid, yr hwn a sgrifenyd gan un o'r Philosophyddion, sef y Braminiaid.

* *New Monthly Magazine*, vol. xviii. p. 40.

† Gwel rhif 1, d.f. 1758.

At yr hyn y rhagosodwyd Am y dull, a'r modd y dyallwyd ac yr amlygwyd y 'Sgrifen. O gyfieithiad Hugh ap Hugh. Wedi ei olygu a'i ddiwygio gan Wm. Griffith.

Dulun.'

9. 'Cennadwri a Thystiolaeth ddiweddaf Howel Harris, Yswaen. Gydag ychydig o ystyriaethau ysprydol, a bigwyd allan o wahanol fannau yn ei ddydd-lyfr, &c.

Trefecca.'

10. Addysg Ferr yng Ngwasanaeth Duw a Disgyblaeth Eglwysig y Testament Newydd, mewn ffordd o Holiadau ac Attebion; gydag Eglurhadau a Chadarnhad o'r cyfryw attebion.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior. 1774.'

['Eglurhad ar Drefn Eglwysig gynnulleidfäol ydyw, neu Annibyniaeth gymmedrol, o'r un golygiadau a'r Dr. Owen, Matthias Maurice, a'r Dr. George Lewis. Mae y llythyrenau 'J. G.' wrth y Rhagymadrodd, a thebyg yw mai y Parch. John Griffith oedd y cyfieithydd. Yn fuan ar ol hwn cyfieithodd 'Achosion Cydwybod' Pike a Hayward, a 'Dechreuad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid,' gan y Dr. Doddridge.*]

11. 'Ystyriaethau o anchwiliadwy olud Crist, a gwahoddiad i bawb i'w dderbyn a'i ddefnyddio, mewn Pregeth a gyhoeddir ar annogaeth y rhai a'i clywsant yn y cyfarfod o weinidogion yn Watford, gerllaw Caerffili, Awst, 10, 1774. At ba un y chwanegwyd dwy hymn, wedi eu troi o'r Sais'neg. Gan Solomon Harries.

Caerfyrddin, argraffwyd dros yr awdwr, gan J. Ross. 1774'.

SOLOMON HARRIES ydoedd weinidog yr Ymneillduwyr Henaduriaethol yn Abertawy, ac a gafodd ei addysg yn Athrofa yr Ymneillduwyr yng Nghaerfyrddin, dan y Parch. W. Evans.† Bu un flwyddyn yn athraw yr athrofa, yr hon oedd ac sydd yng Nghaerfyrddin, pan ei symmudwyd o Gaerfyrddin i Abertawy er mwyn ei gyfleusdra. Marwolaeth a luddiodd iddo barhau. 'Yr oedd yn foneddwr o ddysg a duwioldeb mawr, ac yn addurn i'r weinidogaeth Gristionogol. Bu farw yn Abertawy, Awst 15, 1788.‡

12. 'Crynodeb o Salmau Canu: Sef rhai Salmau Detholedig yn gyfan; a'r rhai mwyaf buddjöl, ac eglus eu hystyriaeth, o Salmau eraill, a chynnulliad o Adnodau perthynol i'w gilydd ar amryw Destynau; gyd â'r ystyr o honynt, yn fyr, o flaen pob Salm. Wedi

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† *Ysgrifau* yn Llyfrfa y Dr. Williams, yn Llundain.

‡ *Gentleman's Magazine*.

eu cymwyso i gymmorth a chyfarwyddo'r Cymry i ganu Mawli Dduw yn ddyallus, er mwy o Barch i'w Enw gogoneddus Ef, ac ychwaneg o felusder ac adeiladaeth i'w heneidjau eu hunain. Gan y Parchedig Mr. Griffith Jones, gynt Person Llanddowror yn sir Gaerfyrddin. Yr ail argraphiad.*

Llundain, Argraphwyd gan J. a W. Olfir, ym Martholomew-clòs, yn agos i West-Smithfield. MDCCLXXIV.'

13. 'Antinomiaeth, Bwbach y Rhan ffurfiol o'r Eglwys Grist'nogol, (Ar ol ei hela trwy holl Wledydd Cred) wedi ei ddal; a ffeindio allan ei fod yn gynhwysedig yn fwy mewn Ymarferion nâ Phyngeiau; mewn Proffes wag, ac Ymarweddiad penrydd, nag unrhyw Set o Egwyddorion; ac felly wedi ei eni a'i fagu yn y Llwyth uchod—Ym Mywyd y Parchedig Mr. John Hart, Gweinidog yr Efengyl gynt yn Llundain: yr hwn ar ol Adnabyddiaeth o'r Arglwydd, a syrthiodd ymaith i Fywyd rhydd, ond a adferwyd drachefn i Gymmundeb â Duw: ac yn ddiweddar a hunodd yn yr Arglwydd. Wedi ei 'sgrifennu yn Sais'naeg a'i Law ei hun, yn Rhagymadrodd ei Lyfr Hymnau. At ba un y 'chwanegwyd Rhai Hymnau ar Fesur newydd. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd dros y Parchedig Mr. W. Williams, gan E. Evans. M,DCC,LXXIV.' [12plyg: 24 tudalen.]

14. 'Hanes byr o Fywyd dychlinaidd, a dedwydd Farwolaeth Morgan Nathan, yn Llandeilo-fawr, yn sir Gaerfyrddin.'

'M. R.' (=Morgan Rhys) ydoedd yr awdwr, ac ar ganiad y mae.

15. 'Llaw-lyfr o Weddiau ar Achosion Cyffredin; Sef, y Bore a'r Prydnawn, O flaen ac ar ol y Sacrament Sanctaidd, Yn Amser Clefyd, &c. Gan James Merrick, M.A. Diweddar Gyfaill o Goleg y Drindod yn Rhydychen. Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan David Ellis, Curad Derwen yn sir Ddinbych.

Llundain: argraphwyd i J. Rivington, Gwerthwr Llyfrau i'r Gymdeithas er cynhyrchu Gwybodaeth Cristianogol, ym Mynwent St Paul (No. 62.) M DCC LXXIV. [Pris dwy Geiniog, neu 14 Swllt y cant.]' [12plyg: 24 tudalen.]

[Ymddangosodd hwn o flaen rhif 1, ond o fewn yr un flwyddyn. Yr awdwr,

JAMES MERRICK, A.C., a aned yn Reading, swydd Berc, yn 1720; derbyniodd ei ddysg ym Mhrifysgol Rhydychain; a bu farw yn 1769. Ei brif weithiau yw—'Poems on Sacred Subjects;' 'Annotations on the Psalms;' 'Annotations on the Gospel of St. John;' 'A Metrical Version of the Psalms;' yng nghyd â chyfieithiad o Tryphiodorus, prydydd Groeg o'r bummed ganrif. Dyfynir Merrick ar y Salmau yn fynych yng 'Ngeiriadur Ysgrhythrol' Charles.]

* Gwel rhif 6, d.f. 1743.

16. 'Trydydd Llythyr hen Bechadur, at ei gyd-frodyr, &c. Gan Ellis Roberts, o Landdoged, yn sir Ddimbech. At yr hyn y chwanegwyd byrr a chywir Hanes am Ann Williams, gwraig feichiog o dref Caerlleon, yn sir Fynwe, yr hon a aeth ar astyllen gyd a'r afon 12 milldir, a thrwy Ragluniaeth yr Arglwydd a ddaeth i dir sych, megys y daeth Jona gynt.

Aberhonddu; argraphwyd gan E. Evans, tros Peter Morris. 1774.'

Am hanes helaeth a manwl am yr amgylchiad uchod, gellir ei weled yn yr awdwr sydd wedi ysgrifenu ar sir Fynwy.* Yr awdwr—

ELLIS ROBERTS='Elis y Cowper,' oedd yn greadur hynod yn ei ddydd, cymmysgedig o annuwioldeb a chrefydd, y tu hwnt i'r cyffredin o feirdd yr oes. Er ei fod yn ymyraeth llawer â'r Awen, prin, er hyny, yr oedd hi a'i chyfeillion yn ei gydnabod. Y mae ar gael 'Englynion i Ellis Roberts y Cowper; Sef, Atteb, annerch a chyngor y Bardd Coch o Fon,† i Elisa Gowper, Pastynfardd, Llanrwst, yn cynnwys athrawiaeth arbennig i ganu'n dincerddawl gymmeradwy, yn ol rheol ac arfer y Gofeirdd godidocaf o'r oes; ynghyd â thafien o enwau yr holl drece, cêr, offer, a pheiriannau angenrheidiol i'r Gelfyddyd, na cheir mo'r fath mewn un Gramadeg a argraffwyd erioed.‡ Gogan ydyw i waith bongler-aidd Ellis, yn ceisio barddoni, ac yn enwi y pethau angenrheidiol, yn ol offer celfyddyd y cwperiaid neu gylchwyr. Dywedir 'mai creadur hirfain, teneu, gwargam, â garau crychydd iddo, ydoedd ef. Yr oedd y Cowper yn hynod o annuwiol, er ei fod weithiau yn canu ac yn ysgrifenu llythyrau a phregethau difrifol.§ Claddwyd ef yn Llanddoged, ger Llanrwst, Tachwedd 4, 1787.

17. 'The History of Wales. Written originally in British, by Caradoc of Lhancarvan, Englished by Dr. Powell, and augmented by W. Wynne, Fellow of Jesus College, Oxon. To which is added, A Description of Wales, By Sir John Price. A new Edition, greatly improved and enlarged, with Pedigrees of Families.

London: printed for T. Evans, at No. 50, in the Strand, near York Buildings. MDCCLXXIV.' [8vo.]

* Coxe's *History of Monmouthshire; a Manby's Historic and Picturesque Guide from Crofton, through the Counties of Monmouth, &c.* [Gellir gweld crynodeb o'r un hanes yn Gymraeg yn y *Cylchgrawn* (1834), i. 12.]

† Hugh ab Hugh, neu Hugh Hughes; gwel rhif 1, d.f. 1763.

‡ *Diddanwch Teuluaid*, ail arg. t. 124. [Gwaith Gronwy Owain yw yr englynion hyn, a cheir hwynt yn y *Gronoviana*, t. 114.]

§ *Ysgrif y Parch. R. Ellis.*

Yr oedd hwn y pummed argraffiad.* Am y cyhoeddydd—

THOMAS EVANS, aeth i Lundain yn dlawd, a chafodd le fel cludydd i lyfrwerthydd, a daeth ym mlaen trwy ei ddiwydrwydd, nes dyfod yn un o'r masnachwyr helaethaf yn Paternoster Row. Yr oedd yn Gymro o sir Faesyfed, ac yn ewythr i T. Evans a fu farw yn ddiweddar. Bu farw yn dra chyfoethog, Gorphenaf 2, 1803. Dymunodd yn ei ewyllys, fod iddo gael ei gladdu heb nac arch nac amdo, ac na byddai i'r draul fod yn fwy na deugain swllt.

18. 'Marwnad, er Coffadwriaeth am Hugh Williams, o Gornwal, ym mhlwyf Llanfigen, yn sir Frecheiniog, yr hwn a ymadawodd á'r byd hwn, y ddeufed dydd ar hugain o Fawrth, yn y flwyddyn 1774. Gan William Williams.

Aberhonddu, argraphwyd gan E. Evans, lle y gellir cael argraphu pob math o gopiau am bris rhesymol, a chael ar werth amryw lyfrau Cymraeg a Saisnaeg, &c. M, DCC, LXXIV.'

19. 'Cyfarwyddwr ffyddlon at Orseddfainge y Gras: sef, ffurf o Weddïau i'w harfer mewn Teuluoedd foreu a hwyr, &c. Gan Weinidog Annheilwng o Eglwys Loegr. Yr ail argraphiad.†

Llundain, Argraphwyd gan J. a W. Olfir, ym Martholomew-Clôs, yn agos i West-Smithfield. M DCC LXXIV.' [12plyg.]

20. 'Aleluia, neu Hymnau perthynol i Addoliad cyhoeddus. Gan Benjamin Francis.

Caerfyrddin: argraffwyd dros yr awdwr gan J. Ross. 1774.'

BENJAMIN FRANCIS ydoedd fab i'r Parch. Enoch Francis, † gweinidog y Bedyddwyr, ac a anwyd ym Mhencelli, ger Castell Newydd yn Emlyn, yn 1734. Bedyddiwyd ef yn 1749, yn 15 oed, a dechreuodd bregethu yn 19 oed. Cafodd ei ddysgeidiaeth dan ofal Mr. Fosket a Mr. Evans, yn Athrofa yr enwad ym Mristol. Bu ar brawf fel gweinidog ym Mristol, ac yn Sodbury; ond ni sefydlodd hyd y fl. 1757, pryd yr aeth i Horsley, yn sir Gaerloew, lle yr ordeiniwyd ef yn 1758, a lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. ‡

21. 'Gweledigaethu y Bardd Cwsc. Y Rhann Gyntaf.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford L'rÿs, Gwerthwr Llyfrau. M D CC LXXIV.' 32plyg. [24plyg.]

Yr oedd hwn y pummed argraffiad.§

* Gwel rhif 1, d.f. 1584; rhif 1, d.f. 1663; rhif 1, d.f. 1697; a rhif 4, d.f. 1702; a hwn yma.

† Gwel rhif 2, d.f. 1727; a rhif 3, d.f. 1733.

‡ *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas, t. 249, 296, 387.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1703; rhif 6, d.f. 1720; rhif 14, d.f. 1767; rhif 14, d.f. 1768; a hwn yma.

[Y mae pob tudalen o'r argraffiad hwn yn cyfateb i dudalennau yr argraffiad cyntaf; ac y mae camargraffion hwnw wedi eu hadnewyddu gan mwyaf oll yn yr argraffiad hwn. Hwn ydoedd y *chweched* argraffiad; a'r olaf, hyd yr wyf yn gwybod, yng nghorff y 18fed ganrif. Y mae o leiaf *bymtheg* argraffiad wedi bod o'r 'Bardd Cwsg' er pan yr ymddangosodd gyntaf yn 1703 hyd y pryd hwn (1868). Y nesaf at hwn yma yw argraffiad Merthyr Tydfil yn 1806.]

22. 'Y Catecism Byrraf. A gyflwynwyd gan Gymmanfa o Ddifynyddion yn Westminster, i'r Ddau Dŷ o Barlament, a chwedi ei Gymmeradwyo ganddynt. Yn cynnwys Egwyddorion y Grefydd Grist'nogol; Ynghyd a Phrofiadau Ysgrythyrol.

Aberhonddu, argraffwyd gan E. Evans, yn y flwyddyn M,DCC,LXXIV.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad o leiaf.*

23. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y flwyddyn 1774.

Caerfyrddin, argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior. 1774.'

24. 'Eight Sermons upon Practical Subjects, preached at the New Church in Llangeitho, South Wales: by the Rev. Mr. Daniel Rowland: and now Attempted to be Translated from the Original or British Language. The Second Edition.

London: Printed to the Editor Thos. Davies, near Haverfordwest, South Wales; Price Two Shillings. 1774.'

Cyhoeddwyd hwy gan 'T. Davies, Hwlfordd,' yr hwn oedd yn un o'r cynghorwyr Methodistaidd. Y cyfieithydd ydoedd y Parch. John Davies, periglor Sharncliffe, yn sir Wilts, a'chynt o Rydych-ain. Yr oedd yr enwau a gafwyd fel rhagdalwyr, yn cymmeryd 2751 o lyfrau. Cymmerodd D. West, Ysw., Smithfield, Llundain, 200; y Parch. W. Romaine, 100; David Jones, Ysw., sirydd Morganwg, 100. Ym mhlith y tanysgrifwyr y mae y Parch. N. Rowlands, am 10, a'r Parch. P. Williams, am 15. Y mae 'Sarah Jones, Bala' (wedi hyny, Mrs. Charles) yn eu plith. Dywedir y gwerthwyd tuag 8000 o'r argraffiad Cymreig.†

25. 'Lyfr Gweddi Gyffredin.

Argraffwyd yn y Mwythig, gan Stafford Prys. 1774.'

26. 'Tirion Wahoddiad i bob Pechadur ddyfod at Iesu Grist. Gan Thomas Jones.'

Pregeth ydyw ar *Mat.* xi. 28.

Yr oedd yr awdwr, y Parch. THOMAS JONES, yn byw yn y Maes [ger Pencareg,] yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn foneddwr neillduol barchus gan ei genedl, o blegid amrywiol ragoniaethau, fel

* Gwel rhif 7, d.f. 1758.

† Gwel rhif 2 a 3, d.f. 1772.

Cristion a gweinidog. Cyhoeddodd amrai bregethau, a rhai marwnadau Cymreig. Bu farw yn Peckham, Surrey, Hydref 4, 1819, yn 60 oed.*

27. ¶ 'Diary of a Journey through North Wales in 1774. By Samuel Johnson.'

28. 'Duwiol Goffadwriaethau: Neu Fyrr a Chywir Hanes am Amryw o Ddifnyddion dysgedig, o wahanol Farnau, Pa rai a ddiodeffasant Ferthyrdod er mwyn yr Efengyl, ar Amryw Amserau yn yr Oesoedd a aethant heibio. Wedi eu casglu oddiwrth lawer o Awdwyr yr hên Oesoedd, a'r Oes ddiweddar hefyd. Ynghyd a'r Pethau mwyaf hynod yn eu Bywydau, eu Hymarweddiadau, a'u Dioddefiadau. Wedi eu cyfieithu i'r Cymraeg, gan Thomas Jones. Ac na bu argraffedig erioed o'r blaen yn yr Iaith hon.

Caerfyrddin, argraffwyd dros yr Awdwr gan I. Ross, yn Heol y Prior. 1774.' 270 o dudalenau 12plyg.

29. 'Welch Piety: or a farther Account of the Circulating Welch Charity Schools from Michaelmas 1773, to Michaelmas, 1774, being Testimonials relating to the Masters and Scholars of the said Schools. Together with a List, shewing where each School was kept, and the Number of Scholars Taught therein.

London: Printed by J. and W. Oliver, in Bartholomew-close. M,DCC,LXXIV.'

30. 'Cyngor o Addysg i Ddynion Iefainge o Flaen Conffirmasiwn.

Llundain: A argraphwyd i J. Rivington, Gwerthwr Llyfrau i'r Gymdeithas er cynnyrchu Gwybodaeth Cristianogol, ym Monwent St. Paul, N^o 62. MDCCCLXXIV.'

31. 'Byr fynegau o feddyliau Ymneillduwyr am Natur Eglwys Efangylaidd; ynghyd a rhai Rhesymmau am eu Hymneillduad oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, Ac a elwir yn gyffredin Eglwys Loegr. Mewn ffordd o Holiadau ac Attebion. Gan Ymneillduwr.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-y-Prior. 1774.'

32. 'Calendars of the Ancient Charters and of the Welch and Scottish Rolls, now Remaining in the Tower of London: Also Calendars of all the Treaties of Peace entered into by the Kings of England with those of Scotland; and of Sundry Letters and public Instruments relating to that Kingdom, now in the Chapter-house at Westminster. Together with Catalogues of the Records brought to Berwick from the Royal Treasury at

* *Cambro-Briton*, vol. i. p. 160.

Edinburgh: of Such as were transmitted to the Exchequer at Westminster, and of those which were removed to different Parts of Scotland by Order of King Edward I. The Proceedings relating to the carrying back the Records of Scotland into that Kingdom; and the Transactions of the Parliament therefrom the 15th of May 1639, to the 8th of March 1650. To which are added Memoranda concerning the Affairs of Ireland, extracted from the Tower Records. With Four Copper Plates, exhibiting all the various Hands in which the several Charters have been written, from the Reign of King William the Conqueror to that of Queen Elizabeth. To the Whole is prefixed an Introduction, giving some Account of the State of the Public Records from the Conquest to the present Time. By Sir Joseph Ayloffe, Bart. V.P. A.S. and F.R.S.

London: Printed for Benjamin White, at Horace's Head, in Fleet Street. MDCCLXXIV.'

33. 'Can Dduwiol, i annog Dynion i Gariad ac Elusengarwch, Yn y Dyddiau oeraidd hyn. At yr hyn y 'chwanegwyd Can arall yn cynnwys, Holiad Dyn dall genedigol yng nghylch yr Haul, a'r Goleuni.'

Aberhonddu, Argraffwyd gan E. Evans, tros Philip Powel, Clochydd Llangynidr, yn y Flwyddyn 1774.'

34. 'Taith y Pererin. Gan Thomas Dafydd, o Sir Gaerfyrddin.'

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans. Lle y gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau am Brîs rhesymmol. 1774.'

35. ¶ 'Y Frwydr Ysrydol: mewn Casgliad o Hymnau Newydd, ar amryw Fesurau. Gan Morgan Rhys, a Thomas Dafydd.'

36. ¶ 'Griddfannau'r Credadyn am Berffeithrwydd ac Anllygredigaeth; ar Fesur newydd. Gan Morgan Rhys.'

['Llyfryn o 12 tudalen, heb enw argraffydd, lle, nac amseriad iddo. Tebygol mai tua'r fl. 1773 ydoedd, ac mai John Ross oedd yr argraffydd, gan fod ail argraffiad Hymnau yr awdwr wedi ei ddwyn allan ganddo ef yn y fl. hon.'*]

37. 'A Political Survey of Britain, being a series of Reflections on the Situation, Lands, Inhabitants, Revenues, Colonies, and Commerce of this Island, intended to show that we have not as yet approached near the summit of improvement, but that it will afford employment to many generations before they push to the utmost extent the natural advantages of Great Britain. By John Campbell, L.L.D. In two volumes.'

* *Llythyr* Mr. Morris Davies. Y mae rhif 36 a 35, o ran maint ac argraffwaith, yn hollol yr un fath â'u gilydd, ac â rhif 15, d.f. 1770; diau mai cynnyrch yr un wasg ydynt, a thebygol mai yn 1770 y cyhoeddwyd y tri.]

London, printed for the Author. 1770.' [4to.]

[Yr awdwr, y Dr. JOHN CAMPBELL, ydoedd ysgrifenydd Ysgotig diwyd a galluog. Ganed ef yn Edinurgh, Mawrth 8, 1708. Pan yn bum mlwydd oed gadawodd Ysgotland, ac ni ddychwelodd iddi mwy. Ysgrifennodd lawer iawn mewn gwahanol gangenau o lenoriaeth, heb law y gwaith a gofnodir yma. Yn 1754 anrhegwyd ef â gradd Doethor Cyfreithiau gan Brifysgol Glasgou. Bu farw yn Llundain, Rhag. 28, 1775.]

38. 'Pregeth. A bregethwyd yn Eglwys Plwyf Llangynew, Yn Sir Drefaldwyn : Ar Farwolaeth Mr. Joan Nightingale, Ar Ddydd Sŵl Gorphenaf 10, 1774. Gan y Parchedig William Jones, B.A. Diweddar Giwrate Baschurch, yn Sir y Mwythig, ac yrwan yn Llangynew.

Argraphwyd (dros yr Awdwr) gan T. Wood; yn y Mwythig, ag a werthyr gan G. Robinson, yn Lyndain, D. Salmon yn y Trallwyn, a chan pob Gwerthwr Llyfreu mewn Tref a Gwlad. [Pris Chwe cheiniog.]'

39. 'The last Message and dying Testimony of Howell Harris, Esqr; late of Trevecka in Wales. Found among some of his Papers.

Trevecka, Printed 1774.'

40. ¶ 'Two very Interesting and Full Papers relating to the Property of Sir William Morgan, of Tredegar, and Old John Morgan, of the same Ancient Mansion in the Co. of Monmouth.'

Yr oedd Syr William Morgan wed priodi merch y Dug Dyfnaint, ac yr oedd ei holl etifeddiaethau helaeth wedi eu cymmysgu a'u gwahanu. Y mae y papyrau hyn yn traethu pa fodd y rhanwyd hwy ac argraffwyd hwynt yn anghyhoedd yn 1774.

41. 'A Dramatic Poem. By W. Mason.'

Cynnwysa 116 tudalen. Yr olygfa yw Ynys Mon. Y mae yn perthynu i Caractacus, brenin y Deheubarth, a'i orchfygiad gan *Ostorius*, yr hwn a enciliodd gyda'i unig ferch i blith y Derwyddon i Fon. Cynnwys lawer o sothach hynod am y Beirdd Cymreig a'r Derwyddon.

42. ['Catecism Byrr a Buddiol. Yr ail waith yn argraffedig.

Aberhonddu, argraffwyd dros y Parchedig Morgan Jones, y Parchedig Mr. Thomas Lewis, Rees Pritchard, Thomas Watcin, ac Evan Morgan, gan E. Evans. M.DCC.LXXIV.'

'Llyfryn o 48 tudalen ydyw, yn cynnwys rhagymadrodd, a rhai nodiadau lled helaeth ar waelod y ddalen ar rai pynciau pwysig o athrawiaeth. Calfaidd yw ei gynnwysiad, a thebygol mai Annibynwyr oedd y cyhoeddwr.*]

* *Llythyr* Mr. M. Davies.

1775.

1. 'Tair Pregeth ar y Testunau canlynol: Luc xv. 5; Ioan v. 6; Sal. lxxv. 5. A bregethwyd yn ddiweddar gan y Parchedig Daniel Rowland, Gweinidog yr Efengyl yn Llangeitho; a Caplain i'r Duke o Leinster. Gloria mea Christus.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, tros Thos. Davies o sir Benfro. 1775. [Pris chwe' cheiniog.]' [12plyg.]

Dywedir fod y pregethau hyn, ac ereill o waith Mr. Rowlands, ar werth gan Mr. John Evans, o'r Bala; Mr. David Williams, Tre castell; Mr. Bethuel Griffiths, Castell Nedd; a Thomas Davies, ger llaw Hwlfordd.

2. 'Golwg Ferr ar yr Hanes ysgrythurol oll; Gyda Hanes yr Eglwys Iuddewig o ddiwedd yr Hen Destament hyd at Grist. A'r Prophwydoliaethau pennaf perthynol iddo: Wedi ei hegluro'n ddigonol mewn Ffordd o Holiad ac Atteb. Y Nghyd ag Amryw Nodau ar Hanes a Chrefydd y Patriarchiaid, yr Iuddewon a'r Crist'nogion, ac ar Ddeddfau, Llywodraeth, Sectau, Defodau a' Sgrifeniadau yr Iuddewon. Gan I. Watts, D.D. A gyfieithwyd i'r Gymraeg, Gan y Parchedig E. Griffiths. At yr hon y chwanegwyd Llechres o'r Amseroedd yr ysgrifenydwyd Llyfrau yr Ysgrythur, a'r Pethau hynottaf o Ddechreuad y Byd hyd Ddinystir Jerusalem. Allan o Waith yr Enwog O stervald.

Caerfyrddin, Argraffwyd ac ar werth gan Ioan Ross. MDCCLXXV.'

EVAN GRIFFITHS ydoedd weinidog yr Ymneillduwyr yng Nghapel Seion, ym mhlwyf Llanddarog, yn sir Gaerfyrddin, lle yr ordeiniwyd ef yn 1752. Armiad y dywedid ei fod o barth ei olygiadau athrawiaethol, er y mynai rhai ei gyhuddo o Undodiaeth; ond credir nad oedd sail i'r cyhuddiadau hyny. Bu yno yn weinidog llwyddiannus hyd ei farwolaeth, ysbaid hanner can mlynedd; felly dechreuodd weinidogaethu yno pan oedd ond 17 oed. Bu farw Ionawr 25, 1802, yn 77 oed.*

3. 'Y Fodrwy Briodas yn gymmwys i'r Bys, Sef Pregeth a gyhoeddwyd mewn Priodas yn St. Edmunds, yn Llundain, ger bron y Brenhinol deulu. Gan y Parch. W. Seccer, M.A. Wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg er Lleshad cyffredinol.

Argraffwyd yn Aberhonddu, gan E. Evans, yn y Flwyddyn 1775.'

Cyhoeddwyd yr uchod ddwy waith o leiaf yn y ganrif hon hefyd. Yr awdwr—

* *Hanes Ymneillduwyr*, Morgan, t. 484; *Llythyr y Parch. W. Thomas*, Bwlch Newydd.

WILLIAM SECKER, oedd yn pregethu yn Eglwys All-Hallows, Llundain, yn amser Cromwel. Ef allai ei fod wedi marw cyn yr Adferiad, gan nad yw yn cael ei enwi ym mhlith y rhai a drowyd allan; neu ef allai iddo gydymffurfio. Yr oedd ei ddull yn hollol Buritanaidd. Y mae llyfr bychan arall o'i waith yn Seisoneg, a elwir *Non-Such Professor*, yn cael ei gyfrif yn dra phoblogaidd.

4. 'Cofiadur Prydlon Lloegr: neu Rybuddion o'r Nefoedd, sef Hanes Mr. Richard Brightley, &c. A gyfieithwyd gan Mr. E. Ellis, Gweinidog Eglwys Rhos, &c.

Mwythig.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, tybygid.* Eglwys Rhos, yw Llandrillo yn Rhos, ger Conwy, ar derfynau siroedd Caernarfon a Dinbych.†

5. 'Hanes Bywyd a Marwolaeth Matthew Lee, yr hwn a grogwyd yn Nheibryn, yn yr ugeinfed flwyddyn o'i oedran. Gwedi ei gyfieithu o'r Saesonaeg er bûdd i'r Cymry.

Trefecca, Argraffwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXV.'

6. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y flwyddyn 1775.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol y Prior. 1775.'

7. 'Esponiad ar Ddammeg y Pharisead a'r Publican, &c. Gan y Parchedig Mr. John Bunyan.

Caerfyrddin, Argraffwyd ac ar werth gan Ioan Ross. M,DCC,LXXV.'

8. 'Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd. Yn cynnwys, I. Hanes Ferr am yr Anghydfurfwyr. II. Rhesymmau am yr Ymneillduad oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Gwedi ei fwriadu i addysgu a chadarnhau Pobl Ieuaingc ymhlith yr Ymneillduwyr yn Egwyddorion Anghydfurfiad. O waith y Parchedig S. Palmer. A gyfieithwyd allan o'r Trydydd Argraffiad.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros y Cyfieithydd gan Joan Ross. M,DCC,LXXV.'

Dywedir, yn gydiol â'r rhagymadrodd, fod 'cyfeillion haelionus yn Llundain wedi cyfranu swm mawr tuag at ei draul, yr hwn sydd yn cael ei werthu mor isel ag 16s. y cant, fel y gallo y tlotaf ei brynu.' Yr awdwr—

SAMUEL PALMER, a anwyd yn Bedford, lle yr oedd ei dad yn fasnachwr. Bwriadai ei dad iddo fod yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig, o'r hon yr oedd efe yn aelod dichlynaidd; ond efe a ddilynodd egwyddorion ei fam, yr hon oedd yn un o'r Ymneillduwyr; ac yn eu plith hwy y gorphenodd ei ddysg a ddechreuasid yn yr

* Gwel rhif 8, d.f. 1761.

† Gwel hefyd rhif 7, d.f. 1750.

Ysgol Ramadegol Eglwysig yn Bedford. Yn 1762, efe a ymsefydlodd yn weinidog yn Hackney. Ysgrifennodd gryn llawer yn ei oes, o ba rai y mae llawer ar yr ochr Ariaidd i'r ddadl ar y Drindod. Bu farw yn 1801, yn 70 oed.*

9. 'Llythyr Difrifol, yng nghyd a Gair i Bechadur; ynghylch cyflwr ei enaid, &c.

Trefecca : argraffwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXV.'

10. 'A Check to Enthusiasm, or an Answer to John Philadelphus.

London, 1775.'

Yn erbyn y neidio crefyddol Cymreig y mae y llyfr uchod, yn ateb i lyfr Seisonaeg yn amddiffyn hyny.

11. 'Y Catecism; Hyny yw Athrawiaeth i'w dysgu gan bob un cyn ei ddwyn i'w Gonfirmio gan yr Esgob, &c.

Llundain.'

12. 'Golwg o Ben Nebo ar Wlad yr Addewid; mewn Casgliad o Bigion o Hymnau am Gwypm Dyn yn yr Adda Cyntaf, a'i Gyfodiad yn yr Ail Adda. Wedi eu trefnu a'u diwygiu allan or Ail Argraphiad; ynghyd a rhai Caniadau Newyddion, na buont argraphedig o'r blaen. Gan Morgann Rhys.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-Prior. 1775.'

Gan hyny yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.†

13. 'Patrwm y Gwir Gristion, neu Ddilyniad Iesu Grist. Gan Thomas à Kempis. Gwedi ei gyfieithu i'r Cymraeg er ystalm o amser yn ôl Editiwn yr Awdwr. Gan H. O. Gwennydeg ym Môn, Esq;

Argraffwyd yn Ngwrexham, gan R. Marsh.' 12plyg.

Ymddengys fod hwn yn chweched argraffiad;‡ a'r olaf yn y ganrif hon. Cyhoeddwyd argraffiad tlws iawn o hono, rai blynyddau yn ol, gan D. Humphreys, yn Llanfair Caereinion, wedi ei gyfieithu gan R. Jones (*Bardd Mawddach*), o dalfyriad Seisonig y Parch. J. Wesley.§

* *Congregational Magazine.*

† Gwel rhif 12, d.f. 1764; a rhif 16, d.f. 1773; a hwn yma. [Yr oedd argraffiad y fl. 1764 yn *ail* argraffiad; ac os nid yr un yw hwn yma â rhif 16, d.f. 1773, rhaid bod hwn yn 4ydd argraffiad.]

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1679; rhif 5, d.f. 1684; rhif 4, d.f. 1723; rhif 3, d.f. 1737; rhif 2, d.f. 1744; a hwn yma.

§ [Ymddangosodd argraffiad yn ddiweddar o hono, neu o dalfyriad o hono, ym Mhent y Pridd. Cyfieithwyd y gwaith hefyd yn lled agos o newydd gan y diweddar Hybarch John Jones, B.D., Archiagon Bangor, ychydig cyn ei farwolaeth, ond ni chafodd hyd yn hyn ei argraffu.]

14. 'Gwaedd-ddeffro i fyd cysgadlyd, mewn dwy Bregeth, wedi eu cyfiaithu o'r Saesonaeg, er budd i'r Cymru. Ynghyd a Llythyr difrifol at Bechadur yng nghylch cyflwr ei Enaid.

Trefecca : Argraffwyd, 1775.

* * * Nid yw'r Llyfran hwn ar werth, ond Rhodd Ewyllysiwr da i Grefydd i'w Gydwladyr.'

Pregethau y Parch. Charles Wesley ydynt. Y mae un o honynt yn ail argraffiad.* Y mae 'W. A.' wrth y 'Llythyr' sydd yn gydiol, yr hwn hefyd a daenid wrtho ei hun.† Wrth y Llythyr yn Seisonaeg, y mae 'W. Adams. London, April 21, 1740.' Ymddengys mai gweinidog mewn cyssylltiad â'r Parch. G. Whitfield a'r Arglwyddes Huntingdon ydoedd. Bu trwy Gymru ar ei daith i'r Iwerddon, yn 1752,‡ ac y mae yn debyg mai efe ei hun a fynodd gyhoeddi ei Lythyr yn Gymraeg, a'i argraffu yn Nhrefecca, i'w *anrhegu*, ac nid i'w werthu, fel ag yr oedd yn Seisonaeg.

15. 'Yr Act am Bwysu Aur, a osodwyd allan mewn Trefn Ysprydol, mewn Dull o Ymddiddan ; ac a fwriadwyd er mwyn Budd i bob un ag sydd â dim gantho i wneuthur ag Arian ; ac er Lleshad i'r cyfryw nad y'nt yn ewyllysio i'w twyllo yn y pethau mwyaf pwysfawr. Ym mha un yr amlygir y Drefn oreu i adnabod pob Twyll, ac i brofi a sicrhau Pris cywir a chyfreithlon Arian. Gan T. C.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-y-Prior. 1775.' [12plyg : t. 36.]

Y mae y rhagymadrodd§ wedi ei arwyddo gan

ROWLAND HILL, yr hwn, mae yn ddiau, ydoedd yr awdwr, yr hwn oedd fab ieuangaf Syr Richard Hill, Barwnig, o Hawkston, yn sir y Mwythig, a lle y ganed ef Awst 9, 1744. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg Eton, a Choleg St. Ioan, Caergrawnt, lle y cyrhaeddodd ei A.C. gydag anrhydedd. Deffrowyd ei feddwl i ystyriaethau crefyddol trwy i'w frawd hynaf, Richard (wedi hyny Syr Richard) Hill,|| ddarllen un o bregethau yr Esgob Beveridge. Pan oedd yn y brifysgol, daeth yn gyfeillgar â'r Parch. C. Simeon, yr hwn oedd y pryd hyny yn weinidog eglwysig efengylaidd yng Nghaergrawnt, ac â Mr. Robinson, gweinidog poblogaidd perthynol i'r Bedyddwyr yn y ddinas hōno ; a dechreuodd lafurio ym mhob man y caffai, gan bregethu neu gynghori mewn capelau, carcharau, ac annedd-dai, yr hyn a dynodd

* Gwel rhif 3, d.f. 1751.

† Gwel rhif 9, uchod.

‡ *Evangelical Register*, 1835, pp. 309, &c.

§ [Nid y Rhagymadrodd, ond y Llythyr 'at y Darllenydd,' sydd wedi ei danysgrifio gan Rowland Hill. Y cyfieithydd sydd wedi ysgrifenu y Rhagymadrodd. Os R. Hill ydyw yr awdwr, nid annaturiol gofyn pa ham y dywedir ar ei gynddalen—'gan T. C.,' fel pe gwaith T. C. a fyddai?]

|| Gwel rhif 2, d.f. 1769.

arno wg ei uchafiaid yn yr Eglwys, o blegid yr hyn a ystyrid yn afreol-aeth, fel y cafodd chwech eu gwrthod, cyn cael derbyniad i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig. O'r diwedd darfu i esgob Bath a Wells roddi iddo urdd diacon, ond nacaodd archesgob Iorc roddi iddo ei urdd offeiriad, neu ei gyflawn urddau. Bu hyn yn achlysur iddo fyned yn fwy Methodistaidd, a dechreu gweinidogaethu ym mhob lle y caffai. Yn 1783, efe a ddechreuodd adeiladu Capel Surrey, yr hwn a agorwyd yn 1784; ac yno y bu yn gweinidogaethu ar hyd ei oes faith; gan ystyried ei hun bob amser fel gweinidog Eglwys Loegr, lle y darllenid y Litani; ond derbynai Ymneillduwyr i'w bulpud. Ysgrifennodd amryw ddarnau; ond ei waith mwyaf poblogaidd yw ei 'Village Dialogues,' rhan o ba rai a gyhoeddwyd yn Gymraeg rai blynyddoedd yn ol, o dan yr enw 'Y Pentref mewn Terfysg.*' Bu farw Ebrill 14, 1833, yn 89 oed.† Wrth y 'T. C.' y deallir neb llai na'r

Parch. THOMAS CHARLES; a dyma y waith gyntaf i gyfarfod â'r enw, yr hyn oedd pan oedd yn ddyd ieuanc ugain oed, y flwyddyn yr aeth i'r Brifysgol. Mab ydoedd i amaethwr ym mhlwyf Llanfihangel,‡ yn sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Hydref 14, 1755. Cafodd elfenau ei ddsgeidiaeth a'i egwyddorion crefyddol yn Llanddowror, ac yn Athrofa yr Ymneillduwyr yng Nghaerfyrddin. Yn 1775, aeth i Rydychain, lle y graddiwyd ef yn B.C. Yn 1778, urddwyd ef yn ddiakon. Y weinidogaeth gyntaf a gafodd yn yr Eglwys Sefydledig, ydoedd curadiaeth yng Ngwlad yr Haf, yna Shawbury, yn sir y Mwythig, ac yn ddiweddaf Llan ym Mawddwy, yn sir Feirionydd. Yr oedd mewn undeb â'r Methodistiaid Calфинаidd cyn myned i'r weinidogaeth i'r Eglwys Sefydledig; ac yn 1785, efe a ail ymunodd â'r Methodistiaid, ac ni cheisiodd mwy am le i weinidogaethu yn sefydlog yn yr Eglwys, ond treuliodd ei oes yn llafurus ym mhlith y Methodistiaid Calфинаidd. Y mae ei weithiau yn eithaf adnabyddus. Heb law a gyhoeddwyd yn yr 18fed ganrif, cyhoeddwyd ganddo yn y 19edd ganrif:—'Y Drysorfa Ysbrydol,' am 1801 a 1811; argraffiad newydd o 'Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr,' 1808; argraffiad newydd o waith Walter Cradock; 'A Vindication of the Welsh Methodists,' yn erbyn gwaith y Parch. Mr. Owen, person Llandyfriedog, ym Mon; 'Yr Hyfforddwr,' a llyfrau ereill, at wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol, o ba rai y cyhoeddwyd dim llai na thua thri chant a hanner o filoedd; y 'Geiriadur Ysgrythyrol,' Prif orchwyl ei oes oedd sefydlu Ysgolion Dyddiol Cymreig Symmudol, yn debyg i gyllun person Llanddowror o'r blaen, ac o'r rhai, fel cangen o'r un cyllun, y sefydlodd yr Ysgolion Sabbothol. Efe hefyd ydoedd un o sylfaenwyr y Gymdeithas Beiblaau Frytanaidd a Thramor; a than ei olygiad ef y daeth allan ddau ar-

* [Ymddangosodd o wasg Abertawy yn 1831, gydag ychydig linellau 'at y Cyffredin,' gan y Parch. W. Jones, Pen y Bont ar Ogwyr; ac atodir Pregeth Genadol o waith y Parch. D. Jones, Llanganna. Ymddengys mai cyfieithydd y ddau waith ydoedd yr argraffydd, Mr. E. Griffiths, Abertawy.]

† *Congregational Magazine*, 1833, p. 315; *Evangelical Register*, May, 1833, p. 419.

‡ [Sef Llanfihangel Abercywyn, ger tref Sant Claer, ym mharth isaf sir Gaerfyrddin.]

graffiad o'r Beibl Cymraeg, sef yn 1804 a 1814. Bu farw yn y Bala, Hydref 5, 1814, yn 59 oed.*

16. 'A Treatise of Optics : containing the Elements of the Science. In two Books. By Joseph Harris, Esq; Late His Majesty's Assay-Master of the Mint.

London, Sold by B. White, at Horace's Head, Fleet Street. MDCCCLXXV.'

Yr awdwr ydoedd frawd i'r enwog Howel Harris, o Drefecca, sylfaenwr y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig.

17. 'Myfyrdodau Bucheddol ar y Pedwar Peth Diweddaf; Angau, Barn, Nef, ac Uffern. Gan John Morgan, M.A.

Argraphwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh. M,DCC,LXXV.' 24 tudalen 12plyg.

Tybygid bod hwn yn bummed argraffiad.† Y mae y rhagymadrodd yn gyfeiriedig at blwyfolion Llanfyllin, sir Drefaldwyn; a'r amseriad o Matchin, yn Essecs, y 6ed o Fai, 1714.

18. 'Pregeth ar Helynt Bresennol America. A Bregethwyd yn Christ Church, Mehefin y 23, 1775. Ar ddeisyfiad Swyddogion y Drydedd Fyddin o Ddinas Philadelphia, a Rhaglafiaeth Southwark. Gan William Smith, D.D. Penadur y Coleg yn y ddinas honno.

Brysto : argraffwyd gan William Pine, 1775.'

19. 'A Gentleman's Tour through Monmouthshire in Wales, in 1774.

London : Printed for T. Evans.'

20. 'Golwg ar Gynheddfau Gwasanaeth ac Anrhydedd Gwasanaethwyr Crist, mewn Pregeth a lefarwyd o flaen Cymmanfa o Weinidogion yn y Dref Wenn yn gyfagos i'r Castell Newydd yn Emlyn ar y 19 o fis Ebrill, 1775, gyda dwy Hymn, gan Edward Evans.

Caerfyrddin, argraphwyd dros yr Awdwr gan Ioan Ross. 1775. [Pris dau Swllt y Ddysen, i'r cyfryw Gyn'lleidfaoedd a brynant nid lai na thri Dysen, a thair Ceiniog bob un i eraill].‡

* *Cofiant Charles*, gan T. Jones; *Morgan's Life of Charles*; *Williams's Eminent Welshmen*; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 326-348.

† Gwel rhif 1, d.f. 1707; rhif 3, d.f. 1714; rhif 1, d.f. 1745; rhif 10, d.f. 1756; a hwn yma.

‡ Gwel rhif 5, d.f. 1757; a rhif 15, d.f. 1767. [Yr Awdwr ydoedd Edward Iwan, gweinidog yr Henaduriaid yn Aberdâr, a bardd ac athronydd cyfrifol yn ei ddydd. Gwel rhif 5, d.f. 1757. Perthynai addoldy y Dref Wen gynt i'r Henaduriaid, ond perthyn weithian i'r Annibynwyr.]

21. 'Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth; Neu Draethawd am Ryfel y Saint yn erbyn Diafol: &c. Y Rhan Gyntaf. Gan William Gurnal, B.D. gynt Gweinidog yr Efengyl yn Lafenham, yn Sir Suffolc, 1656. A 'Sgrifenwyd yn Gymraeg er budd i'r Cymro anhyddysg yn yr Iaith Saesonaeg. 1773.

Aberhonddu: Argraphwyd dros y Cyhoeddwr, gan E. Evans. 1775. Lle gellir cael Argraphu pob math o Gopiau, yn hardd, yn gywir, yn fuan, am bris rhesymol.'

Y mae y nodiad canlynol yn ei ddiwedd:—

'HYSBYSIAD.—Bydded hysbys i bawb y dël y Traethawd hwn i'w Dwylaw, fod yr Ail Ran o Waith yr un Awdwr wedi ei Gyfieithu, ac yn barod i'w Argraphu, os bydd Galwad cyffredinol am dano; o blegid mae hwnw mor angenrheidiol i bob Milwr ysprydol a'r cyntaf—Gobeithio y bydd i Awdwr pob Bendithion rwygo'r Gorchydd oddiar Feddwl y Darlennydd i weled yr Angenrheidrwydd o gael *Holl Arfogaeth Duw i sefyll yn y Dydd drwg*, a phwy bynnag a gaffo'r Ffafir hyn ni byddant ddiffygiol o un Cynnorthwy a gynnygir iddynt yn y fath Frwydr ddigyffelyb. Boed gw lith Bendith yn cyd-gerdded â phob Moddion i gynnorthwyo Milwyr *Sion*, i ymladd tan Faner Capten ein Iechydwrïaeth, ac i gael y Maes ar y Bwystfil, ac yn y Diwedd rannu'r Yspail gydâ'r Cedyrn. Hyn yw, a gobeithio a gaiff fod, difrifol Ddymuniad, Eich anheilyngaf Frodyr,

ROBERT JONES, JOHN PIERCE.'

WILLIAM GURNAL, B.D., awdwr y gwaith uchod, ydoedd fab Thomas ac Ethelbrida Gurnal, o Walpol St. Petr, yn sir Norffole, lle y ganwyd yntau yn 1617. Pan yn 15 oed, derbyniwyd ef yn aelod o Goleg Emmanuel, yng Nghaergrawnt, lle y cyrhaeddodd ei A.C. yn 1639, ac y gwnaed ef yn Gymmrawd. Cafodd yn fuan ei osod i weinidogaethu yn Lavenham, yn sir Suffolc, gan y Presbyteriaid, yr hwn le a wasanaethodd felly hyd farwolaeth y person, pryd y cafodd yntau y bersoniaeth yn 1644. Ond pan ddaeth Siarl II. i'r orsedd, efe, yn hytrach nag ymadael â phobl ei ofal, a gydymffurfiodd, gan gymmeryd ei ail ordeinio, yn esgobyddol, ac ailsefydlwyd ef yn y fywoliaeth, lle y bu hyd ei farwolaeth, Hydref 12, 1679, yn 52 oed.*

Dywedir mai cyfieithydd y gyfrol hon, a'r ail, a gyhoeddwyd yn 1784, er nad yw ei enw wrthynt, ydoedd

THOMAS HUMPHREYS, yr hwn oedd amaethwr ammhriod, yn byw ym Mhen y Bryn, Edeyrn, yn Lleyn, sir Gaernarfon, ac yn berchenog y lle. Gadawodd y lle i'w wasanaethyddes, yr hon a briododd â'r Parch. John Jones, gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd. Adeiladwyd capel cyntaf y Methodistiaid yn Edeyrn, ar dir Pen y Bryn, ac yn hollol ar draul y perchenog, Mr. T. Humphreys. Yr oedd wedi bod yn fasnachydd flynyddau yn Llundain, ac wedi arferyd gwrando llawer ar Whitfield, Romaine, ac ereill. Cyfieithydd anfedrus iawn ydoedd, fel mai prin y gellir gwneyd allan y synwyr lawer gwaith,

* *Y Traethodydd*, t. 392-3.

gan mor glogyrnaidd ydyw. Darfu i Mr. Jones, o Ddinbych, gyfieithu yn dda, y drydedd a'r bedwaredd gyfrol, ac ail gyfieithu y gyntaf a'r ail.* Am Robert Jones a John Pierce, ymddengys mai cyhoeddwy'r y gwaith oeddynt hwy, er y gelwid hwy, ac y tybid eu bod, yn gyfieithwyr.

Am y rhai hyn, y cyntaf,

ROBERT JONES, ydoedd fab i John a Margaret Williams, o'r Sintur, plwyf Llanystumdwy, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef Ionawr 13, 1745. Dangosodd ddirfawr syched am wybodaeth yn ieuanc, a gwnaeth gynnydd a ystyrid yn ganmoladwy, er na chafodd ond ychydig o fantais o un o ysgolion Mr. G. Jones, Llanddowror, yr hon a gynnelid y pryd hyny yn y gymmydogaeth gan un Thomas Gough. Ennillwyd ef yn ieuanc i ymuno â'r Methodistiaid Calfnaidd. Ar ddymuniaid Mrs. Bevan, o Lacharn, sir Gaerfyrddin, efe a ymgymmerodd â chadw ysgol ddyddiol a gynnorthwyid ganddi hi. A phan oedd wrth y gwaith hwn y dechreuodd bregethu. Bu yn cadw ei ysgol yng Nghapel Curig, sir Gaernarfon; Rhuddlan a'r Cwm, yn sir Fflint; a Bryn Siencyn, yn sir Fon. Wedi ymbriodi â Magdalen, merch Richard Griffith, o Gae'r Tyddyn, plwyf Llangybi, sir Gaernarfon, bu yn cadw ysgol yno ac ym Mryn Engan, yn yr un sir. Wedi hyny cymmerodd dyddyn bychan o'r enw Tir Bach, Rhoslan, plwyf Llanystumdwy, dan ammodrwym am saith mlynedd; ac am hyny yr adwaenid ef yn well ar hyd ei oes, a'i enw eto, fel 'Robert Jones, Rhoslan.' Wedi hyny cymmerodd dyddyn helaethach o'r enw Ty Bwlcyn, ym mhlwyf Llaniestyn, yn yr un sir, lle y bu fyw hyd farwolaeth ei wraig; a chan fod un o hen gapeli y Methodistiaid yn y gymmydogaeth hòno o'r enw Dinas, lle yr ystyrid ei gartref crefyddol, gelwid ef cyn diwedd ei oes yn 'Robert Jones, Dinas,' neu 'Y Lôn Fudr,' enw arall ar yr un lle; ac mewn ty a adeiladwyd iddo wrth y capel hwnw y bu farw, Ebrill 18, 1829, yn 84 oed. Yr oedd yn ddyddyn arafaid, ond gwrol, o synwyr a gwybodaeth wladol a chrefyddol helaeth. Heb law cyhoeddi y gwaith uchod, efe a roddodd allan y llyfrau canlynol:—1. 'Lleferydd yr Asyn yn gwahardd ynfydrwydd y Prophwyd;' 2. 'Arweiniad i'r Anwybodus,' yr hwn oedd sillebydd, tebyg i'r *spelling books* Seisonig; 3. Crynodeb o'r unrhyw; 4. 'Ymddiddan rhwng Dr. Opium, Galio, a Discipulus,' yr hwn oedd gyfieithiad, mae yn debyg; 5. 'Grawn-Sypiau Canaan,' sef Pigion o Hymnau W. Williams, Pant y Celyn; a'r rhai a arferid am flynyddoedd ar bulpudau y Methodistiaid yn y Gogledd; ond a wrthodid ac a gondemnid yn fawr gan Fethodistiaid y Deheubarth, o blegid iddo gymmeryd rhyddid i gyfnewid rhai o honynt; 6. 'Drych yr Amseroedd,' sef hanes diwygiad crefyddol yng Ngogledd Cymru, o'r hwn y daeth allan ddau argraffiad.† Am

JOHN PIERCE, ymddengys mai genedigol ydoedd efe o ardal Bryn Engan [ym mhlwyf Dolbenmaen, yn Eifionydd], yn sir Gaernarfon; ac iddo deimlo ystyriaethau am bethau crefyddol yn ieuanc, a myned, fel llawer o'r cyfryw yn yr oes hòno, er mwyn manteision crefyddol,

* *Y Traethodydd*, iii. t. 398, nodyn; *Methodistiaeth Cymry*, cyf. ii. t. 142-3.

† *Cofiant R. Jones; Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 186-191.

i ardal Llangeitho, yn sir Aberteifi, a chael ei dderbyn fel gwasan-aethwr mewn rhyw deulu crefyddol yno. Yno dechreuodd bregethu. Gwnaeth ymdrech mawr i gyrhaedd gwybodaeth, a chyrrhaeddodd radd ganmoladwy yn gwbl trwy ei hunan-lafur. Symmudodd wedi hyny i Fryn Engan, ac wedi hyny, trwy briodas, i Lanidloes. Yr oedd yn ddyn o dymmer drymaidd a phruddglwlyfus. Bu farw Chwefror 1, 1793, yn 49 oed.*

22. 'A History of the Island of Anglesey, from its first Invasion by the Romans, until finally acceded to the Crown of England: together with a Description of the Towns, Harbours, Villages, and other Remarkable Places in it; and of several antiquities relating thereto never before made public. Serving as a Supplement to Rowlands's *Mona Antiqua Restaurata*. To which are also added Memoirs of Owen Glendowr: Who in the Reign of Henry iv. claimed the Principality of Wales, as Heir to Llewelin last Prince thereof. Translated from a M.S. in the Library of Jesus College, Oxford: To which are subjoined, Notices Historical and Illustrative. The whole collected from authentic Remains.

London; Printed for J. Dodsley, in Pall-Mall. MDCCLXXV.†

Priodolir y gwaith hwn i'r Parch. Henry Owen, M.D., golygydd yr ail argraffiad o'r 'Mona Antiqua.' Y mae gwyneblen arall i—'Memoirs of Owen Glendowr: Being a well-compiled History of his Transactions during the whole War. Originally written by Mr. Thomas Ellis, Rector of Dolgelle, in Merionethshire; and now faithfully copied out of a Manuscript in the Library of Jesus College in Oxford. To which are added, Notes Historical and Descriptive, Collected by the Editor from Authentic Remains.'

23. 'Nodiadau ar Bregeth Mr. Abel Francis, yng Nghwm Wysg, gerllaw Trecastell: Y Trydydd Dydd ar Ddeg o Awst, 1732. Gan William Herbert. Wedi eu hail 'Sgrifenu a diwygio'r Iaith. Gan Josuah Thomas. At yr hyn y 'chwanegwyd Myfyrdod mewn Cystudd, ar Gân. Gan John Morgan, o Blwyf Bedwellty.

Aberhonddu: Argraphwyd dros John Morgan, gan E. Evans. Lle gellir cael argraffu pob math o lyfrau am bris rhesymol. 1775.'

Testyn y Bregeth oedd *Esec.* xviii. 32. Traddodwyd hi pan oedd y dadleuon Arminaidd yn aflonyddu y Bedyddwyr yn y Deheudir. Y pregethwr,

ABEL FRANCIS, ydoedd fab Francis Thomas Francis, yr hwn a fu weinidog enwog i'r Bedyddwyr yng Nghastell Newydd yn Emlyn, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn byw yng nghymmydogaeth Pen-

* *Drych yr Amseroedd*, ail arg. t. 175, 217; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 218; cyf. ii. t. 360; cyf. iii. t. 143.

† Gwel d.f. 3, 1723; rhif 9, d.f. 1743; a rhif 10, d.f. 1766.

careg [ger Llanbedr], yn y sir hòno. Dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr yn ieuanc. Yr oedd y dadleuon Arminaid, fel eu gelwid, yn aflonyddu y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr yn y dyddiau hyny. Yr oedd Mr. Jenkin Jones, gweinidog Presbyteriaid Llwyn Rhyd Owain, yn sir Aberteifi, wedi mabwysiadu ac yn pregethu yn hyf y tybiau hyny, a'r blaidd arall newydd adgyhoeddi gwaith Eliseus Cole. Trodd Abel Francis hefyd yn bleidiwr cyhoeddus a gwresog i Mr. Jenkin Jones a'i dybiau. Gadawodd Mr. Francis y Bedyddwyr tua'r fl. 1735, neu '36, ac ymunodd â'r Presbyteriaid. Bu farw o gylch 1743.*

Yr ydys eisoes wedi rhoddi ychydig hanes am W. Herbert.† Mae diwygiwr y 'Nodiadau,' y diweddar Barch. J. Thomas, awdwr 'Hanes y Bedyddwyr,' yn dywedyd yn ei lythyr 'At y Darllenydd,' fel hyn :—

'Pan fu'm yng Nghymru yn ddiweddar,‡ dangoswyd i mi Gopi o'r Nodiadau canlynol, a dymunwyd arnaf eu 'Sgrifenu o newydd, gan farnu y byddai yn fuddiol eu hargraphu. Y maent yn fy meddiant i ys mwy nag ugain mlynedd, o waith llaw'r Awdwr ei hun, lle mae efe yn dywedyd na 'Sgrifenodd efe, erioed o'r blaen, gymmaint o Gymraeg; gan hynny yn cydnabod amherffeithrwydd yr yspeliad a'r iaith. Mi a ddewisais ei ysgrifenu o'i waith ef ei hun yn hytrach nag o un copi.§ Felly beiau'r iaith, eiddo fi ydynt, oddieithr fod gwallau yn yr Argraph. Am yr Athrawiaeth eiddo yr Awdwr ydyw. Ni ddarfu i mi newid na gwyro dim arni, ar a wn i.

'Y mae'r Pregethwr a'r Nodiadwr wedi myned i orphwys ys llawer blwyddyn. Nid eu hamcan hwy oedd i'w gwaith gael ei wneyd yn gyhoeddus, uwchlaw deng mlynedd ar hugain ar ol eu marwolaeth. Gan hyny, nid yw yn weddus yma na'u canmol na'u — — Ond er eu mwyn hwy, etto byw yw athrawiaeth y naill a'r llall. Yr wyf fi yn barnu fod y Nodiadau canlynol yn iachus, yn ddeallus, yn ysgruthurol, ac yn efengylaidd. Os gwel Duw yn dda eu bendithio, nid wyf yn ammau na byddant yn llesiol, yn gynnorthwyol, ac yn adeiladol i'r Darllenydd ystyriol.

Llanllieni, 15fed o Ebrill, 1775.

JOSHUA THOMAS.'

24. 'The Head of the Rock, a Welsh Landskip. Being a Prospect near Abergwilly Palace, the Residence of the Bishop of St. David's, in the neighbourhood of Carmarthen. By William Williams of Pembrokeshire, late of St. John's College, Cambridge.

London: Printed for N. Conant, in Fleet St. MDCCLXXV.'

25. 'Amryw Hymnau Dymunol a Phrofiadol. O Waith Harri Sion, Gerllaw Pont y Pŵl, yn Sir Fynwy. At ba un y chwanegwyd

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, t. 378, &c.

† Gweler rhif 6, d.f. 1761.

‡ Yr oedd yn cartrefu yn Llanllieni.

§ Y mae yn debyg, felly, eu bod wedi eu lledaenu gryn lawer ar hyd y wlad, trwy eu hail ysgrifenu, y naill gopi o'r llall, cyn eu hargraffu.

Pigion o Hymnau, o Waith yr awdwyr hynottaf yn yr oes bresennol. Y Trydydd Argraffiad Gyda Chwanegiadau.

Caerfyrddin, Argraffwyd dros y Cyhoeddwr gan J. Ross. M,DCC,LXXV.'

26. 'The Worthines of Wales, a Poem. A true note of the ancient Castles, Famous Monuments, goodly Rivers, fair Bridges, fine Townes, and Courteous People, that I have seen in the Countrie of Wales. And now set forth By Thomas Churchyard.

London, Reprinted from the Edition of 1587, for Thomas Evans, in the Strand, London. MDCCLXXV.*

27. 'Hymnau a Chaniadau Ysprydol. Yn Dri Llyfr. i. Wedi ei gasglu o'r Ysgrythyrau. ii. Wedi ei gyfansoddi ar Destunau dwyfol. iii. Wedi ei barotoi i Fwrdd yr Arglwydd. Gan Isaac Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dafydd Jones, Cyfieithydd y Salmau.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-prior. M,DCC,LXXV. [Pris swllt heb ei rwymo, a 13c. wedi ei rwymo.]'

28. 'Caniadau Newyddion: sef Carolau Plygain, a Cherddi na buont yn Argraphedig o'r blaen.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Eddowes, Gwerthwr Llyfrau, wrth y Ty-Marchnad. MDCCLXXV.'

Y mae iddo ychydig o linellau blaenddodol at yr 'Anwyl Gymro,' ac wedi ei arwyddo 'Joan Rhys. Cefncoch Chwefror, 20. 1775.' Y mae 'Joan Rhys' hefyd ar ddiwedd pob Cân neu Garol. Gallwn dybio mai llyfr lled fychan ydoedd, o blegid ni ddaeth un cyfan i'm llaw.

29. 'Amddiffyniad o'r Eglwys Grist'nogol yn Bedyddio Plant Bychain: ynghyd ag Amlygiad o'u Hawl Hwyt i Gyfammod a Duw ac i Fedydd. Yr Ail Argraffiad.

Caerfyrddin, Argraffwyd, gan Ioan Ross, yn Heol Awst, M,DCC,LXXV.'

30. 'Myfyrdodau ar Angau: neu Alarnad am Farwolaeth Anghyffredin, a ddigwyddodd mewn amryw Fannau o Gymru y Blynyddau hyn: Yn mha un y desgrifir Grym Teimlad, Cysuron Rheswm, a Buddugoliaeth Ffydd. Sef, Teimlad yn gweithredu Hiraeth Cariad, Llwrddra a gwan Obaeth; Rheswm yn ceisio bodloni oddiwrth Angen fod Pethau fel y maent; a Ffydd hithau yn edrych dros y Cwbl, a thrwy ymddiried yn yr Arglwydd, yn ymgysuro ym mhob Cyflwr,

* Gwel rhif 3, d.f. 1587.

ac yn gwneud Cyfeillach o'r Byw a Marw. Gan William Williams.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross yn Heol-Awst, lle y gellir cael, Pob Dyn ei Physigwr ei hun. Yr ail Argraffiad. M,DCC,LXXV.'

31. ¶ 'A View of Cader Idris. By R. Wilson. 1775.'

32. 'Mesurwr Cyffredinol, &c. Gan Mathew Williams, Philomath.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Joan Ross, yn Heol-y-Prior. M,DCC,LXXV.'

'At y Ddarlleneydd' o 'Langadock Rhag. 22. 1774.'

33. ¶ 'Account of Roman Antiquities in Monmouthshire. By John Strange. 1775.'

Llyfryn teneu o 48 tudalen 4plyg ydyw.

34. ¶ 'Observations of the more ancient Statutes of the Welsh and other Laws, from Magna Charta to the 21st James 1st, with an Appendix. By the Hon. Daines Barrington, Justice of the counties of Merioneth, Carnarvon, and Anglesey. 1775.'

35. ['Egwyddorion y Methodistiaid: wedi eu tynu allan (air yn air) o Erthyglau Eglwys Loegr, y rhai ydynt yn cynnwys athrawiaeth a ddylai pawb o aelodau'r Eglwys i gredu ac amddiffyn. II. Nodau i adnabod y Methodistiaid. III. Gweddi dros Aelodau Eglwys Loegr.

Oddiwrth bob Dallineb calon, gwared ni, Arglwydd daionus. Y Litani.

Argraphwyd yn y Mwythig yn y Flwyddyn, 1775.'

'Llyfryn 12 tudalen 12plyg ydyw. Nid ymddengys ei fod yn meddu awdurdod Cymmanfa.*']

1776.

1. 'Histori yr Iesu Sanctaidd, yn cynnwys Hanes byrr o Enedig-aeth, Bywyd, Marwolaeth, Adgyfodiad, ag Esgyniad ein Iachawdwr: Ynghyd a Chasgliad o Brophwydoliaethau, Rhagddywediadau, a Rhyfeddodau perthynasol iddo ef, a grybwyllir am danynt yn yr Ysgrhythyr Lan, ac yn Ysgrifeniadau y Cenhedloedd. At yr hyn y chwanegwyd, Bucheddau a Marwolaeth yr Efengylwyr, &c. Gan William Smith, A.M. A gyfieithwyd i'r Iaith Gymraeg, allan o'r ail Argraphiad yn Saesonaeg, gan Ddafydd Ellis, Curat Derwen, swydd Ddinbych.

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

Trefryw, argraffwyd gan D. Jones. MDCCLXXV. Pris Swllt.' 200 tudalen 18plyg.

2. 'Casgliad o Bregethau, ar y Pynciau mwyaf sylweddol, mewn Perthynas i Fuchedd ag Ymarweddiad Cristianogion. Wedi eu cyfieithu o waith yr Awduron gorau yn saesoneg, Gan y Parchedig Evan Evans, Curad Towyn Meirionydd. At ba rai i chwanegwyd, Annerch i Benteulu, ynghylch y Ddyledswydd bwysfawr o Addoliad-Teuluaid; a Ffurf Weddi i Deulu, o waith P. Doddridge, D.D. Y Llyfr i.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Eddowes. MDCCLXXVI.' [12plyg.]

Y mae rhagddalen i'r 'Y Llyfr II,' yn hollol yn yr un geiriau. Dyma y gwaith cyntaf erioed a gyhoeddwyd yn Gymraeg yn gyfrolau. Detholion ydynt o waith Doddridge, Watts, &c. Y mae yn nechreu 'Y Llyfr I.' lythyr Seisonaeg o gyflwyniad y Prydydd Hir, at Syr W. W. Wynn, yr hwn sy ddernyn cywrain iawn; ac nid yw ryfedd na chafodd yr awdwr godiad yn yr Eglwys, gan fel y mae yn cribo mawrion ac urddasolion Seisonig yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru. Y mae yr un dull yn cael ei arferyd yn yr anerch 'At y Darlennydd' yn Gymraeg. Cynnwysa 'Y Llyfr I.' 16 o Bregethau; a 'Llyfr II.' 12 o Bregethau; yr 'Annerch i Benteulu;' 'Gweddiau;' 'Anghwanegiad,' sef dwy bennod o englynion, ac wrthynt 'Evan Evans, a'i Cânt;' a 'Rhybudd i'r Darlennydd,' yr hwn a gynnwys sylwadau rhagorol ar orgraff y Beibl Cymraeg.* Y mae enwau y tanysgrifwyr yn 371, yn cymmeryd 474 o gopiau.

3. 'Gardd y Caniadau; Neu Lyfr yn cynnwys ynddo Garolau a Cherddi ar amriw Destunau, diddan a difrifol. Gan Hugh Jones, o Faes-Glaseu; Awdwr y Myfyrdodau ar Dymhorau y Flwyddyn.†

Mwythig: Argraphwyd gan T. Wood, yn y flwyddyn 1776. [Pris 6d.]

Y mae yn cynnwys 84 o dudalennau 12plyg.‡ Bu T. Wood yn argraffydd a golygydd y *Shrewsbury Chronicle* am 29 o flynyddau. Bu farw yn ddedwydd Ebrill, 1801, yn 55 oed.

4. 'Four curious Private Appeal Cases to the House of Lords relative to Llwynybrain Estates in Carmarthenshire, and valuable Lands in Cardiganshire, setting forth the Claims and Pedigrees of various members of the Hughes, Rice, Griffith, and Howarth families, with the decision of the Judges in MSS. 1776.'

Y mae yr uchod yn werthfawr i achyddion Cymreig, yn perthynu

* Gwel rhif 7, d.f. 1769.

† Gwel rhif 3, d.f. 1774.

‡ *Gwladgarwr*, Awst, 1830, t. 263.

i diroedd oddi amgylch Llanymddyfri, yn Neheudir Cymru. Argraffwyd yn anghyhoedd.

5. 'Lleferydd yr Asyn er gwahardd Ynfydrwydd y Prophwyd. Sef Copi o lythyr at wr urddasol, a anfonodd ei was i aflonyddu addoliad Crefyddol.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans. 1776.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.* Yr awdwr ydoedd Robert Jones, Rhoslan.† Y gwr urddasol, at ba un yr anfonwyd y llythyr, ydoedd rhyw un o foneddigion Eifionydd, ac ar y Rhoslan y cynnelid y cyfarfod. Atebwyd y llythyr, ond barnwyd yn well peidio â'i gyhoeddi.‡


6. 'Casgliad Byrr o'r Rhedegwr Ysprydol, a ysgrifenyddwyd gan awdwr Taith y Pererin.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn 1776.'

Cyhoeddwyd argraffiad newydd o hwn yn nechreu y 19fed ganrif, gan un Mr. Hemingway yng Nghaerlleon, a than olygiad Mr. Thomas Roberts, o Fonwm, ger Corwen, a diweddar o Lanelwy.

7. 'Y Creadur Newydd ynghrefydd Crist: Gwedi ei osod allan mewn Pregeth. Gan William Beferidge, D.D. gynt Arglwydd Esgob Llanelwy.'

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,LXXVI.

 Nid yw'r Llyfran hwn ar werth, ond rhodd ewyllysiwr da i grefydd i'w gydwladwyr.'

8. 'Dechreuad, Cynnydd, a Chyflwr presennol y Ddadl rhwng pobl America a'r Llywodraeth. Gan M. D. Gwedi ei gyfiaethu er budd i'r Cymru.

Trefryw. Argraphwyd gan Dafydd Jones, 1776. Pris 2 geiniog.'

9. 'Dyledswydd Dilys ac Anhepgor Crist'nogion, yr Amser enbydus hyn; wedi ei ystyried a'i gymhell mewn cyfarchiad gwresog. Gan W. Mason. Ynghyd â Rhagymadrodd o Ganmoliaeth, Gan y Parchedig Thomas Coke, L.L.D. South Petherton, yng Ngwlad yr Hâf.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans, 1776. [Pris Dwy Geiniog, neu Ddeunaw y Dwsin.]'

* Gwel rhif 10, d.f. 1770.

† Gwel rhif 21, d.f. 1775.

‡ *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 150.

Y mae llythyr o gymmeradwyaeth yn ei ragflaenu, gan 'Thos. Coke, South Petherton, Gwlad yr Hâf, Chwefror 26, 1776;' am yr hwn, gan ei fod yn Gymro, y byddai yn briodol crybwyll yn helaethach. Gan hyny,

THOMAS COKE, LL.D., ydoedd fab i Bartholomew Coke, o Aberhonddu, lle y ganwyd ef Medi 9, 1747. Ei fam ydoedd Ann, merch Thomas Philips, Ysw., o'r Trosdref, ychydig i'r tu dwyreiniol i'r dref hòno.* Cafodd ei ddysgeidiaeth yn ysgol ramadegol neu goleg y dref hòno, ac yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, lle y cymmerodd y radd o LL.D., yn 1775, pan yn 28 oed. Cafodd guradiaeth South Petherton, lle y bu dair blynedd, pan y daeth yn gefnogwr gwresog i athrawiaethau a threfn deithyddol Mr. Wesley. Yn 1782, efe a ddewiswyd y waith gyntaf yn llywydd Cynnadledd y Methodistiaid Wesleyaidd yn Iwerddon, yr hon swydd a lanwodd am tua 30 mlynedd. Yn 1784, gwnaeth ei fordaith gyntaf i Ogledd America, lle yr arosodd hyd 1785, yn arolygu cyfundeb y Methodistiaid Wesleyaidd, o dan yr enw o Esgob yr Eglwys Fethodistaidd; yng nghyd ag un arall—Francis Ashbury—a benodasid gan Mr. Wesley i'r swydd ar rym ei urdd fel offeiriad neu henuriad o'r Eglwys Sefydledig; a thrwy y cyssylltiad hwn, a'r drefn o arolygiaeth esgobawl dros y Cynnadleddau am eu hoes, y mae y cyfundeb Wesleyaidd yn yr Unol Daleithiau yn esgobawl, o dan yr enw 'Yr Eglwys Esgobawl Fethodistaidd.' Yn 1786, aeth y Dr. Coke i'r India Orllewinol, ac yna croesodd i Ogledd America. Gwnaeth yn y cwbl naw o fordeithiau i sefydlu ac arolygu cenadon. Yn 1800, efe a sefydlodd genadau Cymreig Wesleyaidd yng Nghymru. Yn 1801 efe a ddechreuodd ei Esboniad ar y Beibl, yr hwn a orphenodd yn 1807, mewn chwe' chyfrol.† Dechreuwyd cyhoeddi talfyriad o hono i'r Gymraeg yn 1804, trwy ganiatâd y Doctor. Y talfyrywr oeddynt y Parchn. Owen Davies a John Hughes, awdwr yr 'Horæ Britannicæ,' a'r cyfieithydd ydoedd y Thomas Roberts [rhif 6] a enwyd uchod, a'r hwn oedd yntau y pryd hyny yn weinidog Wesleyaidd; a'r argraffydd oedd Mr. Hemingway o Gaerlleon,‡ yr hwn a drodd yn fethdalwr yn ei fasnach, wedi ei ddyfod rywfodd i ddiwedd yr Hen Destament, yn ddwy gyfrol 4plyg. Wedi hyny penododd y Dr. Coke y Parch. John Hughes i'w gyfieithu, a'i argraffu yn Llundain gan un Paris, o dan olygiad Cymreig un Edward Williams, yr hwn oedd ar y pryd yn argraffu yn Llundain mewn rhyw swyddfa Seisonig. Hyd ddiwedd yr Efengylau y cyfieithodd Mr. Hughes, a chwech rhifyn yn unig a ddygwyd allan gan Mr. Paris. Wedi hyny penodwyd y Parch. David Davies, mab y diweddar Barch. David Davies, Castell Hywel, sir Aberteifi, yn gyfieithydd, a Mr. John Daniel, Caerfyrddin, yn argraffydd; ac felly y daeth allan yn rhywfodd, yn dair cyfrol 4plyg.§

* Rhed achau y Dr. Coke fel hyn :—Thomas Coke, mab Bartholomew Coke, M.D., yr hwn oedd y cyntaf i sillebu ei enw yn *Coke*, mab Edward *Cooke*, person Llanfrynach, ger Aberhonddu, mab Henry *Cooke*, o Wern Chwith, yn sir Faesyfed.—Jones's *History of Breconshire*.

† *Eurgrawn Wesleyaidd*, 1817; Williams's *Eminent Welshmen*.

‡ *Eurgrawn Wesleyaidd*, 1848, t. 355.

§ *Eurgrawn Wesleyaidd*, 1849, t. 164, 165, 194.

Cyhoeddodd 'A Sermon upon Education, preached at the Anniversary of a Public School at Crewkern, Somerset,' 1773; 'Address to the Inhabitants of Bristol and the adjacent Villages,' 1782; 'Ordination Sermon, preached at Baltimore,' 1784; 'A Sermon on the Divinity of Christ, preached at Baltimore,' yr hon a gyhoeddwyd amryw weithiau yn Lloegr, a chyfieithiad o honi a gyhoeddwyd yn Gymraeg; 'A Discourse on the Witness of the Holy Spirit;' 'Three Funeral Sermons on the death of Mr. Wesley;' un 'For the Rev. Mr. Richardson;' ac un arall, 'In Memory of Mrs. Hester Ann Rogers;' 'Four Sermons on the Christian Ministry,' 1798; 'A Discourse on 7th Chapter of the Epistle to the Hebrews;' golygodd, gyda Mr. Ashbury, y 'Book of Discipline for the American Methodist Episcopal Church;' 'An Address to the Societies in England on the Settlement of Chapels,' 1795; 'A Statement on the vexed case of Dewsbury Chapel in Yorkshire,' &c.; 'Series of Letters addressed to the Societies against the Rev. Melville Horne,' 1810; 'Life of Wesley,' yn gyssylltiol â Henry Moore. Golygodd ail argraffiad diwygiedig o farddoniaeth arwraidd y Parch. S. Wesley ar 'Life of Christ;' 'History of the West Indies,' yn dair cyfrol, 1808, &c. Dechreuodd weithiau ereill; ac yn wir dechreuodd argraffu y 'Cottager's Bible;' ond rhoddwyd ef i fyny o eisieu amser a chefnogaeth. Cyhoeddodd fynegiadau cyfnodol o amgylchiadau y genadaeth oedd dan ei ofal yn yr India. Ei Attodiad i'w Esboniad a gyhoeddodd hefyd yn gyfrol ar ei phen ei hun, o dan yr enw 'The Recent Occurrences of Europe considered in Relation to such Prophecies as are now fulfilling, or remain yet to be fulfilled.*' Bu farw y Dr. Coke ar y môr, ar ei nawfed fordaith genadol, yr hon oedd i'r India Ddwyreiniol, Mai 2, 1814, yn 67 oed.†

10. ¶ 'Rhodd Meistr i'w Brentis, &c. Wedi ei osod allan ar ddymuniad y cywrain a'r dysgedig Mr. Lewis Morris.

Argraffwyd yn y Bala, gan John Rowlands, tros William Davies.'

11. 'Pregeth yn erbyn Enllib a phob Gogan-air. Gan Josiah Rees.

Caerfyrddin, Argraphwyd dros yr awdwr gan J. Ross. 1776. [Pris Ceiniog.]'

12. 'Rhannau Detholedig, o'r Salmau Cân, gyd â'r Ystyr o honynt o flaen pob Salm. Wedi eu cymmwyso i'w canu mewn Eglwysydd. Gan y Parch. Hugh Williams, M.A. Person Aberffraw. Y Salmau Gweddiau a ddylid eu canu ar y Peroriaethau Lleddfon; a'r Salmau Mawl ar y Peroriaethau Crason.

Printiedig gan Peter Hoey, tan lûn Mercury, yn Skinner-row, ac ar werth gan Mr. Richard Williams, yng Nghaernarfon. 1776.‡

* Dr. Etherige's *Life of Dr. Coke*.

† *Life of Dr. Coke*, by S. Drew; Williams's *Eminent Welshmen*. [Am yr Awdwr, y Parch. William Mason, gweler rhif 26, d.f. 1759.]

‡ Gwel rhif 13, d.f. 1773.

13. 'Drych Olwg ar Dir Angof; neu Farwnad y Pendefig Mr. Philip Williams, Mab y Pendefig Mr. John Williams, o Ben-arth, yn Sir Forganwg; yr hwn a ymadawodd â'r Byd hwn, Awst 16 dydd, yn 17 oed, yn y flwyddyn 1775, &c. Gan Dafydd Williams, o Sir Forganwg.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr awdwr, gan E. Evans. MDCCLXXVI.'

14. 'Ffarwel Babel, Groesaw Ganaan; neu Ychydig o Hymnau o Fawl i Dduw a'r Oen, ac o Ddifyrwrch i Bererinion Seion, ar eu Siwrneu tuag yno. Gan Rhys Dafydd.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr Awdwr, gan E. Evans. M, DCC, LXXVI.'

RHYS DAFYDD (= REES DAVID) oedd bregethwr ieuanc a gyfododd gyda'r Bedyddwyr ym Mhenyfai, yn sir Forganwg. Aeth i Athrofa Bristol yn 1772, ac yn 1775 aeth i wasanaethu cynulleidfa yn Lower Ormond, yn Iwerddon. Yn 1776 dychwelodd i Gymru; wedi hynny bu yn gwasanaethu cynulleidfa oedd yn Ffalmouth, ac yn Chace-water, yng Nghernyw, ac yn fl. 1777, efe a ymsefydlodd yn Norwich, yn sir Norfolk, lle y bu farw yn 1788.*

15. ¶ 'Taith y Pererin, y Bummed Ran; neu ychydig Hymnau, o waith Thomas Dafydd, yn Sir Gaerfyrddin.'

16. ¶ 'Y Frwydr Ysprydol, mewn Casgliad o Hymnau Newydd, ar amryw Fesurau. Gan Morgan Rhys, a Thomas Dafydd.

Nid oes amseriad, gwyneblen, nac enw lle ac argraffydd i'r ddau uchod.

[Nis gall fod nemawr o ammheuaeth nad yr un yw hwn â rhif 34, d.f. 1774. Nid oes un amseriad wrtho; ond yr wyf o'r farn iddo ymddangos mor gynnar a'r fl. 1770.]

17. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y flwyddyn 1776.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross. MDCCLXXVI.'

18. 'Hanes Tair Sir ar Ddeg Cymru. Yn cynnwys yspysiad helaeth pa fath ydynt, a pha bethau goreu sy ymhob un o honynt, a pha fath bobl sy'n gwladychu ynddynt, a pheth yw Hyswiaeth benaf Merched ym mhob Sir; pa yd a enllyn sy amla a gorau ymhob un o honynt, a pha le mae'r Ceffyleu, Gwartheg, Defaid, Brethynoedd, Gweoedd, Gwlaneni, y Llieiniau goreu yng Nghymru, &c. At yr hyn y chwanegwyd Tair o Gerddi Dwyfod, a Rhifedi Plwyfydd pob Sir uwch eu Pennau.

* *Hanes y Bedyddwyr*, gan J. Thomas, t. 313; *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones, t. 555.

Argraphwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau.'

Barddoniaeth ydyw, ac yn ei ddiwedd y mae 'Dafydd Thomas ai Cant.' Ymddengys mai wrth yr ail argraffiad hwn y rhoddwyd yr enw fel yna yn llawn, gan nad oes ond 'D. T.' wrtho yn yr argraffiad cyntaf.*

19. 'Britannica Antiqua Illustrata : or, The Antiquities of Ancient Britain derived from the Phenicians, by Aylett Sammes of Christ Colledge, Cambridge. 1776.'

[Y mae yn bur ddilys genyf mai argraffiad 1676—can mlynedd gyfan yn ol—yw yr argraffiad sydd yn cael ei gofrestru yma.]

20. 'The Worthiness of Wales, a Poem. A true note of the Auncient castles, famous monuments, goodly rivers, fair bridges, fine townes, and courteous people, that I have seen in the noble countrie of Wales, and now set forth by Thomas Churchyard.

London. 1776.' 8vo.

Ymddengys y daeth galwad am argraffiad arall o hwn yn fuan ar ol y llall, yn gwneyd y trydydd argraffiad.†

21. 'Pregeth yn erbyn Enllib a phob Gogan-air. Gan Josiah Rees.

Caerfyrddin, Argraffwyd dros yr awdwr gan J. Ross. MDCCLXXVI. [Pris Tair Ceiniog.]'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, un yn nechreu y flwyddyn, yr hwn werthwyd yn fuan, a'r llall cyn diwedd y flwyddyn.‡

22. 'Marwnad Dafydd John, o Bwll-y-March. Yr hwn a ymadawodd â'r Byd Ebrill, 1776. Ac hefyd, Marwnad John Dafydd, o Benhenrhyw, ym Mhlwyf Llanwnio, Yr hwn a ymadawodd â'r Byd Mai 1776. Gan William Williams.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Joan Ross.'

23. 'Marwnad Mr. Evan Williams o Faesgenffordd, yn agos i'r Garth, yn Sir Frecheiniog : Wr onest, cymmwynasgar, a duwiol, ac a foddodd yn yr Afon Gwy, yr 11 o Fedi, 1776 ; o ddeutu canol oed : ac a adawodd ar ei ol Wraig, a Mamynghyfraith hiraethlon ; roesawgar, hefyd a ffyddlon i holl Eglwys Dduw. At ba un y chwanegwyd Hymn, ar Dôn newydd, A gymmerwyd o Synagog yr Iuddewon : Yr Hymn a genir arni yn Sapsoneg sy'n dechreu fel hyn, "The God of Abr'am praise, &c." Gan William Williams.

* Gwel rhif 6, d.f. 1750.

† Gwel rhif 3, d.f. 1587 ; rhif 26, d.f. 1775 ; a hwn yma.

‡ Gwel rhif 11 uchod.

Aberhonddu, Argraphwyd, dros yr Awdwr, gan E. Evans, &c. MDCCLXXVI.'

Awdwr yr Hymn ydoedd

THOMAS OLIFER neu OLIVER, yr hwn a anwyd ym mhlwyf Tre-gynon, yn sir Drefaldwyn, yn 1725. Efe a ymunodd â Mr. Wesley yn ieuanc. Yn 1753 efe a benodwyd i'r gwaith teithiol, neu y weinidogaeth, a bu yn llafurio lawer o flynyddoedd yn Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon. Wedi hyny sefydlwyd ef yn Llundain, fel golygydd y wasg. Cyhoeddodd luaws o draethodau, y rhan fwyaf o natur ddadleuol, un o ba rai sydd wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg, sef 'Cyflawn Wrthbrawf i'r Athrawiaeth o Barhad Diammodol mewn Gras.' Bu farw yn Llundain yn 1799, yn 74 oed.*

24. 'Canwyll y Cymry; sef 'Gwaith y Parchedig Mr. Rees Prichard, M.A. Gynt Ficer Llanymddyfri. The Welshman's Candle: or the Works of the Reverend Mr. Rees Prichard, M.A. Sometime Vicar of Llandovery.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Joan Ross, yn Heol-y-Prior. MDCCLXXVI.'

Dyma y degfed argraffiad i'w gofrestru, er y rhaid ei fod yr 16fed, o leiaf.†

25. 'Bugeilgerdd. Yr ail yn yr Iaith Gymraeg. Gan Edward Richard.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. Orm. MDCCLXXVI.'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, tybygid, neu yr argraffiad cyntaf o'r ail gerdd.‡

26. 'The Lands of Reynoldstone, Private Appeals of Several Members of the Phillips, Allen, and Hancorn Families, concerning a Mortgage on this Estate, with the decree of the Ho. of Lords. 1776.'

Argraffwyd yr uchod yn gyfrinachol.

27. ['Addysg ynghylch Bedydd-Esgob.

Llundain: A argraphwyd i J. Rivington, Gwerthwr Llyfrau i'r Gymdeithais er cynhyrchu Gwybodaeth Cristianogol, ym Monwent St Paul, N 62. MDLXXVI.'

Traith 12plyg o 16 tudalen ydyw.]

* *Eurgrawn Wesleyaidd*, 1811, t. 3-9, 37, 74-89, 109-114; Williams's *Eminent Welshmen*.

† Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; rhif 1, d.f. 1681; rhif 12, d.f. 1741; rhif 1, d.f. 1721; rhif 25, d.f. 1725; rhif 19, d.f. 1766; rhif 16, d.f. 1770; a hwn yma.

‡ Gwel rhif 10, d.f. 1765.

1777.

1. 'Myfyrdod ar Ddamhegion, a Gwyrthiau ein Harglwydd Iesu Grist, &c. Gan Mr. Hugh Jones, o Faesglasau, yn agos i Ddinas Mawddwy.

Mwythig, Llythyrwyd gan T. Wood, yn y flwyddyn 1777. [Pris 6d.]' 84 tudalen 8plyg.

2. 'Goruchafiaeth a Llawenydd y Gwir Gristion, gan Thos. Williams.

Argraffwyd yn Nhrefriw.'

3. 'Y Gyssylldiad rhwng Ffydd achubol a Gweithredoedd da, mewn Pregeth ar Titus iii. 8, Gan y Parch. John Hallward, A.M. Ficar Shawbury, yn Sir y Mwythig, &c.

Mwythig Argraphwyd.'

4. 'Duw-dod Iesu Grist, Neu Atteb i'r Gofyniad a welir yn Matt. xvi. 13, 14, 15. a gynnwysir mewn Pregeth ar y geiriau hynny. O waith y Parchedig Evan Hughes, Curate Llanfihangel y Pennant, yn Sir Gaernarfon.

Argraphwyd yn Ngwrecsam, gan R. Marsh Gwerthwr Llyfrau; Lle yr argrephir pob math o Lyfrau &c. yn y môdd mwya' hardd a buan, ac am y Pris issa. 1777.' [16plyg: 32 tudalen.]

[Yn canlyn y Bregeth y mae 'Hymn gyfattedol i'r Athrawieth a gynnwysir yn y Text, yn dangos allan Dduw-dod, Mawrhydi a Gogoniant ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist.' Cynnwys y llyfryn 32 tudalen 16plyg.]

Gwr o Ddeheubarth oedd Mr. Hughes. Yr oedd yn ddyn o faintioli corfforol mwy na'r cyffredin, ac am hyny adnabyddid ef wrth yr enw *Hughes Fawr*. Yr oedd yn rhagori llawer yn ei ddawn ar weinidogion yr Eglwys yng Ngwynedd y pryd hyny. Ymddengys fod llawer o Fethodistiaeth Llangeitho yn ei ysbryd. Pan oedd Mr. John Edwards, gynt o Blas yng Nghaerwys, awdwr 'Y Cyfarwyddyd Profedig,' mewn trallod crefyddol, aeth at Mr. Hughes, i ofyn iddo beth a wnai, efe a'i hannogodd i ymuno â'r Methodistiaid.* Yr oedd un o ysgolion Mr. G. Jones, Llanddowror yn ei blwyf, pan oedd yn Llanfihangel, yn cael ei chynnal gan un Mary Gough, i'r hon y mae yn rhoi cymmeriad da fel ysgolfeistres, ac yn dymuno am barhâd o'r ysgol, mewn llythyr at Mr. Jones, amseredig Medi 27, 1773.

5. ¶ 'Ystyriaethau ynghylch Diwedd Amser, neu'r Dychrynadwy arwyddion, a rhyfeddodau a fydd yn y dydd diweddfaf, &c. Gan Hugh Jones, Llangwm.

Bala, argraffwyd tros Wm. Davies.

* *Goleuad Cymru*, 1826, 409.

6. 'Temphum Experientiae Apertum; Neu Ddrws Society Profiad, wedi ei agor o led y pen, fel y gallo y sawl a chwennych edrych i mewn: Mewn saith Dialog, ar ddull o ymddiddan rhwng Theophilus ac Eusebius. Gan Wm. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr Awdwr gan E. Evans. 1777.'

7. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1777.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-y-Prior. MDCCLXXVII.'

8. 'Llythyr o annerch at Ieuengctyd Cymru, i geisio'r Arglwydd tra gellir ei gael ef, yn awr ym mlodeu eu Dyddiau. Lle yn fyr y dangosir, Yn Gyntaf, Am fawr drueni y Bobl ieuaingc hynny sy'n cael eu gadael heb eu dal yn rhwyd yr Efengyl yn y dyddiau diweddaf hyn. Yn Ail, Breintiau'r Bobl ieuaingc y rhai y mae yr Arglwydd ein Duw ni yn eu galw atto, gan eu gosod yn ei winllan ym moreu-ddydd eu ieuengtyd. Gan Ioan Tomas: Gweinidog yr Efengyl.

Trefecca: Argraphwyd yn Flwyddyn 1777. (Pris 6d.)' [12plyg.]

9. 'Y Psalteri, neu Psalmiau Dafydd, yn Gymraeg, gyda'r Catechism, &c.

Argraffwyd yn Ngwrecsam, gan R. Marsh.'

10. ¶ 'Drych y dyn Maleisus, neu Bregeth yn dangos yspryd chwerw ffyrnig y dyn maleisus yn y byd hwn, &c. Gan T. Evans, Vicar Llangamarch.

Mwythig.*

11. 'Chwech ar Hugain o Lythyrau ar Destynau Crefyddol. Gan Omicron. Wedi newydd ei gyfieithu o'r Saesonaeg i'r Cymraeg, er Budd i'r Cymry. Gan William Davies. At ba un y chwanegwyd ychydig Hymnau ar amryw fesurau, i'w canu yn gyhoeddus.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-y-Prior. MDCCLXXVII.' 208 tudalen 12plyg.

[OMICRON, awdwr y Llythyrau hyn, ydoedd y Parchedig JOHN NEWTON, o Olney, cyfaill mynwesol y bardd Cowper. Ganwyd ef yn Llundain yn 1725; urddwyd ef ar guradiaeth Olney, yn swydd Buckingham, yn 1764; a bu farw yn rheithor St. Mair Woolnoth, yn Llundain, yn 1807. Pan yn gwasanaethu Olney daeth yn gydnabyddus a'r bardd a nodwyd, a chyhoeddasant rhyngddynt yr Emynau a elwir yr 'Olney Hymns.' Ym mhlith ei gyfansoddiadau ereill gellir nodi:—'Review of Ecclesiastical History;' 'Cardiphonia;' 'The Messiah,' a.r.c.]

* [Gwel rhif 9, d.f. 1747.]

12. 'Casgliad o'r Galwad i'r Annychweledig. Esaia 45. 22. Trowch eich wynebau attaf fi, holl gyrau'r ddaear, fel y'ch achuber:—canys myfi wyf Dduw, ac nid neb arall. Ezeziel 18. 21, 22. Os yr annuwiol a ddychwel oddi wrth ei holl bechodau y rhai a wnaeth,—efe gan fyw a fydd byw,—Ni chofir iddo yr holl gamweddau a wnaeth.

Eutftecy: Argraphwyd yn y Flwyddyn, M,DCC,LXXVII.

☞ Nid yw y Llyfran hwn ar werth, ond rhodd Ewyllysiwr da i Grefydd i'w gyd-wladwyr.'

Yr oedd hwn yn drydydd waith o gyhoeddiad y 'Galwad,' &c., gan R. Beston.*

[Ai *Trefecca* a olygir wrth y llythyrenau cyfriniol *Eutftecy*?] Nid oes un argraffeb ar y diwedd, na rhagymadrodd ar y dechreu; ond dechreu a llyfryn (yr hwn a gynnwys 36 tudalen 12plyg) ar gefn dalen yr enw.]

13. 'Ymadroddion Bucheddol ynghylch Marwolaeth. O Waith Doctor Sherlock. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Thomas Williams, A.M. Yr ail Argraphiad, Wedi ei ddiwygio o amryw Feiau, a cham-yspeliadau oedd yn yr Argraphiad cyntaf.

Aberhonddu, Argraphwyd tros J. Evans, gan E. Evans: Lle gellir cael argraffu pob math o Gopiau ar Bapur a Llythyren newydd. 1777.' [12plyg.]

14. 'Llyfr Gweddi Gyffredin.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan S. Prys.' 12plyg.

15. 'British Remains; or A Collection of Antiquities relating to the Britons: Comprehending, I. A Concise History of the Lords Marchers; their Origin, Power, and Conquests in Wales. II. The Arms of the Ancient Nobility and Gentry of North Wales. III. A Letter of Dr. Lloyd, Bishop of St. Asaph's concerning Jephrey of Monmouth's History. IV. An Account of the Discovery of America, by the Welsh, more than 300 years before the Voyage of Columbus. V. A Celebrated Poem of Taliesin, translated into Sapphic verse. The whole selected from original MSS. and other authentic Records. To which are also added, Memoirs of Edward Llwyd, Antiquary. Transcribed from a Manuscript in the Museum, Oxford. By the Rev. N. Owen, Jun. A.M. Sparsa Coegi.

London, Printed for J. Bew, in Pater-Noster-Row. 1777.' [8vo.]

NICHOLAS OWEN, ieuangaf, ydoedd fab i'r Parchedig Nicholas Owen, person Llandyfydog, yn sir Fon. Cafodd fywoliaeth Botwnog a Mellteyrn, yn Lleyn, sir Gaernarfon, tua'r fl. 1799, a bu yn

* Gwel rhif 2, d.f. 1677; rhif 1, d.f. 1751; a hwn yma.

ei dal hyd ei farwolaeth, yn 1812, yn o ddeutu 65 oed. Yr oedd yn byw ym Mangor, yn ammhriod, ac yn talu ymweliad achlysurol i'w blwyfau, gan gadw curad. Cynnwysa y llyfr hanes am ddarganfyddiad America, gan y Madogiaid; llythyr 'Morgan Jones, the son of John Jones of Bassaleg, near Newport, in Monmouthshire,' amseredig yn '*New York*, March 10, 1685-6;' llythyr Charles Lloyd, Dolobran, at ei gefnder, amseredig '8 M. 14 Day $\frac{1}{4}$,' yn ol dull y Crynwyr, un o ba rai oedd C. Lloyd; ac hefyd 'Copy of Dr. Plott's Account of an ancient Discovery of America, from Wales.' Y mae hefyd ynddo farddoniaeth Taliesin, gan y Parch. David Jones, 'Vicar of Llanfair Dyffryn Clwyd, in Denbighshire. A.D. 1580.'

16. 'Cydymmaith yr Allor. Cyfieithedig gan L. E.

Mwythig. Argraffwyd gan Stafford Prys.'

Yr oedd hwn yn bummed argraffiad.*

17. 'The British Language in its Lustre, Or a Copious Dictionary of Welsh and English. Containing many more British Words than are in Dr. Davies's Antiqua Linqæ Britannicæ Dictionaryum Duplex. First, Explaining the hard British Words, by more familiar Words in the same tongue, very useful for all such as do desire to understand what they read in that Language. Secondly, Shewing the proper English to every British Word, and consequently The true Way of Spelling all Words in both Languages. Amplified With the Geographical Names of Countries, Counties, Cities, Towns and places in Great Britain, (and some beyond Sea) in Ancient British and Present English. Whereunto are added, Plain and easy Directions to Welshmen, for the true Pronouncing of the English Tongue, by a Short Introduction in the British Language. With the Proper Use or Signification of all Accents, Points, or Stops, as now used in the British and English; being Necessary to be understood by every Reader. Compiled by the Great Pains and Industry of Thomas Jones.

Shrewsbury: Printed by Stafford Prys, Bookseller, in the Year 1777.'

Y mae hwn yn ail argraffiad.† Y mae iddo wyneb-ddalen Gymraeg, yr hon sydd yn gyfargraff o un yr argraffiad cyntaf, gydag ychydig o wahaniaeth dibwys, gan mwyaf yn waethygiad, lle y dylasai fod yn wellâd, agos i gan mlynedd ar ol yr argraffiad arall. Yr ydys wedi cael llawer esiampl o lyfrau yn cael eu gwaethygu trwy argraffiadau diweddar, rhagor eu hen argraffiadau boreuaf.

* Gwel rhif 3, d.f. 1715; rhif 4, d.f. 1752; rhif 11, d.f. 1762; rhif 5, d.f. 1770; a hwn yma.

† Gwel rhif 3, d.f. 1688. [Yn hytrach, *trydydd* argraffiad; yr ail yw rhif 1, d.f. 1760.]

18. 'Trial of the Bishop of Bangor for a Riot, &c. Before Mr. Justice Heath at the Assizes at Shrewsbury, July, 1777.' 8vo.

Yr Esgob More oedd y troseddwr hwn.

19. 'Pregeth ynghylch Rhodio gyda Duw. O Waith y Parchedig Mr. George Whitfield, A.B. Yr Ail Argraffiad.* At yr hyn y chwanegwyd ychydig o Hymnau gan Nathaniel Williams, o Lanwinio.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross. 1777.'

20. ¶ 'Prysur wahoddiad mewn Crist'nogol Gariad, at bawb i droi at Yspryd Crist ynddynt eu hunain; fel ag y delont i iawn ddeall Pethau Duw, a chael eu nerthu i'w wasanaeth ef yn gymmeradwy, &c. Gan Benjamin Holmes.

Caerfyrddin, argraphwyd, dros y cyfieithydd gan J. Daniel, yn Heol-y-farchnad isaf.'

Y mae enw 'Job Thomas,' wrth ei 'Ragymadrodd,' fel cyfieithydd, yr hwn oedd Grynwr, o Langadog, sir Gaerfyrddin. Y mae yn ail argraffiad ac yn ail gyfieithiad.†

21. 'Welch Piety: or, a further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas, 1776, to Michaelmas, 1777.'

Rhoddwyd 100 o'r uchod yn anrheg i lyfrfa y 'Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol,' gan Mrs. Bevan, o Lacharn. „

22. ¶ 'Gwin i'r Diffygiol, o'r Winwydden oreu. Neu ychydig Hymnau wedi eu cymeryd allan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, er diddanwch i'r pererinion ar eu taith tua Mynydd Sion. Gan Dafydd William.

Caerfyrddin, argraffwyd gan Ioan Daniel.'

[Yn y wedd ganlynol y saif yr enw yn fy adysgrif i :—'Gwin i'r Diffygiol, o'r Winwydden Orau : Neu, Ychydig o Hymnau, wedi eu cymmyrd allan o'r Ysgrythurau Sanctaidd, er Diddanwch i'r Pererinion ar eu Taith tu a Mynydd Sion. Gan Dafydd Wiliam. Caerfyrddin, argraffwyd tros yr Awdwr, gan John Daniel, yn Heol y Brenin, lle y gellir cael ar Werth (pris 3c.) Hymnau a Chaniadau Efangylaidd : o Waith John Sanders, o Blwyf Penbre yn Sir Gaerfyrddin.' Llyfryn o 12 tudalen 16plyg, heb ddyddiad, ydyw. Ymddengys ei fod wedi ei gynamseru o gylch deng mlynedd; canys gwelir ei gyhoeddi ar ol Hymnau a Chaniadau John Sanders, ac nid ymddangosodd y cyfryw dan y fl. 1786.]

23. 'Marwnad o Goffadwriaeth am Farwolaeth Mr. David Jones o'r Hafod, gynt o Gayo; Cyfieithydd Salmau a Hymnau Dr. Watts. Yr hwn a ymadawodd o'r byd hwn y 30 o Awst, yn y flwyddyn o oedran ein Harglwydd 1777. Gan J. T. Gweinidog yr Efengyl.'

* Gwel rhif 14, d.f. 1752.

† Gwel rhif 2, d.f. 1746.

Y J. T. hwn ydoedd y Parch. John Thomas, gynt o Raiadr Gwy a'r Cae Bach, yn sir Faesyfed.

24. 'Marwnad y Parchedig Mr. Miles Harries, o Drosnant, gerllaw Pont-y-pwl, yn Sir Fynwy. Yr hwn a orphenodd ei Yrfa y cyntaf o fis Tachwedd, yn y Flwyddyn 1776, yn y 76 o'i Oedran. Gan David Jones.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, 1777.'

25. 'Ductor Nuptiarum: neu Gyfarwyddwr Priodas. Mewn dull o ymddiddan rhwng Martha Pseudogam, a Mary Eugamus, ill dwyoedd ar y cyntaf yn proffesu duwioldeb, ond y naill wedi gwrthgilio, yn priodi yn ol y Cnawd; a'r llall yn dal at Rym Duwioldeb, yn priodi yn Ofn yr Arglwydd. Yn dri ymddiddan, &c. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr Awdwr, gan E. Evans; lle gellir cael argraphu pob math o Gopiau ar Bapur da a Llythyren newydd. 1777.'

26. 'Traethawd ar Fywyd Ffydd, gan W. Romaine, Periglor y Fonachlogddu (Black-fryars), a Lecturer St. Dunstan, yn Llundain. A Gyfieithwyd gan Ioan Tomas, trwy ganiatad yr Awdwr.

Liverpool: argraphwyd yn Heol y Morfa, M,DCC,LXXVII.'

WILLIAM ROMAINE a anwyd yn Hartlepool, Durham, yn 1714. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholegau Hertford ac Eglwys Crist, yn Rhydychain. Bu yn llafurio beth amser yn Bootle, Cumberland. Yn 1748, cafodd ddarlithwriaeth St. Botolph, Llundain; a'r flwyddyn ganlynol, gwnaed ef yn ddarlithydd St. Dunstan-in-the-West; ac yn 1750, penodwyd ef yn bregethwr yn St. George, Hanover Square. Yn fuan wedi hyny dewiswyd ef yn Broffesor Seryddiaeth Gresham. Cafodd, yn 1764, fywoliaeth St. Ann, Blackfriars, lle, gyda St. Dunstan, a wasanaethwyd ganddo hyd ei farwolaeth. Y gwaith uchod yw un o'i brif weithiau. Yr oedd yn nodedig o boblogaidd fel pregethwr, ac yn gefnogydd gwresog i Mr. Whitfield a'r Methodistiaid, heb droi allan o'r Eglwys. Ato ef yr elai Methodistiaid Calfinaidd yr oes hõno, i gymmuno. Bu farw yn 1795, yn 81 oed.*

27. Samson's Hair, An Eminent Representation of the Church of God: in two parts. To which is added, two Sermons: First Shewing, The Evil Nature, and Hurtfull Effects of Unbelief. Second, of God's Subduing and Keeping under the Strong Corruptions of his People: And Healing them. By Edmund Jones: Minister of the Gospel.

Trevecka: Printed in the Year M,DCC,LXXVII.'

* Maunder's *Biographical Treasury*.

28. ¶ 'Ymddiddan rhwng Siopwraig a gwraig yr Hwsmon. Gan Thomas Edwards.* 1777.'

29. ¶ 'Diferion o Ffynnon Iachawdwriaeth Hymnau gan Dafydd Williams.†

30. 'Gorfoledd ym Mebyll Seion. Ail Ran. Neu ychydig o Hymnau Efengylaidd, Wedi eu cymmeryd allan o amryw Destynau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Wedi eu hamcanu i'r Diben o ddi-ddanu'r gwan Feddwl, y sydd ar ei Daith tua'r Jerusalem Newydd, Gwir Noddfa'r Gwaredigion, &c. Gan Dafydd Wiliam, gynt o Landeilo Tal y Bont, yn Sir Forganwg, yn y 59 o'i oedran, a thri Mis.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr gan J. Ross, yn Heol y Prior; ac ar werth gan Thomas Maurice. 1777. [Pris Dwy Geiniog.]'

Darfu i'r awdwr wneyd cyfansoddiad neu gyfieithiad Seisonaeg o'r uchod.

31. 'Casgliad o Hymnau neu Crist yn Noddfa y Crediniol yn amser trallod.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros Thomas Dafydd, gan J. Ross, ger llaw yr Eglwys. 1777.'

Y mae yn gyssylltiol â hwn yr hysbysiad canlynol:—

'Daliwech Sylw, Ar Dydd Sadwrn, yr 8fed o Fis Tachwedd, y Cyhoeddir, Pris 8c. wedi ei wnio, Almanac Cymraeg am y Flwyddyn o Oed ein Iachawdwr 1778. Argraffwyd ac ar werth gan Ross, yng Nghaerfyrddin.'

32. 'An Account of the most Romantic Parts of North Wales.

London, Printed for T. Davies, Russel-Street, Covent-Garden; and T. Cadell, in the Strand. MDCCLXXVII.'

Y mae y cyflwyniad i 'Sir Watkin Williams Wynne,' gan 'Joseph Cradock.'

33. 'Dwy o Gerddi Newyddion. Y gyntaf ynghylch Llofryddiaeth a wnaeth Gwr yn ymryfus; ac fel y bwriwyd y Weithred ar Wr arall ac fel y Safodd y Gwr ai lladdasai ef yn Fforman i achub y Dyn gwirion ac y bu ef 15 mlynedd yn fyw wedi lladd y Gwr, ar peth fynegodd ir Ustus fel y bu. Yr Ail fel y darfu i Wr yn agos ir Bala dagu ei wraig newydd Briodi ai bwrw i Afon Dyfrdwy hwn sydd yn Garcharwr i aros i gyfiawn Farnedigaeth am ei Weithred.

* Twm o'r Nant.

† Gwel rhif 27, d.f. 1779.

Ni Werth Ddyn prydferth un pryd : y Nefoedd
 Er nwyf ac Iffentid ;
 Siomedig Benthylg yw'r Byd
 Ai fonedd ni Sai F'unud. *Dewi Fardd* cc.

Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1777.'

Enw 'Ellis Roberts' sydd wrth y cerddi hyn, fel awdwr.

34. 'Marwnad Bridget Roberts, Gwraig Weddw Dduwiol, o Lanbryn-mair, yn Sir Drefaldwyn, yr hon a ymadawodd â'r Bywyd hwn Rhag. 19. 1776, yn 78 Mlwydd Oed.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr gan J. Ross. MDCCLXXVII.'

Yr awdwr ydoedd un William Jones.

35. ['Ffurf Gweddi a Diolchgarwch i'r Hollalluog Dduw,' &c. Llundain, 1777.*]

1778.

1. 'Bardd a Byrddau, Amryw Seigiau, Neu Gasgliad o Gynghanedd, sef Carolau a Cherddi a Chywyddau, o waith Jonathan Hughes, Pengwern wrth Llangollen, yn Sir Ddinbych.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, yn y flwyddyn 1778.'

Bu JONATHAN HUGHES farw Tachwedd 25, 1805, yn 84 oed, a chladdwyd ef ym Mynwent Llangollen, ac arno y mae y beddargraff canlynol:—

'Am ddawnus gofus gyfan,—wir sulwad
 A'i sylwedd doeth gynghan ;
 Odid fawr yn llawr y llan,
 Byth nytha bath Ionathan.'

T. E. neu T. Edwards, o'r Nant, yw awdwr yr englyn.

2. ¶ 'Carwr y Cymru yn anfon ychydig Gymmorth i bob Tad a Mam, &c.

Mwythig.' 12plyg.

3. ¶ 'Yr Act am Bwyso Aur, a osodwyd allan mewn Trefn Ysbrydol, mewn dull o ymddiddan.'

Os yw y mynegiad yn gywir, y mae hwn yn ail argraffiad.†

4. 'Traethiadau ar Gatechism Eglwys Loegr : gyda Phregeth ar Gonffirmasiwn. Gan Thomas Secker, L.L.D. Diweddar Arch-

* [Thomas Arthur's *Catalogue*, Dec. 1868.]

† Gwel rhif 13, d.f. 1775.

esgob Caergaint. A osodwyd allan o 'Sgrifen Law yr Awdwr. Gan Beilby Porteus, D.D. a George Stinton, D.D. Capelwyr i'w Râs ef. Gwedi ei Gyfieithu gan Thomas Jones, Ficar Pennant.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan J. Eddowes. MDCCLXXXVIII.'

Y mae hwn yn llyfr 8plyg da, o 433 o dudalenau, ac yn gyfansoddiad cyfrifol iawn, yn cynnwys corff o dduwinyddiaeth. Y mae enwau y tanysgrifwyr yn cyrhaedd i 304, ac yn cymmeryd 356 o lyfrau. Yr awdwr,

THOMAS SECKER, LL.D., a anwyd yn Sibthrop, sir Nottingham, yn 1693. Cafodd ei ddyseidiaeth ar fedr bod yn weinidog Ymneillduol; ond tystiodd na allasai gydsynio â'r athrawiaethau a goleddid gan ei deulu, a chyddfurfiodd â'r Eglwys Sefydledig. Cafodd yn olynol bersoniaeth Houghton-le-Spring, prebenduriaeth yn Durham, capeliaeth i'r Brenin, a phersoniaeth St. Iago, Westminster. Yn 1735, dyrchafwyd ef i esgobaeth Bristol, ac yn 1737 i esgobaeth Rhydychain, ac yn 1755 i archesgobaeth Caergaint, lle y bu hynod fel gweinydd trefn a diwygiwr moesau. Y mae ei waith yn Seisonaeg, yn cynnwys pregethau gan mwyaf, yn 12 cyfrol. Bu farw yn 1768, yn 75 oed.* Am y cyfieithydd,

THOMAS JONES, yr oedd wedi cael personiaeth Llangynog, gan yr Esgob Newcome, yn 1762, yr hon ymddengys a gyfnewidiodd yn 1782 am Bennant Melangell. Bu farw tua'r fl. 1790.

5. 'Golwg ar Ddinas Noddfa, mewn Casgliad o Hymnau, &c. Gan Robert Thomas.

Trefriw, Argraffwyd.'

[Pa Robert Thomas ydoedd hwn? Ai nid Robert Thomas, Clochydd Llanfair Talhaiarn, yr hwn oedd yn dal y swydd hono pan yr oedd Ieuan Brydydd Hir yn gurad yno?]

6. 'Dirgelwch i rai i'w Ddeall, ac i eraill i'w Watwar, sef Tri Aderyn yn ymddiddan, yr Eryr, a'r Golomen, a'r Gigfran, neu Arwydd i Annereh y Cymru. Am y flwyddyn 666.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, ac ar werth yno gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau. 1778.' [8plyg bychan: 174 tudalen.]

Yr oedd hwn yn bedwerydd argraffiad, o leiaf.†

7. 'Diferyn Dewisol o Fel o'r Graig Crist. Neu Air byr o Gyngor i Sant a Phechadur. Yn Saesoneg gan T. Wilcoes. Wedi ei gyfieithu o'r 42 Argraphiad: fe werthwyd o hono yn Saesoneg Chwe' Ugain Mil. At ba un y 'chwanegwyd Hymn am Gariad Crist. Newydd gyfieithu o Waith Dr. Watts.

Aberhonddu, Argraphwyd dros Rys Dafis, gan E. Evans. Lle y

* *Maunder's Biographical Treasury.*

† Gwel rhif 13, d.f. 1653; rhif 7, d.f. 1714; rhif 1, d.f. 1752; a hwn yma.

gellir cael argraphu pob math o Gopiau ar Bapur da a llythyren newydd, am Bris rhesymol. 1778. [Pris Dwy Geiniog.]'

Hwn, tybygid, yw yr ail argraffiad.*

8. ¶ 'Y Weinidogaeth Lwyddiannus, neu Ymddiddan ynghylch effeithioldeb a llwyddiant pregethu ym mhlith Cristionogion o wahanol farnau.

Llundain, argraphwyd ac ar werth gan T. N. Longman ac O. Rees, ac yng Nghaerfyrddin gan J. Ross a J. Daniel. (Pris chwecheiniog).'

OWEN REES, un o gyhoeddwyr y llyfryn uchod yn Llundain, ydoedd Gymro, ail fab i'r Parch. Josiah Rees, gweinidog Undodaidd y Gelli Onen, ger Castell Nedd. Wedi bod yng ngwasanaeth, ac yn gydranog â Longman a'i Gyf., llyfrwerthwyr yn Paternoster Row, Llundain, dros ddeugain o flynyddau, ac elwa llawer o gyfoeth, efe yng nghanol haf 1837 a enciliodd o'r fasnach, gan feddwl hir fwynhau gweddill ei ddyddiau yn Gelli Gron, lle a brynasai, ac a addurnasai er ys blynyddau gyda'r bwriad hwnw, a lle yr oedd ei dad yn anneddu. Ond efe a fu farw yn ddyn ammhriod Medi 5, 1837, yn 67 oed.†

9. 'Hanes y Bedyddwyr ym mhlith y Cymry, gan Josuah Thomas.

Caerfyrddin, argraphwyd dros yr Awdwr, gan J. Ross. 1778.'

'Yr oedd cynnygiad wedi ei wneyd i'r Awdwr i ymgymmyd â'r gorchwyl er ys 30 mlynedd o'r blaen. Nid oedd ganddo nemawr feddwl am dano y pryd hynny. Cyn pen hir, cymmerodd ei sylw yn achlysurol. O ddeutu 1725, dechreuodd gasglu rhai awgrymiadau, fel y syrthient yn ei ffordd. Yn 1754, efe a symmudodd i Lanllieni, yn sir Henffordd. Wrth, fel hyn, adael y Dywysogaeth, bu agos iddo roddi i fyny bob meddwl am y pwnc; ond barnodd yn briodol roddi yr ychydig ddarnau a gawsai mewn rhyw drefn, ac yna eu hanfon i Gymru i'w lledaenu a'u diwygio cystal ag y gallent. Efe a wnaeth felly. Edrychodd un drostynt, a dywedodd na allai ef chwaneu dim: gwnaeth un arall yr un modd. Yr oedd yr Awdwr yn y Gymmanfa yng Nghymru, yn 1770, pryd yr adgofwyd ef am yr Hanes. Efe a fynegodd yr hyn oedd ef wedi ei wneyd, a chymhellwyd ef i adgymmyd y gwaith. Efe a wnaeth fath o addewid i wneyd felly, os na byddai i neb arall ymgymmyd ag ef.

'O ddeutu yr amser hwnw yr oedd Mr. Thomson o Lundain yn casglu hanes byr am yr Ymneillduwyr o'r tri enwad trwy Loegr a Chymru. Anfonwyd llythyr at yr Awdwr i Lanllieni ar y pwnc, yr hyn a'i tueddodd i ymosod ar y pwnc hir ohiriedig hwn. Yr oedd ei feddwl wedi ei roddi arno gyda gradd o benderfyniad—efe a feddylodd, a adgofiodd, a ysgrifennodd lythyrau—mewn gair, a

* Gwel rhif 11, d.f. 1740. [Gweler rhif 5, d.f. 1763; a rhif 31, d.f. 1764. Rhaid ei fod yn bedwerydd argraffiad yn y man lleiaf.]

† Rhaid bu O. Rees farw yn 1837 yn 67 mlwydd oed, nis gallasai fod ond 8 mlwydd oed yn 1768.]

wnaeth gymmaint ag oedd ei sefyllfa gaeth—pregethu bedair neu bump o weithiau yn yr wythnos, a chadw ysgol—yn ei ganiatäu. Yn 1776, efe a gymmerodd daith fer trwy Ddeheudir Cymru. Gwnaeth y Gymmanfa yn ei ffordd, a bu oddi cartref o ddeutu chwech wythnos, ac yn casglu defnyddiau. Ar ei ddychweliad, wrth edrych dros ei baprau, gwelodd yn fuan ddiffygion. Efe a ysgrifennodd i'r naill le a'r llall, am chwaneigiadau ac egluriadau, gan fyned ym mlaen gyda'r gwaith yn ddiwyd. Yng ngwanwyn 1777, argraffwyd rhai hysbysiadau, a thaenwyd hwy ym mhlith yr eglwysi, yn eu hysbysu o sefyllfa'r gwaith, gan ddymuno arnynt ymgynghori yng nghyd pa un a elid ym mlaen, ynte a ollyngid ef i lawr : ac i roddi eu meddwl iddo ef yn y Gymmanfa. Yn ganlynol cafodd fod pob eglwys yn dymuno i'r Hanes gael ei argraffu. Yr oedd y rhifedi y cytunwyd i'w cymmeryd o ddeutu 800, a thalwyd 1s. o flaendal, ac argraffwyd 1200.

'Sylwodd yr Awdwr, mewn Llythyr at y Darllenydd, mai gan fod y gwaith y traethawd cyntaf ar bwnc dyrys, na allai neb yn briodol ddysgwyl iddo fod yn berffaith; ond os darganfyddid dim camgymeriadau, y derbynai yr hysbysiad yn ddiolchgar. Pan ledaenwyd y llyfr, gwnaed sylwadau, rhai yn gywir, a rhai yn anghywir; rhai mewn ffordd gyfeillgar, ereill ddim yn hollol felly; ond darfu i'r Ysgrifenydd wneyd cymmaint o ddefnydd ag a allai o bob hysbysiad, heb ofalu pa un a ddaethent oddi wrth gyfaill neu elyn. Ym mhen tuag ugain mis printiwyd 18 tudalen o *Ddiwygiadau ac Ychwanegiadau*,* o'r un plygiad â'r llyfr, a thaenwyd hwynt yn rhodd, fel y gallai y neb a ddewisai eu cydrwymo. Can belled a hyn gwnaeth yr Ysgrifenydd *yr hyn a allasai*.†

Dyna hanes Mr. Thomas o'r gwaith. Y mae y llyfr yn 468 o dudalenau 8plyg, heb yr 18 tudalen o'r Diwygiadau. Gwelir nad yw yn ddiogel dilyn y gwaith heb y diwygiadau hyny, y rhai yn anfynych a geir wedi eu cydrwymo â'r gwaith, er eu bwriadu i'r pwrpas hwnw, a'u rhoddi yn rhad i'r derbynwyr. Heb law hyny, cafodd yr awdwr hanes hen eglwys neu gynnulleidfa Ilston, yr hwn a ddygasid i America gydag ymfudwyr cynnarol perthynol i'r Bedyddwyr; ac yn hwnw gwelodd drachefn rai camgymeriadau, y rhai a ddiwygiodd, ond yn Seisonaeg, yn y llyfryn a enwir isod.‡ Yn 1839, cyhoeddwyd 'Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru, gan David Jones, Caerfyrddin,' yr hwn sydd wedi rhoddi y diwygiadau a'r ychwanegiadau yn eu lleoedd priodol.

10. 'Welch Piety: or a further Account of the Circulating Welch Charity Schools, from Michaelmas 1777 to Michaelmas 1778.'

Rhoddodd Mrs. Bevan hanner cant o'r uchod i'r Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

* Gwel rhif 5, d.f. 1780.

† Thomas's *History of the Baptist Associations in Wales*, p. 52. *An Address to the Reader*.

‡ Thomas's *History of the Welsh Association*; 'Explanations and Additions, (with errors of the Press recitified) Made from the *Second Extracts*, sent by the Rev. Mr. Backus of Middeborough, after part of this History was printed.

11. 'Esponiad byr ar Catecism yr Eglwys, sef Holiadau ac Attebion Ysgrhythrol ynghylch Egwyddorion a Dyledswyddau'r Grefydd Gristionogol, yn bum rhan. Gan y Parchedig Mr. Griffith Jones, gynt Person Llanddowror, yn Sir Gaerfyrddin. Y Pedwerydd argraphiad.*

Llundain: argraphwyd gan William Olifer, yn Bartholomew-Close, ger llaw West Smithfield. M,DCC,LXXVIII.'

Nid arferai 'Person Llanddowror' roddi ei enw wrth ei waith yn ei fywyd, dim ond 'gan Weinidog o Eglwys Loegr;' eithr ei gyfeillion wedi ei farwolaeth a newidiasant hyny am ei enw yn llawn.

12. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, am y flwyddyn 1778.

Caerfyrddin, argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-Prior.'

13. Rhyw llyfr ar y Drindod.

Dywed y Parch. Josuah Thomas, am Gymmanfa y Glyn, yn sir Ddinbych, 1774:—'Yn flaenorol i gyfarfod y Glyn, argraffwyd y llyfr yn Gymraeg, yn cynnwys rhai pethau o berthynas i'r Drindod, yr hyn a dybiai llawer yn gyfeiliornus. Yn y llythyr hwn; tystiodd y Gymmanfa ei hanfoddlonrwydd iddynt, gan y tybid mai Bedyddiwr ydoedd Awdwr y llyfr.†

14. 'Llythyr y gwir Barchedig Dad yn Nuw, Risiart Davies, D.D. Esgob Ty Ddewi, at y Cymry. Yr hwn Lythyr a 'sgrifenodd efe at ei Gyd-wladwyr o flaen Cyfeithiad Wiliam Salsbri o'r Testament Newydd, i'w hannog hwy i ddarllain a defnyddio Gair Duw. Y pedwerydd argraffiad.‡

Caerfyrddin: Argraffwyd gan John Ross, yn Heol-y-Prior. M,DCC,LXXVIII.'

15. 'Caniadau Preswylwyr y Lluch, neu Hymnau ac Odlau y Gwaredigion o Wlad yr Aipht i Gaersalem Newydd. Salm cxvii. 2, &c.

Argraphwyd dros Sion Evan, yn y flwyddyn MDCCCLXXVIII.'

Y mae arwyddion mai gwaith Almanaciwr Caergybi§ yw y llyfr uchod. Y maent o bob barn athrawiaethol, fel gwaith y gwr hwnw yn gyffredin; eto, y maent yn hymnau melusion, a barddonol iawn, gan mwyaf. Ymddengys, oddi wrth hysbysiad cyssylltedig â'r llyfr uchod, am gyhoeddiad yr 'Athrofa Rad,' gan yr un gwr, a'r

* Gwel rhif 3, d.f. 1743; rhif 2, d.f. 1749; rhif 18, d.f. 1766; a hwn yma.

† *History of the Welsh Association*, p. 68.

‡ Gwel rhif 2, d.f. 1567; rhif 1, d.f. 1772; a hwn yma. Nid ydys wedi cael ond y tri hyn. [Cymharer y nodyn ar rif 1, d.f. 1772.]

§ John Roberts, neu Sion Rhobert Lewys.

'Diferyn Dewisol o Fel,' mai F. Huxley, Caerlleon, a'i hargraffodd, canys efe a argraffodd yr olaf.

16. 'Eglurun y Boreu; ar Waith y Nosweithieu; sef llyfr Dehongliad Breuddwydion o amriw ystyriaethau. Ymha un y dangosir Gwahaniaeth rhwng Breuddwydion Gwylltion a Breuddwydion o Rybydd, ynghyd a chywir arwyddocad arnynt. Yr ail argraphiad yn llawnach nag o'r blaen.

Argraphwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau, lle yr argrephir pob math o lyfrau, &c., yn y modd mwya' hardd a buan, ac am y pris issa. 1778.'

Nid ydym wedi cael yr argraffiad cyntaf, a daeth allan argraffiadau o hono yn y 19fed canrif.

17. 'Two successive Tours through the whole of Wales, with several of the adjacent English Counties, so as to form a comprehensive View of the picturesque beauty, the peculiar manners and the fine antiquity in that interesting part of the British Island, by Henry Skerne, Esq.

London. 1778.' 8vo.

18. 'Marwnad, er Coffadwriaeth o Farwolaeth y Parch. W. Owen Jones, o Dredraeth; a Thomas Jones, Aberteifi, gynt o Waingelod. Dau Was i Iesu Grist, a eth adref o Fyd o wai i Fyd o wynfyd, Ynghyd a 'chydig o Hymnau, Ar amrywiol Destynau o'r 'Scrythur, ac yn brofiadol. Gan John Evans, gerllaw Castell-Newydd.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross. 1778.'

19. 'Gosodedigaethau Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion yn Llundain. Dechreuedig yn Mis Medi 1751.

Llundain Printiedig i Wasanaeth y Gymdeithas. M DCC LXXVIII.'

20. ¶ 'Prophwydoliaeth Myrddin; Wedi ei chyfansoddi ar Fesur Cerdd yn y Flwyddyn 1668. Gan Weinidog o Eglwys Loegr. Y trydydd Argraphiad.'

Nid ydys wedi cael gafael yn yr argraffiadau blaenorol.

[Gweler rhif 24, d.f. 1768. Diau mai yn amryfus, naill ai gan argraffwr y trydydd argraffiad, ai gan ein hawdwr wrth adysgrifenu, y gosodwyd y flwyddyn '1668' yn lle 1768; canys y mae y pennill diweddaf yn hysbysu yn ddi-amwys mai yn 1768 y cyfansoddiwyd y gerdd.]

21. ¶ 'Ymddiddan rhwng Swagrer golygus ag Arlwyddes hawddgar, yn gosod allan y modd y ceisiodd ei themtio i Odineb, ac fel y darfu iddi trwy amryw Resymmau ei wrthwynebu a'i orchfygu.'

22. 'Gorfoledd ym Mhebyll Seion. Y Drydedd Ran. Neu Ychydig o Hymnau Efangylaidd, Wedi eu cymmeryd allan o amryw Destynau o'r Ysgrhythrau Sanctaidd. Wedi eu hamcanu i'r Diben o ddiddanu'r gwan feddwl, sydd ar ei Daith tu a'r Jerusalem newydd, gwir Noddfa'r Gwaredigion, &c. A Gyfansoddwyd gan Dafydd William, gynt o Landeilo Tal y Bont, yn Sir Forganwg.

Aberhonddu, Argraphwyd tros yr Awdwr gan E. Evans, 1778. Lle gellir cael agraphu pob math o Gopiau, ar Bapur da a Llythyr-en newydd, am Bris rhesymmol. (Pris Ceiniog).'

23. ¶ 'Gorfoledd ym Mhebyll Seion. Y Bedwerydd Ran. Gan Dafydd William.

Aberhonddu.'

24. 'A Tour in Wales MDCCLXXIII.

London Printed by Henry Hughes. MDCCLXXVIII.'

'Wedi amryw deithiau dros chwe' Sir *Gogledd Cymru*, yn y rhai y cesglais lawer o ddefnyddiau i wneyd eu hanes, mi a'u teflais i ffurf taith, a chyhoeddais y gyfrol gyntaf yn bedwarplyg, gyda xxvi o gerffuniau, yn 1778.* Dyna fel y dywed yr awdwr galluog, y teithydd a'r hynafiaethydd enwog,

THOMAS PENNANT, yr hwn oedd fab hynaf David Pennant, Ysw., o'r Downing, ym mhlwyf Whitford, sir Fflint, lle y ganwyd ef Mehefin 14, 1726. Cafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngwrecsam a Rhydychain. Treuliodd ei holl oes yn efrynu hanesiaeth naturiol a hynafiaethol, gan deithio o'r naill wlad i'r llall, i chwilio am bob peth hynod—llysiau, mwneu, anifeiliaid, pysg, ac adar; ac hefyd hen weithiau celfyddyd, ac achau y Brytaniaid, y rhai a gyhoeddodd mewn ffurf teithiau; ac ym mhlith ereill, teithiau trwy Gymru, y rhai ydynt annhraethol werthfawr, o blegid ei sylw o bob hynafiaeth. Daeth ei holl waith i gryn un ar bymtheg ar hugain o gyfrolau. Cydnabuwyd ei werth gan Brifysgol Rhydychain, trwy ei raddio yn LL.D. Bu farw Rhagfyr 16, 1798, yn 72 oed.†

25. 'Galarnad Ann Pugh, o Blwyf Llangammarch, ar ol ei Mab Rhys Pugh, Yr hwn a ymadawodd â'r Byd yn 22 Oed, yn Nechreu y Flwyddyn 1778. Ac a roddodd yn ei Ewyllys diweddaf ugain Punt at Gapel Cefen Gorwydd. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans, 1778.'

26. ['Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd. Gan J. Alleine.

Mwythig, 1778, 12plyg.]

* *The Literary Life of the late Thomas Pennant, Esq.*, p. 26.

† *Literary Life, &c.*; *History of Whitford and Llanasa*; *Parry's Cambrian Plutarch*, p. 357.

1779.

1. 'Hanes Troedigaeth rhyfedd a hynod y Parchedig Thomas Goodwin, D.D. A ddygwyd i fyny yng Nghambridge, a weinidogaethodd yn llwyddiannus yno a Lleoedd eraill, aeth drosodd i Holand, a fu yn Fugail ar Gynnulleidfa Saesoneg yno, a ddychwelodd i Lloegr, ac a fu yn un o Aelodau'r Gymmanfa barchedig yn Westminster, lle cyfansoddwyd Catecism y Gymmanfa, ac a 'sgrifennodd amrywiol o Lyfrau bywiol ac ardderchog mewn Difnyddiaeth. Lle dangosir pa mor belled y gall Serchiadau Natur, Argyhoeddiadau cyffredin, Cydwybod naturiol, a Chrefydd hunan-gyfiawn fyned, heb wir Ras, Adnabyddiaeth o Dduw, nac un Egwyddor union o Sancteiddrwydd. Ynghyd a Hymnau ar Fesurau newyddion. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans. Lle gellir cael argraphu pob math o Lyfrau, ar Bapur da, a Llythyren newydd, am Bris rhesymol, 1779.'

Y mae yn ei ddiwedd hysbysiad helaeth am y 'Pantheologia,' oedd wedi ei gyhoeddi er ys 17 o flynyddoedd yn ol,* a rhesymau drosto, yn erbyn gwrthddadleuon rhywrai.

2. ¶ 'Pregeth ar Salm exix. 165. Gan Thos. Jones, Ficar Pennant.

Aberhonddu.'

3. ¶ 'Llyfr Gweddi Gyffredin.

Caergrawnt.' 12plyg.

Cyhoeddwyd y 'Llyfr Gweddi' uchod ar draul y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a gwerthid ef am 10s. 10c.

4. 'Welch Piety: or a Further Account of the Circulating Welch Charity Schools from Michaelmas 1778 to Michaelmas 1779.'

Rhoddodd Mrs. Bevan hanner cant o'r uchod i Lyfrfa y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

5. 'Llun Agrippa. Y Cristion o fewn ychydig wedi ei Ddadguddio: Neu'r Gau Broffeswr wedi ei Chwilio a'i Holi, yn cael ei Fwrw ymaith. Gan Mathew Mead. Yr ail Argraphiad,† Gwedi ei Gymmharu â'r Saesonaeg, a'i ddiwygio o amrywiol o Feiau, ag oedd yn yr Argraphiad cyntaf.

Trefecca; Argraphwyd yn y flwyddyn 1779. Pris 9 ceiniog.'


* Gwel rhif 2, d.f. 1762.

† Gwel rhif 16, d.f. 1770.

6. 'Ychydig o Eiriau o Hymnau Newydd, o waith Thomas Dafydd, ar ddymuniad rhai o'i Ffryns Cristionogol, a gafodd lawer o fudd wrth eu canu, Ynghyd a Marwnad Elizabeth Jones, o Dref Llantrisant, ar ddymuniad pobl Ieuaingc na's cawsant yr argraffiad cyntaf.'

7. 'Blodeu-gerdd Cymry. Sef Casgliad o Caniadau Cymreig, gan amryw Awdwyr o'r Oes ddiwaethaf. Yr hwn a gynnwys draethiadau Duwiol, a Diddanol; y rhai ni fuant yn gyhoeddedig mewn Argraph o'r blaen. O Gynnulliad David Jones o Drefriw.

Argraphwyd yn y Mwythig, ac ar werth yno gan Stafford Prys, gwerthwr llyfrau.

 Bydded hyspys i'r Cymru, fod Llyfr Dewisol Ganiadau yr Oes Hon yn yr argraphwasg, ac a fydd yn barod ynghylch Gwyl Mihangel 1779. Pris 3s.'

Y mae hwn yn llyfr trwehus o xxviii a 544=oll yn 572 o dudal-enau 12plyg. [Nid oes dyddiad wrtho, ond yr hyn a awgrymir uchod.]

8. 'Deonglydd y Ser.'

9. 'Dewisol Ganiadau yr Oes Hon. O waith llawer o Feirdd Cymru. A gasglwyd ac a gyfansoddwyd gan Hugh Jones, Llangwm.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys yn y flwyddyn 1779.'

Ymddengys fod hwn yn ail neu yn drydydd o'r tri argraffiad a gyhoeddwyd o hono.*

10. 'A Geographical, Historical, and Religious Account of the Parish of Aberystwith: in the County of Monmouth. To which are added, Memoirs of several Persons of Note, who lived in the said Parish. By Edmund Jones.

Trevecka: Printed in the Year 1779.'

11. 'Seren Tan Gwmwl.

Llundain. 1779.'

Awdwr y llyfr ydoedd

JOHN JONES, brodor o Lan y Gors, ym mhlwyf Ceryg y Drudion, yn sir Ddinbych; ac o blegid hyny a adnabyddid yn well wrth yr enw 'Sion o Lan y Gors' Bu flynyddoedd yn cadw tafarn, a elwid *King's Head*, yn Heol Ludgate, Llundain. Yr oedd ganddo ddoniau anghyffredin i gyfansoddi barddoniaeth ddigrifol, fel y prawf

* Gwel rhif 1, d.f. 1759. [Ymddangosodd argraffiad o'r gwaith yn Nhrefynnon yn 1823, yr hwn a elwir 'Y Trydydd Argraffiad.']

ei gerddi, 'Die Sion Dafydd,' 'Offeiriad Aberteifi,' 'Bess yn Teyrnasu,' 'Sessiwn yng Nghymru,' &c. Pleidïo y Chwyldroad yn Ffrainc y mae y llyfr uchod. Y mae yn cynnwys y sylwadau llymaf ar freninoedd a allai iaith ei rodï; er y rhaid cyfaddef fod amgylchiadau yr amser yn gwneyd peth yn gabldraith y pryd hyny, na chyfrifasid felly ar amserau, a than amgylchiadau ereill. Gwnaeth y llyfr gryn gynhwrf yn y wlad y pryd hyny; ac ysgrifenydd atebiad iddo. Mr. Jones oedd yr ysgrifenydd mwyaf llafurus a fu yng ngwasanaeth Cymdeithas y Cymreigyddion. Bu farw Mai 21, 1821, yn 52 oed; a chladdwyd ef yn Eglwys St. George, ger St. Paul, Llundain.

12. 'Hanes Troedigaeth un o'r Indiaid digred i'r grefydd Gristionogol. Mewn Llythyr at Ffrynd.

Aberhonddu, argraphwyd ac ar werth gan E. Evans. 1779. [Pris dwy geiniog.]

Y mae yn dra thebygol mai un o lyfrynau 'Bardd Pant y Celyn' yw hwn.

13. 'Coppi o Lythyr, yr hwn a gafwyd tan Garreg. Y pedwerdd argraffiad.

Trefriw. 1779.'

Y mae yr hysbysiad canlynol ar ddalen ddiweddaf y llyfryn uchod:—

'Bydded hyspys fod John Williams, Dysgawdwr Miwsic, o Foddeyrn, yn bwriadu, trwy help ei gydwladwyr a phawb o'i ewyllysyr dâ, gael llyfr i'r print, a elwir (Cerddoriaeth Seion) yn dair rhan,

1. Yn Egoryd ar (Gamut) sef Clorian Peroriaeth, ac eglurhad helaeth ar bob gradd o'r Tönau amser cyffredin ac amser trefflyc.

2. Y Peroriaethu ac adnodau o'r Salmau, ynghyd a fo'n berthynasol i bob un.

3. Hymnau ac Anthem ar amryw achosion, ynghyd a Geirlyfr yn egoryd ar y geiriau caledion mewn Miwsic; a'r llyfr a ddaw allan gan gynted ac y ceffir digon o gynnorthwywyr. Ai bris a fydd 2s. 6c. mewn papur glas.'

Ni wyddys a gafwyd y gefnogaeth angenrheidiol i'w gyhoeddi. Nid ydys wedi ei weled erioed.

14. 'Marwnad Elizabeth Jones o Lantrisant, yn sir Forganwg. Gan Dafydd Williams.

Aberhonddu, argraphwyd gan E. Evans.'

Pregethwyd yn ei chladdedigaeth gan yr efengylaidd Barch. D. Jones, Llanganna. Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.

15. 'Testament Newydd ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist, &c.

Argraffwyd yn y Flwyddyn ein Harglwydd. M,DCC,LXXIX.'

Testament bychan tew ydoedd hwn, a'r llinellau yn croesi y ddalen, ac nid yn golofnau. Nid oes enw argraffydd, am mai cyhoeddiad dirgelaidd ydoedd, gan rai o argraffwyr y Mwythig, tybygid, heb yn wybod i argraffwyr y Brenin na'r Prifysgolion, gan y rhai yr oedd trwydded i argraffu yr Ysgrythyrau heb esboniad na deongliad. Ond yr oedd parotoad yn cael ei wneyd, yr oedd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol yn casglu cyfraniadau er ys blynyddoedd bellach, tuag at gyhoeddi argraffiad o'r Testament a'r Beibl yn Gymraeg, a cheir y cyfrif canlynol:—

Derbyniwyd tuag at y Beibl Cymraeg, Talwyd ar gyfrif y Beibl
a'r arian am Lyfrau. Cymreig.

	£	s.	d.		£	s.	d.
O Ebrill 1771 i Ebrill 1772...	167	2	0...	...	86	15	0
— 1773 — 1774...	225	6	8...	...	172	4	2
— 1775 — 1776...	166	3	6...	...	95	2	6
— 1777 — 1778...	2	2	0				
— 1778 — 1779...	30	18	0...	...	17	11	6
— 1779 — 1780...	6	15	0...	...	1	10	0

Yn y cyfraniadau uchod ceir enw y Dr. Shipley am 5p. 5s. am ddwy flynedd; y Dr. Lloyd, deon Bangor, am gini y flwyddyn dros bum mlynedd; Mrs. Hughes, Bryn y Pys, sir Fflint, am 3p. 3s.; y Parch. Mr. Williams, ficer Llanegwad, sir Gaerfyrddin, am 4p. 4s. am ddwy flynedd; Mr. W. Williams, Caernarfon, am 3p. 3s. am ddwy flynedd; esgob Bangor am 2p. 2s.; y Parch. W. Thomas, canghellwr Llandaf, am 1p. 1s.; John Ellis, Ysw., Eyton, sir Ddinbych, am 1p. 1s.; y Parch. S. Strong, person Marchwiall, sir Ddinbych, am 1p. 1s.; Mr. Lloyd, ger Gwrecsam, am 1p. 1s.; hefyd ceir enw un Mrs. Sidney, wedi rhoi 5p. tuag at lyfrau crefyddol a thraethodau i'w hanfon i Gymru.

16. 'Byrr Hanes o'r pethau mwyaf hynod ym mywyd James Albert Ukawsaw Groniasaw, Tywysog o Affrica: Fel yr adroddwyd ganddo ef ei hun.

Aberhonddu, argraphwyd dros y Parch. Mr. W. Williams, gan E. Evans. 1779.'

Y mae y 'Rhagymadrodd at y Darllenydd' gan W. Shirley; ac yn gyssylltedig ag ef, rhoddodd Mr. Williams yr hysbysiad canlynol:—

'Bydded hyspys i'r Cyffredin, fod llyfr yn dyfod allan cyn pen Amser hir, os yr Arglwydd a ganiatta, o waith cyfieithydd y llyfr hwn: ag elwir *Gloria Scripturarum*, neu Ogoniant yr Ysgrythyr lân.' Yna rhydd ei gynnwysiad, ac ychwanega, 'Er mwyn cael prawf o yspryd y llyfr, mi roddais rai gwersi o'i ddechreuad ef yma, hyd i bedair tu dalen.' Nid ydys wedi dygwydd cael gafael arno, na

chlywed ychwaneg yn ei gylch, os cafodd ei gyhoeddi; ac yr ydys yn led benderfynol na chafodd, ac iddo ei gorffori yn yr ail argraffiad o'r 'Golwg ar Deyrnas Crist.' Y mae yr esiampl a roes o hono yn ei brofi yn gystal a dim arall o'i eiddo.

17. 'Llythyr y Gymmanfa, &c. Mehefin 1779, yn y Glyn-Caerog, yn sir Ddinbych; yn arddel Ffydd o flaen Bedydd.'

18. 'Addewidion Duw yn sylfaen Ffydd ac yn achos rhyfeddod a mawl y saint. Pregeth ger bron Henuriaid, Gweinidogion, ac eraill oedd Genhadon oddiwrth amryw Eglwysi y Bedyddwyr yng Nghymru, wedi cyfarfod mewn Cynmanfa yng Nglyn-Ceiriog, yn Sir Dinbych ar y 9fed o Fehefin 1779. A bregethwyd yno yn Saisnaeg Gan Mr. Samuel Medley: Wedi ei throi i'r Gymraeg, a'i Hargraphu, er lles cyffredin i'r Cymry, ar Ddymyniad rhai a'i clywsant.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-Prior, gerllaw'r Eglwys. MDCC,LXXIX.'

Wrth roddi hanes y Gymmanfa hon o eiddo y Bedyddwyr yn y Gogledd, dywed Mr. J. Thomas, 'Pregethodd y brawd John Williams, Gweinidog Llangloffan, oddiwrth Ioan i. 1—3. a'r brawd Samuel Medley, o Liverpool, yn Saesoneg, oddiwrth Zech. ix. 16, 17, a ailddywedwyd yn Gymraeg, gan y brawd T. Philips.* T. Philips oedd weinidog y Bedyddwyr yng Nghaerlleon ar Wysg, yn sir Fynwy. Mae yn debyg mai efe a'i cyfieithodd i'r wasg hefyd.

19. 'Ychydig o Hymnau: O Waith John Williams, o Sir Frecheiniog.

Argraphwyd yn Aberhonddu gan E. Evans. 1779.'

20. 'Dedwydd Ymadawiad y Duwiol: Neu Farwnad Elizabeth Jones, o Dref Llantrisant, yn Sir Forganwg. Yr hon a ymadawodd o'r Byd hwn, i Fyd yr Ysprydoedd Ebrill 18, 1779, &c.

Argraphwyd dros Thomas Dafydd, gan E. Evans, yn Aberhonddu.†

21. 'Y Catecism; Hynny yw, Athrawiaeth i'w dysgu gan bob un, cyn ei ddwyn i'w Gonffirmio gan yr Esgob. Gyda ag Ysgrythyrol Testynau perthynasol.

Argraphwyd yn Llundain yn y Flwyddyn MDCCCLXXIX.‡

22. ¶ 'Gweddiau Boreuol a Phrydnawnol o'r Litani.'§

* *History of the Welsh Associations*, p. 68.

† Dyma yr argraffiad cyntaf y cyfeirir ato yn rhif 6 uchod, yr hyn a ddengys y dylasai hwnw fod ar ol hwn, er, ef allai, yn yr un flwyddyn.

‡ Gwel rhif 11, d.f. 1775.

§ *Ysgrif* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

23. ¶ 'Can Dduwiol, Ar Ddull Ymddiddan, Rhwng Proffeswr Hunan Gyfiawn a'i Gydwybod, Wedi cael ei argyhoeddi. Gan Dafydd Jones, gynt o Gayo.

Caerfyrddin, argraphwyd gan John Daniel yn Heol y Brenin.'

24. 'Bywyd Duw yn Enaid Dyn: neu, Natur a Rhagoroldeb y Grefydd Grist'nogol. Ynghyd a'r Modd i gyrraedd y Gwynfyd ag y mae hi yn ei Gynnyg. Yn Saesonaeg gan Henry Scougal, A.M. Ac wedi ei droi i'r Gymraeg gan D.D.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross yn Heol-y-Prior, gerllaw'r Eglwys. M,DCC,LXXIX.' [12plyg: 120 tudalen.]

HENRY SCUGAL oedd ail fab Patrick Scougal, esgob Aberdeen. Ganwyd ef ym Mehefin, 1650. Yn fuan wedi gorphen ei amser yn y brifysgol, dewiswyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth yng Ngholeg y Brenin, Aberdeen. Wedi llanw y swydd hōno yn anrhydeddus am dair blynedd, cymmerwyd ef yn glaf gan y darfodedigaeth, yr hwn hefyd a roddodd derfyn ar ei fywyd gwerthfawr, Mehefin 13, 1678, ychydig ddyddiau cyn cyrhaedd 28 mlwydd oed. Heb law y traethawd uchod, cyhoeddwyd naw o'i bregethau o'i lawysgrifau wedi ei farwolaeth.*

[Y 'D. D.' a droes y llyfr i'r Gymraeg, ydoedd yr hyglod DAFYDD DAFIS, Castell Hywel, Ceredigion, awdwr 'Telyn Dewi,' yr hwn a anwyd yn y Goetref Isaf, plwyf Llangybi, ger Llanbedr, Ceredigion, yn y fl. 1745, ac a fu farw Gorph. 3, 1827, wedi cyrhaedd henaint teg. Dywedir yn y *Dictionary of Eminent Welshmen*, mai o gylch y fl. 1743 y ganwyd ef, ac mai o gylch y fl. 1826 y bu efe farw; ond cymmerwyd y dyddiadau uchod allan o'i 'Gofiant' gan ei olynnydd yn y weinidogaeth, yng Nghiliau, y Parch. Thomas Griffiths (*Tau Gimel*), yr hwn a ymddangosodd o wasg Caerfyrddin mewn llyfryn 12plyg yn 1828; ac nid oes un sail i ammhew eu cywirdeb. Yr oedd y cofiannwr a'r cofiannedig yn ddigon adnabyddus â'u gilydd.]

25. 'Tour in Wales MDCCLXXIII.

Dublin, Printed for Messrs. Steater, &c. M,DCC,LXXIX.'

26. 'Dwy o Gerddi Newyddion.

Trefriw, Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1779.'

Gwaith 'Elis y Cowper' ydynt.

27. 'Joy in the Tents of Zion: Or A Few Gospel Hymns, Taken out of Several Texts of the Sacred Scriptures. Designed to Comfort the Weak-hearted on his Journey towards the New Jerusalem, the true Refuge of the Redeemed ones, &c. By David Williams, late of Landeilo-Bridge-End, in Glamorganshire.

Brecknock, Printed and Sold by E. Evans, 1779.'

Cyfieithiad yw yr uchod o waith Cymraeg yr awdwr.†

* *Llythyr* y Parch. T. Rees.

† Gwel rhif 30, d.f. 1777.

1780.

1. 'Y pedwerydd Llythyr, Oddiwrth eich Cyfaill a'ch Carwr (Pechadurus) sydd yn ymdrybaeddu y'ngwynau a'i Chwantau, fel y gwaethaf o honoch. Yr ymadrodd a gymmerais allan o'r Ddeuddegfed Bennod o Lyfr y Pregethwr, (o'r eiddo Solomon) ar Bedwerydd adnod ar ddeg, &c. O waith Ellis Roberts, Cowper. Yr Ail Argraphiad.

Trefriw, Argraphwyd gan Dafydd Jones, 1780.' 16 tudalen 12plyg.

2. ¶ 'Llyfr Gweddi Gyffredin.

Argraphwyd yn Llundain, gan C. Eyre, a W. Stratham.*

Prynodd C. Eyre y 30 mlynedd o freintlythyr Newcome a Hills, fel argraffwyr y brenin, am 10,000*p.*, a chymmerodd W. Stratham yn gydranog, wedi hyny ei fab Andrew; a bu hwnw farw yn werth miliwn o bunau, gan adael y fasnach i Spottiswood, &c.

3. ¶ 'Dadl dros ddarllen yr Ysgrythyrau mewn cynulleidfa oedd crefyddol. Gan y Parch. W. Richard o Lynn.'

Traethodyn gwerthfawr ydyw, o tua 12 tudalen. Argraffwyd ef yn Seisonaeg hefyd. Yr awdwr,

WILLIAM RICHARDS, LL.D., ydoedd fab i Henry Richards, amaethwr cyfrifol, ac a anwyd ym mhlwyf Penrhydd, ger Hwlfordd, yn sir Benfro, yn 1749. Ni chafodd ond un flwyddyn o ysgol, er hyny, daeth i allu darllen ei Feibl yn y ddwy iaith, a gwneyd ei hun yn gydnabyddus â'r awduron Seisonaeg goreu, erbyn iddo ddyfod i'w oed. Yn 1773, pan yn 24 oed, efe a aeth i Athrofa y Bedyddwyr ym Mristol, lle y bu ddwy flynedd, ac y daeth yn gynnorthwyr y Dr. John Ash, gweinidog cynulleidfa o Fedyddwyr yn Pershor, sir Caerwrangon. Yn 1776, derbyniodd wahoddiad oddi wrth gynulleidfa o Fedyddwyr yn Lynn, sir Norfolk, a'r lle y sefydlodd. Heb law lluaus o lyfrynau dadleuol yn yr iaith Gymraeg, o'r hon yr oedd yn neillduol hoff, a selog drosti, a thros ei wlad a'i genedl. Efe a gyhoeddodd Eirlyfrau Cymraeg a Seisonaeg, a Seisonaeg a Chymraeg,† y rhai a welir mor fynych am iselbris ar hyd y wlad, yn nwyllaw y werin. Cyhoeddodd yn Seisonaeg amrywiol weithiau, megys 'History of Lynn,' yn ddwy gyfrol 8plyg; 'A Review of the Memoirs of the House of Cromwell,' a 'Welsh Nonconformist Memorial,' a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth gan y Dr. John Evans. Anrhegwyd

* [Strahan, y mae yn debygol, a ddylai y cyfenw hwn fod.]

† [Ni chyhoeddodd y Dr. Richards un Geiriadur Cymraeg a Seisonaeg. Tebygol iddo *fwriadu* gwneuthur hyny, ond ni chwblhaodd mo'i amcan. Yr unig Eiriadur a gyhoeddwyd ganddo yw yr un *Seisonaeg a Chymraeg*, yr hwn a ymddangosodd yn y fl. 1798. Gweler rhif 3, dan y flwyddyn hono. Tebygol i'r awdwr gael ei arwain i'r amryfusedd hwn gan Williams's *Eminent Welshmen*, yr hwn, yn hyn o beth, sydd anghywir.]

ef â'r radd o LL.D. gan Goleg y Bedyddwyr yn Ynys Rhod, America, i'r hon y cymmynroddodd ei lyfrfa ragorol. Bu farw Medi 13, 1818, yn 69 oed.*

4. 'Hanes y Byd a'r Amseroedd. Er hyfforddiad rhai o'r Cymru. O waith S. T.

Argraphwyd yn y Mwythig gan Stafford Prys, yn y flwyddyn 1780.'

Ymddengys fod hwn yn bedwerydd argraffiad.†

5. 'Rhai diwygiadau ar, ac ychydig ychwanegiadau at Hanes y Bedyddwyr.

Argraphwyd yn Nghaerfyrddin, 1780.'

Dernyn gwerthfawr yw hwn, ac fel y dywedwyd,‡ nid yw yn ddiogel dilyn 'Hanes y Bedyddwyr,' gan y Parch. J. Thomas, heb fod y 'Diwygiadau a'r Ychwanegiadau' hyn wrth law. Y mae weithiau i'w gael yn gydrwymedig â'r 'Hanes,' os amgen, y mae yn anhawdd cael gafael arno.

6. 'Amddiffyniad o'r Eglwys Gristionogol yn Bedyddio Plant Bychain. Ynghyd ag amlygiad a'u Hawl hwynt i Gyfammod â Duw. Ac i Fedydd.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol y Prior, ger llaw'r Eglwys. M.DCC.LXXX.'

Awdwr y llyfryn uchod ydoedd y Parch. Howell Howell, ficar Llanboidy, sir Gaerfyrddin. Bu ddeugain mlynedd yn ficar y plwyf hwnw, a bu farw Mawrth 26, 1793, yn 86 oed.§

Mae yn debyg i'r uchod ddyfod allan yn nechreu y flwyddyn hon; canys cyn ei diwedd, daeth allan y canlynol, mewn atebiad:—

7. 'Antigraphon neu Wrthgraphiad Sion yn achos y camachwyniad a gafodd yn ddiweddar gan awdwr mewn llyfr a elwir, Amddiffyniad o'r Eglwys Gristionogol yn bedyddio plant bychain. Gan D. Saunders, Aberduar.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol y Prior, gerllaw'r Eglwys, tros Dafydd William, Ffrynd a Chyfaill y Gwirionedd (Pris Tair Ceiniog).'

DAFYDD SAUNDERS ydoedd fab i Evan Saunders, o Aberduar, sir Gaerfyrddin; ac ewythr i'r diweddar Dafydd Saunders, Merthyr Tydfil. Dechreuodd bregethu yn 1764. Ordeiniwyd ef yn Aber-

* *Memoir of Dr. Richards*, by Evans.

† Gwel d.f. 1, 1721; rhif 1, d.f. 1724; rhif 1, d.f. 1728; a hwn yma.

‡ Gwel rhif 9, d.f. 1778.

§ Ei Feddargraff ym Mynwent Llanboidy.

duar, yn 1771. Ym mhen amser gadawodd y Bedyddwyr Neillduol, ac ymunodd â'r Bedyddwyr Cyffredinol. Bu farw Ebrill 26, 1812, yn 81 oed.*

8. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y flwyddyn 1780.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol-y-Prior.'

9. ¶ 'Dwy o Gerddi newyddion. Cerdd i. ar Hir oes i Fair. Yn gosod allan yn ol gair Duw, y Poenau sy' wedi eu darpar i'r Annuw-
iolion diedifeiriol yn Uffern. Cerdd ii. Ar doriad y Dydd. Yn dangos fel y mae Gofid yn canlyn pob Dyn o'i Enedigaeth hyd Angau; ac fel y mae Dyn yn cwynfan rhagddo.

Argraphwyd yn Aberhonddu, gan E. Evans.'

Gwaith Ellis Roberts, y Cowper† ydynt, a dyma yr unig reswm dros eu cyfleu yma.

10. ¶ 'A Relation of Apparitions of Spirits in Wales.'

11. ¶ 'Marwnad Mrs. Grace Price. Gan W. Williams.'‡

12. 'A Collection of Valuable Tracts, (viz.) i. Archbishop Usher's Charge to his Clergy, at the Ordination. ii. Archbishop Hort's Instructions to the Clergy of the Diocese of Tuam, abridged. iii. The Importance of the Ministerial Character: Written in Blank Verse, by a Clergyman in Virginia. iv. A Vindication of the Freedom of Pastoral Advice: By the Rev. John Smith, A.B. Rector of Nantwich, Cheshire. v. The Life of the Right Reverend Father in God, William Cowper: Formerly Lord Bishop of Galloway. Written by himself. vi. The Life of Doctor William Beveridge: Late Lord Bishop of St. Asaph. vii. A Summary of the Life and Character of the Rev. Mr. Griffith Jones: Late Rector of Llanddowror, in Carmarthenshire: The first Projector and Conductor of the circulating Charity-Schools, throughout the Principality of Wales.

Printed 1780.'

* *Hanes y Bedyddwyr yn y Deheubarth*, gan D. Jones, t. 130, 327, 329, 582. Ysgrifennodd hefyd, a chyhoeddodd 'Nodau ar y Llyfryn a elwir Traethawd Byr ar Undeb a Phenaduriaeth yr Un Duw y Tad, ac Israddoliad ac Ymddybiad ei Fab ef Iesu Grist, Gan R. Wright, gan hwn a gyfeithasid i'r Cymraeg gan Wm. Morgan, Ysgolfeistr yn Nghaerfyrddin,' 1816. Cyfeithodd hefyd dalfyriad o 'Draethawd Abraham Booth ar Deyrnas Crist.' Y mae hefyd ar gael 'Ychydig o Bennillion Profiadol, yn cynnwys Griddfanau Hiraethlon ar ei Ymadawiad ag Eglwys Aberduar—a'i symmudiad i Sion, Merthyr Tydfil,' 1815. Hefyd 'Marwnad er Cofiadwriaeth am y Parch. Zechariah Thomas, Gweinidog yr Efengyl yn Aberduar.'

† Gwel rhif 16, d.f. 1774.

‡ *Ysgrif* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

Llyfryn teneu o 42 tudalen 8plyg ydyw. Ymddengys iddo gael ei gyhoeddi gan rai o'r offeiriaid Methodistiaidd yn yr oes hòno yng Nghymru; ond yn ddi enw awdwr, cyhoeddydd, nac argraffydd.

13. 'Difyrwrch diniwed I blant i'w hystyried, I'w cannu ar gynnydd Mewn deall a G. Sef deunaw o Ganiadau Ar amryw destynau. Gan Sion Llewelyn, o Goed-y-Cymmer, yn y Faenor, sir Frycheiniog.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, 1780. [Pris Chwhecheiniog.]'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.*

[Os yr un yw y gwaith hwn â rhif 8, d.f. 1772, a bod hwnw yn *ail* argraffiad, fel y mae yn cael ei alw, rhaid bod hwn yma yn drydydd argraffiad.]

14. ['British Topography: or An Historical Account of what has been done for illustrating the Topographical Antiquities of Great Britain and Ireland.']

London, 1780, 2 vols. 4to.]

15. [Llewelyn and his Bards. By John Walters, B.A. Scholar of Jesus College, Oxford. 1780.] 8vo.

JOHN WALTERS, B.C., ydoedd fab i'r Parchedig John Walters, A.C., Person Llandocheu, Morganwg, awdwr y Geirlyfr Seisoneg a Chymraeg (rhif 13, d.f. 1794). Cafodd ei ddysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychain, o'r hon gymdeithas y dewiswyd ef yn gymmrawd; a chyfrifid ef yn ysgolhaig rhagorol. Bu yn gyntaf yn athraw Ysgol Pont y Fon, Morganwg, ac yn 1784 penodwyd ef yn brif athraw Ysgol Rhuthyn. Heb law y gwaith hwn, a ddaeth allan pan oedd ef o ddeutu 21 oed, cyhoeddodd Lythrau at y Dr. Priestley; ysgrifennodd y Rhagymadrodd i'r 'Relics of the Welsh Bards' gan Edward Jones; ac adgyhoeddodd y 'Toxiphilus' o waith Roger Ascham. Bu farw Meh. 28, 1789, pan nad oedd ond deg ar hugain oed, a chladdwyd ef yn y Fynechdid, ger llaw Rhuthyn, lle yr oedd yn beriglor y plwyf; ac ar ei goflech y mae beddlith Lladin o waith ei dad.† Merch iddo ef ydoedd Hannah Walters, yr hon a gyhoeddodd y trydydd argraffiad o Eirlyfr ei thaid, yn Ninbych yn 1828,‡ gan ei gyflwyno i'r Milwriad W. Lewis Hughes, wedi hyny Arglwydd Dinorben, yn nheulu yr hwn yr ydoedd hi yn ddysgodres.]

16. ['Berr Hanes o'r pethau mwyaf hynod ym mywyd James Albert Ukawsaw Groniasaw, Tywysog o Affrica; Fel yr adroddwyd ganddo ef ei hun. Yr ail argraphiad.

Aberhonddu, Argraphwyd dros y Parch. Mr. W. Williams, gan E. Evans, 1780.]§ [12plyg.]

1781.

1. 'History o Rybydd i Bechaduriaid i edifarhau, neu ddisgrifiad

* Gwel rhif 8, d.f. 1772. Cyhoeddwyd argraffiad arall yn Abertawy yn 1814, o dan olygiad 'Tomas Williams, wŷr i'r Awdwr.'

† Williams, *Eminent Welshmen*; Newcome, *Memoirs of the Goodmans*.

‡ [Adargraffwyd ef dan olygiad Gwallter Mechain.]

§ *Llythyr* Mr. R. Williams.

rhyfeddol fel y cafwyd dau henuriaid ynghoed Ressington, yn agos i Doncaster, yn sir Gaer Efrog. O gyfieithiad Thomas Morris o'r Ysbyttŷ.

Trefriw.'

2. 'Galwad gan wyr Eglwysig at bawb ffyddlon, i gydsynio mewn Gweddi, yn enwedig tra parhao'r rhyfel presennol. Gan P. Williams. Yr ail argraphiad.*

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Ross, 1781.'

3. ¶ 'Dadl dros Grefydd bur a Dihalog, &c., gan gyfaill: mewn llythyr at y cyfaill hwnw. A gyhoeddwyd gyntaf yn Saesonaeg, yn y fl. 1741. A gyfieithwyd i'r Gymraeg o'r 3ydd lyfr, o waith Mr. John Glass.

Argraffwyd yn Abertawy, gan D. Evans.'

4. 'Agoriad i Athrawiaeth y Ddau Gyfammod: Dan yr Enwau Deddf a Gras. Yn dangos Natur pob un o honynt, pa beth ydynt fel ag y maent yn y ddau Gyfammod: hefyd, Pwy, a pha beth yw, Cyflyrau y rhai sydd dan bob un o honynt. Ym mha un er cynnorthwyo Dyall y Darlennydd, y mae amryw Holiadau yn cael eu hatteb, mewn perthynas i'r Ddeddf a Gras, tra hawdd eu darllain, ac mor anhawdd eu dyall, gan Feibion Doethineb, Plant yr Ail Gyfammod. Gan John Bunyan, Awdwr Taith y Pererin. Yr ail argraphiad,† wedi ei ddiwygio a'i wellhau.

Trefecca, Argraphwyd dros y Cyhoeddwr, M,DCC,LXXXI. (Pris Swllt).'

Y cyhoeddwr o'r argraffiad hwn ydoedd John Richard, o Fryniog, ger Llanrwst,‡ a'r hwn a ddywed mewn hysbysiad yn niwedd hwn, ei fod yn bwriadu cyhoeddi, mor fuan ag y caffai fil o ragdalwyr, y 'Mêr Difinyddiaeth Iachus,' a'r hyn hefyd, fel y gwelir, a wnaeth y flwyddyn nesaf.

5. 'Y Beibl Sanctaidd, gyda Sylwadau ar bob Pennod. Gan y Parch. Peter Williams, &c.

Caerfyrddin, Argraffwyd.'

Dyma yr ail argraffiad.§ Yr oedd yn cynnwys Salmau Cân Watts,|| ac amseriad eu hargraffiad y flwyddyn flaenorol, sef 1780.

* Nid ydys wedi gweled y cyntaf.

† Gwel rhif 10, d.f. 1767.

‡ Gwel rhif 3, d.f. 1782.

§ Gwel rhif 1, d.f. 1770.

|| [Ai nid Salmau *Edmwnt Prys* sydd yn yr argraffiad hwn, fel yn yr argraffiadau diweddarach?]

6. ¶ ‘Y Catecism Byrraf, a gyflwynwyd gan Gymmanfa o Dduwinyddion Westminster i’r ddau dŷ o Barliament.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan J. Ross. Pris dwy geiniog, neu 12s. a 6d. y c.’

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, o leiaf.*

7. ‘Halsing, neu Gân newydd ar Ddydd Natolic. Gan John Williams, o St. Athan, ym Morganwg.

Pontfaen : Argraffwyd gan R. Thomas. 1781.’

[*Halsing* sydd air arferedig yn y Deheudir yn gyfystyr â *charol* (Nadolig) yng Ngwynedd. Byddai canu *halsingau* yn beth cyfredin iawn yn y parth hwnw o’r Dywysogaeth yn ystod y ganrif ddiweddfaf. Llygriad yw *halsing* o *alsain*, yr hyn yw ei ffurf yng ngwaith em hysgrifenwyr henaidd ; megys

‘Canu *alsain* mewn drain draw.’

WILLIAM EGWAD, i’r *Eos*.

‘Yr *Eos* gynt a ymfalchiwys yn ddirfawr herwydd ei pherlais, a phob edn a’i gwneioithai, ac a’i galwai “Elen y Glasgoed” a “Duwies y Dail,” ac a roddyt iddi lawer iawn o druth-barch ; a’r fwyalchen a ddaeth i’w charu, ac ef a eirlun-iwys ei serch iddi mewn *alseiniau* a charolau melusgaine.—*Ysgriflyfrau Iolo*, 175.]

8. ‘Marwnad, ar farwolaeth Mrs. Grace Price, anwyl wraig y Capten Price, o Waterford,† yn sir Forganwg : yr hon a ymadawodd â’r byd, yr 16eg o Dachwedd, 1780, yn y 37 flwydd o’i hoed. Wedi bod yn bried â Mr. Price 12 mlynedd. &c., &c. Yr ail argraffiad.‡

Aberhonddu, Argraffwyd dros yr awdwr gan E. Evans, 1781.’

9. ‘Cyssuron Dwyfol ; neu Addewidion Gwerthfawr ; er Annogaeth i Gredinwyr ; gyda Gair o Gynghor. Wedi ei gyfieithu o’r Saesonaeg, er budd i’r Cymru.

Mwythig : Argraphwyd gan T. Wood, lle gellir cael argraphu pob math o lyfrau Cymraeg, wedi eu diwigio yn ofalus, ac am bris gweddaidd. M,DCC,LXXXI.’ (Prîs Ceiniog yr un.)’

10. ‘Atteb i Bob Dyn a ofynno Reswm am y Gobaith sydd ynom. Mewn ffordd o Holiad ac Atteb. Gan Joseph Humphreys. Gyd â Rhagymadrodd canmoliaethol gan Parch. Mr. Whitfield, yn ddiweddar Caplan i’r Anrhydeddusaf Iarles Huntingdon.

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood, lle gellir cael argraphu pob math o Lyfrau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus, ac ar brîs gweddaidd. M,DCC,LXXXI.’ ‘[Prîs Ceiniog yn unig].’

JOSEPH HUMPHREYS oedd un o’r pregethwyr lleygol cyntaf a gyn-northwyodd Mr. Wesley yn 1738. Wedi hyny ef a droes yn Galfin-

* Gwel rhif 2 a 3, d.f. 1766.

† [Watford?]

‡ Gwel rhif 11, d.f. 1580.

iad, ymunodd â Mr. Whitfield, ac ysgrifennodd yn erbyn y ddau Wesley yn y papyrâu newyddion. Ym mhen peth anser, efe a adawodd Mr. Whitfield, ac a ordeiniwyd yn weinidog Presbyteraid. O'r diwedd efe a ordeiniwyd gan esgob yn weinidog yr Eglwys Sefydledig. Yna efe a ddirmygai grefydd y galon, a phan adgofid ef o'i brofiad, yr hwn a gyhoeddasai—ei fod wedi ei berffeithio mewn cariad, a pharhau felly dros ddeuddeg mis, o leiaf—efe a atebai, 'Dyna un o'r pethau ffol a ysgrifennai yn amser fy ngwallgofrwydd.*' Y mae ei enw yn un o'r pregethwyr di-urddau oedd yn y Gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd yng Nghymru, sef yn Watford, yn sir Forganwg, yn 1743; ac aelod o'r bwrdd sylfaenol.†

[Llyfryn bach o 16 tudalen 12plyg ydyw y llyfryn. Ar y tudalen olaf ceir yr hysbysiad canlynol:—'Gan T. Wood, Gwerthwr Llyfrau yn y Mwythig, y gallir cael argraphu pob math o lyfrau yn gywraint, a chopiau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus gan *Ifan Tomas*, cyssodydd a diwigydd yr argraphiad cyntaf o'r Bibl Cymraeg yng *Nghaerfyrddin*, yr hwn sydd yn awr yn byw gyd a *T. Wood*.']

11. ¶ 'Difrifol Fyfyrdod am Farwolaeth, sef y Pummed Llythyr Ystyriol am Wellhad Buchedd y daearol Bererindod; cyn dyfod Cennad Pechod i'n cyrchu i'r Byd anweledig o Olwg cnawdol. A fyfyriwyd gan Ellis Roberts, Prydydd o Landdoged. Y Trydydd Argraphiad.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans, dros Hugh Williams. 178—.'‡

12. 'Wele y Chweched Llythyr, ar ddull Pregeth, y testun a gymerwyd o Luc xv. 18, 19. O waith Ellis Roberts, Cowper, Llanddoged.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans, dros Hugh Williams. 1781.'§

13. 'Drych y Flwyddyn 1781.

Dublin: Printed in the year M,DCC,LXXXI.'

Un o almanaciau cyntaf John Roberts yw hwn, tybygid. Mewn rhai copiau dywedir iddo gael ei argraffu tros H. Owen.

14. 'Memoirs of the Gwydyr Family, &c. By Sir John Wynne. London. 1781.'|| 4to.

Yn y *Barrington Miscellanies* y maé hwn.

15. 'A Gentleman's Tour through Monmouthshire and Wales, in the month of June and July, 1774. A new Edition.** To which is

* Wesley's *Journal*, Sept. 9, 1790; Atmore's *Methodist Memorial*, p. 202-3.

† *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 162.

‡ Y llythyren [y rhifnod] yn anamlwg yn y cyfargraff; gwel rhif 1, d.f. 1780.

§ Gweler rhif 1, d.f. 1780; a rhif 11, uchod.

|| Gwel rhif 13, d.f. 1773; *Cylchgrawn*, t. 87.

** Gwel rhif 12, d.f. 1780.

added, an Account of a Journey into Wales. By George, Lord Lyttleton.

London: printed for T. Evans. M,DCC,LXXXI.'

Yr awdwr ydoedd Mr. Penruddock, a'r golygydd ydoedd H. Wyndham.* Yr oedd y llyfr yn werth 3p. 13s. 6c., wedi ei rwymo yn dda.

16. 'Llun Agrippa. Y Cristion o fewn Ychydig, wedi ei Ddadguddio: Neu'r Gau Broffeswr wedi ei chwilio a'i Holi, yn cael ei fwrw ymaith. Gan Mathew Mead. Y drydydd argraphiad.†

Trefecca: M,DCC,LXXXI.' [12plyg: 152 tudalen.]

17. 'Llythyr y Gymmanfa, a gynhaliwyd yn Llangloffan, yn y flwyddyn 1781.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol Awst.'

18. 'Two Sermons, First, of the Creatures going into Noah's Ark, typically Representing the Salvation of God's elect Church in and by Jesus Christ. Second, of the Creatures going out of the Ark to Mount Ararat, Typically representing the Removal of the Church Militant out of the state of Grace into the State of Glory. To which is added, some Brief Heads upon Joel ii. 7, 8, 9. And Nahum iii. 15, 16, 17. Of God Nature and Knowledge of the manner and motion of the meanest and worst of his Creatures. By Edmund Jones, Minister of the Gospel.

Printed in the Year 1781.'

19. 'Ymddiddan rhwng Hen Wr Dall a'r Angau; Lle dangosir Dechreuad Angau, ynghyd a'r Buddugoliaethau a ymillodd ar Ddynolryw trwy Gymmorth Pechod, a'r Buddugoliaeth yn y Frwydr fawr ar Fynydd Calfaria, gan Iesu Grist: yn cynnwys amryw Wirioneddau pwysfawr ac angenrheidiol i bawb ag y sydd i wynebu Angau i'w deall a'u profi. Gan Henry Evans, o'r Bedwellty.

Aberhonddu, Argraphwyd ac ar werth, gan E. Evans, 1781.'

20. 'British Harmony, being a Collection of Ancient Welsh Airs, the traditional remains of those originally sung by the Bards of Wales. Part III. By John Parry.'‡

21. 'Rhai Hymnau Newyddion, ar Fesurau Newyddion: a gyfan-

* [Dan rif 22, yn y blaen, dywedir mai yr awdwr ydoedd Henry Penruddocke Wyndham.

† Gwel rhif 1, d.f. 1723; a rhif 5, d.f. 1779.

‡ Gwel rhif 7 a 8, d.f. 1742.

soddwyd ar gais cynnulleidfaeodd Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin. Gan W. Williams.

Argraffwyd yn Aberhonddu, gan E. Evans. 1781.*

22. 'A Tour Through Monmouthshire and Wales, made in the Months of June, and July, 1774. And in the Months of June, July, and August, 1777. By Henry Penruddocke Wyndham. The Second Edition.

Salisbury: Printed and Sold by E. Easton. MDCCLXXXI.'

23. 'Y Dinasoedd Noddfa wedi eu priodoli i Grist. oddi wrth Heb. vi. 18, 19. Mewn Llythyr at Gymdeithas Grefyddol. Gan H. Philips, yn Sarum. Wedi ei gyfiaithu i'r Cymraeg allan o'r trydydd Argraphiad yn Saisonaeg er lles i'r Cymru.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan [dalen wedi tori] MDCCLXXXI.'

Er bod y llyfr hwn wedi ei gyfansoddi yn Seisonaeg, a'i gyfieithu gan ryw law anadnabyddus, yr oedd yr awdwr yn Gymro, ac yn deall yr iaith Gymraeg, fel ag i rododi barn gymmeradwyol ar y cyfieithiad; canys y mae wedi chwanegu a ganlyn yn niwedd hwn:— 'P.S. 'Rwyf gwedi edrych yn fanol dros y llythyr hwn, ac nid wyf yn gweled achos i gablu na beio'r cyfieithiad. 'Rwyf yn diolch i'r cyfieithwr,

Sarum, Gorphenhaf, 17, 1781.

H. PHILIPS.'

24. 'Dwy o Gerddi Newyddion, &c.

Trefriw, Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1781.'

Gwaith 'Ellis y Cowper' ydynt.

25. 'Journey to Snowdon. By Thomas Pennant. 1781.'

1782.

1. 'Tri o Ymddiddanion rhwng Gweinidog ac Un o'i blwyfolion: ar Gywir Egwyddorion Crefydd, ac Iechydwrriaeth i Bechaduriaid drwy Iesu Grist, yr unig Waredwr ac Iachawdwr. Gan y Parchedig Thos. Vivian, A.B., Ficar Cornwood, Defon; yn ddiweddar o Goleg Exeter, yn Rhydychain. A Gyfieithwyd i'r Cymraeg allan o'r Pedwerydd Argraphiad ar ddeg yn Saisonaeg, Gan y Parchedig W. Williams, A.B. Curat Caergybi.

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood, lle gellir cael argraphn pob math o lyfrau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus gan Ifan Tomas. M,DCC,LXXXII.'

* ['Cynnwysa hwn yr hymnau 811 hyd 828 yn argraffiad 1811. 12 tudalen ydoedd. Gwelwn fod Williams yn cael ei annog gan yr eglwysi i gyfansoddi hymnau, yn unol â'r ddiareb, "Melus, moes eto."—M.D.]

2. 'Cydymaith mewn Cystudd; neu Hyfforddiwr trwy ddyffryn marwolaeth. O gasgliad Peter Williams, gweinidog yr efengyl.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Joan Ross. M,DCC,LXXXII.'

3. 'Bywyd a Marwolaeth yr Annuwiol dan enw Mr. Drygddyn, Wedi ei Annerch i'r Byd mewn Ymddiddan cyfeillgar Rhwng, Mr. Doethineb a Mr. Ystyriol. Gan Joan Bunyan, Awdwr Taith y Pererin. Wedi ei Gyfieuthu i'r Gymraeg gan T. Lewys o'r Pedwar-ydd Argraphiad yn y Saessnaeg. At yr hyn y Chwanegwyd Bywyd a Marwolaeth Joan Bunyan Yn dangos am ei Enedigaeth, ei Ddygiad i fynu a'i Fuchedd ddrygionus yn ei Ieuengetyd y Moddion tan ba rai y cafodd ei Droedigaeth; ei Waith, ei Ddiodefiadau, ei Demptasiynau, o holl Helynt ei Fywyd hyd ei Ymadawiad or Byd hwn.

Lerpwl: Argraphwyd gan C. Wosencroft, yn Cook-Street. M,DCC,LXXXII.' [12plyg: 214 tudalen.*]

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.† Dywedid mai cyhoeddwr yr argraffiad hwn ydoedd

JOHN PRICHARD, o'r Bryniog Uchaf, ger Llanrwst, yr hwn oedd wr o'r Deheudir, a'r hwn a ddaethai i'r gymmydogaeth hōno i arolygu Ysgolion Rhad Madam Bevan, a phriododd weddw John Prichard, o'r Bryniog, yr hwn oedd gynghorwr Methodistiaidd. Yr oedd yr ail John Prichard hwn yn gynghorwr neu bregethwr hefyd. Symmudodd i Ruddlan cyn diwedd ei oes, a bu farw mewn oedran teg, yn 1812.‡

4. 'Afalau Aur i Bobl Ifaingc; a choron gogoniant i hen Bobl: neu'r Dedwyddwch o fod yn dda yn Amserol, a'r Anrhydedd o fod hen Ddisgybl. Hefyd, Gwrth-ddadleuon y Gwr ifange wedi eu dattod. Gan T. Brooks, Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Llundain. Yr Ail Argraphiad yn Gymraeg.§

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood, lle gellir cael argraphu pob math o Lyfrau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus gan Ifan Tomas. 1782.'

* [Y mae ar ddiwedd y llyfr (t. 215, malpai) yr hysbysiad canlynol. yr hwn a hynodir gan ei wahannodiaeth a manylion ereill:—'Bydded Hyspys i'r Cyffredin. Fod amryw yn ein cymmell, i argraphu'r llyfr gwerthfawr hwnnw, a elwir, marw i'r ddeddf: cyn gynted ac y caffom fil o enway. Arglwydd a fendithio, bob moddion, a breintiau, er mwyn chwanegu gwybodaeth browfiadol, a chadwedigol, o hono ei hun; yn ein plith: yr hyn yw taer ddeisyfiad eich annhelawng wasanaethwyr. John Thomas, ac Owen Jones.']

† Gwel rhif 5, d.f. 1731. [Ymddengys mai hwn ydoedd y llyfr Cymraeg cyntaf a argraffwyd yn Lerpwl neu Llynlleifiad.]

‡ *Drych yr Amseroedd*, t, 179; Coflyfr Eglwys Plwyf Rhuddlan.

§ Gwel rhif 4, d.f. 1732.

Y mae iddo 'Gyflwyniad' at ei 'Gydwladwyr,' gan 'Hugh Jones, gynt o Faes-Glasau,' a 'Rhagymadrodd: neu, Lythyr Annerch i'r Cymry,' gan 'Evan Williams,' ac yn ei ddiwedd, 'Cyffes y Cyhoeddwr,' 'Hugh Jones,' lle y dywed mai 'Gweinidog ieuange o Eglwys Loegr' ydoedd y dywededig 'Evan Williams;' a dywed hefyd ei fod yn bwriadu cyhoeddi yr 'Enw yn y Nefoedd,' gan M. Mead.*

5. 'Annerch i'r Cymru, iw galw oddiwrth y llawer o bethau at yr un peth angenrheidiol er mwyn cadwedigaeth eu heneidiau. Yn enwedig at y Tlodion annysgedig, sef y Crefftwyr, Llafurwyr a Bugeiliaid, y rhai o isel radd, o'm Cyffelyb fy hunan, Hyn er eich Cyfarwyddo i adnabod Duw a Christ, (yr hyn yw bywyd tragwyddol) yr hwn sydd yn Dduw unig ddoeth. A Dyscu ganddo ef, fel y deloch yn ddoethach nach Athrawon. O Waith Ellis Pugh.

Llundain: Argraphedig yn gan James Phillips, M.DCC.LXXXII.' [12plyg bychan.]

ELLIS PUGH ydoedd Grynwr, o ymyl Dolgellau, a aethai dros Fôr y Werydd i Philadelphia.

[Yn ol 'Hanes yr Awdwr,' o flaen yr 'Annerch,' 'ELIS PUGH a anwyd ym mhlwyf Dolgellau, yn sir Feirionydd, yng Nghymru, yn y chweched mis [sef yw hwnw, Mehefin], yn y flwyddyn 1656.' Gwedi ei droi at Grynnyddiaeth, hwyliodd ef a'i deulu, yng nghyd ag amryw o'u cydnabyddiaeth, yn 1686, dros yr Atlantig tua Thaleithiau Cyfunol America, gan fwriadu ymsefydlu ym Mhennsylvania, lle, ychydig cyn hynny, y planasid brodoriaeth Grynnyddol gan Wilym Penn: ond yn lle cyrhaedd yno, buont ar y môr y rhan fwyaf o'r gauaf, a gyrwyd hwynt gan y tymmestloedd i Ynys Barbadoes, yn yr India Orllewinol, lle y tiriasant yn Ionawr, 1687. Yr haf canlynol cychwynasant oddi yno, a chyrrhaeddasant Pennsylvania. Gwedi aros yno hyd 1706, hwyliodd Elis Pugh i ymweled â gwlad ei enedigaeth, a dychwelodd i America yn 1708, lle yr arosodd am y gweddill o'i oes, yr hon a derfynodd ar y 3ydd o Hydref, 1718. Am ei nodweddiad, dywedir yn yr unihyw 'Hanes:—'Yr oedd ei ymddygiad yn ei deulu, yn ei gymmydogaeth, ac yn yr eglwys, yn addfwyn, yn hawddgar, ac yn heddychol, a'i weinidogaeth yn fywiol, yn llesol, ac er adeiladaeth.'

Cynnwys y llyfr ddeg o bennodau, a 212 o dudalenau. Cyfieithwyd y gwaith i'r Seisoneg (yn hir cyn ei argraffu yn Gymraeg) gan un R. Ellis; ac ymddangosodd ail argraffiad o'r cyfryw gyfieithiad, wedi ei ddiwygio gan D. Llwyd, yn 1739, Llundain, 12plyg. Ymddangosodd argraffiad newydd a chywir o'r gwaith Cymreig yn Llundain, mewn cyfrolan 16plyg, yn 1801.]

Cyhoeddwyd argraffiad arall yn 1802,† a chan yr un argraffydd, JAMES PHILLIPS, am yr hwn y dywedir, 'Y mae yn hen lanc difrifol, gwylaidd, a dywedir ei fod wedi ymbriodi â bywyd sengl, am yr hyn y mae yn rhyfedd genyf, canys, diammheu fod natur wedi ei fwriadu ef i fod yn orchfygwr calonau, pan y rhoddodd iddo y fath synwyr, a'r fath dduwioldeb. Y mae iddo fyw cyhyd yn hen lanc yn dangos ei natur bur, a'i fod yn caru marweiddiad ynddo ei hun yn gystal ag yn ereill. A phwy bynag a ystyrio y cynnifer cynnygion a gafodd i briodi, a fyddant yn barod i feddwl ei fod yn meddu cymmaint o ddiweirdeb ag i brin bechu mewn dymuniad.'‡

* Gwel rhif 3, d.f. 1789.

† [Ymddengys mai argraffiad 1801, y sonir am dano uchod, yw yr un a olygir.]

‡ Dunton.

6. 'Dwy Bregeth ; y gyntaf, am y creaduriaid yn myned i mewn i Arch Noah, &c. ; yr ail, am y creaduriaid yn myned allan o'r Arch i fynydd Ararat, &c. Gan Edmund Jones, Gweinidog yr Efengyl.

Trefecca ; Argraphwyd yn y Flwyddyn 1782.'

7. ¶ 'Gwrthodedigaeth yn Brofedig : Neu'r Athrawiaeth o Ethol-edigaeth Tragwyddol, a Gwrthodedigaeth, wedi eu cyd-ystyried mewn Unarddeg o Ddosparthiadau. Lle y gwrthbrofir y Dadleuon a arferir gan Wrthwynebwy'r yr Athrawiaeth hon, y symmudir amryw Amheuon, ac y penderfynir llawer o Ymofynion Cydwybod. Gan y duwiol a'r enwog Was hwnnw o eiddo Crist, y Parchedig Mr. John Bunyan. Wedi ei Gymreigio yn ofalus, o'r Argraphiad diweddaf yn Saesonaeg Gan John Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Daniel, yn Heol y Brenin. [Pris Chwe'-cheiniog.]'

Y mae yn ei ddiwedd ddau dudalen o farddoniaeth, o dan yr enw 'Ystori, neu Ddammeg, Yr Emprwr o Judea a'i Ferch. Gan Dafydd Wiliam.' Hysbysir hefyd a ganlyn :—

'N.B. Y mae Llyfr arall o Waith Mr. Bunyan yn llaw'r Cyfieithydd, a elwir, *Y Ty yng Nghoedwig Lebanon* ; ac a roddir yn y Wasg mor fuan ag y bo'r Copi'n barod.' Ond nid ydys yn gwybod iddo gael ei gyhoeddi yn y ganrif hon.*

8. ¶ 'Crist yn Iachawdwr Cyflawn, &c. Gan John Bunyan. At ba un y chwanegwyd Nodau Profiadol ac Ymarferol, Gan Wm. Mason ac eraill, wedi eu Gymreigio gan y Parch. John Thomas.

Argraffwyd yng Nghaerfyrddin, gan John Daniel.

9. ¶ 'Llwybrau Nefolaidd, &c. A gasglwyd o Lyfr a argraffwyd yn y flwyddyn 1664, fel yr ymddengys trwy gymmeradwyaeth Dr. J. Hall. Wedi ei droi i'r Cymraeg gan J. Davies.

Argraffwyd yng Nghaerfyrddin, gan J. Daniel.'

Yr ydys yn tueddu i briodoli cyfieithiad y llyfr uchod—o ddiffyg gwybodaeth sicrach—i naill ai J. Davies, gweinidog Llwyn Rhyd Owain, yn sir Aberteifi, ai J. Davies, gweinidog yr Allt Wen, yn sir Forganwg. Y Dr. J. Hall ydoedd benaeth Coleg Penfro, Rhydychain, ac wedi hynny esgob Bristol.†

* [Daeth argraffiad 16plyg o hono allan o wasg Merthyr Tydfil yn y fl. 1835 ; ond ni fynegir yn hwnnw pa un ai argraffiad cyssefin ai adargraffiad ydyw. Cynnwysa 110 o dudalenau.]

† Wood's *Athen. Oxon.* vol. ii. p. 801.

10. 'Gorfoleddd ym Mhebyll Seion, neu ychydig o Hymnau Efengylaidd a gyfansoddwyd gan Dafydd Wiliam. Argraphwyd gynt yn bedair rhan,* ond yn awr a argraphwyd yn un llyfr.

Aberhonddu, Argraphwyd tros yr awdwr gan E. Evans, 1782. (Pris tair geiniog.)

11. 'Mer Difinyddiaeth Iachus. Neu Bortreiad o'r Cyfammod Gras a'r Cyfammod Gweithredoedd, Ynghyd â Defnydd a Diben pob un o'r Ddau dan Oruchwyliaeth yr Hen Destament a'r Newydd: lle y ceir Eglur Ddarluniad o'r Ffordd i Fywyd Tragwyddol trwy Iesu Grist. Mewn Dull o Ymddiddan rhwng *Efangelista*, Gweinidog yr Efengyl. *Nomista*, Gwr yn dal yn rhy bell o Ochor y Ddeddf. *Antinomista*, Gwrthwynebwr y Ddeddf. *Neophitus*, Cristion Ieuangc. Gan Edward Fisher. A.C. Y Trydydd Argraphiad,† wedi ei Ddiwygio a'i Gŷd-gymmharu â'r Saes'neg.

Trefecca; Argraphwyd, dros y Cyhoeddwr. 1782. (Pris Swllt.)' [12plyg: 172+8=180 tudalen.]

Dywedir mai John Prichard, Bryniog Uchaf, ger Llanrwst, oedd cyhoeddydd hwn.

12. 'Gair yn ei Amser: neu Lythyr-annerch i'r cyffredin Gymry, &c. A ysgrifenyd er tawelu, llonyddu, a gostegu y cwynfanau sydd ym mhlith y Cymry yn y dyddiau helbulus hyn; a'u cyfarwyddo at yr iawn amddiffynfa yn nydd trallod. Gan Hugh Jones, awdwr y Myfyrdodau ar Dymhorau'r Flwyddyn, &c.

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood; lle y gellir cael argraphu pob math o Lyfrau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus gan Ifan Tomas. 1782. Pris dwy geiniog.'

13. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y flwyddyn 1782.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst.'

14. 'Telynau i Blant yr Addewid, i'w canu ar eu taith o'r Aipht i Ganaan nefol: neu ychydig o Hymnau efengylaidd, &c. A gyfansoddwyd gan Dafydd Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd dros yr awdwr gan E. Evans. 1782.'

15. 'Rhai Hymnau newyddion, ar fesurau newyddion. Gan W. Williams. Yr ail argraphiad.‡

* Gwel rhif 3, d.f. 1777; a rhif 22 a 23, d.f. 1778.

† Gwel rhif 1, d.f. 1751; a rhif 1, d.f. 1754.

‡ Gwel rhif 7, d.f. 1757; a rhif 21, d.f. 1781. ['Mwy tebyg mai *ail ran* ydoedd, yn cynnwys yr hymnau 829 hyd 846; ond nis gallaf sierhau, gan nas dygwyddodd i mi ei weled. Rhaid bod rhyw 12 tudalen, tebyg i'r cyntaf uchod, wedi eu rhoi allan gan yr Awdwr rhwng 1781 a 1787.'—MORRIS DAVIES.]

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans. 1782.'

16. 'Tystiolaeth o Ffydd ac Ymarferiad Eglwys Crist, yn Carter-Lane, Southwarc, yn Llundain; tan Ofal Gweinidogaethol Dr. John Gill: A ddarllenir ac a gydsynir â hi ar dderbyniad Aelodau. A gyfieithwyd, ac a gyhoeddwyd ar draul Dafydd Hughes o Lanelli, yn Sir Gaerfyrddin, ar ddymuniad amryw Ewyllyswyr da.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans. 1782. [Pris Tair-
ceiniog]. [12plyg: 36 tudalen.*]

17. 'Rhai Geiriau ar ddull Marwnad ar farwolaeth yr anwyl a'r fyddlon frawd John Philip, O Lwyn-gyferthwch, ymhlwyf Llanelli. Ynghyd a rhai Hymnau newyddion.

Aberhonddu, Argraphwyd dros John Evans, a Thomas Dafydd, gan E. Evans. 1782.'

18. ¶ 'Marwnad, mewn perthynas i un Letice Nash, o Sir Benfro, yr hon a ymadawodd o'r Byd hwn Rhagfyr 4, 1781, yn llawn 60 oed. Ac at ba un y chwanegwyd Ychydig o ofyniadau.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Daniel, yn Heol y Brenin.'

19. 'Ychydig Lythyrâu ar Ystyriaethau ac Achosion Ysprydol. Ynghyd â Hymnau am Dduwdod a Marwolaeth ein Iachawdwr. Gan Mr. Howel Harris.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,LXXXII.'

20. ¶ 'Dwy o Gerddi Newyddion.

Aberhonddu.†

21. ¶ 'Post-Chaise Companion, or Traveller's Directory through England and Wales. By — Bowles. Two vols. 1782.'

22. 'Observations on the River Wye, and several parts of South Wales. By W. Gilpin. 1782.'

1783.

1. 'Y Testamentwr, neu Bregeth ar y 9 o Heb. a'r 16, 17. Gan y Parchedig Mr. J. Morgans, Ciwrat Llanberis, yn Sir Gaernarfon.

Trefriw, Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1783.'

2. 'Ffordd anffaeledig i Foddlonrwydd, wedi ei Gymreigio gan y Parch. Peter Williams.

* [Ar y diwedd y mae 'Cân ynghylch Glanastra Cenfigen,' ac 'Ychydig Bennillion a gyfansoddwyd yn Saisonaeg gan Ferch foneddig ieuang, ychydig cyn ei hymadawiad â'r byd,' yng nghyd â'r cyfieithiad Cymreig o honynt.]

† Ysgrif Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

Caerfyrddin.'

3. 'Rhodd i'th Gymmydog; neu Iawn Adnabyddiaeth o Dduw, ac o honom ein Hunain; wedi ei Agoryd mewn Modd anlwg, buddiol, a phrofiadol. Gan Sir Richard Hill, Marchog. O gyfieithiad y Parch. Thomas Jones, Curat Loppington, yn sir y Mwythig.

Argraphwyd yn y Mwythig, gan T. Wood.'

Y cyfieithydd o'r traethodyn hwn o eiddo Syr Richard Hill, ac o'r hwn y rhoddwyd 3000 i'w dosbarthu gan Mr. Charles o'r Bala, ydoedd

THOMAS JONES, a anwyd yng Nghfefn yr Esgair, yn agos i'r Hafod, yn sir Aberteifi, yn 1752, lle yr oedd ei dad yn amaethwr bychan. Cafodd ei ddysgeidiaeth dan ofal Edward Richard, yn Ystrad Meurig. Ordeiniwyd ef yn 1774, pan yn 22 oed, i wasanaethu plwyfau Llangynfelyn ac Eglwys Fach, yn sir Aberteifi, lle y bu hyd 1779, pan y cymmerodd guradiaeth Leintwardin, yn sir Henffordd, o'r lle y symmudodd yn 1780 i Longnor, yn sir y Mwythig, lle yr oedd yn gwasanaethu pedair o eglwysi am 40p.; ond symmudodd y flwyddyn nesaf i Groesoswallt; ond o blegid ei sel a'i bregethau efengylaidd, efe a daflwyd oddi yno yn 1782. Yna cafodd guradiaeth Loppington, ger Wem, yn yr un sir. Yn 1785, cafodd guradiaeth Creaton, yn sir Northampton, lle y bu yn gwasanaethu am ddeugain mlynedd, y 35 mlynedd cyntaf fel curad, a'r 5 mlynedd diweddaf fel person y fywoliaeth. Pan aeth yn rhy hen, rhoddodd y lle i fyny yn 1833. Bu farw Ionawr 7, 1845, yn 93 oed. Cyhoeddwyd llawer o'i weithiau yn Seisonaeg yn y ganrif hon, megys,— 'Immanuel, or Scriptural Views of Jesus Christ,' yr hwn a gyfieithwyd i'r Cymraeg; 'National Gratitude Expressed,' 'Scriptural Directory,' 'The Welsh Looking-glass,' 'Jonah's Portrait,' 'The Fair Balance,' 'The Prodigal Pilgrimage,' cyhoeddwyd cyfieithiad o hono yn y *Gwyllyddydd*; 'Family Prayers,' 'Twenty Six Sermons,' sef cyfieithiad o rai Cymraeg y Parch. M. Lloyd, Ysptyty Ifan; 'The true Christian,' 'Sober Views of the Millenium,' 'The Interpreter,' 'An Essay on Infant Baptism,' 'The Christian Warrior,' 'An Essay on the Idolatry of Nations,' 'The Fountain of Life,' 'A Faithful Warning to Christian Congregations against the Oxford Heresy,'* cyfieithodd hefyd 'Christian World Unmasked,' o waith Berridge, yr hwn a gyhoeddwyd yn y *Drysorfa Ysbrydol*, o dan yr enw 'Ymddyddanion ynghylch Ffordd y Bywyd, rhwng Odegos a Thuphlos,' yn lle 'Doctor and Farmer.' Cyfieithiad o'i eiddo ef yw pregeth Scott ar farwolaeth Thornton. Cyhoeddwyd hefyd, yn Seisonaeg bigion o'i bregethau o dan yr enw 'Basket of Fragments,' y rhai a ysgrifenyd gan foneddiges ag a arferai eistedd o dan ei weinidogaeth. Yr oeddynt yn boblogaidd iawn ym mhlith ei ymlynwyr yn yn yr oes hono.†

* *Memoir*, by the Rev. J. Owen, of Thrussington; Williams's *Eminent Welshmen*.

† [Cyhoeddodd wyth neu naw o wahanol lyfrau yn y Gymraeg, ac yn eu plith, 'Tragwyddol Orphwysfa'r Saint,' o waith Baxter.]

4. ¶ 'Ystyriaethau ar ddull Pregeth, gan y Parch. Wm. Hughes, Person Llanfihangel-glyn-y-Myfyr.

Caerlleon, argraffwyd gan Thomas Huxley; a anwyd yn Llanelwy, a'r unig argraffydd yn y parthau hyn sydd yn deall yr iaith Gymraeg.'

5. ¶ 'Diferyn dewisol o Fel o'r Graig Crist.

Caerlleon, argraffwyd gan T. Huxley.'

Gellir ystyried hwn fel y trydydd argraffiad o'r traethodyn efengyl-aid uchod o waith T. Wilcocks,* er nad yn benderfynol pa un ai yn y lle uchod, ai ynte cyn y flwyddyn 1765, y dylasai y *ddau* lyfr uchod fod.† Bu T. Huxley a W. Read yn gyfranogion rhwng y flwyddyn 1765 a 1783; ond argraffwyd y rhai uchod gan Huxley ei hunan, heb Read. Ymddengys i'r cyssylltiad rhyngddynt ddiweddu, ac nad oedd Read yn Gymro, ac i'r dyben i dynu ato ei hun y gwaith Cymreig y darfu i Huxley weled yn briodol hysbysu am dano ei hun, ei fod yr 'unig argraffydd yn y parthau hyn ag sydd yn deall yr iaith Gymraeg,' rhag i'r Cymry o dan y gochl o wybyddiaeth o'r hen gyfranogaeth â Read, roddi eu llyfrau i'w hargraffu i'r Sais hwnw, yn lle iddo ef, ac yntau yn Gymro, 'a anwyd yn Llanelwy.' Yr ydys, er hyny, yn ei chael yn lled anhawdd cyssoni yr ymfrost uchod â ffeithiau ereill. Yr oedd Dafydd Jones yn Nhrefriw, ac Ifan Tomas yn y Mwythig. Nid oedd yr olaf ond blaenor yn swyddfa Wood; ac nid oedd Dafydd Jones wedi ei ddwyn i fyny i'r gelfyddyd, eithr yn cadw swyddfa fechan, trwy gyflogi gweithwyr; os felly, yr oedd ystyr gywir i ymfrost Huxley.

6. 'Hanes Daeargryn ofnadwy a Ddigwyddodd yn Itali, ac a barhaodd lawer o Ddyddiau, ym Mis Chwefror diweddaf, ne's Llyngcu Dinas Messina, a llawer o Wledydd a Threfydd poblog: ym mha Ddistryw fe gollwyd gerllaw Dengain Mil o Drigolion. Gyda Marwnad ar yr Achos. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood. 1783.'

Cyhoeddwr hwn oedd Hugh Jones, o Faes Glasau, a'i bris oedd chwecheiniog.

7. 'Gogoniant Enw Duw yn Iesu Grist, Wedi ei osod allan mewn deuddeg Pregeth ar Ecsod. xxiii. 21. Gan y Parch. Mr. Ebenezer Erscin, Gweinidog yr Efengyl yn Sterling yn Scotland. Newydd ei gyhoeddi yn Gymraeg gan Dafydd Hughes o gerllaw Llanelli; yn sir Gaerfyrddln.

Argraffwyd yn y Bontfaen gan Rhys Tomas. Lle y gellir cael argraffu a rhwymo pob rhyw lyfrau, 1787.‡

* Gwel rhif 12, d.f. 1740; rhif 7, d.f. 1778; a hwn yma.

† [Y mae yn bur debyg mai rhif 31, d.f. 1764 ydyw yr argraffiad hwn. Nid oes dadl am gywir ddyddiad hwnw; canys y mae ar ei gynddalen.]

‡ [Felly yn y gynysgrif; ond ymddengys mai 1783 o olygir.]

8. 'Y Cwestiwn Mawr; sef, Pa fodd y myn Duw gadw dyn. Wedi ei egluro mewn pregeth, ar Phil. ii. 12, 13, &c. Gan E. Griffith, G.E.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross. 1783.' 24 tudalen 12plyg.

9. 'Rhybydd i Bechaduriaid, neu Hanes rhyfeddol am un Samuel Whilby, yr hwn a syrthiodd mewn Gweledigaeth ar y 15 dŷdd o Ebrill, 1756; Wedi ei gyfieithu yn Gymraeg ga un a chwenyche lesâd i lawer.

Trefriw, Argraffwyd gan Dafydd Jones, 1783.'

10. 'Enterlute Newydd ar ddull Ymddiddan rhwng Protestant a Neillduwr. Gan Hugh Jones o Langwm.'

11. 'Llythyr y Gymmanfa, at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1783.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst, Lle y mae pob math o lyfrau ar werth.'

12. 'Marwnad Elizabeth James, Casnewyddarwysg, Sir Fynwe. Gan Dafydd Wiliam.

Aberhonddu, Argraphwyd gan E. Evans.'

13. 'Hyfryd Goffadwriaeth y Cyfiawn, neu Farwnad i un Richard Jones, mab i Mr. John Jones, o'r Homri, o blwyf St. Nicholas, yn sir Forganwg, a gyfansoddwyd gan Dafydd Wiliam.

Trevecca, Argraffwyd tros yr Awdwr, yn y flwyddyn M.DCC.LXXXIII.'

14. 'Y Catecism Byrraf. A gyflwynwyd gan y Gymmanfa o Ddifynyddion yn Westminster, i'r Ddau Dŷ o Barliament, a chwedi ei gymmeradwyo ganddynt. Yn cynnwys Egwyddorion y Grefydd Gristionogol, ynghyd a Phrofiadau ysgrhythrol. Yr Ail Argraphiad.*

Caerfyrddin; Argraphwyd ac ar werth gan I. Ross. 1783.'

15. 'A Tour in Wales. MDCCCLXX. Vol. II.

London, Printed by Henry Hughes. MDCCCLXXXIII.'

Teithiau Pennant ydyw.

16. 'Afalau Aur i Bobl Ifeinge; a Choron Gogoniant i Hen Bobl; Neu'r Dedwyddwch o fod yn dda yn Amserol, a'r Anrhydedd o fod yn hen Ddisgybl. Hefyd, Gwrth-ddadleuon y Gwr ifange wedi eu hatteb; ac Amheuon yr hen Wr wedi eu dattod. Gan T:

* Dylasai hwn fod yn drydydd argraffiad, o leiaf. Gwel rhif 23, d.f. 1766; rhif 6, d.f. 1781; a hwn yma.

Brooks; Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Llundain. Gyd â Rhagymadrodd gan y Parch. E. Williams. Y Trydydd Argraphiad yn Gymraeg.*

Mwythig, Argraphwyd gan T: Wood, lle y gellir cael argraphu pob math o Lyfrau Cymraeg wedi eu diwigio yn ofalus, gan Ifan Tomas. 1783.'

Y mae iddo ragymadrodd gan E. W. (=E. Williams), ac olymadrodd gan y cyhoeddwr, 'H. J.,' neu Hugh Jones, Maes Glasau.

17. 'Two Sermons on Ezekiel xxxiii. 11. The First Containing an earnest Exhortation to Repentance; or A pressing Invitation to return unto God. The Second Asserting, and by reasons fairly deduced from plain Scripture evincing, that God has not, by arbitrary Decree, predestin'd any one to inevitable Ruin and Eternal Death, &c., &c. By the Rev. John Walters, Rector of Landough, Glamorganshire. And, Translated from Ancient British† By the Rev. E. Owen, Curate of Studley in Warwick-Shire.

Cowbridge, Printed by R. Thomas. 1783.'

18. 'Marwnad ar Farwolaeth Llywelyn Dafydd o Blwyf Tre-castell, yn Sir Frecheiniog, a ymadawodd â'r Byd yr 20 o Fis Mawrth, 1783. Gan David Morris.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross. M,DCC,LXXXIII.'

19. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, a Gweinidogaeth y Sacramentau, a Chynneddfau a Seremoniau eraill yr Eglwys, yn ol Arfer Eglwys Loegr: Ynghyd â'r Sallwyr, neu Salmau Dafydd, Wedi eu nodi megis ac y maent i'w canu neu i'w dywedyd mewn Eglwysydd.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, ac ar werth yno gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau, 1783.'

20. 'Y Llyfr Plygain. Yn cynwys llawer o Weddïau Duwiol. Ar amryw Achosion. At yr hyn y chwanegwyd . . . er hyffordd Athrawiaeth i ddysgu darllain Cymraeg, A'r cwbl mewn gwell trefn nac erioed o'er blaen.

Argraphwyd Ynghaerlleon gan P. Broster. Yn y Flwyddyn, 1783.'

Llyfr bychan ydyw o 204 o dudalenau 48plyg.† Y mae yn ei ragflaenu 'At y Darllenydd' byr o un ddalen; ac yn ei ddiwedd

* Gwel rhif 5, d.f. 1732; rhif 4, d.f. 1782; a hwn yma.

† Gwel y wreiddiol Gymreig, rhif 10, d.f. 1772.

‡ [Tebycach mai 24plyg ydoedd. Byddai 48plyg o'r papyr arferedig yn yr oes dan sylw yn fychanig dros ben.]

restr o lyfrau a nwyddau oedd ar werth gan yr argraffydd, o dan arlun bychan.

21. ¶ 'Copi o Lythyr yr hwn a gafwyd dan Garreg, ym mha un y mae amryw Gynghorion da, a buddiol; Eithr yn fwya enwedigol ynghylch cadw y Sabbath.

Argraphwyd Ynghaerlleon gan T. Huxley.'

22. 'Dwy o Gerddi Newyddion.

Trefriw Argraphwyd gan Dafydd Jones. 1783.'

23. ¶ 'Amryw Salmau a Hymnau Profiadol, perthynol'i Addoliad Eglwysig a Theuluaid. A gasglwyd allan o Waith yr Awdwyr hynottaf yn yr oes bresennol, er cynnorthwy i'r sawl a foliannant yr Arglwydd. Gan J. Griffith, Gweinidog yr Efengyl.

Argraffwyd yn y Mwythig; ac ar werth yno gan J. Edowes, gan J. Ross, Ynghaerfyrddin, W. North, yn Aberhonddu, a R. Marsh, Yngwrecsam.'

24. 'The Practical Influence of Christianity on believing minds: considered in a Discourse on 1 Thessalonians, ii. 13. By Solomon Harries.

Shrewsbury: Printed by J. Eddowes; and Sold by J. Buckland and T. Longman, Paternoster-Row, London: T. Goodere and Co. Swansea: M. Rhyddero and J. Ross, Carmarthen: and W. North, Brecon; 1783: [Price 6d].'

1784.

1. 'Llythyr o Gyngor Difrifol oddiwrth Weinidog yr Efengyl at ŵr mewn cyflwr methiant afiachus. Gan y Parch. Mr. De Courcy. A gyfieithwyd gan Edward Barnes.

Mwythig, Argraffwyd gan J. Eddowes.'

EDWARD BARNES ydoedd fardd o Lanelwy.*

2. 'Speculum Terrarum & Cœlorum. Neu Ddrych y Ddaear a'r Ffurafan, &c. Gan Mathew Williams, Land Surveyor.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross.'

3. 'Dull Priodas Ysbrydol, rhwng Siloh a Sion, yn dangos Tragywyddol Gariad Siloh Mab y Brenhin Alpha, at Ferch yr hen Amoriad: sef, Yr Ail Ran o'r Pererindod Ysbrydol o'r Aipht i Ganaan.† Gan yr un awdwr, sef Ioan Bunyan.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Ross.' M,DCC,LXXXIV.

* Gwel rhif 17, d.f. 1765.

† Gwel rhif 2, d.f. 1755.

4. 'Amser, a Diwedd Amser; Yn Ddau Draethawd: Y cyntaf ynghylch Prynnu'r Amser. Yr ail ynghylch Ystyried ein Diwedd. A osodwyd allan gyntaf yn Saesonaeg gan John Fox. Ac a gyfeithwyd yr awr hon i'r Gymraeg er daioni i'r Cymru.

Argraffwyd yng Ngwrecsam gan R. Marsh, Gwerthwr Llyfrau, 1784.'

Yr oedd hwn, ymddengys, yn drydydd argraffiad o'r uchod.*

5. 'Llythyr oddiwrth Dafydd ab Ioan, y Pererin, at Ioan ab Gwilym, y Prydydd; Yn rhoddi byrr hanes o fywyd a marwolaeth y Parchedig Mr. Christopher Basset, Athraw yn y Celfyddydau, o Aber Ddawen, yn Sir Forganwg.

Trefecca Argraffwyd, 1784.'

Y *Dafydd ab Ioan* hwn ydoedd y Parch. David Jones, Llangan; a *Ioan ab Gwilym* ydoedd Mr. John Williams, St. Athan, Morganwg, yr hwn oedd fardd da. Ei gyfansoddiad ef yw yr hymn, 'Pwy welaf o Edom yn d'od.' Am yr awdwr, DAFYDD JONES, Llangan, ganwyd ef mewn amaethdy o'r enw Aberceiliog, ym mhlwyf Llanlleian, yn sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1735. Derbyniodd ei addysg athrofaol yng Nghaerfyrddin, ac yn y fl. 1758, cafodd ei urddo i guradiaeth Llanafan Fawr, sir Frycheiniog. Symmudodd oddi yno yn fuan, a bu am ychydig amser yn gwasanaethu yn y Gogledd. Yn y fl. 1760, cawn ef yn gwasanaethu ym mhlwyfau Trefethin a Goldcliff, yn sir Fynwy. Cawn ef yn nesaf yn agos i Bristol, ac wedi hyny yn swydd Wilts. Yn y lle olaf daeth i gyd-nabyddiaeth â'r Arglwyddes Huntingdon. A chan fod yr Arglwyddes yn gyfeillgar â'r Arglwyddes Charlotte Edwin, perchenog bywoliaeth Llangan, llwyddodd i gael y fywoliaeth hono, ym mro Morganwg, iddo. Felly, yn y fl. 1768, symmudodd Mr. Jones i'r fan a anfarwolwyd gan ei enw. Bu farw ym Manor Owen, ger llaw Abergwaen, yn sir Benfro, Awst 12, 1810, yn 75 oed.†

6. '*The History of Wales*. Written originally in the British, by Caradoc of Lhancarvan, *Englished by Dr. Powell*, and augmented by W. Wynne, Fellow of Jesus College, Oxon. To which is added, *A Description of Wales*, by Sir John Price. *A new edition, greatly improved and enlarged with Pedigrees of Families*.

London: printed for T. Evans, at No. 50 in the Strand, near York Buildings. MDCCLXXXIV.'

Yr oedd hwn yn chweched argraffiad.‡ Y mae y geiriau a roddwyd mewn llythyrenau Italaidd mewn argraff goch.

* Gwel rhif 3 a 7, d.f. 1707.

† [Wyr (fab merch) i'r gwr da hwn yw y Tra Pharchedig Llewelyn Llewelin, D.C.L., Deon Ty Ddewi, a Phenaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr.]

‡ Gwel rhif 1, d.f. 1584; rhif 1, d.f. 1663; rhif 1, d.f. 1697; rhif 4, d.f. 1702; rhif 17, d.f. 1779; a hwn yma. Daeth dau argraffiad o hono allan yn y 19edd ganrif, ym Merthyr Tydfil yn 1812, ac hefyd yn 1832, gyda sylwadau gan un Richad Lloyd. Y cyhoeddydd ydoedd Mr. E. Edwards, o'r Mwythig.

7. 'Hyfryd Goffadwriaeth y Cyfiawn, neu Farwnad Elizabeth James, o blwyf Casnewydd ar Wysg, yn sir Fynwe, &c.

Aberhonddu argraffwyd gan J. Evans, dros yr awdwr Dafydd William.'

Ail argraffiad.* Merch ieuanc ragorol mewn crefydd ydoedd, ac o deulu parchus. Yr oedd dau ewythr iddi yn weinidogion yr efengyl yn yr oes hono. Bu farw yn 19 oed.

8. 'Dull o Ymddiddan rhwng Gweinidog yr Efengyl, a Disgybl ieuanc dan holiad. Gan Morris Griffiths, gerllaw Hwlfordd.

Caefyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. M, DCC, LXXX, IV.'

9. 'Y Briodas Ysbrydol; sef Pregeth Fuddiol, i bawb a gariant ein Harglwydd Iesu Grist mewn gwirionedd. Ar Esai. liv. 5. Dy Briod yw yr hwn a'th wnaeth, &c. Ym mha un y gosodir allan Undeb yr Enaid duwiol â Duw, a dedwydd Gyflwr y cyfryw mewn Bywyd, yn Angeu, ac yn y Farn. Gan P. W. Gweinidog yr Efengyl.

Caefyrddin, argraffwyd gan J. Ross. 1784.'

Ni ellir ammheu mai y Parch. Peter Williams a feddylir wrth y P. W. uchod.

10 'A Tour in Wales. Vol. i. and ii.

London, printed for Benjamin White, at Horace's Head, in Fleet Street. MDCCLXXXIV.'

Teithlyfrau Pennant ydyw yr uchod.

11. 'Ymddygiad Cristianogol; neu Ffrwythau gwir Gristianog-ryydd. Yn dangos y gwraidd o bale y maent yn tarddu yn eu dwyfol drefniad yn Nyledswydd Perthynasau, megis gwyr, gwragedd, rhieni, plant, meistriaid, gweision, &c. Gyda gair o Gyfarwyddyd i Wrthgilwyr. Gan Ioan Bunyan, Carcharor Gobeithiol. A gyfieithiwyd o'r ail argraffiad yn Saesonaeg.

Caefyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, dros P. Williams, M, DCC, LXXXIV.'

12. 'Marwnad ar Farwolaeth y Parchedig Mr. Christopher Basset, yr ieuangaf, o Aberddawen, yn sir Forganwg, Athro celfyddydau, yr hwn a ymadawodd a'r byd yr 8fed o Chwefror, 1784. Yn yr 31ain flwyddyn o'i oed, ac a gladdwyd yn Saint Athans. Hwn oedd ŵr duwiol dysgedig a rhinweddol, yn bregethwr dwys, gwresog, ac awdurdodol, yn holl athrawiaethau yr ysgrythyr lân;

* Gwel rhif 12, d.f. 1783.

yn arweinydd goleu i'r pererinion trwy holl hyfryd lwybrau 'r brynedigaeth yng Nghrist; a mawr alar sy yr awrhon am dano trwy holl ddeheudir a gogledd Cymru. 'Roedd ganddo ddiadell o rai duwiol yn Mhorthcery, yn agos i dŷ ei dad, i'r rhai a bendithiodd Duw ef. Y rhai sydd yn awr yn amddifad oni bai gweinidogion ffyddlon eraill, y rhai sy'n gwneud eu gorau am edrych atynt. Gan W. Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd tros yr awdwr gan J. Evans. 1784.'

13. 'Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards, preserved by tradition and authentic Manuscripts never before published. By Edward Jones (Bardd y Brenin).' 2 vols. folio. [London.]

Yr EDWARD JONES hwn oedd frodor o'r Henblas, Llandderfel, yn sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn 1752. Daeth i Lundain yn 1774, drwy gefnogaeth amrai wŷr enwog, lle y cafodd sylw mawr, ac yn 1783, penodwyd ef yn Fardd i Dywysog Cymru, wedi hyny Sior iv. Casglodd lawer o lyfrau prinion, y rhai y bu gorfod arno ymadael â hwynt, er cael modd i'w gynnal yn ei dlodi, yr hwn dlodi a leddfyd, pan ddaethpwyd i wybod ei sefyllfa, trwy flwydd-dal o 50*p.*, oddi wrth Gymdeithas Freninol Cerddorion. Bu farw Ebrill 18, 1824, yn 72 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Marylebone. Gwerthwyd y gweddill o'i lyfrau ar gyhoedd, a daethant ag elw o 500*p.*, ac yr oedd yntau ei hun wedi gwerthu gwerth 300*p.* o honynt yn ei gyfyngder.*

14. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi yn y flwyddyn 1784.

Trefecca, Argraffwyd yn y Flwyddyn M,DCC,LXXXIV.'

15. 'Antiquities of England and Wales, by Francis Grose, 10 vols.

London. 1784.' 4to.

16. ¶ "‘Ti fuost ffyddlon ar ychydig, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.’" Marwnad er Coffadwriaeth o farwolaeth Mr. Dafydd Jones; pregethwr rhagorol yn perthyn i gynnulleidfa Pentre-tŷ-gwyn, yn sir Gaerfyrddin; yr hwn yr ymadawodd a'r byd hwn, yn y flwyddyn 1784. Gan John Morgan o blwyf Bedwelty a'i cânt.

Trefecca, Argraffwyd.'

17. 'Marwnad Mr. Christopher Basset. Gan D. William.

Aberhonddu, Argraffwyd gan J. Evans. 1784.'

* Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen.*

18. 'Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth. Gan W. Gurnall. Rhan II.*

Trefecca, Argraffwyd.'

Ni ddywedir pwy oedd cyfieithydd na chyhoeddwr y gyfrol hon, dim ond ei bod newydd ei chyfieithu i'r Gymraeg. Y mae yr hysbysiad gan gyhoeddwr y gyfrol gyntaf, naw mlynedd yn ol, yn dweyd fod yr ail gyfrol hon yn barod i'r wasg, pan gyhoeddwyd hõno. Wrth gymharu y ddwy gyfrol, ymddengys eu bod wedi eu cyfieithu gan yr un llaw.†

19. 'Marwnad John Price, o Blwyf Merthyr, yn Sir Frycheiniog. A ymadawodd a'r byd hwn, i fyd yr ysbrydoedd, yn y flwyddyn 1784. Gan Thomas Dafydd.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr, gan John Daniel.'

Dyma y lle cyntaf i gyfarfod ag enw John Daniel fel Argraffydd, heb y nod (¶) o. ansicrwydd am y flwyddyn, a bu yn dwyn ym mlaen y gelfyddyd hyd 1799, ysbaid pymtheg mlynedd; ond os cymmerir y flwyddyn gyntaf y mae genym ei enw, 1770, gwna 19 mlynedd; ond bu un flwyddyn, neu bu yn cyhoeddi un llyfr yn 1794, mewn cyssylltiad â Mr. Ross, fel pe buasent yn gymdeithion yn y gorchwyl; beth bynag, argraffwyd un llyfr felly; ond y mae yr hanes sydd genyf yn wahanol.

JOHN DANIEL ydoedd fab i amaethwr bychan yn y rhan isaf o sir Gaerfyrddin, ac efe ydoedd unig fab. Efe a rwymwyd i'r gelfyddyd o argraffu am saith mlynedd gyda Mr. Ross, yng Nghaerfyrddin. Ar derfyniad ei amser, cynnygiodd Mr. Ross iddo ran yn y fasnach, ond efe a dewisodd weled mwy o'r byd, ac a aeth i Lundain; a chan ei fod yn gyssodydd neillduol gyflym, cafodd waith gydag argraffwyr y brenin, a bu yn gweithio ar fryslythyrau y llywodraeth. Yr oedd hyny ym mlwyddyn terfysg Gordon [1780]. Wedi iddo briodi yn Llundain, dychwelodd i Gaerfyrddin, a dechreuodd argraffu ar ei draul ei hunan yn 1783. Yn 1810, efe a sefydlodd y 'Carmarthen Journal.' Bu farw Ionawr 10, 1823, yn 68 oed; ac y mae wedi ei gladdu ym mynwent Eglwys plwyf Llangunnor, lle y mae gwyddfa ar ei fedd ef, ac ereill o'i deulu.‡

20. ¶ 'Ychydig o Eiriau a Hymnau o Waith Thomas Dafydd. Ynghyd a Chyffes ddiweddaf Mr. Dafydd Jones. Cyfieithydd Salmau a Hymnau Watts.'

21. 'Aurora Borealis, &c. Y Goleuni Gogleddol. Gan W. Williams.

Aberhonddu.'

* Gwel rhif 21, d.f. 1775.

† *Traethodydd*, iii. t. 398.

‡ *Llythyr* oddi wrth ei ferch, Mrs. George Thomas, at Mr. W. Spurrell.

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad.*

22. 'Atteb i Wr Boneddig a geisiodd brydyddu senn i'r yspryd a ddisgynodd ar rai gwrandawyr bywiol yn diweddar, ac a'u gwnaeth hwy i ganu a dyblu canu mawl i Dduw a'r Oen; ie, bendithio, molianu, llawenhau, llamu, a neidio o orfoledd eu iechydwrïaeth. Yr atteb hwn a wnaeth yr awdwr, nid mewn dull o waradwyddo y dyn hwnnw, am ei anwybodaeth o'r Ysgrhythrau, a'i anfedrusrwydd i brydyddu, ond i roi calonddid i ganlynwyr Crist, fel na lwrhäont ganmol eu Duw, er gwrthwynebiadau yr anneallus a'r dibrofiad. Gan William Williams.

Aberhonddu, argraphwyd dros yr Awdwr, gan J. Evans. 1784.'

[‘Tybia rhai mai y Gwr Boneddig uchod oedd un o'r enw William Williams, oedd yn Weinidog i'r Bedyddwyr yn Aberteifi, yr hwn hefyd oedd yn Ynad Heddwch. Nid yw yr ysgrifenydd yn gwybod dim am ei gân, ond cyfieithwyd Sylwadau o'i eiddo ar Ddirywiaeth mewn Pregethu a Chanu, gan Morgan ab Ioan Rhys, yn 1794. Gwel dan y flwyddyn hono.

Mae pump o Hymnau yn dilyn yr ‘Atteb’ uchod, y rhai ni chynnwysir yn yr argraffiad o holl Hymnau yr Awdwr. Maent i'w gweled yn argraffiad Mackenzie, t. 742 a 743, sef rhif xiii. hyd xvii. Mae y rhai blaenorol iddynt i gyd yn argraffiad 1811.†]

23. ¶ ‘Yr Hyfforddwr Cymreigaidd, &c. Gan Enoch Dafydd. Caerfyrddin.†

24. ‘Cyfarwyddiad i Fesurwyr neu Arfer Cyffredin o'r ddwy droedfedd. I. Mesur coed, pa un bynag ai crynion ai yscwâr, ai byrddau, ystyllod a phlangciau, ac hefyd meini, llorïau, murïau, wenscot, gwydr, gwaith y llifwyr, gwaith y gôf; ac amryw o bethau eraill yn arferol o gael eu mesur wrth y Ddwy droedfedd. Yn fuddiol i'r Saer coed a maen, ioiner, gwydrwr, llifwyr a chlodwyr coed, gwyngalchwyr, yselaters neu faenodwyr, a'r peithynwyr. II. Tablau o chwaniadiad trwy gyfrifiad, fel y gellir yn haws grynhoi yr un swm o droedfeddi neu lathenau yr hyn a fesurir. III. Byr gyfarwyddiad i fesur tir. IV. Cyfarwyddid i ddyall mesurau a phwysau yscrythurol; llechres barod i fwrw arian; ac amryw o bethau eraill yn dra buddiol i bob marchnadyddion. Argraphiad newydd, gida chwaniadiadau.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, gan R. Marsh. 1784.'

25. ‘Tour in Wales, with Journey to London. 2 vols. By Thomas Pennant. 1784.'

* Gwel rhif 7, d.f. 1774.

† *Llythyr* Mr. Morris Davies.

‡ Yn ol *Ysgrif* Mr. Benjamin Davies.

26. ¶ 'The Whole of the Trial of the King versus Rev. Wm. Davies Shipley, Dean of St. Asaph, for a Libel, held at Wrexham, Co. Denbigh. 1784.'

Y Deon SHIPLEY ydoedd fab i'r Esgob Jonathan Shipley. Efe a gyhoeddodd anerchiad ei gâr, Syr William Jones, at Rydd-ddeiliaid, mewn amser o gryn gynhwrf gwladwriaethol yn etholiad aelod seneddol, yr hwn y ceisiwyd ei wneyd gan y blaid arall yn fradwriaeth. Yr oedd y deon wedi priodi merch i Syr John Conwy o Fodryddan, yn sir Flint. Mabwysiadodd ei fab yntau y cyfenw Conwy, wrth yr enw llawn—William Shipley Conway.

1785.

1. 'Cyfiawnhad Pechadur : Neu'r Arglwydd Iesu Grist, yr Arglwydd ein Cyfiawnder. A draddodwyd mewn amryw Bregethau, gan Obadiah Grew, D.D. Gynt Gweinidog yr Efengyl yng Nghofentri. At ba un y chwanegwyd Traethawd byrr er amddiffyn Bedydd Plant Bychain.* Gan y Parchedig Mr. Nathaniel Taylor.

Trefecca, Argraphwyd yn y Flwyddyn, MDCCLXXXV.' [12plyg.]

OBADIAH GREW, D.D., a ddewiswyd yn amser Cromwel, gan faer a swyddogion tref Coventry, yn weinidog plwyf mawr St. Michael, yn y dref hòno. Ond cafodd ei droi ymaith pan adferwyd Siarl II., o blegid na chydymffurfiai â ffurfwasanaeth esgobyddol. Wedi hyny bu yn cael ei erlid o le i le am weddio a phregethu. Yn 1665, yn amser y pla mawr, aeth i Lundain i bregethu, ond gyrwyd ef oddi yno gan y Senedd. Yn 1672, cafodd ef ac ereill beth mwy o ryddid, a dychwelodd at ei bobl, lle y bu hyd nes y cyfyngwyd eu rhyddid drachefn yn 1682, pryd y bu raid iddo ymadael, er ei fod yn ddall. Pan ddaeth y Tywysog Orange (William III.) i mewn i'r llywodraeth, efe a dychwelodd i'r ddinas, ac a bregethodd hyd o fewn mis i'w farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn 1689.†

2. 'Esponiad ar Ddammeg y Mab Afradlon. Gan John Bunyan.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Joan Ross.'

3. 'Myfyrdodau Herfei, y rhan gyntaf, o gyfieithiad Ior'werth Barnes.

Caerlleon, Argraffwyd gan J. Monk.'

4. 'Y Cwestiwn mawr, sef Pa fodd y myn Duw gadw Dyn? Wedi ei egluro mewn Pregeth ar Phil. ii. 12, 13. Gan E. Grif fith, G.E.

* [Y mae i'r 'Traethawd Byr' ddalen enw o'i eiddo ei hun :—'Traethawd Byr er Ymddiffyn Bedydd Plant Bychain. Gan y Parchedig Mr. Nathaniel Taylor. Trefecca : 1785.' Attodir ef i'r gwaith blaenorol, ond rhifnodir ei ddalenaau ar wahan.]

† Palmer's *Calamy's Non-Con. Mem.* vol. iii. p. 343.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross. 1785.*

5. ¶ 'Darllen Dwfr a Meddyginiaeth. Gan Nathaniel Williams.'

NATHANIEL WILLIAMS ydoedd frodor o gymmydogaeth Meidrym, yn sir Gaerfyrddin, a bu am beth amser yn weinidog cynnorthwyol ordeiniedig i'r Bedyddwyr yn Ffynnon Henri, yn yr un sir. Bu farw o ddeutu 1815 neu 1816.†

6. ¶ 'Goleuni yr Efengyl; Pregeth gan Edmund Jones, Ebenezer, Pont-y-pool.'

7. 'Gwaith Prydyddawl y diweddar barchedig Dafydd Llwyd, Gweinidog Eglwys Llwyn Rhyd Owen, yn Sir Aberteifi.

Caerfyrddin; Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol Awst, 1785.'

DAFYDD LLWYD, neu DAVID LLOYD, fel y dywedir uchod, ydoedd weinidog Llwyn Rhyd Owain, yr hon gynnulleidfa oedd yn cofleidio egwyddorion Ariaeth er ys blynyddau cyn hyn, trwy weinidogaeth Mr. Jenkin Jones, a darfu i Mr. Llwyd, fel ei ddilynydd, gyhoeddi yr un egwyddorion, a'u lledaenu, fel yr ystyrir ef yn sylfaenydd y cynulleidfa oedd Ariaidd a Sosinaidd [Undodaidd] yn sir Aberteifi. Cafodd ei ddsyg yn y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin, ac ymadawodd i waith y weinidogaeth yn y 18fed flwydd o'i oed, o ddeutu y fl. 1742, ac ordeiniwyd ef yn Llwyn Rhyd Owain, yn 1745, pryd y pregethwyd gan Mr. G. Palmer, o Abertawy. Yr oedd yn ysgolhaig enwog, ac yn bregethwr nerthol, yn fardd o chwaeth ragorol, ac yn ymlynol iawn wrth yr egwyddorion mawrion o ryddid gwladol a chrefyddol. Bu farw yn y flwyddyn 1778, yn 54 oed, wedi bod 36 mlynedd yn y weinidogaeth. Gwelir mai ym mhen saith mlynedd wedi ei farwolaeth y cyhoeddwyd ei 'Waith Prydyddawl.‡

8. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1785.

Trefecca; Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXXV.'

9. 'Mesurwr Cyffredinol. Gan Mathew Williams. Ail Argraphiad.'

10. 'Llaw-lyfr Ysgrythyrol, neu Ddarluniad eglur o'r Ordinhad o Fedydd. Wedi ei amcanu er budd i bawb, a ddymunant ateb Cydwybod dda tu ag at Dduw; a rhoddi rheswm dros eu Ffydd a'u Hymarferiad, gyd ag Addfwynder ac Ofn. Gan y Parchedig Mr Samuel Wilson. Yr ail argraphiad yn Gymraeg; a Gyfieithwyd o'r Pedwerydd Argraphiad yn Saesonaeg.

* Ail argraffiad, gwel rhif 8, d.f. 1783.

† Hanes y Bedyddwyr yn y Deheubarth, gan D. Jones.

‡ Hanes Crefydd yng Nghymru, gan Peter; a Llythyr cyfrinachol oddi wrth y Parch. Dr. David Lloyd, Athraw Ieithyddol Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, ac ŵyr i awdwr y llyfr uchod.

Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,LXXXV.' [12plyg.]

Cynnwysa 24 o dudalenau, ac heb enw argraffydd.

11. 'Elegia, neu Fyfyrdodau ar Farwolaeth Mary Thomas, o Drecastell, yn sir Forganwg. Gan Thomas Williams.

Trefecca, 1785.'

12. ¶ 'Poems on several occasions (including the Complaint of Cambria, done into English from the Welsh original), By E. Lovibond. 1785.'

13. 'Coffadwriaeth o'r Haf Sych, yn y Flwyddyn M,DCC,LXXXV. Wedi ei osod allan ar Fesur Cerdd, gyd ag Adnodau Ysgrythyrol; Er Cadarnhad i'r Gwirionedd, Trwy Ddymuniad amryw o Ewyllys-wyr da i Lwyddiant yr Efengyl. Y Trydydd Argraphiad.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin, Lle yr argrephir pob math o gopiau am Bris rhesymol.'

14. 'Siamplau ofnadwy* Duw ar Droseddwyr: neu Wirioneddol a neillduol Hanes am John Williams, o Blwyf Appledore, yn Sir Dyfneint, neu Devonshire, yr hwn a lyngwyd i'r Ddaear hyd ei ganol, ar y seithfed dydd ar hugain o fis Mai diweddfaf. A osodir allan ar ddymuniad 12 o wyr Eglwysig, er rhybudd i ddynolryw. Ynghyd a Hanes William Reves, yr hwn a Grogwyd yn Dorchester, Dydd Mercher, y nawfed o Fawrth, 1785, am Ladd ei Wraig, a Thi o Blant.

Mwythig, Argraphwyd tros John Lewis. (Pris Ceiniog.)'

15. 'Tair Marwnad, &c. 1. D. Thomas. 2. Tim. Thomas. 3. Dafydd Thomas.

Trefecca.†

16. 'Myfyrdodau ar Farwolaeth Thomas Rees, Esqr. Llwynpïod. Gan W. Williams.

Caerfyrddin.‡

17. ¶ 'Darluniad Gras a Serchiadau Natur; yn gweithio mewn Siomedigaeth, Ofn, a Hiraeth, ym mhrofiadau Mrs. Margaret Lloyd, Gwraig Mr. William Lloyd, Pregethwr yr Efengyl, yn achos Claddedigaeth Mab Bychan iddi, oddeutu Deg Mlwydd Oed, o'r Frech Wen, yr hwn oedd yn Blentyn Glan, Call, a Hawddgar, ac yn meddu wrth bob arwyddion Wirionedd Gras, ac yn dwyn Tyst-

* [O farn neu farnedigaeth, mae yn debyg.]

† *Llythyr* Mr. B. Davies.

‡ Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies.

iolaeth i bawb a'i gwelai, iddo huno yn yr Arglwydd ym Mis Ebrill 1783. At ba un y Chwanegwyd, Rhai Gwersi ar Farwolaeth John Evans, Pregethwr yr Efengyl, yr hwn a fu Farw ym Mis Mawrth, 1784. A Rhai Gwersi ar Farwolaeth William John, o Llywele-Mawr, Pregethwr yr Efengyl, yr hwn a ymadawodd ar Ddydd Sul y 18fed o Ebrill, 1785. Gan William Williams.

Aberhonddu, Argraphwyd gan Wm. a Geo. North.'

18. ['Myfyrdod ar Angau, &c. Gan William Williams.

Caerfyrddin, argraffwyd gan J. Ross, yn Heol Awst. 1785.'

'Cân alarnadol ydyw, o 85 o bennillion. Gwel argraffiad Mackenzie, t. 736.*]

1786.

1. 'Marwnad er Coffadwriaeth am Jane, gwraig Mr. Thos. Foulkes, o'r Bala. A gladdwyd Hydref 28, 1785. Yn yr 68 o'i hoedran. Gan William Evans.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn 1786.'

Y gwrthddrych ydoedd wraig gyntaf Mr. Foulkes, a mam gwraig y Parch. T. Charles, o'r Bala.

WILLIAM EVANS ydoedd o'r Fedw Arian, ger llaw y Bala, a'r hwn oedd yn un o'r 'Cynghorwyr' cyntaf ym mhlith y Methodistiaid yn y cymmydogaethau hyny, 'ac a fu yn llafurus a diwyd i gyhoeddi yr efengyl ar hyd conglau tywyll o'r wlad, nes yr anhwylyswyd ef gan y parlys, yr hwn a amharodd ei gof, ac a wanhaodd ei synwrau amser cyn ei farwolaeth.'†

2. 'Histori neu Hanes Bwystfil rhyfeddol a anwyd o wraig, mewn Pentref a elwir Meltham, yn agos i Huddersfield, yn y flwyddyn 1786.

Trefriw, Argraphwyd, 1786.'

3. ¶ 'Ychydig o Ymddiddan difrifol rhwng dau Ymdeithydd, sef Gwr Ifange yn cwyno tan bwys cydwybod euog, a Hên Wr yn ceisio ei gysuro. Gan Hugh Williams.

Trefriw, Argraphwyd.'

4. ¶ 'Gwallt Samson: Pregeth, &c. Gan Edmund Jones, Pont-y-pool.'

5. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi. 1786.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXXVI.'

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† *Drych yr Amseroedd*, ail arg. t. 175, 213.

6. 'Immanuel. Neu Ddirgelwch dyfodiad Mab Duw yn y Cnawd. Wedi ei Agor. Gan y gwir Barchedig Dad yn Nuw, James Usher, Gynt Arch-Esgob Armagh, yn Iwerddon. Newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg gan W. Williams, Gweinidog yr Efengyl.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXXVI.'

7. 'Marwnad John Thomas, Gweinidog Maesyberllan, gan Benjamin Francis.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Daniel.'

8. 'Hymnau a Chaniadau Duwiol, ar fesurau hen a newydd: gyda Phrofiadau Ysgrhythrol, er cadarnhad i'r gwirionedd. Gan Ioan Sanders, o Blwyf Penbre, yn sir Gadrffyrddin.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel, (Gwerthwr Llyfrau, &c.) yn Heol y Brenin, Lle yr Argreffir pob math o gopiau, yn gywir ac yn hardd, ac am bris tra rhesymol. MDCCCLXXXVI.'

9. 'Y chweched Ran o Ganiadau Seion: neu Hymnau ac Odlau Ysrydol gan John Thomas.

Trefecca. Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCCLXXXVI.'

Y mae yr awdwr yn arwyddo y rhagymadrodd o'r 'Tŷ Coch, ger llaw'r Ffynhonau Plwyf Llan Drindod Sir Faesyfed.'

10. 'Aleliwia; neu Hymnau perthynol i addoliad cyhoeddus a theuluaid. Yr ail Lyfr. Gan Benjamin Francis.

Caerfyrddin: argraffwyd ac ar werth dros yr Awdwr gan J. Daniel. 1786.*

11. 'Marwnad ar Farwolaeth Rowland Jones, o Graian-Frynn, ym Mhlwyf Llanfigail, yn Sir Fon, Yr hwn a hunodd gyda'i Dadau Ebrill 10. 1785, yn llawn 37 oed. Gan Thomas Morris. At barai y chwanegwyd, Ymddiddan rhwng y ddwy Eglwys, &c. O waith Dafydd William.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel. M,DCC,LXXXVI.'

12. 'Rheolau a Deddfau, i'w cadw gan Gymdeithas o Foneddigion, Llafurwyr, Crefftwyr ac eraill, Trigolion Tref y Castell-Newydd yn emlyn, A'r Gym'dogaeth, yn Sir Gaerfyrddin.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. M.DCC.LXXXVI.'

13. 'Memoirs of Great Britain and Ireland, from the Dissolution of the Last Parliament of Charles II. until the Sea Battle of la Hogue, by John Dalrymple.

* Gwel rhif 20, d.f. 1774.

London, W. Strahan 1771 and 1786.*

WILLIAM STRAHAN, yr argraffydd, a anwyd yn Edinburgh, yn 1715. Wedi cael dysgeidiaeth ieithyddol, efe a rwymwyd yn egwyddorwas gydag argraffydd. Wedi dysgu ei gelfyddyd, aeth i Lundain i weithio, ac mewn canlyniad, i ymsefydlu; a bu mor llwyddiannus, fel, erbyn y fl. 1770, yr oedd yn un o'r argraffwyr helaethaf ei waith yn Llundain, a phrynodd ran o hawl-fraint Mr. Eyre fel argraffydd y brenin, yn yr hyn y parhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le, Gorphenaf, 1785, yn 71 oed.† Yr oedd yn rhaid fod y llyfr hwn yn y wasg pan fu farw, ond heb ei gwblhau hyd ddechreu y flwyddyn hon.

14. ¶ 'History of Wales, Account of the Ancient Britons, Wars between the Saxons and Welsh &c. to the entire Conquest of Wales, and Ancient Memorials of Welsh Princes. By the Rev. Wm. Warrington. 1786.'

[Nis gall yr enw, fel ei gosodir yma, fod yn gywir. Diau mai ei gymmeryd o ryw gofrestr llyfrau a wnaeth yr awdwr. Cymh. rhif. 17, d.f. 1788.]

15. ¶ 'A Discourse to the Distressed Clergy of Carmarthen. By the Bishop of St. Davids.

Carmarthen, Printed 1786.‡

Yr esgob oedd y Dr. Smallwell. Y bregeth a draddodwyd i'r offeiriaid yng Nghaerfyrddin.

16. ¶ 'The Miscellaneous Companions, being a short Tour of Observation and Sentiment thro' a part of South Wales: Maxims and Thoughts, On Marriage, Our Last Day, Punishment, World of Spirits. By Wm. Matthew. In III Volumes.

Bath, 1786.'

Cynnwys chwedlau am hyswiaeth gwragedd Cymru, glanweithdra, baw, ac am dlydni prydwedd merched y Cymry.

17. ['Galar a Gorfoledd y Saint: neu Hymnau cymmwys a pherthynol i Addoliad Cyhoeddus. Gan William Lewis, Llan-gloffan.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn M.DCCCLXXXVI.' 12plyg.]

* *Dictionnaire Bibliographique*, yr hwn sydd yn waith rhagorol yn yr iaith Ffrancaidd, yn cynnwys rhestr o lawer o filoedd o lyfrau hen a phrin, yn amrywiol ieithoedd Ewrop, yn bedair cyfrol, 8plyg; ac y mae cyfargraff da o hono yn llyfrfa W. Chambers, Ysw., Hafod, sir Aberteifi, i'r hwn y mae y golygydd [yr awdwr] yn rhwymedig am y parodrwydd a ddangosodd, iddo gael mynedfa mor rhydd i'w lyfrfa ragorol.

† *Gentleman's Magazine*, 1785, pp. 638-640.

‡ *Hotten's Catalogue*.

18. [‘Ychydig o Hymnau a Chaniadau Newyddion ar amrywiol achosion: pa rai ni argraphwyd erioed o'r blaen. Gan Gwilym ab Elis.

Trefecca: Argraphwyd, tros yr awdwr, yn y Flwyddyn. MDCCLXXXVI.' 24 tudalen.

Yn hwn y mae yr emyn adnabyddus, ‘Nis gallodd angau du ddal Iesu'n gaeth,’ &c.*]

1787.

1. ‘Marwnad ar y Parchedig Mr. William Davies, o Gastell-nedd; yr hwn a ymadawodd a'r Byd, ddydd Gwener y 17 o Awst, 1787. Yn y driugeinfed flwyddyn o'i oed, ac a gladdwyd ym Mynwent Castell-nedd; wedi treulio tros 30 o flynyddau i bregethu Efengyl Crist ymhlith y Methodistiaid: ynghyd â rhai gwersi i eraill a fuont feirw yn yr Arglwydd. Gan William Williams.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XXXVII.' [16plyg: 12 tudalen.]

2. ‘Y Cyssylltiad rhwng Ffydd Achubol a Gweithredoedd da, mewn Pregeth ar Tit. iii. 8. Gan y Parchedig John Hallward, A.M. Ficar Shudbury, yn Sir y Mwythig, a Chyfaill o Ysgoldy Caerwrangon yn Rhydychen.

Mwythig: Argraphwyd gan T. Wood, dros y Gymdeithas, yn y flwyddyn M,DCC,LXXXVII.'

Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad.†

3. ‘Marwnad ar Farwolaeth Mrs. Ann Parry. Gan y Parch. T. Jones. 1787.’

THOMAS JONES, a anwyd yng Nghaerwys yn 1756. Cafodd beth dysgeidiaeth ieithyddol, gyda bwriad o fod yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ond ymunodd â'r Methodistiaid Calфинаidd, ym mhlith y rhai y bu yn llafurio fel pregethwr a gweinidog yn ffyddlawn a defnyddiol am agos deugain mlynedd. Ysgrifennodd gryn lawer. Ei waith mwyaf yw ei ‘Ferthyrdraith.’ Hynododd ei hun fel amddiffynydd y tybiau athrawiaethol a ystyrir yn Galфинаidd, mewn gwrthwynebiad i'r Parch. O. Davies, yr hwn a ysgrifennai ar yr ochr arall, a'r hwn ydoedd yn un o'r Wesleyaid. Cyfieithodd hefyd ‘Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth,’ gan Gurnal, yn 4 cyfrol. Bu farw yn Ninbych, Mehefin 16, 1820, yn 64 oed.‡

4. ‘Egwyddorion y Grefydd Gristnogawl yn gynhwysol mewn Catechism Byrr, a ossodwyd allan gan Gymmanfa o Ddifynyddion

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† Gwel rhif 3, d.f. 1779.

‡ *Cofiant neu Hanes Bywyd Thos. Jones, o dref Dinbych; Williams's Eminent Welshmen.*

yn Westminster, yn y flwyddyn 1647. A Bedydd gwedi ei eglurhau trwy'r Ysgrhythrau yn ol barn y rhai a gamenwir yr Ail-Fedyddwyr. A'r cwbl a ddosparthwyd yn Byngciau Gwahanol, ac a brofwyd trwy eglur a pherthynasol Destynau o'r Ysgrhythur. Er Budd i Ieuengctid Cymru.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn 1787. (Pris Pedair Ceiniog.)' [12plyg: 60 tudalen.]

'Catechism y Gymmanfa' ydyw, ond wedi ei droi ar y pwnc o o fedydd yn ffafriol i drochiad, at wasanaeth y Bedyddwyr. Y mae rhagymadrodd iddo gan Abel Morgan.

5. Cynnadledd Ymresymaeg rhwng Pleser-a Gofid; ar ddull Interlude, &c. Gan Thomas Edwards.

Caerfyrddin.' 12plyg.*

6. 'Testyn y Traethod yr Wythfed Llythyr, a gymerwyd o'r Littani. O waith Ellis Roberts, Cowper.

Trefriw, Argraffwyd, 1787.'

7. ¶ 'Y Chweched Llythyr ar ddull pregeth. Gan Ellis Roberts, Cowper, Llanddodog.

Trefriw, Argraffwyd.'

[Diau y dylasai hwn fod o flaen rhif 6; canys y mae hwnw yn wythfed o lythyrau Elis Gylchwr; tra nad yw hwn ond y chweched.]

8. 'Marwnad ar farwolaeth y Parchedig John Thomas, Gynt o Faes y Dorglwyd, &c. Gan B. Francis.

Caerfyrddin, Argraphwyd yn 1787.'

9. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, 1787.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

10. 'Can Dduwiol, &c.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel, 1787.'

11. 'Rhai Hymnau Newyddion ar Fesurau newyddion. Gan W. Williams.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn, 1787.'

['Hymnau olaf "Per Ganiedydd y Cymry" yw y rhai hyn, yn cynnwys hymn 847 hyd 860 yn yr argraffiadau o'r holl waith. Llyfran bychan ydoedd o 12 tudalen, cyffelyb i ddau arall a argraffesid o'r blaen. Yn y modd hwn y gorphenodd ei hymnau gwerthfawr, wedi bod yn cyfansoddi o 1743 hyd 1787, pedair a deugain o flynyddoedd! Mae yr hymn olaf, sef 860, yn ddiweddglo tra phriodol i'r cyfan, ac yn gyflawn o deimlad.†]

* *Gwladgarwr*, Mai, 1838, t. 144. [Thomas Edwards = Twm o'r Nant.]

† *Llythyr* Mr. Morris Davies.

12. ¶ 'Discourse against the Jurisdiction of the King's Bench over Wales, by Process of Latitat.'

Nid ydys yn deall i hwn gael ei argraffu wrtho ei hun, ond ym mhllith traethodau cyfreithiol Hargraves, yn y flwyddyn hon, yn bedwar- ac yn wyth-plyg. Yr awdwr ydoedd Charles Pratt, wedi hyny Arglwydd Ganghellydd Camden.*

13. 'The History of Wales, in nine Books: with an Appendix. By the Rev. William Warrington, Chaplain to the Right Honourable the Earl of Besborough.

London: Printed for Johnson, No. 72, St. Paul's Church-yard. MDLCCXXXVII.†

14. 'Ychydig o Rheolau yw derbyn ai harfer gan bob Dyn, ac sydd am fod yn Gristion yn ol y Bibl. Yn ddwy ran. I. Rhan yn erbyn Beiau [ie pob Beiau] yn cael eu gwahardd, mi enwaf rai; ac y mae Aelodau Eglwysig yn dueddol iddynt, y rhai a waherddir yn eglur yn yr Ysgrythyrau, ac y mae Duw yn anfoddlon iddynt. II. Rhan yn cynnwys amryw ddyledswyddau a orchmynir; mewn cyflawniad cydwybodol o honynt y derbyn Crist'nogion amryw fendithion, &c. O Gasgliad John Richards Llwyngrow.

Machynlleth: Argraphwyd gan T. Evans, 1787.'

1788.

1. 'Dechreuad a Chynnydd Crefydd yn yr Enaid. A eglurwyd mewn amryw Gyfarchiadau Difrifol ac ymarferol, wedi eu cymhwyso at bob Mâth ac Amgylchiad o Ddynion; Gyda Duwiol Fyfyrdod, neu Weddi, Wedi ei 'chwanegu at bob Pennod. Gan P. Doddridge, D.D. A gyfieithwyd i'r Gymraeg allan o'r unfed ar ddêg Argraffiad yn Saes'neg, er llên i'r Cymru un Iaith, Gan John Griffith, Gweinidog yr Efengyl.

Yn y Mwythig: Argraffwyd ac ar werth gan J. a W. Eddowes, a chan yr Awdwr yn Abergafenny, 1788. [Pris 2s. mewn papur glâs, neu 2s. 6c. wedi ei rwymo.]'

JOHN GRIFFITH ydoedd fab ac a anwyd yn 1753. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn Neillduwyd ef i'r weinidogaeth, i gynulleidfa o Ymneillduwyr yn Llanfyllin, yn 1780, a symmudodd i Gaernarfon yn 1782, ac i Abergafenni yn 1784, ac i Gaernarfon yn 1797. Bu yn briod ddwy waith; y tro cyntaf, ag Agnes Meredith, o ger y Trallwng, sir Drefaldwyn, a'r ail waith, a Mrs. Griffith, gweddw o ger Rhoslan, Eifionydd, yn sir

* 2 *Harg. Juris. Excer.* 301; and *Archæologia Cambrensis*, vol. i. third series.

† Gwel rhif 14, d.f. 1786. [Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad o Warrington.]

Gaernarfon, o'r hon briodas y mae wedi deillio dau o weinidogion parchus iawn ym mhlith yr Annibynwyr, sef y Parch. W. Griffith, Caergybi, a'i frawd, y Parch. John Griffith, Buckley. Bu farw Chwefror 13, 1818, yn 65 oed,* wedi bod yn pregethu 40 mlynedd.

2. 'Yr Athrofa Rad, &c. O gasgliad a myfyriad John Roberts. M,DCC,LXXXVIII.'

Math o silliadur mawr ydyw, o waith 'Almanaciwr Caergybi,' ag iddo ragddalen farddonol (heb law yr un uchod), yn ol dull ei 'Gyfeillion,' neu ei Almanaciau.

3. 'Y Bibl Sanctaidd, gyda Sylwadau y Parch. Peter Williams. Argraphwyd yn Nhrefecca.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad.†

4. 'Llyfr Gweddi Gyffredin a Gweinidogaeth y Sacramentau, &c. Mwythig; Argraphwyd ac ar werth gan Ann Prys. MDCCCLXXXVIII.'

Y mae yn debyg fod Stafford Prys wedi marw erbyn hyn, a bod y fasnach yn awr yn cael ei ddwyn ym mlaen gan ei weddw, ac mai hi yw yr Ann Prys hon.

5. 'Esponiad ar y Deg Pennod gyntaf o Genesis, a rhan o'r unfed-ar-ddeg. Gan yr enwog a'r Parchedig John Bunyan. Newydd ei gyfieithu yn ofalus ac yn ffyddlon i'r Gymraeg, o'r Argraffiad diweddfaf yn Saesonaeg.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan John Daniel. (Pris Swllt heb ei rwymo.)'

Cynnwysa 160 o dudalenau wythplyg. Argraffwyd ef hefyd yn Llanrwst yn y 19edd ganrif. Yr oedd ym mwriad Mr. Daniel gyhoeddi holl waith Bunyan, fel y prawf y nodiad canlynol:—'N.B. Gan fod Mr. Daniel wedi cael ei siomi mewn perthynas i'w amcan i argraffu holl waith Mr. Bunyan, gan na ddaeth cynnifer o enwau ag oedd yn angenrheidiol mewn trefn i'w annog i ddwyn yn y blaen waith mor bwysig, mae yn awr yn bwriadu gosod yn y wasg Esponiad Mr. Bunyan ar ran fawr o *Genesis*, o gylch swllt o bris. Ac os bydd yn gweled parodrwydd yn ei gydwladwyr i gymmeryd hwnnw yn fuan oddiar ei law, y mae yn bwriadu argraffu y lleill, bob un, yn gyfatebol i'r blys a brofo mewn dynion i'w derbyn.'‡

6. 'Caniadau Seion: neu Hymnau Ysgrythyrol a phrofiadol, i'w canu yng nghynnulleidfaoedd y Saint, ynghyd â Marwnadau ac Odlau. Yr ail Argraphiad. Gan J. Thomas, Gweinidog yr Efyngyl.

* *Hanes yr Ymneillduwyr*, gan D. Morgan, t. 276-279.

† Gwel rhif 1, d.f. 1770; rhif 5, d.f. 1781; a hwn yma.

‡ Gwaclod dalen olaf 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi [y Bedyddwyr], 1789.'

Trefecca; Argraphwyd, ac ar werth yno, a chan yr Awdwr, a chan Mr. John Thomas, Siopwr yn Llannerch y Medd, Sir Fon, a chan Owen Owens, Caernarfon. M,DCC,LXXXIII.'

Yr oedd yr awdwr wedi cyhoeddi 'Caniadau Seion' o'r blaen yn rhanau achlysurol, hyd i chwech; ac yn awr yn eu cyhoeddi yn un llyfr. Y 3ydd, y 4ydd, a'r 6ed yn unig o honynt a fedrais eu cofrestru.*

7. 'Troedigaeth Atheos: Ei fawr Gabledau gynt, a'i gyfeiliornus Ddaliadau.—Yn ymgyfarfod a Theologus—Yn ymddadleu oddiar System Epicurius, ynghylch y dechreuol Achos, a pha fodd y daeth yr hyn a welir mewn Bod.—Theologus yn ei ateb; bod y Greadigaeth, Haul, Lloer, Ser, Planedau, Tir, a Môr, yn dangos fod Duw, ac mai efe yw Creawdwr a Chynhaliwr pob Peth gweledig ac anweledig.—Creadigaeth yr Angylion.—Rhyfel yn y Nef.—Creadigaeth y Byd.—Rhai yn gwrthgilio.—Dedwydd Gyflwr Dyn.—Uffern yn ymgyngori pa fodd i'w gwmpo, ac yn llwyddo.—Ei alaethus Gyflwr trwy'r Cwmp.—Cyngor Tri-yn Un.—Crist yn rhoi ei hun yn Iachawdwr.—Ei Ddyfodiad i'r Byd, ac ar ol gorphen Gwaith y Prynedigaeth yn esgyn at y Tad.—Ei ail Ddyfodiad.—Y Farn gyffredinol.—Dedwyddwch y Duwiol, a Thrueni yr Annuwiol. Lle yr ymddengys Doethineb, Gallu, a Daioni Duw, mewn Creadigaeth, Rhagluniaeth, a Phrynedigaeth. Hefyd, Golwg Fer ar y Diwygiad diweddar, Tystiolaeth Ffydd, ac Adlais y Prophwydi.—Am Gwyp Anghrist, Galwad yr Iuddewon, Llwyddiant yr Efengyl, a Gogoniant yr Eglwys yn y Dyddiau diweddaf. Yn Dair Rhan.—At ba un y chwanegwyd Hymn ar Ddioddefaint, Marwolaeth, ac Adgyfodiad Crist. Gan J. Owen, Machynlleth.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth dros yr awdwr, gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin. 1788.'

JOHN OWEN ydoedd fasnachwr ym Machynlleth, ac yn un o berchenogion gwaith mwn y Dyfn-gwm. Yr oedd yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Bu farw yn Llangyndeyrn, sir Gaerfyrddin, yn 1830, yn 72 oed. Efelychiad ydyw y gwaith hwn o 'Theomemphus' Williams Pant y Celyn.

8. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, 1788.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin. Lle y gellir cael ar werth, newydd ei droi i'r Cymraeg, o waith Mr. Bunyan, Esponiad ar y Deg Pennod gyntaf o Lyfr Genesis, &c. Pris Swll. Elw da i Brynwy'r nifer o honynt ynghyd.'

* Gwel d.f. 12, 1762; rhif 13, d.f. 1764; a rhif 9, d.f. 1786.

9. 'Marwnad, neu Dduwiol Goffadwriaeth am y Parchedig Mr. Thomas Davies, Gynt Gweinidog yr Efengyl; yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn Gorphenaf 26, 1788. Gan Rees Lloyd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin, 1788.'

10. 'Allwedd Newydd i Ddysgu Darllain Cymraeg; yn cynnwys Tablau a Phennodau cymhwysiadol i'r diben hynny, o Eiriau Dwy, Tair, Pedair, a Phump Llythyren, Hyd at Eiriau Pump a Chwech Sillaf. At ba un y Chwanegwyd, Traethawd Byrr ar Gramadeg Cymraeg, ynghyd a Chatecism Ysgrythurol, Mewn Dull Ymddiddan, Rhwng Aradwr a'i Gathrenydd: Wedi ei amcanu er Budd Cyffredinol, ond yn fwyaf neillduol er Addysg Ysgolion Cymraeg. Gan Owen Hughes, Gerllaw Trefdraeth, yn Sir Benfro.

Caerfyrddin: Argraphwyd yn Heol-y-brenin, ac ar werth yno gan Ioan Daniel, lle yr Argrephir pob math o Gopiau am bris rhesymol. [Pris Chwe' Cheiniog.]'

Math o siliadur mawr ydyw, tebyg i 'Athrofa Rad' John Roberts,* yn cynnwys elfenau gramadeg, catecismau, &c.

OWEN HUGHES ydoedd fab hynaf i Erasmus Hughes, o Benlan, Llan-y-chlwydog [ger Trefdraeth], yn sir Benfro, ac a anwyd yno yn 1754. Yr oedd yn ewythr, frawd ei dad, i'r Parch. Joseph Hughes (*Carn Ingli*), ficar Meltham, sir Gaerefrog. Cafodd ddysgeidiaeth dda, hyd i'r Groeg a'r Lladin. Ymsefydlodd fel ysgolfeistr yn Nhref Dafydd, ger ei gartref, lle hefyd yr arferai bregethu mewn capel, a ystyrir yn gapel Eglwysig, cyn ymranïad y Methodistiaid oddi wrth yr Eglwys Sefydledig. Dywedir iddo gyhoeddi rhai pethau creill, megys 'Marwnad y Rhagrithiwr.' Bu farw yn 1799, yn 45 oed; a chladdwyd ef ym mynwent Llan-y-chlwydog.†

11. 'Llythyrau at Gyfaill ar y Pwng e o Fedydd. Gan y Parchedig B. Evans.

Caerfyrddin. Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst, 1788.'

'Cynnwysa naw o lythyrau, yn gwneyd llyfr o 48 tudalen 12plyg. Dadleuon ydyw â'r Dr. W. Richards, o Lynn.

[Yr awdwr ydoedd y Parch. Benjamin Evans, o'r Dref Wen, Ceredigion.]

12. 'Thesaurus Ecclesiasticus: An Improved Edition of the Liber Valorum; containing an Account of the Valuation of all the livings in England and Wales; their Charge in the King's Books, respective Patrons, &c. With Appendix containing i. Certain Papers of Instruction and Direction, relative to Ordination, Institution, Queen

* Gwel rhif 2.

† *Yr Haul*, 1863, t. 47-9. [Cymh. rhif 14, d.f. 1788.]

Ann's Bounty, &c. II. Substance of the Act for promoting, the Residence of the Clergy, by facilitating the Building of Parsonage Houses. III. The Nature of Tithes illustrated, with an Account of all things tithable, and the Manner of collecting them. IV. The Matter of Agistment Tithe summarily explained, in a Statement of the case of the Vicar of Holbeach. By the Rev. John Lloyd, A.B. Late of Jesus College, Oxon.

London: Printed for Lockyer Davis, in Holborn, printer to the Royal Society. MDCCLXXXVIII.'

Y mae yr uchod mor briodol i Gymru a phe buasai yn perthynu ond i Gymru yn unig, gan fod cymmaint ynddo o'r 'Liber Valorum' ag sydd yn cymmeryd i mewn y pedair esgobaeth Gymreig.

13. 'Marwnad Mrs. Mary Morice, gwraig Mr. David Morice, Pregethwr yr Efengyl; Yr hon a gafodd ei symmud o'r Byd hwn o ddeutu Mis Ebrill 1788. At ba un y chwanegwyd Rhai o Fyfyrdodau Mr. David Morice, ar cyfryw Achos. Diar. 10. 7. Coffadwriaeth Cyfiawn sydd fendigedig, ond Enw'r Drygionus a bydra. Gan William Williams.

Caerfyrddin, Argraffwyd J. Ross, yn Heol-Awst, M,DCC,LXXXVIII.' [12plyg: 8 tudalen.]

14. ¶ 'Marwnad Ioan Harri, o Dref Amlod. Gan Owen Hughes.

Caerfyrddin.*

15. ¶ 'Gweddi i'w harfer tra byddo ei Fawrhydi dan bwys y dolur presennol.

Llundain.'

16. ¶ 'Cyfoeth i'r Cymry. Ymadroddion. O gasgliad Toplady. Cyfieithwyd gan Peter Williams.

Caerfyrddin.'

Mr. TOPLADY ydoedd offeiriad efengylaidd o egwyddorion uchel Galffinaidd, pleidiol i Fethodistiaeth fel ei cefnogid gan yr Arglwyddes Huntingdon. Yr oedd hefyd yn olygydd y *Gospel Magazine*, yr hwn oedd gyhoeddiad cyfnodol y blaid o Fethodistiaid Calffinaidd yn yr oes hono.†

* [Gweler rhif 10, dan y flwyddyn hon.]

† [Augustus Montague Toplady a anwyd yn Ffarnham, Surrey, yn y fl. 1740; cafodd ei ddysg yn Ysgol Westminster, ac yng Ngholeg y Drindod, Dilyn; a bu farw yn ebrwyad Broad Henbury, yn Nyfnaint, yn 1778. Lleinw ei ysgrifeniadau chwech cyfrol.]

17. 'History of Wales, in nine Books : with an Appendix. By the Rev. William Warrington, Chaplain to the Right Honourable the Earl of Besborough. The Second Edition.

London : Printed for J. Johnson, No. 72 St. Paul's Churchyard. MDCCCLXXXIII.'

[Y mae yr awdwr eisoes (rhif 14, d.f. 1786, a rhif 13, d.f. 1787) wedi cofrestru dau argraffiad. Rhaid gan hyn yd hwn yn drydydd argraffiad, neu ynte, bod y trydydd wedi ei gofnodi yn lle yr ail d.f. 1787, a'r ail yn y lle y trydydd. A ganlyn yw rhagddalen y trydydd argraffiad, yr hwn sydd yn awr o'm blaen :—
'The History of Wales, in Nine Books : With an Appendix. By the Rev. William Warrington, Chaplain to the Right Hon. the Earl of Besborough. In two Volumes. The Third Edition.

London : Printed for J. Johnson, No. 72, St. Paul's Church-Yard. M DCC LXXXVIII.' 8vo.

Nid wyf wedi gweled yr ail a'r trydydd argraffiad. Sonia yr awdwr ar ddiwedd y Rhagymadrodd i'r argraffiad hwn, ei fod dan rwymau i 'Mr. William Owen, of London,' am ddiwygio llythraeth y geiriau a'r enwau Cymraeg.]

Diwygiwyd llythyreniaeth y geiriau Cymreig i'r argraffiad hwn gan y Dr. W. Owen Pughe, ac y mae parthlen o Gymru ynddo, gan yr un, yng nghyd ag achau Tywysog Cymru. Y mae ynddo gyfieithiad Seisonaeg o gywydd Llywarch Hen ar farwolaeth Cynddyfan, Tywysog Powys, gan y Parch. John Walters, awdwr y 'Dictionary.*' Y mae yr awdwr yn cydnabod hefyd y cynnorthwy a gafodd gan y Parch. John Lloyd, gynt o Gaerwys,† yr hwn a fu farw yn 1814, yn 81 oed, ac ym mhnen ychydig wythnosau ar ei ol, Ann ei wraig, yn 80 oed, a'r hon oedd yn ferch David Thelwall, Ysw., o Flaen Ial.‡

18. 'Coffadwriaeth o Dir Angof, neu Farwnad y Parchedig Mr. Evan Davies, gynt Gweinidog yr Eflwys Bethesda, yn sir Fynwe. Ymadawodd ar Byd Ebrill 22, 1788, yn 79 oed. Gan Dafydd William.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Daniel.'

19. 'Marwnad o Goffadwriaeth am Mr. John Jones, o Ferthyr-Cynnog, yn Sir Frecheiniog.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Daniel, yn Heol-y-Brenin, 1788. Lle gellir cael ar werth, newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg, Esponiad ar y Deg Pennod Gyntaf o Genesis, o Saesonaeg yr enwog Mr. Bunyan, Pris Swllt, ynghyd ag Elw da i ail-werthwyr'

* [Nid John Walters y geirlyfrwr yw y gwr y cydnebydd Warrington ei rwymedigaethau iddo, ond ei fab, o'r un enw, athraw Ysgol Rhuthyn : gweler rhif 15, d.f. 1780 ; a rhif 21, dan y flwyddyn hon.]

† Preface and note to page 504, second edition [p. 312, 3rd. Edit.].

‡ *Gent. Mag.* vol. lxxxiv. part i. p. 523 ; gwel rhif 14, d.f. 1786 ; a rhif 13, d.f. 1787. [Yr oedd Mr. Llwyd yn dad i'r diweddar foneddiges wladgar Angharad Llwyd.]

Y mae hefyd yn gyssylltiol,

20. 'Can Dduwiol: neu Gyngor i'r Rhegwr, y Tyngwr, a'r Masweddwr. Gan Ifan Dafydd, o'r Llan-Newydd.'

21. 'Toxophilus, the Schole of Shootinge. Written by Roger Ascham, 1544, &c. &c. To which are added, a Dedication and Preface. By the Reverend John Walters, M.A. Master of Ruthin School, and late Fellow of Jesus College, Oxford.

Wrexham: Printed by R. Marsh. MDCCLXXXVIII.' [12mo.]

[ROGER ASCHAM ydoedd un o wŷr enwocaf oes dryfrith o enwogion. Ganwyd ef Kirby Wisk, yn agos i North Allerton, yn swydd Gaerefrog, yn y fl. 1515; a gorphenodd ei ddysg yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, yr hwn oedd yn un o'r rhai mwyaf brigog yn y brifysgol y pryd hwnw yn gystal a'r pryd hwn. Bu yn athraw ac yn ysgrifenydd Lladin i'r Frenines Elisabeth; teithiodd ar Gyfandir Ewrop; ac ysgrifennodd lawer o lyfrau dyddorol, rhai yn Seisoneg, a rhai yn Lladin; a bu farw yn 1568. Yr oedd yn hoff iawn o ymddifyru mewn saethyddiaeth; ac i amddiffyn y difyrwech hwn yr ysgrifennodd y 'Toxophilus,' yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1545. Adargrafiwyd ef wedi hyny yn 1571 a 1589; ac hyd y gwyddys, yr argraffiad a gofrestrir yma, gyda rhaglith o waith y Parch. John Walters (mab y geirlyfrwr o'r enw), ydyw yr olaf. Gwaith enwog arall o'r eiddo Ascham a elwir y 'Scholemaster,' neu draethawd ar y ffordd oreu i ddysgu yr iaith Ladin, yr hwn sydd wedi ei adargraffu yn fynych. Ysgrifennai Ladin yn hynod goeth. Yr oedd Ascham yn wr eglwysig; ond ni ddyoddefodd un anghyfleusder o herwydd hyny hyd yn oed yn nheyrnasiad Mari. Nid oes un berthynas rhwng y 'Toxophilus' a llenoriaeth Gymreig, ond yn unig bod rhagymadrodd i'r argraffiad hwn o hono o waith Cymro.]

22. 'Eight Sermons upon Practical Subjects preached at the New Church in Llangeitho, South Wales; by the Rev. Mr. Daniel Rowlands; and now Attempted to be Translated from the Original or British Language.

Hull: Printed and Sold by T. Briggs, in Church-Lane. M.DCC.LXXXVIII.'

Yr oedd hwn yn drydydd argraffiad;* yn yr hwn y mae y 'To the Reader' wedi ei adael allan, yn lle yr hwn y mae 'Advertisement,' ac yna 'To the Christian Reader' yn llenwi un tudalen, yn cynnwys un darn yn wreiddiol, a'r diweddaf o 'Address' yn 1774, wedi ei gyfnewid beth, ac wrtho 'T. B. Hull, Feb. 19. 1788;' sef T. Briggs, yr argraffydd, mae yn debyg. Y mae yr argraffiad hwn yn cynnwys pregethau ix., x., xi.' Dywed Owen, yng Nghofiant Rowlands, na chyfieithwyd y pedair ddiweddaf, yr hyn nid yw gywir, o berthynas i'r tair uchod. Cynnwys y gyfrol 427 o dudalennau 12plyg; ac y mae rhestr o danysgrifwyr yn Hull, Bridlington, Beverley, Barrow, Baton, Feraby, a Scarborough, yn cynnwys yn agos i chwech tudalen yn y dechreu.†

* Gwel rhif 23, d.f. 1774.

† *Llythyr* y Parch. T. James, A.C.H. (*Llallawg*).

23. 'Nodau y Gwir Gristion, Yn cael eu profi o'r Ysgrythyrau. Ynghyd â rhai Lloffion o Ddifynyddiaeth, A gymmerwyd allan ar y cyntaf o'r Iaith Saesonaeg. At ba un y chwanegwyd Dwy Hymn, O waith y diweddar Barchedig Mr. Davies, o Gastellnedd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin, ac ar werth ym Machynlleth, gan I. Owen.'

Er nad oes amseriad yma, dywedir mewn hysbysiad ar gefn y rhagddalen, y cyhoeddid 'Y Dinasoedd Sanctaidd, yn gynnwys yn y Flwyddyn nesaf, 1789;' felly yn 1788 y cyhoeddwyd hwn.

24. ¶ 'An Essay towards an History of the English Tongue, of the British or Welsh, &c. By — Free. 1788.'

25. ¶ 'Drych i'r Anllythyrenog, &c.

Trefecca 1788.'

Gwaith Robert Jones, gynt o Roslan, Llanystumdwy, ydyw.

26. ¶ ['Bendigedig Goffadwriaeth y Cyfiawn. Neu Ddwy Farwnad I, O goffadwriaeth am y Parchedig Mr. Evan Williams, gweinidog yr Efengyl yn y Bala. yr hwn a orphenodd ei daith lafurus, Ebrill. 29. 1786. yn 65 Oed. II. O goffadwriaeth am y Parchedig Mr. Rees Harris, gweinidog yr Efengyl ym Mhwillheli, yr hwn a orphenodd ei daith lafurus Mai 26. 1788. yn 50 Oed. Ynghyd a rhai Hymnau newyddion. Gan William Hughes.

Trefriw Argraphwyd.' 16plyg : 16 tudalen.

Ni fynegir gan bwy, na pa bryd y cafodd y llyfryn ei argraffu.]

27. ['Llythyr oddi wrth Gymmanfa o Weinidogion, a gyfarfu yn Llanbrynmair, yn Sir Drefaldwyn, Mai 21 a'r 22, 1738. At Eglwys yr Ymneillduwyr Protestanaidd; yn Nghymru; a elwir yn gyffredin Independiaid. Yr oeddynt hwy oll yn gyttun yn yr un lle. Act. 2. 1.

Trefecca : Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCCLXXXVIII.' 16plyg : 12 tudalen.

Dywedir mai y Parch. Richard Tibbott, o Lan Bryn Mair, a gyfansoddodd y Llythyr uchod.*]

28. ['Marwnad, er Cofadwriaeth o Farwolaeth y Parchedig Mr. John Harries. o Sir Benfro.

Mae Pererinion ffyddlon Cymru,
Am wel'd Marwnad i Shon Harry :
Os bydd rhywddyn yn tramgwyddo,
Nad roed hwnnw help i brinto.

Gan Tomos Dafydd.

* *Llythyr* Mr. R. Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd I. Daniel, yn Heol-y-Brenin, lle'r argrephir pob Math o Gopiau am Bris rhesymol; ac y ceir amryw Fath o Lyfrau Ysgol, newydd ac ail-law, ynghyd ag elw cymhedrol i Siopwyr, &c a bryno Nifer o honynt ynghyd. MDCCLXXXVIII.' 16plyg: 12 tudalen.*]

29. ¶ [‘Myfyrddod Pererin, Neu, Ychydig o Hymnau Efangylaidd, Wedi eu cymmeryd allan o Amryw Destunau o'r Ysgrythurau Sanctaidd, a'u hamcanu er Diddanwech Pererinion Sion, ar eu Taith a'u Rhyfeloedd tu a'r Jerusalem Nefol, Heb. xii. 22. Gan William Davies o Gastell-nedd, a chan Dafydd William, Awdwr Gorfoledd ym Mhebyll Seion.

Y pennaf peth wy'n 'mofyn, a'r werthfawroccaf fraint,
Adnabod Crist yn briod, a'm henw ymhlith y Saint:
A llwyddiant bob munudyn i'r 'Fengyl, nefol iaith
A thitheu, fy Narllenydd, boed i ti ddedwydd daith.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin, lle'r argrephir pob Math o Gopiau am Bris rhesymol; ac y ceir amryw Fath o Lyfrau Ysgol, newydd ac ail-law, ynghyd ag elw cymhedrol i Siopwyr &c. a bryno Nifer o honynt ynghyd.† 12plyg.]

1789.

1. ‘Crynodeb o Egwyddorion Crefydd, neu Gatecism byrr i blant ac eraill, i'w dysgu. Gan y Parch. T. Charles, A.B.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,LXXXIX.'

Yr uchod ydoedd yr argraffiad cyntaf o ‘Gatecism’ Mr. Charles; yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny o dan yr enw ‘Hyfforddwr,’ ac a fu mor boblogaidd yn Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfinaidd, ac ereill, am dros drigain mlynedd. Un bychan 32plyg ydoedd y cyntaf hwn.

2. ‘Nodau y Gwir Gristion, yn cael eu profi o'r Ysgrythyrau, &c. Caerfyrddin.'

[Ymddengys mai yr un yw hwn â rhif 23, d.f. 1788; canys ni chrybwyllir fod hwn yn ail argraffiad.]

3. ‘Enw yn y Nefoedd, y sail gywiraf o lawenydd. Ar Luc x. 20. A Gallu Gras, yn diddyfnu'r galon oddiwrth y Byd ar Salm cxxxi. 2. Wedi ei gosod allan mewn Dwy Bregeth. Gan y diweddar Barchedig Mathew Mead, Gweinidog yr Efengyl.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCLXXXIX.'

* *Llythyr* Mr. R. Williams.

† *Llythyr* Mr. R. Williams.

4. 'Difrifol Ystyriaeth: sef I. Pa beth yw dyn, II. A pha beth yw Duw. At ba un y chwanegwyd, Hunan-ymholiad oddiwrth Weddi yr Arglwydd, ynghyd a rhai o Hymnau.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Ioan Daniel, a chan I. Owen, ym Machynllath.'

Heb law yr uchod, cynnwysa y llyfryn bychan hwn o 24 tudalen, 'Carol Plygain Ddydd Natolic,' gan 'Richard Powel;' a 'Marwnad, Nei goffadwriaeth, am y Parchedig ar anhepgor Athraw Mr. Daniel Rowlands, Gweinidog Llangeitho yn Swydd Geredigion: iw ganu ar Ymadawiad y Brenhin. Gan Methusalem Dafydd Towyn.'

5. 'Ffordd i fod yn Happus mewn Byd Truenus.

Caerfyrddin.'

6. 'Y Ddinas Sanctaidd, neu'r Jerusalem Newydd, &c. Gan y duwiol a'r enwog was hwnw o eiddo Crist, y Parchedig Mr. John Bunyan. Wedi ei gymreigio yn ofalus ac yn ffyddlon, er budd y Cymry uniaith, gan John Thomas.

Caerfyrddin, Argraffwyd ac ar werth gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin, &c. 1789. [Pris 1s. wedi ei wno, a 2s. 6ch. wedi ei rwymo gyda'r esponiad ar y deg pennod gyntaf o Genesis.']

Dyma yr ail lyfr o eiddo Bunyan, a gyhoeddwyd gan Mr. Daniel, er ymdrechu cyhoeddi ei fwriad o gyhoeddi ei holl waith.

7. 'Amddiffyniad yn erbyn y Cyhoeddiadau a wasgarwyd yn ddiweddar gan y Sosiniaid. Ymha un y dangosir yn amlwg Annuwioledeb ac Afresymoldeb eu Hegwyddorion, &c. A osodwyd allan gan Wr Eglwysig at ei blwyfolion. At ba un y chwanegwyd Pregeth ar y Drindod yn Undod. Yr Argraphiad cyntaf yn Gymraeg.'

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-brenin, M,DCC,LXXXIX.'

8. 'Pregeth ar yr Adgyfodiad Cyffredinol, yn Saesonaeg, gan y Parch. Samuel Davies, diweddar olygwr ar y Colledge yn Princeton, yn Jersey Newydd, yn America. Wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan y Parch. M. Jones.

Argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan I. Daniel.*

MORGAN JONES, cyfieithydd y bregeth ragorol uchod, ydoedd fab Evan ac Ann Jones, o Droed y Rhiw Cwm y Glyn, ym mhlwyf Llywel, yn sir Frycheiniog, lle y ganwyd ef yn 1768. Cafodd ei

* Cyhoeddwyd y bregeth ragorol hon yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, am 1812, t. 277, 332.

ddysgeidiaeth gan weinidog enwog ym mhlith yr Ymneillduwyr yn yr oes hòno, sef y Parch. J. Griffith, Glandwr, ger Abertawy,* lle y cyrhaeddodd radd o wybodaeth o'r ieithoedd Seisoneg, Lladin, Groeg, a Hebraeg. Ar ei ymadawiad o'r ysgol, derbyniodd alwad i weinidogaethu i gynulleidfa Capel y Graig, Trelech, lle y bu yn weinidog llafurus a defnyddiol hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Rhagfyr 23, 1835, yn 67 oed.†

9. 'Caniadau Preswylwyr y Graig, sef Ychydig Hymnau, yn cynnwys Ocheneidiau, Ymdrechadau, a Buddugoliaethau; Y Pererinion wrth ymdeithio o'r Aipht ysprydol tua'r Ganaan Nefol. Gan John Williams, Aberystwyth.

Machynlleth: Argraphwyd dros yr Awdwr, ag ar werth yno gan Titus Evans. Pris dwy geiniog. M DCC LXXXIX.

TITUS EVANS ydoedd frodor o'r Deheudir, a chyllidydd wrth ei alwedigaeth, a thra yr oedd yn byw ym Machynlleth, efe a ymgymmerodd â'r gelfyddyd o argraffu. Priododd â merch Mr. Jones, Esgair Ifan, yn y gymmydogaeth hòno. Yr oedd hi yn chwaer i wraig y diweddar Barch. R. Parry, Eglwys Fach Glan Conwy. Yr oedd ei thad yn berchenog ar amryw dyddynod, yr rhai sydd yn awr ym meddiant gwahanol gangenau o'r un teulu, megys Cwm Bychan Mawr, a Chwm Bychan Bach, ym mhlwyf Darowain. Yr oedd T. E. yn rhwymo llyfrau hefyd. Cafodd wedi hyny ei ddiswyddo o'r gyllidfa, o blegid, mae yn debyg, iddo gyssylltu masnach â'i alwedigaeth gyllidol. Wedi marwolaeth ei wraig symmudodd, ef a'i blant, trosodd i America, a chymmerodd ei egwyddorwas, Edward Prichard, y gelfyddyd o argraffu, fel ei ganlyniedydd. Yr awdwr,

JOHN WILLIAMS, ymdengys, ydoedd frodor o'r Gogledd, a'r hwn a ddaeth yn 1788 i gymmydogaeth Aberystwyth i bregethu ym mhlith y Bedyddwyr, ac i gadw ysgol. Yn 1789, efe a ordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth ar y gynulleidfa a gyfarfyddai yn Aberystwyth a'r Penryn Coch. Bu yno hyd 1790, pryd y symmudodd i Abertawy yn 1791. Bu wedi hyny mewn rhyw fath o undeb â'r Undodiaid yn Aberdâr. Ymlygodd hefyd yn ffiائد yn ei ymarweddiad; ac felly, hyd y gwyddys, y terfynodd ei oes.

10. 'Llythyrau at Gyfaill ar y Pwngce o Fedydd. Ynghyd ag Amddiffyniad o honynt, mewn 'chwanegol Lythyrau. Gan y Parchedig B. Evans.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. 1789.'

11. 'Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym. O Grynhead Owen Jones, a William Owen.

* [Glandwr, swydd Benfro, nid y lle o'r enw ger Abertawy.]

† *Hanes Ymneillduath*, gan Morgan, t. 453.

Llundain, Argraffwyd gan H. Baldwyn, yn argraffdy y St. James's Chronicle. MDCCLXXXIX.*

DAFYDD AB GWILYM a anwyd mewn lle a elwir Bro Gynin, ym mhlwyf Llanbadarn Fawr, yn sir Aberteifi, o ddeutu y flwyddyn 1340. Mab ydoedd i Gwilym Gam, yr hwn oedd fab i Dafydd ab Ieuan ab Hywel ab Cynwrig ab Gronwy ab Meredydd ab Madog ab Iorwerth ab Llywarch ab Brân, yr hwn oedd sylfaenwr un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam oedd Ardudful, chwaer i Llewelyn ab Gwilym Fychan, o Emlyn, yr hwn oedd yn berchenog ar Emlyn a Chryngae, yn sir Benfro, a Dôl Goch, yn sir Aberteifi. Treuliodd lawer o'i amser yn llys Ifor Hael, o'r Wenallt a Gwern y Clepa, ym mhlwyf Maesaleg, yn sir Fynwy. Dyn lled drythyll oedd Dafydd; † ac y mae llawer o'i waith yn folawdlau i'w gariadau. Dywedir iddo unwaith benodi cyfarfod â'i gariadau oll ar yr un 'awr, o dan dderwen yn y gymmydogaeth. Aeth ef ei hun yno yn brydlawn, a dringodd i frigau y pren, gan ymguddio yng nghysgod y cangenau, i glywed y canlyniad. Yr oedd pob un yno yn brydlawn, a phob un yn rhyfeddu gweled yr un fenyw yno ond ei hunan. Wrth weled ei fod wedi chwareu cast â hwy, penderfynasant y lladdent ef, pan y tafodd yntau gipolwg oddi rhwng y cangenau uwch eu penau, gan draethu yr englyn hwn:—

'Y butain wen fain fwynaf—o honoch,
I hòno maddeuaf,
Tan frig pren, a heulwen haf
Teg anterth, t'rawed gyntaf.' †

Bu farw ym Mynachlog Tal y Llychau, o ddeutu y flwyddyn 1400; a chladdwyd ef yno. § Dywed y golygyddion, i'r gwaith gael ei gym-

* [Fel hyn y mae yr argraffeb yn fy nghyfargraff i:—'Llundain: Argraphwyd gan H. Baldwin; ac ar werth gan E. a T. Williams, Strand; J. Daniel, Caerfyrddin; Morris Davis, Bala; T. Sandford, Mwythig. MDCCLXXXIX.' Splyg.]

† [Nid oes un prawf o hyn, er bod lluwaws mawr o'i gywyddau wedi eu cyfansoddi ar destynau serch. Ni cheir un bardd yn Ewrop, yn yr oes yr oedd efe yn byw ynddi, agos mor llednais ag ef. O'i gymharu â Shakspear, yr hwn oedd yn byw fwy na dau gan mlynedd ar ei ol, a'r hwn a addolir gymmaint gan y Seison, yr oedd yn burdeb ei hunan. Dafydd ab Gwilym, yn ddiau, ydyw y bardd ardderchocaf a ymddangosodd erioed ym mhllith y Cymry, a'r unig un o'r beirdd Cymreig y gellir gyda phriodoldeb ei gymharu â phrydyddion mawrion cenedloedd ereill. Haedda D. ab Gwilym lawer mwy o sylw ac edmygedd nag y mae wedi ei gael hyd yn hyn gan y rhif lluosocaf o'i gydwladwyr. Dylai'r Cymry fod yn falch o hono; a dwyn ei waith allan mewn diwyg teilwng o'r fath fardd.]

‡ [Adroddir cyffelyb chwedl am Ioan Meung neu Meun (Mean neu Mehan,—cansy sillebir yr enw yn amryfath), bardd Ffrengig, a phrif awdwr 'Rhamant y Rhosyn,' yr hwn a anwyd o ddeutu y fl. 1250, ac a fu farw yng nghylch 1322. Geill y chwedl fod yn wir am y ddau fardd; geill fod Dafydd ab Gwilym wedi clywed am gast y bardd Ffrengig, ac iddo wneyd prawf o hono ei hun; a gall tro ystrywus Meung fod wedi ei briodoli i'r 'Petrarc Cymreig.']

§ Felly y dywed John Bradford, allan o lyfr achau Thomas Jones, o Dre-garon, medd *Ysgriflyfrau Iolo*, t. 94. [Nid oes fawr o ammhueaeth, i'm tyb i, nad ym Mynachlog Ystrad Fflur, ar lan Teifi, yng Ngheredigion, y claddwyd

meryd o 'Lyfrau y brodyr Lewys, Rhisiart, a Gwilym Morus o Fon,' ac nad yw y cynnulliad yma, er ei fod yn helaeth, yn cynnwys fawr dros hanner gwaith Dafydd ab Gwilym; ond eto, rhyfedd fod cynifer wedi ymachub rhag disgyn i drigfanau anghof.* Y crynhwyr,

OWEN JONES a anwyd yn Llanfihangel Glyn y Myfyr, sir Ddinbych, yn 1741. Aeth yn ieuanc i Lundain, a chymmerwyd ef i wasanaeth blew-fasnachwr,† yn Heol y Tafwys, a daeth yn ddilynydd yn y fasnach, yr hon a 'ddygodd' ym mlaen hyd ei farwolaeth. Talodd lawer o sylw i'w wlad, ei genedl, a'i hiaith, trwy gasglu, mewn cyssylltiad â William Owen (Pughe), ac Edward Williams (*Iolo Morganwg*), gymmaint ag a allai gael o ysgrifeniadau anghyhoeddedig Cymreig, hyd i 60 o gyfrolau 4plyg o ysgrifau. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Gwyneddigion, Llundain. Bu farw Medi 26, 1814. Y llall,

WILLIAM OWEN, a adnabyddir yn well wrth yr enw Dr. W. O. PUGHE, a anwyd yn Nhy'n y Bryn, ym mhlwyf Llanfihangel y Penant, yn sir Feirionydd, Awst 7, 1759. Ymsefydlodd yntau yn Llundain yn ieuanc, lle y daeth yn adnabyddus â'r O. Jones uchod, ac ereill o aelodau Cymdeithas y Gwyneddigion, y rhai a gefnogent bob athrylith Gymreig. Ei brif waith ydoedd ei *Eirlyfr* mawr; y *Myvyr-ian Archæology*; y *Cambrian Biography*; *Traethawd ar Drin Tir*; ‡ golygodd hefyd y *Cambrian Register* a'r *Greal*, y rhai a gyhoeddid yn Llundain. Cyfieithodd y *Paradise Lost*, o dan yr enw 'Coll Gwynfa.' Cyfieithodd hefyd Heber's *Palestine*; [Gray's *Bard*]; a llawer o ddarnau ereill o'r Seisonaeg i'r Gymraeg, ac o'r Gymraeg i'r Seisonaeg. Etholwyd ef yn Gymmrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, ac anrhydeddwyd ef gan Brifysgol Rhydychain â gradd D.C.L. Bu farw yn Nolydd y Cae, goris Cader Idris, Mehefin 4, 1835, yn 76 oed.§ Yr argraffydd,

H. BALDWIN, a fu farw yn 1813, yn oedranus iawn.||

13. 'Ychydig o Reolau yw derbyn, a'i harfer gan bob dyn; ac a fydd am fod yn Gristion yn ol y Bibl. Yn ddwy ran. O gasgliad John Richard, Llangronw.

Machynlleth, Argraffwyd gan T. Evans. 1789.'

13. ¶ 'Ychydig o Hymnau, na buont yn argraffedig o'r blaen, o waith Edward Parry, o blwyf Llansannan, yn sir Ddinbych, ac hefyd o waith William Evan, o Fedw Arian, ger llaw'r Bala, yn sir Feirionydd, &c.

ef. Y mae yr hyn a ddywedir yn *Ysgriflufrau Iolo* mewn perthynas i enedigaeth, bywyd, a marwolaeth y bardd, yn amlwg ddigon wedi ei dylino gan wŷr Morganwg, gyda'r amcan o'i wneuthur ef yn un o'u cydwladwyr hwynt: ac felly rhoddi i Forganwg yr anrhydedd a berthyn yn gyfiawnach i Geredigion. Nid ydyw Ystrad Ffun ym mhell o Fro Gynin, genidfan y bardd.]

* Meyrick's *Cardiganshire*; a rhagymadrodd y llyfr hwn.

† [Masnachwr pân, ffwrw, neu fynfyr ydoedd.]

‡ [Cyfieithiad yw y llyfr hwn o waith Seisoneg Thomas Johnes, Yswain, o'r Hafod.]

§ Williams's *Eminent Welshmen*.

|| Timperley's *Dictionary of Printers and Printing*.

Argraffwyd tros ddyn tlawd a elwir William Ellis, trwy ganiatad y brodyr Ynghymanfa Caerwys.'

14. ¶ 'Ychydig Benhillion er Coffadwriaeth am Robert Ellis, o'r Tŷ yn y Ddôl, yn agos ir Bala; yr hwn a orphennodd ei yrfa Rhagfyr 31. 1788. yn 33. oed. Ynghyd a rhai Hymnau newyddion. Gan Maurice Davies.

Trefriw Argraphwyd.' [12plyg: 16 tudalen.]

Aelod o'r Gynulleidfa Ymneillduol o dan ofal y diweddar Barch. W. Thomas, Bala, ydoedd R. Ellis.

[Ni ddywedir gan bwy na pha bryd y cafodd ei argraffu; ond mae yn bur debyg mai yn y flwyddyn hon neu'r flwyddyn o'r blaen yr ymddangosodd.]

15. 'Atteb Byrr i Lyfr y Parchedig Mr. Benjamin Evans, ar y pwngc o Fedydd. Gan Ioan Rhys.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan I. Daniel, Heol y Brenin 1789. &c. [Pris Tair Ceiniog.]' 36 tudalen 12plyg.*

16. 'Marwnad, neu Goffadwriaeth o Ddedwydd Ymadawiad Mr. Miles David, Yr hwn a hunodd gyda'i Dadau yn Wyth a deugain Oed. Gan David Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel.'

17. 'Y Beibl Cyssegr-lân, &c. Appwyntiedig i'w ddarllen mewn eglwysi.

Rhydychain: Printiedig yn Argraffdy Clarendon, tros y Gymdeithas er taenu Gwybodaeth Gristionogol. 1789.'

Beibl unplyg mawr i'r eglwysi ydoedd hwn. Y Parch. Henry Parry, ficar Llanasa, yn sir Fflint, ydoedd golygydd yr argraffiad hwn.†

[Argraffiad lled anghywir ydyw; ac ym mhlith pethau trwstan ereill a welir ynddo, ceir—'Epistol *Cyntaf* Paul yr Apostol at y *Colossiaid*.']

18. 'Dioddefiadau miloedd lawer o Ddynion Duon mewn caethiwed truenus yn Jaimaica a lleoedd eraill; yn cael eu gosod at ystyr-iaethau difrifol y Cymry hawddgar, er mwyn ceisio eu hennill i adael Siwgr, Triagl, Rum. Gan Gymro, gelymol i bob gorthrech.‡

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth yno gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin; Mr. Ross, yn Heol-Awst; Mr. Tho. Morgan, wrth y farchnad, yn Abertawe; a Mr. O. Rees ym Mristo,—lle gellir cael ar werth Cân yn erbyn arferyd Siwgr. Pris Dimmeu (Pris Ceiniog.)'

* Gweler rhif 11, d.f. 1788; a rhif 10, uchod.

† Roberts, Tremeirchion, *Letter to the Rev. W. Dealtry*, p. 22.

‡ [Yr wyf yn barnu mai y Parch. Ben. Evans, o'r Dref Wen, ydoedd y Cymro hwn; ac efe hefyd, ond odid, oedd awdwr rhif 36.]

19. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi. 1789.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin, lle yr argrephir pob math o gopiau am bris rhesymol; a lle y gellir cael ar werth Esponiad ar y deg pennod gyntaf o Genesis, o waith Mr. Bunyan. Mae yn y wasg lyfr arall, o waith yr un awdwr, ac o'r un faintioli a elwir y Ddinas Sanctaidd, neu'r Jerusalem Newydd. Pob un o honynt yn werth Swllt, a'r ddau wedi eu rhwymo ynghyd fydd Hanner Coron. Elw da i'r rhai a bryno nifer o honynt ynghyd.'

20. 'Collection of Poems, published by W. Owen. 1789.'

Y casglydd ydoedd y Dr. W. O. Pughe.

21. 'Britannia, or a Chorographical Description of Great Britain and Ireland. By William Camden. Continued to the present time, by Richard Gough.

London. 1789.'

Y mae hwn yn waith mawr o dair cyfrol unplyg.

22. 'Marwnad ar farwolaeth Mrs. Hannah Williams, o'r Bont-hir, ym mhlwyf Llangatwg, gerllaw Caerlleon, yn sir Fynwy, yr hon a fu farw, Rhagfyr 3. 1788, yn 70 oed. At ba un y chwanegwyd Hymn Newydd, gan Dafydd William, o Gaerfyrddin.

Caerfyrddin. Argraphwyd gan I. Daniel. 1789.'

Cristionoges dda, berthynol i gynnulleidfa y Bedyddwyr yn Hen-goed, ydoedd y wraig hon.

23. 'Athrawiaeth Bedydd Dwfr yn cael ei Hamddiffyn, a'i Llygriad gan Mr. B. Evans, yn ei Lythyrau diweddar ar y Pwngc o Fedydd yn cael ei brofi; a'r Bedyddwyr yn cael eu cyfiawnhau oddiwrth amryw Achwynion camweddus a ddygir i'w herbyn yn y Cyhoeddiad hwnnw: Mewn amryw Lythyrau at Gyfaill. Gan William Richards.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin. MDCCLXXXIX.' [12plyg: 92 tudalen.]

Yr awdwr ydoedd y Dr. W. Richards, o Lynn.

24. 'Galarus Hanes am Farwolaeth 44 o Bobl a gollasant eu bywydau ar yr un amser, ar y Nos Fercher diweddaf o Fis Medi 1789, &c.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

Pysgodwyr ysgadan sir Aberteifi oeddynt.

25. ¶ 'Marwnad Catherine Jones, Trefddyn.

Caerfyrddin.*

26. ¶ 'Ffurf Gweddi, &c. i'w Harfer — Gwared — Penllywydd oddiwrth y Clefyd.

Llundain.†

27. ¶ 'Works and Life of the Rev. J. Gambold.' Unplyg. [8plyg.]

28. 'Primitive History from the Creation to Cadmus. By W. Williams Esqr. Formerly of St. John's College, Cambridge.

Chichester, Printed and sold by J. Seagrove. 1789.'

WILLIAM WILLIAMS ydoedd fab Wm. Williams, Ysw., o Ivy House(=Ty Eiddew), sir Benfro. Ei fam ydoedd Elisabeth, merch — Davies, o'r Cwm, yn sir Gaerfyrddin. Ganwyd ef yn 1738. Priododd un Miss Jermyn. Bu unwaith yn sir Benfro. Treuliodd oes hir yn efrydu hynafiaeth, a chyfrifid ef yn ysgolhaig enwog. Yr oedd y llyfr yn cael ei gyhoeddi trwy danysgrifiad o 1p. 1s. am un wedi ei argraffu ar bapyr tew, a 10s. 6c. am y rhai llai.‡

29. 'Yr Udgoron Arian, neu Hyfryd Swm yr Efengyl, mewn ychydig o Hymnau Newyddion, ar amryw Destynau o'r Ysgrhythrau Sanctaidd. Wedi eu hamcanu er Budd a Diddanwch i holl ffyddlon Ddilynwyr yr Oen tua'r Jerusalem Newydd, o Wlad y Caethiwed i Wlad o Rydd-did. Gan Dafydd Wiliam.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin. MDCCCLXXXIX.' 12 tudalen 12plyg.

30. ¶ 'Marwnad: sef, Coffadwriaeth o ddedwydd o Farwolaeth y Parchedig Mr. James Thomas, O Ros-y-chen, yn Plwyf Trelech, yn Sir Gaerfyrddin, a ymadawodd o'r Byd, i Fyd yr Ysprydoedd, Ebrill 13, 1788, yn 38 Oed. Dechreuodd bregethu yn 20 Mlwydd Oed; dewiswyd ac ordeiniwyd ef yn Weinidog yr Efengyl yn 26 Oed, yn y Pant-Teg a Phên-Pont-Llandysil: Lle y bu ef yn Weinidog defnyddiol, llwyddiannus, diwyd, llafurus, duwiol, ac ymdrechgar dros ei Arglwydd ymhlaid y Ffydd, yr hon a roddwyd i gadw unwaith i'r Saint, Jude Adnod 3, hyd oni ddaeth yr Alwad oddiwrth ei Waith at ei Wobr. A gyfansoddwyd gan Dafydd Wiliam.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-brenin. Lle yr argrephir yn ofalus pob math o Gopiau am Bris rhesymol.'

* Ysgrif Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

† Ysgrif Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

‡ Llythyr J. Joseph, Yswain; gwel hefyd yr *Archæologia Cambrensis*, 1859.

31. 'Y Rhybuddiwr Christionogol; yn cynnwys Annogaeth Ddifrifol i Fuchedd Sanctaidd: Gyda rhai Hyfforddiadau tu ag at yr unrhyw. Wedi ei hysgrifenu mewn ffordd eglur a hawdd, i bob math ar bobl. Wedi ei gyfieithu allan o'r deuddegfed Argraphiad yn y Saisonaeg.

Llundain: Printiedig gan J. F. & C. Rivington, yn Monwent Sanct Paul. MDCCCLXXXIX.'

32. 'Observations on the River Wye, and several Parts of South Wales. By W. Gilpin. The Second Edition. 1789.*'

33. 'The Trial of Thomas Phipps, the Elder, Thomas Phipps, the Younger, and William Thomas, for Forgery, at the Assize holden at Shrewsbury, for the County of Salop, before the Hon. Sir Richard Perryn, Knt. One of the Barons of his Majesty's Court of Exchequer, Westminster. (The two former of whom were executed on Saturday the 5th of September, 1789.) Third Edition.

Oswestry: Printed and Sold by J. Salter. Sold also by Messrs. Robinson, No. 25, Paternoster-Row, London; Mr. Wood, Shrewsbury; Mr. Poole, Chester; Mr. Wright, Whitechurch; Mr. Hughes, Wrexham; Mr. Madox, Ellesmere; Mr. O. Jones, Welsh-Pool; Mr. Thomas, Ludlow; Mr. Swinney, Birmingham; Mr. Parker, Hereford; and Mr. Harries, Leominster. M,DCC,LXXX,IX. [Price One Shilling.]'

Llyfryn 4plyg, o 22 tudalen ydyw. Yr oedd yr amgylchiad yn gwneyd y fath siarad ar y pryd, a'r fath ymofyniad am hysbysiaeth o'r amgylchiadau, fel y galwyd am dri argraffiad mewn tri mis.

34. ['Rhodd i'th Gymmydog; Neu, Iawn Adnabyddiaeth o Dduw, ac o Honom ein Hunain; Wedi ei Agoryd mewn Modd Amlwg, Buddiol, a Phrofiadol. Gan Sir Richard Hill, Marchog. O Gyfieithad y Parchedig Thomas Jones, Yr Ail Argraphiad, allan o'r ddwyfed ar bymtheg yn Saesneg.

Mwythig Argraphwyd gan T. Wood. M,DCC,LXXXIX.' 12plyg: 36 tudalen.†]

35. ['Pregeth ar Ddihenyddiad Moses Paul, Indian, yr hwn a gafwyd yn euog o Lofruddiaeth. A bregethwyd yn New-Haven, yn America, Gan Sampson Occom, Indian Genedigol. At ba un y chwanegwyd Hanes Fer o Lwyddiant yr Efengyl ymhlith yr Indiaid, ynghyd â Hanes ryfedd o Droedigaeth Indian, a elwir Pagey, ymha un y cynhwysir Desgrifiad ardderchog o'r anfeidrol Un yn Dri, a'r Tri yn Un, gan Iesu Grist.

* Gwel rhif 22, d.f. 1782.

† Gwel rhif 3, d.f. 1783.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel, yn Heol-y-Brenin, 1789.' 12plyg : 32 tudalen.]

36. ¶ ['Achwynion Dynion Duon, mewn Caethiwed Truenus yn Ynysoedd y Suwgr.'

Caerfyrddin.

Papyryn argraffedig ar un wyneb i'r ddalen yn unig yw y cwyn uchod ; ni fynegir pwy a'i hargraffodd, nac ym mha flwyddyn yr ymddangosodd : ond y mae yn debygol mai gwaith yr un awdwr â rhif 18, dan y flwyddyn hon, ydyw, ac mai o gylch yr un amser yr argraffwyd ef. Cynnwysa 12 pennill o wyth linell bob un, ar y mydr saith a chwech.]

1790.

1. 'Tragywyddol Orphwysfa'r Saint, neu Draethawd ar ddedwydd Gyflwr y Saint yn y mwynhad o Dduw yn y nefoedd. A 'sgrifenydwyd gan y Parchedig dysgedig a duwiol Mr. Richard Baxter. A gymreigiwyd gan Thos. Jones, curad Creaton, yn sir Northampton.

Argraphwyd yn y Mwythig ; ac ar werth gan J. a W. Eddowes. M,DCC,XC.'

Argraffwyd 3000 o hwn, i'w gwerthu am swllt, a rhoddodd y cyfieithydd yr holl elw tuag at Ysgolion Rhad Cymreig Mr. Charles o'r Bala ; ond buasai y gwerthiant yn llawer mwy oni buasai i Mr. Williams, Pant y Celyn, yn ei farwnad i Mr. Daniel Rowlands, restru Baxter gyda'r Arminiaid, ac ereill, nad ystyrid gan Galfiniaid yn hollol uniawnghred.*

2. 'Yr Happusrwydd o nesau at Dduw, wedi ei egluro mewn Pregeth. Gan Thos. Watson.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross.'

THOMAS WATSON, A.C., a gafodd ei ddysg yng Nghaergrawnt, lle yr hynododd ei hun fel efrydydd caled. Yr oedd yn dra dysgedig, ac yn bregethwr poblogaidd. Bu yn gweinidogaethu yn St. Stephan, Walbrook, Llundain, yr hwn le oedd yn werth 100*p.* yn y flwyddyn, o'r lle y cafodd ei droi allan ar Wyl Bartholomæus, o blegid ei anghydfurfiaeth.† Y mae gwaith o'r eiddo o'r enw 'Corff o Dduwinyddiaeth,' wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg yn y ganrif hon. Y mae llawer ychwaneg o i waith yn Seisoneg, pregethau gan mwyaf.

3. 'Gweddiad â'r Yspryd, neu Draethawd ar Weddi, &c. Gan John Bunyan.

Caerfyrddin.'

4. 'Rhwygiad Llen y Deml ; neu fynedfa i'r Sanctaidd Sancteiddiolaf trwy Farwolaeth Crist, &c. Gan y Parch. Ralph Erscin, A.M. awdwr y llyfr a elwir Marw i'r Ddeddf.

* Owen's *Memoir of the Rev. T. Jones.*

† Palmer's *Calamy's Non-Con. Mem.* vol. i. p. 183.

Caerfyrddin.'

5. 'Cynnulliad Barddorion, i Gantorion; sef Carolau, Cerddi, ac Englynion. Gan Daniel Jones [o blwyf Rhuabon.]

Croesoswallt: Argraphwyd ac ar werth gan J. Salter. M, DCC, XC. Pris Swllt yn rhŷdd, neu Ddeunaw yn rhwŷm.'

Y mae rhagymadrodd bychan gan 'Daniel Jones, o blwyf Rhuabon.'

6. 'Y Beibl Sangtaidd; Sef yr Hen Destament a'r Newydd, â Nodau ysgrythyrol ar ymyl y ddalen, wrth y rhai y gwelir mai'r Ysgrythur yw Deonglydd cywiraf o'r Ysgrythur.

Trefecca, Argraphwyd dros y Parchedig gyhoeddwr P. Williams, a D. Jones. M, DCC, XC.'

Y mae yn ei ragflaenu 'Llythyr y Cyhoeddwr at y Darlennydd.' Y mae hefyd wyneb-ddalen gyffelyb i'r Testament Newydd. Gelwir hwn yn gyffredin yn 'Feibl John Cann,' gan mai cyfeiriadau ymylenawl y Beiblau a gyhoeddwyd yn Seisonaeg gan y gwr hwnw a fabwysiadwyd ynddo. Gwnaed peth cyfnewidiad hefyd yn y cyfieithiad, neu yn hytrach yn y llythyreniad, oddi wrth y cyfieithiad awdurdodedig, yr hyn a wnaeth gryn lawer o gynhwrf ar y pryd yn y Dywysogaeth, ac a ddygodd gryn ystorn ar y Parch. P. Williams, oddi wrth gyfeillion crefyddol ei ddydd; ond amddiffynwyd ef mewn llyfryn bychan o'r enw 'Dialogous.*' Am

JOHN CANN, gweinidog yr Eglwys Sefydledig ydoedd ar y cyntaf. Wedi hyny ymunodd â'r Browniaid; ac o blegid erlidigaeth yr amseroedd, efe a ffodd i Holand, a hyny cyn y fl. 1632. Yr oedd ei egwyddorion eglwysig yn hollol wrthwynebòl i'r Eglwys Sefydledig Esgobawl, yr hyn nid oedd yr holl Anghydfurfwr. Pan leihaodd yr erlidigaeth, efe a ddychwelodd, ac a ymsefydlodd yn weinidog ar eglwys neu gynulleidfa o Fedyddwr trwy drochiad yn Broadmead, Bristol, yr hyn a fu tua'r fl. 1640; yr hyn a rydd sail i greu ei fod o'r dyb hòno am yr ordinhâd. Gelwir ef 'A Baptized Man,' h.y., trwy drochiad; † ond nid oes hanes gan bwy y bedyddiwyd ef felly. Efe a aeth wedi hyny i Holand, ac yn ol i Loegr wedi marw Siarl I. a sefydliad y Weriniaeth. Nis gellir yn gywir ddweyd beth oedd ei dybiau crefyddol, gan mor gymmysglyd oeddynt. Ysgrifennodd amrai o weithiau dadleuol, crefyddol, a gwladyddol; ond ei brif waith oedd cyferbynu yr Ysgrythyrau gyda chyfeiriadau. Wedi Adferiad Siarl II. aeth i Holand drachefn, lle y bu farw.

7. ¶ 'Almanac Rhisieryd, neu Gasgliad o Ymadroddion Doethion, yn cynnwys Rheolau tra buddiol a chwbl angenrheidiol at Gynhaliaeth Dynolryw: &c.

* Gwel rhif 2, d.f. 1791.

† *Broadmead Records.*

Argraphwyd ym Mhont-y-Fôn, ac ar werth gan H. Walters. (Pris dwy geiniog).'

'*Poor Richard's Almanac*,' gan y Dr. Benjamin Franklin, ydyw yr uchod, yr hwn hefyd a gyhoeddwyd yn y ganrif hon gan Mr. T. Roberts, Llwynrhudol.

HENRY WALTERS, yr argraffydd, ydoedd fab i'r Parch. John Walters, person Llandocheu, ac awdwr y 'Geirlyfr.' Dygwyd Henry i fyny yn argraffydd, ef allai gyda Rhys Thomas, pan oedd yn argraffu ym Mhont y Fôn, neu y Bont Faen; ac ymddengys iddo barhau yno yn y gelfyddyd ar ei ol, er cyhoeddi 'Geirlyfr' ei dad. Ond ymddengys na wnaeth efe nemawr ar ol marwolaeth ei dad, gan ei fod yn ddarostyngedig i beth gwendid meddyliol; a chauodd ei hun am flynyddau wrtho ei hun, mewn ty yng nghanol tref Pont Faen, yng nghanol hen lyfrfa fawr ei dad, a gweddillion y swyddfa argraffol oedd wedi ymgasglu ar hyd amser Rhys Thomas, yn cynnwys peth anferth o ysgrifeniadau Rhys Prichard, fïcar Llanymddyfri, y rhai a gludwyd yn llwythi certwyni i ben bryn Ystarlington, ac a daflwyd fel tail i'r ffos, ar farwolaeth Henry Walters, yn 1829.

8. 'Angau a Nefoedd; neu'r Gelyn Diweddaf yn cael ei Goncwerio, ac Ysprydoedd y Cyflawn, yn ol eu Hymadawiad o'r Corph, yn cael eu perpheithio; Gyd âg Amlygiad o Gyfoethog Amrywiaeth eu Gorchwylion a'u Pleserau; yn cael ei gynnig mewn dwy Bregeth ar Gladdedigaeth Sir John Hartopp, Bart. A'i Wraig, yr Arglwyddes Hartopp. Yn Saesonaeg gan I. Watts, D.D. Ac wedi ei droi i'r Cymraeg er Lles i'r Cymry, Gan Daniel Griffith.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. m,dcc,xc. [Pris Swll mewn Papur glas.]'

9. 'Can ar y testyn o Fedydd, mewn Attebiad i eiddo y Parchedig B. Francis: ac mewn Amddiffyniad i hawl Babanod i'r Ordinhad.* Gan y Parchedig B. Evans.

Machynlleth: Argraphwyd gan T. Evans. 1790.'

Am y ddadl hon, dywed hanesydd y Bedyddwyr, 'O ddeutu diwedd y flwyddyn 1788, daeth allan yn Gymraeg, Draethawd ar Fedydd, gan Mr. Benjamin Evans, gweinidog ger llaw Aberteifi; † ac yn 1789, daeth atebiad iddo, gan Mr. William Richard, o Lynn, Norffole, aelod gwreiddiol o Salem, yn sir Gaerfyrddin, eithaf adnabyddus a'i waith enedigol, ac â'r ddadl fedyddiol.' ‡ Cyhoeddodd Mr. Benjamin Evans ail atebiad, ac atebodd Mr. Richard drachefn. §

10. 'Cadwedigaeth trwy Râs; neu Draethawd am Râs Duw, &c. Gan John Bunyan.

* Gwel rhif 21.

† Gwel rhif 11, d.f. 1788; a rhif 10, d.f. 1789.

‡ Gwel rhif 23, d.f. 1782.

§ Gwel rhif 10 a 14, d.f. 1786. Thomas's *History of the Welsh Associations*.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan John Ross.*

11. 'Y Porth Cyfyng: neu'r Anhawsdra o fyned i'r Nefoedd. Yn profi yn eglur trwy'r Ysgrythyrau y bydd, nid yn unig yr Anfoesol a'r Halogedig; ond hefyd llawer o Broffeswyr Mawrion yn dyfod yn fyr o'r deyrnas honno. Gan Mr. John Bunyan.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Ross. MDCCXC.'

12. 'Pregeth ddiweddaf Mr. John Bunyan, ar Ioan'i. 13. A bregethwyd yn Llundain ym mis Gor. 1688. O gyfieithiad Hugh Jones, o Faesglasau.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan John Ross.'

Nid ydys yn deall i'r tri diweddaf gael eu cyhoeddi ar wahan, ond yn un llyfr, eithr bod gwyneb-ddalen i bob un o honynt.

13. 'Rhodd i'th Gymmydog, neu Iawn Adnabyddiaeth o Dduw, ac o Honom ein Hunain; Wedi ei Agoryd mewn Modd Amlwg, Buddiol, a Phrofiadol. Gan Sir Richard Hill, Marchog. O Gyfieithad y Parchedig Thomas Jones. Y Drydydd argraphiad† o'r ddwyfed ar bymtheg yn Saesneg.

Mwythig, Argraphwyd gan T. Wood. M,DCC,XC.'

14. 'Llun Anghrist: neu, Arddangosiad eglur a didwyll, o Lygriadau Ffydd Grist'nogol; ac o wendid ac oferedd Ymdrechiau Mr. B. Evans, dros Daenelliad Babanod. Mewn chwech o Lythyrau at Gyfaill. Gan William Richards.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin. MDCCXC.'

15. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, 1790.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel, yn Heol-y-brenin.'

16. 'Gorchestwaith Beirdd Cymru, Yr Oes bresennol, Yn Esteddfod y Bala. Gydag Awdlau ar Ryddid, a roed yno yn Destun, I ganu arno, gan Gymdeithas y Gwyneddigion, Yn Llundain. At yr hyn, yr ychwanegwyd rhai dewis Ganiadau, yn Gywyddau, Cerddi, a Charolau newyddion, gan yr unrhyw amryw- iol Feirdd, er diddanwech i bob carwr Barddoniaeth, ac er ymgeledd, cynhaliaeth, ac adfywhad, yr hen iaith Gymraeg. A gyhoeddwyd Wrth ddymuniad Cymdeithas y Gwyneddigion, yn y Flwyddyn, 1790.

* Gwel rhif 29, d.f. 1791.

† Gwel rhif 3, d.f. 1783; [a rhif 34, d.f. 1789.]

Argraphwyd gan J. Hughes, Yngwrecsham. (Pris 6d, neu che Cheiniog.)'

Dyna y modd gwallus y mae ei argraffiad.

17. 'Marwnad er Coffadwriaeth am fywyd a márwolaeth Thomas Sheen, gweinidog yr efengyl, o blwyf Glasgwm, yn sir Faesyfed, yr hwn a orphenodd ei yrfa yr 28 o Chwefror, 1790, a'i lygaid yn gweled iachawdwriaeth ein Harglwydd. Gan Geidwad Carchar.

Aberhonddu, Argraffwyd gan W. a G. North.'

Dechreuodd Thomas Sheen bregethu mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid a'r Arglwyddes Huntingdon, yng Nghymru; ond ni bu yn hir heb lyncu tybiau Antinomaidd, a thynodd rai dysgyblion gydag ef, ym mhllith pa rai yr oedd Walter Watkins, ceidwad carchar Aberhonddu, awdwr y farwnad uchod. Gwëydd ydoedd wrth ei gelfyddyd, ac yr oedd ganddo weithdy yn y carchar. Crybwylla y Parch. John Prickard, un o'r pregethwyr Seisonig cyntaf a gyfododd gyda'r Methodistiaid Wesleyaidd yn y Deheudir, fel hyn am Mr. Watkins:—'Yr wythnos ar ol hyn, casglodd y brawd Philips* yng nghyd y rhai mwyaf duwiol a synwryol ag oedd yn ein cymdeithas ni (ac un gwr ieuanc, Walter Watkins, ag oedd yn perthyn i gymdeithas Arglwyddes H.), a darfu iddynt barhau i weddio hyd hanner nos.† Byddai yn gweddio dair gwaith yn y dydd gyda'r carcharorion, ac yr oedd hen bobl yn byw mor ddiweddar a'r fl. 1850, yn cofio ei glywed yn gweddio ar yr esgynglwyd gyda'r rhai a ddiennyddid. Wedi iddo encilio oddi wrth y Methodistiaid, ac ymlynu wrth Mr. Sheen, byddai yn pregethu yn y teiau, lle y caffai, heb fod mewn cyssylltiad â neb. Bu Sheen a'i blaid yn achos o gryn gynhwrf ym mhllith y Methodistiaid yn y Deheubarth y dyddiau hyny.‡ Wedi i Watkins fod felly dros beth amser, yn ceisio ffurfio crefydd newydd, dangosodd ei egwyddorion drwg eu hunain yn nirywiad ei rodiad, a chollodd ei le fel ceidwad y carchar, o blegid ei feddwod. Dywed i bennill cyntaf y farwnad redeg i'w feddwl yn Seisoneg mewn breuddwyd; ac iddo, pan ddeffrôdd, ei gyfeithu, a rhedeg ym mlaen yn Gymraeg, ac ar yr un mesur, sef yr hwn a elwir yn gyffredin, 'Mentra Gwen.' Y mae profiadau ysgrythyrol gyferbyn â phob llinell. Y mae y cyfansoddiad mor gyfrifol a'r cyffredin o'r cyfansoddiadau o'r oes hono.

18. 'Gardd o Gerddi: Neu Gasgliad o Ganiadau, sef Carolau, Cerddi, Awdlau, Englynion, a Chywyddau, &c., gwedi eu cyfansoddi ar amrywiol Destynau, a Mesurau, yn Gymraeg; ynghyd â Chyfieithiad ar ychydig nifer i'r Saes'naeg. Gan Thomas Edwards, (alias Thomas o'r Nant) Prydydd.

Argraphwyd yn y Flwyddyn MDCCCXC.'

* Y Philips hwn ydoedd dad Mr. Evan Philips, gof, Penpont, ger Defynog, yn sir Frycheiniog.

† Ei gofiant am dano ei hun o dan amseriad y fl. 1770.

‡ *Drych yr Amseroedd*, t. 138, ail arg.; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 409.

19. 'Some Account of the Bay and Harbour of Fisguard in Pembroke-shire, and of the Proposed Pier to be constructed there for the Safety of vessels navigating the Irish Channel.'

Diwedda gyda 'Gream Spence, Fisguard Harbour, May 6. 1790.'

20. 'Marwnad Miss Susanna Prichard, ail Ferch Evan Prichard, Esq. o'r Collenne, ym Mhlwyf Llantrisant, yn Sir Forganwg; Yr hon a ymadawodd o'r Byd Dydd Mawrth, yr 20fed o Ebrill 1790, yn yr 20fed Flwydd o'i Hoed, wedi bod Chwech Wythnos yn glaf o Glefyd trwm, ond ymadawodd mewn Heddwch a Llawenydd anrhaethadwy a gogoneddus. Gan William Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin.

Chwaer ydoedd gwrthddrych y farwnad uchod i'r diweddar Barch. Mr. Prichard, ffar Llandaf.* Y mae yr hysbysiad canlynol yn ei diwedd:—'N.B. Fe gyhoeddir Almanac John Harris am y y Flwyddyn 1791, yr ail Dydd Sadwrn o Fis Hydref nesaf.—Elw da i Siopwyr ac ereill i werthu drachefn.'

21. 'Can am Fedydd; a achlysurwyd gan Draethawd y Parchedig B. Evans, dros Daenelliad Babanod.† Gan B. Francis.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth dros yr Awdwr gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

22. ¶ 'Y Gofal: sef Can, yn dangos Cyflwr Dyn yn ei Ieuengetid, ynghanol Oedran, ac mewn Henaint.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel, Lle yr argreffir pob Math o Gopiau am brisiau rhesymol.'

23. 'Drych Ysprydol sef ychydig o Ystyriaethau ar Ystad y Meirw, a Nef ac Uffern; ac Angylion, ac Ysprydion da a drwg; ac achosion Naturiol a goruwchnaturiol o Freuddwydion a Gweledigaethau Cwsg, &c. Gan John Thomas o Ben y Ffordd Wen.

Trefriw Argraphwyd. 1790.'

24. ¶ 'Dwy Farwnad—Sara Lewis a D. Williams. Gan Thomas Dafydd.

Caerfyrddin.'

25. 'Llythyr at Gyfaill yn y Wlad, &c. Gan Aelod o un o'r Senedd-dai.

Caerfyrddin.†

* *Methodistiaeth Cymru*, cyf. iii. t. 74.

† Gwel rhif 10, d.f. 1789.

‡ *Ysgrif* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

26. ¶ ‘Y Ddwy Hatling, &c. Gan Wm. Prosser o Gastell-nedd.

Pont-y-Fon : Argraphwyd gan Henry Walters.*

27. ¶ ‘Taith neu Siwrnai y Pererin, Tan Rith neu Gyffelybiaeth Breuddwyd, &c.

Argraphwyd yn y Mwythig gan J. a W. Eddowes.’

28. ¶ ‘Enwaediad a Bedydd : Neu Draethawd bychan yn profi trwy Ysgrythurau di-ymwad a rhesymmau eglur nad oedd y cyntaf ddim yn gysgod o'r ail, Ynghyd a Hymn ar ddydd bedydd Credad-yn. A ysgrifenydd yn Saesonaeg gan y Parchedig Mr. Tomas Colier, gynt Gweinidog yr Efengyl yng Wlad yr Haf. Yr ail Argraphiad, gyda diwygiad o amryw feiau yn y cyntaf, ac ychwanegiad o amryw wrthddadleuon ynghyd ac atebion, a Hymn ar ddechreuad, parhad, cadernid ac ardderchogrwydd yr undeb rhwng Crist a Christion.

Nid yw enwaediad na dienwaediad.

Ddim ond { Creadur newydd.
Ffydd yn gweithio trwy gariad.
Cadw Gorchymynion Duw. Paul.

Machynlleth : Argraphwyd ac ar werth gan Titus Evans, Lle gellir cael argraphu pob rhyw Gopiau, a chyfieithu unrhyw beth o'r Saesonaeg i'r Cymraeg, gyda gofal am bris gweddaidd. Pris Dwy geiniog ac elw rhesymmol i brynwyr amryw ynghyd.’

Y mae un tudalen o ‘Gair at y Darllenydd,’ am yr ail argraffiad hwn, gan ryw ‘Sion Morgan,’ yr hwn oedd y cyhoeddydd, ac ef allai y chyfieithydd hefyd.

29. ‘Can o Alarnad ; ar ol Mary, Gwraig John Jones, o Blwyf Llanbedr, yn Sir Feirionydd. Yr hon a derfynodd ei gyrfa, ac a adawodd dystiolaeth dda ar ei hol. Hydref, 25. 1790. 34 Oed. Ar ddull ymddiddan rhwng y Byw, a'r Marw. Gan John Jones.

Machynlleth : Argraphwyd gan Titus Evans. m, dccc, xc.’

30. ‘Catechism yr Eglwys wedi ei Esponio. Mewn Ffordd o Ofyniadau ac Atebion ; a'i Gadarnhau trwy Brofiadau Ysgrythyrol : Gwedi ei rannu yn Bum Rhan a Deuddeg Dosparth : Ym mhâ rai y rhoddir Hanes byr ac eglur am i. Y Cyfammod Christianogol. ii. Y Ffydd Gristianogol. iii. Yr Ufudd-dod Christianogol. iv. Yr Weddi Gristianogol. v. Y Sacramentau Christianogol. A gasglwyd gan y Parchedig John Lewis, Gweinidog Margate yng Nghent.

* Ysgrif Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

At ba un y 'chwanegir, Traethawd Conffirmasiwn, gan Mr. Adams; a gweddiau, &c. Ac a gyfieithwyd gan John Jones, Curad Llan-gadfan yn Sir Drefaldwyn.

Mwythig: Argraphwyd gan P. Sandford, Gwerthwr Llyfrau. MDCCCXC.'

31. 'Prif Cristianogrwydd wedi ei Adnewyddu yn y Ffydd ac Ymarferiad y Bobl a elwir Cwaccers. A 'sgrifennwyd mewn Tystiolaeth i Oruchwyliaeth presennol Duw trwyddynt i'r Byd; fel y symudir Rhagfarn, er Addysgiad i'r rhai syml, Annogaeth i'r rhai o Dueddiad da, a'r Gwirionedd, a'i Gyfeillion diniweid, gael eu hunain osod allan, Gan William Penn. A gyfiaethwyd o'r pum-med Argraffiad yn y Saesoneg.

Yn y Mwythig; Argraffwyd gan J. a W. Eddowes. 1790.'

1791.

1. 'Rhyddid: Traethawd a ennillodd Ariandlws Cymdeithas y Gwyneddigion ar ei Thestun i Eisteddfod Llanelwy B.A. M,DCC,XC. Gan Walter Davies.

Argraphwyd yn Llundain gan T. Rickaby: ac ar werth gan E. a T. Williams, Strand; I. Daniel, Caerfyrddin; T. Sandford, Amwythig; ac ereill o Lyfrwerthwyr: gwerth dau Swllt. 1791.' 8plyg.

Yr oedd swyddfa argraffu Mr. Rickaby yn Bow Street. Distrywiwyd y cwbl gan dân Ionawr 10, 1788. Efe oedd y cyntaf i argraffu yr argraff fân a elwir *diamond*. Cyhoeddwyd y llyfr da uchod yn hollol ar draul Owain Myfyr a Leathart.* Am yr awdwr,

WALTER DAVIES, neu GWALLTER MECHAIN, efe a anwyd yn y Wern, ym mhlwyf Llanfechain, yn sir Drefaldwyn, Gorphenaf 15, 1761. Cafodd elfenau ei ddsgeidiaeth yn ei blwyf genedigol nes gorddysgu ei athraw. Wedi hyny ymgynnyddodd oreu y gallai o dan lawer o anfanfeision. Trwy gynnorthwy ei gyfeillion, aeth i Rydychain yn 1791, lle y cyrhaeddodd ei B.C.; a'i A.C. yng Nghaergrawnt. Arosai yn y coleg yn ystod yr amser rhwng y termau, fel y gallai wneyd i fyny am ei ddiffyg o fanfeision boreuol. Ordeiniwyd ef yn gurad Meifod, yn sir Drefaldwyn, ac yn 1799, cafodd guradiaeth barhaol Ysptytly Ifan, gan Arglwydd Mostyn, yr hon a gadwodd yn ei feddiant hyd ei farwolaeth. Wedi hyny cafodd bersoniaeth Llanwyddelan, yn sir Drefaldwyn, gan yr Esgob Horsley, yr hon a roddodd i fyny pan gafodd Fanafon, yn yr un sir, gan yr Esgob Cleaver. Yn 1837 rhoddodd Fanafon i fyny, pan gafodd Lanrhaiadr ym Mochnant. Yr oedd yn fardd campus, un o oreuon ei oes. Ysgrifennodd lawer i Eisteddfodau, ac ennillodd lawer o wobrwiau. Ysgrifennodd lawer i'r 'Cambrian Register,' y 'Cambro-Briton,' y 'Cambrian Quarterly,' y 'Greal,' y 'Gwyllydydd,' yr 'Haul,' a chyhoeddiadau ereill. Cyhoeddwyd gwaith cyfrifol o'i eiddo yn 1813-15 [1810-1814], o'r

* *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society*, p. 25.

enw, 'A View of the Agriculture and Domestic Economy of North Wales and South Wales,' yn dair cyfrol. Cyhoeddodd hefyd Waith Huw Morus, yn ddwy gyfrol; a Gwaith barddonol Lewys Glyn Cothi, mewn cyssylltiad â'r diweddar Ioan Tegid.* Bu farw yn Llanrhaiadr ym Mochnant, Rhagfyr 5, 1849, yn 89 oed.†

2. ¶ 'Dialogous, neu Ymddiddan rhwng Philalethes ac Eusebes; mewn perthynas i wir Grist'nogryydd.

Amddiffyniad ydyw i'r Parch. Peter Williams, yn erbyn ymosodiadau ei gyfeillion o'r oes hòno arno o blegid rhyw gyfnewidiadau a wnaethai yn sillebiaeth a geiriadaeth Beibl bychan, gyda chyfeiriadau y Parch John Cann, yn y flwyddyn ddiweddaf,‡ gan y Bardd o Bant y Celyn. Gellid barnu mai yn argraffwasg Trefecca y cafodd ei argraffu, er na fynegir hyny, ac amseriad ei ysgrifenu gan yr awdwr yw 'Gorpenaf 21, 1791.'

[Llyfryn 12plyg o 24 tudalen ydyw. Nid oes nac amseriad, nac enw argraffydd nac argraffle, ar ei ddechreu na'i ddiwedd; ond ceir, fel y noda yr awdwr, 'Gorphenaf 21, 1791,' ar gwr aswy godre y ddalen olaf. Ymddengys i mi wrth ddullwedd y gwaith, mai Ioan Daniel, Caerfyrddin, oedd yr argraffydd. Gelwir ef yn wallus, 'Dialogous,' yn lle 'Dialogus.']

3. 'Awdlau ar Destynau Cymdeithas y Gwyneddigion i'r Eisteddfodau yn B.A. 1789, 1790, 1791. Sef Ystyriaethau ar Oes Dyn, Rhyddid, a Gwirionedd. Gan Dafydd Ddu o'r Eryri. Ac ar werth gan Dafydd Thomas, o'r Waen-Fawr, yn Arfon.

Llundain. Pris Swllt.'

[Yr argraffeb yn y cyfargraff o'm blaen a red fel hyn :—

'Argraphwyd yn Llundain gan T. Rickaby: Ac ar werth gan E. a T. Williams, Strand; I. Daniel, Caerfyrddin; I. Evans, Machynllaith; T. Sandford, Amwythig; John Williams, Dolgelleu; Morys Dafies, Bala; Jonathan Hughes, Llangollen; Mr. Roden, Dinbych; I. Williams, Llanelwy; Mrs. Evans, Llanerchymedd; I. Robyns, Amlwch; I. Roberts, Caerfyrddin. 1791.' Nichrybyyllir gair yng nghylch ei 'fod ar werth gan Dafydd Thomas, o'r Waen-Fawr, yn Arfon.' Cynnwys 46 tudalen Splyg.]

DAFYDD THOMAS, neu DAFYDD DDU o ERYRI, ydoedd fab i Thomas Griffith, gwëydd, o Ben y Bont, ym mhlwyf Llanbeblig, ger Caernarfon, lle y ganwyd ef yn 1760. Gan fod ei dad yn hoffi darllen, a chyfansoddi ar farddoniaeth, ac wedi hunan-gyrhaeddyd mwy o wybodaeth a dysg na'r cyffredin yn ei oes, ac yn arfer ei ddawn yn gyhoeddus ym mhlith y Methodistiaid, yr oedd yn mawrygu dysgeidiaeth, a rhoddodd ei fab o dan ofal offeiriad yn y gymmydog-aeth, lle y cyrhaeddodd radd dda o wybodaeth yn yr iaith Seisonaeg, a pheth gwybodaeth o'r Lladin, Groeg, a Hebraeg. Yn 1796,

* [Cyhoeddwyd *Gwaith Gwallter Mechain*, sef Cynnulliad o'i wahanol Ysgrifeniadau ef mewn barddoniaeth a rhyddiaith, yn Gymraeg ac yn Seisoneg, mewn 3 cyfrol 8plyg, Caerfyrddin, 1868.]

† *Gentleman's Magazine*, for Nov. 1850; Williams's *Eminent Welshmen* (Additions).

‡ Gwel rhif 6, d.f. 1790.

gwahoddwyd ef i gadw ysgol i Bentraeth, ym Mon, gan Paul Panton, Ysw., o'r Plas Gwyn, gery lle hwnw, ac i fod yn llyfrgellwr iddo. Oddi eithr ychydig amser y bu yn Amlwch, yn dal swydd yng Nghyllidfa y Glo, efe a barhaodd i gadw ysgol ar hyd ei oes, ym mhlwyf Llanddeiniolen, Llandwrog, a Llanrug, yn sir Gaernarfon. Ennillodd lawer gwaith wobrau Eisteddfodau a Chymdeithas y Gwyneddigion, Llundain, o'r hon yr oedd yn aelod. Ysgrifennodd lawer o ddarnau o dro i dro i'r cyfnodolion Seisonig ar bynciau perthynol i Gymru, megys i'r *Gentleman's Magazine*. Cyhoeddodd ran fawr o'i waith yn 1810, o dan yr enw 'Corph y Gainge,' ac o'r hwn y cyhoeddwyd ail argraffiad yn ddiweddar, gyda chofiant o hono, ac arlun. Bu yn gynnorthwyol i gyhoeddi ail argraffiad o 'Waith Beirdd Mon,' yn 1817. Bu farw, trwy fodd yn yr afon Cegid, ym mhlwyf Llanddeiniolen, Mawrth 30, 1822, yn 63 oed.*

4. 'Llyfr Gweddi Gyffredin.

Caerlleon: Argraphwyd gan J. Fletcher. MCCCXCI.'

5. 'Marweiddiad Pechod mewn Credinwyr. Gan John Owen, D.D. O gyfieithiad Hugh Jones, o Faesglasau.

Mwythig, Argraphwyd gan B. Partridge a J. Hodges.'

6. 'Pregeth eglur a difrifol ar Fedydd, yn ei gyssylltiad ag Egwyddorion cyntaf ac Yspryd Cristionogaeth. Gan W. Richards, LL.D.† gynt o Lynn.'

7. 'An Enquiry into the Truth of the Tradition, concerning the Discovery of America, by Prince Madog ab Owen Gwynedd, about the year, 1170. By John Williams, LL.D.

London: Printed by J. Brown, at the Printing Office, Fair Street, Horsley-down, and Sold by B. White and Son, Fleet Street; J. Johnson, St. Paul's Church Yard; E. and T. Williams, No 13, Strand, and J. Ross, Carmarthen. M.DCC.XCI.' [8vo.]

Y Dr. JOHN WILLIAMS a anwyd yn Llanbedr Pont Stephan, yn sir Aber-teifi, yn 1727. Bu yn weinidog cynulleidfaoedd Ymneillduol mewn amryw fanau yn Lloegr, ac yn llyfrgellydd Llyfrfa y Dr. D. Williams. Cyhoeddodd hefyd 'Thoughts on the Origin of Language, and on the most rational manner of teaching Language.' Hefyd, 'A Free Enquiry into the Authenticity of the first and second Chapters of St. Matthew's Gospel,' &c.‡ Bu farw yn 1793, yn 66 oed.

* *Cambro-Briton*, vol. iii. p. 430; *Gwladgarwr*, cyf. iv. t. 30; *Cofiant*, yn rhagflaenu 'Corph y Gainge,' ail arg. 1834; Williams's *Eminent Welshmen*.

† [Nis gallasai y radd o Ddoethor y Cyfreithiau (LL.D.) fod yn perthyn i Mr. Richards y pryd hwn, canys yn 1818 y derbyniodd efe hi oddi gan Goleg y Bedyddwyr yn Ynys Rhod, T.C.; ac ni chyrrhaeddodd y graddlythyr y wlad hon hyd y mhen rhyw gymmaint o amser ar olei farwolaeth, yr hon a ddygwyddodd ar y 12fed o Fedi yn y flwyddyn hono. Yr oedd efe yn byw yn Lynn yr amser y cyhoeddwyd y bregeth hon. Cymmerodd ein hawdwr, fel yr ymddengys, yr enw, nid o'r bregeth ei hun, ond o ryw gyfeiriad diweddar ati.]

‡ [Y gwaith enwocaf o'r eiddo y Dr. Williams ydyw ei Fyngair i'r Testament Groeg.]

8. 'The Aboriginal Britons, a Prize Poem, spoken in the Theatre at Oxford July viii. M.DCCXCI. By George Richards, B.A. Fellow of Oriel College. The Second Edition.

Oxford: Sold by D. Prince and J. Cooke, &c. M,DCC,XCI.'

9. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, 1791.'

Machynlleth, Argraphwyd gan Titus Evans. 1791.'

10. 'Y Siars a roddwyd gan Samuel, Arglwydd Esgob Ty Ddewi, i Offeiriaid ei Esgobaeth, ar ei Ymweliad Cyntaf, yn y flwyddyn, 1790. Ynghyd a Phregeth ar Gnawdoliaeth ein Iachawdwr, gan yr un Gwir Barchedig Awdwr. Wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg gan y Parchedig John Harries, Curad Llanfrynach, yn Sir Frycheiniog, yn y flwyddyn, 1791.

Aberhonddu, Argraphwyd gan William a George North.' [12plyg: 72 tudalen.]

Yr esgob hwn ydoedd

Y Dr. SAMUEL HORSLEY, yr hwn ydoedd yn fab i Mr. Horsley, offeiriad St. Martin yn y Meusydd, Llundain, a lle y ganwyd ef [yn 1733]. Yr oedd y Dr. Horsley yn un o ddynion dysgedigaf ei oes. Wedi bod flynyddoedd yn berson St. Mari, Newington, efe, yn 1788, a wnaed yn esgob Ty Ddewi. Yn 1793, efe a drosglwyddwyd i esgobaeth Rochester, lle, ar yr un pryd yr oedd yn dal deoniaeth Westminster; ac yn 1802, efe a symmudwyd i esgobaeth gyfoethog Llanelwy. Ysgrifennodd lawer o weithiau tra dysgedig. Bu farw yn Brighton yn 1806.*

11. 'Marwnad y Parchedig Mr. Daniel Rowlands, yr hwn a ymadawodd a'r Byd Hydref 16, 1790, yn 77 mlwydd o'i oed, ac a gladdwyd yn Llangeitho. Gan William Williams. Yr ail argraphiad.

Trefecca; Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCI.'

12. 'Marwnad er Coffadwriaeth am y Parchedig Mr. William Williams, Gynt o Bant y Celyn.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, M,DCC,XCI.'

Y mae enw 'David Saunders' wrth ei therfyn.†

13. 'Llinell i'r Byd, ac Alarwm i'r Eglwys; sef, Ychydig Fyfyrdodau gwedi eu cyfansoddi ar Gân: Oddiar ystyriaeth o Farwolaeth y Parchedig Mr. Dafydd Evan; yr hwn a fu Weinidog defnyddiol yn agos i 20 Mlynedd yn y Doleu, pa un a ymadawodd o'i Babell Bridd

* Stephen Jones's *Biographical Dictionary*.

† Gwel rhif 7, d.f. 1780.

i'w Dŷ, nid o Waith Llaw, ar y 14 o Hydref, yn y Flwyddyn 1790, yn 49 Oed. Gan Thomas Morris.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, M.DCC.XCI.'

[Cynnwysa y llyfryn hwn hefyd, 'Ychydig Linellau er Coffadwriaeth am y diweddard Barchedig Dafydd Morys, Gweinidog y Bedyddwyr yng Nghaerfyrddin,' gan 'D. Dd. Er.' = Dafydd Ddu Eryri?*

THOMAS MORRIS ydoedd Fedyddiwr trochedig. Efe a ordeiriwyd ar gynnulleidfa ym Mhenrhiw Goch, sir Gaerfyrddin, yn 1810; symmudodd i'r Casnewydd ar Wysg yn 1817, i Gaerodwr yn 1831, ac i Bont y Pwl yn 1835. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd. Ysgrifennodd llyfryn difyrus yn Seisoneg o'r enw 'London Spiritualized.'†

14. 'Marwnad y Parchedig William Williams, o Bant-y-Celyn; yr hwn a ymadawodd â'r Byd Ionawr 11, 1791, yn 74 o'i oed, ac a gladdwyd yn Llanfairbryn, yn Sir Gaerfyrddin. Gan Jacob Jones.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

15. 'Drych Olwg ar Dir Angof, neu Goffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig Mr. Dafydd Morris o Dan yr Allt, Llangwnwr, Gweinidog y Porth tywyll, Caerfyrddin. Ynghyd a Choffadwriaeth o Farwolaeth Jane Sanders, Llanon. Gan Dafydd William.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel.'

16. 'The History of Wales, in nine books: with an Appendix. By the Rev. William Warrington, Chaplain to the Right Hon. the Earl of Besborough. In two Volumes. Vol. I. The Third Edition.‡

London: Printed for J. Johnson. No 70. St. Paul's Church Yard. MDCXCXI.'

17. 'Pigion o Hymnau I. Watts, D.D. ac eraill. Ynghyd â chwanegiad o amryw o Hymnau nad oedd yn yr Argraphiad Cyntaf.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,XCI.'§

18. ¶ 'Tour to Milford Haven. By Mrs. Morgan.'||

* *Llythyr* Mr. R. Williams.

† *Hanes y Bedyddwyr yn y Deheubarth*, gan D. Jones.

‡ Gwel rhif 14, d.f. 1786; rhif 13, d.f. 1787; rhif 17, d.f. 1788. [Rhaid bod hwn yn *bedwerydd* argraffiad yn y fan leiaf; canys ymddangosodd y 3ydd argraffiad yn 1788.]

§ Gwel rhif 27, d.f. 1765.

|| *Annual Reports*.

19. 'Marw i'r Ddeddf a Byw i Dduw. Ymha un yr amlygir yn helaeth, y modd mae'r Yspryd Glan yn dwyn yr Enaid o'r Cyfammod Gweithredoedd i'r Cyfammod Gras. O'r Hunan i Grist. Gan y Parchedig R. Erskine, A.M. Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Dumferline, Scotland.

Machynlleth: Argraphwyd ac ar werth gan T. Evans, M.DCC,XCI. (Pris Swllt heb ei rwymo).'

20. 'Stafell Gyfaill: neu, Gyfarwyddid i Ddynion difrifol, yn y Ddyledswydd bwysig o Hunan Ymholiad, i'r Diben i'w osod i fynu yn nirgel 'Stafell y Cristion, mewn Trefn i'w atgofio a'i gynnorthwyo yn y Gwaith. A gyfieithwyd gan y Parchedig I. Griffith, o Glandŵr.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. 1791.'

21. 'Traethawd difrifol ynghylch Bedydd: Ym mha un y mae'r Ordinhad Sanctaidd honno yn cael yn ofalus ei gwahaniaethu oddi-wrth yr Arfer lygredig sydd yn gyffredin yn myned dan yr un Enw, a'i Harwyddocad a'i Diben hefyd yn cael eu dal allan; mewn Llythyr at y Diduedd, y Rhesymol, a'r Ymofyngar, ym mysg Arddelwyr Taenelliad Babanod yng Nghymru. At yr hyn y Chwanegwyd Ol-Ysgrifen, Yn cynnwys Attebiad digonol i Drydydd Llythyr Mr. Evans, o'r Drewen. Gan William Richards.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Ioan Daniel. M.DCC,XCI.'

22. 'Marwnad, neu Ddewisol Goffadwriaeth, o Farwolaeth y Parchedig Mr. William Williams, Gynt o Bant-y-Celyn, yn Sir Gaerfyrddin, yr hwn a hunodd Ionawr 11, 1791, yn 74 Oed. Gan Philip Dafydd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel.'

23. 'Marwnad; neu Ychydig Linellau, mewn ffordd o Goffadwriaeth am Farwolaeth yr enwog Frawd yn yr Efengyl, Mr. Edmund Parry, Tir Eglwys, gynt o Pentewin, Yr hwn mewn byrr Amser a gafodd ei symmud o'r Byd hwn i'r Byd tragywyddol, Gorphenaf 4, 1791, yn 52 Oed. Gan Theophilus Rees.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

24. 'Marwnad, neu Dduwiol Goffadwriaeth o Farwolaeth Dafydd Morys, o Ben-y-Ffos, ym Mhlwyf Troed-yr-Aur, yn Sir Aberteifi; yr hwn, wedi iddo bregethu yn llafurus a llwyddiannus ychwaneg nâ saith ar hugain o Flynyddau, a ymadawodd o'r Byd hwn Medi 16. 1791, yn 47 Mlwydd Oed. Gan Thomas Jones.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol-y-Brenin.'

THOMAS JONES ydoedd enedigol o'r Maes, yn sir Gaerfyrddin. Bu farw yn Peckham, Surrey, Hydref 4, 1819, yn 60 oed. Yr oedd yn weinidog yr efengyl.

25. ¶ 'Cyffes Ffydd y Bedyddwyr. Cyfieithiad Newydd gan Josuah Thomas.

Caerfyrddin.*

26. ¶ 'Galargan Enoch Thomas ar ol ei wraig.

Caerfyrddin.*

27. ¶ 'Marwnad Daniel Rowlands a W. Williams, &c. Gan John Evans.

Caerfyrddin.*

28. 'A Sermon, Preached in the Parish Church of Wrexham, On Sunday the 17th. of July, 1791, For the Benefit of the Chester Infirmary. By the Reverend William Davies Shipley, A.M. Dean of St. Asaph, and Vicar of Wrexham.

Wrexham; Printed by R. Marsh. 1791.'

29. 'Traethawd o waith yr enwog Mr. John Bunyan. Yn cynnwys i. Cadwedigaeth trwy Ras;† neu Draethawd am Ras Duw, yn dangos, 1. Beth yw bod yn gadwedig. 2. Beth yw bod yn gadwedig trwy Ras. 3. Pwy ydynt hwy a gedwir trwy Ras. 4. Pa fodd yr ymddengys mai trwy Ras y maent yn gadwedig. 5. Beth a all fod y Rheswm i Dduw ddewis cadw Pechaduriaid trwy Ras, yn hytrach na thrwy un modd arall. ii. Y Porth Cyfyng;† neu'r Anhawsdra mawr o fyned i'r Nefoedd. Yn profi yn eglur trwy'r Ysgrythyrau y bydd, nid yn unig yr Anfoesol a'r Halogedig; ond hefyd llawer o Broffeswyr mawrion yn dyfod yn fyr o'r deyrnas honno. At ba un y chwanegwyd, iii. Pregeth ddiweddaf yr Awdwr: A bregethwyd yn Llundain, yn Mis Gorphenhaf, 1688.‡

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Ross, yn Heol Awst. [Pris tri Swllt ynghyd].

Ymddengys fod y ddau lyfr diweddaf wedi eu hargraffu y llynedd; ond na ddaeth y llyfr yn gyflawn allan hyd eleni; a dyna pa ham y ceir gwahanol amseriad iddynt. Hugh Jones, o Faesglasau, ger Dinas Mawddwy, ydoedd y cyfieithydd a'r cyhoeddydd, trwy danysgrifiadau. Yr oedd yr enwau yn y Gogledd yn dyfod i 100, yn

* Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies.

† Gwel rhif 10, d.f. 1790.

‡ Gwel rhif 12, d.f. 1790.

cymmeryd yng nghyd 2,352 o lyfrau. Y mae wyneb-ddalen arall i'r 'Cadwedigaeth,' wedi ei hamseru 'M,DCC,XCI.'

30. ¶ 'Marwnad y Parch. Daniel Rowlands, gan Peter Williams.

31. 'On the better Relief and Employment of the Poor in the Town of Oswestry and the Parishes of Llanymynech, Chirk, and Llansilin. 1791.'

Y mae y llyfryn hwn yn cynnwys llawer o bethau o ddyddordeb lleol mawr.

32. 'A Private Bill for a Canal from Abernant to Melincrython Pill into the River Neath, and Improving the Navigation of that River. 1791.'

Argraffwyd yr ysgrif uchod yn gyfrinachol.

33. 'A Funeral Sermon preached at Spafields Chapel, July 3. 1791, on the death of the Late Countess of Huntingdon. By the Rev. David Jones of Langan.

London: Sold by Rice Jones No. 45, Chandler Street, Grosvenor-Square, Strand; J. Chalmers, No. 81, Old Street; J. Mathews, Strand; J. S. Jordan, No. 166, Fleet; Mrs. Trapp, Paternoster-Row; Hughes & Walsh, Inner Temple Lane; & J. Higham, No. 159, St. John's Street. Sold also by the door-keepers of Spafields and Sion Chapels. 1719.'

34. 'A Treasury of Theological Knowledge: Wherein Christianity, and the Divine Authority of the Holy Scriptures are proved: and the most plausible Objections considered. To which is added an Appendix. In Two Volumes.

Carmarthen, Printed and sold by John Ross and John Daniel; sold also by Messrs. E. and T. Williams, No. 13, Strand; and Stanley Crowder, Paternoster row, London; and Joseph Lloyd, Wine-street, Bristol. M.DCC.XCI.'

Awdwr y cyfrolau hyn ydoedd MORGAN WILLIAMS, curad Caerfyrddin;* ac y maent yn 'Dedicated to the Right Reverend Samuel Horsley, LL.D. F.R.S. Lord Bishop of St. David's.'

35. 'A Welsh Freeholder's Letter to the Bishop of St. David's, on his Carmarthen Charge.

Carmarthen. 1791.'

* [Gwedi hyny Ebrwyd Baefil, swydd Benfro; awdwr y *Collectanea*.]

[Awdwr y Llythrau hyn at yr Esgob Horsley ydoedd DAFYDD JONES, cynghorwr o'r gyfraith, yr hwn a anwyd yn Llanymddyfri yn 1765, ac a fu farw yn 1816. Derbyniodd elfenau ei ddysg ym Mhencader, sir Gaerfyrddin, yn Abergefni, ac wedi hyny yn Athrofa Homerton, Llundain. Bu am beth amser yn fyfyrwr, ac wedi hyny yn athraw, yn yr Athrofa Henadurol yn Hackney. Pan yr ymadawodd oddiyno, cymmerodd ofal gweinidogol cynulleidfa o Undodiaid yn Birmingham, lle, wedi aros blwyddyn neu ddwy, y penderfynodd newid ei alwedigaeth, ac ymgymmerodd â'r gyfraith. Yng nghylch y fl. 1794, aeth yn aelod o Gyfreithdy Lincoln, yn Llundain, ac o Goleg Caius, Caergrawnt. Gwedi gorphen ei fyfyrion cyfreithiol, ymarferodd â galwad cynghorwr o'r gyfraith yn Llundain, ac ar gylchdeithiau Rhydychain a Deheubarth am lawer o flynyddoedd. Heb law ei Lythrau at Esgob Ty Ddewi, ac Amddiffyniad o honynt, cyhoeddodd—'Thoughts on the Riots at Birmingham,' 1791; 'Strictures on a Pamphlet entitled Thoughts on the late Riots at Birmingham,' 1791; a 'Reasons for Unitarianism.'*]

36. ¶ 'Collection of Welsh Tours.

Chester and London. 1791.'

Yr oedd y 'Tours' hyn i Wynedd, Deheubarth, a sir Fynwy, yn gyfrol drwchus.

37. ['Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, 1791.'

Llythyr Cymmanfa y Bedyddwyr a gynnaliwyd yn Abertawy yn 1791, ydyw. Cynnwysa 8 tudalen 8plyg bychan; ac argraffwyd ef yng Nghaerfyrddin gan Ioan Daniel, fel yr ymddengys wrth yr argraffeb ar ei ddiwedd.]

38. ['Cyfaill y Cymru, sef Englynion, Cywyddau, â Chaniadau newyddion; ar amrwy Desdynau, a Mesyrau, Y Rhan Gyntaf. Gan Iolo ap Iorwerth Gwilym, o Ben y Lan, gerllaw'r Bontfaen, ym Morganwg.

Argraphwyd dros yr Awdwr, 1791.' 16plyg.

Ni chrybwyllir ym mha le na chan bwy y cafodd y 'Cyfaill' ei argraffu. Yr 'Iolo ap Iorwerth Gwilym' hwn, neu 'Edward William,' fel y geilw ef ei hun ar ddiwedd y rhagymadrodd, a adwaenir yn fwy cyffredin wrth yr enw Iolo Fardd Glas.]

1792.

1. 'Myfyrdodau diweddaf y Parch. Mr. Baxter ar Farwolaeth: Yn dangos i. Pa beth sydd yn Fuddiol ac yn Ddymunol yn y Bywyd hwn. ii. Y Rhesymmoldeb a'r Angenrheidrwydd o Gredu, fod eneidiau'r Duwiolion, pan ymadawont a'r bywyd hwn yn myned at Grist. iii. Pa beth yw Ymddattod a bod gyda Christ. iv. Pa ham y mae yn llawer gwell i fod gyda Christ. v. Yr Awdwr yn hiraetbu am gael ei wneud yn foddlon i ymddattod a bod gyda Christ. A dalfyrwyd gan Benjamin Ffosset, A.M. Ac a gyfieithwyd o'r ail Argraphiad yn Saesonaeg, Gan William Thomas, Gweinidog yr Efengyl, yn y Bala.

* Gweler Williams's *Eminent Welshmen*.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCII. (Pris chwe' Cheiniog.)'

WILLIAM THOMAS ydoedd fab i rieni cyfrifol o amaethwyr. Yr oedd ei dad yn enedigol o sir Forganwg, a'i fam o sir Gaerfyrddin. Bu farw ei dad cyn i'r bachgen gyrhaedd ei ddeuddeg mlwydd oed, a symmudodd ei fam i'w chymmydogaeth ei hun. Rhoddodd iddo addysg Seisonig dda; aeth ef i Lundain, lle yr oedd ganddo berthynasau mewn sefyllfa gyfrifol, a chafodd le gyda masnachwr yn Long Acre, lle y bu rai blynyddau mewn parch mawr. Yr oedd y pryd hyny yn ddyn ieuanc moesol a difrifol, ond yn hollol ddyeithr i grefydd. Pan yr oedd o ddeutu 23 oed, cafodd dwymyn drom, ag oedd y pryd hyny yn ffynu yn Llundain; ac wedi ei adferu yn ddigonol, efe a symmudodd at ei fam i ymyl Llanymddyfri. Yr oedd adfywiad crefyddol y pryd hyny mewn amryw o gynnulleidfaoedd yr Ymneillduwyr. Eglwyswraig selog oedd ei fam; ond hudwyd ef gan gywreinrwydd i Grug y Bar, lle oedd y pryd hyny dan weinidogaeth un Isaac Price; a than y bregeth hòno o eiddo y gweinidog hwnw yr argyhoeddwyd ef. Ymunodd yn fuan â'r eglwys hòno; ac ym mhen rhyw amser wedyn dechreuodd bregethu. Tybiai ei hun yn rhy hen i dreulio yr amser arferol mewn coleg; ond treuliodd ddwy flynedd yn efrynu yn Athrofa Ymneillduol Abergafenni, o dan y Dr. Davies. Oddi yno ordeiniwyd ef yng nghapel Hanover,* ger y dref hòno; ac ym mhen ychydig flynyddau wedyn, efe a symmudodd i'r Bala, lle y bu yn llafurio dros 21 o flynyddau. Tra y bu yno, cyhoeddodd amryw fân lyfrau, a gwnaeth yn dda o honynt, yn enwedig gwaith y Dr. Owen, 'Angeu i Angeu.' Ond y gwaith mwyaf a gymmerodd arno ydoedd 'Esboniad y Dr. Guyse ar y Testament Newydd.' Yn Nhrefecca y byddai yn argraffu ei holl lyfrau, fel ag yr oedd y rhan fwyaf o Ymneillduwyr y rhanau canolbarthig o'r Dywysogaeth; ac yno y dechreuwyd argraffu 'Guyse.' Byddai Mr. Thomas yn prynu y papyr ei hun, ac yn ei anfon i Drefecca. Llawer o drafferth a gafodd gydag argraffwyr Trefecca. Byddai yn methu cael y rhanau allan mewn pryd; ac anfonai ei fab (John) o'r Bala i Drefecca i ymofyn y rhanau, a'u cludo yn bwn, ar gaseg fechan, i'r prif ddosbarthwyr ar hyd y wlad: ac wedi ei fyned yno at yr amser addawedig, ni byddai y rhanau yn barod, yr hyn a orfyddai i'r bachgen aros wythnosau yn Nhrefecca, er mawr anghyfleusdra a cholled. O'r diwedd blinodd arnynt, a symmudwyd ei argraffu at John Evans, Caerfyrddin; ac wedi hyny at Mr. Saunderson, Bala. Yr oedd wyth rhan heb eu paratoi pan fu farw Mr. Thomas, y rhai y cafodd ei fab gan y Parch. Ebenezer Jones, o Bont y Pwl, eu cwblhau. Darfu i'r maith flynyddau ag y bu yr Esboniad hwn yn dyfod trwy y wasg, beri anghyfleusdra a cholledion trymion. Yr oedd 1,800 yn ei dderbyn yn y dechreuad; yr oedd cynnulleidfa Henllan, sir Gaerfyrddin, yn derbyn 102 ei hun; ond cyn y diwedd nid oedd mwy nag 800 yn ei dderbyn trwy yr holl Dywysogaeth, yr hyn a wai fod mil o hono yn anorphenol ar hyd y wlad. Collodd

* [Llanover, neu Ryd y Meirch, mae yn debyg.]

Mr. Thomas 300*p.* ar yr anturiaeth.* Ystyrid Mr. Thomas yn bregethwr da, a gwir awyddus i wneyd daioni trwy ei bregethau a'i gyhoeddiadau. Bu farw yn y Bala ym Mai, 1809, a buasai yn 60 mlwydd oed yr Awst canlynol, ac felly, rhaid oedd ei eni yn Awst, 1749.†

2. 'Cyngor difrifol i un ar ol bod yn glaf, mewn llythyr oddiwrth Weinidog at un o'i blwyfolion. Gan Edmund Gibson (esgob Llundain, fel y tybir.)

Llundain.'

3. 'Hanes Troedigaeth y Wraig o Samaria: yn dangos, Natur gwir Argyhoeddiad a Dychweliad Pechadur at Duw: Gyd ag Effaith Dwyfol Ddatguddiad o'r Gwardedwr, ar Fucheddau y Gwardedigion. Wedi ei osod allan mewn Pregeth ar Ioan 4. 29. Gan y Parch. Ralph Erscin, A.M. Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Dunfermlin, Scotland.

Machynlleth: Argraphwyd gan Titus Evans. M,DCC,XCII.' 60 tudalen 12plyg.

4. 'Dydd olaf y Credadyn ei Ddydd goreu, &c. Gan y Parch. Thomas Brooks.

Machynlleth: Argraphwyd gan Titus Evans.‡

5. 'Gwledd i'r Eglwys, neu ddeuddeg Pregeth ar Gân Solomon. Gan y Parch. W. Romaine, M.A. yn Llundain. A gymreigiwyd gan Thomas Jones, Curad Creaton, yn sir Northampton.

Machynlleth: Argraphwyd gan Titus Evans, M,DCC,XCII. (Pris 1s. 9d.—neu 13 am guni.)'

6. 'Undeb Crefyddol, Neu Rybudd yn erbyn Schism. Yn dangos

* Cyhoeddodd hefyd yn y ganrif bresennol, 'Cyfarwyddiadau mewn Geography; neu Ddrych y Byd yn Gyffredinol, Mewn dull o Holiad ac Attebiad; a Sylwnodau, yn dangos amryw ddull o Lywodraeth a threfn y byd; hyd a lled Teyrnasoedd Ehang a Bychain, a rhifedi eu Trigoion, eu hamrywiol fath o Grefyddau, eu Hanifeiliaid gwyltïon a dofion, eu Marsiandiaeth, eu Llaw-waith a'u Talentau: Cynnyrch a Firwythau Coed mwyaf tyfadwy y'mhob Gwlad; Moroedd, Llynoedd, Afonydd, a Mynyddoedd, &c. Ynghyd â chyfarwyddiad pa fodd i gael y Lleoedd hyn ar y Map neu'r Glôb. Gwedi ei Gasglu a'i Gyfieithu allan o'r ailfed argraffiad ar bymtheg o waith Lenglet du Fresnoy, C. Smith, ac amryw Geographwyr enwog ereill. Gan William Thomas, Bala. Caerlleon: Argraffwyd gan W. C. Jones. 1805.' Y mae yn tua 225 o dudalennau 12plyg.

† Ystyriolaeth ei fab, J. Thomas, gynt o Lyn Ebwy, sir Fynwy, a Llythyr ei ferch, Mrs. Mary Johns, gweddw y diweddar Barch. David Johns, Cenadwr ym Madagascar.

ei Anghyfreithlondeb wrth reswm a'r ysgrythyr, a barn yr hen dadau yn y brif Eglwys. Gan Weinidog o Eglwys Loegr.

Gwrecsam, Argraphwyd gan T. Marsh.'

7. 'The Heroic Elegies and other Pieces of Llywarch Hen, Prince of the Cumbrian Britons: With a Literal Translation, by William Owen. Y Gwir yn erbyn y Byd.

London: Printed for J. Owen, No. 168, Piccadilly, and E. Williams, Strand. M DCC XCII.' [8vo.]

EVAN WILLIAMS, cyhoeddwr llyfrau yn Llundain, ydoedd fab i Dafydd Williams, o Swydd y Ffynnon, ym mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi, a'r hwn a arferai bregethu gyda'r Methodistiaid Calffinaidd, ac a adwaenid wrth yr enw Dafydd y Gof. Cafodd y meibion ddysgeidiaeth dda o dan y nodedig Edward Richard, Ystrad Meurig. Yr ydys yn ddyledus i E. a T. Williams am ddwyn allan lawer o lyfrau o bwys i'r Cymry, trwy yr hyn y collasant lawer o arian, yn enwedig trwy Eiriadur mawr y Dr. Owen Pughe; i'r hwn y bu yn rhaid bwrw llythyrenau newyddion, o blegid yr hyn yr oedwyd ei werthiant yn fawr; ac hefyd yn nygiad allan y 'Cambria Depicta,' gan E. Pugh, yn 4plyg, gyda 71 o luniau lliwiedig, yn 1816. Bu E. Williams dros ddeugain mlynedd yn llyfrwerthydd a chyhoeddydd Cymreig yn y Strand; ac am bymtheg mlynedd ar hugain yn aelod gweithgar o bwyllgor yr Ysgol Rad Gymreig. Bu Evan Williams farw yn Heol Penton, Llundain, Medi, 1835, yn 86 oed. Ei wraig, Frances, merch hynaf Robert Neat, Ysw., o Saltross, yn sir Wilts, a fu farw yn 1814, yn 52 oed. T. Williams [ei frawd] oedd cyhoeddydd cyntaf yr *Evangelical Magazine*; a bu mewn cyssylltiad ag ef fel argraffydd a chyhoeddydd yn Llundain, dros gryn amser.

8. 'Annogaethau Efangylaidd, i Sancteiddrwydd Bywyd; Mewn Annerch at Waredigion yr Arglwydd o bob Enw: A dalfyrwyd Allan o Waith y Parchedig Mr. Fflafel. Gan W. Mason.

Machynlleth: Argraphwyd gan Titus Evans. M,DCC,XCII.'

Y mae yn gydiol â hwn, ac fel attodiad iddo,—

'Dydd olaf y Credadyn ei Ddydd Goreu: Wedi ei brofi mewn Pregeth a Bregethwyd mewn Angladd neu Gladdedigaeth yn Llundain. Gan y Parchedig Thomas Brooks, Gweinidog yr Efengyl.*'

9. 'Athrawiaeth Bedyddiadau wedi ei hadferu oddiwrth ei Llygr-edigaethau cynnar a diweddar, a'i hadnewyddu i'r Iachus brif berffeithrwydd, yn ol gair y Gwirionedd, sylwedd ffydd, a natur

* Gwel rhif 5.

Teyrnas Crist. Gan Wm. Dell, gweinidog yr efengyl, ac Athraw Confil a Chaius, dwy o'r prif ysgolion yng Nghambridge.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel.'

10. 'Gorchwyliaeth Crist: neu Ragoriaeth yr Efengyl: sef pregeth y Dr. Playfere. Wedi ei Chymreigio gan y Parchedig Peter Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel, yn Heol y Brenin. M,DCC,XCII.'

THOMAS PLAYFERE ydoedd frodor o Gaint, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yng Nghaergrawnt. Yn 1596 efe a wnaed yn Broffesor Margaret. Yr oeddid yn ei ystyried yn ysgolor Lladin enwog iawn. Efe a ymgorfforodd yn aelod yn Rhydychain, ac a wnaed yn LL.D. yno Gorph. 9, 1596. Bu farw yn Ionawr neu Chwefror, 1608, a chladdwyd ef yn eglwys St. Botolph, Caergrawnt.*

11. 'Coron Gogoniant tra'gwyddol i'w dewis o flaen holl olud y byd hwn. Pregeth Angladd, a bregethwyd ar farwolaeth y diweddar wir anrhydeddus a pharchus Arglwyddes Selina, Iarlles o Huntingdon; ac a bregethwyd o flaen yr Eglwys yn Heol-Jewin, yn Llundain. Ar ddydd Sul, Gorphenaf y 17. 1791. Gan y Parchedig T. Priestley, gweinidog y ddywededig eglwys, ac awdwr yr efengylaidd Feibl Teuluaid. A gyhoeddwyd ar ddymuniad, ac a gyfieithwyd gan Edward Barns.

Machynlleth: Argraphwyd, ac ar werth gan Titus Evans.'

THEOPHILUS PRIESTLEY ydoedd frawd i'r Dr. Joseph Priestley, yr enwog Undodydd, ac yn weinidog ymneillduol Presbyteraid fel yntau; ond yn hollol wahanol ei olygiadau i'w frawd ar Berson a Marwolaeth Crist, yn 'efengylaidd.' Wedi ei farwolaeth ef, syrthiodd y gynulleidfa yn Heol Jewin, trwy ddylanwad ei olyddion, i'r un cyfeiliornadau ag ereill o'r corff hwnw, yr hyn a wywodd y gynulleidfa agos i ddiddymdra; a darfu i'r rhelyw o'r ymddiriedolwyr werthu y capel i'r Wesleyaid Seisoneg rai blynyddau yn ol, y rhai a'i helaethasant gryn lawer.

12. 'Hanes Ferr o Fywyd Howell Harris, Yscwier; a dynwyd allan o'i Ysgrifeniadau ef ei hun. At ba un y chwanegwyd Crynobeb byrr o'i Lythyrau o'r Flwyddyn 1738, hyd y Fl. 1772.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCII. (Pris Swllt.)' [12plyg: 218 tudalen.]

Y mae i hwn '*Elegy*' (=Marwnad) i Howel Harris, gan 'Jane Cave,' yr hon oedd yn un o 'deulu Trefecca,' yr hon ydoedd yn ferch i John Cave, awdwr y llyfr canlynol:—'An Epistle to the Inhabitants of

* Wood's *Athen. Oxon.* vol. i. p. 776.

Gillingham, in the County of Dorset, wherein is a Looking-glass for the faithfull to Shew whether their names were written in the Lamb's Book of Life, before the Foundation of the World: With a Variety of . . . typical of Jesu's Blood: Never before Published. By John Cave, Glover of Brecon. Wherein are Instructions for the Ignorant: Milk for Babes, Stronger Meat for Young Men and Fathers: and a Death warrant for the formal professor and careless Sinner. Begun Nov. 19th. 1752 in Gillingham my Native Town, owing to a hot persecution for receiving Ministers to my house and finished lately in Brecon. And has been much approved of by many Eminent Divines who for several years have frequented my house there. Brecon Printed for the Author by E. Evans. 1781. (Price two Shillings an Sixpence).’ Ymddengys y daeth yr awdwr i Aberhonddu, ac a sefydlodd mewn masnach fel menygwr. Pan oedd yno, efe a gafodd le fel cyllidydd, ac a sefydlodd yn Nhalgarth, lle yn fuan y dychwelwyd ef dan weinidogaeth Howel Harris. Efe a briododd, ac a roddodd i fyny y gyllidiaeth, ac ail sefydlodd yn y gorchwyl y dygwyd ef i fyny iddo yn Gillingham; ond o blegid ei fod yn ddyn crefyddol, ac yn derbyn y pregethwyr Methodistaidd, efe a erlidiwyd oddi yno, ac a ymsefydlodd eilwaith yn Aberhonddu.*

13. ‘Tafol Gywir i bwysu Sosiniaeth: neu Atteb i Lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dan yr enw Appel at Broffeswyr difrifol, &c. Gan y Parchedig Peter Williams, gynt Curad Eglwys Gymmun.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Daniel, yn Heol-y-Farchnad. M,DCC,XCII.’

14. ‘Coffadwriaeth o Farwolaeth Mr. Josiah Evans. Gan George Rees.

Trefecca; Argraphwyd, M,DCC,XCII.’

15. ‘Dirgelwch Duwioldeb: neu Athrawiaeth y Drindod: wedi ei datguddio mewn dull eglur a chynnefin, i'r Diben o wneuthur Egwyddorion Crefydd Crist yn hyfryd, ac yn flasus, i bob Enaid duwiol, yn ddirgel ac ar gyhoedd. Gan y Parchedig Peter Williams.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel yn Heol-y-Brenin. M,DCC,XCII.’

16. ‘Ymddiddanion rhwng Methodist Uniawngred ac un camsyniol. Y trydydd argraphiad.†

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Daniel. M,DCC,XCII.’

* *Llythyr J. Joseph, Yswain.*

† Gwel rhif 12, d.f. 1750.

Ymddengys mai gwaith y Parch. D. Rowlands, Llangeitho, yw y llyfr uchod, yr hwn sydd yn llyfran o ychydig ddalenau.

17. 'Llythyr y Gymmanfa yn y flwyddyn 1792.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel.'

18. 'Coffadwriaeth o farwolaeth y Parch. David Jones, Dol-goch, gweinidog yr efengyl, gynt o Bont-y-pool, ac yn ddiweddar o Eglwys-y-Graig, Castellnewydd yn Emlyn. Yr hwn a hunodd gyda'i Dadau, Ionawr 24, 1792, yn 51 Mlwydd o'i Oed. A gyfansoddwyd yn Paris, Ffrainc. Gan y Parchedig Morgan Rees. Yr ail argraphiad. At ba un y chwanegwyd ychydig o Bennillion ar yr un achos, gan Mr. Joseph James, sir Benfro.

Trefecca, Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,XCII. Pris Ceiniog.'

Y Morgan Rees uchod oedd golygydd y 'Cylchgrawn.'

19. 'Coffadwriaeth o farwolaeth y Parchedig Mr. David Jones o'r Ddol-goch, yn sir Aberteifi. Yr hwn a fu yn Weinidog ffyddlon yr Efengyl yn Pen-y-Garn, wrth Bont-y-Pŵl, yn Sir Fynwe, nes cael ei symmud trwy Drefn Rhagluniaeth i'r Graig, yng Nghastell-Newydd, yn sir Aberteifi; lle y bu ef yn llafurus a llwyddiannus, yn cyd-gynnal y Weinidogaeth gyd a'r Parchedig Frawd Mr. John Richards, ne's cael ei drosglwyddo gan Angau i Fyd arall, er colled i Sion, ac Ynnill iddo ei hun, Ionawr 24, yn 51 oed, yn y Flwyddyn 1792. A gyfansoddwyd gan Dafydd William.

Caerfyrddin: I. Daniel, Heol y Brenin.'

20. 'Galarnad er Coffadwriaeth am y Parchedig Mr. David Jones, o'r Ddol-goch, yn sir Aberteifi. Yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn mewn tawelwch, Ionawr 24, 1792, yn 52 oed. Gan Maurice Jones.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel.'

Gweinidog y Bedyddwyr ydoedd Mr. Dafydd Jones; ac ymddengys ei fod yn barchus iawn gan ei frodyr; canys dyma dri gweinidog yn cyfansoddi galarnadau am dano. Yr olaf oedd frodor o Langollen, ac yn weinidog ym Merthyr Tydfil y rhan olaf o'i oes.

21. 'The History of the Boroughs of Great Britain.

London, 1792,' 3 vols. 8vo.

22. 'Carnarvonshire. A Sketch of its History, Antiquities, Mountains, and Productions.

London. MDCXCII.'

Awdwr y llyfr hwn ydoedd y Parch. Nicholas Owen, Person Bottwnog a Mellteyrn, yn Lleyrn, yn y sir uchod.*

23. 'Observations on the River Wye, and several parts of South Wales, &c. Relative to Picturesque Beauty. 1792.'

24. 'Cyflafan y Beirdd: gan Robert Williams o Eifionydd. Y Gwir yn erbyn y Byd.

Yn Llundain y cyhoedded, ac ar werth gan yr Awdur; gwerth 6^c. [8plyg.]

[Ni chynnwys ond 8 tudalen. Nid oes dyddiad wrth y gwaith; ond y dywedir mewn nodyn ar waelod y tudalen cyntaf o gorff yr Awdl:—'Testyn i Eisteddfod Dinbych, B.A. 1792, gan Gymdeithas y Gwyneddigion. I'r Awdl hon y barnwyd yr Ariandlws.' Y mae yn dra chyffelyb gan hyny mai yn y flwyddyn hon yr ymddangosodd. Yr Awdwr ydoedd ROBERT AB GWILYM DDU, yr hwn a aned yn 1767, ac a fu farw yn 1850. Ni cheir mo'r awdl hon yng ngwaith y bardd, a elwir 'Gardd Eifion,' Dolgellau, 12plyg, 1841.]

25. 'Appel at Broffeswyr Difrifol a Diduedd Cristianogrwydd; ar y pynciau canlynol; sef, I. Yr ymarfer o reswm mewn pethau crefyddol. II. Gallu dyn i wneuthur ewyllys Duw. III. Pechod gwreiddiol. IV. Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth. V. Duwdod Crist. VI. Cymmod am bechod trwy farwolaeth Crist. Yn Saesnaeg Gan J. Priestley, LL.D. &c.'†

26. 'Y Catecism; hynny yw, Athrawiaeth i'w dysgu gan bob un cyn ei ddwyn i'w Gonffirmio gan yr Esgob, gyda Thestunau Ys-grythyrol, perthynol i hynny. Yr ail argraphiad.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-Farchnad. M,DCC,XCII.'

27. ¶ 'Ymborth ar Ddydd-ympryd: neu Ychydig o Resymmau prydlawn tu ag at wasanaeth y Bobl ddaionus hynny ag sydd yn credu ym mhriodoldeb ac effaith Ymprydiau Cyhoedd. Gan William Richards, M.A. Aelod o Gymdeithas yn Pensylfania tu ag at Annog yn y Blaen Ddiddymmiad Caethiwed. Argraphwyd tros y Cymry uniaith.'

28. 'Farther Observations, on the Discovery of America, by Prince Madog ab Owen Gwynedd, about the Year 1170. Containing the Account given by General Bowles of the Creek or Cherokee Indians, lately in London, and by several others, of a Welsh Tribe or Tribes of Indians, now living in the Western parts of North America. By John Williams, L.L.D.

* Gwel rhif 15, d.f. 1777.

† Gwel rhif 12. I hwn y mae hwnw yn atebiad. Cafodd hwn hefyd ei ail argraffu ym Merthyr Tydfil, yn 1812.

London: Printed by J. Brown, at the Printing-Office, Fair Street, Horsley-Down, and Sold by White and Sons, Fleet Street, J. Johnson, St. Paul's Church Yard; E. and T. Williams, No. 13. Strand; Owen, No. 168, Piccadilly; J. Ross, Carmarthen, and Eddowes, Shrewsbury. M,DCC,XCII.*

29. 'Marwnad Dafydd Harries, o Langwm, o blwyf Llanbedr, yn Sir Benfro; Yr hwn a ymadawodd â'r Byd hwn yn Flwyddyn 1792. Gan Thomas Dafydd.

Caerfyrddin, Argraphwyd tros yr Awdwr gan J. Daniel, yn Heol-y-Farchnad isaf.'

30. 'Ychydig Eiriau ar Ddull Marwnad i Mr. David Morris, Gweinidog yr Efengyl, o Blwyf Troed-yr-aur; Yr hwn a hunodd yr 16 o Fis Medi 1791. A gyfansoddwyd gan Mary Rowlands, o Blwyf Penbryn.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst, M,DCC,XCII.'

[Prydyddes yn ol braint a defod urdd Elis y Cylchwr ydoedd Mari Rolant; ac nid oes hanes iddi gynnyg gwasanaethu ei chydwladwyr trwy gyfrwng y wasg, ond y tro hwn yn unig. Ni welodd yr ysgrifenydd mo'r farwnad hon; ond clywodd un a adwaenai yr awdures, yn adrodd rhanau o honi, flynyddoedd maith yn ol; eithr y cyfan, braidd, y mae yn ei gofiaw o honi ac am dani ydyw, bod y geiriau *hon a trwm* yn cael eu harferyd i gyfodli mewn rhyw gongl neu gilydd o honi. Yr oedd Mari Rolant yn gymmydoges i Dafydd Morris, yn ddysgybles iddo, yn fawr ei pharch o hono, ac yn ddwys ei galar ar ei ol: ond ychydig oedd yr hen ferch wledig hon yn ei feddwl, ei bod, wrth lunio ei llinellau diaddurn, yn palmantu y ffordd i gael tragywyddoli ei henw yn *Llyfryddiaeth y Cymry* !]

31. ¶ 'Llythyr Cymmanfa yr Independiaid.

Caerfyrddin.'†

32. ¶ 'Cri Carcharorion dan farn Marwolaeth, &c. Gan D. Davies, Castell Hywel.

Caerfyrddin.'†

33. ¶ 'Gweddill Pabyddiaeth . . . Cyfaill i'r Gwirionedd.

Caerfyrddin.'†

34. ¶ 'Rhai Pennillion ar Farwolaeth Jos. Jones.'†

35. ¶ 'King & Government—a Discourse. By Thos. Davies, Rector of Coyty.

Carmarthen.'†

36. ¶ 'Patterson's Books of Roads in England and Wales. 1792.'†

* Gwel rhif 7, d.f. 1791.

† *Ysgrif* Mr. B. Davies.

37. 'Songs of the Aboriginal Bards of Britain. By George Richards, A.M. Fellow of Oriel College, Oxford.

Oxford: Sold by J. Cooke, &c. M DCC XCII.'

38. 'General View of the Life and Writings of the Rev. David Williams. By Captain Morris. 1792.' 8vo.

DAVID WILLIAMS a anwyd ger Aberteifi, yn 1738. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn y Coleg Presbyteriaidd yng Nghaerfyrddin, gyda golwg ar fod yn weinidog ym mhilith yr enwad hwnw. Wedi gadael y coleg, efe wasanaethodd gynnulleidfa yn Frome, yng Ngwlad yr Haf, ac wedi hyny cynulleidfa luosocach yn Ecseter; ac aeth oddi yno i Highgate, lle y dechreuodd ar ei orchwyl fel awdwr, yn 1770, pan nad oedd eto ond 32 oed, trwy lythyr at Garrick y chwareuydd. Canlynodd hyny gan un neu ddau o weithiau ereill, pan yn 1773, wedi rhoi i fyny ei weinidogaeth, yr ymgymmerodd â dysgu ieuenctyd, ac yr ysgrifennodd ar ddysgeidiaeth. Dywedir iddo hefyd y pryd hyn goffeidio egwyddorion anffyddiaeth i ryw fesur. Ysgrifennodd lawer o weithiau poblogaidd yn yr oes hono ar wladysidiaeth, y rhai a gyfieithwyd i'r Ffrancaeg. Efe ydoedd sylfaenydd y Drysorfa Lennyddol, i roddi cynnorthwy i awdwyr mewn cyfyngder, yn 1789. Bu farw Mehefin 29, 1816, yn 78 oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Ann, Soho, Llundain.*

39. 'A Picturesque Guide to the Local Beauties of Wales, and the Marches, interspersed with the most interesting Subjects of Antiquity in that Principality. By James Baker. Assisted by Gentlemen of great Scientific Learning and Knowledge. Vol. I.

London, Printed by Griffiths and Horton, &c. M.DCC.XCII.' [4to.]

Dywedir mai y gyfrol uchod yn unig a gyhoeddwyd, er, y mae yn debyg, fod gan y rhif 24 y flwyddyn hon ryw berthynas â hwn.

40. 'The Fair Pilgrim, a Poem translated from the Welsh.' 12mo. 1792.

Y cyfieithydd ydoedd Edward Williams (*Iolo Morganwg*). [Cyfieithiad o un o ganiadau Dafydd ab Gwilym i Forfydd ydyw.]

41. 'Letters from Simkin the Second to his Dear Brother in Wales, containing an Humble Description of the Trial of Warren Hastings. With several Letters in Answer from Simon, Aunt Bridget, and Shenkin. 1792.'

Rhyw fath o wawd ar y Cymry ydyw, a lled drwsogl hefyd.

* *Cambrian Register*, iii. p. 529, &c.

42. ¶ 'The Practice of the Great Sessions in South Wales. By Rich. Foley. 1792.' 8vo.

43. 'The Voyage of Life. By D. Lloyd. 1792.' 8vo.

Yr awdwr ydoedd ficar Llanbister, yn sir Faesyfed. Efe a gyhoeddodd hefyd yr unrhyw yn 1812, gyda'r enw chwanegol o 'Characteristics of Men, Manners, and Sentiments.'

44. ¶ 'Letter to the Bishop of Landaff, containing Remarks on his Lordship's Charge to the Clergy of Glamorgan. 1792.'

Yn y Siars uchod darfu i'r esgob, yr enwog Dr. Richard Watson, yr hwn oedd yn rhyddfrydwr penderfynol yn ei syniadau gwladol, dramgwyddo yr offeiriaid yn fawr trwy lefaru yn erbyn y 'Test and Corporation Act,' a chanmol y Chwyldroad yn Ffrainc.

45. ['Travels of Rev. Thos. Lloyd Watkins, Pennoyre.' 2 vols. 8vo.

Yr awdwr ydoedd dad y diweddar Mr. Vaughan Watkins, A.S., Penaur, ger Aberhonddu.]

1793.

1. * 'Athrawiaeth y Drindod mewn Tair Pregeth: I. Ar Person Crist yr Immanuel. II. Ar Bersonoliaeth a Duwdod yr Yspryd Glân. III. Ar Wahaniaethol Bersonau y Tad y Mab a'r Yspryd Glân: Ynghyd ag Attebiad i rai Gwrthddadleuon. O Gasgliad B. Jones.

Machynlleth: Argraphwyd gan Titus Evans. M,DCC,XIII. [Pris chwe'cheiniog]. [12plyg: 96 tudalen.]

BENJAMIN JONES oedd fab i rieni crefyddol, aelodau o'r Eglwys Sefydledig, ag oedd yn anneddu yn Nhrecyrn Fawr, ym mhlwyf Llanwinio, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Medi 29, 1756. Gan y bwriedid ef yn weinidog i'r eglwys hono, dodwyd ef o dan ofal dysgeidiol offeiriad Llanddewi Felfre, yn sir Benfro, lle y dangosodd alluoedd cryfion mewn cynnyddu ei wybodaeth ieithyddol, a changenau ereill. Ond ennillwyd ei feddwl i ymuno â'r Ymneillduwyr yn Henllan; ac wedi dechreu arferyd ei ddawn yn gyhoeddus, aeth i Athrofa Ymneillduol Abergafenni, dan ofal y Dr. B. Davies. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar gynulleidfa o Ymneillduwyr a gyfarfyddent ym Mhant y Creuddyn, sir Abertêifi, Mai 25, 1779, pan oedd yn 23 oed. Ym mhen tua thair blynedd symmudodd i Ros y Meirch, yn sir Fon; ac yn 1798 i Bwllheli, lle y treuliodd weddill ei oes. Cyhoeddodd draethawd arall yn nechreu y ganrif hon o'r enw 'Ffynhonau Iachawdwriaeth; neu Amddiffyniad o Athrawiaethau Gras: sef, byrr Attebiad i Lyfr a elwir Traethawd ar Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth; ac Helaethder y Prynedigaeth Crist'nogol. Gan B. Jones, Gweinidog yr Efengyl. Pris Swllt

mewn Papur Glas. Caernarfon: Argraphwyd gan T. Roberts.' 'Caeaugwnion, 23d. o Fawrth. 1805.*'

2. 'Sylwadau ar Draethawd a elwir Undeb Crefyddol,† neu Rybudd yn erbyn Schism, &c. Mewn ffordd o Lythyr at yr awdwr o hono: Yn dangos Ddarfod iddo, yn y Traethawd hwnnw, gondenio amryw Byngciau o Athrawiaeth a amddiffynnir gan y Bibl, a chan Erthyglau a Homiliau Eglwys Loegr; ym mha un y mae efe yn proffesu ei fod yn Weinidog; ynghyd a phrawf o'i gam-farn ar y bobl a elwir Methodistiaid, &c. Gan Thomas Jones.

Llundain, Argraphwyd gan Vaughan Griffiths. 1793.' [12plyg.]

Y mae iddo raganerch 'At y Darllenydd,' wedi ei arwyddo a'i amseru 'T. J. Penuchaf, gerllaw Caerwys, Gorphenhaf, 12fed, 1793,' lle yr oedd yr awdwr yn cartrefu y pryd hyny.

3. 'Cyngor i'r Cymry, mewn deuddeg o bennodau, &c. Gan Morris ab Robert, o'r Bala.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCIII. [Pris chwe' cheiniog.]'

Yr oedd MORRIS AB ROBERT yn fardd gweddol yn ei oes, ac y mae rhyw nifer o'i ganiadau ym 'Mlodeugerdd Cymru.†' Un tro pan ddigiwyd ef gan hen wrachod y chwedlau, yn nhref y Bala, gofynodd boneddwr iddo am helynt y dref, atebodd yntau ar ganu yn ebrwydd fel hyn:—

'Y Bala, lle baw'n y byd,—drwy gilydd
Drigolion gwenwynllyd;
Llawn bariaeth, afiaeth hefyd,
Y glapiog gêr sy'n glep i gyd.'§

Dro arall, yn ffair Galan Gauaf Ffestiniog, efe a welai filwr ar genad ymabsen, ac yr oedd yn ddiwrnod oer iawn, ac efe a ganodd fel yma:—

'Ffestiniog, lle creigiog crog—ddu anial
I ddyinion annwydog;
Na weina cledda' lle clog,
Na phais deneu'n Ffestiniog.'

Clochydd Llanfihangel y Gwynt, wrth gyfarch un oedd yng ngefail Llwydiarth, gan ei hysbysu am ei golled am ei gwd a'i fwyd, a adawsai allan tra y bu yno, a ddywedai:—

'Cychwynwch, rhedwch mewn rhoch,—o'r dafarn,
Lle difyr a welsoch;
Mae'r hyll mawr'r ol colli moch,
Bwt o faedd, wedi byyta feddoch.'

* *Hanes yr Ymneilldwywr*, gan D. Morgan, t. 256-59.

† Gwel rhif 7, d.f. 1792.

‡ *Blodeugerdd*, t. 96, 175, 438, 453, 474.

§ *Y Brython*, 1860, t. 265.

Atebodd Morris ab Robert fel hyn :—

‘Cychwynaf, rhedaf o rwyd—y dafarn,
Lle difyr a welwyd ;
Yn Llwydiarth y'm colledwyd—
I faetio baedd am fwyta'm bwyd.’*

Un o'r Ymneillduwyr perthynol i gynnulleidfa Ymneillduol Mr. Baddy, o Ddinbych, ydoedd, a merch iddo ef ydoedd gwraig Mr. John Evans, o'r Bala, cyfieithydd ‘Primitive Physic’ Wesley. †

4. ‘Y mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gysson a'r Ysgrythyr.—Pregeth a bregethwyd o flaen Cymmanfa o Weinidogion yn Ringwood, Gorphenaf, 29, 1788. Gan y Parch. David Bogue o Gosport. Wedi ei chyfieithu o'r ail argraffiad yn Saesnaeg, a'i chyhoeddi er lles i'r Cymry. Gan y Parch. Lewis Rees. At ba un y chwanegethwyd Rhai Hymnau ar destynau efengylaidd, gan E. ap Jago ap Dewi.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross, yn Heol Awst. 1793.’

Y Dr. BOGUE oedd fab i John Bogue, Ysw., o Holydown, yn sir Berwic, yn Scotland. Cafodd ei addysg yn Edinburgh, lle y cyrhaeddodd ei A.C., gyda bwriad i fod yn Weinidog yr Eglwys Bresbyteriaidd Sefydledig yn Scotland. Cafodd drwydded gan yr Henaduriaeth, a dechreuodd bregethu yn 1772. Ond dewisodd Annibyniaeth, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn Gosport, lle y bu yn llafurio am 50 mlynedd. Efe oedd un o sylfaenwyr Cymdeithas Genadol Llundan, ac athraw y myfyrwyr cenadol am flunyddau. Bu farw yn Brighton yn 1825, yn 77 oed. ‡

5. ‘Cylchgrawn Cymraeg. Neu Drysorfa Gwybodaeth ; rhifyn cyntaf. Pris chwe' cheiniog. Am Chwefror, 1793.

Trefecca : Argraffwyd yn y flwyddyn 1793.’

[Dalen gyntaf y rhifyn cyntaf o'r Cylchgrawn hwn a saif fel hyn :—

‘Rhi. I. Cylch-grawn Cymraeg ; Neu Drysorfa Gwybodaeth. Rhifyn Cyntaf, Pris Chwe cheiniog. Am Chwefror 1793. Yn cynwys y pethau canlynol.’ [Yna y canlyn cynnwysiad y rhifyn.] ‘Y Gwir yn erbyn y Byd.—Na ymddiried i'th fyw, ond i Dduw a'i ddisgyblion.—Talisyn.

Trefecca : Argraphwyd yn y Flwyddyn 1793.’

Cynnwysa 56 tudalen Splyg. Daeth yr ail rifyn allan am fis Mai, 1793 ; ac y mae ei ddalen enwol yn y wedd ganlynol :—

‘Rhifyn II. Cylchgrawn Cymraeg. Am Mai, 1793.—Yn cynnwys y pethau canlynol.’ [Y rhai a ganlynant, fel o'r blaen, mewn dwy golofn, ac yn cynnwys rhyw drigain o wahanol erthyglau.] ‘Y Gwir yn erbyn y Byd.

* *Y Brython*, 1860, t. 269-70.

† *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i. t. 485 ; gwel hefyd rhif 2, d.f. 1752.

‡ *Congregational Magazine*.

Trefecca : Argraphwyd. Ac ar werth gan J. Daniel, ac J. Ross, Caerfyrddin : Titus Evans, Machynlleth : Richard Williams, Amlwch : Robert Owens, Caernarvon : Cadwaladr Jones, Aberystwyth : Thomas Miles, Merthyr Tydfil : Thomas Rees, Caerdydd : John Philips, Aberteifi : Owen Rees, Bristol : I. Owen, Piccadilly, ac E. Williams, Strand, Llundain : Hugh Evans, Nevyn, a chan lawer eraill trwy Gymnru.'

Y Cylchgrawn hwn a elwir yn gyffredin, 'Cylchgrawn Morgan Rhys,' o blegid mai Morgan Rhys, neu Morgan ab Ioan Rhys, ydoedd ei olygydd. Daeth allan bum rhifyn o hono, pryd y rhoddwyd ef i fyny o ddiffyg cefnogaeth. Argraffwyd y rhifyn olaf, nid yn Nhrefecca, ond gan Ioan Daniel, yng Nghaerfyrddin. Canfyddir mai cyhoeddiad albanol neu drimisol ydoedd.]

6. 'Urbania, neu Grefyddol Ddadleuon. Gan John Thomas, Pen y ffordd wen.

Gwrecsam, Argraffwyd gan R. Marsh. 1793. (Pris chwe' cheiniog.)'

7. 'Cywydd y Drindod. Gwaith Dafydd Ionawr.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, gan A. Hughes, M, DCC, XCIII.'

300 a argraffwyd o'r Cywydd. Ni werthwyd ond ychydig o gopiau. Ei bris oedd 5s., a bu y bardd yn golledwr trwm ar yr anturiaeth. Gwerthwyd llawer o honynt am y peth a geffid am danynt, a gwnaeth yr awdwr, yn ei lid siomedig, goelcerth o'r gweddill.

DAVID RICHARDS (DAFYDD IONAWR) ydoedd fab i John a Catherine Richards, o Lan y Morfa, ger Tywyn, sir Feirionydd, lle y ganwyd ef yn 1752. Pan yn 14 oed, cymmerwyd sylw o hono gan y Parch. E. Evans (Ieuan Brydydd Hir), yr hwn oedd y pryd hyny yn gurad y plwyf hwnw, ei fod yn fachgen o athrylith, ond bod arno eisieu gwrteithiad; a darbwyllodd ei dad i'w anfon i Ysgol Ystrad Meurig, o dan ofal Mr. Edward Richard, a'r lle yr ennillodd radd dda mewn gwybodaeth. Bu am beth amser mewn ysgol yng Ngwrecsam; ac wedi hyny efe anfonwyd i Rydychain. Ond gan iddo gael ei siomi yno, o blegid llygredigaeth y lle, ni arosodd i gael graddau, a dychwelodd i gynnorthwyo Mr. Tisdale, i Groesoswallt. O Groesoswallt, efe a symmudodd i Gaerfyrddin, yn gynnorthwywr i'r Parch. W. H. Barker, y ficar, yn yr ysgol yno. Bu wedi hyny yn cadw ysgol yn Nhywyn a Dolgellau. Cafodd nawdd yn ei hen ddyddiau gan Mr. Thomas Jones, o'r Ynys Faig, i'r hwn y trosglwyddasai ei holl etifeddiaeth, ar yr ammod o gael noddod a chynnaluaeth yno. Parhaodd yn y teulu hwnw, wedi marwolaeth Mr. Jones, gyda Mrs. Jones, ac wedyn gyda'u mab, Mr. Griffith Jones, yn y Bryn Tirion, ger Dolgellau, lle y bu farw Mai 11, 1827, yn 75 oed.*

8. 'Geiriadur Cymraeg a Saesoneg.—A Welsh and English Dictionary; compiled from the Laws, History, Poetry, Bardism, Proverbs, and other Monuments of the Knowledge and Learning of the Ancient Britons; with numerous and select Quotations to

* Hanes ei fywyd yn gyssylltedig a'i Waith, gan y Parch. M. Williams.

elucidate the Meaning of Words. To which is prefixed, A Welsh Grammar. By William Owen, F.S.A.

London: Printed for E. and T. Williams, Strand. 1793.' [8vo.]

[Y rhan neu'r gyfran gyntaf o Eiriadur y Dr. Owain Pw ydyw hwn. Ni chyhoeddwyd y gwaith, nes y gorphenwyd argraffu y ddwy gyfrol, yn 1803.]

9. 'Prif Ddyledswyddau Cristion, sef Anghenrhaid a Mawrllas Gweddi Gyffredin, a mynych Gymmuno, &c. O waith y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, William Beveridge, D.D. Diweddar Esgob Llan Elwy. Ac o gyfeithiad Edward Samuel.

Caerlleon: Printiedig gan John Fletcher, 1793.' 227 tudalen 12plyg.

Cyhoeddwyd rhan arall yn yr un flwyddyn, wedi ei argraffu yn yr un modd, ond gyda rhai chwanegiadau; ac hefyd llythyr cyflwyniadol i 'Watkin Williams Wynne Esqr o Wynnstay.' Y mae yn dilyn yr ail ran 'Tair o Bregethau, y Gyntaf o waith Archesgob Tillotson, y ddwy olaf o waith yr Esgob Beveridge. Caerlleon, Printiedig gan J. Fletcher.'

10. 'Meddyliau yr Esgob Watson am y Cyfnewidiad diweddar yn llywodraeth Ffrainc, Rhyddid crefyddol, a Hawl yr Ymneillduwyr, wedi eu gosod allan ger bron Gweinidogion Esgobaeth Llandaf, yn yr Ymweliad diweddar, Mehefin 1791.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross. M,DCC,XCIII. [Pris dwy geiniog.]'

RICHARD WATSON, D.D., a anwyd yn Heversham, Westmorland, yn y fl. 1737, ac a gafodd ei ddysgeidiaeth yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Gwnaed ef yn esgob Llandaf yn 1782. Yr oedd yn ysgrifenydd enwog a helaeth. Y mae ei 'Apology for the Bible,' yn cael ei ystyried yn orchestol. Bu farw Gorph. 4. 1816.*

11. 'Cyngor Cristionogol, mewn efengylaidd gariad, at bawb y mae yn perthyn iddynt, &c.

Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr awdwr gan I. Daniel. M,DCC,XCIII.'

12. 'Y Drefn i gynnal Crefydd yn Unol Daleithiau America: ynghyd a Darluniad byr o Kentucky, a rhesymau digonol i gyfiawnhau'r cyfryw sy'n myn'd o'r wlad hon i America, a Chyngor i'r Cymry. Pris 2c. neu 1s. 6c. y ddysen. Gan Morgan ab Ioan Rhys.'

13. 'Dwy Farwnad ar Farwolaeth y Parch. Josiah Evans, o'r Ty'n y Cwm, yn Abergwesyn. i. Gan Sechariah Thomas. ri Gan John Evans.

* Stephen Jones's *Biographical Dictionary*.

Trefecca. M,DCC,XCIII.'

14. 'Pharmacopeia, or Medical Admonitions, English and Welsh, Containing a select body of useful and elegant [?] Medicines, for several disorders incident to the human body. By N. Williams. The first part.

Trevecka: Printed, M,DCC,XCIII. (Price Sixpence.)'

15. 'Llythyr y Gymmanfa yn y flwyddyn 1793.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth yno gan I. Daniel. M,DCC,XCIII.'

16. 'Iachawdwriaeth. Gan Benjamin Francis, A.M.

Caerfyrddin, Argraphwyd, ac ar werth yno gan I. Daniel. M,DCC,XCIII.'

17. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion a gyfarfuant yn y Bala, yn sir Feirionydd, Mai 29, a'r 30, 1793. At Eglwysi yr Ymneillduwyr Protestanaidd yng Nghymru, a elwir yn gyffredin Independiaid.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCIII.'

18. 'Ymddiddan rhwng y Pulpit a'r Ddesg ddarllain.

Liverpool. J. M'Creery, Printer. 1793.'

19. 'The Celtic Remains, originally collected by the late Lewis Morris; augmented and arranged by Walter Davies, of All Souls College, Oxford.

London, E. Williams. 1793.'

[Nid argraffwyd mo hono; ac y mae yn aros mewn llawysgrifen hyd y dydd hwn. Cyhoeddwyd hysbysiad yn ei gylch yng nghysswllt â Gwaith Llywarch Hen, ond ni ddaeth byth allan. Y mae Gwallter Mechain yn un o'i Lythyrau a gyhoeddwyd yn ei *Waith* (cyf. iii. t. 544) yn rhoi y rheswm pa ham nad aeth efe rhagddo i orphen y gwaith a'i gyhoeddi.]

20. 'The Works of Taliesin, a Bard of the sixth century. With a Literal English Version and Notes. By William Owen.

London: E. Williams.'

[Ni chafodd hwn chwaith mo'i argraffu, os cafodd erioed ei ysgrifenu.]

21. 'Awdyl ar Dymhorau y Vlwyzyn, Testyn Cymdeithas y Gwynezigion i Eistezvod y Bala, 1793. Gan Richard Powell, o Ysptyty Ivan.

Llundain: Argrafwyd dan hawl yr Awdur, 1793.' 8plyg.

[Y mae yr 'Awdyl' hon oll drwyddi wedi ei sillebu yn ol llythraeth y Dr. Owain Puw yn yr argraffiad cyntaf o'i Eiriadur; a cheir nodyn ar y pwnc ar y trydydd tudalen, yr hwn yn ddilys a ysgrifenydd gan y Doethor ei hun. Y mae ar y 24 mesur, a chynnwys 28 o dudalennau ar bapyr hynod gryf. Y mae yr ysgrifenydd gyssefin, gyda holl gyfnewidiadau llythraethol y Dr. Puw, ar gadw yn y Gywreinfaf Brydeinig, yn Llundain. Gwr ieuanc gobeithiol oedd yr awdwr; ond yn fuan ar ol cyfansoddi yr Awdl hon, a derbyn yr ariandlws am dani, collodd ei fywyd wrth geisio croesi bryniau Penmachno ar noson dywell, pan yr oedd hi yn bwrw eira. Ar ol ei farwolaeth, rhoddodd ei fam drallodus ei ariandlws i'w gadw i Wallter Mechain.*]

Cafodd awdwr yr awdl hon wobwr o dlws gan Gymdeithas y Cymreigyddion am ei waith fel y goraf yn Eisteddfod y Bala. Cyhoeddwyd hon, ac un arall gan Edward Williams (*Iolo Fardd Glas*), ar draul y Gymdeithas. Nid oes ond ychydig i'w ddywedyd am yr awdwr. Edward Williams ydoedd yn byw yn y Bont Faen, Morganwg, ac yno yn dilyn ei alwedigaeth fel cylchwr. Cyrhaeddodd gryn lawer o wybodaeth hanesyddol o dan radd fawr o anfantais. Cyfansoddodd a chyhoeddodd Eirlyfr o dan yr enw 'Cyneirlyfr,' yr hwn sydd yn brawf o ddiwydrwydd mawr o dan anfantaision o dlodi a diffyg dysgeidiaeth. Cyrhaeddwyd hefyd gasgliad barddonol o'i eiddo. Dysgybl ydoedd i Iolo Morganwg. Bu farw tua'r fl. 1856, yn fwy na 80 oed. Yr oedd Richard Powell yn enedigol o Lanegryn, yn sir Feirionydd. Collodd ei fywyd wrth groesi mynydd Penmachno.†

22. 'Rhesymmau Ysgruthurol i brofi fod Iesu Grist yn Wir Dduw yn gystal ag yn wir ddyn.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross (Gwerthwr Llyfrau, &c.) 1793.'

23. 'Gorfoledd y Gwirionedd: sef hanes Treial Mr. E. Elwall, ger bron y Barnwr Denton, am gyhoeddi Llyfr mewn amddiffyniad o undod Duw, yn Eisteddfod Stafford yn y Flwyddyn, 1726.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. 1792.'

Cyfieithwyd a chyhoeddwyd hwn gan y diweddar T. Evans, Aberdâr, yr Undodiad.

THOMAS EVANS ydoedd fab i Evan a Hannah John, ac a anwyd mewn ty bychan ar dyddyn a elwir Capel St. Silin, ger Brechfa, ym mhlwyf Llanfihangel Rhos y Corn, yn sir Gaerfyrddin, Mehefin 20, 1766. Gwëydd ydoedd wrth ei gelfyddyd. Ni chafodd ond tua blwyddyn o ysgol. Gwnaed ef yn weinidog yr Undodiaid yng Nghwm Cothi, ac wedi hyn yn Aberdâr. Cyfieithodd a chyfansoddodd amrai fân lyfrau Cymreig, gan mwyaf, os nad oll, ar y ddadl Undodaidd, dros yr hyn yr oedd yn amddiffynnydd gwresocaf ei oes. O blegid ei syniadau gwladol yn amser y Chwyldroad Ffrancaidd, bu yng ngharchar ac ar y rhigod. Bu farw Ionawr 29, 1833, yn 68 oed.

* *Gwaith Gwallter Mechain*, iii. 457, 458.

† *Leathart's Origin, &c., of the Guymeddigion Society.*

24. 'Traethawd Byrr ar yr Angenrheidrwydd anhebgorol o Iawn Crist, neu y tueddiad peryglus mewn Sosiniaeth wedi ei ystyried. Gan y Parch. W. Roby, Gweinidog yr Efengyl, Wigan, Lancashire.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst, M, DCC, XCIII.'

Y mae yn ei ragflaenu anerchiad gan y cyfieithydd, 'J. Griffith, Glandwr, Ebrill 12. 1793.' Yr awdwr,

WILLIAM ROBY a anwyd yn Haigh, ger Wigan, yn sir Lancaster, yn 1766. Cafodd ei ddysg yng Ngholeg yr Arglwyddes Huntingdon, yn Nhrefecca, gyda bwriad i fod yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ond efe a ddewisodd Fethodistiaeth yr Arglwyddes hōno. Ac wedi bod yn cyflenwi ei chapelau mewn amryw leoedd, efe a sefydlodd fel gweinidog i gynnulleidfa o Ymneillduwyr yn Manchester. Bu farw yn 1808, yn 42 oed.*

25. 'Poetical Remains of Llywarch Hen, by William Owen. Cyhoeddedig gan Gymdeithas y Cymreigyddion.†

26. 'Tracts Historical and Critical. By [the late Thomas Llewelyn, LL.D.

Shrewsbury: Printed and sold by J. & W. Eddowes. Sold also by Rivington, and Longman, London; Fletcher, Oxford; Merrill, Cambridge; Marsh, Wrexham; Poole and Broster, Chester; and Roden, Denbigh. 1793. [Price Four shillings and sixpence, in boards.]' [8vo.]

[Adargraffiad ydyw hwn o rif 15, d.f. 1768, a rhif 9, d.f. 1769. Cyflwynir ef gan y golygydd, yr hwn ni roddir ei enw, i'r 'Gwir Barchedig Ioan, Arglwydd Esgob Bangor,' i ymdrechiau a haelioni yr hwn y dywedir 'fod Cymru yn ddyledus am yr argraffiad unplyg o'r Beibl Cymraeg a ddaeth allan o Wasg Clarendon yn Rhydychain ar ddiwedd y flwyddyn 1789, i gyflenwi diffygion yr Eglwysi.' Y mae dau draethawd y Dr. Llewelyn wedi eu hargraffu yma yn dlws, ac, yn ol pob ymddangosiad, yn gywir hefyd, ac ar bapyr da.‡]

Cynnwys yr uchod y ddau draethawd a gyhoeddwyd o eiddo y Cymro gwladgarol, Dr. Llewelyn.§ Y waith hon, hwy a gyhoeddwyd gan eglwyswyr; y cyntaf wedi ei gyflwyno i esgob Bangor, a'r ail i 'George, Prince of Wales' (Sior IV); er ei fod yn waith un o'r Bedyddwyr.

27. 'Can Diddarfod; sef Pennillion Addysgiadol, o gyfansoddiaid Ioan ab Gwilym, St. Athan, yn sir Forganwg.

Argraphwyd yn y Flwyddyn 1793.'

28. 'Dwy Farwnad: Y Gyntaf, o Goffadwriaeth am Lewis Ewan, o Lanlligan, Sir Drefaldwyn, Pregethwr yr Efengyl: Yr

* *Congregational Magazine*, vol. xiv. p. 1, &c.

† Leathart's *Origin, &c., of the Gwyneddigion Society*. [Nid ymddangosodd un llyfr o'r fath. Ymddengys mai rhif 7, d.f. 1792, a olygir.]

‡ *Llythyr* Mr. Morris Davies.

§ Gwel rhif 15, d.f. 1768; a rhif 9, d.f. 1769; a hwn yma.

hwn a ymadawodd a'r Bywyd hwn, Medi y 5med, 1792. ei Oed 73. Yr Ail, o Goffadwriaeth am John Price, gynt o Frynengan, yn Sir Gaernarfon; ac yn ddiweddar o Lanidloes, yn Sir Drefaldwyn: Yr hwn a ymadawodd a'r Bywyd hwn, Chwefror 1af, 1793—ei Oed 49.

Machynlleth: Argraphwyd yn y Flwyddyn 1793.'

Y mae Pennill ar y diwedd 'O Gyfansoddiad Ishmael Jones.'

29. 'Natural Evil from God. Being the Substance of a Discourse Delivered at Pen y Bryn Meeting-house, in Wrexham, on the General Fast-day, April 19th 1793. By Jenkin Lewis.

Wrexham, Printed by J. Marsh. 1793.'

JENKIN LEWIS a anwyd yn agos i Gastell Nedd, Morganwg, yn 1749. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn yr Athrofa Ymneillduol yn Abergafenni, a Chroesoswallt, o dan yr athrawon y Doctoriaid Davies a Williams, lle y gwnaeth gynnydd cyfrifol yn yr ieithoedd Groeg a Lladin. Ordeiniwyd ef yn 1785 yn weinidog i gynnulleidfa Ymneillduol yn Llanfyllin, ac wedi hyny symmudodd i Wrecsam yn athraw dilynol i'r Dr. Williams, lle y bu 17 o flynyddau, pryd y symmudodd i Manchester.* Bu farw yn y Casnewydd ar Wysg, sir Fynwy, Awst 11, 1831, yn 71 oed.*

30. 'Amddiffyniad o Benarglwyddiaeth y Tad. Mewn Pregeth a bregethwyd gerllaw Brechfa, yn Sir Gaerfyrddin, Ion. 26, 1792. Gan T. Evans. Pris 2 geiniog a dimau.'†

31. ¶ 'Sylwad Byrr ar y Papur.'

Y papyrau hyn oedd rifres a elwid 'Papurau Achlysurol o ddadl-euon sectaraidd, a phersonol, isel, rhwng y Dr. Richards o Lynn a'r Parch. Joseph Harris (Gomer) o Abertawy.' Y mae yn syn nad yw bywgraffwyr yr enwog Harris yn crybwyll dim am y sarhâd hwnw a daflwyd arno gan yr ysgolhaig o Lynn, yr hwn yng nghyhoeddiad y papyrau hyny ydoedd yn goriselu ei hun, yn fwy na'i wrthwynebydd mwy medrus, er yn llai ei ddysg.

32. 'Hanes Fer am Joseph Tlawd, &c. Ynghyd a Gogoniant y Creawdwr: neu Iachawdwriaeth o flaen Creadigaeth. At yr hyn y 'chwanegwyd Clodforedd y rhai a adwaenant Grist.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol Awst, M, DCC, XCIII.'

33. 'Ychydig o Hymnau Newyddion, ar amryw fesurau. At ba rai y chwanegwyd, Can, o Gyngor i Ieuengctid. Gan Joseph Harris, Castell Blaidd, gerllaw Llangloffan, Sir Benfro.

* *Hanes Crefydd yng Nghymru*, gan y Parch. D. Peter, argraffiad cyntaf, t. 687; *Cofiant* ei Fywyd; *Quart. Mag.* 1831, p. 528.

† Hysbysiad yn niwedd hanes prawf Mr. Elwall.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. M,DCC,XCIII.'

34. ¶ 'Tour through the South of England, Wales, and part of Ireland, made during the Summer of 1791. By E. D. Clarke. 1793.' [8vo.]

Y Clarke hwn ydoedd yr enwog Dr. Clarke y teithydd.

[Y Dr. EDWARD DANIEL CLARKE a anwyd yn Wilingdon, Sussees, ar y 5med o Fehefin, 1769; a derbyniodd ei ddysg yng Ngholeg Iesu, Caergrawnt. Gwedi ymadael â'r brifysgol dechreuodd ar ei deithiau trwy wahanol barthau o Ewrop, Asia, ac Affrica, o'r rhai y cyhoeddodd hanes tra dyddorol mewn amryw gyfrolau. Cyhoeddodd hefyd rai gweithiau ereill. Yn 1808 penodwyd ef yn Broffeswr Mwnofyddiaeth yng Nghaergrawnt. Bu farw yn Llundain, Mawrth 9, 1822, a chladdwyd ef yng Nghapel Coleg Iesu. Y mae casgliad o'i wahanol ysgrifeniadau yn llenwi 11 gyfrol Splyg.]

35. ¶ 'Traveller's Companion from Holyhead to London. 1793.'

36. 'Y Brenin a'r Llywodraeth: neu, y Refoliwsion yn 1688, wedi gwneuthur Ail Refoliwsion yn afreidiol i'r Brutaniaid.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross, yn Heol-Awst. M.DCC.XCIII.'

37. 'Enlarging, Improving, and Regulating the Harbour of Carnarvon, with a list of the Trustees.'

Gweithred seneddol leol gywrain yw hon.

38. ¶ 'Tintern Abbey, Monmouth, Discriptive Account of the Cisterian Order of Monks, and History of Monasteries, &c. By Charles Heath.

Monmouth. 1793.'

1794.

1. 'The Literary Life of the late Thomas Pennant, Esq. By Himself.

London, Printed by B. & J. White.' 4to.

2. ¶ 'Pregeth am y drwg o farnu yn galed am eraill a'u dirmygu. Gan Josiah Rees.

Llundain, Argraphwyd gan V. Griffith, Paternoster row.'

3. 'Drych y Prif Oesoedd, yn ddwy ran. I. Yn traethu am hen ach y Cymry, o ba le y daethant allan, y Rhyfeloedd a fu rhyngddynt a'r Rhufeiniaid, y Brithwyr, a'r Saeson, a'u Moesau cyn troi yn Gristionogion. II. Yn traethu am Bregethiad a chynnydd yr Efengyl ym Mrydain, Athrawiaeth y Brif Eglwys, a Moesau'r prif Gristionogion. Gan Theophilus Evans, gynt Ficar Llangam-march, yngwlad Fuellt, a Dewi, yn swydd Frecheiniog.

Croesoswallt, Argraphwyd gan W. Edwards. M,DCC,XCIV.*

4. 'Cyngor Gamelin, neu Ddyledswydd Brydain : mewn Pregeth ar ddydd Ympryd, Chwefror 28, 1794.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Ross, 1794. (Pris 2d.)'

5. 'Hymnau a Chaniadau Ysprydol. Yn dri llyfr, &c. Gan Isaac Watts, D.D. Ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dafydd Jones, Cyfieithydd y Salmau. Y trydydd Argraphiad.†

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. M,DCC,XCIV.'

Cynnwys y llyfr uchod 238 o dudalenau 12plyg.

6. 'General View of the Agriculture of the County of Pembroke, by Charles Hassall.

London, 1794.' 4to.

[Cyfeirir at y gwaith hwn yn fynych gan y Parch. Walter Davies yn ei 'General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales :' Llundain, 1814, 2 gyfrol 8plyg. Yr oedd Mr. Hassall yn byw yng Nghil Rhiwau, yn swydd Benfro.]

7. 'Yr Athrawiaeth Gatholig o Ddrindod, gwedi ei phrofi trwy ragor nâ chant o Resymmau byrr ac eglur, pa rai a draethir yng Ngeiriau'r Ysgrhythur Lân, a'i chydmaru mewn Dull hollol newydd : Ac a ddosberthir dan y pedwar Titl canlynol, 1. Duwdod Crist. 2. Duwdod yr Yspryd Glân. 3. Drindod o Bersonau. 4. Drindod yn Undod. Ynghyd â Rhai Holiadau, wedi eu chwanegu yma a thraw yn achlysurol, ar rai Ysgrifenywyr ag sydd yn proffesu Athrawiaeth Arius, yn enwedig y Dr. S. Clarke. Gan William Jones, M.A. F.R.S. Person Paston, yn Swydd Northampton, a Gweinidog Nayland, yn Swydd Suffolk. Newydd ei gyfieithu o'r chweched argraphiad Saesoneg, i'r Gymraeg, ac mewn rhyw fesur wedi ei dalfyrru, gan J. Williams.

Trefecca : Argraphwyd yn y flwyddyn M.DCC.XCIV.' [12plyg.]

Cynnwys hwn 96 tudalen 12plyg. Yr awdwr,

'WILLIAM JONES, M.A., F.R.S.' [a anwyd yn y fl. 1726, yn Lowic, yn swydd Northampton. Cafodd ei ddysg yn Ysgol y Siartrws, Llundain, ac yng Ngholeg y Brifysgol yn Rhydychain. Ar ei ymadawiad â'r brifysgol urddwyd ef, a chafodd yn gyntaf guradiaeth Ffinedon yn ei swydd enedigol, ac wedi hyn guradiaeth Wadenho, lle yr ysgrifennodd y gwaith a gofnodir yma ; a chyhoeddodd wedi hyn amryw o weithiau rhagorol ereill. Yn 1764 rhoddas Archesgob Caergaint iddo elbrwyadaeth Bethersden, yng Nghaint, at yr hon wedi hyn y chwanegwyd rheithoriaeth Pluckley. Ar amser ei farwolaeth yr oedd yn gurad parhâus Nayland, ac yn rheithor Paston a Holingborn. Bu

* Ymddengys fod hwn y trydydd argraffiad, gwel rhif 4, d.f. 1716 ; rhif 4, d.f. 1740 ; a hwn yma.

† Gwel rhif 27, d.f. 1775 ; a rhif 17, d.f. 1791.

farw yn 1800. Cynnwysir ei holl weithiau duwinyddol ac athronyddol mewn 12 cyfrol Splyg. Yr oedd yn gyfaill mawr i'r Esgob Horne, awdwr yr Esboniad ar y Salmu; ac yn gaplan iddo; a chyfrifid bod y ddau yn gogwyddaw, o ran eu golygiadau, at Hutshinsoniaeth.]

JOHN WILLIAMS, y cyfieithydd, ydoedd ail fab i'r Parch. W. Williams, o Bant y Celyn, y bardd Cymreig clodfawr. Ganwyd ef Mai 23, 1754. Cafodd gynsail ei ddisgeidiaeth o dan ofal un Mr. Williams, mewn lle a elwir Coed Cochion, a'r hwn a fu wedi hyny yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig yn Llandeilo'r Fan, ac hefyd yn bregethwr teithiol ym mhlith y Methodistiaid Calфинаidd Cymreig. Symmudwyd ef wedi hyny i'r Ysgol Ramadegol yng Nghaerfyrddin, lle y cyrhaeddodd radd uchel mewn dysgeidiaeth, fel y penodwyd ef gan yr esgob yn is-athraw. Gwedi cael hawl i Eglwys Llanfynydd, yn sir Gaerfyrddin, efe a ordeiniwyd yn ddiakon gan y Dr. Warren, yn Abergwili, Hydref 17, 1779; ac yn offeiriad yn 1780. Yn Awst, 1782, cafodd guradiaeth Llanfair ym Muallt, a Llanddewi'r Cwm, yn sir Frycheiniog. Pan oedd yno mabwysiodd egwyddorion Methodistiaeth, a phenodwyd ef gan yr Arglwyddes Huntingdon i lywyddu ei Choleg yn Nhrefecca, lle y bu o'r hanner blwyddyn diweddaf yn 1784; ac wedi hyny am bum mlynedd, sef hyd Ebrill, 1791. O hyn hyd ddiwedd ei oes, llafuriodd fel gweinidog teithiol ym mhlith y Methodistiaid Calфинаidd. Bu farw Mehefin 5, 1828, yn 74 oed.*

8. 'Llyfr Gweddi Gyffredin.

Argraphwyd yng Nghaerlleon, gan. J. Fletcher.'

9. 'Crist Bywyd y Credadyn; sef Pregeth a bregethwyd ar farwolaeth Madam Jones, o Pencerrig, yn Sir Faesyfed, Ar Philipiaid i. 21. At ba un y 'chwanegwyd rhai Hymnau Newyddion. Gan Ioan Tomas, Gweinidog yr Efengyl. Yn awr wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg, ar ddymuniad amryw, gan yr Awdwr.

Caerfyrddin, Argraffwyd dros yr awdwr gan J. Daniel, yn Heol y Farchnad isaf. MDCCXCIV.'

10. ¶ 'Egwyddorion yr Iaith Gymraeg, gan H. a Dafydd Thomas.'

Y Dafydd Thomas uchod ydoedd y Bardd o'r Waen Fawr [*Dafydd Ddu Eryri*] yn Arfon. Yr H. Thomas hwn ydoedd gynghorwr Methodistaidd, o Leyn, ac o blegid ei grefydd a fu yn gorfod ffoi rhag ei erlidwyr i ardal Llanberis, ac i sir Fon, lle y bu farw, yn oedranus iawn.† Llyfr ysgol, neu sillebydd ydoedd; ac y mae yn debyg y gwerthid hwy gan H. Thomas, wrth deithio ar hyd y wlad i gynghori neu bregethu, yn y dyddiau hyny, pan oedd y cyfryw lyfr yn gwbl angenrheidiol.

* *Coffadwriaeth*, &c., gan y Parch. Maurice Davies, Pont y Pwl, 1830.

† *Goleuad Cymru* am Awst, 1823; *Drych yr Amseroedd*, argraffiad cyntaf, t. 110; *Methodistiaeth Cymru*, cyf. ii. t. 133-4.

11. ¶ ‘De Ultimo Judicio : neu Gân am y Farn Ddiweddaf, &c. Wedi ei gyfansoddi a'i gydmaru â gwaith Saesonaeg Mr. B. Francis. Gan M. Williams.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Daniel.'

12. ‘Casgliad defnyddiol o waith amryw awdwyr, wedi cael eu cynnull gan Edward Roberts, Ty newydd, Cefn-y-ddwysarn, gerllaw y Bala.

Argraffwyd yn Ngwrecsam, gan A. Hughes.'

Cynnwysa yr uchod ‘Athrawiaeth i ddysgu ddarllain,’ &c. ; ‘Naw o Lythyrâu Ellis Roberts, y Cowper ;’ ‘Hanes Mr. Richard Brightley ; ac ‘Awdl ar Ddadl y Nefoedd.'

13. ‘An English-Welsh Dictionary, wherein, not only the Words, but also, the Idioms and Phraseology of the English Language, are carefully translated into Welsh, by proper and equivalent Words and Phrases : With a regular interspersion of English Proverbs, and proverbial expressions, rendered by corresponding ones in the Welsh Tongue. By the Rev. John Walters, Rector of Landough, Glamorganshire.

London : Printed for the Author. M.DCC.XCIV.' [4to.]

Dywedir y troes cyhoeddiad y gwaith hwn allan yn fawr gollod fasnachol, trwy gollu rhan fawr o hono mewn llongddrylliad, ac ni chafodd ond ychydig o'r derbynwyr yr holl lyfr. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf yng Nghymru, Mehefin 5, 1770, a'r ddiweddaf yn Llundain, yn 1794.* Cyhoeddwyd ef wedi hyny, yn lled anghywir, yn Nolgellau ; ac yn 1828, gan ei wyres, dan gefnogaeth y Milwriad Hughes, wedi hyny Arglwydd Dinorben.

14. ‘Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards ; Preserved by Tradition and Authentic Manuscripts, from very remote Antiquity ; Never before Published, &c. With a select Collection of Pennillion and Englynion, or Epigrammatic Stanzas, Poetical Blossoms, and Pastoral Songs, of Wales, with English Translations. Likewise, a General History of the Bards and Druids, from the earliest period to the present time : with an account of their Music and Poetry. To which is prefixed, a Copious Dissertation on the Musical Instruments of the Aboriginal Britons. By Edward Jones, Bard of the Prince, native of Henblas, Llandderfel, Merionethshire.

* *Y Brython*, 1863, t. 208.

London, Printed. 1794.*

Nid oedd hwn ond y rhan gyntaf, daeth dwy ar ol hyn, y ddiweddaf yn 1820. Cyhoeddwyd hwynt oll yn 1839, gan Mr. John Parry (*Bardd Alaw*).

15. 'Poems, Lyric and Pastoral. In two volumes. By Edward Williams, Bardd wrth Ffaint a Defod Beirdd Ynys Prydain.

London, Printed for the Author, by J. Nicholas, 1794.'

Cyfrolau bychain 12plyg ydynt, ond yr oeddynt yn werth deg swllt trwy danysgrifiadau. Yr oedd agos holl bendeffigion y deyrnas yn dderbynwyr.

16. 'Llythyr y Gymmanfa yn y flwyddyn 1793.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel.'

17. 'An Historical Account of Ludlow Castle, the Ancient Palaces of the Princes of Wales, and Supreme Court of Judicature of the President and Council of the Welsh Marches. Compiled from Original Manuscripts, &c. &c. With an Appendix. By W. Hodges, Attorney at Law. Sparsa collegi.

Ludlow: Printed and sold for the Editor by W. Felton; Sold also by J. Evans, Paternoster-Row, London. M,DCC,XCIV.'

18. 'Athrawiaeth y Drindod, mewn rhan o Lythyr Cymmanfa oddiwrth Weinidogion a Chenhadon amryw Eglwysi Bedyddiedig, mewn cyfarfod yn Olney, Bucks, yr 28, 29 o Fai, 1776. A ysgrif-enwyd gan y diweddar wir Barchedig Mr. Robert Hall. Ac a gyfieithwyd o'r ail argraffiad Saesonig gan Josuah Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel. M,DCC,XCIV.'

ROBERT HALL a anwyd yn Arnsby, sir Leicester, yn 1764, ac oedd yn fab i Robert Hall, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yno, ac awdwr rhai traethodau poblogaidd ac efengylaidd. Cafodd ei ddysgeidiaeth o dan y Parch. Caleb Evans, ym Mristol [ac wedi hyny ym Mhrifysgol Aberdeen, lle y cymmerodd ei radd o A.C.]. Bu flynyddoedd yn gweinidogaethu i gynnulleidfaoedd y Bedyddwyr yng Nghaergrawnt a Bristol. Cyhoeddodd lawer trwy y wasg, ac yr oedd yn ei oes yn un o'r pregethwyr mwyaf athrylithgar a esgynai areithfa. Bu farw Chwefror 21, 1831, yn 68 mlwydd oed.†

[Rhaid mai Robert Hall yr hynaf oedd awdwr y gwaith hwn; canys nis galleid galw Robert Hall yr ieuaf, yr hwn a fu yn 1831, yn 'ddiweddwr wir Barchedig' yn y fl. 1794; ac nid oedd yr ieuaf o'r ddau Hall ond 12 mlwydd oed yn 1776. Y mae yr awdwr gan hyny wedi rhoddi cofnod bywgraffyddol o'r mab wrth gofrestru llyfr o waith y tad.]

* Ail argraffiad, tybygid, gwel rhif 13, d.f. 1784. Rhoad allan argraffiad yn 1812. Cyhoeddodd yr un awdwr y 'Bardic Museum of Primitive Literature, and other admirable rarities' (London, 1802); 'Lyric Airs' (London, 1810); 'Terpsichorre's Banquet, or Select Beauties of Various National Melodies' (London, 1823).

† Stephen Jones's *Biographical Dictionary*.

19. 'Pneumatics, neu Gwaedd yn Neheubarth a Gwynedd, yn erbyn y gormeswr creulon hwnw, sef Capten Tivor, &c. O gasgliad J. Williams.

Trefecca. M,DCC,XCIV.'

20. 'Pigion o Hymnau a Salmau, &c. O gasgliad Morgan ab Ioan Rhys. Y rhan gyntaf, pris Tair Ceiniog.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Ross a Daniel. 1794.'

21. 'Sylwadau ar y Dirywiaeth mewn Pregethu a Chanu, yng Nghymru. At ba rai y 'chwanegwyd ateb y cyfieithydd, &c.

Nid Preiliaid, Ffeiriaid, neu Fferen—ddylem

Ni ddilyn yn llawen,
Mab Duw, nid Pab yw ein Pen,
Cydbwys i fod ein Cadben.

Gan William Williams, J. P. & V. D. M. Wedi ei Gymreigio gan Morgan ab Ioan Rhys.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Daniel, yn Heol-y-farchnad. M,DCC,XCIV.'

Y llythyrenau ar ol enw yr awdwr a arwyddant ei fod yn ynad heddwch, ac yn weinidog yr efengyl.*

22. 'Can Newydd o berthynas i'r Rhyfel a'r Terfysg sydd y pryd hwn tros ran fawr o'r byd. Gan John Morgans.

Llundain, Argraffwyd.'

23. 'Llythyr Cymmanfa Ddeheuol y Bedyddwyr yng Nghymru, yr hwn a gynhaliwyd yn Olcton, yn 'Sir Henffordd, y 4ydd a'r 5ed o Fehefin, yn y flwyddyn 1794.'

Nid oes enw argraffydd wrth y llythyr Cymmanfa hwn.

24. 'Tabl yn cynnwys Maintioli, Hŷd, Lled, a Rhifedi'r Trigolion, ynghyd a'u hamrywiol grefyddau yn holl Wledydd ac Ynysoedd y byd. Hefyd y mae yn canlyn Ymofyniad i'r angenrheidrwydd o arferyd moddion i ddychwelyd y Paganiaid i wybodaeth o'r unig wir Dduw a'r Iachawdwr Iesu Grist, ynghyd a'r rhesymau sydd ar y Cristionogion i ddiwygio oddiwrth goelgrefydd. Meddyliau Prophwydoliaethol am y cyfnewidiad diweddar yn Ffraingc. Llythyr oddiwrth Wr bonheddig o Paris, yn cynnwys Prophwydoliaethau hynod a gafwyd ar garreg wedi bod o gylch 600 mlynedd dan sylfaen tŷ. At ba un y chwanegwyd, Pregeth ar yr achos o Ryfeloedd, oddiwrth y Barnwyr v. 8.

* Gwel rhif 13, d.f. 1769. [V.D.M. = *Verbi Dei Minister* = Gweinidog Gair Duw, neu G.G.D.].

Caerfyrddin, Argraphwyd dros y cyhoeddwr gan I. Ross. 1794.'

25. 'Annerchiad difrifol i'r Cymry.

Gwrecsam. 1794.'

Y mae dwy bregeth yn gyssylltedig â'r 'Annerchiad' hwn, un gan M. I. Rhus, a'r llall gan John Jones, Ramoth, wedi hyny, y rhai a draddodwyd yng Nglyn Ceiriog, sir Ddinbych, ar yr achlysur o neillduo henuriaid a diaconiaid i eglwys y Bedyddwyr yno.

JOHN JONES, neu J. R. JONES, a anwyd ym mhlwyf Llanuwchllyn, yn sir Feirionydd, Hydref 13, 1765. Dygwyd ef i fyny ym mhlith yr Annibynwyr; ond efe a goffleidiodd egwyddorion y Bedyddwyr, ac a aeth yn aelod, ac wedyn yn weinidog cynnulleidfa Ramoth, yn sir Feirionydd. Yr oedd yn meddu doniau a dealltwriaeth cryf. Efe a fabwysiadodd y golygiadau Sandemanaidd ar drefn iachawdwriaeth, ac ar ordinhadau, gweinidogaeth yr efengyl, a threfn eglwysig, yr hyn a barodd ymraniad mawr ym mhlith y Bedyddwyr yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddodd erthyglau ei ffydd, a darnau dadleuol ereill, yn benaf yn *Seren Gomer*. Yr oedd ym meddu dawn barddonol da, a chyhoeddodd lyfr hymnau helaeth, ei waith ei hun gan mwyaf. Bu farw Gorph. 27, 1822, yn 56 oed, wedi bod 43 mlynedd yn weinidog y gynulleidfa uchod.*

26. 'Marwnad, neu Dduwiol Goffadwriaeth am y Parchedig Edmund Jones; gynt gweinidog yr Efengyl yn Ebenezer a Blaenau Gwent, yn sir Fynwy; yr hwn a ymadawodd o'r Eglwys isod ac a aeth i drigfannau'r gogoniant, ar y 26 o Fis Tachwedd, 1793; yn 91 Mlwydd o'i Oed, wedi bod yn y weinidogaeth 70 o Flynyddau. Gan Rees Lloyd. Ac a argraphwyd ar ddeisyfiad yr Eglwys yn Ebenezer. Ynghyd â Phregeth o eiddo y Parch. E. Jones, yn dangos mawr fudd Duwioldeb.

Trefecca, Argraphwyd yn y Flwyddyn. M,DCC,XIV.'

27. 'General View of the Agriculture of the County of Brecknock, With Observations on the Means of its improvement. By John Clarke, Land Surveyor, Builth. Drawn up for the consideration of the Board of Agriculture and internal Improvement.

London: Printed by J. Smeaton. M,DCC,XCIV.'

28. ¶ 'Tirion Wahoddiad i bob pechadur ddyfod at Iesu Grist. Yr ail argraphiad.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel, yn Heol y Brenin.'

29. 'Sylwedd dwy Bregeth, ar Neillduaeth John Edwards a Thomas Jones i swydd henuriaid; ac Edward Hughes a John Roberts i swydd diaconiaid, yn nhy cyfarfod y bobl, a elwir yn

* *New Evangelical Magazine*, vol. viii. p. 263, vol. ix. pp. 282-7, 322-7.

Fedyddwyr, yn Glynceiriog, Gorph. 2, 1794. Y Bregeth Gyntaf, ar Ddyledswyddau Swyddogion Eglwysig: a'r ail, ar Ddyledswyddau'r bobl, at eu swyddogion.

Gwrecsam: Argraphwyd gan Joseph Tye—1794. Pris Tair Ceiniog.'

30. 'Heroic Elegies of Llywarch Hen. By William Owen.

London. 1794.*

[Rhif 7, d.f. 1792, wedi ei gamgyfleu, ydyw hwn. Ni bu ond un argraffiad o'r gwaith hwnw; ac yn 1792 yr ymddangosodd.]

31. 'Arfogaeth y Gwir Gristion, Gwedi ei gasglu allan o'r bedwar-
edd ran o waith W. Gurnel: Ynghyd â Phregeth fechan, o waith J.
Guise, D.D. Y cyfan yn cynnwys i. Defnyddioldeb gweddi, a'r
angenrheidrwydd i weddio. II. Rhai moddion ac y mae Satan yn
eu harferyd i geisio rhwystro gweddio. III. Yr amryw fath o weddi-
au a ddylai gael eu harferyd. IV. Pa bethau a ddylai gael eu cyn-
nwys, yn bennaf, yn ein gweddiau. V. Pa beth a feddylir wrth
weddio. VI. Yr angenrheidrwydd i wyllo gyda â gweddio. VII. Yr
angenrheidrwydd i ni weddio dros eraill. VIII. Y mawr angenrheid-
rwydd i weddio dros Weinidogion y gair, a pha ham y dylid gweddio
drostynt. Ynghyd â Deuddeg Rheol yn dangos Dyledswydd
Crist'nogion tu ag at eu gilydd. Gwedi eu casglu ynghyd, a'u
cyfieithu, gan W. Thomas, Gweinidog yr Efengyl, yn y Bala.

Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn M,DCC,XCIV. (Pris chwe'
Cheiniog.) [12plyg: 84 tudalen.]

32. ¶ 'The Husbandman's perpetual Prognostication. By. W.
Augustus.

Carmarthen, Printed by J. Ross. 1794.†

WILLIAM AUGUSTUS, awdwr, a detholwr, a chyfieithydd y llyfr hwn,
ydoedd yn byw yng Nghil y Cwm, yn agos i Lanymddyfri. Hwn
ydoedd yr argraffiad cyntaf. Dywedir ar ragddalen y rhai Seisonig
o hono, 'Never before published in English nor in Welsh, in the
Principality of Wales.' Cynnwysa yr argraffiad ddwy ran, y flaenaf
yn Gymraeg, a'r olaf yn Seisonaeg. Y mae gwyneb-ddalen wahanol
iddynt, ond rhifir y tudalennau fel pe baent un llyfr. Blaenorir pob
rhan â rhagymadrodd. Terfynir yr un Cymraeg â'r geiriau hyn:—
'Rhaf o'r pethau hyn a argraphwyd yn Saesonaeg, ac a gyhoeddwyd
yn gyffredinol mewn llyfr a elwir, *A Prognostication for ever made by
Erra Pater, &c.*, a'r llyfr hwnnw sydd hoff iawn gan lawer iawn o'r
Saeson; a phwy bynnag o'r Cymru a hoffant y pethau hyn gwnaent

* *Cambrian Register*, note, p. 23. [Camargraffwyd '1794' yn lle '1792,' yn
y *Cyfeiriad* yn y '*Cambrian Register*,' cyf. i. t. 23.]

† *Ysgrif* Mr. B. Davies, Ysgolfeistr.

yn fawr o honynt, oblegyd ni ddont byth allan ar ol hyn drwy fy llaw i. Y rhan fwyaf o honynt a gyfieithwyd o lyfr Saesonaeg, yr hwn a argraphwyd yn y flwyddyn o oed Iesu 1552, a'r rhai eraill o lyfr a argraphwyd yn y flwyddyn 1608, a'r lleill o lyfr a argraphwyd yn y flwyddyn 1611, ac awdwyr y llyfrau hynny oedd- ynt yn enwi yr hen athrawon, a ysgrifennasant y pethau hyn gyntaf; ac yn gymmaint a bod y llyfr hwn wedi digwydd i'm llaw o dad i dad, tybiais yn addas ac yn ddyledswydd arnaf ei osod allan yn brintiedig, gan hyderu y bydd iddo gael cymmeriad gyd â fy nghyd- wladwyr, yr hyn yw dymuniad eich gwasanaethwr,

Cil-y-Cwm, Mawrth 12, 1794.

WILLIAM AUGUSTUS.'

Dyweda henafgwyr Cil y Cwm bethau anhygoel am awdwr y llyfr dan sylw. Yr oedd *Wil Awst* (canys dyna fel yr enwid ef gan y werin) mor adnabyddus o wyneb y wybren, fel y dywedai yn fynych yr awr y deuai corwynt, gwlaw, eira, &c. Dywedir nad oes neb yn bresennol yn yr ardal hòno yn gwybod mwy ar y gelfyddyd ag y bu *Wil Awst* yn bencampwr ynddi, nag sydd mewn ardaloedd ereill, er bod rhai o'i epil ef yn y gymmydogaeth hòno hyd yn hyn. Nid hir iawn y bu efe byw wedi cyhoeddi y llyfr uchod.*

33. ¶ 'Pigion o Hymnau a Chaniadau. Gan Daniel ab Ioan, yn lle Morgan Rhys. 2 Ran.

Caerfyrddin.†

34. ¶ 'Marwnad . . . Edward Gan M. Rhys.

J. Ross, Caerfyrddin.‡

35. 'Antiqua Restaurata. A Concise Historical Account of the Ancient Druids. Shewing their Civil and Religious Governments, Ceremonies, Groves, Derivations and Etymologies, Categorically deduced; With Biographical Sketches. To which will be annexed, The animated Speech of Caractacus, when sent Captive to Rome. Also, The Remains of Druidical Antiquity, in England, Ireland, Scotland, Wales, and France; illustrated with Copious Remarks, the whole drawn from Sources of respectable Information, and by permission inscribed to the United Lodges of the Most noble and venerable Order of Druids. Bu Jacob des Moulins, P.G.A.

London, printed for the author and sold, by Owen, No 168. Piccadilly; Ryan, No 351 Oxford-Road; and Jones, 6 Little Chapel Street, Soho. 1794.' Veritas opposita Mundo. 8vo.

* *Gohobiaeth* Mr. B. Davies ar yr *Erra Pater*, yn y *Brython*, cyf. i. t. 118.

† [Y mae yn adgof genyf weled y llyfr hwn flynyddoedd maith yn ol. Ar ei ragddalen dywedir—'Gan Daniel ab Ioan, o Abertawe.' Nid wyf yn deall pa beth a olygir uchod wrth ddywedyd ei fod—'Gan Daniel ab Ioan, yn lle Morgan Rhys.' Nid oedd gair o son am Morgan Rhys yn y tylargraff y cyfeirir ato.]

‡ *Ysgrif* Mr. Ben. Davies

36. 'The History of Great Britain, connected with the Chronology of Europe: with notes, &c. containing Anecdotes of the Times, Lives of the Learned, and Specimens of their Works. Vol. I. By James Pettit Andrews, F.A.S.

London: Printed by T. Burton and Co. Little Queen-Street, Holborn. For T. Cadell, Strand. M,DCC,XCIV.*

37. 'Dwy o Gerddi Newyddion. Yn Gyntaf. Ymddiddan rhwng y Dall a'i Arweinydd. Yn Ail. Yn dangos, Trueni y rhai sydd yn Ddeiliaid Ysrydol.

Aberhonddu, Argraphwyd yn y Struet, gan J. Evans. 1794.'

Ar ei ddiwedd dywedir, 'Thomas Edwards a'i Cant.'

38. ¶ 'Tour through Parts of North and South Wales, Sonnets, Odes, and other Poems, with fine Description of Llangollen, &c. By W. Sotheby: With Engravings from Drawings taken on the Spot, by J. Smith. 1794.'

39. ¶ 'General View of the Agriculture of the County of Radnor, With Observations on the Means of its Improvements. By John Clarke, Land-Surveyor, &c. 1794.'

40. ¶ 'Agriculture of North Wales. By George Kay.

Edinburgh, 1794.' 4to.

41. ¶ 'Agriculture of Cardiganshire, from the Communications of Thos. Lloyd, Esq. and the Rev. Mr. Turner. 1794' 4to.

42. ¶ 'Agriculture of Glamorganshire. By John Fox. 1794. 4to.

43. ¶ 'Agriculture of Pembrokeshire. By C. Hassal. 1794.' 4to.

44. ['The English Traveller, a New Historical Survey and Modern Description of England and Wales. By W. H. Dalton.'

London. 1794. 8vo.]

45. ['Gwreiddyn y Matter: neu Hyfforddiad i Wybodaeth y Gwirionedd. A gyhoeddwyd er lles i'r Cymry; sef, I'r diben o wneuthur pethau tywyll yn oleu, a gwneuthyr Crefydd Crist yn hyfrydwch, ac athrawiaeth yr Ysgrythyrau yn fiasus; trwy adnabod Duw; Tad, Mab, ac Ysbryd; yn Dad, yn Frawd, yn Briod, yn Gyfaill, ac yn Ddiddanydd i bob enaid grasol.

Argraphwyd dros P. W. &c. 1794.'

* Gwel rhif 15, d.f. 1795.

'Llyfryn bychan o 12 tudalen, ar ddull holi ac ateb, gan y Parchedig Peter Williams, mewn ffordd o amddiffyniad i'r dyrys-bwnc a fu yn achos o gym-maint o anghysur a gofid iddo ef ei hun, ac i'w frodyr crefyddol, yn enwedig yn y blynyddoedd olaf o'i oes.*']

46. ['Cyfraith Plwyf. Gan Edward Jones.')

Llundain, 1794, 8plyg.

O herwydd difancolli o ddechreu a diwedd y cyfargraff yn fy meddiant, yr unig un a welais o'r gwaith, nis medraf osod i lawr ei enw yn gyflawn. Ar frig y ddalen gyntaf o gorff y llyfr, gelwir ef, 'Holl Ddyledswydd Swyddogion Plwyf.' Yr oedd yn werth tri a chwech o lyfr.

Yr Awdwr, EDWARD JONES, ydoedd wr genedigol o Ynys Fon; o ba herwydd gelwid ef 'Ned Mon' gan ei gyfeillion ym mhllith y Gwyneddigion. Dygwyd ef i fyny yn gynghawsydd, neu ddadleuwr cyfreithiol, ac yr oedd yn aelod o'r Fewnol Deml yn Llundain. Heb law y llyfr hwn, efe a gyhoeddodd 'Index to Records' (rhif 22, d.f. 1795); ac y mae lle i dybied mai efe yw cyfieithydd 'Cicero's Brutus' (rhif 25, d.f. 1770), yr hwn a ymddangosodd, yn ol y Dr. A. Clarke, yn 1776.]

1795.

1. 'Tracts of Powys. By Philip Yorke, Esquire, of Erthig, near Wrexham.'

Hwn oedd cynsail y '*Royal Tribes of Wales,*' a gyhoeddwyd wedi hyn. Yr awdwr,

PHILIP YORKE, a anwyd yn Erddig, ger Gwrecsam, yn sir Ddinbych, yn 1743. Wedi cael parotoad cartrefol da, efe a aeth i Gaergrawnt, lle y cyrhaeddodd ei A.C. Bu yn aelod o'r senedd dros Halston a Grantham, yn olynol. Bu farw yn 1804, yn 61 oed.†

[Yr oedd gan Wallter Mechain law neillduol yn y gwaith hwn. Ymddengys mai efe a gynullodd y rhan fwyaf, os nid y cwbl, o'r defnyddiau, ac na wnaeth Mr. Yorke ychydig ond eu gosod wrth eu gilydd. Fy awdurdod dros draethu hyn yma ydyw un o lythyrâu Mr. Yorke at W. Mechain.]

2. 'Annerch Ieuengtyd Cymru. Yn iv. rhan. Yn y Cyfryw yr amlygir llawer o bethau buddiol i Ddealltwriaeth Dynolryw (yn enwedig i'r Ieuengtyd) mewn perthynas i Wlâd ac Eglwys. I. Areithyddiaeth, (Rhetoric) Yn Cynnwys y gelfyddyd o Ddarllain, Ysgrifennu, Ymresymmu, Barddoniaeth, Cyfraith, â Difnyddiaeth. Edrych tu dalen 1. II. Rhifyddaeg, (Arithmetic) Yn Cynnwys helaethrwydd o Reolau buddiol, gyda Thoriadau Degrannau (Decimal Fractions) Ac athrawiaeth i fesur Tîr, Côed, Meini, Gwydr, Llestri, &c. Edrych tudalen 142. III. Naturiawl Athronddysg, (Natural Philosophy) Yn Cynnwys Natturiaethau, Damweiniau, Priodoliaethau ac Effeithiau: Elfenau, Goruchelion, Metelau, Gemmau â Daeawriaeth (Geography) Sêf hanes pedwar chwarter y Byd, &c. Edrych tu dalen 246. IV. Awyriaeth, (Astronomy) Yn Cynnwys Rheolau i

* *Llythyr* Mr. Morris Davies.

† *Williams's Eminent Welshmen.*

d-leall Cwrs yr Amseroedd, a'r Môr, ac i gwmpasu'r Bŷd, Deioli, Lliwo, Paentio, Garddu, Impio, â Phisygwriaeth, &c. Yn Holiadau ac Attebion. Gan John Thomas.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, gan M. & S. March, 1795. [Pris Hanner Coron mewn papur glâs.] 376 o dudalenau 12plyg.

Gelwid yr awdwr yn 'John Thomas, Pen y Ffordd Wen.'

3. 'The Miscellaneous Repository : neu y Drysorfa Gymmysgedig. Rhifyn cyntaf, pris Chwe' cheiniog, i ddyfod allan yn Chwarterawl; am y chwarter haf, 1795.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Ross. 1795.'

Cyhoeddiad chwarterol Undodaidd ydoedd. Tair rhan yn unig a gyhoeddwyd. Ei olygydd ydoedd T. Evans, Aberdâr.*

4. 'Caniadau Duwiol, o waith Mr. Thomas Lewis, gynt o'r Ynyswen, ym mhlwyf Llanegwad, yn sir Gaerfyrddin; ac, ar yr un amser, o Gastell Hywel, yn sir Aberteifi.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. M,DCC,XCV. [Pris swllt heb ei rwymo.]'

Y mae yn ei ragflaenu 'Cywydd o Ganmoliaeth i Farddoniaeth ardderchog y diweddar Fardd, Thomas Lewis, ynghyd a Rhybudd i'r Darllenydd,' gan 'Dafydd Ionawr.'

5. 'Llythyr Cymmanfa Dde-ddwyreiniol y Bedyddwyr yng Nghymru, yr hon a gynhaliwyd yng Ngroes-y-Parc, yn Sir Forganwg, y 3ydd a'r 4ydd o Fehefin, yn y Flwyddyn 1795. At yr amrywiol Eglwysi perthynol i'r Gymmanfa honno; pa rai ydynt yn cyfarfod yng Nghastell-Nedd, Pen-y-Fai, Nottage, Ystrad-Tyfodog, Croes-y-Parc, Cefn-Hen-Goed, Twyn-Gwyn, Bethesda, Caerlleon, Brynbyga, Pen-y-Garn, Trosnant Blaenau, Llanwenarth, Olchon, Maes-y-Berllan, Llanfair-Muallt, Pentre-Newydd, Dolau, Aberhafhesb, Capel-Scion, ac Ebenezer, yn Merthyr-Tydfil.'

[Nid oes iddo argraffeb; ond dechreu yr Anerch ar y ddalen enwol; ond ceir ar ei ddiwedd—'Trefecca: Argraphwyd yn y Flwyddyn, M,DCC,XCV.' Cynwysa y Llythyr 8 tudalen 8plyg.]

6. 'A History of Baptist Associations in Wales, from the year 1650, to the year 1790, shewing the Times and Places of their Annual Meeting, whether in Wales, London, or Bristol, &c. Including several other interesting articles. By Joshua Thomas, Leominster.

London, 1795.'

* Gwel rhif 22, d.f. 1793.

7. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yn y Mynydd-bach, wrth Abertawe, yn sir Forganwg, Mehefin yr ail a'r trydydd, 1795, at eglwysi yr Ymneillduwyr Protestanaidd yng Nghymru, a elwir yn gyffredin Independiaid.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst, m,dcc,xcv.'

8. 'Caniadau y rhai sydd ar y Mor o Wydr, &c. Y pummed argraphiad, gyda chwanegiad o Hymnau eraill, o waith yr awdwr. Gan y diweddar Barchedig W. Williams.

Trefecca, Argraphwyd yn y flwyddyn m,lcc,xcv.'

Dyna y dull gwallus yr argraffwyd y llythyrenau rhifyddol; ac amlwg yw mai gwall ydyw, ac mai y flwyddyn ydoedd 1795.*

9. 'A Tour to Milford-Haven, in the year 1791. By Mrs. Morgan.

London, Printed for John Stockdale, in Piccadilly. m,dcc,xcv.'

10. 'Datganiad Ffydd, a gafodd ei thraethu yn gyhoeddus gerbron Gweinidogion ac eraill, gerllaw Gwernogau, yn Sir Gaerfyrddin, Medi 11. 1794. Gan T. Evans.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol-Awst. 1795.'

Cyffes Ffydd gweinidog Undodaidd cyntaf y gynnulleidfa Bresbyteriaidd yn Aberdâr, sir Forganwg, ydyw.†

11. ¶ 'Llythyr Cymmanfa y Bedyddwyr, 1795.

Caerfyrddin.†

12. ¶ 'Ystyriaethau o Gyflwr Dyn, yn y Bywyd hwn, ac yn yr hwn sydd i ddyfod. O Waith y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, Jeremiah Taylor, D.D. Gynt Arglwydd Esgob Down a Chonnor: Ac a gyfieithwyd i'r Cymraeg, gan G. Wynn, Offeiriad Llangadwaladr. Yr Ail Argraphiad.

Caerfyrddin, Argraphwyd ac ar werth gan Ioan Daniel, yn Heol y Farchnad Isaf. [Pris Naw Ceiniog.'] [12plyg.]§

* Gwel rhif 14, d.f. 1773.

† Gwel rhif 22 a 30, d.f. 1793.

‡ [Yr un yn ddilys â rhif 5, dan y flwyddyn hon: eithr nid yng Nghaerfyrddin, ond yn Nhrefecca, yr argraffwyd hwn. Y mae cyfargraff digoll o hono yn awr o'm blaen.]

§ Gwel rhif 2, d f 1724.

Y mae enw Christmas Evans* wrth 'At y Darllenydd,' fel cyhoeddydd a golygydd yr argraffiad hwn. Ymddengys mai aelod ydoedd o gynulleidfa Bresbyteraidd Penrhiw; ac y mae yn gydiol englyn gan D. D., neu y Parch. D. Davies, Castell Hywel.

13. ¶ 'The Cambrian Register.

London. 1795.'

['The Cambrian Register, for the Year 1795,' a gyhoeddwyd yn 1796, a dyna'r dyddiad sydd ar ei ragddalen. Hon oedd y gyfrol gyntaf o'r gwaith rhagorol hwnw. Gweler rhif 14, dan y flwyddyn hono.]

14. 'Pedestrian Tour of Wales. By Mr. Hucks. 1795.'

15. 'The History of Great Britain, &c. Vol. I. Part II. M.DCC.XCI.' †

16. 'Tair Gerdd Newydd. Trauhagorol. I. Cerdd o Galonidid i'r Milwyr Gwladychaidd yr ydys yn codi yn y deyrnas hon i gadw'r Porthladdoedd, pa rai a elwir yn gyffredin Militia neu'r Train Band. II. Myfyrdod Duwiol rhwng Dyn ac ef ei hun cyn dydd ar ei wely. III. Ymddiddan rhwng hen Wr, a Llanc ieuangc oedd yn myned i garu: bob yn ail bennill.

Machynlleth, Argraphwyd gan E. Prichard. 1795.'

17. 'Grawn-sypiau Canaan. Neu Gasgliad o Hymnau Mr. William Williams, &c. A gasglwyd yn nghyd gan un sy'n caru llyddiant fforddolion Baca.

Liverpool, Argraphwyd gan J. Gore dros Daniel Jones. 1795.'

Casglwr yr Hymnau hyn ydoedd Mr. Robert Jones, Dinas, Lleyn, gynt Rhoslan. Efe a wnaeth rai cyfnewidiadau yn yr Hymnau, yr hyn a drangwyddodd Fethodistiaid y Deheudir yn fawr, ac yn enwedig teulu Williams Pant y Celyn. O blegid hyny ni arferwyd y casgliad hwn ond ar bulpudau y Methodistiaid yng Ngwynedd. Y cyhoeddydd ydoedd mab y casglydd, yr hwn a fu yn cyfanneddu gryn amser yn Liverpool.

18. ¶ 'A Picturesque Guide thro' Wales and the Marches. Second Edition. ‡ With Additions. By Jas. Baker.

* ['Christ^s Evan. Henfryn, Llangeler,' yw y llofnod ar ddiwedd yr anerch 'At y Darllenydd.' Nid oes un dyddiad wrth y llyfr mewn un man; na dim y gellir gwybod wrtho gyda sierwydd pa flwyddyn yr ymddangosodd; yr ydys wedi bod yn ofalus, fel pe buasai, i ddirgelu amser ei gyhoeddiad. Y mae yn argraffiad pur dda a chywir. Daeth allan argraffiad diweddarach, o wasg Merthyr Tydfil, yn y fl. 1825, 12plyg; a gelwir hwnw hefyd yn ail argraffiad, neu, yr hyn sydd yr un peth, dywedir ei fod yn 'gyhoeddedig yr Ail Waith, gan T. Griffith, a G. Anwyl;' yr hyn sydd yn awgrymu nas gwyddai y cyhoeddwy am argraffiad Crist. Evan o'r gwaith. Gwnaed rhai cyfnewidion yn argraffiad Merthyr; a chynnwys restr y tanysgrifwyr i'r argraffiad cyntaf.]

† Gwel rhif 37, d.f. 1794. Y mae yr wyneb-ddalen yr un oddi eithr yr amser, &c.

‡ Gwel rhif 39, d.f. 1792.

Winchester. 1795.'

Y mae hwn yn dair cyfrol 4plyg, ag ynddo lawer o olygfëydd.

19. 'The Jurisdiction and Practice of the Court of Great Sessions of Wales, with Historical Preface and Index. 1795.'

Y mae yn llawn o ddefnyddiau hanes hen gyfreithiau ac arferion Cymreig, a dull o brofi a dwyn ym mlaen achosion troseddol.

20. ¶ 'Religion in Danger, by the Curate of Snowdon. 1795.'

Dywedir mai gwaith y Dr. C. Symmons yw hwn. Yr oedd ef yn fab i John Symmons, Ysw., o Lanstinan, sir Benfro, ac a anwyd yn Aberteifi yn 1749. Cyhoeddodd amrai weithiau. Bu farw yn y Bath yn 1826, yn 80 oed.

21. ['Gleanings through Wales...By Samuel Jackson Pratt. 4 vols. 8vo.

Ail argraffiad, fel yr ymddengys ; ymddangosodd y cyntaf yn 1766.]

22. ['Index to Records, called the Originalia and Memoranda on the Lord Treasurer's Remembrancer's Side of the Exchequer: extracted from the Records, and from the Manuscripts of Mr. Tayleure, Mr. Madox, and Mr. Chapman, formerly Officers in that Office. Containing all the Grants of Abbey Lands, and other Property, granted by the Crown, from the Beginning of the Reign of Henry VIII. to the End of Queen Ann. Also, Inrollments of Charters, Grants, and Patents, to Several Religious Houses, and to Cities, Boroughs, Towns, Companies, Colleges, & other Public Institutions, from the Earliest Period. Together with Pleadings and Proceedings relative to the Tenures and Estates of the Nobility and Gentry, Commissions to Survey Manors, Lands, & Tenements, and innumerable other matters. In Two Volumes. By Edward Jones, Inner Temple.

London: Printed for the Editor . . . 1795.' Folio.

Llofnodir y cyflwyniad—'Edward Jones. Inner-Temple, July 28, 1793.' Cynnwys gyfeiriadau at amryw leoedd yng Nghymru, ac enwa amryw Gymry. Y mae yn waith dysgedig, llafurfawr, a defnyddiol iawn. Am yr awdwr, cymharer rhif 46, d.f. 1794.]

1796.

1. 'Gogoneddus Ddirgelwch Trugaredd Duw; neu Werthfawr Feddyginiaeth i Eneidiau lluddedig. Wedi ei osod allan mewn Traethawd lle yr agorir dau Ddirgelwch fawr. I. Dirgelwch Rhad Ras dadguddiedig yn yr Efengyl. II. Dirgelwch yr Efengyl yn gynhwysedig yn y Gyfraith. Fe brofir hefyd ynddo, Fod y Gyfraith

Frenhinol yn Rheol Ufudd-dod Efengylaidd. Gyd ag amryw Gyfarwyddiadau i gyflawnu Dyledswyddau'r Gyfraith mewn Modd Efengylaidd. Gan John Bisco; Gweinidog yr Efengyl yn Thomas, Southwark.

Machynlleth : Argraphwyd gan Edward Prichard. M,DCC,XCVI.*

EDWARD PRICHARD ydoedd fab i Edward Prichard, o Lechwedd Einion, ym mhlwyf Machynlleth, yn sir Drefaldwyn. Bu yn dysgu ei gelfyddyd gyda'i ragfla-nydd, Titus Evans. Argraffydd gwael ydoedd. Bu farw yn ieuanc.

2. 'The History of the Parishes of Whitford and Holywell.†

Printed for B. and J. White, Fleet Street. 1796.' [4to.]

Ar y ddalen nesaf ceir—'Resurgam, THOMAS PENNANT. *Downing, April 6th, 2 P.M. 1795.*'

3. 'The History of Monmouthshire. In two Volumes. By David Williams. Illustrated and ornamented by Views of its principal Landscapes, Ruins, and Residences; by John Gardner, vicar of Battersea. Enlarged by Mr. Gardner and Mr. Hill. 1795.'

4. 'Y Geirgrawn: neu Drysorfa Gwybodaeth. Am y Flwyddyn 1796. Yn cynnwys Athroniaeth Naturiol, a Christ'nogol; Daearwriaeth; Wybryddiaeth; Hynafiaeth; Gwybodaeth Eglwysiaidd, a Dinasaid; Athrawiaethau Crefyddol; Bywgraphiadau; Marwolaethau; Newyddion Tramor, a Chartrefol; Chwedlau Neullduol; Caniadau, Emynnau, ac Awdlau Buddiol. Amcanedig i ledu Gwybodaeth, Uniondeb, Cariad, a Heddwch, trwy Gymru. Gan D. Davies. Gwell Gwybodaeth nag aur. Plyg. I.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. Minshull: Ar werth hefyd gan E. Carns, Treffynnon; W. Edwards, Croesoswallt; O. Owens, Caernarfon; J. Ross, ac J. Daniel, Caerfyrddin; a chan bawb Llyfrwerthwyr trwy Gymru; a chan G. Sael, rhif. 192, Strand, Llundain.' [8plyg: 32 tudalen y rhifyn.]

MR. DAVID DAVIES ydoedd enedigol o gymmydogaeth Pen y Graig, ger Caerfyrddin. Bu yn weinidog dros beth amser yn y Fenni, yn sir Fynwy, o'r lle y symmudodd yn 1790 i Dreffynnon,‡ lle y bu yn gweinidogaethu i gynnulleidfa o Ymneillduwyr am ddeng mlynedd.

* Ail argraffiad, mae yn debygol; gwel rhif 2, d.f. 1766.

† Y mae arlun o hen Blasdy Bychton ynddo.

‡ [Yn Nhreffynnon yr ydoedd pan y golygai y 'Geirgrawn;' canys i'r 'Parch. Dafydd Davies, Gweinidog yr Efengyl yn Nhreffynnon' y gorchymmynid i danysgrifwyr at ei gyfieithiad bwriadedig o Esboniad Luther ar y Galatiaid, anfon eu henwau. Nid ymddengys, modd bynag, i'r cyfryw gyfieithiad byth gael ei gyhoeddi.]

Caniataodd i rai erthyglau ymddangos yn y cyhoeddiad uchod oedd yn llawn o bleidiaeth i egwyddorion gwerinol y Chwyldroad Ffrengig; a bu mewn enbydrwydd oddi wrth yr awdurdodau, ac ar ffo am beth amser. Ychydig o rifynau* a gyhoeddwyd o'r 'Geirgrawh.'† Yn 1800 ymadawodd Mr. Davies, a sefydlodd yn y Trallwng.‡

5. 'Yr Egwyddor; neu Ymofyniad i Athrawiaeth yr Ysgrythyrau mewn perthynas i'r unig wir Dduw, a'r Gwrthrych o Addoliad Crefyddol. Gan Theophilus Lindsey, A.M. Wedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg gan Thomas Evans.§

THEOPHILUS LINDSEY a anwyd yn Middlewich [yr Heledd Ganol], yn sir Gaerlleon, yn 1723. Dygwyd ef i fyny gan deulu y Fferrers, yn hytrach Huntingdon, a chafodd elfenau ei ddysg yng Ngholeg yr Arglwyddes Selina Huntingdon. Wedi cyrhaedd ei A.C. yng Nghaergrawnt, cafodd fywoliaeth eglwysig gyfoethog Catterick, yn sir Iorc; yr hon, er hyny, a roddodd i fyny yn 1773, mewn canlyniad iddo goleddu egwyddorion Sosinaidd. Yna efe a ymsefydlodd yn Llundain, lle yr agorodd gapel yn Heol Essecs, Strand, yn yr hwn y gweinyddodd hyd 1798, pan yr enciliodd o'r weinidogaeth. Bu farw yn 1768, yn 85 oed.||

6. 'Marweiddiad Pechod mewn Credinwyr: yn dangos ei Angenrheidrwydd a'r Natur o hono; ynghyd a'r Attebiad i amryw Achosion Cydwybod, ymherthynas i'r unryw. Gan y Duwiol a'r Dysgedig John Owen, D.D. At yr hyn rhagflaenir Byr Hanes o Fywyd a Marwolaeth yr Awdwr, Newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Mwythig: Argraphwyd gan B. Partridge a J. Hodges: yn y flwyddyn M,DCC,XCVI. [12plyg: 132 tudalen.]

Ymddengys fod hwn yn ail argraphiad.**

7. 'Casgliad o Salmau a Hymnau, wedi eu haddasu at Addoliad Cymdeithasol. Gan Josiah Rees.

Caerfyrddin. Argraphwyd, ac ar werth gan I. Ross. 1796.'

Cynnwysa Hymnau o waith un ar bymtheg o awdwyr. Yr oedd-ynt at wasanaeth Presbyteriaid neu Ariaid, a Sosiniaid y Deheudir.

* [Diau na wyddai hyrwyddwyr y greal hwn iawn ystyr yr enw a roddasant ar y cyhoeddiad. Ystyr 'Geirgrawh' yw cronfa neu gasgliad o eiriau, enw mwy priodol ar eiriadur nag ar gyhoeddiad cyfnodol; ac y mae yn ddilys mai *eurgrawh*, neu drysorfa *euraid*, oedd yr hwn a olygid.]

† [Gwelais 9 rhifyn, yn gwneuthur 288 tudalen, o'r cychgrawn hwn. Nis gwn a ymddangosodd chwang; fy nhyb yw iddo derfynu ei yrfa gyda'r nawfed. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ara Chwefror, 1796, a'r 9fed am Hydref, yn yr un flwyddyn. Ei bris ydoedd 4 ceiniog y rhifyn.]

‡ Morgan, *Hanes Ymneillduaeth*, t. 537.

§ Gwel rhif 22, d.f. 1793.

|| Stephen Jones's *New Biog. Dict.*

** Gwel rhif 7. d.f. 1791.

8. 'Arithmetic, neu Rifyddeg. Yn gosod allan, sylfaennau ac ymarferiad Rhifyddiaeth yn eglur, mewn amryw gangheneau; a mesuriaeth yn helaeth: wrth y Lliosogiad Deuddegawl, y Degrannau, a'r Sliding Rule. Gyd a Darluniadau, ac addysgiadau cymmwys i'r unrhyw. Yr Ail Argraphiad.* Gan John Roberts.

Argraphwyd dros y Cyhoeddwr. 1796.'

Mae yn debyg mai yn Nublin y cafodd ei argraffu, lle yr arferai 'John Roberts' (= 'Sion Rhobert Lewys') argraffu ei Almanaciau.

9. 'Pymtheg o Bregethau Byrion: Neu, Sylwiad ar Bymtheg o Destunau Ysgrythurol; A fwriadwyd er mwyn y rhai nad oes ganddynt ond ychydig amser neu dueddiad i ddarllen Traethiadau a fyddo maithach. A gyfieithwyd yn ddiweddar i'r Cymraeg, gan Thomas Jones.

Caerfyddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. M.DCC.XCVI.'

[Cynnwys 24 o dudalennau 12plyg. Y ddalen olaf a gynnwys 'Sylwiad Byr ar Weddi'r Arglwydd: Wedi ei gyfieithu allan o Waith y Parchedig Richard Bernard.']

10. 'Drych y Prif Oesoedd, yn Ddwy Ran, &c. Gan Theophilus Evans, gynt Ficar Llangammarch, Yngwlad Fuellt, a Dewi, yn swydd Frycheiniog.

Croesoswallt, Argraphwyd gan W. Edwards. M.DCC.XCVI.†

11. 'Casgliad o Hymnau gan Joseph Harris.'

Joseph Harris = Gomer.

12 'Drych Ysgrythyrol, neu Gorph o Dduwinyddiaeth: yn cynnwys Eglurhad a Phrawf, o Amrywiol Gangheneau yr Athrawiaeth sydd yn ol Duwioldeb, &c. Gan George Lewis, Gweinidog yr Ffengyl yn Llanuwchllyn. 1796.'

[Bala, 1796, 8plyg.]

GEORGE LEWIS, D.D., a anwyd [ym mhlwyf Trelech], yn sir Gaerfyrddin, yn 1763. Cafodd ei ddysgeidiaeth yn y Coleg Presbyteriaidd yng Nghaerfyrddin, o'r lle y daeth yn weinidog cynnulleidfa yng Nghaernarfon, yn 1796, pan yu 23 oed; ac wedi bod yno naw mlynedd, efe a symmudodd i Lanuwchllyn, yn sir Feirionydd, yn 1785, lle y bu 17 o flynyddoedd, sef hyd 1812, pan y dewiswyd ef yn athraw y Coleg Duwinyddol oedd y pryd hyny yng Ngwrecsam, ac wedi hyny yn Llanfyllin, a'r Dref Newydd; ond yn awr yn Aberhonddu. Bu yn y swydd hono dros ddeng mlynedd. Heb law y

* Gwel rhif 2, d.f. 1763.

† Ymddengys fod hwn yn 4ydd argraffiad. Gwel rhif 4, d.f. 1716; rhif 4, d.f. 1749; rhif 3, d.f. 1794, a hwn yma.

'Gorph o Duwinyddiaeth' uchod, efe a gyhoeddodd Esboniad helaeth ar y Testament Newydd, yn Saith Gyfrol 8plyg. Cyhoeddodd hefyd rai pregethau, yn llyfrynau wrthynt eu hunain; megys, 'Athrawiaeth Etholedigaeth: Wedi ei gosod allan mewn Pregeth ar 1 Thess. i. 4. yn Bethania yn Sir Gaerfyrddin, Mehefin 1. 1809, Gan George Lewis. Dolgellau, Argraphwyd gan Richard Jones, 1809.'—'Y Catechism byraf. A gyflwynwyd gan y Gymmanfa o Ddifynyddion yn Westminster i'r ddau Dy o Barliament, a chwedi ei gymmeradwyo ganddynt, yn cynnwys Egwyddorion y Grefydd Gristionogol, ynghyd a Phrofiadau Ysgrythyrol. Machynlleth, Argraphwyd, dros George Lewis, gan Edward Pritchard. 1802.' Y 'Rhagymadrodd,' gan 'G. Lewis,' 'Llanuwchllyn, Tachwedd 1. 1802.'—'Cyfiawnhâd trwy Ffydd. Neu Draethawd yn gosod allan y Dull a'r Amser y mae Cyfiawnder Crist yn cael ei weithredol gyfrif i Bechadur. Gan George Lewis, Gweinidog yr Efengyl yn Llanuwch-llyn. Machynlleth, Argraphwyd gan Edward Pritchard. 1803.' Ystyrid ef yn ysgolhaig da yn yr ieithoedd Hebraeg, Groeg, a Lladin. Cafodd radd D.D. gan un o Brifysgolion America. Bu farw yn y Dref Newydd, sir Drefaldwyn, yn 1822, yn 59 oed.*

13. 'Marwnad am y Parchedig a'r Ffyddlon Was tros Dduw, Mr. Peter Williams, o'r Gelli, ger llaw Caerfyrddin, Awdwr y Sylwadau ar y Bibl mawr, a'r Myngeir Ysgrythyrol, Y Ffordd i Foddlonrwydd, ynghyd ag amryw Draethodau adnabyddus yn yr iaith Gymraeg. A ymadawodd a'r Byd hwn yr 8fed o fis Awst, 1796, a'r 76 o'i oed. Gan Thomas Williams, o Ffon Mon, Morganwg.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan Ioan Ross, yn Heol Awst. 1796.'

THOMAS WILLIAMS oedd fab i Richard a Margaret Williams, o Dre'rhedyn, yn mhlwyf Pendaulwyn, sir Forganwg. Ymunodd â'r Trefnyddion Calфинаidd ym more ei oes. Pan oedd tua deg ar hugain oed cymmerodd ymraniad le ym mhlith y Trefnyddion hyny yn achos rhyw ddaliadau athrawiaethol a ddelid gan y Parch. Peter Williams, ar berson Crist, a chymmerodd T. Williams ac ereill blaid Peter Williams. Ymgorffolodd y blaid ymraniadol hōno yn gynnull-eidfa wrthi ei hun, heb fod mewn undeb â'r Trefnyddion, nac â neb arall, yr hyn fu achlysur codiad yr addoldy a elwir Bethesda, ym Mro Morganwg, a dewiswyd ef yn weinidog iddynt, heb gydweithrediad gweinidogion unrhyw enwad. Priododd Jane, merch Mr. Morgan, o'r Bewis. Buont fyw y rhan fwyaf o'u hoes mewn fferm o'r enw Treffleming, ac yr oedd efe yn gweinidogaethu i'r gynnull-eidfa uchod heb dâl na gwobr. Yr oedd yn fardd hymnau rhagorol. Cyhoeddodd lyfryn o'r enw 'Dyfroedd Bethesda,' yn ddwy ran. Yn gyntaf, Hymnau ar amryw destynau. Yn ail, Caniadau ar

* Williams's *Eminent Welshmen*. [Mab yng nghyfraith i'r Dr. Lewis ydoedd y diweddar Barch. Edward Davies, A.C., yr hwn a'i canlynodd ef yn llywyddiaeth y Coleg yn y Dref Newydd, ac wedi hyny yn Aberhonddu. Mr. Davies hefyd a orphenodd y gyfrol ddiweddaf o Esboniad y Dr. Lewis ar y Testament Newydd. Bu farw Mr. Davies yn 1867.]

amryw ystyriaethau, 1824 a 1842. Yr oedd hwn yn cynnwys 'Llais y Ddurtur yn y Wlad,' a gyhoeddwyd yn 1812.*

14. 'The Cambrian Register, for the Year 1795.

London: Printed for E. and T. Williams, Strand. 1796.'† [8vo.]

15. 'Y Bibl Cyssegr-lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd; gyda Nodau Cyfeiriol ar Ymyl y Dail, yn dangos Mai'r Ysgrythur yw y Dehonglydd goreu o'r Ysgrythur. Gan John Canne.

Caerfyrddin, Argraphwyd, (ac ar werth yno) gan Ioan Daniel. M,DCC,XCVI.'

Argraphwyd y Testament Newydd hefyd, wrtho ei hun, gyda rhagddalen fel hyn—

'Testament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist. Yr Ysgrythyrau Cyfeiriol ar Ymyl y Dail, Gan y Parchedig John Canne, A'r Sylwadau ar odrau y Dail, Gan y Parchedig William Romaine.

Caerfyrddin, Argraphwyd, ac ar werth yno, gan Ioan Daniel. M,DCC,XCVI.' Hefyd,

'Llyfr y Salmau, wedi eu Cyfieithu, a'u Gyfansoddi ar Fesur Gerdd yn Gymraeg, gan Edmund Prys, Arch-Diacon Meirionydd.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. M,DCC,XCVI.'

Y mae Rhagymadrodd o flaen yr Hen Destament, gan Mr. Canne; ac i Salmau Prys; 'Gweddi dros holl Ystad Eglwys Crist;' a llinellau Barddonol ar 'Ragoriaeth y Bibl.'

16. 'Llythyr y Gymmanfa, at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1796. Yn cynnwys Annogaeth i Ymddygiad Onest a chyfiawn tuag at bawb.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn, M,DCC,XCVI.'

17. 'Marwnad er Coffadwriaeth am yr enwog Mr. Griffith Morgans, o'r Glynhir, ymhlwyf Llandeilo-Tal-y-bont, yn sir Forganwg; yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn, Rhagfyr 18fed, 1795. Gan H. Bevan.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan J. Daniel, 1796.'

18. 'Marwnad; neu Goffadwriaeth o Farwolaeth y Parchedig Mr. Peter Williams, gweinidog yr efengyl. Yr hwn a aeth i'w Orphwysfa, Awst 8fed, 1796, yn y 76 o'i oed; wedi bod yn y Weinidogaeth 53 o flynyddoedd. Gan y Parch. Ioan Tomas, gweinidog yr efengyl.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Ross, yn Heol Awst, M,DCC,XCVI.'

* *Yr Adolygydd*, cyf. iii. t. 335-350.

† Cyhoeddwyd y drydedd gyfrol yn 1818, a dyna yr oll.

19. 'The Trial of the Case of the King versus the Bishop of Bangor, Hugh Owen, D.D. John Roberts, John Williams, Clerks, and Thomas Jones, Gentleman. At the Assizes holden at Shrewsbury, in the 26th of July 1796, Before the Honourable Mr. Justice Heath, By a Special Jury. Taken in Short Hand by Mr. Gurney.

London, Printed for John Stockdale. 1796. Price 2/6.'

20. 'Marwnad y Parch. Peter Williams, o'r Gelli, gerllaw Caerfyrddin, yr hwn a fu farw Awst 8fed. 1796, yn 76 oed. Gan y diweddar Barch. Thomas Williams, Bethesda, Bro Morgangwg.

Argraphwyd gan John Ross, Caerfyrddin. 1796.*

21. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yn y Castell-newydd-ar-wysg, yn Swydd Fynwy, Mai 25, 1796. At Eglwysi yr Ymneillduwyr Protestanaidd, yng Nghymru, a elwir yn gyffredin, Independiaid.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn M,DCC,XCVI.'

22. ¶ 'Attempt to Describe Hafod, and the Neighbouring Scenes about the Devil's Bridge. 1796.'

23. 'Pharmacopoeia or Medical Admonitions in English and Welsh, Containing a Select Body of Useful and Elegant Medicines, for several disorders incident to the human Body. By N. Williams. The Second Part.

Trevecka: Printed in the Year, M,DCC,XCVI. (Price One Shilling.)'

24. 'Defence of the Lord Bishop of Bangor (Dr. Warren) on occasion of the remarkable persecution instituted by Grindley, 1796.'

25. ¶ 'North Wales Traveller's Companion from Holyhead to London. 1796.'

26. 'Marwnad ar Farwolaeth Mr. Griffith Morgans, o'r Clunhir, ym mhlwyf Llandilo-Fach, yn Sir Forganwg; yr hwn a ymadawodd a'r Byd y 18fed o Ragfyr, yn y Flwyddyn 1795, ac yn yr 51 o'i oed.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Daniel, yn Heol y Farchnad Isaf. M,DCC,XCVI.'

Ar ei diwedd y mae 'Sion Dafydd a'i Cânt.'

* *Diwygiwr*, 1947, t. 26, &c. Gwel hefyd rhif 13 uchod. [Y mae lle cadarn i dybied mai yr un yw y rhif hwn â rhif 13. Pa ham y dywedir, 'Gan y diweddar Barch. T. W.'? Canys ydoedd efe yn fyw y pryd hwn. ac am flynyddoedd lawer ar ol hyn.]

27. 'Great Effects from Feeble Means. A Sermon preached before the Missionary Society by the Rev. David Jones, of Langan.

London: Published by T. Chapman, Fleet Street.'

Rhodddwyd allan hefyd argraffiad Cymraeg o'r Bregeth uchod, gyda'r wyneb-ddalen canlynol:—'Pregeth Genhadol a Bregethwydyng Nhapel Seion, Llundain, yn Mai 1796, gan y diweddar Barch D. Jones, Llanganna. Cyfieithedig, ac Argraffedig, gan E. Griffiths, Abertawy.'

28. 'Llangollen Vale, with other Poems. By Anna Seward, 1796.'

Y mae ar y rhagddalen olygiad ar Ddyfryn Llangollen.

29 ¶ 'An Act relating to the Sale of certain Waste Lands in Globwlch and Bachau, near Llanfyllin in Montgomeryshire. 1796.'

30. ['A Welsh Freeholder's Farewell Epistle to Samuel Lord Bishop of St. David's.' 8vo.]*

31. ['Montgomery, or Scenes in Wales. 1796.' 2 vols. 12mo.]

32. ['Gleanings through Wales, Holland, and Westphalia'; with Views of Peace and War at home and abroad. Second Edition, revised. To which is added, Humanity; or the Rights of Nature. A Poem. Third Edition, corrected. By Mr. Pratt.

London: Printed for T. Longman, Paternoster Row. 1796.' 2 vols. 8vo.]

1797.

1. 'Dychymmygion Dynol ynghylch Ffydd. Allan o waith J. Bunyan; J. Wesley; W. a P. Williams; Ebenezer a Ralph Erskine; Obed. Grew; D. Rowlands; a Mac Lean, &c. Gan John Popkin.

Argraffwyd yn Nghaerfyrddin, gan Ioan Ross, 1797. Pris wyth Ceiniog.'

2. 'Crefydd Gymdeithasol wedi eu darlunio mewn Hanes a sefydliad cyntaf Crist'nogaeth yn ninas Caerludd (sef Llundain), mewn Ymddiddanion. A gyfieithwyd allan o waith y Parch. Matthias Morris, gan B. Evans.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior. 1797.'

Dyma y lle cyntaf y ceir enw JOHN EVANS fel argraffydd yng Nghaerfyrddin. Bu yn argraffydd *Seren Gomer*, wedi marwolaeth y Parch. Joseph Hunt. Bu 10 mlynedd yn ddiacon, a 12 miynedd

yn henuriad yn yr eglwys gynnulleidfaol yn Heol Awst, Caerfyrddin. Bu farw Mai 25, 1830, yn 58 oed.

3. 'Hymnau Newyddion: ynghyd ag Ychydig Benhillion ar yr Amserau; a Rhai Gwersi, o Erfyniad am Ddiogelwch i Frydain, &c.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. C. Jones a T. Crane. 1797.'

4. 'Toriad y Dydd; neu Sylw byr ar Hen Gyfreithiau ac Arferion Llywodraethol; ynghyd a chrybwylliad am Freintiau dyn. Wedi ei ysgrifenu er mwyn y Cymry unwaith. Gan J. Jones, Glan y Gors, Awdwr y Llyfr a elwir 'Seren tan Gwmwl.*'

Llundain: Argraphwyd ac ar werth gan yr Awdwr, a chan W. Baynes, rhif 54, Paternoster Row. 1797. Gwerth Chwecheiniog.'

Egwyddorion 'Paine's Rights of Man' a bleidir yn y llyfr hwn.

5. 'Carol ar Conwest Gwyr y Gogledd. Gan E. Jones.

Caernarfon, Argraphwyd gan T. Roberts. 1797.'

Yr Awdwr ydoedd Bardd enwog Maes y Plwm. Y Carol yw yr un_{sydd} yn dechreu—

'Clywch lais ac uchel lef
Tôn telynorion Nef,
I'r baban byw,
Oen Duw, pan aned ef.'

Yr oedd hefyd yn gyssylltedig â'r llyfr hymnau a arferid gynt ar bulpudau y Methodistiaid Calfinaidd yn y Gogledd, sef y 'Grawnsypiau Canaan,' gan R. Jones.—Yr argraffydd,

THOMAS ROBERTS a anwyd yn 1760, naill ai yn Llanrhos ai yn Eglwys Fach, yn sir Ddinbych.† Ymfudodd ei rieni, pan oedd efe yn ieuanc, i Drefecca, gyda'r lluoedd a ymgasglent yno at Howel Harris. Lygwyd ef i fyny yn argraffydd yn Nhrefecca. Ymddengys ei fod yn 36 oed pan ddaeth i Gaernarfon; a chan iddo dreulio ei oes er yn ieuanc hyd yn hyn yn y Deheudir, yr oedd acen ddeheuol ar ei siarad yn lled gref, yr hyn a barai i bobl ei ystyried yn Ddeheuwr. Priododd wraig weddw yng Nghaernarfon, o berchen peth cyfoeth. Yr oedd yntau yn berchen eiddo; efe ydoedd perchenog Bryn Eisteddfod, ym mhlwyf Llausantffraid Glyn Conwy, yr hwn le a fu yng ngafael y Canghellys, o blegid rhyw reswm neu gilydd, hyd tua'r fl. 1860, pan y gwerthwyd ef yn gyhoeddus. Hysbysai y papyrleni mai eiddo y diweddar Thos. Roberts, o Gaernarfon, argraffydd, oedd y tir a werthid. Daeth i Gaernarfon rywbryd cyn y flwyddyn 1797. Dywedir mai efe ydoedd un o'r personau a adeiladasant dai y *Pendist* yno, yn 1800. Sefydlodd ei argraffwasg gyntaf—mae yn debyg i aros i'r tai newyddion ddyfod yn barod—yn yr Heol Fawr, neu yn hytrach, yr heol sydd yn troi allan

* Gwel rhif 11, d.f. 1799.

† Tybir mai mab ydoedd i Wm. Roberts, o'r Plas Bach, ger Conwy; yn nhy yr hwn y cafodd John Wesley ei groesawu unwaith.

o honi. Yr oedd y pryd hyny yn y pen draw i'r heol hòno, oruwchystafell, i'r hon yr esgynid ar hyd grisiau oddi allan, ac yno y bu y wasg gyntaf yng Nghaernarfon. Gwasg bren ydoedd (fel yr arferid y pryd), hyny o gyfansoddiad da, ac yn gweithio yn hwylus. Yr oedd ar gael hyd tua'r flwyddyn 1858, pan y darfu i fab y diweddar Peter Evans, wrth werthu pethau ei dad, ei thori i fyny yn goed tân. Daethai i feddiant P. Evans, trwy mai efe a brynodd, ym mhen amser, y rhan fwyaf o bethau T. Roberts; ac â'r wasg hòno y bu efe yn argraffu am flynyddoedd lawer ar ol ymsefydlu yng Nghaernarfon. Sefydlodd T. Roberts yn y Pendist mor fuan ag yr adeiladwyd y tai, ac yno y bu fyw. Cyhoeddodd gryn lawer o lyfrau mân. Yr oedd yn argraffydd medrus, gofalus, a chywir. Ymddengys mai eglwyswr ydoedd o ran ei grefydd; o leiaf byddai yn cyrchu yn lled gysson i Eglwys Llanbeblig, ar foreuau Sabbothau, gan gludo gydag ef Lyfr Gweddi Gyffredin, o faintioli bychan, yn yr iaith Ffrancaeg, yn yr hwn yr arferai ddilyn y gwasanaeth. Yr oedd yn Gymreigydd da, ac yn Seisnigwr medrus; a pheth anghyffredin iawn yn yr oes hòno y medrai Ffrancaeg hefyd. Bu farw Ebrill 30, yn y fl. 1811, yn 51 oed. Claddwyd ef ym mynwent Llanbeblig, lle y mae maen cof ar ei fedd. Cadwyd ei argraffdy gan ei weddw am beth amser ar ei ol. Yr ydys yn cael amryw lyfrynau yn dwyn ei henw hi—'M. Roberts, Argraffydd, Caernarfon'—yn y blynyddau dyfodol. Yn y fl. 1816, yr oedd nai iddo yn gyfranog â hi; a cheir yr argraffeb—'Caernafon: Argraphwyd gan Roberts a Williams,' wrth Farwnad y 'meddyg esgryn hynod hwnw, Evan Thomas o Faes y Meddwyn Crych.' Bu Williams ei hun wedi hyny am ryw ychydig yn cadw y gwaith, pryd y daeth Lewis Evan Jones i mewn; a dilynwyd yntau gan Peter Evans, yn 1816. Bu yr olaf farw yn 1859.*

6. ¶ 'Sir John Froissart's Chronicles of England, France, Spain, and the adjoining Countries, from the latter part of the reign of Edward II. to the coronation of Henry IV. Newly translated from the French editions, with variation and additions, from many celebrated MSS. By Thomas Johnes, M.P.

Havod: Printed at his Private Press.'

Yr oedd y gwaith uchod yn ddeg neu ddeuddeg o gyfrolau. Yr oedd y llywodraeth yn gofyn un llyfr ar ddeg, i roddi yn y llyfrfa-oedd cyhoeddus; a chyfrifid y rhai hyny yn werth, neu yn gollod i'r cyhoeddwr, o 1,100*p.*,† yr hyn a ystyrid yn dreth drom iawn ar ychydig o lyfrau a gyhoeddid fel anturiaeth bersonol, heb fod yn cael eu cyhoeddi er mwyn masnach, fel ag yr oedd Johnes yn gwneyd.

7. ¶ 'Memoir of John, Lord de Joinville, Grand Seneschal of Champagne, written by himself, containing a History of part of the

* *Llythyr* Mr. Hugh Humphreys, Caernarfon.

† [Ymddengys fod yma gamsyniad dybryd wedi tarddu o rywle. Pedair cyfrol 4plyg ydoedd y gwaith hwn.]

the Life o Louis ix. King of France, surnamed St. Louis, including an Account of that King's Expedition to Egypt, in the year 1248. Translated by Thomas Johnes, M.P.

Havod: Printed at his Private Press.'

Yr oedd y gwaith uchod yn ddwy gyfrol unplyg.

8. ¶ 'The Travels of Bertrandon de la Brocquere, Councillor and first Esquire Carver to Philippe Le Bon, Duke of Burgundy, to Palestine; and his return from Jerusalem overland to France, during the years 1432 and 1433. From a Manuscript in the National Library of Paris. Translated by Thomas Johnes, Esq., M.P.

Havod: Printed at his Private Press.'

THOMAS JOHNES, Ysw., ydoedd yn deiliaw o hen deulu yn Llanfair Clydogau, ger Llanbedr, yn sir Aberteifi, ac a anwyd yno (ereill a ddywedant yn Llwydlo) yn 1748. Cafodd ei ddysg yn Eton a Rhydychain, lle y cyrhaeddodd ei A.C. Pan y daeth i feddiant o'r Hafod (=Hafod Uchtryd), yn sir Aberteifi, efe a'i cafodd yn dir gwyllt a diffwrth; ond efe a ymroddodd i'w ddiwyllio, ac a'i gwnaeth yn baradwys yng nghanol diffaethwch gwag erchyll. Adeiladodd blas gwyech, a chynnullodd lyfrifa o werth mawr, yr hyn oll a ddifawyd gan dân ar y 13ydd o Fawrth, 1807; ac yr oedd y golled yn cael ei chyfrif yn 70,000*p*. Er hyny, efe a'i hail adeiladodd. Yr oedd Mr. Johnes yn llenor, ac yr oedd ganddo argraffwasg yn ei dŷ yno. Yn 1774, efe a etholwyd yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi sir Aberteifi; ac yn 1780 dros sir Faesyfed; ac yn 1796 a 1802, dros sir Aberteifi.* Bu farw Ebrill 23, 1816, yn 68 oed.†

9. 'Cyfaill y Cymry, sef Englynion, Cywyddau, â Chaniadau Newyddion; ar amryw Destynau, a Mesyrau, y rhan gyntaf. Gan Iolo ap Iorwerth Gwilym, o Ben y Lan, gerllaw'r Bontfaen, ym Morganwg.

Argraphwyd dros yr Awdwr. 1797.'

[Wrth 'Iolo ap Iorwerth Gwilym' y golygir Edward Williams, neu Iolo Fardd Glas, yr hwn a fu farw ychydig flynyddoedd yn ol. Os cywir yr amseriad yma, rhaid fod hwn yn adargraffiad; canys ymddangosodd y gwaith y tro cyntaf yn 1791. Gweler rhif 38, dan y flwyddyn hòno. Gwelais hwnw, ond ni welais hwn.]

10. 'Llythyr y Gymmanfa, at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1797.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Evans.'

11. 'Cyfaill i'r Cystuddiedig; neu Gyfarwyddyd i deuluoedd a phersonau mewn cystudd: ynghyd a Chynghorion a Chyfarwydd-

* Hughes's *History of the Parliamentary Representation of the County of Cardigan*.

† Maunder's *Biographical Treasury*; Williams's *Eminent Welshmen*.

iadau i ddynion mewn, ac ar ol y cystuddiau, neu ryw brofedigaethau eraill. Hefyd casgliadau o Eiriau a Phrofiadau diweddfaf amryw o'r Merthyron, Gweinidogion, a'r Seintiau mwyaf enwog. Gan y Parch. John Willison. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Parch. W. Thomas, Gweinidog yr Efengyl, yn y Bala.

Trefecca: Argraphwyd, yn y flwyddyn M,DCC,XCVII. (Pris Swllt.)'

12. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yng Nghastell-newydd, yn sir Forganwg, Mehefin y 13 a'r 14, 1797, at Eglwysi yr Ymneillduwyr Protestanaidd yng Nghymru, a elwir yn gyffredin Independiaid.

Abertawe: Argraphwyd gan Voss a Morris, yn Heol-y-Castell. 1797.'

13. 'Gorfoledd ym Mhebyll Seion, neu Hymnau Efengylaidd, wedi eu cymeryd allan o'r Ysgrythyr Sanctaidd. At ba rai y chwanegwyd Hymnau eraill Dafydd Williams. Wedi eu hamcanu i'r dyben o ddiddanu'r gwan feddwl ar ei daith tu a'r Jerusalem Newydd, gwir Noddfa'r gwaredigion.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan I. Daniel. 1797.*

14. 'Marwnad neu Goffadwriaeth y Parch. D. Powell, Gweinidog yn y Nottage a'r Wig, yn sir Forganwg, gan y Parch. J. Richards.

Caerfyrddin, J. Evans, 1797.'

Y eglwysi uchod oeddynt gynnulleidfaoedd o Fedyddwyr a gofleidiasant Ariaeth, ac yn awr a goledant Sosiniaeth; er eu bod yn galw eu hunain yn Fedyddwyr Arminaidd.

JOHN RICHARDS ydoedd o Flaen Gwyddon, ger Castell Newydd yn Emlyn, ac yn perthynu i gynnulleidfa y Bedyddwyr yno. Efe a ymneillduodd oddi wrthynt, gan ymfurfio, gydag ereill, yn gangen o Fedyddwyr Arminaidd; ond ail ymunodd â'r Neillduolion flwyddyn cyn marw, yr hyn a gymmerodd le yn 1808.†

15. 'Journal of a Tour through North Wales and Shropshire; with Observations in Mineralogy, and other Branches of Natural History. By Arthur Aikin.'

London, 1797, 8vo.

[ARTHUR AIKIN ydoedd fab hynaf John Aikin, D.M., yr hwn yntau oedd fab i'r Parch. John Aikin, D.D. Cyhoeddodd Arthur Aikin amryw weithiau yn dal cyssylltiad yn benaf â gwyddoriaeth; a bu amryw flynyddau yn ysgrifenu i Gymdeithas y Celfyddydau. Bu farw yn Llundain yn 1854.]

* Gwel rhif 10, d.f. 1782.

† *Hanes y Bedyddwyr*, gan Thomas a Jones.

16. 'Letters, describing a Tour through a Part of South Wales. By a Pedestrian Traveller. With Views, Described and Etched by the Author.

London, Printed by T. Baylis, Greville Street. 1797.'

17. 'Golygiadau ar Achosion ac Effeithiau'r Cyfnewidiad yn Ffrainc. Weigh others woe's and learn to bear thy own. Ovid.

Pwysa gystuddiau eraill,
Ai maith ofidiau blin,
A dysga ddwyn yn ddiddig,
Y rhan su i ti dy hun.

Machynlleth, Argraphwyd gan E. Pritchard. Lle gellir cael Argraphu pob math o Lyfrau Cymraeg a Saesonag yn y modd hardda ac am bris isaf.'

Rhagymadrodd gan 'John Owen, Machynlleth Mai 30, 1797.'

18. 'Marwnad y Parchedig Mr. D. Rowlands, Yr hwn a ymadawodd â'r Byd Hydref 16. 1790, yn 77 Mlwydd o'i Oed, ac a gladdwyd yn Llangeitho. Gan Philip Dafydd.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan I. Evans, yn Heol-y-Prior. 1797.'

19. 'Casgliad o Salmau a Hymnau. Gan Josiah Rees.

Caerfyrddin; Argraffwyd gan Ioan Ross. 1797.' [12plyg.]

Yr oedd hwn yn ail argraffiad.* Yr oedd i'r argraffiad hwn ail ragddalen, fel hyn:—

'Casgliad o Salmau Cân, allan o Waith Isaac Watts, ac Amryw Eraill: wedi eu haddasu at Addoliad Cymdeithasol. Gan Josiah Rees.

Carmarthen: Printed by John Ross. 1797.'

20. 'A Descriptive Account of the Devil's Bridge, Hafod, Strata Florida Abbey, and other Scenery in that District of Cardiganshire. In an Excursion from Aberystwith; Comprehending the objects adjoining the River. The Second Edition.

Hereford, Printed by D. Walker. 1797.'

21. ¶ 'Egwyddorion o'r Grefydd Gristionogol.—Catecism byraf y Gymmanfa.

Caerfyrddin.'†

22. 'Siimpl o Eglur Gateceisio. Mewn ffordd o Eglurhad ar Gatecism; Yn Holiadau ac yn atebion. Er cyfarwyddo'r Ieuainge

* Gwel rhif 7, d.f. 1796.

† Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies.

a'r Anwybodus ac eraill yn y Wybodaeth o Egwyddorion, Sylfeini, ac hefyd Dyledswyddau y Grefydd Gristianogol, mewn modd tra chynnwysfawr; Ynghyd a Rhagymadrodd, yn Eglurhau yn fyr, Gwirionedd y Grefydd Gristianogol, ac hefyd Afresymoldeb y gwrthwyneb i hyn, megis Atheistiaeth, Deistiaeth, &c. Yn Saesonaeg, gan y gwas enwog hwnw o eiddo Crist, Mr. John Willison, diweddar Gweinidog yr Efengil yn Dundee, yn Scotland. Wedi ei droi i'r Cymraeg, gan D. Davies.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior. 1797.'

Y mae hwn yn lyfr o 330 o dudalenau 12plyg. Y cyfieithydd,

DAVID DAVIES, ydoedd fab i'r Parch. Owen Davies, gweinidog yr Annibynwyr yn Nhrelech, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd y mab hwn hefyd yn bregethwr gyda'r un bobl; ond nid ordeiniwyd ef, ac ni bu erioed yn gofalu am gynnulleidfa, eithr yn cyflenwi lle gweinidogion wrth achlysur. Yr oedd yn ddyn dysgedig a choethedig, ac yn cadw ysgol yn y gymmydogaeth. Bu farw ym Medi, 1825, yn 61 oed.

23 ¶ 'Annerch i'r Cymry ar diriad y Ffrancod. Gan Nath. Jenkins.*

NATHANIEL JENKINS ydoedd fab i Jenkin Thomas, o'r Cwm Du, ger Castell Newydd yn Emlyn.† Yr oedd yn awdwr llawer o gan-iadau difyrus.

24. ¶ 'Gwaedd yng Nghymru yn erbyn cyngor Ahitophel. Gan T. Jenkins, Llanboidy.

Caerfyrddin.†

25. ¶ 'Narrative of the French Invasion near Fisguard. By J. Baker.

Worcester.‡

26. 'Gorfoledd ym Mhebyll Seion, &c. Trydydd Argraffiad.

Caerfyrddin.§

27. 'Y Bibl Sanctaidd, Sef yr Hen Destament a'r Newydd. Gyda Sylwadau Peter Williams. Y Pedwerydd Argraphiad.

* Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies. [Y mae y gân hon yn adargraffedig ym 'Mlodau Dyfed,' t. 281.]

† Gwel rhif 3, d.f. 1736.

‡ Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies.

§ Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies. Gwel rhif 10, d.f. 1782; rhif 13, d.f. 1795.

Caerfyrddin.*

28. 'The Welch Indians ; or, A Collection of Papers, Respecting a People whose Ancestors emigrated from Wales, in the Year 1170, with Prince Madoc (Three hundred years before the first Voyage of Columbus). And who are said now to inhabit a beautiful country on the West Side of the Mississippi. Dedicated to the Missionary Society by George Burder.

London : Printed for T. Chapman, No. 151. Fleet Street. Price One Shilling.'

Yn niwedd y cyflwyniad, yr hwn sydd yn llenwi dau dudalen, y mae y canlynol:—'Coventry, March 10. 1797.' Y mae y llyfryn yn 35 tudalen 8plyg.†

[Y Parch. GEORGE BURDER, gweinidog ymneillduol cyfrifol yn ei ddydd, a anwyd yn Llundain ar y 5med o Fehefin, 1752, C.H., ac a fu farw yno Mawrth 29, 1832. Cyhoeddodd amryw lyfrau ; bu yn olygydd yr 'Evangelical Magazine ;' ac yn ysgrifenydd i Gymdeithas Genadol Llundain.]

29. 'A very curious Private Paper relative to Will and Property of Mary Bulkley, late of Dronwy, in the Parish of Llanfachreth, Isle of Anglesea, (1730-94) the property disputed by Jos. Williams and Herbert Jones, of Llynon. 1797.'

Daeth y papyrâu hyn ger bron Uchel Lys y Dirprwywyr, ac y maent yn wir gopïau o'r hyn a ddefnyddiwyd er cadarnhau y ddedfryd arnynt. Argraffwyd hwy yn gyfrinachol.‡

30. 'Hen Gân, na bu Argraphedig erioed o'r blaen : Yr hon a gafwyd o Enau Hen Wraig, a ddysgodd hi gan ei Mham a fuasai gynt yn Gwasanaethu gyd a'r hen Ficerer Llanymddyfri : Ar Greadigaeth y Gyd, yng nghyd a Naturiaeth Creadigaeth Dyn.

Caerfyrddin : Argraphwyd gan I. Evans, yn Heol-y-prior. 1797.'

31. ¶ 'Tair o Gerddi. Y cyntaf Clod i'r Cymry gwyr Sir Benfro am gymeryd y Rheibus Elynion Cythreulig ysglyfyddwyr mileinig sef Ffrancod pan diriasant yn Abergwaen. Yn ail diolch i Dduw am y rhydd-did a gafodd Lloegr i ymladd a'r Spaniards a'u gorthrechu a chymeryd eu Llongau ar y mor, gan y Llywydd Arglwydd Jervis. Yn drydydd Hymn.

Machynlleth, Argraphwyd E. P.'

* Yn ol *Ysgrif* Mr. B. Davies ; gwel rhif 1, d.f. 1770 ; rhif 5, d.f. 1781 ; rhif 3, d.f. 1788 ; a hwn yma.

† *Llythyr* y Parch. T. James (*Llallawg*).

‡ Hotten's *Catalogue*.

32. ¶ ‘Copi o Lythyr yr hwn a gafwyd dan garreg, ym mha un y mae amrhyw Gynghorion, da a buddiol; Eithr yn fwya enwedigol ynghylch cadw y Sabbath.

Machynlleth, Argraphwyd gan E. Pritchard.’

33. ¶ ‘Collections of Welsh Tours, or a Display of the Beauties of Wales, Popular Tours, &c. 1797.’

34. ¶ ‘Gleanings through Wales, Holland, and Westphalia. By Mr. Pratt. In Two Volumes. 1797.’

Y mae y rhai hyn yn gyfrolau difyrus, yn rhoi llawws o hanesion y Tylwyth Teg, *Robin Goodfellow*, Ganwyllau Gyrff, y Teulu, &c.

35. ¶ ‘Yr Arfaeth Fawr Dragwyddol. Gan John Wesley.

Caerfyrddin, Argraffwyd. 1797.’

36. [‘Picturesque Views of the River Wye from its Source at Plinlimon Hill to its Junction with the Severn below Chepstow, with Observations on the Public Buildings and other Works of Arts in its vicinity.’ By Samuel Ireland.’

London, 1797, folio.]

1798.

1. ‘Llythyr at Mr. T. Jones, o’r Wyddgrug; yn cynnwys Hanes fer o Fordaith lwyddiannus y Llong Duff, yr hon a anfonwyd i dros-glwyddo deg ar hugain o Cenhadau (*Missionaries*) i bregethu’r Efengyl i drigolion paganaidd Ynysoedd y Môr Deheuol; Y’nghyd ag ychydig Annogaethau i gynnorthwyo’r gorchwyl pwysfawr a chanmoladwy. Can y Parch. T. Charles, A.B.

Caerlleon: Argraphwyd gan W. C. Jones, y’monwent St. Pedr. 1798.’

Ymddengys mai Sais oedd yr argraffydd uchod. Dechreuasai ddwyn ei gelfyddyd ym mlaen yn Nhreffynnon, fel cydymaith i T. Carnes;* ond torwyd y gyfranogaeth: arosodd Carnes yn Nhreffynnon, ac ymsefydlodd Jones yng Nghaerlleon, a chymmerodd Cymro deallus gydag ef yn ddarllenydd a golygydd, sef y Parch. John Humphreys, o Caerwys, yr hwn oedd yn perthynu i’r Cyfundeb Methodistaidd Calфинаidd, a’r hwn a symmudasai y flwyddyn hon i Caerlleon i’r dyben hyn; a dyna y rheswm pa ham yr ydys yn cael fod llyfrau Methodistaidd y blynyddau hyn, wedi eu hargraffu yng Nghaerlleon, a chan W. C. Jones.

2. ‘Diwygiad neu Ddinystr: wedi ei dynnu allan o Lyfr Saesnaeg a elwir Reform or Ruin; a’i gymhwyso at Ddealldwriaeth

* Gwel rhif 3, d.f. 1797.

y Cymry; ym mha un y geill pob dyn ddysgu fel y mae pethau yn sefyll yn bresennol; a pha fath ar ddiwygiad ydyw, pa un yn unig a ddichon achub y Deyrnas.

Croesoswallt: Argraphwyd gan W. Edwards. 1798.' [8plyg bychan: 32 tudalen.]

[Y cyfieithydd ydoedd Gwallter Mechain: ond nid yw ei enw wrth y gwaith.]

3. 'Geiriadur Seisonaeg a Chymraeg. By Wm. Richards, M.A.

Carmarthen, Printed by J. Daniel. 1798.'

[Yr argraffiad cyntaf o Eiriadur y Dr. William Richards, o Lynn, Norffole, ydyw y gwaith dan sylw. Cymharer rhif 26 isod.]

4. 'Y Seren Foreu; neu Ganwyll y Cymry: sef, Gwaith y Parchedig Mr. Rees Prichard, M.A. gynt Ficer Llanymddyfri.

Caerfyrddin, Argraphwyd, ac ar werth gan I. Evans, yn Heol-y-Prior. 1798. [Pris 2s. 6ch. i'r Rhagdalwyr, a 3s. 6ch. i eraill.]'

Yr oedd hwn yn unfed argraffiad ar bymtheg, er na restrwyd eto ond deuddeg, heb law y pigion, y rhai a argraffwyd ddwywaith, a'r argraffiad Seisonaeg.*

5. 'Y Dydd yn Gwawrio, neu Hanes Dechreuad, Cynnydd, a Lledaeniad y Gyfeillach Fawr, yn Llundain, a ffurfiwyd yn y Flwyddyn 1795. Wedi ei chasglu gan M. Jones, Trelech.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan I. Evans, yn Heol-y-Prior, 1798. [Pris Pedair ceiniog.]'

6. 'Cwyn yn erbyn Gorthrymder, yn ngyd a Sylwiadau ar hawl Esgobion, a'u Gweinidogion i Ddegymau, &c. Wedi ei ysgrifenu er mwyn Gwerinos Cymru gan Thomas Roberts, o Lwynrhudol.

Llundain: Argraphwyd, ac ar werth gan J. Jones, Chapel Street, Soho.' 50 tudalen 12plyg.†

Cyfansoddodd yr un awdwr hefyd y 'Welsh Interpreter; ac yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion. Amserir y rhagymadrodd, 'Llundain, yr 30en, o'r 4ed Mis 1798.'

JOHN JONES, yr argraffydd, ydoedd frodor o Glocaenog, ger Rhuthyn, yn sir Ddinbych.

7. 'Cnewyllyn mewn Gwisg; sef Cnewyllyn Gwirionedd—Mewn gwisg o Gynghanedd, neu gasgliad o Garolau a Cherddi, a rhai

* Gwel rhif 1, d.f. 1646; rhif 2, d.f. 1670; rhif 6, d.f. 1672; rhif 1, d.f. 1681; rhif 4, d.f. 1721; rhif 3, d.f. 1725; rhif 14, d.f. 1740; rhif 19, d.f. 1766; rhif 16, d.f. 1770; rhif 14, d.f. 1771; a hwn yma. Cyhoeddwyd hefyd argraffiad tlws gan I. Daniel, Caerfyrddin, yn 1807-8.

† [Nid oes wrtho un amseriad; ond ymddengys wrth ddiwedd ar y Rhagymadrodd, mai yn y flwyddyn hon y daeth allan.]

Cywyddau ac Englynion, ar amryw destynau: Pa rai na buont argraphedig o'r blaen. Gan Robert Davies, o Nantglyn.

Treffynnon: Argraphwyd gan E. Carnes; dros yr Awdwr. [Gwerth Swllt.]'

ROBERT DAVIES a anwyd yn y fl. 1769. Yn 1800 efe a symmudodd i Lundain, lle y daeth yn adnabyddus â chefnogwyr Cymreigyddiaeth, trwy ymuno â Chymdeithas y Gwyneddigion, a llanwai weithiau y swyddau o fardd ac ysgrifenydd i'r Gymdeithas hòno. Dychwelodd yn ol i Nantglyn, ger Dinbych, ei ardal enedigol, ym mhen pedair blynedd. Enillodd amryw wobrau mewn barddoniaeth a fyddai yn destynau cynnygiedig gan Eisteddfodau, hyd ennill cadair farddonol Powys, yn Eisteddfod Gwrecsam, yn 1820, am ei Farwnad i George III. Cyhoeddwyd ei holl waith barddonol yn 1827, o dan yr enw 'Diliau Barddas.' Y mae yn adnabyddus yn well wrth ei waith gramadegol, yr hwn a argraffwyd gyntaf yn 1808, ac a aeth trwy luaws o argraffiadau ar ol hyny. Bu farw Rhagfyr 1, 1835, a chladdwyd ef yng Nantglyn, lle y buasai yn glochydd y plwyf dros lawer o flynyddoedd, yn 66 oed.*

8. 'Cwyn y Cystuddiedig, a Griddfanau y Carcharorion Dieuog: neu, Ychydig o Hanes Dioddefiadau diweddar Thomas John a Samuel Griffiths, y rhai gwedi goddef gorthrymder tost, a chaethiwed caled, dros chwech neu saith o fisoedd, yn ddiachos, a gawsant eu rhyddhau, o'r diwedd, yn yr uchel eisteddfod, neu y sessiwn mawr diweddaf, yn Hwlfordd; er dirfawr siomedigaeth i'w gelynyon gwaedlyd a dideimlad.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior. [Pris Chwe' cheiniog.]'

Dywedir mai yr awdwr ydoedd y Dr. W. Richards, o Lynn. Cyhuddid hwynt o deyrnfradwriaeth, sef rhoddi cyfarwyddiadau i'r Ffrancod a ddaethent i Abergwaen. Bedyddiwr ydoedd T. John, a Henaduriaethwr neu Annibynwr ydoedd S. Griffiths. Y mae y llyfr wedi ei ysgrifenu yn nodedig o ddyddorol, a chydag ysbryd gwrol. Cyhoeddwyd yr unrhyw yn Seisonaeg o dan yr enw:—

9. 'The Triumph of Innocency; or, a brief Narrative of the late Thomas John and Samuel Griffiths,' &c.

10. 'Diwygiad neu Ddistryw. Cymmerwch eich dewis; yn yr hwn yr ystyrir ymddygiad y Brenin, y Senedd, y Swyddogion, y Gwrthwynebwyr, y Pendefigion a'r Boneddigion, yr Esgobion, a'r Offeiriad, a'r diwygiad hwnnw a ddanghosir, yr hwn yn unig a all achub y wlad. Gan John Bowdler, Yswain. A gyfieithwyd i'r Gymraeg, gan y Parchedig W. Evans, Towy Castle.

* Williams's *Dictionary of Eminent Welshmen.*

Caerfyrddin, Argraffwyd gan John Evans, yn Heol-y-Prior. 1798.*

WILLIAM EVANS ydoedd o Towy Castle, ym mhlwyf Llandefaelog, ger Caerfyrddin, a gweinidog y plwyf hwnw. Bu farw Ionawr 20, 1833, yn 75 oed.†

11. 'Llyfr Gweddi Gyffredin, &c.

Argraphwyd yng Ngwrecsam, ac ar werth yno gan R. Taylor. 1798.'

12. ¶ 'Crist yn Iachawdwr Cyflawn. Gan John Bunyan, at yr hyn y chwanegwyd nodau gan Mr. William Mason. Wedi ei Gymreigio gan John Thomas.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan John Daniel.'

13. 'Gorfoledd ym Mhebyll Seion: neu Hymnau Efangylaidd wedi eu cymeryd allan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Gan Dafydd William. Y pedwerydd argraphiad.‡

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel. 1798.'

14. 'Hymnau Newyddion. Gan William Lewis, Llangloffan.§ A gyhoeddwyd gan Evan Rees.

Caerfyrddin: Argraffwyd gan J. Evans, 1798.'

15. 'Sylwadau ar y Dirywiaeth mewn pregethu a chanu, yng Nghymru. Allan o waith y gweinidogion Parchedig a ganlyn, sef W. Williams, M. Rhus, ac N. Gwilym.

Abertawe: Argraphwyd gan Voss a Morris. 1798. [Pris ceiniog.]'

Yr oedd hwn yn ail argraffiad, gyda rhai cyfnewidiadau.||

16. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa Dde-ddwyreiniol y Bedyddwyr yng Nghymru: 1798.

Trefecca: Argraphwyd yn y flwyddyn. M,DCC,XCVIII.'

17. 'Amryw Hymnau Dymunol a Phrofiadol, o waith Harri Sion, gerllaw Pont-y-pwl, yn sir Fynwy. At ba rai y chwanegwyd Pigion o Hymnau, o waith yr awdwyr hynottaf yn yr oes bresennol.

* Ymddengys fod dau argraffiad o'r llyfr hwn wedi ei gyhoeddi yn yr un flwyddyn, hwn yng Nghaerfyrddin, a'r llall yng Nghroesoswallt, un i'r Deheudir, a'r llall i'r Gogledd; gwel rhif 2. [Yr oeddynt yn ddau gyfieithiad gwaahanol: hwn gan y Parch. W. Evans, a hwnw gan y Parch. Walter Davies.]

† Ei Feddfaen.

‡ Gwel rhif 10, d.f. 1782; rhif 13, d.f. 1795; rhif 26, d.f. 1797; a hwn yma.

§ [Gweler rhif 17, d.f. 1786.]

|| Gwel rhif 21, d.f. 1794.

Caerfyrddin : Argraphwyd, ac ar werth gan Ioan Daniel. 1798.*

18. 'Coffadwriaeth y Cyfiawn : neu Farwnad, er Cōf am farwol-aeth y Duwiol a'r Parch. Mr. Richard Tibbott, yr hwn a fu yn weinidog hir flynyddau i Eglwys yr Ymneillduwyr yn Llanbryn-mair, yn Sir Drefaldwyn ; ac a hunodd yn yr Arglwydd ar ddydd Sabboth, y 18 o Fis Mawrth, yn y flwyddyn 1798, o fewn ychydig wythnosau i bedwar ugain oed. Gan Jonathan Powell.

Trefecca : Argraphwyd yn y Flwyddyn. M,DCC,XLVIII.'

JONATHAN POWELL a anwyd yn Nefynog, sir Frycheiniog. Bu yn weinidog yr Ymneillduwyr yng Ngodre Rhos, Morganwg, ac wedi hyny symmudodd i Raiadr Gwy, sir Faesyfed, yn 1790. O blegid egwyddorion Sabelaid rhai yn y gynulleidfa, efe a ymadawodd ym mhen saith mlynedd, ac ymsefydlodd yn sir Fon. Bu flynyddau yn weinidog yr Annibynwyr yn y Capel Mawr a Rhos y Meirch, yn sir Fon. Bu farw Gorphenaf 6, 1823, yn 59 oed,† a chladdwyd ef wrth gapel Rhos y Meirch, lle y mae cofadail am dano.

19. 'A Collection of Welsh Tours, or a Display of the Beauties of Wales, Selected principally from Celebrated Histories and popular Tours, with occasional remarks. To which is added a Tour of the River Wye. Third Edition corrected. Embellished with Seven Engravings and two Characteristic Ruins.

London, Printed for G. Seal, No. 192 Strand, and Sold by M. Pool & Son, Chester. 1798. Price 6s. Bould.'

20. 'Two Successive Tours throughout the whole of Wales, and several of the adjacent Counties, so as to form a Comprehensive view of the Picturesque Beauty, the peculiar manners and the fine Remains of antiquity in that interesting part of the British Island. By Harry Skrine, Esq. of Warley in Somersetshire, author of three successive Tours in the North of England and Scotland in 1795.

London, Printed for Elmley & Bremner in the Strand. 1798.†

21. 'Pregeth ar yr Adgyfodiad Cyffredinol ; oddiwrth Ioan v. 28, 29. Yn Saesonaeg gan y Parchedig Samuel Davies, A.M. yn Prince-town Jersey Newydd, America. Wedi ei throi i'r Cymraeg gan y Parchedig M. Jones.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan Ioan Daniel.'§

* Gwel rhif 28, d.f. 1773.

† *Y Beirniad*, 1862, t. 100.

‡ Daeth ail argraffiad allan yn 1813, gyda pharthleni a chwanegiadau.

§ Cyhoeddwyd y bregeth ragorol hon yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd*, am Awst, Medi, a Hydref, 1812.

22. ¶ ‘Y Catecism Byrraf. Y Pedwerydd Argraffiad. Caerfyrddin.’*
23. ¶ ‘Y Canlynol tra buddiol o godidog-gyngor i ystyriaeth pob Cymro. . . . Caerfyrddin.’*
24. ¶ ‘A Vocabulary of the Lord’s Prayer, the Creed, &c. Carmarthen.’*
25. ¶ ‘Marwnad Owen Jones o Dewdraeth, Sir Benfro.’†
26. ¶ ‘A Welsh and English Dictionary, in which the English Words, and sometimes the English Idioms and Phraseology, are accompanied by those which Synonymise or Correspond with them in the Welsh Language. By W. Richards. Carmarthen, 1798.’
- [Amlwg ydyw, wrth eiriad enw y llyfr hwn, mai Geirlyfr Seisoneg a Chymraeg ydyw, ac nid Cymraeg a Seisoneg. Ni chyhoeddodd y Dr. W. Richards ond un Geiriadur; ac yn hwnw y mae y Seisoneg o flaen y Gymraeg. Yr un yn ddilys yw hwn yma â rhif 3, dan y flwyddyn hon. Nid oes un amheuaeth o barthed y flwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith.]
27. ‘A Walk through Wales in August 1797. By the Rev. Richard Warner of Bath. Second Edition. Bath: Printed by R. Cruthwell. 1798.’
28. ‘Golwg ar Aberth Crist. Gan Thomas Jenkins, o Lamboidy. Caerfyrddin, argraphwyd gan Ioan Evans, 1798.’
29. ‘British Tourist. Vol. 5. Containing Tours through North and South Wales. 1798.’
30. ¶ ‘Cambro-Britons, an Historical Play performed at the Theatre Royal, Haymarket. 1798.’
31. ‘A Gentleman’s Tour through Monmouthshire and Wales, in the Months of June and July. The Second Edition. London: Printed, by Assignment of T. Evans of Pater-noster row, for J. Nunn, Great Queen-Street, Lincoln’s inn-fields. 1798.
32. ¶ ‘The Interesting privately printed Cases of Thos. Adair and the Rev. J. Maitland in a Dispute concerning the Estate at Tregare, Brecknockshire.’

* *Llythyr* Mr. B. Davies.

† Yr oedd gwaelod y ddalen wedi tori o’r un a welais.

Y mae yn ddwy ran unplyg, ac argraffwyd hwynt mewn dadl gyfreithiol yn 1798.

33. 'Myfyrdod ar Einioes ac Angau a ysgrifenyddwyd mewn Mynwent yn y Wlad, ym mrig yr hwyr. Wedi ei droi o Saesonaeg T. Gray.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Evans, yn Heol-y-Prior. 1789. [Pris ceiniog].'

[Cyfieithiad y Parch. Dafydd Dafis, o Gastell Hywel, o *Gray's Elegy*.]

34. 'Coffadwriaeth o Farwolaeth Mr. Morgan Davies a'i wraig, gynt o Gefntelyrch, gerllaw Llanymddyfri; y rhai a fuont feirw mewn Oedran teg, o fewn i Ddeg o Ddyddiau y naill i'r llall, yn Mis Mawrth, 1798, ac a gladdwyd yn Mhentre'-tŷ-gwyn. Gan E. Harries.'

Caerfyrddin; Argraffwyd gan Ioan Evans yn Heol-y-Prior. 1798.'

[EVAN HARRIES, awdwr y farwnad hon, ydoedd weinidog perthynol i'r Annibynwyr yng nghymydogiaeth Llanymddyfri. Priododd â merch i'r Parch. Dafydd Davies, gweinidog yr Annibynwyr yn Abertawy, awdwr Sylwadau ar y Beibl. Torodd allan wedi hyny yn ddyn penrydd, ac ymrestrodd megys milwr cyffredin; a hyd y mae yn hysbys i mi, yn y fyddin y terfynodd ei oes.* Cyhoeddwyd yn gynnar yn y ganrif bresennol Gân o'i gyfansoddiad, yr hon a anfonodd at ei dad yng nghyfraith, ac yn yr hon y mae yn galaru o herwydd ei gwmp, ac yn proffesu edifeirwch am ei gamweithredoedd. Dywedir ei fod yn wr doniol a phoblogaidd pan yr oedd yn y weinidogaeth. Morgan Davies a'i wraig, gwrthdychau y farwnad a gofnodir yma, oeddynt amgeleddwyr boreuol y Parch. Morgan Jones, Trelech.]

35. ¶ 'A Description of the Beauties and Peculiarities of Gresford Vale, and other Poems. By M. Holford. 1798.'

Tybir mai ffugenw yw yr uchod, ac mai cyfansoddiad dwy awdures, Mrs. Parry, a Mrs. Ellen Warrington, ydyw.

36. ['Clarke's Emily Ianthé, or The Flower of Caernarvon. 2 vols. 12mo.]

37. ['Llu o Ganiadau, neu Gasgliad o Garolau a Cherddi Dewisedig, er Diddanwech i'r Cymry, o Waith amryw Brydyddion, at yr hyn y chwanegwyd Amryw Benhillion o Hymnau. O Gasgliad W. Jones, Bettws-Gwerfil-Gôch.

Croesoswallt: Argraphwyd gan W. Edwards. 1798. [Pris Swllt mewn Papur Glas.' 12plyg: 144 tudalen.]

* [Hyny, fel yr ymddengys, ydoedd ei ddysgwylid ef ei hun, pan yn ysgrifenu y gân a grybwyllir uchod.

'Ar ryw waedlyd faes, tybygaf,
Y gadawa'i'r ty o glai;
Yna hed fy enaid adref
At yr ailanedig rai.']

Yn mhlith awduron y caniaadau, heb law y casglydd, William Jones, ceir enwau 'William Cadwaladr;' 'Y Parchedig Mr. Edward Samuel;' 'Ellis Cadwaladr;' 'Rowland Davies;*' 'Ellis Roberts' (y Pastynfardd); 'Rowland Hughes;†' 'Mr. William Wynne;' 'Matthew Owen;' 'Hugh Morris;' 'Jonathan Hughes;' 'Thomas Edwards' (o'r Nant); 'John Rees;' 'Dafydd Manuel;' 'John Williams, Cynwyd;' ac 'L. P.' Nifer yr 'Hymnau' ar y diwedd yw un ar bymtheg.]

1799.

1. 'Agoriad ar y Prophwydoliaethau hynod a gynhwysir yn yr Unfed Bennod ar Ddeg o lyfr y Datguddiad. Wedi ei dynu allan o waith Dr. Gill,‡ a'i Gymreigio gan Daniel Jones.

Abertawe: Argraffwyd gan Voss a Morris. 1799. (Pris Chwe' Cheiniog.)

2. 'Trysorfa Ysprydol, yn cynnwys, Amrywiaeth o bethau ar amcan Crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogaethol, yn hanesiol, &c. Y'nglyd ag ychydig Farddoniaeth. Gan T. C. a T. J.

Caerlleon: Argraffwyd gan W. C. Jones, y'mynwent St. Pedr. Pris Chwe cheiniog. Ac a fwriedir i'w gyhoeddi bob tri mis rhagllaw.'

Y golygwyr oeddynt y Parch. T. Charles, Bala, a'r Parch. T. Jones, Dinbych. Chwech rhifyn chwarterol a gyhoeddwyd, yn gwneyd cyfrol o 376 tudalen 8plyg. Yr oedd y Parch. Thomas Jones, person Creaton, yn sir Northampton, a'r Parch. Edward Morgan, wedi hyny ficar Syston, sir Lester, yn ysgrifenu iddo hefyd.

3. 'The Royal Tribes of Wales. By Philip Yorke, Esq. of Erthig.

Wrexham, Printed by John Painter. 1799.' 4to.

Y mae yn cynnwys darluniad o Humphrey, Dug Buckingham; Arglwydd Ellesmere; Jeffrey, a Vaughan; Sir Orlando Bridgeman; Thomas Hanmer; Thomas Myddleton; J. Trevor; W. Williams; J. Wynne; Catherine o'r Berain; a Humphrey Lhwyt.

[Ail argraffiad o'r 'Tracts of Powys' (rhif 1, d.f. 1795) ydyw y gwaith hwn, ond ei fod wedi cyfnewid ei enw.]

4. 'Hanes y Byd a'r Amseroedd. Er Hyfforddiad rhai o'r Cymry. O waith S. T.

Dolgellau, Argraphwyd gan T. Williams. 1799.'

Ymddengys fod hwn yn bummed argraffiad, o leiaf.§ Yr argraffydd,

* 'Neu Rowland o'r Pandy, plwyf Llanycil, neu Lanuwchllyn.'—*Nod llawysgrifol Gwallter Mechain.*

† Rolant Huw, o'r Graienyn, ger y Bala, y mae yn debyg.

‡ [Gweler rhif 5, d.f. 1751, lle y ceir cofnod bywgraffiadol am y Dr. Gill.]

§ Gwel rhif 6, d.f. 1721; rhif 1, d.f. 1724; rhif 1, d.f. 1728; a hwn yma; a chafodd ei argraffu rai gweithiau ar ol 1799.

THOMAS WILLIAMS, ydoedd fab i William Jones ac Elen Thomas, o Benardd Wynion Fawr, ym mhlwyf Llanfachraith [ger Dolgellau], yn sir Feirionydd, ac wedi hyny o'r Cae Glas, yn yr un plwyf. Arferai, yn ei ieuenctyd, fyned i Loegr fel gyrwr anifeiliaid; ac yno y daeth yn hoff o lyfrau, ac i ryw fesur yn adnabyddus â'r gelfyddyd o argraffu. Ymsefydlodd yn Nolgellau fel llyfrwerthydd, a cheisiodd lythyrenau a gwasg ei hun, ac ymarferodd ei hun yn oreu ag y gallai, heb erioed fod yn dysgu y gelfyddyd. Priododd Barbara, merch — Pierce, o Bengwern, Ffestiniog; a daeth yn dra chyfoethog. Yr oedd yn fawr ei sel dros yr Eglwys Sefydledig; ac efe, gydag un arall, yn ei oriau hamddenol, a blannodd yr holl blannigion eiddew sydd yn tyfu oddi amgylch i furiau eglwys a mynwent Dolgellau. Yr oedd yn hynod o gymmwynasgar pan y cyfarfyddai ag unrhyw un mewn eisieu ag y byddai ganddo feddwl parchus am dano. Byddai yn hynod o rwydd i fenthyca arian i'w gyfeillion, ac y mae lle i gasglu iddo fod yn golledwr o'r herwydd. Gadawodd, yn ol ei ewyllys, log 50*p.* i'w ddosbarthu bob chwe' mis, i aelodau tlodion Eglwys Loegr ym mhlwyf Llanfachraith. Bu farw Awst 16, 1841, yn 84 oed; ac y mae careg gerfiedig ar ei fedd, gyda'i wraig a'i rieni, a choflech ei elusenau yn yr eglwys, yn Llanfachraith.*

5. 'Hanes holl Grefyddau y Byd, yn enwedig y grefydd Gristionogol; ym mha un y gosodir allan ddarluniad cywir o'r holl wahanol Sectau, Opiniynau a Daliadau Proffeswyr yr oes bresennol, &c. Ynghyd ag amryw Sectau eraill llai hynod a sonir am danynt yn Nghorff y gwaith. Gan M. Williams, M. T., awdwr Drych y Ddaear a'r Ffurfafen, Mesurwr Cyffredinol, &c., &c.

Caerfyrddin, Argraffwyd ac ar werth gan I. Daniel. Ar werth hefyd gan Messrs. North yn Aberhonddu. 1799.'

6. 'Bywyd Duw yn Enaid Dyn. Gan Henry Scougal, A.M. Wedi ei droi yn Gymraeg gan D.D.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. Ross. 1799.†

Y D.D. uchod ydoedd y diweddar Barch. D. Davies, o Gastell Hywel, yn sir Aberteifi.

7. ¶ 'Achos Pwysig yn cael ei ddadleu, mewn tri o Gydyddiddanion, rhwng Dr. Opium, Galio, a Discipulus. A fwriadwyd er argyhoeddi gwawdwyr Cyfeiliornus, &c. A gyfieithwyd i'r Gymraeg, (allan o'r seithfed argraphiad yn Saesoneg), er addysg i'r anwybodus.

Liverpool: Argraphwyd gan Robinson a Lang.'

Y cyfieithydd a'r cyhoeddydd ydoedd Mr. Robert Jones, awdwr 'Drych yr Amseroedd,' &c.

* *Llythyr* Mr. L. Williams, Dolgellau; a thystiolaeth Mrs. Catherine Jones, yr argraffyddes.

† Ymddengys fod hwn yn ail argraffiad; gwel rhif 2, d.f. 1779.

8. 'Golwg ar Deyrnas Crist, neu Grist yn Bob Peth, ac y'mhob Peth, sef Caniad mewn dull o agoriad ar Col. iii. ii., &c. Gan y diweddar Barch. W. Williams. Y trydydd argraphiad, wedi ei ddiwygio o amryw feiau.*

Trefecca, Argraphwyd, 1799. (Pris Swllt.)'

9. 'Myfyrdod y Meddwl, ar Gyflwr y Duwiol yn y Bywyd hwn, hefyd, ar Gariad Tragwyddol. Mewn dull o Gân. Gan Edward Francis, Lambeth Llundain, 1799.

Argraphwyd gan J. Jones, Chapel Street Soho.' 16 tudalen 12plyg.

10. 'Drws yr Eglwys Weledig wedi ei agor yn lled y Pen; fel y gallo credinwyr a phlant bychain ddyfed i mewn. Gan Thomas Jones, curad Creaton yn Sir Northampton.

Caerlleon, Argraphwyd gan W. C. Jones, y'mynwent St. Pedr, 1799. Pris un Swllt, neu hanner Gini'r dwsin.'

Ceir y mynegiad canlynol yn niwedd y llyfr hwn:—'Bydd yn hawdd i'r Cymru faddeu fy anwybodaeth o'r iaith Gymraeg, pan glywant i mi droi yn Sais, er ys agos i ugain mlynedd. Gallaf ddywedyd;—

Bachgen unwaith uniaith o'wn,—wrth deithio
Rhwyng dwyiaith bu'm dwthwn,
Un gollais, gynta gallwn,
Un arall, yn gyfaill gawn.'

Achlysuroidd cyhoeddiad y llyfr hwn ddadl rhwyng yr awdwr a'r Parch. Christmas Evans. Cyhoeddwyd ail argraffiad yn 1801, yr hwn a gynnwys atebion Mr. Jones i Mr. Evans.

11. 'Coffadwriaeth am y Parch. Richard Tibbott. Yr hwn a fu'n pregethu'r efengyl o gylch 60 mlynedd ac a fu'n Weinidog yn Llanbryn-mair 35 mlynedd, ac a orphenodd ei yrfa Lafurus, Mawrth 18, 1798, o fewn ychydig wythnosau yn 80 oed. A gyhoeddwyd ar ddymuniad yr eglwys oedd dan ei ofal gweinidogaethol yn Llanbryn-mair. Gan William Hughes, Dinas y Mawddwy.

Machynlleth, Argraphwyd yn y flwyddyn. 1799.'

WILLIAM HUGHES ydoedd fab i Hugh a Mary Rowlands, o Rhos-gell Bach, ym mhlwyf Llanystumdwy, sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef ym Mai, 1761. Yr oedd yn gefnder i'r Parchn. John a Richard Thomas, gweinidogion enwog yn yr Eglwys Sefydledig, meibion Thomas Rowland, Tu Hwnt i'r Bwlch. Yn ol arferiad y Cymry, mabwysiadodd enw cyntaf ei dad yn gyfenw, ac felly yn W. Hughes. Ymunodd yn ieuane â'r Ymneillduwyr ym Mhwillheli.

* Gwel rhif 7, d.f. 1756; rhif 6, d.f. 1764; a hwn yma.

Pregethodd y waith gyntaf yn y Capel Newydd, nid pell o'r dref hõno, pan yn 20 oed. Ni chafodd ond elfenau dysgeidiaeth o dan y Parch. A. Tibbott, Llanuwchllyn. Efe oedd y cyntaf i sefydlu gweinigogaeth yr Ymneillduwyr ym Mangor a'r cymmydogaethau. Ordeiniwyd ef yng Nghaegwigin (wedi hyny Bethlehem), ger Bangor, tua'r fl. 1787, lle y bu hyd 1797, pryd y symmudodd i Ddinas Mawddwy, lle y bu farw Rhagfyr 31, 1826, yn 65 oed.*

12. 'Drych y Prif Oosoedd, &c. Gan Theo. Evans.

Croesoswallt, Argraffwyd gan W. Edwards, M,DCC,XCIX.'

Ymddengys fod hwn yn bummed argraffiad, o leiaf.†

13. 'Cyfreithlondeb Rhyfel: Amddiffyniad o'r Egwyddorion Cristionogol yn cael ei ystyried yn ddiuedd gan Weinidog o Eglwys Loegr. Wedi ei gyfieithu o'r trydydd Argraphiad yn Saesonaeg. Gan A. ap D. Sion.

Caerfyrddin, Argraphwyd yn y flwyddyn 1799.'

14. 'Marwnad ar Farwolaeth Mr. William Jones. Gan B. Francis, M.A.

Caerfyrddin, Argraphwyd gan J. Daniel, 1729.'

15. 'Salmau, Hymnau, ac Anthemau, a arferir eu canu yn Eglwys Llanbeblig.

Caernarfon: M,DCC,XCIX.'

16. 'Salmau a Hymnau, wedi eu diwygio.

Caerlleon, Argraphwyd gan J. Fletcher. 1799.'

17. 'Dwy o Gerddi Newyddion. Y gyntaf, Hanes yr Hen Gymry, &c. Yr ail, Gwrthwyneb i Queen Bess.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Evans. 1799.'

18. 'Y Maen Tramgwydd: neu ddau Bennill o Ymofyniad, mewn perthynas i Fatterion dadleugar mewn Crefydd, &c. Gan John Evans,† Prydydd a Darlennydd yn Llanarth.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Evans, 1799.'

* *Y Dysgedydd*, am 1835; *Y Brython*, 1859-60.

† Gwel rhif 4, d.f. 1716; rhif 4, d.f. 1740; rhif 3, d.f. 1794; rhif 10, d.f. 1796; a hwn yma.

‡ [Evan Thomas, sef Evan Thomas Rhys, a ddylasai yr enw hwn fod. Nis medraf ddirnad pa fodd y troed ef yn 'John Evans;' os na chymmerwyd benthg enw yr argraffydd yn lle enw yr awdwr.]

Dichon fod hwn yn ail argraffiad. Dywedir mai rhyw weinidog a dderbyniodd yr 'Ymofyniadau' oddi wrth un o'i wrandawyr. Anfonodd yntau yr unrhyw at un Evan Thomas Rhys, yr hwn oedd yn fardd, ac yn fab i un Thomas Rhys Siams, o Lwyn Dafydd, ger llaw Llanarth, ond ym mhlwyf Llandyssilio Gogo, yn sir Aberteifi. Yr oedd Evan T. Rhys yn deall cryn lawer o'r ieithoedd Lladin a Groeg,* er mai crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Bu farw tua'r fl. 1762. Cyhoeddwyd atebiad iddo, ac o blaid yr ochr wrth-Arminaid, gan un Evan Dafydd, neu Evan Dafydd Jenkin, o Gwswh, ym mhlwyf Llanfair Clydogau. Atebodd Evan Thomas Rhys hwnw. Cyhoeddwyd yr oll yn 1842, gan Mr. William Hughes Griffiths, Ty Hen, Llandyssilio Gogo, gydag amryw ereill weithiau yr un prydidd ac ereill, yn cael eu rhagflaenu â bywgraffiad y prydidd gan Mr. D. Owen (*Brutus*), o dan yr enw 'Diliau'r Awen.'†

19. 'The Cambrian Register, for the Year 1796. Vol. II.

London, Printed for E. and T. Williams. 1799.† [8vo.]

Cyhoeddwyd y gyfrol am 1795 yn 1796; ond ni ddaeth y gyfrol am 1796 allan yn llawn hyd 1799. Er ei fod yn gyhoeddiad chwarterol;§ ymddengys, er hyny, mai yn achlysurol y deuai allan, yn awr a phryd arall, yn lled anghysson.

20. 'Llythyr oddiwrth Gymmanfa o Weinidogion, a gyfarfuant yn Ebenezer, gerllaw Pont-y-pool, yn Swydd Fynwy, Mehefin 27, a'r 28, 1799; at Eglwysi yr Ymneillduwyr, yng Nghymru, a elwir yn gyffredin Independiaid.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-prior. 1799.'

21. 'Hyfforddwr neu Lyfr yn cynnwys pob cyfarwyddiadau angenrheidiol i ddysgu darllain a deall Cymraeg: ynghyda llawer o wersi buddiol yn tueddu i godi blys at ddarllain ac i oleuo deall yr anwybodus. Gan John Griffiths, gweinidog yr efengyl.

Caerlleon: Argraphwyd gan Jones a Crane;|| dros Owen Owens, Caernarfon. 1799.'

Y mae rhagymadrodd maith a buddiol iawn yn rhagflaenu y *Reading Made Easy* hwn yn arwyddedig 'J. G., Caernarfon, 27 Hydref, 1799,' lle yr oedd yr awdwr yn gweinidogaethu ar y pryd.**

* [Nid oes prawf na thebygoldeb ei fod yn hyddysg yn y Lladin a'r Groeg, ond dichon ei fod yn gwybod rhyw ychydig am danynt.]

† Rhagymadrodd 'Diliau'r Awen,' gan Brutus.

‡ Gwel rhif 14, d.f. 1796.

§ [Cyhoeddiad *blymyddol* yn hytrach yr amcenid i'r 'Cambrian Register' fod; o leiaf nid oedd un bwriad i'w ddwyn allan bob tri mis.]

|| W. C. Jones, a T. Crane.

** Gwel rhif 1, d.f. 1788.

22. 'Llythyr y Gymmanfa at yr Eglwysi, yn y Flwyddyn 1799.

Caerfyrddin: Argraphwyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-prior.'

23. 'Gair yn ei Bryd, at Lywodraethwyr y Cymmanfaoedd; neu Yspryd y Byd, a'r Yspryd sydd o Dduw, yn cael ei osod gyferbyn a'u gilydd, a cherbron y Cymry, er rhybudd ac addysg iddynt, yr amser hynod hwn, 1799. Gan W. Williams, o Aberteifi.

Caerfyrddin, Argrphawyd gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior. 1799.

24. 'Laws and Regulations of the Cymreigyddion Society amended.'*

25. 'Y Mil-Blynnyddau. Rhydd-ddeongliad o Gan Moses. Dau Garol Nadolig. Gwaith Dafydd Ionawr.

Argraphwyd yn Nolgelley gan T: Williams. M,DCC,XCIX. Ac ar werth gan Mr. H: Evans, Llanfaircaereinion; Mr. D: Roberts, Mallwyd; Mr. J: Owen, Machynlleth; Mr. E: Williams, Maentwrog; Mr. R: Owen, Caernarfon; a chan amryw Lyfrwerthwyr ereill Yngwynedd. [Gwerth 8 Geiniog.]'

Y mae wedi ei gyflwyno 'At y Parchedig Mr. Thomas Jones, o Sir Northampton.'—'Fy Nghyfaill. Yr wyf yn cymmeryd y Rhyddid i gyflwyno hyn o lyfran bychan i chwi. Er eich bod yn gwladychu er ys llawer o flynyddau, ym Mro Sais, etto Chwi a ddangosoch lawer o garedigrwydd a ffyddlondeb i Gymru oer lom, ac i minnau hefyd. Mi a ddymunwn, tra byddo i'n gwaith barhau fod ein henwau ni'n anwahanol. Tanghnefedd Dduw i chwi yn y Byd hwn, a Thragwyddol orphwysfa i'ch Enaid yn y Byd a ddaw—Hyn yw difrifol ddymuniad eich hen Gyfaill ffyddlon,

DAFYDD IONAWR.'

26. 'A Welsh and English Dictionary; compiled from the Laws, History, Poetry, Bardism, Proverbs, and other Monuments of the Knowledge and Learning of the Ancient Britons; with numerous and select Quotations to Elucidate the Meaning of Words. To which is prefixed, A Welsh Grammar. By William Owen, F.S.A.

London: Printed for E. and T. Williams. 1799.' 4to.

[Rhan, yn ddiau, o Eiriadur y Dr. Puw, a ymddangosodd y flwyddyn hon. Ni orphenwyd mo hono o tan y fl. 1803. Cymharer y nod ar rif 8, d.f. 1793. Wythplyg yw y llyfr, ond argraffwyd ychydig nifer o hono ar papyr pedwarplyg.]

* Leathart's *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society*. W. D. Leathart ydoedd frodor o Lanrhaiadr.* Dewiswyd ef yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion yn 1814. Yr oedd o'r blaen yn aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion. Bu yn rhaglywydd yn 1802; ac yn llywydd yn 1830. Bu farw yn Briston, Tachwedd 24, 1830. [Os felly, bu farw cyn cyhoeddi ei Hanes am Ddechreuaad a Chynnydd y Gwyneddigion, yr hwn nid ymddangosodd hyd y fl. 1831.]

* [Sef Llanrhaiadr, yn Nyffryn Clwyd, fel yr ymddengys.]

27. ¶ 'A Tour through Wales in 1799. By the Rev. R. Warner.'

28. ¶ 'Coffadwriaeth am ddau o Weinidogion.'

29. ¶ 'Gwirionedd Iachawdwriaeth Gyffredinol. Gan Wm. Beveridge.

Caerlleon.'

30. ¶ 'Iachawdwriaeth trwy Ffydd. Gan John Wesley.

Caerlleon.'

31. ¶ 'Hyfforddiant i'r Anllythyrenog i ddarllain Cymraeg; A Gyfansddwyd i'w arferyd yn yr Ysgolion tan Olygiad y Gymdeithas a Sefydlwyd yn Llundain, i gynnal ac i annog Ysgolion y Sul, trwy y Deyrnas.'

Sillebydd yw hwn, heb fod wrtho enw awdwr nac argraffwr, y lle, na'r flwyddyn y cafodd ei argraffu. Dywed traddodiad mai gwaith y Parch. T. Charles ydoedd.

32. 'Muscipula, sive Cambro-Myo-Machia Carmen Heroico-Facetum. By E. Holdsworth.

Bath, 1799.' Re-published by David Hartley.*

33. 'Y Bibl Cyssegr-Lan, sef yr Hen Destament a'r Newydd.

Rhydychain. M.DCC.XCIX.' [Unplyg.]

Beibl mawr i'r Eglwysi ydoedd hwn; ei orgraff ydoedd yr un â Beibl 1752. Daeth allan dan gefnogaeth y Dr. Bagot, esgob Rhydychain, yr hwn a roddodd y Parch. D. Davies, person Penegoes, i olrhain Beibl 1752, fel ag i wella unrhyw wallau a allasai eu gweled ynddo. Rhoddodd yntau y Parch. E. Evans, ag oedd y pryd hyn yng Ngholeg yr Iesu, i roddi ei welliadau i mewn i'r argraffwyr. Y Parch. R. Hughes, o Goleg Iesu, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. Hughes, o Gaerwys, oeddynt ddiwygwyr y profieni. Rhoes R. Hughes y gwaith i fyny, a chymmerwyd ei le gan y Parch. John Roberts, o Dreimeirchion, pan oedd yn Rhydychain yn ymbarotoi i gymmeryd ei raddau. Yr oedd y Parch. E. Evans, o Lanfihangel, yn cynnorthwyo hefyd, pan oedd yn efrdu yn y coleg.†

[Ganwyd y Parch. John Roberts, A.C., ym Mhalas Harri, plwyf Llanefydd, yn sir Ddinbych, yn y fl. 1775. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1792. Gwedi ei urddo, yn 1798, gwasanaethodd guradiaeth Chislehampton a Stadhampton, o ddeutu saith milltir o Rydychain. Yn 1803 dychwelodd i Gymru, a chafodd fywoliaeth Treimeirchion yn 1807, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwol-aeth, yr hwn a ddygwyddodd ar y 25med o Orphenaf, 1829, a chladdwyd ef ym mynwent ei blwyf genedigol.‡ Cyhoeddodd argraffiad newydd cyfnewid-

* J. R. Smith's *Old Book Circular*.

† Roberts's *Letter to the Rev. W. Dealtry*.

‡ *Y Gwyllydydd*, vii. 263, 295.

iedig o'r *Homiliau* yn 1817 (Dolgellau, 8plyg); a golygodd gyhoeddiad cyfnodol Cymraeg a Seisoneg o'r enw *Cylchgrawn Cymru*, o'r hwn nid ymddangosodd ond ychydig o rifynau. Yn y fl. 1825 ymddangosodd llyfryn Seisoneg bychan o'r eiddo ef o blaid hen orgraff y Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin, dan yr enw — 'Reasons for rejecting the Welsh Orthography, that is proposed and attempted to be introduced, with a view of superseding the system that has been established since the publication of Dr. Davies's Grammar and Dictionary, and Bishop Parry's Edition of the Welsh Bible, and that of 1630' (12plyg, Caerfyrddin, 1825); a derbyniodd wobr y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol a Hyrwyddo Undeb Eglwysig yn Esgobaeth Ty Ddewi, am y gwaith. Yn erbyn y llyfryn hwn yr ysgrifennodd Tegid ei 'Defence of the Reformed System of Welsh Orthography,' yr hwn a gyhoeddwyd yn Rhydychain yn 1829, 8plyg.

Argraffiad anghywir a thrwstan ddigon yw yr argraffiad dan sylw o'r Beibl Cymraeg; ac nid yw yn adlewyrchu nemawr o anrhydedd ar ysgolheigod y gwŷr a'i dygasant trwy y wasg.]

34. ¶ 'Y Llofryddiaeth Waedlyd: neu Rhybudd Dychrynlyd i Blant Anufudd. Mewn Hanes Athrist ac Ofnadwy am un Sion Gill, o Dref Oborn yn Bedford, Arwaenydd Bywyd Drwg. At ba un y Chwanegwyd diwedd Truenusaf Mwrdrad ar Fwrdrad. Wedi ei osod allan mewn Hanes gywir a Ffyddlawn am Sion Colli, Yr hwn a Laddodd ei Dad a'i Fam yn Henffordd, a'i Feistres yn Amsterdam, yn Holland, lle'r oedd yn Gwasanaethu fel Troed-was.

Aberhonddu, Argraphwyd gan W. a G. North. [Pris un Geiniog.]'

35. ¶ ['At Gymdeithas y Gwyneddigion, yr Awdl hon i'ch Gwlêdd Flynnyddawl, sy'n cael ei hanfon ich plith i dderbyn y fath Frawd gyfion ag a ddichon i'w haeddiant ddenu oddiwrth goleddwyr eu hiaith a Barddoniaeth, gan eich Cyfaill, Thomas Jones.

Argraphwyd gan J. Jones, Chapel Street, Soho, London.' 8plyg.

Nid oes dyddiad ar y gynddalen; ond ar y tudalen nesaf, lle y mae y gwaith yn dechreu, ceir—'▲wdl i Wlêdd y Gwyneddigion. 15ed o Orphennaf, 1799.' Odid na chafodd yr awdl ei hargraffu *erbyn* y wledd grybwylledig. Y mae y cyfansoddiad yn Gymraeg a Seisoneg; y Gymraeg ar ddalen y llaw chwith, a'r Seisoneg ar gyfer hynny ar y llaw dde. Cynnwys 12 tudalen 8plyg. Yr awdwr oedd y Bardd Cloff. Y mae hefyd yn canlyn, ond wedi ei thudalenu ar ei phen ei hun, gân o 4 tudalen, gan Edward Charles, a elwir 'Cerdd Cylchwyllwedd y Gwyneddigion, Llundain, 1799.' Ymddengys mai camargraff yw 'Cylchwyllwedd' yn lle Cylchwyllwedd.

THOMAS JONES a anwyd ym mhlwyf Llandyssilio, swydd Ddinbych, yn 1768. Yn ei fabandod cyfarfu â damwain, yr hyn a'i cloffodd am y rhelyw o'i ddyddiau; yr hyn a barodd iddo ddewis *Bardd Cloff* fel ei ffugenw barddol. Pan yn ddeuddeg oed aeth i Lundain, pryd y rhoddwyd ef mewn cyfrifdy yn yr Erw Hir; ac yn y brif ddinas y treuliodd y rhan fwyaf o weddill ei oes, yr hon a ddaeth i'w therfyn ar y 18fed o Chwefror, 1828. Yr oedd yn fardd da, yn enwedig yn y mydrau rhyddion. Yr oedd yn aelod gweithgar o Gymdeithasau y Gwyneddigion a'r Cymmrodorion.*

[EDWARD CHARLES, neu fel yr ymgyfenwai weithiau, *Siamas o Wynedd*, ydoedd enedigol o Glocaenog, ger Rhuthyn. Treuliodd yntau ei oes, gan mwyaf, yn Llundain, ac yno y bu farw o ddeutu y fl. 1828. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion; ac efe oedd ysgrifenydd y Gymdeithas hono yn 1796.

* Gweler cofnod helaethach am dano yn Williams's *Eminent Welshmen*, d.g.

Efe hefyd oedd y cyntaf a etholwyd yn Fardd y Gymdeithas, yn 1800 ; a bu yn y swydd hono drachefn yn 1810.]*

1800.

1. 'Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants. Heb Dduw Heb Ddim. At the Hafod Press, By James Henderson.'

Gwaith y Milwriad Johnes yw y llyfr hwn, canys yn niwedd y traethawd ceir ei enw, 'Thomas Johnes. Hafod, Nov. 4. 1799.' Ond ymddengys mai yn y flwyddyn hon y cafodd ei argraffu, gan fod iddo attodiad yn cynnwys 'An Account of the Mode and Expense of Cultivating Moss and Peat Lands, Copied from the Edinburgh Adventurer, of May 2, 1800.' Yn ei ddiwedd ceir 'Henderson, Printer, Hafod.' Ei faint yw 160 tudalen 8plyg. Cafodd y llyfr uchod ei gyfieithu i'r Gymraeg ar draul ei awdwr, a chwiliwyd am y Cymro goreu a allesid ei gael i wneyd hyny ; a neb llai a osodwyd wrth y gorchwyl na'r Dr. Owen Pughe, yr hwn a wnaeth hyny yn ei ddull ysgolheigaidd ei hun, ac nid yn null sathredig y wlad, o dan yr enw—

2. 'Cynghorion Priodor o Garedigion i Ddeiliaid ei Dyddynod.

Llundain, Argraphwyd yn y flwyddyn 1800.' [8plyg.]

A chan hyny yr oedd yn hollol ddifudd† i'r rhai y bwriadwyd ef er eu lles. Cynnwysai 136 o dudalenu 8plyg. Dywedir y rhoddwyd argraffiad Seisonig o hono allan o argraffdy yng Nghaerodor yn yr un flwyddyn hon.‡

3. 'Pregeth ar Ddiodefaint Crist, o Waith Joseph Hall. D.D. ynghyd a Thraethawd, Ar Ddiogelwch y Credadyn, neu Helaeth-rwydd Marwolaeth Crist, i'r holl had Etholedig, gwedi ei gymmeryd allan o'r Llyfr enwog hwnnw o Waith John Owen, D.D. a elwir Angeu i Angeu y' Marwolaeth Crist : Lle y Dangosir, i. Cydsyniad, â neilltuol weithredoedd Duw y'ngwaith prynedigaeth dyn, trwy waed Crist. II. Symmudiad y camsyniadau o ddiben marwolaeth Crist, ac attebiad i'r rhai sydd yn ceisio amddiffyn prynedigaeth gyffredinol. III. Amddiffyniad o ddigonolrwydd iawn Crist, i fodd-

* *Golud yr Oes*, ii. 50.

† [Nid ydoedd felly mewn un modd ; er y gallasai'r cyfieithiad mewn llawer man fod yn rhwyddach ac yn fwy dealladwy. Ei argraffeb yn y llyfr o'm blaen sy fel hyn :—'Llundain : Argraffedig gan S. Rousseau, Heol y Coed, gar Ffynon-Feusydd. 1800.' Blaenorir y gynddalen gan gerflun plygedig o amaethlan, yn ol y cyllun a gymmeradwyir yn y gwaith. Wrth 'Heol y Coed' a 'Ffynon-Feusydd' y golygir *Wood-Street, Spa-Fields*. Rousseau a argraffodd hefyd y *Myvyrian Archæology, Cadwedigaeth yr Iaith Gymraeg* (yn llythraeth y llythyrenau cyssefin gydag arwyddion y cyfnewidiadau), y *Great, Egluryn Ffraethineb*, a rhai llyfrau ereill yr oedd a wnelai Puw â hwynt. Yr oedd yn argraffydd tra gofalus a chywrair.]

‡ [Felly y bu ; canys mi a welais y cyfryw argraffiad : ond dichon mai yr un argraffiad yw y ddau, gyda dalen wyneb wahanol.]

loni cyflawnder gofynol Duw, i gyfnewid cyflwr yr enaid, i ddwyn ymlaen a pherffeithio gras, a'i ogeddu yn y gogoniant. iv. Rhesymau gwedi eu profi o air Duw, yn erbyn prynedigaeth gyffredinol, ac attebiad i bob rheswm o bwys a ddygbwyd yn erbyn prynedigaeth neilltuol. Ynghyd â helaeth eglurhâd o feddwl yr amryw destynnau ac y mae'r Arminiaid yn ceisio gwneud defnydd o honynt i brofi prynedigaeth gyffredinol. A Gyfeithwyd gan William Thomas, Gweinidog yr Efengyl yn y Bala.

Trefecca, Argraphwyd: 1800. (Pris Swllt.)'

Ar ddiwedd y traethawd ceir 'Trefecca: Argraphwyd, Gan E. Roberts, & Co. 1800.' Y mae hefyd bedair o hymnau, gwedi eu harwyddo â 'J. T.'—John Thomas, o'r Cae Bach, ger Rhaiadr Gwy, mae yn debyg. Ar y tudalen diweddaf, ceir hysbysiad o fwriad Mr. Thomas i ddwyn allan Esboniad y Dr. Guyse ar y Testament Newydd; yr hwn hefyd a ddaeth allan yn dra annyben, yn olynol o argraffwasg Trefecca, Caerfyrddin, a'r Bala.

4. 'Epistolary Correspondence, containing Official, Political, and Explanatory Letters, (with an introductory preface.) Written upon patriotic points and particular occasions, to the Right Reverend Dr. Warren, Bishop of Bangor, and to a Member of the British House of Commons. In two parts. By James Jones Morgan.

Printed for the Author; By Swinney & Hawking, Birmingham; and sold by Richardson & Co. London, and all other Booksellers. 1800.'

JAMES JONES MORGAN ydoedd enedigol o Ddeheudir Cymru, o deulu heb fod yn gyfoethog. Pan oedd, gan analluogrwydd ei rieni i'w gynnal i fyned trwy yr amser gofynol yn Rhydychain, i gael ordeiniad yn yr Eglwys Sefydledig, efe a gafodd feistrolaeth Ysgol Ramadegol Dolgellau. Gweled yr ysgol hòno yn cael ei hesgeuluso gan yr ymddiriedolwyr, o blegid, meddai efe, wrthwynebiad y Parch. Robert Hughes, person Dolgellau, yr hwn oedd yr ymddiriedolwr penaf, o blegid ei fod yn frawd yng nghyfraith i feistr Ysgol Ramadegol Rhuthyn, rhag i hòno golli ei bri yng ngwellâd Ysgol Dolgellau, a barodd iddo ysgrifenu y gwaith hwn. Achwyn ar y gam drefn y mae y llyfr, mewn llythyrau at esgob Bangor.

5. 'Remarks on a Tour to North and Wales South in the Year 1797. By Henry Wigstead; with plates from Rowlandson, Pugh, Howitt, &c., aquatinted by T. Hill. 1800.' 8vo.

Cynnwys hwn lawer o ddarluniau rhagorol.

6. 'Marwnad neu Goffadwriaeth am Hugh Jones, o Fwlch y Fedwen, yn Sir Fôn; yr hwn a ymadawodd â'r byd, Ionawr y Iaf,

1800, yn yr 28 o'i oed. Yn nghyd âg ychydig o Bennillion i annerch Cyfaill ag oedd yn esgeuluso dyfod i'r Eglwys.

Caernarfon: argraphwyd gan T. Roberts.'

Cyhoeddodd T. Roberts lyfrau ereill yn y blynyddau dyfodol; megys 'Y Rhuthrymgyrch o Ffrainc,' yn 1802; 'Marwnad neu Goffadwriaeth am y Brawd Robert Roberts, o sir Gaernarfon,' yn 1802 neu 1803; 'Welsh Grammar,' gan Gambold, yn 1809. Dywedir y buasai yr argraffiad hwn yn anrhydedd i lawer swyddfa yn yr oes fanteisiol hon, gan mor ddestlus oedd ei argraffwaith.

7. ¶ 'Second Walk through Wales, by R. Warner. 1800.*

8. ¶ 'The Tower of Babel, or an Essay on the Confusion of Tongues. By John Jones, Member of Eminent Societies at home and abroad.

London: Printed by Theodore Page, 47 Blackfriars Road.'

Y mae yn ei flaenori lythyr o 'Dedication: To the Right Honorable John Trevor, late Min. Plenip. at the Court of Turin,' &c. Y mae yn amlwg oddi wrth y cyflwyniad uchod fod yr awdwr, yn gystal a John Trevor, yn Gymro. Yr oedd yr Anrhydeddus John Trevor wedi bod yn dal y swydd o lysgenad yn Turin; ac yn 1789 penodwyd ef yn weinidog llawnalluog yno, lle y bu hyd 1799; yr hyn a ddwg amseriad y llyfryn i'r flwyddyn hon o leiaf. Cafodd ei wneyd yn farchog wedi hyny.†

'Sir,—This tribute of respect is presented by an Ancient Briton.

'Give me leave to solicit your Patronage to these Essays on that native language, which your Ancestors left as an inheritance to their children.

'On this occasion I discharge a sacred trust for my departed friend, a French Author.

'Perhaps no man living ever studied so much as the celebrated Mons. Le Beyant, to render our common mother tongue an object of veneration.

'Nor am I less zealous to hold it up as the means of proving the first settlement of Britons in America so far back as the xii Century.

'At all events I often reflect with pleasure on the days of my youth when "*Heb Dduw heb ddim*," the pious motto of your arms, made a deep impression on my mind, while your Welsh name expressed your fair descent from the Norman Grenvilles.'

9. ¶ 'Pregethau ar Amryw Destynau Buddiol: Gan y Parchedig R. Thomas, A.M.

Caerlleon: Printiedig gan J. Fletcher, er Budd i J. Poole ac i J. Fletcher.' [8plyg.]

* Gwel rhif 2, d.f. 1697; rhif 28, d.f. 1798; a rhif 27, 1799.

† *Llythyr cyfrinachol* oddi wrth Arglwydd John Russell.

Y mae y gyfrol yn cynnwys 25 o Bregethau, a'r cyflwyniad i esgob Bangor, yng nghyd ag 'Advertisment to the Reader,' wedi ei amseru, 'Beaumaris, Dec. 4. 1790;' ac 'At y Darllenydd:' felly ni allasai cyhoeddiad hwn fod yn gynt na'r fl. 1800.* Yn 1809, daeth allan 'Yr Ail Lyfr,' yn cynnwys 30 o Bregethau, gan yr un awdwr, wedi ei argraffu yng Ngwrecsam, a'i gyflwyno 'To Sir Robt. Vaughan, Bt. M.P.' Ceir hefyd restr o 'Subscribers' Names.' Yn 1822, daeth allan 'Y Trydydd Llyfr,' yn cynnwys 45 o Bregethau, gan yr un awdwr, a'i argraffu yn Llanerch y Medd. Yr awdwr,

Y Parch. RICHARD THOMAS, ydoedd fab i'r Parch. Ellis Thomas, person Llanllyfni, Arfon, a Jane ei wraig, yr hon oedd ferch William Parry, o'r Monachdy, Clynnog, ac wyres i Ellis Evans, o'r Bribwll, yn sir Feirionydd, a Jane ei wraig, yr hon oedd chwaer i'r ddiweddar Elen Glynn, Elernion, Llanaelhaiarn, sylfaenyddes Elusendai Llandwrog. Efe a anwyd Hydref 13, 1758. Cafodd elfenau ei ddysgeidiaeth yn Ysgol Ramadegol Bottwnog, a chafodd ei godi oddi yno i Rydychain, fel y dengys y dyfyniad canlynol o Gofflyfr Coleg Oriel, 1776, Rhag. 17:—'Ric. Thomas, 18, Ellis fil. de Bottwnog. Carnarv. Cler. Fil.' Efe a raddiwyd yno, fel y dengys y dyfyniad canlynol o Lyfrau Graddogion Rhydychain (arg. 1851):—'Thomas (Rich.) B.A. May 25. 1780, M.A. 22, 1783.' Cafodd ei ordeinio yn ddiagon gan John Warren, esgob Bangor, ar Sul y 23ydd o Fedi, 1781, ac yn offeiriad, gan yr un esgob, ar Sul y 21fed o Fedi, yn 1783, a'i benodi yn Ben-Athraw Ysgol Biwmares, ac hefyd yn weinidog Llanfaes a Phenmon, ar y 12fed o Dachwedd, 1783. Efe a briododd Elisabeth Owen, o Benhesgin, Mon, Chwefror 14, 1791. Ar y 1af o Chwefror, 1830, cafodd ei ddyrchafu i bersoniaeth Llanfair Fechan. Pan oedd yno efe a adeiladodd ar ei draul ei hun bump o annedd-dai i tlodion, ond ar dir mewn dadl am ei berchenogaeth, pa un ai cyttir, ai tir yn perthynu i ystâd Baron Hill ydoedd; ond ar y dybiaeth mai yr olaf ydoedd, gofynwyd a chafwyd rhyw fath o ganiatâd, er na wnaed erioed dros-glwyddiad o honynt. Y mae y llywodraeth drostynt wedi syrthio i ddwyllaw arolygwyr y tlodion a'r wardeiniaid. Ni bu erioed waddoliaeth yn perthyn iddynt. Adeiladodd hefyd ysgoldy ger y persondy, lle y cadwai athrawes i ddysgu merched, a'r cwbl ar ei draul ei hun. Yr oedd yn rhoddi ymaith i'r tlodion 100*p.* at eu gilydd yn flynyddol. Y gorchwyl diweddaf a wnaeth, oedd rhoddi 20*p.* i'r Gymdeithas er Lledaenu yr Efengyl mewn Parthau Tramor. Bu farw Medi 5, 1834, yn 76 oed, a chladdwyd ef yn Llanfair Fechan.†

10. 'Tour round North Wales, &c. By W. Bingley. [London, 1800, 2 vols. 8vo.]

[Y Parch. WILLIAM BINGLEY, B.C., ydoedd wr eglwysig; a chymmrawd o Goleg Pedr Sant, yng Nghaergrawnt. Bu farw yn 1823. Heb law ei Daith yng Ngwynedd, a gofrestrir yma, cyhoeddodd 'Animal Biography;' 'Memoirs of British Quadrupeds,' a gweithiau ereill.]

* [Pa sut felly? Onid oes deng mlynedd gyfan rhwng 1790 a 1800? Yn 1790 yr ymddangosodd y gyfrol; er nad oeddwn hysbys o'r amseriad pan yr oedd cofrestr y flynyddyn hono yn myned drwy y wasg.]

† *Llythyrau* y Parchn. J. Evans, Llanllechid; Deon Vincent, Bangor; a T. James, Netherthong, Huddersfield.

11. 'Observations on the River Wye and several Parts of South Wales. By W. Gilpin.' 1800.

[Y Parch. WILLIAM GILPIN, A.C., gwr eglwysig, ac ysgrifenydd coethwych, a aned yng Nghaerliwelydd, Cumberland, yn 1724. Derbyniodd ei ddysg athrofaol yng Ngholeg y Frenines, Rhydychain. Bu amryw flynyddoedd yn athraw ysgol yn Cheam, yn Surrey, ac wedi hyny cafodd fywoliaeth Boldre, yn y Gelliwig Newydd, a phrebenduriaeth yn Eglwys Gadeiriol Salsbri. Ysgrifennodd dwysged o gyfrolau, a rhoddodd yr holl elw deilliedig oddi wrth eu gwerthiant, i waddoli ysgol yn Boldre. Bu farw yn y fl. 1804, yn 80 mlwydd oed.]

12. ¶ 'The Cambrian Directory, or Cursory Sketches of the Welsh Territories.

Salisbury, 1800.'

25. 'Tour through parts of North Wales, interspersed with Observations on its Scenery, Customs, History, Antiquities, &c. By the Rev. J. Evans.' 1800. [8vo.]

14. ¶ 'Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain am y Flwyddyn, 1800.

Argraffedig gan J. Jones, Heol y Capel, Soho.' [8plyg.]

Y mae gyferbyn â'r rhagddalen gerflun o 'Hu Gadarn yn arwain, y Cymry i Ynys Prydain;' 'Rhagadroddiad;' 'Awdyl ar Ansawdd Gwybodaeth a Dysg, ar Gload y Ddeunawfed Ganmlwydd, gan Gynddelw,' sef Walter Davies. Y mae hefyd 'Awdyl' arall 'Gan John Roberts, Pen yr Allt, gerllaw Pwllheli,' neu Sion Lleyne; a 'Chywydd i Swyddogion y Gwyneddigion, yn Llundain, am y Flwyddyn Deunaw Cant, gan Robert Davies, Bardd Nantglyn.'

[Y mae y gwaith hwn wedi ei ragamseru. Nid oes dyddiad i'r un o'r dalenau enwol; ond amserir y 'Rhagadroddiad' yn 'Llundain, 1801;' ac ar ddiwedd Awdl Sion Lleyne ceir yr argraffeb ganlynol:—'Argraffwyd gan J. Jones, Heol y Capel, Soho. 1801.' Nid yw cywydd Bardd Nantglyn yn perthyn i'r llyfryn hwn; er, hwyrach, iddo ymddangos yn gyfamserol ag ef.]

15. 'English and Welsh Dictionary.

Chester, 1800.' [Small 8vo.]

[Yr argraffiad cyntaf o Eiriadur Seisoneg a Chymraeg y Parch. Thomas Jones, yr amser hwn o'r Wyddgrug, ac wedi hyny o Ddinbych.]

16. 'Cambrian Directory, or Cursory Sketches of the Welsh Territories.

Salisbury: 1800.'

[Yr un, mae yn ddilys, a rhif 12 uchod; ond hyd yr wyf yn deall yn 1801 yr ymddangosodd.]

17. 'Some Account of the Proceedings that took place on the landing of the French near Fishguard, in Pembrokeshire, on the 22d February, 1797; and the Inquiry afterwards had into Lieut.-Col. Knox's Conduct on that occasion. By order of his Royal Highness

the Commander in Chief; together with the Official Correspondence, and other Documents. By Thomas Knox, Late Lieut.-Col. Commander of the Fishguard Volunteers.

London: Printed by A. Wilson, Wild-court, Lincoln's Inn Fields. 1800.'

18. 'Sara, Neu, Eglwys y Jerusalem uchod yn bwrw allan Blant y Cnawd, ac yn naccau Aelodaeth Eglwysig iddynt. Yn yr hwn y rhoddir Attebiad i Lyfr Mr. P. Edwards, yn ei ddau ffurfiad Cymreig; un a elwir Drws i'r Eglwys, wedi ei agoryd yn Lled y Pen; Yr hwn a dalfyrrwyd, a gymmysgwyd, ac a chwanegwyd ato, gan Mr. Thomas Jones, Curad Creaton. A'r llall a elwir Rhesymmau Teg am ymwrthod ag Egwyddorion y Bedyddwyr; Yr hwn a gyfieithwyd gan Mr. Thomas Price, Curad Caerfyrddin. Gan Christmas Evans.

Caerfyrddin: Argraphwyd, ac ar werth, gan Ioan Evans, yn Heol-y-Prior. 1800.'

[Ni chofnodir llyfryn Mr. Price yn y gwaith hwn, er y rhaid ei fod wedi ymddangos ryw amser cyn ymddangosiad y llyfr hwn o'r eiddo C. Evans.]

19. ¶ 'History Nicodemus.

Argraffwyd yn Dolgellau.' 1800.

20. ¶ 'Selections and Originals for Mr. Thelwall's Lectures.

Birmingham, Printed. 1800.'

Cyhoeddwyd hefyd y flwyddyn nesaf waith ar 'Runic Mythology of Monmouthshire,' dan yr enw 'The Fairy of the Lake, the Hope of Albion,' gan John Thelwall, ac argraffwyd ef yn Henffordd, 1801. Y mae yn traethu am ryw chwedlau am yr afon Gwy, Dyffryn Taf, Merthyr Tydfil, Ceryg Einion, &c.

21. ['Gan y Brenin. Cyhoeddiad.'

Ar y godre y mae—'Argraffedig gan George Eyre ac Andrew Strahan, Argraffwyr i Ardderchocaf Fawrhydi y Brenin. 1800.'

Un wyneb dalen fawr yn unig yw y cyhoeddiad breninol uchod; a'i amcan ydoedd, 'annog i bob cyfryw y fo â Moddion ganddynt i gaffael Pethau ereill at Ymborth y Cynnilddeb a Gofal mwyaf yn nghylch Traul pob Math o Yd.' Cyfieithiad y Dr. Owain Pwv ydyw; canys y mae ei leferydd yn gyhuddo yn amlwg.]

22. ¶ ['Llythyr at Gyfaill, ar y Pwngc o Ymneulltuo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig.'

Llyfryn o 24 tudalen 16plyg ydyw, heb na dalen enw, na dyddiad, nac enw argraffydd, na'r lle yr argraffwyd ef ynddo; ond barnaf iddo ymddangos yn ystod y degaid olaf o'r ddeunawfed ganrif. Ymlofnoda yr awdwr ar ei ddiwedd yn 'A. B.' Rhesymau Ymneilldwiwr am ymddyddoli oddi wrth yr Eglwys ydyw ei gynnwysiad.]

23. ['Eurgrawn.' 1800. 8plyg.

Ni welais ond un rhifyn, sef y cyntaf, o'r 'Eurgrawn' hwn, os daeth chwaneg o hono allan. Nid oes i'r cyfargraff a welais na dalen enwol nac amlen; ond yr enw ar frig y ddalen gyntaf o gorff y gwaith yw 'Eurgrawn,' a dim ond hyny. Yna y canlyn :—'Rhif. 1. Ionawr 10, 1800. Llyfr I.' Cynnwysa dwysged o erthyglau ar bynciau hynafiaethol, ac amryw o hen ysgrifau mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Mi a dybiwn mai Dafydd Ddu Eryri oedd â'r llaw benaf yn ei olygiaeth. Cynnwysa y rhifyn ger fy mron 54 tudalen; ond y mae rhyw faint o'i ddiwedd ar goll. Argraffwaith gwael ddigon, a henaidd ei olwg, sydd arno; a thybiaf mai o wasg W. C. Jones, Caerlleon, y daeth allan. Ymddengys i mi mai math o adgodiad o'r greal hwn ydoedd 'Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg,' y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o hono yng Nghaernarfon yn 1807.]

24. ['Traethawd Defnyddiol am Ben-Arglwyddiaeth Duw. Gan Eliseus Cole.'

Caerfyrddin, 1800, 8plyg.]



D A N G O S E G .

A.

A. B, rhif 22, 1800.
 A., R. (R. A.), rhif 2, 1663.
 A., W. (W. A.) rhif 3, 1729.
 Adams, Elizabeth (argraffydd), rhif 16, 1766.
 Adams, Roger, rhif 2, 1724; 1, 1731; 1, 1735.
 Adams, W. (W. A.), rhif 8, 1762; 14, 1775.
 Adlard, J. E., rhif 5, 1603.
 Arkin, Arthur, rhif 15, 1797.
 Allen, Hannah, rhif 1, 1650.
 Allein, Joseph, rhif 1, 1693; 7, 1723; 26, 1779.
 Allein, William, rhif 1, 1725.
 Alffred, Alred, neu Alured (o Beverley), rhif 22, 1716.
 Allot, Robert (argraffydd) rhif 1, 1763.
 Alured, Alred, neu Alfred (o Beverley), rhif 22, 1716.
 Aluredus Beverlacensis, rhif 22, 1716.
 Andrews, James Pettit, rhif 37, 1794; 15, 1795.
 Anwyl, Ellis, rhif 1, 1661.
 Anwyl, L., rhif 3, 1756.
 Anwyl, Lewis (yr un, ef allai, o Yspytty Ifan), rhif 1, 2, 1740.
 Anwyl, William (o sir Ddinbych), rhif 7, 1703.
 Archdeacon, John (argraffydd), rhif 4, 1755; 19, 29, 34, 1770.
 Armin, Robert : gwel A. R.
 Ascham, Roger, rhif 21, 1788.
 Ash, Simeon, rhif 3, 1645.
 Asheton, R., D.D., rhif 2, 1768.
 Asser o Fynyw = Asserius Menevensis, d.f. 1574; rhif 17, 1722.

Aubrey, John, rhif 9, 1721.
 Aubrey, Sir John, d.f. 1639.
 Augustus, W., rhif 32, 1794.
 Ayloffé, Sir Joseph, rhif 32, 1774.

B.

B., R. (R. B.), rhif 2, 1728.
 B., S. (S. B.), rhif 2, 1728.
 B., W. (W. B.), rhif 9, 1707.
 Baddon, Thomas, Esgob, rhif 1, 1688.
 Baddy, Thomas, rhif 1, 2, 1703; 2, 1705; 4, 1713; 2, 1728; 3, 1739; 5, 10, 1740.
 Badger, Richard (argraffydd), rhif 3, 1639.
 Baldwin (Archesgob), rhif 2, 3, 1585.
 Baldwyn, H. (argraffydd), rhif 11, 1789.
 Ballard, William, rhif 1, 1651.
 Barker, Christopher a Robert (argraffwyr), rhif 1, 1588; 1, 1597; d.f. 1599; 1, 1606; 2, 1630; 5, 1677.
 Baker J., rhif 39, 1792; 18, 1795; 25, 1797.
 Baker, Robert, rhif 4, 1606.
 Bangor, Esgob, rhif 18, 1777.
 Bardd Cloff (= Thomas Jones), rhif 35, 1799.
 Barns, Edward, rhif 1, 1784; 3, 1785; 12, 1792.
 Barnes, Joseph (argraffydd), d.f. 1587; rhif 2, 1594; 1, 1595.
 Barrington, Daines, rhif 34, 1775.
 Basset, Christopher, rhif 5, 12, 17, 1784.
 Basset, T., rhif 2, 1678.
 Basged, Ioan (argraffydd), rhif 1, 2, 1718; 1, 2, 1727.

- Baged, Marc (argraffydd), rhif 16, 1768; 7, 1769.
 Baskerville, Lawrence, rhif 3, 1688.
 Batty, J., rhif 4, 1721.
 Baxter, Richard, rhif 4, 1685; 2, 1693; 1, 2, 1677; 4, 1699; 18, 1750; 1, 1751; 12, 1777; 1, 1790; 1, 1792.
 Baxter, William, Rhagdraith; rhif 4, 1719; 4, 1733.
 Baylis, T., rhif 16, 1797.
 Bayly, John, rhif 1, 1630.
 Bayly, Lewis (Esgob), rhif 1, 1630.
 Baynes, W. (llyfrwerthydd), rhif 4, 1797.
 Beadles, Elisha, rhif 22, 1715.
 Beda, yr Hybarch, rhif 6, 1587.
 Bellarmin, R. (Cardinal), rhif 1, 1618.
 Bellot, Hugh (Esgob), rhif 1, 1588.
 Bentham, Joseph (argraffydd), rhif 1, 1746.
 Bertram, C. L., rhif 6, 1587.
 Bess Powys, rhif 1, 1750.
 Bess, Thomas [Bisse], D.D., rhif 3, Bevan, H., rhif 17, 1796.
 Beveridge, W. (Esgob), rhif 2, 1658; 9, 1693; 2, 1701; 6, 1707; 3, 1717; 8, 1720; 1, 1722; 6, 1723; 2, 1725-6; 7, 1776; 12, 1780; 9, 1793; 29, 1799.
 Bew, J. (argraffydd), rhif 15, 1777.
 Beynon, Thomas, rhif 5, 1717; 1, 1719.
 Bickerton, W., rhif 4, 1733.
 Bill, John (argraffydd), rhif 1, 2, 1620; 1, 1634; 5, 1677.
 Bingley, W., rhif 10, 1800.
 Bird, W., rhif 4, 1642.
 Birt, S. (argraffydd), rhif 15, 1745.
 Bisco, John, rhif 2, 1766; 14, 1767; 1, 1796.
 Bisse, Thomas, D.D., rhif 3, 1722.
 Bishop, George, rhif 1, 1590.
 Blackall, Esgob, rhif 2, 1733.
 Bodvel, Peter, rhif 1, 1664.
 Bogatsky, C. H. V., rhif 7, 1771.
 Bollifant, Edmund (argraffydd), rhif 2, 1585.
 Bogue, David, rhif 4, 1793.
 Boston, Thomas, rhif 1, 1769.
 Bostock, R. (argraffydd), rhif 14, 18, 1647.
 Bound, Wm., rhif 7, 1658.
 Bourn, Samuel, rhif 5, 1756.
 Bowdler, John, Ysw., rhif 10, 1798.
 Bowles, W. L., rhif 21, 1782.
 Bowyer, W. (argraffydd), rhif 4, 1712; 4, 1726; 5, 1730; 7, 1731; 8, 1769.
 Boxhorn, M. Z., rhif 4, 1654.
 Boyer, J., rhif 6, 1718.
 Bradbury, Thomas, rhif 5, 1733.
 Brevint, Dr. Daniel, rhif 4, 1756; 16, 1760.
 Brewster, Edward (argraffydd), rhif 3, 1646.
 Brewster, Thomas, rhif 1, 1654; 7, 1657; 3, 1697.
 Bridge, J. a D., rhif 3, 1706.
 Briel, Parch. Mr. rhif 24, 1766.
 Brisco, John, rhif 2, 1766; 14, 1767; 1, 1796.
 Brooke, R. rhif 2, 1694.
 Brooks, Thos., rhif 4, 1732; 4, 1782; 16, 1783; 5, 9, 1792.
 Broster, P. (argraffydd), rhif 20, 1783.
 Brough, Wm., D.D., rhif 4, 1658.
 Brown, J. (argraffydd), rhif 29, 1792.
 Brutus, rhif 18, 1799.
 Buckland, J. (argraffydd), rhif 9, 1769.
 Bulkeley, Mr., rhif 1, 1603.
 Bunyan, John, rhif 2, 1719; 3, 1721; 7, 1722; 1, 1726; 5, 1731; 2, 6, 1737; 1, 4, 1744, 1, 4, 1765; 5, 11, 15, 17, 1766; 2, 5, 7, 10, 11, 20, 1767; 6, 7, 9, 1768; 3, 4, 1770; 13, 18, 1771; 4, 1774; 7, 1775; 6, 1776; 4, 1781; 3, 8, 1782; 3, 11, 1784; 2, 1785; 5, 1788; 6, 1789; 3, 10, 11, 12, 1790; 29, 1791; 12, 1798.
 Burder, George, rhif 28, 1797.
 Burkitt, William, A.C., rhif 3, 1704; 1, 1722.
 Burnet, Gilbert (Esgob), rhif 5, 1730.
 Burton, Robert (R. B.), rhif 3, 1695; 3, 1730.
 Bushel, Thomas, rhif 1, 1642; 2, 3, 1649; 2, 1660.

C.

- Cambrensis, Giraldus, rhif 2, 3, 1585; 6, 1755; 17, 1763.
 Camden, William, rhif 2, 1586; 1590; 1602; 4, 1603; 2, 1604; 4, 1610; 2, 1614; 3, 1623; 2, 1639; 1, 1674; 5, 1696; 5, 1701; 18, 1772; 21, 1789.
 Campbell, John, LL.D., rhif 37, 1774.
 Cann, John, rhif 6, 1790; 15, 1796.
 Caradog o Lancarfan, rhif 1, 1584: gwel Wynne, William; a Powel, David.
 Carbery, Richard, Iarll, rhif 4, 1646.
 Carnes, E. (argraffydd), rhif 7, 1798.
 Carter, Isaac (argraffydd), rhif 2, 1716; 1, 1719; 5, 1722; 4, 1724; 1, 1725-6; 3, 1729; 4, 1730.
 Case, Thomas, rhif 5, 1645.
 Cave, John a Jane, rhif 13, 1792.
 Caxton, William (argraffydd), Rhagdraith; d.f. 1579.
 Cennick, John, rhif 8, 1744; 21, 1759.
 'Ceidwad Carchar' (= Walter Watkins), rhif 17, 1790.

Chad, Thomas (argraffydd), rhif 1, 1586.
 Chandler, rhif 1, 1660; 4, 1733.
 Charles, Edward, rhif 35, 1799.
 Charles, Thomas, B.A. (o'r Bala), rhif 1, 1693; 15, 1775; 3, 1778; 1, 1789; 1, 1798; 2, 31, 1799.
 Chauncey, Isaac, rhif 1, 1711.
 Chetwind, Phil. (argraffydd), rhif 2, 1656; 3, 4, 5, 1658; 4, 1675.
 Cheswell, R., rhif 2, 1695.
 Churchyard, Thomas, rhif 4, 1587; 26; 1775; 2, 1776.
 Clark, M., rhif 5, 1681; 1, 1697.
 Clarke, 36, 1798.
 Clarke, Dr. Adam, t. 1; rhif 26, 1770.
 Clarke, Dr. E. D., rhif 34, 1793.
 Clarke, John, rhif 27, 40, 1794.
 Clavis, R., rhif 1, 1697.
 Clements, Harri, rhif 17, 1711; 6, 1718.
 Coats, Thos., 1638.
 Coke, Sir G., rhif 9, 1657.
 Coke, Dr. Thomas, rhif 9, 1776.
 Cooke, Wm., 1638; 4, 1723; 3, 1725.
 Cooks, J. (argraffydd), rhif 37, 1792.
 Cole, Eliseus, rhif 2, 1711; 4, 1729; 9, 1760; 24, 1800.
 Coles, A., rhif 1, 1651.
 Colier, Thomas, rhif 28, 1790.
 Collins, Freeman, rhif 7, 1693; 13, 1700.
 Commelin, Ierom, rhif 6, 1587.
 Corsellis, Ffredric, t. 1.
 Cotton, Charles, rhif 4, 1689.
 Coverdale, Miles, d.f. 1548; rhif 2, 1595.
 Cradoc o Lancarfan, rhif 1, 1584.
 Cradoc, Walter, rhif 5, 1646; 1, 1654; 4, 1684.
 Cradock, Samuel Owen (=y Parch. Edmund Jones), rhif 9, 1743; 12, 1745.
 Cradock, Joseph, rhif 32, 1777.
 Cragg, John, rhif 7, 1656.
 Creery, J. M'. (argraffydd), rhif 18, 1793.
 Criwso, Robin, rhif 1, 1741.
 Cromwel, Oliver, rhif 3, 4, 1648.
 Crook, rhif 1, 1660.
 Crook, John (Crynwr), rhif 8, 1773.
 Crouch, Humphrey, rhif 6, 1671.
 Crouch, Nath. (argraffydd), rhif 2, 1695.
 Crowley, Robert (argraffydd), rhif 1, 1555; 2, 1575.
 Crowther, M., rhif 4, 1664.
 Cumberland, G., rhif 22, 1796.
 Cuney, Capt., rhif 6, 1643.
 'Cymro gelyndol i bob Gorthrech,' rhif 18, 1789.
 Cyffin (neu Kyffin), Edward, rhif 2, 1603.

Cyffin (neu Kyffin), Morus, rhif 2, 1587; 1, 1594.

D.

Dafydd ab Gwilym, rhif 11, 1789.
 Dafydd ab Ioan (=y Parch. Dafydd Jones, Llangan), rhif 5, 1784.
 Dafydd Ddu Hiraddug, rhif 1, 1567, t. 11.
 Dafydd Ddu o Eryri, rhif 3, 1791; 10, 1794.
 Dafydd, Enoch, rhif 23, 1784.
 Dafydd, Ifan, rhif 20, 1788.
 Dafydd, Morris, rhif 26, 1796.
 Dafydd, Methusalem (Towyn), rhif 4, 1789.
 Dafydd, Philip, rhif 22, 1791; 18, 1797.
 Dafydd, Rhys, rhif 14, 1776.
 Dafydd, Thomas, rhif 34, 35, 1774; 15, 16, 1776; 31, 1777; 6, 20, 1779; 17, 1782; 19, 20, 1784; 24, 1790; 30, 1792.
 Dafydd, Tomos, rhif 28, 1788.
 D'Avenant, Caleb, rhif 4, 1664.
 Davies, Benjamin, D.D., rhif 25, 1771.
 Davis, C., rhif 6, 1729; 4, 1733.
 Davies, Cadwaladr, rhif 2, 1754.
 Davies, David (Castell Hywel), rhif 24, 1779; 33, 1792; 12, 1795; 33, 1798; 6, 1799.
 Davies, David, rhif 1, 1719.
 Davies, D. (Trelech), rhif 22, 1797.
 Davies, David (Treffynnon), rhif 4, 1796.
 Davies, Edward, rhif 12, 1796.
 Davies, Griffith (Bedyddiwr), rhif 8, 1760.
 Davies, James, rhif 5, 1717.
 Davies, John (Cydweli), rhif 5, 1661.
 Davies, John (Rhiwlas), rhif 1, 1616; 21, 1716; 2, 1736.
 Davies, Dr. John (Mallwyd), rhif 1, 1620; 1621; 2, 1632; 1, 1633; 5, 1683; 4, 1684; 3, 1688; 3, 5, 8, 1710; 9, 1711.
 Davies, John, rhif 1, 1719; 9, 1782.
 Davies, Lewis (Ty'r Dwncyn), rhif 14, 1700.
 Davies, Lockyer (argraffydd), rhif 12, 1788.
 Davies, Maurice, rhif 14, 1789.
 Davies, Miles (Tre'r Abad), rhif 18, 1716.
 Davies, Morris, rhif 6, 1754; 20, 1759; 7, 1762; 18, 1764; 27, 1767; 10, 36, 42, 1774; 35, 1776; 21, 1781; 22, 1784; 18, 1785; 18, 1785; 11, 1787; 26, 1793; 45, 1794.

- Davies, Mr. (o Drewylan), rhif 1, 1688.
- Davies, Parchedig Mr. (Castell Nedd), rhif 23, 29, 1788.
- Davies, Richard (Crynwr), rhif 1, 1687; 3, 1705; 18, 1765.
- Davies, Richard (llyfrwerthydd), rhif 1, 1661.
- Davies, Richard (Esgob), rhif 1, 2, 1567; 2, 1573; 1577; 2, 1774; 14, 1778.
- Davies, R., M.A. (Ross-Crowther), rhif 4, 1726.
- Davies, Robert (Nantglyn), rhif 7, 1793; 14, 1800.
- Davies, Rondl, rhif 1, 1660; 3, 1675.
- Davies, Samuel (America), rhif 8, 1789; 21, 1798.
- Davies, Thomas (Coetty), rhif 36, 1792.
- Davies, T., rhif 15, 1762; 1, 1769; 24, 1774; 24, 1784.
- Davies, Thomas (argraffydd), rhif 3, 1774; 1, 1775.
- Davies, Walter, rhif 1, 1603; 7, 1769; 1, 1791; 19, 21, 1793; 1, 1795; 2, 10, 1798; 37, 1799; 14, 1800.
- Davies, William, rhif 11, 1777.
- Davies, William (Capel Isaac), rhif 2, 1716; 5, 1717.
- Dalrymple, John, rhif 13, 1786.
- Dalton, W. H., rhif 44, 1794.
- Daniel, John (argraffydd), rhif 24, 1770; 20, 22, 1777; 23, 1779; 7, 8, 9, 18, 1782; 19, 1784; 12, 1788; 7, 8, 10, 11, 1786; 9, 10, 1787; 5, 7, 8, 9, 10, 18, 19, 20, 23, 28, 29, 1788; 4, 6, 7, 8, 15, 16, 18, 19, 22, 23, 24, 30, 35, 1789; 8, 9, 14, 15, 20, 21, 22, 1790; 12, 14, 15, 21, 22, 23, 24, 1791; 10, 11, 14, 16, 17, 18, 20, 21, 27, 30, 1792; 11, 15, 16, 23, 1793; 9, 11, 16, 17, 21, 28, 1794; 4, 12, 1795; 1, 9, 17, 26, 1796; 13, 1797; 3, 12, 13, 17, 21, 1798; 5, 14, 1799.
- Daniel a Ross, rhif 34, 1791; 20, 1794.
- Daniel ab Ioan, rhif 33, 1794.
- Dawks, Thos., rhif 4, 1675; 1, 3, 1677; 1, 1681.
- Dawson, G., rhif 3, 1659.
- Daye, John (argraffydd), d.f. 1563; rhif 3, 1573; 6, 1573.
- De Barri, Giraldus, rhif 2, 3, 1585.
- De Courcy, rhif 1, 1784.
- De Foe, Daniel, rhif 1, 1661.
- Delany, Dr. Padrig, rhif 4, 1764.
- Delaune, Thomas, rhif 3, 1720.
- Dell, W., rhif 10, 1792.
- Denham, Henry (argraffydd) rhif 1, 3, 5, 1567; 1, 1577; 1, 1584.
- Denham, W., rhif 18, 1760.
- Dent, Arthur, rhif 1, 1629; 4, 1630; 1 (3), 1677; 3, 1682.
- Des Moulins, Jacob, rhif 35, 1794.
- Despagne, John, rhif 2, 1658.
- Dewi, Iago ab, rhif 2, 1658; 1, 4, 1714; 6, 1716; 3, 5, 1717; 2 1719; 2, 1725-6; 1, 1730; 7, 1743; 1, 1750; 12, 1760; 5, 1768.
- Dewi, Ioan ab, rhif 5, 1717.
- Dobson, Peter, rhif 10, 1744.
- Dod, Mr., rhif 3, 1692.
- Dod, B., rhif 13, 1750.
- Doddridge, Dr. Philip, rhif 18, 1750; 1, 1751; 2, 1776.
- Doddridge, Syr John, rhif 33, 1630; 11, 1714.
- Dodsley, R. a J. (argraffwyr), rhif 16, 1764; 22, 1775; 1, 1788.
- Dodwell, Henry, rhif 1, 1689.
- Doe, Charles, rhif 3, 5, 1732.
- Doolittle, Tho., rhif 2, 1703; 3, 1738; 10, 1740.
- Dorrington, Theophilus, rhif 3, 1700; 3, 1702.
- Dove, S. (argraffydd), rhif 1, 1664.
- Downing, M. (argraffydd), rhif 3, 1744; 3, 11, 1745.
- Downing, Joseph (argraffydd), rhif 6, 7, 10, 1711; 3, 1715; 4, 1717; 1, 1737.
- Drayton, Michael, rhif 1, 1613.
- Drexelius, Jeremiah, rhif 1, 1661.
- Dryden, John, rhif 4, 1695; 8, 1713.
- Durston, Tho. (argraffydd), rhif 1, 1699; 8, 1700; 8, 1710; 4, 5, 9, 18, 1711; 8, 1712; 6, 8, 1716; 22, 1715; 5, 6, 1720; 8, 1721; 7, 1722; 3, 1723-4; 3, 1725-6; 3, 1731; 2, 1733; 9, 1737; 3, 1739; 4, 5, 6, 1740; 10, 1741; 1, 5, 1743; 2, 1744; 10, 1745; 3, 1749; 1, 1750; 4, 10, 12, 1752; 4, 5, 1753; 3, 5, 10, 1756; 4, 6, 1757.
- Dyer, William, rhif 4, 1688; 3, 1706; 9, 1714; rhif 6, 1731.

E.

- E., E., rhif 8, 1693; 1711; 5, 18.
- E., R. (R. E.), rhif 7, 1657; 3, 1629.
- E., L. (L. E.), rhif 11, 1762; 1, 1770; 16, 1777.
- Earl, Jabez, D.D., rhif 3, 1735.
- Eddowes, J. a J. Cotton (argraffwyr), rhif 1, 1751; 5, 1752; 1, 1755; 2, 1758; 3, 1765; 18, 1771; 1, 1772; 4, 1773; 2, 1776; 4, 1771; 1, 1784; 1, 1788.

- Eddowes, J., rhif 18, 1756; 14, 1768; 20, 1772; 23, 1775; 23, 24, 1783.
- Eddowes, J. a W., rhif 1, 27, 31, 1790; 26, 1793.
- Edwards, Charles, rhif 1, 4, 1671; 1, 4, 5, 1675; 1, 1676; 3, 5, 1682; 4, 1684; 4, 1686; 3, 1688.
- Edwards, Parch. David, rhif 6, 1771.
- Edwards, John (Nannerch), rhif 1, 1688.
- Edwards, John, D.D., rhif 1, 1709.
- Edwards, John (Glyn Ceiriog), rhif 20, 1767; 6, 7, 1768.
- Edwards, John, rhif 3, 1588.
- Edwards, Jonathan, rhif 10, 1693; 1, 1694.
- Edwards, Roger, rhif 1, 1745.
- Edwards, Thomas (Nant), rhif 14, 1764; 4, 1775; 28, 1777; 1, 1778; 4, 1787; 18, 1790; 37, 1798; 38, 1794.
- Edwards, W. (argraffydd), rhif 3, 1794; 10, 1796; 2, 12, 37, 1798; 12, 1799.
- Edwards, Thomas (Offeiriad), rhif 13, 1768.
- Edwards, Thos. (Rhual), rhif 5, 1699.
- Edwards, William, rhif 2, 1709; 2, 1710.
- Efan, Rhys (argraffydd), rhif 2, 1753.
- Einon, John, rhif 6, 1737.
- Elliot, John, rhif 18, 19, 20, 1643.
- Ellis, Cadwaladr (Bala), rhif 5, 1700; 3, 1703.
- Ellis, Dafydd (Derwen), rhif 1, 15, 1774; 1, 1776.
- Ellis, E. (Eglwys Rhos), rhif 8, 1761.
- Ellis, Ellis ab (Llandrillo, yr un a'r uchod, ef allai), rhif 7, 1750.
- Ellis, Evan (Llanfihangel), rhif 2, 1758; 9, 1759.
- Erbery, William, rhif 18, 1653.
- Ellis, Rowland, rhif 10, 1727.
- Ellis, Thos., rhif 1, 1663.
- Enderbie, Percy, rhif 4, 1661; 1, 1663.
- Erbury, William, rhif 8, 1652; 18, 1653; 4, 1659; 4, 1685; 13, 1770.
- Erskine, Ebenezer, M.A., rhif 5, 1744; 7, 1759; 21, 1764; 14, 1767; 7, 1783.
- Erskine, Ralph, M.A., rhif 5, 1744; 15, 1745; 31, 1765; 1, 1790; 19, 1791; 4, 1792.
- Evans, Arise, rhif 2, 1640; 4, 1652.
- Evans, Benjamin (Trewen a Llanuwchllyn), rhif 7, 1767; 7, 1769; 4, 1772; 5, 1776; 11, 1788; 10, 18, 36 (?), 1789; 9, 1790; 2, 1797.
- Evans, Christmas, rhif 12, 1795; 18, 1800.
- Evans, Parch. D. Silvan, rhif 1, 1670; 3, 1686; 6, 1703; 8, 1704; 3, 1707; 9, 1716; 3, 1717; 17, 1764; 19, 1767.
- Evans, D. (argraffydd), rhif 3, 1652.
- Evans, David (Plas Du), rhif 3, 1716.
- Evans, David (Trehedyn), rhif 5, 1722.
- Evans, Evan (Ieuan Brydydd Hir) rhif 8, 1757; 16, 1764; 7, 1769; 2, 1770; 9, 1772; 3, 1773; 2, 1776.
- Evans, E. (argraffydd), rhif 8, 1772; 14, 29, 1773; 7, 13, 16, 18, 22, 34, 42, 1774; 3, 21, 1775; 9, 13, 14, 23, 1776; 6, 13, 25, 1777; 7, 22, 26, 1778; 1, 12, 14, 16, 19, 20, 27, 1779; 2, 16, 1780; 8, 11, 12, 19, 21, 1781; 10, 13, 14, 15, 16, 17, 1782; 22, 1784.
- Evans (neu Evan), Edward (Aberdâr), rhif 5, 1757; 15, 1767; 20, 1775.
- Evans, — rhif 1, 1660.
- Evans, Henry (Bedwellty), rhif 7, 1700; 19, 1781.
- Evans, Hugh, M.A., rhif 17, 21, 1773.
- Evans, Hugh (cyhoeddwr), rhif 27, 1767.
- Evans, Jenkin, rhif 2, 1708.
- Evans, Parch. Jenkin, rhif 10, 1744.
- Evans, John, rhif 18, 1778; 13, 1793.
- Evans, J. (argraffydd, Aberhonddu), rhif 7, 12, 17, 38, 1784.
- Evans, John (argraffydd, Caerfyrddin), rhif 2, 179; 2, 10, 13, 18, 22, 30, 1797; 4, 5, 8, 10, 14, 29, 34, 35, 1798; 17, 18, 20, 21, 22, 23, 1799; 18, 1800.
- Evans, John, M.A., rhif 2, 1765; 7, 1769; 2, 1773; 13, 1800.
- Evans, John (Pistyll Meugan), rhif 2, 1729.
- Evans, John (Eglwys Gymmun), rhif 8, 1752.
- Evans, John (Bala), rhif 2, 1759; 1, 2, 1761.
- Evans, John (llyfrwerthydd), rhif 17, 1794.
- Evans, John (Llanarth), rhif 18, 1799 [Ifan Tomas Rhys].
- Evans, J., rhif 13, 1741.
- Evans, Josiah, rhif 13, 1793.
- Evans, Lewis (St. Clears), rhif 11, 12, 19, 1711.
- Evans, Lewis (Llandyssilio), rhif 9, 1737.
- Evans, Richard, rhif 7, 1750.
- Evans, Theophilus, rhif 1, 1715; 4, 1716; 3, 1717; 3, 1722; 7, 1728; 2, 1733; 4, 12, 1740; 9, 1747; 4, 12, 1752; 4, 1757; 12, 1759; 2, 1760; 10, 1777; 3, 1794; 12, 1799.
- Evans, Thos. (Undodydd), rhif 22, 30, 1793; 3, 10, 1795; 5, 1796.

- Evans, Thomas (Llanfair Caereinion), rhif 3, 1746.
 Evans, Thos. (Pengwern, yr un â'r uchod, tybygid), rhif 5, 1750; 17, 1774.
 Evans, T. (argraffydd), rhif 17, 1774; 19, 26, 1775; 15, 1781; 16, 1783; 6, 1784; 32, 1798.
 Evans, Titus (argraffydd), rhif 14, 1787; 9, 10, 1789; 28, 29, 1790; 9, 19, 1791; 4, 5, 6, 9, 12, 1792; 1, 1793.
 Evans, W. (Llanhaden), rhif 14, 1771.
 Evans, W. (o'r Fedw Arian), rhif 1, 1786; 13, 1789.
 Evans, Parch. W. (Towy Castle), rhif 10, 1798.
 Evans, William (Caerfyrddin), rhif 2, 1707; 6, 1714; 5, 1717; 11, 1759; 5, 1771.
 Everingham, J. (argraffydd), rhif 2, 1756.
 Everingham, W. (argraffydd), rhif 1, 2, 4, 5, 1693.
 Ewer, Samuel, rhif 3, 1767.
 Ewets, Edward, rhif 6, 1705.
 Eyre, C. (argraffydd), rhif 2, 1780.
 Eyre, Edward John, rhif 1, 1753.
 Eyres, William (argraffydd) rhif 28, 1771.

F.

Fychan, Mrs. Margaret (o Lwydiarth), rhif 1, 1689.

F (FF).

- F., J. (J. F.), rhif 6, 1713.
 Farley, E. (argraffydd), rhif 7, 1753; 1, 5, 6, 1754; 3, 1755; 1, 7, 1757; 5, 1758; 12, 1762; 13, 1764; 2, 1765.
 Farley, Felix (argraffydd), rhif 1, 1742; 2, 1743; 7, 8, 1744; 7, 8, 1745; 3, 1747; 11, 20, 1750; 3, 1751; 14, 1752; 3, 1753.
 Farley, Samuel a Felix (argraffwyr), rhif 4, 1739; 12, 1749.
 Farley, Samuel (argraffydd), rhif 5, 1732; 2, 1746; 14, 1750; 3, 1754; 13, 1765; 15, 1767.
 Faust, John, t. 1.
 Ffaust, neu Ffust, John, t. 1.
 Felton, W. (argraffydd), rhif 17, 1794.
 Fisher, Edward, rhif 1, 1651; 1, 1754; 11, 1782.
 Flavell, rhif 9, 1792.

- Fletcher, J., rhif 9, 1799.
 Fletcher, T. (argraffydd), rhif 4, 1791; 9, 1793; 8, 1794.
 Fleetwood, rhif 4, 1657; 2, 1658.
 Fleetwood, Esgob, rhif 6, 1713; 5, 1716.
 Flesher, James, rhif 1, 1654; 6, 1655.
 Flesher, M. (argraffydd), rhif 3, 1685.
 Ffossett, Benjamin, M.A., rhif 1, 1792.
 Foley, Rich., rhif 43, 1792.
 Foulks, T. (Bala), rhif 1, 1761.
 Foulkes, Wm., rhif 1, 1685; 1, 1688.
 Ffowks, Edward, rhif 1, 1664.
 Fox, George (y Crynwr), rhif 5, 1660.
 Fox, John, rhif 37, 1707; 4, 1784.
 Fox, John, rhif 42, 1794.
 Francis, Abel, rhif 23, 1775.
 Francis, Benjamin, rhif 20, 1774; 7, 10, 1786; 8, 1787; 21, 1790; 16, 1793; 11, 1794; 14, 1799.
 Francis, Edward, rhif 9, 1799.
 Francis, Enoch, rhif 2, 1729; 3, 1733.
 Franklin, Dr. Benjamin, rhif 2, 1730.
 Free, rhif 24, 1788.
 Frith, John, rhif 3, 1573.
 Froissart, Sir John, rhif 6, 1797.
 Frossardus, Johannes, rhif 6, 1587.

G.

- G., J. (J. G.) rhif 10, 1774.
 Galfridus Monemuthensis (= Siefrai o Fynwy), t. 2; rhif 1, 1585; 6, 1587.
 Gambold, J., rhif 27, 1789.
 Gambold, W., rhif 2, 1727.
 Gastrel, Esgob, rhif 2, 1773.
 Gawler, F., rhif 6, 1659.
 Gearing, Henry, rhif 8 (1), 1748.
 Gemeticensis, Wilhelmus, rhif 4, 1603.
 Gensfleisch (= Guttenberg), t. 1.
 'Gentleman of Oxford,' rhif 6, 1709.
 George, Sarah, rhif 1, 1687.
 Gerson, John, rhif 2, 1672.
 Gibson, Edmund (Esgob), rhif 5, 1695; 5, 1696; 4, 1711; 3, 1742.
 Gilbertson, William, rhif 2, 1663.
 Gildas, t. 2; d.f. 1563; 2, 1568; 6, 1587; 16, 1610; 1, 1638.
 Giles, Dr. J. A., t. 2; rhif 6, 1587.
 Gill, Dr. John, rhif 5, 6, 1751; 16, 1782; 1, 1799.
 Gilpin, W., rhif 22, 1782; 32, 1789; 11, 1800.
 Giraldus Cambrensis, Sil., rhif 2, 3, 1585; d.f. 1602; 4, 1603.

Glass, John, rhif 4, 1764; 4, 1766; 3, 1781.
 Godwin, Dr. Francis (Esgob), rhif 2, 1515.
 Goodman, Dr. Gabriel, rhif 1, 1588; 1, 1603.
 Goodman, John, rhif 1, 1725-6.
 Gosling, R., rhif 7, 1717; rhif 5, 1719.
 Gouge, Thomas, rhif 37, 1672; 1, 4, 1675; 3, 1676; 5, 1677; 4, 1684; 4, 5, 1693; 5, 1724.
 Gower, John, t. 3.
 Grabham, John (argraffydd), rhif 11, 20, 1759.
 Graeham, John (argraffydd), rhif 9, 1760.
 Gray, T., rhif 34, 1798.
 Grew, Obadiah, D.D., rhif 1, 1785.
 Greenhill, W., rhif 7, 1657; 4, 1727.
 Griffies, Jonathan, rhif 1, 1746.
 Griffies, Lewis, rhif 1, 1723.
 Griffin, Bennet, rhif 3, 1682.
 Griffin, Sarah (argraffyddes), rhif 2, 1656; 4, 1658.
 Griffith, Alesander, rhif 5, 1652; 14, 1653; 2, 3, 1654.
 Griffith, Benjamin, rhif 2, 1730.
 Griffith, — (Bron y Garth), rhif 1, 1685.
 Griffith, Daniel, rhif 8, 1790.
 Griffith, E., rhif 2, 1775; 8, 1783; 4, 1785; 52, 1796.
 Griffith, George (Esgob), rhif 1, 2, 1652; 3, 1658; 4, 1664; 1, 1685; 16, 1716.
 Griffith, Gwilym ab, rhif 1, 1773.
 Griffith, Hugh (Llwyn Brain), rhif 7, 1750.
 Griffith, Ieuan ab, rhif 3, 1717.
 Griffith, John (Glandwr), rhif 20, 1791.
 Griffith, John (Pant Seison), rhif 23, 1766.
 Griffith, John (Caernarfon), rhif 23, 1783; 1, 1788; 21, 1799.
 Griffith, Morris (Hwlfordd), rhif 18, 1770; 8, 1784.
 Griffith, Wm., rhif 8, 1774.
 Griffiths, Evan (argraffydd), rhif 15, 1775.
 Griffiths, Thomas (Tau Gimel), rhif 24, 1779.
 Griffiths, Vaughan (argraffydd), rhif 2, 1793; 2, 1794.
 Griffiths, William Hughes, rhif 18, 1799.
 Grindal, Archesgob, rhif 1, 1567 (t. 13).
 Grotshhead, Robert, rhif 5, 1700; 3, 1719.
 Gross, rhif 15, 1784.

Grotius, Hugo, rhif 9, 1716; 5, 1765.
 Gruffydd ab Arthur (=Sieffrai o Fynwy), t. 2; rhif 1, 1585; 6; 1587.
 Gruffydd, Ifan neu Ieuan, rhif 3, 1717.
 Gryffythe, Hughe, rhif 4, 1578.
 Guillim, John: gweler Gwilym, John
 Gulielmus, Moses: gweler Williams, Moses.
 Gulielmus Newbricensis (=Gwilym Bach), rhif 6, 1587.
 Gurnal, W., rhif 21, 1775; 18, 1784; 31, 1794.
 Guttenberg, John (argraffydd), Rhag-draith, t. 1.
 Guyse, John, D.D., rhif 31, 1794; 3, 1800.
 Gwallter Mechain, rhif 1, 1603; 7, 1769; 1, 1791; 19, 21, 1793; 1, 1795; 2, 10, 1798; 37, 1799; 14, 1800.
 'Gweinidog o Eglwys Loegr,' = Jones, Griffith (Llanddowror).
 'Gweinidog o Eglwys Loegr,' rhif 24, 1768; 20, 1778.
 Gwilym, Dafydd ab, rhif 11, 1789
 Gwilym, Ioan ab (St. Athan), rhif 27, 1793.
 Gwilym, John, rhif 2, 1611; 6, 1660; 5, 1664; 6, 1724.
 Gyles, F., rhif 6, 1729.
 Gyles, T. (cyhoeddwr), rhif 1, 1729.

H.

H., I. (I. H., Pabydd), rhif 1, 1670.
 H., J., rhif 14, 1740.
 H., W. (W. H.), rhif 4, 1671.
 Habington, rhif 1, 1638.
 Haliwel, J. O., rhif 5, 1603.
 Hall, Robert, rhif 18, 1794.
 Hall, Dr. J., rhif 9, 1782; 3, 1800.
 Hall, Henry, rhif 1, 1661; 1, 1677.
 Hallward, Parch. John, M.A., rhif 3, 1777; 2, 1787.
 Harper, Thos. (argraffydd), rhif 3, 1630.
 Hartley, David, rhif 32, 1799.
 Harvey, Richard, rhif 3, 1593.
 Harvie, John (argraffydd), rhif 4, 5, 7, 13, 24, 1767; 15, 1771; 7, 1772; 18, 1773; 6, 1768.
 Harri, George Owen, d.f. 1604.
 Harri, Ioan, rhif 1, 1725.
 Harri, Miles, rhif 1, 1725.
 Harries, E., rhif 35, 1798.
 Harries, John (Llanfrynach), rhif 10, 1791.
 Harries, John (Capel Isaac), rhif 2, 1716.

- Harries, John (Cydweli), rhif 3, 1688.
 Harries, Solomon, rhif 11, 1774; 24, 1783.
 Harris, Howel, rhif 3, 1742; 9, 39, 1774; 19, 1782; 13, 1792.
 Harris, Joseph (Gomer), rhif 31, 33, 1793; 11, 1796.
 Harry, Dafydd, rhif 2, 1730.
 Hassal, Charles, rhif 6, 43, 1794.
 Havad, James, rhif 1, 1670.
 Hearnus (Hearne neu Hearn), Thomas, rhif 22, 1716.
 Heath, Charles, rhif 38, 1793.
 Henderson, James (argraffydd, Hafod) rhif 1, 1800.
 Henry, Matthew, rhif 2, 1708; 2, 1716; 5, 1717; 3, 1728, 7, 1743; 5, 1768; 1, 1772.
 Henry, Philip a M., rhif 1, 1687.
 Herbert, Sir Thomas, rhif 1, 1635.
 Herbert, Wm. (Maes y Berllan), rhif 6, 1761; 23, 1775.
 Hervey, Parch. J., rhif 15, 1760; 15, 1771; 7, 1772; 3, 1785.
 Heton, Thos., rhif 9, 1707.
 Hett, Richard (argraffydd), rhif 1, 1732; 15, 1768.
 Heylyn, Dr. Peter, rhif 5, 1681.
 Heylyn, Rowland, rhif 2, 1630.
 Hills, Harri (cyhoeddwr), rhif 2, 1718; 1, 1727.
 Hill, Henry, rhif 5, 1677; 1, 2, 1718; 1, 1727; 2, 1780.
 Hill, Sir Richard, rhif 2, 1769; 3, 1783; 34, 1789; 13, 1790.
 Hill, Rowland, rhif 15, 1775.
 Hoadley, Dr. Benjamin, rhif 9, 1717.
 Hoare, Sir Richard Colt, rhif 4, 1603.
 Hodges, J. (argraffydd), rhif 4, 1791.
 Hodges, W., rhif 17, 1794.
 Hoey, Peter (argraffydd), rhif 12, 1776.
 Holford, M., rhif 36, 1798.
 Holmes, Benjamin (Crynwr), rhif 2, 1746; 20, 1777.
 Holland, rhif 10, 1610.
 Holland, Robert, rhif 1, 1600; rhif 3 (2), 1677; 1 (2), 1681.
 Holdsworth, E., rhif 32, 1799.
 Holdsworth, T., rhif 6, 1709.
 Hope, W. (Trefostyn), rhif 17, 1765.
 Hopkin, Lewys, rhif 15, 1767.
 Horsley, Samuel (Esgob), rhif 10, 1791.
 Horton, Col., rhif 3, 5, 6, 8, 1648; 7, 1722.
 Howell, Parch. Howell, rhif 6, 1780.
 Howell, James (y llythyrwr), rhif 10, 1658; 1, 1659; 4, 1660; 3, 1726.
 Howel, J. (o Gydweli), rhif 3, 1660.
 Howell, William (Llanidloes), rhif 3, 1688.
 Hucks, Mr., rhif 14, 1795.
 Huddesford, J., rhif 10, 1760.
 Huet, Thomas, rhif 1, 1567; 1, 1620.
 Hughs, J., (argraffydd), rhif 17, 1764; 18, 1768; 15, 1769.
 Hughes, A. (argraffyddes), rhif 7, 1793; 12, 1794.
 Hughes, D. (Llanelli), rhif 16, 1782; 7, 1783.
 Hughes, Evan (Llanfihangel y Penant), rhif 4, 1777.
 Hughes, Henry (argraffydd), rhif 24, 1778; 15, 1783.
 Hughes, Hugh (o Fon), rhif 1, 1763; 1, 6, 12, 1773; 8, 1774.
 Hughes, J. (Trefaes), rhif 3, 1769.
 Hughes, J. (argraffydd, Croesoswallt), rhif 16, 1790.
 Hughes, Jonathan, rhif 1, 1778; 37, 1798.
 Hughes, Owen, rhif 10, 1788.
 Hughes, Robert (Caint Bach), rhif 1, 1773.
 Hughes, Stephen, rhif 1, 1646; 2, 6, 1672; 4, 1674; 2, 5, 1677; 1 (1), 1681; 1, 1687; 2, 1688; 1, 1689-90; 1, 1692; 8, 1700.
 Hughes, Thos., rhif 3, 1587.
 Hughes, W., rhif 6, 1652.
 Hughes, Dr. William (Esgob), rhif 1, 1588.
 Hughes, William (achydd), rhif 20, 1716.
 Hughes, William (Llanfihangel Glyn y Myfyr), rhif 4, 1783.
 Hughes, William (Dinas Mawddwy), rhif 11, 1799.
 Hugnes, William, rhif 26, 1788.
 Humphreys, D., rhif 11, 1773.
 Humphreys, Esgob, d.f. 1546; rhif 3, 1593; 3, 1701; 6, 1703.
 Humphreys, John, rhif 1, 1798.
 Humphrys, John, rhif 1, 1670.
 Humphreys, Joseph, rhif 10, 1781.
 Humphreys, Thomas, rhif 21, 1775.
 Husband, Edward (argraffydd), rhif 5, 6, 1644.
 Hutton, J. (argraffydd), rhif 13, 1740; 4, 1741.
 Huw, Rolant, rhif 37, 1798.
 Huxley, J. a W. Read (argraffwyr), rhif 4, 1765; 13, 1768; 4, 1769.
 Huxley, Thomas (argraffydd), rhif 4, 5, 21, 1783.
 Hydderch, John:gweler Rhydderch, John.

1714; 6, 1716; 3, 5, 1717; 2, 1719; 2, 1725-6; 1, 1730; 7, 1743; 1, 1750; 12, 1760; 5, 1768.

Ibbitson, Robert (argraffydd), rhif 8, 1649.

Ieuan ab Gruffydd, rhif 3, 1717.

Ieuan Brydydd Hir, rhif 8, 1757; 16, 1764; 7, 1769; 2, 1770; 9, 1772; 3, 1773; 2, 1776.

Ifan Gruffydd (neu ab Gruffydd), rhif 3, 1717.

Ifan Sion, rhif 15, 1778; 17, 1782.

Ifan Thomas Rhys, rhif 18, 1799.

Ifans, John, rhif 2, 1735.

Ifans, Stephen, rhif 21, 1770.

Innis, W. a J., rhif 6, 1715.

Ioan, Daniel ab, rhif 33, 1794.

Ioan, Dafydd ab (=y Parch. D. Jones), rhif 5, 1784.

Ionawr, Dafydd, rhif 7, 1792; 4, 1795; 25, 1799.

Iolo ap Iorwerth Gwilym, rhif 38, 1791; 21, 1793; 9, 1797.

Iolo Fardd Glas, rhif 38, 1791; 21, 1793; 9, 1797.

Iolo Morganwg, rhif 1, 1567 (t. 11); 40, 1792; 15, 1794.

Ireland, Samuel, rhif 36, 1797.

Isaac, Dafydd, rhif 6, 1737.

J.

J., J. (J. J.), rhif 2, 1719.

J., T. (T. J. of Oswestry), rhif 2, 1678.

J., T., rhif 1, 1719.

J., T. (T. J.), rhif 1, 1719.

James, Edward, rhif 1, 1606.

James, Evan, rhif 4, 1773.

Jeffreys (Barnwr), rhif 8, 1725.

Jenkin, David, rhif 5, 1717.

Jenkin, David, rhif 10, 1648.

Jenkin, E. D., rhif 18, 1729.

Jenkins, David (y Barnwr), rhif 11, 12, 13, 14, 15, 17, 18, 1647; 15, 16, 17, 1648.

Jenkins, D. (Annibynwr), rhif 3, 4, 1687; rhif 5, 1719.

Jenkins, Herbert, rhif 3, 1742; 8, 1744.

Jenkins, John (Bedyddiwr), rhif 2, 1696.

Jenkins, Dr. Joseph, rhif 4, 1772; 19, 1773.

Jenkins, Sir Leonel, rhif 7, 1754.

Jenkins, Nath., rhif 23, 1797.

Jenkins, Thomas (Llanboidy), rhif 24, 1798.

Jenkins, T., rhif 24, 1797.

Jenkins, Walter, rhif 22, 1715.

Jewel, Esgob, rhif 2, 1587; 1, 1594; 4, 1671.

John, Joseph, rhif 13, 1761.

Johnes, Bassett, rhif 9, 1648.

Johnes, David, rhif 5, 1717.

Johnes, Thos., Ysw. (Hafod), rhif 6, 7, 8, 1797; 1, 1800.

Johnson, J. (Liverpool), rhif 13, 1773.

Johnson, Samuel, rhif 29, 1773; 27, 1774.

Johnson, Thomas, rhif 3, 1641.

Jones, Benjamin (Pwllheli), rhif 1, 1793.

Jones, Crispianus, rhif 4, 1727.

Jones, Daniel (Rhiwabon), rhif 5, 1790; d.f. 1799.

Jones, Dafydd (Trefriw), rhif 4, 1745; 1, 2, 1750; 6, 1759; 7, 1764; 16, 1766; 1, 8, 1776; 2, 23, 1777; 7, 13, 26, 1779; 1, 9, 1783.

Jones, David (Llangan), rhif 27, 1796; 33, 1791.

Jones, David (= 'Welsh Freeholder'), rhif 35, 1791; 30, 1796.

Jones, David (o Gaio), rhif 2, 1753; 4, 1754; 6, 1763; 27, 1764; 20, 1766; 15, 1770; 22, 1771; 27, 1775; 23, 1777; 23, 1779; 17, 1791; 5, 1794.

Jones, David (Pont y Pwl), d.f. 1758; rhif 24, 1777; 6, 1790.

Jones, David (o Lanwenog), rhif 14, 1764; 5, 1765.

Jones, Parch. David (Llandyssilio), rhif 1, 1619; d.f. 1689-90.

Jones, E., rhif 26, 1794.

Jones, Edmund (Pont y Pwl), rhif 1, 1725; 9, 1713; 12, 1745; 10, 1750; 27, 1777; 10, 1779; 18, 1781; 6, 1782; 6, 1785; 4, 1786.

Jones, Edward (Maes y Plwm), rhif 5, 1797.

Jones, Edward ('Ned Mon'), rhif 26, 1770; 47, 1794; 22, 1695.

Jones, Edward (Bardd y Brenin), rhif 26, 1770; 13, 1784; 14, 1794.

Jones, Edward (Llanmerewig), rhif 4, 1699; 8, 1700; 3, 1712.

Jones, Griffith (Bedyddiwr), rhif 5, 1755.

Jones, Griffith (Llanddowror), rhif 2, 1712; 4, 1722; 1, 4, 5, 1737; 13, 15, 1740; 4, 9, 1741; 4, 5, 1742; 1, 1743; 3, 9, 1745; 1, 1746; 2, 1747; 4, 1748; 1, 2, 9, 1749; 4, 17, 1750; 2, 6, 1751; 8, 9, 11, 1752; 6, 1758; 5, 11, 1761; 6, 9, 10, 13, 1762; 18; 1766; 23, 1770; 9, 1773; 12, 19, 1774; 21, 1777; 10, 11, 1778; 12, 1780; 22, 1783; 24, 1781; 4, 1799.

- Jones, Hugh (Maesglasau), rhif 3, 1774; 3, 1776; 1777; 4, 12, 1782; 1, 1783; 5, 29, 1791.
- Jones, Hugh (o Langwm), rhif 1, 1759; 5, 1777; 9, 1779; 10, 1783.
- Jones, Inigo, rhif 6, 1655.
- Jones, Ishmael, rhif 28, 1793.
- Jones, Jacob, rhif 14, 1791.
- Jones, Jenkin (Llwyn Rhyd Owain), rhif 5, 1717; 1, 1720; 1, 1723; 3, 1727; 7, 1729; 6, 1732; 19, 1768.
- Jones, J. (Llangynog), rhif 3, 1743.
- Jones, Jo., rhif 1, 1683.
- Jones, John (Penarth), rhif 3, 1746.
- Jones, John (argraffydd), rhif 35, 1794; 6, 1798, 9, 35, 1799; 14, 1800.
- Jones, John^{ff} (Llangadfan), rhif 30, 1790.
- Jones, John, M.A., rhif 22, 1767; 23, 1768; 32, 1773.
- Jones, John, rhif 8, 1800.
- Jones, John R. (Ramoth), rhif 25, 29, 1794.
- Jones, John, rhif 29, 1790.
- Jones, John (Glan y Gors), rhif 11, 1779; 4, 1797.
- Jones, John (cyhoeddwr), rhif 3, 1723-24.
- Jones, John (Ty'n y Caeau), rhif 3, 1688.
- Jones, John, B.D. (Archiagon Bangor), rhif 13, 1775.
- Jones, John, D.D., rhif 2, 1714.
- Jones, John, A.C. (Llanllyfni), rhif 3, 1723.
- Jones, Mr., rhif 8, 1747.
- Jones, Maurice, rhif 21, 1792.
- Jones, Michael (Estyn), rhif 3, 1698.
- Jones, Parch. Morgan, rhif 42, 1774.
- Jones, Morgan (Cefnarthen), rhif 1, 1757.
- Jones, Morgan (Blaenau Gwent), rhif 19, 1717.
- Jones, Morgan (Trelech), rhif 8, 1789; 5, 21, 1798.
- Jones, Morgan (M. J., Offeiriad), rhif 3, 1741; 3, 1742.
- Jones, Owen (Myfyr), rhif 11, 1789.
- Jones, Rice (Llanfair Caereinion), rhif 13, 1653.
- Jones, Rice (o'r Blaenau), rhif 14, 1770; 5, 1773.
- Jones, Richard (Dyffryn Clwyd), rhif 8, 1765.
- Jones, Richard (Caerdydd), rhif 3, 1611.
- Jones, Richard (Dinbych), rhif 1, 1655; 1, 1795; 1, 1677.
- Jones, Richard (Bodedeyrn), rhif 12, 1760.
- Jones, Richard (argraffydd), rhif 1, 1567; 2, 3, 1578.
- Jones, Robert (Rhoslan), rhif 21, 1775; 5, 1776; 5, 1797; 7, 1799; 25, 1788.
- Jones, Rowland, Ysw. (Broom Hall), rhif 18, 1768; 10, 1771; 25, 1773.
- Jones, Samuel (Bryn Llywarch), rhif 1, 1687.
- Jones, Sion Cain, rhif 3, 1688.
- Jones, Sir Thos., rhif 6, 1717.
- Jones, Thos. (Mwythig), rhif 3, 1664; 5, 6, 1683; 2, 1685; 3, 1687; 3, 5, 1688; 1, 1689-90; 1, 1692; 1, 4, 1696; 1, 1698; 6, 10, 11, 1700; 7, 1703; 10, 1707; 1, 2, 1708; 5, 1710; 11, 12, 1711; 9, 1712; 1, 1760; 17, 1777.
- Jones, Thomas (Bardd Cloff), rhif 35, 1799.
- Jones, Thomas (o'r Maes), rhif 26, 28, 1774.
- Jones, Thos., (Caerfyrddin, fel y tybir), rhif 24, 1791; 9, 1796.
- Jones, Thomas (Pennant), rhif 12, 1763; 4, 1778; 2, 1779.
- Jones, Thomas (Dinbych), rhif 3, 1787; 2, 1792; 2, 1799; 15, 1800.
- Jones, Thos. (Creaton), rhif 3, 1783; 1, 13, 1790; 6, 1792; 2, 10, 1799.
- Jones, W. (Bardd Mon), rhif 1, 1773.
- Jones, W. C., a T. Carnes (argraffwyr), rhif 3, 1797; 1, 1798; 2, 10, 1799.
- Jones, Wm. (Meirion), rhif 4, 1664; 2, 3, 1676; 4, 1684.
- Jones, Wm., rhif 7, 1761; 1, 1762; 3, 1764.
- Jones, Wm., Ysw., F.R.S., rhif 1, 1746.
- Jones, William, B.A. (Baschurch), rhif 38, 1774.
- Jones, William (argraffydd), rhif 1, 1567.
- Jones, William, rhif 34, 1777.
- Jones, William (Bettws Gwerfil Goch), rhif 37, 1798.
- Jones, William, M.A., F.R.S. (Nayland), rhif 7, 1794.
- Josseline, John, rhif 2, 1568.
- Jovius, Paulus, rhif 1, 1568.

K.

- Kay, George, rhif 40, 1794.
- Kames, Lord, rhif 8, 1749.
- Keach, Benjamin, rhif 2, 1696; 2, 1703; 5, 1729.
- Keimer, Samuel (argraffydd), rhif 1, 1730.

Keith, George, rhif 2, 1751.
 Kempis, Thomas á, rhif 2, 1679; 5, 1684; 4, 1723; 2, 1744.
 Kenn, Thomas (Esgob), rhif 1, 1768.
 Kent, Thomas, rhif 7, 1661.
 Kettlewell, John, rhif 4, 1768.
 Kincoid, Alecsander (llyfrwerthwr), rhif 7, 1738.
 King, Charles, rhif 2, 1715.
 King, Esgob, rhif 8, 1721.
 Knightley, Sir Richard, rhif 1, 1588.
 Knox, John (argraffydd), rhif 10, 1766.
 Knox, Thomas, rhif 17, 1800.
 Kyngton, Felix (argraffydd), rhif 1, 1630; 1, 1631.
 Kyffin (neu Cyffin), M. (o'r Glasgoed), rhif 2, 1587; 1, 1594; 2, 1603; 4, 1671.
 Kyffin (neu Cyffin), Edward, rhif 2, 1603; 1, 1631.

L.

L., H. (H. L.), rhif 1, 1595.
 L., J. (J. L.), rhif 18, 1716.
 L., W. (W. L.), rhif 1, 1684; 14, 1716.
 Langford, J., rhif 7, 1672; 2, 1684; 3, 1711.
 Langhorne, Major Thomas, rhif 6, 1643; 5, 1648.
 Langhorne, Major Gen., d.f. 1645.
 L. E., rhif 11, 1762; 5, 1770; 16, 1777.
 Lathorp, Richard, rhif 4, 1699; 9, 14, 17, 18, 1740; 1, 1744; 24, 1745.
 Laud, Dr. W. (Esgob), rhif 2, 1625.
 Laugharne, Col. Rowland, rhif 6, 1643; 6, 1644.
 Leach, Thomas, rhif 10, 1658.
 Leathart, W. D., rhif 24, 1799.
 Legatt, John (argraffydd), rhif 1, 1614.
 Leland, John, d.f. 1546.
 Lee, Edward, rhif 21, 1759.
 Lee, Matthew, rhif 5, 1775.
 Leeds, Dug, rhif 11, 1693.
 Lewes, Erasmus (Llanbedr), rhif 5, 1725.
 Lewis, Benjamin (Casnewydd), rhif 14, 1750.
 Lewys, D., rhif 6, 1714; 2, 1716.
 Lewys, Dafydd (Llangatwg), rhif 5, 1710; 2, 1725.
 Lewys, Dafydd (Gweinidog yr Efengyl), rhif 10, 1714; 7, 1740.
 Lewis, Dafydd (Caerfyrddin), rhif 2, 1764.
 Lewis, Mr. Dafydd, rhif 1, 1750.

Lewis, Elis (Llwyn Gwern), rhif 1, 1661; rhif 3, 1684.
 Lewis, George, D.D., rhif 12, 1796.
 Lewis, George, M.A., rhif 6, 1704; 2, 1715.
 Lewis, Hugh, rhif 2, 1594.
 Lewis, James (Pencader), rhif 5, 1717; 4, 1730.
 Lewis, James, rhif 28, 1793.
 Lewis, Jenkin (Gwreccsam), rhif 29, 1793.
 Lewis, John (Maes Gwyn), rhif 9, 1740.
 Lewis, John, Ysw. (Glasgrug), rhif 2, 1646.
 Lewis, John, Ysw. (Maenor Owain), rhif 7, 1721.
 Lewis, John (Crynwr), rhif 8, 1773.
 Lewis, John (llyfrwerthydd) rhif 1, 1731-2.
 Lewis, John (Margate), rhif 3, 1713; 11, 1744; 30, 1790.
 Lewis, John (cynghawswr), rhif 6, 1729.
 Lewis, John (argraffydd), rhif 8, 1741; 8, 1743.
 Lewis, Piers (o Fon), rhif 2, 1690.
 Lewis, Rees, rhif 2, 1714.
 Lewis, Samuel (argraffydd), rhif 4, 6, 1744; 9, 12, 14, 15, 16, 1745.
 Lewys, Sion Rhobert, rhif 3, 1688; 12, 1760; 8, 1762; 8, 1766; 4, 1767; 8, 1768; 23, 1773; 15, 1778; 2, 1788; 8, 1796.
 Lewis, T., rhif 2, 1701; 5, 1722; 5, 1731; 42, 1774; 3, 1782.
 Lewis, Thomas, rhif 1, 1795.
 Lewis, Wm. (Llwyn Derw), rhif 1, 1725-6; 2, 1728.
 Lewis, William (Llangloffan), rhif 17, 1786; 14, 1798.
 Lichfield, Leon, rhif 1, 1691.
 Linden, Diederick Wessel, rhif 2, 1756; 19, 1767.
 Lindsey, Theo., rhif 5, 1796.
 Longhurst, John, rhif 1, 1683.
 Love, Christopher, M.A., rhif 3, 4, 1651.
 Lovibond, E., rhif 12, 1785.
 Lucas, Martin (argraffydd), rhif 1, 1588.
 Lyon, rhif 6, 1729.
 Ll., J. (J. Ll.), rhif 5, 1722.
 Ll., R. (R. Ll.): gwel Lloyd, Robert.
 Ll., W. (W. Ll., Llandegai), rhif 16, 1766.
 Llewelyn, Sion, rhif 8, 1772; 13, 1780.
 Llewelyn, Thomas (Glyn Eithinog), rhif 1, 1567 (t. 12).
 Llewelyn, Dr. Thomas, rhif 15, 1768; 7, 9, 1769; 26, 1793.

- Lloyd, Charles, Thomas, a Samuel (o Ddolobran), rhif 3, 1675.
- Lloyd, Da., A.M., rhif 1, 1668; 5, 1670.
- Lloyd, Dafydd (Llwyn Rhyd Owain), rhif 7, 1785.
- Lloyd, Dafydd, rhif 15, 1716; 4, 1721.
- Lloyd, David, rhif 5, 1670.
- Lloyd, Parch. David (Llanbister), rhif 43, 1792.
- Lloyd, David (Pennsilvania), rhif 10, 1727; 2, 1730.
- Lloyd, Edward (Llangower), rhif 8, 1682; 8, 1722.
- Lloyd, Henry, rhif 20, 1750; 8, 1751.
- Lloyd, Hugh (o Gynfal), rhif 7, 1750.
- Lloyd, John (Maes y Pandy), rhif 3, 1658.
- Lloyd, John, B.A., rhif 12, 1788.
- Lloyd, Parch. John (Caerwys), rhif 17, 1788.
- Lloyd, Lodwick, rhif 8, 1658.
- Lloyd, Rees, rhif 9, 1788; 26, 1794.
- Lloyd, Robert (cyhoeddwr), rhif 32, 1764.
- Lloyd (neu Llwyd), Robert (o'r Waen), rhif 1, 2, 1629; 1, 4, 1630; 1, 1631; 3, 1682.
- Lloyd (neu Llwyd), Robert (Llangedwyn), rhif 1, 2, 5, 1713; 14, 16, 1716.
- Lloyd, Morgan: gwel Llwyd, Morgan (o Wynedd).
- Lloyd, Thos., Ysw., rhif 42, 1794.
- Lloyd, Thomas, rhif 1, 1750.
- Lloyd, Dr. W. (Esgob), rhif 1 (1), 1677-8; 6, 1684; 1, 1687; 2, 1690; 1, 1717; 5, 1730.
- Llwyd, Dafydd, rhif 7, 1785.
- Llwyd, Dr. Dafydd (Llanelwy), rhif 5, 1659.
- Llwyd, Dafydd (Llandefathew), rhif 8, 1721.
- Llwyd (neu Lhwyd), Edward (hynafiaethydd), rhif 5, 1698; 4, 1707; 4, 1733; 7, 1738; 10, 11, 1760.
- Llwyd, Parch. Edward, A.C., (Periglor Llangower), rhif 8, 1682; 8, 1722.
- Llwyd, Harri, rhif 9, 1771; 27, 1773.
- Llywarch Hen, rhif 7, 1792; 25, 1793; 30, 1794.
- Llwyd (Lhwyd, Lhuyd, neu Lloyd), Humphrey, rhif 1, 1553; 1568; 1, 1572; 1570; 1572; 1573; 1, 2, 1578; 1, 1584; 1, 1677; 6, 1723; 6, 1729; 1731.
- Llwyd, Morgan (o Wynedd), rhif 15, 16; 1653; 1, 3, 1657; 4, 1684; 6, 1727; 7, 8, 1737; 1, 1739; 14, 1745; 1, 1750; 1, 1752; 8, 1765; 26, 1766; 13, 1770; 6, 1773.
- Llwyd, R. (Hirnant), rhif 2, 1768.
- Llwyd, Walter, rhif 5, 1722,

M.

- M., D. (D. M.) rhif 8, 1776.
- M., O. G. (O. G. M.), rhif 6, 1657.
- M., J. (J. M.): gwel Morgan, John (llyfrwerthwr).
- M., W. (W. M., A.B.), rhif 4, 1723.
- Mabb, T., rhif 1, 1651.
- Macgowan, John, rhif 10, 1769.
- Mackaeg, Tho., rhif 1, 1719.
- Mackworth, Sir H., rhif 6, 1698; 5, 1705; 8, 1707.
- Macpherson, Mrs., rhif 15, 1773.
- Madyn, Ioan, rhif 3, 7, 1707; 4, 1784.
- Malcolme, Dr., rhif 9, 1744.
- Malory, Syr Thomas, t. 2.
- Mansell, Sir Thomas, rhif 8, 1707.
- Manton, Thos., rhif 1, 1688.
- Manuel, Dafydd, rhif 37, 1798.
- Marsh, John, rhif 1, 1691.
- Marsh, R. (argraffydd), rhif 4, 1745; 6, 1750; 3, 1760; 4, 1772; 13, 17, 1775; 18, 1776; 4, 9, 1777; 6, 16, 1778; 19, 1783; 4, 24, 1784; 21, 1788; 28, 1791; 6, 1793.
- Marsh, Samuel (argraffydd), rhif 2, 1795.
- Marsh, T. (argraffydd), rhif 7, 1792.
- Mason, W., rhif 26, 1759; 41, 1774; 9, 1776; 9, 1792; 12, 1798.
- Mason, John, rhif 3, 1771.
- Matthew, Wm., rhif 16, 1786.
- Maurice, David, D.D., rhif 3, 1700; 3, 1702.
- Maurice, Henry (o'r Llwyn), rhif 1, 1687.
- Maurice, Matthias, rhif 1, 1711; 2, 1720; 7, 1727; 5, 1733; 4, 1734; 22, 1759.
- Maurice, Thomas, rhif 5, 1717.
- Mavor, W., rhif 30, 1798.
- Maxwell, A. (argraffydd), rhif 1, 1675; 2, 1676.
- Mayne, Jasper, D.D., rhif 3, 1658.
- Mead, Matthew, rhif 1, 1723; 5, 1779; 16, 1781; 3, 1789.
- Meadows, W., rhif 3, 1709.
- Mears, William (argraffydd), rhif 3, 1717.
- Mechain, Gwallter, rhif 1, 1603; 7, 1769; 1, 1791; 19, 21, 1793; 1, 1795; 2, 10, 1798; 37, 1799, 14, 1800.
- Medley, Samuel, rhif 18, 1779.

- Meddygon Myddfai, rhif 12, 1765.
 Melborne, Robert, rhif 1, 1634.
 Mercurius Urbanus, rhif 5, 1643.
 Meredith, Benjamin, rhif 3, 1721;
 4, 1765.
 Meredith, Thomas, rhif 13, 23, 1770.
 Merick (neu Meirick), John, rhif 1,
 1588 (t. 49).
 Merrick, Parch. James, rhif 15, 1774.
 Merlinus Ambrosius, d.f. 1608.
 Meung (neu Meun), Ioan (Bardd
 Ffrengig), rhif 11, 1789.
 Meur, H. (argraffydd), rhif 7, 1723.
 Meylor, Thos., rhif 1, 1746.
 Meyrick, Sir Samuel Rush: Rhag-
 draith: rhif 2, 1611.
 Meere, Henry (argraffydd), rhif 7,
 1723; 5, 1724.
 Middleton, Arglwyddes, rhif 2, 1649.
 Middleton, Sir Hugh, rhif 1, 1642.
 Middleton, Syr Thos., rhif 2, 1630.
 Middleton, Syr T., rhif 4, 10, 1644.
 Middleton, William (Gwilym Ganol-
 dref), d.f. 1592; rhif 1, 1593; 1,
 1603.
 Mills, H., rhif 10, 1718.
 Minshul, W. (argraffydd), rhif 4,
 1796.
 Mireke (neu Meiryck), Rhys, rhif 1,
 1578.
 Monk, J. (argraffydd), rhif 3, 1785;
 2, 1793.
 Monmouth, Henry Earl of, rhif 4,
 1649.
 Moon, John (Crynwyr), rhif 7, 1658.
 Moor, Thomas de la, rhif 4, 1603.
 Mophet, Enosh, rhif 3, 1720.
 Morgan, Abel, rhif 2, 1730; 11, 1759;
 4, 1787.
 Morgan, Einion, rhif 6, 1693.
 Morgan, Enoch, rhif 1, 1730.
 Morgan, Evan, rhif 42, 1774.
 Morgan, James Jones, rhif 4, 1800.
 Morgan, John, rhif 1, 1736; 11, 1759;
 4, 1787.
 Morgan, John (Bedwellty), rhif 23,
 1775; 16, 1784; 22, 1794.
 Morgan, John (llyfrwerthwr), rhif
 14, 16, 1745.
 Morgan, John, M.A., rhif 5, 1745;
 10, 1756; 17, 1775.
 Morgan, John (Llanwenarth) rhif 8,
 1758.
 Morgan, John (Llanberis) rhif 4,
 1773; 1, 1783.
 Morgan, Mrs., rhif 18, 1791; 9, 11,
 1795.
 Morgan, Shinkin ap, rhif 8, 1643.
 Morgan, Silvanus, rhif 6, 1661.
 Morgan, Sion, rhif 28, 1790.
 Morgan, Thomas John, rhif 1, 1723-4.
 Morgan, Walter, rhif 6, 1765.
 Morgan, Dr. William (Esgob), rhif 1,
 1588; 1, 1620.
 Morgan, W. (Caerfyrddin), rhif 12,
 1780.
 Morgans, John, rhif 22, 1794.
 Morris, Cadb., rhif 38, 1792.
 Morris, Ebenezer, rhif 23, 1773.
 Morris (neu Morus), Edward, rhif 1,
 1661; 1, 1689; 7, 1750.
 Morris, Ev., rhif 1, 1719.
 Morris (neu Morus), Hugh, rhif 6,
 1683; 1, 1689; 11, 1748; 1, 7, 1750;
 37, 1798.
 Morris (neu Morys), Lewis (o Fon),
 rhif 2, 1735; 5, 1748; 11, 1756;
 10, 1776; 19, 1793.
 Morris, Peter (Llanrwst), rhif 20,
 1772; 16, 1774.
 Morris, Richard: gwel Morys,
 Rhisiart (o Fon).
 Morris, Thos. (Ysphyty), rhif 1, 1781;
 11, 1786.
 Morris, Thomas (Bedyddiwr), rhif 13,
 1791.
 Morris, William, rhif 5, 1748.
 Morys, D. (o'r Tŵr Gwyn), rhif 24,
 1773; 18, 1783; 15, 24, 1791; 34,
 1792.
 Morys, Rhisiart (o Fon), rhif 2, 1690;
 1, 1746; 2, 1752; 4, 1755; 1, 1760;
 19, 29, 34, 1770.
 Mostyn, Richard (o Benbedw): Rhag-
 draith.
 Mostyn, Syr Thomas, rhif 1, 1567.
 Moulins, Jacob des, rhif 35, 1794.
 Myddfai, Meddygon, rhif 12, 1765.
 Myfyr. Owain, rhif 1, 1567; 2, 1632;
 6, 1712; 11, 1789.
 Myrddin, d.f. 1608; rhif 24, 1768;
 20, 1778.

N.

- Narcot, rhif 1, 1702.
 Nass, John, d.f. 1553.
 Nattyl, Richard, rhif 1, 1553.
 Needham, Marchmond, rhif 1, 1643.
 Needham, W., rhif 12, 1761.
 Nelson, Robert, rhif 6, 1711; 4, 1712.
 Newberie, Rafe neu Ralph, rhif 1,
 1584.
 Newbricensis, Gulielmus, rhif 6, 1587.
 Newcombe, Henry, rhif 5, 1677.
 Newcwm, Thomas, d.f. 1689-90; rhif
 1, 2, 1718; 2, 1780.
 Newton, John (Omicron), rhif 11,
 1777.
 Nicholas, Armele, rhif 4, 1714.
 Nicholas, rhif 2, 1659.
 Nicholas, J. (argraffydd), rhif 8, 1769;
 15, 1794.
 Nicholas, William, rhif 1, 1717.

- Norton, Bonham (argraffydd), rhif 1, 1620.
 Norton, John, rhif 2, 1607.
 North, W. a G. (argraffwyr), rhif 16, 1785; 17, 1790; 10, 1791; 5, 34, 1799.
 Noon, John, rhif 2, 1734.
 Novver, Francis, rhif 6, 1660.
 Nowell, Dean, rhif 2, 1578.
- O.
- Oakey, Col., rhif 5, 1648.
 Occom, Sampson, rhif 35, 1789.
 Olfir, Ioan=Oliver, John.
 Olfifer, W. (argraffydd), rhif 11, 1778.
 Oliver, J. (argraffydd), rhif 6, 1746; 4, 5, 1747; 4, 8 (1), 1748; 1, 2, 5, 6, 9, 1749; 4, 9, 22, 1750; 6, 9, 1752; 2, 8, 1753; 2, 7, 1755; 6, 1756; 3, 1757; 16, 1760; 1, 6, 10, 29, 1774.
 Oliver, J. a W., rhif 5, 9, 10, 13, 1762; 18, 1766; 1, 4, 1768; 23, 1770; 12, 1774.
 Oliver, J. (awdwr), rhif 7, 1682.
 Oliver, Thomas, rhif 23, 1776.
 Omicron, rhif 11, 1777.
 Opilio (=Schoeffer), t. 1.
 Ordericus Vitalis, rhif 4, 1603.
 Orinda (=Mrs. Catherin Philips), rhif 1, 1669; 12, 1710.
 Orm, J. (argraffydd), rhif 25, 1776.
 Ortelius, Abr., d.f. 1570.
 Orton, Job, rhif 1, 1751; 8, 1757; 3, 1764.
 Orwin, ac Orwinus, John (argraffydd), rhif 1, 1592; 1, 1593.
 Ostervald, J. F., rhif 1, 1770; 2, 1775.
 Oswen, John (argraffydd), rhif 1, 1551.
 Owain Myfyr, rhif 1, 1567; 2, 1632; 6, 1712; 11, 1789.
 Owen, Arthur, Esq., rhif 6, 1643.
 Owen, Charles, D.D., rhif 22, 1768.
 Owen, David (Brutus), rhif 18, 1799.
 Owen, David, rhif 1, 1733; 9, 1748.
 Owen, David, rhif 12, 1642.
 Owen, E., rhif 17, 1783.
 Owen, Dr. Henry, rhif 3, 1733; 8, 1748; 10, 1766; 22, 1775.
 Owen, Hugh (Gwenynog), rhif 1, 1615; 2, 1679; 5, 1684; 4, 1723; 2, 1744; 13, 1775.
 Owen, Hugh (Bron y Clydwr), rhif 1, 1687.
 Owen, James, rhif 1, 1687; 7, 1693; 2, 1694, 1, 1701; 1, 1702; 5, 1709; 9, 1722.
 Owen, Jeremi, rhif 8, 1717; 1, 1732-3; 1, 1733; 9, 10, 1746.
 Owen, John, rhif 5, 1743.
- Owen, John (Maes Adda), rhif 1, 1748.
 Owen, Dr. John, rhif 4, 1734; 4, 1685; 5, 1791; 6, 1796; 3, 1800.
 Owen, John (Esgob), rhif 1, 1685.
 Owen, John (yr Englynwr Lladin), rhif 2, 1606; 2, 1607; 1, 1628; 5, 8, 1647; 8, 1671; 2 (1), (2), (3), (4), (5), 1633.
 Owen, John (Machynlleth), rhif 7, 23, 1788; 1797.
 Owen, John (argraffydd), rhif 8, 1792; 35, 1794.
 Owen, L. (Llaneugrad), rhif 16, 1752.
 Owen, Nicholas, rhif 15, 1777; 23; 1792.
 Owen, Richard, rhif 10, 1658.
 Owen, Robert (argraffydd), rhif 3, 1723.
 Owen, W. (cyhoeddwr), rhif 10, 13, 1749.
 Owen, William, F.S.A : gwel Pughe, Dr. William Owen.
 Owein, Guillame, t. 2.
- P.
- P., H. (=H. Parker), rhif 14, 17, 1647.
 P., J. (J. P.), rhif 1, 1719.
 P., N. (N. P.), rhif 2, 1650.
 P. P., rhif 7, 1655; 1, 1695.
 P., T. (T. P.), rhif 8, 1711; 3, 174 .
 Painter, John (argraffydd), rhif 3, 1799.
 Palmer, S., rhif 8, 1775.
 Parks, William, rhif 3, 1721.
 Parker, Matthew (Archesgob), d.f. 1574; rhif 4, 1603.
 Parsons, James, M.D., rhif 9, 1767.
 Parsons, Robert, rhif 2, 1632; 4, 1684; 9, 1711.
 Partridge, B. (argraffydd), rhif 4, 1791.
 Partridge, B. a J. Hodges (argraffwyr), rhif 6, 1796.
 Parry, Blanch, rhif 4, 1702.
 Parry, David, A.B., Rhagdraith (nodyn).
 Parry, Edward (Llansannan), rhif 14, 1764; 13, 1789.
 Parry, Edward, rhif 3, 1658.
 Parry, John (telynor), rhif 7, 8, 1742; 20, 1781.
 Parry, R. (Dyserth), rhif 3, 1723-4; 6, 1759; 16, 1766; 26, 1767.
 Parry, Richard (Esgob), rhif 1, 1620; 1 (1), 1677-8.
 Parry, Stephen, rhif 5, 1722.
 Patrick, Simon (Esgob), rhif 8, 1682; 8, 1722.

- Patterson, — rhif 36, 1792.
 Pearce, Griffith, rhif 1, 1685.
 'Pedestrian Traveller,' rhif 16, 1797.
 Pegge, Syr Chr., rhif 31, 1776.
 Pegge, Samuel, A.M., rhif 31, 1766.
 Pembroke, Phil. Earl of, rhif 16, 1648; 7, 1649.
 Penruddock, Mr., rhif 15, 22, 1781.
 Penry, John, rhif 1, 1587; 1, 2, 3, 1588; 1, 1589.
 Penn, Wm., rhif 3, 1675; 1, 1748; 31, 1790.
 Pennant, Thomas, Ysw., rhif 21, 1716; 24, 1778; 25, 1779; 25, 1781; 15, 1783; 10, 25, 1784; 1, 1794; 2, 1796.
 Peraud, Francis, rhif 2, 1681.
 Perie, Wm. (argraffydd), rhif 2, 1773.
 Perkins, Mr., rhif 3 (2), 1677.
 Perot, Thos., rhif 5, 1717.
 Personius, Robertus, rhif 2, 1632.
 Perry, Henry, rhif 1, 1593.
 Peter, David (Caerfyrddin), rhif 5, 10, 1693.
 Peters, Hugh, rhif 22, 1648.
 Petrus Canisius, rhif 1, 1611.
 Philalethes, Eugenius, rhif 6, 7, 1650.
 Philips, Daf., D.D., rhif 7, 1710.
 Philip, William, rhif 25, 1648; 1, 1750.
 Philips, Ambr., rhif 10, 1703.
 Philips, Mrs. C. (Orinda), rhif 1, 1669; 12, 1710.
 Philip, Griff. a Wm., rhif 1, 1661.
 Philips, H. (Sarum), rhif 23, 1781.
 Phillips, Ioan, rhif 1, 1725.
 Philips, James, rhif 5, 1782.
 Philips, Samuel, rhif 1, 1772.
 Philips, Thos., rhif 18, 1779.
 Philipps, Syr Thos. (Middle Hill), rhif 1, 1575; 8, 1746.
 Philipot, John, rhif 8, 1657; 1, 1674.
 Phylip, Phylip Sion, rhif 25, 1648.
 Picton, Mr. (Crynwr), rhif 1, 1687.
 Pierce, John, rhif 21, 1775.
 Pierce, Robert, rhif 1, 1595.
 Pike, T., rhif 7, 1765; 4, 1766; 25, 1767.
 Pine, W. (argraffydd), rhif 9, 1 760; 17, 1773; 18, 1775.
 Popkin, J., rhif 4, 1764; 7, 1765; 25, 1767; 1, 1797.
 Porteus, Dr. B. (Esgob), rhif 4, 1778.
 Powel, Dr. Dafydd, rhif 1, 1584; 2, 3, 4, 1585; 6, 1587; 1, 1588; 4, 1603; 1, 1698; 4, 1702; 17, 1774; 6, 1784.
 Powel, Daniel, rhif 4, 1616.
 Powell, Col., rhif 6, 1643.
 Powell, E. (argraffydd), rhif 1, 5, 8, 1757; 7, 18, 1759; 14, 15, 1760; 5, 9, 1761; 11, 1762; 10, 22, 23, 24, 30, 1764.
 Powell, Edm. (argraffydd), rhif 4, 1709; 6, 1710; 1, 3, 14, 17, 1711; 2, 1715.
 Powell, Ev. a Daf. (argraffwyr), rhif 2, 1762.
 Powell, Gabriel, rhif 1, 1605.
 Powell, H. (Maes Clettwr), rhif 1, 1709; 2, 1711.
 Powell, John, rhif 20, 1745.
 Powell, Jonathan, rhif 18, 1798.
 Powell, Philip, rhif 33, 1774.
 Powell, Rich. (Yspytty Ifan), rhif 4, 1789; 24, 28, 1793.
 Powell, S. (argraffydd), rhif 8, 1766; 8, 1768; 10, 1769; 23, 1773.
 Powell, Thomas, D.D., rhif 1, 1601; 6, 1603; 1, 1622; 6, 1657.
 Powell, Vavasor, rhif 3, 1647; 5 1649; 2, 1650; 1, 2, 3, 1653; 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 1653; 1, 1654; 4, 1655; 3, 1658; 3, 1661; 3, 1662; 5, 1671; 8, 1672; 3 (1) (3), 1677; 1, 4, 1685; 13, 1772.
 Powell, William, rhif 1, 1553.
 Powys, Bess, rhif 1, 1750.
 Poyer, John, rhif 6, 1663; 3, 4, 6, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 1648.
 Playfere, Dr., rhif 11, 1792.
 Pratt, S. Jackson, rhif 21, 1795; 32, 1796.
 Price, Howel ap Dafydd, rhif 17, 1752.
 Price, John, D.D., rhif 2, 1680.
 Price John (Maes y Gelli), rhif 7, 1658.
 Price, John (y Crynwr), rhif 8, 1650.
 Price, Mr. (o'r Glyn) rhif 1, 1686.
 Price, Rice, rhif 15, 1767.
 Price, yr Anrh. Robert, rhif 6, 1702; 3, 1734.
 Price, Samuel (o Lundain), rhif 1, 1751.
 Price, Thomas (Curad Caerfyrddin), rhif 18, 1800.
 Prichard, Edward (argraffydd), rhif 16, 1795; 1, 1796; 31, 32, 1797.
 Prichard, Humphrey, rhif 1, 1592.
 Prichard, John (Bryniog), rhif 3, 11, 1782.
 Prichard, Rees, rhif 42, 1774.
 Prichard, Rhys, rhif 1, 1646; 11, 1658; 2, 1670; 6, 1672; 1 (1), 1681; 9, 1700; 12, 1714; 1, 1721; 6, 1725; 14, 1740; 9, 1749; 6, 1758; 19, 1766; 16, 1770; 24, 1776; 30, 1797; 4, 1798.
 Prideaux, John (Esgob), rhif 1, 1607; 6, 1715.
 Priestley, Theophilus, rhif 12, 26, 1792.
 Priseus, Johannes, rhif 2, 1573.
 Pryce, Evan (Rhyd y Benau), rhif 1, 1725-6.

- Prydderch, Rhys, rhif 6, 1714; 13, 1767.
 Pryn, William, rhif 2, 1691.
 Prys, Ann (argraffyddes), rhif 4, 1788.
 Prys, E. (Clynnog), rhif 3, 1701.
 Prys, Edmund, rhif 1, 2, 3, 1588; 2, 1621; 2, 1638; 12, 1653; 1 (2), 1678; 2, 1686; 3, 1696; 14, 1711; 2, 1727; 6, 1745.
 Prys, Ffowc, rhif 3, 1701.
 Prys, John (o Ial), rhif 3, 1688; 3, 1760.
 Prys, John Prichard, rhif 2, 1721.
 Prys, Rhys, rhif 15, 1767.
 Prys, Stafford (argraffydd), rhif 8, 1711; 8, 1755; 2, 6, 9, 19, 1759; 2, 6, 1760; 8, 1761; 12, 1763; 14, 15, 1764; 19, 1762; 26, 27, 1767; 5, 1770; 5, 1772; 5, 1773; 21, 25, 1774; 14, 17, 1777; 1, 1778; 7, 8, 1779; 4, 1780.
 Prys, Thos. (Plas Iolyn), rhif 2, 1593; 7, 1750.
 Pryse, Sir Carbery, rhif 11, 1693; 6, 1698.
 Pryse, Prys, neu Price, Syr John, rhif 2, 1535; 1, 1546; 1, 1568; 2, 1573; 2, 1635; 1, 1663; 17, 1774; 6, 1784.
 Pugh, Ellis (Crynwr), rhif 10, 1727; 5, 1782.
 Pugh, Evan, rhif 1, 1646; 2, 1748.
 Pugh, Philip, rhif 5, 1717; 2, 1753.
 Pugh, R., rhif 8 (1), 1748.
 Pugh, Thomas, rhif 8, 1658.
 Pughe, Dr. William Owen, rhif 1, 1567; d.f. 1592; 1, 1595; 1, 1654; 17, 1788; 11, 20, 1789; 8, 1792; 8, 20, 25, 1793; 30, 1794; 26, 1799; 1, 21, 1800.
 Puw, Gwilym Owain: gwel Pughe, Dr. William Owen.
- Q.
- Quevedo, Don, rhif 6, 1703.
- R.
- R., J. (J. R., awdwr), rhif 6, 1677.
 R., J. (J. R., argraffydd), rhif 4, 1684.
 R., J. (J. R.): gwel Rhydderch, John.
 R., N. (N. R.), rhif 1, 1700.
 R., R. (Ficar y Waen), rhif 7, 1720.
 Ray, John, rhif 4, 1662; 18, 1760.
 Raikes, Robert, rhif 12, 1740; 13, 1762; 22, 1770.
 Read, Henry, rhif 20, 1770.
 Read, W., a T. Huxley (argraffyddion), rhif 4, 1765; 31, 1773.
 Rees, Dr. Abraham, rhif 11, 1771.
 Rees, David (Bedyddiwr), rhif 3, 1732; 2, 1734.
 Rees, George, rhif 15, 1792.
 Rees, John, rhif 37, 1798.
 Rees, Josiah (Gelli Onen), rhif 2, 20, 1770; 3, 1771; 11, 21, 1776; 2, 1794; 7, 1796; 19, 1797.
 Rees, Lewis, rhif 11, 1771; 4, 1793.
 Rees, Owen (argraffydd), rhif 8, 1778.
 Rees, Professor, rhif 1, 1646.
 Rees, Richard (Cwm y Glo), rhif 3, 1754.
 Rees, Theophilus, rhif 23, 1791.
 Rees, Dr. Thos., rhif 20, 1770.
 Rees, W. (Llanymddyfri), rhif 2, 1611; 1, 1646.
 Reinallt, Richard, rhif 11, 1748.
 Reynolds, John, rhif 7, 1749.
 Reynolds, John, rhif 8, 1739.
 Rhames, Aaron, rhif 3, 1723.
 Rhydderch, John, rhif 4, 1664; 3, 1688; 2, 4, 10, 15, 21, 1716; 3, 2, 1717; 4, 1718; 1, 2, 1719; 2, 1721; 1, 3, 8, 1722; 5, 1723; 1, 1723-4; 7, 1724; 5, 8, 1725; 2, 1728; 3, 1731; 3, 1736; 9, 1737; 10, 1745.
 Rhydderch, Rhys, rhif 13, 1767.
 Rhys, Evan Thomas, rhif 18, 1799.
 Rhys, Evan ab, rhif 18, 1740.
 Rhys, Ioan, rhif 15, 1789.
 Rhys, Ioan (Cefn Coch), rhif 28, 1775.
 Rhys, Dr. John Dafydd, d.f. 1546; rhif 1, 1592; 2, 1607; 4, 1728.
 Rhys, Morgan, rhif 17, 1760; 12, 26, 1764; 21, 1767; 12, 1770; 26, 1771; 16, 1773; 14, 35, 36, 1774; 12, 1775; 16, 1776; 33, 34, 1794.
 Rhys, Morgan ab Ioan, rhif 19, 1792; 12, 1793; 20, 21, 25, 1794; 15, 1798.
 Rhysart, Gwilym, rhif 13, 1773.
 Ridgley, Dr. Thomas, rhif 2, 1734.
 Ridley, J. (argraffydd), rhif 25, 1770.
 Richard, Ebenezer, rhif 24, 1773.
 Richard, Edward (Ystrad Meurig), rhif 10, 1765; 25, 1776.
 Richard, Henry, A.S., rhif 23, 24, 1773.
 Richard, John, rhif 6, 7, 1747.
 Richard, John (Llwyn Gronwy), rhif 14, 1787; 12, 1789.
 Richard, Thomas, rhif 24, 1773.
 Richards, Dafydd (Dafydd Ionawr), rhif 7, 1793; 4, 1795; 25, 1799.
 Richards, George, B.A., rhif 8, 1791; 37, 1792.
 Richards, J., rhif 14, 1797.
 Richards, Thomas (Llangrallo), rhif 11, 1746; 6, 1753; 25, 1759.
 Richards, William, rhif 6, 1682.
 Richards, Dr. William (Lynn), rhif 3, 1780; 23, 1789; 14, 1790; 6, 21, 1791; 28, 1792; 31, 1793; 3; 8, 9,

- 26, 1798.
- Richardson, Samuel (argraffydd), rhif 17, 1767; 10, 1771.
- Rickaby, T. (argraffydd), rhif 1, 1791.
- Richardson, J. (argraffydd), rhif 2, 1688.
- Richardson, S., rhif 3, 1735.
- Risiart, D., rhif 13, 1772.
- Rivington, J. (argraffydd), rhif 1, 15, 30, 1774; 27, 1776; 31, 1794.
- Robert, Dr. Gruffydd, rhif 4, 1567; 1, 1611; 1, 1670.
- Robert ab Gwilym Ddu, rhif 24, 1792.
- Robert, Morris ab, rhif 11, 1748; 6, 1770; 3, 1793.
- Robert, Rhisiart ab, rhif 4, 1768.
- Roberts, E. (argraffydd), rhif 3, 1800.
- Roberts, Edward (Cefn y Ddwysarn), rhif 12, 1794.
- Roberts, Edward (St. Garmon), rhif 2, 1754.
- Roberts, Ellis (y Cooper), rhif 28, 1771; 20, 1772; 16, 1774; 33, 1777; 26, 1779; 1, 9, 1780; 11, 12, 24, 1781; 6, 7, 1787; 12, 1794; 37, 1798.
- Roberts, Hugh, rhif 17, 1765.
- Roberts, J. (argraffydd), rhif 11, 1714; 5, 1739.
- Roberts, Parch. John (Tremeirchion), rhif 1, 1693; 33, 1799.
- Roberts, John (= Sion Rhobert Lewys), rhif 12, 1760; 8, 1762; 8, 1766; 4, 1767; 8, 1768; 23, 1773; 15, 1778; 2, 1788; 8, 1796.
- Roberts, John (Sion Lleyrn), rhif 14, 1800.
- Roberts, Jonathan, rhif 1, 1687.
- Roberts, Lewis, rhif 2, 1620.
- Roberts, T. Robert (argraffydd), rhif 5, 1797.
- Roberts, Thomas (Llwyrhuddol), rhif 6, 1798.
- Roberts, W. (argraffydd), d.f. 1725-6; rhif 6, 1726; 17, 1759; 5, 1762; 7, 1764.
- Robinson a Lang (argraffwyr), rhif 7, 1799.
- Robinson, R. (argraffydd), rhif 3, 1587.
- Roby, William, rhif 24, 1793.
- Roderick, John (Rhydderch), rhif 21, 1725; 5, 1725; gwel Rhydderch, John.
- Roderick, John: gwel Rhydderch, John.
- Rogers, John (= J. Rhydderch), rhif 4, 1719; 1, 1721; 1, 4, 7, 8, 1722; 1, 1724; 5, 1725.
- Rogers, S. (argraffydd), rhif 1, 1708.
- Rogers, Samuel, rhif 2, 1734.
- Rolt, Richard, rhif 10, 13, 1749.
- Romaine, W., 19, 1759; 23, 1767; 2, 6, 1777; 6, 1792; 15, 1796.
- Ross, John neu Ioan (argraffydd), rhif 7, 1743; 5, 1744; 11, 1749; 10, 1763; 6, 8, 18, 19, 21, 25, 28, 31, 1764; 1, 7, 12, 14, 15, 16, 1765; 3, 5, 7, 22, 24, 25, 26, 1766; 1, 2, 3, 10, 11, 12, 14, 16, 21, 25, 1767; 3, 9, 10, 11, 12, 19, 20, 21, 1768; 1, 2, 14, 17, 1769; 2, 3, 8, 12, 20, 21, 28, 31, 1770; 3, 11, 13, 14, 17, 26, 27, 1771; 2, 3, 6, 11, 12, 13, 14, 1772; 2, 3, 7, 8, 10, 11, 12, 13, 16, 19, 24, 28, 30, 1773; 2, 4, 10, 11, 20, 23, 28, 31, 1774; 1, 2, 6, 7, 8, 12, 15, 20, 25, 27, 29, 30, 32, 1775; 11, 17, 21, 22, 24, 1776; 7, 11, 19, 24, 30, 31, 34, 1777; 8, 9, 12, 14, 18, 1778; 24, 1779; 5, 6, 7, 8, 1780; 2, 3, 8, 9, 11, 1784; 2, 4, 7, 18, 1785; 12, 1786; 11, 1788; 8, 10, 1789; 2, 10, 11, 12, 1790; 20, 23, 1791; 31, 1792; 4, 10, 21, 22, 23, 32, 36, 1793; 4, 5, 24, 32, 34, 1794; 3, 7, 10, 1795; 5, 7, 13, 18, 19, 1796; 1, 19, 1797; 6, 1799.
- Ross a Daniel, rhif 20, 1794.
- Rousseau, Samuel (argraffydd), rhif 2, 1800.
- Rowe, John, rhif 1, 1685.
- Rowland, Ellis, rhif 11, 1748.
- Rowland, John (argraffydd, Bodedeyrn a'r Bala), rhif 11, 1748; 9, 1756; 12, 1760; 1, 2, 1761; 4, 8, 1762; 10, 1776; 5, 1777.
- Rowlands, Daniel (Llangeitho), rhif 2, 1739; 3, 1742; 2, 1743; 2, 6, 7, 1744; 18, 1759; 3, 15, 1762; 18, 1767; 1, 1769; 2, 3, 1772; 24, 1774; 1, 1775; 22, 1778; 4, 1789; 27, 30, 1791; 17, 1792; 18, 1797.
- Rowlands, Henry (Esgob), rhif 3, 1723.
- Rowlands, Henry (Llannidan), rhif 3, 1723; 10, 1766.
- Rowlands, Parch. J., rhif 15, 1771.
- Rowlands, Mary, rhif 31, 1792.
- Rowlands, W. (Plas Gwyn), rhif 3, 1723.
- Rowlands, W., A.B., rhif 1, 1712.
- Rowlands, William (Ieuf), rhif 4, 1752.
- Royston, R., rhif 7, 1672.
- Rudd, Griffith, rhif 6, 1739.
- Ruddiman, T. a W. (argraffwyr), rhif 7, 1738.
- Russell, Robt., rhif 2, 1709; 2, 1710.
- Russell, Arglwydd William, rhif 6, 1683.
- Russell, Syr William, rhif 3, 1634.

S.

- S., J. (J. S.), rhif 7, 1714.
 Salesbury, Henry, rhif 3, 1593.
 Salesbury, Thomas, rhif 3, 1593; 1, 2, 1603.
 Salesbury, Dr. John, rhif 1, 1588.
 Salesbury, Syr Sion, rhif 1, 1593.
 Salesbury, William, d.f. 1546; rhif 1, 2, 1547; 1, 2, 3, 1550; 1, 2, 3, 1551; 1, 3, 5, 1567; 1, 1586; 1, 2, 1588; 1, 1593 1, 1607; 1, 1634.
 Salisbury, t. 2, 3.
 Salsbri = Salesbury, W., Salisbury, Deon, d.f. 1546.
 Salter, J. (argraffydd), rhif 33, 1789; 5, 1790.
 Sammes, Aylett, rhif 6, 1676; 19, 1776.
 Samuel, Christmas, rhif 6, 1714; 2, 1716; 5, 1717; 1, 1723; 3, 1728; 4, 1730; 1, 1764.
 Samuel, Edward, rhif 6, 1712; 9, 1716; 4, 1718; 1, 1722; 6, 1723; 1, 1731; 9, 1766; 9, 1793; 37, 1798.
 Samwel, Dafydd, rhif 6, 1712.
 Sandeman, Robert, rhif 7, 1765; 4, 1766.
 Sanders, Ioan, rhif 22, 1777; 8, 1786.
 Sandford, P. (argraffydd), rhif 30, 1790.
 Saunders, Dafydd, rhif 7, 1780; 12, 1791.
 Saunders, Dr. Erasmus, rhif 7, 1718; 6, 1721.
 Scougal, Henry, rhif 24, 1779; 6, 1799.
 Scott, Dr. John, rhif 6, 1752.
 Schoeffer, Peter (*Opitio*), t. 1.
 Seccer, William, rhif 3, 1775.
 Secker, Thomas (Archegob), rhif 4, 1778.
 Sellers, J., rhif 4, 1702.
 Senner, John (argraffydd) rhif 4, 1702.
 Sheen, Thomas, rhif 17, 1790.
 Sheeter, Ioan, rhif 3, 6, 1658.
 'Shaver,' Y, rhif 10, 1769.
 Shepherd, Mr. A., rhif 11, 1693.
 Shepherd, Thomas, rhif 7, 1657; 4, 1727.
 Sherlock, Dr. William, rhif 1, 1691; 13, 1777.
 Shipley, William Davies (Deon), rhif 26, 1784; 28, 1791.
 Shower, John, rhif 8 (1), 1748.
 Sion, A. ap D., rhif 13, 1799.
 Sion, Gryffydd (Pant yr Haidd), rhif 1, 1730.
 Sion, Harri, rhif 28, 1773; 30, 17 .
 Sion, Harry, rhif 17, 1798.
 Sion Lley, rhif 14, 1800.
 Sion Trefredyn, rhif 1, 1651.
 Skerne, Harry, rhif 17, 1778.
- Skrine, Henry, Esq., rhif 20, 1798.
 Smith, J. E., rhif 9, 1710.
 Smith, John, A.B., rhif 12, 1780.
 Smith (neu Smyth), Dr. Rosier, rhif 1, 1609; 1, 1611; 1, 1615; 1, 1618; 2, 1657; 3, 1683.
 Smith, William, D.D., rhif 18, 1775.
 Smith, William, A.M., rhif 1, 1776.
 Stacy, Edmund, rhif 4, 1722.
 Stafford, Simon, rhif 1, 2, 1602; 2, 1600.
 Stanley, William, D.D., rhif 1, 1710.
 Stillingfleet, Edward, D.D. (Deon), rhif 3, 1685.
 Stradling, yr Arglwyddes, rhif 1, 1639.
 Stradling, Sir Edward, rhif 1, 1592; 1, 1639; 4, 1702.
 Stradling, Sir John, rhif 1, 1592; 1, 1639; 4, 1702.
 Strahan, W., rhif 13, 1786.
 Strange, John, rhif 8, 1769.
 Stratham, W. (argraffydd), rhif 2, 1780.
 Strathan, A., rhif 2, 1780.
 Strong, William, rhif 1, 1685.
 Snodham, T. (argraffydd), rhif 2, 1616.
 Sorge, Mr., rhif 18, 1759.
 Sotheby, W., rhif 39, 1794.
 Southey, Robert, t. 2.
 Spelman, Syr Henri, rhif 3, 1639.
 Spence, Gream, rhif 19, 1790.
 Speed, John, rhif 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 13, 14, 1610; 1, 1614; 2, 1616; 1, 2, 1627; 5, 1670; 5, 1676; 10, 1710.
 Spilman, John, Rhagdraith.
 Spira, Francis, rhif 3, 1753.
 Spottiswood, — (argraffydd), rhif 2, 1780.
 Stephenson, Jos., rhif 6, 1587.
 Stinton, Dr. G., rhif 4, 1778.
 Stuart, yr Arglwyddes Arabella, rhif 4, 1607.
 Sudbury, John (cyhoeddwr), rhif 2, 1616.
 Swanley, Capt. Richd., rhif 1, 1645.
 Swift, Deon, rhif 8, 1709; 9, 1738; 4, 1749; 15, 1750.
 Symmons, Dr. Charles, rhif 20, 1795.
 Synge, Esgob, d.f. 1737; rhif 3, 1756.
- T.
- T., A. (A. T.), rhif 5, 1722; 2, 1723; 3, 1729.
 T., D. (D. T.), rhif 6, 1750; 18, 1776.
 T., J. (J. T.), rhif 8, 9, 1710; 6, 1766; 12, 1768; 9, 1709.
 T., R. (R. J.), rhif 1, 1650.
 T., S. (S. T. = Simon Thomas),

- rhif 4, 1721; 1, 1724; 1, 1728; 4, 1735; 12, 1741; 9, 10, 1742; 8, 1746; 4, 1780; 4, 1799.
- Taliesin, rhif 1, d.f. 1567 (t. 10).
- Tanner, Thomas, rhif 10, 1748.
- Tau Gimel (=T. Griffiths), rhif 24, 1779.
- Taylor, Jeremi (Esgob), rhif 5, 1644; 3, 1701; 2, 1724; 12, 1795.
- Taylor, John, rhif 2, 1652; 14, 1653.
- Taylor, Nathaniel, rhif 1, 1785.
- Taylor, R. (argraffydd), rhif 11, 1798.
- Taylor, W., rhif 1, 1717; 6, 1722.
- Tegid, rhif 1, 1567; 1, 1611; 1, 1620.
- Tillotson, Dr. J. (Archesgob), rhif 4, 1657; 1, 1675; 11, 1703; 1, 1704.
- Thackwell, — (argraffydd), rhif 1, 1588.
- Thelwall, John, rhif 20, 1800.
- Thelwall, Simon, rhif 6, 1643.
- Theobald, Dr., rhif 16, 1771.
- Thomas, Alban, Rhagdraith; rhif 5, 1722; 2, 1723; 3, 1729.
- Thomas, Dafydd (Glynogwr), rhif 15, 1767.
- Thomas, Dafydd (Dafydd Ddu Eryri), rhif 1, 1774; 3, 1791; 10, 1794.
- Thomas, Daniel (argraffydd), rhif 22, 1770; 13, 1771; 31, 1773.
- Thomas, David (Bedyddiwr), rhif 8, 1760; 16, 1789.
- Thomas, Edward, rhif 17, 1765.
- Thomas, Enoch, rhif 26, 1791.
- Thomas, Evan (Bardd, yr un â'r E. T. uchod), rhif 9, 1765; 11, 15, 1766.
- Thomas, H., rhif 10, 1794.
- Thomas, Hugh, rhif 6, 1729.
- Thomas, Ifan (argraffydd), rhif 8, 1765; 7, 12, 24, 1767; 2, 1770; 1, 4, 12, 1782.
- Thomas, Ioan, rhif 1, 1680.
- Thomas, Jenkin (Cwm Du), rhif 3, 1717; 3, 1736.
- Thomas, Job, rhif 20, 1777.
- Thomas, John (Pen Ffordd Wen), rhif 23, 1790; 6, 1793.
- Thomas, John (Annibynwr), rhif 2, 1696; 7, 1714; 2, 1716.
- Thomas, John (argraffydd), rhif 4, 1644; 1, 1645.
- Thomas, John (Rhaiadr Gwy), rhif 19, 1759; 12, 1762; 23, 1767; 30, 1770; 7, 8, 1771; 8, 23, 26, 1777; 7, 8, 1782; 9, 1786; 6, 1788; 6, 1789; 9, 1794; 18, 1796.
- Thomas, Josua (Bedyddiwr), rhif 5, 1751; 1, 1757; 3, 1767; 23, 1775; 5, 1780; 25, 1791; 18, 1794; 6, 1795.
- Thomas, Josua (Llanbister), rhif 6, 1752.
- Thomas, J. (Josua, ef allai), rhif 4, 1727; 3, 1728.
- Thomas, Josua (Tir Abad), rhif 10, 1752.
- Thomas, Lewis, rhif 7, 1714; 2, 1716.
- Thomas, Nicholas (argraffydd), rhif 7, 1714; 2, 1716; 1, 1718; 6, 1721; 2, 1723-4; 1, 2, 1725; 1, 1726; 3, 4, 11, 1727; 3, 1728; 1, 1730; 5, 6, 1731; 1, 1731-3; 4, 1732; 1, 1732-3; 3, 1733; 2, 1739.
- Thomas, Oliver, rhif 1, 1631; 1, 1677.
- Thomas, R. a D. (Rhys a Daniel argraffwyr), rhif 12, 1771; (Gwel Thomas, Rhys.)
- Thomas, Parch. Richard, A.M., rhif 9, 1800.
- Thomas, Robert, rhif 5, 1778.
- Thomas, Sechariah, rhif 12, 1769; 13, 1793.
- Thomas, Simon : gwel T., S. (T. S. = Simon Thomas).
- Thomas, William (Bala), rhif 1, 1792; 31, 1794; 11, 1797; 3, 1800.
- Thomas, Timothy (Bedyddiwr), rhif 2, 1757; 4, 8, 1759; 9, 10, 11, 24, 1764; 11, 1765; 21, 25, 1766; 12, 1769.
- Thomas, Dr. W. (Esgob), rhif 1, 1646; 5, 1656; 2, 1670; 3, 1672.
- Thomson, Aaron, rhif 6, 1718.
- Thurford, Hugh, rhif 10, 1773.
- Tomas Llywelyn Deio Pywel, rhif 1, 1567.
- Tomas, Rhys (argraffydd), rhif 7, 1760; 7, 10, 1761; 3, 15, 1762; 20, 27, 1764; 20, 1766; 8, 17, 18, 1767; 3, 6, 11, 1769; 10, 16, 17, 22, 1770; 9, 19, 21, 1771: (Gwel hefyd Thomas, R. a D.)
- Tombs, John, rhif 7, 1656.
- Tong, W., rhif 20, 1716.
- Tonson, Jacob (argraffydd), rhif 4, 1695.
- Tonstal, Cuthbert (Esgob), t. 2.
- Toland, John, rhif 8, 1747.
- Toplady, Aug. Mont., rhif 16, 1788.
- Toy, Toye, neu Toe, Humphrey, rhif 1, 3, 1567; 5, 1568; 2, 1573.
- Tracy, Eben. (argraffydd), rhif 7, 1707.
- Trefredyn, Sion, rhif 1, 1651.
- Trevor, Hon. Sir John, rhif 42, 1792; 8, 1800.
- Tuccer, Dafydd, rhif 12, 1773.
- Tudur, Sion, rhif 1, 1588.
- Twm o'r Nant : = Edwards, Thomas (o'r Nant).
- Twyne, Thomas, d.f. 1572, 1573.
- Twyne, Thomas a John, rhif 1, 2, 1575.
- Tye, Joseph (argraffydd), rhif 29, 1794.

Tyndal, William, rhif 1, 1567; 3, 1573.
 Tyrrell Jas., rhif 1, 1639.
 Tyrrell, Sir T., rhif 1, 1639.
 Tywysog Eugene, rhif 5, 1765.

U.

Ukawsaw Groniasaw, Albert, rhif 16, 1779; 16, 1780.
 Urbanus, Mercurius, rhif 5, 1643.
 Usher, James (Archegob), rhif 1, 1639; 2, 1687; 6, 1786.
 Usserius, Jac. = Usher (Archegob).

V.

V., W. (W. V.), rhif 4, 1657.
 Valentine, Dr., rhif 3, 1655; 1, 1684; 15, 1716.
 Vaughan, Edw. (Llwydiarth), rhif 3, 1675.
 Vaughan, Evan, rhif 3, 1658.
 Vaughan, Henry, rhif 7, 1650; 7, 1656.
 Vaughan, Sir Hugh, rhif 13, 1642.
 Vaughan, Sir J., rhif 9, 1677.
 Vaughan, Ol., rhif 5, 1657.
 Vaughan, Rice, rhif 9, 1672.
 Vaughan, Dr. Richard, rhif 1, 1588; 2, 1595.
 Vaughan, Robert, rhif 1, 1665.
 Vaughan, Rowland, rhif 1, 1607; 1, 1630; 1, 2, 3, 4, 5, 6, 1658; 4, 1675; 1, 1682; 1, 1690; 8, 1710; 6, 1715.
 Vaughan, Thomas, rhif 6, 7, 1650.
 Vaughan, Syr R. W., t. 3; rhif 1, 1632.
 Vaughan, Wm. Owen Gwin, rhif 8, 1736.
 Vaughan, W. (o'r Gelli Aur), rhif 2, 1600.
 Vergil, Polydor, t. 2, 4; rhif 2, 1568; 6, 1587; 16, 1610.
 Vertot, The Abbot of, rhif 6, 1722.
 Vincent, Thomas, A.M., rhif 1, 1719; 3, 1727.
 Virgil, Polydor = Vergil, Polydor.
 Virinnius, Ponticus, rhif 1, 1585; 6, 1587.
 Virgilius, Polydorus, t. 2, 4; rhif 2, 1568; 6, 1587; 16, 1610.
 Vitalis, Ordericus, rhif 4, 1603.
 Vivian, T., rhif 1, 1782.
 Voss a Morris (argraffwyr), rhif 12, 1797; 15, 1798; 1, 1799.

W.

W., B. (B. W.), rhif 2, 1719.
 W., D. (D. W.), rhif 24, 1745.
 W., E. (E. W.): gwel Wynn, Ellis.

W., E. (E. W. = Edmund Williams, Offeiriad Methodistaidd), rhif 17, 1740; 3, 1741; 1, 1742; 16, 1783.
 W., G. (G. W.), rhif 24, 1745.
 W., T. (T. W., argraffydd), rhif 6, 7, 1650; 7, 1659.
 Wadsworth, Thos., M.A., rhif 4, 1713; 8, 1740.
 Wake, William, D.D., rhif 1, 1731.
 Wakley, Thomas, rhif 4, 1641.
 Waldegrave, — (argraffydd), rhif 2, 3, 1588.
 Waley, (neu Whaley), John (argraffydd), rhif 1, 1547; 1, 1551; 1, 1564-5.
 Walker, D. (argraffydd), rhif 20, 1797.
 Walker, Fowler, rhif 1, 2, 3, 1733; 2, 1734.
 Waller, William, rhif 10, 1693; 8, 1698; 3, 1699; 16, 1711.
 Walley, Charles, rhif 1, 1691.
 Wallter, Ioan (=y Parch. John Walters, Hynaf), rhif 10, 1772.
 Walters, Hannah, rhif 15, 1780.
 Walters, Henry (argraffydd), rhif 7, 26, 1790.
 Walters, John, A.C. (Llandocheu), rhif 2, 1727; 12, 1771; 10, 1772; 17, 1783; 17, 21, 1788; 13, 1794.
 Walters, John, A.C. (Ieuaf), rhif 15, 1780; 17, 21, 1788.
 Walters, Thos., rhif 5, 1717.
 Walsingham, Thomas, rhif 4, 1630.
 Ward, Aaron (argraffydd), rhif 2, 1734.
 Warner, R., rhif 2, 1697; 28, 1798; 27, 1799; 11, 1799; 7, 1800.
 Warrington, William, rhif 14, 1786; 13, 1787; 17, 1788; 16, 1791.
 Watein, Thomas, rhif 42, 1774.
 Watkins, Walter, rhif 17, 1790.
 Watkins, Morgan, rhif 7, 1659.
 Watson, T. (Esgob), rhif 5, 1701; 5, 1702; 9, 1703; 4, 1705.
 Watkins, Parch. Thomas Lloyd, rhif 45, 1792.
 Watson, Thos., rhif 2, 1790.
 Watson, Rich. (Esgob), rhif 10, 1793.
 Watts, Dr. Isaac, rhif 10, 13, 1741; 21, 1750; 2, 1753; 7, 8, 22, 1771; 2, 27, 1775; 7, 1778; 8, 1790; 17, 1791; 5, 1794; 19, 1797.
 Wdenis, rhif 1, 1553.
 Webb, Dr. George, rhif 1, 1730; 12, 1760.
 Webb, John, rhif 6, 1655.
 Wells, Edward, D.D., rhif 2, 1658; 12, 1711; 12, 1712; 1, 1714.
 Wermulerus, Otho, rhif 1, 1661.
 Wesley, Charles, M.A., rhif 2, 1727; 3, 1751; 14, 1775.

- Waterson, Simon, rhif 4, 1607.
 Wesley, John, M.A., rhif 2, 1727;
 11, 1750; 2, 1759; 9, 1776; 30,
 1799; 35, 1797.
 'Welsh Freeholder' (=Dafydd Jones),
 rhif 35, 1791; 30, 1796.
 Wetherall, T., rhif 3, 1762.
 Wharton, Iarll, rhif 1, 1689-90.
 Whilby, Samuel, rhif 9, 1783.
 Whitaker, John, rhif 15, 1773.
 Whitchurch, Edward (Argraffydd),
 rhif 1, 1546; 2, 1551; 1, 1548.
 White, B. a J., rhif 1, 1794; 2, 1796.
 White, Ben. (argraffydd), rhif 10,
 1714.
 White, J., rhif 7, 1791.
 Whitfield, George, rhif 14, 1752; 10,
 1781.
 Whitgift, Dr. John (Archesgob), rhif
 1, 1588.
 Whitledge, Robert (argraffydd), rhif
 4, 1709; 1, 1710.
 Whitledge, Thos., rhif 1, 1693; 4,
 1709.
 Whitledge, Thos. a W., Everingham
 (argraffwyr), rhif 1, 2, 3, 4, 5, 1693.
 Whitleridge, H., rhif 2, 1734.
 Wigstead, Henry, rhif 5, 1800.
 Wigston, Sir Roger, rhif 2, 3, 1588.
 Wickstead, Edward, rhif 5, 1718.
 Wilcins, W. (argraffydd), rhif 6, 1717;
 1, 1733.
 Windet, John, rhif 1, 1586.
 Wilhelmus Gemeticensis, rhif 4, 1603.
 Wilkins, David, rhif 10, 1748.
 Wilkinson, Dr., rhif 5, 1764.
 William, Dafydd, rhif 20, 1762; 4,
 1763; 22, 1777; 22, 1779; 29, 1788.
 William, Ifan, rhif 19, 1770.
 William, Richt. rhif 24, 1745.
 Williams, Archesgob, rhif 10, 1763.
 Williams, Parch. E., rhif 16, 1783.
 Williams, Sir Charles Hanbury, rhif
 13, 1763.
 Williams, Dafydd (Llanbedry Fro), rhif
 30, 1777; 22, 1778; 14, 27, 1779; 7,
 10, 14, 1782; 12, 13, 1783; 7, 17,
 1784; 11, 1786; 18, 1788; 22, 29,
 30, 1789; 15, 1791; 20, 1792; 13,
 26, 1797; 13, 1798.
 Williams, Dafydd (Llandeilo Fach),
 rhif 20, 1762; 9, 1770; 11, 1772;
 13, 1776; 22, 29, 30, 1777; 22,
 23, 1773; 27, 1779; 29, 1788.
 Williams, David (Monmouthshire),
 rhif 38, 1792; 3, 1796.
 Williams, Dr. Charles, rhif 24, 1750.
 Williams, Dr. Daniel, rhif 8, 1718;
 5, 1729; 1, 1739; 5, 1759.
 Williams, Ebenezer, rhif 2, 1770.
 Williams, Edmund, rhif 13, 1700.
 Williams, Edward (Iolo Fardd Glas),
 rhif 38, 1791; 21, 1793; 9, 1797.
 Williams, Edward (Iolo Morganwg),
 d.f. 1567; rhif 40, 1792; 15, 1794.
 Williams, Eliezer, rhif 2, 1770.
 Williams, Evan a Thos. (argraff-
 wyr), rhif 8, 29, 1792; 8, 19, 20,
 1793; 14, 1796; 19, 1799.
 Williams, Evan, rhif 12, 1749; 10,
 1750; 6, 1760; 4, 1762; 4, 1782.
 Williams, George (=Rosier Smith?),
 rhif 1, 1615.
 Williams, Griffith (Esgob), 15, 16,
 1644.
 Williams, Hugh (Aberffraw), rhif 31,
 1773; 12, 1776.
 Williams, Hugh, rhif 3, 1786.
 Williams, John (Aberystwyth), rhif
 9, 1789.
 Williams, John (Pant y Celyn), rhif 7,
 19, 1794.
 Williams, John (Llanfrothen), rhif 4,
 1701.
 Williams, John, LL.D., rhif 7, 1791;
 29, 1792.
 Williams, John (Willey), rhif 3, 1731;
 9, 1737.
 Williams, John (St. Athan), rhif 19,
 1719; 7, 1781.
 Williams, John (Cynwyd), rhif 37,
 1798.
 Williams, Lewis, rhif 1, 1736; 8,
 1737; 11, 1740; 3, 1764.
 Williams, Matthew, rhif 3, 1688; 32,
 1775; 2, 1784; 9, 1785; 11, 1794;
 5, 1799.
 Williams, Morgan, rhif 34, 1791.
 Williams, Moses, Rhagdraith; rhif 2,
 1688; 3, 1710; 6, 7, 8, 1711; 3,
 1715; 1, 3, 4, 8, 1717; 1, 2, 3, 1718;
 4, 1719; 6, 1723; 6, 1726; 1, 2,
 1727; 4, 1730; 7, 1731; 2, 1753;
 5, 1770.
 Williams, Nathaniel, rhif 19, 1777;
 5, 1785; 23, 1796; 15, 1798.
 Williams, Peter, rhif 2, 1730; 10,
 1759; 9, 1760; 3, 1762; 1, 2, 1770;
 6, 1771; 11, 1773; 2, 1774; 1, 2,
 3, 5, 1781; 2, 1782; 2, 1783; 9,
 11, 1784; 3, 16, 1788; 6, 1790; 11,
 14, 16, 1792; 18, 1789; 30, 1791;
 45, 1794; 27, 1797.
 Williams, Robert (Eifionydd), rhif 25,
 1792.
 Williams, Rowland (Ysgeifnog), rhif
 1, 1621.
 Williams, Samuel, rhif 3, 1707; 3, 7,
 1710; 1, 1717; 7, 1718.
 Williams, Thomas, M.A. (Dinbych),
 rhif 1, 1691; 1, 1708; 4, 1710; 4,
 1712; 13, 1777.
 Williams, Thomas (argraffydd), rhif
 4, 25, 1799.

- Williams, Thomas (Tal y Bont), rhif 3, 1758; 4, 1760.
- Williams, Thomas (Trefriw), rhif 1, 1632.
- Williams, Thos. (Crynwr), rhif 17, 1745; 2, 1777.
- Williams, Thos. (Bethesda), rhif 13, 20, 1796.
- Williams, Thos. (Mynydd Bach), rhif 3, 1724; 6, 1727; 13, 1861; 26, 1766; 3, 1768; 17, 1771.
- Williams, W. (argraffydd), rhif 8, 1765; 1, 1766.
- Williams, Walter (Llanddety), rhif 9, 1731.
- Williams, William (sir Benfro), rhif 24, 1775; 28, 1789.
- Williams, William (cyhoeddwr), rhif 4, 1727.
- Williams, William, A.B. (Caergybi), rhif 1, 1782.
- Williams, William (Aberteifi), rhif 13, 1769; 31, 1770; 21, 1794; 15, 1798; 23, 1799.
- Williams, William (Pant y Celyn), rhif 6, 1744; 7, 8, 1715; 4, 1746; 3, 1747; 4, 1751; 7, 1753; 7, 1756; 7, 1757; 5, 1758; 1, 20, 1759; 5, 1761; 2, 1, 14, 1762; 7, 10, 1763; 6, 8, 19, 28, 1764; 3, 24, 1766; 1, 1767; 11, 1768; 6, 11, 1769; 10, 11, 24, 1770; 2, 1771; 6, 17, 1772; 14, 20, 1773; 7, 13, 18, 1774; 30, 1775; 22, 23, 1776; 6, 25, 1777; 25, 1778; 1, 12, 1779; 11, 16, 1780; 8, 21, 1781; 15, 1782; 12, 21, 22, 1784; 15, 16, 18, 1785; 6, 1786; 1, 11, 1787; 13, 1788; 20, 1790; 2, 11, 12, 14, 22, 27, 1791; 8, 1795; 8, 1799.
- Willis, Brown, LL.D., rhif 7, 1717; 5, 1719; 5, 1721.
- Willison, J. (Dundee), rhif 11, 22, 1797.
- Wilson, A., rhif 17, 1800.
- Wilson, Dr. Thomas (Esgob Manaw), rhif 5, 1752; 18, 1759; 1, 1774.
- Wilson, Ioan (argraffydd), rhif 13, 1741.
- Wilson, Richard (y lluniedydd), rhif 31, 1775.
- Wilson, Samuel, rhif 2, 1737; 5, 11, 1766; 9, 1768; 3, 1770; 10, 1785.
- Winter, John, rhif 3, 1671.
- Winterton, Dr. R., rhif 1, 1661.
- Wise, Ffransis, d.f. 1574; rhif 11, 1722.
- Wood, T. (argraffydd), rhif 38, 1774; 3, 1776; 1, 1777; 9, 10, 1781; 1, 12, 1782; 1, 3, 16, 1783; 2, 1787; 13, 1790.
- Woodman, — rhif 6, 1729.
- Woodward, T., rhif 4, 1733.
- Wosencroft, C. (argraffydd), rhif 3, 1782.
- Wotton, Dr. W., Rhagdraith; rhif 5, 1730.
- Wyat, John, rhif 9, 1707; 6, 1721.
- Wyndham, H. P., rhif 22, 1781; 15, 1781.
- Wynn, Gr. (Llangadwaladr) rhif 2, 1724; 12, 1795.
- Wynn, Edward, D.D., rhif 1, 1621; 1, 1662; 1, 1723-4.
- Wynn, Edward (Pontesgin), rhif 3 1723.
- Wynn, Ellis (y Bardd Cwsg), rhif 11, 13, 1700; 3, 1701; 6, 1703; 6, 1710; 4, 1720; 8, 1755; 6, 1757; 24, 1759; 15, 1767; 14, 1768; 21, 1774.
- Wynn, Jane, rhif 6, 1677.
- Wynn, W. W. E., Ysw. (Peniarth), rhif 1, 1632.
- Wynne, Edward (Llanaber), rhif 1, 1755.
- Wynne, Robert (Gwyddelwern), rhif 2, 1731.
- Wynne, Syr John (Gwydir), rhif 32, 1770; 14, 1781.
- Wynne, Syr Watkin W., rhif 19, 1745.
- Wynne, Wm., A.M., rhif 1, 1697; 4, 1702; 17, 1774; 6, 1784.
- Wynne, William (bardd), rhif 37, 1798.

Y.

Yorke, Philip, rhif 1, 1795; 3, 1799.

LIST OF SUBSCRIBERS.

- His Imperial Highness the Prince Louis Lucien Buonaparte.
The Right Rev. Dr. Campbell, Lord Bishop of Bangor.
The Right Rev. Dr. Short, Lord Bishop of St. Asaph.
The Right Rev. Dr. Thirlwall, Lord Bishop of St. David's.
The Right Hon. the Earl of Powis, Powis Castle, Welshpool.
The Right Hon. the Earl Vane, Plas, Machynllaeth.
The Right Hon. the Lady Llanover, Llanover, Abergavenny.
Sir Pyers Mostyn, Bart., Talacre, Flintshire.
Sir Edmund Buckley, Bart., M.P., Plas, Dinas Mawddwy.
The Hon. Arthur Walsh, M.P., Newcastle Court, Walton, Radnorshire.
Allen, Edward G., Esq., American Literary Agency, 12, Tavistock Row, Covent
Garden, London, 10 Copies for the Public Libraries in America.
Anthony, Charles, Esq., proprietor of the 'Hereford Times,' Hereford.
Anwyl, Thomas Lloyd, Esq., Bala.
Ashford, Mr. John, Siamber Wen, Hirnant, Montgomeryshire.
Bartley, Rev. John, Wesleyan Minister, Wrexham.
Barrow, Mr. William, Insurance Office, Portmadoc.
Bennett, Nicholas, Esq. (*Nicola*), Glan yr Afon, Llanidloes.
Bennion, E. B. Esq., Summer Hill, Oswestry.
Blackwell, Mr. John, Relieving Officer, Llanfihangel Genu'r Glyn, Aberystwyth.
Bowen, Rev. Henry P., Grove Villas, Brentwood, Essex.
Bowen, Mr. Thomas, Aqueduct Cottage, Pembrey, Caermarthenshire.
Brereton, Andrew Jones, Esq. (*Andreas o Fon*), Mold, Flintshire.
Brown, Mr. Richard, Builder, Llanidloes.
Bryant, Mr. Evan, Collier, Rhymney.
Carne, J. W. Nicholl, Esq., D.C.L., F.S.A., St. Donald's Castle, Glamorgan.
Davies, Mr. Alexander, Pembrey, Caermarthenshire.
Davies, Rev. D. Milton, D.D., Independent Minister, Llanfyllin.
Davies, David, Esq., Senr., Blaengwawr, Aberdâr, 2 copies.
Davies, David, Esq., Junr., Maes y Ffynnon, Aberdâr, 2 copies.
Davies, Mr. David, Draper, Abercorris.
Davies, Mr. Daniel, Ystrad Station, Ystrad, Pontypridd.
Davies, Mr. David, Solicitor's Clerk, London.
Davies, Mr. David Delta, Aberdâr.
Davies, Mr. Edward, Bookseller, Tredegar.
Davies, Rev. Evan, Wesleyan Minister, Beaumaris.
Davies, Mr. Gabriel, Plasau, Llanfair Dyffryn Clwyd, Ruthin.
Davies, Mr. Griffith, Wesleyan Preacher, Coed Poeth, near Wrexham.
Davies, Rev. J. C., M.A., Rector of Derwen, near Corwen.
Davies, J., Esq., Ffos Rhydgaled, Aberystwyth.
Davies, Rev. John, Catholic Priest, Brecon.
Davies, Mr. John, Fron Deg, Llanrhaiadr Mochnant.
Davies, Rev. John, Walsoken Rectory, Wisbeach.
Davies, Mr. John, Auctioneer, Llanfyllin.
Davies, Rev. John, Independent Minister, Aberaman.
Davies, Mr. John, Miner, Penrhyn Coch, Aberystwyth.
Davies, Mr. John (*Awyrydd*), Elim, near Aberystwyth.

- Davies, Lewis, Esq., Penhill, near Caerdiff.
 Davies, Mr. J., Printer, Harford Square, Llanbedr.
 Davies, Mr. Matthew Henry, Ironmonger, Aberystwyth.
 Davies, Mr. Morris, 35, Hill Street, Upper Bangor.
 Davies, Miss, Penmaen Dovey, Machynllaeth.
 Davies, Mr. Richard, Erglodd, Llancynfelyn, Caerdiganshire.
 Davies, Mr. Richard (*Mynyddog*), Llanbrynmair.
 Davies, Rev. Richard, Incumbent, of Llawr y Bettws, near Corwen.
 Davies, Mr. T., Chemist, Llanelli, Caermarthenshire.
 Davies, Mr. William, Bookseller, Nantglyn, Denbighshire.
 Davies, Mr. William (*Gwilym Teilo*), Llandeilo.
 Douglas, Mr. Jonathan, Editor of 'Eddowes's Journal,' Shrewsbury.
 Edmunds, Rev. W., Master of the Grammar School, Llanbedr.
 Edwards, Rev. D. G., Wesleyan Association Minister.
 Edwards, Mr. David, Printer and Bookseller, Towyn, 2 copies.
 Edwards, Mr. David, Cwm, Nanteos, Caerdiganshire.
 Edwards, Mr. David, Draper, Llanfyllin.
 Edwards, Rev. E., Rector of Penegoes, Machynllaeth.
 Edwards, Mr. Jacob, Miner, near Mynydd Bach, Caerdiganshire.
 Edwards, Mr. John, Wesleyan Preacher, Wrexham.
 Edwards, Mr. John, Draper, Abergele.
 Edwards, Mr. Richard, Printer and Publisher, 'South Wales Press,' Llanelli.
 Edwards, Robert, Esq., Aberystwyth.
 Edwards, Rev. S., Independent Minister, Machynllaeth.
 Ellis, Rev. Robert, Baptist Minister, Caernarvon.
 Ellis, Mr. S., Bookseller, 33, King Street, Covent Garden, London.
 Evans, Mr. Adam, Printer and Publisher, Machynllaeth.
 Evans, Mr. D., Tanner, Machynllaeth.
 Evans, Rev. D., M.A. Vicar of Bangor.
 Evans, Rev. D., Wesleyan Minister, Llanbedr.
 Evans, Rev. David, Rector of Llanycil, Bala.
 Evans, Mr. David, Brazier, Portmadoc.
 Evans, Rev. David, Llansantffraid Glan Conwy, Conwy.
 Evans, Rev. Edward, B.A., Rector of Llanfihangel yng Ngwynfa
 Evans, Mr. Edward, St. Peter Street, Ruthin.
 Evans, Rev. Elias, Cemmaes, Machynllaeth.
 Evans, Rev. Evan, Rector of Llangeitho, Caerdiganshire.
 Evans, Rev. Evan, B.A., Vicar of Glyndyfrdwy, Corwen.
 Evans, Rev. Evan, Wesleyan Minister, Birkenhead.
 Evans, Mr. Evan, Maentwrog, Merioneth.
 Evans, Mr. Evan, Flannel Manufacturer, Dolobran, Dinas Mawddwy.
 Evans, Evan, Esq., Erw Fair, Bangor.
 Evans, Mr. Francis, Bookseller, Pwllheli.
 Evans, Rev. J. Bowen, B.D., Vicar of St. Harmon, Rhaiadr.
 Evans, J. Henry Silvan, Esq., Jesus College, Oxford.
 Evans, Mr. J. E. B. (*Y Llwynog*), Schoolmaster, Llanidloes.
 Evans, Rev. John, Vicar of Llangurig, Llanidloes.
 Evans, Rev. James J., Vicar of Llanyre, Radnorshire.
 Evans, John, Esq., Morben, near Machynllaeth.
 Evans, Mr. John, Secretary of the Burial Board, Brecon.
 Evans, Mr. John, Pontbren Du, Llanarth, Caerdiganshire.
 Evans, Mr. John, Office of the Comptroller General, Custom House, London.
 Evans, Rev. John, Wesleyan Minister, Caerdiff.
 Evans, Mr. Morgan, Y Dderwen Gam, Aberaeron, Caerdiganshire.
 Evans, Mr. Rees, Flannel Manufacturer, Machynllaeth.
 Evans, Mr. Robert, Tailor, Portmadoc.
 Evans, Rev. T. N., Curate of Llandderfel.
 Evans, Thos. Walter, Esq., Surgeon, South Dispensary, Liverpool.
 Evans, Mr. Thomas, Schoolmaster, Pant Coch, Caerdiganshire.
 Evans, Mr. Thomas, Mason, Gyfronydd Hall, Welshpool.
 Evans, Rev. W., Wesleyan Minister, Llanfyllin.

- Evans, Rev. W. H., Wesleyan Minister, Llangollen.
 Evans, Mr. William Morgan, Printer and Publisher, Caermarthen.
 Evans, Mr. Williams, 50, Carneddi Row, Bethesda, Bangor.
 Evans, Mr., Glanhafren Mill, near Llanidloes.
 Fenton, Rev. Theophilus John, M.A., Tunstall, Staffordshire.
 Ffoulkes, John, Esq., Aberdyfi.
 Figgins, Messrs. V. and J., Type Founders, Ray Street, Farringdon Road, London.
 Gaidoz, Mons. H., Editor of the 'Revue Critique D'Histoire et de Littérature,' 67, Rue Richelieu, Paris.
 Gee, Mr. Thomas, Printer and Publisher, Denbigh.
 Gold, Tom, Esq., Solicitor, Newnham.
 Grattan, Mr. Richard, Bagillt.
 Green, Rev. W., B.D., Vicar of Pentre Bach, Merthyr Tydvil.
 Griffith, Mr. Robert, Joiner, Snowdon Street, Portmadoc.
 Griffith, William, Esq., Solicitor, Dolgellau.
 Griffith, Rev. Walter, B.D., Resolwen Vicarage, Neath.
 Griffiths, Rev. John, M.A., Rector of Merthyr Tydvil.
 Griffiths, Rev. John, Independent Minister, Llandovery.
 Griffiths, Mr. John, Wesleyan Preacher, Bwlchydardar, Llanfyllin.
 Guest, Dr. Edwin, Principal of Caius College, Cambridge; Sandford Park, Oxford.
 Hamer, Mr. Edward, Master of the National Schools, Abersychan, Pontypool.
 Hamer, Mr. Thomas, Grocer, Llanidloes.
 Heaton, Rev. Hugh Edward, M.A., Vicar of Bettws yn Rhos, Abergele.
 Herbert, Mr. David, Watchmaker, Aberystwyth.
 Herbert, Mr. Richard, Joiner, Rhydfelin, near Aberystwyth.
 Hine, H., Esq., Plas yn Nhowyn, Abergele, 3 copies.
 Holmes, Mr. D., Ale and Porter Merchant, Llanidloes.
 Homewood, F. S., Esq., 10, Butter Market, Ipswich.
 Hopkins, Mr. David, Gellionen, Pontardawy, near Swansea.
 Hopkins, Mr. Richard, Oak Cottage, Aberdâr.
 Hosken, Rev. T. B., M.A., Rector of Llandefeiliog Fach, Breconshire.
 Howell, David, Esq., Solicitor, Machynllaeth.
 Hughes, Mr. Benjamin, Ironmonger, Aberystwyth.
 Hughes, Rev. D., B.A., Independent Minister, Tredegar.
 Hughes, Mr. David, Grocer, Tredegar.
 Hughes, Rev. J., Vicar of Tydweiliog, Pwllheli.
 Hughes, Rev. James, B.A., Aberystwyth.
 Hughes, John, Esq., Solicitor, Aberystwyth.
 Hughes, Rev. Joseph, B.D., Professor of Welsh at St. David's College, Llanbedr.
 Hughes, Rev. John, Vicar of Tregaron.
 Hughes, Mr. John, Draper, Machynllaeth.
 Hughes, Mr. John Ceiriog, Llanidloes.
 Hughes, Mr. John, 32, Myrtle Street, Liverpool.
 Hughes, Rev. Reginald, M.A., Llansaintffraid, near Llangollen.
 Hughes, Mr. Richard, Schoolmaster, Llechryd, Caerdiganshire.
 Hughes, Mr. Richard, Grocer, Llawr y Glyn, Llanidloes.
 Hughes,, Rev. Thomas, M.A., Rector of Clocaenog, near Corwen.
 Hughes, Rev. William, Ciliau Aeron, Caerdiganshire.
 Hughes, Rev. William, B.D., Rector of Caerwys.
 Humphreys, Captain, Aberystwyth.
 Humphreys, Captain John, Aberystwyth.
 Humphreys, Mr. H., Cononion, near Llanfyllin.
 Isaac, Rev. D. Lloyd, Llangathen Rectory, Llandilo Fawr.
 Jacob, Rev. R. Levi, Vicar of Llanllugan, Montgomeryshire.
 James, Rev. David, M.A., Ph.D., Rector of Pant Teg, Pontypool.
 James, Rev. J. Lloyd, Independent Minister, Whitchurch, Caerdiff.
 Jenkins, John, Esq., Solicitor, Pen y Green, Llanidloes.
 Jenkins, Rev. Joseph Melwyn, Calvinistic Methodist Minister, Builth.
 Jenkins, Richard D., Esq., Pant Tirion, near Caerdigan.

- Jenkins, Rev. Thomas, Salem, Merthyr Tydvil.
 Jenkins, Mr. Thomas, Mason, 66, Gower Street, Cwmafon, Glamorgan.
 Johnes, Arthur James, Esq., Barrister at Law, and County Court Judge,
 Garthmyl, near Welshpool, 3 copies.
 Johnes, John, Esq., Dolau Cothy, Llandeilo, Caermarthenshire.
 Johns, Rev. Thomas, Penclawdd, Swansea.
 Jones, Mr. Charles, Tyncoed, Arthog, Merioneth.
 Jones, Rev. D., the Parsonage, Brynford, near Wrexham, 2 copies.
 Jones, Rev. D., Llanfihangel Geneu'r Glyn, Aberystwyth.
 Jones, Rev. Daniel L., M.A., Vicar of Gwyddelwern, near Corwen.
 Jones, Mr. David, Cwmllechau, Barmouth.
 Jones, Mr. David, Shoemaker, Llanrhaiadr Mochnant.
 Jones, Mr. David, Cooper, Llansilin, near Oswestry.
 Jones, Mr. David, Bookbinder, Aberystwyth.
 Jones, Mr. David, Goettref, Llangynfelyn, Caerdiganshire.
 Jones, Mr. David, Wesleyan Preacher, Pont Rhyd y Groes, Caerdiganshire.
 Jones, Rev. Edward, Vicar of Llandyssilio, near Llangollen.
 Jones, Rev. Edward Newton, Penele, near Newcastle-Under-Line.
 Jones, Mr. Edward, Pen y Graig, Darowen, Machynllaeth.
 Jones, Mr. Edward, Surveyor, Llanilar, Aberystwyth.
 Jones, Mr. Ellis, Post Office, Barmouth.
 Jones, Rev. Evan, Curate of Neath.
 Jones, Rev. Evan, B.D., Incumbent of St. Alban's, Llanbedr.
 Jones, Rev. Evan, Curate of Holywell.
 Jones, Mr. Evan (*Ieuan Dysyni*), Painter, Cowbridge.
 Jones, Rev. G. Arthur, M.A., Vicar of Llanegryn, Merioneth.
 Jones, Rev. G., Independent Minister, Taibach, Glamorganshire.
 Jones, Mr. Griffith, Pork Merchant, Bangor.
 Jones, Mr. Henry, Carrier, Portmadoc.
 Jones, Rev. Hugh, M.A., Rector of Llanrwst.
 Jones, Rev. Hugh, Wesleyan Minister, Tregarth, near Bangor.
 Jones, Mr. Hugh, Perthi, Llandegai, Bangor.
 Jones, Mr. Hugh, Printer and Publisher, 'Advertiser' Office, Llangollen.
 Jones, Isaac, Esq., Glynmeirch, near Swansea.
 Jones, Rev. Isaac, Wesleyan Minister, Bangor.
 Jones, Mr. James, Joiner, Dumfries Street, Aberdâr.
 Jones, Rev. James, Wesleyan Minister, St. David's.
 Jones, Rev. J. R. Kilsby, Glenview, Llanwrtyd Wells.
 Jones, J. M., Esq. (*Cunllo*), Rhyd Lewis, Newcastle Emlyn.
 Jones, J. D., Esq., Hawen, Caerdiganshire.
 Jones, Rev. J., Vicar of Pembrey, Caermarthenshire.
 Jones, Rev. J. E., Unitarian Minister, Bridgend.
 Jones, Mr. J. O., Auctioneer, Talgareg, Caerdigian.
 Jones, Rev. John Ffoulkes, B.A., Machynllaeth.
 Jones, Rev. John, Northwood, Hanley.
 Jones, Rev. John Emlyn, LL.D., Baptist Minister, Merthyr Tydvil.
 Jones, Mr. John, Draper, Llanfyllin.
 Jones, Mr. John H., Great Darkgate Street, Aberystwyth.
 Jones, Rev. John (*Idrisyn*), Vicar of Llandyssilio Gogo, Caerdiganshire.
 Jones, John, Esq., Barrister at Law, Fron Dderw, Bala.
 Jones, John, Esq., Machynllaeth.
 Jones, Rev. John Lloyd, B.A., Curate of Kingsland, Herefordshire.
 Jones, Rev. John, M.A., Rector of Llanaber, Barmouth.
 Jones, Rev. John (*Humilis*), Wesleyan Minister.
 Jones, Rev. John (*Vulcan*), Wesleyan Minister, Liverpool.
 Jones, Mr. John J., Draper, Machynllaeth.
 Jones, Joseph, Esq., Dinorben, St. Asaph.
 Jones, Rev. Joseph, Catholic Priest, Holyhead.
 Jones, Rev. Josiah, Independent Minister, Machynllaeth.
 Jones, Mr. Michael, Shoemaker, Machynllaeth.
 Jones, Rev. O. Wynne, Curate of Holywell.

- Jones, Rev. Owen, Vicar of Pentrevoelas, Denbighshire.
 Jones, Rev. Owen, Vicar of Towyn.
 Jones, Mr. Owen, National School, Llanfair, Montgomeryshire.
 Jones, Mr. Phillip, Grocer, Aberdâr.
 Jones, Mr. R. I., Printer and Publisher, Tremadoc.
 Jones, Rev. Rees, Unitarian Minister, Old Chapel, Aberdâr.
 Jones, Rev. Rhys Gwesyn, Independent Minister, Utica, New York, North America.
 Jones, Rev. Richard, Independent Minister, Llanidloes.
 Jones, Mr. Richard, Grocer, 33, Mill Street, Liverpool.
 Jones, Rev. Robert, M.A., All Saints' Vicarage, Rotherhithe, London.
 Jones, Rev. Robert, Wesleyan Minister, Abergelge.
 Jones, Mr. Robert (*Derfel*), Manchester.
 Jones, Mr. Robert, Printer and Publisher, Bethesda, Bangor.
 Jones, Rev. T. G., Nantylffin, Ystradgynlais, Swansea.
 Jones, Rev. T., B.A., Rector of Llanengan, Pwllheli, Caernarvonshire.
 Jones, The Venerable W. Basil, M.A., Archdeacon of York.
 Jones, Rev. Thomas, Curate of Brynmawr.
 Jones, Rev. Thomas, D.D., Wesleyan Minister, St. David's.
 Jones, Thomas Griffith, Esq., Llansaintffraid, Oswestry.
 Jones, Mr. Thomas H., Painter, Aberystwyth.
 Jones, Mr. Thomas, Chwarel Goch, Llandegai, Bangor.
 Jones, Mr. Thomas, Tanner, Defynog, Brecon.
 Jones, Mr. Thomas, Draper, Chester.
 Jones, Rev. W., Elim, Tredegar.
 Jones, Mr. W., Clerk at Mr. Morgan's Office, Caerdigan, 2 copies.
 Jones, Rev. Wm. the Parsonage, Brymbo, 2 copies.
 Jones, William, Esq., Diocesan Registrar, Bangor.
 Jones, William, Esq., Llwyn y Groes, near Llanbedr.
 Jones, Mr. William, Snowden Street, Portmadoc.
 Joseph, Thomas, Esq., Colliery Proprietor, Tydraw, Pontypridd, Caerdiff.
 Killin, Rev. R., Vicar of Clynnog, Caernarvonshire.
 Leigh, Rev. David, Incumbent of Tredegar.
 Lewis, Rev. D., Curate of Llangunnor, Glamorganshire.
 Lewis, Rev. D., Llangeinwr, near Bridgend.
 Lewis, Rev. David, Wesleyan Minister, Crickhowel.
 Lewis, Edward, Esq., Ballarat, Australia.
 Lewis, Rev. Evan, M.A., Rector of Dolgellau.
 Lewis, Rev. Evan, Minister of Cilgwyn, Caerdiganshire.
 Lewis, Mr. John (*Ioan Mynyw*), Tregaron.
 Lewis, Mr. Richard, Chemist, Bodedern, Anglesea.
 Library, St. David's College, Llanbedr.
 Llangathen, The Schoolmaster of, Caermarthenshire.
 Lloyd, Rev. D., Carneddau, near Oswestry.
 Lloyd, Mr. Edward, 81, Newby Street, Walton Lane, Kirkdale, Liverpool.
 Lloyd, Mr. Edward, Ty'n Twll, near Llanfyllin.
 Lloyd, J. Youde W., Esq., Cloch Faen, Llangurig, Llanidloes.
 Lloyd, Mr. Jchn Wesley, Chemist, Manchester.
 Lloyd, Thos. Lewis, Esq., Nant Gwyllt, Rhaiadr.
 Lloyd, Rev. Morris, Llanelltyd, Dolgellau.
 Lloyd, Rev. W. V., M.A., F.R.G.S., H.M.S. 'Royal Adelaide,' Devonport.
 Mason, Mr. Richard, Printer and Publisher, Tenby.
 Meredith, Rev. Thomas, Amlwch.
 Meredith, Rev. James, B.A., Vicar of Abergelge.
 Mills, Rev. John, F.A.S., 40, Lonsdale Square, Islington, London.
 Mills, Mr. R., Publisher, the Green, Llanidloes.
 Morgan, David, Esq., Merchant, Machynllaeth.
 Morgan, Rev. David, Calvinistic Methodist Minister, Pont Rhyd Fendigaid.
 Morgan, Mr. David, Haulier, Rigos, Glamorgan.
 Morgan, Rev. Ebenezer, Wesleyan Minister, Dolgellau.
 Morgan, Rev. Edward, Calvinistic Methodist Minister, Dyffryn.


- Morgan, Rev. Edward, M.A., Vicar of Syston, Leicestershire.
 Morgan, Edward, Esq., Solicitor, Machynllaeth.
 Morgan, Mr. George, British School, Kidwely, Caermarthenshire.
 Morgan, Henry, Esq., M.A., Nantyglo.
 Morgan, Rev. J. W., Beaufort, near Tredegar.
 Morgan, Mr. John, Aberystwith, Monmouthshire.
 Morgan, Rev. Richard, Wesleyan Minister, Corris.
 Morgan, Rev. Richard, Wesleyan Minister, Barmouth.
 Morris, Mr. Robert, Skipper, Portmadoc.
 Morgan, T. O., Esq., Barrister at Law, Aberystwith.
 Morgan, Rev. Thomas, Wesleyan Minister, Llandeilo.
 Morgan, Rev. William, Wesleyan Minister, Corwen.
 Morgan and Davies, Messrs., proprietors of 'The Welshman,' Caermarthen.
 Morris, E. R., Esq., Manager of the North and South Wales Coal and Lime Company, Welshpool.
 Morris, W., Esq. (*Gwilym Tawe*), Stamp Office, Swansea.
 Nathan, Rev. J. S., Independent Minister, Brynmawr.
 Nicholas, Mr. David, Kidwely, Caermarthenshire.
 Nixon, Mr. James, Bookseller, Bangor.
 Oldfield, J. E., Esq., Ffarm, Abergele.
 Owen, Rev. D., Sarnau, Llandderfel, Corwen.
 Owen, Rev. David, Curate of Neath.
 Owen, Edward, Esq., Catholic College, Birkenhead.
 Owen, Mr. Elias, Llanllechid National Schools, Bangor.
 Owen, Mr. Elijah, Glanogwen National Schools, Bethesda, Bangor.
 Owen, George, Esq., Surgeon, Machynllaeth.
 Owen, Mr. John Hope, Builder, Frankwell Terrace, Llanidloes.
 Owen, Owen, Esq., Merchant, Portmadoc.
 Owen, Mr. Samuel, Bala College.
 Parry, Rev. Henry (*Harri Ddu*), Wesleyan Minister, Llanidloes.
 Parry, Rev. J. A. Peters, Curate of Beaufort.
 Parry, T. D. Love Jones, Esq., M.P., Madryn Park, Pwllheli.
 Parry, Mr. Robert, Joiner, Portmadoc.
 Peters, Rev. John, Bala.
 Peters, Mr., Darowen, Machynllaeth.
 Phillips, Captain, Pantybank, Pembrokeshire.
 Phillips, F. Lloyd, Esq., Hafodneddyn, Caermarthenshire.
 Phillips, J. R., Esq. (*Ab Geraint*), Cilgeran, near Caeridigan.
 Pickering, Rev. John, Baptist Minister, Moriah, near Aberystwith.
 Pierce, Evan, Esq., M.D., Coroner, Denbigh.
 Powell, Colonel W. P. R., Nanteos, Aberystwith.
 Powell, Evan, Esq., Land Agent, St. Mary's Villa, Newtown.
 Price, Mr. Howell, Llanstiffilin, Senny Bridge, Brecon.
 Price, Rev. James, M.A., Incumbent of Nant Ddu, near Merthyr Tydvil.
 Price, Rev. Thomas, M.A., Vicar of Prestatyn, Rhyl.
 Price, William, Esq., Glan Nant y Llan, Llanffwyst, Abergavenny.
 Price, William, Esq., Glantwrch, Swansea Vale.
 Prichard, Rev. John, Vicar of Capel Garmon.
 Prichard Mr. John, 27, Wesley Street, Liverpool.
 Prydderch, Rev. Jenkin M., Llanarth, Caerliganshire.
 Pugh, Rev. John, Vicar of Llanbadarn Fawr.
 Pugh, Rev. Evan, Wesleyan Minister, Holyhead.
 Pugh, Mr. Owen, Shoemaker, Machynllaeth.
 Pughe, John, Esq., F.R.C.S., M.D., Penhelig, Aberdyfi.
 Reece, W. H., Esq., F.S.A., 104, New Street, Birmingham.
 Rees, Mr. David, Watchmaker, Aberaeron.
 Rees, Rev. John, B.A., Llanelli, Caermarthenshire.
 Rees, Rev. John, Wesleyan Minister, Aberdâr.
 Rees, Mr. Philip, Rigos, Glamorgan.
 Rees, Rev. T., D.D., Independent Minister, Swansea, 3 copies.
 Rees, Mr. Thomas, Collier, Rigos, Glamorgan.
 Rees, Mr. W. J., Rigos, Glamorgan.

- Rees, Rev. W., Vicar of Pont Fadog, near Llangollen.
 Rees, Rev. W., Vicar of Bettws, Llanelli, Caermarthenshire.
 Rees, William, Esq., Ton, Llandovery.
 Richards, Rev. E., Wesleyan Minister, Aberystwyth, 3 copies.
 Richards, Mr. Job, Pont Vathew, Machynllaeth.
 Richards, Rev. John, Incumbent of Coed Poeth, near Wrexham.
 Roberts, Rev. A., M.A., 16, Spilman Street, Caermarthen.
 Roberts, Messrs. D., Son and Co., Timber Merchants, Bootle, Liverpool.
 Roberts, Mr. David, Bookseller, Taliesin, Caerdiganshire.
 Roberts, Rev. Edward, Independent Minister, Caernarvon.
 Roberts, Mr. Edward, Ffridd Fedw, near Talsarn, Merioneth.
 Roberts, Rev. Edward, Rector of Banbury.
 Roberts, Rev. G. G., Independent Minister, Cefn Coed y Cymmer, Merthyr Tydvil.
 Roberts, Rev. Herbert, B.A., Curate of Banhadlog, Llandinam.
 Roberts, Mr. James, Joiner, Pont Goch, Aberystwyth.
 Roberts, Rev. John, Curate of Cwmafon, Glamorganshire.
 Roberts, Mr. J. (*Cowlyd*), Trefriw.
 Roberts, Rev. Richard, Vicar of Llanwnog, Montgomeryshire.
 Roberts, Mr. Robert, Maentwrog.
 Roberts, Rev. Samuel, M.A., Editor of 'Y Dydd,' Dolgellau.
 Roberts, Thomas Ffoulkes, Esq., Broomcliff, Llanidloes.
 Roberts, Thomas, Esq., Builder, Rhaiadr.
 Roberts, Rev. W., Independent Minister, Clarach, Aberystwyth.
 Roberts, Rev. William, Calvinistic Methodist Minister, Abergele.
 Rogers, Rev. J. John, Curate of Rhymney, Monmouth.
 Rogers, Mr. James, Grocer, Wrexham.
 Rowland, John, Esq., Surgeon, Strata Florida, Caerdiganshire.
 Rowland, Rev. T., Rector of Pennant Melangell, Montgomeryshire.
 Rowlands, Rev. D., B.A., Independent Minister, Welshpool.
 Rowlands, Rev. Daniel, M.A., Principal of the Normal College, Bangor.
 Rowlands, Rev. James, Rector of Bottwnog, Pwllheli.
 Rowlands, Thomas Hassan, Esq., Llandinorwic, Caernarvon.
 Salisbury, Rev. E. E. Baylee, B.D., Thundersley Rectory, Rayleigh, Essex.
 Salisbury, E. G., Esq., Barrister at Law, Glanaber, Chester.
 Salisbury, P. H., Esq., Glanaber, Chester.
 Sattler, Dr. Ernest, Coburg, Germany.
 Stephens, Thomas, Esq., Merthyr Tydvil.
 Stephens, Mr. Thomas, Bookseller, Aberystwyth, 2 copies.
 Thomas, Rev. D. R., M.A., Cefn Rectory, St. Asaph.
 Thomas, Dr., Ceylon, British India.
 Thomas, Mr. Ellis, Talbot Hotel, Tregaron.
 Thomas, John E., Esq., C.E., F.G.S., Park Street, Westminster.
 Thomas, Mrs., Anchor House, Haverfordwest.
 Thomas, Rev. Owen D., Pendaren, Merthyr Tydvil.
 Thomas, Rev. Thomas, Wesleyan Minister, Corris.
 Thomas, William, Esq., Jesus College, Oxford.
 Tregelles, Dr. S. Prideaux, 6, Portland Square, Plymouth.
 Vaughan, James, Esq., F.R.G.S., Builth, Breconshire.
 Watkins, Mr. E., Auctioneer, Llanfyllin.
 Watkins, Rev. W., M.A., Warden of the Welsh Institution, Llandovery.
 Wilcox, Rev. Henry, Wesleyan Minister, Llanidloes.
 Williams, Mr. B. (*Gwynionydd*), Llangeitho, Caerdiganshire.
 Williams, Rev. D., M.A., Rector of Llanfachraith, near Holyhead.
 Williams, Rev. David, B.D., Vicar of Llanelly, Caermarthenshire.
 Williams, David, Esq., M.P., Castell Deudraeth, Merionethshire.
 Williams, Mr. David, Bookseller, Caerdigan.
 Williams, Rev. Edward, Baptist Minister, Aberystwyth.
 Williams, G., Esq., Glan Nannau, Dolgellau.
 Williams, Rev. H. C. (*Hywel Cernyw*), Baptist Minister, Corwen.
 Williams, Hugh, Esq., Ferryside, Caermarthen.

- Williams, Rev. J. O., Curate of Holywell.
 Williams, John, Esq., 47, St. George Hill, Liverpool.
 Williams, Mr. John, Marine Terrace, Aberystwyth.
 Williams, Rev. John, B.A., Llandrindod, near Bala.
 Williams, Mr. John, 6, Dynevor Place, Swansea.
 Williams, Rev. Lewis (*Lewis Egryn*), Wesleyan Minister, Swansea.
 Williams, Mr. Lewis, Relieving Officer, Machynllaeth.
 Williams, Mr. Lewis, Auctioneer, Dolgellau.
 Williams, Rev. E. Osborne, M.A., Vicar of Pwllheli.
 Williams, Mr. Owen, Farchynys, Barmouth.
 Williams, Mr. Philip, Printer and Publisher, Aberystwyth.
 Williams, Rev. R., M.A., Rector of Llanfaelog, Anglesea.
 Williams, Rev. R. S., Brychgoed, Brconshire.
 Williams, Richard, Esq., Solicitor, Newtown, 2 copies.
 Williams, Rev. Roger, Vicar of Llanedi, Llanelli.
 Williams, Rev. Robert, M.A., Vicar of Llangadwaladr and Rhydycroesau,
 near Oswestry.
 Williams, Robert, Esq. (Whalley and Williams, Glass and Oil Merchants),
 Liverpool.
 Williams, Rev. Rowland, D.D., Vicar of Broadchalke, Salisbury.
 Williams, T. Humphrey, Esq., Llwyn, Dolgellau.
 Williams, Rev. Thomas, B.D., Rector of St. George, Denbighshire.
 Williams, Rev. Thomas, Llanddeusant, Anglesea.
 Williams, Mr. Thomas, Publisher, Stamp Office, Crickhowel.
 Williams, Mr. Thomas, Pant y Ffynnon, Ystumtuen, Caerdiganshire.
 Williams, Rev. W., M.A., Vicar of Llanrhaiadr Mochnant.
 Williams, W., Esq., Bank, Llanbedr.
 Williams, W. R., Esq., Architect, Dolgellau.
 Williams, Mr. W., Flag Inn, Carw Coch, Aberdâr.
 Williams, Mr. William, Pantglas, near Devil's Bridge.
 Williams, Mr. William, Welsh Wesleyan Chapel, Blaenau, Monmouthshire.
 Wynne, Rev. J. H. G., Catholic Priest, Rhyl.
 Wynne, W. W. E., F.S.A., Esq., Peniarth, Towyn, Merioneth.



Announcements.—Hysbysiadau.

 It was intended that the following Series of Announcements should have comprised a much fuller Directory to the Modern Literature of Wales than it does. Had all the Publishers applied to for Announcements accepted the very favourable terms tendered to them, their own trade interests would have been vastly extended.

At some future time, should circumstances permit, John Pryse will Publish a Full and Comprehensive Register of the Modern Book Lore of Cambria. The price of the book will not exceed Six Shillings. Any gentleman wishing to have a copy at that price will please forward his Name and Address to John Pryse, Printer, Llanidloes.

The following are Preparing for Publication, by Subscription, in Neat Crown 8vo. Volumes, strongly bound in cloth:—

I.—A HANDBOOK & DIRECTORY TO THE WATERING PLACES, MINES, AND MANUFACTURING TOWNS OF CENTRAL WALES. In one volume, at 6s. 6d.

II.—THE WELSHMAN'S CANDLE, by the Rev. REES PRITCHARD, formerly Vicar of Llandovery. Translated into English by the Rev. W. EVANS; with an Introduction by "KILSBY." In one volume, at 6s. 6d.

III.—THE WELSH POETICAL WORKS OF THOMAS EDWARDS (TWM O'R NANT). No effort will be spared to render this Edition the most Complete yet Published. In one volume, at 6s. 6d.

IV.—THE WELSH POETICAL WORKS OF DAFYDD AB GWILYM, including the English Biography of the Bard, Published by Dr. WM. OWEN PUGHE and Mr. OWEN JONES, and also such Additions as the researches of one of the most learned Welsh Bards and Scholars now living can make thereto. The Text will be Revised and Collated, with various MSS., by the same gentleman. In two volumes, at 6s. 6d. each.

Orders for any of the above named Works will be Registered by the Publisher, John Pryse, Printer, Llanidloes.

* * A List of Subscribers will be printed at the end of each of the *three* last named Works. Priority of Publication will be given to the Book for which the largest number of Subscribers are sent.

IN PREPARATION,

A

DICTIONARY

OF THE

WELSH LANGUAGE,

COMPILED FROM ORIGINAL SOURCES.

BY THE REV. D. SILVAN EVANS, B.D.

RECTOR OF LLAN YM MAWDDWY, MERIONETHSHIRE;

Author of 'An English and Welsh Dictionary,' Translator of 'The Black Book of Carmarthen,' 'The Book of Aneurin,' etc., etc.

THIS Work, which has engaged the attention of the Editor for many years, will comprise not only all the legitimate words occurring in the printed and manuscript Literature of Wales, from the earliest times to the present, including the ancient Glosses, but also some thousands of genuine, though hitherto unregistered words, orally collected in different parts of the Principality. Each word, in its different significations, will be illustrated by ample quotations from approved sources, and, as far as possible, its earliest appearance in the language will be indicated. The Synonyms will be given in the cognate dialects of the Celtic; and in addition to the proximate origin and relation of a word, its affinities with the classical and other languages belonging to the same family, will be pointed out. Fanciful etymologies and explanations will throughout be diligently avoided.

The incompleteness of all the existing Dictionaries of the Welsh tongue, considerably the most copious, and for centuries past the most cultivated branch of the Celtic, has been long felt and generally deplored, not only by those who speak the language, and employ it as their literary medium, but by philologists and students of Celtic history in Germany, France, and other parts of Europe. The present Work has been undertaken with the view of supplying this deficiency, and materials for its completion are abundant. Besides printed books, and such manuscripts as are publicly accessible, the Editor is enabled, by the courtesy of the present possessor, to avail himself of the magnificent and unrivalled Collection of Welsh Manuscripts preserved at Peniarth, formerly known as the Hengwrt Library.

The undertaking is obviously a most onerous one; and the Editor, while thankfully acknowledging the assistance which he has already received, earnestly invites the co-operation of all Welsh Scholars, and others interested in the advancement of Celtic philology.

'Pan fo neb rhyw Awdur yn amcanu gosod rhyw waith neu lyfr i olwg y byd, yna y bydd pawb o'r a fo â dim syrth ganddo o'r fath bethau ag y bo yr Awdur hwnw yn meddylied eu dangos, yn danfon pawb ei gymhorth a'i athrawiaeth iddo, mal y bo pob peth yn berffaith.'—*Dr. I. D. Rhys.*

THE

SOUTH WALES PRESS,

PRICE 2d., 48 COLUMNS.

PRINTED AND PUBLISHED AT

LLANELLY

EVERY THURSDAY MORNING.

THE **PRESS** HAS A LARGE GENERAL CIRCULATION. IN CARMARTHENSHIRE ESPECIALLY, IT IS FAR MORE WIDELY READ AMONG ALL CLASSES OF THE COMMUNITY, THAN ANY OTHER JOURNAL.

General Printing of Every Description

NEATLY AND EXPEDITIOUSLY EXECUTED AT THE

SOUTH WALES PRESS
OFFICE,

MARKET STREET, LLANELLY.

MACHINE RULING AND BOOKBINDING,

PERFORATING, &c.,

FOR THE TRADE.

OBSERVE THE ADDRESS!

Market Street, Llanelly,

Carmarthenshire.

*Yn awr yn barod, mewn Tair Cyfrol Splyg, yn harddwych mewn lliain,
Pris 24s.,*

GWAITH

Y

PARCH. WALTER DAVIES, A.C.

(GWALLTER MECHAIN).

DAN OLYGIAD Y

PARCH. D. SILVAN EVANS, B.D.

PERIGLOR LLAN YM MAWDDWY, MEIRION.

Y mae y Gyfrol gyntaf yn gynnwysedig gan mwyaf o
Farddoniaeth; yr ail, o Ryddiaith Gymraeg; a'r drydedd, o Ryddiaith
Seisoneg; y cyfan yn gwneuthur 1800 o dudalenau,

CAERFYRDDIN: W. SPURRELL.

LLUNDAIN: SIMPKIN, MARSHALL, A'U CYF.

Anfonir y Gwaith uchod yn rhydd ar dderbyniad tâl, gan W. SPURRELL.

NOW READY, IN 3 VOLS., 8VO., CLOTH, PRICE £1 4s.,

The Works

OF THE LATE

REV. WALTER DAVIES, M.A.

(GWALLTER MECHAIN),

Vicar of Llanrhaidr Mochant, Denbighshire.

COMPRISING THE WHOLE OF HIS POETICAL AND
MISCELLANEOUS PROSE WRITINGS.

EDITED BY THE

REV. D. SILVAN EVANS, B.D.

RECTOR OF LLAN YM MAWDDWY, MERIONETHSHIRE.

CARMARTHEN: W. SPURRELL.

LONDON: SIMPKIN, MARSHALL, AND CO.

The above Work sent free on receipt of payment, by W. SPURRELL.

COFRES O LYFRAU

CYHOEDDEDIG AC AR WERTH

GAN W. MORGAN EVANS,

120, Heol Awst, Caerfyrddin.

Cyhoeddir mewn Rhianau Misol, 6c. yr un,

GEIRIADUR BEIBLAIDD A DUWINYDDOL: yn cynnwys Nodiadau Eglurhaol ar Eiriau, Personau, Cenedloedd, Defodau, Gwyliau, Seremoniau, Gwledydd, Afonydd, Anifeiliaid, Adar, a Phrif Bynciau Athrawiaethol ac Ymarferol yr Ysgrythyrau Sanctaidd; gyda Chrynodeb Hanesyddol a Beirniadol o brif Gyfundraethau, Athrawiaethau, a Sectau hen a diweddar, &c. Gan y Parch. J. JONES (*Mathetes*). Yn cael ei gynnorthwyo gan wahanol Weinidogion a lleygwyr. Y mae Rhan 66 yn awr yn barod, a gorphenir y Gwaith mewn 96 o Ranau, yn gwneyd Tair Cyfrol hardd. Y mae y Llyfr wedi derbyn cymmeradwyaethau lluosog.

“Os oedd rhyw lyfr a mwy o angen am dano na'i gilydd mewn cyssylltiad â chyfenwad y Bedyddwyr, ‘Geiriadur Beiblaidd a Duwinyddol’ oedd hwnw. Hyfryd genym, gan hynny, weled Mathetes, a nifer mor lluosog o frodyr mor alluog, wedi cymmeryd arnynt y gorchwyl pwysig o gyflenwi angen yr enwad yn y peth hwn. Y mae ei gynnwysiad yn dangos ymchwiliaeth fanwl, beirniadaeth dreiddlym, ac eglurder a grym cyfansoddiad tu hwnt i'r cyffredin.”—SEREN GOMER.

Gan fod y Cyhoeddwr wedi cael ar ddeall fod amryw yn bwriadu derbyn y Geiriadur nad ydynt eto wedi rhoddi eu henwau, dymuna hysbysu y cyhoedd, fod yr oll o'r Rhianau i'w cael hyd yn hyn, a gall derbynwyr newyddion eu codi yn fisol, neu fel y byddont yn ewyllysio.

Cyhoeddir yn Rhianau, Swllt yr un,

ESBONIAD Y TEULU: yn cynnwys y testyn awdurdodedig, gyda Chyfeiriadau Cyflawn, yng nghyd a Nodiadau Beirniadol ac Eglurhaol ar Eiriau ac Adnodau dyrus, a Sylwadau buddiol ac ymarferol ar ddiwedd pob Pennod. Gydag amryw gerfluniau eglurhaol. Gan y Parch. THOS. LEWIS, Caerfyrddin; yn cael ei gynnorthwyo gan y Parchedigion E. Roberts, Pontypridd, a J. Rufus Williams, Ystrad.

Gorphenir y gwaith mewn 32 o ranau, swllt yr un.

“Wele gynnyg rhagorol eto at fuddioli y gymdeithas deuluaidd, oblegid Beibl Teuluaidd ydyw yn cael ei fwriadu; ac os ydyw y rhanau oll i fod fel y rhan gyntaf, bydd yn gyffaeliad i Gymru.”—*Diwygiwr*.

“Mae yr Esboniad hwn, i'n tyb ni, yn sier o lanw bwlch yn llenyddiaeth y Cymry. A chymmyd y Rhifyn cyntaf yn siampl deg o'r gwaith, bydd ‘Esboniad y Teulu’ y mwyaf cyflawn a chryno yn yr iaith.”—*Seren Cymru*.

“Un o ddiffygion cyffredinol yn ein hesboniadau ydyw, gormod o ymdroi mewn ffordd athrawiaethol, gyda phethau eglur a dibwys, tra y gadewir pethau a ymddangosant yn aneglur, ac o bwys i'w deall, heb eu cyffwrdd. Y mae yr Esboniad newydd hwn yn hollol rydd oddi wrth yr achwyniad uchod. Y mae yn gynnwysfawr, heb fod yn amleiriog; ac yn gryno ac yn fyddlon, heb fod yn faith. Y mae yr argraff yn brydferth, a'r darluniau yn darawiadol; y mae dosbarthiad y testyn gwreiddiol, cyflead y nodiadau cyfeiriol, a threfniant yr Esboniad, yn dangos chwaeth gelfyddol tra theilwng.”—*Dysgedydd*.

Cyhoeddir yn Rhanau, 3c. yr un,

YR YMHOLYDD; yn cynnwys Gofyniadau ar adnodau y Testament Newydd, at wasanaeth Dosbarthiadau yr Ysgol Sabbothol. Gan y Parch. B. Evans, Castellnedd. Y mae y Bummed Ran yn awr yn barod, a gorphenir y gwaith mewn 14 o Ranau.

Yn cael ei barotoi i'r Wasg,

YR ATEBWR; yn cynnwys Atebion Eglurhaol ac Esboniadol i'r holl Ofyniadau yn yr "Ymholydd." Gorphenir yr ATEBWR mewn 24 o Ranau, 3c. yr un.

Cyhoeddir yn Rhanau, 6c. yr un,

PREGETHAU A CHOFIANT y diweddar Barch. J. ROWE, Abergwaen, dan olygiaeth y Parch. W. Owen, Narberth. Dygir Rhan allan bob mis, a gorphenir y gwaith mewn 12 Rhan. Mae enwogrwydd Mr. Rowe fel ysgrifenydd a phregethwr yn adnabyddus trwy'r Dywysogaeth, a bydd Cyfrol o bigion o'i Bregethau a'i feirniadaeth goethedig yn drysor dihafal i bob dyn o chwaeth.

HANES PRYDAIN FAWR, yn Wladol a Chrefyddol, o amser tiriad y Cymry ym Mhrydain hyd y fl. 1800. Gan y diweddar Barch. TITUS LEWIS. Wedi ychwanegu ato, a'i ddilyn i lawr hyd yr amser presennol. Gan Dr. EMLYN JONES. Pris yn Rhanau, 10s. 6c., mewn llian, 12s., mewn croen dafad, 14s.

"Mae 'Hanes Prydain Fawr,' gan Titus Lewis, yn llyfr da rhagorol. Y gwirionedd yw, ei fod yn hanes da, manwl a helaeth—yn *fultum in parvo* rhagorol i'r Cymry uniaith."—*Yr Haul*.

EGLWYSI CRISTIONOGOL; y Ffurf Anrhydeddusaf o fywyd Cristionogol—yn cynnrychioli Crist ar y ddaear—yn drigle yr Ysbryd Glân. Traethawd Gwobrwyol Dau-can-mlwyddol. Gwobr, hanner can gini. Gan y Parch. Dr. Angus, Coleg Regent's Park, Llundain. Cyfieithedig gan y Parch. J. Rowlands, Cwmafon. Pris 6c.

Y CYFANSODDIAD PRYDEINIG (*The British Constitution*); yn cynnwys Sylwadau Eglurhaol ar Gyfansoddiad a Deddfau Teyrnas Prydain Fawr; gyda Rhaglith ar Gynfrodorion y wlad, yng nghyd a'u Cyfundrefn Grefyddol. Gan y Parch. W. HUGHES, Glan y Môr, Llanelli. Pris, mewn llian, 1s. 6c.

CYNNWYSIAD—Cynfrodorion Ynys Prydain—Eu Cyfundrefn Grefyddol—Y Drefn Wriogaethol (*Feudal System*)—Y Ffaint Ysgrif (*Magna Charta*)—Y Penadur a'r Teulu Breninol—Ty yr Arglwyddi—Ty y Cyffredin—Yr Etholiadau—Sefydliad Lleawl—Y Fyddin a'r Llynges—Deddf Hawliau Gwladwriaethol (*Bill of Rights*)—Corff-Ddygiadeb (*Habeas Corpus*)—Prawf drwy Reithwyr (*Trial by Jury*)—Gweinyddiad Cyfiawnder—Adolygiad ar y Cyfansoddiad Prydeinig, yn ei berthynas â rhyddid gwladol a chrefyddol—Deddfau Cofrestrriad—Ewyllysiau, &c.

COR Y PLANT; yn cynnwys geiriau a thonau newyddion a detholedig, at wasanaeth yr Ysgolion Sabbothol. Y Tonau wedi eu trefnu yn benaf gan y Professor Powell, Joseph Parry (*Pencerdd America*), W. B. Bradbury, G. Rickards, D. Lewis, Llanrhystyd, &c., &c. Gorphenir y gwaith mewn 8 rhan, 3c. yr un.

CHRISTMASIA; neu rai o nodweddau neillduol y diweddar Barch. Christmas Evans. Gan BLEDDYN (*Brutus*). Gyda Rhag-draith Cofianol gan y Parch. T. E. JAMES. Ail argraffiad, wedi ei ddiwygio a'i helaethu. Pris 1s.

CYNNWYSIAD—Rhagdraith—Meddyliau a Barnau y Werin am Christmas Evans—Ei Gorff—Ei Enaid—Ei Egwyddorion—Ei Athrylith—Ei Nodweddiadau Pregethwrol—Natur a Thuedd ei Weinidogaeth—Ei Gyfeillach—Ei Dduw-ioldeb—Ei Lafur—Ei Angeu—Ei Goffadwriaeth—Ei Farwnad—Emynau o'i waith.

Y FRWYDR FAWR DERFYNOL; neu Gwypm Annghrist a Gwawriad yr oes Euraidd. Gan BOANERGES. Pris 6c.

CYNNWYSIAD—Pen. I. Arwyddion yr Amserau. Pen. II. Y Grefydd Babaidd—Braslun Hanesyddol. Pen. III. Cwypm Annghrist. Pen. IV. Yr amser tebygol y cymmer hynny le. Pen. V. Sefyllfa Ddyfodol yr Eglwys, neu yr oes Euraidd. ATTODIAD—Prophwydoliaethau hynod y Cadben Baker am yr hyn a gymmer le am y 13 mlynedd sydd yn dod. 2. Gwahanol farnau am Ail-ddyfodiad Crist.

“Ceir yn y llyfr grynodeb pur gyflawn o hanes Pabyddiaeth, sylwadau ar Brophwydoliaethau Daniel a Ioan, a dysgrifiad dymunol o dymmor gwynfydedig y Milffwyddiant. Y mae Boanerges yn ysgrifenu mewn tymmer pur obeithiol, ac yn amlygu ffydd nerthol yng nghyflawniad addewidion o berthynas i fuddugoliaeth egwyddorion yr Efengyl ar holl gyfeiliornadau y Bwystfil; ac nis gall darlleniad ei lyfr lai na bod yn ddyddorol i bob un sydd yn caru gwirionedd, ac yn ymdrechgar dros ei lwyddiant.”—*Baner ac Amserau Cymru.*

CANIADAETH GREFYDDOL. Gan y Parch. W. Harris, Heol-y-felin. Pris 6c.

CYNNWYSIAD—Sylwadau Rhagarweiniol—Caniadaeth Grefyddol dan yr Hen Destament—Caniadaeth Grefyddol dan y Testament Newydd—Amcan Caniadaeth Grefyddol—Nodweddau ac Hanfodion Caniadaeth Grefyddol—Dyledswyddau tuag at Ganiadaeth Grefyddol—Y Llesiant a'r Daioni deilliedig o Ganiadaeth Grefyddol—Y Oôr Canu—Blaenoriaid Canu, &c.

GRAMADEG CERDDOROL; yng nghyd a Geiriadur cyflawn o ganoedd lawer o Dermau a Brawddegau Cerddorol. Gan Dr. Emlyn Jones. Pris, mewn llian, 2s.

Y CYMMUNDEB EGLWYSIG; neu Swper yr Arglwydd yn ei Natur, ei Dybenion, a'i Deiliaid. Gan y Parch. R. Morgan (*Lleurowg*). Pris 1s.

Cyhoeddir bob Dydd Gwener, pris 1g., drwy y Post 2g,

SEREN CYMRU; Newyddiadur Teuluaidd at wasanaeth Cenedl y Cymry. Cynnwysa Seren Cymru erthyglau arweiniol ar brif bynciau y dydd, traethodau byrion ar destynau dyddorol, yn gystal a chrynodeb o hanesion yr wythnos, yn wladol a chrefyddol. Anfonir 4 copi yn rhad drwy y *post*, a rhoddir y caniatad arferol am ddosbarthu.

LLYFR HYMNAU Y DIWEDDAR BARCH. JOSEPH HARRIS.

PLYG BYCHAN.

	s.	c.
Mewn Croen Llo, gilt edges ...	2	6
„ Croen Llo	2	0
„ Croen Dafad	1	9
„ Llian	1	3

PLYG MAWR.

	s.	c.
Mewn Croen Llo, gilt edges ...	5	6
„ Croen Llo,	4	6
„ Croen Dafad	4	0
„ Skiver	3	6

Rhoddir y seithfed llyfr yn rhad, a thelir y cludiad i bob man.

D.S.—Ar dderbyniad gwerth y llyfrau a orchymynir mewn *Post Order*, neu *Postage Stamps*, anfonir unrhyw lyfr, o werth swllt ac uchod, yn rhad drwy y llythyrdy i unrhyw gyfeiriad.

Cyfeirier—W. M. EVANS, SEREN CYMRU Office, Carmarthen.

GAN PHILIP WILLIAMS,

Argraffydd a Llyfrwerthydd, Aberystwyth.

GEIRIAU Y GROES; sef y Saith Ymadrodd a Lefarodd Ein Gwarddwr wrth Farw. Gan Henry Parry, Gweinidog yr Efengyl. Yn nghyda Rhagymadrodd gan y Parch. T. Phillips, D.D., Goruchwyliwr y Feibl Gymdeithas. Pris 1s.

Y DEONGLYDD BERNIADOL, sef Eglurhad Manwl ar Eiriau, Brawddegau, ac Athrawiaethau Dwyfol y Testament Newydd. Gan y Parch. John Jones, Idrisyn. Pris 13s. 6c. Eto, ar yr Hen Destament. Pris 42s. 6c.

GRAMADEG CYMREIG; neu Draethawd ar Egwyddorion yr Iaith. Gan y Parch. Isaac Jones. Pris 2s.

COFIANT, gyda phigion o Bregethau ac Anerchiadau y diwedd-ar Barch. John Thomas, o Aberteifi. Tan olygiad y Parch. T. Phillips, Henffordd. Pris 1s. 6c.

CANIADAU GAN GWYNIONYDD. Pris 1s.

Y BRYDDEST FUDDUGOL er coffadwriaeth am y Parch. Evan Jones (Ieuan Gwynedd), Parch. Morgan Howells, Parch. Dafydd Rhys Stephen, a'r Parch. John Jones (Tegid). Gan y Parch. W. Ambrose, Porthmadog. Hefyd, Beirniadaeth y Cyfansoddiadau gan y Parch. W. Williams (Caledfryn). Pris 6c.

Y BARDD CRISTIONOGOL; sef Dwy Bryddest, y naill ar "Ddygiad Cristionogaeth i Frydain," a'r llall yn fuddugol ar "Paul o flaen Agrippa;" gyda Rhagdraith. Gan Robert Jones (R. J. Derfel), Manchester. Pris 6c.

CYFARWYDDWR TEULUAIDD; yn cynnwys Traethawd ar Ddyledswyddau Meistri a Meistresi tuag at eu Gweinidogion, a Dyledswyddau Gweinidogion atynt hwythau ac i'w gilydd. Gan y Parch. J. A. James, Birmingham; ac wedi ei gyfieithu gan y l'arch. John Ffoulkes, Llynlleifiad. Pris 6c.

HANES MERCH Y LLAETHWR. Gan y Parch. Leigh Richmond, A.C. Argraffiad a Chyfieithiad diwygiedig; gyda Chofiant byr o'r Awdwr. Pris 6c.

YR ATHRAWYDD, neu Grynhead Ysgrhythrol o amryw bynciau y Grefydd Gristionogol. Gan y Parch. W. Jenkin, swydd Gaerfyrddin. Pris 6c.

Y LLYTHYR-LYFR DWYIETHAWG; neu y Gelfyddyd o Ohebu yn garuaidd a moesgar: yn cynnwys Llythyrau ar Addysg, Cyfeillach, Cariad, Masnach, &c.; Hyfforddiant i ysgrifenu Llythyrau, &c., &c. Pris 1s.

THE ABERYSTWYTH WELSH INTERPRETER, containing an Introduction to the Language; Names of Places, Creatures, Relations, &c.; Familiar Dialogues; and a variety of other useful information. Price 6d.

“THE WELSHMAN,”

ESTABLISHED 1829.

THE BEST ADVERTISING MEDIUM IN SOUTH WALES.

PUBLISHED AT CARMARTHEN

EVERY FRIDAY MORNING.

PRICE 3½d.; STAMPED 4½d.

“THE WELSHMAN” has a larger circulation in South Wales, among the higher and middle classes, than any other paper. In addition to the news of the week, at home and abroad, its columns are enriched with a careful selection from the leading political, literary, and religious papers, on the topics of the day. Both sides of every question are given with fairness and impartiality. A large space is also devoted to practical and scientific agriculture.

“THE WELSHMAN” is, however, pre-eminently a LOCAL NEWS-PAPER. An efficient staff of Reporters ensures full and accurate reports of all public meetings in South Wales. In this department neither expense nor labour are spared to make “THE WELSHMAN” perfect as a reporting medium. The earliest and most reliable intelligence respecting railways, docks, ports, coal, iron, and lead mines, markets, fairs, and other matters of local interest are found in its pages from week to week.

The leading columns of “THE WELSHMAN” are for the most part occupied in the discussion of local subjects, affecting the condition and prospects of South Wales. Its columns are also freely resorted to by correspondents for the ventilation of grievances, the investigation of abuses, and the advocacy of every measure which concerns the prosperity of the country.

The following is the official Return of Stamps issued to the English newspapers in South Wales, ordered, by the House of Commons, to be printed 25th of June, 1868, from which the relative circulation of the various papers may be seen:—

							TOTAL
Cambrian	25,500	26,200	29,000	=	80,000		
Cardiff Guardian	19,500	21,000	16,000	=	56,500		
Cardiff Times	5,500	7,500	9,000	=	22,000		
Carmarthen Journal	20,000	21,000	21,000	=	62,000		
Haverfordwest Telegraph.	13,000	12,746	13,000	=	38,746		
Pembrokeshire Herald	10,974	12,000	12,000	=	34,000		
The Welshman	28,000	36,000	36,000	=	100,000		

This table proves that the circulation of “THE WELSHMAN” during the period embraced in the Return was Twenty Thousand above that of any paper in South Wales. The unstamped circulation bears a fair proportion to the stamped papers.

Orders for “THE WELSHMAN,” Advertisements, and all Communications, should be addressed direct to the head Office, LAMMAS STREET, CARMARTHEN, NOT LATER THAN THURSDAY MORNING.

BOOKS RECENTLY PUBLISHED

AT THE

“Welshman” Steam Printing Office,
CARMARTHEN.

MAY ALSO BE HAD AT THE BOOKSELLERS.

A LIST OF THE SHERIFFS OF CARDIGAN-SHIRE, With elaborate and valuable Notes. By AB GERAINT. This work contains much valuable matter, illustrative of the history of the principal families of the county, and is enriched by numerous pedigrees. Price 3s. 6d.

LEAVES FROM THE JOURNAL OF OUR LIFE IN THE HIGHLANDS. By the authority of Her Majesty the QUEEN, a Welsh translation of this book by the Rev. JOHN JONES (IDRISYN), Vicar of Llandisilio-gogo, Cardiganshire, has just been published in a handsome crown octavo volume, toned paper, beveled edges, cloth gilt. Price 4s.

LLANDILO—PRESENT AND PAST. An illustrated Guide Book to the Ancient Castles and other Antiquities of the neighbourhood; a Sketch of the History of the Annals of the Town, embracing that of the kingdom of Dynevor. By W. SAMUEL. Cr. 8vo., Cloth, 3s.

THE ADVANTAGES OF MILFORD HAVEN, As a Commercial Port of National Importance. By J. C. FOWLER, Esq. Price, 1s. 6d., by Post, 1s. 8d.

THE MARTYRDOM OF BISHOP FERRAR. A Lecture. By R. JENNINGS, Esq. Price, 1s. With Photograph of the Bishop, 2s. The profits to go to the “Ferrar Memorial Fund.”

SOUTH WALES & MONMOUTHSHIRE TRAINING COLLEGE. A Letter to the Lord President of the Committee of Council on Education. By the Rev. CANON REED, M.A., late Principal of the College. Price 1s.

THE

“WELSHMAN”

General Publishing and Steam Printing
Offices,

LAMMAS STREET,

CARMARTHEN.

MORGAN & DAVIES,

THE PROPRIETORS,

Are prepared to undertake the Printing and Publishing of


BOOKS, PAMPHLETS, &c.,

IN

WELSH OR ENGLISH,

In a style which cannot be surpassed out of the Metropolis.

ORDERS PROMPTLY ATTENDED TO.

 ADDRESS:—“WELSHMAN” PRINTING AND PUBLISHING
OFFICE, CARMARTHEN.

SHREWSBURY JOURNAL (EDDOWES'S.)

Established as the Salopian Journal 1794.

PUBLISHED EVERY WEDNESDAY MORNING

BY

JONATHAN DOUGLAS,

AT THE OFFICES,

MARKET SQUARE, SHREWSBURY.

PRICE, STAMPED, 3D.; UNSTAMPED, 2D.


Yearly Subscription, stamped, in advance, 13s.; credit 15s.

Unstamped, do. 8s. 8d.; ,, 10s. 6d.

EDDOWES'S JOURNAL is the only Conservative Newspaper of the Conservative County of Salop, and possesses the largest and most influential circulation of any Newspaper published in that county and the whole Principality of Wales; being supported by the Capitalists, Solicitors, Auctioneers, Merchants, Land Agents, and Traders of those extensive districts, and is consequently the best medium for advertising.

The Commercial and Literary Departments of the paper are under the direction of gentlemen of great experience on the Press; and, with the aid of a large staff of First-class Reporters and Correspondents, Full Reports are given of all Meetings, and other Matters of Public Importance occurring within the District in which EDDOWES'S JOURNAL circulates. The Domestic and Foreign News is carefully condensed, while a liberal infusion of Literary matter, both Original and Selected, makes EDDOWES'S JOURNAL an interesting Miscellany, and Family Newspaper. As a special feature, it may be mentioned that the Agricultural Department of EDDOWES'S JOURNAL is carefully compiled with the view of affording the latest and most reliable information, both as to practical improvements in that branch of National Industry, and as to Prices Current, Prospects, Markets, Fairs, &c.

All Works intended for Review to be directed to the Editor, EDDOWES'S JOURNAL Office, Market Square, Shrewsbury.



**DAVIES & PRIMROSE,
LEITH, N.B.,**

MANUFACTURERS OF THE MOST IMPROVED MACHINERY FOR PRINTERS,
BOOKBINDERS, AND STATIONERS.

**VERTICAL COMBINED
STEAM ENGINES AND BOILERS,**

Having Engine on Standard quite separate from the Boiler. These Engines are made all sizes, from One Horse Power up to Twenty Horse Power, require no brick setting, occupy the smallest possible space, are carefully made by the most improved modern machinery, are moderate in price and economical of fuel.

**HORIZONTAL STEAM ENGINES & BOILERS,
VERTICAL STEAM ENGINES WITH SEPAR-
ATE HORIZONTAL BOILERS.**

**DAVIES & PRIMROSE'S
IMPROVED PRINTING MACHINES**

FOR NEWS, BOOKWORK, AND JOBBING,

Are highly recommended for great accuracy in their construction, perfection and beauty of work produced by them, Register and Distribution of Ink, being all that can be desired.

ALL SIZES FROM CROWN TO NEWS.

DAVIES & PRIMROSE, LEITH, N.B.,

Manufacturers of Fast Anglo French Perfecting Machines, Double Platten Machines, Hydraulic Presses, Screw Presses, Steam Embossing Machines, Printers' Rolling Machines, Paper Cutting Machines, Shafting, &c., &c.

FACTS FOR ADVERTISERS.

THERE are two considerations which every Advertiser should always keep in view. Circulation is the first, though but one, of the two guides to the best advertising newspaper; the character of the circulation is the second, and it is not less important than the first. A newspaper read for its news only is but an indifferent advertising medium; but the newspaper which is "taken in" on account of its great number and variety of advertisements, as well as for its latest copious and reliable news from all parts of the world, at home and abroad, is evidently an advertising medium *par excellence*. For example, the London *Times* is not only regarded for its news, but it is also sought after by all classes of persons for its advertisements of every description. It is, indeed, evident that a man who desires to buy or sell, or let or rent any estate, in fact any real or personal property; to buy or sell live or dead stock, or furniture, or household goods; to let or take any contract, private or public; to give public notice of any event; to address the public on the nature and character of his business; to hire any kind of service, or to find any employment; will naturally have recourse to that newspaper whose large number and variety of advertisements demonstrate its excellence as an advertising medium, while at the same time they are a guarantee of its large circulation.

What the London *Times* is, in these respects, in the great Metropolis, it is respectfully submitted the "HEREFORD TIMES" is, throughout the large and important district of its circulation, comprising the immense population within 100 miles round Hereford, through which large area it is regarded by all classes as

THE GREAT ADVERTISING & FAMILY NEWSPAPER

For the West Midland Counties of England and the whole of the
Principality of Wales.

The Average Weekly Circulation of the Hereford Times is now
10,000 copies!

Advertisers are respectfully requested to note that the above circulation exceeds by FIVE and SIX TIMES that of many of the oldest Journals in the kingdom.

Its circulation is of that sound character, which renders its columns peculiarly eligible as an advertising medium. The *Hereford Times* is not only very generally read in the city and county of Hereford, in Gloucestershire, Worcestershire, Monmouthshire, Staffordshire, Shropshire, Radnorshire, Breconshire, and Glamorganshire, but it has also an extensive circulation throughout England and Wales, being found in

HOTELS AND INNS, EXCHANGE ROOMS, AUCTION MARTS, PUBLIC OFFICES,
COUNTING HOUSES, LIBRARIES, NEWS AND READING ROOMS, RAILWAY
STATIONS, and all other places of Public Resort.

It is read by all classes, embracing the NOBILITY, CLERGY, GENTRY, the PROFESSIONS, and the AGRICULTURAL and COMMERCIAL COMMUNITY; and is, therefore, a most eligible Advertising medium for communicating with the public for

AGRICULTURISTS,
ARCHITECTS,
AUCTIONEERS,
BUILDERS,
CONTRACTORS,
ENGINEERS,
ESTATE AGENTS,
HOTELS,
INSURANCE OFFICES,

MANUFACTURERS,
MERCHANTS,
PARLIAMENTARY AGENTS,
POOR LAW UNIONS,
PUBLISHERS,
PROSPECTUSES,
RAILWAY COMPANIES,
SCHOOLS,

SOLICITORS,
SURVEYORS,
TIMBER MERCHANTS,
TOWN COUNCILS,
TURNPIKE TRUSTS and all other
PUBLIC BODIES,
WHOLESALE & RETAIL VENDORS
WANTS, SITUATIONS, SERVICE,
&c., &c., &c.

THE HEREFORD TIMES is now, on account of its large number of Advertisements, and their multifarious character, regularly referred to *in all parts of the Kingdom* by capitalists and others for information of

Sales of Real and Personal Property by Auction
or Private Contract;
Lettings of every description of Property—
particularly Estates, Farms, Adwosons,
Residencies, Reversions, &c.;
Sales of Live and Dead Stock—especially of
Hereford, Devon, and Short-Horn Cattle,
and Farm Implements;
Great Sheep Sales and Ram Lettings;
Sales of Timber, Coppice, &c.;

Sales of Household Furniture, Books, &c.;
Contracts and Turnpike Trust Lettings;
Parliamentary and other Legal Notices;
Prospectuses and Addresses of Railway, Insu-
rance, and all other companies;
Addresses of Implement Makers, Machinists,
Wholesale and Retail Dealers, Schools, and
Hotels.
Wants for Employment or Service, &c., &c.

The "HEREFORD TIMES" is the Largest and Cheapest Family Newspaper in the United Kingdom. Besides its Special Index to Auctions, it contains a separate index for ready reference to contents. PUBLISHED EVERY SATURDAY, Unstamped, 3½d.; Stamped, 5d.

ESTABLISHED THIRTY-SEVEN YEARS.

TO
LITERARY GENTLEMEN, RELIGIOUS SOCIETIES,
BOOKSELLERS, LIBRARIANS, AND OTHERS.

LEWIS AND SONS,

BOOKBINDERS,

No. 9, GOUGH SQUARE, FLEET STREET,
LONDON,

Respectfully call attention to their annexed List of Prices, which they flatter themselves will be found equally low with any respectable House in the Trade.

L. & SONS desire to return their sincere thanks for favors received during the past Fifty Years; and in soliciting future support, assure those who may honor them with their commands, that they possess facilities for executing every description of work in the best style, with the utmost despatch.

LAW REPORTS BOUND IN BEST STYLE.

CLOTH LETTERED	2/- per Vol.
HALF CALF, CLOTH SIDES	3/6 ,,
WHOLE CALF.....	4/6 ,,

Patterns may be seen.

References given, if required.

LEWIS AND SONS,
WHOLESALE AND RETAIL BOOKBINDERS,
9, GOUGH SQUARE,
FLEET STREET, LONDON, E.C.

TRADE LIST, 1869.	CLOTH lettered	HALF ROAN lettered	HALF-CALF.			WHOLE CALF.				MOROCCO GILT EDGES.	
			Sprinkle Edges		Marb. Edges	Sprinkle Edges.		Marb. Edges	Gilt Edges	Plain	Gilt.
			Lettered.	Tooled.	Extra.	Lettered.	Tooled.	Extra.	Super.		
Size											
Demy 12mo.	1/3	1/4	1/6	1/8	2/	2/6	2/9	3/6	4/6	4/6	5/6
Crown 8vo.	1/4	1/6	1/8	2/	2/6	3/	3/6	4/	5/	5/	6/6
Demy 8vo.	1/6	1/8	2/	2/6	3/	3/6	4/	4/9	6/6	7/	9/6
Royal 8vo.	1/9	2/	2/6	3/	3/6	4/	4/6	5/6	7/6	8/6	10/6
Sup. Roy. 8vo.	2/	2/6	3/	3/3	4/	5/	6/	7/6	9/6	9/6	12/6
Demy 4to.	2/6	3/	3/6	4/	5/6	6/6	7/6	9/6	11/6	12/	16/
Royal 4to.	3/	3/6	4/6	5/6	7/6	8/	9/	13/	15/	16/	20/
Crown folio	4/	5/	6/6	7/6	9/6	10/6	12/6	14/6	17/6	20/	30/
Demy folio	5/	6/	8/	10/	14/	17/	20/	25/	30/	30/	40/

Portfolios to any Size, with Straps and Buckles.

OLD BOOKS REBACKED EQUAL TO REBINDING.

Maps and Plans Lined, Rolled, Coloured, and Varnished.

ACCOUNT BOOK MANUFACTURERS.

CASES MADE, STAMPED, AND LETTERED FOR COUNTRY BINDERS.

*Estimates given for all descriptions of Wholesale Cloth Work
executed in the best style and taste.*

YR AMAETHYDDO CYMREIG :

NEU

LYTHYRAU AT FFERMWYR CYMRU AR EU GALWEDIGAETH.

Pris Chwecheiniog y Rhifyn.

ABERTEIFI: ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd GAN J. R. JAMES, SWYDDFA'R
"HERALD." LLUNDAIN: T. I. LEMARE, IVY-LANE.

TYSTIOLAETHAU Y WASG.

Yn y rhan sydd ger ein bron, sef y gyntaf, traethir ar Wartheg—en cynyrch, eu porthiant, a'n hiechyd,—y Llaethdy—y gwahanol ddulliaa o wneyd caws, yn nghyd ag amryw bethau ereill cysylltiedig a'r ffarm. A barnu oddiwrt h y rhan gyntaf, y mae hwn yn debyg o fod yn llyfr tra defnyddiol i amaethwyr ein gwlad, ac ar y cyfrif hwnw yr ydym yn ei galonog argymhell i'w sylw a'u cefnogaeth.—*Yr Herald Cymraeg*

Yn y llythyrau hyn y mae 'Amaethydd' yn cyfarwyddo yr amaethwyr gyda golwg ar drin tir a magu anifeiliaid. Nid oes yr un gangen wedi ei hesgeuluso yn fwy. Amaethir o oes i oes yn ol yr un heu drefn heb fawr ymholiad i natur y tir, a pha driniaeth sydd yn oreu iddo. Gwnelai dynion ieuainge yn y wlad yn dda iawn i ddarllen ac astudio y llyfr hwn, oblegid cant lawer o addysg ac hyfforddiant ynddo. Gobeithio y caiff y rhan hon dderbyniad, fel ag i gefnogi yr awdwr i ddwyn allan y rhan ddilynol.—*Y Tyst Cymreig.*

Gall Llyfryn fel hwn fod o wasanaeth gwerthfawr i Amaethwyr Cymru wrth drin eu tir, a magu eu hanifeiliaid.—*Y Dydd.*

Nis gwyddom am un galwedigaeth a mwy o angen 'Llawlyfr' i'w chyflawni yn briodol, na'r alwedigaeth amaethyddol; a diau y bydd yn dda gan amaethwyr Cymru gael gafael yn y llyfryn byohan a gwir ddefnyddiol hwn. Yr ydym yn dymuno iddo glychrediad helaeth.—*Cronicle Cymru.*

Nid oes un amheuaeth genym nad all y llythyrau hyn wneyd llawer o les i amaethwyr Cymru. Y maent yn tratod pyngciau ag sydd yn dal perthynas agos ag amgylchiadau pob amaethwr—pyngciau nas gall eu hesgeuluso heb fod 'mewn perygl,' fel y dywed yr awdwr, 'o gael ei wthio o'r neilldu, a'i adael gan ei gymardogion mwy ymoingrar a llygad-agored ar ol gwelliantau yr oes, y rhai sydd yn credu yn ymarferol mai "mewn gwybodaeth y mae nerth." Cynwysant amryw o bethau newyddion yn nghyfech y dull a'r modd i drin llaeth, gwneyd ymenyn, caws, magu gwartheg, defaid, moch, dof-ednod, a chodi gwahanol gnydau, &c.; a gallwn chanegu fod yr amaethwyr goreu yn rhoddi cymeradwyaeth uchel iddynt. Nid oes genym ond gobeithio y cant sylw helaeth, darlleniad manwl, a derbyniad gwresog gan amaethwyr y Dywysogaeth.—*Baner ac Amserau Cymru.*

Dylai pawb ag sydd yn berchen Gwartheg, Ceffylau, Defaid, Moch, a Lef ednod, feddu y Llythyrau hyn. Y maent yn dwyn argraff o ymbrawf helaeth, a chydabyddiaeth ymarferol o bethau perthynol i'r fferm.

Erfynia y Cyhoeddwr yn barchus am gefnogaeth i'r Gwaith gan y rhai hwy a deimlant ddydd-ordeb mewn amaethyddiaeth. Bydd iddo gynwys llawer o hyfforddiant defnyddiol i'r Amaethwr Cymreig, na bu erioed o'r blaen o fewn ei gyrhaedd, yn nghyd a chyflawnder o wybodaeth ymarferol wedi ei chasglu oddiwrt h rai profiadol yn y gelyfddydd

Cyflawnai Tirfeddianwyr wasanaeth eiwgar iddynt eu hunain a'u deiliadon, pe y gwasgarent y Llythyrau hyn yn dda, gan y cyferfydd pob gwasanaethydd amaethyddol ag y mae a tyno a'r fferm, yr anifeiliaid, y cynyrch, &c., a llawer o wybodaeth ac hyfforddiant ynddynt. Cyfranant gryn lawer o wybodaeth werthfawr, ac hyfforddiant ymarferol, i'r morwynion ag y mae gotal y Llaeth, yr ymenyn, y Caws, magu Lloi a Dof-ednod, &c., yn orphwysedig arnynt.

Caiff y neb a roddo ei enw am 12 copi, 2 am ei drafferth, neu 25 o gopiau am 10s. 6c.

Bydded i bawb ag sydd yn dymuno cael y llyfr, anfon ei enw yn ddioid i Swyddfa yr *Herald*, Aberteifi.

NOW PUBLISHING

THE FIRST SERIES OF LETTERS TO WELSH FARMERS ON THE PRACTICE OF THEIR ART,

Price Sixpence each Part.

Every person who possesses Cattle, Horses, Sheep, Pigs, or Poultry, should possess these Letters. They bear the stamp of wide experience and a practical acquaintance with matters belonging to the farm.

The publisher respectfully solicits the patronage of those interested in agriculture generally to the work. It will contain a mass of useful information to Welsh Farmers never before put within their reach, together with a store of practical knowledge gathered from those experienced in the art.

Landlords would do good service to themselves and their tenants by widely diffusing these Letters, as every farm servant having aught to do with the Farm, or Farm Stock, Crop, &c., will find much information and guidance in them. The servant maid having the care of the Milk, Butter, Cheese, Rearing of Calves, Poultry, &c., will find invaluable knowledge and practical instruction in these letters.

Persons subscribing for 12 copies will have 2 copies for their trouble, or 25 copies for 10s. 6d.

Subscribers will please send their names to the Office of the *Herald*, Cardigan.

ANCIENT WELSH POETRY.—Evans's Specimens of the Poetry of the Ancient Welsh Bards is one of the most learned works of its kind. The first edition was published about 100 years ago. The present edition is a careful reprint, with an Essay on the Feudal System by John Jenkins, Esq. A copy will be sent post free for 7s. in stamps.

HIS HONOUR JUDGE JOHNES'S ESSAY ON THE CAUSES WHICH have led to Dissent from the Established Church in the Principality of Wales.—A Reprint of this valuable and erudite volume is now, by the kind permission of the author, in preparation, and copies will be sent free to subscribers, when ready, for 7s.

TWM SHON CATTI (Alias Thomas Jones, Esq., of Tregaron), a Wild Wag of Wales.—A full account of his comical vagaries, by the late T. J. Pritchard, is now publishing, to be completed in 5 parts at 6d. each, the whole of which will be sent to subscribers as they are printed for 35 penny stamps.

PRYSE'S HANDBOOK TO THE BRECONSHIRE & RADNORSHIRE MINERAL SPRINGS. Price, in cloth, 2s. 6d.

PRYSE'S SCRAP BOOK OF CAMBRIAN PROSE AND POETRY.—Post free for 13 penny stamps.

HAMER'S HISTORY OF THE CHARTIST RIOTS AT LLANIDLOES. Post free for 7 penny stamps.

TO ADVERTISERS IN CENTRAL WALES.—John Pryse, Printer, &c., Llanidloes, begs to inform Advertisers that the LLANIDLOES TELEGRAPH AND ADVERTISER, Established in 1859, is Published every Saturday; and the RADNORSHIRE OBSERVER & CENTRAL WALES ADVERTISER, every Wednesday. An interesting selection of Local and Railway Intelligence is given in each Sheet, which are sold at *One Halfpenny each*.

PRYSE'S CATALOGUE OF WELSH BOOKS & WORKS RELATING TO WALES, may be had free per post, by sending a penny stamp to John Pryse, Printer, &c., Llanidloes.

GORCHESTION A CHAMPAU DIFYRUS YR ENWOG TWM SHON CATTI.—I'w gyhoeddi mewn 5 o ranau 6c. yr un. Anfonir yr oll fel y deuant allan yn rhydd trwy'r post, i drigle pob tanysgrifiwr ond anfon 35 o stamps ceiniog at John Pryse, Argraffydd, Llanidloes.

GWELEDIGAETHAU Y BARDD CWSG.—Gan Ellis Wynne, gyda Rhag-draith a Hanes Bywyd yr Awdwr gan David Lewis Pughe a Rhys Gwesyn Jones.—“Mae yn sicr o ddenu y darlennydd mwyaf carbwl, a ymaflo ynddo, i'w ddarllen i'r pen; a phe deuai yr argraffiad hwn yn ffordd amryw a adwaen-om o ysgolheigion penaf Cymru, gwyddom yn dda nad allent oddef y brofedigaeth, er fe allai am y degfed tro, o ddarllen y *Bardd Cwsg* drosto drachefn.”—*Y Traethodydd*. Anfonir y llyfr yn rhad trwy y post am saith o stamps ceiniog ond anfon at John Pryse, Argraffydd, Llanidloes.

ANTHEMAU MILLS (2g. yr un).—“Duw Sydd Noddfa,” a “Ai Gwir Yw.” Anfonir 12 copi am 18 o stamps ceiniog ond anfon at John Pryse, Argraffydd, Llanidloes.

Pris 6c., yn Gymraeg neu yn Saesoneg,

CARU, PRIODI, A BYW.—Gan y Parch. Rhys Gwesyn Jones.—“Dylai ledaenu yn ddegau o filoedd yn mhllith ieuengtyd ein gwlad; ac yn sicr fe fyddai ei darllen a'i hystyried yn fendith i filoedd o briodasau yn ein mysg. Byddai yn anhawdd i chwecheiniog gael ei rhoddi allan i well pwrpas nag i sicrhau meddiant o'r ddarlith hen i deuluoedd ein gwlad yn gyffredinol.”—*Y Traethodydd*. Anfonir copi o'r llyfr yn rhad trwy'r post ond anfon 7 stamp ceiniog i John Pryse, Argraffydd, Llanidloes.

DRYCH Y PRIF OESOEDD (pris mewn lliain 2s. 6d., yn rhad trwy'r post am 33 stamp ceiniog), yn Ddwy Ran. Rhan I. sy'n traethu am hen Ach y Cymry, o ba le y daethant allan; y rhyfeddodau a fu rhyngddynt a'r Rhu-feinwyr, y Brithwyr, a'r Saeson, a'u Moesau cyn troi yn Gristionogion. Rhan II. sy'n traethu am Bregethiad a Chynydd yr Efengyl yn Mhrydain, Athrawiaeth y Brif Eglwys a Moesau y Prif Gristionogion. Gan y Parch. Theophilus Evans. Argraffiad newydd o'r testyn fel y cyhoeddwyd ef gan yr Awdwr, 1740. John Pryse, Argraffydd, Llanidloes.

Anfonir Rhestr Helaeth o Lyfrau ereill ond anfon at John Pryse, Swyddfa'r *Telegraph*, Llanidloes.

